[Hydref 1847] No

Oct. 1847

YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

BETH YW RHYDD-YMOFYNIAD?

DICHON fod rhai yn meddwl bod *anghysondeb*, neu yn hytrach *gormoddedd* yn y gair Rhydd-ymofyniad, yn gymmaint â bod *peb ymofyniad yn rhydd mor belled ag y mae yn myned*: hyny yw, mor belled ag y mae yn cynnwys awydd ac ymdrechiad i gael gwybod y gwir am y peth yr ydys yn ymofyn yn ei gylch. Lle nad oes ddymuniad ac ymdrechiad hefyd i gael gwybod y gwir ynghylch unrhyw beth, braidd gellir dywedyd fod yno un gw[illegible] ymofyniad. Mewn llysoedd barn, er siampl, lle y mae mater i'w bende[illegible] rhwng dwy blaid, yr amcan proffesedig yw, ymofyn â barnu gyd[illegible] ochr mae gwirionedd a chyfiawnder. Hyn sydd yng ngolwg y rhai[illegible] i benderfynu ar y mater, os ydynt yn cyflawni eu swydd yn ia[illegible] *dyben hun* gwrandawant a phwysant yr *evidence* a dd[illegible] o'u bl[illegible] mae yma *ymofyniad am y gwir*. Ond nid felly y mae gyda'r *Cwnse*[illegible] y rhai ydynt yn cael eu cyflogi gan y naill ochr neu'r llall. Y mae y[illegible] *hyn* yn chwilio yn ddigon manol am fan *cryf* yma er cadarnhau achos eu plaid, neu am *wall* draw er gwanhau achos eu gwrthwynebwyr; ond nid yw neb yn ystyried mai ymofyniad *am* y *gwir* yw'r peth sydd ganddynt yn llaw. Eu *business* hwy yw gwneuthur y gorau a allont i gael *verdict* y *Jury* o'u hochr. Y mae achos i ofni mai dyma fel y mae gyda llawer peth a *gyfrifir* yn ymofyniad mewn materion ag sydd yn anghydmarol fwy pwysig. Serch at fudr elw sydd yn gwyro barn rhai. Pleidgarwch neu hunanoldeb, neu yr hyn sydd waeth, y *ddau ynghyd*, sydd yn peri i eraill golli golwg ar y iawn amcan. Pa mor belled y mae hyn yn ddiarwybod iddynt, Duw yn unig a wyr. Ond na farnwn ein gilydd yn hyn. Nis medrwn ni ddarllen calonau ein gilydd. Am hyny gochelwn gyfrif dybenion drwg i'r sawl sydd yn barnu neu yn dysgu yn groes i ni: Eithr "holed pob dyn ef ei hun."

Pa fodd bynag, nid oes un ymofyniad mewn Crefydd neu un peth arall yn deilwng o'r enw, ond ag sydd yn cael ei ddwyn ymlaen gydag amcan i gael allan y gwir. Fe wêl y darllenydd, ynte, mai nid i'r anystyriol ac i'r sawl sydd heb awydd i adnabod y gwirionedd, ac nid ychwaith i'r sawl sy'n cael eu llywodraethu gan serch at elw neu barch bydol, pleidgarwch, hunanoldeb neu ddim arall yn fwy na gwirionedd,—nid i neb o'r cyfryw y'm ni yn cynnyg y rheol o Rydd-ymofyniad. Nid allant hwy mo'i derbyn yn iawn na'i dilyn, hyd nes dysgont wers flaenorol: sef bod y gwirionedd yn angenrheidiol ac yn werthfawr uwchlaw pob peth arall. Y mae annuwioldeb, anystyriaeth, bydoldeb, rhagrith, a'r cyffelyb, yn attal neu yn rhwystro ymofyniad am y gwir: etto, oherwydd y rheswm a roddwyd eisioes nid mewn cyferbyniad â'r pethau hyn yr ymdrechwn ni i osod i fyn

[illegible]wyddor o Rydd[illegible]yniad. "Wel ynte, mewn cyferbyniad *â pheth*?" [illegible]fynir. Ac y mae y [illegible]fyniad yn deg. "Os nad mewn cyferbyniad a [illegible]rthwynebiad i'r pechodau a enwyd ag sydd mor rwystrol i wirionedd [illegible]dedwyddwch, mewn gwrthwynebiad *i ba beth*, attolwg — neu mewn [illegible]erbyniad *â pha beth* y ceisiwch osod i fynu y rheol yma o Rydd-ymofyn-[illegible]? Rhaid i ni gael atteb cyn myned gam ymhellach." Wel, ddarllenydd, [illegible] i ti gymeryd pwyll ti gai ein hatteb yn ddioed. Ond cofia, nad y'm [illegible] ddim yn llefaru dros eraill: ond yn yr ystyr ag y'm *ni* yn deall ac [illegible]n dymuno arferyd y gair Rhydd-ymofyniad, dyma'r peth y mae yn sefyll mewn cyferbyniad iddo: sef, awdurdod dynol. A wyt yn synuu, ddarllenydd?

A chwilio'r byd ac olrain hanes ac arferiadau holl Eglwysi Cred, *ni cheir ond y ddwy egwyddor yma* yn cael eu cynnyg fel *rheol ffydd:* sef Rheswm ac Awdurdod. Dan y naill faner neu'r llall y gwelir yr holl grefyddwyr yn rhestru ynghyd â'u dadleuwyr, yn yr ymdrech dros y ffydd. Nid oes ac nid all fod un man diogel i sefyll arno yn y canol, rhwng y ddwy fyddin wrthwynebol: er y gwelir rhai mor anghyson â hwynt eu hunain â milwrio weithiau dan faner Rheswm: pryd arall dan faner Awdurdod. Cyfeirio yr ydym at y Protestaniaid hyny ag sydd yn sefyll yn daer dros Rydd-ymofyniad ac yn apelio at *Reswm*, yn eu dadl â'r Pabyddion; ond [illegible]*awrthod* ac yn *condemnio* yr apelio yma at Reswm, yn eu dadl â'r Un-[illegible]l. Y mae y dadleuwyr Pabaidd lawer gwaith wedi *edliw* iddynt yr [illegible]ndeb hyn, ac yn ol ein barn ni, yn gyfiawn. Pa fodd bynag, dyma [illegible]i yn deall rhydd-ymofyniad: sef bod i ni ymofyn am y gwir, gan [illegible]n mhedd[illegible] yn *rhydd* oddiwrth afaelion a nyrthoiriau *awdurdod* [illegible]gan bwy bynag yr honir ef: ac o ganlyniad i *arferyd ein rheswm* or [illegible]llan *facts*, a'u cydmaru â'u gilydd, a phenderfynu yn ol argyhoedd-[illegible]u ein deall ein hun.

Ond i'r dyben i egluro y peth ymhellach, ni geisiwn nodi rhai amgylch-iadau o fewn profiad yr Ymofynydd Cristionogol, lle mae Rheswm ac Awdurdod yn dyfod mewn cyferbyniad â'u gilydd. Hyn, o bosibl, a'n galluoga i wahaniaethu yn well rhwng effeithiau y naill a'r llall. Ac yn gyntaf, mewn perthynas â bodoliaeth Duw.—Byddai yn ddrwg iawn genym i gael ein camgymeryd fel pe baem yn annog un ymofyniad ond y sydd yn cael ei ddwyn ymlaen yn ofn Duw. Teimlwn yn ddwys mai "rhaid i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, i gredu *ei fod* a'i fod yn obrwywr i'r sawl sydd yn ei geisio." Os nad oes Duw yn bod, gwaith ofer yw ymofyniad; ond i bob dyn grafangu gymmaint a allo iddo'i hun. Ond *paham* yr ydym yn credu ym modoliaeth y Duw Bendigedig? Pa un ai *Awdurdod* neu *Rheswm* sydd yn ein cymhell i hyny? Credwn y bydd i bob dyn ystyriol i gyd-uno â ni, i gydnabod mai *ar Reswm* ac nid ar un awdurdod yn fwy nâ'u gilydd y mae y gwirionedd mawr hwn yn sylfaenedig. Od oes neb yn haeru mai *awdurdod* sydd i benderfynu hyn, y mae naill ai yn ammeu neu yn gwadu y bod o Dduw. Ddarllenydd, paham yr wyt *ti* yn credu fod Duw? Ai rhag *ofn* ei fod, neu rhag ofn cael dy gospi am beidio â chredu? Os felly, y mae yn llawn bryd i ti ymofyn am ffydd sydd well. "Fy mab, moes i mi dy galon," yw llais doethineb Duw yn llefaru wrthyt. Dy wahodd y mae i weled a deall *fod Duw*, a'i fod yn deilwng o'th gariad. Beth arall y mae yn ei wneuthur yn ei waith yn cyfrannu rheswm i blant dynion i'w cymhwyso i'w adnabod, ac yn taenu profion o'i fodoliaeth yn [illegible]ryfrith ar hyd ei greuadigaeth?—Beth arall, ond agor y ffordd ac annog i

Rydd-ymofyniad? Nid oes un *rhwystr* wedi ei osod ar ffordd yr ymofyniad, nag un attalfa heblaw y sydd yn cyfodi oddiar ammherffeithrwydd a gwendidau dynion :—nac un RHYBYDD wedi ei osod i fynu—*no thoroughfare*—uwchben un o lwybrau hardd y greuadigaeth. Ond un gwahoddiad cyffredinol a didor y sydd, "Deuwch a gwelwch mor ddaionus yw yr Arglwydd, ac mai uniawn yw ei holl ffyrdd ef." Edrychwn oddiamgylch, Pa le mae'r awdurdod i gymhell dynion i gredu trwy dreisio eu mheddyliau? Nis gwelwyd ac nis gwelir mewn arferiad gan neb, ond gan Ormeswyr y ddaear. Ymddengys nad yw Duw ei hun yn arferyd un awdurdod i gymhell ei blant i gredu ynddo,—ond y llais sydd yn llefaru trwy ei weithredoedd a thrwy ei ragluniaethau—ac yn llefaru yn *awdurdodol* wrth *reswm* a *chydwybod* pob dyn ystyriol.

Y mae yn alarus, ac ymron yn arswydus, i feddwl am yr ystrangciau gwrthun a drygionus ag y mae rhai o lywodraethau'r byd wedi eu gwneuthur yn y peth yma. Llywodraeth Ffrainc, er siampl, dan *Robespierre*, a gyhoeddai, "Nad oes un Duw!" Dan lywodraethau eraill gosodwyd dynion i farwolaeth am eu bod yn *gwadu* bodoliaeth Duw! *Servetus* ac eraill a losgwyd am ddal mai "*un* Duw sydd, ac nad oes arall ond Efe!" Llosgwyd un arall ynghylch yr un amser gan lywodraeth a broffesai ryw sêl rhyfedd dros berffeithrwydd eu Trindodiaeth: ac am ba drosedd debygi di, ddarllenydd, y condemniwyd y gwr ganddynt i'r fflamiau? Am ddal fod *tri Duw!* Fel hyn y mae awdurdod dynol, wrth ymyrraeth â materion crefyddol, wedi ymddwyn yn *ffol*, yn *greulon*, ac yn *warthus* i ddynoliaeth. Oddiwrth ystyried, yn y ddwy egwyddor—Rhydd-ymofyniad ac Awdurdod—mewn perthynas â athrawiaeth sylfaenol o *fodoliaeth Duw*, fel yn eu perthynas â gwirioneddau eraill, fe welir yn amlwg mai *nid gwir* yw y cyhuddiad a geir yng ngenau gelynion Rhydd-ymofyniad, sef ei fod yn arwain i *anghrefydd* a *phenrhyddid*, eithr y gwrthwyneb yn hollol.

Y mae amgylchiad arall, a hwnw yn un tra phwysig, lle y mae y ddwy egwyddor a enwyd yn dyfod mewn cyferbyniad â'u gilydd, a lle yr addefir gan yr Orthodox eu hunain mai Rhydd-ymofyniad yw y iawn reol i sefyll wrthi; a hyny yw, er *barnu* a chael boddlonrwydd i'r gydwybod, *Pa un ai o Dduw mae Crefydd y Bibl, ai nade?* Nid oes neb ond yr anwybodus yn meddwl llai nad rheswm sydd i benderfynu yn y peth pwysfawr yma. *Gelynion* Cristionogrwydd yw y sawl sy'n dywedyd mai ar *awdurdod* mae y derbyniad o honi yn ymddibynu. Gwna sŵn gwlad y tro, mae'n debyg, mewn tymor o lonyddwch; ond pan ddelo dydd y profiad, ac ymosodiad anffyddiaeth, rhaid cael rhywbeth yn rhagor na hyny, rhaid bryd hyn gael "*rheswm dros* y gobaith sydd ynom!" Ond i adael heibio yn awr anghredinwyr ac annuwiolion ein gwlad, er ei fod yn anghenrheidiol i gael *rheswm* i argyhoeddi y rhai hyny; a'u dwyn i adnabod ac i ufuddhau i'r gwirionedd,—yr ydys yn anfon cenadau i wledydd tramor i broselytio Mahometaniaid, Iuddewon, a Phaganiaid. A pha sut yr ydys yn disgwyl i ennill y rhai hyn i gofleidio Crist'nogrwydd? Onid trwy ddangos ei rhesymoldeb, a'i rhagoriaeth ar grefyddau eraill? Os nade, y mae llawer o'r gost a'r trafferth tuag at y Cenadaethau Tramor yn myned yn ofer. Dichon mai o ddiffyg rhesymoldeb yn eu hathrawiaethau, y mae mor lleied o lwydd arnynt i ennill Mahometaniaid, Iuddewon, Hindoos, a'r cyffelyb, a bod eu ffrwythau penaf i'w cael ymhlith Barbariaid a Negroes. Pa fodd bynag am hyny, y mae yn eglur, os mynnwn ddwyn anghredinwyr i gofleidio Crist-'nogrwydd, i fod yn rhaid i ni gyfarfod â hwynt ar dir Rhydd-ymofyniad,

a'n hargyfoeddi trwy resymau teg. Y mae y dynion dysgedig a deallus hyny ag sydd wedi ysgrifenu mor rhagorol, ac, yn ol ein barn ni, mor nerthol, dros wirionedd yr ysgrythyrau, yn cydnabod hyn. At *reswm* yr ydys yn apelio yma; ac *nid* at awdurdod.

Ac yn awr, O ddarllenydd Crist'nogol, os ydwyt yn un o'r Orthodox, y mae i ni air â thydi.

Os ydwyt yn addef y pethau blaenorol—ac yr ydwyt *yn rhwym* o addef mai *Rheswm sydd i farnu ynghylch y cwestiynau mwyaf pwysiy a all ymgynnyg i feddwl dyn*: sef bodoliaeth Duw, a gwirionedd ei air dadguddiedig. Oni ddylai fod cywilydd wyneb arnat am dy waith yn difrio rheswm, ac yn ei alw yn rheswm cnawdol, &c.?

Byddi yn barod i esgusodi dy hun, ond odid, ac i ddywedyd "nad wyt ti ddim yn erbyn rheswm yn y mesur lleiaf, ond iddo gadw yn ei le, ac at ei swydd briodol." Attolwg, yn *mha le* y mynnit iddo fod, a *pha swydd* a roddit iddo, ar ol iddo gyflawni erddot y swyddi pwysig a enwyd? A fynnit ti ar ol hyn ei droi ffwrdd, a thithau i fyw, a meddwl, a barnu gyda'r afresymolion? "Ond iddo gadw," meddi, "yn ei le priodol!" *Pa le*, dywed, sydd yn *briodol* i reswm? A gaiff e fod gyda thi fel cyfaill pan fyddot yn darllen ac yn ceisio deall gair dy Dduw? neu yute ei yrru a'i gadw tu faes i'r drws, tra fyddech di a'th afresymoldeb yn trafod geiriau'r nef fel y mynnech, neu yn hytrach fel y mynno rhagfarn? Na ddywed ein bod yn gwneuthur cam â thi. Onid yw dy gydwybod dy hun yn dy gondemnio? Cyffesa'r gwir ar unwaith, fel y dywedodd Archesgob Tillotson am danat ti a'th fath, sef, "nad yw neb yn erbyn rheswm ond pan fyddo rheswm yn ei erbyn yntau."

Y mae rhai ag sy'n proffesu ymwithod â phob awdurdod dynol, etto yn groes i Rydd-ymofyniad, am ei fod, meddant, mor rhyfygus â chyffwrdd â phethau sanctaidd; sef y dirgeledigaethau. Yn awr y mae camsyniad yma. Y peth sydd wedi ei ddadguddio nid yw hwyach yn ddirgelwch, ond gwirionedd dadguddiedig. A'r peth sydd etto yn ddirgelwch, neu tuhwnt i gyrhaedd ein deall a'n gwybodaeth ni, nid yw Rhydd-ymofyniad ddim yn ymyrraeth âg ef, ond yn ei adael lle y mae. Ac onid oes lle i gasglu mai athrawiaethau *afresymol* yw y rhai yma a elwir yn ddirgeledigaethau—y rhai y mae awdurdod dynol yn cymeryd dan ei aden, rhag i reswm a Rhydd-ymofyniad eu dynoethi a dangos eu gwrthuni?

Y mae yr awdurdod yma mewn materion crefyddol yn ymddangos mewn amryw ddull, ac yn cael ei arferyd gan amryw raddau o ddynion, o'r Pabyddion fry, ag sy'n tybied eu bod ar y ffon uwchaf o'r ysgol, i lawr hyd at flaenoriaid *society*, ac athrawon y cyrddau bach.

Gwaith anhyfryd iawn yw adrodd y dichellion, a'r camddarluniadau, a'r *pious frauds* a ddefnyddir gan lawer o grefyddwyr, er attal neu rwystro Rhydd-ymofyniad; y maent yn rhy adnabyddus i'w gwadu, ac y mae eu heffeithiau galarus yn rhy gyffredin ar hyd ein gwlad. Nid oes nemmawr o dynerwch yn cael ei ddangos tuag at "y gorsen ysig, neu'r llin yn mygu." Llawer enaid llaith sydd wedi digalonni, a rhoi i fynu ymofyniad yn lan, gan yr ofn a roddant arno, fod "llew ar y ffordd," neu rhyw berygl a dinystr echrydus arall. Llawer, wrth gael allan eu dichellion, yn cael eu dwyn i feddwl yn fach am grefyddwyr ac am grefydd. Llawer a yrrir i dir anffyddiaeth. Y parch mwyaf a allwn ddangos i grefydd Crist yw, i annog Rhydd-ymofyniad yn ei chylch. Hi a ofyn, ac a haedda, gymmaint a hyn ar ein llaw. Fel pob gwirionedd arall, ac o'r pwys mwyaf, fel y credwn ei

bod, y mae yn ddilys genym mai pa fwyaf a chwiliwn i'w sail ac i'w hathrawiaethau, a pha fwyaf cyflawn y byddo ein gwybodaeth o honi, mwyaf gwerthfawr y bydd yn ein golwg, a'r mwyaf effeithiol tuag at ein hadeiladaeth, a'n cysur, a'n iechydwriaeth.

Un o effeithiau awdurdod ar feddyliau dynion yw, eu bod yn peidio a chwilio neu dderbyn gwirionedd, *rhag ofn ei ganlyniadau.* Ond yr un peth yw gwirionedd a'i ganlyniadau, pa un ai y byddom yn eu derbyn ai peidio. Yr ydym yn cofio darllen yn rhywle am ymddiddan a fu rhwng yr enwog Whiston âg Esgob Smallridge ynghylch pa un oedd y Crist'nogion boreuol yn credu athrawiaeth y Drindod, ai nad oeddent. Whiston a daer gymhellai yr Esgob i fanwl chwilio hanes ac ysgrifeniadau y tri cant cyntaf, ac yna y cai weled nad oeddent. Atteb yr Esgob oedd, "Mr. Whiston, ni feiddia'i ddim chwilio, ni feiddia'i ddim chwilio; pe baem i wneuthur hyny, a chael allan eich bod chwi ar y iawn, yna y mae yr Eglwys wedi bod mewn cyfeiliornad dros mwy na mil o flynyddoedd!" Yn awr gyda phob parch i'r Esgob, beth *pe y caid* trwy y fath chwiliad, (fel y credwn ni y cair,) fod yr Eglwys wedi bod dros gymmaint o amser mewn cyfeiliornad ar y pwngc y cyfeirir atto, beth mae hyny yn ddangos ond ei fod yn llawn bryd iddi ddychwelyd yn ei hol at y gwirionedd, fel ei dysgwyd i'r Crist'nogion cyntaf? Nid oes neb mor ffol, tebygwn, â meddwl bod y gwirionedd ei hun yn cyfnewid gydâ'r gwrthodiad neu'r derbyniad o hono. Tua'r flwyddyn 1615 ysgrifenodd yr enwog Galileo lyfr, yn yr hwn y profai yn anwrthwynebol mai y ddaear sydd yn troi oddiamgylch yr haul, ac nid yr haul oddiamgylch y ddaear, fel o[illegible] y dyb gyffredin yn yr oes honno. Rhoddes hyn dramgwydd i awdurd[illegible]au yr *Inquisition*; condemniwyd yr athrawiaeth newydd fel *heresi* ag oedd yn arwain i ganlyniadau peryglus; cafodd y philosoffydd ei daflu yng ngharchar; ac er mwyn cael ei ryddhâd gorfu arno i dynnu ei air yn ôl, a gwadu o flaen cynnulleidfa gyhoeddus y peth ag oedd wedi ei brofi tuhwnt i amheuaeth yn ei lyfr. Aeth hyny heibio. "Ond dyna," eb efe, "ar ôl y cyfan, y mae'r ddaear yn troi yr un sut." Onid oferedd ac ynfydrwydd yw, i wrthod y peth a brofir ei fod yn *fact* rhag ofn y canlyniadau a *dybiwn* eu bod yn cyfodi oddiwrtho. Os ydynt yn ganlyniadau cywir, y maent hwythau yn *facts* hefyd. Y mae yr *Inquisition* a'i awdurdod wedi myned heibio; nid felly y gwirionedd a brofwyd gan Galileo, sef cylch-droad y ddaear a'r planedau eraill oddiamgylch yr haul. Derbynir ef yn awr yn gyffredin fel un o egwyddorion sylfaenol gwybodaeth, a chanfyddir ei fod nid yn unig yn cymmeryd lle yn ôl y ddeddf fawr a roddes Duw ar ei greuadigaeth, ond hefyd ei fod yn eglurhâd o'r drefn ddoeth a daionus ag sy'n rhoddi cyfnewidiadau dydd a nos, a gwahanol dymmorau y flwyddyn i drigolion y byd.

Nid oes achos i ni ofni yn ein gwaith yn cadw wrth egwyddor dda, er maint y gwrthwynebiad. Y mae diwygwyr yn mhob oes wedi gorfod dioddef gwawd ac enllib. "Onid tydi yw yr hwn sydd yn blino Israel," dywedai Ahab wrth y Proffwyd Elias. "Y rhai sydd yn aflonyddu'r byd a ddaethant yma hefyd," gwaeddai gwrthwynebwyr yr Apostolion. Yn ôl y cyfieithad saesoneg, y cyhuddiad yn eu herbyn oedd, eu bod yn troi y byd wyneb i waered—*upside down.*

Felly y mae llawer yn awr yn gwrthwynebu Rhydd-ymofyniad, ac yn ymswyn wrtho, am ei fod, meddant, yn aflonyddu'r byd crefyddol, ac yn tueddu i ansefydlu meddyliau dynion, os nad yn arwain i amheuaeth ac anghrediniaeth. Ond fe wêl y darllenydd pwyllog mai yr hen gyhuddiad

yw hwn, a ddygwyd gynt yn erbyn proffwydi ac apostolion, ac mai ei wir amcan a'i dueddiad yw, i chwilio am y gwir, a'i werthfawrogi; nid i ansefydlu'r meddwl ymhellach nag sy'n anghenrheidiol tuag at ystyried a "chwilio a ydyw y pethau hyn felly," eithr yn hytrach i roddi gorphwysfa i'r meddwl ar sail gwybodaeth ac argyhoeddiad; nid troi pethau *up side down*, ond eu troi *right side up*, fel dywed y Sais. Nis gellir gwneyd hyn, mae'n debyg, heb gyffroi teimladau anhyfryd—fel mae'r meddyginiaeth yn fynych yn dra gwrthwynebus i deimladau'r claf, ond nid oes help i hyny. Beth os oes rhaid "tynnu allan y llygad dehau, a thorri ymaith y fraich ddehau," er mwyn teyrnas Duw a'i Grist? Beth os rhaid gweled y "coed, gwair. sofl," yn llosgi yn ulw gan dân profedigaeth? Beth am hyny? Onid gwell hwyr na hwyrach? Ond am yr "*aur, arian, a'r meini gwerthfawr*," ni wna'r tân ddim niwed iddynt, ond hwy ddeuant allan o hono yn fwy pur, yn fwy gwerthfawr, yn fwy dysglaer nag erioed.

Medi 7, 1847.

PECHOD GWREIDDIOL.

Parhad o Tudal. 14.

III. Beth wed yr ysgrythyrau am y dyb hon.

Yn gyntaf yr ydym yn cael y fath garacter yn cael ei roddi i Dduw yma ag sydd yn llwyr groes i'r athrawiaeth sydd yn gosod allan ei fod ef yn cospi neb am bechod un arall. Y mae ef yn gyfiawn, doeth, a da; ond nid cyfiawnder, doethineb na daioni fyddai gwneuthur felly. Ein Tad yw; ond pwy dad daearol a gospai ei blentyn ufydd, ei blentyn goreu, o herwydd fod un o'i blant wedi ei droseddu a hyny cyn geni y plentyn ufydd. Does dim tynerwch tadoldeb yn hyn. Na, na, os tad, ni ofyn ddim i'w blant ond yr hyn sydd o fewn cylch eu galluoedd: ac ni wna geryddu un o honynt ond lle byddo cerydd yn anghenrheidiol.

Mae Duw yn yr Ysgrythyrau wedi rhoddi gorchymynion i ddyn *ar ol* y cwymp; yma yr ydym yn cael gwahoddedigaethau tyner, a galwad daer ar ddynolryw i droi oddiwrth eu ffyrdd drygionus; ac y mae'n rhaid fod gallu gan ddyn i wrando ar Dduw. Ond y mae gorchymynion wedi eu rhoddi i ddyn wedi'r cwymp. Y Deg Gorchymyn a roddodd Duw trwy Moses ar fynydd Sinai, *ar ol* y cwymp y cawsant eu rhoddi, ac nid i Adda. Ni chafodd ef ond un gorchymyn, sef peidio bwytta o ffrwyth y pren gwaharddedig. I ni y rhoddwyd y lleill; nid oeddent yn gweddu i Adda. "Na ladd," medd Duw; nid oedd gan Adda neb i ladd ond ei wraig ei hun, nag un tueddiad cyn syrthio i'r cyfryw beth, yn ol y dyb boblogaidd, ac felly nid oedd angen y gorchymyn hwn arno. "Na ledratta," medd Duw; nid wrth Adda yn sicr, gan nad oedd ganddo ddim i ledratta, oni wnai ledratta oddiarno ei hunan. "Na ddwg gam dystiolaeth;" ar bwy, ac wrth bwy y gallasai Adda ddwyn cam dystiolaeth? Nid i Adda, ond i ni, y rhoddodd Duw y gorchymynion; gan hynny, mae'n rhaid fod genym ni allu i'w cadw, onide y mae Duw yn Dduw creulawn ac anhrugarog, yn ormeswr heb ei fâth. Y mae Duw etto yn ein gwahodd i ddychwelyd atto, a gadael ein ffolineb. Trwy'r Prophwyd Esaia y mae'n dywedyd, "Ymolchwch, ymlanhewch, bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi ger bron fy llygaid; peidiwch a gwneuthur

drwg. *Dysgwch* wneuthur daioni: ceisiwch farn, gwnewch uniondeb i'r gorthrymedig, gwnewch farn i'r ymddifad, dadleuwch dros y weddw. Deuwch, yr awr hon ac ymresymwn medd yr Arglwydd." Yn y Salmau y mae'n dywedyd, "Cilia oddiwrth ddrwg a gwna dda, ymgais a thangnefedd a dilyn hi." A thrachefn y mae efe yn dywedyd trwy y Prophwyd, "Trowch eich wynebau attaf fi holl gyrrau'r ddaear, fel eich achuber." Ac y mae ein Harglwydd Iesu Grist yn dywedyd, "Deuwch attaf fi bob un ar sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch." Aml, ïe aml iawn, y cyfarfyddir a gwahoddiadau o'r fath yma yn yr Hen Destament a'r Newydd; ond nid yw'r holl wahoddiadau yma ddim gwell na chellwair â ni os nad oes genym allu i wrando arno, a gwneuthur yr hyn y mae yr Arglwydd yn geisio genym. Ceisio gan yr hwn sydd heb glyniau na thraed ganddo i ddyfod atto ydyw hyn. Pe gwnai Duw roddi gorchymyn i greadur mud lefaru, heb roddi gallu iddo wneuthur hynny, a'i gospi i dragwyddoldeb am beidio gwneuthur hynny, gwelem y chwithigrwydd o hynny; ond nid amgen yw ceisio genym i ymolchi, i ymlanhau, a ninnau yn ein cyflwr naturiol yn llwyr analluog i wneuthur hynny. Nid i'r creaduriaid mudion y rhoddodd Duw ddatguddiad, am nas gallasent wneuthur dim o hono. I ni y rhoddodd ein Tad ef, am fod genym allu i'w ddefnyddio. Gan hynny, nid yw ein cyflwr wrth natur ddim mor wael ag y tybir yn gyffredin ei fod.

Y mae'r modd y mae'r Ysgrythyrau yn darlunio plant bychain etto yn llwyr groes i'r dyb dan sylw.

Y mae Dafydd yn y Salmau yn canu fel hyn am blant, 127. 3, 4, 5, "Wele plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd, ei wobr ef yw ffrwyth y grôth. Fel y mae saethau yn llaw y cadarn; felly y mae plant ieuengctid. Gwyn ei fyd y gwr a lanwodd ei gawell saethau â hwynt: nis gwaradwyddir hwy pan ymddiddanant a'u gelynion yn y porth." Wel, os etifeddiaeth yr Arglwydd ydynt, pa fodd y dywedir etto eu bod yn ddamniol, â nôd y bwystfil ar eu talcenau, a'u holl duedd ar ddrwg? Ai dyma'r fath etifeddiaeth sydd ganddo? Ai'r cyfryw y mae ef yn eu barddel? Ond y mae'r Salmydd ymhellach yn canu fel hyn, 8. 2, "O enau y plant bychain a rhai yn sugno y peraist nerth." Ac y mae ein Harglwydd Iesu Grist yn dyfynu'r geiriau yma gan ddywedyd, "Oni ddarllenasoch chwi erioed, 'O enau plant bychain, a rhai yn sugno y perffeithiaist foliant?'" Beth bynnag a ddaw o enau plant, y mae yn dyfod o'r galon. 'Does dim twyll ynddynt hwy. Os moliant, y mae'n foliant gwirioneddol. Pa fodd y gall hyn fod os ydynt yn cael eu geni i'r byd yn llawn llygredd i gyd? Pwy ffordd y gallasai'r Salmydd a'n Harglwydd Iesu Grist gymmeradwyo'r fath rai a hyn? Y mae ein Harglwydd ym mhellach yn dywedyd, "Gadewch i blant bychain, ac na waharddwch iddynt ddyfod attaf fi; canys eiddo y cyfryw rai yw *teyrnas nefoedd.*" Wel, os yw teyrnas nefoedd yn eiddo iddynt, y mae'n rhaid eu bod yn lân, oherwydd nid â dim *aflan* a halogedig i mewn iddi, medd y Gair. Ond dywedir, i'r dyben i ochelyd hyn, nad yw'r Iesu ddim yn gweud mai eiddo plant bychain yw teyrnas nefoedd, ond mai eiddo'r cyfryw rai a phlant bychain yw hi. Ond twyll ymresymmiad eglur yw hyn; oblegyd, os yw teyrnas nefoedd yn eiddo'r cyfryw rai, y mae hi yn eiddo iddynt hwythau yn sicr. Ond beth, a gawn ni ddeall Crist yn dywedyd wrthym nad yw teyrnas nefoedd ddim yn eiddo plant bychain, oherwydd eu bod yn llygredig wrth natur; ond er bod yn eiddo'r cyfryw rai a hwynt, rhai fel hwythau, ac os fel hwythau, yn llygredig fel hwythau yn sicr. A oes cyssondeb yn hyn? Paham yr oedd Crist yn gweud Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi, ac na waharddwch iddynt? Paham

na ddywedasai gadewch i'r *cyfryw rai* a phlant bychain ddyfod attaf fi, ond gwaharddwch iddynt hwy eu hunain ddyfod. Nid ynt hwy eu hunain ddim yn deilwng, er fod rhai yr un fath a hwynt yn deilwng ddigon. Buasai hyn yn atteb teimladau ei ddysgyblion i'r dim; ond nid felly y gwnaeth. Gweud ynte mae'r Iesu, "Gadewch i blant bychain ddyfod," maent hwy yn deilwng, —ac y mae'n myned ymhellach, gan ddywedyd fod pob un ar sydd o'r un anian a hwynt hefyd yn deilwng. Nid cau plant allan, ond agor y drws i eraill yr un fath a hwynt, i ddyfod atto hefyd, y mae. Eiddo'r cyfryw rai, eiddo plant eu hunain a'r rhai sydd gyffelyb iddynt, y mae ef yn feddwl. I'r dyben i wneuthur hyn yn fwy eglur, dyfynaf rai adnodau lle y mae'r un gair cyfryw, *toioutos*, yn cael ei arfer am y personau a nodir, ac nid rhai tebyg iddynt, neu fel hwynt. Ioan 4. 23, "Ond dyfod y mae'r awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd; canys y *cyfryw* (*toioutos*,) y mae'r Tad yn ceisio i'w addoli ef." Pwy y mae'r Tad yn eu ceisio i'w addoli yma? Y gwir addolwyr, bod sicr. Nage, medd arall, nid y gwir addolwyr y mae'n weud, ond y cyfryw a hwynt; nid y gwir addolwyr eu hunain, ond rhai tebyg iddynt, rhai fel hwynt. Ai teg hyn debygwch chwi? Yn Act. 22, 22, yr ydym yn cael i'r bobl lefaru ynerb yn Paul, gan ddywedyd, "Ymaith a'r *cyfryw* un oddiar y ddaear; canys nid cymmwys ei fod ef yn fyw." Ai am un fel Paul, tebyg i Paul, y mae'r bobl yma yn dywedyd, "Ymaith ag ef," neu am Paul ei hun? Y mae Paul yn ei lythyr at y Gal. 5. 22. 23, yn dywedyd fel hyn, "Eithr ffrwyth yr ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, aeddfwynder, dirwest; yn erbyn y *cyfryw* nid oes deddf." Nid yw Paul yma ddim yn meddwl cau allan y rhinweddau hyn trwy'r gair cyfryw, a gweud bod y ddeddf yn eu herbyn hwy, er nad yw yn erbyn rhinweddau cyffelyb iddynt; nac ydyw. Ond meddwl mae nad oes deddf yn erbyn cariad, llawenydd, tangnefedd, &c., a'r cyffelyb iddynt hefyd. Y mae'r gair cyfryw yn cynnwys y rhain a phob rhinwedd arall sydd debyg iddynt. Yn ei lythyr, 1 Tim. 6. 5, y mae Paul yn dywedyd fel hyn, "Cyndyn ddadleu dynion llygredig eu meddwl, heb fod y gwirionedd ganddynt; yn tybied mai elw yw Duwioldeb: cilia oddiwrth y *cyfryw*;" hynny yw, cilia oddiwrth ddynion o'r fath. Wel, ynte, os yw'r gair cyfryw yn cynnwys y gwir addolwyr a'r cyffelyb iddynt, Paul a'r neb fo debyg iddo, cariad, llawenydd, tangnefedd, &c., a rhinweddau o'r fath, dynion llygredig eu meddwl a phawb fel hwythau, y mae'r gair cyfryw hefyd yn cynnwys plant, a'r rhai fo gyffelyb iddynt, yng ngeiriau Crist: ac os yw teyrnas nefoedd yn eiddo iddynt, nid ydynt cynddrwg ag y mynn y byd eu bod. Yr ydym yn cael etto i'r Iesu alw atto fachgenyn, ac ai gosododd ynghanol ei ddisgyblion, ac a ddywedodd "Yn wir y dywedaf i chwi, oddieithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd." Ac y mae Paul yn dywedyd mewn perffaith gyssondeb a'i Athraw, "Na fyddwch fechgyn mewn deall, eithr mewn drygioni byddwch *blant*." A ydym i ddeall wrth yr ymadroddion hyn fod Crist a'i ddisgybl am i ni fod yn aflan o'r gwadn i'r coryn cyn y gallom etifeddu'r deyrnas? Na, na, nid yw ein Hathraw anwyl ddim am ein twyllo yn y dyll hwn, na'i wàs ffyddlon am ein harwain i ddinystr fel yma. Felly nis gwyddent hwy am y llwgr natur a sonir am dano, onide nis gallasent siarad felly am blant; eithr pan oeddent am wleua am danynt, yr oeddent yn meddwl yr hyn oeddent yn weud. Felly dysgwn ynte i edrych ar blant bychain fel y dysg ein Harglwydd i ni wneuthur, fel cynllun o burdeb a

diniweidrwydd i'w efelychu, ac nid fel clamp (*mass*,) o lygredigaeth ac aflendid i'w gashau a'i ochelyd.

Y mae plant, plant bychain yn eiriau arferedig yn Natguddiad Duw i osod allan anwyldeb neilldduol. Y mae y geiriau yma yn cael eu harfer am ddysgyblion ac am Gristnogion yn y Testament Newydd, ac yn yr Hen Destament am dduwiolion y rhai sy'n caru Duw. Ond y mae'r term yn llwyr anmhriodol i'w arfer am ddynion da, dynion wedi cael eu hennill i'r ffydd, os ydynt yn llawn aflendid. Ni wn i ddim am un ffigur ymadrodd a ddyoddef hyn. Er hyny y mae geiriau o'r fath yn cael eu harfer yn fynych yn yr ysgrythyrau. Y mae ein Harglwydd Iesu Grist ychydig cyn ei ymadawiad a'i ddysgyblion yn eu hanerch yn y modd mwyaf tyner gan ddywedyd "*O blant bychain*," etto yr wyf ennyd fechan gyda chwi." Y mae Paul hefyd yn arfer y gair hwn am y dysgyblion yn Galatia. "Fy mhlant bychain, ebe efe, y rhai yr wyf yn eu hesgor drachefn, hyd oni ffurfier Crist ynnoch." Y mae Ioan, cyfaill anwyl yr Iesu, yn arfer yr un dull o ymadroddi pan yn dywedyd, "Fy *mhlant bychain*, y pethau hyn yr wyf yn eu hysgrifennu attoch, fel na phechoch." A thrachefn "chwychwi ydych o *Dduw, blant* bychain, ac a'u gorchfygasoch hwy; oblegid mwy yw yr hwn sydd ynoch chwi na'r hwn sydd yn y byd." Ac y mae'n diweddu ei lythyr cyntaf trwy arfer yr un ymadrodd, "Y plant bychain, ebe fe, ymgedwch oddiwrth eilunod. Amen." A ydyw yn beth rhesymol i feddwl y buasai Crist a'i Apostolion i arfer geiriau ag sydd yn cynnwys yn eu hystyr bob llygredd, aflendid a phechod heb ddim ond hynny, a'u cymmwyso i rai ag oedd yn anwyl ganddynt, ie i rai medd Ioan, oeddent o Dduw! Nac ydyw. O bob ymadrodd yn y byd, ni wnaethent ddefnydd o hwn, os yr un meddwl oedd iddo yn eu hamser hwy ag sydd yn cael ei roddi iddo yn awr. Wel ynte, yn lle fod yr ymadrodd "plant bychain" yn arwyddocau pob aflendid, y mae yn un ag sydd yn gosod allan bob diniweidrwydd a phurdeb; ac am hynny y mae'r Iesu a'i Apostolion yn ei gymmwyso i rai oedd yn anwyl, ie, yn anwyl *iawn* ganddynt. Ymhellach etto dywedir yn yr ysgrythyrau fod yn rhaid geni *dynion* drachefn: ond nid oes un man yn cynnwys yr awgrym lleiaf fod yn rhaid geni *plant* drachefn. Mae'r Iesu yn gwend fod yn rhaid i'w ddysgyblion gael eu troi a'u gwneuthur fel plant bychain. Ac wrth Nicodemus y mae'n dywedyd "yn wir, yn wir, meddaf i ti, oddieithr *geni* dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw" Yr oedd yr enedigaeth gyntaf wedi cael ei llygru, yr oedd yn rhaid ei nhewid, yr oedd yn rhaid ei eni o'r newydd: Ond nid oes yma un gair am eni plant drachefn; er ar y dyb gyffredin, fod cymmaint o eisiau geni y rhai'n drachefn a'r penaf o bechaduriaid. Y mae'r gair geni hefyd, yn dangos yr un peth ag a ddywedodd yr Iesu wrth ei ddysgyblion, fod yn rhaid iddynt gael eu gwneuthur fel plant bychain; neu fod yn rhaid iddynt ail ddyfod yn blant etto; onide nas gallent fod yn deilwng o hono ef. A ydyw hi ddim yn eglur ynte nad oedd yr Iesu yn gwybod dim am yr athrawiaeth o lwgr natur? Ymhellach etto, nid oes gymmaint ag un gair wedi deilliaw o enau'r Iesu ag sydd a'r tueddiad lleiaf ynddo i ddysgu'r dyb dan sylw. Mae hanes bywyd Crist wedi cael ei ysgrifenu gan bedwar o wahanol ddynion, ond nid yw un o honynt yn rhoddi'r *hint* leiaf ini feddwl ei fod ef erioed wedi dysgu'r athrawiaeth hon; er iddo gael cyfle teg unwaith, o leiaf, i wneuthur hynny; pan y gofynnodd ei ddysgyblion iddo am y dyn dall o'i enedigaeth. "Pun a hwn a bechodd neu ei rieni, fel y ganesid ef yn ddall?" Dyma gyfle teg i'r Iesu i ddwyn llwgr natur i mewn, ie, cyfle ag

oedd yn ei rwymo i wneuthur hynny os y gwyddai am dano. Ond beth yw'r atteb? Wel dyma fe, "Nid hwn a bechodd na'i rieni chwaith; *eithr*, beth yw'r *eithr* yma? eithr Adda fe allai; oblegid dysg y byd, na fuasai neb yn cael ei eni'n ddall, yn fud na byddar oni bai i Adda droseddu; ac ni fuasai dim dioddefaint o un math na marwolaeth oni bai hyn? Nage, nid dyna gynwysiad fy *eithr* i medd Crist ond yn llwyr i'r gwrthwyneb, eithr fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef." Os yw'r athrawiaeth dan sylw yn athrawiaeth sylfaenol crefydd, pa fodd y darfu'r Iesu esgeuluso son am dani ar achlysur o'r fath hyn yn enwedig? Am na wyddai *ddim* am dani; o herwydd nis gallasai yr hwn ni chafwyd twyll yn ei enau ddarnguddio dim o'r gwir. Dywedodd yr Iesu wrth ei ddysgyblion, "Eithr mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion, oblegid pob peth a glywais i gan fy Nhad, a hysbysais i chwi." A chan na ddywedodd yr Iesu ddim un gair am bechod gwreiddiol, y mae'n rhaid na wyddai ef ddim am dano, oblegid ni chafwyd twyll yn ei enau. Ac os na ddysgodd yr Iesu'r athrawiaeth hon, gweddus yw i'w ganlynwyr fod yn ddistaw am dani.

Sylwn ymhellach etto, fod yr ysgrythyrau yn llefaru yn bendant yn erbyn y dyb o bechod cyfrifol. Y mae'r bennod o'r hon y cymmerais fy *motto* yn ddigon o brawf o hyn. "Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw." Ond am yr hwn a wel bechodau ei dad ac a'u gâd, gan wneuthur barnau'r Arglwydd a chadw ei ddeddfau. "Hwnw ni bydd farw am anwiredd ei dad" a thrachefn, "Y mab ni ddwg anwiredd ei dad, a'r tad ni ddwg anwiredd y mab; cyfiawnder y cyfiawn fydd arno ef, a drygioni'r drygionus fydd arno yntau." Mae geiriau tebyg i'r rhai'n yn Deuteronomium 24. 16, "Na rodder i farwolaeth dadau dros blant, ac na rodder plant i farw dros dadau; pob un a roddir i farwolaeth am ei bechod ei hun." Ym mhrophwydoliaeth Jeremi y mae'r Arglwydd yn dywedyd, "Yn y dyddiau hyny ni ddywedant mwyach," Y tadau a fwyttasant rawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae dincod. Ond pob un a fydd marw yn ei anwiredd ei *hun*: pob un ar a fwyttao rawnwin surion ar ei ddannedd EF y bydd dincod. Ac y mae Solomon yn y Diarhebion yn dywedyd, "Y neb a gyfiawnhao'r drygionus, ac a gondemnio'r gwirion; ffiaidd gan yr Arglwydd ydynt ill dau." Geiriau yw y rhain nas gellir eu camddeall; ac y maent yn llawn cywirdeb a chyfiawnder.

Y mae'r modd y mae'r ysgrythyrau yn son am ddynion hefyd yn gwrthwynebu'r dyb o lwgr natur. Yr ydym yn cael yma am y ddau gyntaf a ddaeth o lwynau Adda, fod un o honynt yn dda a'r llall yn ddrwg: Gen. 4. 4. "A'r Arglwydd a edrychodd ar Abel ac ar ei offrwm," 4. 6, 7. Ac a ddywedodd wrth Cain, paham y llidiaist? A phaham y syrthiodd dy wynebpryd? Os da y *gwnai* oni chai oruchafiaeth, ac oni *wnai* yn dda, pechod a orwedd wrth dy ddrws." Dyma un yn cael ei gymmeradwyo a'r llall ei anghymmeradwyo gan Dduw. Paham na fuasai llwgr natur yn peri i Abel fod cynddrwg a'i frawd? A phaham y mae Duw yn dywedyd wrth Cain, "oni *wnai* yn dda pechod a orwedd wrth dy ddrws?" Yr oedd pechod wrth ei ddrws o'r blaen, pechod ei dad, er nas gallasai oddiwrtho. Ond y mae yn amlwg oddiwrth lais Duw nad oedd pechod neb i wneuthur dim niweid i Cain ond ei bechod ei hun. Ar ol hyn yr ydym yn cael i Enoch rodio gyda Duw: fod Noah yn wr cyfiawn, *perffaith* yn ei oes, gyda Duw y rhodiodd Noah. Rhwng y diluw a chyhoeddiad y gyfraith yr ymddangosodd Abraham, yr hwn y mae Duw ei hun yn alw'n gyfaill iddo. Yr ydym yn darllen hefyd am Isaac, gweddi yr hwn a wrandawyd; ac am Job yr hwn oedd *berffaith* ac yn

uniawn, yn ofni Duw ac yn cilio oddiwrth ddrygioni. Ac hyd yn oed yn nyddiau Ahab yr eulunaddolwr, yr oedd saith mil na phlygasant eu gluniau i Baal; ac yn y dyddiau olaf, yr oedd rhai nad aethant allan o'r deml, ond yn gwasanaethu Duw mewn ymprydiau a gweddiau. Ac yr oedd yn trigo yn Jerusalem, wyr bucheddol o *bob* cenedl dan y nef. A dywedodd ein Harglwydd am Nathanael, "Wele Israeliaid yn *wir* yn yr hwn *nid oes twyll.* Y gofyniad yw, o ble y daeth yr holl dduwiolion hyn os yw natur dyn mor llygredig fel nas gall na meddwl na gwneuthur dim da? Efallai yr attebir, mai dynion wedi cael gras oeddynt. Ond ni wna hyn y tro, nid yn unig am eu bod yn cymmeryd yn ganiattaol yr hyn ddylent brofi ond yr ydym yn darllen ymhellach yn llyfr y Barnwyr, 13. 5, Canys Nazaread i Dduw fydd y bachgen o'r groth. Os felly yr oedd yn Nazaread i Dduw, cyn iddo gael grâs yn sicr, ïe pan yn ol y dyb gyffredin yr oedd heb ddim ond pechod yn perthyn iddo, ïe pan oedd dan felldith ei Dduw, yr oedd ar y pryd hyny yn Nazaread i Dduw. Y mae'r profion uchod yn dangos fod y byd ymhob oes yn debyg i'r hyn ydyw yn awr; rhai yn dda a rhai yn ddrwg.

(I'W BARHAU.)

SYLWADAU AR YR ATHRAWIAETH O IAWN I GYFIAWNDER.

MR. YMOFYNYDD.—Cyn trafod canlyniadau 'r athrawiaeth yn mhellach, caniataed y darllenydd i mi wneyd sylw o ychydig o adnodau yn yr Hen Destament a feddylir eu bod yn dysgu Iawn i Gyfiawnder. Oni bai fod pregethwyr Trindodaidd yn cyfeirio attynt yn wastad fel profion diammheuol, ac wedi dysgu eraill i'w dynwared, ni fyddai achos i mi wneyd sylw o honynt, oblegid gŵyr dysgedigion—a dysgedigion Trindodaidd hefyd—nad oes dim yn ystyr yr adnodau ag sydd yn debyg i'r fath beth. Y mae traethawd Dr. Jenkyn, o Coward College, ar yr Iawn, yn cael cymmeradwyaeth mawr gan y rhan fwyaf o'r Anymddibynwyr, a sectau Orthodoxaidd eraill, ac nid yw ef yn dyfynu un rhyw adnod neillduol fel prawf fod yr Ysgrythyrau yn dysgu Iawn i gyfiawnder ond Rhuf. 3, 25. ac nid yw 'n beiddio dyweyd fod hon yn dysgu'r athrawiaeth yn ddiammheuol. Na fydded i'r darllenydd fy nghamddeall i; nid wyf yn dyweyd nad yw Dr. J. yn cyfeirio at lawer o adnodau yma a thraw ar hyd ei lyfr, ond yr wyf yn dyweyd nad yw yn cyfeirio hyd yn ôd at un adnod fel prawf diammheuol fod y Bibl yn dysgu 'r athrawiaeth. Dylasai wneyd hyn, oblegid dyma 'r cwestiwn. Os na ellir profi o'r Ysgrythyrau fod y llywodraeth ddwyfol yn gofyn iawn, ofer yw siarad am *helaethrwydd* yr Iawn, a hyn a'r llall. Fel hyn y dywed Dr. J. yn tudal. 9 o'i waith ar yr Iawn—y man lle dylasai dd'od a phrofion Ysgrythyrol, os oes y fath brofion i'w cael—*That the atonement is a doctrine of the word of God is evident from the facts—that it suggests itself to every unprejudiced reader of the New Testament,—that in the churches which used the original texts only, it was never deemed a heresy,—and that one end of the modern opponents of it, in constructing an "Improved version of the New Testament," was to exclude it.* Yn awr, os oes adnodau yn yr Hen Destament neu'r Newydd yn dysgu fod y llywodraeth ddwyfol yn gofyn Iawn, paham na buasai Dr. J. yn dyweyd "*is evident from the following passages of Scriptures,*" yn lle "*from the facts.*" Ond Dr. J. nid oes dim tystiolaeth o'r fath i'w gael, ac y mae yn dra thebyg y gwyddoch chwi hyny o'r goreu. Y mae rhesymau

cada n i ammeu 'r *facts* yma hefyd, ond ni gadawn hwynt ar hyn o dro, oblegid byddem yn myned allan o'r pwnc.

Y canlynol yw un o'r adnodau y cyfeirir atynt i brofi Iawn i Gyfiawnder: *Yna*, medd Job, *efe a drugarha wrtho, ac a ddywed gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd: myfi a gefais iawn.* 33, 24. Ond nid oes yma ddim mwy o gyfeiriad at Grist nag sydd at Solomon neu'r Apostol Paul; nac ychwaith at y ffaith fod y Llywodraeth ddwyfol yn gofyn iawn nag sydd at athrawiaeth y Drindod. Elihu sydd yn llafaru wrth Job, ac yn dyweyd fod gwahanol ffyrdd gan Dduw i arwain dyn i edifeirwch a gwelliant buchedd:—trwy freuddwyd neu weledigaeth nos,—trwy gystudd neu ofid ar ei wely,—a thrwy ladmerydd neu genadwr yn cynghori neu'n eiriol. Y mae'r gair gwreiddiol yn yr adnod, sef *malac melitz* mor ddealladwy i ddarllenwyr cyffredin ag yw y gair lladmerydd neu gyfieithydd, yr hwn nid yw chwaith yn air priodol yn y fan hon; dylasai gael ei gyfieithu *cenadwr yn eiriol* neu yn cynghori rhyw un. Dyma yw ystyr yr adnod—*A Duw a drugarha wrth ddyn* ar ol iddo ddychwelyd i lwybr ei ddyledswydd, ac a ddywed *wrth y malac melitz*, Gollwng *ef yn rhydd o'i gystudd*, rhag disgyn o hono i'r clawdd neu'r bedd: myfi a gefais Iawn, (*copher*,) neu myfi a gefais allan ffordd neu foddion i waredu'r dyn o'i gyflwr colledig, sef cynghorion y cenadwr, clefyd, a gweledigaeth nos. Nid oes yma ddim cyfeiriad at Iawn i ofynion cyfiawnder.

Etto dyma adnod arall a ddyfynir at yr un perwyl:—*Yr Arglwydd sydd foddlon er mwyn ei gyfiawnder, efe a fawrha'r gyfraith, ac a'i gwna yn anrhydeddus*, Isai. 42, 21. Hyn yw ystyr yr adnod—Yr Arglwydd sydd foddlon *i geryddu plant Israel* er mwyn ei gyfiawnder, *neu gyfiawnder o'i addewidion idd eu teidau*: efe a fawrha'r gyfraith, *sef cyfraith Moses*, ac a'i gwna yn anrhydeddus, *am ei bod yn rhagfynegu* (*Deut.* 28) *y drwg a fyddai iddynt os nad ufyddhaent i orchymynion yr Arglwydd.* Cyfeiriad sydd yma at gaethiwed Babilon, ac nid at iawn i'r llywodraeth ddwyfol gan Grist na neb arall.

Y mae cofleidwyr yr athrawiaeth hon yn gosod pwys mawr ar Esai. 53. Yn wir, mae rhai yn meddwl fod y bennod hon yn sefydlu'r pwnc tuhwnt i ammheuaeth: ond gadewch i ni gael gweled beth yw meddwl y prophwyd. Y mae yn dra ammheus pwy sydd i'w feddwl wrth y "gwr gofidus a chynnefin a dolur." Meddylia rhai o'r Rabbiniaid mai at eu *cenedl* hwynt mae'r prophwyd yn cyfeirio, a'i fod yn dechreu'r bennod trwy ddychymygu'r cenhedloedd yn ymddiddan a'u gilydd, ac yn dyweyd,—*Pe clywsem o enau eraill y pethau ag ydym yn weled, nis credasem: oblegid y'mhlith pwy erioed y datguddiwyd mawredd cyffelyb i'r hwn ydym yn ganfod y'mhlith y genedl Iuddewig.* Ond nid yw'r rhesymau dros yr Esboniad hwn o werth sylw. Mae eraill yn meddwl mai Jeremiah y prophwyd yw'r "gwr gofidus a chynnefin a dolur." Y'mhlith y rhai o'r farn hyn mae'r enwog Grotius. Ei resymau ef, fel y gellid dysgwyl, ydynt yn dra chadarn dros y meddwl hwn—efallai yn gadarnach na rhai Calovius dros yr un cyffredin. Cofied y darllenydd, nad yw gwr mor ddysgedig, mor alluog, ac mor byddysc yn yr Ysgrythyrau ag oedd Grotius, ddim yn dywyll i'r ffaith fod yr Efangylwyr a'r Apostol Paul yn cymhwyso rhanau o'r bennod hon at Grist. Y mae ef yn dal, am fod llawer o bethau yn mywyd a marwolaeth Crist yn bur debyg i Jeremiah, fod y prophwyd yn rhwym, wrth ddesgrifio'r olaf, o ddyweyd rhyw bethau ag fyddai yn hollol gymhwys i Grist. Fe wyddys fod yn arfer gan ysgrifenwyr y Testament Newydd i gymhwyso ymadroddion at bersonau ac

amgylchiadau heb fod eu meddwl cyntefig yn cyfeirio at yr hyn y cymhwysir hwynt gan y dyfynwyr. Ond y meddwl cyffredin yw fod y brophwydoliaeth hon yn cyfeirio at Grist a neb arall. Yn awr, nid wyf fi yn cymmeryd arna'i i farnu p'un sydd gywir, ond a chymmeryd y meddwl cyffredin yn ganiataol fel yn wir, ac mai Crist yw "y gwr gofidus a chynnefin a dolur," yr wyf fi yn beiddio dyweyd, ac yn meddwl dangos, heb ofni esgymmundod y Pab mawr o Rufain, anffaeledigion Eglwys Loegr, na Phabau bach y sectau, nad oes dim mwy o nodded i'r athrawiaeth o iawn yn y bennod hon, nag y sydd i'r Drindod, a hyny yw dim.

1. Yn awr, gadewch i ni ddodi Ysgrythyr i esbonio Ysgrythyr, peth ddylid wneyd yn wastad pryd y gellir. Fe ddarllenir yn Matt. 8, 16, 17. fel hyn—"Ac wedi ei hwyrhau hi, hwy a ddygasant atto lawer o rai cythreulig; ac efe a fwriodd allan yr Ysbrydion a'i air, ac a iachaodd yr holl gleifion; fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy Esaias y prophwyd, gan ddywedyd, Efe a gymmerodd ein gwendid ni, ac a ddug ein clefydau." Gofynaf Ai rhesymol meddwl fod yr Iachawdwr wrth iachau clefydau yn cymmeryd y clefydau hyny arno ei hun? Nac yw ddim, medd pawb. Wel, onid peth yr un mor wrthun yw credu i'r Iesu, er mwyn iachau dynion o'u clefydau ysbrydol, beru cyfrif yr holl glefydau iddo ei hun? Mae rhyw dywyllwch im i y'nglyn â'r gair *cyfrif* neu *impute* mewn cyssylltiad a iawn i gyfiawnder; nid yw dysgawdwyr Orthodoxy ddim wedi gweled bod yn dda i roddi *definition* o hono, byddai yn fyddiol iddynt wneyd hyny, os nad yw'n ddirgelwch na ellir ei ddirnad. Ond beth bynag, A allai'r Iachawdwr ddim *dwyn pechodau* heb eu cymmeryd hwynt arno ei hun yr un modd ag y mae Mathew yn dyweyd ei fod yn dwyn clefydau heb eu cymmeryd i'w gorff ei hun, sef trwy eu gwella? Gallai, bid sicr, ac yr wyf yn beiddio dyweyd, pe bai yn ddichonadwy *cyfrif* neu *imputo* (ta beth sydd i feddwl wrth hyny) pechodau'r holl fyd i Grist, na fyddai'r byd ddim nes o hyny i gael gwared o honynt, neu i ymadel a hwynt, neu i fod yn rhydd o'r gosp. Y mae'n rhaid i'r enaid a becho i ddyoddef y gosp; nis gall arall ddioddef yn ei le. Haera'r Orthodox na allasai Duw ddim yn gyson ag urddas ei lywodraeth drosglwyddo bendithion yr Efengyl i'r byd cyhyd ag oedd y gyfraith yn gofyn pechaduriaid; dywedant fod Crist wedi ateb gofynion y gyfraith, ac wedi symmyd y rhwystr oedd ar y ffordd. Yr oedd dyn wedi troseddu y gyfraith, ac yr oedd y gyfraith yn gofyn cospi y troseddwr. Yn awr, yn ol yr athrawiaeth uchod y mae yn canlyn fod Crist naill ai wedi dioddef y gosp ag oedd yn ddyledus i bechaduriaid, neu yntau *sham work* oedd y cyfan, ac y mae'r un *claims* gan y gyfraith yn awr ar bechaduriaid ag oedd cyn i Grist farw. Ond yr wyf fi yn rhoddi hèr i'r holl fyd i brofi y gallasai Crist, na neb arall ddioddef y gosp ag sydd yn ddyledus i arall: cyn y gallasai hyn gymmeryd lle yr oedd yn rhaid fod Crist a'r dyn ag oedd ef yn dioddef trosto, fod yr un dyn; a cyn y gallasai ddioddef dros bechodau'r byd, neu holl drigolion y byd, mae'n rhaid fod Crist yr un dyn a phob dyn a fu yn y byd, ac sydd yn y byd, ac a ddaw i'r byd; yr hyn beth sydd yn amhosibl ac yn wrthyn ynddo ei hun. Os oes yr un *claims* gan y gyfraith yn awr ag oedd cyn i Grist ddioddef, y mae'n canlyn nad gwir yw'r haeriad na allasai Duw faddeu yn unol ag urddas ei lywodraeth heb iawn, oblegid y mae bendithion yr Efengyl yn y byd, ac y mae Duw yn maddeu i ddynion ar eu hedifeirwch.

2. Dysgeidiaeth yr Iachawdwr, sef yr Efengyl, a'i ymddygiad moesol trwy ei fywyd, ac yn ei farwolaeth sydd yn gwaredu dynion oddiwrth eu

pechodau, medd y Testament Newydd. Y mae yn rhoddi i ni iawn adnabyddiaeth o'n Tad Nefol, o ddibenion ein bod, ac y mae yn dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni. Y ddysgeidiaeth werthfawr hon ag sydd yn Ysbryd ag yn fywyd sydd yn *dwyn pechod* trwy ei symmyd o'r galon, a thrwy greu anian newydd o'n mewn. Yn wir, nid alla' i lai na rhyfeddu fod dynion yn myned i'r Bennod hon am brofion tros yr iawn Trindodaidd; oblegid mae yn ymddangos i mi na allasai'r prophwyd ddim llefaru'n gadarnach yn ei erbyn, hyd yn ôd pe buasai wedi cael rhagolwg ar lygredigaethau y grefydd Grist'nogol a hon yn eu plith. "Fy ngwas cyfiawn," medd efe yn ad. 10, "a gyfiawnha lawer," trwy beth? Ai trwy fod yn iawn yn eu lle hwynt? Nage ddim. Trwy beth yntau? "TRWY EI WYBODAETH."

3. Etto mae'r Testament Newydd yn dangos mai gelyniaeth yr Iuddewon at yr Iachawdwr oedd yr achos iddynt ei ladd. Beth oedd achos eu gelyniaeth hwynt? Eu syniadau anianol am y Messiah: eu rhagfarn yn erbyn yr Iesu fel Mab Joseph a Mair, ac yn erbyn ei ddysgeidiaeth yr hon oedd yn taro ergyd marwol ar wraidd bydol les yr offeiriaid, ac orthodoxy y Phariseaid.* Am mai'r Iesu oedd y Messiah y dioddefodd lawer o achos prinder lluniaeth, o achos teithiau hirion o fan i fan mewn *climat* brwd, o achos treulio llawer nos mewn cyfrinach a'i Dad Nefol tan y ffurfafen serenog, lle mae'r gwlith yn disgyn yn drwm ar ol poethiant y dydd, o achos llafur diwyd a pharhaus, o achos rhagfarn a phechodau ei genedl; ac am mai efe oedd y Messiah y ca'dd ei osod i farwolaeth. Yr oedd ei ddioddefaint wedi bod cymaint fel mae'r hanes yn dywedyd ei fod yn rhy wan i gario pren y groes; yr oedd cyfansoddiad ei waed wedi gwaethu i'r fath radd fel y daeth allan ddwr yn gymmysc a gwaed yn ol y biccell.† I ba ddiben yr aeth yr Iachawdwr drwy'r holl galedi hyn? Onid i orphen y gwaith ag oedd Duw wedi appwyntio, sef pregethu'r Efengyl, yr hon sydd yn cymmodi'r byd a Duw trwy ladd pechod? Am hyny mae priodoldeb mawr yn iaith y prophwyd, nid oes dim ynddi ag sydd yn dywyll ac nas gall y deall cyffredin i'w ddirnad:—"Cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef," "a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni." Y mae'n arfer gan ysgrifenwyr y Bibl, ac eraill i osod yr effaith yn lle'r achos a'r achos yn lle'r effaith pryd y byddo priodoldeb yn gofyn; ac y mae'r prophwyd yn gwneyd defnydd o'r ffigwr yn y Bennod hon.

4. Y mae yn briodol dyweyd fod un yn dwyn pechodau'r llall, pan y byddo yn dioddef effeithiau ymddygiad dyn tan ddylanwadau pechod, nis gall neb ammeu nad oedd Iesu yn dwyn pechodau'r Iuddewon yn yr ystyr hyn.‡

---

* Y mae tymmer orthodoxy y Drindod yn agos iawn yr un peth y dydd heddyw; pwy bynnag a anturio i ddyweyd dim yn ei herbyn, os na chaiff ei losgi,—ac nid oes amser mawr wedi myned heibio oddiar y pryd y cawsai ei *roastio* wrth dan araf,—caiff ei erlid yn ddidrugaredd gan yr anffaeledigion, a phabau bach y sectau. Gobeithio bod yr amser yn dynhesu pryd daw dynion i ddeall crefydd Crist yn well nac y maent etto.

† Wrth feddwl am fywyd llafurus yr Iesu yn y gwaith mawr o wellhau cyflyrau naturiol, moesol, ac ysbrydol dynolryw, nid allaf lai na chanfod y *contrast* sydd rhyngddo a bywydau moethus a segurllyd ambell i dordyn o bregethwr diymdrech yn ngwaith yr Efengyl, neu o offeiriadyn yn pesgu ar bedwar neu bump cant o bunnau, heb fod eneidiau ei blwyfolion yn fymryn gwell oddiwrtho. Nid oddiar un teimlad drwg yr ydwyf yn dweyd hyn: mi wn i fod llawer iawn o ddynion cydwybodol a llafurus iawn yn mhlith pregethwyr ac offeiriaid, ond y mae gormod o'r fath arall.

‡ Y mae Grotius o'r farn mai hyn yw meddwl y geiriau *chete rabbim nasa*, neu efe a ddygodd bechodau llaweroedd; y mae yn eu harall eirio fel hyn—*Pessime tractatus fuit (Jeremiah) per multorum improbitatem*: neu, Efe a gafodd ei drin yn wael gan ddryg-

Yn awr cymered y darllenydd y Bibl, darllened y bennod yn fanwl ac ystyriol, a chymhwysed atti yr egwyddorion uchod, ac ni bydd dim anhawsdra i ddeall meddwl y fath ymadroddion a "dryllio am ein hanwireddau ni," "Ni a'i cyfrifasom ef wedi ei daro gan Dduw." &c. &c. ac nid oes gennyf fawr ammheuaeth na fydd yn rhyfeddu yn mhen ychydig amser pa'm na ddeallasai feddwl y prophwyd yn gynt.

Y mae dwy adnod etto yn Zechariah ag sydd raid sylwi arnynt am fod pleidwyr yr athrawiaeth hon yn cyfeirio attynt yn fynych fel profion dros eu pwnc. Y cyntaf yw Zec. 6, 13. y rhan olaf o'r adnod—*A chyngor hedd* FYDD *rhyngddynt ill dau.* Dywedir mai cyfeiriad sydd yma at ryw gynghor borau a *gymmerodd* le rhwng Personau'r Drindod draw yn nhragwyddoldeb pryd y lluniwyd dyfais yr achub. Nis gwn i ddim sut mae'r pregethwyr wedi dod i wybod am y fath gyfrinach, oblegid mi allaf fi wneyd fy llw nad oes dim son am dano yn y Bibl. Os oes cyfeiriad at gyfrinach foreu'r Drindod yn yr adnod hon, yr oedd un o aelodau'r llys yn absennol. Yr oeddwn i yn wastad yn meddwl lle byddai un o'r personau y byddai'r ddau arall gerllaw, oblegid fod y tri yn yr un hanfod, medd y credoau. Ond i b'le yr oedd y trydydd wedi myned yn awr pryd y dyl'sai fod gartref ar achlysur mor bwysig? A all y rhai sydd yn berchen ar hanes y llys ddim rhoddi gwybod i ni? A ddylasai ef ddim bod gartref yn dyst i weled yr Ail Berson yn dodi ei law wrth y *fond?** A fuasai ddim yn adeiladaeth iddo glywed yr ymddiddan difyr canlynol fu yn y cwrt? 1. "Pwy a à trosom ni i wlad y ddaiar? 2. Wele fi, anfon fi. 1. Ië, ti gai dy gernodio yno. 2. Wele fi, anfon fi. 1. Ië, ti gai dy goroni a drain. 2. Wele fi, anfon fi. 1. Ië, ti gai dy ladd. 2. Wele fi, anfon fi. 1 A weli di y gyfraith draw yn Eden a chleddyf llym dau finiog cyfiawnder yn ei llaw? 2. Wele fi, anfon fi. Nid wy'i'n prisio dim am ddioddefiadau, ond i mi gael merch yr hen Amoriad yn rhydd, a chael y plant adre' yn iach. 1. Sut y rhoi di wybod iddynt dy fod yn dyfod i ymweled a'u byd? 2. Mi ddanfonaf y tôl o fy mlaen." Dyma engraifft o natur yr ymddiddan gymmerodd le yn y cynghor, medd rhai o'r pregethwyr mwyaf campus am hwyl dda. Mi feutraf ddyweyd nad yw y fath philoreg a'r un uchod ddim i'w gael mewn unrhyw lyfr, nac i'w glywed mewn un man ond yn mhwlpidau'r Trindodiaid. Y peth mwyaf tebyg iddo sydd i'w weled yn y chweched bennod o Isaiah: ond nid hanes cyfrinach y Drindod sydd yno. Mae Duw yn gofyn i Isaiah mewn gweledigaeth, pwy a âi yn gennad at y genedl luddewig, ac y mae'r prophwyd yn atteb ac yn dyweyd, Wele fi, anfon fi.†

---

ioni llaweroedd. Esgusoded y darllenydd ambell i air yn awr ac yn y man mewn ieithoedd dyeithr, onide sut y gwybydd dynion fy mod yn deall unrhyw iaith ond iaith fy mam? Byddai yn gwilydd mawr i mi wybod dim ond un iaith pan y mae brygawthau mewn ieithoedd dyeithr yn beth ag sydd yn d'od i'r ffasiwn yn awr mewn rhai llefydd yn Nghymru, hyd yn ôd mewn addoliadau, a hyny gan wrageddos na feddyliodd neb erioed eu bod hwy yn gwybod dim ond gwau hosanau a siarad Cymraeg; ond y mae yno ddynion yn siwr yn cyfieithu, a hyny sydd dda.

* Fe ddeall y darllenydd mae *irony*, neu wawdiaith, yw hon; ac fe ddyweed rhai, mi wrantaf, mai dyn cellwerus ydwyf: ond beth sydd i wneyd a dynion ag sydd yn cymeryd y fath ryddid i gamddarlunio'r Gair Dwyfol, ac i ddyweyd pethau mor ddisynwyr a rhyfygus am y Duw mawr, uwchben dynion er mwyn cael hwyl, fel y dywedant? Y mae llawer o'r dynion hyn yn rhy bendew i gymmeryd eu perswadio gan reswm; yna nid oes dim i wneyd ond atteb y ffol yn ol ei ffolineb; beied y sawl a fyddo yn dewis.

† P'odd mae dynion o gydwybod i gam-ddarlunio'r Gair Dwyfol cymmaint? Y gwyr ag sydd yn fwyaf parod i frygawthan y fath ffregod sydd yn achwyn fwyaf fod rhai dynion yn gwadu rhanau o'r Bibl. P'un gwaeth yw gwadu rhyw ychydig o adnodau o

Hyn yw meddwl yr adnod yn Zecharia. Y Blaguryn yw Zorobabel fab Salathiel 3, 8. 4, 6. 7, 10. 6, 12. a'r *ddau* yw Josuah fab Josedech, a Zorobabel fab Salathiel y rhai a adeilasant yr ail deml. Y *cynghor hedd* oedd yr undeb heddychol ac ymdrechol oedd rhyngddynt i gario'r gwaith yn mlaen, sef ty'r Arglwydd. Nid oes yma ddim sail i'r peth a elwir y *cynghor boreu.*

Yr adnod arall yw'r 13, 7. *Deffro gleddyf yn erbyn y gwr sydd gyfaill i mi; medd Arglwydd y lluoedd: taro y bugail, a'r praidd a wasgerir; a dychwelaf fy llaw ar y rhai bychain.* Y mae dysgedigion yn amrywio mewn barn y'nghylch pwy yw y *bugail* a'r *gwr sydd gyfaill i mi.* Tybia rhai mai efe yw Iesu Grist; eraill mai barnwyr Judah sydd i'w ddeall; ac eraill mai Judas Maccabeus. Yn mhlith y rhai o'r farn olaf mae Grotius: a phwy bynnag a gymmer y drafferth i fyfyrio'r broffwydoliaeth o'r dechreu i'r diwedd yn fanwl, a wel, dybygwn i, fod y prophwyd yn rhagfynegu y dygwyddiadau a gymmerent le o amser dychweliad yr Iuddewon o Babylon hyd ddinystr yr ail deml. *O Bacchides gwas Demetrius brenhin Syria*; fel pe dywedasai'r Arglwydd, *taro a'r cleddyf Judas Maccabeus, y gwr sydd gyfaill i mi, ac yn amddiffynwr praidd Juda,* 10, 3. *a'r praidd a wasgerir.* Nid oes gennyf fi ddim ammheuaeth nad hyn yw meddwl y prophwyd. Ond a chymeryd yn ganiataol mae Crist sydd i'w ddeall yma, pa gyssylltiad fyddau rhwng hyny a iawn i gyfiawnder. A ddywed y prophwyd "Taro y gwr sydd gyfaill i mi er mwyn atteb gofynion fy llywodraeth? Mae'n rhaid myned i ryw fan arall i gael profion dros yr athrawiaeth heb i'r fan hon etto.

Yn awr, ddarllenydd, mi a'th adawaf y tro hwn rhag ofn i mi flino'th amynedd ormod. Y tro nesaf ni gawn drafod natur a thuedd yr athrawiaeth, ac yna ni awn i'r Testament Newydd i gael gweled beth yw iawn yr Ysgrythyr, a dibenion marwolaeth Crist. Atteb y gofyniadau canlynol, os gelli.

1. Ai nid gwir nad yw'r fath air a Iawn i gyfiawnder i'w gael yn yr Ysgrythyrau?

2. Ai nid gwir nad yw'r Ysgrythyrau yn son dim am haeddiant Crist?

3. Ai nid gwir nad yw'r Ysgrythyrau yn son dim am *ymddiried yn aberth Crist, ymddiried yn ngwaed Crist, ymddiried yn marwolaeth Crist?*

4. Ai nid gwir mai camgyfiaethad yw Eph. 4, 32. lle y dywedir fod Duw yn maddeu *er mwyn Crist.* Ai nid *yn Nghrist* y dyleu fod fel y mae ar ymyl y ddalen?

5. Pe dywedid yn y Bibl fod Duw yn maddeu pechod er mwyn Crist a fyddai yn canlyn o anghenrheidrwydd fod Duw yn maddeu gyda golwg neu er mwyn Iawn i gyfiawnder?

PHILO.

---

awdurdod ammheus—adnodau ag y mae y dysgedig Drindodwr Griesbach, wedi eu gadael allan; a llawer yn mhlith Trindodiaid dysgedig yn y wlad hon wedi canlyn ei siampl; yn eu plith mae Campbell a Williams gyda'r Bedyddwyr. P'un gwaeth yw gwadu'r adnodau hyn; neu gam-ddarlunio mwy nag un rhan o dri o'r Bibl? Nid oes dim rhyfedd fod cymmaint o ddeistiaid yn y wlad; rhyfeddu wyf fi na fyddai mwy. Pwy ddynion ond *scum* anwybodaeth allai gredu mai crefydd y Bibl yw math yr ymddiddan, meddant, a gymerodd le yn y cynghor; ac nid yw hwn ond un engraifft o lawer o'r ffolinebau a ddywedir yn nghylch y diafol, pen Calfaria, a llawer o bethau eraill rhy faith i'w henwi. Cofied y darllenydd mai pell iawn wyf o gyhuddo pawb o'r pregethwyr Trindodaid o ffolinebau a cham-ddarluniadau o fath yr un uchod; mi wn i fod rhai dynion cydwybodol, dysgedig, a llafurus yn eu plith, dynion ag y mae yn dda gan fy enaid

J. JONES, O ABERDAR, AR YR ADOLYGIAD O'I BREGETH YN Y "GOLYGYDD."

Parhad o Tudalen, 19.

Yn y Golygydd am Chwefror, dymuna Mr. Jones arfer y geiriau gwahaniaethad, neu amrywiad, yn lle person. O'r goreu: yna y Tad yw y gwahaniaethad cyntaf, a'r Mab yw yr ail, a'r Ysbryd Glan yw y trydydd gwahaniaethad yn y Drindod. Gwahaniaethad rhwng un peth a'r llall yw y peth sydd gan y naill, *nad yw* gan y llall; ac nid y peth sydd yr un peth ym mhob un o honynt. Felly y peth sydd yn natur y Tad, nad yw yn natur y Mab, na'r Ysbryd, yw gwahaniaethad y Tad; a'r peth sydd yn natur y Mab, nad yw yn natur y Tad, na'r Ysbryd yw gwahaniaethad y Mab; a'r hyn sydd yn natur yr Ysbryd Glan, nad yw yn perthyn i'r Tad, na'r Mab, yw ei wahaniaethad yntau. Beth yw hyn? Un peth sydd yn y Tad, nad yw yn y Mab, na'r Ysbryd yw, Mae wedi cospi'r da, am ddrwg y carulofryddion, a'r archladron; ac yn eu derbyn i'r Nef. Mae y Mab yn maddeu heb *anfeidrol Iawn*, ac yn dioddef i'r Tad i fwrw ei *uwydau drwg* ar ei ben ef. Mae yr Ysbryd heb un maddeuant i neb, ar *un tilerau*; ond wedi'n nid hawdd ei anfoddloni ef. Nid yw ef yn prisio llewyn fod dynion yn *lladd*,—yn ladratta,—yn godinebu, &c., ond iddynt beidio dywedyd "*cabl eiriau*," am dano ef. Y tri hyn debygwn yw y tri gwahaniaethad sydd yn gwneyd i fynu y Drindod. Awn yn awr a'r eglurhad uchod, o Ysbryd Glan y Drindod, a wnaeth y diwynydd dysgedig o Rydybont, at eiriau ein Harglwydd Iesu Grist yn Mat. xii. 31, 32, y rhai ydynt fel hyn. "Am hyny y dywedaf wrthych chwi. Pob pechod a chabledd a faddeuir i ddynion; ond cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glan ni faddeuir i ddynion. A phwy bynnag a ddywedo air yn erbyn Mab y dyn, fe a faddeuir iddo; ond pwy bynnag a ddywedo yn erbyn yr Ysbryd Glan, nis maddeuir iddo, nac yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw." Yna fel hyn y mae deall ein Harglwydd, a phwy bynnag a ddywedo air yn erbyn Mab y dyn, sef yr "unig wir Duw," sef yr "un gwir Dduw," a'r Ysbryd Glan, fe a faddeuir iddo: ond pwy bynnag a ddywedo air yn erbyn yr Ysbryd Glan, sef y gwahaniaethad na fadden byth, sef yr un Duw a'r Mab, sef yr "unig Dduw," nis maddeuir iddo. "Ond" meddai Mr. Jones, Golygydd, tudalen 55. "Y Mab debygem ni oedd yn unig yn bresenol, ond rhaid wrth yr ymadrodd hwn fod yr Ysbryd Glan yn bresennol hefyd." Felly ynte! Y Mab "sef yr unig Dduw," sef yr un Duw a'r Tad, sef yr un Duw a'r Ysbryd Glan hefyd, debygai Mr. Jones, "oedd yn unig yn bresennol, ond rhaid wrth yr ymadrodd hwn, fod yr Ysbryd Glan, sef y trydydd gwahaniaethad yn bresennol hefyd." Hyny yw yn ol goleuni Rhydybont, fod yr unig Dduw, sef y Tad, sef yr Ysbryd Glan, yn bresennol gyda y Mab, sef yr un unig Dduw, &c. Etto tebygai Mr. Jones mai y Mab yn unig oedd yn bresennol, ac fod yr Ysbryd Glan, a'r Tad, ryw le draw, sef mai yr unig Dduw oedd yn bresennol, tra yr oedd y Tad sef yr "un Duw," yn absennol. Mae yn eglur mai bod lleol rywbeth bach yn fwy na "gwenyn meirch" yw Duw Mr. Jones. Ym mha

---

am danynt. Gobeithio y cyfodant eu llais yn erbyn pregethwyr diddysc ac anwybodus, ag nad gwaeth ganddynt beth ddywedont yn y pwlpit i gael hwyl dda. Ymdrechent berswadio eu cynulleidfaoedd i ordeinio dynion dysgedig, yn lle'r jacks. Nid oes dim a wnai fwy o ddaioni i grefydd Crist yn Nghymru.

un o'r tair iaith ar ddeg y darllenodd Mr. Jones yn y Bibl, nad bod Holl bresennol yw Duw?

Ar yr un tu dalen dywed Mr. Jones, "Yr oedd efe," sef yr Ysbryd "yn bresennol mewn rhyw ystyr, neu gilydd. Yr oedd efe unwaith yn lluniedydd corph santaidd Crist, arno ar amser ei fedydd, mewn rhyw ystyr; ynddo yn ysbryd prophwydoliaeth fel yn y prophwydi; ac yr oedd yntau yn yr Ysbryd fel eraill o'r gwyr hyny." &c Hynod iawn! Yr oedd yr Ysbryd "sef yr unig Dduw," "yn bresennol mewn rhyw ystyr neu gilydd." "Yr oedd efe unwaith yn lluniedydd corph santaidd Crist," sef "corph santaidd" "yr unig Dduw," sef y Tad sef yr unig Dduw sef y Mab, yr unig Dduw sef yr Ysbryd Glan; ac yr oedd yntau yn yr Ysbryd sef yr "unig Dduw" *yn* yr "unig Dduw."!!

Meddai Mr. Jones, "y cwestiwn i'w atteb yw, yn mha gymmeriad yr ystyrid yr Ysbryd Glan yn ein testun yn wrthrych y cabledd dan sylw. Yn adnod 30 cawn ein hattebiad. "Am iddynt ddywedyd mae ganddo Ysbryd aflan." Gan mai at y nerth neillduol oedd o fewn iddo, ag a fwriai allan y cythreuliaid, a'r cythreuligion, y cyfeirient, rhaid mai yn erbyn yr Ysbryd Glan fel yr oedd Crist wedi ei lenwi ag ef yr oedd y cabledd;" hynny yw yn ol esboniad Mr. Jones o'r Drindod fel y cyfeiriwyd uchod; rhaid mai yn erbyn yr Ysbryd Glan "sef yr unig Dduw" fel yr oedd Crist, sef "yr un unig Duw," wedi ei lenwi ag ef, sef fel yr oedd yr unig Dduw wedi ei lenwi a'r unig Duw yr oedd y cabledd!!!! Ym mhellach dywed Mr. Jones, "Yn Ysbryd Duw, drwy nerth awdurdodol yr Ysbryd, drwy y grym presennol a fenthyca efe, fel un o'r tri dwyfol, i'r drefn Fiblaidd o ddiwygio, a chadw dyn." "Dyna etto." Crist yr unig Duw "drwy nerth *awdyrdodol*," (peth nad oedd o'r blaen gan "yr unig Dduw") yr Ysbryd sef "yr unig Dduw" "drwy y grym *personol* a fenthyca efe, fel un o'r tri dwyfol," &c. hynny yw a fenthyca'r unig Dduw fel un o'r tri, &c. Oni raid fod yma ryw wrthddywediadau na all, fawr dynion nad ymffrostiant mewn tair iaith ar ddeg eu baldordd? Gan fy mod wedi ail adrodd doethineb (eh!) Mr. Jones, (nes yw y darllenydd a minnau wedi surffettu arno,) yn darlunio y person, yn erbyn yr hwn y dywed fod y cabledd yn cael ei lefaru, ni gawn droi bellach i weled beth yw y pechod. Y peth cyntaf (gwel GOLYGYDD am 1847, tu dal. 51,) "Cabledd yw. Nid camwedd, neu gamgymeriad; ac nid pechod yn erbyn deddf Moses, nac yn erbyn Duw fel y cyfryw." (Fel peth ynte? "Fel llosgcfeydd tragwyddol, a than usol, allan o'i Fab?" Ai fel yr oedd ef heb fod yn Dduw? Os gelli di ddarllenydd amgyffred fel peth ynte, ond fel Duw yr wyt wedi fy maeddu i) "nac yn erbyn Crist fel y Messia, ond yn erbyn yr Ysbryd Glan, sef "yr unig Duw" sef yr un Duw a'r Tad a'r Mab. "Cabledd oedd" medd Mr. Jones, ac fel y byddo'r Cymro uniaith yn sicr o'i ddeall ychwanega "*Evil speaking, slander, impious irreverence*; enllibaidd gelwydd yn erbyn gosodiadau dwyfol * * * ond yma yn erbyn yr Ysbryd Glan mewn rhyw gymmeriad neillduol." Ddarllenydd pwyllog! Os nad wyt yn *deall yn awr*, ond nid wyt ti fymryn callach na minnau. Beth wyt ti yn feddwl yw rhyw gymmeriad neillduol yr Ysbryd Glan, sef "yr unig Dduw?" Ond i beidio blino amynedd y darllenydd wrth adrodd y dwli anorphen, sydd dan (2) (3) a'r (4) af ym mlaen at y (5): Yno dywed Mr. Jones, "Nad ystad y galon; ond geiriau y tafod oedd yn cyfansoddi y cabledd hwn; canys ebe Marc (3. 30.) Am iddynt dywedyd (lego)" Nid felly y mae ar lawr yn Marc, ond (Hoti elegon) yw ei iaith ef. Etto "pwy bynnag a ddywedo (eipe)," (Hos de an eipe)

yw geiriau Matthew, "yn erbyn yr Ysbryd Glan, yr hyn sydd yn sicrhau mai gwaith y tafod oedd y cabledd hwn." Ar y cwestiwn, o ba le daeth y cabledd, dywed Crist Mat. 12. 34, "O helaethrwydd y galon y llefara y genau." Trueni na buasai Crist wedi gweled esboniad Mr. Jones, fel y gallasai ddeall mai bai y tafod yn unig oedd y cabledd. Dan (6) dywed Mr. Jones, "Yn ngwyneb hyn oll, gwelwn fod y cabledd hwn yn cynnwys celwydd, a hwnw yn gelwydd gan wybod gwell, yr hyn sydd yn profi dwfn elyniaeth at Grist (sef "yr unig Duw") ac eithaf diofalwch am gymmeriad yr Ysbryd Glan," sef "yr unig Duw," sef yr un Duw a Christ, a'r Tad! Medd Mr. Jones, mewn man arall, "cabledd tafod yng wyneb gwybodaeth, ac oddiar elyniaeth yn erbyn yr Ysbryd Glan, fel awdurdodydd gwrthiau." Crist debygaf. Nid oedd gan hyny, un gallu gwrthiol gan Grist, sef "yr *un* unig Duw a'r Tad," nes i'r Ysbryd Glan, sef yr *un* unig Duw a'r ddau arall, ei roddi iddo!!! Yma etto gwelwn athrawiaeth yr *Ewyllys rydd yn dyfod i mewn, ac yn gwneud gorchwyliaethau ammhosibl—gyrru dyn i bechu yn erbyn y goleuni; ac yn gwneud Duw yn Awdwr o bechod: oherwydd os Duw roddodd yr Ewyllys rydd i ddyn; ac os oedd yn *gwybod* beth ddelasai o honi rhaid ei fod wrth ei rhoi i ddyn wedi arfaethu ei gabledd. "Yr hyn yw achos yr achos yw hefyd achos yr effaith" neu (gan fod Mr. Jones gymmaint am dafodau dieithr) "Quod est causa causae est etiam causa causati."

Dan yr II. ben 'chwanega Mr. Jones, "Ni fedd faddeuant." Dyna gyfieithad o (*ouk echei aphesin*) yr un fath a phlant Aberdâr yn dywedyd, "*It sends me ill*," am "Y mae yn fy hela i'n dost;" neu "*kill hay*" am ladd gwair. Rhyfedd yw dysgc gweinidog Rhydybont! "Nac yn yr oruchwyliaeth hon, nac yn yr un ddyfodol." . . . . Mae ef yn wrthrych condemniad a erys arno drwy bob goruchwyliaeth—drwy oruchwyliaeth darostyngiad a derchafiad Mab y dyn." Wrth oruchwyliaeth darostyngiad mae i ni ddeall, yn ol Mr. Jones, yr amser y bu yr "Unig Duw" yn gwisgo cnawd, ac amser ei dderchafiad o'r dydd yr adgyfododd hyd y dydd y dywed Paul y bydd iddo etto gael ei ddarostwng, 1 Cor. xv. 28—"A phan ddarostynger pob peth iddo, yna y Mab ei hun hefyd," sef 'yr unig Duw,' yn ol Mr. Jones, a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo, fel y byddo Duw oll yn oll." Ai hyn ynte yw ystyr *onte en touto to aióni, oute en to meltonti.* Felly, yn ol dangosiad y gwr boneddig o Rhydybont, nid yw y "Cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glan" yn anfaddeuadwy. Hawyr! A ydyw Mr. Jones yn adfeiriadwr? Beth yw hyn? Dyna bwll y syrthiodd y gwr mawr iddo ar ei ben o ddiffyg canfod rhyw ychydig ym mhellach na'i drwyn.

Cyn gadael, Mr. Golygydd, trwy eich cennad chwi mi ddywedaf pam yn nhrefn "gwaed y groes" neu yn ol Trindodiaeth, y mae y "cabledd yn anfaddeuadwy," gan fod Mr. Jones yn ffaelu gwybod hyn "ynghyd a mil o'r fath ofynion." *Beth sydd ar y dyn?* Ni chas *cyfiawnder* yr Ysbryd

---

* Pan glywyf gyhoeddi gallu'r Ewyllys rydd, yr wyf yn union yn cofio am Thomas y saer, o Ddyffryn Clettwr, Ceredigion, a'i *berpetual motion.* Wedi rhoi y peiriant at ei gilydd, safodd gyda disgwyliad dirfawr i edrych arno yn troi heb feth nes treulio allan; ond mawr oedd ei syndod, a mwy fyth ei siomedigaeth, pan ganfu ef yn neidio o bared i bost ar hyd yr holl dy, fel nas gallai neb ddirnad at beth y byddai ei luchiad nesaf. Ond i wneud y goreu o'r gwaethaf, ymlusgodd yr hen wr dan y *ffwrwm* waith am ddiogelwch, nes byddai i'r peiriant ddrullio ei hun. Diangodd yn well na Duw yr Armin, yr hwn a laddwyd gan gynddeiriogrwydd Ewyllys rydd ei greaduriad ei hun ar Galfaria. Pa'm y bu ynteu mor ddifwrw'r draul, cyn rhoi Ewyllys rydd i Adda yn Mharadwys?

Glan d'm *Iawn* na'i ddeddf ef anrhydedd trwy gael bwrw ei anfeidrol lid ar y Tad, a thyna reswm eithaf cadarn yn ol Trindod a ddylai fod yn foddhaol gyda Mr. Jones. Beth pe buasai y Tad, sef "yr unig Dduw," sef yr un Duw a'r Ysbryd Glan, heb gael *Iawn* i'w *gyfiawnder*? Oni wyr pob un sydd iach yn y ffydd Drindodaid y buasai holl biliogaeth Adda yn brwlian yn y tragywyddol wae rhwng y diawlaid yn y pwll diwaelod? Ond oherwydd "*Doethineb y drefn cadw*," nid felly y mae yn awr.

Yn awr, Mr. Golygydd, a darllenwyr yr YMOFYNYDD, un ac oll, a oes dim mwy o anmhossiblrwydd a chroes ddywediadau yn esboniad "Gweinidog parchus" Rhydybont nag a gair yn *holl ddwli holl Fadhouses* y byd yng nghyd? Nid oes yno neb na wyddant wahaniaeth rhwngddynt eu hunain a'u teidiau neu eu plant.

Cyn diweddu cymmwys yw gwneud sylw neu ddau ar yr hyn a ddywed y Fi-fawr-fy-nysgc hwn am Beelzebub: ac etto nid hawdd dirnad pa fodd y mae gwneud hyny heb wenu, ie, a chrechwenu wrth ddarllen am ei Syriaeg, ei Samariaeg, ei Arabaeg, &c. &c. fel pe bai yn gwybod mwy am y ieithoedd hyny na mochyn am hw'r gwynt: ie, fel pe bae adrodd enw Beelzebub yn yr ieithoedd hyny yn ateb rhyw ddiben gweil yn y ddadl na pheri i Dai'r coalier, Wil y mwynwr, a Shoni'r baledau, i "ledu eu llygaid cyn lletted a llwy," ac yna i fyned i'r perygl o hela asgwrn yr en allan o'i le, wrth drio darllen yr enw yn yr ieithoedd eglur a dealladwy hynny. Pa fodd bynnag, os cymmer y darllenydd y drafferth i drei i'r 49 o r *Gwyryddd* am fis Chwefror 1847, caff yr hyn mae Mr. Jones yn feddwl oedd barn yr Iuddewon am Beelzebub, *yn Gymraeg a Saesnaeg* ond dim gair PWY *oeddynt yn feddwl oedd ef*: ac ar ol hyny dri ar ddeg o gasgliadau, mwyaf anghywir, ac anhygoel, a ddarllenais i er ys rhai blynyddau. Ym mhlith pethau eraill mae yn casglu mai Satan oedd Beelzebub! Ac os ydwyf yn ei ddeall yn iawn mae am daeru mai an el syrthiedig oedd Satan ei hun!! "Yn ngwyneb hyn" medd ef wedi n "ystyriwn yr hyn a ddywed Mr. Jones, Aberdar, ac Undodiaid dysgedig eraill, mai Duw Ecron—mai eilun—sef yn ol Paul mai dim yn y byd oedd y Beelzebub hwn." *Do*, fe ddywedodd Mr. Jones, Aberdar, mai Duw Ecron oedd Beelzebub; a'i sail ydoedd, *gair Duw Israel* yn 2 Bren. 1. 2, '*Ewch ac ymofynwch a Beelzebub* DUW ECRON, *&c. Adn.* 3, *Ai am nad oes Duw yn Israel yr ydych chwi yn myned i ymgynghori a Beelzebub* DUW ECRON, *&c. Adn.* 6, *Ai am nad oes Duw yn Israel yr ydwyt ti yn anfon i ymgynghori a Beelzebub* DUW ECRON. *Adn.* 16, *Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd oherwydd it anfon cennadon i ymgynghori a Beelzebub* DUW ECRON." Dyna ef bedair gwaith yn cael ei alw *duw Ecron*, er fod Mr. Jones yn gwadu nad yw ei enw ond un waith yn yr Hen Destament, ac yn haeru mai Satan ac nid duw Ecron oedd. Gwell dilyn y Bibl na rhoi clust i'r fath haeriadau.

Wedi goruwchadeiladu ar ei dri chasgliad ar ddeg nes ehedeg yn wyllt, yhydd foullef o ddeffians, o leiaf i'r *First Latin concord*. "O ddysgedigion *etiam atque etiam cogita*." Yn ol ei ddull ef o resymmu gellir yn llawer mwy eglur ddangos mai Beelzebub oedd Duw Israel, fel hyn 1 Cron. 21. 1, "*A Satan a safodd yn erbyn Israel, ac a annogodd Dafydd i gyfrif Israel.* 2 *Sam.* 24. 1, *Yna digllonodd yr Arglwydd,* (*Jehofah yn Hebraeg*) *a ennynodd yn erbyn Israel, ac a annogodd Dafydd yn eu herbyn hwynt gan ddywedyd dos cyfrif Israel a Juda,*" felly Satan yw Jehofah a Jehofah yw Satan. Ond meddai Mr. Jones, "Gellir casglu oddiwrth yr hyn a ddywed ein Harglwydd am Beelzebub, "8, Mai Satan oedd y Beelzebub

hwn," felly Jehofah yw Beelzebub, a Beelzebub yw Jehofah, sef "mae eilun—sef yn ol Paul mai dim yn y byd" oedd Jehofah—sef yn ol Llangollen mai drwg yw da, a da yw drwg: ac mai du yw gwyn a gwyn yw du. Mae hyna yn gasgliad lawer mwy eglur nag un o'r 13 o gasgliadau a dynnodd Mr. Jones oddiwrth eiriau ein Harglwydd am Beelzebub. "O ddysgedigion" Rhydybont "*etiam atque etiam cogitate*" os gwelwch chwi fod yn dda.

Ydwyf Mr. Golygydd gyda mawr chwennychiad i weled yr YMOFYNYDD yn llwyddo ond llawer mwy i weled y gwirionedd yn cael ei dderbyn a'i garu.

Yr eiddoch yn barchus,

J. JONES, Aberdar.

O. S. Gadewch Mr. Golygydd i mi ddywedyd wrth Olygydd SEREN GOMER, fod ei ffordd yn rhydd iddo i'm cymmennu a'm difrio tra dalio ei anadl, dan y ffug enw a fynno ef; gan na bydd i mi wneud sylw o neb a fyddo ry gywyleddgar i ddangos ei wyneb o flaen llygad goleuni; ond nid rhag *ofn* dyn yn gwisgo *Mask*.

RHYDD-YMOFYNIAD.

MR. GOLYGYDD.—Gan mai "Ymofynydd" ydyw teitl diymfrost eich Cyhoeddiad, a chan mai eich amcan proffesedig ydyw cyffroi a chefnogi rhydd-ymofyniad am y gwirionedd, y mae i chwi a'ch misolyn roesaw gyda myfi; a dymunwyf bob llwyddiant ar eich ymdrechion; a diammeu genyf mor belled a hyn y derbyniwch gymeradwyaeth pob carwr gwirionedd. Fe saif hwn yr archwiliad manylaf; goddef bob prawf. Os nad ydych yn proffesu Iawn-ffyddiaeth gyfrifedig, ac os y'ch gelwir gan rai yn *heretic*, ie, pe byddech felly mewn gwirionedd, nid oes dim achos eich ofni—dim achos gwaeddi "Yr Eglwys mewn peryg," na gwir "Grefydd mewn peryg," 'chwaith.

Anmhosibl dinystrio a difodi gwirionedd ---gellir ei guddio a'i fygu am ychydig, ond fel y *life buoy* efe a nofia ar y wyneb er gwaetha'r gwynt a'r tonnau, ac a ddiogela fywyd y neb a lyn wrtho, ac a'i dwg i'r hafan ddymunol. Gwelaf nad ydych megys y mae nifer luosocaf o gyhoeddiadau'r oes, tra yn proffesu *Rhydd*-ymofyniad, ddim wedi rhwymo eich hunan a'ch gohebwyr o fewn cylch cynifer mwy neu lai o erthyglau cred o gyfansoddiad dynol, a dywedyd, "Hyd yma yr ai, a dim yn mhellach." Barnwyf mai *ymofynwyr* gostyngedig am wirionedd a ddylem oll fod, ac ystyried ein hunain, ac nid fel rhai wedi ei gyrhaedd yn anffaeledig eisioes, a phenderfynu "Hyn *yw* fy nghredo, a hyn *fydd* fy nghredo," yr hyn, fel y dywed Dr. Watts, sydd garchar i'r enaid dros fywyd, ac yn rhwystr i bob gwelliant meddyliol. Dyma sefyllfa miloedd yn ein gwlad y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai lleiaf ei llafur am wybodaeth. Sawria yn gryf o ysbryd Pabyddiaeth. Nid yw'r agwedd yma yn briodol mewn creaduriaid ffaeledig ac anmherffaith, nac yn gyson a chynydd parhaus mewn gwybodaeth. Y mae yn ddyledswydd arnom hefyd yn ein hymchwiliadau am wirionedd nid yn unig i amddiffyn yr hyn a farnom yn wirionedd, ond i roddi yr un rhyddid i eraill, a'r un rhyddid am eu didwylledd ag a honwn i ni ein hunain, mor belled ag y byddo eu hymarweddiad yn gyson a'u proffes. Nid oes gan neb arglwyddiaeth dros y gydwybod; y mae yn wir fod cydwybod gyfeiliornus---da a drwg---er hyny, wedi chwilio yn ddiduedd a dyfal am y gwir, gan ddefnyddio pob cynnorthwyon cyrhaeddadwy, llais cydwybod yn unig a ddylem wrando ac ufyddhau iddo. Y mae gwybodaeth a barn *bersonol* yn anwahanol gyssylltiedig a'u cyfrifoldeb personol i Dduw,---"Pob un drosto ei hun a rydd gyfrif i Dduw," o'i ffydd a'i ymarferiad. Iddo ef yr ydym oll yn sefyll neu yn syrthio. Efe yn unig yw Arglwydd cydwybod, canys "Efe a wyr ddirgeloedd y galon."

Ond ni ddylai'r ystyriaethau uchod leihau ein sel dros yr hyn a gredwn fel gwirionedd, ond yn hytrach ei thymeru a gwybodaeth. Dyledswydd amlwg pob un ydyw ymdrechu goleuo ac argyhoeddi y rhai a farno'n gyfeiliornus: y mae ysgrythyr a rheswm yn dangos hyn. Y mae pob cyfeiliornad yn niweidiol yn gyfatebol i bwysigrwydd yr hyn y cyfeiliornir yn ei gylch, a'i berthynas a'u hymarferiad; ac nid oes yr un dyn ystyriol a wrthyd wrando ar arall o barthed unrhyw bwngc,---profi pob peth, a dal yr hyn sydd dda.

Bydded i ni oll lafurio ac ymdrechu mewn ysbryd addas i oleuo ein gilydd, ac i gynal y gwirionedd mewn athrawiaeth ac ymarferiad. Y mae i bob un ei waith, a

meusydd helaeth i lafurio ynddynt yn bresenol. Y mae'r "Ysgolfeistr ar led," a'r anghenrheidrwydd am addysg gyffiedinol yn dyfod yn fwy amlwg yn barhaus; cyn hir bydd llawer yn cynniweirio, a gwybodaeth yn amlhau. Y mae dyddiau gormesływodraeth, twyll-offeiriadol (priestcraft), a phob gau-grefydd wedi eu rhifo, er cadarned yr ymddengys y rhai hyn mewn llawer man, y mae gwirionedd yn gadarnach, ac efe a orchfyga. Mor sicr a bod Duw gwirionedd yn teyrnasu, fe deyrnasa gwirionedd a chyfiawnder dros y ddaear oll, tylwythau'r ddaear a fwynhant ryddid, heddwch, a dedwyddwch, a'r "Arglwydd yn unig a ddyrchefir yn y dydd hwnw." Prysuro wneled.

Llynlleifiad. J. W.

YMDDIDDAN RHWNG

LLYFR HYMNAU JOSEPH HARRIS

A

CHRISTION.

LLYFR HYMNAU.

Pa feddwl all amgyffred byth,
Wir hanfod y Duw cun!
Yr Hollalluog bywiol Dri,
Y pur anfeidrol Un. H. xxxi. 1.

CRISTION.

Yr ydych yn gofyn "Pa feddwl all amgyffred hanfod Duw?" Neb! meddai Job. "Pwy wrth chwilio a all gael allan Dduw?" Ond pwy a'ch dysgodd ch'i i lefaru am Dduw—

"Yr Hollalluog bywiol Dri,
Y pur anfeidrol Un?"

Yr ydych yn ymddangos i mi eich bod yn anghyson a ch'i eich hunan. Os tri o Hollalluogion, mae yn canlyn eu bod yn dri o Anfeidrolion, ac y mae yn anmhosibl i dri o Anfeidrolion wneuthur un Anfeidrol. A rhyfedd mor ddyerth hefyd yw eich llais i lais y Bibl, yr hwn sydd yn dysgu yn mhob man mai un Bod Anfeidrol sydd, sef y Tad.

LLFYR HYMNAU.

Pa fodd gall pryfyn mor ddiddawn
Ddarlunio'r Tri sy'n Un?" Adnod 3.

CRISTION.

Yr ydych yn siarad yn hollol anysgrythyrol. Pa le mae'r Bibl yn son am dri pherson dwyfol yn gwneyd un Bod dwyfol? Dyna beth yr ydych yn ei feddwl, onite? Pe bai'ch yn cadw yn agosach at air Duw fe fyddai yn well genyf eich clywed. Mae'r Iachawdwr ei hunan yn dysgu ei fod ef yn un â'i Dad, "Myfi a'r Tad un ydym;" ac y mae efe yn gweddio hefyd ar ei Dad am i'r Apostolion i fod yn un, fel ag yr oeddynt hwy yn un. Nid ydych yn credu fod y deuddeg Apostol yn un Apostol mewn hanfod, osbosib! Un ydynt mewn meddwl i gario'n mlaen waith y prynedigaeth yn y byd; a'r un undeb sydd rhwng Duw a Christ; Ond i siarad am dri yn un, ac un yn dri, ni wyr y Bibl ddim am dano.

LLYFR HYMNAU.

Moli'r Trindod byth mewn Undod,
Gan yr holl angylaidd lu. H. xlii.

CRISTION.

Wel, yr ydych ch'i yn parhau i fyned yn mlaen yn yr un llwybr anysgrythyrol. Yn mha le yn y Bibl y mae son am yr angylion yn moli y Drindod? Ni welais y fath beth erioed. Nid oes genym hanes yn un man yn y Bibl fod yr angylion yn moli neb ond y Duw byw.

LLYFR HYMNAU.

A chan blant y gorthrymderau,
'Nawr ac yn eu cartref fry.

CRISTION.

Duw Israel oedd y Salmydd a'r Proffwydi yn ei foli, a'r un Duw oedd Crist a'r Apostolion yn ei foli, a'r Crist'nogion yn y canrif cyntaf, cyn i'r Efengyl gael ei llygru gan philosophi y byd hwn. Galarus yw gweled cymaint yn addoli y Drindod yn lle yr unig wir Dduw. Mae yn llawn bryd i ch'i newid eich llais, ac i ganlyn y Bibl, ac i beidio cvmmeryd eich caethiwo gan gredoau yr Orthodox. Mor wahanol, a chymaint mwy cysurus y teimlech eich hunan, pe ba'ech yn dyfod i ryddid Crist, nag yr ydych yn awr o dan iau Orthodoxy.

LLYFR HYMNAU.

Yn y cyfyngderau mwyaf,
Pwysa f'enaid ar dy Dduw;
Dysgwyl wrth Jehofa Jireh,
Ceidwad grasol dynolryw. H. xliii.

CRISTION.

Yn awr yr ydych yn canlyn y Bibl, ac mor wahanol yw y beroriaeth. Yn lle gorchymyn dynion i foli rhyw Drindod, yr ydych yn eu gorchymyn i ymbwyso ar Jehofah Jireh, lle mae gwir gysur i'w gael.

LLYFR HYMNAU.

Yn Eden syrthiodd Adda'n tad,
Ac ynddo syrthiodd pawb o'i had. H. l.

CRISTION

Dyma ch'i etto wedi myned oddiwrth yr iawn reol. Buais bron a chredu eich bod am ddiwygio; ond yn awr yr ydych yn cymeryd eich harwain gan lythyr y gymmanfa, a'r credoau, a phregethwyr poblogaidd Orthodoxy. Mentraf ddyweyd na welsoch air yn un o bregethau Crist am Adda yn syrthio, a'i holl had ynddo. Na, yn ei bregeth ar y mynydd, yr hon sydd yn cynnwys y rhan fwyaf o egwyddorion ei grefydd, nid oes gair am Adda ynddi. Mae yr Apostolion hefyd yn gadael Adda yn llonydd. Mae yr Apostol Paul mewn un man yn dyweyd mai trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, sef Adda; ond nid yw yn dyweyd fod Adda wedi syrthio, a'i holl had ynddo. Mae yn wir mai Adda

bechodd gyntaf, ond nid pechod Adda yw yr achos fod eraill yn pechu, os felly, pwy bechodd o flaen Adda?

LLYFR HYMNAU.

Troseddwr aflan wyf,
Yn erbyn deddf a gras,
A'm calon ddrwg yn llawn o dwyll,
A phob afiechyd cas;
O gyff llygredig tost,
Yn Eden tarddu wnes;
Ie, mewn anwiredd lluniwyd fi,
Ystruan ddyn diles. H. lvii.

CRISTION.

Rhyfedd! a ydych ch'i y fath ddyn a hyn? Ni chlywais ac ni ddarllenais am y fath ddyn erioed: A ydyw eich calon ch'i mor ddrwg ag yr ydych yn dyweyd, "Yn llawn twyll a phob afiechyd cas?" na, yr wyf yn methu credu hyn: Yr amser gwaethaf arnoch; nid oeddych cyndrwg a hyn. Ni chlywais erioed am y gwaethaf o ddynion nag oedd rhyw rinwedd dda ynddynt. Mae yn dra thebyg mai cyffes ffydd y Bedyddwyr a'ch darbwyllodd ch'i i gredu mor ddrwg am eich hunan: Mae yn wir fod yn rhaid i ch'i gredu'r gyffes o flaen y Bibl, o leiaf, rhyw ran o honi, megys y Drindod, pechod gwreiddiol, iawn i gyfiawnder, ac yn enwedig, haeddiant Crist; gwadu yr haeddiant yw gwadu hywyd pechadur. Un o'r gofyniadau cyntaf a ofynir i'r dyn sydd newydd dd'od i'r gyfeillach yw, "Pwy ffordd yr ydych yn meddwl cael bywyd tragywyddol." Os ettyb efe mai trwy weddio a byw yn dduwiol, &c., fe ddywedir wrtho yn lled fuan fod hynny yn rhy fach, "Mae yn rhaid i ch'i gael yr haeddiant am danoch neu fod yn dragwyddol golledig;" y'w adattebiad. 'Nawr, mor wahanol yw hyn i'r Bibl! Pa le mae yr ysgrythyr yn son am haeddiant Crist? Nid oes y fath beth yno i'w gael. Gobeithio yr wyf y diwygiwch, ac y bydd eich llais yn fwy ysgrythyrol o hyn i maes.

LLYFR HYMMAU.

O na b'ai fy mhen yn ddyfroedd,
Dyfroedd fel y mor didrai,
A fy llygaid yn ffynnonau,
Llawn o ddagrau i barhau;
Fel yr wylwn yn ddiarbed.
Am drueni dynolryw
Oll dan effaith codwm Eden,
Wedi colli delw Duw. H. lviii.

CRISTION.

Dyma ch'i etto wrthi, a gwaeth, os oes lle, yn wylo am beth nid oes eisiau i ch'i. A ydyw y Testament Newydd yn dysgu fod Crist yn wylo am yr un peth ag ydych ch'i yn wylo, sef fod y byd wedi myned yn druenus, fel effaith o godwm Eden? Na, nid yw yn son dim am y fath beth. Mynych y gwelwyd ef yn wylo am fod dynion yn peidio gwrandaw ar ei lais ef. Ond byddedi i ni wrandaw beth sydd gan Grist i ddyweyd ar y pen hwn. Unwaith pan y dygwyd plant bychain atto er mwyn iddo eu bendithio, beth oedd ei farn am danynt? Ai eu bod yn hollol lygredig oherwydd codwm Eden? Neu ynte yn bur ac yn addas i fyned i'r nefoedd? Dyma ei eiriau ef ei hunan, "Canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." Nid ydych yn credu fod y nefoedd wedi ei phoblogi a dynion hollol bechadurus, na, yr ydych yn credu nad oes dim aflan yn myned i mewn yno; o ganlyniad, y mae plant bychain yn ddibechod; ac eglur yw fod eich syniadau chwithau yn hollol anysgrythyrol.

LLYFR HYMNAU.

Yn Eden; cofiaf hyny byth,
Bendithion gollais rif y gwlith. H. liv

CRISTION.

Credwch fi, yr ydych yn siarad yn hollol gyfeiliornus, oherwydd nid yw Crist a'i Apostolion yn siarad yn debyg i ch'i.

LLYFR HYMNAU.

Rhoddwyd i ni'r holl ysgrythyr
Trwy lan ysbrydoliaeth Duw. H. lx.

CRISTION.

Wel, mae hyn yn ysgrythyrol: ond y mae yn debygol nad ydych yn credu fod y Bibl a'r cyfieithad awdurdodedig yn anffaeledig, Oni wyddoch fod y Bibl wedi dyfod i ni trwy oesoedd tywyll iawn, pan oedd pabyddiaeth yn ben, a dysgeidiaeth wedi ei chloi i fynu mewn monachdai, a'r gelfyddyd o argraffu heb ei dyfeisio, fel yr oedd yn anghenrheidiol i'r Bibl cael ei gadw mewn ysgrif-lyfrau (manuscripts,) a phan yr heneiddient yr oeddynt yn cael eu hadysgrifenu, a'r adysgrifenwyr naill yn fwriadol neu yn esgeulus yn ychwanegu atto ac yn tynu oddiwrtho. Dyma yw yr achos fod cymmaint o wahanol ddarllenladau yn yr iaith wreiddiol. O'r holl ysgrif-lyfrau ag sydd yn llyfr-gelloedd Ewrop nid oes dau yr un peth. Hefyd, ch'i a wyddoch am y gwahanol gyfieithiadau ag sydd o hono gan y gwahanol sectau. Cyfieithad Campbell a Williams gan y Bedyddwyr, a mawr mor ddefnyddiol yw y gwyr enwog hyn iddynt pan y maent yn pregethu ar fedydd; ond pan y maent yn ceisio profi y Drindod y mae rhai o'r pregethwyr yn eu galw yn Sosiniaid, oherwydd eu bod wedi gadael allan y 7fed adnod yn y 5ed bennod o Epistol 1af Ioan, ac wedi rhoddi cyfieithad gwahanol i rai brawddegai a feddylit eu bod yn profi y Drindod. Hefyd, y mae Conquest gan yr Ymddibynwyr, a Wesley gan y Wesleyaid. Yn awr, ffolineb yw dyweyd fod y Bibl yn anffaeledig; ond os yw efe felly, cyfieithad pa un o'r gwyr enwog hyn yr ydym ni i gymeryd?

LLYFR HYMNAU.

Gwaherddir im' gan f'Arglwydd byw
I ddewis neb ond ef yn Dduw. H. lxv.

CRISTION.

Gwir! Ond galarus yw gweled cym-

maint yn y pedwarydd ganrif ar bymtheg yn addoli'r "Drindod" yn lle Duw Abraham, Isaac, a Jacob; ïe, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.

BU FARW,

Gorphenhaf y 30ain, yn 83 mlwydd oed, y Parch. Evan Lloyd, Gweinidog yr Eglwysi o Fedyddwyr Undodaidd yn y Wig a'r Nottage, Sir Forganwg. Bu yn llafurio dros 60 mlynedd yn y Weinidogaeth. Ganwyd ef yn mhlwyf Nefyn, yn Sir Benfro. Clywsom ef yn adrodd ei fed yn y *Militia* pan diriodd y Ffrancod gynt yn Abergwaun, y rhai a barasant y fath fraw a dychryn trwy holl siroedd y Deheubarth; a'i fod ar y maes yn un o'r fyddin fechan dan yr Arglwydd Cawdor, i gymmeryd i fynu arfau y Ffrancod, ar eu gwaith yn rhoddi eu hunain i fynu yn garcharorion. Rhaid nad oedd pryd hyny ond ieuangc iawn. Ymunodd a chrefydd yn fore, gyda'r Bedyddwyr yn Aberteifi, a galwyd ef yn fuan gan yr Eglwys i arferyd ei ddawn yn gyhoeddus. Bu dros amser yn gynnorthwywr i'r Gweinidog Mr. Williams. Yr oedd Mr. W. mae'n debyg yn wr cyfoethog a haelionus. Dan ei nawdd ef—fel y clywsom yr hen frawd yn coffa lawer gwaith gydà diolchgarwch—cafodd gyfleusderau a chynnorthwyon amgenach na'r cyffredin yn ei amgylchiadau ef, tuag at ei gymhwyso i waith y Weinidogaeth; ac yn neulluoi o ran darllen llyfrau defnyddiol a dysgu i farnu drosto ei hun. Parhaodd yr awydd i ddarllen a'r ymdrech i ddysgu gydag ef, gan gynnyddu yn hytrach na lleihau, hyd at tua diwedd ei oes. Y mae yn un nod o'i uchel gymeradwyaeth gan ei frodyr Calfinaidd tra yr oedd yn aros yn eu corff, iddo gael y gorchwyl mwy nag unwaith o ysgrifenu Llythyr y Gymanfa; a'i appwyntio i fod yn Bregethwr teithiol trwy Ogledd Cymru.

Ond o ddeutu 50 mlynedd yn ol cyfododd rhyw wewyr newydd yn ngwersyll y Bedyddwyr. Ar y torriad allan o'u plith, pryd hyny, yn nghylch Athrawiaeth y Drindod a'r Iawn, gyda B. Philips, o Salem, W. Richards, o Lynn, ac eraill a lyncasant yr *heresi* newydd yr oedd Evan Llwyd yn un. Ar ol yr ymraniad gelwid yr Eglwysi Ymneilluedig dan yr enw "Bedyddwyr Cyffredinol" (General Baptists). Yr oedd Llwyd yn un o'u Pregethwyr cyntaf a mwyaf selog; ac yr oedd efe yn sefyll yn wrol a chyda'i nerth cynhenid dros "yr iechydwriaeth gyffredinol." Tua 40 mlynedd yn ol symmudodd i Forganwg i gymmeryd gofal yr Eglwysi yn y Wig a'r Nottage. Buont dan ei ofal ac yn agos at ei galon hyd y diwedd. Er ys rhai blynyddau yr oedd wedi myned o herwydd methiant corphorol yn annalluog i bregethu a gweinyddu yr ordinhadau yn y Wig. Ordeiniwyd ei fab Mr. Titus Lloyd, i fod yn Weinidog yno; ond parhaodd yr hen wr i bregethu yn y Nottage hyd o fewn mis i'w farwolaeth. Yr oedd galluoedd meddwl cryfach na'r cyffrebin gan Evan Llwyd. Ac y mae yn nod canmoladwy o'i duedd ymofyngar, iddo wedi 60 oed gyfnewid ei farn ynghylch yr athrawiaeth o Rag-hanfod Crist ar ol dwys ystyried y pwnc. Fel y gwelsom yn yscrifenedig a'i law ei hun, ac fel y clywsom o'i enau, cafodd oleuni argyhoeddiadol i'w feddwl ef wrth ddarllen "*Lardner on the Logos*," a'i ddwyn i gwbl gofleidio yr athrawiaeth o briodol Ddyndod ein Harglwydd Iesu Grist. Pan yn hen wr, yr oedd yn cadw ei feddwl yn agored i dderbyn goleuni newydd: yr oedd ei awydd i ddarllen mor gryf ag erioed, a pharhaodd ei ymdrech i gynnyddu mewn gwybodaeth Gristionogol tra parhaodd ei allu. Yr oedd yn Bregethwr doniol a chymmeradwy, ac yr oedd yn barchus iawn gan bawb o r gymydogaeth. Gorphenodd ei yrfa ddaearol mewn llawn hyder ffydd—a'i obaith a'i ymddiried yn ddi-ysgog yn y Duw Byw ac yn ei addewidion trwy Iesu Grist.

Yr 20ainfed o Awst diweddaf, ar ol cystudd byr Bu farw Mr. Jenkin Jenkins, Clyndu, gynt o Rhydybene, Ystrad, Ceredigion. Claddwyd ef y Llun canlynol yng nghladdfa yr Undodiaid yn Capel-y-groes. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. J. Thomas, Llandyssil, oddiar 1 Tim. 6. 19. Ar lan y bedd areithiodd y Parch. Rees Davies, Gweinidog y lle. Yr oedd Mr. Jenkins yn un o'r aelodau henaf a ffyddlonaf yn y Capel uchod. Bydded i'w blant ganlyn ei siampl ac ymdrechu llanw ei le yn yr Eglwys.

Yr 11eg o'r mis hwn bu farw yn dra disymwth Mr. James Lloyd, Aberglasle, ger New Inn, Llwynrhydowen, Ceredigion. Cadwyd *Inquest* ar ei gorph, a *Verdict* y *Jury* oedd "*Sudden death by fits.*" Claddwyd ef y Llun canlynol ym monwent Pantydefaid lle yr oedd ef wedi bod yn aelod parchus am flynyddoedd lawer. Ymgynullodd lluaws o ddynion ynghyd ar ddydd ei angladd i dystiolaethu eu parch iddo; ac nid aml ar ei ol y ceir cymmydog mor ddidramgwydd, a chyfaill mor serchog a hawddgar. Yr oedd yn wastadol yn llawn caredigrwydd, ac yn ymhyfrydu mewn pob cymwynasgarwch. Yr oedd yn enwog fel *Arithmetician* a *Mathematician*, yn rhagori ar bell ac agos, a thrwy hyn ar amrywiol achlysuron yn ddefnyddiol iawn yn ei gymydogaeth. Ond er pob defnyddioldeb a rhagoroldeb symmudwyd ef o'r byd i'r bedd lle y gorphwysa ac yr huna mewn heddwch hyd nes y delo ei frawd henaf i'w ddeffroi ar wawriad dydd tragwyddoldeb.

Gyfaill anwyl, ti ddihangest,
Adreu 'chydig o fy mla'n,
Ar dy ol yn llir ni byddaf
Yma'n canu'th alar gân;
Mae fy ffydd yn awr yn tremio
Ar yr ardel hyfryd draw,
Lle caf etto 'th ail-gyfarfod
Uwch llywodraeth brenin braw.—T. T.

Medi 15, 1847.

P. S. Bu farw yn ddiweddar yn Ninas Philadelphia, Mr. B. Davis, Meddyg, gynt o Llwynrhydowen, mab y diweddar Barch. D. Davis, o Gastell Hywel, Ceredigion. Oedd yn ddyn caredig a chyfeillgar iawn i bawb a adwaenai, a theimlir hiraeth dwys ar ei ol gan ei gyfeillion a'i geraint. Nid oes yn awr yn fyw o deulu yr hybarch Dad ond y Parch. Tim. Davies, Evesham, Caerangor. Y mae wedi cael ei adael yn unig o ran ei frodyr a'i chwiorydd, fel aderyn to ar nen y ty. Tangnefedd iddo.

Ym mhell o dre, ym mhell o'th wlad,
Ym mhell o feddrod ty dy dad,
Gorweddi mewn estronol fan,
Ond nid rhy bell i godi'r lan.

TAU GIMEL.

ARGRAFFWYD GAN J. T. JONES, CAERFYRDDIN.

YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.---PAUL.

BETH SYDD MEWN ENW?

Y MAE llawer yn ddiau mewn enw, ac mewn llawer modd. Nid yw newid yr enw, mae'n wir, ddim yn newid natur y peth. Byddai rhosyn yn arogli yr un mor beraidd pe b'ai enw arall iddo. Etto, pe byddem wrth lefaru am y blodeuyn hwn yn arferyd rhyw enw arall heblaw yr un priodol iddo, byddem wrth hynny yn arferyd twyll, ac yn dywedyd celwydd, os yn fwriadol; os yn ddifwriad, byddem o leiaf yn rhoddi ar ddeall i eraill rhyw feddwl gwahanol i'r hyn a fyddem yn ei lettya ac yn chwennych ei drosglwyddo, ac felly yn colli ein hamcan. Dyben ac amcan ymadrodd yw trosglwyddo i feddwl arall y peth sydd yn ein mheddwl neu ein teimlad ni. I'r dyben hyn y cyfranodd Duw y ddawn werthfawr hon i blant dynion. Beth wnaethem ni hebddi? Buasem fel yr ymlusgiaid, neu'r adar, neu'r pedwar-carnolion, heb un cynnydd, na modd ar gynnydd, mewn gwybodaeth. Ond diolch i Dduw, y mae gennym iaith. Ceisiwn ei chwrteithio a'i hiawn ddefnyddio. I'r graddau y gwnelom hynny y byddwn yn alluog i dderbyn neu i gyfrannu dysg a gwybodaeth gywir.

Ein hiaith ni, y Cymry, yw y Gymraeg—un o'r henaf ac, medd rhai, y godidocaf dan y ffurfafen. Nid y'm ni yn cymmeryd arnom i benderfynu ynghylch hynny o beth. Yr ydym yn hoffi hynafiaethau ein hiaith a'n cenedl, ond nid y'm mor wageddus ag i ystyried ein hunain yn ddigonol at y gorchwyl o gydmaru y Gymraeg âg ieithoedd eraill, a phenderfynu ynghylch ei pherffeithrwydd a'i rhagoriaeth arnynt. Gadewn hynny ar hyn o bryd i'r sawl sy'n meddu ar well cymhwysderau at y gwaith. Heblaw hynny, nid yw yn perthyn i'r pwngc sydd gennym mewn llaw. Beth yw hwnnw? Dyma ydyw; sef, mai *peth o bwys yw galw enwau priodol ar bethau.* Y Gymraeg ynte yw ein hiaith ni, a'i chymmeryd fel y mae. Dyma iaith yr YMOFYNYDD. Pa un ai y bydd "Oes y byd" iddi, fel y taer ddymuna rhai, neu ynte y bydd i'r Saesonaeg gael yr oruwchafiaeth arni, oes neu ddwy ond odid a ddengys. Ymddibenna hyny ar ei defnyddioldeb, a'r cymhwysder a welir ynddi mewn cydmariaeth â'r Saesonaeg, fel cyfrwng i gyrhaeddyd a chyfrannu gwybodaeth yn ei gwahanol rannau. Pa fodd bynnag, tra y byddom ni byw, y mae yn ddigon tebyg mai y Gymraeg y byddwn yn ei harferyd; am hynny gwnawn ein goreu i gwrteithio'r wybodaeth o honi hyd eithaf ein gallu, gan adael i'r cenhedlaethau sydd i ddyfod i'w chadw neu i'w rhoddi heibio, fel y gwelant yn gymhwys.

Y mae iaith yn atteb ei phwrpas ac yn offerynol i drosglwyddo syniadau

a theimladau oddiwrth un i'r llall, trwy ei bod yn cynnwys geiriau neu *enweu* y rhai a gymmeradwyir ac a *adnabyddir* yn gyffredin gan y sawl a'u harfrant, fel *arwydd-nodau* perthynol i'r cyfryw bethau. Mewn enwau gwrthrychau, neu bethau a ymgynnygant i'n synwyrau allanol, nid oes nemmawr o le i ddynion gam-ddeall eu gilydd, os byddant yn siarad yr un iaith. Pe byddem i geisio gan wâs o Gymro i hôl ein *ceffyl* i ni, byddai yn chwith iawn gennym ei weled yn lle hynny yn do'd â'r *fuwch* neu'r *tarw* at y tŷ.

Mewn un iaith yn fwy nâ'i gilydd nid yw enwau gwrthrychau o'r fath hyn ddim mor agored i gael eu cam ddeall; ond mewn perthynas i'r enwau a roddir genym ar wrthddrychau'r meddwl dynol—gweithrediadau y deall, a'r drychfeddyliau y mae yn eu ffurfio wrth wahaniaethu a chydmaru pethau âu'-gilydd—nid yn unig y mae perygl i ddynion gam-ddeall eu gilydd yng-hylch ystyr yr enwau a arferant, ond y mae yn beth digon adnabyddus i'r sawl sydd wedi sylwi ar y mater, fod dynion *yn cam-ddeall* ac yn cam-gymmeryd meddwl eu gilydd, a hynny oherwydd eu bod yn arferyd yr enwau yma mewn gwahanol ystyr. Ac i wneuthur y peth yn waeth etto, rhai yn arferyd yr enwau yma mewn rhyw ystyr dywyll, neu ynte heb un ystyr yn y byd iddynt. Dyma achos mwy na hanner y dadleuon ag sydd wedi cyfodi yn y byd Crist'nogol—dadleuon a fyddent wedi darfod er ys lawer dydd pe b'ai'r dadleuwyr ddim ond i *gytuno* ynghylch ystyr yr *enwau* a arferant yn eu dadleuaeth. A pha ryfedd eu bod yn croesi eu gilydd yn eu dywediadau pan y maent yn cyssylltu gwahanol feddyliau â'r geiriau neu'r enwau y maent yn eu harferyd? Hyn sy'n dangos yr anghenrheidrwydd o gwrteithio iaith, a defnyddio geiriau neu enwau yn eu hystyr briodol; hyny yw, yn yr ystyr y deallir hwynt yn gyffredin; ac os bydd i neb ei weled yn gymmwys i ddefnyddio geiriau *newydd*, neu arferyd *hen* eiriau mewn ystyr newydd neu annhriodol; yna fod galwad arno i roddi ar ddeall yn amlwg *ym mha ystyr* y mae yn cymmeryd y cyfryw eiriau fel na byddo i'w wrandawr neu ddarllenydd gael ei dwyllo neu ei ddallu ganddo. Sicr yw mai dyma y rheol y dylem bawb ei dilyn; ond fel y mae gwaetha'r modd, nid fel hyn yr ydys yn gwneud. Yn hyn o beth nid y'm ni, y Cymry, o bosibl, ddim yn waeth na chenhedloedd eraill.

Oni buasai y *cam* a wnaed ag *enwau*, buasai y byd Crist'nogol er ys oesoedd wedi darfod i gyflawr llawer gwell nag y mae yneddo yn bresennol. Buasai ymeryawyr onest yn gallu myned ymlaen ar eu ffordd yn fwy rhwydd a didrafferth; buasai gwrthddadleuwyr yn gweled eu bod lawer gwaith yn newat eu gilydd nag y tybient eu bod; neu, o leiaf, buasent yn fwy pwylleg ac yn llai hynaws. Wedi cael eu traed allan o'r rhwyd caent rodio yn rhydd: wedi symmud ymaith y niwl ag sy'n uglyn âg enwau tywyll, difeddwl, caent weled pethau fel ag y maent yng ngoleuni'r gwirionedd. Oni na fyddied i'r darllenydd gasglu mai ynghylch *enwau yn unig* y mae'r dadleuon ag sy'n bresennol yn y byd Crist'nogol; neu chwaith ein bod yn ystyried fod y dadleuwyr yn llettya yr un golygiadau ar y pethau y dadleuant yn eu cylch, ond yn unig eu bod yn gwahaniaethu yn ei geiriad. O na, nid felly. Dywedyd y'm ni mai gwneuthur cam âg enwau yw y rhwystr mawr; dyma y sydd yn attal; a phe b'ai dadleuwyr onest ddim ond i gymmeryd yr enwau a arferant yn yr un ystyr, hyny yw, mewn ystyr ddealladwy ac adnabyddus, yna y deuent yn nes at eu gilydd, a therfynai y ddadl yn fuan mewn argyhoeddiad ac ymdaeniad o'r gwirionedd. Grefyddwyr Cymru, pa bryd y cawn weled hyn? Pa hyd y caiff enwau

o ystyr dywyll, neu heb un ystyr yn y byd, lywodraethu ar feddyliau'r werin!

Ond rhag ofn nad yw'r sylwadau blaenorol ddim yn ddigon dealladwy, ac er mwyn eu cyfleu at achosion perthynol i'r ymofynydd Crist'nogol, ceisiwn roddi ychydig o siamplau er eglurhâd.

Yn gyntaf, nid yw'r *enw* "Duw" ddim yn gyssylltiedig â'r un syniadau ym meddwl *plentyn*, neu ddyn anwybodus, ag y mae ym meddwl dyn a fyddo wedi cyrhaeddyd pwyll a gwybodaeth.

Y mae ymddygiad yr oferddyn anystyriol ag sydd â'i "Fyn Duw," ac "Fe wyr Duw," mor ysgafn a llithrog yn ei iaith, yn profi nad yw'r *enw* fel y mae ef yn ei arferyd, ddim ond "gair llusg,"—enw o ystyr dywyll, neu heb un ystyr ganddo iddo. O'r tu arall, gydâ'r doeth a duwiol—ac nid oes gwir ddoethineb heb dduwioldeb—y mae yr un gair "Duw" yn cyffroi sobrwydd ac hyfrydwch tawel, ac yn ymgyssylltu yn y meddwl â'r fath syniadau ag sy'n crynhoi i'r un man bob peth sydd fawr, pob peth sydd nerthol, pob peth sydd hardd, pob peth sydd hawddgar yn y greuadigaeth.

Fel hyn y mae gwahanol syniadau yn gyssylltiedig â'r un enw ym meddyliau gwahanol ddynion, a hynny yn ol yr ystyriaeth a'r gwybodaeth a fyddo ganddynt. Etto gan nad pa mor wahanol oddiwrth ein gilydd y byddo ein syniadau ynghylch natur a character y Goruwchaf, y mae yn gymmwys i ni arferyd y gair "Duw" wrth lefaru am dano, gan mai dyma ei enw priodol yn ein hiaith ni.

Yn ncsaf, y mae Duw wedi caniattâu i ni ei alw yn "Dad," a diolch byth iddo am hynny! Y mae Crist yn ein dysgu bawb o honom i ddywedyd oddiar wir deimlad, "Ein *Tad* yr hwn wyt yn y nefoedd." Ond nid yw pawb ddim yn cyssylltu yr un syniadau â'r enw hwn. Yr ydym *ni* yn gorfoleddu yn y "newyddion da" fod Duw yn "Dad pawb oll." Gwelwn yn hyn y gallwn roddi ein holl hyder arno, fel un ag sydd nid yn unig yn alluog, ond hefyd yn ewyllysgar i ddwyn ymlaen ein dedwyddwch ni a dewyddwch pawb. Nid felly y mae gydâ'n brodyr Calfinaidd. Y maent hwy, mae'n wir, yn arferyd yr enw "Tad" am Dduw. Y maent yn cydnabod ei fod yn "Dad *pawb oll.*" Ond *sut* Dad? Y fath ag y byddai cywilydd ar un tad daearol i fod yn debyg iddo. Pa dad naturiol a oddefai i rai o'i blant fod mewn arteithiau dros eu holl fywyd, pe byddai yn ei bwer ef i'w gwaredu? Etto, dywedant *hwy* fod y "Tad nefol" yn cael ei ogoniant yn mhoenedigaeth y damnedigion—ei blant, gwaith ei ddwylaw---ac yn parhau i'w cynnal yn fyw er mwyn eu poeni am byth!

Yn awr nid ein pwrpas ni yn bresennol yw ymofyn i ysgrythyroldeb yr athrawiaeth, eithr yn unig i alw sylw y darllenydd at yr anghysondeb o fod y Calfiniaid yn galw yr enw "Tad pawb oll" ar Dduw, pan y gwyddant, neu y dylent wybod nad yw'r enw ddim yn gymmwys yn ol eu golygiadau hwy.

Ac am y gair *person* mewn perthnas i Dduw, gwell feallai pe nad arferasid ef erioed, gan gymmaint y tywyllwch y mae wedi achosi. Nid oes un bai ar yr enw ynddo ei hunan, er ei fod fel llawer enw arall a arferwn, o darddiad Rhufeinig; y mae yn atteb pwrpas iaith, a'i gymmeryd yn yr ystyr y deallir ef yn gyffredin, fel yn arwyddocau *bod meddyliol.* Ond pan y mae Trindodiaid yn dywedyd fod "Tri pherson dwyfol, ac un Duw," y mae pob meddwl ystyriol yn myned yn synn wrth weled anghysondeb a gwrthuni y dywediad; nid all lai nâ gweled fod "Tri pherson dwyfol" yr un peth â

thri Duw. Ond y mae Trindodiaid yn proffesu ymwrthod â thri-dduwiaeth. Rhaid ynte eu bod yn arferyd yr enw person mewn ystyr neullduol. Pa ystyr yw hwnnw? Ie, dyna'r cwestiwn. Nid yn rhwydd y ceir attebiad iddo. A dyma lle mae gwreiddyn y drwg—dyma'r peth sy'n tywyllu'r ddadl, sef arferyd y gair *person* mewn rhyw ystyr dywyll. Etto, er fod yr enw yn cael ei arferyd heb un ystyr dealladwy iddo, nid yw ef heb ddwyn ei effaith—a hwnw yn effaith niweidiol—ar y sawl a'i harferant. Dichon fod y rhai ag sydd gynnil a chywraint yn nuwinyddiaeth y Drindod yn boddloni eu hunain eu bod yn eu hathrawiaeth yn cadw ym mhell oddiwrth dri-dduwiaeth; ond gyda'r lluaws y mae yr enw "Tri pherson dwyfol," ond odid yn dwyn ei effaith naturiol. Y maent yn credu mewn tri Duw. Pa bryd y cawn ni weled tro er gwell ar hyn yma!

Buom yn ddiweddar yn ceisio dychymygu pa sut y bydd hi ym mhen rhai blynyddau i ddyfod pan y bydd Rhydd-ymofyniad wedi ymweled ar ei daith âg ardaloedd Cymru—pa agwedd fydd ar y gynnulleidfa yn y Llan ar Sul y Drindod, pan fyddo'r offeiriad a'r clochydd yn darllain Credo St. Athanasius yn wers a gwers—p'un ai bydd un a'r llall yn edrych yn synu yn wyneb ei gymmydog wrth glywed darllain y Gredo fawr, yr hon a welent yn awr ei bod ym mron yn un rhefiyn o wrthddywediadau; fath synnu fydd wrth glywed yr offeiriad yn dywedyd fod y "Tad yn anfeidrol, y Mab yn anfeidrol, a'r Ysbryd Glan yn anfeidrol," a synnu mwy etto wrth attebiad y clochydd, "Nid tri o anfeidrolion, ond un anfeidrol," a siarad a'u gilydd wrth fyned adre, sut yr oedd y clochydd yn dywedyd yn groes i'r offeiriad, ac o'r ddau mai y clochydd oedd *right*, sef nad "Tri o anfeidrolion" y sydd, 'ond un anfeidrol.' Cyn y gallwn ddisgwyl gweled llawer o welliant ar y Cymry yn y peth yma, rhaid iddynt adael heibio arferyd enwau a fyddont o ystyr dywyll, neu heb un ystyr.

Yr oeddem yn bwriadu sylwi ar rai enwau eraill ag yr ydys yn gwneuthur cam â hwynt, ac yn neullduol yr enw "Sosin," ond rhaid i ni yn awr eu rhoddi heibio hyd y cyfleu nesaf.

PECHOD GWREIDDIOL.

Parhad o Tudal. 35.

Y mae genym weddiau yr hen dduwiolion o'n blaen a ffurf gweddi a roddodd Crist i'w ddisgyblion. Ond nid ym yn cael fod Adda yn cael ei feio yn un o honynt. Mor wahanol ydynt i'r gweddiau a arferir yn yr oes hon. Mae Dafydd yn gweddio, ond nid oes son am lwgr natur ganddo: ond i'r gwrthwyneb y mae'n dywedyd. "Gwn hefyd, O fy Nuw, mai ti sydd yn profi'r *galon*, ac yn ymfoddloni mewn cyfiawnder. Myfi yn *uniondeb fy nghalon*, o wirfodd a offrymais hyn oll; ac yn awr y gwelais dy bobl a gafwyd yma yn offrymmu yn ewyllysgar i ti, a hynny mewn llawenydd." Mae Crist yn gweddio ac yn ein dysgu ninnau i weddio, ond nid oes un gair am bechod Adda. Mae Paul yn gweddio, ond y mae'n fud am hyn. Y mae'n rhaid ynte nad oedd yr athrawiaeth ag sydd yn effeithio cymmaint ar weddiau crefyddwyr yn awr, ddim yn adnabyddus iddynt hwy.

Etto nid yw'r ysgrythyrau wrth ddarlunio dydd y farn a'n tynged ar ol marw, ddim yn gweud y cawn ni ddioddef dim o herwydd pechod Adda, na phechod neb ond ein pechodau ein hunain. Yn efengyl Mat 16. 27,

Y mae Crist yn gosod y matter yn eglur ger ein bron gan ddywedyd, "Canys Mab y dyn a ddaw yn ngogoniant ei Dad gyda'i angylion; ac yna y rhydd efe i bawb yn ol *ei weithred.*" 'Does yma ddim son fod neb i gael derbyn yn ol yr hyn a wnaeth Adda, ond pob un yn ol ei weithred ei hun. Yn y 25 y mae ef hefyd yn dangos pwy fydd y barnwr yn gymmeradwyo ac yn wrthod. "Yna y dywed y brenin wrth y rhai ar ei ddeheulaw, Dewch chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barottowyd i chwi er seiliad y byd. Canys bum newynog, a chwi a roisoch i mi fwyd: bu arnaf syched, a rhoisoch i mi ddiod: bum ddieithr, a dygasoch fi gyda chwi; noeth, a dilladasoch fi: bum glaf, ac ymwelsoch â mi: bum yngharchar, a daethoch attaf." Wrth y rhai fyddant ar y llaw aswy y dywed. "Ewch oddiwrthyf rai melldigedig, &c. canys bum newynog, ac *ni* roisoch i mi fwyd; bu arnaf syched, ac ni roisoch i mi ddiod: bum ddieithr ac ni'm dygasoch gyda chwi: noeth, ac ni'm dilladasoch: yn glaf ac yngharchar, ac ni ymwelsoch â mi." Gwelwn ei fod yn eglur oddiwrth hyn, mai'r achos y bydd rhai yn cael eu derbyn, ac ereill eu gwrthod yw gweithredoedd y naill a'r llall; eu gweithredoedd eu hunain ac nid yr hyn a wnaeth neb arall drostynt. Yn efengyl Ioan 5. 29. Y mae'r Iesu yn dwyn yr un gwirionedd o'n blaen. "Na ryfeddwch am hyn medd ef, canys y mae'r awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef, a hwy a ddeuant allan; y rhai a *wnaethant* dda i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a *wnaethant* ddrwg, i adgyfodiad barn." Yma etto yn ol eu gweithredoedd eu hunain, y bydd pawb yn cael eu barnu. Y rhai a *wnaethant* ddrwg yn unig a ddaw i adgyfodiad barn. Ni wna'r barnwr cyfiawn ddim cam a neb. Y mae Paul etto yn ei lythyr at y Rhufeiniaid yn dysgu yr un athrawiaeth, 2. 9. Trallod ac ing ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg; yr Iuddew yn gyntaf, ar Groegwr hefyd." Nid oes ond un meddwl i eiriau o'r fath hyn etto, a'r meddwl hwnw, yr un a meddwl Crist. Fallai erbyn hyn fod rhyw un yn barod i atteb, yngwyneb y geiriau eglur hyn o eiddo'r Apostol; fod yn wir fod yr ysgrythyrau yn dysgu mai am ein gweithredoedd y cawn ein cospi; ond ein bod ni wedi pechu yn Adda. Ein bod yn ei Iwynau ef pan y darfu i Dduw wneuthur cyfammod ag ef, ac yn ganlynol ei fod wedi gwneuthur cyfammod a ninnau hefyd ar yr un pryd; a phan y darfu i Adda bechu, i ninnau bechu hefyd ynddo ef, a thrwy hynny ddyfod yn agored i gosp am y cyfryw bechod. A phe buasem yn cael y cynnyg, mai yr un peth a wnelsem ag a wnaeth yntau. Dyma ymresymmu dros y fraich yw hwn; ond y mae wedi cael ei wneuthur gan ddynion dysgedig. Mae y twyll hwn yn ymddangos ar unwaith, pan yr ystyriom nad oes pechod, pryd nad oes ewyllys, ac ewyllys nid oedd gennym cyn ein geni; mae hyny yn anmhossibl. A phryd nad oes deddf ni chyfrifir pechod, ac nid teg ein cospi am yr hyn nad yw yn cael ei gyfrif, hyd yn oed i'r rhai a wnant bethau croes i'r ddeddf, cyn bod deddf wedi cael ei rhoddi iddynt. Y mae ymresymmiad o fath yr un dan sylw yn dwyn i'n côf chwedl Esop am y Blaidd a'r Oen. "Aeth Blaidd ag Oen i'r afon, un diwyrnod brwd yn yr haf, i dorri eu syched. Yr oedd y Blaidd yn sefyll ar y tir uchaf, a'r Oen odditano ar lan yr afon. Yr oedd y Blaidd yn awyddus i bigo cynnen a'r Oen, ac a aeth atto, ac mewn modd surrug, a ofynnodd iddo, paham yr oedd ef yn cythryblu y dwfr a'i wneuthur mor lleidiog fel nas gallasai ei yfed? Yr Oen a'i hattebodd gan ddywedyd mor addfwyn ag y gallasai, nas gallasai hyny fod, gan mai efe, (y Blaidd) oedd ar y tir

uchaf, ac nad yw'r dwfr yn rhedeg i fynu. Boed hyny fel ag y bo ebe'r Blaidd, dihyryn wyt ti, a chlywais dy fod yn defnyddio iaith gâs am danaf fi er ys blwyddyn a hanner yn ol. Ar fy ngeiriau ebe'r Oen, nid oeddwn i wedi fy ngeni yr amser yr wyt ti yn sôn. Sicr, ebe'r Blaidd, os nad ti oedd, dy dad di ydoedd, a man a man ydyw; ac efe a syrthiodd ar yr Oen ac a'i llarpiodd yn y man." Yn yr addysg a dynnir oddiwrth y chwedl hon, y mae pawb yn gweled anghyfiawnder a chreulondeb y Blaidd a'r cyfryw a ymddygant tuag at eu cyd-ddynion yn debyg i'r blaidd hwn; ïe, meddaf gwelant chwthigrwydd y fath ymddygiad mewn chwedl, a chondemniant ef ag un llais; ond cynnygwch yr un peth, nage nid yr un peth ond llawer gwaeth, yn gymmaint ag nad yw fod Oen yn colli ei fywyd ddim i'w gydmaru a dyn yn caeł ei boeni am byth, cynnygiwch ynte, meddaf beth fo'n anghydmarol waeth dan enw crefydd, yna galwant ymddugiad eu Duw, sydd yn anghydmarol mwy creulon na Blaidd Esop, yn gyfiawnder. Ond nid Duw yr ysgrythyr yw hwn! Nid tad y mab afradlon; nid yr hwn sydd yn ymofyn am le i drugarhau, yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd a chamwedd a phechod; nid yr hwn sydd yn ddaionus i bawb a'i drugaredd ar ei holl weithredoedd, yw hwn. Ond i adael y chwedl i fyned at y gair yr hwn sydd yn tystiolaethu yn bendant yn erbyn y fath ynfydrwydd. Nid pechod a wnaethom pan yn lwynau Adda, pan ynghorph Adda a ddaw i'n herbyn medd Paul, 2 Cor. 5 10. Canys rhaid i ni oll ymddangos gerbron brawdle Crist, fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y *corph, yn ol* yr hyn a *wnaeth*, pa un bynag ai *da* ai drwg. Yr hyn a wnaethpwyd yn y *corph* sydd yma, ac nid yr hyn a wnaethpwyd ynghorph Adda; oblegid pe byddai Paul yn meddwl corph Adda, yr oedd yn llwyr anghymmwys iddo weud, pa un bynnag ai *da* ai drwg; ag yntau yn gwybod nad oedd dim ond *drwg* wedi ei gyflawni *yno*. Y mae'r Apostol ymhellach etto yn dysgu mai, "yr hyn a hauo dyn, hynny hefyd a fêd efe." Os hauwn i'r cnawd, o'r cnawd ni a gawn fedi llygredigaeth, os i'r yspryd, o'r yspryd ni a gawn fedi y bywyd tragwyddol. Athrawiaeth yw hon ag sydd yn llawn tueddiad da; y mae hon yn ein dysgu, yn ein cymmell i ymwadu ag annuwioldeb a chwantau bydol, gan fyw'n sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon. Dylai'r effeithiau da hyn, sydd yn tarddu'n naturiol oddiar yr olwg ysgrythyrol yma o dynged dyn, ei ddisgwyliadau a'i obeithion mewn byd ar ol hwn, wasgu'n ddwys a'r feddyliau y rhai a goleddant syniadau gwrthwynebol i'r olwg ardderchog hon ar [illegible] odraeth y Duw cyfiawn, doeth, a da; ïe dylai wasgu mor ddwys ar eu meddyliau nes eu hattal i fynwesu un dyb groes, heb y dystiolaeth fwyaf eglur o'r ysgrythyrau ei bod yn wir; rhag iddynt trwy ymddygiad gwahanol, wneuthur gweithredoedd Duw a'i air i groesi eu gilydd; effaith mor ddinystriol i ddedwyddwch dyn a gwir grefydd, fel na allai un dyn da edrych ar ei chyflawniad heb y gofid mwyaf.

Yr ydym yn awr fy narllenwyr hynaws wedi chwilio i raddau i weithredoedd Duw, ac yr ydym yn methu canfod dim un prawf fod dyn nag un creadur yn cael ei eni dan lid a melldith Duw. Ond fe allai y dywedir fod poen, a'r hyn a elwir yn ddrygau naturiol, yn brofion eglur o'r cwymp; ni chaf ragor yn y fan yma, na gweud nad ydynt, ond eu bod oll yn fendithion ac nid melldith. Mae poen yn y cylla yn atteb ei ddibenion, i yrru dyn i ymofyn am ei ymborth; heb yr hwn ni all fyw, ond ni a gawn sylwi yn helaethach ar hyn etto pan yn sylwi ar y gwrthddadleuon a ddygir

yn erbyn y golygiadau a ymdrechais osod ger eich bron. Mae natur, yn gorfawredd ei gweithredodd ynte, yn dangos daioni yr hwn a'i gwnaeth. Bodoliaeth Duw doeth a da y mae hi yn ddangos ac nid y cwymp, yn ol tystiolaeth ein brodyr trindodaidd eu hunain. Yn nesaf darfu i ni chwilio am brofion o lwgr natur ar dir rheswm a phrofiad, a chawsom fod rheswm yn ei gwrthod, a phrofiad pob un o honom yn dangos cariad, ac nid llid ein Tad nefol, yn ei holl ymddugiadau tyner tuag attom. Dan y pen hwn sylwasom ar y gwrthddadl a ellsid gyfodi, trwy ofyn, beth yw'r achos fod pechod yn y byd. Ymdrechasom ei atteb trwy ddangos nad yw'r anhawsdra ddim yn llai o dy ein gwrthwynebwyr na ninnau; gan i Adda bechu heb un *llwgr* natur yn peri iddo ef wneuthur felly; ac o herwydd hynny fod y questiwn heb ei atteb etto. Sylwasom ymhellach mai anwybodaeth yw'r achos o bechod, ïe, ac oedd yr achos o hono cyn y cwymp, "y sarph am *twyllodd*," medd Efa. A gwyddom nas gall neb gael ei dwyllo ond yr anwybodus. Dywedaf air ymhellach etto, sef mai dyma yw'r atteb y mae'r ysgrythyrau yn roddi i'r gofyniad. Paham y mae dynion yn pechu, wedi'r cwymp hefyd? Y mae iaith Crist am y mab afradlon, yn eglur ddangos hyn. "A phan ddaeth *atto ei hun*, efe ddywedodd, codaf ac af at fy Nhad." Os daeth atto ei hun, beth oedd ef o'r blaen, ond dyn allan o'i bwyll? Drachefn y mae Crist yn gweddio dros ei fwrddwyr gan ddywedyd, "O Dad maddeu iddynt, canys ni *wyddant* pa beth y maent yn ei wneuthur." Wel ynte, anwybodaeth yw'r achos o bechod. Ond yr wyf yn canfod gwrthddadl yn cyfodi yn fy erbyn. Gellir gofyn, paham y mae dynion yn cael eu geni yn anwybodus, ac felly gael eu darostwng i gamsyniadau, os nad o herwydd y cwymp? I hyn yr wyf yn atteb, nad oedd yn bosibl i hyn fod fel arall heb i Dduw yn oruchnaturiol drefnu moddion i ddwyn dyn i'r byd yn ei gyflawn faintioli. Ond y mae'n amlwg nad oedd Duw yn amcanu hyn cyn i Adda syrthio; o herwydd dywed wrth Adda cyn iddo droseddu. "Ffrwythwch, amlhewch a llenwch y ddaear." Nid gweud y mae Duw, mi a wnaf ddynion etto yr un modd ag y gwnaethym chwithau, ac i fod yn gyfeillion a pherthynasau i chwi; nage, ond eich gwaith chwi bellach yw llanw'r ddaear. Os felly ynte, y mae'n amlwg, mai trwy foddion naturiol yr oedd dyn i gael ei eni i'r byd, pe na fuasai i Adda gyffwrdd a ffrwyth y pren gwaharddedig. Ac os cael ei eni, yr oedd yn rhaid iddo fod yn fychan o gorffolaeth a meddwl hefyd. Ac y mae'r dybenion mwyaf gogoneddus yn cael [illegible]hateb trwy hyn. Mae plentyn yn cael ei eni i'r byd yn llwyr ddi[illegible]edd o hono ei hun; ac y mae hyn yn galw teimladau gwresocaf y tad [illegible]w goleddu, a nerth y tad i'w amddiffyn; ac felly y mae'r cyssulltiadau agosaf yn cael eu creu rhyngddynt. O herwydd ein hanwybodaeth yr ydym yn cael ein dwyn i weled ein bod yn ymddibynnu ar y naill a'r llall, ac felly y mae cymdeithas yn ei gwahanol ganghenau a'i dosparthion yn cael ei sefydlu. Rhai'n llafurwyr, rhai'n ddysgawdwyr, rhai'n gynghorwyr, rhai i ofalu am ddyddiau ein mabandod; ac y mae dedwyddwch yn tarddu oddiwrth yr holl gyssulltiadau hyn. Gwyddai Duw hyn, ac y buasai dyn yn llwyr ymddifad o'r cyssuron sydd yn tarddu oddiwrth gymdeithas, pe gwnai ef ein dwyn yn oruchnaturiol i'r byd, yn feddiannol ar bob peth angenrheidiol, ac felly yn annibynol ar ein gilydd. Yn ganlynol dywedodd ef, cyn son am drosedd Adda na'i felldithion, "Ffrwythwch, amlhewch, a llenwch y ddaear:" creaduriaid ymddibynnol ydych i fod; ymddibynnol arnaf fi, fel yr achos dechreuol, ac ymddibynnol arnoch eich hunain hefyd. Yr wyf wedi eich

gwneud i garu eich gilydd, ac nis gall hynny fod, heb eich bod yn ymddibynnu ar y naill y llall. Yn olaf sylwasom ar lais yr ysgrythyrau; a chawsom fod tystiolaeth gyffredinol y rhai'n yn eu gorchymynion a'u bygythion, eu gwahoddiadau a'u cymhellion, yn eu cosp a'u gwobr; yn eu darluniad o ddyn, o blant bychain; a'r farn; a phan cyffyrddant a'r pwngc dan sylw, yn bendant yn erbyn y dyb gyffredin am dano. Felly y mae genym dir cadarn i sefyll arno mor belled ag ydym wedi myned.

Gan fod yr athrawiaeth hon yn cael ei chasglu oddiwrth fanau neillduol o'r ysgrythyr; ïe, gan y dywedir fod yr athrawiaeth o lwgr natur yn cael ei dysgu yn amlwg yn ngair Duw. Fod hwn yn dywedyd, mai o achos i Adda fwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig, y bu ef farw; fod holl feddylfryd calon dyn yn ddrygionus bob amser; nad oes neb cyfiawn ac yn gwneuthur daioni nag oes un; fod Dafydd yn dywedyd, mewn anwiredd i'm lluniwyd ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf; ac yn bennaf oll fod Paul yn priodoli darostyngiad holl natur i oferedd, marwolaeth a phoen, i Adda. Trwy ddyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod, ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymmaint a phechu o bawb, a thrachefn cyflog pechod yw marwolaeth. Ac ein bod yn canfod fod pawb yn marw, plant bychain a chwbl, er na chyflawnasant un pechod gweithredol, etto y maent yn marw yr hyn yw cyflog pechod. A chan mai nid am ddim a wnaethant hwy eu hunain maent yn marw, mae'n rhaid mae am drosedd Adda. Yn y dull hyn yr ymresymmir, ond ni chaf ragor yn bresenol na'i grybwyll, gan addaw ar achlysur dyfodol ddwyn y gwrthddadleuon hyn ym mlaen yn y lliw cryfaf, ac ymdrechaf i'ch boddlonrwdd, os caniatta Awdwr ein bod ein bywyd a'i holl gyssuron, i mi wneuthur hyny. Hyd hynny, gorphwysaf a'r hyn o dro eich ufudd was.

Cefn OWEN EVANS.

Os caniattewch i mi ymddangos etto ar y pwnc hwn bydd yn hyfrydwch genyf wneuthur hynny.

SYLWADAU AR YR ATHRAWIAETH O IAWN I GYFIAWNDER.

MR. YMOFYNYDD,—Yn fy llythyr diweddaf dyfynais y geiriau canlynol o eiddo Dr. Jenkyn i ddangos nad yw ef ddim yn dwyn profion ysgrythyrol dros Iawn i Gyfiawnder:—"*That the atonement is a doctrine of the word of God is evident from the facts * * * * that in the churches which used the original text only it was never deemed a heresy.* Nid yw'r Doctor ddim yn dyweyd wrthwm pwy oedd yr eglwysydd hyny, na pheth mae'n feddwl wrth yr *original text only.* Os yw yn meddwl y Testament Newydd yn gryno fel y mae genym ni yn awr, ac yn llawysgrifen eu hamrywiol awdwyr, ni fu y fath eglwysydd erioed; ond os yw yn meddwl yr eglwysydd ag oeddynt yn darllen yn yr iaith Roeg y rhanau hyny o'r Testament Newydd ag oedd yn dygwydd bod ganddynt, neu yr Eglwys Roeg, nid yw geiriau'r Doctor yn profi dim, oblegid nid oes neb Crist'nogion deallus, a wn i am danynt, na addefent fod rhai o'r Apostolion yn ystyried Crist yn Iawn mewn un ystyr ffigurol; ond y mae'r Iawn hwnw, fel y cawn ddangos cyn b'o hir, mor wahanol i unrhyw *system* a fu yn yr eglwys o'r ail a'r trydydd canrif hyd yn awr, ag yw Iawn y *system* newydd i Iawn Origeu; ac yr wyf yn sicr fod y Doctor yn rhy hyddysc yn hanes yr Eglwys Grist'nogol i feddwl fod y *system* ag y mae efe yn ddysgu mewn bod *in the churches which used the original text only,* ta beth sydd i feddwl wrth yr *original*

text. Ond os bydd y darllenydd yn foddlawn, mi fyddaf ychydig yn fwy manol ar y pen hwn, oblegid y mae yn beth ag sydd o bwys.

Yn ol y meddwl cyffredin ag y mae'r gair *Iawn* yn gyflwyno i'r deall, peth yw ag sy'n cael ei roddi i ryw un, neu i ryw rai, a ystyrid eu bod wedi cael eu hamddifadu yn anghyfreithlon o ryw beth ag oedd ganddynt hawl gyfiawn iddo, neu yn rhyw fodd wedi eu niweidio. Ystyrid fod gwaed Crist wedi ei roddi yn Iawn tros bechaduriaid, ond y cwestiwn oedd, I bwy y rhoddwyd ef? Attebid y gofyniad trwy ystyried fod dynion yn eu cyflwr pechadurus yn ngwasanaeth tad y drwg, sef y bod dychymygol a elwir y Diafol, yn gaethweision iddo; ac yn eu gwaith yn ymadael a phechod, ac yn treulio bywyd rhinweddol, eu bod yn ymadael a gwasanaeth Diafol, ac yn rhoddi eu hunain i fod yn weision i Dduw; peth rhesymol, gan hyny, oedd meddwl mai'r Diafol oedd i gael iawn, am mai efe gafai y golled. Y mae yn dra thebyg mai rhywbeth cyffelyb i hyn oedd barn Origen, pan y dywedai, "Os y prynwyd ni a gwerth, fel y dywed Paul, rhaid oedd i ni gael ein prynu oddiwrth yr hwn ag oeddym yn gaeth iddo. * * * * * Ond i'r Diafol yr oeddym yn gaethweision, am mai iddo ef y traddodwyd ni am ein pechodau; am hyny efe a ofynodd waed Crist yn lle tal am ein gwaredigaeth.'* Y mae Austin hefyd yn ymddangos fel pe byddai weithiau o'r un farn ag Origen ar y pen hwn; "Rhoddwyd gwaed Crist fel gwerth," medd efe, "ac etto nid yw'r Diafol a'i cafodd wedi ymgyfoethogi."† Hefyd, fe ddywed un Proclus, o Gaercwstenyn, "Fod y Diafol yn ein dal mewn caethiwed, gan ymffrostio ei fod wedi ein prynu, gan hyny am fod pawb wedi eu heuogfarnu, rhaid oedd eu dienyddu, neu talu pris cyflawn am danynt; ac am nad oedd gan angel ddim i dalu, rhaid oedd i Dduw farw trosom."‡

Nid oes eisiau i mi ddyfynu ychwaneg o waith hen awduron i ddangos fod dynion wedi bod o'r farn mai i'r Diafol y ca'dd yr iawn ei dalu, oblegid y mae'r peth yn wybodus i'r sawl ag sydd yn myfyrio hanes yr Eglwys Gristnogol; ac y mae hefyd yn dra thebyg i'r farn hon gael ei chynnal i fynu mewn rhyw ddull neu gilydd yn agos hyd amser y *schoolmen*; ond ymddengys fod llawer ag nad oeddynt yn cael eu boddloni ynddi, ac am hyny yn ceisio rhoddi yr hyn a dybient ei fod yn well esboniad. Y mae rhyw syniadau ag nad ydynt yn annhebyg i'r Iawn Calfinaidd i'w canfod yma a thraw ar hyd gwaith Gregory Fawr, Theodorus Abucara, Anselm, Thomas Aquinas, a rhai o'r ysgolwyr; ond y mae yn eithaf amlwg, dybygwn i, na wnawd unrhyw *system* sefydlog cyn amser y Diwygiad.

---

* Orig. Op. ii. p. 486.

† Augustin de Trin. L. xiii. c. ii. Op. iii. p. 417.

‡ Grotii Op. Test. Vet. iv. p. 346. Y fath feddwl plentynaidd am Dduw raid fod gan yr hanner-pagan hwn pan y dywedai fod yn rhaid i Dduw farw! Yn wir, y mae yn ddrwg genyf feddwl nad yw rhai o bregethwyr yr Orthodox yn ymddangos yn llawer mwy goleu yn awr: oddeutu tri mis yn ol, ac nid pell o'r fan lle yr wyf yn byw, clywyd un ag oedd wedi bod am rai blynyddau yn fyfyriwr yn Athrofa y Bedyddwyr yn Pontypool, yn dyweyd uwchben ei wrandawyr heb ymddangos ei fod mewn syndod, i'r hwn wnaeth for a thir farw! Ond pwy ryfedd, onid yw eu llyfrau hymnau hwy yn dysgu yr un peth? Ac onid yw athrawiaeth yr Iawn yn cymeryd yn ganiataol mai yn mawredd person y Cyfryngwr yr oedd effeithioldeb yr Iawn yn gynnwysedig? Rhaid oedd gan hyny i'r Duwdod farw. Y mae hyn yn dwyn ar gof i mi sylw y beirniad Longinus ar Homer, sef fod y bardd yn dyrchafu ei wroniaid yn gydradd â'r duwiau, ac yn darostwng y duwiau mor isel a dynion. Y mae'r Orthodox hwythau yn gwneyd dyn yn Dduw a Duw yn ddyn.

Nid ammhriodol, efallai, fyddai sylwi yn y fan hon fod dynion, yn yr holl amseroedd pryd oedd Pabyddiaeth yn ben, yn credu yn y peth a elwir "Haeddiant Crist," oblegid ta beth bynnag oedd yr Iawn, ac i bwy bynnag y ca'dd ei dalu, yr oedd gwaith yr ail Berson yn ymddarostwng, fel y dywedir, i wisgo cnawd, yn dioddef ac yn marw dros bechaduriaid, yr un peth, ac yn haeddu llawer ar law'r Tad.

Ond y Diwygwyr oedd y cyntaf wnaethant *system* Iawnol reolaidd a sefydlog; ac yr oedd dau achos paham y gosodai y Diwygwyr fwy o bwys ar yr athrawiaeth na wnai'r Pabyddion: un achos oedd, am mai mynach o urdd St. Austin oedd Martin Luther;* am hyny yr oedd yn dra hyddysc yn ysgrifeniadau'r sant hwnw, ac yn tueddu ychydig, fel y mae rhesymol meddwl, nid yn unig at ei syniadau ynghylch Gras, Llwgr Gwreiddiol, ac Arfaeth, ond hefyd at ryw olygiadau neillduol o'i eiddo ar yr Iawn; oblegid ymddengys, ond darllen ei waith yn fanwl, mai pell iawn oedd Austin o feddu barn sefydlog ar y pwnc o Iawn, er y gellir casglu oddiwrth ryw ranau ei fod yn cymmeradwyo'r farn mai i'r Diafol y talwyd ef. Yr achos arall oedd y ddadl bwysig fu rhwng Luther a'r Pabyddion ynghylch y peth a elwid *indulgences*; ac yn awr am ein bod wedi cyffwrdd a'r peth mi fyddaf yn fwy manol, oblegid cael golwg gywir ar ddadl yr *indulgences* yw cael golwg ar yr *achlysur* a gymmerodd Luther i ymneillduo gyntaf oddiwrth yr eglwys Babaidd, oblegid y gwreiddiol achos o'r Diwygiad oedd cynnydd ac ymledaniad gwybodaeth.

Math o arwydd-nodau (*tickets*,) oedd yr *indulgences* a gyhoeddid gan y Pab. Eu rhinwedd hwynt oedd maddeuant pechodau y cyfryw rai a'u prynai. Yr oeddynt o wahanol brisoedd yn ol drwg y pechod. Yr oedd rhinwedd y *tickets* yn deilliaw oddiwrth haeddiant Crist a'r seintiau. Creda y Pabyddion fod un dyferyn o waed Crist yn ddigon effeithiol i achub bydoedd, ac i fod yr hyn a gollwyd yn yr ardd ac ar y groes yn rhagor, wedi ei osod i gadw megys mewn trysordy at achosion eglwysig. Ynghymysg a'r *store* hwn y gosodwyd haeddiant y seintiau, oblegid dywedid eu bod wedi gwneyd mwy o weithredoedd da nag oedd arnynt hwy eu hunain eisiau er iachawdwriaeth, a bod y gweddill wedi ei osod at haeddiant Crist, a'r canlyniad oedd fod swm y ddau yn fawr aneirif. Y Pab—cenhadwr llawn alluog Crist, fel yr honai ei fod,—oedd arolygwr y trysor; ac, fel pen yr eglwys filwriaethus, yr oedd wedi derbyn awdurdod oddiuchod i'w ddefnyddio fel y gwelai yn gymmwys; ac o'r *storehouse* mawr hwn o haeddiant yr oedd ei sanctaiddrwydd o Rufain yn danfon allan *dickets* yr *indulgences* er maddeuant pechodau. Dyma haeddiant y Pabyddion.

Yn awr, pan oedd y *tickets* yma yn cael eu gwerthu gan un Tetzel † dros y Pab Leo X., yn Germani, gwrthwynebwyd ef gan Luther, yr hwn a ddadleuai nad oedd dim haeddiant yn perthyn i'r seintiau; oblegid, er iddynt yn ddiammeu wneyd llawer o weithredoedd da, na allasent wneyd mwy nag oedd yn

* Martin Luther—Athraw Duwinyddiaeth yn Ysgol Wittemberg yn Prussia, a anwyd yn Aisleben yn Saxony: yr oedd yn fynach o'r Eremitiaid Augustinaidd, un o'r urddau cardodol. Gwel Mosh. vol. iii. p. 302.

† John Tetzel—mynach Dominicanaidd—oherwydd ei ddigywilydd-dra a'i drahausder anghyffredin a benodwyd yn y flwyddyn 1517 gan Albert Archesgob Mentz a Magdeburg i bregethu a gwerthu *indulgences* Leo X yn Germani. Y'mhlith llawer o bethau digywilydd eraill, dywedai, *Pe buasai rhyw un hyd yn ôd wedi treisio mam Duw y byddai'r moddion ag oedd ef yn werthu yn sicr o lanhau ei bechod.* Ymffrostiai hefyd, *Ei fod ef trwy'r indulgences wedi gwaredu mwy o eneidiau o uffern nag a drodd St. Pedr erioed at Dduw trwy ei bregethau.*

ddyledswydd arnynt, ac mai gweision anfuddiol oeddynt wedi'r cyfan. Ond am haeddiant Crist, dadleuai nad oedd gan y Pab ddim awdurdod arno; er hyny, mai trwy haeddiant Crist yr oedd dynion yn cael eu cyfiawnhau, ond fod effaith yr haeddiant yn cael ei gyflwyno i bersonau neillduol, nid trwy *indulgences* y Pab, ond trwy ffydd. A dyma ddechreu yr Iawn Calfinaidd fel cyfundraeth.

Nid âf fi ddim i olrain yr athrawiaeth trwy'r gyffes ffydd a osododd Luther a'i ganlynwyr ger bron Charles V., yn Augsburg, nac ychwaith trwy'r Helvetic Confession, a Geneva, ond âf yn mlaen ar unwaith i Gymmanfa Dort yn y flwyddyn 1618; oblegid y mae'r athrawiaeth i'w gweled yno yn gyfundraeth gyflawn a sefydlog; ac fel hyn y penderfynodd dochineb Synod Dort ar y pwngc:—Y mae Duw nid yn unig yn oruwchaf drugarog, ond hefyd yn oruwchaf gyfiawn; ond y mae cyfiawnder yn gofyn cospi ein pechodau a gyflawnwyd yn erbyn anfeidrol fawredd Duw, â phoen trag'wyddol mewn corph a meddwl; nis gallasem ddianc rhag y gosp hyd nes y cafai cyfiawnder ei foddloni: ond pryd ag nas gallasem ni fod yn iawn, Duw a ddanfonodd ei unig anedig Fab i fod yn iawn trosom; ac efe a wnawd yn bechod ac yn felldith ar y groes yn ein lle ni."*

Ond etto, er i ddioddefaint Mab Duw wneyd iawn am bechod, meddylient fod yn rhaid cael rhyw gyfrwng i gyflwyno effaith y dioddefaint i bersonau neillduol, onite byddai cystadl hawl iddo gan bob dyn a'r llall. Yn awr, sut oedd gwneyd hyn a chadw ar yr un pryd yn ddigon pell oddiwrth *indulgences* pabyddion? Wel, dyma'r modd y trefnwyd: yr oedd Paul wedi dyweyd mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn ac nid trwy weithredoedd; ond eto yr oedd yn rhaid esbonio'r ffydd hon fel peth hollol anymddibynol ar weithredoedd da onite rhoddid gormod o afael i'r Pabyddion: o ganlyniad, dywedir mai nid ffydd neu gred yn Natguddiad Duw ydyw, nac ychwaith effaith y Datguddiad ar feddyliau a chalonau dynion, fel y meddylia Paul. Rhyw beth yw hi ag nas gellir yn iawn dyweyd beth. Gelwir hi weithiau yn "ras," a phryd arall yn "ras cadwedigol," a "gwreichionen o ras." Nis gall neb gael gafael ynddi trwy ei ymdrech, oblegid rhodd Duw ydyw, nid i bawb, ond yn unig i'r rhai mae Duw o'i ben arglwyddiaeth wedi ethol i fywyd tragwyddol. Yn yr Alwad Effeithiol y mae yn cael ei rhoddi pryd y gwelo Duw fod yn dda; os y bydd un o nifer y dedwydd rai etholedig, bydd yn sicr o gael yr alwad ryw amser; ond os na fydd o nifer y cyfryw, gall ddysgwyl am dani trwy ei holl fywyd a'i siomi yn y diwedd. Gan i fod yr alwad yn hollol anymddibynol ar ymddygiad moesol, os dyfod wnaiff, hi ddaw pe bai dyn ar yr amser yn ymdrafod hyd yn ôd a lladrad, meddwdod, godineb, neu lofruddiaeth, yn gystadl a phe bai yn ngafael â'r gwaith mwyaf rhinweddol a chanmoladwy yn y byd: ond ar ol ei chael unwaith, ta beth fyddo ei ymddygiad, ac er iddo syrthio ganwaith, bydd yn sicr o fod yn gadwedig yn y diwedd.†

* Syntag. Conf. Fid Canon i. ii.

† Y mae'r Athrawiaeth hon wedi gyru llawer o ddynion meddylgar, o gyfansoddiad tyner, ac o dymheredd frwd, i wallgofrwydd rhag ofn nad ydynt o nifer y cyfryw ag y mae Duw yn rhoddi'r ffydd neu'r Gras hwn iddynt: treulia eraill eu bywydau mewn ofn parhaus nad ydynt wedi ei chael. Meddyliant weithiau pan y byddo rhyw achos wedi cyffroi'r teimladau yn anghyffredin, eu bod wedi cael gafael yn "ngwreiddyn y matter." Ond pan ddychwelo natur i'w thawelwch cynhenid, y mae'r ofn yn dychwelyd hefyd, a siomedigaeth gydag ef; ac O mor druenus yw eu cyflwr!! Pe caent iawn adnabyddiaeth ar grefydd Crist byddai yn fwy gwerthfawr iddynt na'r byd yn gyfan. Pwy ond y gwirionffol a'r rhagrithiwr na unent i ymlid hon o'r byd?

Hon yw cyfundraeth lawnol cymanfa Dort, ac o bob un arall, hi yw y mwyaf cymeradwy a phoblogaidd. Nid ammhriodol,, efallai, fyddai ei galw yn lawn Calfinaidd, am y cymeradwyir hi gan Calvin a phawb o'i ganlynwyr trwy'r holl fyd. Y mae wedi gwreiddio mor ddwfn yn nghalonau dynion fel mai peth ofer fyddai dysgwyl iddi gael ei gwisgo ymaith yn llwyr am flynyddau lawer etto: ond wrth bob arwyddion, y mae wedi dechreu colli ei gafael.

Y mae gwrthuni ac anysgrythyroldeb yr athrawiaeth hon mor eglur i bob dyn ag na byddo llygaid ei ddeall wedi eu gorchuddio a rhagfarn, fel mai peth rhesymol fyddai dysgwyl cael system newydd, neu welliant ar hon, neu ynte i rai dynion i ymwrthod a phob math o system, a dychwelyd at athrawiaeth eglur a siengl yr Ysgrythyrau. Nid wyf fi ddim wrth ddyweyd hyn yn meddwl fod neb cofleidwyr didwyll un rhyw athrawiaeth a ystyriwyf fi ei bod yn anysgrythyrol, yn ei chofleidio yn wirfoddol groes i dystiolaeth yr ysgrythyrau: ond yr wyf yn meddwl eu bod hwynt yn camsynied, ac y gwelent hyny pe baent yn gallu ymadael yn hollol â rhagfarn dygiad i fynu, a dylanwadau eraill. Na atto Duw i mi *gondemnio* nac ychwaith i fod yn anghariadus i neb oherwydd ei fod yn dygwydd gwahaniaethu a mi mewn barn; y mae ei hawl ef i farnu drosto ei hunan mewn pethau crefydd fel pethau eraill, yr un mor gyfiawn, yr un mor gyssegredig, a'm hawl innau. Ond ni ddylai y dymher Gristionogol hon i'm rhwystro i ddangos yn mheth y mae eraill yn ymddangos i mi eu bod yn camsynied, nac ychwaith i gynnyg y rhesymau sydd genyf dros fy syniadau fy hun. Ond i ddychwelyd. Y mae yn ymddangos i mi mai *modification* neu agweddiad o'r lawn Calfinaidd yw'r peth a elwir y Gyfundraeth Newydd gan ganlynwyr Baxter* a Fuller. Y mae egwyddorion yr athrawiaeth hon, sef y system newydd, i'w canfod yn llyfr Baxter a elwir *Catholic Theology*: llyfr tra dysgedig yw'r llyfr, ond y mae ynddo ryw bethau ag sydd yn dywyll iawn. Ar ol y ddau wr dysgedig uchod, cyfododd i fynu Williams, Stuart, Wardlaw, P. Smith, Dr. Jenkyn ac eraill. Y mae'r gwyr dysgedig, llafurus, ac yn ol fy barn i, cydwybodol hyn, wedi bod o wasanaeth mawr i'r Gyfundraeth Newydd. Y maent yn teilyngu clod, oblegid y maent yn canfod gwrthuni yr hen athrawiaeth ac yn cynnyg yr hyn ag y maent hwy yn feddwl sydd wirionedd ysgrythyrol: ond yr wyf fi yn rhwym o gyfaddef fy mod i, ar ol dwys ystyriaeth o'r athrawiaeth yn methu canfod dim ynddi ag sydd yn ysgrythyrol, ac yn gysson â llywodraeth foesol Duw, nac y chwaith ag sydd yn welliant ar yr hen System; ac yr wyf yn meddwl cynnyg fy rhesymau yn ei herbyn yn fy llythyr nesaf. Y mae anys-

* Yr enwog a'r llafurus Anghydffurfiwr Richard Baxter oedd fyw yn yr amser mwyaf terfysgedd ar grefydd a welodd ein gwlad ni erioed, sef yn amser Charles I. Cromwel, Charles II. a James II. Bu farw yn y flwyddyn 1691, yn 71 oed. Ei syniadau crefyddol oeddynt fath o gymysgedd o Galfiniaeth ac Arminiaeth, a'i amcan oedd, mae'n lled debyg, uno'r ddwy athrawiaeth, pe gallasai. Dywedai Calfin fod Duw wedi ethol er tragwyddoldeb ryw nifer o'r hil ddynol i fywyd tragwyddol, ac wedi arfaethu pawb eraill i golledigaeth. Dywedai Arminius o'r ochr arall fod yr efengyl yn cynnyg iechawdwriaeth i bawb, er na fydd haeddiant marwolaeth Crist o les i neb yn y diwedd ond yn unig i'r rhai sydd yn credu. Yr oedd Baxter o'r un farn a Calfin ar un llaw, sef fod rhai wedi eu hethol i fywyd tragwyddol, a'u bod yn derbyn oddiuchod y Gras Cadwedigol yn yr Alwad effeithiol; ac a James Arminius ar y llaw arall, sef y gall y rhai nad ydynt wedi eu hethol fod yn gadwedig, oblegid fod cymmaint o ras cyffredinol yn cael ei gyfranu iddynt ag sydd ddigon i iechydwriaeth trwy arferyd moddion yr Efengyl. Ond y mae'n debyg nad oedd Baxter ddim yn credu yn y parhad mewn gras, ond y gall y rhai sydd yn cael y Gras Cadwedigol syrthio a bod yn golledig yn y diwedd. Byddai yn anhawdd cael mwy o anghyssondeb.

grythyroldeb yr Iawn Calfinaidd wedi ei ddangos, dybygwn i, tu hwnt i bob ammheuaeth gan Orellius yn erbyn Grotius, gan yr Undodiaid,* ac hefyd, ond nid ar yr un tir, gan ddiffynwyr y System Newydd.

*** Yr ystyriaeth y byddai hanes yr athrawiaeth yn fuddiol i'r Cymro uniaith barodd i mi ysgrifenu'r llythyr hwn.

PHILO.

---

* Y mae Traethawd rhagorol yn Gymraeg ar yr Haeddiant, gan y dysgedig, y galluog, a'r diflin yn mhlaid y gwir—y Parchedig J. James, Gweinidog yr Undodiaid yn Gelliionen. Teimla awdwr y llythyrau hyn hi yn ddyledswydd arno i gydnabod ei rwymau i'r Traethawd am fod yn foddion i ddechreu agor ei lygaid i ganfod anysgrythyroldeb yr athrawiaeth. Dylai y Traethawd fod yn meddiant ac yn neall pob Cymro. Byddai yn ddigon da gan lawer i weled Mr. James yn rhoi ambell dro i faes yr YMOFYNYDD.

AT OLYGYDD YR YMOFYNYDD.

MR. GOLYGYDD,—Ychydig ddyddiau yn nol buais yn ymddiddan a rhai o broffeswyr y ffydd (meddent hwy,) Grist'nogol mewn perthynas i effaith pechod Adda, ag er ychydig syndod imi, 'roedd fy nghyfeillion yn priodoli braidd bob annymunoldeb gymmer le dros yr eang greadigaeth i'r pechod hynny; a chan nas gallaswn gredu y dywediad hynny yn diwyadl, a finnau yn un o'r rhyw fenywaidd, bu arnaf braidd mor beryglus ag y bu ar yr oen gynt pan gofiodd y blaidd am drosedd ei dad, er fod yr oen fel finnau yn hollol ddiniwaid; canys nid digon oedd i'm cyfeillion briodoli yr holl *ddrain* a'r *ysgall* sy'n tyfu yn y meysydd i bechod Adda, a'r *chwys talcen* sy'n tarddu mor naturiol a chyffredin yn y tymmor hwn o'r flwyddyn, a'r amgylchiadau sy'n cadw llawer gwraig a merch ieuangc, heblaw y rhai sy'n gweini iddynt, wrth boblogi ein byd rhag cario ymlaen eu gwahanol orchwylion, a'r annymunoldeb, ynghyd a'r golled sy'n cydfyned a chladdedigaeth rhagor nag *un* wraig i *ambell un* o'r rhyw wrrywaidd; ond 'roedd y proffeswyr dywededig yn edliwio imi, mewn geiriau amlwg, mai o achos fy hen famgu, Efa, 'roedd hyd yn nod gymmaint o *anifeiliaid yn trengu* wrth ddwyn eu rhywogaeth i'r byd, yr hyn ni chlywais erioed o'r blaen, a braint neulldduol imi a'm rhywogaeth yw nad ydyw y creaduriaid direswm yn hysbys o'u tynged, onite ni fuasai na *chorn* na *charn* yn cael eu harbed ganddynt, ond buasem ni yn wrthrychau eu hymddial, a'n bywyd mewn perygl braidd bob dydd oherwydd yr hyn nis gallasem ni ddim oddiwrtho, ië, oherwydd yr hyn gymmerodd le ers gerllaw chwe mil o flynyddau cyn ini gael ein bodoliaeth; ac ar ol i ni glywed y fath esboniad ar natur y pechod hynny, gwnes gynnyg ar faes yr ysgrythyrau i ddangos fod effaith y pechod hynny yn cael ei gyfyngu yn unig i ddynolryw, oherwydd mai nid *plant* y gelwir *ebolion, lloi, wyn, perchyll,* &c., mamau pa rai yn eu gwahanol rywogaeth sy, yn ol fy meddwl i, mor agored i drengu wrth eu dwyn i'r byd ag ydyw hiliogaeth Adda ac Efa; ag hefyd fod dynion yn gyffredin yn chwysu heblaw yn eu *talcenau*, a bod amrywiol o goedydd a llysiau mor ddiddefnydd a *drain* ag *ysgall* yn tyfu o'r ddaear, os priodol eu cyfenwi yn ddiddefnydd chwaith. Ond cyn im' gael dwyn ymlaen hanner fy rhesymau dros ddangos mai *naturiol*, ag nid effaith pechod Adda, yw y pethau a grybwyllais, gorfu arnaf dewi, oherwydd, meddant hwy, os mynnwn ni y menywaid ddysgu dim am i ni ymofyn a'n gwyr gartref; a chan mai

merch weddw ydwyf, 'rwyf yn hollol ymddifad o gyfleusdra i ymdrechu i argyhoeddi neb fod effaith y cyfryw bechod yn cael ei ystyried yn helaethach nac y mae meddwl y geiriau yn Genesis yn arwyddo; 'rwyf yn attolwg arnoch chwi, Mr. Golygydd, neu rai o'ch gohebwyr deallus, i gymmeryd plaid merch weddw, trwy roddi gwell eglurdeb i'm cyfeillion ar y pwngc dan sylw, na'r hyn grybwyllais uchod sydd wedi eu darbwyllo a thywyllwch caddyglyd rhagfarn ag anwybodaeth, a thrwy hynny yn gosod anfri ar y Duw daionns sy'n llywodraethu mewn doethineb a pherffaith gariad yn wastadol; rhydd hynny foddlonrwydd i *rai*, adeiladaeth i *lawer*, a chysur i *bawb*, os cywir yw tyb eich chwaer,

Lletty'r Weddw. AXA.

YMDDYDDAN RHWNG

LLYFR HYMNAU JOSEPH HARRIS

A

CRISTION.

LLYFR HYMNAU

Y Ddeddf a ddengys yn barhaus
Fy nyledswyddau maith;
Efengyl fwyn fynega b'le
Caf nerth i wneyd fy ngwaith. H. 73. a 1.

CRISTION.

Mae yr Apostol Paul yn dywedyd nad ydyw'r Cristionogion o dan y Ddeddf, eithr dan ras, neu'r Efengyl; o ganlyniad, mae yn rhaid i ni ymwrthod a Deddf Moses, a glynu wrth Ddeddf Crist. Oni wyddoch fod gwahaniaeth dirfawr rhwng y Ddeddf a'r Efengyl? Gwelwch mor amlwg y mae Crist yn dangos hyn yn ei bregeth ar y mynydd. Y mae gan y Ddeddf ddyledswyddau ag sydd yn hollol groes i'r Efengyl. Cymmerwch er enghraifft yr un ganlynol. Deddf Moses—"Llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed." Ex. 21. 24. Deddf Crist—"Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, na wrthwynebwch ddrwg: Ond pwy bynag a'th darawo ar dy rudd ddehau, tro'r llall iddo hefyd." Math. 5. 39. Yn awr, ch'i welwch fod hyn mor groes ag yw dw'r i dân. Y mae yn feius iawn ynoch'i i ddweyd fod y Ddeddf yn dangos i ni ddyledswyddau; pob dyledswydd ag sydd yn Neddf Moses, ag sydd yn unol a moesoldeb, y mae i'w chael yn yr Efengyl. Ond yma, mi wn pwy yr ydych yn ei ganlyn; Llythyr y Gymmanfa, yr hwn sydd yn dweyd fod y Ddeddf yn rheol bywyd i'r holl saint. Ond gwell i ch'i wrandaw ar yr ysgrythyr lân, yr hon sydd yn dysgu nad ydym ni o dan y Ddeddf eithr dan ras.

LLYFR HYMNAU.

Trwy'r ddeddf 'rwy'n gwel'd mor aflan wyf,
Mor erchyll yw fy mai;
Yn yr Efengyl gwelaf fôr
O haeddiant i'm glanhau. a. 2.

CRISTION.

Nid wyf yn credu hyn chwaith. Oni wyddoch fod Deddf Crist yn lawer mwy manol i ddyn weled ei hunan ynddi, na Deddf Moses. Y mae hyn i'w weled wrth eiriau Crist ei hun—"Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt, na wna odineb, eithr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, fod pob un ag sydd yn edrych ar wraig i'w chwennychu hi, wedi gwneuthur eisioes odineb a hi yn ei galon." Math. 5. 27, 28. Hefyd, yr ydych yn dweyd i fod môr o haeddiant i'w weled ya yr Efengyl. Gofynaf innau i chwithau, Yn mha le yn yr Efengyl yr ydych yn gweled cymmaint ag *un gair* am haeddiant Crist? Ond onid nad ydych wedi darllen holl bregethau, ymddiddanion, a dammegion Crist i gyd, heb weled un gair am y fath athrawiaeth. Ni wyddai Crist na'i Apostolion ddim am dani. Rhai cannoedd o flynyddau wedi esgyniad Crist at ei Dad, y gwnaethpwyd yr athrawiaeth anysgrythyrol hon. Pa fodd y gallasoch ddweyd y fath gelwydd noeth a hyn? Ni chymmerwn y byd [illegible] gyfan am fod yn euog o'r fath beth. [illegible] wn fod yr egwyddor o ddweyd celwydd n[illegible]wn cysylltiad a chrefydd, er mwyn iddi gael mwy o gymmeradwyaeth yn y byd, wedi bod yn gymmeradwy iawn tua'r trydydd a'r pedwarydd canrif; pan 'roedd y teidiau yn cyfansoddi traethodau a llyfrau crefyddol, i'r dyben o brofi rhyw athrawiaeth o'u gwneuthuriad eu hunain, megys y Drindod neu ryw athrawiaeth anysgrythyrol arall: Ond, yr wyf yn gobeithio na chymeradwywch ch'i y fath egwyddor ddrygionus a dinystriol hon. Dyweyd celwydd fel hyn, yw myned yn ddiafol perffaith, er mwyn cael eraill yn angylion; i ail groeshoelio Crist, er mwyn cael eraill i'w garu; ïe, dyma'r ffordd i fyned i uffern, wrth geisio cael eraill i'r nefoedd. Dywedaf wrthych eto, byddwch yn fwy gochelgar, dywedwch y gwir, na chymerwch eich arwain gan y dynion hanner paganaidd hyn. Y mae Efengyl Crist yn ddigon grymus i argy-

hoeddi pechaduriaid heb ei chymmysgu a'r athrawiaethau pechadurus hyn.

LLYFR HYMNAU.

Tyr'd, tal dy ddyled, medd y ddeddf,
Pa achos oedi sydd? ad. 4.

CRISTION.

Pa le mae'r Ddeddf yn dweyd hyn? Haeru yw hyn eto, heb geisio profi. Yr wyf yn gwybod nad oes genych un sail ysgrythyrol i hyn? Os yw hon yn athrawiaeth wirioneddol, fe fuasai yr Athraw da yn sicr o fod wedi ei dysgu i'w ganlynwyr, ac yn enwedig i'w Apostolion, y rhai oedd yn wastadol gydag ef. Ond ofer i ddyn i ddarllen y Testament Newydd er mwyn iddo gael allan ymadroddion mor wyllt a "Tyr'd, tal dy dded, medd y ddeddf."

Gan mai Iesu yw y Crist, a Phen yr Eglwys; y mae yn ddyledswydd arnom i gymmeryd ein harwain ganddo, ac nid gan neb arall. Galarus yw gweled cymmaint o weinidogion Cymru, yn sefyll i fynu fel Pabau anffaeledig yn lle Crist. Hwy a ddywedant fod gan bob dyn hawl i farnu drosto ei hunan mewn pethau crefyddol. Ond os dygwydd i ryw un ddyfod i benderfyniad gwahanol na'r eiddo hwynt ar ryw adnod a ystyrier ei bod yn dysgu un o'r athrawiaethau hanffodol i iachawdwriaeth, hwy a'i galwant ef i gyfrif maes o law, ac a ddywedant wrtho, "Y mae yn rhaid i ch'i beidio meddwl fel hyna, onite ch'i fyddwch yn sicr o fyned yn Sosin;" ac os parhaiff i chwilio am y gwir yn annybynol a'u hawdurdod hwy, efe a gaiff ei ddiaelodi ganddynt heb drugaredd. Y maent yn dal rhyddid mewn un llaw, a whip yn y llall; y maent gymmaint a hyn yn waeth nac Eglwys Rhufain, yn gymmaint a'u bod yn proffesu rhyddyd; ond Eglwys Rhufain nid yw yn proffesu dim rhyddyd ond sydd o fewn erthyclau eu cred.

LLYFR HYMNAU.

Fe gafwyd Iawn, medd 'Fengyl Crist,
Bechadur 'rwyt yn rhydd! ad. 4.

CRISTION.

Pwy gafodd Iawn, y Diafol neu gyfiawnder dialeddol Duw? Mi wn fod y teidiau Cristionogol, fel y gelwir hwynt, tua'r ail a'r trydydd canrif, yn credu yn gadarn iawn mai i'r Diafol y rhoddodd Crist Iawn; a'u rheswm dros hyn oedd, oherwydd mai caethion i'r Diafol oedd dynolryw, ac na fuasai efe ddim yn eu gollwng hwynt yn rhydd heb gyflawn werth. Ond mae yn debygol nad ydych ch'i yn credu hyn. Iawn i gyfiawnder yr ydych yn ei gredu, mi wn. Dyma'r Iawn sydd yn boblogaidd yn awr yn Nghymru. Gofynaf i ch'i eto, a welsoch ch'i erioed yn y Bibl y fath air a "Iawn i gyfiawnder?" Mi wn fod rhai o bregethwyr y Bedyddwyr yn dweyd fod yr athrawiaeth yno, os nad yw y geiriau yno. Ond os yw yr athrawiaeth yno, paham nad yw y geiriau yno hefyd? Os yw yr athrawiaeth hyn yn y Testament Newydd, fel yr haerir yn barhaus; y mae bai cywilyddus wedi bod ar y gwahanol gyfieithwyr am eu gadael hwynt allan. A ydyw y geiriau i'w cael yn Campbel, Williams, Conquest, a Wesley!! Yr un peth yw chwilio am danynt gyda'r rhai hyn eto, ac i ni chwilio am danynt yn y Testament awdurdodedig. Y gwir ag e', nid yw'r athrawiaeth i'w chael yn y Bibl. Pan mae pregethwyr y gwahanol sectau yn pregethu ar yr Iawn, nid ydynt byth yn cyfeirio at Grist; nid ydynt byth yn egluro natur yr Iawn oddiwrth ei bregethau, ymddiddanion, a'i ddamhegion. Nid oes yma ddim goleuni ar yr athrawiaeth, nid oes yma air am Iawn i gyfiawnder. Ond os nad oes goleuni i'w gael yn mhregethau Crist, y mae digon i'w gael yn ngwaith Dr. Gill, Calvin, Macknight, Fuller, ac eraill. Dyma'r gwyr y cyfeiria y pregethwyr atynt, ac nid at Grist. Wel, gan nad oes dim goleuni i'w gael gyda Christ, ar yr athrawiaeth bwysig hon, efallai fod peth i'w gael gan yr Apostolion, wedi ei lanw a'r Ysbryd Glan. Ni a wrandawn ar eu tystiolaeth. Yn y 5 ben. o ail Epistol Paul at y Cor. a'r 18, 19 adnodau mae y geiriau hyn—"A phob peth sydd o Dduw, yr hwn a'n cymmododd ni ag eg ef ei hun trwy Iesu Grist, ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod; sef bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau, ac wedi gosod ynom ni air y cymmod." Y mae y gair cymmod a'r gair Iawn yn gyfystyr; ch'i a ganiatewch hyn ond odid. Yn awr am gyferbynu eich Iawn ch'i, a Iawn Crist yn ol yr Apostol Paul. Yr ydych ch'i yn dal gyda y credo mai dyben Iawn Crist oedd cymmodi Duw a'r byd, ac nid y byd a Duw, neu foddloni ei gyfiawnder dialeddol i'r dyben iddo gael llwybr i drugarhau wrth bechadur yn unol a'i gyfiawnder. Mae Paul ynte, yn dysgu, mai dyben Iawu Crist oedd cymmodi y byd a Duw, ac nid Duw a'r byd. Mae yn ammhosibl i gael mwy o wahaniaeth na hyn. Mae Iawn Crist, yn ol eich barn ch'i, yn effeithio ar Dduw; ond yn ol barn Paul, yn effeithio ar ddyn. Eisiau cael y pechadur at Dduw sydd, ac nid Duw at y pechadur. Pe buasai Duw y fath Fod ag yr ydych yn ei ddarlunio, ni fuasai byth yn danfon ei Fab i'r byd i'r dyben o'i gymmodi ag ef ei hun. Hefyd, mae yr Apostol Pedr yn dysgu yr un athrawiaeth, "Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren; fel, gwedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder; trwy gleisiau yr hwn yr iachawyd chwi." 1 Pedr 2. 24. Mae yr Apostol yn dangos mai dyben marwolaeth Crist oedd

gwella dynion o'u pechodau; ac nid boddloni cyfiawnder. Yn mhob man lle y sonier am ddyoddefiadau a marwolaeth Crist, y dyben yw, "gwaredu dynion oddiwrth eu pechodau," ac nid boddloni cyfiawnder. Y mae yr Apostol Ioan yn dysgu yr un athrawiaeth pan yn dweyd, "A gwaed Iesu Grist ei fab ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod," arnom ni y mae y gwaed yn effeithio, sef ein glanhau ni oddiwrth ein pechodau, ac nid boddloni cyfiawnder. Paganiaeth yw dweyd fod Duw yn cael ei heddychu a gwaed. Y mae y paganiaid yn credu fod eu duwiau hwy yn cael eu heddychu a gwaed gwirion. Ond dweyd y fath beth am yr unig Jehofah sydd gabledd o'r fath waethaf. Yr wyf yn credu yn gadarn fod Orthodoxy greulon wedi tywyllu eich deall fel na allwch weled disgleirdeb Efengyl Crist.

LLYFR HYMNAU.

Pan lifodd diluw dwyfol lid
Am feiau dynolryw,
Nes cwrdd ag enaid Iesu mawr
Caw'd prawf o burdeb Duw. H. 104, a. 2.

CRISTION.

Nid yw yr ysgrythyrau santaidd yn son dim am y fath beth. Mae yn debygol eich bod yn penderfynu canlyn credoau ffaeledig dynion, yn lle gwrando ar ganol swn yr ysgrythyrau. Gobeithio yr wyf y byddwch yn fwy rhesymol, ac ysgrythyrol y tro nesaf ag y cyfarfyddwn. Farwel am y tro hyn.

COLEGAU.

—

Heb feddwl yn y mesur lleiaf, pe medrwn, i ddiraddio cymeradwyaeth, ac heb feddwl ammeu medrusrwydd a dysgeidiaeth neb perthynol i'r amrywiol Golegau yn ein teyrnas, caf yn bresenol wneuthur rhai sylwadau arnynt, yn eu perthynas a chrefydd Crist, yn eu cyssylltiad a hi yn mhob rhan, yn addysgiadol a moesol, mewn athrawiaeth a dysgyblaeth.

Ni freuddwydiwyd erioed gan y difalch Iesu, a'i Apostolion diniwed, y byddai cymmaint o *bomp* a *mawredd* yn cael eu cyssylltu a'u crefydd syml hwy; y byddai yn angenrheidiol gael cymmaint o *Manufactories* a *Machinery* cyn gwneyd pregethwr yr efengyl "a bregethwyd i'r tlodion;" y byddai gymmaint *cost* a thraul yn cael ei dwyn cyn *plamo* allan Genadwr Hedd i'r byd tywyll,—y byddai rhyw erthyglau neillduol yn ofynol i'w dysgu; gymaint o *derms* i gael eu treulio; rhyw lyfrau nodedig ac appwyntiedig i gael eu dysgu yn baganaidd ac i'r gwrthwyneb, defodau penderfynol i'w harfer, &c.

Beth pe byddai i'n Iachawdwr bendigedig ddyfod i wared i'r ddaear hon i roi tro, i weled agwedd y wlad lle y bu gynt yn dyoddef anfri ac anglod wrth blanu ei Grefydd, wrth lunio ei iau yr hon sydd esmwyth, wrth drefnu ei faich yr hwn sydd ysgafn? Beth a ddywedai debygech chwi, pe ai i mewn i Gappel y Coleg, am 11 borau dydd Sul neu ar ryw amser arall pan y byddent yn cyfarfod yno? Pam Iesu da yr ydwyt yn edrych mor synn? Beth sydd yn galw dy sylw neillduol di? Oni fyddai iddo atteb yn ddigllon, "Beth ydyw y rhai hyn sydd yn sengu fy nghynteddau mewn gynau tywyllwch? I ba grefydd y mae y dyfodau hyn yn perthyn? Pwy a geisiodd hyn ar eu llaw hwy? Beth ydyw y llyfr dieithr yna a ddarllenir gan y rhai a gymerant arnynt fod yn weision i mi? Pa fodd y tywyllodd yr aur gymaint? Oni chymmerai ysgubell ei lidiawgrwydd (pe medrai fod yn ddigllawn,) a'i 'scubo allan? "Ffwrdd, ffwrdd a chwi a'ch gynau a'ch ystumiau!—Ffwrdd ffwrdd a chwi a'ch hir weddio!—Ffwrdd ffwrdd a chwi a'ch seremoniau; y maent yn ffiaidd yn fy ngolwg, nis gallaf eu dyoddef! Ffwrdd ffwrdd a chwi a'ch athrawiaethau tywyll, a'ch dirgelwch! Ffwrdd ffwrdd a chwi a'ch enwau newydd ar fy Nhad nefol ac arnaf fi!! Pwy ddywedodd wrthych chwi pan weddiech ddywedyd *Duw fab Brynwr y byd, Duw Ysbryd Glan, y gogonedd Lan Drindod, tri pherson ac un Duw?* Pwy ddysgodd i chwi wneyd gymaint cam a'm gweddi, 'Pan weddioch dywedwch fel hyn? Ein Tad yr hwn ydwyt yn y nefoedd, santeiddier *dy* enw, Deled *dy* deyrnas, Gwneler *dy* ewyllys ar y ddaear megys y mae yn y nefoedd. Nag arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag y drwg, a maddeu i ni ein dyledion megys y maddeuwn i'n dyledwyr. *Canys dy eiddo di yw'r deyrnas y gallu a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.* Dywedasoch fod Pedr yn Sylfaenydd i'ch ffydd. Pa fodd y gwadwch hi? 'Ti yw Crist *Mab* y Duw byw'—Adeiladwch eich Eglwys ar ffydd Athan—Pwy yw hwnw?—Beth yw yr holl anfeidrolion sydd genych yn eich ffydd? O ba beth y daethant? Ai oddiwrth fy nghrefydd i?—Ble yr Hollalluogion?—Ble y tragwyddolion?—Ble yr hollbresenolion?—Ffwrdd ffwrdd a chwi, ac na halogwch fy nghynteddau sanctaidd ag Efengyl arall!!"

Ai nid fel yna, neu debyg i hyna, y dywedai Goleuni y Byd?

Yn enw pob synwyr, pa eisiau sydd yn y Colegau ar weision yr Iesu mwyn, yr hwn oedd gyda'r mwyaf gostyngedig o'r capiau a'r gynau? a ydyw y rhai hyny yn arwyddo gostyngeiddrwydd? i ddangos ei ymwadiad o hono ei hun y marchogodd Iesu ar ebolyn asen; yn wyneb hyn gellir dywedyd gyda'r bardd,—

"Peth syn yw gwel'd ffeiriadyn
Yn marchog mewn cerbydyn,
A'i was banerog ar ei ol,
A'r Iesu ar ebol asyn."

Wrth ffeiriadyn y deallaf pob un ag sydd yn cymmeryd arno yr enw o fod yn bregethwr Iesu Grist. Nid ydwyf yn honni un hawl i farnu fy nghyd Gristionogion hyd y nod o'r Eglwys Sefydledig, ond yr ydwyf angyffredin am gael gwybod a ydyw yn anhepgorol angenrheidiol wrth y gwisgoedd a'r gynau duon neu gochion, fel yn Glasgow; nis gwn pa un neu *Crack* neu chwerthin y byddai yr Iesu, pe gwelai ddyn yn Glasgow mewn gwn coch a chappan *trenshwn* ar ei ben, a phe dywedai rhyw un wrtho, Dyna ddysgybl i ti Iesu, dyna un sydd yn bwriadu myned i bregethu Efengyl. Synai dippyn, tybiaf fi. Mewn gair, heb ychwanegu llawer, y mae eisiau diwygiad mawr yn ein colegau, gyda golwg ar y rhai hyny ag sydd i gymmeryd arnynt y swydd bwysig o fod yn bregethwyr Efengyl. "Fy nheyrnas i (medd Iesu Grist,) nid yw o'r byd hwn." Pwy offeiriad o'r Coleg a all brofi hyny.

Paham, Golegwr, yr wyt ti yn gwisgo y gwn a'r cap yna? Ai oblegid fod ei deyrnas ef heb fod o'r byd hwn? Paham y gosodi dy law wrth y namyn deugain Erthygl? Ai o blegid yr un achos? Paham y gwisgi y wisg wen neu ddu cyn myned o honot i bregethu? Ai o blegid hyny? Paham yr arferi Lyfr y Weddi Gyffredin? Ai o herhyny?

Llygredigaeth crefydd ydyw i'r eithaf, gwarth a dirmyg ar symylrwydd (simplicity,) crefydd y dihalog a'r addfwyn Iesu. Bant, bant a hwy i'r tywyllwch, o ba le y daethant. Y mae *Tywysog y byd* hwn wrth ei fodd yn eu cynhaliaeth, y mae yn siglo ei gynffon gyda'r hyfrydwch mwyaf, ni cha well bwyd byth, yn enwedigol pan y mae yn ei gael gan y rhai hyny a gymmerant arnynt fod yn weision ei elyn penaf, sef Iesu Grist.

TAU GIMEL.

ANNERCHIAD AR YMDDANGOSIAD YR YMOFYNYDD.

At Olygydd yr "Ymofynydd."

SYR,—A'm mynwes yn orlawn o lawenydd a gorfoledd ar enedigaeth yr "Ymofynydd," cymmeraf fy nghenad i anfon attoch ychydig linellau ar ei ymddangosiad allan, er feallai yn angryno *iawn*, am hynny deisyfaf arnoch chwi a'ch darllenwyr deallus, fod mor hynawsed a thirion ag y medroch wrth fy monglerwch a'm lledchwithdod.

Yr wyf, oddiar yn alluog i feddwl yn amgen na "bachgen," yn dwys hiraethu am weled cyhoeddiad misol gan yr Undodiaid, a phan siaradwn â rhai cyfeillion am hyn, dywedent na chelit nifer digonol o dànysgrifwyr atto—ei bod yn rhy gyfyng ar y gweithwyr i dalu am gyhoeddiad misol—ïe, na chaet un loyalygydd iddo, ac y buasai yn anhawdd cael gohebwyr dysgedig i ysgrifenu iddo (!) heblaw bod rhagfarn y werin y fath ac i'w rhwystro i ddarllen ei gynhwysiad am mai Undodiaeth fuasai ei *fotto:* fel yma y cawn fy atteb lawer tro er fy mawr siomiant. Ond er cymmaint fy siomiant wrth yr attebion hyn, nid oeddwn yn gweled un nerth ynddynt, o ganlyniad yr oed lwn o'r gred y gallesit cael Cyhoeddiad Undodaidd allan gydag ychydig ymdrech a ffyddlondeb, ac yn nawr wele fy nhaer ddisgwyliad a dymuniad gwedi dod i ben—y mae y wawr gwedi torri—dyma'r "Ymofynydd" gwedi dangos ei wyneb siriol a llachar yn ein mysg. O! rhoddwn roesawiad teilwng iddo, na fydded iddo gael curo yn ofer wrth ein drysau, eithr agorwn i'r baban gobeithiol borth y galon, a diogelwn ef rhag ystormydd a chorwyntoedd rhewllyd a marwol rhagfarn a phleidgarwch. Gyfeillion anwyl "Curwn yr haiarn tra y byddo yn dwym." Pa ddyn a chanddo rhyw radd o *barch* i Undodiaeth, ïe, pa ddyn ac sydd gwedi deall ac amgyffred y syniadau *cysurlawn* a *nefolaidd* hyn, a wel yn drais arno aberthu 3c. y mis tuag at gael cyfrwng i drosglwyddo yr unrhyw i'w gydgenedl yn gyffredinol? Pa un o weinidogion dysgedig yr Undodiaid, na wna bob ymdrech i wneud ei rhan er llanw yr "Ymofynydd" o fis i'w gilydd â ffrwyth ei fyfyrdodau ar destynau buddiol? Neb, os y credir hwynt yn eu pwlpitau. Pa ddyn sydd ag awyddfryd ei galon am gyrhaedd y gwirionedd a mwynhau y gwynfydedigrwydd a'r nefoldeb sydd ynddo, na rhydd glust o ymwrandiad astud, neu a ddarlleu yn ddifrifol a dirhagfarn rhesymmau ei gyd-ddyn dros unrhyw bwnc, bydded o'r natur bynnag y byddo? Bydded i bawb *Rhydd*-ymofynwyr am wybodaeth gefnogi a rhoddi pob cynhorthwy a allont i'r anturiaeth glodadwy hon o eiddo Cymdeithas Undodaidd Gwent a Morganwg. O! fy nghydieuenctyd, bydded i *Ni*, yn anad neb, un ac oll ymroi a allom dros ledaeniad YR YMOFYNYDD, gan y mae i *Nyni* y deillia y manteision, cysuron, a'r dedwyddwch *mwyaf* trwy hynny. Cyfrwng yw er gosod o flaen yr ieuanc ffrwyth myfyrdodau yr HEN a'r PROFEDIG, ac felly *Nyni* fyddwn yr ennillwyr *pennaf* trwyddo; gan hynny ynteu gwerthfawrogion a defnyddiwn y cyfrwng Gwybodaeth hwn

mewn modd ddyladwy. Ymegniwn yn ddibaid i ennill cefnogwyr a darllenwyr newyddion, canys diau genyf y bydd YR YMOFYNYDD yn orlawn o ddanteithion melusion i'r deall, fei arlwyir ef ar ein cyfer â'r dysgleidiau mwyaf blasus a bywiol gan "Goginwyr" protedig, medrus, a synwyrol. Cofleidiwn y fantais a gynnygir i ni mor *rhâd*—dim ond 3c. yn y mis! Faint o honom *Ni* y ieuenctyd sydd yn diffrwytho a gwario gwedi PEDWAR cymmaint o arian na gwerth neu bris YR YMOFYNYDD ar yr hyn nid yw fara? O! diwygiwn, bwriwn ymaith ei musgrellni a'n oferedd,—ffown o'r tywyllwch a'r trueni, llafuriwn yn ddiwyd am wybodaeth a gwir ddedwyddwch, sef ymdrechu i OLEUO EIN DEALL AC EHANGU EIN MEDDYLIAU, fel y delom yn alluog i faru a meddwl drosom ein hunain ar unrhyw bwnc crefyddol, celfydeydol, neu wladol, fel y delom yn rhyddion o lyfetheiriau dallbleidiaeth, fel na byddom mwyach yn *bowo* i reolau a chateciaman gormeswyr, cyrff a meddyliau, ie, mewn gair fal y delom yn DDYNION yn lle bod yn *Afresymolion.*

Glan Darlwm. HOGLANC.

"CHWILIWCH YR YSGRYTHYRAU,

Canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol, a hwynt hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi."—IESU Y CRIST.

YCHYDIG flynyddau yn ol, anfonodd Amnon, (y diweddar ymadawedig Rees Jones, o Bwllffein,) at Olygydd Seren Gomer, gofrestr o eiriau anysgrythyrol; arferedig gan rai a alwant eu hunain yn Ddysgawdwyr Cristionogol: a dywedodd mai er mwyn dysgu athrawiaethau gwrthun, croes i lais natur, rheswm, a datguddiad, y cyfansoddwyd y cyfryw eiriau, ar y cyntaf.

Beth a dâl i ni i ddywedyd mai "*y Bibl, a'r Bibl yn unig, a'r holl Fibl yw ein crefydd,*" a ninnau yn gorfod pentyru geiriau dieithr i'r Bibl, cyn gosod allan ein cred?—o: rhaid cael geiriau heb eiriau y Bibl, i ddysgu athrawiaeth; onid yw yn nod digonol nad yw yr athrawiaeth hono yn athrawiaeth y Bibl?

A geir y fath eiriau a *Duwdod Crist, Duw dyn, Duw fab, digreedig fab, tragwyddol fab, hollalluog fab, natur ddynol y mab, natur ddwyfol y mab, yr ail berson yn y Drindod, gwir Dduw a gwir ddyn, Duw wedi ymgwnawdoli, fel yr oedd Crist yn Dduw, fel yr oedd Crist yn ddyn, dyndod a'r Duwdod gwedi eu cyssylltu, priodol ddyndodCrist, priodol Dduwdod Crist,* yn y Bibl? Ai y geiriau hyn a feddylia Gwilym wrth *yr holl Fibl?**

Pwy a all attal dagrau tosturi, wrth edrych ar ei frodyr, plant i'r un Tad cariadlawn; er wedi eu breintio a rheswm, yn ymddifyrru yn nirgelwch a geiriau disynwyr. Yn cara ymbalfalu yn nghaddug anwybodaeth! Pan y mae sain udgorn Duw yn galw arnynt oll o'u cyfeiliorn: ac yn barod i'w tywys i deg-lwybrau y gwawl i ymborthi ar ddanteithion teulu y Nef.

Oni ddatguddiwyd i Gristionogion, pa fath un yw Duw, yn anfeidrol ei briodoliaethau, ac yn holl ysbrydolrwydd ei natur; y Nefoedd hefyd a ddatgan ei ogoniant, a'r ffurfafen a fynega waith ei ddwylaw; ac onid ydyw yn beth rhyfedd clywed Cristionogion yn dywedyd mai Iesu y Crist ydyw y Duw hwn.

Dymunwn ar y rhai a ddaliant yr athrawiaeth o Ddawdod Crist, i osod o'r neilldu y geiriau anysgrythyrol; ac ymryddhau mor belled ag y gallont, o afaelion rhagfarn; a llwyr ymwrthod, a NÔD BABILON FAWR, MAM FUTEINDRA Y BYD, ac fel dynion a gaiff eu barnu wrth yr Efengyl, i wrando ar lais yr Efengyl, mewn perthynas i Iesu y Crist.

Beth ydyw geiriau cyntaf Efengyl Matthew? *Llyfr cenhedlaad Iesu Grist, fab Dafydd, fab Abraham.* Nid llyfr cenhedliad Duw, na llyfr cenhedliad Duw ddyn, onde llyfr cenhedliad Iesu Grist, fab Dafydd, fab Abraham.

Beth sydd i ni ddeall wrth Iesu Grist yntau? enw dyn, yw Iesu, ac nid oedd enw neillduol sylfaenydd Cristionogaeth, mwy na dynion eraill, gwahaniaethid ef oddiwrth ddynion eraill o'r un enw, trwy ei alw *Iesu o Nazareth.* Ystyr y gair Crist yw un eneiniedig, ac yr ydoedd yn cael ei gymhwyso at Iesu o Nazareth, fel eneiniog Duw. A ydyw y dyn a elwid Iesu, yr hwn a eneiniodd Duw, y Duw hwnw, yr hwn a'i heneiniodd ef? barned rheswm.

Beth yw yr hanes, a gawn am yr Iesu hwn? onid hanes ydyw, am fod dynol gwedi ei eni, pan oedd Augustus Cæsar yn teyrnasu. Unwaith yn faban egwan,—yn cael ei gynnal gan freichiau ei fam, yn cael ei feithrin a llaeth ei bronau: yn cynnyddu fel dynion eraill, mewn corffolaeth a doethineb: a phan ydoedd oddeutu deg ar hugain oed, yn derbyn cenadwri oddiwrth Dduw y Nefoedd, at ei gyd-ddynion, yn syrthio yn aberth, i gyf-

---

*Yn y Seren am Tachwedd 1834, tu dalen 326, heura W. Jones, mai'r Bibl, y Bibl yn unig, a'r holl Fibl yw ei grefydd ef. Y mae ei heuriad yn ymddangos i mi yn lled debyg i ewyllys y *Tinker*, yr hwn a rannodd Dywysogaeth Cymru rhwng ei blant.

lawniad ffyddlon o'i swydd: yn marw ar y groes, ac yn cael ei osod mewn bedd: A all yr hanes hwn, fod yn hanes gwirioneddol am y Duw tragwyddol, anfarwol, ac anweledig; ie, am Greawdwr Nefoedd a daear! cynnaliwr a llywodraethwr yr holl fodoldeb?

Cecraeth, i geisio ffwlio y deall, yw dywedyd fod Iesu Grist, yn feddiannol ar ddwy natur, ac mai hanes am ei natur ddynol, yw yr hanes uchod. Pa le y dywed y Bibl am natur ddynol, a natur ddwyfol Crist? ni sonia y Bibl am Iesu a dwy natur, nag un Iesu arall, ond y Dyn a wnaethpwyd gan Dduw, yn Arglwydd ac yn Grist. Y dyn a ddyrchafwyd yn Dywysog, ac yn Iachawdwr.

Nid yw o un canlyniad, am a wn i, pa sawl natur oedd yn gwneuthur Iesu, pa un ai dwy, neu ddwy fil, oherwydd rhaid i'r enw Iesu, eu cynnwys hwynt oll; pan ddywedir, bod Iesu gwedi ei eni, bod Iesu gwedi marw, rhaid yw deall, ei fod *oll* gwedi ei eni, a'i fod *oll* gwedi marw, os rhan o hono a anwyd, ac os rhan o hono â fu farw: pa bryd y dywedodd ein Harglwydd Iesu Grist, ei fod yn feddiannol ar ddwy natur? oni alwodd ef ei ddysgyblion yn gyfeillion, oherwydd ei fod gwedi hyspysu pob peth iddynt; a hyspysodd efe iddynt ryw bryd, nas gallasai wneuthur dim o hono ei hun, *fel ag yr ydoedd yn ddyn*, ond ei fod yn holl-alluog, *fel ag yr ydoedd yn Dduw.*—A ddywedodd un o'i ddysgyblion ef eiriau fel hyn, Iesu o Nazareth, Duw ddyn, profedig gan ei natur ddwyfol, yn eich plith, trwy wyrthiau, rhyfeddodau ac arwyddion, y rhai a wnaeth ei natur ddwyfol, trwy ei natur ddynol, yn eich canol chwi, megys y gwyddoch chwithau; neu gras i chwi, heddwch, oddiwrth natur ddwyfol, Iesu Grist, ac oddiwrth natur ddynol, Iesu Grist.*

Pe dinoethem yr athrawiaeth o ddwy natur, a sylwi arni yn ei lliw, a'i llun priodol; gwelem mai nid gwneuthur dyn yn Dduw y mae, ond gwneuthur Duw i fod yn ddyn. Os gofynir pa fodd y daeth Duw yn feddiannol ar ddwy natur, dywedir iddo i ymgnawdoli; iddo fyned i groth y forwyn Fair, ac iddo i gael ei eni; (dyma feddwl teilwng i'r oes a'i ffurfiodd, pan oedd anwybodaeth yn cael ei hystyried yn famaeth duwioldeb). Beth! yr Ysbryd anfeidrol yr mae ag anadl ei enau a alwodd yr holl fodoldeb i fod, ie, yr hwn a leinw eithaf yr anfeidroldeb, yn ymgnawdoli, yn cael ei gynnwys mewn croth, ac yn cael ei eni!! y Duw, yr hwn sydd yn fawr, ar bob mawr, a'i orsedd yn y gogoniant tragwyddol, a'i drigfa yn y gwawl ysplenydd, yr hwn sydd yn cynnal, ac yn llywodraethu, myrdd myrddiynau o fydoedd, ac yn dal ar gledr ei law, y lluoedd aneirif a'u preswylia, un waith yn faban, yn trigo mewn Beudy, ac yn cael ei wylio gan greaduriaid gwaith ei ddwylaw!! fel y dywed rhyw brydydd ffraethlawn:

Mari wen ydoedd yn dala Duw'r lluoedd,
Ac yntau'n dal nerthoedd ffurfafen y Nefoedd,
A thiroedd, a moroedd, a *Mari;*
Hi ddaliai'i hanwylyd, ei phriod a'i phroffwyd;
Ei thad, a'i mab hefyd, ei Duw, a'i brawd hyfryd,
Yn cym'ryd ei febyd yn fabi.
* * * * * * * * * * * * *
A rheswm eill dybied mai gwellt anifeiliaid,
Oedd dano, i bawb weled yn bulw.
* * * * * * * * * * * * *
Diystyrwch mawr ydoedd, yn ngolwg llaweroedd,
Wel'd geni Duw'r lluoe'ld, brenin brenhinoedd,
Gwneuthurwr y bydoedd mewn beudy.

BARDD Y BYRDDAU.

Y Bod perffaith, anfeidrol yn mhob priodoledd, yn myned trwy holl gyfnewidiadau mebyd, nes cyrhaedd dynoliaeth. Yn dyoddef newyn a syched, yn flinedig, yn drist ei cràid hyd ângau!! yr Hollalluog Ner, awgrym yr hwn a yrasai yr holl fodoldeb i ddiddymdra, yn cael ei ddal gan ei elynion, yn cael ei goroni a drain, yn cael ei gernodio, a phoeri arno, ac yn cael ei hoelio wrth y groes, gan greaduriaid ag ydoedd yn ymddibynu arno am eu bodoldeb!! y Brenin tragwyddol, ANFARWOL, ac anweledig, yn marw! ac yn cael ei osod mewn bedd!!

Ymddengys i mi, bod y fath athrawiaeth yn groes i lais natur; rheswm, a datguddiad. A bod y rhai a ddal y cyfryw athrawiaeth yn myned ar gyfeiliorn oddiwrth y gwirionedd, a dymuniad fy nghalon yw, eu deffroi, fel yr agoront eu llygaid, ac y canfyddont eu cyfeiliornad yn ei wir lun anghenfilaidd, fel na ddalier hwynt drachefn a ffiloreg parchedigion oesoedd y tywyllwch; ond fel rhai bych-

* Cof genym glywed bod dadl gwedi bod mewn plwyf, mewn perthynas i Glochydd: ac fel ac yr ydoedd dan yn ymryson am y swydd, taflodd un bridd ar draws y llall, pan oedd yn tori bedd, nes cuddiodd ychydig o'i drâed â'r pridd, pan ddygwyd y cwyn yn mlaen, tystiodd un iddo weled y Clochydd yn cael ei gladdu, ac nas gallasai yn dragwyddol ddyfod allan o'r bedd, heb *gynnorthwy*; wedi i'r tyst ddyfod allan o'r llys; gofynodd ei gymydog iddo, (yr hwn hefyd oedd dyst am yr hyn a ddygwyddodd yn y fynwent:) Pa fodd y gallasai ddywedyd na ddaethai T——, allan yn dragwyddol o'r bedd, heb gynnorthwy? pan nad oedd y pridd ond prin cuddio ei figyrnau. Oni wyddost meddai *yntau* bod y bedd yn ddwfn iawn, mi wnaf fy llw eto os bydd achos, nas gallasai ddyfod allan yn dragwyddol heb *gynnorthwy ei ddwylo.* Onid yw y rhai a ddywedant fel yr oedd yn ddyn, ac fel yr oedd yn Dduw, mor gyfrwys yn eu siarad a'r tyst tros y Clochydd.

ain newydd eni, y byddont yn chwennych didwyll laeth y gair.

Yr un peth fuasai i mi ddywedyd, "*bran, bran, bran,*" a dywedyd yn iaith Gomer; os na allaf beri i ddallenyddion Cymru fy neall; a thra y cedwir llen ar lygad y deall, anhawdd canfod y gwirionedd, er disgleiried ydyw. Er na wêl y dall harddwch y nefol wir; ac na chlyw y byddar, felusber laith y gwirionedd; eto, myfi a hyderaf, nad ydyw darllenyddion Cymru, fel y myn Gwilym eu bod, er cynddrwg ydynt.—Gan ddymuno llwydd i'r gwirionedd, a chymorth i fyw yn unol a'i addysg, y gorphwys,

Eich Eiddilaf fab,

AMNON.

AMRYWIAETH.

Rheolau Ymarferol.—Na oedwch hyd y foru yr hyn a ellwch ei wneuthur heddyw. Na flinwch craill yn nghylch yr hyn a ellwch ei wneuthur eich hunan. Na threuliwch eich arian cyn i chwi eu cael. Na phrynwch yr hyn nid oes arnoch ei eisiau am fod newid arno. Gochelwch falchder, canys y mae yn costio mwy i ddyn nag y mae newyn, syched, nag oerni. Nid oes dim yn flin ag ydym yn ei wneuthur yn ewyllysgar. Mae drygau ac afradlonrwydd eraill lawer pryd yn peri gofidiau a cholledion dirfawr i eraill: ymgedwn gan hynny oddiwrthynt, er mwyn eraill a ni ein hunain. Cymerwch bethau bob amser yn y dull llyfnaf a thyneraf. Pan y byddwch yn ddig, rhifwch ddeg cyn y llefaroch; os yn ddig iawn, rhifwch gant.

Gwellhad i Feddwdod. Dyn, yn Maryland, yr hwn oedd yn nodedig am ei feddwdod, a glywai derfysg yn ei gegin ryw brydnawn; wedi myned yn ddistaw at y drws i wybod beth oedd y dwndwr, efe a welai ei weision yn chwerthin â'u holl nerth wrth edrych ar ddau fachgen du yn ei ddynwared ef pan y byddai yn feddw, gan ddangos fel yr oedd yn siglo ac yn myned o ochr i ochr, fel yr oedd yn edrych, ac yn plygu ei ben, yn igian, ac yn cwympo. Cafodd y darluu a roddodd y ddau fachgen du o hono, a'r hwn a roddodd gymaint o ddifyrwch i eraill, y fath effaith arno ef fel y daeth yn ddyn hollol sobr, er llawenydd annhraethol i'w wraig a'i blant.

Effaith Meddwdod. Gwr mawr yn Poland, yn nheyrnasiad y brenin Casimer III. 1333, ar ol yfed a gwastraffu golud dirfawr, a neb o'i berthynasau yn ei dosturio, a syrthiodd i anhwyldeb pru ldglwyfus, (melancholy distemper,) heb obaith o'i wellhad. Yn yr amgylchiad, rhai o'i gydnabyddion, heb feddwl ei fod wedi gwario y cwbl, a ddeisyfasant arno i wneuthur ei Ewyllys, yr hyn a nacaodd oddieithr iddynt hysbysu iddo y rheswm dros hyny. Hwy drachefn a'i perswadiasant a'r rhesymau arferol yn yr amgylchiad, pa rai ai gyrrasant i fath o wallgofrwydd wrth adfyfyrio ar y modd y treuliodd ei fywyd, ac efe a atebodd fel y canlyn: "Yr wyf wedi gwario fy holl olud trwy feddwdod ac annghymedroldeb, fel nad oes genyf yn awr braidd ddim i'w roddi yn fy Ewyllys werth ei grybwyll. Pa fodd bynag, i gydsynio a'ch cais, gwnaf fy Ewyllys, pa un sydd fel y canlyn, sef: "Yr wyf yn rhoddi y drygioni o feddwdod i'w ranu rhwng fy ngelynion; fy enaid i'r Diafol am gablu Duw yn fy llewygfeydd meddwol; fy nghydyfwyr i'r Diafol, am fy hudo i anlladrwydd; a'm capelwr i'r Diafol, am wenieithio i mi yn y cyflawniad o hono." Felly terfynodd ei ddyddiau dan effaith ofn y gosp oedd yn ei aros tudraw i'r bedd.

Cyfrwysdra. Tri dyn ieuanc a ddaethant yn feddiannol ar olud mawr trwy anonestrwydd ar y mor, ac yn mhen amser aethant i fyw i dref, gyda phenderfyniad i dreulio bywyd onest o hyny allan, ac a osodasant eu harian mewn dwylaw arianydd, (banker,) ar yr ammodau na fyddai iddo ad-dalu dim o'r arian oddieithr eu bod eill tri yn eu gofyn ar yr un pryd. Un o'r tri ddywedodd wrth y lleill fod achlysur yn dygwydd y gallai ef roddi yr arian allan er budd iddynt oll, i ba beth y caniatasant yn unfryd; a phan yr oeddent un diwrnod yn marchogaeth o ran pleser, galwasant ar yr arianydd, a gorchymynasant iddo roddi i'r dyn hyny unrhyw swm o arian a ewyllysiai: marchogasant ymaith, a gofynodd y dyn hyny am yr holl swm oedd yn llaw yr arianydd. Gosododd yr arian ar ei geffyl ag ymaith ag ef. Y ddau eraill fygythasant gospi yr arianydd am roddi yr arian ymaith yn eu habsenoldeb hwynt. Yr arianydd, yn lled anesmwyth, a ymgynghor-

odd a Gellius Aretinus, yr hwn oedd gyfreithiwr synwyrgraff, pa un a'i cynghorodd i ddywedyd fod yr arian yn ei law, a'i fod yn barod i'w talu yn ol y cytundeb ysgrifenedig. sef, pa bryd bynag y deuent eill tri yn nghyd i'w derbyn. Ond nis gwelsant byth y trydydd dyn, ac nis clywodd yr arianydd son yn ychwaneg am eu cyfraith yn ei erbyn ef.

Dyn Pruddglwyfus.—Meddyliodd dyn unwaith ei fod wedi marw, a chynghorodd ei rieni i'w gladdu, ac nid cadw ei gorff i anmhuro yr awyr. Cynghorodd physigwr ei rieni i wneuthur pob partoad er ei gladdedigaeth, gyda golwg i symud ymaith ei anhwyldeb. Amwisgwyd y dyn, gosodwyd ef ar yr elor, a chludwyd ef tua'r eglwys. Ar y ffordd, dau neu dri o ddynion llawen cellweirgar oeddynt bresenol yn fwriadol, ofynasent i'r cludwyr pwy oedd y dyn oeddent yn myned ag ef i'w hir artref; pa rai ddywedasant ei enw. Da iawn atebasant, mae ei farwolaeth yn llesiol iawn i'r byd, a llawer gwell i'w rieni ei gludo ef i'r bedd nag i'r grogbren; canys pob tebygolrwydd oedd mai y grogbren fuasai ei le cyn b'o hir. Cynnyrfodd y dyn yn fawr pan yn clywed ei gymeriad yn cael ei waradwyddo cymmaint; cyfododd oddiar yr elor, a dywedodd wrthynt yn lled sarug y dylasent gywilyddio eu bod yn difenwi y marw, a phe buasai ef yn fyw y buasai iddo ddysgu gwell moesau iddynt. Parhaodd y dynion i'w ddifenwi mewn geiriau mwy cyffrous, nes o'r diwedd iddynt ei yru i'r fath nwydau nes iddo neidio oddiar yr elor ag ymosod ar y dynion mewn cymaint o ffyrnigrwydd nes iddo, megys o lewyg, adfywhau. Cludwyd ef adref, gweinyddwyd iddo yn gyfatebol i'w sefyllfa, adfywiodd ei nerth, ei iechyd, a'i ddealldwriaeth.

Deddf Zaleucus. Zaleucus, deddfwr y Locriaid, wnaeth gyfraith fod godinebwr i gael ei gospi trwy ei ddifuddio o'i ddau lygaid; a digwyddodd mai ei fab ei hun a droseddodd y ddeddf gyntaf. Zaleucus fel y dangosai dynerwch Tad a chywirdeb Barnwr, a orchymynodd i un o lygaid ei fab i gael ei dynu ymaith, ag un o'i lygaid ei hun.

Dewis Gwraig. Bydd ddoeth; dewis y person o flaen arian, rhinwedd o flaen glendid, a'r meddwl o flaen y corff; yna bydd genyt wraig, a chyfeilles, a chydymaith, ail hunan, un a ddyga gyfran gyfartal gyda thi yn dy holl drafferthion a'th ofalon.

Cyngor Addas. Os bydd rhyw un yn llefaru yn ddrwg am danoch, trowch adref i'ch cydwybod eich hunan, a chwiliwch eich calon. Os ydych yn euog, y mae yn gerydd cyfiawn; os ydych yn ddieuog, y mae yn addysg deg. Gwnewch ddefnydd o'r ddau, felly y bydd i chwi dynu mel allan o'r bustl, a gwnewch y gelyn cyhoeddus yn gyfaill dirgel.

Atheistiaeth. Iarll dysgedig Northampton, yn cael ei flino gan ddychymygion atheistiaidd, a'u trodd ymaith fel y canlyn: Pe gallwn roddi rhyw gyfrif pa fodd yr ydwyf fi fy hun, neu ryw beth arall, wedi cael bodoliaeth heb Dduw; pa fodd y daeth y fath gydsyniad unffurf a gwastadol yn mhlith dynolryw o bob oesoedd, tymherau, a dysgeidiaeth (er eu bod yn gwahaniaethu mor fawr yn eu hamgyffredfiadau am bethau eraill,) yn nghylch y bod o Dduw, anfarwoldeb yr enaid, a chrefydd, yn yr hyn nid oedd yn debyg y gallent dwyllo y fath luaws, neu gan eu bod y fath luaws y gallent eu twyllo, yna gellwn fod yn atheist.

Y CYFARFOD CWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfod Cwarterol Gweinidogion Undodaidd y Deheubarth, Iau y 7ed o Hydref, yn Mhantydefaid, Ceredigion.

Pregethodd y Parch. John James, Gelliionen, y prydnawn o'r blaen.

Dydd Iau cyfarfu lliaws mawr o wrandawyr. Dechreuwyd yr addoliad trwy ddarllain a gweddi gan y Parch. D. Griffiths, Llandilo. Pregethodd y Parch. O. Evans, Cefn Coedycymar oddiar Matt. vi. 21.

Ar ol y bregeth bu (fel y mae yn arferol yn y Cyfarfodydd hyn) Cynnadledd agored, y Parch. T. Thomas, Gweinidog y lle yn y gadair. Y pwnc a bennodwyd yn y Cyfarfod o'r blaen i fod dan ystyriaeth y Gynnadledd oedd, "Dyben cosp yn y byd hwn a'r byd a ddaw." Llefarwyd ar y pwnc gan y Parch. D. Lloyd, Caerfyrddin: J. E. Jones, Penybont; T. Griffiths, Cribyn;

J. Davies, Castell newydd; a J. James, Gellionen.

Cuttunwyd ar fod y Cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Mhenybont, Morganwg; y Mether a'r Iau cyntaf ar ol y Nadolig, a'r Parch. R. Davies, Capelygroes i bregethu.

Y pwngc i'w ystyried yn y Gynnadledd fydd, "Iawn i gyflawnder."

Dymunwn hysbysu hefyd y bydd i Gyfarfod Blynyddol Cymdeithas Gwent a Morganwg, i gael ei gynnal ar yr un pryd, ac yn yr un lle---a'r Parch. O. Evans, i bregethu i'r Gymdeithas am 11 o'r gloch boreu dydd Iau.

GOFYNIADAU AR IOAN XVII. 5.

Ac yn awr, O Dad, gogonedda di fi gyda thi dy hun, a'r gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd.

1. Os oedd Crist yn rhaghanfodi, pa ddull yr oedd yn rhaghanfodi? Ai fel Duw, neu fel bod goruwch angylaidd?

2. Beth sydd i ddeall wrth y gogoniant hwn?

3. Ym mha ystyr yr oedd y gogoniant i Grist gyda Duw cyn bod y byd?

4. A oedd ei natur ddynol yn gyfrannog a'r natur ddwyfol y pryd hwn?

4. A gymmerodd ef y natur ddwyfol cyn ei enedigaeth o Mair?

6. A oedd efe yn gweddio am y gogoniant hwn, megis gwobr am ei ddioddefaint, a'i farwolaeth: ac a oedd yr apostolion yn arfer dywedyd fod y gogoniant yn cael ei roddi iddo am hyny? Ioan xvii. 4, 5, Phil. ii. 8, 9, Heb. i. 9, xii. 2.

7. Pa fodd y gallasai y gogoniant oedd iddo ef gyda Duw cyn bod y byd gael ei roddi iddo yn wobr am yr hyn a wnaeth ar y ddaear?

8. Os gogoniant anrhaethadwy y Duw dod oedd y gogoniant hwn, pa fodd mae i ni ddeall y geiriau, "A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddaist iddynt hwy; fel y byddont un, megys yr ydym ni yn un," Ioan xvii. 22.

AR 1 COR. XV. 24—28.

1. Ym mha ystyr y rhydd Crist y deyrnas i Dduw, ac y bydd yn ddarostyngedig iddo?

2. Ai ei natur ddynol rydd i fynu y deyrnas i'w natur ddwyfol, ac ymddarostwng iddi?

3. Pwy yw y Mab yn adn. 28. Pa un ai Crist fel yr oedd yn ddyn? Crist fel yr oedd yn Dduw? Neu Crist fel yr oedd yn Dduwdyn? Ai yr un peth sydd i ddeall wrth y Mab ym mhob rhan o'r Bibl? Os Crist fel yr oedd yn ddyn yw oni raid nad oedd dim o'r Mab yn un o bersonau y Drindod nes i Dduw ymgnawdoli? Os Crist fel yr oedd yn Dduw oedd y Mab, oni raid fod un Duw yn ymddarostwng i'r llall, ac yn colli ei awdurdod ac felly yn darfod bod yn Dduw? Os Crist fel yr oedd yn Dduwdyn, oni raid fod y Dduwdod a'r dyndod yn cyd-ddarostwng? Neu ynte, ai un rhan o'r Mab fydd yn cael ei ddarostwng i'r Drindod?

APHORISMAU.

12. Pe bai Crist'nogion yn byw yn unol a'u proffes, ni wnaent ddim a fyddai yn yn groes i uniondeb, cariad, a gwirionedd; byddent fel *Duwiau* i'r nalll a'r llall.

13. Yr hwn a gymmero ei hun o tan ofal Duw i'w ofal ei hunan, ni wybydd yn mhen ychydig amser pa beth i wneyd o hono ei hun.

14. Nid oes un arwydd a all ddangos fod ein credo o Dduw os bydd wedi ei sylfaenu a'r egwyddorion teilwng o hono.

15. Ni all yr hwn nad yw ffyddlon i Dduw fod yn ffyddlon iddo ei hun.

16. Ni all anwybodaeth o'r peth *na rydd fywyd tragwyddol* i mi fod yn *achos o golledigaeth* i un arall.

17. Nid peth o osodfad penarglwyddiaethol fydd cosp yn y byd nesaf, ond effaith meddwl llygredig a chydwybod euog.

18. Peth llawer hawddach yw cyflawni'r ail bechod na'r un cyntaf, a hawddach yw edifarhau am y cyntaf nac am yr ail.

19. Os nad oes genyt gyfaill, gobeithio'r wyf fod genyt elyn, fel y caffot wybod dy feiau; i'r doeth mae edliwiad gelyn mor fuddiol a chynghor cyfaill.

20. Yr hwn nid yw erioed wedi cyfnewid yn ei olygiadau, nid yw erioed wedi gweled eisiau diwygio ei feiau a'i gamsyniadau; a'r hwn nid yw'n ddigon doeth i

gänfod ei gamsyniadau ei hun, ni fydd byth yn ddigon mawreddig i faddeu y camsyniadau a'r beiau mae'n weled yn eraill.

21. Ni *anwyd* neb yn wybodus ac yn ddoeth; *cynnyddu* mae dynion mewn doethineb trwy sylwi, ystyried, profi cofio, &c.

22. Ewyllys heb reswm, ymgyrch dyn dall; ewyllys yn erbyn rheswm, ymgyrch dyn gwallgof.

23. Os na ddefnyddir rheswm ni wyddys p'le bydd terfyn i'r afresymoldeb.

24. Ni ddylid dysgwyl dim yn rhagor oddiwrth neb na rheswm dros y peth a ddywed neu a wna; efydd yn seinio yw elebr dyn na ddywed reswm.

25. Pe bai dynion ddim ond yn *benderfynol* i orchfygu anhawsdra, hwy gaent y peth wedi ei *hanner wneyd* cyn eu bod yn meddwl braidd eu bod wedi ei *ddechreu*. *Diffyg ymdrech*, ac nid *diffyg gallu* sy'n peri bod llawer o ddynion yn aflwyddianus.

DYCHYMYG.

Pa beth sydd yn y nefoedd
  Yn gyhoedd inni gyd,
Er hyn nid yw mewn gwynfyd,
  Nac adfyd chwaith, na'r byd;
Mewn poenau mae ef beunydd,
  Nid yw mewn dedwydd le,
Ac yn y mor yn eglur
  Yn wir y gwelir e';
Fe'i gwelir yn y coedydd,
  Ac yn y broydd bras,
Ac hefyd yn y blodau,
  Ond nid mewn caeau glas.
'Nawr d'wedwch Gymry mwynion
  Yn ffraethlon ac yn ffri,
Pa beth sydd yn wastadol
  O fewn i'm ysgol i.

Aberdar. GWENYNEN FRYTANAIDD.

BARDDONIAETH.

ADDASRWYDD BABANOD I

ETIFEDDU TEYRNAS NEFOEDD.

RIENI mwynaidd pa'm yr wylwch,
  Nag arswydo mewn un wedd,
Pan fo gorfod i chwi roddi
  Eich babanod yn y bedd.

Cofiwch air yr Iesu gwaraidd,
  A'i addewid gref ddi gryd
I'r babanod mwyn a siriol,
  I'w croesawu mewn ail fyd.

Er i'r angau hyll ei d'rawiad
  Wneyd ysgariad rhyngoch 'nawr,
A'u rhoi ronyn bach i gysgu
  Yn dawel obry yn y llawr;

Fe ddaw gwawr ar hirnos angau
  A thywyllwch dudew'r bedd,
Lle cânt adnewyddu'n harddwych,
  A'u deffroi mewn newydd wedd.

Lle cânt fyw a chyd-deyrnasu
  Gyda'r Iesu'n hardd eu gwedd,
A chynnyddu ar ei ddelw,
  A dedwyddwch hardd y nef.

Fel planhigion ar lan dyfroedd,
  Yn cael maeth a lluniaeth llon,
Oddiwrth arogl dyfroedd tawel
  Mwyn a llariaidd, tawel don.

O na chofiech pa mor barod
  Yw babanod gwan eu llef
I gael groesaw mewn i'r hyfryd
  Wlad o wynfyd, hyfryd, hedd.

Yno cânt artrefu'n dawel,
  Heb un gofid mwy i'w rhan,
Nac euogrwydd blin cydwybod,
  Fyth ni theimlant mewn un man.

Rhoddwn fawl o wraidd y galon,
  I ddoeth Lywydd nefoedd faith,
Am eu tywys mor hyfrydlwys
  I'r fath wynfyd hyfryd maith.

Caeglas. D. DANIEL.

I'R YMOFYNYDD,

YR ENGLYN isod a gyfansoddwyd yn ddifyfyr wrth weled MR. JAMES LLOYD, Aberglasle, yn cael ei gladdu yn yr un bedd a'i fam.

O'n gwydd aeth IAGO dan gwys,—mewn gweryd
  Mae'n gorwedd dan fawrbwys;
Yn y bedd, dododd ei bwys
  Ar arffed ei fam i orphwys.

JOHN THOMAS.

Penybont, Hydref 18, 1847.

"GWYN EU BYD Y RHAI ADDFWYN: CANYS HWY A ETIFEDDANT Y DDAEAR." Mat. v. 4.

1 Nid y dyn sydd yn hy ei lais
Yn chwennych trais a balchder,
A'i galon yn ei olud gwael,
Sydd yma'n cael addfwynder.

2 Mae serch gybyddlyd dan ei fron
Yn lladd dych'mygion trwyddynt;
Ni wel ef werth y tai na'r tir,
Na chael un cysur ynddynt.

3 Mae'n ddall ei gred yngair ei Dduw,
Ynfydrwydd yw ei amcan;
Ni wel mewn natur ddim yn ddoeth,
Mae'n byw fel annoeth truan.

4 Heb brynu tir, masnachu twyll,
Ni wel yr ammhwyll gysur;
Ni wel heb hyn y gall fwynhau,
Ar drugareddau natur.

5 Mae'r dyn fo'n edrych ar ei daith,
Am gael ei waith yn eglur,
Yn wir etifedd, dan ei fron,
Ar holl gysuron natur.

6 Mae'n cael gorfoledd nos a dydd
Ar gynnydd ei gymydog;
Mae'n hoff o'r brawd fo'n gwneud ei ran,
O blaid y gwan newynog.

7 Yn llysiau'r llawr ym mrig y llwyn,
Yng ngherddi mwyn yr adar,
Mae'n cael mwynhad, ac ar fy ngwir,
Mae'n etifeddu'r ddaear.

8 Wrth air ei Dduw, mae'n rhodio'n fwyn,
Mae'n addfwyn ac ymdrechgar;
A'i olud oll yw calon bur
Nes etifeddu'r ddaear.

AMNON II.

ENGLYNION I'R YMOFYNYDD.

I bob dyn yr YMOFYNYDD—fyddo
Yn foddion llawn crefydd;
A'i glod ar dân trwy'r gwledydd,
I ledu ffordd o blaid y ffydd.

A'r GWIR yn gywir i gyd—a yrro
Yn arwydd trwy'r hollfyd:
A'i bwngc fo'n dangos i'r byd,
Rhag anfoes, ffordd i'r gwynfyd.

Rhoed ystyr yn fyr, a rhoed faeth—yn fwyn
Rhoed fawl a gwybodaeth
Yn hylwydd rhoed gân helaeth
Yn benrydd, neu'r cywydd caeth.

Mewn dadleu yn oleu ei waelod,—mewn parch,
Mewn pwyll yn ei drafod;
Mewn ymdrech i ladd pechod,
Mewn geiriau glan, mewn gwir glod—

Y byddo, a llawn o bob addysg—bur,
Mewn bwriad digymysg;
Gan addaw, drwy'i gân hyddysg,
Ddwyn y dall i ddawn a dysg.

Er lles yn gynnes i gannoedd—boed hwn,
Byd o hedd i'r cyhoedd;
Nes gweled gwell gweithredoedd,
Yn y blaid sy'n *un eu bloedd.*

Nid cynnal na dal un dig,—at eraill,
At eiriau rhy ffyrnig;
Ond addas eiriau diddig
Gadw frawd heb godi i'w frig.

Goleuni i ni yn awr,—a ddelo,
O'i ddilyn yn bwysfawr;
A dalied ef hyd elawr
Eiddo glân rhwng ei ddau glawr.

Ystrad, ger Llanbedr. AMNON II.

I'R YMOFYNYDD.

"Beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe."

Mae'n resyn fod neb ond rhai gwallgo'
Yn haeru, a'u credo mor gref,
Bod rhai wedi eu *gosod* i boenau,
A'r lleill wedi eu *gosod* i'r Nef,
Os felly;—'does eisiau cyfiawnder;
Awn hebddo'n ddibryder, difraw,
Gan erfyn sicrhau'n cadwedigaeth
Trwy Etholedigaeth rhagllaw.

Yn pwyso ar gyfiawnder y Ceidwad,
A thithau 'th ymddygiad yn ddrwg,—
O ddyn! a ddirmygi yn d' ynfydrwydd
Farn gyfiawn yr Arglwydd a'i wg?
Ond pwylla, a gâd dy oferedd,
Rho glust i wirionedd y Ne',
"Beth bynag a hauo dyn yma,
Hyny hefyd a feda efe."

IOLO LALYS.

J. T. JONES, ARGRAFFYDD, CAERFYRDDIN.

YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

BETH SYDD MEWN ENW—YR ENW SOSIN?

GELWIR yr enw hwn yn gyffredin ar yr *Undodiaid,* ond nid ganddynt eu hunain, eithr gan eu *gwrthwynebwyr.* Pa beth yw iawn ystyr yr enw a'r arferiad dechreuol o hono—pa ryw syniadau dieithr sydd yn awr ynglyn â'r gair Sosin ym meddyliau y werin, ynghyd â'r achos a'r caulyniadau o'u bod yn gwneuthur cymmaint o gam â'r enw—a pha un ai ydyw yn iawn ac yn gymmwys i roddi yr enw hwn ar Undodiaid yr oes hon—dyna y'm ni yn fwriadu i'w wneuthur yn destun ein traethawd hwn.

Y mae y testun yn arwain i faes helaeth a chyflawn o drysor ac o addysg. Mae'n wir bod llawer yn meddwl mai tir anial a diffaith yw tir hanesyddiaeth, ac yn neullduol hanesyddiaeth eglwysig, heb braidd dim ynddo ag sy'n werth y draul a'r trafferth, a dim ond llwybrau dyrys a llefydd sychion i rodio ar hyd 'ddynt. Credwn ni eu bod yn hynny yn camsynied, er y rhaid addef fod y myfyriwr pwyllog a theimladwy yn cael peth poen yn gymmysg â'i bleser, ac yn cwrdd â llawer peth ag a fyddai yn ddigon i beru i Angel wylo; etto, fe gyferfydd yma a thraw, er weithiau yn anaml, â golygfeydd gogoneddus a hardd i'r eithafoedd, a hynny yn brawf fod Duw daionus yn llywodraethu ym mhob oes ac ym mhob gwlad, a bod y lamp o wirionedd dwyfol dan ei nawdd ef. Y mae olrain hanes Eglwys Crist yn y byd yn swydd briodol i'r ymofynydd. Y mae yn beth ag sy'n gweddu i Gristion, ac yn ddiau ei fod er adeiladaeth. Ond ni chawn yn brsennol gymmeryd dan ein sylw ond cyfran yn unig, a chyfran fechan o'r hanes hwnw, trwy nodi rhai o'r ffeithiau a'r amgylchiadau perthynol i ddechreuad ac arferiad yr enw *Sosin.* Ac yn hynny ceisiwn fod yn fyr o herwydd dau reswm: ym mlaenaf, rhag ofn blino amynedd ein darllenwyr trwy fod yn rhy faith; yn ail, am ein bod yn bwriadu ar fyr, os parhair bywyd a nerth i ni, i roddi (er gwasanaeth darllenwyr yr YMOFYNYDD,) *golwg fer ar y Diwygiad dan Martin Luther.*

Ymdrechwn ddangos mai yr *egwyddor* oddiar yr hon y dechreuodd y Diwygiad hwnw, ac yr aeth yn y blaen, oedd Rhydd-ymofyniad, a hawl pob dyn i farnu drosto ei hun; ac ym mha fodd y ceisiwyd wedi'n i osod attalfa ar ei gweithrediad, fel pe dywedasid, "Hyd yma y cai fyned, ac nid

ymhellach;" ond bod rhai ag oeddent wedi cael eu dihuno gan y Diwygiad, ac wedi derbyn a deall yr egwyddor o Rydd-ymofyniad, yn ei gwerthfawrogi yn fwy nag y gallent ei rhoddi heibio ar haner ei gwaith: ymhlith y rhai oedd Servetus, Laelius a Faustus Socinus, Crellius, &c., a'r Eglwysi Undodaidd yn Poland a Transylvania. Os bydd i ryw un o'n cynhorthwywyr dysgedig i gymmeryd hynny o orchwyl oddiar ein llaw, teimlwn yn ddiolchgar; onite, ni wnawn ein goreu ein hunain yn ol y cyfleusderau a'r nerth a gaffom.

Y Sosiniaid a alwyd felly oddiwrth Faustus Socinius,* am eu bod, neu y cyfrifid eu bod yn ganlynwyr i'r gwr enwog hwnw, yr un modd ag y galwyd yr Ariaid oddiwrth Arius, y Calfiniaid oddiwrth Calfin, yr Arminiaid oddiwrth Arminius, &c. *Enw hanesiol* ynte yw yr enw *Sosin*, fel yr enwau eraill a nodasom uchod; ac nid oes dim ystyr iddo ynddo ei hun, heb ei gymmeryd mewn cyssylltiad â'r egwyddorion crefyddol a ddysgai Socinius, neu a *broffesid* gan rhyw blaid ag sy'n *galw eu hunain* ar yr enw hyn.

Yn awr nid oes un blaid grefyddol, nac un eglwys yn un parth o'r byd, ar a wyddom ni, ag sydd yn galw eu hunain yn Sociniaid. Mae'n wir fod yr Undodiaid ag sydd yn Mhrydain Fawr a'r Iwerddon, a'r rhai sydd ar gyfandir Europ, ac yn America, yn cael eu galw yn aml yn Sosiniaid gan eu gwrthwynebwyr. Byddai maes o le i ymofyn yma *paham* y maent yn gwrthod yr enw; y mae yn ddigon i sylwi mai dyma fel y mae y peth yn sefyll, sef eu bod *yn ei wrthod.*

Etto, yr oedd Socinus yn ei oes yn wr cyfrifol, ac o gynheddfau a rhinweddau rhagorol; ac oherwydd ei garacter, ei ysgrifeniadau, a'i ymdrechion, yr oedd mewn cymmeradwyaeth uchel, ac mewn parch haeddiannol gan y blaid y perthynai iddi. Yr oedd ei wrthwynebwyr a'i elynion, fel y gellid disgwyl, yn ei farnu yn galed, ac yn dywedyd yn ddrwg am dano, am ei fod yn taenu y peth ag oeddent hwy yn ei ystyried yn gyfeiliornad. Ond dyn oedd Socinus a aberthodd lawer er mwyn gwirionedd a chydwybod dda. Yr y'm wedi darllen ei banes, ac banes yr oes ag oedd ef yn byw ynddi, ac er dim a wyddom ni, ni chafwyd un lle erioed i'w gyhuddo o gamymddygiad nac fel dyn nac fel Cristion. Yr unig beth y cyhuddwyd ef o'i blegyd oedd anghyssondeb ei zel a'i ymdrechiadau yn erbyn Francis Davides, yn Transylvania, yr hwn—fel y gwna Undodiaid yr oes hon—a wrthwynebai talu addoliad crefyddol i Grist. Ond yr oedd Socinus yn credu yn gydwybodol fod Crist, er yn ddyn, a dyn yn unig o *ran ei natur*, etto wedi ei ddyrchafu gan Dduw yn ei swydd gyfryngol i lywodraeth y byd, ac o ganlyniad fod addoliad crefyddol yn ddyledus iddo. Y mae wedi ysgrifenu traethawd helaeth ar y pwnge:—"De Invocatione Christi:" hynny yw "Ynghylch annerch Crist mewn gweddi," Yn ei draethawd y mae yn sefyll yn gryf ac yn zelog dros ysgrythyroldeb ei olygiadau ef ynghylch addoli Crist. Nid yw yr esboniadau ag y mae yn eu cynnyg ddim yn ymddangos i ni yn naturiol, nâ'i resymau yn ddigonol i brofi ei bwnge. Ond nid yw hynny o ddim pwys yn y peth sydd gennym yn llaw. Tebygwn nad ail un dyn diragfarn ddarllen a deall gwaith yr awdwr hwn heb deimlo parch iddo fel ysgrifenydd.

Yr y'm ni, yn nghyd âg holl Undodiaid yr oes hon, yn barnu yn groes i

* Faustus Socinus a aned yn y flwyddyn 1539 o deulu anrhydeddus, yn Sienna yn yr Ital. Treuliodd y 30 mlynedd diweddaf o'i fywyd mewn ymdrechiadau llafurus a defnyddiol yn Poland a Transylvania. Bu farw gerllaw Cracow yn y flwyddyn 1604, yn 65 oed.

Socinus ar y pwngc y gwrthwynebai efe Francis Davides. Fel ag y'm *ni* yn deall yr ysgrythyr, y Tad yn unig yw priodol wrthrych gweddi ac addoliad crefyddol; neu yng ngeiriau Iesu ei hun, mai "Y gwir addolwyr a addolant y *Tad*." Yr ydym yn credu fod Crist wedi derbyn urddas ac awdurdod oddiwrth Dduw; ond y fath yw ein syniadau am y GORUWCHAF, yn yr hwn y mae pawb "yn byw, yn symud, ac yn bod," fel nad allwn dros fynyd lettya y dyb ei fod wedi rhoddi allan o'i law lywodraeth y byd i Grist neu i neb arall; a chredwn nad oes un sail i'r fath dyb yn yr ysgrythyr. Ond nid oes un lle gennym i gondemnio Socinus yn fwy na Luther a Chalfin am wahaniaethu oddiwrthym ni ar y pen yma. "Rhydd i bob meddwl ei farn, a rhydd i bob barn ei lafar."

Dywed yr hanesydd Mosheim nad oedd Faustus Socinus ddim yn rhagori mewn *dysg*. Dichon yr ymddengys fod Crellius ac eraill o'i gydymdrechwyr, ynghyd â'i ewythr, Laelius, o'i flaen yn hynny o beth. Pa fodd bynag, mewn galluoedd meddwl, a phwyll, a doethineb, ac mewn diwydrwydd, a zel, ac uniondeb, fe addefir ei fod gydâ'r blaenaf o enwogion ei oes. Yr oedd ei enw yn barchus, ac nid oes achos i neb gywilyddio wrtho. Ond os ydym *ni* yn gwrthod *pinno* ein cred wrth ei lawes ef na neb arall; ac os ydym yn gwahaniaethu oddiwrth ei olygiadau ef mewn rhai pethau o bwys, ac am hynny yn gwrthod galw ein hunain ar ei enw, peth arall yw hynny.

Sosiniaid yw yr enw ag y mae Mosheim a rhai haneswyr eraill yn ei roddi i'r blaid Grist'nogol honno yn y 16 a'r 17 cant, ag oedd yn gwrthod yr athrawiaethau o Drindod, a Iawn, a Phechod Gwreiddiol—a hynny tebygid am eu bod yn ystyried fod Socinus yn un o'u blaenoriaid pennaf, ac wedi bod yn offerynol gymmaint, os nad yn fwy na neb arall, i amddiffyn a thaenu eu hathrawiaeth, ac i sefydlu eu heglwysi yn Poland a Transylvania. Ond dywed Mosheim fod yr enw yn cael ei arferyd yn aml mewn ystyr rhy laes ac amhriodol, ac ei fod yn gymmwys yn unig i'r sawl sy'n cofleidio yn gwbl neu ar y cyfan y cyfundraeth a draethwyd gan Faustus Socinus. Pa fodd bynag, yr oedd y blaid ag oedd Socinus yn perthyn iddi, a'i gyfeillion, yn barod ddigon i gydnabod pwys a gwerth ei ymdrechiadau yn eu hachos.

Ymddengys hynny oddiwrth yr ysgrifen-fedd a ddodwyd arno, yr hon oedd fel y canlyn:—

> "Tota licet *Babylon* destruxit tecta *Lutherus*,
> Muros *Calvinus*, sed fundamenta *Socinus*."

Hynny yw, "Darfu Luther ddinystrio holl annedd-dai Babylon, Calfin ei chaerau, ond Socinus ddadymchwelws ei seiliau."

Etto, fe ymddengys nad oedd y blaid a amddiffynai y gwr enwog ddim yn ei amser ef yn galw eu hunain ar ei enw. Yn ei ymddiffyniad rhagorol yn erbyn cyhuddiadau yr Eglwysi Efangylaidd (Lutheran,) y mae yn dysgrifio ei frodyr yn y ffydd fel hyn:—"Qui falso vocantur Arriani et Ebionitae:" h.y., "Y rhai a gam-elwir yn Arriaid ac Ebionitaid." Cadarnhair yr olwg yma gan y *titl* a roddes Andrew Wissowatius i'r casgliad a wnaeth ef o awdwyr Undodaidd, yr hwn a gyhoeddwyd ganddo yn y flwyddyn 1656, Y mae y llyfrau gwerthfawr hyn yn ein mheddiant. Y maent yn wyth cyfrol mawr (yn Lladin), a phob un o honynt yn cynnwys oddeutu dau cymmaint a Bibl Petr Williams. Y mae y casgliad yn werthfawr yng ngolwg y rhai sy'n caru gwybodaeth duwinyddol ac hanesiol. Y mae yn cynnwys ysgrifeniadau Socinus, Crellius, Slichtingius, a Wolzogenius. Ond y peth a ddymunem ni alw sylw y darllenydd atto yw hyn, sef y *titl* ag y mae

Wissowatius yn rhoddi i'r casgliad. Dyma ydyw, "Bibliotheca Fratrum Polonorum, quos Unitarios Vocant:" h.y., "Llyfrgell y Brodyr Polaidd, y rhai ydys yn eu galw yn *Unitariaid*, neu Undodiaid." Cymmaint a hyn yn bresennol am y berthynas ag oedd rhwng enw Socinus âg Undodiaid ei oes ef. Parchent ef am ei garacter, a'i ddoniau, a'i ymdrechiadau llafurus a defnyddiol, a chytunent gan mwyaf âg ef yn yr esboniadau a roddai o feddwl yr ysgrythyrau; ond fe welir nad oeddent yn galw eu hunain ar ei enw. Felly hefyd am y rhai a elwir yn Sosiniaid o'r oes-oedd canlynol ac o'r oes hon; nid ganddynt eu hunain, ond gan eu gwrthwynebwyr y rhoddwyd yr enw yma arnynt. Ond y mae yn *fact* ag sy'n deilwng o sylw y darllenydd fod y sawl a broffesant yr athrawiaeth Undodaidd *yn awr*, ym mha barth bynag o'r byd, yn gwahaniaethu yn llawer pellach oddiwrth Socinus nâg oedd y rhai ag oeddent yn cydoesu ag ef. Awn yn awr yn y blaen i gynnyg rhai sylwadau ar ystyr yr enw "Sosin," fel y cymmerir, neu y cam-gymmerir gan lawer yng Nghymru.

Ac yn gyntaf cymmerwn gennad i ofyn it, ddarllenydd hynaws, pa un a elli di alw i'th gôf yr hyn a glywaist o bryd bwy gilydd gan ddynion anwybodus neu rhagfarnllyd, yn dywedyd beth, yn eu tŷb hwy, oedd bod yn Sosin? Dichon bod dy brofiad a'th adnabyddiaeth o'r byd wedi bod yn fwy helaeth na'r eiddom ni. A ddigwyddodd erioed i ti gwrdd a dyn tran wanaidd ei ddeall a byr ei wybodaeth yn esbonio beth yw bod yn Sosin fel hyn—sef mai dyma'r peth sydd mor ofnadwy yn athrawiaeth y Sosin, ei fod yn dal nad oes un arwyddion o flaen marwolaeth dyn yn fwy nag sydd o flaen anifail; nad oes un tolaith, na chymmaint a chanwyll gorph yn myned o'i flaen i'r bedd? Clywsom ni hynny, a'i ddywedyd hefyd gyda llawer o brysurdeb, fel pe bai a wnelai crefydd â'r fath ofergoelion. Ac ym mhlith rhai o radd uwch na'r un uchod o ran deall, ac y gallesid disgwyl eu bod yn gwybod gwell, a ddigwyddaist ti oll i gwrdd a dynion mor ragfarnllyd fel na wyddent, ac nas mynnent wybod, dim am y Sosiniaid yn rhagor na'r hyn oeddent wedi dysgu o'u mhebyd am y cyfryw hereticiaid; sef mai barn gyfeiliornus ac afiach sydd ganddynt, neu eu bod yn gwrthod Crist a'r Iachawdwriaeth trwyddo, a bod ganddynt Fibl o waith eu hunain, a'r cyffelyb gam-ddarluniadau; heb ystyried, feallai heb wybod, fod llawer o'r dynion hyn a ddirmygent fel Sosiniaid, wedi treulio bywydau maith a llafurus er mwyn deall a dysgu Crefydd Crist, amddiffyn ei gwirionedd, a thaenu ei hegwyddorion yn y byd? Neu, a glywaist waeddu "Sosin, Sosin," ar ol dynion mewn ffordd o wawd a dirmyg, yr hyn oedd yn rhoddi ar ddeall o leiaf bod rhyw beth câs yn yr enw? Pan welaist ac y clywaist hyn, neu bethau o'r fath, ac yn sylwi hefyd ar effeithiau naturiol y fath gam-ddarluniadau ar y werin, yn eu cadw mewn tywyllwch, ac yn magu ysbryd anghariadus, oni chyffroid dy ysbryd o'th fewn i waeddu allan, "Hawyr, pa beth y mae dysgawdwyr crefyddol y wlad wedi bod yr holl amser hyn yn ei gylch! A oes rhaid gwneuthur cam â'r gwirionedd, neu ddarnguddio rhyw ran o hono, er mwyn cadw Sosiniaeth i lawr?"

Dealler nad y'm ni yn dwyn hyn fel cyhuddiad yn erbyn neb; ond y mae bai wedi bod yn hyn o beth, ac y mae yn bryd i ddeffroi a cheisio i'w wella. Nid ydym 'chwaith yn beio ein Brodyr Trindodaidd am eu gwaith yn gwrthwynebu ac yn ceisio gwrthbrofi ein syniadau ni, a gredant hwy eu bod yn gyfeiliornus: ond dylent gofio ei fod yn ofynol iddynt wneuthur hynny trwy ddefnyddio rhesymau teg a darluniad cywir, canys mor wired a'i bod yn *hawl* ac yn *ddyledswydd* ar bob dyn i chwilio a barnu drosto ei hun yn

matterion pwysig crefydd, mor wired a hynny nid yn ddieuog y cyfrifir y neb a osodo attalfa neu rwystr ar y ffordd.

Gwelwn ynte fod yr enw Sosin, fel yr arferir ef yn gyffredin yn ein gwlad, yn enw o ystyr dywyll, yn un ag sy'n dwyn rhwystr a thramcwydd, ac yn arwain i gam-ddarluniad. Nid allwn ni lai na meddwl fod y Trindodwyr hynny yn gwneuthur ar fai ag sy'n parhau i arferyd yr enw Sosin yn lle Undodwr. Gall gwneuthur hynny wasanaethu, dros ryw amser, bwrpas pleidgarwch, trwy gadw i fynu ragfarn yn erbyn y sawl y gelwir yr enw arnynt; ond nid all wasanaethu un pwrpas da—ddim un pwrpas a fyddo deilwng o'r neb a garo ryddid a gwirionedd. "Ond beth sydd mewn enw?" gofynir, "Pa gam, pa niwed sydd o alw yr Undodiaid yn Sosiniaid?" Cymmaint a hyn, gyfaill, sef bod dy waith yn galw arnynt enw ag y maent yn ei wrthod, yn dangos dy fod di naill ai yn anwybodus a rhagfarnllyd, neu ynte nad wyt ti ddim mewn tymmer dda.

Y mae y byd Crist'nogol wedi bod, ac y mae yn debyg o barhau, yn rhannedig i wahanol bleidiau ac enwau; ond i'r graddau y byddo dynion yn deall yr Efengyl ac yn dwyn ei heffeithiau daionus, bydd i bleidgarwch leihau, ac i gariad at wirionedd a brawdoldeb gynnyddu. Gwawried yr amser! Yn ein hamgylchiadau presennol, ymddengys mai y drefn oreu yw, i adael i bob plaid i alw eu hunain ar yr enw a welont hwy eu hunain ei fod y mwyaf cymmwys er eu gwahaniaethu.

Gan hynny, gadawer bellach i'r blaid ag sydd yn dal yr athrawiaeth o Undod Duw i gael eu galw wrth eu henw priodol—yn Undodiaid. Y mae yr enw hwn yn dyscrifio yn well nag un arall yr egwyddor ag y maent yn gosod y pwys mwyaf arni. Ystyria yr Undodiaid mai dyma'r enw ag sydd fwyaf cymmwys er eu gwahaniaethu fel plaid, ac nid ydynt yn gallael gweled ei fod yn rhoddi achos cyfiawn o dramcwydd i neb pleidiau gwrthwynebol.

PECHOD GWREIDDIOL.

DARLITH II.

MR. YMOFYNYDD.—Yr wyf yn teimlo'n dra diolchgar i chwi am eich hynawsedd yn caniattau i'm darlith gyntaf ar "Bechod gwreiddiol" ymddangos yn eich Cyhoeddiad amhleidgar, yr wyf yn anfon attoch y sylwadau canlynol ar yr un pwngc, os gwelwch hwynt yn deilwng o le yn "Yr Ymofynydd." A chan ddymuno llwyddiant eich Cyhoeddiad, ond llwyddiant mwy y gwirionedd, Ydwyf eich ufudd was.

O. EVANS.

Yn fy sylwadau blaenorol ymdrechais ddangos fod llais cyffredin yr ysgrythyrau yn groes i'r dyb gyffredin am bechod gwreiddiol; yr wyf yn dyfod yn awr i sylwi ar y profion a ddygir ym mlaen dros y dyb hon gan ei chofleidwyr. A thra y byddwyf yn gwneuthur hyn, yr wyf yn gobeithio y bydd i'm darllenwyr ddal yn eu cof y darluniad a roddir o'r athrawiaeth hon; sef, fod Adda, cyn y cwymp, yn berffaith mewn sancteiddrwydd, purdeb, a gwybodaeth. Ond wedi iddo droseddu'r cyfammod a wnaeth Duw ag ef a'i hiliogaeth, ei fod ef, a phawb a enid o hono, a phob tuedd i ddrwg, dan felldith Duw, ac

yn agored i dair marwolaeth. Tybir fod yr ysgrythyrau yn cefnogi'r dyb hon; gan hynny,

Yr wyf yn meddwl sylwi, ym mlaenaf, ar yr adnodau hyny lle y tybir mai o achos pechod Adda y daeth marwolaeth a phoen ar ddyn a phob creadur arall. Wele hwynt yn canlyn. Gen. 2. 17. Ond o bren gwybodaeth *da* a *drwg*, na fwytta o hono; oblegid yn y *dydd* y bwyttai di o hono, gan farw y byddi farw. Rhuf. 5. 12. Am hynny megis trwy *un dyn* y daeth *pechod* i'r byd, a *marwolaeth* trwy bechod, ac felly yr aeth *marwolaeth* ar *bob dyn*, yn gymmaint a *phechu* o bawb. Rhuf. 6. 23. Canys cyflog pechod yw marwolaeth. Rhuf. 9. 19—23. Canys awyddfryd y creadur sydd yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw: canys y creadur sydd wedi ei ddarostwng i *oferedd;* nid o'i fodd, eithr oblegid yr hwn a'i darostyngodd: dan obaith y rhyddheir y creadur yntau hefyd, o gaethiwed *llygredigaeth*, i ryddid gogoniant plant Duw: canys ni a wyddom fod *pob creadur* yn cydocheneidio ac yn gofidio hyd y pryd hwn. Ac nid yn unig y creadur, ond *ninnau* hefyd, y rhai sydd gennym *flaenffrwyth* yr ysbryd; yr ydym ninnau hefyd yn ocheneidio ynom ein hunain, gan ddisgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth ein *corph*.

Ymresymmir oddiwrth yr adnodau hyn, ei bod yn amlwg, fod Duw wedi bygwth y byddai i Adda i farw, os gwnai fwytta o ffrwyth y pren. Fe fwyttaodd Adda o hono; a'r canlyniad fu, iddo farw;—Fod yr apostol yn dangos, mewn canlyniad i hyn, i bechod ddyfod i'r byd trwyddo; fod pawb wedi dyfod yn ddarostyngedig i farwolaeth, oherwydd fod pawb wedi pechu. Ond dywedir, nad yw plant ddim wedi pechu yn weithredol, etto eu bod hwy yn marw; a chan mai o achos pechod y mae pawb yn marw, "Yn gymmaint a phechu o bawb," eu bod hwythau wedi pechu *yn* Adda, ac felly yn gorfod marw. "Cyflog pechod yw marwolaeth," ac nid teg rhoddi'r gyflog i neb ond yr hwn fyddo yn ei haeddu. Ymhellach etto, dywedir, ei bod yn amlwg, fod yr holl greadigaeth dan felldith Duw, oherwydd fod pob creadur "wedi ei ddarostwng i oferedd, nid o'i fodd, eithr oblegid yr hwn a'i darostyngodd." Fod pob creadur yn ddarostyngedig i boen a marwolaeth, oherwydd trosedd yr un dyn a bechodd, sef Adda.

Y mae'r holl anhawsder a ddichon ymddangos oddiwrth yr ymresymiad uchod, yn tarddu oddiwrth gymmeryd yn ganiattaol yr hyn sydd eisiau ei brofi; sef, mai marwolaeth naturiol, ysbrydol, a thragwyddol sydd i ni ddeall oddiwrth yr adnodau a ddifynais. Ond yr wyf yn awr yn bwriadu dangos nad marwolaeth naturiol sydd i ni ddeall wrth fygythiad Duw i Adda, na geiriau Paul chwaith. Yr wyf yn meddwl dangos hyn trwy gynnorthwy daear-ddysg (*Geology*,) a'r ysgrythyrau hefyd a'u iawn ddehongli: oherwydd nid yw daear-ddysg, nac un ddysg arall, yn croesi llais Duw yn ei air; er y gall fod yn croesi esboniadau a dehongliadau dynion o air Duw.

Ond beth ddywed datguddiadau daear-ddysg am farwolaeth y greadigaeth anifeilaidd yn gyntaf: oblegid os gallwn ddangos fod angeu yn perthynu i *ryw* fod a bywyd ynddo, heb achos wrth *bechod* i gyfrif am hyny, cawn ein cynnorthwyo i weled y *gall* ddigwydd i bob rhan, pe na fuasai pechod erioed wedi dyfod i'r byd. Gan fod fy ngwybodaeth i o'r gangen hon o ddysgeidiaeth yn gyfyngedig iawn, fel nas gallaf alw sylw fy narllenwyr at ddim penderfyniadau o'm heiddo fy hun, canfyddant, gobeithiaf, y priodoldeb i mi osod ger eu bron feddwl un ag sydd yn sefyll yn uchel, os nid yr uchelaf, ymhlith y corph o Annibynwyr; a'r hwn hefyd sydd yn credu yn yr athrawiaeth dan sylw, sef, Pechod gwreiddiol; ac felly gellir bod yn sicr, nad yw ef ddim wedi casglu gormod; ïe, na dim ond yr hyn oedd yn rhwym o'i wneuthur.

Dr. Pye Smith (*Relation between the Holy Scriptures and Geology*) a ddywed fel y canlyn. Lect. iii. page 93. § V.

"Y mae anhawsder o bwys mawr yn cyfodi oddiwrth y dyb, nad oedd gan boen a marwolaeth, yn ol tystiolaeth yr ysgrythyrau, ddim lle mewn un rhan o'r greadigaeth fywydol a theimladol, o leiaf yn ein byd ni, nes ar ol i'n rhieni cyntaf bechu."

"Ymddengys fod y meddwl yma yn cael ei ymddiffyn gan awdurdod anffaeledig yr ysgrythyrau. "Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod." "Canys y creadur (y greadigaeth) sydd wedi ei ddarostwng i oferedd." Y mae yn trafferthu a dioddef dan "gaethiwed llygredigaeth." 'Y mae pob creadur (yr holl greadigaeth) yn cydocheneidio, ac yn cydofidio hyd y pryd hwn.'"

"Ond pan y chwiliom y deongliad neu'r casgliad hwn wrth oleuni ffeithiau anwadadwy, y mae *gwers arall* yn cael ei dysgu i ni. Yr ydym yn cael fod *pob sylwedd peiriannol*, hynny yw, pob peth sydd a bywyd ynddo, llysieuol ac anifeilaidd, wedi ei ffurfio ar gynllun ag sydd yn gwneuthur marwolaeth naturiol yn *angenrheidiol*, neu ryw beth cyfartal iddo. Y mae y cam cyntaf at fywyd yng nghalon (*corculum*) hedyn llysieuog, neu ddechreuad gronynaidd (*atomic rudiments*) y corph anifeilaidd, yn dechreu rhes o gyfnewidiadau yn cynnwys terfyniad annocheladwy. Y mae egwyddor ddirgelaidd bywyd *yn cael ei gynnal yn hollol trwy oruchwyliaeth marwolaeth.* Oddiwrth sylwedd peiriannol *wedi marw* (*dead organic matter*,) y mae'r adeiliad byw yn derbyn ei faeth angenrheidiol. Y mae cychwyniadau maeth, ymdebygiad, cynnydd, traul ac adgyweiriad (*the processes of nutrition, assimilation, growth, exhaustion and reparation*,) yn myned yn mlaen yn eu rhedfa anwrthwynebol at adfeiliad a marwolaeth. Y mae rhai dynion wedi breuddwydio am gynnal bywyd anifeilaidd ag ymborth llysieuog yn unig; heb wybod, fod yn mhob dalen, gwreiddin, neu ffrwyth yr ymborthant arnynt, ac ymhob diferyn o ddwfr a yfant, fyrddiynau o greaduriaid byw yn cael eu gosod i farwolaeth ganddynt, cyrph y rhai ydynt wedi eu ffurfio mor gywrain a rhyfeddol a'n cyrph ninnau; y rhai oeddynt yn llawn bywyd a bywiogrwydd, yn mwynhau dull ac yspaid eu bodoliaeth mor wirioneddol ac effeithiol, dan ei ofal tyner Ef, 'yr hwn sydd yn ddaionus i bawb, a'i drugaredd ar ei holl weithredoedd,' a'r elephant uchelwych, y ceffyl ardderchog, neu ddyn, eu harglwydd daearol hwynt oll. Mae y rhan fwyaf o lawer o'r greadigaeth anifeilaidd wedi eu ffurfio, yn mhob rhan o'u cyfansoddiad mewnol ac allanol, i fyw ar gig; ac ni allant fyw ar ddim arall. Mae natur ysgig (*carnivorous nature*) mewn mil o angrheifftiau, yn achos uniongyrchol o fendithion anmhrisiadwy i ddyn. Y mae angrheifftiau cynnefin o hyn yn cael eu dwyn yn barhaus o flaen eu llygaid, yng nghyflym symmudiad ymaith gelaneddau braenllyd anifeiliaid, trwy ddiwidrwydd myrddiynau o bryfaid o lai; creaduriaid nas gall llawer o honom adrych arnynt heb ddiflasdod; er hyny y maent yn ein hachub ni rhag cael ein gwenwyno gan awyr afiach a heintus; ac ar ol cyfnewidiad ychwanegol, arwyddion cyffrous o'n hadgyfodiad dyfodol, y maent yn dyfod allan yn greaduriaid heirdd a rhyfeddol, i fwynhau disgleirdeb teg yr haf, i sugno'r blodau, parotoi ar gyfer eu hiliogaeth, ac yna i farw."

Y mae daear-ddysg, (*Geology*) yn dangos i ni olygfeydd cyffelyb ar y *scale* fwyaf ardderchog, yn llanw cilfachau hynafiaeth *ddifesur.* Ychydig hanau uwchlaw y llech ronynnol (*micacious slate*) sydd yn ymddifad o weddillion anifeilaidd (*animal remains*,) ac mewn gradd o lai, o weddillion llysiau, am yr hyn y gellir cyfrif yn hawdd, yn gwneuthur i fynu, mewn rhai

angrheifftiau, sylwedd hollol creigiau cyfain ymron, y rhai ydynt gannoedd a miloedd o droedfeddi o drwch, a milldiroedd lawer mewn helaethder. Y mae rhai o beiramidau yr Aifft wedi eu hadeiladu o'r graig galch *numilitaidd* (*nummilitic limestone*), yr hon sydd yn cael ei gwneuthur i fynu yn hollol o gregin ystafellog, o faintioli bychan iawn, a chyfansoddiad odiaeth rhagorol.

Y mae creigydd eraill hefyd, sylwedd y rhai sydd yn cynnwys cregin rhy fach i'w canfod heb wydrau (*microscopic shells*), o harddwch anrhaethadwy, fuont unwaith yn anneddau creaduriaid byw. Ymhlith y rhai'n y mae sialc Lloegr. Bergmehl Sweden, a'r garreg gaboli, a ddaeth yn gyntaf o Tripoli, eithr a gafwyd wedi hyny mewn llawer o fannau ereill. Y mae cregin odiaeth y garreg hon ymron yn gallestraidd hollol (*siliceous*) yn eu cyfansoddiad, yr rhai fel yr ymddengys, sydd yn gwneuthur i fynu yr holl bentyrrau creigaidd; y mae y rhai'n mor lleied, meddaf, fel y cyfrifir fod cyfan-gorph betrual o ddegfed ran o fodfedd yn cynnwys pump can myrddiwn o honynt. Yn yr hanau *Oolite* a *Lias* sydd dan y sialc, ac yn Lloegr ac amrywiol wledydd ereill yn gorwedd ar y *New Red Sandstone*, y ceir, mewn rhifedi anferthol, nid yn unig cregin bywydolion lleiaf y mor, ond ysgerbwdau creaduriaid erchyll, rhai o faintioli anferthol, wedi eu ffurfio at nofio yn y mor, ac ymlysgo yn agos i'r traeth. Gallwn ganfod wrth sylwi ar eu dannedd galluog, ffurfiad eu hesgyrn, llefydd y gwythi, gewinau a phibellau cylchrediad, yn dangos eu swydd: ac hyd y nod y cylla o dan eu hasenau, wedi ei lanw â thameidiau o esgyrn wedi eu cnoi, cawn bysgod (*fish scales*,) a gweddillion ereill eu hysglyfiaeth,"

"Yn y modd hyn y mae nid yn unig cymmeriadau y greadigaeth anifeilaidd, ond hefyd nodweddau *rhywiau*, a lanwasant trwy oesoedd anfesuradwy eu parhad, yn *eglur brofi* mai ewyllys yr holl-ddoeth Greawdwr oedd i fywyd a marwolaeth weinyddu i'w gilydd trwy holl helaethder y rhywiogaethau anifeilaidd, yn gystadl yn sefyllfaoedd y byd sydd wedi *myned heibio* a chyflwr presennol natur, y rhai ydynt wedi gadael coffadwriaethau ar eu hol, wedi eu cerfio mewn llythyrennau nas gellir eu camsynied."

Yn y modd hyn y mae y dyn dysgedig hwn yn llefaru, a gwel y darllenydd ei fod nid yn unig yn meddwl ond yn profi yn eglur fod marwolaeth yn y byd cyn geni Adda, oesoedd dirif, sef ar y greadigaeth anifailaidd. Ond gan fod ein Hawdwr yn meddwl y buasai dyn fyw byth, ynghyd a'i hiliogaeth, gofynaf amynedd fy narllenwyr tra yn gosod ger eu bron ran o'i vii. Lect., part ii., tudalen 287, § ii., lle y mae'r un syniadau am farwolaeth, ynghyd a'i feddwl ar achos marwolaeth dyn yn cael eu gosod allan. Dywed fel hyn :—

"Awn ym mlaen yn awr i chwilio pa eglurhad y mae'r ysgrythyrau sanctaidd yn roddi ar yr hyn sydd yn ymddangos i lawer yn anhawsdra brawychus os nad anorchfygol, sef teyrnasiad poen a marwolaeth dros y greadigaeth anifeilaidd drwy bob ystod o'i bodoliaeth."

"Darfu i mi adrodd natur yr anhawsdra hwn yn y drydedd darlith, a manol adrodd ffeithiau yn natguddiadau olrheiniad daearddysgawl, yn gystadl ac yn nghyflwr presennol natur fywydol, y rhai ydynt yn peri i ni addef fod gan genhedliad a chynnydd ymhob bodau peiriannol eu cyd-drasau (*correlates*) mewn dadfeiliad a marwolaeth."

Ond bu yn feddwl cyffredin, nad oedd gan angeu a'i flaenredwyr (angen a phoen) ddim lle cyn i'n rhieni cyntaf syrthio oddiwrth ddiniweidrwydd a dedwyddwch. Er mwyn bod yn gysson, dylasid dal fod y byd llysieuog yn cael ei gadw hefyd rhag dadfeilio, gwiwo, a marw. Ond cafodd dynion, mae'n debygol, eu cadw rhag gosod i fynu y cyfryw dyb gan ystyriaeth o'r

ffolinebau eglur, i'r rhai yr oedd yn arwain ei chofleidwyr, a chan y gred nad oes gan lysiau ddim cydwybodaeth na phwerau dealltwriaeth, er fod ganddynt gyffroad (*irritability*,) yn yr hwn y mae'n anhawdd llai na meddwl fod rhyw beth o deimlad.

"Ein hymofyniad cyntaf, fel y mae'n fwyaf naturiol, ddylai fod p'un a oes hyspysrwydd, cyfeiriol neu anghyfeiriol, yng nghyfrol wreiddiol ysprydolaeth. Yr wyf yn *meddwl fod*, nid yn uniongyrchol mae'n wir, ond yn anghyfeiriol, a thrwy'r *fath gymmwysiad* ag sydd yn gyfartal i haeriad ffurfiol neu bendant. Y mae sefydliad bodau byw, yn ymddibynu ar yr ewyllys ddwyfol, yn cael ei osod allan yn y geiriau "*Ffrwythwch ac amlhewch*;" y mae hyn meddaf yn cynnwys cadwriaeth y rhyw, (*preservation of the species*,) ond olynol ddilyniad unigolion, (*succession of individuals*,) yr hyn sydd o anghenrheidrwydd yn cynnwys *ymadawiad* y rhai cyntaf. Y mae deddf peiriannaeth, o ffurfiad yr anelwig ddefnydd hyd y creadur yn ei gyflawn faintioli, yn cael ei dwyn ymlaen (mewn ffordd o ddidoliad parhaus y dernynnau), trwy fod gronynnau yn cael eu gwahanu yn barhaus, a'u taflu ymaith, ac ereill yn llanw eu lle, y rhai y mae maeth ymborth yn ddiwallu yn gysson. Ond y mae terfynau nas gellir myned drostynt wedi cael eu gosod i hyn trwy gyfreithiau sicr o ordinhad y Creawdwr, sef terfynau dysgyrchiad a gweithrediad ffeyllaidd (*those of gravity and chemical action*). Byddai meddwl fod y cyfreithiau yma yn cael eu dileu, neu yr hyn a fyddai yr un peth, yn cael eu hattal i weithredu, yn cynnwys croesddywediad; diddymmu yn hollol cyflwr hanfodol bodoliaeth beiriannol fyddai hyny. Wedi cyrraedd nod neillduol y mae gwahaniad, cyfnewidiad rhannau, a dadfeiliad y mân ronynnau yn rhwym o gymmeryd lle, nôd a sicr rhagflaenydd marwolaeth.

"Pe na bai felly, pe buasai bodau byw i gynnyddu a lliosogi *heb fod y rhai cyntaf yn ymadael*, aent, heb fod yn faith iawn, yn rhy *liosog* i gael ymborth i'w cynnal a lle priodol i anneddu: cai'r tir a'r mor, yr awyr a'r dyfroedd eu llanw; *pallai* ymborth, a *marwolaeth* llawer fwy poenus fyddai y canlyniad anocheladwy. Gwnai'r terfyniad brawychus hwn ddyfod yn gynt hefyd, gan mai llysiau, ar y dyb a enwyd, fyddai unig foddion cynnaliaeth.

"Ymddengys fod bygwyth marwolaeth, ar droseddiad prawf esmwyth ufuddod, yn cynnwys yn eglur fod gan ddeiliaid y gyfraith hon wybodaeth *beth oedd* marwolaeth; onide, nis gallasent wybod beth oedd meddwl y bygythiad. Y mae'r meddwl fod dioddefaint anhyspus iddynt, ac anarluniedig, yn cael ei osod ger eu bron fel cosp am droseddu'r gyfraith yn anghysson a doethineb ac urddas rhoddiad y gyfraith.

"Byddai yn briodol yn nesaf i gael gwybod p'un a oes rhannau o'r ysgrythyr yn haeru neu yn cynnwys fod y greadigaeth ddireswm wedi eu creu yn y fath gyflwr *na fuasent farw*. Y mae'n rhaid i mi addef na wn i ddim am *un* adnod o'r fath.

"Pe gwnai rhyw un, modd bynnag, haeru fod gwaith poen a marwolaeth yn digwydd i greaduriaid yn anhawsdra anorchfygol, ond gyda golwg ar ddrwg moesol yr wyf yn meddwl yn ostyngedig y dylai y cyfryw un gael ei foddloni gan yspryd ac egwyddor atteb ein Harglwydd i ofyniad nid annhebyg —'Ei ddisgyblion a ofynasant iddo, Athraw, pwy a bechodd, p'un a'i hwn a'i rieni, fel y genid ef yn ddall? Yr Iesu a attebodd, Nid hwn a bechodd na'i rieni chwaith; (appwyntiwyd hyn), fel yr amlygid gweithredoedd *Duw* ynddo ef.'

"Rhan hanfodol gwirionedd datguddiedig yw, 'Mai trwy un dyn y daeth

pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod;' ac felly 'trwy ddyn y daeth marwolaeth.' Ond y mae'n ymddangos i mi fod ystyried y rhanau hynny fel yn gosod allan mai yn y dull hwn y darfu i farwolaeth gael llywodraeth ar y *dyn* cyntaf a'i biliogaeth, sef yr biliogaeth *ddynol* yn gyffredinol, yn ddehongliad teg ac yn gyfaddefiad llawn o'r athrawiaeth ynghylch marwolaeth fel cosp am bechod. Mai golwg gyflawn ar y matter yn ein barwain i gredu fod *cyfansoddiad corphorol* dyn, yn ei gyflwr o burdeb cyntefig, yn rhydd oddiwrth gyfraith dadfeiliad a berthynai i'r anifailiaid; ac y mae'n ymddangos yn *debygol*, pe na buasai iddo syrthio, y buasai ef a'i biliogaëth, ar ol myned yn ffyddlon trwy brawf personol, gael ei GYFNEWID heb tarw, a chael ei ddyrchafu i gyflwr *mwy perffaith* e fodoliaeth."

Yn y modd hyn chwi welwch y mae y dyn rhagorol hwn yn ymresymmu; ac y mae ei resymmau yn oleu a nerthol, a'i gasgliadau yn deg ac anochel adwy, mor belled ag y mae ef yn ymresymmu. Am y rhan olaf (yr hon nis gallwn mewn tegwch ei gadael allan) nid yw ond gosod ei feddwl o'n blaen heb un prawf; a chawn weled yn yr hyn a ganlyn p'un a ydyw'r meddwl yma am deyrnasiad marwolaeth ar ddyn fel cosp am bechod yn gywir a'i peidio yn ol ymresymmiad ei hun a thystiolaeth yr ysgrythyrau. Yr wyf yn dra diolchgar iddo am agor y drws hwn i ni, gan fad gwirionedd diambenol Duw: ie, meddaf, am ddangos *fod marwolaeth* yn y byd *cyn* y cwymp. Ond fel y canfyddo'm darllenwyr fy ymresymmiadau yn fwy eglur gwnaf grynodeb byr yn fy ysgrif nesaf o'r hyn a ddywed y gwr dysgedig hwn, gan ymdrechu dangos wrth fyned ymlaen fod yr un rhesymau yn profi hefyd y buasai dyn farw pe na buasai iddo droseddu. Ond, rhag blino amynedd neb darllenwyr, terfynaf ar hyn o dro, fel llawer gyda mi sy'n methu gwybod pa bryd i ddistewi, trwy ddywedyd

(I'W BARHAU.)

SYLWADAU AR YR ATHRAWIAETH O IAWN I GYFIAWNDER.

Mr. Ymofynydd.—Dywedais yn fy llythyr yn eich Rhifyn am fis Tachwedd fy mod yn methu canfod dim yn yr athrawiaeth hon ag sydd yn ysgrythyrol, ac yn gysson â llywodraeth foesol Duw, nac ychwaith ag sydd yn welliant ar yr hen Gyfundraeth Galfinaidd. Yn awr, caniatewch i mi yn y lle cyntaf osod ger bron y darllenydd grynhodeb o'r ddwy athrawiaeth, ac yna fy rhesymau dros yr haeriadau uchod.

Yr hen Gyfundraeth.

1. Oherwydd pechod yr oedd cyfiawnder yn gofyn Adda a'i holl biliogaeth. "Nid oes neb cyfiawn, nac oes un." Ni byddai neb yn gadwedig oni buasai fod yr Ail Berson wedi atteb gofynion cyfiawnder.

2. Dioddefaint yr Ail Berson a dalodd i gyfiawnder yn gyflawn ei holl ofynion gan yr etholedigion.

3. Dioddefodd yr Ail Berson gymmaint o gosp, a'r un (identical) gosp ag oedd yn ddyledus i'r etholedigion.

Y Gyfundraeth newydd.

1. Oherwydd pechod yr oedd y llywodraeth ddwyfol yn gofyn Adda a'i holl biliogaeth. "Nid oes neb cyfiawn, nac oes un." Ni byddai neb yn gadwedig oni buasai trefn yr achub.

2. Dioddefaint Mab Duw a osodwyd yn lle gweinyddiad y gosp ar y pechadur, er mwyn diogelu anrhydedd y llywodraeth, a mawrhau'r gyfraith yr un mor effeithiol a phe byddai y pechadur ei hun yn dioddef.

3. Dioddefodd Mab Duw gymaint o gosp ag oedd yn ofynol i ddiogelu anrhydedd y llywodraeth, ac i ddangos drwg pechod. Ar gyfrif yr Iawn y mae Duw yn maddeu i bechaduriaid.

4. Dofodd dioddefaint yr Ail Berson lid y Tad.

5. Y mae Duwdod yr Ail Berson yn anhepgorol angenrheidiol i werth, cyflawnder, ac effeithioldeb yr Iawn.

6. Anghyfiawnder fyddai cospi'r Machnidd a'r Troseddwr hefyd.

7. Trwy ffydd y cyflwynir lles yr Iawn i'r etholedigion.

8. Rhodd Duw yw'r ffydd, nid i bawb, ond yn unig i'r etholedigion yn yr alwad effeithiol.

4. Cariad yw Duw, a'i gariad ddarparodd yr Iawn.

5. Y mae mawredd person y Mab yn anhepgorol angenrheidiol i werth, cyflawnder ac effeithioldeb yr Iawn.

6. Caiff pawb eu barnu yn ol eu gweithredoedd.

7. Rhaid i'r pechadur gael ffydd er mwyn *pledio* 'r Iawn drosto ei hun yn effeithiol.

8. Pawb ag sydd yn gwir geisio ffydd sydd yn ei chael.

Wele yn awr y ddwy athrawiaeth o flaen y darllenydd mewn dull mor fyr, mor gynhwysfawr, ac mor ddealladwy ag y medrwn eu gosod.

Wrth eu cydmaru â'u gilydd, gellir meddwl ar y cyntaf fod gwahaniaeth dirfawr rhwng y naill a'r llall; ond ar ol syllu arnynt yn graff, a'u chwalu, y mae'r gwahaniaeth yn diflanu yn agos iawn o'r golwg. Y mae John Calvin a'i lygad llym wedi bod yn eithaf manwl dros y tir; ac yr wyf o'r farn fod y gwr mawr hwnw mor gywraint a neb o ddiffynwyr y Gyfundraeth Newydd: nid oes dim carreg ar y maes hwn nad yw ef wedi ei throi, na phwll na chors nad yw ef wedi mesur eu dyfnder. Y mae Calvin wedi symud, neu wedi gochelyd pob rhwystrau, ond y cyfryw ag oedd, oherwydd y gred Drindodaidd, yn anocheladwy.

Yn y lle cyntaf, fe wêl y darllenydd fod y ddwy athrawiaeth, y naill fel y llall, yn gorphwys ar yr un fath sylfaen, sef "Duwdod Crist." Ffug-chwedl yw'r Iawn os nad Duw oedd Iesu Grist. Y mae pleidwyr y ddwy athrawiaeth yn cymmeryd *yn ganiatâol* fod yr ysgrythyrau yn dysgu fod Crist yn Dduw o'r un hanfod â'r Tad. Nid yw ddim yn sefyll ar fy ffordd i yn bresenol i fyned i drafod y pwngc hwn; ond nid allaf lai na sylwi naill ai fod pleidwyr yr athrawiaeth o Iawn yn anwybodus o natur y ddadl y'nghylch Duwdod Crist, neu ynte eu bod yn penderfynu, p'un ai cam ai cymmwys, i ddal yr athrawiaeth y'ngwyneb pob anhawsderau; onite petrusent ychydig cyn sylfaenu athrawiaeth o gymmaint pwys, fel y dywedant, ar dir mor ammheüus.

A ydynt hwy yn teimlo yn eithaf tawel yn eu cydwybodau i gredu eu bod wedi dymchwelyd yn eithaf llwyr, ac yn eithaf boddhaol i bob dyn ag sydd yn chwilio yn ddiduedd am y gwir, holl resymau yr Undodiaid yn erbyn Duwdod Crist, a thros mai un Duw yn unig sydd, sef y Tad? A oes dim cwmwl bach weithiau yn codi ar ddisgleirdeb awyrgylch eu deall? Mewn gair, a ydynt hwy yn teimlo mor gydwybodol yn eu cred yn Nuwdod Crist ag y byddent yn foddlon, pe bai achos, fforffedio'r nefoedd pe baent yn cyfeiliorni? Y mae cred yr Undodiaid yn gwbl mor ddiysgog y'ngeiriau yr Apostol, sef mai "Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion—*y dyn Crist Iesu.*" At Drindodiaid dysgedig yr wyf yn cyfeirio, megys y Doctoriaid P. Smith, Wardlaw, Jenkyn, &c. ac nid at y lluaws a gymmerant eu harwain heb wybod nemawr y'nghylch natur y ddadl.

Yn ol yr hen athrawiaeth nid yw'r Iawn o ddim lles i neb ond yn unig i'r etholedigion; ond yn ol yr un newydd y mae'r Iawn o les i bawb a'i "pleidiant ef drostynt eu hunain" ger bron yr orsedd. Gellir casglu oddiwrth hyn nad yw'r sawl sydd yn dal y Gyfundraeth newydd yn gosod dim pwys ar weithrediadau yr Ysbryd Glan,* o leiaf yn yr ystyr Galfinaidd; ond i fod yn

* Yn amser Crist a'r Apostolion, yr oedd rhai a gawsai yr Ysbryd Glan yn gallael gwneuthur gwyrthiau. Y mae'r Orthodox yn cymmeryd arnynt eu bod hwythau yn derbyn

gorphwys ar y dyn ei hun i weithio allan ei iechydwriaeth yn ol cyfarwyddiadau 'r Datguddiad Dwyfol. Dyma wahaniaeth dirfawr, os yn wir: ond nid yw felly, onite i ba ddyben y mae eu pregethwyr yn gweddio yn y cyfarfodydd am dywalltiad yr Ysbryd, ac yn annog eu gwrandawyr i wneyd yr un peth? Yr wyf yn crybwyll hyn, nid i feio arnynt, ond yn unig i ddangos trwy anghyssondeb eu hathrawiaeth a'u hymddygiad, nad yw'r Gyfundraeth newydd ddim mewn gwirionedd yn welliant ar yr hen. Os na thywelltir yr Ysbryd ar bawb a weddiant am dano, dywedir fod rhai yn ei geisio yn fwy taer na'u gilydd. Ond nid yw hyn yn atteb boddhaol, yn gymmaint ag nad yw yn symud yr anhawsdra.

Etto, dyma un yn ymofyn am noddfa yn yr Iawn, fel y dywedir, a'r llall yn hollol ddibryder am ei gyflwr ysbrydol: y mae yn amlwg fod rhywbeth yn gweithio yn un nad yw yn y llall, a pheth ydyw? Fe atteb y Calfin yn gysson â'i arfaeth a'i etboledigaeth, fod un wedi cael yr alwad effeithiol, a'r llall ddim. Y mae'r atteb hwn yn eithaf boddhaol os cymmerir yn ganiataol fod yr arfaeth yn wir. Ond y mae'r Armin a'r Fullerian yn dadleu o'r ochr arall fod yr arfaeth yn edliwiad ar *garacter* Duw, yn amddifadu dyn o ragorfraint ei natur—ewyllys rydd, ac yn ei anaddasu i fod yn ddeiliad sefyllfa prawf. Yn awr, sut y maent hwy, yn unol a'u hewyllys rydd, yu cyfrif am y gwahaniaeth? Dywedant fod rhai yn gwrando ar lais Duw ac eraill yn gwrthod. Digon gwir fod yr atteb hwn yn gochelyd yr anhawsdra, ond nid yw yn ei symud, oblegid y mae'r gofyniad etto yn dychwelyd yr un mor nerthol ag o'r blaen—Beth yw'r achos fod rhai yn gwrando ac eraill yn gwrthod? Mewn gair, cymmered diffynwyr y Gyfundraeth newydd y tir a fynnont, nid oes dim modd gochelyd yr anhawsdra hwn oni ant yn ol at Galfiniaeth, neu yn mlaen at Undodiaeth: nid oes dim sefyllfa ddiogel yn y canol.

Dysga'r athrawiaeth hon fod yr Iawn yn diogelu anrhydedd y llywodraeth trwy fawrhau'r gyfraith. "Yn ymddwyn fel hyn, medd Dr. Jenkyn, y mae gorfoledd a theilyngdod y pechadur yn cael eu cau allan, ac y mae'r llywodraeth ddwyfol yn cyhoeddi maddeuant yn ddiberygl ac yn anrhydeddus. Tudal. 30.

O ganlyniad pe byddai Duw yn maddeu i'r pechadur heb Iawn byddai ei lywodraeth mewn perygl. Yr wyf yn gallu deall beth yw bod llywodraethau daiarol felly, ond i fod llywodraeth yr Hollalluog mewn perygl sydd beth ag nas gall fy enaid i ddirnad. Mi debygwn fod y Doctor o'r farn fod gallu gan "yr angylion ni chadwasant eu dechreuad" yn rhyw fodd i ddrygu llywodraeth y Goruchaf. Tudal. 68. Ond os nad wyf yn camsynied, nid oes dim mwy o sail yn y Bibl i wrthryfel yr Angylion syrthiedig nag y sydd ynddo i Chwedl y Paganiaid am ryfel y Cewri yn erbyn Jupiter.

Ond i adael yr Angylion syrthiedig i'r sawl sydd yn fwy hyddysg mewn

---

yr Ysbryd, ond nid ydynt fel y gwnai y Crist'nogion cyntaf, yn rhoddi prawf fod yr Ysbryd ganddynt trwy wneyd gweithredoedd nerthol. Ai yr un Ysbryd sydd yn cael ei roddi yn awr ag oedd y pryd hyny? Os ïe, b'le mae'r gwyrthiau? Neu a ydyw yr Ysbryd wedi newid ei swydd? Os ydyw, pa le yn yr ysgrythyrau y dywedir y byddai i'r cyfnewidiad hyny i gymeryd lle? Y mae *Seintiau'r dydd diweddaf* yn hyn yn fwy cysson na'r Orthodox, oblegyd y maent hwy yn cymmeryd arnynt i wneuthur gwyrthiau; ac y mae dadl Dowlais yn ddigon o brawf nad oes dim tir cadarn gan yr Orthodox i sefyll dadl â hwy. Ni all neb ond yr Undodiaid i brofi yn gysson â'r gwirionedd, yn erbyn y sawl sydd yn cymmeryd arnynt eu bod yn derbyn yr Ysbryd, mai twyllo eu hunain y maent os ydynt yn credu hyny mewn gwirionedd. Nid yw'r Ysbryd Glan ddim yn cael ei roddi i neb yn awr, ac nid oes dim o'i eisiau ychwaith, oblegyd y mae geiriau Crist, medd efe, yn ysbryd ac yn fywyd ynddynt eu hunain.

gwybodaethau o'r fath nag wyf fi yn cymeryd arnaf fod, yr ydys yn sicr fod diffynwyr y Gyfundraeth newydd o'r farn pe byddai Duw yn peidio cospi troseddwyr yn ol ei fygythiad, y rhoddai hyny annogaeth i eraill i droseddu, y collai'r llywodraeth ei hawdurdod, ac yr elai yn ddirmygedig y'ngolwg drwgweithredwyr: er engraifft, Rhddes Duw orchymyn i Adda na fwytai o ffrwyth y pren gwybodaeth da a drwg, onite y byddai farw yn y dydd y torra'i gorchymyn; ond er i Adda anufuddhau i orchymyn yr Arglwydd, a bwyta o ffrwyth y pren, ni bu farw yn y dydd hwnw. Rhyw beth tebyg i'r ymddiddan canlynol, meddant, fyddai effaith ymddygiad trugarog Duw at Adda ar ddrwgweithredwyr oni byddai'r Iawn. "Y mae yn wir fod Duw yn bygwth cospi, ond cofiwch mai Bod trugarog ydyw; chwi wyddoch fel y dywedodd wrth Adda am beidio bwyta o ffrwyth y pren hyny yn Mharadwys, ac y byddai farw yn y dydd y bwytai o hono; a chwi wyddoch hefyd, er iddo dorri'r gorchymyn, na ymddygodd Duw ddim atto cynddrwg a'i air; y mae yn eithaf tebyg na fydd efe ddim yn waeth tuag attom ninnau; o leiaf ni fentrwn." Yn awr, am i fod Duw yn dyweyd yn ei air y cospa efe y drwgweithredwyr, dywedir mai mesur o drefniad dwyfol yw'r Iawn, er mwyn galluogi Duw i roddi maddeuant i'r edifeiriol yn gysson a diogelwch y llywodraeth. Hyn yw prif egwyddor y Gyfundraeth newydd.

Y mae diffynwyr yr athrawiaeth hon yn son llawer am lywodraeth wladol, fel pe byddai llywodraethau ammherffaith y byd hwn i'w cystadlu â llywodraeth berffaith yr Anfeidrol Jehofah. Y twyll-ymresymiad hwn yw gwreiddiol achos yr Iawn newydd: am hyny, dymunwn fod yn fwy manwl arno nag y caniata terfynau llythyr i mi fod. Am mai nid gweithred gyfiawn fyddai *cospi* neu *achosi poen* i'r diniwed er mwyn dychrynu drwgweithredwyr, am hyny nid yw'r egwyddor o iawn yn fesur cyfiawn i un rhyw lywodraeth mwy na'i gilydd i gymmeryd atto. Nid yw'r ffaith fod y dieuog yn foddlon cymmeryd ei gospi yn cyfnewid natur y mesur. Er i fod Zaleucus* yn foddlon colli llygad er mwyn arbed un o lygaid ei fab, a oedd y weithred o dynu llygad y brenhin yn un gyfiawn o du y llywodraeth? Yn siwr, nid yw colli llygad yn ddigon i amddifadu dyn o'i fywyd, ond beth pe buasai'r gyfraith yn gofyn pen y godinebwr, a fuasai ymddygiad y brenhin yn gosod ei ben ar y bloc, yn lle ei fab, yn gyfiawn at ei deulu, atto ei hun, ac at ei Greawdwr? Os na fuasai, y mae'n amlwg y byddai'r llywodraeth wrth ganiatau i Zaleucus i farw yn lle ei fab, yn caniatau gweithred anghyfiawn. Nid ymddygiad cyfiawn yn neb fyddai caniatau i weithred anghyfiawn i'w gwneyd. Ymddengys i mi na fyddai ymddygiad Zaleucus hefyd yn fawr gwell na hunanladdiad.

Dylasai y Locriaid i uno fel un gwr i *repealo* y gyfraith yn hytrach na chaniatau i'r llywodraeth i dynu llygad eu brenhin. Nid mynych y darllenir am engreifftiau cyffelyb i hwn; ac yr wyf yn sicr na wnai unrhyw lywodraeth ag sydd yn awr yn Ewrop *gymmeradwyo* y fath fesur, chwaith ei *gynnyg*. Y mae yn rhaid fod mesurau o'r fath, fel alarchod duon, yn anaml iawn, onite ni fyddai gorfod ar ddiffynwyr yr athrawiaeth hon ymofyn am

---

* Zaleucus—Un o ddisgyblion Pythagoras, a brenhin Locris—talaeth fechan y'ngwlad Groeg. Yr oedd yn byw oddeutu pump cant o flynyddau cyn geni Crist. Dywedir i'r brenhin hwn wneyd cyfraith greulon iawn yn erbyn godinebwyr, sef fod i'r cyfryw un a gaid yn euog o'r weithred, golli ei ddau lygad. Er mawr siomedigaeth a gofid y brenhin, yr oedd ei fab ei hun yn un o'r rhai cyntaf a gafwyd yn euog o dorri'r gyfraith. Y ffordd ddyfeisiodd, er mwyn arbed un o lygaid ei fab, a chadw o fewn llythyren y gyfraith, oedd iddo ef ei hun i golli un llygad, a'r mab i golli'r llall. Diod. L. xii. p. 79—85.

un i dalaeth mor fechan a disylw a Locris, ac mewn oes mor foreu a phump cant o flynyddau cyn amser Crist.

Ond nid hyn yw'r cwbl. Heblaw y byddai mesur iawnol yn un anghyfiawn, byddai hefyd yn llawn perygl, a thrwyddo collid amcanion y llywodraeth. Oni fyddai yn beth naturiol i'r drwgweithredwyr i gymmeryd achlysur oddiwrtho i ddyweyd naill a'i fod y llywodraeth yn rhy wan i gospi, neu ynte fod y llywodraethwyr yn gydwybodol fod y gyfraith yn un anghyfiawn, ac o ganlyniad i fod yn well ganddynt na *phassio* heibio y trosedd "i ddyfeisio rhyw drefn o gadw" trwy wneyd math o *sham work* â Mab y Brenhin neu ryw wr mawr arall a fyddai yn foddlon rhoddi ei hun yn offeryn yn eu llaw? Oni fyddai y fath drefn iawnol yn annogaeth iddynt i bechu yn ol llaw?

Pe byddai Mesur Iawnol yn gyfiawn ac yn ddiberygl, etto ni attebai yr un dyben yn y llywodraeth ddwyfol ag mewn llywodraeth ddaiarol. Ei ddyben yn yr olaf fyddai gollwng yn rhydd ryw ddrwgweithredwr—un neu ragor—a fyddai'r llywodraeth yn ewyllysio, a hyny heb iselhau y gyfraith y'ngolwg y deiliaid. Ond nid peth o'r un natur yw maddeuant trosedd yn erbyn cyfraith Duw ag yn erbyn cyfreithiau daiarol. Y mae cyfreithiau Duw mor uniawn yn eu nhatur, ac mor anwahanadwy gyssylltiedig a chydwybod dyn, fel y mae yn annichonadwy eu troseddu heb fod euogrwydd ar y gydwybod, ac heb fod effeithiau'r trosedd yn canlyn y troseddwr trwy holl ystod ei fywyd. Ffolineb fyddai dyweyd fod effaith Iawn Crist yn gwaredu y rhai a'i "plediant drostynt eu hunain" oddiwrth y canlyniadau hyn. Byddai'r peth yn groes i'n profiad—yn wrthyn. Y mae euogrwydd cydwybod, ac effeithiau drwg eraill ag sydd yn nglyn a phechod, yn canlyn ac yn cospi miloedd ag sydd wedi edifarhau gynnifer gwallt eu penau iddynt erioed bechu yn erbyn Duw. Os y dywedir mai nid felly y bydd yn y byd nesaf, pwy debygolrwydd sydd y bydd i lywodraeth Duw gyfnewid o'r peth yw hi yn awr? Onid rhesymol yw dysgwyl bod ei lywodraeth, fel efe ei hun, yn annghyfnewidiol? Mewn gair, nis gall mesur Iawnol o un math, pa un ai yn llywodraeth Duw neu dynion, ddiogelu neb rhag cosp ond yr hon ag sydd oddiallan i'r corph. Cyn y gallo Iawn atteb y dyben sydd yn y golwg gan bleidwyr y Gyfundraeth newydd, rhaid cyfnewid natur Duw a chyfansoddiad y greadigaeth.

Ac etto, pe byddai yn wir mai dyben dioddefaint Crist oedd mawrhau'r llywodraeth y'ngolwg ei deiliaid, nis gallasai'r dyben gael ei atteb cyn iddo ddioddef: ac o ganlyniad nis gallasai'r Iawn fod o ddefnydd i *ddychrynu* drwgweithredwyr trwy'r holl oesoedd a aethant heibio cyn amser Crist. I fod Duw yn addaw maddeu i'r Israeliaid ar eu hedifeirwch sydd wirionedd ysgrythyrol, ac yr oedd hefyd wedi dyweyd "Yr enaid a becho hwnw a fydd marw." Pa fodd gan hyny y gallasai faddeu i'r edifeiriol heb beryglu ei lywodraeth? Os y dywedir fod Duw yn maddeu yn rhad cyn amser Crist ar gyfrif yr Iawn a roddid i'r llywodraeth ryw oesoedd i ddod, ni allasai y fath ddyfais fawrhau'r llywodraeth y'ngolwg y lluaws o ddynol-ryw. A chaniatau i'r drefn gael ei datguddio yn foreu i'r byd, nis gallasai neb fod yn gwybod am dani ond yr Iuddewon; ac nid oes dim sôn yn yr hen Destament am y fath ddatguddiad, os nad oes yn yr addewid "A hâd y wraig a siga siol y Sarph;" a phe byddai cyfeiriad yn hyn at yr Iawn, byddai yn rhy dywyll ac ammheuus i atteb fawr o ddiben.

Dichon y dywedir fod yr Aberthau yn rhag-ddangos yr Iawn: os

oeddynt, nid oes dim hanes fod yr Iuddewon yn adnabyddus o'r peth: ac am y Paganiaid, fe wyddys yn eithaf da beth oedd eu dyben hwynt yn anrhegu eu duwiau ag ebyrth.

Pa fodd y gall diffynwyr yr athrawiaeth hon ddyweyd fod yr Iawn yn dychrynu dynion rhag pechu yn erbyn y llywodraeth ddwyfol? Nid oes dim eisiau rhagor na'n sylw beunyddiol i wrthbrofi'r haeriad hwn. Yr ydym yn gweled fod miloedd o hil Adda yn y byd, y rhai nid ydynt yn gwybod un sill am yr Iawn a roddwyd i'r llywodraeth; ac nis gall y peth na wyddant am dano i fod yn rhwystr ar eu ffordd i bechu? Os oes rhai pechaduriaid yn gwybod rhywbeth am y drefn hon, y mae ein sylw yn dyst nad yw eu gwybodaeth o honi o fawr ddiefnydd iddynt, oblegid pechu y maent hwy bob dydd. Pe cafai'r Iawn unrhyw effaith mwy na'i gilydd arnynt, y mae'n lled debyg y byddai'r effaith yn fwy o niwed nac o les i grefydd, oblegid credent y caent faddeuant ond iddynt "bledio'r Iawn drostynt eu hunain" cyn marw.

Dywedir gan rai o bleidwyr yr athrawiaeth fod yr ystyriaeth o Gariad, Gras, a Thrugaredd Duw, yn hytrach yn rhoddi annogaeth i bechaduriaid (unrenewed men) i wrthryfela yn erbyn y llywodraeth; ond i fod yr Iawn yn peru dychryn arnynt trwy roddi ar ddeall iddynt nad ydynt i ddysgwyl cael diangc dialedd y gyfraith. Yn hyn y maent yn ymddangos yn anwybodus o'r natur ddynol; oblegid dysga profiad a sylw fod dynion o ysbryd trugarog, tosturiol, maddeugar, byddent frenhinoedd, tywysogion, neu o ryw sefyllfa is, yn cael annghydmarol mwy o effaith, hyd yn oed ar y gwaelion ffieiddiaf eu buchedd, na'r rhai o ysbryd llym, dialgar, a chwannog i gyfraith. Y mae ymddygiad un fel gwres yr haul yn toddi'r cwyr, a'r llall fel y rhew yn ei galedu. Un o'r achosion cryfaf p'am nad yw'r Efengyl yn cael mwy o afael ar galonau dynion, yw i fod y pregethwyr yn fwy chwannog i osod Duw allan fel yn "dân ysol ac yn llosgfeydd tragwyddol," nag fel y mae Grist yn ei osod allan, sef yn DAD tirion, cyfiawn, trugarog, yn caru ei holl blant, ac yn ewyllysio eu dedwyddweh. Nid oes dim a all ennill dynion yn fwy effeithiol i garu Duw na'r teimlad o'i fod ef yn ein caru ni.

Y rheswm olaf a osodir yn awr ger bron y darllenydd yw'r un canlynol, ac y mae yn rheswm digonol i foddloni pob dyn diragfarn mai dyfeisiau dynol yw'r ddwy gyfundraeth Iawnol—y naill fel y llall; mewn gair, y mae yn rheswm, pe gwrandawid arno, a osodai daw ar bob pregethwr a bregetha yr athrawiaeth hon, a phob ysgrifenwr a ysgrifena draethodau i'w hamddiffyn. Beth ydyw? Nid yw'r DYSGAWDWR MAWR yr Arglwydd Iesu, yr hwn a wyddai orau o neb am natur ei swydd, a dyben ei ddanfoniad, nid yw ef, maddaf, yn son son gair am yr haeddiant, nac am ddofi llid y Tad, nac am Iawn i gyfiawnder, nac am ddim o'r cyffelyb. Y mae efe wedi dysgu pob peth ag sydd yn angenrheidiol er iechydwriaeth dyn, i gymmodi'r byd a Duw, ac i ddwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni: ond yn ei bregeth ar y mynydd, yn ei ddamhegion, yn ei ymddiddanion, yn ei annerchiadau i'w ddysgyblion, nid oes dim cymmaint a gair—dim cymaint ag awgrym am Iawn i gyfiawnder, nac un rhyw iawn arall. Os yw'r Iawn o gymmaint pwys ag y dywedir ei fod—os oes cyfran mor fawr ganddo yn achubiaeth pechadur, gellid dysgwyl y byddai mor ddysgiaer y'mhlith athrawiaethau'r Efengyl ag yw'r lloer yn mhlith y ser: ond yn lle hyny nid oes dim gair o son am dano yn un o'r pedair Efengyl. Os gwyddai'r

lechawdwr am yr athrawiaeth, pryd y gallasai gael gwell cyfleusdra i'w dysgu i'w ddysgyblion nag yn nammeg y mab afradlon? Ond nid oes yno ddim awgrym am dani. Cafwyd un yn mhriodas mab y brenhin heb y wisg briodas am dano, y mae'n wir; ond nid oes dim son mai'r lawn sydd i'w feddwl wrth y wisg hono. Rhoddir i ni ddarluniad o ddydd y farn, ond nid yw'r Athraw yn dyweyd mai y rhai a bledient yr iawn, a gaent fynediad helaeth i deyrnas Dduw. Pwy oedd y "Bendigedigion blant fy Nhad?" Onid y rhai a borthasant y newynog, a ddiodasant y sychedig, a ddygasant y dyeithr gyda hwynt, a ddilladasant y noeth, ac a ymwelasant a'r rhai oedd yn ngharchar? Ond yn ofer y chwiliwn am yr athrawiaeth hon yn y pedair Efengyl; y maent yn hollawl ddystaw yn ei chylch, er y dywedir yn awr mai "hi sydd yn dal y greadigaeth yn nghyd." O chwi ddysgedigion Trindodaidd, gyda pharch yr wyf yn ceisio gennych, os yw'r athrawiaeth yn wir, rhowch reswm paham y mae Crist yn ddistaw yn ei chylch; ond os nad yw'n wir, addefwch hyny, a dychwelwch at egwyddorion syml yr Efengyl.

Yn awr, ddarllenydd, yr wyf yn dy adel am y tro hwn eto; nid wyf wedi adrodd y cwbl o'r rhesymau sydd genyf yn erbyn yr athrawiaeth hon, ond barnwyf fy mod wedi dyweyd digon i ddarbwyllo y diragfarn mai un yw hi, nid o ddatgyddiad dwyfol, ond o ddyfais dynol: pe dywedai Crist ei hun wrth y rhagfarnllyd nad yw hi ddim o Dduw, braidd, debygwn, y credai. Y tro nesaf ni gawn ystyried y rhanau hyny o Epistolau Paul a feddylir en bod yn dysgu Iawn i gyfiawnder.

PHILO.

TYSTIOLAETH LLYFR NATUR AM DDUW.

Mae natur yn ei threfnau'n wych,
Hardd oll i edrych arnynt;
Gweithredoedd Duw, boed iddo'r mawl,
A thra rhyfeddawl ydynt.

O bob daioni maent yn llawn,
Pob peth yn iawn i'r eithaf;
Doethineb cariad amlwg yw
Holl waith y Duw goruchaf.

Dyna y modd yr oedd yr anfarwol fardd, a'r *Optimist* mawr hwnnw, Edward Williams, o Dreffleminn, neu Iolo Morganwg, yn darllen y greadigaeth; a'r hwn a allo ddywedyd AMEN gydag ef, a fedd ar gyssur, tra ar y ddaear nad oes ond y rhai o'r un gred a allant amgyffred ei werth. Cyn cael nef rhaid caru Duw—cyn caru Duw, mae yn rhaid gweled ei fod yn dda—yn dda i bawb, a'i drugaredd ar ei holl weithredoedd—yn anfeidrol ei gariad—yn trefnu y cyfan yn y modd goreu er lles pob dyn byw—yn Hollalluog i ddwyn oddiamgylch ei amcanion—yn dywedyd "Fy nghyngor a saif a'm holl ewyllys a wnaf." Pan y gwelo dyn hyn; gwel ei fod ef ei hun yn un o anwyliaid y Nef; a theimla ei galon yn cael ei ennynnu yn dân goleu o gariad at Dad pob daioni, oherwydd fod y cyfan yn y modd goreu. Dyma fel y teimlai y serchog ddisgybl oedd yr Iesu yn ei garu fel gwelwn yn y 19 ad. o'r iv. ben. o'i lythyr cyntaf "*Yr ydym ni yn ei garu EF am iddo EF yn GYNTAF ein caru ni.*"

Nid y Bibl yn unig sydd yn tystiolaethu fod Duw yn dda, ond mae ei holl weithredoedd yn mynegu yr un peth. Mae ei amcanion daionus, yn ganfodadwy ym mhob peth a ddygodd ei law i fod; ni chreodd ddim yn ofer—y mae o'r dechreuad yn canfod y diwedd—ac er cynt yr hyn ni wnaed etto. Anfeidrol ddoethineb a drefnodd.—Anfeidroldeb cariad a wnaeth y cynllun yn y modd goreu—a Hollalluawgrwydd a'i cyflawna:—fel y byddo *holl* greaduriaid Duw yn un gynnulleidfa o wynfydedigion hyd fyth heb ddiwedd. Gwn fod meddwl am hyn yn barod i beri i'r darllenydd di ragfarn i ddywedyd "O na bai hyn yn wir—na welwn brofion digonol o'r fath haeriadau!" Y maent i'w cael hyd yn ddiderfyn yn Nadguddiad Duw ac yn ei holl weithredoedd. Ond ar hyn o bryd sylwn ar ambell adnod yma a thraw, drwy bennod neu ddwy yn llyfr natur.

Wele y llaw sydd yn ysgrifenu y geiriau hyn i sylwi arni yn gyntaf. Mae arni bump o fysedd, pedwar o'r rhai hyny yn plygu yr un ffordd, ac un yn eu herbyn gyda rhwyddineb eithaf, ac felly y mae yn alluog i afaelu mewn un peth ag a fyddo y perchennog yn

chwenychu. Yn yr arddwrn y mae cymmal arall yn uno y llaw a dau asgwrn y fraich; y rhai o honynt hwythau ydynt mor gywraint yn eu ffurfiad, fel y gall yr un ewyllys droi un yn awr i fynu, ac yna y llall, ac felly gall y llaw gael ei throi yn agos yn hollol oddiamgylch. Ym mhen yr elin y mae cymmal ar ffurfiad *hingin*, a ellw y Saeson *hinge joint*; mae yn hynod gywraint, er uno grym ac ystwythdra i'r fraich. Ym mhen yr ysgwydd y mae cymmal arall o wneuthuriad gwahanol hollol: pellon o asgwrn yn troi mewn pwll yn yr asgwrn arall, fel y gall dyn godi ei fraich i'r lan, a'i throi oddiamgylch y modd y mynno. Yma ynte mae doethineb anfeidrol i'w weled—yma mae trefniadau cariad hefyd. Beth a gymmeri ddarllenydd am dy fraich oddiwrth dy gorph? Gwn nad yw ar werth—mae yn rhy anwyl—yn rhy brisfawr—rhodd cariad y Creawdwr ydyw y *charter* o'r nef i brofi fod Duw yn cara ei pherchennog. Dyweded pregethwyr y dialedd anfeidrol beth a ddywedont, ie cablent ddyn Duw faint a gablont, mae pob cymmal yng nghorph pob dyn—pob diferyn o waed sydd yn rhedeg drwy ei wythiennau, ie pob rhan o hono yn gynifer o brofion fod Duw wrth greu, wedi bwriadu gwneuthur dyn yn ddedwydd.

Pe na buasai amcan cariad gan Dduw pan y creodd ddyn, oni fuasai pob peth wedi eu ffurfio yn hollol groes i'r modd y maent yn bresenol? Pe buasai Duw wedi bwriadu cael gogoniant yn namnedigaeth rhyw ddyn mae yn eglur y buasai pob cymmal allan o'i le—pob gewyn yn llawn gwynniau a phoen didor—ei archwaeth yn boenus—ei deimlad yn ddolur—pob peroriaeth hyfryd yn fyrdd o bicellau i rwygo ei glustiau—ac ar bob eiliad amrant, pob gwrthrych a ganfyddai ei lygaid yn arteithiau poen annioddefadwy iddo. Paham nad fel hyn y mae? Am mai "Daionus yw yr Arglwydd i bawb, a'i drugaredd ar ei *holl* weithredoedd." Oni bae athrawiaethau *gau* byddai cofio *hyn* yn ddigon i beri i bob dyn "garu yr Arglwydd ei Dduw â'i holl galon" ac i ymbyfrydu yn y Duw a'i gwnaeth.

Mae yn eglur i'r eithaf oddiwrth y gip olwg uchod ar ffurfiad dyn ei fod yn wrthrych cariad ei Dduw.

Ar gyfer dyn y mae Duw wedi darparu ymborth; ac wrth fwyta hwn y mae yn cael mwyniant mawr drwy yr archwaeth hyfryd sydd arno. Paham y mae ei fwyd a'i ddiod yn rhoddi mwyniant wrth eu cymmeryd? Gallasent wneuthur yr un porthiant i'r corph pe buasai archwaith gas i'r eithaf arnynt—fel yr *aloes* yn chwerw—neu fel y *vinigar* yn *sur*. Caredigrwydd Duw tu ag at ei greaduriaid raid yw yr unig achos: oherwydd gallasai beri i ddyn fwyta peth atgas ganddo, drwy wneuthur poenau newyn yn fwy annioddefadwy nag atgasrwydd yr ymborth. Gan nad yw y mwyniant sydd wrth fwyta yn gwneuthur un cynnorthwy i'r ymborth i gynnal dyn; mae y dedwyddwch hyn oll yn rhwym o brofi i bob dyn, mai o gariad at ddyn y cafodd ei roddi yn gyssylltiedig ag ymborth.

Er mwyn cynnaliaeth ei greaduriaid y mae Duw wedi trefnu y cynnar a'r diweddar wlaw—dydd a nos—haf a gauaf—oerni a gwres.—Fel y caffo lludded orphwys y mae y ddaear yn barhaus yn chwildroi megys ar begynau tua'r dwyrain, ac yn ddiorphwys yn dangos ei gwahanol rannau i'r haul i'w goleuo. Yn y bore y mae dyn yn fywiog yn gafaelu yn ei orchwyl, wedi bwrw ymaith ei flinder; ac fel y mae y dydd yn cynnyddu arno y mae y nos yn syrthio ar warthaf y rhai ydynt yr wyneb arall i'r bellen ddaearol, a'n traed tuag at ei draed ef. Am hanner dydd yn Nghymru y mae hi yn hanner nos ar drigolion *New Zealand* yn y Mor Tawel: a chyda chodiad haul yno y mae machludiad yma: felly tra byddo un dyn yn ei drwm gwsgc y mae y llall yn cael goleu i gwrteithio y ddaear a'i darostwng hi. Nid cymmwys anghofio fod rhediad arall gan y ddaear oddiamgylch i'r haul* un waith bob blwyddyn; ac felly pan byddo haf yn rhannau gogleddol y ddaear, y mae gauaf yn y deheu. Pan y byddo trigolion Europ, Asia, a Gogledd America yn hau mae trigolion Dehcubarth Affrica ac America yn medi. Felly y mae Duw a'i drugaredd yn estynedig at holl drigolion y ddaear. Mor fawr y mae ei ddoethineb yn rhagori ar ddymuniad hunanol y bardd a ddywedodd yn ei ddallineb,

> "Mynnwn pe Duw ddymunai
> "Y deuddeg mis fel mis Mai."

Ac felly fod am byth heb amser hau na medi.

Pe buasai y ddaear yn llonydd, a'r haul yn ddyddiol yn rhedeg oddiamgylch iddi gyda y cyflymdra annirnadwy o 600,000,000 (o fewn i ddim) o filldiroedd y dydd, ni fuasai ond un tymmor am byth, ac felly ni welasid haf fyth ym Mrydain, ac ni byddai cynnyrch y ddaear yn gyffelyb i'r hyn yw yn awr, na'i thrigolion chwaith. Beth ond ewyllys da Duw sydd wedi trefnu yn y modd goreu? Fel hyn y mae gweithredoedd Duw yn dangos ei ddaioni i bob dyn heb dderbyn wyneb.

* Syndod yw meddwl, y mae y dyn sydd yn cysgcu wyth awr bob dydd yn teithio yn y cyfamser tua phump cant a phump a deugain o filoedd o filldiroedd o ffordd i gael newidiad y tymmorau yn eu pryd; a thros fil arall gael newid dydd a nos! Mae llawer mor anwybodus a meddwl eu bod yn codi yr nn fan y bore ag yr oeddynt wrth fyned i gysgcu.

Mae Duw wedi darparu yn hynod ddaionus ar ran pob dyn ar ei ddyfodiad cyntaf i'r byd: yn faban heb allu symmyd llaw na throed o'r man y bo, y mae ag un llef yn gallu cyffroi tosturi y galon galettaf, ond llawer mwy ofal a thynerwch ei rieni Mae serch y rhai hyny tuag atto yn peri na roddant hun i'w hamrantau nes byddo eu haban gwan mewn esmwythder. Rhag i'w llaeth i fod yn niwcidiol i'w phlentyn y mae y fam yn ymattal oddiwrth lawer ymborth ag y mae ei chalon yn ei chwennych; ac ar lawer nos oer a rhewllyd treulio ei hamser heb feddwl am gwsgc, gan ymdrechu a'i holl allu i iachau ei phlentyn. Paham y mae ganddi y fath serch tu ag at un, ag na wnaeth un gymmwynas erioed a hi, ie o achos yr hwn ni welodd ond gofid a gofal? Pam? ond am fod yn rhaid i'r gwan wrtho —Gofal Duw am ei greadur yw yr achos yn *charter* y nef fod plentyn ei fam yn anwylddyn ei Dduw. B'le mae'r dyn, nad yw wedi bod yn ei fabandod a'i ymddybyniad yn hollol ar craill?—Ammhossibl ei gael — mor ammhossibl a hynny yw cael dyn nad yw yn wrthrych gofal a chariad dibaid ei Dad o'r nef.

Nid yw y fam yn ei thro heb ei llawn dal am ei holl ofal. Beth ond taledigaeth y gwobrwy ar ei ganfed o law ei Thad o'r nef yw y llawenydd sydd yn ei mynwes wrth edrych yn wyneb ei phlentyn? Mae yn barod i feddwl mai efe yw y callaf, a'r rhagorat, a dilys y glanaf ei bryd a'i wedd a aned yn ei oes. Pan na byddo'r plentyn yn ddigon hen i ddeall gair o'i holl storiau mawrion, mae hi yn cael mwy o hyfrydwch wrth frawlan y ffolineb mwyaf wrtho nag yng nghyfeillach neb o'i cheraint, neu ei pherthynasau. Llawer gwaith y bloeddia allan, nes byddo y cymmydogion ar ben y ffyrdd mawrion yn clywed ei fod yn fwy o werth nag aur Peru, a holl drysorau yr India, ie, na'r holl fyd. Onid iaith y galon sydd wedi ei llanw o daledigaeth y gwobrwy yw pob ofer siarad o'r fath hyn? Ie y galon sydd yn chwyddo megys Etna gan dan cariad, nes yw y lafa gwynias yn gorlifo yr holl dy. Cariad y nef yn dylenwi y galon yw; ac i glust yr ystyriol y mae yn fwy peraidd *music* na holl delynau y byd ym mhalasau brenhinoedd. Ie telyn y nef ydyw yn chwareu clod a gogoniant i'r hwn sydd wedi creu y cyfan yn y modd goreu er lles pob dyn byw. Ai rhyfedd ynte fod y Salmydd yn dywedyd, "*Dy holl weithredoedd a'th glodforant di, O Arglwydd, a'th saint a'th fendithiant.*"

Gan fod pob Cristion o leiaf yn cyfaddef a'r genau mai Bod daionus yw Duw, mi gaf yn nesaf ymdrechu dangos pa fodd y mae drwg yn cymmeryd lle o dan lywodraeth Bod o anfeidrol gariad.—(*I'w barhau.*)

YMDDIDDAN RHWNG

LLYFR HYMNAU JOSEPH HARRIS

A

CRISTION.

—

CRISTION.

Wel Gyfaill, dyma ni eto wedi cyfarfod â'n gilydd unwaith yn nhagor, gobeithio yr wyf y bydd yr ymddiddan y tro hwn yn fwy adeiladol na'r troion o'r blaen. Fy nymuniad yw, i ni'n dau i gadw yn agos at yr ysgrythyrau santaidd, canys y rhai'n a'n barna yn y dydd a ddaw. 'Nawr mi wrandawa beth sydd genych i ddywedyd y tro hwn.

LLYFR HYMNAU.

I Grewr santaidd yr holl fyd,
Rhoed dynolryw y mawl i gyd;
Pob perchen llais dyrchafed lef,
Mewn cân lesmeiriol iddo ef. H. 1.

CRISTION.

Mae'n hyfrydwch genyf eich clywed. Mae eich llais y tro hyn yn debyg i lais y Brenin Dafydd. Mae ei ganiadau ef i gyd yn dyrchafu Creawdwr Nefoedd a daear; gobeithio 'rwyf y parhewch i'w ganlyn.

LLYFR HYMNAU.

Am air ein Duw rho'wn a'n holl fryd,
Soniarus fawl trwy gonglau'r byd. H. 62.

CRISTION.

Purion, yr wyf yn cydweled a ch'i yn eitha da. Mae Duw wedi dyrchafu ei air goruwch pob peth; a chofiwch, mai geiriau Duw yw geiriau Crist hefyd; a chyda'r priodoldeb mwyaf y gallwn ddywedyd ein bod yn clywed Duw yn llefaru, pan yr ydym yn clywed Crist yn llefaru; ie, a phan yr ydym yn gweled Crist yn gwneuthur gwyrthiau, yr ydym yn gweled Duw yn gweithio; oherwydd "o hono ei hun nis gallasai wneuthur dim;" Duw oedd yn llefaru trwyddo, a Duw oedd yn gweithio trwyddo hefyd. Ni wyr yr ysgrythyrau ddim am ymadroddion fel sydd gan yr Orthodox; megis, "fel yr oedd yn ddyn yr oedd yn gwneuthur y peth hyny, ac fel yr oedd yn Dduw yr oedd yn gwneuthur y peth arall;" parchwn eiriau Crist, a rho'wn ufudd-dod o'r galon iddynt; canys geiriau eenadwr y Nef ydynt.

LLYFR HYMNAU.

Nid oes o fewn i mi i gyd
Ond llygredd mawr ei rym:
Rhaid i mi gael dy haeddiant drud
Neu ynte fod heb ddim. H. 121.

CRISTION.

Braidd yr wyf yn credu eich bod ch'i eich hunan yn credu hyn. Pe bawn i neu ryw un arall yn dywedyd wrthych eich bod y fath ddyn, yr wyf yn meddwl y buasech yn sicr o dramgwyddo. A dyma ch'i etto yngafael a'r athrawiaeth boblogaidd ac anysgrythyrol

hono, haeddiant Crist. Nid oes genyf ddim i ddyweyd wrthych am hon, ond yr un peth a ddywedais o'r blaen; na wyddai ysgrifenwyr y Bibl ddim am dani.

LLYFR HYMNAU.

Y dyledswyddau goreu'u rhyw,
Twyllodrus y'nt a gwan; Ad. 2.

CRISTION.

Mae hyn yn groes i bob moesoldeb, ac o ganlyniad yn groes i'r Bibl. Gofynaf, beth sydd yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng y duwiol a'r annuwiol? Onid eu gweithredoedd da hwynt? A ddarfu i ch'i erioed ddal sylw y modd y mae Crist yn diweddu ei bregeth ar y mynydd? Onid yw efe yn cydmaru y dyn hwnw ag sydd yn cadw yr holl ddyledswyddau a enwir ynghorph ei bregeth i ddyn a adeiladodd ei dy ar y graig? Ac onid yw y gydmariaeth yn dangos mor gadarn yw gweithredoedd da i ddyn i ymorphwys arnynt. Cofiwch nad yw haeddiant Crist, na Iawn i gyfiawnder, a'r Drindod yn cael eu henwi yn y bregeth hono. Hefyd y mae Crist yn dywedyd, "Pwy bynnag a gadwo fy ngeiriau ni wel farwolaeth yn dragywydd." Nid yw geiriau Crist yn dysgu Trindod o bersonau yn Nuw, Iawn i gyfiawnder, yr Haeddiant a'r cyffelyb. Na, nid ydynt i'w cael yn ei eiriau goleu ef. Y maent fel cymylau tywyll yn gorchuddio pelydrau Efengyl Crist, ac yn eu hattal i wresogi'r byd â chariad ac ewyllys da; ond fe welir amser, a brysio wneled, pryd y bydd y llygredigaethau hyn wedi darfod o'n heglwysi, a'n Duw a'i Grist ef yn ben yn mhob man. Ond y mae yn amlwg i bawb, mai wrth gadw geiriau Crist mae i ni ddeall, cred gadarn yn ei athrawiaeth, a rhoddi ufydd-dod o'r galon i'w gorchymynion. Gallaf ddangos etto nad yw yr Apostol Paul yn cydweled a ch'i. "Eithr yn gwneuthur daioni, na ddiogwn; canys yn ei iawn bryd y medwn oni ddiffygiwn." Mae yn amlwg wrth ddarllen y Bibl mai gweithredoedd dyn ei hun a dry y glorian yn y farn olaf. "Y rhai a wnaethant dda i adgyfodiad bywyd, a'r rhai a wnaethant ddrwg i adgyfodiad barn," medd y barnwr ei hun. Yr wyf yn credu i fod tuedd ddrwg yn eich athrawiaeth, y mae yn sicr o fod yn cefnogi penrhydd-did, ac yn taro yn erbyn un o brif athrawiaethau Crefydd Crist, sef, yr hyn a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe.

LLYFR HYMNAU.

Ein Duw ymddangosodd mewn cnawd;
A wisgodd holl natur y dyn. H. 183.

CRISTION.

Geiriau hollol ddyeithr i'r Bibl. Ai credu'r ydych i'r unig Dduw, sef y Tad, i wisgo cnawd? Os hyn yw eich meddwl, yr ydych wedi syrthio i gyfeiliornad mawr yn ol barn eich brodyr, sef Sabeliaeth. Nid yw'r Beddyddwyr yn credu i Dduw'r Tad i ymgnawdoli; ond credant mai Duw'r Mab a ymgnawdolodd, ac mai dyben ei ymgnawdoliaeth oedd boddloni cyfiawnder Duw'r Tad. Ch'i gofiwch hyn ond odid. Ond goddefwch i mi siarad ychydig wrthych am hyn cyn myned ymhellach. A ydych ch'i yn credu ei fod yn beth dichonadwy i Greawdwr Nefoedd a daear, yr hwn sydd yn llanw'r holl greadigaeth â'i hanfod anfeidrol; gofynaf, a oedd yn ddichonadwy i'r fath Fod i gael ei eni o wraig? Mae yn rhaid i ch'i gredu hyn cyn y gallwch fod yn gyson â'r gredo; er ei fod yn anmhosiblwydd hollol. A ddarfu i ch'i erioed feddwl am y canlyniadau ag sydd yn deilliaw yn naturiol oddiwrth y fath farn afresymol? Onid yw yn rhaid i ch'i gredu i fod y Bod anfeidrol wedi dyfod yn Fod meidrol? Ac wedi dyfod yn agored i driniaethau Bodau o'i fath? Megis symud o fan i fan; bwyta ac yfed; yn gystuddiol, ac yn agored i angau hefyd. Fe ddygwyddodd y pethau hyn i gyd i Iesu, a chan mai efe oedd y Duw a ymddangosodd mewn cnawd, meddwch ch'i, a fod y gair Iesu Grist yn cynnwys ei Dduwdod yn gystal a'i ddyndod, y mae yn canlyn fod holl wendidau y natur ddynol wedi cyfarfod a'r natur ddwyfol hefyd. Yn awr gyda'r un priodoldeb y gellir dywedyd i'r Bod anfeidrol gael ei eni o wraig; ac i'r Ysbryd anfarwol i ddioddef a marw ar bren! O bob dyfais a ddyfeisiodd dyn erioed, hon yw'r un fwyaf gableddus am y Duw byw; nis gallaswn ddysgwyl mwy o anwybodaeth a rhyfyg oddiwrth bagan na chlywodd erioed Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist.

LLYFR HYMNAU.

O'r iechydwriaeth fawr yn Nghrist!
Swn melus tryfryd yw i'm clust.

CRISTION.

Mae hyn o'r goreu yn siwr; efallai mai yn hytrach yn rhy ffigwraidd yr ydych i ddeall y rhai cyffredin.

LLYFR HYMNAU.

Cyfiawnder pur, cyfiawnder Adda'r ail,
Mae hwn heb gel, yn ddysglaer fel yr haul;
O Fethle'm wael i fynydd Calfari,
Fe'i gwnawd yn llawn mae'n addas iawn i ni.
H. 123.

CRISTION.

Daethoch o'r diwedd at athrawiaeth anysgrythyrol arall a elwir cyfiawnder cyfrifol Crist. Mae'n wir fod llawer o ddynion duwiol yn credu hon yn gadarn, ac yn ymorphwys am fywyd tragwyddol arni; ond nid yw hyny yn un prawf ei bod yn wir. Mae yn rhaid i ni ei phwyso mewn rhyw glorian arall i gael gweled a ydyw hi felly. Nid yw ysgrifenwyr yr ysgrythyrau santaidd yn son cymmaint ag un gair am dani. Y mae Crist, cenadwr penaf y Nef, yr hwn yr eneiniodd Duw a'i ysbryd heb fesur, i fod yn sylfaenydd

y Grefydd Gristionogol; yn ddistaw yn ei chylch. Mae ei Apostolion hefyd yr un mor distaw. Dywedir bob amser gan yr Orthodox, mai cyfiawnder cyfrifol Crist am yr enaid yn unig, a rydd fynedfa i bechadur i deyrnas Nefoedd. Mae Gill, Calvin, Fuller, a holl ddoctoriaid Orthodox o'r un farn; ac y mae yn un o erthyclau llythyr y gymanfa. Gan fy mod yn credu i fod gyda'ch fwy o barch i Grist na'r doctoriaid hyn a'r gymanfa hefyd, efallai nad anfuddiol fyddai gwrandaw arno Ef yn dyweyd gair ar y pwngc dan sylw. Wel Iesu llefara, "Nid pob un sydd yn dywedyd wrthyf Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas Nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y Nefoedd." Iesu, Iesu, a ydwyt ti yn dysgu y gall dynion fyned i'r Nefoedd heb dy gyfiawnder cyfrifol am danynt? Pa fodd yr aethost gymaint o heretic? Yr ydwyt ti yn dyweyd i fod gwneuthur ewyllys dy Dad yr hwn sydd yn y Nefoedd yn ddigon o grefydd i fyned a dynion i'r Nefoedd. Nid wyt yn gosod un pwys ar yr athrawiaethau hanffodol fel eu gelwir hwynt. Na, nid wyt ti yn eu henwi hwy. Yn awr, os yw yr athrawiaeth o gyfiawnder cyfrifol Crist yn un ysgrythyrol fe fuasai Crist yn sicr o fod wedi ei henwi yn y lle hwn; ond ch'i welwch mai gosod pwys mae fe ar weithredoedd da dynion; er cymmaint y dywedir yn eu herbyn, rhai'n y mae Crist yn ei ganmol. Y mae yr ysgrythyrau yn dysgu yn mhob man mai gweithredoedd efengylaidd dyn ei hun a'i cymmeradwyiff ger bron Duw.

LLYFR HYMNAU.

Fy enaid rhyfedd gwisgwyd di,
Gan y Goruchel Santaidd dri;
Rhagora'th wisg anfeidrol ddrud,
Ar wisgoedd tywysogion byd. H. 122.

CRISTION.

Dyma ch'i eto wrth yr un peth, ni wyr y Bibl ddim am y fath athrawiaeth. Fe fyddai yn dda iawn gényf eich clywed yn siarad yn fwy ysgrythyrol.

LLYFR HYMNAU.

Cyfammod newydd a ni wnaed
A hwn a seliwyd in' a gwaed,
Sef priod waed Messiah'n Duw;
Cymmerodd arno natur dyn,
I godi'r gwael at Dduw ei hun,
Rhyfeddwn fyth ei gariad gwiw! H. 92.

CRISTION.

Mae'n debygol mai'r grefydd Gristionogol yr ydych yn feddwl wrth y "Cyfammod newydd." Mae'n wir i grefydd Crist i gael ei selio â'i waed, ac wrth hyny yn cael ei gosod mewn grym. Mae'r ysgrythyr yn dyweyd "i fod yn rhaid i Grist farw." Ch'i wyddoch fod Crist wedi rhagddywedyd y buasai iddo ddioddef llawer, a marw, ac adgyfodi. Cyn y gallasai efe fod yn unol a'i ddysgeidiaeth, yr oedd yn rhaid iddo farw, ac adgyfodi; neu ynte fod yn Athraw celwyddog. Ac yn wir, pwy rwymau fuasai ar neb i'w dderbyn fel athraw danfonedig oddiwrth Dduw; os na chyflawnodd efe yn weithredol yr hyn a ddysgodd yn ei Efengyl. Y mae'n ffaith i fod Crist wedi cyflawni pob peth a ddysgodd yn ei Efengyl. Yr oedd dybenion eraill gan Grist wrth farw; ond ni ddywedir fod boddloni cyfiawnder yn un o honynt. Hefyd, yr ydych yn galw y Messiah'n Dduw; ond yn mha ystyr yr ydych yn ei ystyried ef felly? A ydych yn ei ystyried ef fel yr oedd Moses a Solomon yn dduwiau? Os ydych, yr ydych yn sefyll ar dir ysgrythyrol. Ond ch'i ddywedwch ei fod yn Dduw gogyfuwch a'r Tad yn mhob peth, yn feddiannol ar yr un priodoliaethau ag ef, ac yn fod gwahanol oddiwrtho hefyd. Yr wyf yn credu y gwelwch yn awr i fod un Duw, ac un Duw, yn gwneuthur *Dau* o Dduwiau heb un dirgelwch yn ei gylch.

LLYFR HYMNAU.

Rho'wn beraidd fawl i'n Harglwydd mawr,
Am y cyfammod rhad;
A luniwyd yn yr arfaeth bell,
I achub dyn trwy wa'd. H. 94.

CRISTION.

Beth yr ydych yn ei feddwl wrth achub dyn trwy wa'd? Ai meddwl yr ydych i waed Crist foddloni cyfiawnder dialeddol Duw? Ac i fod dynion yn cael eu hachub er ei fwyn? Os hyn yw eich meddwl, un eitha paganaidd yw. Nid yw yr ysgrythyrau yn dysgu mewn un man fod dynion yn cael eu hachub er mwyn gwaed Crist. Yr ydych wedi cael gafael yn yr athrawiaeth hon etto, heb yn y Bibl. Y peth y mae'r Bibl yn ddysgu am waed Crist yw, ei fod yn glanhau dynion oddiwrth eu pechodau. Ond y mae yn eglur nad ydym i gymeryd y geiriau ag sydd yn dywedyd fod gwaed Crist yn ein glanhau ni oddiwrth bechod yn llythyrenol. Meddyliwn fod dyn yn sefyll wrth groes Crist, mor agos iddi fel y gallasai peth o'i waed ei gyffwrdd ef, fe wyr pawb na fuasai y dyn ddim glanach o hyny. Iaith ffigwraidd ydyw sydd yn gyfystyr i eiriau Crist, neu Efengyl Crist. Gellir profi hyn oddiwrth y 6ed bennod o Ioan, lle y mae Iesu yn dyweyd wrth ei ddisgyblion, oni fuasai iddynt fwyta ei gnawd ef, ac yfed ei waed ef, nis gallasent fod yn ganlynwyr iddo ef. "Caled yw'r ymadrodd a phwy a ddichon wrandaw arno," meddynt hwythau, yr oeddynt yn methu ei ddeall ef, ond efe a eglurodd y ffigur iddynt, gan ddywedyd, "Y cnawd nid yw yn lleshau dim, y geiriau yr ydwyf yn eu llefaru wrthych, ysbryd ydynt, a bywyd ydynt," fel pe buasai yn dywedyd, Pe baech yn bwyta fy nghorff, ac yfed fy ngwaed, ni fyddech ddim gwell er hyny, oddieithr i ch'i gadw fy ngeiriau, y mae yn anmhosibl i ch' fod yn ddisgyblion i mi. Farwel gyfaill am y tro hyn etto.

Y DIWEDDAR EVAN LLWYD.

—

Mr. Golygydd.—At y byr hanes a roddwyd yn Ymofynydd Hydref (tud. 48.) o fywyd a marwolaeth fy nhad—y diweddar Evan Llwyd, dymynaf arnoch (os gwelwch hyny yn gymmwys) i roddi lle yn y nesaf i'r ychydig ychwanegiad canlynol.—

Mewn ysgrifen a adawodd fy nhad ar ei ol i mi, yr hon oedd ef wedi ysgrifenu lawer o flynyddau cyn ei farw, y mae yn adrodd rhai amgylchiadau a threialon, pa rai, fel y gallwn gasglu, a roisant argraff ddwfn ar ei feddwl ef. Ar ol adrodd trefn ei daith a'i bregethau wrth ymweled a'r Eglwysi yn y flwyddyn 1800—ei ordeiniad yn Weinidog yn Ffynon-Henry yn 1801—a pha fodd y darfu iddo yn fuan wedi hyny "gael ei afionyddu yn ei feddwl gan y ddadl ag oedd yn y wlad yn nghylch athrawiaeth"—"rhoi i fynu erlid fel o'r blaen yn y Weinidogaeth gyhoedd"—"a dyfod i hiraethu am weled y rhwygiad diweddar wedi ei wneyd i fynu," y mae yn nodi un amgylchiad neilduol ag sydd yn ol fy meddwl i yn deilwng o sylw. "Peth arall," dywed ef, "yr oedd fy sefyllfa yn isel iawn yn y byd, trwy fod i mi wraig a phlant i ofalu am danynt. Yn yr amgylchiad hwn derbyniais lythyr oddiwrth y ffyndwyr o Lundain, yr hwn oedd yn cynnwys eu meddyliau hwy ar dri Pherson yn y Drindod, &c. Yr oedd yn rhaid i mi roddi fy'llaw wrth y gyffes honno; os amgen, ni chawswn ddim cynhorthwy. Eithr hyn mi a wrthodais. *Yr oeddwn yn dewis yn well i fyw mewn adfyd na chredu dan dalu.*" Ac wedi'n y mae yn adrodd pa fodd y darfu i hyn beru i rai o'i frodyr i edrych arno fel *heretic*, ac y dywedai eraill nad oedd ef yn iach yn y ffydd; ac o'r diweddd iddo ymadel mor dawel ag y medrai a'r corph Calfinaidd: ac iddo ymuno a'r Bedyddwyr Cyffredinol yn y Tycoch yn nhref Aberteifi, a Soar yn Sir Benfro, ac iddo gymmeryd gofal yr Eglwysi hyny arno. "Yno," medd ei ysgrifen, "yr oeddwn mewn amser caled iawn, sef y blynyddau drydion, pan oedd y tlodion mewn mawr wasgfa a chaledi. Ond o ddaionus raglunaeth Duw, ni fu arnaf eisiau dim, nac achos i mi bwyso ar un plwyf, er fod gennyf wraig a chwech o blant ac oll yn nhref oddieithr yr henaf. Cyfaill anwyl i mi fu Mr. (y Doctor) W. Richards, o Lynn. Bu ef yn garedig i mi mewn llawer ffordd, pan oedd ef ar droion yn aros yn y wlad, yr hyn oedd dros ysbaid blwyddyn ar y tro. Nid allaf hyd fy mêdd anghofio y lles a dderbyniais bob ffordd oddiwrth y gwr da uchod." Ar ol hyn, symmudodd i Forganwg i lafurio yn y Wig a'r Notais, yn Ionawr 1808. Wedi adrodd y "blinder a gafodd" trwy hir gystudd ei wraig anwyl—fy mam, yr hon o'r diwedd a gas ei rhyddhau trwy angau, yr 20fed o Ionawr, 1813, terfyna fel hyn, "Hi a'm gadawodd i a thri o blant yn amddifaid, ac mewn gwlad bell oddiwrth fy mherthynasau a'm hen gyfeillion, a gwlad fy ngenedigaeth: eithr Duw a fu yn dirion o honof yn mhob amgylchiad fel na fu arnaf eisiau dim."

Yn awr, Syr, y mae yn ymddangos i mi fod yr adroddiad byr uchod yn teilyngu ein sylw, ac yn neilduol y treial a aeth fy nhad drwyddo yn ei angen. Y mae yn rhybydd i'r sawl sydd yn gosod magl [heb ystyried y drwg raid i ni obeithio] er mwyn dal eneidiau dynion mewn caethiwed credöau, trwy gynnyg arian ar y tilerau o dderbyn credo. Y mae yn hyfryd gennyf fi ei goffa, fel peth ag oedd yn anrhydeddus i'm tad, am ei ymddygiad cydwybodol yn yr amgylchiad profedigaethus. Pa sawl un sydd wedi syrthio yn ysglyfaeth i'r fath brofedigaethau, Duw yn unig a wyr. Yr oedd ef yn diolch i Dduw am iddo gael nerth i gadw ei droed allan o'r rhwyd hon. Ond y peth ag wyf fi yn dymyno yn benaf i alw sylw darllenwyr yr Ymofynydd atto yw hyn yma; sef, fod yr amgylchiad yn nghyd a threigl fy nhad, a'i deimladau yn ol llaw, yn eglurhad o'r gwirionedd, *na fu erioed, ac na fydd byth, un achos i neb edifarhau am gadw cydwybod dda.*

Gan ddymuno llwydd i chwi, Syr, ac i'r Ymofynydd.

Ydwyf yr eiddoch yn garedig,

Titus Lloyd.

Notais, Morganwg, Tach. 17, 1847.

CREDOAU.

—

Ef y tanysgrifiem i'r holl ysgrythyr, neu i unrhyw gyffes a gyfansoddid yn ngeiriau a sylwedd yr ysgrythyr, etto ni wasanaetha hyn i undeb a chymundeb. Dywedir wrthym y tanysgrifia hereticiaid i'r ysgrythyrau; dywedaf finnau wrthynt hwythau y gwna hereticiaid danysgrifio i'w cyffesion hwy, a dirgymell eu hystyriaethau eu hunain arnynt; ac na adawodd Duw erioed monynt hwy i ffurfio gwell cyffesiadau, ac yn alluocach i ganfod heresiau na'r hyn a wasanaetha'r ysgrythyrau. Y Pabyddion a osodasant i fynu gyfrolau cyfain o gynghorau a phenderfyniadau, i fod yn rheol bid siwr; am fod yr ysgrythyr yn dywyll a bod yr holl hereticiaid yn dadleu o'r ysgrythyr. Beth a wnaethant drwy hyny ond achosi mwy o dywyllwch, a gyru y byd a'u doctoriaid eu hunain hefyd i ychwaneg o ymrafaelion. Fel hyn y mae dynion yn colli eu hunain, ac yn gwarthruddo'r ewyllys, am na wasanaetha gair Duw eu dyben fel rheol i uno arno. Hon yw'r unig reol a adawodd Efe, er hyny cyfrifir hi

gan ddynion yn annigonol, cymerant arnynt wella gwaith Duw drwy ddyfeisiau eu hynienyddiau gwag eu hunain, yna cwynant o herwydd ymraniadau wedi iddynt eu peri!

Y rheol â pha un y rhaid i bawb gytuno a raid ei gwneuthur gan un sydd uwchlaw pawb, a'r hwn y cydnabyddir ei awdurdod gan bawb. Byth ni una yr eglwys hyd oni chydnabyddir yn fwy cyffredinol ddigonolrwydd yr ysgrythyrau. Yr ydych yn cwyno oherwydd llawer o olygiadau ac o ffyrdd, a byddant yn sicr o barhau hyd nes byddo yr unig reol—yr ysgrythyr, yn brawf-reol ein crefydd. Dau beth a osodasant yr eglwys ar dân, ac a fuont yn bla iddi dros fil o flynyddoedd. 1af. Helaethu ein credo a gwneuthur mwy o hanfodolion nag a wnaeth Duw erioed. 2ail. Cyfansoddi, ac felly *arddodi*, ein credoau a'n cyffesion yn ein geiriau a'n hymadroddion ein hunain. Wrth ddilyn y pwngc, y dadleuydd eofn dros awdurdod a digonolrwydd yr ysgrythyrau, a gyfrifa y dechreuad a'r lliosogiad o credoau yn mhlith Cristionogion i ddichellion eu prif elyn ysbrydol, yr hwn yn ol yr amserau, a raid fod yn ysbryd y sêl yn yr eglwys, ac a ymdrecha gymaint yn erbyn hereticiaid nes ei pherswadio i eangu ei chredo, a chwanegu y pwngc yma yn erbyn un, a'r pwngc acw yn erbyn arall, a'r cyfan i berffeithio a diogelu y ffydd Gristionogol. Ac felly gwna y mater o fod yn Gristion yn beth mor anhawdd, fel y cwyna Erasmus, nas gall dynion cyffredin mo'i gyrhaedd. Dygodd hwynt drwy sêl grefyddol greulon tuag at eu heneidiau eu hunain ac eraill, i roddi eu holl iechydwriaeth, ynghyda heddwch yr eglwys, ar ryw ddirgelion anchwiliadwy ynghylch y Drindod, y rhai ni ddatguddiodd Duw erioed, neu ni ddatguddiodd ond yn aneglur, neu ni roddodd gymaint pwys arnynt; etto perswadia hwynt fod profion ysgrythyrol o'r rhai hyn; yn unig fod yr ysgrythyr yn eu llefaru yn y cynseiliau (premises) neu mewn geiriau tywyllâch, a'u bod hwy i gasglu y canlyniadau i'w credoau, a'u rhoddi mewn ymadroddion eglurach, y rhai ni byddai mor hawdd i hereticiaid eu llygru, eu gwyr-droi, neu eu gochelyd. Ond beth a gafodd efe drwy y ddichell hon? Efe a gafodd ddedfryd safadwy yn erbyn perffeithrwydd a digonoldeb yr ysgrythyr, o ganlyniad yn erbyn Crist, ei ysbryd, ei apostolion, a'r ffydd Grist'nogol: nad oes ynddi gymaint a chredo neu gyfundraeth o hanfodolion, neu byngciau anhepgorol i iechydwriaeth a chymundeb brawdol, mewn ymadroddion cymhwys a goddefol, ond a raid i ni wella'r iaith o'r hyn lleiaf. Agorodd adwy i ychwanegiadau dynol, fel y gallai wed'yn ddwyn mwy i mewn yn ol ei ewyllys. Ffurfiodd beiriant anffaeledig i beri ymraniadau, ac i rwygo'r eglwys yn ddarnau, gan droi allan fel hereticiaid bawb ni chydsynient â'i ychwanegiadau, a gorfodi ymneilduwyr i ymwahanu hyd ddiwedd y byd,—nes dymchwelyd peiriant y diafol. Drwy hyn y dyry sail oddiwrth ymraniadau Cristionogion i ddynion amheu yr oll o grefydd, heb wybod pa un sydd gywir. Pâr hefyd lawer o ingloesion, casineb, cynhenau, cabllau, a gelyniaeth. RICHARD BAXTER.

Llynlleifiad. Cyf. J. W.

POEN A LLAFUR Y'NGLYN A SWYDD YR YSGOLFEISTR.—Pa sawl Ysgolfeistr defnyddiol sydd yn ein gwlad yn cyflawni ei ddyledswyddau pwysig a llafurus heb gael am hynny na chyfoeth na chlod, a llawer pryd heb gymmaint a diolch! Yn gorfod glynu o ddydd i ddydd wrth yr un gwaith, weithiau oherwydd anwybodaeth yn cael anniolchgarwch ac anghyfiawnder yn lle tal, bydd lawer pryd yn brûdd, ac efallai yn barod i soddi dan bwys ei faich, oni chais nerth a diddanwch o ryw le heblaw yn y dysgwyliad am elw presennol. Rhaid ei gynnal a'i galonogi gan ddwys-ystyriaeth o werthfawrogrwydd ei lafur. Rhaid iddo ddysgu edrych ar y pleser hunanymwadol o'i fod wedi gwasanaethu ei oes a'i genhedlaeth, ac ychwanegu rhywfaint at y lles cyffredin, fe ltal a fyddai yn deilwng o'i holl ymdrechiadau—Yr hyn a delir gan ei gydwybod ei hun. Anrhydedd i'r Ysgolfeistr yw ei fod yn peidio ymgynnyg at ddim yn uwch na'i swydd galed ac isel, ac yn aberthu ei gyssuron ei hunan, er mwyn lles eraill; mewn gair, rhaid iddo lafurio tros ddynion, a dysgwyl am ei wobrwy oddiwrth Dduw. Ni a ddylem bob amser i fod yn fwy parod i gyfarch i'r tylawd, a'r rhai a fyddent mewn cyfyngder meddwl, caledi, neu anobaith, nag i'r rhai mwyaf cyfoethog o'n cydnabyddiaeth; oblegid y maent hwy yn fwy diymgeledd na'r cyfoethog, ac yn fwy agored i gael eu siomi oherwydd ymddygiad a fyddo rywbeth yn debyg i ddiystyrwch.

BALCHDER.—Y mae y rhan fwyaf yn gwybod y stori am yr Angel a'r Meudwy yn teithio y'nghyd: ar eu ffordd daethant lle yr oedd caren afiach a drewllyd; y meudwy a wasgodd ei drwyn, ac a drodd ymaith ei ben, gan wneuthur brys i fyned allan o'r awyr atgas; yr angel a aeth y 'mlaen ar ei ffordd heb ddangos un arwydd o anfoddlondeb: yn y man cyfarfuant â dyn balch ag oedd wedi ei wisgo yn wych, a chymmeryd gofal mawr i berarogli ei hun, yn edrych yn uchel ac yn rhodio yn fawreddig; trodd yr angel ymaith ei ben a gwasgodd ei ffroenau (tra elai y meudwy heibio gan roddi *bow* i wr ag oedd mor fawr). Rhoddodd yr angel y rheswm hyn am ei ymddygiad, sef, bod sawr balchder yn fwy ffiaidd ac atgas gan Dduw a'i angylion, nad allai caren fod i'w ffroenau ef.

Y SENEDD, &c.

Cyfarfyddodd y Senedd ar y 18fed o Dachwedd, pryd yr etholwyd cadeirydd, ac y gwnaed amrywiol o bethau eraill dibwys i'r cyfiredin, a bydd i araeth y Frenhines gael ei thraddodi ar y 23ain. Y mae y farchnad arianol a golwg o wellhad arni, a gobeithir yr aiff yn mlaen yn well well.

ATEBION.

Ateb i Ddychymyg Gwenhynen Aberdar, Rhif. 3, *yr Ymofynydd, tu dal.* 71.

Mae'r Gwenyn yn rhai diwyd,
'Does eisie ceisio cel,
Yn crwydro 'mhell drwy'r coedydd,
A'r moelydd am y mel;
O'r Broydd bras a'r Blodau,
Y clydant ef yn stor,
A'u beichiau rhai ddywedant
A olchant yn y Mor,
'Does son am un hyd yma
Fu'n chwilio'r nefoedd faith,
Gael sypyn o baradwys
Fa'e gymhwys at eu gwaith;
Ond 'nawr cawn fod Gwenhynen
Fawr fraithwen Aberdar
Yn syllu drwy'r holl nefoedd
Nes gwel'd y gwrthrych gwar;
Mae ganthi Ysgol ryfedd
Os ydyw'n dweyd y gwir,
Mae cyd ag ysgol Jacob,
'Roedd hono ddigon hir.
Rhyw wrthrych yw wna syndod
I bawb trwy fryn a bro,
Os na wna ei ddehongli
Gan un Lythyren, O.

Brechfa. DAVID EVANS.

Arall.

Mi welaf *o* mewn *nefoedd*,
Ac *o* mewn *poenau* gawn,
Ac yn y *mor* a'r *coedydd*
Mae *o* yn amlwg iawn;
Mae *o* mewn *bro a blodau*—
Y gwenyn cu a'u car,
Ac *o* i wel'd yn *Ysgol*
Gwenhynen Aberdar.

Brechfa. DAVID EVANS.

DYCHYMMYGION.

Mi welais dan ddwylo hen fenyw yn godro
Rhywbeth i'w *gario*, a thano oedd tra'd,
A rhai'n dros gynifer yn sefyll yn hawddgar,
A'i din ar y ddaear y galed.

'Doedd un bys yn un man, na choesau, na chefan,
Ond bola mawr llydan yn ufed y llaeth,
A'i wefus oedd dena' o round idd ei goppa,
A gwdwg a breichiau tra helaeth.

Mae'n canu rhai gweithia', wr tew, 'rhyd y teia,
Cyn lawned ei fola lle bwria 'fe'i bwys;
Mae'n siwr o nawsweiddiad y galon fo'n galad,
Yn fwy nag Offeiriad yr Eglwys.

GWILYM GLYNOGWR.

Mi welais i foneddiges
O fewn Treflalys lon,
Yn teithio rhyw ddiwyrnod—
Un hynod iawn oedd hon—
'D'oedd ganddi ddim adenydd,
Na thraed i gerdded chwaith;
Er hyn 'doedd un aderyn
Mor ddiflyn ar ei daith.
Hi fu mewn tywydd garw
Yn aros ddydd a nos;
Mae'n awr mewn lle amgenach,
Yn cael ei chadw'n glos;
Mae'n cario trysor gwerthfawr
A llesiol iawn i ni;
A hyn yw fy ngofyniad,
Beth yw ei henw hi?

Medi 13, 1847. IOLO LALYS.

BARDDONIAETH.

Aberdar, Tach. 8*fed*, 1847.

BARCHEDIG GYFAILL.—Gwn bydd yn dda gan y rhan fwyaf o dderbynwyr yr YMOFYNYDD gael yr Englynion canlynol o waith yr enwog David Davis, o Gastell Howell, i'w meddiant, a gobeithaf na ommeddwch le iddynt yn y nesaf. Pan cyfododd cenedl y Ffrangcod yn y flwyddyn 1789, yn erbyn gormes annioddefadwy eu brenhin, darfu i'r llywodraeth a'r cyfansoddiad newydd i lanw holl gyfeillion Breiniau dyn, a llawenydd, a syndod; a naturiol i bawb a adwaenent Weinidog enwog y Llwyn, Alltplacea, Ciliau, Mydroilin a Phenrhiw ddisgwyl gweled ei Awen ar

dân gan syndod am fawredd y waredigaeth
a ystyrid yn gyffredin oedd wedi dyfod i'r
byd; ond yn benaf i'r Ffrangcod.

CHWILDROAD FFRAINGC.

All un swyn roi ffrwyn i Ffraingc,—i'w dofi,
A defyn main ungaingc?
Ofer i filwyr ifaingc
Byth anturio ffrwyno Ffraingc.

Hen filwyr treision trawsion,—a llewod
Yn lluoedd echruslon:
Llu ffyrnig Brunswig, o'r bron,
Giliant fel haid o gylion.

Ofer yw i Hanoeriaid,—eu tân
Ni phrisian'; na Phrusiaid;
An' yn y blaen yn un blaid
Drwy restri tewa'r Austriaid.

Ar adlam hirgam, O rhoer gaingc,—o gwyn,
A gwanaidd alargaingc;
Gyda ffrwst y gadai Ffraingc
Y fawrgan, a'r ofergaingc.

Troes Ffraingc orseddfaingc gwr swyddfawr,
—ac aur
Ei goron i'r priddlawr;
Ble'r aeth parch y Monarch mawr?
Darfu mewn amharch dirfawr!

Bellach Ffraingc ar faingc a fydd,--yn hynod
Frenhines y gwledydd;
Hed myrddiynau'u rhwymau'n rhydd,
O dan ei mwyn adenydd.

Caiff caethion deillion o d'wllwch,—olwg
Ar haulwen diddanwch;
Daw dyddiau llawn dedwyddwch,
Ar waelion llwydion y llwch.

Ni nad un 'ffeiriad, na Pharo,—'r haulwen
Wiw lawen oleuo;
Llu'r Awstriaid ni all rwystro,
Braich nerthol y freiniol fro.

D'wedweh dedwyddwch doed iddi,—hedd-
wch
Di-dristwch da drosti:
Gelynion y goleuni
Yn gad hell a'i gado hi.

A llawer o ryw y dylluan,— ar gil,
O'r goleu mwyneiddlan;
Gwell gan ynfyd fyglyd fan,
O'r golwg dan ryw geulan.

Ni phaid y 'ffeiriaid offeru,—'neidiau,
A'u nadael iawn gredu,
Fel ffyddlon weision lesu,
A rhoi coel i'w eiriau cu.

Hoff gweled cryfed crefydd—y duwiol,
Sy'n dewis y wirffydd:
Ow! ddyled yr addolydd,
A âd i 'ffeiriad ei ffydd!

Nid Prelad 'ffeiriad na fferen,—ddylem
Ni ddilyn yn llawen;
Mab Duw, nid Pab yw y pen,
Cydpwys i fod ein cadpen.

Pob cribog c'ronog cryned;—pob trawsedd,
Pob treisiwr dychryned:
Boed drist anghrist, ac anghred,
A derchafer cryfder cred.

Moled gwyr synwyr y senedd,—roddai
Lawn ryddid heb ommedd,
I'w mwynhau gan bawb mewn hedd,
Heb wa'n rhwng gwreng na bonedd.

Duw glybu lef tref y trais,—gwelodd drem,
Amhurdrem, y mawr-drais;
A'r erlid barai'r oerlais,
Oered llef rhuad y llais.

E' chwalai ei dwrw'u huchelderau,—trodd,
A thorrodd, ei thyrrau,
A'i chryfion, fawrion fyriau,
Yn ddrefion, a briwsion brau.

Chwi Frython, rhyddion rhoddwch,—yr
eurglod
I'r Arglwydd, dangoswch
Orfoledd, na ryfelwch
A'r llaw, a gwyd fyrdd o'r llwch.

Er i arthod,
Ac eryrod,
Gyda Llewod.* } Godi'n lluoedd,

Byth ni lwyddant,
Pan ryfelant,
O dra nwyfiant, } A Duw'r nefoedd.

Gwn fod llawer un sydd â Thelyn Dewi yn ei feddiant yn barod i anfoddloni am na roddwyd yr Englynion uchod ynddi. Clywais gan y Colwynydd fod y "bardd wrth fodd calon yr Awdwr" Daniel Ddu yn eu hangymmeradwyo, ac mai i'w foddloni ef y gadwyd hwynt allan. Boed fel y bo; dyma hwynt yn awr o flaen y byd, ac os byw fyddaf, Mr. Golygydd, anfonaf i chwi etto ar fyr Englynion o waith yr un awdwr ar yr *achos* o ryfel, lle y mae yn rhoddi rhesymau da pam y bu y rhyfel diweddaf rhyngom a Ffraingc. Rhoddaf o'u blaen fath o gynnwysiad i gynnorthwyo yr anhyddysgc i'w deall yn well.

Yn y cyfamser gorphwysaf,
Yr eiddoch chwi, a darllenwyr yr
Ymofynydd, gyda pharch,

J. Jones.

Hen-dy-cwrdd, Heol-y-felin, Llwydgoed, neu Hen-dy-cwrdd, Hirwaun.

---

* Y Louisiaid o Ffraingc.

ARGRAFFWYD GAN J. T. JONES, CAERFYRDDIN.

YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

Y FLWYDDYN NEWYDD—1848.

Mae'n oriau'n fuan ar eu taith
I fyd y tragwyddoldeb maith;
O Dduw! pwy o'r genhedlaeth hon
A safant yno ger dy fron?

SALMAU YR EGLWYS YN YR ANIALWCH.

Y MAE ein daear wedi cyflawni un yn ychwaneg o'i chylch-droadau o amgylch yr haul! Y mae y flwyddyn 1847 wedi myned heibio ynghyd â'i da a'i drwg. Ni ellir ei galw yn ol. Ond fel afon fawr llwythog o drugareddau y Nef, ffrydiau yr hon y llynedd a lawenhaent ein byd—tòn ar ol tòn, ymlaen y rhedodd, heb aros dim, ac y mae y dòn ddiweddaf yn awr wedi cyrhaeddyd y môr; ond nid môr anghof. Tra yr ydoedd etto yn llifo trwy ein byd, plant dynion yn eu haneirif lwythau, ac yn eu hamrywiol amgylchiadau, a safent ar ei glàn. Yr ifainge a'r oedranus, y claf a'r iach, y dedwydd a'r anffortunus—pawb a dderbynient o'r hyn a gludid attynt yn roddion da o radlondeb y Nef; rhai yn ddiolchgar am a gaffent; rhai yn rwgnachlyd am na chawsent bethau eraill; ond pob un yn cael y peth a welai Doethineb perffaith ei fod yn oreu iddo.

Pe baem yn gwybod mwy am drefn Rhagluniaeth, y mae yn ddiau y canfyddem yn fwy eglur mai er dybenion daionus, ac er lles cyffredinol, y llifodd y gyfran honno o ffrwd amser ag sydd yn awr newydd myned i maes o'n cyrhaedd. Y mae yn wir hefyd, pe buasai dynion ddim ond yn ewyllysgar i dderbyn a iawn-ddefnyddio y trugareddau a gawsant, neu a gynnygwyd iddynt yng nghwrs y flwyddyn, y buasai yn well iddynt ar y pryd, a byddai eu cyflwr yn awr ac yn ol llaw yn llawer gwell a mwy dedwydd. Pwy all gyfrif nifer a gwerth y trugareddau a gyfrannwyd, a'r cyfleusderau a gynnygwyd, yng nghwrs rhediad y flwyddyn—er rhybydd, er addysg, ac er cyssur? Y mae llawer o honynt wedi myned i maes o'n còf, fel y maent yn awr o'n cyrhaedd. Tra yr oeddent yn cael eu cynnyg—a phan oedd y dòn redegog yn treiglo y trysor o fewn ein cyrhaedd—dyna'r pryd oedd i ni gymmeryd gafael.

Gwyn fyd y sawl a fuont mor ddoeth a'u cymmeryd yn eu hadeg, a'u hiawn ddefnyddio; gan drysori yn eu mhe'dhiant gyfran o'r gwir gyfoeth

ynghyd â'r newyddion da a ddygwyd iddynt ac a gynnygid i bawb. Ond ihai a'i gwrthodent, neu a esgeulusent y cyfleusdra. Ac ym mha le yn awr mae y cynnygion a wrthodwyd y dydd a'r dydd—y cyfleusderau a esgeuluswyd y mis a'r mis? Ym mha le y maent, gofyni? Ym mha le, debygi di, mae'r dydd—mae'r mis—y gwrthodwyd neu yr esgeuluswyd hwynt? Y mae y naill fel y llall wedi myned yn ddigon pell o'th gyrhaedd! Y maent yn awr i'w cyfrif ym mhlith "y pethau a aethant heibio." Ond y mae canlyniadau dy weithredoedd a'th ymddygiad yn aros yn ol. Estynant hwy eu heffeithiau dros ddyddiau lawer, ac o flwyddyn i flwyddyn hyd y flwyddyn a'r awr ddiweddaf—a dydd y Farn. Y neb a fyddo doeth iddo'i hun, a geidw yn arferol ar ei feddwl yr ystyriaeth o hyn oll.

Gellir dywedyd yn wir nad yw yr olwg yma ar y matter ddim ond un rannol ac amherffaith; nad yw'r flwyddyn ag sydd newydd myned heibio ddim yn awr i ni yn fwy na'r rhai a aethant heibio o'i blaen, ymhellach na bod y cof o'i digwyddiadau yn fwy bywiog ar y meddwl, a bod peth o'r gwaith a ddechreuwyd ynddi etto yn ein dwylaw; ac nad oes un torriad neu wahaniad yng nghwrs amser ag sy'n atteb i ddenddeg o'r gloch nos Galan; ond bod y flwyddyn fel *cylch*, ag y gellir dywedyd fod ei ddechreu newn un man yn gystal a man arall; ac mai nid peth o drefniad natur, ond yn gwbl o drefniad dynion, yw dechreu y flwyddyn ar y cyntaf o Ionawr.

Y mae hyn i gyd yn ddigon gwir. Yr oedd yr Hebreaid, ac, fel yr ymddengys, yr *hen* Rufeiniaid, ynghyd a chenhedloedd eraill, yn dechreu eu blwyddyn yn y gwanwyn, gydag ymddangosiad y blodau, a'r adfywiad sy'n cymmeryd lle drwy holl natur ar y tymmor hwnnw. Y Groegiaid, neu o leiaf yr Atheniaid, a ddechreuent eu blwyddyn gydag hir ddydd yr haf. *Act of Parliament*, yn 1750, a benderfynodd fod ein blwyddyn ddinasol ni, (*civil year*,) i ddechreu ar y cyntaf o Ionawr.

Nid oes neb yn meddwl fod y ddaear, yn ei chylch droad, yn aros dros gymmaint a tharawiad amrant ar y man lle'r y'm ni yn gosod diwedd un flwyddyn a dechreu yr un ganlynol. Ond hi a heibio i'r nôd fel yr eheda saeth, a chyda mwy na chyflymdra mellten, gan ddwyn ei holl drigolion gyda hi. Ac etto, er y cyflymdra aruthr yma, bydd y baban bychan yn gwbl ddigyffro, yn cael cysgu yn dawel yn ei gawell. Y fath yw trefn rhyfeddol ddoethineb Duw, a'i ofal tyner am danom trwy gydol bywyd! "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear; llawenyched yr ynysoedd—ie, a'r bydoedd oll." O na baem ddoethion i werthfawrogi "rhan ein etifeddiaeth," a chydag "ystyried ein diwedd," i ystyried hefyd gariad digyffelyb y Tad o'r Nef, a'i ddaioni dibaid tuag attom, o ddechreu ein bywyd hyd ei ddiwedd.

Ond cofiwn mai nid diwedd neu ddechreu blwyddyn yw yr unig amser priodol i goffa trugareddau Duw, ac i gymmeryd yn llaw y gorchwyl prysur o adolygu ein gweithredoedd a'n hymddygiad yn yr amser a aeth heibio. Dylem wneuthur hyn yn arferol. Ofer bydd galar ac edifeirwch am dalentau a gam-dreuliwyd a chyfleusderau a esgeuluswyd, y rhai sydd yn awr maes o'n cyrhaedd, oni bydd i hyny beri i ni werthfawrogi yn fwy y rhai sydd yn llaw genym, ac i ymdrechu ac ymegnio i'w hiawn ddefnyddio.

Wrth edrych yn ol, ac wrth geisio edrych yn y blaen, na fydded i ni esgeuluso y dydd presennol. Fel y mae *heddyw* yn dwyn argraff gweithredoedd y *ddoe*, felly bydd i'r hyn a wneir heddyw *roddi* ei argraff ar y *fory* ac ar yr amser canlynol; a phob addysg a gymmeri heddyw mewn

gwirionedd a duwioldeb—pob ymdrechiad cywir i wella dy hun neu i leshau eraill—pob gweithred dda a wneli tra pheri'r dydd—hynny a erys gyda thi wedi i'r dydd ddarfod : a bydd yn "drysor it' yn y nef, lle nid yw y pryf na rhwd yn llygru."

Ac am yr amser sydd i ddyfod ar y ddaear, dichon ei fod yn nhrefn Rhagluniaeth *nad yw'r amser hwnw ddim i ddyfod i ti*; am hyny y peth y mae dy Dduw a'th Dad yn ei orchymyn iti—y peth mae dy brofiad a'th gydwybod dy hun yn dangos ei fod yn dda ac yn ofynol i'w wneuthur—a'r peth ag wyt ti dy hun lawer gwaith wedi penderfynu ei wneuthur rywbryd ; nac oeda bellach yn ei gylch, ond gwna ef a'th holl frys, a'th holl egni, "Canys yn awr yw yr amser cymmeradwy, a heddyw yw dydd Iechydwriaeth."

Y darllenwyr a gyfleant y sylwadau uchod pob un at ei gyflwr, a'i deimlad a'i ddisgwyliadau ei hun. Gadawer i ninnau i gyfleu rhai o honynt at gyflwr a disgwyliadau ein Cyhoeddiad bychan—YR YMOFYNYDD ; er nad yw etto wedi cyrhaeddyd pen ei flwydd, ac nad yw ond pum mis oed. Ac yn flaenaf gadawer i ni ddymuno BLWYDDYN NEWYDD DDA I'N DARLLENWYR OLL.

Gobeithiwn ac hyderwn fod nifer fawr o'n darllenwar, wrth edrych yn ol ar gwrs Rhagluniaeth yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, yn barod gyda ni i ddiolch, ymhlith aml drugareddau eraill, am ymddangosiad yr YMOFYNYDD. Rhai ag ydym yn cofio gyda pharch am danynt, a fuont yn hir a thaer ddymuno gweled y fath Gyhoeddiad gan y Cymry, a phe yn awr ar y ddaear fyddent ymhlith ei gefnogwyr mwyaf gwresog. Gofynent yn aml, fel o wraidd eu teimlad, "Pa hyd, a phaham yr oedir?" Ond aethant i'w bedd cyn cael gweled eu dymuniad. Nyni a gawsom hyn o gyfnod i'n dydd ac i'n rhan. Pa un y try i maes yn fraint, yn elw, ac yn fendith i ni, a ymddibyna ar y defnyd i a wnelom o hono.

Dyellir, gobeithio, nad ydym yn dywedyd hyn yn wageddus, fel am e'n llafurwaith ein hun. Gwyddom fod hwnnw yn ddigon amherffaith, er ein bod yn gwneuthur y goreu a allwn ar y pryd. Ond llefaru yr y'm am yr YMOFYNYDD, fel y peth yr *amcenir* ei fod, a'r peth *y gall yn ddigon rhwydd fod*, os bydd i garwyr Rhydd-ymofyniad, ag a wyddom ni am danynt, ddim ond bod yn ffyddlon ac ymdrechgar drosto. Gall y rhai y cyfeiriwn attynt, âg ond ychydig drafferth, anrhegu ein darllenwyr, os mynnant, â ffrwyth gwerthfawr eu mhyfyrdodau. Dyma gyfle iddynt wneuthur daioni. A gaiff y cyfle fyned heb ei ddefnyddio ganddynt.

Yr ydym yn cydnabod yn llawen ein rhwymau i ddiolch i'r derbynwyr ac i'n dosparthwyr. Gobeithiwn y parhant yn ffyddlon i'n cyhoeddiad tra fyddont yn gweled ei fod yn deilwng o hynny, neu hyd nes caffont gynnyg ar beth a f'o gwell. Y mae ein darllenwyr yn lluosocach nag oeddem yn disgwyl y byddent. Y mae yn eu plith, ond odid, ddynion o wahanol brofiadau—hen, ac ifainge, a chanol oed. Bydd yn dda genym os bydd i'n Rhifynau o fis i fis i ddwyn rhyw gyssur neu adeiladaeth iddynt yn eu gwahanol amgylchiadau. Ceisiwn roddi boddhad i'n darllenwyr cyn belled ag y byddo hynny yn gysson a buddioldeb.

Y mae y *Gohebiaethau* a dderbyniasom wedi bod yn llawer o galondid i ni—fel cymmorth prydlawn, ac fel arwydd o gyd-ymdeimlad â ni dau ein hanhawsderau. Llawer ysgrif ag na chawsom gyfle, neu na welsom yn gymmwys hyd yn hyn i'w chyhoeddi, sydd wedi bod yn foddion i lonni ein calon. Disgwyliwn yn obeithiol y parhair y caredigrwydd i ni. Fe wyr yr ystyriol y byddai yn anghymmwys fel y mae yn annichonadwy i osod

yn yr YMOFYNYDD bob peth a ddanfonir attom, hyd yn oed o'r hyn ag sydd wedi ei ysgrifenu yn dda. Gwnae rhai ysgrifenwyr ifaingc, yn enwedig Prydyddion, beth cymhwynas â ni, a barnwu y gwnaent les iddynt eu hunain, pe byddent i ddangos eu cyfansoddiadau yn gyntaf i ryw *gyfaill deallus*, er cael ei farn ef am eu gwallau; ac wed'yn i'w had-ystyried, a'u hail-ysgrifenu.

Talwn sylw parchus i'r *Gofyniadau* a ddanfonir i ni; ond nid allwn addaw eu hatteb i gyd, nac i osod yn yr YMOFYNYDD un o'r dull canlynol:—"Deisyfaf gael esboniad ar yr adnod a'r adnod," heb gyfeirio at neb, na dywedyd pa un a ddeisyfir o'r gwahanol esboniadau a roddir ar y cyfryw adnod; na 'chwaith fel hyn—"Dymunwyf esboniad ar yr adnod a'r adnod, a *chyfeiriaf at y Parch. Hwn a-hwn.*" Yn awr, yn ol ein barn ni, cymmeryd gormod o *liberty* â Mr. Hwn-a-hwn yw hyn yma. O ba le y cafodd y Cymry yr arferiad hwn? Da gennym weled fod y Diwygiwr wedi dangos ei anghymmeradwyaeth o hono. Ond gadawer i ni ddywedyd etto y cymmerwn ofyniadau ein cyfeillion dan ein dwys ystyriaeth, ac y gwnawn ein goreu trwy help ein cynhorthwywyr i gael attebiad iddynt. Amcanwn wneuthur ein Cyhoeddiad i atteb i awydd a gofynion yr oes.

Am ein *Cynhorthwywyr* ffyddlon a gwresog y mae yn ddigon i ni ddywedyd eu bod fel ein braich ddehau i ni; ac eu bod yn edrych ar yr YMOFYNYDD bychan ymron gydâ'r un hoffder â ni ein hunain; ac na chaiff un diffyg na chaledi fod arno os gallant hwy ei ochelyd; ond y mae bywyd ac iechyd yn ansicr. Nis gallwn wybod pa beth sydd yn nhrefn Rhagluniaeth Duw ar ein cyfer; ond hyderwn y bydd i eraill lanw ein lle os daw gorfod arnom i roddi heibio'r gwaith; ac y bydd iddynt yn y cyfamser ymbarotoi a dechreu rhoddi llaw o gymmorth.

Am danom ein hunain goddefer i ni ddywedyd ein bod yn teimlo fod ein swydd yn un bwysig ac anrhydeddus. Cyssegrwn i'r cyflawniad o honi ein cyfleusderau a'n galluoedd, y fath ag sydd gennym. Cymmerwn y gofal a'r trafferth yn llawen, tra y byddis yn dangos cydymdeimlad â ni yn ein gwaith, a thra y gwelom fod ffrwyth ein llafur o les i'n cyd-genedl.

Y mae y derbyniad groesawus ag y mae yr YMOFYNYDD wedi ei gael yn profi fod eisiau y fath Gyhoeddiad ar y Cymry. Y mae gennym achos i gredu ei fod eisioes wedi bod yn ddefnyddiol.

Edrychwn yn y blaen yn obeithiol ac yn hyderus na fydd i'r sawl a roisaut annogaeth i ni ddechreu y "gwaith da," ddim i dynnu yn ol eu cefnogaeth oddiwrthym heb achos, ond yn hytrach y gwnant bob un ei ran tuag at wneuthur ein Mhisolyn yn offerynol i ddihuno ac arwain ymchwiliad am y gwir, a thrwy hyny i daenu egwyddorion Crefydd Crist yn ein hoes ac yn ein gwlad. Gobeithiwn hefyd y ceir ein darllenwyr, ynghyd â'n Cyfeillion, ar y cyfnod hwn, yn barod i gyduno â ni yn hyn o ddymuniad: BOED YR HYN SYDD YN OL O'I FLWYDDYN YN LLWYDDIANUS I'R YMOFYNYDD—A BYDDED IDDO GYNHYDDU MEWN NERTH, A PHRYDFERTHWCH, A DEFNYDDIOLDEB!

Penybont, Morganwg.

PECHOD GWREIDDIOL.

DARLITH II.

Parhad o tu dalen 77.

Wele gynhwysiad byrr o'r hyn a ddifynais o waith y Doctor Smith, ynghyd a'm sylwadau innau arnynt.

1. Dywaid fod pob bôd peiriannol, hyny yw, pob creadur byw, ynghyd a llysieu, yn *rhwym o farw.* Eu bod yn cynhyddu o'r anelwig ddefnydd i'w cyflawn faintioli, nes cyrhaedd nôd neillduol, yna eu bod yn lleihau, yn dadfeilio, a marw.

Nid oes eisiau rhagor, i'r diben i gyfleu yr ymresymiad hwn at Adda a'i hiliogaeth, na dangos ei fod ef a'i hiliogaeth yn sylwedd peiriannol, neu i fod felly. Nid oes neb yn gwadu nad sylwedd peiriannol ydyw dyn yn awr; ond, ai felly oedd *Adda* cyn y cwymp? Ie, meddaf. Darllener Gen. 2. 7. "A'r Arglwydd Dduw a *luniasai* (ffurfiasai, ar ymyl y ddalen,) y dyn o *bridd* y ddaear, ac a anadlasai yn ei ffroenau ef anadl einioes; a'r dyn a aeth yn enaid byw." Mae'r gair *pridd* yn dangos mai sylwedd oedd Adda, a'r fath sylwedd hefyd; a'r gair, *lluniasai,* yn dangos mai peiriannol oedd i fod. Yn ganlynol dyma sylwedd wedi ei lunio, ei *foidio* (fel y deallai rhai o'r Iuddewon y gair yn y cyn-oesoedd) ei *organizo;* dyma sylwedd peiriannol, *organic matter.* Yr ydym, ymhellach etto, yn cael fod rhannau corphorol gan y peiriant hwn hefyd. Yr oedd yn rhodio; yr oedd ganddo *draed* ynte: a thyma ran o'r peiriant. Yr oedd yn siarad a Duw ac ag Efa ei wraig, yn rhoddi enwau ar y creaduriaid; yr oedd ganddo *dafod* ynte: dyma ran arall o'r peiriant. Fe glywodd lais Duw yn yr ardd, fe wrandawodd ar lais ei wraig, a chymerodd ei dwyllo ganddi, yr oedd ganddo glustiau: rhannau eraill o'r peiriant. I goroni'r cyfan, yr un gair sydd yn cael ei arfer am ffurfiad bwystfilod y maes ac ehediaid y nefoedd, ag a arferir am gyfansoddiad Adda. Adnod 19, "A'r Arglwydd Dduw a luniodd (ffurfiodd, ymyl y ddalen,) o'r ddaear holl fwystfilod y maes a holl ehediaid y nefoedd." Y mae ein hawdwr yn cyfaddef mai sylwedd peiriannol yw y rhai'n, ïe, ac oeddynt hefyd erioed. Gofynnaf finnau, ble mae'r gwahaniaeth rhwng Adda a hwythau? Yr *un* ymadrodd sydd am gyfansoddiad Adda a'r creaduriaid yn gymmwys; gan hynny, sylwedd peiriannol oedd ef fel hwythau. A iaith y gwr parchus hwn am *bob* bôd peiriannol yw, ei fod yn rhwym o farw, yn ol cyfreithiau gosodedig natur. Y mae'r casgliad yn anwrthwynebol ynte, fod Adda yn rhwym o farw hefyd, pe na phechasai, gan mai sylwedd peiriannol oedd. Sylwedd peiriannol oedd hiliogaeth Adda hefyd i fod medd Duw ei hun, a hyny cyn i Adda droseddu. Gen. 1. 28, "Duw a'u bendigodd hwynt, a Duw a ddywedodd wrthynt, Ffrwythwch ac amlhewch a llenwch y ddaear." Trwy foddion naturiol, chwi welwch, yr oedd dynion i gael eu dwyn i'r byd, a hyny, pe na buasai i Adda bechu; a phan y byddo dynion yn cael eu dwyn i'r byd felly yn awr, gelwir hwynt yn sylwedd peiriannol, ac yr oeddynt hwy fel eu tad yn *rhwym* o farw, yn ol ymresymiad ein hawdwr dysgedig sydd wedi sylfaenu ei osodiadau ar brofion cedyrn.

2. Y mae'r Doctor yn sylwi fod bywyd yn cael ei gynnal ar draul marwolaeth. Fod yn rhaid i'r llysiau, a'r ffrwythau, a'r cig, y fyddom yn ymborthi arnynt, *farw,* cyn y gallo'r cylla eu treulio; fod y corph yn ymadael a rhai gronynnau yn barhaus, ac yn derbyn eraill yn eu lle oddiwrth ymborth; ac fod y cyfnewidiadau hyn yn myned yn mlaen yn gysson, nes cyrraedd nôd nas gellir myned drosti, yn ol cyfreithiau *gravity* a *chemical action;* ac yna ei fod yn dadfeilio a marw.

Wel, ai dyma beth oedd cyflwr Adda cyn troseddu? Dywaid Dr. Pye Smith, nade; dywedaf finnau, ïe. Yr unig beth sydd eisiau ei brofi yw, a oedd yn rhaid i Adda gael ymborth *cyn* pechu? At y gair a'r dystiolaeth. Yn Gen. 1. 29, y mae'r geiriau hyn, "A Duw a ddywedodd, wele mi a

roddais i chwi bob llysieuyn yn hadu had, yr hwn sydd ar wyneb yr holl ddaear, a phob pren yr hwn y mae ynddo ffrwyth pren yn hadu had, i fod yn *fwyd* i chwi." 2. 16. "A'r Arglwydd Dduw a orchymynodd i'r dyn, gan ddywedyd, o bob pren o'r ardd" (yngardd Eden yr oedd Adda etto, ac heb droseddu) gan *fwytta* y *gelli fwytta.*" Oddiwrth hyn, chwi welwch fod Adda yn bwytta cyn troseddu, neu wedi cael gorchymyn i wneuthur hyny: os felly yr oedd yn byw ar draul marwolaeth; yr oedd yn rhaid i'r llysiau a'r ffrwythau hyny farw cyn y gallasai ei gylla eu treulio: a chwedi iddynt gael eu treulio yn y cylla, yr oedd yr ymborth yma yn llanw lle y gronynnau oeddent wedi ymadael; a hyn yn cael ei ddwyn ymlaen yn gysson, nes cyrraedd nod neilduol, nod nas gallesid myned drosti, yn ol cyfreithiau *gravity* a *chemical action;* ac yna ei fod yn dadfeilio a marw. Dyma fel yr oedd yn rhaid iddi fod, os oedd yr ymborth yn rhoddi maeth i Adda, fel y mae'n gwneuthur i ni yn awr; ac os nad oedd, i beth y gwnai fwytta? Y mae'r un iaith etto yn cael ei harfer am anifeiliaid cyn y cwymp, y rhai oeddent felly mewn gwirionedd, medd ein hawdwr. Gen. 1. 30. "Hefyd i bob bwystfil y ddaear, ac i bob ehediad y nefoedd, ac i bob peth a ymlysgo ar y ddaear yr hwn y mae einioes ynddo, y bydd pob llysieuyn gwyrdd yn *fwyd,* ac felly y bu." Yr oedd yn rhaid i'r rhai'n farw, oblegid fod yn rhaid iddynt wrth ymborth; ac y mae'r casgliad yn anocheladwy, fod yn rhaid i Adda farw hefyd, oblegid fod yn rhaid iddo yntau wrth ymborth fel hwythau. Yr wyf yn sylwi ymhellach etto, fod yn rhaid i Adda gael ymborth, oblegid dywaid yr un hanes ei fod i *lafurio'r* ddaear a'i darostwng hi *cyn* y cwymp. Gen. 1. 28 "Ffrwythwch, amlhewch, a llenwch y ddaear a *darostyngwch* hi." 2. 5, 15, "Oblegid ni pharasai yr Arglwydd Dduw wlawio ar y ddaear, ac nid oedd dyn i lafurio'r ddaear. A'r Arglwydd Dduw a gymmerodd y dyn, ac a'i gosododd yngardd Eden i'w llafurio ac i'w chadw hi." Felly, chwi welwch, yr oedd Adda i fwytta, ac nid oedd i gael ei ymborth yn rhad, mwy na chwedi hynny; yr oedd yn rhaid iddo *lafurio'r ardd,* yr hyn sy'n dangos fod yn rhaid iddo gymmeryd *trafferth* gyda hi, er mwyn cael ymborth; yr hyn sydd yn dangos ymhellach, fod perygl iddo fod heb ei ymborth; ïe, mewn gair, fod ei fywyd mewn perygl heb iddo ddefnyddio'r moddion angenrheidiol i'w ddiogelu.

3. Y mae'r gwr parchedig hwn yn sylwi ymhellach, fod iaith Duw wrth y creaduriaid yn Gen. 1. 22. "A Duw a'u bendigodd hwynt, gan ddywedyd *Ffrwythwch,* ac *amlhewch,* a *llenwch* y dyfroedd, a lliosoged yr ehediaid ar y ddaear," yn dangos yn eglur fod yn rhaid i rai ymadael i roddi lle i eraill; onide, y buasai iddynt lanw y tir, y dyfroedd, a'r awyr i'r fath raddau, nes gorfod marw o ddiffyg ymborth a lle i drigo ynddo. Os felly, (a phwy ffordd y gellir gwadu ei gasgliad?) dylasai ganfod gwaith Duw yn yr 28 adn. o'r *un* bennod yn gwneuthur defnydd o'r un geiriau wrth ddyn, yn profi hefyd, fod yn rhaid i rai o honynt hwythau ymadael i roddi lle i ereill; onide y buasai i'r ddaear gael ei llanw i'r fath raddau, nes peri iddynt farw o newyn, a diffyg lle i annedddu ynddo. Ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwch y ddaear, medd Duw wrth eiu rhieni cyntaf; gan hyny, yn ol ymresymiad goleu ein hawdwr, yr oedd yn rhaid iddynt farw. Ac, yn wir, y mae ef ei hun yn cyfaddef yn ddistaw, ei fod wedi canfod hyn, pan y dywaid, ei bod yn *debygol* ar ol myned yn ffyddlon trwy ystad o brawf, y buasai iddynt gael eu *cyfnewid* a'u dyrchafu i le o well. Beth yw'r *cyfnewid* yma? Pa achos wrtho, os nad oedd perygl iddynt farw, oherwydd

cadw gorchymyn Duw, trwy ffrwytho ac amlhau? Ond "*tebygol*" yw'r gair y mae ef ei hun yn arfer am hyn: nid yw'n sicr, mai felly y byddai; ac nid yw 'chwaith yn gwneyd defnydd o un rheswm i gadarnhau ei dyb. Nid fel hyn y darfu iddo ymresymu ynghylch marwolaeth y greadigaeth anifeilaidd.

4. Y mae'n gofyn, A oes rhannau o'r ysgrythyr yn dangos na fuasai y greadigaeth anifeilaidd farw, pe na buasai i Adda bechu? Y mae'n atteb yn y geiriau cofus hyn, "Ni wn i ddim am un adnod o'r fath."

Gofynnaf finnau yr un peth mewn perthynas i Adda; sef, A oes rhannau o'r ysgrythyr yn dywedyd na fuasai iddo ef farw, pe na throseddasai? Ac yr wyf yn atteb yng ngeiriau'r dyn dysgedig hwn, "ni wn i ddim am *un adnod* o'r fath." Ond, gwn am adnodau sydd yn cynnwys, nid mewn cymmer o eiriau pendant mae'n wir, etto mewn geiriau digon eglur, y buasai farw. Yr wyf yn dechreu gyda'r bygythiad, ynghyd a gweinyddiad y gosp. Dywedodd Duw wrth Adda, "canys yn y dydd y bwyttai o hono, gan farw ti a fyddi farw." Wel, meddai rhyw un, dan wenu, dyna'ch gosodiad chwi ar lawr. Arafwch ychydig, a chewch weled i'r gwrthwyneb, gobeithiaf. Mae marwolaeth, fel y caf sylwi etto, yn cael ei arfer yn yr ysgrythyrau mewn amrywiol ystyriaethau. Ymha un o honynt y mai ini ei gymmeryd yma? Marwolaeth naturiol, meddwch chwi: ond nid yw hyn ond torri'r cwlwm yn lle ei ddattod. A ydyw'r geiriau yn dywedyd mai marwolaeth naturiol sydd i ni ddeall? Nac ydynt, ac y mae cyflawniad y bygythiad yn dangos yn eglur mai nid marwolaeth naturiol sydd i ni ddeall. A ddarfu i Adda fwytta o ffrwyth y pren gwaharddedig? Do. A gafodd ef ei gospi? Do. Wel, beth yw'r gosp? Marw ydyw hi: ond nid marwolaeth naturiol. Y bygythiad yw, "Y *dydd* y bwyttai o hono; gan farw ti a fyddi farw." A fu Adda marw marwolaeth naturiol y *dydd* y darfu iddo droseddu? Naddo. A fu ef farw'r flwyddyn honno? Naddo, na channoedd o flynyddau ar ol hyny. A gafodd ef ei gospi y *dydd* y troseddodd? Do. Wel, beth yw'r gosp? Yn Gen. 3. y gwelwch yr hanes. Cafodd y sarph y gosp drymmaf. Beth ydyw ei chosp hi? marw marwolaeth naturiol? Nage; ond, "Ar dy dorr y cerddi, a phridd y ddaear a fwyttai." Cafodd Efa ei chospi; a pheth *yw'r* gosp? Poen dwyn plant, a chwennychiad at ei gwr, a bod yn ddarostyngedig iddo. Dim *marw* etto. Cafodd Adda ei gospi, a hon *yw'r* gosp; llafurio'r ddaear, a bwytta ei fara trwy chwys ei wyneb. Yng ngweinyddiad y gosp ynte, nid oes un sôn am farwolaeth naturiol. Y dydd y bwyttaodd Adda o ffrwyth y pren, daeth cnogrwydd a thrueni, fel y cawn sylwi etto, i mewn y fynyd y darfu iddo droseddu, fel y mae'n bod yn barhaus hyd heddyw. A thyma'r farwolaeth sydd yn y bygythiad, ac mewn mannau eraill, fel y caf ddangos etto. Ond am farwolaeth naturiol, y mae gennyf ragor i ddywedyd. Paham mae dynion yn marw? Yr ydwyf wedi dangos eisioes fod pob bod peiriannol, dyn gyda hwynt, yn rhwym o farw: ond os na wna'r tro i ymresymu ar y pwnge; os oes rhyw un yn barod i ofyn etto, paham y mae dynion yn marw, os nid o achos pechod? Pwy gaiff atteb y gofyniad hwn? A gaiff Duw ei hun? A foddlonwch chwi i'w atteb ef? A fyddwch chwi yn ddistaw wedi'n? Paham mae dyn yn marw? Distawrwydd! y mae Duw yn atteb: "Canys *pridd* wyt ti, ac i'r pridd y dychweli." Paham y mae dyn yn marw? Am mai *pridd*, pridd peiriannol, *organized matter* yw, medd Duw ei hun; ac nid am ei fod wedi pechu. Canys pridd wyt ti, ac nid, canys ti a bechaist, yw'r atteb, y rheswm pam y mae dyn i ddychwelyd i'r ddaear, y lle bu ef.

Mae'r Apostol Paul yn dywedyd hefyd am farwolaeth naturiol, mai gosodiad dwyfol ydyw; "Gosodwyd i ddynion farw *unwaith*, a chwedi hyny bod barn." Gosodwyd i ddynion farw yn ol cyfreithiau sefydlog natur, y rhai ydynt yn gyffredinol yn eu heffeithiau: gosodwyd i ddynion farw, yn ol y ddeddf a roddodd Duw i'r *pridd*, o'r hwn y ffurfiwyd hwynt. Gosodwyd i ddynion farw yn ol y deddfau sydd yn llywodraethu cenhedliad, cynnydd, maeth ac ymborth, a'r holl gyfnewidiadau y mae eu cyfansoddiadau yn myned trwyddynt, nes dadfeilio a dychwelyd i ymgymmysgu a'r gwahanol elfenau a wasanaethasant i gadw bywyd cyhyd ag oedd ewyllys y Crëwr doeth iddynt wneuthur. Gosodiad, ynte, yw marwolaeth nas gellir myned drosto. Ond diolch i Dduw, er ein bod i farw, oherwydd mai pridd ydym ni fel yr Adda cyntaf, ni a gawn fyw hefyd, yn ol tystiolaeth gair y gwiriondd. "Megys y dygasom ddelw y daearol, ni a ddygwn hefyd ddelw y nefol." Hyny yw, gan fod Adda wedi cael cyfansoddiad ag oedd yn rhwym o ddadfeilio a marw yn ol cyfreithiau natur, a chan ein bod ninnau yn dwyn ei ddelw yn hyn, yn meddu yr un fath gyfansoddiad ag yntau, ac yn sicr o farw fel yntau; ni a ddygwn hefyd ddelw y nefol, delw yr Iesu a ddywedodd, "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." Yr ydym yn marw fel Adda, ond ni a fyddwn byw fel Crist. Gosodwyd i ddynion farw *unwaith*, sylwch, *unwaith* y ddywed y Gair, er y sonir am dair marwolaeth gan lawer.

5. Dywaid Dr. Pye Smith, fod rhai yn gweled anhawsdra mawr i gyfrif am boen a marwolaeth, heb ar y dyb mai pechod yw'r achos o honynt; a'r atteb y mae'n roddi i hyn, yw geiriau neu atteb Crist i ofyniad cyffelyb yn ei amser ef. "Nid hwn a bechodd, na'i rieni chwaith, ond fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef." O achos pechod pwy mae dynion yn marw? Nid o achos pechod neb; ond fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddynt hwy. "Etto chwi a ddywedwch, oni ddwg y mab anwiredd y Tad? Os felly, os ydych yn barod i ofyn y fath gwestiwn; da chwi, cofiwch yr atteb y mae Duw trwy lw yn roddi iddo; a thyma fe, "*Ni* ddwg y mab anwiredd y Tad, na'r Tad anwiredd y Mab, cyfiawnder y cyfiawn fydd arno ef, a drygioni'r drygionus fydd arno yntau."

Wele, bellach o'ch blaen, fy narllenwyr amyneddgar, res o brofion cedyrn yn dangos mai nid oherwydd pechod y mae marwolaeth naturiol yn y byd. Ein gorchwyl nesaf fydd dangos fod marwolaeth, yn aml, yn yr ysgrythyrau pan yn gyssulltiedig a phechod, yn arwyddoccau'r euogrwydd meddwl a'r trueni hyny sydd yn anwahanol gyssulltiedig a *phechod*, ac nid marwolaeth naturiol. Wedi hyny, caf gymmwyso'r olwg hon at yr anhawsderau a gyfodais ar y cyntaf, oddiwrth fygythiad Duw yn Genesis, a geiriau Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, &c. Yna, âf ymlaen i atteb rhai gwrthddadleuon eraill a wneir i'r golygiadau a fynwesir gennym ni ar y pwngc. Wrth hyn y gwelwch fod gennym beth gwaith heb ei gyflawni etto; ond os caniataiff Mr. YMOFYNYDD, a'm iechyd innau, caiff hyn ei gyflawni ar fyrr o dro gan eich gwasanaethwr ffyddlon,

Cefn. O. EVANS.

A YDYW RHUF. III. 21—26, YN DYSGU IAWN I GYFIAWNDER?

"Ac yr awrhon yr eglurwyd cyfiawnder Duw heb y Ddeddf, wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi; sef cyfiawnder Duw, yr hon sydd trwy ffydd Iesu Grist i bawb, *ac ar bawb*, a gredant: canys nid oes dim gwahaniaeth, oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw; a hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad

trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu; yr hwn a osododd Duw yn Iawn *trwy ffydd* yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddioddefgarwch Duw; i ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn; fel y byddai ef yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu."

Mr. Ymofynydd,—Yn awr wedi symud y prif rwystrau oddiar y ffordd, caniatewch i mi yn y llythyr hwn i gyfiawni fy addewid, sef i ddangos beth, yn ol fy marn i, yw meddwl Paul yn yr adnodau uchod, a ddyfynir mor fynych ac mor ddibryder gan ddiffynwyr Iawn i Gyfiawnder; ac hefyd ystyr ysgrythyrol y fath eiriau a *Iawn, Prynu, Pwrcasu, Pridwerth*, &c. Ac yn gyntaf gadewer i mi sylwi, os nad yw'r athrawiaeth hon i'w chael yn y pedair Efengyl, y mae hynny yn brawf tebygol nad yw hefyd yn cael ei dysgu yn y rhan epistolaidd o'r Testament.

Wrth fyfyrio'r Epistolau dylid cadw mewn cof mai Iuddew oedd Paul, mai Iuddew oedd Ioan, Pedr, Iago,—mai Iuddewon oedd pawb o ysgrifenwyr y Testament Newydd. Cyfraith Moses oedd pob peth gan yr Iuddew; cawsai ei ddysgyblu ynddi o'i febyd mor fynych ac mor effeithiol nes yr ymgymmysgai a chyfansoddiad ei enaid. Yn ol y gyfraith y meddyliai, y llefarai, yr ysgrifenai; wrth y gyfraith yr addolai yn y deml neu'r synagog; wrth y gyfraith y barnai yn y llys; fel y gellid yn mron dyweyd mai'r gyfraith oedd yr Iuddew, a'r Iuddew oedd y gyfraith. Am hynny y mae'r Epistolau a'r rhanau eraill o'r Testament, fel y gellid dysgwyl, yn llawn cyfeiriadau at offrymau, geiriadau, a defodau cyfraith Moses, a rhaid i'r sawl sydd yn chwennych eu deall hwynt yn iawn, wneyd yr Hen Destament yn rhan fawr o'i fyfyrdod.*

Er mai yn yr Iaith Roeg yr ysgrifenwyd yr Epistolau gyntaf, yr oedd yn beth naturiol i'r awdwyr, am mai Iuddewon oeddynt, arferyd geiriau duwiniaethol mewn ystyr Hebreaidd.

Yr ydym yn cymmeryd yn ganiatael wrth ddarllen awdwyr cenhedlig fod awdwr yn defnyddio yr un gair yn yr un ystyr trwy ei holl waith, oni ddywed ei fod yn rhoddi ystyr arall yn rhyw fan neillduol. Nis gellir rhoddi un rheswm digonol, debygwn i, paham na ddylid dal at yr un rheol wrth ddarllen yr ysgrythyrau.

Byddai hefyd yn beth buddiol ddigon i gofio na ddylid darllen yr Epistolau fel aphorismau, neu wersi synwyrlawn, heb ystyried fod pob adnod yn dal cyssylltiad a'r pwngc a drafodir gan yr awdwr. Ni ysgrifenai Paul at un rhyw eglwys mwy na'i gilydd heb fod ganddo ddyben neillduol yn y golwg. Dylem, gan hynny, wybod dyben y llythyr ynghyd a'i brif raniadau; ac er mwyn deall y pethau hyn, nis gall dim fod yn fwy anfanteisiol na'r arfer cyffredin o'i ddarllen bennod a phennod, neu bennod yma

* Ymddengys i mi fod bai ar Athrofäau yr ymneillduwyr yn y wlad hon na thalent ragor o sylw i'r iaith Hebraeg a ieithiodd dwyreiniol eraill. Dylau pawb ag sydd yn cymmeryd arnynt i ddysgu Efengyl Crist i eraill, ymdrechu i geisio darllen yr ysgrythyrau yn yr ieithiodd yr ysgrifenwyd hwynt gyntaf. Bydded cyfi ithad mor dda ag y byddo, y mae'n rhwym o fod yn ammheffaith. Dywedai Martin Luther, os nad wyf yn camsynied fod ei wybodaeth o'r Hebraeg yn fwy gwerthfawr yn ei olwg na r holl fed, oberwydd y cynnorthwy a roddai hi iddo i ddeall yr ysgrythyrau. Y mae'n debyg fod Athrofa Bresbiteraidd Caerfyrddin wedi cymmeryd mesurau effeithiol i wella y diffyg hwn ag oedd ynddi: mawr lwydd iddi, a gobeithio y gwna Athrofäau eraill o bob enwad yn yr un modd, y mae digon o eisiau.

a thraw, fel y byddo amgylchiad yn gofyn neu gyfleistra yn caniatau. Dylid darllen yr Epistol yn bwyllog, yn ystyriol, ac os bydd yn *bossibl*, i gyd ar unwaith, nes cael drycholwg iawn ar brif amcan yr awdwr, y pethau a drafoda, a'u cyssylltiad hwy a'u gilydd. Meddylia dy fod yn cael llythyr cyhyd a'r un at y Rhufeiniad oddiwrth gyfaill yn America, neu ryw wlad arall, nid y ffordd fwyaf effeithiol at gael allan ei gynhwysiad a'i ddyben fyddai trwy ddarllen cyfran o hono heddyw a chyfran arall y foru, ac felly yn y blaen nes myned trwyddo. Onid eistedd i lawr wnait, a'i ddarllen oll ar unwaith? Yn yr un modd, ond yn llawer mwy gofalus, y dylid darllen Epistolau y Testament Newydd.*

Y mae'r rhan a ddyfynir uchod o'r Epistol at y Rhufeiniaid yn teilyngu sylw pwyllog, tawel, a diragfarn, oblegid barna rhai dynion dysgedig a duwiol fod yn yr adnodau hyn gyfeiriad at iawn i ofynion cyfiawnder, ar yr hon athrawiaeth y maent yn gosod pwys mawr, ond yn gamsyniol, dybygwn i. Os yw fy syniadau i yn ei chylch yn gyfeiliornus, dymunwn ddyfod i weled fy nghamsynied; ond os o'r tu arall, mai y rhai sydd o wahanol farn i mi sydd yn cyfeiliorni, y mae yn bryd iddynt hwythau i ymofyn am y gwir; ni ddyleu fod dim cyngrair rhyngom a rhagfarn, yn enwedig mewn perthynas i bethau a berthyn i'n tragwyddol heddwch.

Y rhesymau canlynol a'm darbwyllant i gredu nad yw'r adnodau hyn yn dysgu'r athrawiaeth tan sylw:—

Pe baent yn dysgu'r Iawn, ystyr y gair Cyfiawnder fyddai y briodoledd honno yn Nuw; ond ymddengys i mi fod yr apostol yn meddwl wrtho y cyfiawnder y mae Duw yn ei ofyn oddiwrth ddynion.

Os ydynt yn dysgu'r Iawn, rhaid deall y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu mewn ystyr *lythrenol*, sef fod gwerth wedi ei dalu yn wirioneddol am ryddhad pechadur.

Pe baent yn dysgu Iawn i Gyfiawnder, byddai yn rhaid deall y gair a gyfieithir *Iawn* mewn ystyr na sydd iddo mewn un man arall yn yr ysgrythyrau.

Rhaid hefyd i'r geiriau, "Fel y byddai Duw yn gyfiawn," gael ystyr mwy cydweddol â'r pwnge a drafodir gan yr awdwr na'r un a ddysga "fod trefn yr achub" yn gosod Duw allan yn Fod cyfiawn.

Yn gyntaf, nid yw y geiriau, "Cyfiawnder Duw," neu "ei gyfiawnder ef," yn yr adnodau hyn, nac ychwaith trwy'r holl bennod, yn meddwl y briodoledd honno yn Nuw, ond cyfiawnhâd,—y dull, neu'r modd, neu'r ffordd, y deuir i ffafwr Duw, ac y ceir maddeuant pechod; hefyd, y cyflwr o fod yn rhydd oddiwrth bechod ac euogrwydd cydwybod; yn fyr, cyflwr y gwir Gristion ag sydd yn adnabod Duw, ac yn ei garu â'r holl galon.†

Cyfarfyddir a'r gair oddeutu unarddeg o weithiau yn y Testament Newydd; naw gwaith yn Epistolau Paul, a phump o'r naw yn y bennod hon.

---

* Gwel Rhagymadrodd Mr. Locke i'w esboniad ar Epistolau Paul.

† Ratio perveniendi ad favorem Dei, et remissionem peccatorum, quae si vera est *dikaiosune Theou* dicitur: sin vero ab hominibus excogitata et inventa, *he idia dikaiosune* appellatur. [Y ffordd neu'r modd i gael ffafwr Duw a maddeuant pechodau, yr hon, os y wir ffordd, a elwir *cyfiawnder Duw*: ond os wedi ei dyfeisio a'i ffyrfio gan ddynion a elwir *cyfiawnder dyn ei hunan*.]—Schleusner.

Sensu Strictissimo, indoles ejus quae expers est peccati; pietas exacta et omnibus numeribus absolutu. [Yn y synwyr caethaf; cyflwr neu ansawdd y dyn ag sydd yn rhydd oddiwrth bechod; yr anian dduwiol a ofynwyd ac yn mhob amgylchiad a gymmeradwyd.]—Wahl.

"Eithr ceisiwch yn gyntaf deyrnas Duw a'i gyfiawnder ef," Mat. vi. 6.
"Canys digofaint gwr nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw," Iago i. 20.
"Fel y gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef," 2 Cor. v. 21.
"Canys ynddi hi y datguddir cyfiawnder Duw o ffydd i ffydd," Rhuf. i. 17.

Y mae Baxter, Newcome, Campbell, Macknight, ac Adam Clarke, o'r farn fod "Cyfiawnder Duw" yn yr adnodau hyn yn meddwl y cyfiawnder ag y mae ef yn ofyn oddiwrth ddynion,—"Y cyfiawnder ag sydd trwy ffydd," a'r hwn a gymmeradwya Duw er maddeuant pechodau.

Etto, "Os yw ein hanghyfiawnder ni yn canmol cyfiawnder Duw," Rhuf. iii. 5.
"Ac yr awrhon yr eglurwyd cyflawnder Duw heb y ddeddf," ad. 21.
"Sef cyfiawnder Duw, yr hon sydd trwy ffydd Iesu i bawb," ad. 23.
"I ddangos ei gyfiawnder ef," ad. 25.
"I ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn." ad. 26.

Dengys y geiriau cymhwysiadol "heb y ddeddf," "trwy ffydd," &c., ynghyd a'r pwngc a drafodir gan yr Apostol mai cyfiawnhad, neu y cyfiawnder ag y mae Duw yn ei ofyn od liwrth ddynion, sydd i'w ddeall wrth gyfiawnder Duw yn y bennod hon.

Yn nesaf, beth sydd i'w ddeall wrth y gair *prynedigaeth*? Ymddengys i mi nad yw yn arwyddo yn y fan hon fod gwerth wedi ei dalu mewn ystyr fasnachol. Meddwl cyntefig y gair a gyfieithir yma prynedigaeth, yw rhyddhad caethwas trwy dalu i'w berchenog ei werth.† Gelwid y gwerth *prid*, neu *pridwerth*. Hyn yw'r ystyr cyntefig; ond nid hir y buwyd cyn galw pridwerth ar unrhyw foddion a ddefnyddid i waredu o gaethiwed. Yn mhen amser daeth y gair i feddwl nid yn unig unrhyw foddion a ddefnyddid i waredu o gaethiwed *corphorol*, ond hefyd oddiwrth drais, gormes, trallod, drwgnwydau—pob drwg moesol. Y mae'r un droell-ymadrodd mewn arferiad cyffredin yn ein gwlad ni, ond yn llawer mwy yn y dwyrain, ac yr ydys yn cyfarfod a hi yn fynych wrth ddarllen gwaith awduron o bob iaith ac oes—yn y Bibl fel llyfrau eraill. Defnyddir y geiriau *prynu*, *pwrcas*, *pwrcasu*, *ymwared*, *gwaredu*, *achub*, *rhyddhau*, &c., yn fynych mewn dull ffigwraidd, i ddynodi gwaredigaeth oddiwrth ddrwg moesol.

Yn yr un meddwl ail-ystyriaethol (*figurative*,) y gelwir yr Israeliaid yn yr Hen Destament, "Y gynnulleidfa yr hon a brynaist," "Llwyth dy etifeddiaeth, yr hwn a waredaist," "Gwaredigion yr Arglwydd," "Yr Arglwydd a waredodd Jacob," gan gyfeirio at y caethiwed yn yr Aipht tan Pharaoh. "Canys myfi, medd Duw trwy Isaiah, "yw'r Arglwydd dy Dduw, Sanct Israel, dy waredydd; myfi a roddais yr Aipht yn iawn trosot, Ethiopia a Seba am danat." Peth gwrthun fyddai meddwl i'r Arglwydd roddi gwlad yr Aipht mewn ystyr fasnachol yn werth am Jacob, onite i bwy? Rhaid mai i Pharaoh, oblegid ei gaethion ef oeddynt. Ond ni i felly, oblegid cyfeirio mae Duw at y plaäu dinystriol a'r dioddefaint fu yn ngwlad yr Aipht am na chaniatau Pharaoh i'r Hebreaid ddychwelyd i wlad Canaan, a'i ddystryw ef a'i fyddin yn y Mor Coch. Yr amrywiol ddangosiadau dychrynllyd hynny o allu Duw oedd yr Iawn neu'r cyfnewid am

† *Apolutrasis* et *lutrosis*, redemptio i.e, liberatio quae fit per pretii solutionem. [Y waredigaeth neu'r ryddhàd a wneir trwy dal.] Galwai'r Groegiaid y gwerth *lutron* neu antilutron oddiwrth air sydd yn meddwl ryddhau, a'r Hebreaid *Geula*, pidyon, neu *copher*, pridwerth, iawn.

Jacob, ac wrth eu gwneuthur hwynt y prynai neu y gwaredai Duw ei bobl o'r Aipht.

Nid mewn ystyr wahanol y dywedir hefyd yn y Testament Newydd, "Canys er gwerth y prynwyd chwi," "Yr hon yw ernes ein hetifeddiaeth hyd bryniad y pwrcas," "Yr hon a bwrcasodd efe a'i briod waed," "Yr hwn a roddes ei hun yn bridwerth dros bawb," "Yr hwn a roddes ei hun i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd," &c. &c. Crist sydd yn gwneyd y pethau hyn, ond pa fodd? Ai trwy roddi gwerth mewn ystyr fasnachol? Os felly, i bwy? Ffolineb fyddai dyweyd mai i'r Diafol; ac nid i Dduw ychwaith, oblegid iddo ef i'n prynwyd ni. Y gwerth a roddir i'r hwn y prynwyd y nwyf ganddo—i'r perchennog; ac fe ddywed Crist mai pechod yw hwnw, "Pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod y mae ef yn was, (caethwas,) i bechod. Am hynny rhaid mai i bechod, anwiredd, ofer ymarweddiad, a melldith y ddeddf, y talodd Crist y gwerth, oblegid oddiwrth y pethau hyn y prynwyd ni; ac am mai nid personau ydynt, rhaid cymmeryd y gair prynedigaeth mewn ystyr foesol.

Yn awr y mae'n rhesymol i'r darllenydd ofyn pa fodd y mae Crist yn gwaredu, yn prynu, oddiwrth bechod? Yr wyf yn atteb mai trwy arwain dynion i adnabyddiaeth o Dduw—trwy y gwirionedd—"A chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi." Y mae Crist yn rhyddhau, yn gwaredu, yn prynu dynion trwy ddysgu iddynt pa fath addoliad sydd yn gymmeradwy gan Dduw, yn mha beth y mae gwir ddedwyddwch yn gynnwysedig, a pha fodd mae ei gyrhaeddyd, trwy ddangos y bydd adgyfodiad y meirw, a barn, pryd y caiff y cyfiawn a'r rhinweddol eu gwobrwyo, a'r drygionus eu cospi. Hyn yw sylwedd dysgeidiaeth neu air Crist. Ond cofiwn nad yw Crist yn rhyddhau neu yn prynu neb ond y sawl sydd yn cymmeryd eu dysgu ganddo. Os dywed rhai fod hyn o'r goreu yn ei le, ond fod yn rhaid cael rhywbeth yn ychwaneg, cynghoraf y cyfryw i beidio bod yn rhy fyrbwyll rhag ofn y ceir hwynt yn priodoli diffyg ac annigonolrwydd i athrawiaeth Crist, am yr hon y dywedodd, "Yn wir, yn wir, y neb sydd yn gwrandaw fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd, a gaiff fywyd tragwyddol, ac ni ddaw i farn," o ganlyniad, dysgeidiaeth yr Iesu—yr efengyl—sydd yn gwaredu, yn achub, yn prynu dynion o tan gaethiwed pechod, i ryddid plant Duw. Y mae'r efengyl yn werth gwaed Crist, oblegid heb law'r holl ddioddefaint corphorol a meddyliol a aeth trwyddynt yn ystod ei weinidogaeth, fe roddodd ei fywyd i lawr dros y gwirionedd—rhoddodd ei hun yn offrwm tros ddynoliaeth.* Dyma—yn ol fel yr wyf fi yn garller canfod—yw ystyr y "prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu."

Dywedais hefyd pe b'ai yr adnodau hyn yn dysgu athrawiaeth yr Iawn, y byddai yn rhaid deall y gair a gyfieithir Iawn mewn ystyr na sydd iddo mewn un man arall yn yr ysgrythyrau. "Yr hwn a osododd Duw yn Iawn." Ni cheir y gair a gyfieithir Iawn yn yr adnod hon ond mewn dau fan yn y Testament Newydd, yma ac yn Heb. ix. 5, lle y cyfieithir ef *Trugareddfa*; ond yn yr Hen Destament cyfarfyddir ag ef yn aml, ac yn mhob man yn meddwl clawr neu gaead arch y cyfammod.† Gwel Exod. xxv. 17—22.

---

* Gwel fy llythyr yn Rhifyn Hydref.

† *Hilasterion* yw'r gair Groeg, ac *hilasterion epithema* weithiau yn nghyfieithad y Deg-a-thri-ugain. Nid oes gennyf fi ddim gwrthnebiad i'r farn fod y gair *thuma, offrwm,* i'w ddeall yn yr adnod uchod, ond yr wyf hyd yn hyu heb ganfod *Hilasterion thuma* yn y cyfieithad Groeg crybwylledig.

Ar glawr yr arch, neu ar y drugareddfa, yr ymddangosai Duw i Aaron a'r archoffeiriaid; yno yr hysbysai yr holl bethau a orchymynai i feibion Israel; yno y ceid gwybod beth oedd y meddwl a'r ewyllys ddwyfol. Ond yn awr, yn yr oes efangylaidd, nid ar y drugareddfa honno yr ymddengys Duw, ond yn Nghrist. Y neb sydd am weled Duw edryched ar Iesu Grist; y neb sydd am wybod ewyllys ac amcanion Duw, dysged gan yr Iachawdwr; efe sydd wedi ei *osod allan* yn lle arch y cyfammod ag oedd yn addoliad y cessegr Hebreaidd; y mae wedi derbyn pob awdurdod i ddatguddio ewyllys y nef i ddynion; *gosododd Duw ef allan* fel cyfrwng rhyngddo â'r byd amrywiol o weithiau, yn yr Iorddonen, yn y gweddnewidiad, yn y gwyrthiau, yn yr adgyfodiad oddiwrth y meirw, ac yn yr esgyniad i'r nef. O na ai dynion yn fwy mynych at y drugareddfa hon! Y mae cyfeiriad yn y geiriad 'trwy ffydd yn ei waed ef," at waed y bystach a bwch y pech aberth a daenellid ar y drugareddfa, ac o flaen y drugareddfa, Lef. xvi. 14, 15. Fel pe dywedasai'r apostol, "Y mae Duw wedi gosod Iesu Grist yn drugareddfa i bawb a gredant yn ei waed ef, neu i bawb a gredant yn y gwirionedd dros yr hwn y dioddefodd efe farwolaeth."*

Yn olaf, "Fel y byddai ef yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." Nid oes yma ddim cyfeiriad at y farn fod "trefn yr achub" trwy Iawn i ofynion cyfiawnder yn gosod Duw allan yn Fod cyfiawn, oblegid ni ddioddef y cyssylltiad ddim o'r fath esboniad. Y mae Duw wedi gosod Crist yn lle clawr yr arch; trwyddo ef yr ydym yn cael adnabyddiaeth ar Dduw; pwy bynnag, gan hynny, pa un ai Iuddew ai cenedlddyn sydd yn credu yn Nghrist, yn gwrandaw ar ei eiriau, ac yn cymmeryd ei ddysgu ganddo, a gaiff ei wobrwyo yn ol ei weithredoedd; oblegid y mae Duw yn Fod cyfiawn, "nid yw dderbyniwr wyneb, ond yn mhob cenedl y neb sydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymmeradwy ganddo ef."

Cyn diweddu, caniataed y darllenydd i mi osod ger ei fron feddwl yr apostol yn yr adnodau hyn, yn ol fel yr wyf fi yn ei ddeall ef:—

"Yn awr y mae'r dull neu'r modd trwy yr hwn y sancteiddir dynion wedi ei wneyd yn adnabyddus i'r byd; nid oes dim rhagor o berthynas rhyngddo a chyfraith Moses na bod rhai o ysgrifenwyr yr Hen Destament wedi ei ragfynegu; y mae yn gynnwysedig mewn ffydd yn efengyl Crist, ac y mae groesaw i bawb—y cenedlddyn fel yr Iuddew—i fwynhau ei bendithion. Nid oes teilyngdod yn un mwy na'r llall, oblegid y mae'r ddau wedi camddefnyddio y breintiau oedd ganddynt. I gariad a daioni Duw yn unig y mae iddynt ddiolch am y waredigaeth a geir o tan gaethiwed pechod trwy Iesu Grist. Efe a osododd Duw yn glawr yr arch, fel yn yr hen oruchwyliaeth, yr

---

Orta est haec significatio . . . . . ex errore LXX. interpretum in explicando hebr. *kaphoreth* i.e. operculum, male haerentium in expiandi [*koper*] notione, cum potius tenenda fuisset operiendi notio, latens in vocabulo *kaphar*. [Deilliodd y meddwl hwn (trugareddfa) oddiwrth gamsyniad y Deg-a-thri-ugain cyfieithwyr yn egluro y gair hebraeg *kaphoreth* neu *glawr*, gan lynu yn gamsyniol wrth yr ystyr o *wneyd iawn* (koper,) pan y dylasai yn hytrach y meddwl o *guddio* gael ei gadw, yr hwn feddwl sydd yn y gair kaphar.]—Wahl.

* Y mae Greisbach yn nodi *trwy ffydd* fel o awdurdod ammheüus, a gadewir ef allan yn y llaw'scrif Alexandraidd a rhai eraill. Os yw y geiriad *dia tes pisteos en to autou*, *haimati* —(trwy ffydd yn ei waed ef,)—yn cyfeirio at *hilasterion*, (trugareddfa,) mae *dia tes pisteos* yn briodol ac yn gyfartal i *tois pisteuousi* (i'r rhai a gredant); sef, y mae Duw wedi gosod Crist yn drugareddfa i'r sawl sydd yn credu yn ei waed ef, sef yn ei ddysgeidiaeth, ac nid i neb arall. ond os cyfeirio y mae at *proetheto* (a osododd) nid oes dim o'i eisiau, oblegid nid gweddus yw dyweyd fod Duw yn gwneyd peth trwy ffydd

hwn a daenellwyd, nid a gwaed bwstach, ond a'i waed ei hun, Heb. ix. 25, 26. Y dyben oedd i ddangos y ffordd mae i ddynion ddyfod i adnabod Duw a'i ewyllys, ac yn enwedig i ddangos mai nid rhyw bobl neillduol, megys yr Iuddewon, yn unig sydd i feddiannu y lles a ddeillia oddiwrth ffydd yn Nghrist, ond pawb a gredant ynddo, oblegid Bod cyfiawn yw Duw—yn caru ac yn ewyllysio dedwyddwch pawb o ddynolryw."

Gellir cymhwyso'r egwyddorion a gynnwys y llythyr hwn at y rhan fwyaf o'r adnodau a ddyfynir o epistolau Paul i brofi athrawiaeth yr Iawn. Mi adawaf yn awr ddwy neu dair o adnodau yn epistolau Ioan a ddyfynir i'r un perwyl, heb sylwi arnynt hyd nes y trafodom yr aberthau Iuddewig, yr hyn a ddechreuir, trwy eich hynawsedd chwi, Mr. YMOFYNYDD, yn fy llythyr nesaf.

PHILO.

IAWNFFYDDIAETH.

Y mae pob creadur rhesymol yn rhwym o garu yr hyn a gymeradwya ei reswm a'i gydwybod; nis gall yn amgen. Y mae wedi ei gynnysgaeddu â galluoedd meddyliol a moesol, yn yr hyn y mae ei ragoriaeth a'i arddercha wgrwydd ar bob creadur arall yn gynnwysedig. Llywodraethir creaduriaid eraill gan reddf (instinct) naturiol. Llywodraethir dyn gan reswm, meddiana alluoedd i amgyffred,—i farnu,—i ddosparthu drwg a da,—i ddilyn y naill, a gochelu y llall. Derbyn ei alluoedd eneidiol yn gystal a'i gyfansoddiad corphorol oddiwrth Dduw; ac fel y cyfryw y maent yn deilwng o'u hawdwr; "Hyn yn unig a gefais," medd Solomon, "wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn." "Da y gwnaeth efe bob peth." Nis gall ymhyfrydu yn yr hyn sydd yn groes i'w reswm, ac i ewyllys Duw; y mae y meddwl dynol yn naturiol yn wrthwynebol i anwiredd a thwyll: cenfydd anghenrheidrwydd a gwerth gwirionedd; tegwch a dymunoldeb cyfiawnder; harddwch sanctteiddrwydd; a dylanwad iachusol bywyd rhinweddol ar gymdeithas yn gyffredinol. Y mae y pethau hyn yn canmol eu hunain i bob cydwybod dyn. Y mae yn wirionedd galarus fod dynion yn ymlygru, "yn chwilio allan lawer o ddychymygion," drwy adael i chwant gael yr oruchafiaeth arnynt, yr hwn a ddylai fod dan lywodraeth eu rheswm, yn unol ag ewyllys Duw. Y mae ymarferiad a phechod yn caledu'r galon, yn pylu'r teimlad moesol, ac yn dystewi o'r diwedd lais Duw yn y gydwybod, nes y mae'r pechadur "wedi ymddarbodi," (past feeling) a'r gydwybod wedi ei serio â haiarn poeth,—yn ymhyfrydu mewn anghyfiawnder a phechod. Gwae y rhai hyn! Geilw y Tad nefol ar ol ei greaduriaid pechadurus a gwrthnysig, gorchymyna iddynt ystyried a chwilio eu ffyrdd, gwahodda hwynt i ymresymu ag ef; appelia attynt hwy eu hunain dros uniondeb a rhesymoldeb yr hyn a ofyna ganddynt, yn y modd mwyaf tyner a thadol.

Y mae y gydwybod naturiol yn cyhuddo, neu yn esgusodi, pa faint mwy wedi derbyn goleuni ychwanegol datguddiad?

Cyflawnwyd rhai o'r pechodau atgasaf oddiar esgus o reswm ac anghenrheidrwydd. Gwaredwr y byd, "Yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau," a roddwyd i farwolaeth dan y cyhuddiad o gabledd a theyrnfradwriaeth; mewn anystyriaeth ac anwybod, croeshoeliwyd "Arglwydd y gogoniant." Sel grefyddol yr Iuddewon a barodd iddynt erlid a

dyfetha y cyn Gris'nogion. "Ardderchog lu y merthyron" a ddyoddefasant boenau angerddawl y tan, dirdyniadau creulawn yr arteithglwyd, am yr ystyrid hwynt yn gyfeiliornwyr niweidiol, ac yn gwrthwynebu yr hyn a alwai eu herlidwyr yn wirionedd Duw. Ni erlidiwyd gwirionedd erioed fel y cyfryw, ond drwy ei alw yn heresi a thwyll, gwrthwynebir ef yn mhob oes,

Nid oes yr un dyn ystyriol na ddymunai fod yn iawnffyddiog; neb ond sydd wedi ymroddi i ddilyn ei chwantau. Llais pob enaid rhesymol ydyw, "Nid oes ond un peth diogel yn y bydysawd, a hwnw ydyw gwirionedd," gwaedda y cyfryw ar ei ol, cyfyd ei lef am dano, ceisia ef fel arian, chwilia am dano megis am drysorau cuddiedig. Y mae y gair Cymraeg Iawnffyddiaeth, yn egluro ei hun: ond gan fod cymaint yn honi hawl neillduol iddo, cymhwys ymofyn pa le y mae, a pha fodd i'w gyrhaedd? Os gofynir i'r Pabydd, ateba mai Eglwys Rhufain yw trigfa Iawnffyddiaeth. Yn Rwssia, Eglwys Groeg a gyfrifir yn Iawnffyddiog. Y Lutheriad a'n cyfeiria at gyffes Augsburg, y Presbyteriad at Gatecism y Gymanfa, yr Eglwyswr at y Llyfr Gweddi Cyffredin, y Wesleyad at weithiau duwinyddol John Wesley, a'r Calfiniaid at eu Cyffes Ffydd, &c. Ond hysbys yw fod y rhai hyn oll yn gwahaniaethu o barth Iawnffyddiaeth, nis gallant fod yn Iawnffyddiog oll; hwyrach y dywed rhyw un mai yr agosaf at y Bibl sydd Iawnffyddiog; gwir, ond ai nid ydynt oll yn proffesu dilyn y Bibl? Ac onid yw tystiolaeth y naill mor belled a hyn, cystal a'r llall! Y gwirionedd ydyw fod pob un yn Iawnffyddiog yn ei olwg ei hun, ac ni ddylid beio neb am hyny; y mae yr un reol o anghenrheidrwydd yn ei arwain i ystyried eraill fel gau-gredwyr, ag sydd yn gwahaniaethu oddiwrtho yn eu golygiadau. Y mae esboniad digrifol yr Esgob Saesonig yn nhy'r Arglwyddi, yn berffaith gyson a'r arferiad cyffredinol o'r gair Iawnffyddiaeth, —"*Orthodoxy, is my doxy; Heterodoxy, is thy doxy.*"

Nid yw Iawnffyddiaeth, yn briodol a elwir felly, ddim wedi ei gyfyngu i unrhyw blaid o bersonau; ni chyrhaeddir ef yn y fuchedd hon, perthyna i ystad uwch a pherffeithiach na'r un bresenol, yr ydym oll o angenrheidrwydd yn anmherffaith a ffaeledig, Duw yn unig sydd berffaith ei ffordd, efe yw'r unig ddoeth, ynddo ef y preswylia Iawnffyddiaeth drwyadl; ac i'r dyben i ninau ei gyrhaedd mor belled ag y gallwn, ein dyledswydd ydyw gwrando ar lais ein Tad nefol, cymeryd ein dysgu ganddo drwy ddefnyddio y galluoedd a roddes efe i ni, ynghyd a'r manteision sydd genym er cael gwybodaeth o'r gwirionedd.

Appeliai Crist a'i Apostolion at synwyr a barn eu gwrandawyr, "Paham nad ydych, ïe, o honoch eich hunain, yn barnu yr hyn sydd gyfiawn;" "Dywedyd yr ydwyf, megis wrth rai synwyrol, bernwch chwi pa beth yr wyf fi yn ei ddywedyd;" "Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda;" "Bydded pob un sicr yn ei feddwl ei hun."

Dyledswydd pob un ydyw dilyn argyhoeddiadau ei gydwybod ei hun, ar yr un pryd dylai'r ystyriaeth o'i waelder a'i anmherffeithrwydd beri iddo ymddwyn tu ag at eraill, megys y dymunai iddynt hwy ymddwyn tu ag ato yntau. Dylem ochel yr ysbryd balch, rhyfygus, ac anghristaidd hwnw, a fynai "weddio am dan o'r nef" ar eraill, eu camddarlunio, neu eu niwedio mewn modd yn y byd. Y mae'r ysbryd hwn yn fwy anghyson yn mhlith Protestaniaid, nag ydyw yn mysg Pabyddion. Honir anffaeledigaeth yr Eglwys gan yr olaf, gwedir yr hawl i farn bersonol; ond y mae pob Protestant cyson, oddigerth cyfeillion Dr. Pusey, y rhai ydynt Babyddion mewn egwyddor,—

yn gwadu auffaeledigrwydd,—yn addef, ac yn anog i farn bersonol, ond cyn gynted ag y meddyliom ac y barnom yn wahanol iddynt hwy, gwaeddant allan "Cyfeiliornad damniol," "Heresi," &c. ond am eu golygiadau eu hunain ni phetrusant haeru, "Hon yw'r ffydd Gatholig, yr hon pwy bynag nis creto nis gall efe fod yn gadwedig!!" Cyhuddant eraill fel auffyddwyr, yn ymddiried i reswm dynol, &c. Ond ymddengys i mi mai hwy eu hunain sydd yn euog o'r hyn y cyhuddant eraill; rhaid fod ganddynt hyder cryf yn eu rhesymau a'u golygiadau eu hunain, pan y meiddiant ddiarddel o'u cymdeithas yma, a chondemnio i boenau tragwyddol yn y byd a ddaw, y rhai nid ydynt yn credu eu "hanfodolion" hwy. "Pwy wyt ti, yr hwn ydwyt yn barnu gwas un arall, i'w Arglwydd ei hun y mae efe yn sefyll neu yn syrthio." Pwy a'ch gosododd chwi, foneddigion, i arddodi eich golygiadau ar eraill? O ba le y cawsoch eich awdurdod? Ai oddiwrthych chwi yr aeth gair Duw allan? Ai gyda chwi yn unig y mae Ysbryd Duw? Naill ai dangoswch eich *credentials* i'ch uchel swydd, neu rhoddwch hi i fynu; y mae yn ormod o'r dydd i chwi allu perswadio dynion eich bod chwi yn meddu y gwirionedd, a'r holl wirionedd. Os ydych mor hyderus yngwirionedd eich daliadau, nac ofnwch, "Gwirionedd sydd gadarn, ac a â ragddo." Yn mlaen yr elo nes diddymu pob gelyniaeth a chenfigen, ac uno dynolryw a'u gilydd, nes peri "Tangnefedd ar y ddaear, i ddynion ewyllys da."

Llynlleifiad. J. W.

TYSTIOLAETH LLYFR NATUR AM DDUW.

—

Parhad o'r tudal. 90.

—

Addewais y tro hwn i ymdrechu dangos pa fodd y mae drwg, neu boen, yn cymmeryd lle o dan lywodraeth Bod o anfeidrol gariad. Mae y cwestiwn hwn wedi bod, ac etto yn para i fod, yn dywyll iawn i'r hwn nad yw wedi talu sylw digonol iddo; ac o ddiffyg ei amgyffred yn dda, mae dyn yn methu rhoddi yr hyder hwnnw yn ei Dduw, a'i gwna yn foddlon ym mha gyflwr bynnag y byddo. Pan yr oedd Job dduwiol dan ei gornwydydd, o wadn ei droed hyd ei goryn, yn eistedd yn y llydw, dywedodd ei wraig wrtho o dosturi, "Melldithia Dduw a bydd farw." Pa sawl calon sydd yn y pedwarydd canrif ar bumtheg o oedran Iachawdwr y byd yr un olygiadau ar lywodraeth Duw a'r wraig ferbwyll hon? Mae lle i ofni fod llawer-oedd i'w cael, ïe hyd y nod o'r rhai a enwant eu hunain yn athrawon y gwirioneddau dwyfol. Pe yr ystyrient caent ganfod yn eglur fod,

> "Pob tynged groes beth bynag yw
> Yn sail i ryw ddaioni;"

Ac yna gofynnent i'w calonau, "A dderbyniwn ni y da, ac ni dderbyniwn y drwg o law yr Arglwydd?" "Ewyllys yr Arglwydd a wneler." I'r diben i gael yr olwg hon buddiol yw ystyried a oes dim un poen y gallwn ddywedyd am dano dyma yw diben hwn—lles dyn ydyw.—Mae llawer poen ag y mae dyn yn ddioddef yn angenrheidiol hyd y nod er cynnal ei fywyd. Un o'r rhai hyny ydyw poen chwant bwyd. Mae bwyd yn hanfodol angenrheidiol at gynnal dyn, a rhaid etto ei gymmeryd yn rheolaidd cyn cadw'r iechyd. I beri i ddyn gymmeryd lluniaeth yn rheolaidd mae poen wedi roddi yn y cylla, i'w adgofio fod y corph yn gofyn bwyd. Oni bai y poen hwn byddai y diog, a'r cybydd, yn sicr o farw o newyn ar fyr amser. Byddai diogi un a chybydd-dod y llall yn sicr o'u rhwystro i fwyta, dair neu bedair gwaith y dydd.

I beri i ddyn i gadw ei hun mewn gwres priodol, y mae yr oerfel yn boenus. Ni a wyddom fod pob gwaed yn rhewi mewn gormod o oerfel, ac am hyny yn myned yn rhy dew i redeg drwy y corph. Mae y poen hwn etto, fel alltudiad Joseph wedi ei beri gan Dduw er mwyn "*cadw einioes.*"

I'w rwystro i dwymno ei hun, nes byddo maeth naturiol y corph yn colli ei ffordd, y mae poen gan ormodol wres; ac os cyffwrdd tân a'r cnawd, y mae yn ysu mor angeriddol, nes yw yn ddîgon i losgi ymaith y croen mewn eiliad amrant; rhaid er mwyn rhwystro ei effeithiau dinystriol i'r poen a wna fod yn annioddefol o arteithiol, er mwyn gosod dyn ar ei wiliadwriaeth. Mae'r

poen hwn etto wedi ei roddi "er mwyn cadw einioes."

Oni bai poenau syched, ni byddai gwaed yng ngwythiennau dyn fawr o amser. Mae y poen hwn etto, fel y lleill, wedi ei drefnu nid gyda'r amcan o wneyd dyn yn annedwydd, ond er mwyn peri iddo i gymmeryd yr hyn sydd yn ofynol i'w gorph, er mwyn iechyd, a bywyd hwy i fyw ar ddanteithion y Nef.

Mae y poenau mae dyn yn gael wrth ddryllio ei gorph etto, yn atteb yr un diben, sef "cadw einioes." A pha fwyaf fo y perygl o golli gwasanaeth y rhan a ddolurir, mwyaf arteithiol o hyd yw y poen. Gwyr pob un fod llawer mwy o boen wrth i ryw beth i fyned i'r clust, na chyffwrdd â thor y llaw. Yr achos yw, fod rhaid i'r clust gael ei gadw yn hollol gyfan, cyn y gallo glywed yn iawn. Cryndod yr aer yn disgyn ar bilen y clust, sydd yn peri i ddyn glywed swn. Wrth fod un dyn yn llefaru mae a'i enau yn taro yr awyr a chwytha allan nes crynu yr aer fel tonnau y mor ar y traeth i ddisgyn ar waelod y glust neu y bilen, nes yw yn achosi i'r *nerve* sydd yn dwyn y teimlad oddiyno i'r ymenydd i gael ei chrynu o ben i gilydd. Rhaid fod y bilen yn dyn iawn cyn byth y gall gael ei chrynu gan y sisialad lleiaf; ac ychydig iawn fydd yn ddigon i'w rhwygo a pheri iddi beidio bod o ddefnydd byth. Gan fod y perygl yn fawr, mae y diogelwch yn cyfatteb. Hwnnw yw y poen mawr y mae dyn yn gael os cyffwrdd dim â'r clust oddifewn. Gofal Tad y trugareddau yw hyn etto am les ei greaduriaid; ac nid poen wedi ei roddi *er mwyn poeni.* Mae yr awyr yn denau, ac ysgafn, ac yn gofyn offerynau addas iddi weithredu arnynt. Ond y mae y goleuni yn fanach fyth. Treiddia hwn drwy y gwydr a geidw allan y gwynt yn ddiogel. Os bydd ond yr ammherffeithrwydd lleiaf yn y gwydr-ddrych (*looking glass,*) gwyr pob un fod y ddelw oddifewn yn anghywir. Rhaid cael pob cywirdeb yn y llygad cyn byth y byddo yr olwg yn eglur. Mae surni yr awyr yn sychu canwyll y llygad nes ei gwneuthur yn blygiadau i gyd, fel y canfyddir yn eglur yn llygad pob creadur wedi marw. Pan yr elo i'r sefyllfa hyn ni all ganfod dim yn eglur; am hynny y mae dal y llygad yn agored yn rhy hir yn peri poen iddo: mae y poen hwn yn peri i ddyn i eilio ei amrant, a than hwn y mae olew at iro yn y ganwyll i rwystro surni yr awyr i fod yn niweidiol iddi. Mae cariad Duw fel hyn yn gofalu am y dyn tra nad yw ef yn ystyried y perygl y mae ei lygad ynddo tiwy beri iddo i yrru ymaith y poen ag eiliad yr amrant. Gan fod yr awyr yn ddigon i beri i ddyn golli gwasanaeth ei lygad, pa faint mwy pethau caletach? Cymaint ag sydd yn eisiau yn fwy o gywirdeb yn y llygad nag yn y clust yw y poen a gyffwrdd ag ef yn fwy arteithiol. Mae y poenau hyn etto yn anhepgorol angenrheidiol i'r dyn. Nid oes yn bossibl dirnad pa fodd y gall dyn gadw ei olygon am ddeng mlynedd a thrugain hebddo. Nid oherwydd fod Duw yn ymhyfrydu yn mhoen ei greaduriaid, y mae y llygad mor annioddefadwy ddolurus wrth gyffwrdd ag ef; ond cosp y nef yw am beidio gofalu am dano. Mae yn rhybudd i ddyn wylied yn well rhagllaw. Cospedigaeth er mwyn diwygio ydyw. Tad pob daioni yn cospi er lles sydd yma etto. Felly y mae pob poen a wyddom beth yw ei ddiben wedi ei roi gy la golwg ar les dyn. Drwy holl natur nid oes un poen wedi ei roddi gan Dduw o gariad at y poen, ond er diben lles dyn. Os oes ambell boen nad yw dyn yn gallu canfod ei ddiben yn dda; nid iawn yw dywedyd am dano ei fod wedi ei roddi er ei fwyn ei hun, gan nas gellir dangos ei fod yn groes yn ei osodiad i bob un ag y gwyddys diben ei osodiad. Teg ydyw casglu mai i d liben da y mae hwnw hefyd o law Bod o anfeidrol gariad. Ffydd yn naioni Duw a'n rhwyma i gredu fod diben da mewn pob poen. Rhaid cyn boddloni i drefn Duw i bob un fod yn ddiysgog ei gred fod y cyfan er daioni. Tra y byddo ffydd yn rhy wan ei llygad i ganfod hyn, bydd y dyn yn sicr o feddwl, os na ddywed, gyda Jacob gynt, "I'm herbyn i y mae hyn oll," pan fyddo croesau a siommedigaethau yn dyfod i'w ran yn y byd. Daw gyda hwynt y gofid, yr anfoddlonrwydd, a'r galar yn genllif i'r fynwes, yn "drallod ac ing" am gam farnu gwaith ei Dduw. Byddant etto yn brawf digonol mai adnabyddiaeth o Dduw yn unig all roddi bywyd tragywyddol, fel y dywed ein Harglwydd Iesu Grist yn Ioan xvii. 3, "*A hyn yw'r bywyd tragywyddol; iddynt dy adnabod di yr* UNIG WIR *Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist.*"

Nid wyf yn cofio ond am ddau beth a feddylia rhai sydd yn dangos yn amlwg nad diben da oedd gan Dduw wrth eu trefnu: sef creaduriaid ysglyfaethus, a gwenwynllyd. Bernir ei bod yn anghy-

son â llywodraeth anfeidrol ddoeth, a da, i ganiatau i un creadur i fwyta y llall, ac yn enwedig na ddylai un creadur rhesymol a moesol fwyta cig un math o greadur afresymol. Felsiampl, dywedwn y blaidd a'r oen. Mae y blaidd wrth fwyta yr oen yn amlwg yn cael blas hyfryd ar ei ymborth; i bob tebygolrwydd yn gymmaint ag y mae'r ceffyl yn gael wrth fwyta ceirch, a dyn ei fara; ac am hyny mae daioni Duw tuag atto ef yn amlwg. Mae yr oen ar y cyfan o'i einioes yn cael mwy o lawer o bleser, nag o boen, a pha beth bynag fyddo ei derfyn, mae ei fywyd ar y cyfan wedi bod yn fendith iddo: felly ynte mae hwn wedi ei greu gyda diben da. Nid hyna yn unig ddylid ystyried, ond y canlyniad iddo o gael marw o henaint. Yn rhy hen i symmyd o fan i'w gilydd, rhaid fuasai iddo farw o newyn, gan nad yw y ddaear yn tyfu mor fuan ag i roddi cynnaliaeth i greadur na allo symmyd o fan i fan: ac am fod yr oen cyn tyfu yn llwdn yn fynych yn cael ei ladd gan ei elyn, nid oes ynddo un rhan yn fwy o anghyfiawnder na phe bai yn marw dan yr eira, pan newydd ei fwrw yn mis Chwefror. Onid yw yn beth cyffredin i weled dynion o drueni wrth hen greaduriaid fyddo yn eu meddiant yn eu crogi, eu taro i farwolaeth, neu yn eu saethu? Felly yn ol barn y tyneraf eu calonnau, gwell i'r creaduriaid afresymmol o leiaf ydyw angau disyfyd.

Mae y rhesymmau uchod yn atteb etto mor gymmwys i'r seirff fel na chaf ddywedyd dim yn eu cylch, rhag blino amynedd y darllenydd, ond fod dant gwenwynllyd un rywogaeth yn gwasanaethu er diogelwch y llall. Mae *Linneus* yn desgrifio dau cant a deunaw o wahanol rywogaethau o seirph, ac o'r rhai hyny nid oes ond deuddeg ar hugain yn wenwynllyd; ond y mae ar eu gelynion gymmaint o ofn y rhai eraill a'r rhai sydd â'r gwenwyn ynddynt, gan na wyddant y gwahaniaeth sydd rhyngddynt.

Yn erbyn Rhagluniaeth achwyna y dyn llawd yn rhy aml fod ei gymmydog cyfoethog yn derbyn mwy o roddion cariad Duw nag ef; ac er ei fod ef ei hun yn meddu llawer peth raid fod wedi deilliaw iddo o law cariad, etto fod yn amlwg fod Duw yn well tuag at lawer yn ei gymmydogaeth nac y mae tuag atto ef. Ei bod yn amlwg fod tuedd neu bartiaeth yn llywodraeth Duw. Diffyg ystyriaeth yw hyn, fel yr ymddengys yn amlwg oddiwrth yr hyn a ganlyn. Er mwyn chwilio i'r cwestiwn, bwriwn fod holl gyfoeth y byd yn cael ei ranu yn gyfartal hollol rhwng pob dyn byw. Yr un peth i'r hen a'r ieuangc; i'r dyn deg ar hugain ac i'r baban newydd eni; i'r gwryw ac i'r fenyw; i drigolion y gwledydd poethion, a thrigolion rhanau oeraf y ddaear. Os y buasent oll i fyw fel y tybia rhai fod Adda yn byw yn Eden, mae yn amlwg y buasai iddynt ddifa holl ffrwyth llafur dyn mewn ychydig amser, ac oni weithient bob unyr un mor ddiwyd a'u gilydd, rhaid ar fyr amser y buasai gan y mwyaf llafurus fwy o ffrwyth daear na'r diog. Rhaid hefyd na allasai na'r baban na'r henwr fod o nerth y cryf ym mlodau ei ddyddiau: at hyn angenrhaid fuasai i'r ddaear ddwyn yr un faint o gynnyrch yn y cylch crasboeth a'r un rhewllyd, ïe angenrhaid fuasai fod grym, deall, a ffurf pob dyn mor berffaith yr un fath fel nas gallasai y tad adnabod ei fab na'r mab ei dad. Os na fuasai hyn a llawer o bethau eraill rhy faith eu crybwyll, mae yn amlwg y buasai i un gyfoethogi yn fwy na'r llall; ac os teg fuasai i bob un gael mwynhau ffrwyth ei lafur ei hun mewn diogelwch, elai ei gyfoeth ar fyr yn helaethach. Gyda yr ail genedlaeth elai yr anghyfartalwch yn fwy fyth. Os teg i bob un gael meddiannu ei foddion ei hun tra yn fyw, cymmwys hefyd iddo gael eu rhannu rhwng ei blant yn ol marw. Byddai unig blentyn ei dad a'i fam yn ddeg gweith yr un fuasai yn nn o ddeg. Naturiol ynte yw casglu nad elai fawr cenedlaethau heibio heb ddwyn gyda hwynt gymmaint o anghyfartalwch mewn meddiant cyfoeth ag y sydd y dydd heddyw. Yr achos o'r achwyniad am gyfoeth y mawrion ydyw y cam brisiad y mae dynion yn wneuthur o aur, ac arian. Pe aylwai yn graff, canfyddai yn eglur nad yw y rhai hynny yn fwy dedwydd nag eraill; ïe fod llawer o honynt yn fwy annedwydd na'r llafurwr yn y clawdd: yn ol rhifedi cyfoethogion, a thlodion, y mae mwy o beth dirfawr o afiechyd yn mhlith cyfoethogion, yr hyn a eglur ddengys fod gweithio yn tueddu i gynnal iechyd. Mynychach o lawer mae y gwr sydd yn cael ei rwystro i weithio gan ei gyfoeth yn annedwydd ei gyflwr. Am fod yr amser yn rhy hir i'w dreulio, y maent yn dyfeisio rhyw ddifyrwch neu gilydd a wedda yn fynychach i feddwl babanaidd nag i ddyn mewn oedran pwyll. Un diwrnod gwelir hwynt wrth y *cardiau:* diwrnod arall mewn rhyfel â'r ysgyfarnogod, fel rhai yn ymhyf-

rydu ym mhoen eu cydgreadur; a phan na byddo hynny, mae eu balchder yn peri i lawer o honynt frawychu y gymydogaeth y maent yn trigo ynddi. Gwir yw y gair mai'r "Neb a chwanega olud, a chwanega flinder," ac hefyd mai "Melus yw hun y gweithiwr pa un bynag ai ychydig ai llawer a fwytao: ond *llawnder y cyfoethog ni ad iddo gysgu.*" Dyna brofiad y brenin cyfoethoccaf yn ei oes—un ag oedd, pan yn dechreu adeiladu y deml yn Jerusalem, yn ddigon ei gyfoeth yn ol hanes, i dalu dyled coron Shiors y trydydd o Loegr. A phwy allai ffurfio barn well na Solomon, y doethaf o frenhinoedd yr Iuddewon? Etto, pe na byddai rhai cyfoethogion ni byddai un diwygiad i'w weled o genhedlaeth i genhedlaeth. Ond nid wyf yn bwriadu yma i ysgrifenu amddiffyniad o ddoethineb cyfreithiau dyn; digon i'm amcan yw dangos fod Duw yn dwyn lles dyn yn mlaen yn y dull presenol. Er siampl, mae cyfoeth anferthol y meistri haiarn yn y gymydogaeth hon, yn rhoddi gwaith i filoedd lawer o ddynion, ac yn eu galluogi i ddwyn i fynu deuluoedd mewn cysur. Heb y gweithfeydd haiarn pa fodd y gallasid gwneyd nac aradr nac oged, llif na bwyall, nac un peth sydd yn y ty a "gwaith gof arno." Amlwg yw fod Duw a'i law ar waith yn goruwchlywodraethu cyfoeth y naill i fod o wasanaeth i'r llall. Ië, yn wir fynychaf, nid yw y cyfoethog ond goruchwyliwr dan Dduw, ar yr aur, a'r arian, er lles lluaws, ac yn llai ei fwyniant drwy ei drachwant a'i ofal nâ'r rhan amlaf, a fernir gan ddyn ydynt yn ymddibynu arno. Yma ynte ni feia y doeth ar drefn ei Dduw.

I'w barhau.

GWYTHIENAU GLO.

Y TRAETHAWD.

Nid oes nemawr o bynciau pwysig daearddysg, ar ba un y mae ein dysgedigion yn fwy unfrydig, nac yn y gred mai dail, llysiau, a choed wedi pydru sydd yn ffurfio ein gwelyau glo. Gwelir Dr. Buckland, (1) Sir Henry De la Beche, (2) Professor Ansted (3) ac eraill, yn gosod hyn i lawr fel gwirionedd diamheuol. Cyfyngaf fy hun gan hyny i roddi ychydig o sylwadau ar y dull ymha un y cymmerodd hyn le. Meddylia M. Adolphe Brogniart, (4) fod yr awyr yn amseroedd boreuol y ddaear yn llawn o'r tawch marwol adnabyddus dan yr enw *carbonic acid gas.* Deallir oddiwrth natur wenwynig y tawch, nad oedd yn bosibl i anifeiliaid tir fyw mewn awyr o'r fath; ac y mae y ffaith nad oedd anifeiliaid tir yn byw yn yr oesoedd hyny, yn profi gwirionedd syniadau cyfrwys M. Brogniart. Ond os oedd anffafriol i anifeiliaid, nid oedd mor anghyson a bywyd llysieuol; ac yn y ffaith hon ceir yr eglurhad goreu o'r achos fod rhedyn yr amser hwnw yn bedwarugain troedfedd o hyd, a bod dros drichant a thriugain o wahanol lysiau yn y gwythienau glo. Rhoddir gan ddaearddysgawdwyr ddau eglurhad o'r amgylchiadau dan ba rai y ffurfiwyd y glo. Dywedir gan bleidwyr un farn, gan ddilyn y ffeithiau a welir yn y Mississipi, un o afonydd yr Amerig, i'r dail a'r coed gael eu golchi i'r mor, a'u gosod yn ei waelod; ac i dywod y mor orphwys arnynt, a chael eu golchi drostynt nes iddynt ffurfio y *shale* a welir rhwng y gwythienau. Meddylir i gronfaoedd o'r fath hyn gymmeryd lle amryw o weithiau, nes achosi yr holl welyau a hanfodant yn bresennol. Gan eraill haerir i'r tir suddo, ac i'r mor ddyfod dros y tir, ac i'r tir wedi hyny gael ei wthio i fynu; ac i hyn ddygwydd cynnifer o weithiau ag sydd o wythienau glo. Ceir rhesymau cryfion dros bob un o'r ddau eglurhad. Cefnogir yr haeriad cyntaf gan y pethau a welir yn yr Amerig; a chefnogir yr ail gan y ffaith nad oes cregyn morol i'w cael yn y glo, er eu bob yn aml yn y *shale* rhwng y gwythienau, ac hefyd gan y wybodaeth fod mewn rhai mannau i'w gweled ambell i bren yn sefyll yn nghanol y tir fel yr oedd oesoedd cyn hyny. Rhwng y ddau pwy sydd i wahaniaethu? "Efallai" i ddefnyddio geiriau awdwr am yr hwn (1) gwneir mawr swn yn y byd dysgedig, "y byddai gallach ini ddweud fod glo wedi ei ffurfio dan bob un o'r amgylchiadau hyn; ond dylid cyfrif yr olaf yn eithriadau."(2)

Ceir glo yn Ewrop, Asia, ac America; a dywedir gan un o'r enw Rogers fod glo i'w gael yn yr Amerig yn y Trydydd Ffurfiad, (Tertiary Formations) tra yn yr hen fyd nid ymddengys yn ddiweddarach na dechreu yr Ailffurfiad. Ymddengys fod glo yn Russia, Ffrainc, Lloegr, Iwerddon, yr Alban, a Chymru. Y mae tri math o lo, 1. Y glo rhwym; 2. Glo "cannel;" a 3. Glo carreg. Yn Lloegr ceir y cyntaf yn Northumberland a Durham; yr ail yn yr Alban a Lancashire; a'r trydydd, yr hwn sydd yn Staffordshire, yr Alban, ac yn Nghymru.

Cyfeiriaf fy sylwadau yn fwyaf neilduol at weithiau glo y deheudir, sef y *South Welsh Coalbasin*, yr hwn a ddesgryfier gan Conybeare a Phillips fel y canlyn:—Y mae dros gan milldir o hyd, sef o Bontypool i Hwlffordd, ac yn Siroedd Mynwy, Morganwg, a Chaerfyrddin, yn ddeunaw neu

(1) Bridgewater Treatise, Vol. i, p. 64.
(2) Manual of Geology, p. 424.
(3) Ansted's Geology, Vol. ii, p. 326, and Vol. i, p. 346.
(4) Penny Cyclopedia, Article, Geology.

(1) Sir Richard Vyvyan, awdwr y "Vestiges of Creation."
(2) Vestiges, p. 83. 3rd Edition.

ugain milldir o led. Yn Sir Benfro nid yw yn rhagor nac o dair i bump milldir o led. Cynnwysa ddeuddeg gwely o lo o dair i naw troedfedd o drwch, yn oll 70½ o droedfeddi; ac hefyd unardded o welyau ereill yn 24½ o droedfeddi. Trwch y cwbl yw 95 o droedfeddi. Saif Merthyr yn y canol rhwng y glo rhwym a'r glo carreg—fel yr elych tua Phontypool ceir y glo yn fwy a mwy rhwym; tra yn yr oehr arall tua Chwmnedd, a Sir Gaer, bydd yn galetach pwy bellaf yr elir. Y gwahaniaeth rhwng glo rhwym a glo carreg yw fod y glo rhwym yn cynnwys mwy o'r tawch a elwir *carburetted hydrogen.*

Yn awr cyfyd y pwngc mwyaf neillduol, Beth yw achos y gwahaniaeth? Ymddengys yn eithaf amlwg mai yr un achosion cyffredinol sydd am y glo carreg a'r glo rhwym; ac ymhellach, mai rhwym oedd yr holl lo un amser. Tebygaf fod yr hyn sydd yn awr yn lo carreg, unwaith yn lo rhwym; ac y byddai i'r glo rhwym gael ei droi mewn ystod amser, gan yr un achosion, yn lo carreg. Nid yw y glo carreg yn cynnwys unrhyw beth, nad yw yn yr un rhwym; na'r glo rhwym unrhyw beth nad yw yn y glo carreg; yr unig beth a wahaniaetha rhyngddynt yw fod rhagor yn y glo rhwym (yr hwn sydd lawn o hono) nac yn y glo carreg, (yr hwn ni chynnwys ond ychydig) o *carburetted hydrogen.* Beth sydd wedi gyrru y tawch hwn o'r glo carreg? Dwy neu dair blynedd yn ol cyhoeddwyd llyfryn dan yr enw, "Geology and Terrestial Magnetism," gan Mr. Evan Hopkins, (1) o Benydarran, yn yr hwn ymdrechir i eglurhau amryw o'r cyfnewidiadau daearol trwy ddefnyddioldeb tryawch (*magnetism.*) Nid oes lle i ddadleu nad yw Hopkins yn ddyn gwybodus; ond rhaid cyfaddef gyda Phrofesswr Ansted fod ei gasgliadau yn rhy fyrbwyll; ac ei fod yn rhy esgeulus o elfenau "*Inductive Logic,*" i gael ei gyfrif yn awdurdod celfyddydol. Nid gwiw, gan hyny, rhoddi llawer o bwys ar y rhannau o'r llyfr ymha rai tuedda i ddangos mai tryawch yw'r achos am ba un yr ymofynwn. Achos cyffredinol yn treiddio holl natur yw tryawch; ac am hyny, os ei effeithiau ef a welir mewn rhai mannau, dylent fod yn amlwg mewn llefydd eraill. Pe bai felly, byddai glo carreg yn Sir Fynwy yn gystal a Sir Benfro; ond nid felly y mae. Rhaid ymofyn am achos mwy cymmwys a chyfaddas.

Dywedir gan Liebig, y ffeyllydd enwog, fod glo rhwym yn cael ei droi yn lo carreg, wrth yrru yr *hydrogen* maes o hono; (2) ac y gellir gwneud hyn trwy offeryniaeth gwres.(3) Ond o ba le oedd y gwres yn dyfod at y gwelyau glo? Edrychwn. Dr. Hutton oedd y cyntaf, i feddwl fod mor o dân yn eigion y ddaear; ac yn y dyddiau hyn ceir y rhan fwyaf o ein dysgedigion nid yn unig yn credu am ei fodoliaeth, ond yn alluog i ddeall y gyfraith naturiol yn ol pa un y gweithreda. Gosodir hon i lawr gan y dysgedig Barwn Humboldt, yn ei "Cosmos" fel y canlyn:—Ceir pwynt ychydig islaw gwyneb y ddaear, lle nid oes bellach wres oddiwrth yr haul. Yno dechreuir teimlo gwres o eigion y ddaear, yr hwn a gynnydda fel yr elom i lawr, mewn cyfartaledd o un gradd ar wres-fesurydd Fahrenheit at bob triugain troedfedd o ddyfnder. Nid oes lle i ddadleu hanfodiad y canolwres hwn.

Wele ni wedi cael gafael yn y gwres. Yn awr am y profion o'i fod mewn gweithrediad. Os cywir ein syniadau byddant y gwythienau glo yn galedaf yn y gwaelod, ac yn meddalu fel yr esgynom tua gwyneb y ddaear. Ac felly y ceir hwynt. Yn Sir Fynwy, nid ydynt wedi cyrhaedd, hyd yn hyn, y gwythienau iselaf, sef y rhai celyd; ond gweithiant y rhai nesaf at y wyneb. Yn Nowlais ychydig yn is i lawr, ceir glo hanner rhwym; oddieithr ym mhwll *dwfn* Cwmbargod lle ceir glo caled. Ceir caletach glo yn y Gyfarthfa, nac yn Nowlais; a chaledach glo yn ngwaith Mr. Hill nac yn y Gyfarthfa; ac yn Nghwmnedd,(4) Glyntawy, ac Ynysgedwin, tir y glo carreg, nid ydynt y gwythienau rhwym i'w cael---darfyddant yn y mynyddoedd. Nid ydynt y ddwy wythien gweithiadwy yn Mhontypool, yn rhedeg mor belled a Sir Benfro; ond darfyddant ym mynydd Aberdar. Ym Merthyr ceir glo rhwym, a glo carreg;---y glo rhwym ar y wyneb, sef gwythien Evan Evans, y glo caled yn y gwaelod, a'r gwythienau yn caledu pa ddyfna yr elir.

Ceir profion cedyrn dros farn y traethodwr, fod y canolwres mewn gweithrediad yn y dyddiau presennol. Gwelir hyn yn yr ymollyngiad o'r tawch *carburetted* hydrogen sydd yn cymmeryd lle yn feunyddiol; ac hefyd yn y tarddiad o'r *gas* hwn yn afon Dâr, mor adnabyddus i drigolion Merthyr ac Aberdar. Prawf arall a geir ynghyflwr y glo gerbron yr ymwthiadau a elwir *faults.* Y diffygion hyn ydynt o'r un cyfansoddiad a'r *lava* a deflir allan o'r mynyddoedd tanllyd; a pha le bynag y byddont yn agos i'r glo rhwym, gwelir y rhannau cyfagos wedi en troi yn lo carreg.(5) Ceir llawer o ddiffygion yn y glo,---ond nid uwchben; ac ymddengys oddiwrth hyn, fod amser ffurfiad y glo yn dra therfysglyd.

Wele, yn ol barn yr ysgrifenydd, wir achos glo carreg. Yn y llinellau blaenorol, bu yn bwyllog; o flaen pob casgliad, rhoddir y ffeithiau ar ba rai ei sylfaenir; ac am bob haeriad rhoddir yr awdurdod. Lled anhebyg gan hyny, yw fod ynddo lawer o gamsyniadau; er y dichon i lygad craffus, weled beiau cuddiedig oddiwrth

PHILOTHEOROS.

(1) "He assumes hypotheses concerning the nature of magnetic action, which are not in any way borne out by the facts he adduces."—Ansted. Vol. i. p. 278.

(2) Liebig's Edition of Turner's Chemistry, p. 1176.

(3) Yr un awdurdod, tudal. 1182.

(4) Rowland Thomas, Merthyr, "On the Mineral Basin of Glamorgan," p. 4.

(5) Penny Cyclopedia. Article "Anthracite."

LLESHAD TYMHESTLOEDD.

—

Mr. Golygydd.—Os bernwch y sylwadau canlynol yn deilwng o sylw darllenwyr yr Ymofynydd maent at eich gwasanaeth.

Gan fod y gauaf yn agoshau, bryd, digon tebyg, y cawn nawr ag eilwaith dywydd tymhestlog ac oer; a chan yn fynych yr achwynir ar yr hin, a disgwylir gwenau y Gwanwyn, gostegiad y gwyntoedd a chyfnewidiad y tywydd ymhob ystyr; gwnaf nodi allan rai pethau all argyhoeddi yr anwybodys a'r diystyr mai ein dyledswydd ydyw diolch i Dduw am y stormydd ac nid grwgnach. Bydded i ni ystyried fod brwdianwch yr haf a'r hydref, wedi trymhau yr awyr i raddau helaeth, a'i gwneuthur yn rhanol yn afiach, ac mai gwir ydyw fod y stormydd yn foddion hollol addas i symmud ymaith yr amhurdeb hynny, trwy buro yr awyrgylch: er ein hargyhoeddi o hyn, nid oes eisiau ond yn unig sylwi ar drymder yr awyr yn yr hydref, pan mae *niwl* a *tharth* tew ag afiach, yn tywyllu ein broydd, a'r gwlawogydd tawel, tywyll, yn canlyn, nes byddo'r hwn fo'n afiach yn teimlo gymaint fel y syrthia i'r ddaear fel deilen; stormydd bryd hyn ydynt foddion appwyntiedig gan Dduw i wasgaru y tarth afiach, a'i symmud oddiwrthym: llesiol gan hynny yw stormydd, ac arddangosant ddoethineb eu trefnwr, a dylent ein dwyn i ymdawelu hyd yn nod pan fyddo ein tai yn crynu gan nerth y gwyntoedd. Mae yr holl fydysawd yn cael ei lywodraethu gan gyfreithiau sefydlog, fel dyn; yr hwn yn briodol a gyfenwir yn *fyd bychan*. Mae ein iechyd yn gynnwysedig mewn mesur helaeth, yn nghyffroad a chymysgiad y gwahanol irderau; pa rai, heblaw hyn, fyddai yn fuan i lygru.

Mae tymhestloedd hefyd yn effeithiol er lleshad y byd difywyd, a'r creaduriaid afresymol, yn gystal ag er lleshad dynolryw, o herwydd fod puro yr awyr trwy wyntoedd yn dadebru natur ymhob ystyr. Mae yn amlwg hefyd fod tymhestloedd yn llesiol i'r mor. Pe na fuasai i'r mor gael ei gymmysgu nawr ag eilwaith, cronfa, hyd y nod o ddwfr hallt, gynnrychiolai radd o fallder neu fraeniad; yr hyn berai nid yn unig i liaws aneirif o bysgod sy'n byw ynddo i drengu, ond byddai yn fuan yn beryglus i iechyd y rhai sy'n mordwyo drosdo. *Cyffroad* ydyw enaid neu fywyd natur yn gyffredinol, mae'n cadw pob peth mewn trefn ac yn rhagflaenu dinystr. Pe buasai y mor yn eithriad o'r rheol gyffredinol, gan mai efe ydyw derbynfa cyffredin pob sothach o'r ddaear; lle mae cynnifer o filiynau o wahanol sylweddau yn pydru; a phe na buasai bob mynyd yn cyffroi neu yn ymgymysgu, buasai yn fuan yn amhuro ac yn llygru pob peth ag annioddefol ddrewdod.

Mae cyffroad yn llwyr mor anghenrheidiol i'r mor, ag ydyw cylchrediad y gwaed i anifeiliaid: Yr achosion eraill sy'n peri cyffroad *rheolaidd, araf, gwastadol*, sy'n annigonol i gadw yn bur yr holl bentwr dyfrllyd. Nid oes dim ond stormydd yn alluog i ddwyn oddiamgylch yr effaith hyn; a gwelir fod dirfawr lesiant yn deilliaw oddiwrth hyn, nid yn unig i ddynion ond hefyd i fyrddiynau o greaduriaid eraill.

Mae y pethau grybwyllwyd yn gynnwysedig, feddyliaf, yn y llesiant sy'n deilliaw oddiwrth dymhestloedd, ac yn rhai ddylai ein lluddias rhag eu hystyried megys fflangellau dinystriol ag offerynau dialeddawl Duw. Gwir yw fod stormydd yn fynych wedi distrywio llaweroedd o longau llwythedig o feddiannau gwerthfawr; a diddymu gobeithion y llafurwr a'r garddwr, wedi anrheithio llawer o daleithiau, ac wedi taenu dychryn, anghyfannedd-dra ac arswyd ym mhob lle. Ond pa beth sydd mewn natur nad oes anghyfleusderau yn gyssylltiedig ag ef: ac nad ydyw yn rhyw fodd neu gilydd yn niweidiol? A ydym ni i ystyried yr haul yn y rhifres o'r fflangellau, o herwydd ei orsafiad fod y ddaear am ryw fisoedd yn anffrwythlon, ac ar amserau eraill ei wres yn poethi ac yn sychu fynu ein maesydd? Yr ymddangosiadau hyn ddylent ymddangos yn erchyll i ni, pe byddai y manteision yn ychydig neu ddim mewn cydmariaeth i'r aflwyddiant sy'n cydfyned â hwynt. Ond a ellir dywedyd hyn am y stormydd, pe yr ystyriem y budd sy'n deilliaw odddiwrthynt i'r ddaear, i ddynion ac i anifeiliaid? Bydded i ni gan hyny i ystyried a chyfaddef fod Duw wedi ffurfio y cwbl mewn doethineb: ac y dylem ni fod yn foddlongar yn y sefydliad presenol o reolau natur yn ei gwahanol osodiadau. Dedwydd yw y rhai sy'n canfod fod pob peth trwy'r greadigaeth yn tueddu er lles cyffredinol ei phreswylwyr, fod yr hyn *gyfenwir* yn ddrwg yn y byd, yn cael ei orbwyso gan liosowgrwydd y daioni; ac fod y moddion mae Rhagluniaeth yn ddefnyddio i'n profi ynddynt eu hunain yn anhebgorol angenrheidiol er eu lleshad: bydd trwy hynny, haf a gauaf, oerni a gwres, tawelwch a thymhestl yn cael eu hystyried yn gydwerth.

Ydwyf, yn ostyngedig, &c.

Tachwedd 9fed, 1847. Jonah.

SYLWADAU AR OFYNIADAU PHILO RHIF. YR AIL—TUDAL. 40.

—

Gof. 1. Ai nid gwir nad yw'r fath air a *tawn* i gyfiawnder idd ei gael yn yr Ysgrythyrau?

Ateb. Gwir, fod yr Ysgrythyrau yn ein

dysgu fod iawn yn egluro cyfiawnder yn maddeuant pechodau.—Rhuf. 3. 26.

G. 2. Ai nid gwir nad yw yr Ysgrythyrau yn son dim am haeddiant Crist?

A. Gwir, fod yr Ysgrythyrau yn ein dysgu fod Crist wedi cymmeryd lle eraill, a hyny wedi atteb diben i'w cael hwy yn rhydd. —2 Cor. 5. 14, 15. 1 Cor. 6. 20. 1 Pedr 1. 18. 19, 1 Tim. 2. 6. Pan gwneir pethau o'r natur hyn mewn ystyr naturiol, nid oes byth ddadleu yn eu cylch; ond addefa pawb fod yr hwn a wna hyn yn deilwng o ganmoliaeth a chlod, a'r hyn a wneir yn deilwng o gael ei alw yn *werth* neu yn haeddiant. Cymmered Mr. Philo ei eiriau ei hun i egluro hyn, mae iddo bob rhyddid a groesaw, ond cofied wneyd hyny yn gydwedd a'r Bibl, yr hwn y cyfeiria gymmaint atto yn ei Ofyniadau.

G. 3. Ai nid gwir *nad* yw yr Ysgrythyrau yn son dim am ymddiried yn aberth Crist, ymddiried yng waed Crist, ymddiried yn marwolaeth Crist, &c.

A. Dysg y Bibl i ni, fod Crist wedi aberthu ei hun, tywallt ei waed, a marw dros ddynion.—1. Aberthu ei hun, Eph. 5. 2. 2. Tywallt ei waed, Eph. 1. 7, Col. 1. 14. 3. Ei farwolaeth, Rhuf. 5. 6, 8, 10, 1 Cor. 15. 3. Gallasid difynu amrywiol adnodau eraill i'r un perwyl. Ond gwasanaethed cynnifer a hyna yn bresenol. Dichon y gofyna Mr. P. Pa un o'r adnodau hyn sydd yn son am *ymddiried yn aberth*, gwaed, a marwolaeth Crist? Attebwn, eu bod oll yn ein dysgu bod cyssylltiad rhwng aberth, gwaed, a marwolaeth Crist, â dynion, ac mai trwyddynt (er mai un peth a olygant) mae Duw yn maddeu pechod, ac nad oes gan bechadur obaith am fywyd tragwyddol ond yn y drefn yma. Yn awr os gwnaeth Crist aberthu ei hun, tywallt ei waed, a marw dros ddynion, onid gwael yw yr oll a wnaeth? os nad yw yn werth ymddiried ynddo?

G. 4. Dan y Gofyniad hwn cyfeiria Mr. P. at adn. yn yr Eph. yr hon a gamgyfieithir, os *yn* Nghrist ac nid er *mwyn* Crist yw y cywiraf; Pa beth a enillwch trwy hyn? Crist yw cyfrwng y gweinyddiad yn ol y ddau gyfieithad. Pe gallasech eu gosod *heb* Grist, gallasai hyny fod yn fantais i chwi; ond mae hyn yn ormod gorchwyl dybiaf.

G. 5. Pe dywedid yn y Bibl bod Duw yn maddeu er *mwyn* Crist, a fyddai yn canlyn o angenrheidrwydd, fod Duw yn maddeu er mwyn iawn i gyfiawnder.

A. Byddai yn canlyn o angenrheidrwydd mai er mwyn Crist y byddid yn maddeu ac nid er mwyn dim arall. O berthynas i'r enw rhoddir ar hyn, nid yw gymmaint pwys; er byddai cytuno ar hyn yn dda. Meddyliaf mai yr unig beth sydd yn eich blino ydyw yr hyn a olygir yn gyffredin gan bleidwyr *iawn* ac nid yr enw rhoddir arno. Pe cytunem am ddiben marwolaeth Crist, sef ei gwasanaethgarwch moesol a naturiol, nid hir y byddem heb gytuno ar eiriau. Wrth derfynu gobeithio na wna Philo ysgoi yr adnodau a ddifynwyd, ond y gwna eu hegluro mewn cysylltiad a'i ofyniadau.

Ydwyf, yr eiddoch,

Y Darllenydd.

Y SENEDD.

Yn fuan wedi cyfarfod y Senedd, appwyntiwyd *Committee*, i ystyried y caledi sydd wedi bod ac i fesur yn para i fod ar y wlad, o achos y diffyg o arian, a chymmaint o fasnachwyr a *Banks* yn torri.

Y mae *Bill* yn awr dan ystyriaeth Ty y Cyffredin, ag sydd yn debyg o gael ei bassio ar fyr iawn; er galluogi y Llywodraeth i osod diben ar y fath drawsder ac afreolaeth ag sydd yn ddiweddar wedi cymmeryd lle yn yr Iwerddon; ac i ddal a chospi y drwgweithredwyr. Y mesurau a gynnygir tuag at hyn, fydd rhoddi awdurdod i'r *Lord Lieutenant* i ychwanegu at nifer y *Police*, fel y gwelo yn rhaid, yn y taleithiau afreolus; a rhwystro neb i gario arfau, nac i gadw arfau yn eu tai, ond y sawl y byddo y Llywodraeth yn caniattau hynny iddynt.

Y mae yn ddrwg gennym i ddywedyd fod aml ymosodiadau wedi eu gwneuthur i yspeilio dynion ar y ffordd fawr yn ddiweddar; ym Morganwg ac yn Sir Fynwy. Y mae yn lled beryglus yn y cym'dogaethau hyn, i drafaelu yn unig neu ar hyd nos. Y mae y ddau ddyn (Fleyd a Mahoney) a yspeiliasant y Dr. Bowring a'i frawd o fil o bunnau, wedi eu dal, ac yn awr yng ngharchar.

Y mae mwstwr mawr ymhlith yr Esgobion a gwyr Eglwysig eraill yn y dyddiau hyn, ynghylch appwyntiad Dr. Hampden gan y Llywodraeth i fod yn Esgob Henffordd. Cyhuddwyd Dr. H. o *heresi* rhai blynyddau yn ol yn gyhoeddus yn Rhydychain. Barna rhai mai y gwir achos o'r gwrthwynebiad iddo yw, ei fod yn *rhy Protestanaidd* at flas y rhan amlaf o Offeiriaid yr oes.

NEWYDDION TRAMOR.

AMERICA.

Y mae y rhyfel rhwng yr Unol Daleithau â Llywodraeth Mexico, heb ddyfod etto i un terfyn. Wrth bob hanes, er bod gwyr Mexico wedi colli pob brwydr hyd yma, a gorfod, y mae'n debyg, rhoddi i fynu eu Prif-ddinas i'w gelynion; nid oes un argoel yn bresennol

y bydd iddynt ymostwng, na derbyn yr hyn a gynnyga yr Americaniaid, fel ammodau heddwch.

SWITZERLAND.

Da gennym weled fod yr hanesion diweddaf yn rhoddi ar ddeall fod y *Rhyfel Cartrefol* rhwng *Cantons* Switzerland wedi terfynu dros y pryd hwn. Ar ol brwydr neu ddwy, gorfu ar blaid y *Sonderbond*, a goleddai y Jesuitiaid, roddi i fynu ac ymostwng. Gobeithiwn fod achos y cweryl wedi ei symmud, ac na chaiff y Jesuitiaid bellach aflonyddu heddwch werin-lywodraeth y Cantons.

IWERDDON.

Y llynedd yr oedd *newyn* a *haint* yn gwneuthur difrod ofnadwy ar drigolion yr Iwerddon. Yleni, y tri mis diweddaf, rhyw ysbryd o ddialedd gwyllt a llofruddiaeth, sydd wedi bod ar eu gwaith mileinig yn rhai taleithiau o'r wlad anffortunus hon. Y Newyddiaduron, o wythnos i wythnos, a ddywedent am ddynion enbyd a aethent o amgylch gan yspeilio tai o arian ac arfau; neu ynte byddent yn cynllwyn i ladd rhyw bersonau a fyddent yn ddig wrthynt, megys Casglwyr trethi, Stiwardiaid, neu Berch'nogion Tiroedd. Ymhlith eraill a fuont mor anffortunus â bod yn wrthrychau y digofaint yma, yr ydys wedi talu sylw neillduol, yn y Senedd ac yn gyffredin trwy'r wlad, i lofruddiaeth Major Mahon a'r Parch. Mr. Lloyd; y rhai a laddwyd, nid ar yr un pryd, ond ill dau trwy saethu attynt ar eu ffordd yn dychwelyd tua'u tref. Y fath ddychryn oedd ar y cym'dogaethau lle digwyddodd hyn, fel nad oedd neb yn beiddio canlyn y drwg-weithredwyr, na dywedyd pwy oeddent, os gwyddent.

Y mae yr hanesion diweddaf o'r Iwerddon yn fwy ffafriol na'r rhai o'u blaen. Ymddengys fod y Llywodraeth yn benderfynol i ddefnyddio mesurau cryfion tuag at osod terfyn ar y fath afreolaith creulon a gwarthus.

BARDDONIAETH.

Aberdar, T'achwedd y 9fed, 1847.

ANWYL SYR,

Ddoe ysgrifenais i'w hanfon i chwi Englynion Mr. Davis, Castell Howell, i'r Chwildroad ofnadwy fu yn Ffraingc yn y flwyddyn 1789. Wele heddyw i chwi rai eralll a ganodd ef i'r offeiriaid a'u Ymprydiau gwladol. Wrth weled Eglwys sefydledig Ffraingc wedi syrthio, fe ddarfu i offeiriaid Eglwys Loegr frawychu mor fawr, gan feddwl mai eu tro hwythau fyddai y nesaf, fel mai *Gwaed!* GWAED! *yn unig* allai dawelu eu meddyliau. Bob blwyddyn yr oedd y Brenhin yn cyhoeddi dydd Ympryd; a'r Arch Esgobion, esgobion, a'r offeiriaid, yn eu gweddiau yn ymdrechu i *berswado* Duw, mai Hereticiaid, Anffyddwyr, ac *Atheistiaid*, oedd eu gelynion yn Ffraingc. Crefent lawer arno i blanu dewrder, a doethineb ym milwyr Shior y III; dadymchwelyd cyngorion blaenoriaid y Ffrangcod, a llanw calonau y milwyr ag ofn, braw, a llesmair. Dan enw gweision i'r hwn a ddywedodd, "*Bendithiwch y rhai a'ch melldithiant: gwyddiwch dros y rhai a'ch drygant. Ac i'r hwn a'th darawo ar y naill gern cynnyg y llall hefyd; ac i'r hwn a ddygo ymaith dy gochl na wahardd dy bais hefyd.*" Taer weddient ar Dduw am ddinystrio eu brodyr yn Ffraingc. Mae Mr. Davis yn yr Englynion canlynol ar ol darlunio sefyllfa y wlad yn dywedyd mai yr achos oedd i'r diawlaid droi ar stymmog uffern nes iddi eu chwydu allan; a chwedi crwydro drwy leoedd sychion iddynt wneud eu trigfa yn nghapiau'r esgobion: Mal hyn

Aml dew gymylau dnon,—a guddiant
Deg wedd y ne' dirion:
Oer gryd sy'n y ddaear gron,
A galar i'w thrigolion.

Gwewyr, a gwae'r gwyr gwirion;—gwae ragor
I'r gwragedd a'r meibion;
Gwae'r ifaingc dêg wyryfon,
Bawb a'r sy'n byw yr oes hon.

Gwiw dda ymwared gadd y meirwon,—oll
Rhag gallu gelynion,
Ag ni ddaw drwg newyddion,
I'w di stwr dai is daear don.

Chwyd uffern gethern o gaethion,—diriaid
I'n daear yn draedryddion;
Crwydrant,—a rhuant drwy hon,
Golldorf o ddiawlaid gwylltion.

Er brathu mêr y Brython,—hwy gipiant
Deg gappau'r esgobion;
Llais *gwn* a llewis gwynion,
Eglwysig, o'r bîg i'r bôn.

Amhrydferth, anferth anfad,—rhoi'r degwm
I'r diogyn di alwad;
Y gwr, newyna'i giwrad,
Dragywydd g'wilydd ein gwlad.

Beio a digio am bob diwygiad—newydd,
A wna pob *Pen* ffeiriad;
E goll hur os doi gwellad,
Drwy gyfraith, o'r drwg afrad.

Bradwyr,—nid brodyr i Brydain,—feibion
Trwy fabwys i'r buttain:
Rhwydd y rhoem lu'n rhodd o'r rhain
Heb eu rhifo, i BAB *Rhufain.*

Fel rhyw Dwrc, mae * Bwrc yn Barco—cenedl, **Edmund Burke.*
Rhag cynnyg byth gyffro;
Wedi 'n gwlad fyn'd dan ei glo,
Heb *bais* ni faidd neb bisso.

PEDWAR PENNILL I BEDWAR TYMOR Y FLWYDDYN.

Ton,—"*Merch Megen.*"

Beth! beth ydyw'r cyffro sydd trwy'r greadigaeth,
Holl Natur a welaf 'n'adfywio o'r bron?
Pob peth o fy amgylch ga ail enedigaeth,—
Mae'r cyfan mewn golwg yn edrych yn llon;
Y ddaear a'r coedydd trwy'r broydd a'r bryniau
A wisgant ail-ie'nctyd a thegwch mwyn hardd,
Mewn nefol brydferthwch agoryd wna'r blodau,
A chyd-gân asgellog trwy'r goedwig a dardd;
Ac wele wrth glywed y ceinciau soniarus
Yr wyn yn llon ddawnsio draw ar y glas dwyn;
Mewn gair pob peth ddatgan mewn iaith orfoleddus—
DUW'R CARIAD ddanfonodd y Gwanwyn hoff mwyn.

Daw eilwaith o'r deau i'r eithaf yn serchog
Yr Haf ar ei gylchdro yn wridgoch ei wawr,
Ein daear a dôa â chnydiau toreithiog,
Dyhidla cysuron dirif inni 'nawr;
Yr haulwen yn geinwych â'i maethlawn belydrau
A faethai y gweiriau a'r llafur bob awr,—
A'r ffrwythgoed oent gyneu yn herddwych gan flodau,
Yn awr oll a blygant gan ffrwythau i'r llawr:
Yr Haf rhydd ddigonedd o laeth,—caws,—a 'menyn:—
Hen,—ieuanc,—claf,—hoenus, a lonna'n ei wydd,—
A'r diwyd Amaethwyr yn gyd-lef a'r Gwenyn,—
Pawb ond y cas *ddiogyn* ddymunant ei lwydd.

Yn drydydd gyfeillion daw'r Hydref cyfoethog
Yn llawn trugareddau o ddwylaw ein Tad,—
Y ddaear arlwywyd fal bwrdd yn orlwythog
O bob rhyw ddanteithion a seigiau yn rhad:
Digonedd o eirin a chnau ag afalau,
A phob melus-ffrwythau perllannau yn llawn,
A moethus gyd-wledda o amgylch ein byrddau
Ar flasus ddisgleidiau o'n gerddi a gawn:
Yr Hydref aeddfeda bob math o lafuriau,
Y Gwenith melyn-wyn yn goron ga ef,
Yr Hydref a leinw yn llawn ein ydlannau,
Yn Hydref llon genir "*Cynhauaf yn Nhref.*"

Y Gauaf du croenllwm ddaw 'n nesaf o'r gogledd,
A dyddiau bach byrrion, llym oerllyd ei naws,—
Yr eira orchuddia, coed, bryniau gwastadedd
A'r rhew-wynt a chwytha yn llymdost a thraws:
Lle gynt ceid glwys gathlau 'nawr clywir swn drylliau,
Bloed helwyr,—bythheuaid,—ag uchel swn cyrn;
Llif-ddyfroedd ail diluw sydd ar hyd ein dolau,
Tra cura'r gwlawogydd a'r dymhestl chwyrn:—
Er chwerwed y Gauaf, mae iddo'i fwynderau
Cawn bennill ac englyn y nos gylch y tân,
Yng nghyd ac anneirif ddwys hoff drugareddau
Trwy Gariad ein Llywyd, gyfeillion mwyn glân.

Aberdâr. GWENYNEN FRYTANAIDD.

PENNILLION.

A gânt yr Awdwr gwedi iddo syrthio rhyw dro dan law Syr John Heiddyn.

Dyledswydd tra arbennig yw,
Ar bob rhyw ddyn sy'n chwenych byw;
Yw dilyn sobrwydd yn ddiffael,
Neu bydd mewn gwir yn bryfyn gwael.

Os dilyn medd'dod wna y dyn,
Fe fydd yn ffiaidd iawn ei lun;
Fe goll ei glod a'i barch i gyd,
Y breintiau mwya'n hyn o fyd.

Fe goll ei iechyd ar ei daith,
A'i synwyr hefyd lawer gwaith;
Ond gwaeth na'r cyfan iddo ef,
Fydd colli hyfryd Deyrnas Nef.

Hyn ddylem wneythur yn ddi-ffael,
Yw canlyn Crist ein ceidwad hael,
Os gwnawn ni hyn ni gawn y fraint,
O'n gwawdd i blith y siriol saint.

EDIFEIRIOL.

ARGRAFFWYD GAN J. T. JONES, CAERFYRDDIN.

YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

BUCHDRAETH HYWEL DDA.

Y TRAETHAWD BUDDUGOL YN EISTEDDFOD MERTHYR, NADOLIG, 181[illegible].

"Parha ffolineb y byd nes bydd Athronyddion yn Frenhinoedd, neu Frenhinoedd yn Athronyddion."—PLATO.

"The Welsh Nation was, perhaps, in that age, (the 12th century,) of all others in Europe, that which least merited the designation of Barbarous."—THIERRY'S NORMAN CONQUEST.

Y MAE yn hoff genyf fod teyrnasiad ffolineb yn gwanhau, a dynion yn dechreu deall eu bod yn cam-ddefnyddio eu meddylian wrth ganmol ac addoli y sawl a ddistrywiant genhedloedd, ac a farchogant i ogoniant tymorol dros garneddau o feirwon ar feusydd brwydrau. Hyd yn hyn y mae'r byd wedi rhoddi mwy o glod i'r milwr nag i'r rheolwr, i'r gwr grymus nag i'r dyn call, i ddinystr nag i gadwriaeth dynolryw; ac wedi bod yn rhy barod i aidderchogi y llofrudd â'r enw 'Hero,' os oedd yn alluog i rifo ei gamweddau wrth y cannoedd a'r miloedd. Da genyf weled fod gwell ysbryd yn ymdaenu; fod dynion yn dyfod i ddeall beth sydd yn cyfansoddi gwir ogoniant; a bod cymdeithas y 'Llew Gwyn' wedi dewis testun mor ragorol.

Efallai y byddaf yn cyfeiliorni; ond ystyriaf y byddaf yn cyflawni fy nyledswydd yn well wrth sylwi yn benaf ar gymeriad Hywel nag ar y mân bethau o ba rai y ffurfir hanesyddiaeth yn gyffredinol. Am hyny, efallai y bydd yn y traethawd ambell i esgeulusdod mewn perthynas i'r 'esgyrn sychion' a gyfrifir gan rai yn bethau pwysig; ond cadwaf lygad craff ar wirddrych y buchdraeth, yr hwn a wnaf hyd eithaf fy ngallu yn bleserus ac yn addysgiadol.

Ganwyd ef, nis gwn pa bryd; ond yn y flwyddyn 907 daeth i feddiant o daleithiau y Deheubarth, ar farwolaeth ei dad, Cadell ab Rhodri Mawr. Yr oedd, yn ddiameu, yn adnabyddus a chamweddau ei gydgenedl cyn iddo gael ei osod ar yr orsedd, a clan hyny yr oedd yn fwy parod i ddileu y drygioni; a thrwy fod yn fwy hysbys o'r gofyniadau, yn fwy galluog i ddwyn i ben y cyfnewidiadau a farnodd yn eisieu. Un peth sydd yn eithaf

amlwg, na fu yn hir cyn sylwi ar gyflwr y wlad; nac yn gysglyd iawn wrth ystyried ei gyfreithiau, gan y cawn ef yn Rhufain (yn ol yr hanes,) ar yr achos yn 914. Dangosir yn y dyfyniad canlynol pa fodd y tueddwyd ef i'r gorchwyl o alltudio rhyfel a gosod heddwch yn ei le, ac i wneyd ei bobl a'i genedl yn dawel ac yn ddedwydd.

'Hywel Dda, mab Cadell, Tywysog Cymru oll, a weles y Cymry yn camarferu o'r cyfreithiau.'

Gyda golwg ar wellhau sefyllfa y wlad, penderfynodd wneyd cyfnewidiad trwyadl yn y cyfreithiau; a chan nad oeddent yn atteb i ansawdd y bobl, i ffurfio rhai mwy priodol a chydunol â theimladau a gofyniadau cenedl y Cymry; ac fel na fuasai dim yn ol o gyflawniad yr amcanion dymunawl hyn, gwelodd yn dda i ymgynghori â phrif ddoethion y wlad. Nid peth newydd yn hanes y Cymry oedd galw ynghyd y Tywysogion a'r Pendefigion—fel yr ystyrir ef gan rai haneswyr—gan fod y Trioedd yn rhoddi ar ddeall fod yn nghyfreithiau Dyfnwal Moelmud reol i'r perwyl hyny. Ar yr achlysur presennol 'dyfynwys atto chwegwyr o bob cwmmwd yn y dywysogaeth—y pedwar yn lleygion, a'r ddau yn ysgolheigion; sef achaws y dyfynwyd yr ysgolheigion rhag gosod o'r lleygion ddim a fai yn erbyn yr Ysgrtyhyr lân. Sef amser y daethant yno, y Grawys; sef amser y daethant yGrawys wrth dylyn o bawb fod yn iawn yn yr amser glân hwnw.' Enwau y lleygion oeddent y canlynol:—

'Morgenen Ynad, Cyfnerth ei Fab, Gweiri Fab Cyfiawn, Gronwy Fab Moriddig, Rhewydd Ynad, Iddig Ynad, Gwiberi Hen, o Iscenain, Gwrnerth Llwyd, ei Fab, Meddwon ail Cerysg, Gwgarn Dyfed, Bledrws fab Bleiddyd, Gwyn Faer, y gwr oedd berchenog ar Lantafwyn, bioedd y ty y gwnaethpwyd y gyfraith ynddo; a Blegewryd, archddiagon Llandaf, a oedd yr ysgolhaig, a Doctor yn nghyfraith yr Amherawdyr ac yn nghyfraith yr Eglwys oedd ef.'

Penderfyniad cyntaf y Pwyllgor oedd myned i Rufain 'i ymgynghori a doethion (medd Caradoc), ac i wybod cyfreithiau gwledydd a dinasoedd ereill, a'r cyfreithiau a fuont gan Ymherodron Rhufain yn ynys Prydain, yn amser eu hunbeniaeth hwy,' ac i wybod fod y cyfreithiau a feddylwyd yn oreu gan y pwyllgor 'yn gydgerddedogion a chyfraith Duw ac a chyfreithiau gwledydd a dinasoedd tiroedd cred a bedydd.' Gyda Hywel 'yr aeth Martin, Esgob Mynwy, a Mordaf, Esgob Bangor, a Marchlwys, Esgob Teilaw, Blegewryd ab Owain, Pencyfeistedd Llandaf, brawd Morgan, brenin Morganwg.' Cynnwys yr hanes rai pethau amheuol; ceir anghyssondeb hefyd pan ddywedir iddynt gydmaru y cyfreithiau cyn iddynt gael eu ffurfio, gan y dywedir wedi hyn 'y caed yn oreuon o'r cyfan cyfreithiau Dyfnwal Moelmud.' Meddyliaf nad oeddent y cyfreithiau etto wedi eu ffurfio, ac mai myned i ymchwilio a chydmaru oedd dyben y daith gyntaf tua Rhufain.

Efallai mai hwn yw'r man goreu i ystyried yr amheuaeth mewn perthynas i fynediad Hywel i Rufain. Dywedir iddo fyned yno ddwy waith; yr ail dro yn 914, a'r tro arall, o reswm, cyn hyny. Gwelwn yma fod yn rhaid i Hywel gymmeryd y gorchwyl mewn llaw mor gynted ag yr esgynodd i'r orsedd. Ond y mae y Parch. Peter Roberts yn anghredu yr hanes, oherwydd nad oeddent Esgobion Cymru yn cyduno âg Eglwys Rhufain. Mr. Humphreys Parry a ddatgan yr un farn; ond yr wyf yn ystyried gyda Charnhuanawc, na ddylid gosod llawer o bwys ar y rhesymau, er fy mod o'r un farn a Roberts; am gasgliad yr hwn y mae cadarnach rhesymau na'r

rhai a osodir i lawr yn 'Hanes Cymru.' Dywed Carnhuanawc, 'Ond pe'm tueddid i amheu mynediad Hywel Dda i Rufain, seiliwn fy amheuaeth ar yr anhawsdra o gael neb i reoli ei dywysogaeth yn Nghymru yn y cyfamser, a'r perygl o gael, ar ei ddychweliad, ryw un arall mewn meddiant o'i orsedd.' Y mae yr wrthddadl yn dda; ymddengys ar yr olwg gyntaf y buasai y fath weithred yn anghall, ac yn rhoddi y ffrwyn ar warau rhyfelwyr ffyrnig yr oes. Ond y mae ffaith arall yn tueddu i'r un casgliad. Os oedd anhawdd cael un dyn i gadw yr orsedd yn absenoldeb Hywel, mwy anhawdd o hyd fuasai i gael dyn i gadw y wlad yn heddychlon, fel yr ymddengys ei bod. Nid oedd ond un Hywel yn Nghymru, a chan fod pwys ei law a chraffder ei lygad yn amlwg yn nghyflwr tawel y wlad, nid yw yn debygol iddo fyned yn mhell o dre. Peth arall hefyd—buasai amgylchiad mor ryfeddol, a gweithred mor ogoneddus, yn denu sylw cyffredinol; ond nid oes un crybwylliad gan yr hanesyddion Pabaidd am y fath ymweliad. Ystyriaf gan hyny fod camsyniad yn rhyw le, ac na fu i Hywel ei hunan ymweled a Rhufain. Digon tebyg i'r pwyllgor fyned yno.

Ymroddasant ar eu dyfodiad yn ol yn brysur at eu gorchwyl, 'ac o gydgyngor a chydsyniedigaeth y doethion a ddaethant yno, yr hen gyfreithiau a ystyriasant; a rhai o honynt a gadwasant i redeg, a rhai a emendäasant, ac eraill yn gwbl a ddileasant, ac eraill o newydd a osodasant.' Oni buasai fod Mr. Price yn feirniad cymmerwn y cyfle hwn i ganmol ei ddull ef o ysgrifenu hanes trwy roddi dyfyniadau yn eu iaith eu hunain o'r ysgrifeniadau gwreiddiol. Canlynir dull, tra thebygol, gan Augustine Thierry, a chan Mr. Prescott yn ei 'Hanes Mexico;' ac y mae yn rhoddi llawer o felusder i'r darlleniad. Ond gan nad yw yn oddefol, prysurwn. Dywed Caradoc mewn parhad:—'Gwedi darfod gwneuthur y gyfraith oll, a'i hysgrifenu yn gwbl, ef a aeth Hywel Dda, a theyrnedd o Gymru gydag ef, a Lambert, Esgob Mynwy, a Mordaf, Esgob Bangor, a Chebur, Esgob Saint Asaph, a Blegewryd, Archddiagon Llandaf, hyd at Anastasius, hyd yn Rhufain, i ddarllen y gyfraith, ac i edrych a oedd dim yn erbyn cyfraith Duw o honi; ac am nad oedd dim yn gwrthwynebu iddi, hi a deilyngwyd, ac a elwid yn Gyfraith Hywel Dda o hynny allan. Oedran yr Arglwydd Iesu Grist yr amser hwnnw, naw cant a phedair ar ddeg.'

Wele! ni yn awr wedi dyfod â'r cyfreithiau i ben. Gwnaethpwyd tair cyfysgrif o honynt; sef un i'r brenin ei hun, un i Ddeheubarth, ac un i Wynedd a Phowys. Am sylwedd y cyfreithiau rhaid imi gyfeirio fy narllenydd at 'Hanes Cymru,' 'Warrington,' 'Jones,' neu at y 'Cyfreithiau' gan Dr. Wotton, a Moses Williams; a boddlonaf fy hun gyda nodi mai yn y *Ty Gwyn ar lan Taf*, sef yn agos i'r lle a elwir Whitland, yn Sir Gaerfyrddin, yr oedd y pwyllgor yn ymgynnull, ac yn ymgynghori.

Awdwr 'Hanes Cymru' a ddadleua nad oedd gan Hywel awdurdod dros Arglwyddi Gwent a Morganwg; ond yr wyf yn mhell iawn o gredu yr un peth. Meddyliaf fod Tywysogion Deheubarth, yn ben ar yr Arglwyddi i gyd, ac ar frenhinoedd bychain Ceredigion, a thaleithiau eraill. Nid yw y ffaith o'u bod yn cael eu galw yn Frenhinoedd, yn un gwrthwynebiad; gan fod Brenhinoedd yr amser hyny yn llai anrhydeddus na'r Tywysogion. Yr oedd Arglwyddi Morganwg yn arddel uchafiaeth Tywysogion y Deheubarth; ond ar rai achlysuron pan fyddai Tywysog diog ac analluog ar yr orsedd yr oeddent yn gwrthryfela. Yn amser Hywel, nid oes genyf amheuaeth, fod Arglwyddi bychain y Deheubarth yn arddel ei uchafiaeth, ac yn ymostyngedig i'w gyfreithiau.

Mabwysiadir gwahanol farnau mewn perthynas i'r priodoldeb, a'r cyfreithlondeb o gymeryd arno reolaeth Gwynedd. Darluniaf gyflwr y wlad, ac amgylchiadau y tywysogion; ac er gosod teifyn ar y ddadleuaeth, gwnaf yr hyn a allwyf i roddi eglurhad boddlonol o'r weithred. Traethaf gyda mwy o helaethrwydd ar y peu hwn, oherwydd fy mod yn ystyried mai amcan rhoddwyr y wobr yn newisiad y testun oedd, cael buchdraeth o ddyn da i osod o flaen y genedl ieuanc. Os oedd y weithred hon o eiddo Hywel yn anghyfiawn, cyfrifaf fod arnaf alwad i'w chondemnio; ond os yn weithred briodol, y mae yn ddyledswydd arnaf i brofi hyny, a'i osod tu hwnt i amheuaeth.

Peth o ymddangosiad diweddar yw hanesyddiaeth philosophaidd, ac nid ydym yn awr ond yn dechreu deall y dull priodol o draethu am ddigwyddiadau hanesyddol. With ymdrin a hanesyddiaeth yr amser dan sylw, y mae Vaughan, o Hengwrt, Powell, a Warrington, wedi gwneud y camsynnad o wthio drychfeddyliau perthynol i'r ddeunawfed ganrif i ganol y ddegfed, wedi colli golwg ar y faith fod pob oes a'i nhodweddiad neillduol, ac wedi meddwl fod y gyfraith a rydd etifeddiaeth i'r cyntaf anedig, a'r meddylrith breniniaethol, (*idea of royalty*,) mewn grym yn yr oesoedd dan sylw. Yr oedd Cymru eisioes wedi ei rhanu yn dair rhan; a phan ranodd Rhodri Mawr y wlad rhweg tri o'i feibion nid oedd y weithred yn beth newydd a dieithr, gan ei bod yn gydsyniol ag arferion yr oes. Nid oedd etifeddiaeth yr amser hwnw yn beth mor benderfynol ag yw yn awr, gan mai hwnw oedd yr etifedd i'r cyfoeth yn gyffredinol yr hwn a etifeddai ar yr un pryd y galluoedd rhagoraf. Gallu oedd y gyfraith benaf. Pwy oedd etifedd Rhodri? Anarawd, Cadell, neu Mervyn? Yr wyf yn barod i gredu nad oedd goruchafiaeth gan un o honynt, er yr honnir yr oruchafiaeth i beb un o'r tri. Tueddir fi i gredu mai Cadell oedd y mab hynaf, gan fod dywediad pendant i'r perwyl hyny yn y *Brut*, a chan y traethiad canlynol:—

'Oed Crist 877, y gorfu Cadell ab Rhodri ar Ferfyn ei frawd, a dwyn oddiarnaw ei wlad, sef Powis, ac *yna efe a wladyches holl Gymru.*'

Beth oedd ystyr y gair 'wladyches' yn y dyddiau hyny, er yr ymddybyna y prawf o oruchafiaeth (os oedd y fath beth,) ar yr attebiad, ni wnaf oedi i ystyried. Ond un peth sydd amlwg, fod Hywel yn etifeddu Deheubarth a Phowis oddiwrth ei dad, ac nad oedd yn honi hawl newydd pan gyhoeddodd ei hun yn *Frenin Cymru oll* yn amser Edwal Foel, Brenin Gwynedd, gan fod ei dad wedi gwneud yr un peth yn amser Anarawd. Ni wnaf ymdrin â'r pwnge goruchafiaethol yn awr; ond os dewis y darllenydd wneud hyn, na ollynged yn anghof yr ystyriaeth ganlynol—yr oedd Vaughan o Hengwrt yn bleidgar i Anarawd a Gwynedd, ac yr oedd Caradoc yn ysgrifenu dri chant o flynyddau wedi'r amgylchiad, pan oedd gelyniaeth wedi tarddu a thyfu rhwng y taleithau—oedd dim o hono yntau yn bleidgar i'r Deheubarth? Beth bynag fyddo'r penderfyniad, y mae yn amlwg nad Hywel oedd y cyntaf i wneud yr hawl o fod yn *Frenin Cymru oll.* O'm rhan fy hun yr wyf o'r farn nad oedd ganddo oruchafiaeth dros Wynedd yn amser Edwal Foel, yr hwn oedd yn wr dewr ac egniol; a chyfrifaf nad yw y mynych grybwylliad gan Caradoc o Lancarfan yn y Deheubarth am fod Hywel yn Dywysog Cymru oll ond enghraifft o'r *vaticinium post datum*, neu osodiad o'r dewis, yn lle y dygwyddiad.

O.C. 940, bu farw Edwal Foel, a gadawodd feibion ieuainc ar ei ôl. Cymerodd Hywel y llywodraeth oddiwrth Ieuaf a Iago, ac yn awr yr oedd

mewn gwirionedd yn gystal ag mewn gair yn Frenin dros holl Gymru. Oedd hon yn weithred gyfiawn? Y mae dysgedigion y byd, o amser Plato hyd farwolaeth Jeremy Bentham, yn methu cyduno am sail moesoldeb, ac yn amrafaelu mewn perthynas i sylwedd cyfiawnder, a chan nad oes genym reol benderfynol wrth ba un i farnu Hywel, cydmarwn y weithred *yn gyntaf* a meddylrith yr oes hono am gyfiawnder; ac *yn ail*, a'n meddylddrychau ninnau ar yr un peth. Iaf. Yr oedd y ddau dywysog yn rhy ieuange i deyrnasu; ac y mae yn ymddangos oddiwrth ffeithiau diweddarach, pan oedd y meddylrith breniniaethol fel ei gelwir gan M. Guizot, wedi cymmeryd cadarnach gafael ar y meddwl cyffredin, fod diffyg egni mewn Tywysog yn reswm digonol am osod arall yn ei le. Gwelir hyn yn hanes Aeddan ap Blegored, a Rhydderch ap Iestyn; ac yn ngosodiad Hywel ab Ithel, 'y doethaf o dywysawg yn Nghymru,' yn lle Iestyn ab Gwrgant, ar farwolaeth Gwrgant ei dad. Os nad oedd yr etifedd yn wr dewr, rheolaidd, a doeth, yr oedd y pendefigion yn cyfrif eu hunain yn rhydd i ethol arall yn ei le. Yn *ail*. Gwelwn nad oedd Hywel wedi gwneud un ymdrech i ddifeddianu y dynion ieuainge; ac mai ei brif amcan oedd cymmeryd arno ei hun—ac efallai ar gais ei nai, neu bendefigion y wlad, i fod yn (*Regent*) deyrnasydd nes delent mewn oedran i gyflawni y galwad eu hunain. Ymddengys gan hyny fod y weithred nid yn unig yn gyfiawn, ond hefyd yn gall, gan iddo trwy hyn gadw'r wlad mewn heddwch a dedwyddwch.

Sylwodd Goldsmith, wrth draethu hanes bywyd Bolingbroke, nad oes nemawr o amrywiaeth mewn bywyd ysgolhaig; ac efelly gellir dweud am Dywysogion heddychlon. Distawrwydd yw y clod mwyaf a all Tywysog gael; hanesyddiaeth a hoffa son am frwydrau a rhyfeloedd; ond teyrnasodd Hywel am ddeugain mlynedd, ac etto gellir dodi hanes ei fywyd mewn hanner tudalen. Rhydd y ffaith hon brawf rhagorol o'i alluoedd llywodraethol; mewn oes ryfelgar, ac ynghanol rhyfelwyr, cadwodd heddwch tufewn a thufaes ei deyrnas. Nid oes amheuaeth na fu rhai cynhyrfiadau yn ei amser, ond nid oeddent o nemawr bwys, ac yr wyf yn barnu fod Carnhuanawc yn beio ein haneswyr am esgeulusdod yn ddiachos:—yr oeddent yn ddistaw o herwydd nad oedd ganddynt ddim i adrodd.

'Oed Crist 948,' bu farw gwrthddrych ein buchdraeth 'Hywel Dda fab Cadell, Brenin Cymru oll, y doethaf o'r holl dywysogion. Efe a garai heddwch a chyfiawnder, ac a ofnai Dduw, ac a lywodraethai yn gydwybodus, ymhob iawnder tangnefus, ac efe a gerid yn fawr gan bawb o'r Cymry, a chan lawer o Ddoethion y Saeson a gwledydd eraill, ac achaws hyny y gelwyd ef Hywel Dda.

Traethiad byr, ond O mor ogoneddus! Beth allwn ychwanegu at y geiriau, '*Efe a garai heddwch, a chyfiawnder, ac a ofnai Dduw, ac a alwyd yn Hywel Dda?*' Dim; nid oes un iaith yn alluog i ddesgrifio, nac un meddwl i amgyffred un clod mwy anrhydeddus.

Yr wyf wrth gyfansoddi, yn arfer gosod i lawr fy nhybiadau fy hun cyn edrych beth a ddywedir gan ereill. Cyn gosod terfyn ar y traethodyn bychan hwn, teflais olwg dros gyfansoddiadau ereill ar nodweddiad Hywel; syniadau rhai o'n haneswyr a ddyfynwyd eisioes; ac yn muchdraeth Hywel gan Mr. Humphreys Parry erfyniais gael rhai meddylrithiau addas i'w gosod fel diwedd-glo, ond ni fum lwyddiannus. Y mae yn twyllresymu pan ddywed y buasai Hywel yn llewyrchu gyda llawn gymmaint o danbeidrwydd, neu fwy, pe meddiannasai deyrnedd ehangach; gan ei fod wedi anghofio dangos fod llwyddiant Hywel yn ymddibynu i raddau ar deimladau y

Cymry. Pan ofynwyd i Solon os oedd wedi rhoddi i'r Atheniaid y cyfreithiau goreu, attebodd, 'Rhoes y goreuag oeddent yn foddlon i dderbyn.' Ac felly Hywel. Yr oedd y Cymry, yn ol addefiad Thierry, yn bobl waraidd yn yr amseroedd hyn; a thrwy fod ganddo amgylchiadau ffafriol i weithredu arnynt, cafodd cynneddfau ardderchog Hywel le i weithredu, a'r canlyniad oedd cyfreithiau da, a phe.n oedd mor anrhydeddus i'r oes ag oedd y cyfreithiau i Hywel; rhoddwyd derbyniad parod a helaeth iddynt. Rhyfeddais hefyd nad oedd Carnhuanawc wedi gwneud rhagor o ddefnydd o'r ffaith fod Hywel wedi rheoli y deyrnged i Athelstan oddiwrth Anarawd; gan y meddyliaf fod hyn yn profi fod Hywel heblaw bod yn gyfreithydd, yn oruchwyliwr cyfrwys hefyd, a bod heddwch y wlad yn ymddibynu i raddau pell ar hyny.

Ddarllenydd! Yr ydym yn byw mewn oes ymofyngar; ceir dylanwd ar feddyliau dynion gan heddwch a'r celfyddydau; a dywedir mai Wellington yw'r diweddaf o'r 'Hanner Duwiau,' (Last of the Demigods). Dechreuwn ddeall y gall mawredd hanfodi heb fod yn ddaionus; tra y deallir fod mawredd ac ardderchawgrwydd yn wastad yn gynnwysedig mewn daioni, a chan fod ysbryd pob oes yn cael effaith ar ei henwogion, cyfiawnheir ni yn y gobaith o gael moesau mwy anrhydeddus, a gallnoedd meddyliol mwy dyrchafedig ym mhrif ddynion teyrnasoedd y ddaear. Nid ydynt Hannibal, Alecsander, a Napoleon, yn atteb gofyniadau ein natur foesol; ac y mae Solon, Lycurgus, Numa, Justinian, Alfred, a Hywel Dda—yn teilyngu, ac yn cael mwy o barch gan y doeth a'r deallus. Hwnw yw gwir fawredd yr hwn a rydd ddedwyddwch i ddynion ac nid annedwyddwch; ac yn yr oes bresenol amcenir rhoddi—nid lles cyfyng ac unigol, ond y lles mwyaf i'r rhif amlaf o ddynolryw. Gwnaeth Hywel hyn; gwnawn ninnau felly.

THOMAS STEPHENS.

Merthyr.

PECHOD GWREIDDIOL.

DARLITH III.

Parhad o tu dalen 104.

MR. YMOFYNYDD.—Y mae eich hynawsedd yn caniattau i mi ymddangos ar y pwngc o bechod gwreiddiol yn holl rifynnau eich cyhoeddiad, hyd yn hyn, yn peri i mi fod mor eofn a danfon attoch yr hyn a ganlyn etto, gan hyderu, os gwelwch fy sylwadau yn deilwng o'r goleuni, y cânt ymddangos yn yr YMOFYNYDD; ac os anheilwng yn eich golwg, y gwnewch eu cuddio rhag llygad craff y cyhoedd. Gwnewch mal y mynnoch, chwi foddlonwch eich gostyngedig ohebydd,

O. EVANS.

Wrth drin y pwngc o 'Bechod gwreiddiol,' wedi i mi ddangos nad oes sail iddo yngweithredoedd Duw; fod rheswm yn ei wrthod, a llais cyffredinol yr Ysgrythyrau yn ei erbyn; dygais ymlaen y gwrthddadl mawr a ddygir yn gyffredin yn erbyn y rhesymmau a arferais; sef, fod yr

ysgrythyrau yn priodoli achos pechod a marwolaeth i Adda: mewn attebiad i hyn, cymmerais fy nghennad i ddwyn fy narllenwyr i dir newydd; sef, daear-ddysg, yr hon, fel y gwelsom sydd yn gwrthwynebu'r dyb sydd yn haeru mai o achos pechod Adda y daeth marwolaeth natturiol i'r byd; gan fod daear ddysg yn dangos yn eglur fod marwolaeth yn y byd filoedd, os nid miliynau o flynyddau, cyn creu Adda. Fod creaduriaid i'w cael mewn hanau (*strata*) ar hanau, yn nyfnderoedd daear, fuont byw, ac yn mwynhau bywyd, dros ysbaid; wedi hynny buont farw, ac y mae eu gweddillion, yn awr, yn gofladwriaethau fod Duw wedi *appwyntio*, wedi gosod i bob sylwedd peiriannol i ddadfeilio a marw. Fod gorchymyn Duw iddynt ffrwytho, amlhau, a llanw'r ddaear yn nodi allan ddarfodedigaeth. Fod bygythiad Duw i Adda, 'Gan farw y byddi farw,' yn dangos fod marwolaeth yn y byd cyn iddo droseddu, ac yn beth cynnefin iddo, onide nas deallai y bygythiad. Wedi hynny ymdrechais ddangos fod pob rheswm a ddefnyddiodd Dr. Pye Smith i ddangos fod yn rhaid i'r greadigaeth amfailaidd a llysieuol farw, yn dangos hefyd fod yn rhaid i Adda farw, pe na buasai iddo erioed bechu. Mai sylwedd peiriannol oedd ef fel hwythau, wedi ei *ffurfio* o *bridd* y ddaear: yn bwytta cyn troseddu fel hwythau; ac fod Duw yn arfer yr un iaith am ffurfiad ei ymborth ag y mae'n arfer am ffurfiad eu hymborth hwythau; fod yr un gorchymyn, yn yr un geiriau, yn cael ei roddi i Adda i ffrwytho, amlhau, a llanw'r ddaear, ag i'r creaduriaid ereill, yr hyn sydd yn cynnwys fod yn rhaid i rai ymadael i roddi lle i ereill. Yna dangosais mai'r gosp a ddaeth ar Adda, y *dydd* y darfu iddo fwytta o ffrwyth y pren gwaharddedig, oedd bwytta ei fara trwy chwys ei wyneb. Yn olaf, dangosais fod Duw yn dywedyd mai nid oherwydd i Adda bechu yr oedd iddo farw marwolaeth natturiol, ond am mai pridd oedd; 'Trwy chwys dy wyneb y bwyttai fara, hyd oni ddychwelech i'r ddaear.' Pam hynny? 'Canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.' Oblegid mai o honi i'th gymmerwyd: dyma'r rheswm, a dim arall.

Gan mai nid marwolaeth natturiol sydd i ni feddwl, yr ydych bellach am gael gwybod beth sydd i ddeall wrth y bygythiad, ynghyd a'r rhannau hynny o'r Ysgrythyr, lle mae Paul yn dywedyd, mai trwy bechod y daeth marwolaeth i'r byd, ac mai trwy Adda y daeth pechod. Dywedais o'r blaen, mai yr hyn sydd yn ymddangos i mi sydd i ni ddeall wrth farwolaeth, pan yn gyssylltiedig â phechod, yw'r euogrwydd, y trueni, a'r poen sydd yn anwahanol gyssylltiedig â phechod bob amser. Ond gan nad yw haeriad ddim yn ddigon, y mae'n rhaid i mi ymdrechu cadarnhau'r dyb hon a phrofion ysgrythyrol, ac yna i gymhwyso ffrwyth ein hymchwiliadau i egluro'r anhawsderau dan sylw.

Mai euogrwydd, poen, marw i ddedwyddwch, sydd i ni ddeall wrth farwolaeth, yn aml yn yr ysgrythyrau, ac nid marwolaeth natturiol, a welir yn eglur oddiwrth y difyniadau canlynol.

Yr ydym yn darllen fel hyn yn Ezec. 18. 31, 'Bwriwch oddiwrthych eich holl gamweddau y camweddasoch ynddynt, a gwnewch iwch' galon newydd, ac ysbryd newydd; canys paham, ty Israel, y byddwch *feirw*?' Pa farwolaeth sydd i ni ddeall yma? Nid marwolaeth natturiol yn sicr; onide, byddai galwad dyner eu Duw ar dy Israel, i fwrw ymaith eu camweddau, yn hollol ofer; oherwydd pe gwnaent droi, byddai y farwolaeth hon yn eu haros yr un fath. Pwy farwolaeth sydd i ni ddeall ynte? Wel, marw i ddedwyddwch, fel y mae'n amlwg oddiwrth yr adnod flaenorol, sef y 30, 'Dychwelwch a throwch oddiwrth eich holl gamweddau; fel na

byddo anwiredd yn *dramgwydd* i chwi.' Y tramgwydd sydd ynglyn a phechod yw'r farwolaeth a sonir am dani yma; ac nid oedd y Jehofa yn ewyllysio i hyn gymmeryd lle; oherwydd dywed, 'Canys nid oes ewyllys genyf i farwolaeth y marw, dychwelwch gan hyny a byddwch fyw.' Ond am farwolaeth natturiol, dywedir, 'Gosodwyd i ddynion farw unwaith.' Ac y mae'n chwithig i feddwl nad oes ewyllys gan Dduw i'w osodiad ei hun gymmeryd lle.

Y mae'r dyb hon yn cael ei chadarnhau gan eiriau Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid 8. 13, 'Canys os byw yr ydych yn ol y cnawd, *meirw fyddwch*; eithr os ydych yn marweiddio gweithredoedd y corph trwy'r Ysbryd, *byw* fyddwch.' Dyma farwolaeth yn gyssylltiedig a gweithredoedd y cnawd; a bywyd ynglyn a gweithredoedd yr Ysbryd. Ond pa farwolaeth, attolwg; a pha fywyd? Nid bywyd natturiol yn sicr; oherwydd dywed yr Apostol, *byddwch* fyw, ac nid yr *ydych* yn fyw. Ond yr oeddent yn fyw, mewn ystyr natturiol pryd hynny, er nad oeddent yn mwynhau'r dedwyddwch sydd ynglyn a rhinwedd. Felly hefyd, nid marwolaeth natturiol sydd i ni ddeall wrth yr ymadrodd, '*meirw* fyddwch; ond 'poen, trallod, ac ing sydd ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg.' Gwyddai yr Apostol y byddai pawb farw marwolaeth natturiol, fel y bu ef wedi hynny, ac y bydd pawb eraill, er dywedyd o hono ef am y rhai a farweiddient weithredoedd y cnawd, '*Byw fyddwch.*' Yn Rhuf. 7. 6, y mae Paul yn dangos etto, fod yn bossibl marw, er byw yn natturiol, 'Canys heb y ddeddf marw oedd *pechod.* Eithr yr oeddwn i gynt yn fyw heb y ddeddf: ond pan ddaeth y gorchymyn yr adfywiodd pechod, a minnau a fûm *farw.*' A fu Paul farw marwolaeth natturiol oherwydd y ddeddf? *Naddo;* canys y mae'n ysgrifennu at, ac yn ymresymu â'r Rhufeiniaid, yr hyn nis gallasai wneuthur pe buasai wedi marw. Er hynny y mae'n dywedyd, 'a minnau a fûm *farw.*' Pa farwolaeth? Euogrwydd pechod ydyw. Wedi i'r ddeddf ddyfod i mewn yr aeth yntau yn euog yng ngwyneb y gorchymyn. Nid gwiw i ni gymmeryd geiriau yr ysgrythyr, bob amser yn eu hystyr lythyrennol. Y mae Paul ymhellach etto yn arfer geiriau ag sydd yn *cario* eu hesboniad gyda hwynt yn 8 ben. 10 adn. 'Ac os yw Crist ynoch, y mae'r corph yn *farw* oherwydd," neu gyda golwg ar, 'pechod, eithr yr ysbryd yn *fywyd* oherwydd,' neu gyda golwg ar, 'gyfiawnder.' 8. 6, 'Syniad y cnawd' ebe fe, '*marwolaeth* yw, a syniad yr ysbryd bywyd a *thangnefedd* yw.' Sylwch, bywyd a *thangnefedd* yw: y gwrthwyneb i hyn yw marwolaeth ynte. Ymhellach etto, nid marwolaeth natturiol sydd i ni ddeall wrth eiriau yr un awdwr yn ei ail lythyr at y Corinthiaid 5. 14, 'Canys y mae cariad Crist yn ein cymmell ni, gan farnu o honom hyn; os bu un farw dros bawb, yna *meirw oedd* pawb.' Casgliad anheg oddiwrth eiriau Paul fyddai dywedyd, fod pawb wedi marw marwolaeth natturiol, cyn i Grist farw drostynt: byddai hyn yn groes i ffeithiau eglur. Ond yr oeddent yn feirw dan gaethiwed pechod, nes y darfu i'r Iesu ddyfod i'w rhyddhau trwy ei wirionedd a seliodd ef a'i waed. Nid marwolaeth natturiol, ynte, sydd yma etto. Yn ei lythyr at yr Ephesiaid, y mae Paul yn arfer geiriau nerthol, i ddangos eu cyflwr truenus cyn iddynt gael eu goleuo gan wirionedd yr Iesu, 2. 1, 5, 'A chwithau a fywhaodd efe, pan oeddech *feirw* mewn *camweddau* a *phechodau.* Ie, pan oeddem *feirw* mewn camweddau, a'n cydfywhaodd ni gyda Christ.' Y mae'n amlwg nad oedd yr Ephesiaid ddim wedi marw mewn ystyr natturiol, onide ofer yr ysgrifenodd Paul ei lythyr attynt. Dywed hefyd, eu bod wedi eu cydfywhau gyda Christ. Ond nid oeddent etto wedi eu cyfodi o feirw;

canys y mae'r adgyfodiad heb gymmeryd lle etto: ond yr oeddent wedi bod yn *farw* mewn pechod, yn gaethion ganddo, yn gorcharorion; ond y pryd hynny, yr oeddent wedi eu cydfywhau gyda Christ; wedi eu rhyddhau oddiwrth bechod a thrueni. Ac y mae ei ymadrodd yn y 5 ben. 14 adn., yn cadarnhau'r meddwl hwn. Oherwydd paham, y mae ef yn dywedyd, 'Deffro di yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddiwrth y *meirw*, a Christ a *oleua* i ti.' Beth y mae'r hwn sydd wedi deffroi a chyfodi oddiwrth y meirw yn gael? Goleuni. 'A Christ a oleua i ti.' Ble 'roedd ef o'r blaen? Ymhlith y meirw; yn y *tywyllwch*. Tywyllwch pechod yw marwolaeth yma ynte. Yn ei lythyr cyntaf at y gweinidog ifangc Timotheus, y mae'n dywedyd am y weddw fyddo fyw yn foethus; 5. 6, 'Ond yr hon sydd drythyll, a fu *farw* er ei bod yn *fyw*.' Nid oes lle i amheuaeth ynghylch ystyr marwolaeth yn y geiriau hyn; oblegid dywedir ei bod yn farw, er ei bod yn fyw. Yr oedd hi wedi marw i'r gwirionedd, a syrthio i gyflwr trueuus pechod, euogrwydd a thrueni.

Cadarnheir yr olwg hon ar farwolaeth oherwydd pechod, gan ymadroddion ysgrythyrol eraill, y rhai ydynt yn dangos nad yw'r farwolaeth sydd ynglyn a phechod ddim yn perthyn i'r rhinweddol, yr hwn sydd wedi gadael ei fai. Diar. 23. 13, 'Na thyn gerydd oddiwrth dy blentyn, os curi ef a gwialen, '*ni bydd efe farw*' Ni bydd efe farw marwolaeth *natturiol?* Nage, oblegid y mae curo a gwialen yn peri i farwolaeth natturiol ddyfod yn gynt os dim. Wel, beth ynte? 'Ni bydd farw,' ni bydd yn annedwydd oherwydd pechod, os caiff ei geryddu. Y mae geiriau ag sydd yn dangos y dyb dan sylw yn eglur iawn hefyd yn Ezec. 18. 21. 'Ond os yr annuwiol,' clywn hyn bawb, 'os yr *annuwiol* a ddychwel oddiwrth ei holl bechodau y rhai a wnaeth, a chadw fy holl ddeddfau, a gwneuthur barn a chyfiawnder, efe gan *fyw a fydd byw*, ni bydd efe *marw*, Dyma'r unrhyw ymadrodd am fywyd ag sydd am farwolaeth yn y bygythlad a roddodd Duw i Adda. 'Gan farw y byddi farw,' medd Duw wrth Adda: am yr annuwiol edifeiriol y mae ef yn dywedyd mewn geiriau, yr un mor nerthol, '*Gan fyw* y bydd efe *byw*, ni *bydd* efe *marw*. Ond nid bywyd na marwolaeth natturiol sydd i ni ddeall wrth y geiriau hyn. Nage, nage, onide y mae Duw ei hun felly yn euog o anwiredd, yr hyn sydd ffuaidd yn ei olwg. Beth yw meddwl yr ymadroddion ynte? Nid oes ond un meddwl iddynt; sef, na bydd i'r annuwiol a ddychwelo oddiwrth ei ffyrdd drygiouns ddimdioddef oherwydd *pechod* mwy, ddim bod yn annedwydd. Yn yr un ystyr y mae Crist yn arfer y geiriau nerthol hyn yn Ioan 8. 51, 'Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wel *farwolaeth* yn *dragywydd*.' Ni bydd pechod yn dramgwydd iddo yn y byd hwn, na'r hwn a ddaw. Mai dyma yw'r meddwl sydd amlwg oddiwrth yr un dull ymadrodd y mae'n arfer yn y 5 ben. 24 adn., 'Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Y neb sydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd, a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i *farn*; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.' Nid am na fydd farw marwolaeth natturiol; ond am nad oedd y farn, y trallod, y gofid, a'r trueni, sydd ynglyn a phechod, ddim i'w gyfarfod ef yn dragywydd. Yn yr 11 ben. 26 adn., Y mae'r Iesu yn dywedyd, 'A phwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu ynnof fi, ni bydd marw yn dragywydd.' Beth! marwolaeth *natturiol?* O, nage, 'Canys gosodwyd i ddynion farw unwaith, a chwedi hynny bod barn.' Y mae ymadrodd cyffelyb yn cael ei arfer ganddo yn y 6 ben 50, 51 adn., 'Hwn yw'r bara sydd yn dyfod i wared o'r nef, fel y bwyttao dyn o hono,

ac na *byddo marw*. Myfi yw'r bara bywiol, yr hwn a ddaeth i wared o'r Nef, os bwytty neb o'r bara hwn, efe a fydd byw yn dragywydd. A'r bara a roddaf fi iddo, yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd.' Y mae Ioan, dysgybl anwyl yr Iesu yn anadlu yr un syniadau yn ei lythyr cyntaf 3. 14, 'Nyni a wyddom ddarfod ein symmyd ni o *farwolaeth* i *fywyd*, oblegid ein bod yn caru'r brodyr. Yr hwn nid yw yn caru ei frawd y mae yn aros ym *marwolaeth*.' Nid marwolaeth natturiol yn sicr. Ond i beidio blino amynedd fy narllenwyr, ni wnaf ddifynu ond un aduod etto, mewn perthynas i ystyr marwolaeth, a honno yw yr 20fed adnod o'r 5ed bennod yn llythyr Iago, 'Gwybyddwch y bydd i'r hwn a drôdd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag *angau*.' Pa angau? Nid angau natturiol; nage, nage; ond rhag y gofid, y trueni, yr euogrwydd sydd ynglyn a chyfeiliornad. Bellach chwi welwch, nad yw bywyd a marwolaeth ddim yn arwyddocau bywyd a marwolaeth natturiol yn amlìawn yn yr ysgrythyrau; ond eu bod yn fynych yn arwyddo byw'n ddedwydd neu'n annedwydd. Chwi welwch fod Duw yn dywedyd am rai, na byddent farw; a'r Iesu yn dywedyd am y rhai a gredant i'w ymadrodd ef, na welant farwolaeth yn dragywydd, er y gwyddom fod ei apostolion ffyddlon, a gredasant ynddo, wedi marw mewn ystyr natturiol, ie, a Christ ei hun hefyd.

Yn awr ymdrechaf gymmwyso'r meddwl hwn at yr anhawsderau a nodais ar y cyntaf, at y rhai yr wyf yn awr yn galw eich sylw difrifol, fel y gwelloch, nad oes anhawsdra ynddynt, o iawn ddeall gair Duw. Wel, beth am y bygythiad yn awr? Gan farw y byddi farw, medd Duw: ïe, a'r *dydd* y bwyttai o hono. Pa farwolaeth ydyw hon? Tair, medd y byd yn gyffredin. O ble cawsant y tair, nis gwn. Nid yn y bygythiad; nid oes yno ddim son ond am *un*. Beth yw'r *un* farwolaeth hon? Y mae'n amlwg i mi, mai euogrwydd, poen, trueni, marw i ddedwyddwch ydyw. A fu Adda marw, yn yr ystyr hyn? Do. Pa bryd? Y pryd y dywedodd Duw wrtho; y dydd y bwyttai; y dydd y troseddai. Fe *fu* farw'r *foment* y gwnaeth droseddu; fe ddaeth euogrwydd i mewn gyda'r pechod, fel effaith yn canlyn ei hachos, heb oedi dim. Gwn fod dynion yn esbonio'r gair *dydd* yma mewn gwahanol ffyrdd, a'r gair marw hefyd; ac mai ei ystyr yma yw i Adda ddyfod yn agored i farw yr amser y troseddodd. *Agored*, yn wir! Gallasai Duw ddywedyd hyny cystal a hwythau, ond nid felly y gwnaeth. Ond nid oes dim eisiau'r esboniadau hyn; canys fe ddywedodd Duw y gwir wrth Adda, pan ddywedodd wrtho, 'Y *dydd* y bwyttai di o hono, gan farw y byddi farw.' Fe fu Adda farw'r diwrnod hwnnw, fe aeth yn euog a thruenus yn gymmwys y darfu iddo bechu. Ac, fel y gellsid disgwyl, dyma y mae'r hanes yn osod allan hefyd. Ar ol i Adda ac Efa fwytta, beth ddarfu ganlyn, medd yr hanes? Wel, dyma fe, 'A'u llygaid hwy ill dau a agorwyd, a hwy a wybuant eu bod yn noethion,' (yn ddiesgus) 'ac a wniasant ddail y ffigysbren, ac a wnaethant iddynt arffedogau. A hwy a glywsant lais yr Arglwydd Dduw yn rhodio yn yr ardd gydag awel y dydd; ac *ymguddiodd* Adda a'i wraig o olwg yr Arglwydd Dduw, ymmysg prennau'r ardd.' Beth yw'r *ymguddio* yma? Beth yw'r matter? Wel, teimlo'n euog y maent; *marw* y maent; ond nid marw'n natturiol, na, na, y maent i fyw am rai cannoedd o flynyddau ymhellach, yn yr ystyr hyn. Ond, wele hwynt wedi marw'r farwolaeth a fygythiodd Duw iddynt; ie, ie, maent yn *ymguddio* o olwg yr Arglwydd pe gallent. Mae pechod wedi peri iddynt ddewis prennau'r ardd o flaen cymdeithas eu Duw. Maent yn *ofni* 'nawr,

'A'r Arglwydd Dduw a alwodd ar Adda, ac a ddywedodd wrtho, Pa le yr wyt ti? Yntau a ddywedodd, Dy lais a glywais; ac mi a *ofnais*; oblegid noeth oeddwn, ac ymguddiais.' Mae ef yn euog; mae ef yn *ofni*; mae ef yn druenus; ydyw, ydyw, mae ef *wedi* MARW!! O, druenus gyflwr y pechadur euog! Mae'n meddwl y gall ymguddio o olwg yr Arglwydd: ni fynn gymmaint a meddwl am yr hwn sydd yn ei gynnal. 'Yr annuwiol, gan uchder ei ffroen ef, ni chais DDUW: nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef.' Y mae ef yn euog, ac yn yr euogrwydd yma y mae'n rhaid ymwrthod â Duw; y mae'n rhaid gwadu ei fodoliaeth ef o'r diwedd, fel y mae pechod wedi gyrru cannoedd i wneuthur cyn hyn. Y mae'n ynfydu, ac yn ei ynfydrwydd yn cau ei lygaid yn erbyn y profion disglaer o fodoliaeth ei Grewr sydd yn ei amgylchynu yn mhob man. 'Yr ynfyd a ddywedodd yn ei galon Nid oes un Duw.' Dyma farwolaeth druenus yn wir.

[I'W BARHAU.]

YR ABERTHAU IUDDEWIG.

RHAGYMADRODD.

MR. YMOFYNYDD,—Oni bai fod dynion o bob math, dysgedig ac annysgedig, yn cyfeirio yn wastadol ac yn hyderus at yr Aberthau Iuddewig fel profion dros wahanol opiniynau y Protestaniaid Trindodaidd ynghylch yr Iawn, nis blinwn chwi â'r llythyr hwn ac eraill a ganlynant o bryd i bryd, fel y caffwyf gyfleusdra ac iechyd i ysgrifenu, ac yn ol fel y byddo'r pwngc yn gofyn. Pa un ai ydwyf fi wedi cael gafael yn y gwirionedd ai nad ydwyf, sicr wyf fod anwybodaeth mawr yng Nghymru o berthynas i'r pwngc hwn. Efallai fod peth esgeulusdra wedi bod ar offeiriaid yr Eglwys Sefydledig a dysgawdwyr Ymneillduaeth am na baent wedi gwneyd y pwngc yn wrthddrych ymofyniad cyhoeddus, tawel, ac ammhleidgar, er mwyn taflu goleuni arno, ac hyfforddi crefyddwyr anllythyrenog; ond pa fodd bynnag, fy nymuniad i yw i'r hyn a gaf osod ger bron darllenwyr yr YMOFYNYDD ynghylch yr Aberthau Iuddewig, fel pob peth arall, gael ei brofi; ac os bydd i mi gamsynied, i ryw un mwy galluog, ac yn meddu ar well manteision, nodi allan y gwallau, neu ynte i gynnyg rhyw beth a fyddo gwell. Cawn gyflawn dal am fy llafur pe bawn yn foddion i dynnu sylw fy nghydwladwyr at y pwngc.

Nid wyf yn meddwl cymmeryd arnaf i benderfynu'r ddadl p'un a oedd yr Aberthau ar y cyntaf o sefydliad dynol neu ddwyfol. Y maent yn sicr o fod yn hen iawn. Pa un bynnag ai Duw sefydlws hwynt, ai ynte o darddiad dynol ydynt, darllenwn yn Genesis iddo eu cymmeradwyo mor foreu a Cain ac Abel, fod dynion yn aberthu yn yr oes Batriarchaidd, ac yn ddiweddaf iddynt trwy ddwyfol orchymyn gael eu gwneyd yn rhan fawr o addoliad y Cyssegr Iuddewig. Y mae yn beth tra thebygol yn y dechreu mai arwydd oeddynt o ddiolchgarwch i Dduw am ffrwythau'r ddaiar a chynnyrch y praidd, ac iddynt yn raddol ddyfod i arwyddo pob math o deimlad crefyddol. Yn ol gwerth yr offrwm y bernid difrifoldeb yr offrymwr. Difrifoldeb Abel yn dwyn blaenffrwyth ei ddefaid oedd yr achos i'r Arglwydd edrych ar ei offrwm ef yn hytrach nag ar un Cain. Ni abertha neb fawr o lafur, neu werth, neu amser, dros unrhyw beth oni fydd y peth hwnnw yn hoff ac yn anwyl ganddynt, ac

nid yw crefydd Crist o fawr gwerth yng ngolwg un dyn, beth bynnag fyddo ei broffes, os na fydd yn barod i ymadael er ei mhwyn a thai, a thir, a meddiannau, a phob peth os bydd achos.

Ond yr oedd rhai dynion yn myned i ormod eithafoedd o'r tu arall ar y pen hwn. Trwy hir arferiad meddylient fod yr offrwm ynddo ei hun—heb fod yn arwyddocad o ddifrifoldeb y galon—yn ddigon o lawn am bechod. Mae yr un egwyddor i'w chanfod mewn gweithrediad yn mhob oes. Er mwyn cael maddeuant, rhoddai dynion ag oeddent wedi treulio bywyd pechadurus eu meddiannau yn eu hewyllys at achosion da, megys at gynhaliaeth offeiriaid a thylodion. Hyn yw dechreuad rhan fawr o'r cyfoeth sydd yn meddiant yr Eglwys Sefydledig yn y wlad hon. Ond nid hyn yw'r cyfan. Y mae llawer hyd yn oed o'r Protestaniaid yn yr oes hon tan ddylanwad yr un egwyddor, er nid yn gymmwys yr un ffordd a'r Pabyddion yn yr hen amseroedd. Dymuna pawb gael myned i'r Nef yn ol marw, ond ychydig sydd yn foddion ufuddhau i'r ammodau ar y rhai y mae'r Nef yn cael ei haddaw. Pe byddai rhyw ffordd i fyned yno ar ol byw yma mewn pechod, honno fyddai yr un fwyaf unol a theimladau y rhan amlaf o ddynolryw; a phe byddai rhyw sect o Grist'nogion yn cymmeryd arnynt i ddangos y fath ffordd, gellid disgwyl mai hi fyddai yr un fwyaf cymmeradwy a pheblogaidd; hyn yw dyben haeddiant Crist; dywedir iddo ef roddi ei hun yn aberth tros bechaduriaid yn y fath fodd fel pa beth bynnag fyddo buchedd yr etholedigion, ond iddynt fod o nifer y cyfryw, y mae'r Nef yn sicr o fod ar eu cyfer yn y diwedd. Y mae y rhai sydd yn coleddu y farn hon tan ddylanwad yr un teimlad ag oedd y cyfryw o'r Iuddewon a feddylient fod yr aberth ynddo ei hun yn ddigon i ryngu bodd Duw. Gellid, pe bai achos, olrain gweithrediadau yr egwyddor hon etto yn mhellach. Beth sydd i ddyweyd am lawer o broffeswyr crefydd yn yr oes ac yn y wlad hon, ag sydd yn meddwl fod eu gwaith yn myned yn rheolaidd i'r cyfarfod, yn talu yn dda at y weinidogaeth, yn rhoddi at achos y Missionaries, yn dygymu'r myntys, a'r anis, a'r cwmmin, yn ddigon o wasanaeth i Dduw? Y mae'r pethau hyn yn dda yn eu lle, ond os meddylia neb fod y fath offrwm yn ddigon o iawn dros fywyd wedi ei dreulio mewn anwiredd, anghyfiawnder, cybydd-dod, neu anlladrwydd, y maent yn sicr o gael eu siomi yn y pen draw.

Dyben gwahanol oruchwyliaethau Duw yn y byd yw dysgu gwir grefydd i ddynion—eu harwain hwynt i adnabod eu Crewr, a'u dyledswyddau fel bodau rhesymol. Nid yr un oruchwyliaeth yn mhob oes o'r byd wnai'r tro. Y mae amgylchiadau dynolryw, ac ganlyniad teimlad eu hanghenion moesol, yn cyfnewid yn ol eu cynnydd mewn gwybodaeth a rhinwedd; am hyny, er mai'r un o hyd yw'r dyben, rhaid i Dduw ddefnyddio gwahanol foddion i'w ddwyn oddiamgylch. Fel meddyg medrus yn darparu gwahanol gyffeiriau at wahanol glefydau a chyfansoddiadau gyda'r un dyben, sef adferiad iechyd, felly y gwna Duw, y Tad daionus, ddarparu gwahanol oruchwyliaethau a mesurau yn ol fel y byddo anghenion ei blant yn gofyn; ond yr un yn wastad yw'r dyben, sef iechyd ysbrydol. Ymddengys doethineb a chariad Duw yn hyn mor amlwg ag yn y greadigaeth sylweddol. Nid oes eisiau ond ychydig sylw ar gyflwr y genedl Iuddewig i weled fod defodau a seremoniau a goruchwyliaethau Moses y fath ag oedd yn atteb y dyben yn gymmwys, ac yn anghydmarol gwell nag unrhyw fesurau mwy ysbrydol. Canfyddir hefyd nodau yr un cariad a doethineb ond syllu ar lywodraeth foesol Duw trwy wahanol oesoedd y grefydd Grist'nogol. Pwy na chanfydd hyn yn eithaf eglur yngwaith yr Ymerawdwyr Rhufeinig yn erlid y Cyn-grist'nogion? Er

i gannoedd o ddynion yr amser hwnnw ddioddef llawer o boen yn ddiachos, etto nid oedd y dioddefaint ond dros amser byr, ac ychydig mewn cydmariaeth i'w gorfoledd ysbrydol: ond y mae gwrolder a diysgogrwydd eu ffydd hwynt wedi bod yn addysgc ac yn galondid i filoedd mewn oesoedd diweddarach, a bu eu gwaith yn dianc rhag dig eu gelynion yn foddion i'w gwasgaru ar hyd y ddaiar, ac i daenu gwybodaeth o'r Efengyl. Yn y canol oesoedd, a elwir yr *oesoedd tywyll*, er mwyn tynnu sylw a darostwng gwarrau dynion anwybodus, a rhyfelwyr ffyrnig, tan iau rhywbeth tebyg i grefydd, nis gallasai dim fod yn fwy effeithiol na Phabyddiaeth, yr hon sydd yn nodedig am seremoniau a defodau allanol. Ni wnaethai addeliad o duedd mwy ysbrydol ddim o'r tro i ddynion anianol; ond fel yr oedd gwybodaeth yn cynnyddu a gwareidd-dra yn ymdaenu, yr oedd dynion yn dyfod yn fwy agored i ddylanwadau moddion moesolach; yn raddol fel yr oedd y cyfnewidiadau hyn yn cymmeryd lle, yr ydym yn canfod Pabyddiaeth yn myned yn fwy anaddas i gyflwr y byd, ac yn colli tir. O'r diwedd wele'r Diwygiad yn torri allan, Protestaniaeth yn cynhyddu, dynion yn dechreu darllen a meddwl, sectau yn amlhau, a syniadau crefyddol Crist'nogion ar y cyfan yn dyfod yn ychydig yn llai anianol; ac yn y dyddiau hyn, er cyfuwch yw bloedd yr Ymneillduwyr yn erbyn yr Eglwys Sefydledig a'i holl drais a'i bydoldeb, y mae hi yn atteb dybenion daionus yn llywodraeth Duw; efallai yn un peth ei bod yn attal y sectau rhag erlid a niweidio eu gilydd. Anghofia'r praidd gornio'r naill y llall, gan uno mewn hunan-amddiffyniad cyhyd ag y byddont yn canfod rhyw greadur a bair iddynt fraw. Ond pan fyddo Eglwys Loegr wedi atteb ei dyben, ac na byddo ei heisiau mwyach, bydd yn rhaid iddi hithau, fel Pabyddiaeth, ymgrymu tan wialen y Goruwchaf, a diflannu, gan roddi lle i rywbeth mwy addas i gyflwr y byd yr amser hwnnw. Ond nid oes eisiau ymhelaethu rhagor ar y pen hwn, onite gallwn sylwi yn mhellach mai un o ddybenion y gwahanol sectau a'u pleidgarwch yw cadw sylw dynion ar grefydd, yr hyn ni wnai yr ychydig wybodaeth grefyddol sydd gan y cyffredinolrwydd o ddynion, oni bai fod ysbryd pleidgarwch a gwrthwynebiad, ynghyd a'r dymuniad sydd fwy neu lai yn mhob dyn i gael eraill o'r un farn ag ef, yn cadw dynion mewn math o gyffroad ac ymdrech beunyddiol. Gwelwn gan hynny fod Duw, er mwyn dwyn addiamgylch yr un dyben, yn defnyddio gwahanol foddion fel y byddo amgylchiadau yn gofyn.

PHILO.

O.S.—Gan fod y Golygydd wedi gweled yn gymmwys* i gyhoeddi "Sylwadau Darllenydd ar ofyniadau Philo," tudal. 117, teimlaf fod galwad arnaf i wneyd sylw byr o honynt.

Fe wel pob dyn ystyriol mai'r unig attebiad priodol i'r gofyniadau yw, Ydyw, neu Nac ydyw; Ie, neu Nage; ond nid yw Darllenydd yn cymmeryd arno i roddi y naill atteb na'r llall. Rhyw beth tebyg i'r engraifft canlynol yw attebiad Darllenydd:—Ai nid gwir nad yw'r haul yn llai na'r ddaiar? Attebiad—Gwir fod y lleuad yn llai na'r ddaiar.

Ond am yr adnodau ag y mae Darllenydd yn eu difynu dros Iawn i ofynion Cyfawnder, y mae y rhai pennaf o honynt wedi bod dan fy sylw yn YMOFYNYDD Ionawr: ystyriaf y cymmer y lleill yn deg eu hesbonio yn gysson â'r egwyddorion a ymdrechais sefydlu yn y llythyr hwnnw.

PHILO.

---

* Dymunwn hysbysu i'n darllenwyr nad ydym ni yn attebol am gywirdeb syniadau neu ymresymiadau ein Gohebwyr. Anheg fyddai disgwyl hynny mewn Cyhoeddiad

rhydd fel yr YMOFYNYDD, un o brif egwyddorion yr hwn yw, "Rhydd i bob meddwl ei farn; rhydd i bob barn ei lafar."

Rhaid i ni ddywedyd mai ein teimlad ein hunain ar y pryd oedd, na ddarfu i Ddarllenydd, (Hirwaun,) roddi attebion uniongyrchiol i ofynnadau Philo. Pa fodd bynag, er mwyn gochelyd ymddangosiad o bartiaeth, anfonasom ei ysgrif i'r wasg, gan adael i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD i farnu drostynt eu hunain yn ei chylch.—GOL.

GOLYGIADAU ESGOB WATSON AR GREFYDD.

Gobeithiwyf nad ydyw fy nghrefydd wedi ei seilio ar ryfyg, ond mewn duwioldeb. Nis gallaf edrych ar Awdwr fy modoliaeth mewn unrhyw oleuni yn amgen nag fel y rhiant mwyaf tosturiol, nid yn orfanylaidd i nodi yr hyn a wneir yn feius, nid yn anghymodlawn, nid yn ddialgar, nid yn dueddol i gospi pechodau a aethant heibio os bydd y galon yn eu cashau, eithr yn barod, gyda'r tiriondeb mwyaf, i dderbyn i'w ffafr bob pechadur edifeiriol.

Yn ol cyfansoddiad natur, yr hyn a ellir yn briodol ei ystyried fel dangosiad o ewyllys Duw, y mae pob anghymedroldeb mewn pleserau cnawdol yn tueddu i lygru'r meddwl ac i wanhau'r corph; ar gyfrif yr hyn gellir eu hystyried yn wrthwynebol i ewyllys Duw. Y gwrthwynebiad hyn a wneir yn amlycach drwy'r Efengyl. Gan fod ein holl ddedwyddwch yn y byd hwn, a'r hwn sydd i ddyfod yn ddiweddaf, yn ymddibynu ar ewyllys Duw, gan nad oes unrhyw radd o hunan yn ewyllys Duw, gan nas cynhyrfir hi ar un achlysur i foddhau ei ddigter neu unrhyw nwyd arall yn y Bod Goruchaf,(megys y dygwydd yn aml i ewyllys dyn) nis gallaf ond credu mai newidiad tuedd yn ganlyniedig gan newidiad buchedd, yw'r oll a ofyna Duw oddiwrthym i'r dyben o'n hadferu, ar ol ein pechodau mwyaf, i'w berffaith gymeradwyaeth.

Ni wyddom yn mha beth y bydd dedwyddwch y byd dyfodol yn gynnwysedig, ond gwyddom na fydd yn gynnwysedig yn y boddhad o'n chwantau presenol; er hyny nid yw Duw yn feistr caled, canys y mae wedi ein cynnysgaeddu a moddion lluosog o fwynhad presenol; a phe buasai pob mwynhad cnawdol yn bechadurus, sicr yw na buasai yn rhoddi i ni synwyrau na gwrthrychau wedi eu cyfaddasu iddynt. Y mae wedi gwneuthur y naill a'r llall, a gofyna oddiwrthym y fath gymmedroldeb yn yr arferiad o honynt ag a geidw ein meddyliau rhag bod mor chwannog iddynt, ag i'n annhueddu at y dyledswyddau o haelioni a sancteiddrwydd, yn yr arferiad o ba rai nid yw'n annhebygol y bydd ein dedwyddwch dyfodol yn gynnwysedig. Y mae pob bygythiad o eiddo Duw yn erbyn anghymedroldeb o bleserau'r cnawd, yn erbyn pob anghyfiawnder yn ein cyd-fasnach â dynolryw, yn erbyn annuwioldeb tuag ato ei hunan, yn ymddangos fel yn deilliaw o'i fawr hoffder tuag atom, yr hyn a bair iddo ein rhybuddio oddiwrth fuchedd, diwedd yr hon nis gallwn yn y bywyd hwn ei amgyffred.

Y mae cariad Duw yn bwrw allan ofn. Bydded i ni unwaith sylfaenu ein hegwyddor o weithrediad ar y dymuniad o ufuddhau iddo Ef, ac er ein cymhellir trwy ein nwydau i wyro yn achlysurol oddiwrth yr hyn sydd iawn, er hyny ni phery y gwyrni hwn yn hir; y gobaith o fyw dan nodded ei garedigrwydd a'i amddiffyniad tadol ef a'n dwg i ystyriaeth resymol o'n dyledswydd, a hyder gyfiawn o gymeradwyaeth gydag ef.

Y mae cryn beirianwaith yn ein cyfansoddiad; y mae sefyllfa'r corph yn dylanwadu'r meddwl i'r fath radd, ac yn y fath fodd, nas gall unrhyw athroniaeth mo'i egluro. Gwendid corphol a bair yn meddyliau rhai dynion iselder

ysbrydoedd—tyb anobeithol—yr hyn ni theimlid gan eraill gyda chyffelyb neu fwy o achos o iselder ac anobaith, ac i bob ymddangosiad o dau wendidau cyfatebol.

Y mae yn anhawdd, hwyrach yn anmhosibl, i greaduriaid fel nyni i roddi rheswm am y gwahaniaeth hwn, ond gallwn fod yn sicr o hyn—fod Duw, yr hwn a'n gwnaeth, yn hyspys o'r gwahaniaeth tymher hwn, ac y gwna oddefiad tadol a thyner iddo, ac nas cyfrif fwy na'r hyn sydd gyfiawn i'r hwn sydd a'i feddwl yn orthrymedig gan ofnau afresymol yn tarddu oddiwrth wendid y corph.

Ll—d. CYF. AP GWILYM.

GOFYNION I DRINDODIAID

1. A ydyw Duw a Christ ddim ond un Bod, neu ynte yn ddau Fod?

2. Os yw y Tad a Christ [yr Eneiniog,] yn ddau Fod, a phob un o honynt yn Dduw, onid ydynt yn ddau Dduw?

3. Os nad yw y Tad a Christ ond un Bod, onid yw yn amlwg fod yr hyn sydd wir am y Tad yn wir hefyd am Grist, y Mab a'r Eneiniog, gan mai felly dau enw yw Tad a Mab ar yr un Bod?

4. Os Duw yw Crist [yr Eneiniog] pwy a'i heneiniodd ef? A eneiniodd ef ei hun, gan fod yr Eneiniwr a'r Eneiniog ar yr un pryd? Gwel Luc iv. 18, Act. x. 38.

5. Os yw'r Tad yn ddigenedledig, a'r Mab yn genedledig, ac os nad ydynt ond un Bod, oni chanlyn fod yr un Bod hwn yn genedledig ac yn ddigenedlig.

6. Os nad yw Crist a'r hwn a eilw yr ysgrythyr yn 'Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist,' ond un bod: oni chanlyn mai Crist ydyw ei Dduw a'i Dad ei hun?

7. Os nad yw y Tad a'r Mab ond un bod; oni chanlyn fod Crist yn Dad ag yn Fab iddo ei hun? iddo anfon ei hun? iddo esgyn ato ei hun, pan esgynodd at ei Dad ef a'n Tad ninnau, ei Dduw ef a'n Duw ninau, Ioan xx. 17? a'i fod yn awr yn eistedd ar ddeheulaw ei hun? iddo weddio arno ei hun, pan weddiodd ar y Tad, gan ei alw 'yr unig wir Dduw,' Ioan xvii. 3? ag iddo ddarostwng ei wyllys idd ei wyllys ei hun, pan weddiodd ar y Tad, Luc xxii. 42, 'Nid fy ewyllys i ond yr eiddo ti a wneler?' ag iddo ymadael ag ef ei hun, pan ddywedodd, Mat. xxvii. 46, 'Fy Fuw! fy Nuw! paham y'm gadeweist?'

8. Os y Duw Hollalluog oedd Crist, gyda pha fath wirionedd y gallasai ddywedyd, nas gallasai wneuthur dim o hono ei hun, Ioan v. 19, 30; ag am y fraint o eistedd ar ei ddeheu law ag ar ei aswy, nad eiddo ef ei rhoddi, Mat. xx. 23?

9. A fu yr Hollalluog Dduw, yr Anfeidrol, y Tragwyddol a'r Anghyfnewidiol erioed yn faban gwan, yn ddyledus i ofal un o'i greaduriaid am amgeledd rhag niweidiau, am faeth cynhaliol bywyd, yn cael ei gario o le i le wrth wyllys ei fammaeth yn ei breichiau cymmorthwyol?

10. A fu Bod Hollbresenol, yr hwn sydd yn llanw nefoedd a daear a'i bresenoldeb, erioed yn gyfyngedig mewn corph marwol a symmudol o fan i fan?

11. Os y Duw Hollwybodol oedd Crist, i'r hwn mae pob amseroedd a

digwyddiadau, a fu, sydd, ag y fydd, yn berffaith adnabyddus; gyda pha fath wirionedd y gallasai ddywedyd, 'Am y dydd a'r awr ni wyr neb, na'r angylion sydd yn y nef *na'r Mab*, ond y Tad,' Marc xiii. 32?

12. A ydyw yn alledig, mewn unrhyw ystyr, i'r un Bod fod yn anwybodus, ag ar yr un pryd yn wybodus, o'r dydd hwnw; a pha ymadrodd allasai Crist arferu, a fuasai yn gosod allan yn fwy eglur ei anwybodaeth ei hun, a phob bodau ereill, ond y Tad yn unig, o'r dydd hwnw?

13 Os Duw oedd Crist, y byth-fywiol Dduw, 'yr hwn yn unig sydd gantho anfarwoldeb,' (1 Tim vi. 16.) pwy oedd yr hwn a drengodd ar y groes, gwedy iddo lefain, Luc xxiii. 46, 'O Dad, i'th ddwylaw di y gorchymmynaf fy ysbryd' (neu, fy anadl bywyd)?

I'w barhau mor gynted ag y ceir attebion i'r gofynion uchod, os nid yn gynt.

UNDODWR.

TYSTIOLAETH LLYFR NATUR AM DDUW.

Parhad or tudal. 115.

MAE llawer o bethau yn rhrefn Ei raglunaeth ag ydym yn llawenhau i'w gweled; oherwydd yr ydym yn cael mawr hyfrydwch wrth edrych arnynt. Yr achos yw, yr ydym yn gwybod eu diben, ac mai *da yw*. Er siampl — tymestloedd a machludiad haul. Bwriwn fod dyn yn ei lawn synwyr, tua hanner cant oed, yn cael ei roddi y tro cyntaf ar wyneb ein daear ni, mewn bro hyfrydlawn, yn mis Mai—yr adar yn llanw yr holl goedwig â'u per ganiadau, ac wyneb daear yn orchuddiedig a blodau aneirif o fyrdd wahanol liwiau—peraroglau y naill, a cherddoriaeth y llall, fuasai yn sicr o lanw ei galon â mwyniant, â llawenydd. Pan yn ei hyfrydwch eithaf, bwriwn etto fod yr awyr yn duo, yr haul yn tywyllu, a'r adar oll wedi colli eu hodlau, oni fuasai ei wyneb yn sicr o bruddhau wrth weled y cyfnewidiad? Ar hynny dyna y mellt yn gwau, y taranau yn rhuo, a'r ddaear dan ei draed oll yn grud. Naturiol yw meddwl y buasai yn casgclu fod yr haul wedi cael ei friwio yn gandryll, ac na welsai mwy hyfrydwch mewn dim. Pan yn ei dristwch a'i hiraeth, bwriwn etto fod y dymestl drosodd, a'r haul—er ei fawr lawenydd—yn adlewyrchu ar y meysydd, yr adar gyda hyfrydwch ychwanegol yn ail ddechreu eu hodlau drwy bob llwyn, a'r caeau yn peraroglì yn ddeng mwy hyfryd nag o'r blaen. Gwelasai ar hynny mai adnewyddiad holl anian ydoedd yr hyn a gasgclodd yn ei ffrwst fyddai yn ddinystr y cyfan; ar hynny teimlai ei galon yn cael ei llanw o ddiolchgarwch i Dduw am ddoethineb a daioni ei weithredoedd.

Yr ydym *ni* wedi gweled, ac yn deall diben y tymhestloedd, ac yn hoffi yn sychdwr haf i weled arwyddion taranau yng ngwyneb y ffurfafen; am hynny nis gallwn deimlo yn iawn wrth ddychymygu dyn o'r fath, y modd rhaid y teimlai ef.

Bwriwn etto ei fod yn gweled haul yn machlud y tro cyntaf ar y dydd hwnnw, Oni fuasai yn sicr yn awr fod y cyfan ar ben? a dyn wedi ei drefnu i ymbalfalu mewn dudew dywyllwch am weddill ei oes? Pam nad dyma ein teimladau ni wrth weled nos yn nesu? Gwyddom fod y boreu yn canlyn yn ei dro, ac erbyn i lodded gael adnewyddu ei nerth yr ail gyfyd yr haul i'n diddanu etto. Mae i ni yn amlwg yn hyn fod Duw wedi rhagluniaethu yn dda. Onid teg ynte yw casgclu fod dibenion yr un mor ardderchog dda yn y rhannau hynny o'i Ragluniaeth ydynt guddiedig oddiwrthym? Dymma le i ffydd weithredu ar seiliau y gwirionedd, y rhai nid ysgogir.

Nid ydwyf etto—fel y gwel y darllenydd—wedi cyffwrdd ar hyn a elwir drygau moesol, am fy mod yn chwenychu i'r darllenydd i ystyried yn gyntaf a oes rhyw boen naturiol am yr hwn y gall ddywedyd mai er *poeni yn unig* yr apwintiodd Duw ef. Wedi methu gweled un poen am yr hwn, wedi ei iawn ystyried, y gallwn ddywedyd, nad oes un da yn tarddu o hono? yr ydym, er ein gorfoledd, yn rhwym o gasgclu nad oes un o'r poenau naturiol ag y mae dyn yn ddarostyngedig iddynt wedi ei drefnu er ei fwyn ei hun, ond er *lles y poenedig*, ac am hynny mai Bod anfeidrol ddaionus yw Duw, Creawdwr cyrrau y ddaear.

O hyn ym mlaen, caf yn fynych droi i'r Ysgrythyrau sanctaidd am gynnorthwy i ddeall trefn llywodraeth Duw ym mhellach nag y gallwn ganfod wrth oleuni natur yn unig, yn enwedigol yr athrawiaeth nefolaidd

o adgyfodiad a bywyd diderfyn. Heb hon ammhossibl cael atteb boddhaol, pam mae drygau moesol o dan lywodraeth Duw Hollalluog. Mae hwn wedi bod yn galw sylw y dynion galluoccaf a mwyaf duwiol ag a welodd y byd; a rhaid yw cyfaddef, nad ydym yn gallu ei amgyffred i berffeithrwydd; ond ni a wyddom lawer, ie ni a wyddom ddigon i symud ymaith bob amheuaeth, ac i roddi tawelwch i'r meddwl. Dywedai Epicurus, Os oedd Creawdwr i'r byd, rhaid ei fod naill ai yn ewyllysio difa pob drwg, ond yn analluog—neu yn alluog, ond yn anewyllysgar, neu nad oedd nac ewyllysgar na galluog; neu yn olaf, ei fod yn alluog ac yn ewyllysgar, ac mai hon oedd yr unig olwg deilwng am Dduw; ond ei bod yn amlwg nad oedd y Creawdwr y soniai dynion am dano ddim yn alluog ac yn ewyllysgar, neu ynte na fuasai un drwg yn bod.

Mae pob math o ddrwg ag a allwn ei ddychymygu i'w gynnwys dan un o'r tri enw hyn:—Drwg Ammherffeithrwydd, Drwg Naturiol, a Drwg Moesol. Drwg Ammherffeithrwydd yw ymddifadrwydd o berffeithrwydd; Drwg Naturiol yw poen yn cael ei beri gan achosion naturiol, megys llosgiad y tan, neu frathiad y drain; Drwg Moesol yw poen yn cael ei beri gan ewyllysiad camsyniol. Am y cyntaf mae yn amlwg na all Duw ei rwystro, hynny yw, ni all Duw ddim creu peth digreuedig ac anymddibynol, neu greu bod anfeidrol fel ef ei hun, ac os creu oll, rhaid creu bodau ammherffaith. Am ddrygau naturiol, rhaid eu bod yn anhepgorol i'w gynllun, fel y dangoswyd eisioes. Maent yn gymmaint o nodau cariad yn nhrefn Rhagluniaeth, fel nas gellir dirnad pa fodd y delai lles dyn oddiamgylch heb iddynt.

Rhaid etto fod y drygau moesol o dan lywodraeth Duw yn atteb yr un diben. Dywed Ioan mai 'Cariad yw Duw,' a chan ei fod hefyd yn Hollwybodol, sicr yw na fu, ac na fydd, drwg nad yw ef o dragywyddoldeb wedi ei ganfod; a phe buasai yn fwy cysson âg anfeidrol gariad i greu dyn heb fod yn agored i bechu, rhaid na fuasai i ddrwg moesol fyth gymeryd lle. Os Bod o anfeidrol gariad, Hollwybodol, a Hollalluog, yw Duw, y mae yn rhaid ei fod cyn dechreu creu wedi dewis y cynllun goreu er lles ei greaduriaid, ac i fod anfeidrol ddoethineb a chariad yn gweled fod hyd y nod drwg moesol yn ei le yn atteb dibenion cariad, er perffeithio dyn trwy ddioddefiadau. Ar ei ddyfodiad cyntaf i'r byd y mae dyn heb un drychfeddwl am un peth; nes clywed swn, ni wyr am lais yn addysgcu; nes gweled goleuni, ni wyr ddim am liwiau; nes i'r awyr daro ar ei ffroenau, ni wyr ddim am arogl; ac yn yr un modd y mae ei archwaeth a'i deimlad; a thrwy y pump porth hyn y mae ei holl ddealltwriaeth yn cael ei gyrraedd.

Ar y cyntaf mae yn rhaid nad yw ei feddwl ond gwan, ac fel y mae profiad yn ei ddysgcu y mae yn cadw rhag poen. Mae yn caru dedwyddwch, ac yn casau poen, ac wrth geisio cyrhaedd y naill ac ymgadw rhag y llall, y mae yn arfer eithaf ei ddeall, i wahaniaethu rhyngddynt: ond y mae yn fynych yn camsynied. Mor belled ag y mae yn perthyn i ddrygau naturiol, yr wyf yn meddwl bod hyn yn amlwg i bawb. Y mae rhan fwyaf o lawer o fwyniant dyn yn tarddu oddiwrth y gymdeithas ddynol—o achos ei fod yn ymddibynu ar ei gyd-ddyn—o herwydd fod un yn dilyn yr alwad hon a'r llall yr alwad arall—fel hyn y mae cyfoeth yn cael ei greu—fel hyn y mae anneddau yn cael eu hadeiladu, a chyssuron bywyd yn caef eu cyraedd gan ddynolryw. Tra byddo pob un yn ymddwyn yn gyfiawn mae mantais pob un yn gydradd oddiwrth ei fod yn greadur cymdeithasol. Er mwyn peri hyn y mae eisiau rheolau moesoldeb—er mwyn hyn y trefnir cyfreithiau gwladol—er mwyn hyn y mae y doethion yn cyngori—ac er mwyn hyn y mae deddfau Duw wedi eu rhoddi yn ddatguddiedig i ddyn. Pan byddo meddwl dyn yn rhy wan i amgyffred gwir ddoethineb, y mae yn sicr o ddilyn ei fympwy ffol ei hun: fel hyn gwna gam a'i gyd-ddyn ac a'i hunan—hyn yw anfoesoldeb. Gyda ei waith yn cyffwrdd a'r drwg mae 'trallod ac ing' yn ei ddal, mae heddwch y galon yn cilio, mae sirioldeb y wedd yn cael ei aflonyddu, cyn y gwypo ei gymydog ei fod wedi cael cam, y mae cydwybod euog yn ei ddirdynu ef, 'Yr annuwiol a ffy heb neb yn ei erlid.' Mae wedi drygu ei hun yn fwy na neb arall, a llawer gwaith mae y gofid wedi atteb diben da,—wedi perffeithio y dyn trwy ddioddefiadau. Pa ddyn nad yw ei brofiad yn tystio hyn? Diau bod pawb wedi dysgcu doethineb trwy gosp am fai, yn gystal a thrwy wobrwy am rinwedd. Mae yn amlwg oddiwrth hyn fod cosp am bechod yn dda i ddyn.

Heb anghyfiawnder ei gyd-ddyn, pa fodd y gall y Cristion faddeu? Oni bae drygau moesol ni chelai trugaredd, a thosturi, le i weithredu; ac felly byddai y Cristion yn cael ei ymddifadu o un o'r ysgolion goreu, i'w ddwyn i fynu yn ysbryd ei Arglwydd; fel hyn, tra mae drwg moesol yn fflangell arteithiol ar gefn y pechadur, y mae hefyd yn nhrefn Rhagluniaeth, yn atteb diben dirfawr i berffeithio dyn ar ddelw ei Dduw. Ymddengys gan hyny fod hyd y nod y drygau mwyaf yn cael eu goruwchlywodraethu gan anfeidrol ddoethineb i fod o les i'r un sydd yn dioddef cam ar law ei gymmydog. Mae llywodraeth cariad i'w chanfod yn hyn, gan iod yr amean yn dda.

Gan fod dyn yn cael ei eni i'r byd, fel ei hen dad Adda, heb wybod dim gwananiaeth rhwng da na drwg, nid ydwyf fi yn gallu dirnad pa fodd *heb wyrth* barhaus y gall gadw rhag camsynied. Firwyth naturiol camsynied yw camweithrediad, neu bechod—oddiyma y cyfyd drygau moesol—dyma pam mae drwg o dan lywodraeth Bod o anfeidrol gariad.

Mi gaf yn nesaf ddangos fod y gosp sydd ar gyfer pechod wedi ei hamcanu i ddiwigio y cospedig; ond cyn gwneud hyn yn amlwg, rhaid edrych ym mlaen tu hwnt i'r bywyd hwn.

I'w barhau.

HANESION.

CYFARFOD CWARTEROL.

Cyfarfod Cwarterol Gweinidogion Undodaidd y Deheubarth, a gynnaliwyd yn y Câsnewydd, Penybont, Iau, y 30ain o Rhagfyr, 1847. Bu cyfarfod y nos o'r blaen, (Mercher,) am 6 o'r gloch. Dechreuwyd yr addoliad gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, a phregethodd y Parch. R. Davies, Capel-y-Groes, oddiar Matt. xvi. 18.

Y cyfarfod boreu dydd Iau a ddechreuwyd am 11eg, trwy ddarllen a gweddi, gan y Parch. J. Jones, Aberdâr. Pregethodd y Parch. D. Lloyd, M.A., o Gaerfyrddin, (yn Saesoneg,) oddiar Ioan xiv. 9, a'r Parch. O. Evans, Cefn, (yn Gymraeg,) oddiar Esay xlvi. 10.

Yn y gynnadledd a ganlynodd dewiswyd gweinidog y lle i'r gadair. Llefarodd y Parch. J. Jones, Aberdâr, ar 'y pwngc,' sef 'Iawn i Gyfiawnder,' ond ni chwanegodd neb lefaru ar ei ol. Yr oedd yr amser eisioes wedi cerdded yn mhell, ac yr oedd yr hin yn oer iawn.

Penderfynwyd fod i'r Cyfarfod Cwarterol nesaf i fod yn Cwmmwr-du, ger Brechfa, Sir Gaerfyrddin, ar y Mercher a Iau cyntaf ar ol y Pasg.

Cyttunwyd hefyd gan aelodau Cymdeithas Gwent a Morganwg ag oeddent yn bresennol, ar fod i gyfrifon y Gymdeithas i gael eu rhoddi i mewn yn Nghyfarfod Blynyddol y Deheubarth, yr hwn a gynnelir yr hâf nesaf yn Nghapel-y-Groes, Ceredigion.

Prydnawn, am 6, dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Titus Evans, a phregethodd y Parch. J. James, Gellionnen, oddiar Gal. v. 6.

MERTHYR TYDFIL.

Cynnaliwyd yr Eisteddfod Flynyddol yn neuadd y Llew Gwyn, lle yr oedd llaweroedd o Feirdd a Llenorion wedi ymgynnull, ar ddydd Nadolig, 1847. Pennodwyd Mr. T. Stephens, Fferyllydd, i fod yn Gadeirydd, a thraddodwyd areithiau priodol ganddo ef, a chan Cawr Cynon, ac Eiddil Ifor. Darllenwyd Beirniadaeth y Parch. T. Price, Crughywel, ar y Rhyddiaith; ac eiddo y Parch. Walter Davies, Llanrhaiadr, ar y Barddoniaeth; a rhanwyd y gwobrwyon fel y canlyn:—

1. I'r Traethawd goreu ar gyflwr moesol a llenyddol y Deheubarth, £8. Pedwar o ymgeiswyr. Mr. T. Stephens yn oreu, a Mr. T. E. Watkins, (Eiddil Ifor,) Blaenafon, yn ail oreu.

2. Cywydd goreu ar Natur, £1. 10s. 0. Mr. Morgan Jenkins, Pontypridd.

3. Traethawd ar y Ddyledswydd o Ryddymofyniad, £1. Pedwar o ymgeiswyr. Mr. T. Stephens.

4. Can ar Foryddiaeth, £1. Mr. John Roberts.

5. Buchdraeth Hywel Dda, £1. Cyhoeddir yr un buddugol yn yr YMOFYNYDD presennol.

6. Englynion i'r Llythyr-doll Ceiniog. Mr. Richard Jones, Twynyrodyn.

7. Englynion i Gwmffrwd. Mr. Jonathan Reynolds.

8. Englyn i'r Wennol. Mr. John Evans Pontypridd.

9. Beddargraff i Ferch Nathan Dyfed. Mr. John Garnon.

Y Cor Cerddorol goreu oedd Dafydd Richards a'i gyfeillion; a gwobrwywyd William Frost am draddodiad a wnaeth Caradoc i'w filwyr. Amrywiwyd y difyrwch gan sain y delyn, melus leisiau y cantorion, a bywiog gynnadleddau; ac ymadawodd pob un tua chartref mewn amser rhesymol.

PREN FFRWYTHLON.—Y mae gan Captain Paul o Cernyw, goruchwyliwr ac edrychydd dros waith mwyn Llanfair Clydogau Ceredigion, yn ei ardd bren afalau yn tyfu wrth y Swyddfa yn Llanfair. Y mae hwn yn un o'r prenau mwyaf nodedig am ei ffrwythlondeb a glywyd am dano er ys llawer dydd: blodeuodd yn gyntaf y llynedd oddeutu yr 16eg o Fawrth a dechreuodd ffrwytho oddeutu y 1af o Fai, a daeth y ffrwyth i aeddfedrwydd Gorphenaf: blodeuodd drachefn ar yr 20ed o Awst, a dechreuodd ffrwyth o aryr 28ain o'r mis, a daeth y ffrwyth i aeddfedrwydd ar y 12fed o Dachwedd. Yr oedd yr afalau yn gydradd y ddau dro i'r cyffredin mewn maintioli.

Cellau. IORWERTH GLAN TEIFI.

Cafodd dyn o'r enw Thomas Thomas ei ddiwedd yn y gwaith glo ar y 12fed, gan adael gwraig a phump o blant ar ei ol.

ESGOB HENFFORDD.

Y MAE Dr. Hampden o'r diwedd wedi cael ei ddewis i Esgobaeth Henffordd, a hynny yn groes i ddymuniad a deisyfiad 13 o'r Esgobion, ynghyd ag Arch-esgob Caer Gaint. Nid oedd y dewisiad yn unfrydol, (fel y gofyn y Gyfraith Eglwysig iddo fod) gan fod y Dëon ac un o'r Canonau yn groes iddo. Ond dangoswyd ar yr amgylchiad, yn ddigon amlwg i'r wlad, nad oedd y dewisiad gan y Dëon a'r Canonau, ddim ond *ffurf wâg*, ac eu bod yn rhwym, yn ôl cyfraith sefydliad yr Eglwys, dan Harri VIII., dan berygl o gosp ofnadwy, i ddewis y gwr a appwyntid gan eu Pen, sef, y Frenhines, neu yn hytrach, y Llywodraeth ar y pryd. Nid rhyfedd fod llawer o Offeiriaid ac Eglwyswyr yn anfoddlon dros ben i gydnabod eu bod hwy a'u heglwys, mewn pethau mor bwysig, dan fysbawd y Llywodraeth Wladol. Ond y mae eu dewis ganddynt, os mynnant fod yn rhyddion, rhoddent i fynu y gyflog a dderbyniant trwy law y Llywodraeth. Nid rhesymol 'disgwyl cael y blawd yn y cwd *ac* yn y ffettan.'

Y mae Dëon Henffordd (Dr. Merewether) wedi gwneuthur digon o sôn am ei ben, yn yr achos hwn. Dros ryw amser cafodd y gwr tra-pharchedig ei gyfrif gan lawer ymhlith y rhai a aberthant bob peth er mwyn cyssondeb a chydwybod dda. Ni wyddid y pryd hynny ei fod ef ei hun wedi bod yn ymgeisydd am yr Esgobaeth; ond iddo gael ei siommi.

Pa egwyddor yw yr hon sydd yn gosod y gwrthwynebwyr ar waith? Y mae yn amlwg fod rhywbeth yng ngwraidd yr erledigaeth heb law gelyniaeth bersonol tuag at Dr. Hampden. Ei wrthwynebwyr a berthynant i'r blaid honno yn yr Eglwys ag sy'n coleddu syniadau Pusey.

Beiddia rhai ddaroganu nad yw hyn i gyd ond dechreuad, ac na wyddys beth fydd y pen draw iddo. Sicr yw, na fydd yr anghydfod a'r ymdaraw presennol rhwng yr aelodau a'u gilydd, ac a'u Pen, ddim i weinyddu i heddwch a chynnydd y corff.

ADDYSGIAD YNG NGHYMRU.

Y mae *Reports* y Dirprwywyr a anfonwyd oddiwrth y Llywodraeth i edrych i mewn i gyflwr ac effeithloldeb Ysgolion ein gwlad, wedi cael eu cyhoeddi. Nid ydym ni, hyd yn hyn, wedi cael eu gweled; oddieithr yn wir, darnau o honynt perthynol i rai cym-'dogaethau neillduol—y rhai sydd wedi ymddangos yn y Newyddiaduron Cymreig, yn neillduol y 'Principality.' Ond gwelsom hefyd yn y crynodeb a geir o honynt yn y Newyddiaduron Seisnig, pa effaith mae eu darluniadau wedi ei gael ar feddyliau ein cym'dogion.

Yr ydym wedi gweled digon i foddloni ein mheddwl ni, fod y '*Reports*,' mewn rhai pethau pwysig, yn *ddiffygiol* ac yn *anghywir*; a bod ein cym'dogion (y Saeson) ag sy'n ymddiried iddynt, yn cael eu cam-arwain. Braidd y credasem, oni bai ein bod wedi ei weled yn argraffedig, y ceid un ysgrifenwr cyfrifol ymhlith y Saeson, mor *wan* a gallael coelio bod bechgyn yng Nghymru ag na fedrant spelianu eu henwau eu hunain, etto yn proffesu gwybod enw asyn Balaam.

Os darfu i ryw grwttyn hanner-call ofyn rhyw gwestiwn, neu roddi rhyw atteb anghyffredin ffol, peth anheg ac anghyfiawn oedd ei *reportio* fel *sample* o ieuenctyd ein gwlad. Beth hefyd a allai fod yn fwy anheg a gwrthyn na barnu a chondemnio pleidiau crefyddol ar dystiolaeth dynion ag sy'n wrthwynebol iddynt, neu yn rhagfarnllyd yn eu herbyn. Y mae yr Ymneillduwyr yn achwyn, nid heb achos cyfiawn, am y cam y maent wedi ei gael yn hyn.

Rhaid cydnabod nad yw'r Ymneillduwyr ddim heb eu beiau a'u gwendidau, ac nad yw yr addysg a roddir i'r ieuenctyd yn eu hysgolion ddim yn gwbl y peth y gellid dymuno ei fod. Ond pa beth mae'r Offeiriaid gydag holl gyfoeth yr Eglwys wedi ei wneuthur tuag at ddysgu'r wlad? A ydyw eu sefydliadau a'u hymdrechiadau wedi bod y fath fel yr ymddengys nad oes neb ond hwy yn *fit* i gael addysgiad y ieuenctyd dan eu gofal? Na, na. Ond rhyw beth fel hyny tebygid mae y Reports yn ei *recommendo* i'r Llywodraeth.

Y mae yn ddolurus i feddwl am y cyfrif *isel iawn* a roddir gan y Dirprwywyr o foesoldeb y wlad, a diweirdeb y merched. Y mae arferion llygredig ag sydd yn cael ymron eu cymmeradwyo mewn rhai cym'dogaethau wedi rhoddi gormod o achos i hyn o warth ar ein cenedl. Y mae eisiau gwella hyn yn dost. Gobeithiwn y bydd i'r dystiolaeth anffafriol ag sydd wedi myned allan, i fod yn foddion i ddyhuno y Cymry, er peri iddynt ymdrechu o ddifrif i attal y drwg hwn, ac i symmud y gwarth oddiar ein gwlad. Etto nid allwn lai nag ystyried mai cam-dystiolaeth yw yr hyn a roddir yn y 'Reports,' am anfoesoldeb ac anniweirdeb y Cymry mewn cydmariaeth â chenhedloedd eraill.

Ond beth debyga y darllenydd yw y feddygyniaeth a gynnygir er gwella a symmud y drygau hyn? O, dim ond dysgu Saesoneg! A difodi y Iaith Gymraeg! Wel, wel, bydd y darllenydd yn barod i ddywedyd, Dyna ddigon y nawr.

COLLIANT YR 'AVENGER.'

266 o Fywydau wedi Colli.

Cyrhaeddodd yn ddiweddar y newydd alaethus, fod agerlong ei Mawrhydi, yr 'Avenger,' wedi taro ar graig tanddyfrol yn Mor y Canoldir, rhwng Gibraltar a Malta, ar yr 20fed o fis Rhagfyr diweddaf. Cychwynodd o Gibraltar ar yr 17eg, ar yr un amser â'r agerlong 'Pacha,' yr hon oedd yn hwylio tua'r un lle, sef Malta; ond gan fod y 'Pacha' yn hwylio yn gyflymach, gadawodd yr 'Avenger.' Yr oedd yn ystormus iawn, a'r môr yn rhedeg yn uchel; a thrwy ryw gamgymeriad, aeth y llong yn mhell o'i llwybr, ac ar greigle rhwng ynys Galita â Chyfandir Affrica, tua deg o'r gloch y nos, ac ymhen ychydig funydau hi a aeth 'yn ddrylliau. Yr oedd y cadben a'r meistr ar y *paddle box* pan darawodd y graig, a galwai yn ddioed am barotoi y cychod, gan fod yn amlwg nad oedd gobaith arall iddynt am eu bywyd. Ond gyntêd y cafwyd un cwch allan, i'r hwn yr aethai wyth o ddynion, trodd yr agerddlong ar ei hochr, a golchai y môr drosti yn llwyr. Wedi i'r cwch aros yn agos ati am awr a hanner, codai y gwynt a'r môr yn uwch, a gwnaeth y cwch am y lan oreu gallent, gan feddwl cyrhaedd ynys Galita: ond o herwydd i'r gwynt droi yn eu herbyn, gorfu iddynt wneyd am y Cyfandir, lle y cyrhaeddent boreu dranoeth: ond o herwydd ymchwydd y tonau, trodd y cwch eyn iddo lanio, a phedwar yn unig o'r wyth a gawsant i'r lan yn fyw. Nifer yr encidiau oll ar fwrdd y llong pan y tarawodd y graig oedd dau cant a deg a thriugain; a'r pedwar a soniwyd yn unig a adawyd yn weddill diangol. Yr oedd yr 'Avenger' yn llong fawr, yn mesur 1444 o dunelli, ac yn 650 o geffylau o allu, wedi ei hadeiladu yn 1845.

IWERDDON.

Y mae dydd o ad-daliad trwm wedi dyfod o'r diwedd ar y drwg-weithredwyr yn yr Iwerddon.—Y mae llawer eisioes wedi eu cael yn euog o lofruddiaeth, ac wedi cael eu condemnio i ddioddef marwolaeth. Eraill sydd wedi eu condemnio i alltudiaeth. Y mae y treialon yn para i fyned yn y blaen. Y mae gweinyddiad y Gyfraith eisioes wedi peri dychryn ac attalfa i'r afreolus.

Bydd yn amser prysur yn y gweithiau haiarn yn y misoedd dyfodol. Gostyngwyd prisoedd y gweithiau bedwar swllt yn y bunt ar yr 8fed o Ionawr; a gyrrwyd y rhan fwyaf o fwynwyr Dowlais o'r gwaith.

Dychrynllyd.—Fel ag yr oedd y llestr Caroline ar ei thaith o Savannah i Bath, cyfarfyddodd ag ystorm fawr ar y 26ain o Hydref, ac ysgubwyd oddiar ei bwrdd yr holl ymborth oedd ganddynt, ac ar y 10fed o Dachwedd yr oeddynt wedi bod am chwe' diwrnod heb na thamaid na llymaid. Yn yr amgylchiad yma bwriasant goelbren pwy o honynt a fyddai farw er achubiaeth y gweddill, a syrthiodd y coelbren ar glamp o Wyddel, o'r enw Brown, yr hwn oedd yr unig ddyn ar y bwrdd a chanddo gyllell yn ei feddiant, â'r hon y bygythiai wanu pwy bynag a ddynesai ato gyda bwriad o gymeryd ei fywyd. Y pryd hyny cynnygiai bachgen o Gymro oddeutu 19 oed, roddi ei fywyd i lawr yn ewyllysgar, a phan yr oedd Brown yn myned i'w wanu a'r gyllell, aeth y cadben yn llechwraidd y tu ol i Brown, a holltodd ei ben â bwyall; felly achubwyd y Cymro. Yfasant ei waed, a bwytasant lawer o'i gorff. Modd bynag, ar foreu y 13eg, daeth tair o lestri i'r golwg, a chymerwyd y dwylaw ar fwrdd dwy o honynt, a glaniwyd rhai o honynt yn Philadelphia, ond yr oedd y llestr arall yn rhwym i'r India Orllewinol.

Priodwyd, yn addoldai yr Ymneilduwyr, ynghyd a swyddfa y Cofrestrydd, yn Merthyr a Dowlais, o Ionawr, 1846, i Ionawr, 1847, y swm dirfawr o 384. Diolch am beth rhyddid i ddynion farnu a gwneyd yn ol eu dewisiadau; ymdrechwn trwy bob dull a modd tawel, effengylaidd, ac addfwyn i gael ein cydgenedl o'r holl rwymau a'r llyffetheiriau yn rhyddion.

Y Farchnad Haiarn.—Cynhaliwyd y mis diweddaf gyfarfod gan y Meistri Haiarn yn Dudley, pan y cyfarfu amrywiol gynrychiolwyr o'r gweithfeydd helaethaf yn neheubarth swyddi Stafford a Salop yn bresenol. Cymerodd hir gyfrinach le ar gyflwr isel presenol marsiandiaeth, ac yn y diwedd penderfynwyd ar gryn ostyngiad mewn prisoedd. Lleni, y rhai y chwarter diweddaf oeddent £13 10s., a gydunwyd am £11 10s.; Barau a ostyngwyd o £10 i £8; a Chylchau o £10 10s. i £8 8s. Gan fod pris y Perchill yn ymddibynu yn gwbl ar amgylchiadau dygwyddiadol, nis gellid ei benderfynu ond fel yn bresenol, ac am y fath oraf gwahaniaetha y prisoedd o £3 15s. i £4 5s. Y dyb gyffredin, pa fodd bynag, oedd yn ymddangos mewn canlyniad o fod cynnifer o ffwrneisi allan o berchill bydd y diwelliant yn fuan ddarfod, a'r pris i gyfodi yn gyfatebol. Gan fod gweithrediad y gweithfaoedd braidd yn mhob man wedi lleihau, ac mewn llawer o fanau wedi cwbl derfynu, ac amryw wedi hyny i roddi i fynu, yr oedd oddeutu pum

mil o weithwyr allan o waith, a'r rhai oedd wedi cael eu cadw mewn gwaith wedi gorfod ymostwng i leihad pris o bymtheg i ugain swllt y cant. Ni chafodd hyn, pa fodd bynag, heb amlygiad o wrthwynebiad o du y dynion; cynhaliwyd cyfarfod lluosog gan y gweithwyr tân, pan y penderfynwyd i beidio ymostwng i'r amodau a gynnygid gan y meistriaid; cynnygiasant ar iddynt gynnal eu hunain am fis allan o'r hyn oedd ganddynt, ac yna syrthio yn ol ar yr undeb; ond meddyliai eraill nas gallent lynu wrth y penderfyniad hwnw, yn gymaint a bod y meistriaid yn ddisigl. Credu yr ydym y gwellha yr amser yn fuan, ac y bydd digonedd o waith etto i bobl ennill eu bywoliaeth yn fwy cysurus.

Yr Achosion Arianol.—Gryn gwyn sydd i'w glywed eto ymron o bob cwr, oherwydd ansawdd y farchnad arianol yn y deyrnas hon. Er fod yr hyder i raddau wedi ei adferyd yn mhlith pob gradd o fasnachwyr, eto y ffaith yw fod yr arian yn brin iawn ac anghyraeddadwy yn y wlad. Yn wir, nid oes dysgwyl iddi wella i ddim pwrpas hyd oni ddaw rhai miliynau o bunnau eto yn ol o'r gwledydd tramor, y rhai sydd wedi dyhysbyddu y deyrnas hon yn gywilyddus o'i haur a'i harian yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf. Mae hyny yn un cysur, fod llawer o arian yn dyfod bob wythnos o'r Americ a gwledydd eraill, ac erbyn y daw amryw filiynau o'r India Ddwyreiniol i'w rhoddi ar dreigl yn Mrydain, nid oes amheuaeth yn bodoli yn meddyliau pobl dra deallus na bydd y farchnad arianol yn fwy ffynianus nag y bu ers talm. Mae yr arian yn cynnyddu yn barhaus yn nghoffrau Ariandy Lloegr. Tua diwedd y flwyddyn diweddaf nid oedd yn meddu ar fwy na miliwn a hanner o bunnau, ond erbyn hyn y mae yn meddu dros naw miliwn o bunnau. Bu y cynnydd yma yn nghyfoeth yr Ariandy yn attalfa i lawer trychineb drwy feth-daliadau yn ein gwlad; ac y mae cryn helaethiad wedi cymeryd lle yn ystod yr wythnosau diweddaf.

Duc Wellington.—Y mae yr arian a dderbyniodd y gwron hwn o gyllid y deyrnas, er pan aeth efe i mewn i'r fyddin, yn fawr aruthrol. Onid yw yn syndod meddwl fod un dyn wedi derbyn am ei wasanaeth er y flwyddyn 1818, y swm anferth o ddwy filiwn, pedwar can a thriugain o filoedd, naw cant a phedair ar ddeg o bunnau. Heblaw yr arian uchod, dywedir iddo dderbyn un filiwn o bunnau o *prize-money* pan oedd yn Ffrainc, ac wyth gann mil o bunnau pan oedd yn Spaen.

Aberdaugleddyf.—Yr wythnos ddiweddaf, daeth y llestr Osprey, o Tenby, i mewn i borthladd Aberdaugleddyf, a chanddi ar ei bwrdd ddwylaw y llestr Mary Jane, yr hon a adawsid ar y 10fed o Ragfyr diweddaf, yn hydred 15, a lledred 50, ar ei mordaith o Quebec i Lerpwl. Ymddengys oddiwrth dystiolaeth y cadben fod y Mary Jane wedi cyfarfod ag ystorm enbyd ar y 5ed, pryd y darfu iddi agenu, a hyny i'r fath raddau fel yr oedd erbyn tranoeth 12 troedfedd o ddwfr yn ei *hold*. Y nos hono hefyd cynnyddodd yr ystorm, ac ysgubwyd ymaith yr hwylbreni. Yr oedd eu sefyllfa yn awr yn dra annedwyddol, oherwydd yr oedd yr holl fwyd oedd ganddynt wedi myned yn ysglyfaeth i'r tonau oedd yn lluchio dros y llestr, oddieithr ychydig iawn o fara a dwfr a adawyd; a bu gorfod rhanu yr ymborth yn ddognau bychain, sef hyn a hyn yn y dydd, i bob un o'r dwylaw, a llonaid dau wydryn bychan o ddwfr. Modd bynag, yn dra ffortunus, syrthiasant i mewn a'r Ocean Queen, o Amlwch, yr hon a'u glaniodd hwy yn Tenby. Y llwyth a ddygai y Mary Jane oedd *Railway Sleepers*. Y cadben a ddywedai na buasent yn gadael y llestr mor fuan oni bai fod yr ymborth wedi darfod. Tra thebygol iddi suddo yn fuan wedi i'r dwylaw ei gadael.

Hysbysiaeth Hynod.—Ymddangosodd a ganlyn mewn newyddiadur Gwyddelig —"Rhedodd i ffordd neithiwr, fy ngwraig, Bridget Cöole. Y mae yn gorff cryno, taclus, ac wedi colli un goes. Gwelwyd hi wrth ysgil offeiriad y plwyf yn myned trwy Fermoy, a chan na buom erioed yn briod ni thalaf ddimai o ddyled nad yw ddyledus arni. Y mae hi yn floesg o un dant, yn siarad llawer am y tylwyth teg, ac nid yw o werth i neb ond i'w pherchenog. Phelim Coole."

Ystradgunlais. — Ychydig amser yn ol tynwyd i lawr ran o fur monwent y lle hwn, yn nyffryn Abertawy, i'r dyben i eangu y gladdfa. Yn absenoldeb y gweithwyr torodd pedair o fuchod, eiddo Mr. Morgan Morgan, ffermwr yn y gymydogaeth, i mewn i'r fonwent, a buont oll farw yn mhen ychydig amser mewn canlyniad i fwyta rhyw gymaint o'r pren Iw oedd yno.

Cenfigen.—Gwr heb rinwedd ei hun bob amser a genfigena wrth rinwedd gwr arall. Rhaid i feddwl dyn ymborthi naill ai ar ei ddaioni ei hun neu ar ddrwg eraill. Yr hwn sydd ddiffygiol o'r naill a ymgyfoethoga ar y llall. Yr hwn sydd allan o obaith i gyrhaedd rhinwedd gwr arall a ymdrecha ddyfod yn gydwastad trwy ei ddifrio.

PIGION.

MRS. WELCH A IAGO II.

Merch John Knox, Diwygiwr enwog yn Scotland, oedd Mrs Welch, Yr oedd ei gwr, Mr. Welch, wedi bod yn llafurus wrth y Diwygiad, a thrwy hyny wedi anfoddloni y Brenin yn ddirfawr oherwydd ei zel yn erbyn llywodraeth yr esgobion. Yr oedd Mr. Welch wedi gorfod gadael Scotland, a threulio rhai blynyddau ar y 'Continent.' Collodd ei iechyd, a barnai ei feddygon mai awyr gwlad ei enedigaeth allai yn unig ei adferu. Trwy garedigrwydd cyfeillion iddi, —y rhai oeddent yn llys y brenin—ca'dd Mrs. Welch ei dwyn i'w bresenoldeb ef i eiriol am ganiatad i'w gwr i fyned yn ol i Scotland. Gofynnodd ei Fawrhydi pwy oedd ei thad? 'Mr. Knox,' ebe hithau. Gwaeddodd y Brenin allan — 'Knox a Welch! ni wnaeth y Diawl erioed y fath briodas a honna.' 'Tebyg eich bod yn dywedyd y gwir,' meddai Mrs. Welch, 'oherwydd ni ymgynghorasom ni erioed ag ef.' Gofynodd y Brenin faint o blant oedd ar ol ei thad, a pha un ai bechgyn ai merched oeddynt? 'Tair merch,' ebe hithau. 'Diolch i Dduw,' ebe'r Brenin, gan ddyrchafu ei ddwylaw, 'oblegid pe buasent yn fechgyn ni chawswn i fyth fwynhau fy nhair teyrnas mewn diogelwch.' Gofynodd hithau eilwaith am ganiatad i'w gwr ddychwelyd i'w wlad enedigol. 'Gweled eich Mawrhydi yn dda roi ei awyr enedigol iddo.' 'Rhoi'r Diawl iddo,' ebe yntau—tammaid oedd yn wastad yng ngenau y Brenin. Gan dramcwydd wrth ei halogedigrwydd, attebai Mrs. Welch, 'Rhoddwch hwnnw i'ch 'courtiers' gwangcus.' Dywedodd y Brenin o'r diwedd —os y gallasai hi 'berswado' ei gwr i ymddarostwng i'r Esgobion y cawsai fyned i Scotland. Cododd Mrs. Welch ei harffedog i'r lan, a chan ei hestyn at y Brenin, dywedodd yn ysbryd ei thad, Mae yn well genyf dderbyn ei ben yn hon o dan law y dihenydd.' — Gwel M'Crie's Life of John Knox.

Yr ydym yn gweled ac yn cydnabod annigonolrwydd y byd. Y mae yn wers ag sy'n eael ei dysgu i ni gan yr holl genhedlaethau o ddynolryw a aethant heibio; un ar ôl y llall—gwers hollol sathredig, diystyr a diffaith, oni bai ei bod bob amser yn dwyn gydâ hi ryw deimlad poenus o'i gwirionedd, ag sy'n cyffwrdd a phrofiad bob un o honom; ac etto, er gorfod cyfaddef ei gwirionedd, yr ydym yn ymddwyn fel pe baem yn tybied, o ran a berthyn yn neillduol i ni, y ceir nad ydyw yn wir. Yr ydym yn adeiladu ein ty megis wrth wddwg *Volcano* ag sydd ond wedi hanner diffoddi, lle mae pawb a anturiasant fyw yno o'n blaen, wedi cael eu llyncu i fynu. Wrth geisio am rywbeth i foddhau y galon, yr ydym rhodio ar hyd llwybrau ag y mae ein rheswm ein hunain a phrofiad eraill yn cyd-dystiolaethu ei fod yn rhaid iddynt derfynu yn siomedigaeth a gofyd. Yr ydym yn trysori i ni ein hunain drysorau ar y ddaear, ac yn ymofyn yno am fara, ac y mae profiad ein hunain, a Gair Duw yn dywedyd nad all foddloni yr enaid. A raid ei bod fel hyn o hyd? Ai nid allwn ddysgu un amser?

Y mae penrhyddid yr un fath â rhyddid y genfaint foch a ruthrasant dros y dibyn i'r mor, ac a fuont feirw yno.

Cofiwch eich *pechodau*, i edifarhau am danynt a'u gadael: eich *profedigaethau*, i ochelyd yn eu herbyn; a'ch *truyareddau*, i'w cydnabod yn ddiolchgar.

Dan unryw amgylchiad, na fydded i chwi er dim dwyllo plentyn na goddef celwydd.

I GADW LLAETH RHAG SURO DROS DDIWRNODAU.—Crafwch lwyed o *Horse raddish* a rhowch ef mewn Stycced o laeth, a *bydd* yn dda am ddiwrnodau.

CYNGHOR O AMERICA RHAG Y *BOTTS* (PRYFED) MEWN CEFFYL:—

½ pint o Holland Gin, os gellir ei gael, neu y gorau arall.
½ pint o Winegr.
½ pint o Dreacl (*Treacle Molasses*)
½ pint (?) o Sebon meddal (soft soap.)

Cymmysgwch a rhoddwch hwynt i'r Ceffyl pan yn glâf. Y mae yn feddygyniaeth anffaeledig.

TAU GIMEL.

POB UN YN EI DRO.—Pan oedd Henri IV. brenhin Ffrainge yn *passo* trwy un o drefydd ei lywodraeth, daeth blaenoriaid y lle i'w gyfarch ac i wneyd areithiau iddo, a phan oedd un o honynt wedi dechreu ei ei araith, dechreuodd asyn, ag oedd yn dygwydd bod ger llaw, yntau gyfodi ei lêf; 'Foneddigion,' ebe'r brenin, 'un ar y tro os gwelwch chwi fod yn dda, onite nis gallaf eich deall chwi.'

Yn eich sylwadau ar bersonau absenol, na ddywedwch ddim na fynech ei ddywedyd pe byddent yn bresenol. 'Penderfynais,' meddai y gwr duwiol a santaidd hwnw, Esgob Beveridge, 'na soniwn am rinweddau dyn o flaen ei wyneb, nac am ei feiau y tu ol i'w gefn.' Rheol euraidd, cadwraeth yr hon, ar un ergyd, a alltudiai allan o'r byd bob math o enllib ac absen.

Dywedir fod y Frenhines Victoria yn teyrnasu ar ymerodraeth ag sydd yn 2,814,040 o filldiroedd mewn maintioli, ac yn cynnwys poblogaeth o 129,829,500.

Fel y mae'r ia ar y mynydd pán y b'o awel desog yr haf yn anadlu arno, yn toddi ac yn ymranu yn ddiferynau, pob un o honynt yn dangos delw yr haul, felly bywyd —dan wenau cariad Duw. Y mae yn ymrannu i lawer gwahanol ddull, ond pob un o honynt yn dwyn delw Duw, ac yn dangos darlun o'i gariad Ef.—Longfellow.

Tra yr wyt yn iach ti elli wneuthur llawer o ddaioni, os ewyllysi; ond pan fyddech yn glaf nid oes neb all ddweud, na thi na finnau pa beth y byddi yn alluog i'w wneud: nid llawer, na dim yn dda iawn.—Taylor.

Goddef yn amyneddgar oddiwrth eraill yr hyn nid elli di ei ddiwygio ynddynt, hyd nes gwelo Duw fod yn dda i wneuthur hynny drosot; a chofia i ddiwygio dy hun, gan dy fod mor awyddus na fyddo i eraill droseddu mewn dim.—Taylor.

NA DDIYSTYRWCH BETHAU BYCHAIN.—Ei fod yn bosibl i ddwyn i mewn gyfnewidiad mawr trwy ddechreuadau bychain iawn—fel eglurhau, gellir, ymhlith pethau eraill, ddwyn y stori a adrodda Lachman am ryw Vizier, (gweinidog y Sultan,) ag oedd wedi anfoddloni ei feistr, ac wedi cael ei gondemnio i'w garcharu dros ei fywyd mewn twr uchel. Yn y nos daeth ei wraig i wylo dan ei ffenestr. 'Paid â'th alar,' ebe'r gwr doeth, 'dos adref ar hyn o bryd, a dychwel yma ar ol it' gaffael chwilen ddu fyw, ynghyd âg ychydig *ghee*, (neu ymenyn Buffalo,) tair pellen—un o'r sidan meinaf, arall o edeu gref, ac arall o *whipcord*—ac yn ddiweddaf, torch gref o râff.' Pan y daeth hi eilwaith hyd at droed y twr, yr oedd wedi darparu pob peth fel y gorchymynasai ei gwr; ac yna rhoddodd ef gyfarwyddid iddi fel hyn, I gyffwrdd pen y chwilen âg ychydig o'r *ghee*, a chylymu un pen o'r defyn sidan oddiamgylch i'r creadur bychan, ac yna i'w osod ar wal y twr. Y chwilen yn aroglu yr ymenyn a dwyllid i feddwl bod stor o hono ryw le uwch ben iddi, ac am hynny ymegniodd i grippian i'r lan, a pharhaodd i escyn hyd nes cyrhaeddodd ben y twr, fel y cafodd y Vizier afael ar un pen o'r defyn sidan. A hwn tynnodd i fynu yr edeu, â hwnnw y cordyn, ac â'r cordyn tynnodd i fynu raff ag oedd yn ddigon cryf i ddal ei bwysau; trwy help honno dyscynnodd yn ddiogel, ac efelly efe a ddiangodd o'i garchar.—Quarterly Review.

DYCHYMYG.

Mae rhywbeth yn fy meddiant,
Un tra defnyddiol yw,
Mae effaith gallu'r gwrthrych
I'w wel'd ar ddynolryw;
Mae ganddo enau llydan,
Dau lygad, heb un droed,
Ac yn ei enau ddannedd
Pan êl mewn gwth o oed;
Pan byddo hwn yn canu,
Ei rwystro yw fy nghais,
Ond os gwna fyn'd i golli
Rwyn hoffi clywed ei lais.
Yn awr, ohebwyr diflin,
Os enwch ef nii wn
Cewch glod gan rai o'r dyffryn,
Heblaw y Crwydryn hwn.

Dyffryn Clettwr. CRWYDRYN.

BARDDONIAETH.

O'r Englynion isod ymddangosodd y blaenaf yn YMOFYNYDD Tachwedd, ond gan fod y rhai eraill yn gyssylltedig âg ef, gwell iddo ymddangos yr ail waith.

1 O'n gwydd aeth Iago dán gwys—mewn gweryd
Mae'n gorwedd dan fawrbwys;
Yn y bedd, dododd ei bwys
Ar arffed ei fam i orphwys.

2 Mewn arch er ei barch o'r byd—e gariwyd
Y gwron i'r gweryd,
O'i oes yma i'w symmyd
I huno tra byddo byd.

3 Ni welir hwn o waelod—y ceufedd
Yn cyfodi'n wiwglod
Am oesau,—cadd yma'i osod—
Fe ddaw'n rhydd ryw ddydd i ddod.

4 Mewn graian druan am dro,—gorphwysa
'Th gorph ysig mewn amdo,
Coda yn hyf yn gryf o'r gro
'N ddianaf wrth ddihuno.

5 Llygredigaeth
A marwolaeth
A dry eilwaith
Yn dra hylwydd,
Yn fywydol
Ddyn anfarwol
Etifeddol
At ei Ddofydd.

(Y MARW.)

6 Dan y gwys y gorphwysaf—nos dawel,
Nes del y dydd olaf;
Gorwedd hyd hwn gwn a gâf,
Ac wedyn mi a godaf.

7 Un nos ga'i aros mewn gweryd—a hyd
Hono fydd ond enyd
Fechan, nes cael fy iechyd
Mewn anfarwol foddol fyd.

Penybont. JOHN THOMAS.

"ON THE DEATH OF A YOUNG PERSON.

Life is a span, a fleeting hour,
  How soon the vapour flies?
Man is a tender, transient flower,
  That e'en in blooming dies.

Death spreads like winter's frozen arms,
  And beauty smiles no more:
Ah! where are now those rising charms,
  Which pleased our eyes before?

The once lov'd form, now cold and dead,
  Each mournful thought employs,
And nature weeps, her comforts fled,
  And wither'd all her joys.

But wait the interposing gloom,
  And, lo! stern winter flies;
And dress'd in beauty's fairest bloom,
  The flowery tribe arise.

Hope looks beyond the bounds of time,
  When what we now deplore
Shall rise in full, immortal prime,
  And bloom to fade no more.

Then cease, fond nature, cease thy tears,
  Religion points on high;
There everlasting spring appears,
  And joys that cannot die."

AR FARWOLAETH DYN IEUANC.

(Cyfieithad.)

Ber ydyw oes, un funyd awr,
  Mor gyflym y diflana!
Dyn sydd flodeuyn teg ei wawr,
  'Rhwn yn ei flagur drenga.

Mal rhew ymdaenai angau du,
  A thegwch mwy ni wena:
Ble mae'r gobeithiol harddwch fu
  'N boddhau ein llygaid gyna?

'Rhwn gynt oedd hoff, nawr marw yw,
  Pob meddwl trist achosodd,
Cysuron Natur o bob rhyw
  A'i holl ddiddanwch wywodd.

Ond aros wrth y prudd-der du,
  A gwel yn ffoi y gauaf,
Yng nghyd a'r glwys flodeuog lu
  Yn codi'n hardd i'r eithaf.

Mae gobaith yn llon edrych trwy
  Gyffiniau'r bywyd yma,
Pan cwyd yr hwn a beru'n clwy
  Mewn ie'nctyd fyth ni wywa.

Dy ddeigrau, nawr, hoff natur gâd;
  Gwir grefydd fry gyfeiria,
Lle y mae bythol wanwyn mâd,
  A gwynfyd ni ddiflana.

GANAIDD LANC GER GLAN CYNON.

BU FARW,

Ar y 17eg o Dachwedd diweddaf, yn 18 oed, ac ar ol byr gystudd, yn Aberhonddu, Timothy Davies, Chemist, mab Timothy Davies, Esq., Velindre Uwchaf, Pencarreg, yn swydd Gaerfyrddin. Claddwyd ef yn Nghellan, ar yr 20fed. Yr oedd tyrfa liosog yn yr angladd. Ar yr achlysur darllenodd a gweddiodd y Parch. T. Griffiths, Cribin; pregethodd y Parch. D. Evans, Alltyplacca, oddiar yr 2 Sam. xii. 23; a gweddiodd y Parch. Dr. W. Davies, o Ffrwdyfal. Yr oedd yn ddyn ieuangc serchog a phrydferth, a theimlir galar mawr ar ei ol gan ei gyfeillion a'i berthynasau. IORWERTH.

Ar y 7fed o Ragfyr, yn Mrynyrhogfaen, Llanwenog, David Morgan, wedi cystudd hir, yn 48 mlwydd oed. Yr oedd yn ddyn caredig a chymwynasgar. Galerir ar ei ol gan luaws o berthynasau a chyfeillion, heblaw gwidw a saith o blant.

Y MARCHNADOEDD.

LLUNDAIN.

	. s.
Gwenith, Coch, y grynog	42 i 52
Newydd	49 i 53
Gwyn	24 i 50
Gwenith Tramor, Coch	45 i 57
Gwyn	51 i 50
Haidd Newydd, cartrefol, Bragu ..	31 i 33
Chevalier	34 i 35
Distillio, newydd	— i —
Malu	26 i 28
Brag, golen	57 i 59
Chevalier	59 i 61
Brag Llwyd	52 i 58
Ffa, Ticks newydd	33 i 49
Hen	40 i 42
Pys, Grey a Maple	*38 i 43
Gwynion	44 i 44
Berwi, newydd	— i —

CAERFYRDDIN.

	s.	c.	s.	c.
Gwenith, y bwsel, ...	7	0	7	
Haidd	4	3	4	5
Geirch	1	6	2	3
Eidon, y pwys	0	4	0	6
Maharen	0	5	0	7
Moch	0	5	0	6
Twrci	3	6	6	0
Gwydd	2	6	4	0
Hwyad	1	4	1	9
Ieir	0	9	1	4
Ymenyn	0	9	0	10
Caws, y cann pwys	23	0	25	0

AERFYRDDIN: argraffwyd gan J. T. JONES, Heol-Las. Chwefror, 1848.

[No. 7 March 1840 mar]

YR YMOFYNYDD.

Nid ydym yn attebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr.—Gol.

'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.'—Paul.

BARN NEILLDUOL A CHYFRIFOLDEB PERSONOL.

Barn neillduol—*private judgment*—yw y farn a fyddo dyn yn ei ffurfio ar ei ben ei hun, a throsto ei hun yn matterion crefyddol. Y mae y weithred o farnu yn nghylch unrhyw beth, yn cynnwys ei fod yn ymddangos o werth ac o bwys i ffurfio barn gywir, ac yn berygl neu yn golled i fod yn gyfeiliornus ynghylch y peth. Pwy gymmerai ofal a thrafferth i chwilio i mewn i fatter ag nad yw o un pwys i neb? Tra parhao bywyd i fod yn un ymdrech diorphwys i ochelyd poen ac i gyrhaeddyd mwyniant—tra byddo pleserau a phrofedigaethau'r byd yn para i gymmell dynion o bob gradd, braidd, braidd y credwn y bydd i ddynion ymddwyn mor anghysson â throi ymaith oddiwrth wrthddrychau ag sydd mor ddengar neu mor gyffrous, a myned o'r nailldu a chymmeryd poen a llafur er mwyn ffurfio barn gywir am bethau ag nad y'nt yn ymddangos o un pwys iddynt. Y mae dynolryw wedi ymddwyn yn ffol ac yn anghysson lawer gwaith ac mewn llawer o bethau; ond dim etto mor ffol ac anghysson â hyn. Y mae yn wir fod llawer wedi treulio eu bywyd a'u talentau mewn ymgais i benderfynu rhyw gwestiynau diffrwyth a dibwys; ond rhaid i ni gofio nad oedd y cyfryw gwestiynau diffrwyth ddim yn ddibwys yn eu golwg hwy. Hen beth yw 'hidlo gwybedyn a llyncu camel.'

Y mae rhai wedi cymmeryd y drafferth o gyfrif pa sawl pennod, pa sawl adnod, pa sawl gair, pa sawl llythyren sydd yn y Bibl. Y mae yn bosibl ddigon en bod yn meddwl eu bod wrth hynny yn cyflawni gwaith crefyddol. Tybient, y mae yn lled debyg, fod y geiriad, a'r llythyreniad o bwys, gan eu bod yn ysbrydoledig. Derbynient eu cred am hynny oddiwrth y rhai a gredent eu bod yn gwybod. Diystyrent y cnewyllun, fel peth a berthynai i eraill, neu ynte dangosent eu parch iddo trwy fod yn fanol iawn ynghylch ei blysg. Fel hyn twyllir rhai i ymfoddloni ar y cysgod yn lle y sylwedd, y plysg yn lle y cnewyllun.

Ond er maint a welsom ac a glywsom am wahanol dueddiadau dynion, a'u hymgyrch at bethau a ystyrir gan eraill yn ddiffrwyth a diwerth; e n barn ni yw, na welwyd un etto, ac nas gwelir un yn cymmeryd gofal a thrafferth er mwyn ffurfio barn gywir ynghylch athrawiaethau crefyddol, oddieithr ei fod o dan ddwys deimlad o werth y gwirionedd, a'i gyssylltiad â dedwyddwch dyn. Os ydym yn hyn yn cymmeryd iawn olwg ar y matter, fe ganlyn mai peth anhepcorol i'r cyflawniad o'r ddyledswydd hon o 'Farn

neilldaol,' yw prysurdeb ac argyhoeddiad o werth gwirionedd. Ni cheir y naill heb y llall.

Nyni a adwaenom rhai ag sydd yn ddynion cymmeradwy yn eu cym'dogaeth, ac yn dwyn mawr zel hefyd dros grefydd—dynion doeth yn eu cenedlaeth, a gymmerant lafur a gofal er mwyn ffurfio barn gywir mewn perthynas i bethau'r byd, megis prynu anifail, neu dyddyn o dir, neu adaeladu ty; ond er mwyn ffurfio barn bersonol mewn perthynas i grefydd, ni chymmerant un gofal nac un llafur. Pa beth yw'r achos o hynny? Rhaid mai amheuaeth, neu ryw ràdd o anghrediniaeth yw yr achos. Bydd rhai yn barod i darfu wrth yr haeriad; ond y mae yn ddigon gwir. Nid ydyw yn llai gwir am ei fod yn cynnwys fod nifer fawr yn gorwedd dan y ddamnedigaeth hon, sef eu bod yn edrych ar y byd hwn fel y peth blaenaf, ac ar grefydd fel ail beth. Eu bod yn ymdrin â phethau'r byd fel *facts*, fel pethau sylweddol a phwysig ag sydd yn werth i gymmeryd gofal a llafur er mwyn ffurfio barn gywir yn eu cylch; ond yn edrych ar grefydd fel pe bai ond cysgod neu freuddwyd, ac yn ymdrin â'i hathrawiaethau fel pethau nad oes eisiau defnyddio y deall er mwyn barnu yn eu cylch. Y mae y cyhuddiad yn gorwedd yn drwm wrth ddrws dosparth fawr o broffeswyr crefyddol. Nid ydym yn cyfeirio at un enwad yn fwy na'i gilydd. Ond y mae yn ddrwg ag sy'n galw am ei ddynoethi. Drwg ydyw ag sydd yn yssu wrth wraidd pob daioni. Ni fydd byth gynnydd ar wir grefydd heb gael gwared o hono. Nid yn rhwydd y ceir gwared o hono, gan mor ddwfn ac mor helaeth y mae wedi ymdaenu. A pheth sydd yn waeth, y mae hunandwyll yn taflu llen drosto, fel y mae yn guddiedig ymron oddiwrth y sawl sydd dan ei afaelion niweidiol. Oherwydd hyn nid ydys yn ei wysio i ymddangos yn llŷs y Gydwybod, i'w farnu yno. Pan y byddo hunan-ymholiad, nid oes hoff yn ei gylch *cf.* Nid ydyw yn cael ei rifo ymhlith pechodau gwaradwyddus, megis godineb, lledrad, meddwdod. Nid ydyw yn dwyn cerydd ar ei ben, fel esgeuluso cyd-gynnulliad. Dichon fod blaenoriaid y Gyn'lleidfa o dan ei afael llygredig yn gymmaint â'r aelodau cyffredin; os nad yn fwy. Nid oes dim yn ei attal i fyned i'r areithfa, ac i gymmeryd gafael ar y rhai a gynnygiant draethu i'w cyd-ddynion air y gwirionedd. Nid all cyfreithiau dynol ddim gyrhaeddyd at y drwg yma. Pwy glywodd erioed am un aelod a gafodd ei geryddu, neu ei esgymmuno am *beidio* a barnu drosto'i hunan, neu am esgeuluso defnyddio ei ddeall ei hun er mwyn cael allan wir feddwl yr Ysgrythyr?

Y mae y pleidiau crefyddol, rhaid addef, yn barod ddigon i gyfrif y drwg hwn i'w gwrthwynebwyr, sef, eu bod yn peidio a dwys chwilio a barnu yn gydwybodol yn y pethau y maent yn gwahaniaethu yn eu cylch. Dywedant eu bod yn troi'r clust byddar i lais y gwirionedd: ac nad ydynt yn barnu yn onest; onide, y delent i gofleidio eu barn hwy. Y gwrthwynebwyr o'r tu arall ni fyddant yn llesg i dalu'r pwyth yn ddioed; taflant yn ôl y cyhuddiad at ddannedd eu cyhuddwyr. Ond yn hyn y mae mwy o ysbryd pleidgarwch nâg sydd o barch i ymofyniad onest a rhydd. Pan welom ddynion ag sy'n ddeallus ac yn ymofynnar mewn pethau craill, yn ymfoddloni yn rhoddi heibio eu deall wrth ymdrin â'r un peth angenrheidiol,' onid oes lle i ddrwg-dybied am gywirdeb eu proffes? Heblaw ofn slafaidd Coelgrefydd, ac heblaw hunan-dwyll pleidgarwch, y mae yno ryw râdd o anghrediniaeth. Y mae bydoldeb yno, a diffyg ffydd yng ngwirionedd Duw. A thost iawn yw'r peth. Edrychir yn fanol am y 'brycheuyn sydd yn llygad' dyn arall, pan na chanfyddir 'trawst yn ein llygad ein hun.' Hyn sydd yn ei wneud

mor anhawdd ac ar yr un pryd mor angenrheidiol i fyned at wraidd y drwg; i'w ddilyn i'r celloedd tywyll y mae yn llechu ynddynt, ac i'w lusgo allan i'r goleuni. Nid oes eisiau rhagor na'i ddwyn i'r goleuni a'i ddynoethi, er dangos ei anghysondeb, ei wrthuni a'i anghrefyddoldeb.

Esgeuluso'r ddyledswydd o ffurfio barn neilldnol—neu beidio ag arferyd y deall er mwyn dwys chwilio a barnu am athrawiaethau crefyddol!—pwy feiddia yn yr amlwg amddiffyn neu gymmeradwyo y fath beth? Ond os na feiddia nemmawr o neb i'w amddiffyn, nid oes nemmawr a feiddiant yn gyhoeddus ei *gondemnio*, rhag ofn ansefydlu ffydd y werin. Ychydig sydd o ddywedyd yn ei erbyn yn y pregethau poblogaidd; llai, o bosibl, yn y cynghorion cynnulleidfaol; ond pan fyddo yn cael ei osod ger bron dan rith gostyngeiddrwydd a duwioldeb, y mae yn cael ei gyfrif a'i barchu ymhlith y rhinweddau crefyddol. Onid yw hyn yn dangos ymhellach yr anghenrheidrwydd o chwilio i mewn i'r peth?

Bydd rhyw rai yn barod i ddywedyd yng ngeiriau'r ddiareb, 'Physygwr, iacha dy hun!' Ein hatteb yw, nad ydym yn cymmell ar eraill, ond yr hyn y'm ni ein hunain yn ei deimlo ei fod yn wirionedd ac yn fraint ac yn ddyledswydd. Nid ydym yn disgwyl i neb dderbyn ein gair neu'n haeriad ni ar un pwnge, os na fydd yn gweled fod gennym reswm da drosto. Nid y'm yn chwennych yn y mesur lleiaf i wneuthur un ymosodiad ar gymmeriadau neu bersonau neb o'r enwadau crefyddol ag y'm ni yn gwahaniaethu oddiwrthynt; ond am arferiadau ac egwyddorion drwg a niweidiol (gan nad pwy a'u coleddont, ïe, pe byddent y seintiau pennaf yn y wlad) nid y'm yn cydnabod fod arnom un ddyled i'r cyfryw arferiadau, &c. ond hyn; sef, eu dynoethi a'u condemnio. Beth fu erioed, beth sydd mewn cyfeiliornad, mewn twyll, mewn gormes, o un lles i ddyn, fel y gelwid arnom i fod yn dyner wrthynt? Na, na, dywedwn y gwir, pob un wrth ei gymmydog.

Hyderwn na fydd i'n sylwadau roddi tramcwydd i neb: y maent o fewn priodgylch ein galwedigaeth. Swydd broffesedig ein HYMOFYNYDD yw annog a chyfarwyddo dynion i farnu, pob un drosto ei hun, ac ar ei ben ei hun, mewn matterion pwysig crefydd. I egluro ac amddiffyn hyn o hawl, fel genedigaeth fraint pob dyn, ac fel dyledswydd arbenig, yn enwedig ar Grist'nogion: dyma ydyw amcan ein sylwadau presennol.

Yn y peth yma fel mewn pethau eraill, y mae yr *hawl* a'r ddyledswydd o *farnu, pob dyn drosto ei hun, mewn pethau crefyddol*, yn nghlwm â'u gilydd. Y mae yr hyn sydd brawf o'r naill yn brawf hefyd o'r llall. Os gwedir neu ddibrisir yr hawl, esgeulusir hefyd y ddyledswydd. Y mae hawl pob dyn i farnu barn neilldnol yn ymddibynu ar ei fod wedi derbyn gallu a chymhwysder i wneuthur hynny; felly hefyd ei ddyledswydd. Mor wrthun fyddai i ddal fod gan ddyn hawl i anadlu o dan y dwfr; neu ei bod yn ddyledswydd arno i ehedfan yn yr awyr; pan nad yw wedi derbyn gallu neu gymmwysder i wneuthur y naill neu'r llall! Ond y mae y Creawdwr wedi rhoddi llygaid i ddynion i'w cymhwyso i weled. Y mae yn amlwg fod hyn o fraint a chymmwysder wedi cael ei roddi i ddyn *oddi fry*, ac er mwyn ei *ddefnyddio*, ac y mae hyn yn dangos fod ganddo *hawl* i edrych ar weithredoedd Duw y ffordd y cerddo. Felly am y clywed a'r synwyrau eraill. Felly hefyd am y deall, i'r hwn nid yw y synwyrau ond fel gwasanaethwyr. Y deall yw'r gynneddf ag sy'n cymhwyso dyn i ymwneyd â chrefydd, onide? Cydnabyddir mai trwy offeryniaeth y deall raid cyfeirio y serchiadau at wrthddrychau priodol crefydd, oni wneir? Os gwedir hyn, y peth nesaf fydd rhoddi i fynu crefydd fel twyll a gwagedd. Ar y

gallu ynte a'r cymhwysder a roddodd Duw iddo, yr ymddibyna hawl a dyledswydd pob dyn i farnu drosto ei hun yn achosion crefydd. Ac os yw Duw wedi rhoddi y cymhwysder, a thrwy hynny wedi caniattau yr hawl, pwy yw y rhai sy'n gwahardd, yn rhwystro, yn attal? Nid Crefyddwyr, rhag eu cywilydd!

Teimla rhai Crefyddwyr ond odid yn ddigus wrthym am gymmaint ag amneidio y gellid dwyn y fath gyhuddiad trwm yn eu herbyn. Rhaid i ni ddywedyd y gwir, gan nad pwy ddigio. Yr y'm ni yn rhestru ein hunain ymhlith Crefyddwyr, er y bydd llawer o honynt yn anfoddlon i gyd-weithredu â ni; a'u rheswm mwyaf am hynny yw, ein bod ni yn sefyll dros rydd-ymofyniad. Ond y mae gennym barch i broffeswyr crefydd, fel y cyfryw; llafuriwn yn foddlongar er mwyn eu goleuo a'u diwygio, os caniattair i ni. Tra yr ydym ar y pen hwn, y mae yn gymmwys i ddywedyd gair am yr enwad Crefyddol y perthynwn ni iddo. Er mor waned yw o ran rhif—dywedodd Ysgrifenydd yn y *Seren* ddiweddaf nad yw ond fel 'mân lwch y clorianau' mewn cydmariaeth â sectau mawr Cymru—a chan nad beth ei ffaeleddau, y mae hyn o leiaf yn perthyn iddo, ei fod yn sefyll dros yr hawl a'r ddyledswydd i bob dyn farnu drosto'i hun. Dyma un o'n hegwyddorion proffesedig. Pa bryd ceir yr enwadau eraill i sefyll ar y tir hyn?

'Ond, O!' meddir, 'hawdd y gellwch chwi gwpl bach, sefyll wrth yr egwyddor o rydd-ymofyniad; nid oes gennych chwi nemmawr neu ddim i golli, ond llawer i ddisgwyl oddiwrth weithrediad yr egwyddor. Am danom ni, y mae y rhan fwyaf eisioes gyda ni; ac am golli, nid y'm yn chwennych colli neb.' Yr y'ch yn dweud y gwir. Nid oes gennym ddim i golli. Ni chollodd y gwirionedd erioed oddiwrth rydd-ymofyniad. Ond yr y'ch chwi yn camsynied ynghylch rhifedi y rhai sydd gyda chwi yn gwrthwynebu rhydd-ymofyniad. Y mae amryw o'r rhai mwyaf meddylgar yn eich plith yn ddiweddar wedi gweled pethau gwell; y mae llawer a fu gynt gyda chwi wedi troi yn groes i chwi ar y pwngc hwn, ac fe'u ceir yn awr ymhlith y rhai a farnant drostynt eu hunain. Y mae hyd yn oed y Cymdeithasau Cymreigyddol wedi cymmeryd y peth yn llaw. Gweler Traethawd Mr. T. Stephens, ar y ddyledswydd o Rydd-ymofyniad, (tud. 160) yr hwn oedd y Traethawd buddugawl ar y testun yn Eisteddfod Merthyr, Nadolig, 1847.

Y mae Traethawd Mr. S. yn ei wneuthur yn afreidiol i ni i sylwi ar rai pethau ag oeddent yn ein golwg wrth ddechreu.

Cymmerwn ni y term 'barn neillduol'—private judgment—yn yr ystyr cyfyngedig, ac mewn perthynas â chrefydd yn unig—i arwyddocau y farn a fyddo dyn yn ei ffurfio ar ei ben ei hun, am briodoliaethau a character Duw a chynnwysiad ei air dadguddiedig, a'r egwyddorion ar ba rai y mae yn gwneud ei feddwl i fynu ynghylch y pyngciau ag sydd mewn dadl ymhlith Crist'nogion. Y mae pob meddwl crefyddol yn naturiol yn dueddol i gyflawni y swydd hon: a phe bai yn cael ei adael iddo'i hun, hyn a wnai. Nid oes neb a chwennych twyllo ei hun. Y neb sydd ganddo lygaid i weled, pa fodd y gall beidio a'u defnyddio i edrych a sylwi ar wrthddrychau y greadigaeth allanol! Y mae yr awydd a'r hyfrydwch hefyd gymmaint fel nad all yn ei fyw lai na chadw ei lygaid yn agored ac ar waith. Nid llai hyfryd yw, i'r deall, llygad y meddwl, i dreiddio a'i olygon trwy ardaloedd y byd ysbrydol, ac yn flaenaf ac yn bennaf oll i ymofyn âm bob ryw addysg a gwybodaeth gyrhaeddadwy, am y *Bod Mawr*, yn yr hwn y mae pob harddwch, a mawredd, a nerth, pob bywyd a phob daioni yn ffynnonu. Pwy bynnag sydd wedi ei ddwys argyhoeddi o fodoliaeth Duw,

ac o'i fod bob amser yn bresennol gyda ni yn anfeidroldeb pob perffeithrwydd. O! mor awyddus, mor ymdrechgar y bydd i gael gwybod pob peth a allo am ei garacter, a'i lywodraeth, ei ewyllys a'i fwriadau! Ac os creda fod Duw wedi rhoddi ei air i ni yn addysg ychwanegol, mor llawen fydd ganddo i geisio help y cyfrwng hwn—i'w wrandaw a'i glustiau ei hun, i'w ddarllen a'i lygaid ei hun, ac i'w chwilio a'i *ddeall* ei hun! Ceisiwch ganddo i ymfoddloni ar fod arall i'w ddarllen ac i'w ddeall yn ei le ef, ac i farnu drosto; yr un peth fyddai ceisio ganddo i roddi i fynu ei grefydd yn gyfan i gadwraeth eraill. Na, tra yr edrych ar grefydd fel peth personol, tra yr edrych ar gyfrifoldeb personol, nid yn hawdd y rhydd i fynu y swydd o farnu barn bersonol, neu neillduol. O'r tu arall, os twyllir ef yn rhyw fodd i roddi i fynu yr hawl a'r ddyledswydd o ffurfio barn neillduol neu bersonol; y peth nesaf fydd rhoddi i fynu grefydd bersonol, ac yna i fod yn gwbl barod i ymddibynu ar arall neu eraill am bob peth. Dyna derfyniad gwych, onide? Ond och! y mae yn boenus i feddwl, gyda'r holl ymffrost a wneir am oleuni a chrefydd Cymru, fod cymaint o sarn yn cael ei wneuthur o enedigaeth-fraint dyn, ac o wirionedd Duw yn ein hoes ac yn ein gwlad.

YMOFYNYDD tirion! Un ag wyt yn ymofyn am Dduw! Ni wyddom ni, pa fath yw dy amgylchiadau; ond cydymdeilwn â thi. Blin yw dy daith ond odid, a thost yw dy driniaeth lawer pryd, a hynny oddiwrth rai y gallesid disgwyl gwell oddiwrthynt—Ond cymmer galon; paid a rhoddi i fynu. I.

[I'W BARHAU.]

YR YMRANIAD YN HENGOED.

MR. YMOFYNYDD,—Yr hanes canlynol a gymmerais allan o hen *gopi* cyfrifon y *General Baptists* yng Nghraigybargoed. Y mae wedi ei ysgrifenu yn Saesneg gan Charles Winter, y gweinidog; a chwedi ei gyfiaethu i'r Gymraeg gan Edward Evan o Aberdâr. Nid wyf yn ddigon hyddysg yn hanes swyddi Morganwg a Mynwy, i ddywedyd, mae'r rhaniad yn Hengoed oedd dechreuad rhyddymofyniad yn y Swyddi hyn, a derfynodd wedi hynny mewn proffes o Bresbyteraeth, ac yna Undodiaeth, ym Merthyr, Coedycymmar, Aberdar, &c. Boed hyn mai y bo, wele yr hanes yn canlyn mal y mae yn y llyfr crybwylledig.—E.

'I roddi hanes paham y gorfu arnom ni y rhai a gyfarfuom yn nhy Philip William o Gelli Gaer, aelod o Eglwys Loegr; ac ar ôl hyny wedi adeiladu ty Craigyfargoed ydym yn cyfarfod yno; a rhanu fwyaf o honom oeddem aelodau yn Nghefnhengoed. Yr achos ydoedd gwahaniaeth mewn Barn; yr hyn a dorrodd allan ar dri amser gwahanol.

1. 'Yn y flwyddyn 1717 un Phillip John, gweinidog o Anabaptist o Sir Benfro, a bregethodd o amgylch y wlâd, gan haeru nad oedd na chyfreithlon na chymwys i'r Bobl weddio am faddeuant pechod; ond gweddio ar i Dduw amlygu iddynt, fod eu pechodau wedi eu maddeu er tragwyddoldeb: a

a gweddio yn unig ar i Dduw droi odddiwrthynt farnedigaethau Tymorol. Yr Athrawiaeth hon a wrth'nebwyd gan Jacob Isaac a'i deulu: ond a lyngcwyd gan y rhan amlaf—Jacob Isaac a'i deulu o hyny allan a gyfrifwyd fel rhai nad oeddent iach yn y ffydd: am iddynt wrth'nebu yr athrawiaeth ymma; er *nad* ydoedd hi na rhesymmol nac ysgrythyrol.

2. 'O amgylch y flwyddyn 1730 y bu Dadl am Gangen o'r athrawiaeth; sef, Prynedigaeth neillduol; yr hon a wrth'nebwyd genifi Charles Winter. Yr oeddwn i, yr amser hynny yn aelod; ac yn cael fy ngosod gan y Gynnulleidfa i Bregethu. Y Pwngc ymma, a ddodwyd o flaen Cyfarfod blynyddol, yr hwn a gynhaliwyd y flwyddyn honno, yn Hengoed. Yna dau Gwestiwn a scrifenwyd gan John Harry, Gweinidog Blaene Gwent, ac a osodwyd ar y Bwrdd: sef pa beth a wneid i'r rhai hyny ag oeddent yn credu prynedigaeth gyffredinol, ac Ewyllys rhydd hyny yw, ebr Gofynnwr; y rhai sy'n dal, y dichon Dyn fod yn gadwedig trwy nerth ei hun, heb gymmorth Gras Duw?

'Wedi iddynt ofyn fwy nac unwaith, os ydoedd neb yn arddel yr athrawiaeth am sefyll i fynu; nid oedd un o berchen calondid i sefyll yn wynebau Cynnifer o Aelodau a Gweinidogion; er eu bod o'r un feddwl a minnau; a rai yn hynach o oedran.—Mi sefais i fynu; gan addef y cyntaf; a gwadu yr ail, yn yr ystyr ag oeddynt hwy yn ei osod arno; sef y galle ddyn gael ei achub heb ras Duw; canys yr oeddwn i bob amser yn addef, ac yn credu nad oedd gan Ddyn ddim ond yr hyn sydd yn dyfod trwy ras a ffafr Duw.

'Y Dadl am yr ail Bwngc aeth oddiamgylch, sef Prynedigaeth gyffredinol. Myfi a elwais am y Bibl, i ddangos iddynt yr amryw Destynau am perswadodd i fod dros Brynedigaeth gyffredinol; yr hyn a ddarfu iddynt ei naccau: ond craill a ddywedasant, rhoddwch y Bibl iddo. Pan ddechreuais ddangos iddynt y lleoedd o'r ysgrythur am barweiniodd i'r cyfryw feddwl, sef Ioan iii. 16, &c. &c. Y ddadl a gynnyddodd, ac mi a ofynnais i John Jenkin, a'r holl weinidogion craill, a ydoedd yn ddyledswydd ar Judas i gredu yng Nghrist, am fywyd ac Iechydwriaeth? Yntef a atteb'odd ei bod. Minnau a ddywedis, os ydoedd yn ddyledswydd ar Judas i gredu yng Nghrist am fywyd, a Christ heb farw drosto; yna fod arno ddyledswydd i gredu twyll ac anwiredd. Y ddadl a barhaodd dros ennyd, a cheisiasant fy nhroi oddiar y Cwestiwn, wedi eu dwysbigo gan gwilydd, am rai o honynt gyfaddef, na allent ei atteb. Wedi cael cennad y Gymmanfa, Jacob Isaac a gododd i fynu, ac a'n galwodd yn ol, at y Cwestiwn ag oeddent yn methu a'i atteb. Yn y diwedd, gorchmynnwyd i ni fyned allan, a'r Cyfarfod a wasgarodd mewn mawr benbleth a chymysgedd.—Yr hai o'n tu ni, ydoedd Jacob Isaac, Rees Davies, Thomas William Watkin, Cecil Isaac, a Mary Isaac.—Ar ol rhai blynyddoedd, a gwneuthur llawer gosod tuag at ddwyn pethau i dawelwch; fe ddarfu i rai o honom osod ein dwylo wrth ysgrifen o gytundeb; ac a gawsom ein derbyn, gyda gobaith y deuem ryw bryd i fod yn iawn ffyddiog. Jacob Isaac a Rees Davies *ni* osodasant eu dwylo wrth yr ysgrifen, ac felly ni dderbyniwyd hwynt mwyach i Hengoed.

3. 'Ymrafael a dorrodd allan drachefn, yn y flwyddyn 1749. Pan aeth Griffith Jones trwodd i America. Yr oeddent yn petruso oblegid fy egwyddorion i, ac a'm gosodasant i bregethu fy marn am y pethau hyny ag oeddem yn gwahaniaethu o ran ein Tybiau; yr hyn a wnaethym, oddiwrth 2 Tim. 1. 13, 'Bydded gennit ffyrf yr ymadroddion Iachus, y rhai a glywaist genyfi, yn y ffydd a'r cariad sydd yng Nghrist Iesu. Ar ol pregethu mi

gefais fy holi oblegid pechod gwreiddiol, a phosibilrwydd i bawb fod yn gadwedig.—Ac ar ol cynnal llawer cyfarfod oblegid fy marnu, mi a gefais orchymmyn gan James Dafydd tros ddwy o weithiau, i fyned y ffordd y mynnwn, tua'r rai penweinion ag oedd gyda mi.

Pan oeddwn mewn Cyfarfod Gweinidogion a gynhaliwyd ganddynt yn nhy Jenkin Llewellyn yn Eglwys Helen; fem galwyd o'u blaen hwynt. Yr oedd Mr. David Williams o'r Watfordd gyda mi; ac yr oedd yno 14 neu 15 o weinidogion Anabaptist.—hwy a ruthrasant arnaf yn nghylch pechod gwreiddiol; gan haeru fod pechod Adda yn gyfrifol i bawb o'i hiliogaeth. Ac ar ol hir ddadlu dros ysbaid tair awr, mi a gyfodais y Bibl i fynu, gan ddywedyd, Cofiwch i chwi ffaelu profi o'r yscruthur fod pechod Adda yn gyfrifol i neb o'i hiliogaeth; ac etto yn fy ngondemnio i, am nad wyf yn credu ei fod ef. Ar ol y cyfarfod ymma, rhai o honynt a aethant o amgylch y wlâd, gan ddywedyd fy mod i yn gwadu Penarglwyddiaeth Dduw, am fy mod i yn credu fod pawb mewn cyflwr possibl i fod yn gadwedig: ac ni bum i mwyach yn eu cyfarfodydd hwynt.—Ar ol cymeryd amser i ystyried, ac ymofyn cyfarwyddid gan Dduw, nyni a gyfarfuom yn nhy William Philip o Gelli Gaer, yr hwn oedd wedi ei sicrhau. Y cyfarfod ordinhâd cyntaf a gynhaliwyd Mawyth 18, 1750. Ac yr oedd genym gyfarfodydd eraill, sef Park Eglwyselen, ty Jacob Isaac, a Phadleiniog, lle darfu i ni fedyddio rhai cyn adeiladu y ty newydd. Yr oeddid yn ein galw a'n cyfrif yn euog o Arminiaeth ac o heresi Morgan neu Belagius, ac o fod yn Schismaticiaid, a dal gallu mewn dyn, a disgwil bod yn gadwedig trwy weithredoedd da: fel pe buasai Crist a gweithredoedd da yn wrthwyneb i'w gilydd.

'Cynnifer yn Hengoed ag oedd yn gyffelyb i Diotrephes, ydoedd flin ganddynt ein bod yn cynnal cyfarfod mor agos: fel pe *na* buasai gennym hawl gyfiawn oddiwrth Dduw na Dyn i addoli Duw yn gyhoeddus fel hwynt hwy, neu Gris'nogion eraill.

'Ar ol iddynt ymgynghori a'u brodyr yn Lloegr a Chymru, fe ddarfu iddynt fy ysgymuno neu fy'm diarddelu i mewn modd arbennig a chyhoeddus, ar Gyfarfod Ordinhad, yn ngwydd a chlywedigaeth amledd o bobl. Y weithred hon a gyflawnwyd gan Miles Harry. Ein brodyr cris'nogol y'mysg y Presbyteriaid a ddangosasant i ni garedigrwydd. Y Parchedig Mr Samuel Davies ydoedd y cyntaf a bregethoedd yn ein cynnulleidfa, trwy gyfnewid a mi;—yna Mr. Evan Williams o Mr. Phillip Charles ac eraill. Ymhellach bydded iddo gael ei ystyried; pa fodd y gwnaethpwyd y rwygiad ymma; a phwy ydoedd ei awdwyr pennaf? Mr Griffith Jones, cyn ei fynediad i America a osododd allan ymadrodd cryn ryfeddol mewn pregeth yn Hengoed oddiwrth 2 Cor. 13. a'r rhan hyny o'r 11, sef syniwch yr un peth: hyny yw, meddai ef, bod o'r un Dybiau neu opiniwn. Nid bod o'r un meddwl i gredu mai Crist yw'r Messiah, ac ufuddhau i'w Gyfreithiau, yr hyn yw gwir amcan yr Apostol, sef caru Duw a Dyn; ond bod o'r un meddwl yn y Tybiau neillduol ag oeddynt hwy yn gwahaniaethu oddiwrth eraill. Yr ymadrodd a osodwyd allan yn y cyfryw drefn, a thrwy y cyfryw Ysbryd, fel ag yr oedd pawb agos yn credu ei fod ef yn ergydio yn uniongyrch attafi. A chyn ei fyned ymmaith efe a gynghorodd rai o honynt i'm holi drachefn oblegid fy marn, ac os cânt fi yn iach yn y ffydd, sef o'r un Dybiau a hwynthwy, am iddynt fy nerbyn fel eu Gweinidog; ac onite, am iddynt fy niarddelu, a bod i Lewis James a Watkin Edward gael eu hordeinio. Yn awr barned Dynion dibartieth pwy a wnaeth y rhwygiad? A'i nyni, y rai oeddem yn foddlon iddynt hwy i farnu yn ol goleuni eu Cydwybodau eu

hunain? Neu hwynthwy, y rai a *fynnant* i ni farnu fel hwythau, neu gael ein torri ymaith? Yr oeddem ni yn credu ac yn pregethu yr hyn ag oedd union yn ngolwg Duw, mor belled ag oeddem ni yn canfod; ac ni fynnem ni dderbyn tybiau dynion ffaeledig yn ogyfuwch a'r yscruthur am fod hyn wedi gwneuthur llawer difrod ar Grefydd: ac etto nyni a gawsom ein torri ymmaith, am nad oeddem yn Credu Athrawiaeth Calvin; er ein bod yn proffesu Cred i Athrawiaeth Crist.

CHARLES WINTER.

'Cyfieithwyd ar ddeisyfiad rai o gynnulleidfa Craigfargoed yn y flwyddyn 1773 gan Edward Evan.'

Er fod yn yr ysgrif uchod rai gwallau mewn llythyrennu, sillafu, *stops*, &c. Yr oedd yn well gennyf ei danfon attoch yn y modd ag y cefais hi; a chann ei bod yn ddealladwy efallai mai gwell ei gadael i ymddangos yn ei hen wisg o flaen y cyhoedd. Gwnewch chwi fel y byddo da gennych am hyn; âf ymlaen a'r hanes.

Nid hir y bu Charles Winter a'r ychydig ffyddloniaid hyn, cyn gweled fod arnynt eisiau rhyw le i gyfarfod a'u gilydd mwy cyfleus na thy William Philip. Yn ganlynol, yn y flwyddyn 1751, Mai 24, y maent yn penderfynu adeiladu ty addoliad yng Nghraigfargoed, yr hwn a orphenwyd ryw bryd cyn mis Ionawr, 1753, oblegid ar yr 28 o'r mis hwn y maent yn cynnal eu cyfarfod cyntaf, fel y mae'r hanes a ysgrifenodd Mr. Winter ei hun yn dangos.

Ar y 23ain o Ebrill, 1773, bu Mr. Winter farw, yn 72 mlwydd oed, gan adael cynnulleidfa alarus ar ei ol, fel y mae y cofiant cyffrous sydd yn yr un llyfr yn dangos.

Ar ol hyn bu'r gynnulleidfa hon heb un gweinidog am tua phedair blynedd; a mwy na hynny, ni allasent gael neb i fedyddio y rhai a ddymunent uno a hwynt, fel y gorfu arnynt eu bedyddio eu hunain. Modd bynnag yn y flwyddyn 1777 y maent yn dewis Mr. Jacob Isaac i fod yn weinidog iddynt, ac ni allant feddwl am alw neb o'u brodyr y bedyddwyr i urddo eu gweinidog, gan eu bod eisioes wedi pallu gweinyddu bedydd ar eu cais. Ond gwell iddynt gael dywedyd drostynt eu hunain. Yr hanes a ganlyn syddwedi ei ysgrifenu yn saes'neg.

'COFNODIAD.

'Pan y darfu i'r Parchedig Charles Winter, ein gweinidog diweddar, farw, nyni, y gynnulleidfa yng Nghraigfargoed a ddechreuasom edrych allan am gynnorthwy: yr hyn (er ein mawr syndod) ni ellid ei gael at ddyledswyddau y Sacrament, oddiwrth ein brodyr y bedyddwyr yng Nghymru. Gan hynny, ni ddarfu i'r pall a gawsom ganddynt (gwel yr hanes dan yr *article* baptized yn 1774) adael un lle i ni geisio ganddynt hwy i urddo ein brawd Jacob Isaac, yr hwn, ar ol ychydig o brawf, oedd yn atteb ein disgwyliadau yn gyffredin. Ond darfu i'n brodyr y Presbyteriaid, at y rhai y danfonasom gais, ar y 27 o Awst 1777 ddangos mewn gwirionedd eu cariad crist'nogol yn eu hymddangosiad llawn ac ewyllysgar i gyflawni y ddefod. Y gweinidogion presennol oeddent y Parch. Mr Williams o Watford; y Parch. Mr. Davies Penmain; y Parch. Mr. Davies Merthyr; y Parch. Mr. Charles Coed-y-cymmar; y Parch. Mr. Harries Abertawy; y Parch. Mr. Lloyd Llwynrhyd-owen; y Parch. Mr. Rees Gellionnen, a'r Parch. Mr. Evans Hirwaun.

'Pregethodd Mr. Harries y bregeth; holodd Mr. Charles yr ymgeisydd; gweddiodd Mr. Williams yr urdd weddi, a thraddododd Mr. Lloyd y *charge*. Dygwyd y cyfan ymlaen gyda phrysurdeb a gweddeidd-dra i foddlonrwydd cyffredin.'

'Gan fod y cofnodiad hwn o anghenrheidrwydd yn dynoethi egwyddorion culion iawn rhai, ni chawsai ei wneuthur, oni bai ei fod yn cadw yn ein cof ein dyled i'n cymmydogion y Presbyteriaid am eu cariad crist'nogol.'

CYF. E.

PECHOD GWREIDDIOL.

Parhad o tu dalen 104.

OND, efallai y dywedir mewn cyssylltiad â'r olwg hon, fod yr anhawsdra hwn yn aros etto. A chaniattau mai enogrwydd sydd i ddeall wrth y farwolaeth ymma, ac mai nid marwolaeth natturiol ydyw; etto, gan fod Duw wedi gwneuthur cyfammod âg Adda a'i hiliogaeth, a'r cyfammod hwnnw yn cynnwys y buasai iddo ef a hwythau gael byw, neu fod yn ddienog a dedwydd, pe na fuasai iddo droseddu; ond gan ei fod wedi troseddu, ei fod ef a'i hiliogaeth, oddiar yr amser hwnnw, wedi dyfod yn enog a thruenus ger bron yr Arglwydd. Y mae yn hawdd iawn haeru unrhyw beth, ond dylem gofio nad prawf yw haeriad. Cyfammod o waith dyn ac nid Duw ydyw hwnn. Nid oes un gair, un sill, am hiliogaeth Adda yn y gorchymmyn na'r bygythiad. Gosodaf yr adnod i lawr unwaith etto. 'Ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwytta o hono; oblegid yn y dydd y bwyttai *di* o hono y byddi farw.' Y byddi *di* farw, a'th hiliogaeth hefyd? Nage; cyfammod dyn yw hwn: y byddi *di* farw yw iaith Duw. Wel, beth am yr hiliogaeth? Cànt yr un chwareu teg am eu heinioes ag Adda yn gymmwys, a'r un gosp ag yntau os troseddant; 'Yr enaid a becho, hwnnw a fydd marw: y mab ni ddwg anwiredd y tad.' 'Gann farw y byddi farw,' oedd llais Duw gynt; 'yr enaid a becho, *hwnnw* a fydd marw,' yw ei lais ef yn awr. Yr un gwirionedd yn gymmwys sydd yn cael ei ddysgu yn y naill a'r llall.

Efallai y dywedir ymhellach fod Adda wedi ei greu ar ddelw Duw, mewn gwybodaeth a gwir sancteiddrwydd, ac iddo golli'r ddelw honn drwy bechod, ac nas gallasai roddi dim amgenach na'i ddelw ei hun i neb a ddeuai allan o'i lwynau. I hynn yr wyf yn atteb, nad wyf fi yn canfod fod Adda yn un mor wybodus a da cynn syrthio ag y tybir ei fod gan y lluaws. Yr oedd ef yn ddiniweid, a dim yn rhagor. Am ei wybodaeth; y mae yn amlwg na wyddai efe ddim llawer, onitte ni chymmerai o ffrwyth y preun er mwyn cael rhagor o wybodaeth. Aeth cyfrwysdra'r sarph trwy Efa ac yntau yn beblaw. Ond dywedir iddo roddi enwau ar yr anifeiliaid, ac fod hynny yn brawf lled gryf o'i wybodaeth. Os yw'r hanes yn dangos gwybodaeth Adda, y mae hefyd yn dangos anwybodaeth Duw, a'i gymmeryd yn llythyrennol. Dyma'r hanes; 'A'r Arglwydd Dduw a luniodd o'r ddaear holl fwystfilod y maes, a holl ehediaid y nefoedd, ac a'u dygodd at Adda, i weled pa enw a roddai efe iddynt hwy, a pha fodd bynnag yr enwodd y dyn bob peth byw, hynny fu ei enw ef.' Pa wybodaeth sydd ymma? Pe gwnaethai alw caib ar geffyl, pwy oedd i weled bai ar yr enw? yr oedd yn ddigon da os oedd Adda ei hun yn ei ddeall.

Am sancteiddrwydd Adda etto; y mae'n amlwg nad oedd ganddo lawer o nerth i sefyll dann brofedigaeth, gan iddo syrthio dann yr *un* a gafodd. Gellir sylwi ymhellach etto, mai o ffrwyth preun gwybodaeth da a drwg y darfu iddo fwytta. Nid o ffrwyth preun gwybodaeth drwg i gyd, a dim ond hynny; nage, ond *da* a drwg, ac y mae'r da yn mlaenaf, fel y gwelwch.

A chwedi iddo fwytta, beth wedi'n? Dywedir am dano, 'Wele y dyn sydd megys un o honom ni, i wybod *da* a drwg.' Nid drwg i gyd; nage, ond da a drwg, yr hyn y mae pob dyn yn cael wrth fwytta o ffrwyth prenn profiad hyd heddyw.

Ac am y ddelw a gollodd Adda, fod ei hiliogaeth wedi ei cholli hefyd ynddo ef, y mae'r dyb honn yn croesi iaith bendant yr ysgrythyrau, 1 Cor. xi. 7, 'Canys gwr, yn wir, ni ddylai wisgo am ei benn, am ei fod yn ddelw a gogoniant Duw.' Iago iii. 9, 'Ag ef (y tafod,) yr ydym yn bendithio Duw; ag ef hefyd yr ydym yn melldithio dynion a wnaethpwyd ar lun Duw.' Felly y mae dynion o hyd yn cael eu gwneuthur ar lun Duw, yr un modd ag Adda; ac yn cael yr un cynnyg ag yntau i fod yn ddedwydd.

Yr wyf yn dyfod yn awr at ran arall o'r anhawsdra, sef geiriau Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, v. 12, 'Am hynny, megys trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod; ac felly yr aeth marwolaeth ar *bob dyn*, yn gymmaint a *phechu o bawb*.' Ymresymmir fod pawb yn marw oherwydd fod pawb wedi pechu; fod plant bach yn marw; ac yn ganlynol fod yn rhaid eu bod wedi pechu; ond gann nad yw plant wedi pechu yn weithredol, y mae'n rhaid mai pechod Adda sydd yn cael ei gyfrif iddynt. Y mae'n amlwg fod ymma gollymresymiad mawr. Nid yw Paul yn yr adnod dan sylw, ddim yn son dim mai oherwydd pechod Adda y mae dynion yn marw; ond mae'r achos yw, yn gymmaint a phechu o bawb; ac os gellir casglu dim oddiwrth y geiriau hynn am blant, y mae'n rhaid casglu eu bod wedi pechu, ac nid Adda wedi pechu yn eu lle. 'Yn gymmaint a phechu o bawb,' ac nid, Yn gymmaint a phechu o Adda dros neu yn lle pawb, yw ei eiriau ef. Ond beth yw'r farwolaeth sydd gan yr Apostol mewn golwg? Ai marwolaeth natturiol? Nage; canys gosodiad yw hyn, medd awdwr y llythyr at yr Hebreaid: '*Gosodwyd* i ddynion farw unwaith, a chwedi hynny bod barn.' Wel, pwy farwolaeth? Euogrwydd, trueni, cywilydd, chwant ymguddio o olwg yr Arglwydd. Meddwl yr Apostol yw mai trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, gann mai Adda ddarfu bechu gyntaf, a thrwy hynny ddangos mai creadur ffaeledig yw dyn; mewn cyssylltiad â'r pechod daeth euogrwydd, poen, marwolaeth; ac felly yr aeth y farwolarth honn, yr euogrwydd ymma, ar bob dyn. Pam hynny? Yr atteb yw, 'Yn gymmaint a phechu o bawb,' ac nid oherwydd dim arall. Wel, beth am y plant bychain? A ydynt hwy yn agored i'r farwolaeth honn? Nac ydynt, yn gymmaint na phechasant, yn ol tystiolaeth ein gwrthwynebwyr eu hunain. Nid oes euogrwydd lle nad oes pechod. Maent hwy yn rhydd yn ol tystiolaeth Paul. 'Yn gymmaint a phechu o bawb,' y mae ef yn dywedyd; ac ni wnaeth y rhai diniwed hyn ddim drwg; maent yn rhydd, oherwydd dywed Duw trwy Ezeciel, 'Yr enaid a becho, hwnnw a fydd marw,' a chann nad yw y rhai'n ddim wedi pechu, ni chânt farw chwaith; maent yn rhydd, oherwydd dywed y Salmydd am blant, 'Mai etifeddiaeth y nefoedd ydynt:' maent yn rhydd, oherwydd dywed Crist mai 'Eiddo'r cyfryw rai yw teyrnas nefoedd;' ac os eu heiddo hwynt yw'r deyrnas, hwy a gânt ei hetifeddu. Maent yn rhydd meddaf, canys eiddo Duw ydynt; 'Ei wobr ef yw ffrwyth y groth;' ac os ei wobr ef, y maent yn ddiogel yn ei law ef; nid oes a all eu drygu. 'Fy nhad i,' medd Crist, 'sydd fwy na phawb, ac nis gall neb eu dwyn hwynt allan o law fy Nhad i.' Maent yn ddiogel ynte; maent yn rhydd, meddaf, o afaelion yr athrawiaeth arswydus, yr honn sydd yn cyhoeddi gwaeau trag'wyddol uwch eu penn: maent yn rhydd, a rhydd fyddant hefyd am byth. Yr wyf yn

meddwl fod pob rhieni plant, yn enwedig y rhai ydynt wedi colli eu hanwyliaid bychain, yn barod i uno â mi o'r galon, bellach, i ddywedyd Amen am hynn: felly y bo hi: ie, ie, ac felly y bydd hi hefyd: am hynny parotown i'w cyfarfod ar fryniau anfarwoldeb, i gydlawenhau gyda hwynt, heb ofni ymadael mwy.

Y rhann olaf o'r gwrthddadl mawr a brawychus hwnn a gaf sylwi arno yn bresennol sydd i weled yng ngeiriau Paul at y Rhufeiniaid, viii. 19—23, 'Canys awyddfryd y creadur (κτισεως, y greadigaeth,) sydd yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw. Canys y creadur, (y greadigaeth,) sydd wedi ei ddarostwng i *oferedd*, nid o'i fodd, eithr oblegid yr hwn a'i darostyngodd; dan obaith y rhyddheir y creadur (y greadigaeth,) yntau hefyd, o gaethiwed *llygredigaeth* i ryddid gogoniant plant Duw. Canys ni a wyddom fod pob creadur (yr holl greadigaeth,) yn *cydocheneidio* ac yn *cydofidio* hyd y pryd hwn. Ac nid yn unig y creadur, (y greadigaeth,) ond ninnau hefyd, y rhai sydd genym *flaenffrwyth* yr ysbryd, yr ydym ninnau hefyd yn ocheneidio ynom ein hunain, gan ddisgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth ein *corph*.'

Oddiwrth hynn y cesglir fod yr holl greadigaeth, πασα ἡ κτισις, ac nid pob creadur yn unig, wedi ei darostwng i oferedd, nid o'i bodd, ond oherwydd yr hwn a'i darostyngodd, sef Adda. Ac, mewn canlyniad, fod yr holl greadigaeth fywydol a difywyd yn ocheneidio a gofidio. Cesglir hynn oddiwrth y gair κτισισ, creadigaeth. Ond y mae'n amlwg fod y cyfryw gasgliad yn hollol anheg, oblegyd dengys y cyssylltiad yn eglur mai nid y greadigaeth ddifywyd na direswm sydd i ni ddeall wrth yr ymadrodd hwnn. Yn gyntaf, dywedir am y greadigaeth honn, beth bynnag ydyw, ei bod yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw, a'i bod hi—yn gystadl a'r Apostolion eu hunain oeddent wedi derbyn blaenffrwyth yr Ysbryd, yn ocheneidio, dan ddisgwyl am *brynedigaeth y corph*. Ymadroddion hollol anghymmwys i'w harfer am y greadigaeth ddifywyd—y pridd, y cerrig, y coed—ie, na'r anifailiaid chwaith. Pwy bryd y bu rhai'n yn *disgwyl* am y *mabwysiad*, sef cael eu gwneuthur yn feibion i Dduw? Pwy bryd y bu rhai'n—y pridd a'r cerrig—yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw? Mae'r peth yn wrthun i feddwl am dano. Ble mae son am *Adda* ymma? mai efe oedd yr achos fod yr holl greadigaeth wedi ei darostwng i oferedd? Nid oes ymma un gair yn cyfeirio yn y mesur lleiaf at hynny; ond yn llwyr i'r gwrthwyneb, fel yr wyf ar fedr dangos. Nid y greadigaeth ddifywyd ac anifeilaidd sydd i ni ddeall ymma; oblegid nid yw'r ymadroddion, ocheneidio, gofidio, *disgwyl* am *ddatguddiad* meibion Duw, a *phrynedigaeth corph*, ddim yn briodol i'w harfer am y greadigaeth honn. Dynion sydd yn ocheneidio, gofidio, disgwyl; ond nid *pawb dynion* chwaith oedd yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw, yn yr amser y llefarodd yr Apostol y geiriau ymma. Nid yw'r greadigaeth honn yn cynnwys dim o'r greadigaeth difywyd ac anifeilaidd, na phawb o ddynolryw chwaith, ac nid Adda sydd wedi ei ddarostwng i oferedd hefyd. Wel, beth yw meddwl yr ymadrodd ynte? I'r diben i ganfod ei feddwl, mae'n ofynnol i ni chwilio beth yw meddwl y gair creadur, κτισις, creadigaeth, mewn manau eraill o'r ysgrythyrau.

Ni chaf yn bresennol ddwyn rhagor na dwy adnod ym mlaen, lle y mae'r gair hwnn yn cael ei arfer am y greadigaeth newydd, y Crist'nogion; nid am mai dim ond dwy adnod sydd i'w cael, lle mae'r gair yn cael ei arfer yn yr ystyr ymma, ond am fod hynny yn ddigon ar hynn o dro. 2 Cor. v. 17,

'Gan hyny, od oes neb yng Nghrist, y mae efe yn greadur newydd, (καινη κτισις,) yn greadigaeth newydd.' Gal. vi. 15, 'Canys yng Nghrist Iesu, ni ddichon enwaedrad ddim, na dienwaedrad, ond creadur newydd, καινη κτισις, creadigaeth newydd.' Nid oes dim dau feddwl i fod ynghylch yr ymadroddion hynn: y rhai sydd wedi eu creu o'r newydd yng Nghrist Iesu, awyddus i weithredoedd da, y Crist'nogion sydd i ni ddeall wrthynt. Yn awr, ni a gymmwyswn y meddwl hwn at yr ymadrodd dann sylw, a chawn weled fod meddwl nerthol, eglur, yng ngeiriau'r Apostol, canys awyddfryd y creadur, y greadigaeth newydd, y Crist'nogion yn gyffredinol, sydd yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw; sydd wedi ei darostwng i oferedd, sef i ofidiau, erledigaeth, a marwolaeth, oherwydd eu crefydd; nid o'u bodd, nid oedd neb yn dymuno dioddef, cael eu herlid, a'u lladd; ond oherwydd yr hwnn a'u darostyngodd, sef Duw: gwelodd ef yn dda wrth blannu crefydd Iesu yn y byd, i ddarostwng ei chofleidwyr wrth ei thaenu, i lawer o galedi, fel y byddai y profion drostynt 'nol llaw yn fwy eglur a nerthol; ac yr oeddent yn dioddef y cyfan hynn, dann obaith y rhyddheid y creadur yntau hefyd, sef yr holl gorph o Grist'nogion, o gaethiwed llygredigaeth, sef marwolaeth: fel y mae yr Apostol yn gosod ailan yn yr un dull-ymadrodd, yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid, 'Canys rhaid i'r llygradwy hwn,' eb efe, 'wisgo anllygredigaeth, a'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb.' I ryddid meibion Duw; i wlad well, lle ni byddai marwolaeth mwy: 'Canys ni a wyddom fod pob creadur, pob cristion, yn cydocheneidio, yn cydofidio hyd y pryd hwn.' Ac nid yn unig y creadur; nid yn unig y corph o Grist'nogion, yr eglwys yn gyffredinol, ond ninnau hefyd, y rhai sydd gennym flaenffrwyth yr Ysbryd; nid yn unig yr eglwys ond ninnau, yr Apostolion, hefyd, a'r gweinidogion, y rhai ydym wedi derbyn y dawn gwyrthiol yn gyntaf, yr ydym ninnau yn ocheneidio ynom ein hunain, oherwydd y trallodion sydd ar ein rhann, gann ddisgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth y corph; gann ddisgwyl yr adgyfodiad, pryd y bydd terfyn i'r holl ofidiau hynn. Dyma sydd yn ymddangos i mi yw meddwl yr Apostol. O'r hynn leiaf, ymddangys nad oes ymma un sail i'r athrawiaeth o bechod gwreiddiol neu anedigol. Nid oes ymma ddim son am bechod Adda, nac un pechod arall chwaith.

Yr wyf wedi aros yn hir ar y rhann gyntaf o'r gwrthddadleuon ymma oherwydd mai y mwyaf ei bwys ydyw, ac oherwydd hynny yn gofyn sylw manylach. Gwna llai o amser y tro at y gweddill, ar y rhai y sylwaf yn fy ysgrif nesaf; a chwedi hynny terfynaf trwy roddi hanes byrr o darddiad a chynnydd yr athrawiaeth dan sylw, os gwel awdwr pob daioni estyn einioes a iechyd i mi.

Yr eiddoch yn ostyngedig,

O. Evans.

YR ABERTHAU IUDDEWIG.

RHAG YMADRODD.

Parhad o tu dalen 133.

Mr. Ymofynydd,—I feithrin yn ein calonau anian Duw, ac i rodio yn uniawn ger ei fron, rhaid deall beth yw ei anian, beth yw ei gyfraith, beth yw gwobr ufudd-dod iddi, a chosp troseddwyr. Barnwyf yr addef pob dyn

deallus a ystyria'r pwngc, fod yr hyn sydd yn ofynol i'w ddeall am Dduw, a'n dyledswyddau fel bodau rhesymol, yn argraffedig ar ei weithredoedd yn y greadigaeth, ac ar ein cydwybodau a'n teimladau ein hunain. Egwyddorion gwir grefydd ydynt yn cydfodoli a'r greadigaeth, ac fel hithau yn anghyfnewidiol yn eu nhatur. O ran eu bodoliaeth gallasai trigolion pob oes a gwlad eu canfod mor eglur ag y canfyddwn ni hwynt yn awr. Wrth ddarllen ysgrifeniadau'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yn enwedig rhai Plato, Cicero, a Seneca, onid ydym yn cyfarfod a rhai syniadau cyffelyb i'r rhai a geir yn y Testament Newydd? Ac onid oes llawer o'r syniadau Crist'nogol y'mhlith Barbariaid? Pa fodd y gallasent hwy ddod i feddiant o honynt oni bai eu bod yn un â gweithredoedd Duw, yn bianedig yn nheimlad, ac yn ymgynnyg i ddeall pob dyn? Gwir yw fod llawer o dywyllwch a choelgrefydd yng nghymmysgc a'u crefydd, a'u bod yn sefyll mewn angen o well goleuni, ond er hynny, y mae ganddynt lawer o egwyddorion moesoldeb cysson ag Efengyl Crist. Nid un o'r profion gwanaf yw hyn ychwaith dros wirionedd y grefydd Gristnogol. Ond pa fodd bynnag, cherwydd fod y golygiadau hyn am gyffredinolrwydd egwyddorion gwir grefydd yn groes i'r rhai cyffredin, nid yw hynny ddim rheswm digonol nad ydynt yn wir. Y farn gyffredin yw mai'r Bibl yw achos crefydd, ac i fod dynion yn grefyddol am i fod gorchymynion yn y Bibl i ddynion i fod felly. Ond camsyniad yw hyn: y mae crefydd yn beth ag sydd yn anian dyn, ac nid yw'r Bibl ddim ond cynnorthwy i adnabod yr hyn oedd yn y byd erioed. Pe byddai'r Bibl heb fod, neu pe byddai yn ddichonadwy iddo fyned ar goll, er hynny, byddai egwyddorion a sylfaen crefydd yr un peth, ac yr un mor anghyfnewidiol ag ydynt yn awr, ac y byddant hefyd tra y parhao dynolryw. Ond na feddylied neb fy mod, wrth cylwi yn y dull hwn, yn bychanu'r llyfr sanctaidd: yr wyf yn ystyried mai gair Duw yw'r Bibl, a'i fod yn un o'r breintiau mwyaf a fedd dynion. Ond bodoliaeth Duw a chreaduriaid moesol yw sylfaen gwir grefydd.

Ond etto, un peth yw fod gwir grefydd yn argraffedig ar weithredoedd Duw, a pheth arall yw dysgu dynion i ddarllen llyfr natur yn iawn. I wneyd hyn rhaid cael cyfarwyddyd ac ymarferiad. Tystia hanesiaeth dyn, ac y mae ammherffeithrwydd gwybodaeth grefyddol paganiaid yn profi, pe buasai dynion yn cael eu gadael i ymddibynu yn hollol ar eu galluoedd eu hunain i chwilio am addysgc grefyddol, y syrthiasent i lawer o gyfeiliornadaa niweidiol. Y mae yn beth mor rhesymol gan hynny i gredu i fod Duw yn cyfryngu ar amserau ac amgylchiadau neillduol i roddi addysgc i ddynolryw yn y pethau a berthynant i'w gwir gyssur a dedwyddwch, ag yw i dad cariadlawn i roddi addysgc i'w blant.

Pe barnem gyflwr yr hen fyd oddiwrth ei gyflwr presennol, byddem yn cyfeiliorni. Yn y cynoesoedd yr oedd dynion o ran gwybodaeth a phrofiad o angenrheidrwydd, os nad yn blentynaidd, yn fachgenaidd: ond yn awr y mae cannoedd o achosion mewn cydweithrediad parhaus yn goleuo ac yn gwareiddio'r byd; nid y lleiaf o honynt yw y Grefydd Grist'nogol, er nad yw ei dylanwad ddim i'r peth fyddai pe bai wedi ymddadrys yn llwyr oddiwrth lygredd. Yn yr hen oesoedd, y personau ag y mae gennym hanes am danynt yn yr Hen Destament—er eu bod dan arweiniad gwrthiol ragluniaeth, ac er i fod yr Hollalluog yn rhoddi iddynt arwyddion gweledig, ac weithiau yn ddychrynllyd, o'i bresennoldeb—er hyny, methent rodio yn gywir yn llwybrau cyfiawnder, ond ar brydiau cyflawnent weithredoedd erchyll, gan arddangos rhyw anghyssonder rhyfedd rhwng breintiau ac ymarweddiad moesol. Rhoddir hanes yn ddiduedd yn y gyfrol sanctaidd am bob cyflafan, i gyflawni'r hwn

yr ymruthai'r patrieirch yn anystyriol, yng nghyd a chyfryngwriaeth y nef o'u plaid. Yn fyr, ymddengys i mi, a meddyliaf fod y Bibl a hanesiaeth dynolryw o'm tu, fod y byd yn gwneyd cynnydd graddol mewn deall, profiad, dyngarwch, a phob math o rinwedd.

Ni ddylem ni ddim meddwl, oherwydd fod defodau a seremoniau wedi cael eu rhoddi i ddynion, eu bod yn gosod cyfraith Duw yn fwy rhwymedigol. *Eu prif ddyben ocdd denu sylw dynion plentynaidd eu deall at egwyddorion crefydd.* Rhoddent nerth i ffydd trwy appwyntio amseroedd nodedig i addoli, a chaniatau cyfleisterau i gwrteithio'r deall, i gyffroi'r teimladau, ac i wneyd yr addolwyr ym mhob ystyr yn fwy agored i ddylanwadau crefyddol. Yn darparu defodau a seremoniau ar gyfer ei bobl neillduol yr Iuddewon, cadwai Duw olwg (os yw'r iaith yn briodol am yr Hollwybodol) ar sefyllfa gwybodaeth a rhinwedd ar y cyfryw amser yn eu plith. Y mae'r drefn hon i'w gweled yn amlwg trwy'r Hen Destament a'r Newydd. Pwy bynnag a fyfyria ar oesoedd boreuol y byd, a fydd yn rhwym o ganfod fod annerchiadau arwyddocaol i'r Duwdod, megys trwy aberthau a defodau allanol eraill, yn hollol gydweddol a sefyllfa pethau. Yn yr amseroedd hynny yr oedd ieithoedd o angenrheidrwydd yn ffigwraidd, fel y mae llawer o ieithoedd barbaraidd hyd y dydd heddyw. Y dull cyntaf o ysgrifenu, ar a wyddom ni am dano, oedd trwy dynu llun creaduriaid a gwrthrychau a feddylid eu bod ryw beth yn gyffelyb i'r meddwl neu'r *idea* a ddymunai'r ysgrifenwr drosglwyddo. Yn arwyddnodai ysgrifawl yr Aiphtiaid, wrth lun neidr yn dorchog y deallid tragwyddoldeb; dwrn yn gafaelyd mewn cleddyf ddynodai ryfel; hebog, gyflymdra; &c. Prophwydoliaethau hefyd a draddodid yn fynych trwy ddangosiadau arwyddocaol, neu ddarlun a osodid mewn modd gwyrthiol ger bron llygaid y prophwyd. Gwnai Duw ei fwriadau yn wybodus yn y dull ag oedd yn fwyaf dealladwy. Yr oedd yn arfer hefyd yn yr oesoedd hynny, ac y mae i'w chanfod yn awr mewn gwledydd barbaraidd, wrth ymddiddan, o wneyd rhyw arwydd a fyddai yn gyffelyb i'r synwyr, er mwyn argraffu'r peth yn ddwfnach ar y meddwl. Gyda bod Samuel yn troi ymaith oddiwrth Saul, efe a ymaflodd yng nghwrr ei fantell, ac a'i rhwygodd, gan ddywedyd, 'Yr Arglwydd a rwygodd frenhiniaeth Israel oddiwrthyt ti heddyw,' 1 Sam. 15, 27. Gwel hefyd 2 Bren. 13, 14, Ezek. pen. 5. Act. 21. 11. a mannau eraill. Ymddengys mai rhan o'r un dull o ddysgyblaeth ac addysgc oedd yr Aberthau—arwyddion o'r sylweddau pwysfawr a ewyllysiai Duw argraffu ar feddyliau ei greaduriaid rhesymol, ac annogaeth i sanctteiddrwydd buchedd.

Rhodda'r sylwadau uchod beth eglurdeb ar y dull o addoli yn yr hen amseroedd trwy aberthau a defodau allanol. Yn awr, er mwyn gweled pa mor addas i'r Iuddewon oedd goruchwyliaeth Moses, taflaf olwg fyr ar eu cyflwr moesol ychydig amser cyn eu hymadawiad o'r Aipht, a'u mynediad i wlad Canaan. Yr oeddynt wedi byw amser maith yn yr Aipht ym mhlith cenedl ag oedd wedi gwneyd cynnydd mewn deall a gwybodau, ond yn nodedig am eu coelgrefydd. O herwydd gwaeldriniaeth y caethiwed yr oedd yr Hebreaid, o ran eu hysbryd, yn wanaidd a drylliedig, a phob teimlad derchafedig a gwrol yn agos wedi darfod. Yr oeddynt hefyd wedi eu llugru i raddau ag eilunaddoliaeth y wlad: ni wyddys ddim yn iawn pa mor ddwfn oedd y llygredd hwn wedi gafaelu, ond oddiwrth eu gwaith yn gwneyd eilun y duw Osiris yn yr anialwch, a'r ffaith na chafodd neb ond un neu ddau o'r rhai a ymadawsant o'r Aipht fyned i wlad yr addewid, y mae lle i gasglu fod eilunaddoliaeth wedi ffynnu gymmaint yn eu plith â'u bod yn hollol anfeddyginiaethol. Pan yr

ymddangosodd Moses yn eu plith, braidd oeddynt yn deilwng o ryddid; oblegid ar ol iddynt gael eu traiswaredu o'r caethiwed trwy nerth y gwyrthiau mwyaf diammheuol a dychrynllyd a sonir am danynt yn y gyfrol sanctaidd, y dygwyddiad lleiaf, y siomedigaeth mwyaf disylw a berai iddynt rwgnach a dymuned dychwelyd yn ol at eu hen orthrymwyr. Ymddygent yn gyndyn a cheintachlyd, hyd yn ôd pan oedd gallu gwyrthiol Duw ger bron eu llygaid, a'i golofnau tan a niwl yn cyfarwyddo eu crwydriadau nos a dydd trwy anialwch Arabia. Ond er maint eu cildynrwydd a'u hanwybodaeth ymddengys (Jer. 7, 22.) fod ewyllys Duw am iddynt ddysgu egwyddorion gwir grefydd heb gynhorthwy seremoniau a defodau allanol. Dywedir yn llyfr Exod. 15. 25. 26. i'r Arglwydd roddi iddynt 'ddeddf a chyfraith' yn Marah, gan ddywedyd, 'Os gan wrandaw y gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, ac os gwnai di yr hyn sydd union yn ei olwg ef, a rhoddi clust i'w orchymynion ef, a chadw ei holl ddeddfau ef, ni roddaf arnat un o'r clefydau a roddais ar yr Aiphtiaid; o herwydd myfi yw'r Arglwydd dy Iachawdwr di.' Ond yr oeddynt wedi gosod cymmaint o'u serch ar ardderchawgrwydd eilunwasanaeth yr Aiphtiaid fel na chafai unrhyw ffyrf o addoliad fawr argraff ar eu meddyliau, oni fyddai fel hwnnw, yn ardderchog mewn seremoniau a defodau. O'r diwedd, wele Duw yn ymostwng i roddi iddynt trwy wyrthiau dychrynllyd y gyfraith ar fynydd Sinai: ond fel prawf o'u serch at eilunod gwlad eu caethiwed, braidd oedd swn taranau Duw wedi distewi cyn iddynt wneyd llo aur—delw Osiris yr Aiphtiaid. Am hyny, cyn y gallesid denu sylw y bobl wrthnysig hyn at bethau ysbrydol, rhaid oedd eu teganu fel plant, a myned at eu deall trwy gyfrwng eu llygaid—rhaid oedd rhoddi iddynt ffurf o addoliad o ran ymddangosiad allanol ryw beth yn gyffelyb i'r hyn oeddynt wedi arfer weled yn yr Aipht.

Yn awr oddiwrth y rhagymadrodd hwn gellir tynu'r casgliadau canlynol.—

1. Fod egwyddorion gwir grefydd yn sylfaenedig ar weithredoedd Duw yn y greadigaeth; mai cynhorthwy i ddod i iawn adnabyddiaeth o egwyddorion crefydd yw'r Bibl, ac amryw oruchwyliaethau Duw yn y byd: ac i fod dyn wedi ei wneyd yn addas i dderbyn crefydd, fod crefydd yn rhan o'i natur, ac i fod gallu ganddo i chwilio am egwyddorion crefydd, i'w deall, ac i'w dwyn i fuchedd-ymarferiad.

2. Fod angenrheidrwydd am ddefodau a seremoniau i ddysgu crefydd, yn dangos fod y cyfryw a fyddo yn sefyll yn yr angenrheidrwydd o honynt mewn cyflwr isel o ran gwybodaeth a moesoldeb.

3. Fod aberthau *yn gyffredinol* yn ffurf o addoliad hollol gydunol â natur ffigwraidd ac arwyddocaol ieithoedd yn oesoedd boreuol y byd; eu bod yn gynhorthwy allanol i addoliad—yn ffurf i ddynodi amrywiol deimladau duwiol y galon, megys diolchgarwch, serch, ac ymroddiad i ewyllys Duw, ac fel arwydd o ddifrifoldeb mewn cyfammod.

4. I aberthau a defodau goruchwyliaeth Moses gael eu rhoddi *mewn modd arbenig* i'r Iuddewon oherwydd caledrwydd eu calonau a'u ammharodrwydd i dderbyn egwyddorion crefydd yn eu purdeb a'u dull priodol. I Dduw i gyddioddef â'u gwendidau mor belled a chaniatau iddynt ffurf o addoliad o ran ardderchawgrwydd yn gyffelyb i'r hyn oeddynt wedi ei weled yn yr Aipht, ond nid o duedd llygredig.

5. Fod ein Duw daionus a thrugarog yn darparu ym mhob oes o'r byd y moddion mwyaf effeithiol i arwain ei blant i'w adnabod ef, ac i rodio yn ffyrdd rhinwedd a daioni.*

PHILO.

RHYDDYMOFYNIAD YN DDYLEDSWYDD.

'If you are not a reasoning man, to what purpose are you a man at all?'—COLERIDGE'S AIDS TO REFLECTION.

'Os nad wyt yn ymresymwr, pa ddyben dy fod yn ddyn?'

Y mae rhyddymofyniad wedi cael ei ystyried dan lawer o agweddau. Yn y sylwadau canlynol, ymdrinir y pwngc gyda golwg ar y dyledswydd i ryddymofyn; gan fod yr ysgrifenydd yn credu y dylai pob dyn ymdrechu i ffurfio barn gydwybodol drosto ei hun, ar byngciau pwysig yr oes. Ni ddylai un creadur rhesymol ymfoddloni i dderbyn ei opiniynau o wefusedd eraill.

Yn nyfnderau y meddwl, planwyd gan ein Creawdwr ysbryd ymofyngar; yr hwn a weithreda yn mhob aelod o ddynolryw, o'r plentyn newydd ei eni, i'r hen wr ar ymyl y bedd, ond gyda mwy o eofndra mewn rhai dynion nac mewn eraill.

Prif ddyben, ac yn wir unig ddyben, pob ymofyniad yw gwirionedd; ond fod dyn yn greadur a nwydau, dewisiadau, a thueddiadau i offrymu ei wir feddyliau ar allor elw, a hunan-gariad, dygwydd yn fynych nad yw'r ymofynydd yn hoffi y gwirionedd ynddo ei hun, nac yn wir yn ei garu oll, os nad yn gydsyniol a chydfynedol a'i ddewisiadau. Nid yw yn bosibl i ddyn o'r fath fod yn ryddymofynydd; meddylia yn fynych ei fod yn gweled pethau nad ydynt yn bod, ac yn deall pethau annealladwy. Ymochel rhag pob ymddangosiad gwrthwynebol; nid oes a fyno a hwynt: ac fel y *Lefiad* cymer ochr arall yr heol.

Rhaid i'r rhyddymofynydd arfer hunan-ymwadiad, a bod yn foddion i golli y pethau gwael a diwerth a berthynant iddo, cyn y gall ymaflyd yn y trysor gwerthfawroccaf—y gwirionedd. Ceir hunan-gariad ynglyn a phob coelfarn sefydlog; mabwysiada yr ymofynydd diragrith lawer o goelfarnau yn ystod ei ymchwiliadau, gan fod y meddwl yn tueddu i wneud casgliadau yn rhygynnar, ac oddiwrth nifer rhy fechan o ffeithiau; ond nid yw yn ymlynu wrthynt pan fyddo rhagor o ffeithiau wedi dangos nad yw y casgliad yn gosod allan y gwirionedd: A chan nad yw yn cywilyddio i addef ei fod yn llai gwybodus y ddoe nac y mae heddyw ceir fod llawer o wahaniaeth rhwng y rhyddymofynydd a'r gwr sydd dan ddylanwad ei dymherau a'i deimladau.

Nid ynt rhyddomofynwyr yr oes ond ychydig iawn o rif; er fe allai na fu erioed gymaint o ymofynwyr. Ond y maent y rhan fwyaf wedi ffurfio y casgliad yn mlaen llaw; ac nid ydynt yn edrych am y gwirionedd mewn tymher ostyngedig a didwyll, ond am seilion i brofi y peth a gam enwant yn *wirionedd*. Y maent wedi penderfynu yn gyntaf mai hwnw yw y gwir, yr hwn a ellir ei dderbyn heb golli hunan-gariad. Ceir y Trindodwr yn chwilio ei Feibl am brofion dros ei gred ef, yr Undodwr yn gwneyd yr un peth dros ei gred yntau, a'r anghredadyn gyda llawn gymmaint o sel yn bwriadu diystyru pob un o'r ddau, ac yn llawn mor gadarn yn ei gred o'i gymhwysder ei hun. Pob un o'r tri phlaid, gellir enwi trichant o bleidau, a osod i lawr fel peth anwadadwy—wirionedd y ffydd a broffesa; ac wedi hyn chwilia am brofion i'w chynnal a'i chadarnhau. "Gwirionedd yw yr hyn a gredwn *ni*, anwiredd yr hyn na chredwn." Yr oedd yr un duedd yn amser Bacon, gan y dywed, "Na ddarllen i wadu ac i ddadleu, nac i gredu heb ymchwiliad, nac i feio ac ofersiarad, ond i bwyso ac ystyried." Ond dyna ffordd gyffredin y byd; ac oherwydd

* Yn fy llythyr nesaf caf drafod y tri prif offrwm Iuddewig, sef y pech-offrwm, y poeth-offrwm, a'r hedd-offrwm, a dangos nad oeddynt ddim yn cyfeirio at Grist, fel yr haera'r pregethwyr Orthodox yn awr eu bod.

y twyll a'r diffyg o ewyllys da, ni bydd neb gallach o'r holl ymchwiliadau. Ymladdant a'u gilydd fel cwn a chathau; ond nid oes un yn ddigon gostyngedig i ofyn, 'A ddichon fy nghred i fod yn gyfeiliornus?'

Cyfaddefir ar bob llaw mai peth da, hardd, ac anhydeddus iawn yw gwirionedd, os dygwydd gydfyned a'n teimladau a'n galwedigaethau ni; ond gan ei fod yn dra mynych yn anghyson a'n dewisiadau anwylaf, nid oes llawer iawn o barch diffuant i'r gwirionedd yn yr oes bresenol.

Gofynir i'r rhyddymofynydd fod yn berchen ar galernid eneidiol, ac i fod yn ddidderbyn wyneb; ac y mae y gwahaniaeth mwyaf rhyngddo a'r rhwymymofynydd. Y maent mor wahanol ac oeddynt y gwr o Samaria, a'r gwr o Iwyth Lefi. Pa le bynag y byddo'r gwirionedd cymer y cyntaf afael ynddi; nid adnebydd yr ail ef ond ar rai achlysuron. Os bydd yn isel, ymostwng y cyntaf i sigla llaw ag ef; os yn uchel nid yw yn ofni ei wynebpryd. Nid oes a fyno y llall a phethau gwael yn ngolwg ei gymydogion; ac nid oes un berthynas yn cael hanfodi rhyngddo a'r gwir, os na fydd y cyssylltiad yn cael ei gyfrif yn anrhydeddus gan ddynolryw. Edrych y cyntaf am dano yn mhob man; ac nid oes dim yn rhy wael i deilyngu sylw, nac un awdurdod yn ddigon ofnadwy i droi'r chwiliedydd yn ol. Pe bai yn gwisgo dillad peraroglaidd, ac mewn agwedd dirion a gostyngedig; ac yn gadael y diogyn yn ei segurdod, y meddwyn yn ei ddiod, y crefyldwr yn ei anffaeledigrwydd, a'r gwleidiadydd yn ei hunan-ddoethineb, byddai y gwir yn cael ei roesawi i bob ty. Ond gan nad yw y gwir yn gwenu ar y twylliwr a'r cyfeiliornus, nac yn plygu pen ar gais y balch a'r cyfoethog, nid oes ond rhif fechan yn gosod y gwir uwch ben eu hunan-gariad; a'r rhan fwyaf a'i haberthant ar allor eu hanffaeledigrwydd personol, a'u manteision tymhorol.

Oes rhaid i ddyn ymadael a thwyll er rhif ei bleserau? Ydyw yn ddyledswydd ar bob dyn i ymofyn am wirionedd? Nid oes amheuaeth genyf ei fod. Rhoddaf fy rhesymau am y gred maes o law; ond yn gyntaf sylwaf ar y rhesymau am beidio. O'r rhai hyn, y prif ydynt,—

1. Diogi.
2. Aberthiad y meddwl i fanteision tymhorol.
3. Ymlyniad wrth gred sefydledig.
4. Balchder.

Ymdriniaf a hwynt yn ol y drefn uchod.

1. Diogi. Drychfeddwl hardd iawn yw'r un Groegaidd, fod y gwir yn gorwedd yn ngwaelod ffynon. Y berw gwag a disylwedd a nofia ar y wyneb, megys tybiadau arwynebol yr oes; ond peth i'w ymofyn yw y gwirionedd, a rhaid myned i'r dyfnderoedd am dano. Un rhan tra helaeth o ddynolryw sydd a gormod o ddiogi i ymaflyd mewn gwaith meddyliol; ond os boddlonant i dderbyn eu opiniynau oddiwrth eraill, rhaid iddynt hefyd foddloni i gael eu diystyru, a'u gyru ymaith gyda'r gwas diles yr hwn a felldithiwyd am gadw yn segur y talentau a ymddiriedwyd iddo gan ei Arglwydd. Yr ydym oll wedi ein anrhegu a galluoedd; gwae, fydd ar yr hwn nad anrhydedda ei Greawdwr yn eu defnyddiad.

2. Nid yw yn gyfleus i lawer o ddynion addef eu bod yn credu pethau annerbyniol; rhag iddynt fod swllt neu ddau yn dlotach tua phen y flwyddyn. Ond os ennillant aur ac arian gwnant eu hunain yn destyn gwaradwydd; a chollant mewn cymeriad moesol, fwy, llawer fwy, nag all arian byth ei adbrynu. Nid Pedriaid o'r fath hyn sydd yn enwogi yr hil ddynol; ac os dymunant efelychu Paul, Galileo, Columbus, Luther, Whiston, a Phriestley, rhaid iddynt wrando ar lais cydwybod, ac

nid ar gymhelliadau manteision tymorol. Ffolineb fydd rhesymu a dynion o'r cymmeriad hyn, gan eu bod yn gweled ffyrdd onestrwydd a rhinwedd, a chyfiawnder; ond yn myned yn wirfoddol i freichiau twyll, ac i gyfeillach anfoes a rhagrith. Ystyriaeth ddyrchafedig onide! Dyn yn gwadu ei enedigaethfraint, ac yn iselu ei hun yn is nac amfail! Llawysgrifen Duw yn disgleirio ar ei gydwybod, a'r dyn yn diarddelu ei ran anfarwol, ac yn cuddio geiriau, a mogi annogaethau ei Greawdwr dan len dywyll o gelwydd ymarferedig! Afreidiol fydd un gair ychwanegol ar yr anonestrwydd hyn; ond efallai y byddai yn fuddiol i daflu golwg ar dwyll-ddoethineb y dynion yma. Eilunaddoliad sydd bechod yn ol yr ysgrythyrau; ond wele Gristionogion yn gwadu eu tybiadau mwyaf gwreiddiol, yn aberthu eu meddyliau anfarwol i foddhau eraill, a thrwy hyny yn addoli eu gilydd. Dyn, yn ngolwg Duw, yn gwadu ei gred; ac yn gwerthu ei enaid am ychydig o geiniogau. Os cyhuddir hwynt, dywedant, "Nid yw y byd yn goddef i ni ddweyd ein meddyliau, ac am hyny rhaid i ni ei ddodi i ddeall ein bod o'r un gred a'n cyfeillion." Nid oedd yr Iuddewon yn goddef i Grist bregethu yr Efengyl; ond nid oedd hyny yn ddigon o reswm am beidio. Nid oedd y byd Pabaidd yn boddloni i Luther; ond boddlonodd y dewrwr ei hunan, a gorfu i'r byd roi gydag ef. Doethion y byd a garcharent Bunyan a Fox; ond pregethasant eu hathrawiaethau, a daeth eu gelynion yn gallach. Cymer dithau galon; nac ofna; ymddirieda yn ngalluogrwydd y gwirionedd; dangos wendid erledigaeth o flaen penderfyniad moesol—ni bydd erledigaeth mwyach; ac anrhydeddir dy ffydd am na ellir ei phrynu. Adrodd dy feddwl yn eofn; ymdrech i ennill rhydd-ddywediad i'th gyfeillion; ac yna perchir di gan Dduw, ac anrhydeddir di gan ddynion. Am hyny ymofyn yn ddibetrus; na chywilyddia i addef dy gamsyniadau; ac argyhoedda dy gymmydogion pan ar gyfeiliorn. Bydd gyfiawn, a thrwy hyny yn ddoeth; ond annoeth fydd twyll, gan y gwelir trwyddot. Y mae y wlad yn fwy parod i arddel gwirioneddau nac a feddylir gan lawer; ond y mae twyll wedi teyrnasu cyhyd nes yw y gymdeithas yn ofni ei hunan, a dynion heb ffydd yn eu gilydd. Dyledswydd pob dyn yw dangos ffrwyth ei ymchwiliadau, ac yna bydd i bawb fwynhau boddhad cydwybodol.

3. Cred Sefydledig.

Dynion a ofnant, nid yn unig eu cyfeillion, ond hefyd ofnant eu hunain; a phan fyddo goleuni nefol yn disgyn ar eu meddyliau, mae arnynt ofn ei addef os yn anghydsyniol a chred eu tadau. Ceir llawer o goegfeddyliau yn ddiau; ond hanfoda digon o wahaniaeth rhyngddynt a'r golygiadau tanbaid a lewyrchant arnom ar rai amserau. Cyn amser Luther yr oedd dynion eraill wedi cael yr un goleuni; ond nid oedd neb o'i gynredwyr wedi rhoddi cymmaint o bwys arno; a thrwy hyny nid oedd yn bossibl iddo fod mor ffrwythlon.

Nid yw cred sefydledig ond mesur o alluoedd ei ffurfwyr; ac nid oes dim mewn cred a sefydlwyd gan ein tadau mewn crefydd, gwleidiadaeth, neu athroniaeth, yn ein ymrwymo ni i'w derbyn heb ymofyniad. Dymunwn er pob peth, wahaniaethu fy hun oddiwrth y rhif a gredant nad oes dim teilwng o sylw yn yr hyn a wnaethpwyd gan ein cynredwyr; ond teilynga pob peth ein sylw oherwydd y gwirionedd a gynnwys, ac nid oherwydd fod hwn a hwn yn ei gredu. Ac os yw cred sefydledig yn anghyson a'n gwybodaethau helaethach ni; nid oes galwad arnom i dderbyn ond y ran wirioneddol a dybid ei chyfnewid i atteb cynneddfau cryfach, a syniadau cywirach.

Sylwn yn gyntaf ar grefydd. Ceir llawer plaid wahanol o grefyddwyr Cristionogol. Nid oes achos son am yr Esseniaid, y Gnostiaid, a'r Mameluciaid boreuol; ond yn y dyddiau presenol ceir gwahaniaethau helaeth yn eu barnau. Sefydlir hwynt oll yn yr

ysgrythyrau; ac yn ddiddadl oddiyno ceir y moddion i'w cysoni. Ond tra byddant yn cyfyngu eu meddyliau pob un at ei *sect* ei hun, bydd cyssondeb yn beth anmhosibl. Nid oes o'r pleidiau yn rhoddi gwrandawiad teg i'r pleidiau gwrthwynebol; chwiliant yr ysgrythyrau am brofion o'u plaid eu hun, ac nid er mwyn cael allan y gwir grefydd a gynnwysant; ond nid oes nemawr yn cymeryd amser i gydbwyso a chydmaru y profion ar bob ochr. Er maint y gwahaniaeth ceir peth gwirionedd yn mhob un o honynt; credaf fod pob un o honynt yn wir grefydd, ond hefyd yn goelgrefydd; ond rhaid i ysbryd cariad daenu ymhellach a suddo yn ddyfnach, cyn y ceir allan yn ei llawn ogoniant *Y Gwir Grefydd.* Nid ydym eto wedi ei deall; a rhaid i gyrhaeddiadau eangach gydweithredu a theimladau mwy cariadus, gostyngedig, ac ymofyngar cyn y del yr amser pan *y car dyn ei gymmydog fel ei hun.* Ffrwyth yr ymchwiliadau taeraf, a'r golygiadau dyfnaf i gyfansoddiad cymdeithas a'r meddwl dynol fydd y grefydd hono: prysured yr amser pan y llewyrcha ar ein meddyliau yn ei holl ogoniant.

Llawer o ddynion da, a ofnant fod Duw yn ei air, a Duw yn ei weithredoedd yn anghyson a'u gilydd. Nid yw y farn hon ond uno ffrwythau drygionus anwybodaeth. Rhy barod yw llawer o ddynion i gredu heb nemawr o brofion; ac i ddweyd, "Nid oes eisiau ymchwil, nyni sydd iawn; a phwy bynag na chredo ynnom ni, ni fydd gadwedig." Y canlyniadau ydynt fod, yn mhlith dynion byrbwyll, crefydd yn cael ei diystyru, y pwlpud yn dywyll, tra fo goleuni ym mhlith y gwrandawyr, a gwirioneddau Cristionogrwydd yn cael eu taflu y naill ochr gyda chyfeiliornadau eu proffeswyr. Methodd Canute droi tonnau y mor yn ol; a methodd Canutiaid crefydd, gwleidiadaeth, ac athroniaeth droi yn ol ysbryd ymofyngar yr oes. "Carcharwch Galileo meddai perthiaid Itali;" fe droant y bodau er hyny. "Ynfydyn yw Harvey;" ystyriwch ei resymau. "Atheist yw Locke;" darllenwch ei lyfr. "Breuddwydiwr yw Newton;" ydych yn deall y *Principia*? "Anghrist yw Buckland;" pa un yw'r crefyddwr goreu, yr athronydd yr hwn a wel filoedd o gyssylltiadau rhwng Duw a dynion, nef a daear, anweledig i ti, neu'r coegyn balch, gwael ac anhyddysg yr hwn a fesur wybodaeth, gallu, a thrugareddau yr Hollalluog, wrth ei alluoedd byrion a'i dymherau byrbwyll ei hun? Wrth ymlynu ar gred sefydledig, y mae y byd crefyddol yn gwrthwynebu dyben eu creadigaeth. Ymofynant; nid oes achos ofni am y canlyniadau; a chysurir hwynt yn y gorchwyl gan ddoeth gynghorion y treiddgar Bacon;—"Ychydig o wybodaeth a duedda dyn i atheistiaeth; ond dyfnder athroniaeth a'i tywys yn ol. Am hyny na feddylied neb y gallwn chwilio rhy bell, na bod yn rhy wybodus yn llyfr geiriau Duw, nac yn llyfr ei weithredoedd; ond yn hytrach dylem amcanu gwneud cynnydd diddiwedd yn mhob un o'r ddau. "(On the advancement of Learning, p. 12.)" Ac os dygwydd i ambell ddyryswch ymddangos, cymered yr ymofynydd galon; yn nghyflawnder amser daw rhyw Kepler arall i esbonio, cyssylltu, a chysoni y gwahanol ffeithiau, ac i ysgrifenu yn gampus ar "Weddillion y Greadigaeth." Ond nid yw yn reswm digonol yn erbyn rhyddymofyniad, y bydd i rai syniadau anghywir gael eu diorseddu er rhoddi lle i ddrychfeddyliau mwy eang a theilwng o Greawdwr y byd.—[I'W DARHAU.]

TYSTIOLAETH LLYFR NATUR AM DDUW.

Parhad or tudal. 138.

YN fy llythyron diweddaf ceisiais ddangos nad oes un poen wedi ei roddi, nad yw yn tueddu i leshau dyn; ac hefyd paham y mae drwg, neu bechod, o dan lywodraeth Duw o anfeidrol gariad: ond rhag tramcwyddo rhai cyfeillion, ni ddilynais yr olaf mor bell ag y gwna Edwards, Smith, ac eraill. Gweddai yn wir hunan-ymwadiad, a phwyll eithaf, wrth geisio cael allan anchwiliadwy ffyrdd y Nef; ond nid

wyf yn meddwl nad yw Duw yn gofyn i ni ôll i wneud cin goreu ar y cwestiynnau mwyaf dyrys: am hynny, anturiat yn awr i chwilio, Paham y mae Duw yn cospi pechadur? A chwennychwn allu argyhoeddi y darllenydd, nid yn unig, mai o'i *gariad* ef y mae y gosp yn tarddu, ac er *lles*, a *gwelliant* y cospedig yn y *byd hwn*: ond hefyd, yr ettyb y gosp, yn y byd nesaf, ei diben, sef perffeithio holl deulu y natur ddynol; a'u gwneud yn ddelw y Duw sydd yn hanfodol gariad. Cymmwys ef allai ydyw sylwi mai wrth bechadur, yr ydym yn meddwl, nn fyddo wedi troseddu cyfraeth, neu gyfreithiau Duw: neu y rheolau, y mae ef wedi osod o flaen dyn i'w cadw. Pan y byddo rhai'n yn cael eu torri, y mae poen yn cael ei ddwyn ar un, neu ychwaneg o greaduriaid Duw. Os bydd y poen hwn yn cael ei ddwyn oddiangylch trwy gam ewyllysiad dyn, y mae ef wedi bod yn achos gwirfoddol o boen i un, neu ychwaneg o'i gyddddynion; hynny yw, y mae wedi pechu, neu wneud drwg. Am hyn y mae Duw yn ei gospi: ond wrth wneuthur hyn, y mae Duw yn wirfoddol yn dwyn poen ar *ddyn*; ac fel hyn y mae yn gwneud yr un peth a'r pechadur. Paham ddarllenydd nad yw Duw yn pechu, wrth wneuthur yr un peth a'r pechadur! Atteb os y gelli. Os wyt ti yn methu deall, fi roddaf atteb boddlonol paham, hynny yw, y gwahanol amcan sydd ganddynt wrth boeni — un er boddio ei tympwy ddrwg—y llall er mwyn diwygio. Mae dyn yn y gymmydogaeth hon, yr hwn sydd bob dydd, yn poeni llawer o'i gymmydogion mewn rhagor nag un ffordd; ac etto nid oes neb yn ei feio—mae bron pawb yn hoffi gweled ei wyneb—pawb yn ei garu, a hynny yn bennaf am ei fedrysrwydd yn ei waith yn rhoi poen—fe'i gelwir y Meddyg—diolcha dynion—ïe, *talant* i hwn am eu poeni. Paham? ond am mae eu llés sydd ganddo mewn golwg. 'Diben y weithred sydd yn ei choroni.' Felly am Dduw yn cospi pechadur—un afiach yw—mae y *pleuresy* yn ei waed—mae yn rhaid defnyddio y *lancet*—heb hyn nid oes ffordd i adferu iechyd. Pan y credo y poenedig hyn, dywed gyda'r Salmydd, '*Cyn fy nghystyddio yr oeddwn yn cyfeiliorni, ond yn awr y cadwaf dy air di*' Neu fel y mae Dr. Morgan wedi cyfieithu y geiriau, '*Cyn fy narostwng yr oeddwn yn cyfeiliorni, ond yn awr y ccdwais dy air di*' Beth a fyn dyn ar law ei Dduw, ond yr hyn y mae anfeidrol ddoethineb yn weled yn oreu *er ei les?* Ond canfod mai ei lés, ac nid un peth arall, sydd yng nghospedigaethau y Nef, bydd y galon yn sicr o fod yn wir ddiolchgar i'w Chreawdwr, er fod y gospedigaeth yn boenus; o herwydd yr iechyd a'r mawr elw mae yn eglur ganfod fydd i ganlyn.

O'r ochr arall, os bydd dyn yn meddwl mae er amddiffyn y 'ddeddf foesol,' mae Duw yn cospi, ni all lai na gofyn paham y rhoddodd 'ddeddf foesol' erioed? Dyweded y tafod beth bynnag fyddo credoau wedi ddysgcu iddo; mae y galon yn sicr o deimlo mai traws Arglwydd atgas yw ei Duw—yna llefa y tafod yn *hollol Galfinaidd*, am 'dynnu ymaith y galon garreg, &c.'

Mae y Duw sydd yn anfeidrol gariad wedi creu dyn ar ei ddelw ei hun—yn un na all garu dim sydd yn ddrwg; a rhaid o ganlyniad, na all garu yr achos o'r drwg, nes y gwelo, mai ei ddiben yw gwella y poenedig. Os amcan Duw yn y byd nesaf, yn ol barn y dyn, fydd cael ei ogoniant ar ei elynion, mae mor sicr, a bod ei 'sefyllfa dragywyddol' yn gyddiedig oddiwrtho, y bydd yr ofnau yn cyfodi, mai yn y tragywyddol wae y bydd ei drigfa—nid am a *wnaeth*, yn gymmaint ag am ei fod wedi ei *eni yn un o hiliogaeth Adda*. Ar y pryd arall, bydd ei hunanoldeb yn gweniaetho iddo fod 'ei fatter yn dda,' yna daw i'r fynwes deimladau o lawenydd, yr un fath yn gymmwys ag a lanwa galon y dyn, fyddo wedi cyrraedd pen coeden, ryw eiliad amraut cyn i'r llew allu ei ddal. Wedi ymgaddio yng nghlwyfau Calfaria, bydd ei lawenydd yntau yn torri allan mewn cân, am y waredigaeth rhag llidiawgrwydd diderfyn y Duw mae yn feddwl sydd yn 'llosgefeudd tragywyddol, ac yn dân ussol allan o i Fab.' Ond pa ddyn all alw gwynfyd ar y fath deimladau? Ni all fod yn ychwaneg na chymmysgefa o fraw, a theimlad o ddiogelwch rhag nwydau gorwyllt ei elyn gwaethaf. Gwell yn ddiau gan y fath un fyddai gwybod nad creadur cyfrifol yw dyn; ac nad oes byd ar ol hwn. Sicr fod y gred, fod Duw yn cospi gyda diben i ymddial, wedi gyrru ei channoedd lawer i wallgofrwydd, y rhai pe amgen fuasent yn fendith byd; ac yn addurn dynoliaeth. Os nad lles dyn yw amcan Duw wrth gospi, pa fodd y gellir dywedyd am dano, nid mae cariad yw, ond nad yw yn anfeidrol ddrwg? Rhaid ei fod yn anfeidrol waeth na'r gwaethaf o ddynolryw. Ble erioed y clywyd sôn am ddyn, er cymmaint ei ddrwg anwydau, a gospodd, am ychydig flynyddau, greaduriaid na wnaethant iddo un niwaid erioed. A allet ti ddarllenydd gael gorfoledd am fil o flynyddau, wrth wrandaw ar waeau, ac ocheneidiau dy elyn gwaethaf, heb deimlo un tosturi tuag atto? Oni byddet, ar ol canfod na allai dy ddrygu mwy, yn barod i faddeu, neu yn hytrach i arfer moddion i'w diwygio? Meddwl yn awr am y bod dychymmygol hwnnw, a elwir y gelyn Diafol; a chofia yn gyntaf beth o ddrwg y wnaeth, yn ol barn John Calvin, a'i ganlynwyr—os mynni, gad ei fod wedi peri i'r an-

feidrol ail berson o'r Drindod i farw ar y groes —a chwedi y cyfan, nad yw ei waith wedi ei hanner ddadwneud—yna gofyn i'th galon, pan gofiot beth oedd cyn iddo syrthio, ai nid gwell iddo gael ei fwrw i ddiddymdra tragywyddol, na chael ei gadw mewn poen? —ai nid gwell na'r ddau fuasai arfer moddion addas i'w diwygio—i'w adfern yn ol i'w sefyllfa gyntefig, a nefolaidd? Gwn dy fod o'r gadon yn addef, 'Gwell yn wir,' er y gall fod dy *system*, (pa un ai yr hen, neu y newydd, *ni waeth,*) a'th ragfarn dygiad i fynu yn peri it' nagu addef hynna. I beth y mae dy Dduw yn ei gadw yn fyw, os gwyddost? Rhaid mai naill ai er mwyn ei diwygio,—*yr unig olwg deilwng:* neu o galon ddialgar gael gorfoleddu yn ei boen; a rhaid felly ei fod yn berffaith ddrwg—yn anfeidrol waeth na'r Diafol ei hun. Etto ym mhellach, paham y creodd Duw ef yn y cyntaf? Onid oedd yn gwybod mai balchio, a syrthio, a wnaethai, cyn erioed iddo ei alw i fywyd? Paham ynte y creodd ef, os nad er mwyn gorfoleddu yn dragywyddol yn ei boen; ac er mwyn cael ei gymmorth i fwrw Adda allan o Baradwys—a chael ei ogoniant yn hyn oll? A oes yn bossibl meddwl am fwy o *ddrwg*, na'r Duw dychymmygol hwn; yr hwn a greodd greadur er mwyn gorfoleddu yn ei boen? Rhaid mae hyn neu ei welliant oedd yr amcan.

Ond ar hyn o dro gadawaf rhyngot a'th farn am y diafol, a sylwaf fod pob doeth yn yr oes bresennol, yn cyfaddef y dylai cospedigaethau brenhinoedd daear, gael ei gweinyddu gydag amcan i ddiwygio y cospedig. Felly mae yn amlwg, fod barn dyn yn dangos, mae'r diben hwn yn unig ellir alw yn ddoeth. A allwn feddwl fod Duw yn waeth na'i greadur o ddyn? Diau nas gallwn. Yn wir y mae pawb yn addef mai diben da sydd gan Dduw yn ei geryddon yn y byd presennol, o leiaf tuag at yr etholedigion. Ond a all un dyn haeru, ei fod ef ei hun, heb gael ei argyhoeddi o un bai trwy gospedigaethau Duw? na fuont erioed yn foddion i beri iddo adael un pechod? na fu edifar ganddo am un pechod, a gyflawnodd wedi ei eni i'r byd? sicr nas gall; am hynny nid oes neb, nad yw wedi profi diben Duw yn dda, o leiaf yn y byd hwn, yn ei waith yn cospi pechadur. Pwy gan hynny, all ammeu nad diben yr un mor ardderchog fydd gan Dduw yn y byd tu draw i'r bedd? Mae yn beth anghredadwy i ddywedyd, a chableddus i haeru, y newidia amcanion anfeidrol gariad; a myned yn *nwydau cynddeiriog anfeidrol lid!*

Gyda llawer mwy o gymmwysder y gellir, ar dystiolaeth llyfr natur *yn unig*, alw Duw yn Dad pob perchen einioes, nag y gellir dywedyd fod Abram yn dad i Isaac; neu Adda i Abel. Beth bynnag yw gofal y tad goreu am ei anwylaf blentyn, nid ydyw yn deilwng i gael ei gydmaru â gofal Duw am yr afradlon gwaethaf. Rhaid am hyny, mai cariad sydd yn trefnu y cospedigaethau llymaf, yn gystal a'r gwobrwyon pennaf, er lles mwyaf y cospedig ei hun. Er mor amlwg yw hyn i bob perchen plentyn, nid yw grym yr ymresymiad yn ganfodadwy i neb, nad ydyw wedi edrych yng ngwyneb ei blentyn ei hun; ac fel y mae mwyaf el golled, y mae y diblant yn holloi analluog i amgyffred nerth yr hyn yr ydwyf yn fyned i'w ysgrifennu. Er hynny, nis gallaf lai na gofyn i rieni plant, beth oedd, ac ydyw eu teimladau tu ag at eu plant? Dymunaf arnynt adgofio eu gofal am eu plentyn—i ystyried etto beth oedd eu teimladau pan y byddai eu plentyn mewn caledi—os y darfu iddynt erioed gredu fod angau wedi cymmeryd gafael yn eu plentyn, fel yr oedd eu calonnau yn rhwygo o gydymdeimlad; ac ar lawer tro, yn barod i lewygu wrth feddwl ei bod allan o'u gallu i wneud un cynnorthwy i'r hwn oeddent yn edrych arno fel eu henaid eu hunain. Eisiau gallu oedd yr unig achos na fuasent gydag awdurdod yn dywedyd wrtho, 'Bydd iach.' Nid un llygad, ond ei ddau fuasai brenin y Locriaid, y sonia Philo am dano yn yr YMOFYNYDD am fis Rhagfyr, yn sicr o'u rhoddi am fywyd ei fab. A ydyw yn bossibl credu ynte, beth bynnag a all fod beiau ein plant, y gallwn amcanu dim wrth eu ceryddu, ond eu hattal rhag cyflawni drwg? Dywedodd un o'r dynion enwoccaf yn Sir Aberteifi, yn y cannrif diweddaf, sef y Parchedig Dafydd Llwyd, o Lwynrhydowen, wrth ei blant fel hyn,—

'A phan y boech am bechu,
Yn peri i mi'ch ceryddu;
Fy nghalon drist o'r achos hon,
A fyddai 'mron ymrannu.

'Gosodais daer ymbiliau
At Dduw, i'r lan ar liniau,
Er i chwi gael ei ddiwael ddawn,
I wario'n iawn eich oriau.'

O! pa mor anodd yw cospi ein plant pan y gwyddom fod cosp yn eisiau! pan y bo'm yn credu mae cosp yn unig wna y tro! Wrth gyfodi'r wialen, mae y fraich o'r ysgwydd i'r arddwrn yn colli ei grym—mae bron yn rhy wan i daro yr ergyd—a'r galon, hithau yn colli ei hergyd naturiol i daflu y gwaed drwy y gwithiennau; a pe bai yn gorfod meddwl am gospi ei phlentyn rifedi gwlith y wawr o filiwnau o flynyddau heb fod un rhith yn nes i amser taflu y wialen ymaith, sicr yr elai yn ufflon candrull cyn gallu taro yr ergid cyntaf. Pa sawl calon sydd wedi torri o herwydd bod ei cheryddon yn rhy analluog i ddiwygio

ei phlentyn—wrth weled fod ei mab annuwiol yn mathru deddfau ei Duw, er gwaethaf cyngor a cherydd yr un a'i magodd 'o'r tirionaf.' Ddarllenydd pwyllog! O ba le y daeth y teimladau hyn i galon y tad a'r fam? y dymuniad i wneuthur eu plentyn yn ddedwydd, gan nad beth fydda y drafferth a'r draul? Ie, y parodrwydd i ddioddef rhan o boen y plentyn, er mwyn ei esmwythau ef? O ba le? Oddiwrth ffurfiwr y galon, i gyhoeddi i bob gwlad, ac ym mhob oes, a llais taran o'r nef, mai *lles y cospedig* sydd gyda Duw mewn golwg wrth gospi dyn; a chyn wired a'i fod wedi dywedyd, '*Myfi yr Arglwydd ni'm newidir,*' i brofi hyd foddlonrwydd i'r un a ystyrio, mae er lles a diwygiad pob dyn y bydd yn cospi tu draw i angau a'r bedd. Y mymryn lleiaf o gariad yr anfeidrol Dduw yn gwresogi calon dyn ydyw serch rhieni at eu plant, yr hwn sydd yn ei dro yn dangos fod dyn wedi cael ei greu ar ddelw ei Dduw. Ni fedd dyn un peth sydd yn gosod allan gariad Duw yn fwy amlwg nag y mae gofal rhieni am eu plant yn ei wneud. Nid oes eisiau gwell ar *dad* a *mam*. Goddefed y lleill o'm darllenwyr i mi chwanegu gair o enau un y maent oll yn garu, '*Os chwychwi, gan hynny, a chwi yn ddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant, pa faint mwy y rhydd eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd, bethau da i'r rhai a ofynant iddo,*' Mat. vii. 11, Luc xi. 13. Iesu Grist wnaeth yr *appeal* yna at deidiau daearol, y rhai nad ydynt ond drwg a'u cydmaru â Duw anfeidrol dda. Yn ei farn ef mae llyfr natur, a *dadguddiad hefyd*, y bydd i gospedigaethau y byd i ddyfod, i gael eu gweinyddu gydag amcan i wella y cospedig i buro allan o'i galon bob drwg ac anwiredd; ac os na flina, ac os na ddiffygia yr Arglwydd, Creawdydd cyrrau y ddaear,—os yw Duw yn anfeidrol ddoeth i drefnu, ac yn hollalluog i gyflawni, fe *ettyb y gosp ei diben—fe burir pob dyn nes ei wneud yn ddelw Duw.* Yna ni bydd eisiau cosp mwy, gan fod dyn yn gymmwys i dderbyn gwynfyd a bywyd tragywyddol. Yna y daw i ben broffwydoliaeth y Parchedig W. Williams, y bardd enwog, o Bant-y-celyn:—

'Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron,
Holl chwerwon ddyfroedd Mara;
Pryd hyn y try pob chwerw nant,
Yn win i blant Jehofa.'

[I'W BARHAU.]

NEWYDDION

CARTREFOL A THRAMOR.

Cyfarfu y Senedd ar y 3edd o Chwefror.

Cafodd y *bill* er *Rhyddfreiniad Iuddewon* ei ddarllen yr ail waith yn Nhy y Cyffredin ar yr 11eg, pan yr oedd drosto, 277, yn ei erbyn 204. Ymddengys nad oes un amheuaeth bellach y bydd iddo *bassio* trwy'r ddau dy. Amcan y *bill* yw galluogi *Iuddewon* i gymmeryd eu lle yn y Senedd, os dewisir hwynt i hynny. Ar yr etholiad diweddaf cafodd y Baron Rothschild, Iuddew cyfoethog, ei ddewis i fod yn un o aelodau y Senedd dros brif-ddinas Llundain. Nis gall gyflawni y swydd yr etholwyd iddo nes *passio'r bill* hwn. Gwrthwynebid caniattau hyn o fraint i blant Abraham ar y tir, meddent, y byddai hyny i anghristnogeiddio y Senedd a'r wladwriaeth, ac i groesi amcanion Rhagluniaeth a'r Proffwydoliaethau mewn perthynas i'r genedl hon! Ond hyderwn y cair gweled maes o law, o ran breiniau gwladol, nad oes mwyach i fod 'un gwahaniaeth rhwng enwaediad a dienwaediad.'

Ar y 18ed, rhoddodd Arglwydd John Russell, o flaen Ty y Cyffredin, amcanion y Llywodraeth mewn perthynas i drethi y wlad dros y flwyddyn ddyfodol. Yn lle eu lleihau, y mae yn debyg y bydd yn rhaid ychwanegu attynt. Ychwanegir yr *Income Tax* o dair punt i bum' punt y cant.

IWERDDON.

Y MAE y llysoedd barn wedi chwynu allan yr aflonyddwyr gwaethaf. Nid yw troseddau mor ddychrynllyd nac mor aml ag y buont; ond y mae'r wlad yn mhell o fod yn dawel ac heddychlon. Y mae y tlodion mewn llawer o'r taleithiau yn dioddef eisieu mawr. Cynnygir gan y Llywodraeth i wneuthur rhyw wellhad yn y gyfraith fel y mae rhwng meistr a deiliad.

Y mae y Pab hefyd wedi danfon llythyr at yr esgobion a'r offeiriaid Pabaidd yn yr Iwerddon, yn yr hwn y mae yn eu galw i gyfrif am eu hymddygiad yn yr afreolaeth diweddar, ac yn eu ceryddu yn llym am yr annogaeth a glywodd roddi o honynt wrth yr allor i weithredoedd trawsder.

FFRAINGC.

Y MAE ischyd y brenin yn ansefydlog, ac yntau mewn gwth o oedran, ac y mae pryder nid bychan yn Ffraingc—ac, yn wir, dros Ewrop yn gyffredin—oherwydd hyny. Ofnir y bydd anhrefn, os nad rhyfel, yn ddiattreg i ganlyn ei farwolaeth ef.

Yn y dyddiau hyn, y peth sydd yn gwbl gyffroi ein cym'dogion bywiog yw, y Diwygiad Wleddoedd, *(Reform Banquets,)*—cyfarfodydd lle byddis yn trafod *politics*—ag ydynt wedi cael eu cynnal yn ddiweddar mewn amryw o'r prif ddinasoedd, yn groes i ewyllys y llys a'r llywodraeth, ac, fel y dywedir, yn groes i gyfraith y tir. Bwriedir cynnal diwygiad-wledd fawr yn Paris ym mhen ychydig o ddyddiau. Y mae y Llyw-

odraeth wedi dangos ei hanghymeradwyaeth, ac y mae wedi bygwyth. Y mae hefyd yn cymeryd mesurau i sicrhau yr amddiffynfeydd, ac i ymbarottoi yn erbyn terfysg. O'r tu arall, dywed yr hanesion fod y diwygwyr yn benderfynol i gynnal eu gwledd. Pa beth a all ddigwydd, anmhosibl yw dywedyd; ychydig o ddyddiau a ddengys. Hyn sydd sicr, fod Louis Phillippe a'i Lywodraeth yn gryn anmhoblogaidd.

YR ITAL.

Y MAE deheudir Ewrop mewn cynnwrf trwyddo. Oddiar dechreuad teyrnasiad y Pab presennol Pius IX. ac i fesur mawr yn ddiau mewn canlyniad i'r diwygiadau gwladwriaethol a ddechreuwyd ganddo ef, dangoswyd o bryd i bryd duedd i ehangu rhyddid eu deiliaid gan rhai brenhinoedd a phennaethiaid yn yr Ital, eraill a safent yn erbyn pob cynnygiad at gynnydd rhyddid. O nifer y rhai a wrthwynebent rhyddid oedd Ferdinand, Brenin *Naples* a *Sicily*. Yn awr y mae chwildroad wedi cymmeryd lle yn ei deirnas. Ni fu dim tywallt gwaed na therfysg wrth dwyn hyn oddiamgylch yn *Naples*. Ond gwelodd y brenin yn amlwg fod gorfod arno, a chaniataodd i'w ddeiliaid y *Constitution* a ddymunent; sef yr un a roddwyd iddynt yn 1812. Yr hwn yr y'm yn deall sydd yn gryn debyg i eiddo Prydain Fawr.

Ond trigolion *Palermo*, prif-ddinas *Sicily*, a ennillasant eu rhyddid trwy ymdrech hyd at waed, gan orchfygu a gyrru ymaith y milwyr a chymmeryd meddiant o'r amddiffynfeydd. Gobeithiwn y bydd y newyddion nesaf i sicrhau i ni fod rhyddid y myned yn y blaen yn eu plith o dan nawdd cyfraith a heddwch.

AMRYWIAETHAU.

ARIAN MEWN GWDDF.—Ychydig amser yn ol, bachgenyn o'r enw Copus, mab Mr. Copus, Mansell's Arms, Abertawe, a anfonwyd gan ei fam i brynu rhyw bethau neu gilydd i *siop* gerllaw yno, ac i dalu am y cyfryw rhoddodd ddau swllt iddo. Ar y ffordd i'r *siop* gosododd y bachgenyn yr arian yn ei enau, ac wrth edrych yma a thraw, aeth yr arian i'w wddf ef a glynasant yno. Yn uniongyrchol collodd y bachgenyn ei leferydd, a chanfyddwyd ef braidd yn methu anadlu: cafodd Mr. Hopkins, *farrier*, ei feddiannu â phresenoldeb meddwl i droi wyneb y bachgenyn i wared, a thrwy ei ymdrech ef ynghyd ag ergydion y fam ar ei gefn, o'r diwedd cafodd yr arian (sef dau swllt) eu gwthio o'r geg i'r palmant, er gorfoledd y fam ac eraill, a chafodd y bachgenyn ei waredu o borth angau.

YSPEILIEDIG YN ENNILLWR.—Yn ddiweddar pan oedd merch ieuanc dlawd yn dychwelyd adref oddiwrth ei gwaith ar ddiwedd yr wythnos at ei mham, yr hon oedd weddw, yn byw yn Wortley, gerllaw Leeds. Ar y ffordd cyfarfu â thri dyn, pa rai a ofynasant iddi a oedd ganddi arian yn ei chylch. Perodd y fath ofyniad beth braw iddi, ac atebodd fod ganddi bedwar swllt a chwe' cheiniog. Dywedasant fod yn rhaid iddi roddi hynny iddynt hwy. Ar y cyntaf amheuodd y ferch yn ei meddwl, a dywedodd mai hynny yn unig oedd at gynnaliaeth ei mam, ei brodyr, ynghyd â'i chwiorydd dros yr wythnos: ond yr oedd y dynion yn benderfynol i'w cael, a gorfu arni roddi y swm oll. Erfyniodd y ferch am gael rhan o'r arian yn ol gan ddarlunio y caledi y buasai hi a'i mam, ac eraill o'r teulu ynddo dros yr wythnos ddyfodol. O'r diwedd dychwelodd un o'r dynion *swllt* iddi, a chaniatawyd iddi fyned i'w ffordd, ac aethant hwythau ar hyd ffordd arall. Cyn i'r ferch fyned ym mhell clywodd drwst cerddediad ar ei phwys, a meddyliodd y gallasai fod yn edifar gan yr hwn roddodd yn ol y swllt iddi, a'i fod yn dyfod i'w ofyn yn ol; ymgyddiodd dan y clawdd: ac yn fuan aeth y tri dyn heibio. Ymhen ychydig ffordd cyfarfuasant â dyn, a gofynasant iddo a gyfarfu ef a merch ieuanc ar y ffordd, a phan atebodd *naddo*, troisant yn ol ac aethant heibio y fan lle yr oedd y ferch yn ymguddio heb ei gweled: felly aeth y ferch tua thref, ac er ei llawenydd a'i syndod, gwelodd fod ganddi *sovereign* yn lle y *swllt* feddyliodd y lladron ddychwelyd iddi, yr hyn ad-dalodd yn helaeth am yr ychydig amser y bu hi yn ymguddio dan y clawdd pan oedd ei chanlynwyr yn chwilio am dani ar ol gweled eu camsynied.

SYNDOD.—Mae *Oranges* a'r Cloron yn y dyddiau presenol ymron yr un bris—yr olaf ychydig yn is, ond nid yn gyfattebol i'r olwg!

MEDDWDOD.—John Farrall, yn 104 mlwydd oed, a gafodd ei ddirwyo yn y mis diweddaf yn Salford, am feddwi! Pan mae moesoldeb yn isel yngolwg yr hen, mae lle i ofni gall yr un argraff fod yn rhy gyffredin ymhlith yr ieuaingc.

BARDDONIAETH.

Y GWANWYN.

Tôn—'*Mynediad Rodney.*'

Cyduned yr holl feirddion
Trwy Frydain yn ddifrad,
I rhoddi pur roesawiad
I'r Gwanwyn heb nacâd:
Pan fyddai'n rhodio allan
Yn Ebrill fwyn a Mai,

Ni allaf lai na chanmol
Ei rheol wrth bob rhai;
Gan edrych dros y dolydd,
A gwel'd y coedydd glas,
Eu dail yn torri allan
A'u blodau gyda blas;
Ac hefyd ar y meusydd
Porfeydd yn liliwio'r tir,
Pob llysiau'n llawn o flodau
A'u peraroglau pur.

Ceir gwel'd y diwyd Wenyn
Yn gwau dros fro a bryn,
Yn chwilio am eu hymborth
Oddiar y blodau hyn;
E welir wyn a mynod,
Y llydnod gyda'r lloi,
Yn chwareu dros y meusydd,—
Mae'r tymhor gwedi troi:
Yr ëos a'r uchedydd
A'r gôg ar gynnydd cawn,
Y fronfraith a'r fwyalchen,—
Pob llwyni sydd yn llawn;
Yn nawr y maent yn deffro
Yn foreu gyda'r wawr,
A chodi gyd i ganu
Gan foli'n Crëwr mawr.

Peth hyfryd yn y Gwanwyn
Yw gwel'd yr egin glâs,
Sydd yn gorchuddio'r meusydd,
Trwy gynnyrch daear frâs;
Ac hefyd yn y gerddi
Pob llwyni sydd yn llawn,
O'r llysiau mwyaf llesiol,
I'r lili teca'i dawn;
Wrth sylwi ar y meusydd
A'u ffrwythydd ffraethlawn ffri,
Mae'r cyfan yn ymddangos
Yn eglur iawn i mi,—
Mai TAD o'i ofal tyner,
Fel gwelir trwy bob gwlad,
Sydd yn darparu drosom
O'i gariad heb nacad.

Peth hyfryd yn y Gwanwyn
Yw gwel'd yr wybren hardd,
A'i disglaer fydoedd goleu,
Fel blodau yn yr ardd;
Y rhai'n a'r mawr fendithion
Ym ni yn nawr fwynhau,
Ynt oll yn eglur ddangos
Fod Hâf yn agoshau;
O'i gariad pur diddyspydd
A'i ofal dros y byd,
Caiff rhywrhai Wanwyn beunydd,
Er cynnydd ini gyd:
Rhown foliant mewn iaith uniawn
I'n Crëwr cyfiawn call,
Am iddo'n creu a'n cynnal
I'w ganfod mor ddiwall.

Wrth sylwi ar y ddaear
A gwel'd 'r'aneirhif ryw,
O greaduriaid bychain,
A mawrion arni'n byw;
I lawr yn eigion moroedd
Ugeiniau yno sy;
Ac hefyd uwch ein pennau,
A'r Côr asgellog fry;
Mae'r rhëny yn feddiannol
Ar gyrff sy'n fuddiol iawn,
Yn atteb i'w sefyllfa,
Er cael dedwyddwch llawn;
Gwahanol ymborth hefyd
I rhai'n yn ol eu rhyw,—
Pob peth yn ôl appwyntiad,
A doeth ordeiniaid Duw.

Cydganed r'hôll gantorion
Trwy'r De a'r Dwyrain dir—
Y Gogledd a'r Gorllewin,—
O! dyma destyn pur;
Ni fedraf fi gael geiriau
A doniau yn fy myw,
I draethu am greadigaeth
A doeth rhagluniaeth Duw;
Pan gallom ei hadnabod
A'i chanfod trwyddi'n iawn,
Dedwyddwch a llawenydd,
Orlifent inni'n llawn;
Wrth wel'd mai bod o gariad
Sy'n llywodraethu'r byd,
Mae'r CYFAN ER DAIONI,
Sy'n dyfod inni o hyd.

Penrheolddu. E. R. J.

Y MARCHNADOEDD.

LLUNDAIN.	s.	s.		s.	s.
Gwenith coch	42	50	Teg	24	26
Teg.. ..	43	52	Poland ..	22	26
Gwyn ..	42	49	Cloron ..	24	26
Teg.. ..	46	55	CAERFYRDDIN.		
Blawd, sach	42	47	Gwenith ..	70	76
Haidd ..	25	32	Haidd ..	40	43
Bragu ..	31	33	Ceirch ..	16	20
Brag	50	54	Caws, pwys	03	04
Llwyd ..	52	57	Ymenyn ..	09	10
Rhyg	30	32	Cloron ..	00	01
Pys, moch ..	36	40	Cig Eidion	05	06
Maple ..	38	41	Maharen..	05	07
Berwi ..	42	54	Llo.. ..	05	06
Ffa, Ticks ..	30	32	Moch ..	05	07
Colomen ..	38	40	Twrciaid ..	30	56
Harrow ..	33	36	Gwyddau ..	26	36
Ceirch ..	19	21	Hwyaid ..	13	19
			Ieir	09	10

CAERFYRDDIN: argraffwyd gan J. T. JONES, yn ei Argraff-dy cyffredinol, yn yr Heol-Las, Plwyf Sant Pedr. Mawrth, 1848.

YR YMOFYNYDD.

Nid ydym yn attebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr.—Gol.

'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.'—Paul.

YR ABERTHAU IUDDEWIG.

Mr. Ymofynydd,—Yn y llythyr hwn bwriadwyf ddangos beth oedd dyben neu ystyr y prif Aberthau Iuddewig, sef,

I. Y Pechoffrwm.
II. Y Poethoffrwm.
III. Yr Heddoffrwm.

Trwy gyfrwng yr aberthau hyn ymddengys fod Duw yn dysgu pa fath dymmer ac ymddygiad, pa fath ansawdd meddwl a serchiadau oedd yn rhaid gael cyn y buasai addoliad yr offrymwr yn gymmeradwy. Yn oesoedd boreuol y byd, pryd oedd ieithoedd dynolryw yn ffigwraidd, oherwydd llwmdra geiriau, ac ymddiddan yn gynnwysedig lawer mewn arwyddion ac ystymiau, nid peth anhawdd oedd deall ystyr yr aberthau. Arwyddai y pechoffrwm fod yn rhaid *lladd pechod;* y poethoffrwm, *ymroddiad i ewyllys Duw;* a'r heddoffrwm, *y tawelwch cydwybod, a'r dedwyddwch y'nglyn â'r fath ymddygiad.* Am hyny nid cyfeirio oedd yr aberthau at aberth Crist, ond at ysbrydolrwydd yr oruchwyliaeth Iuddewig. Arwyddent fod yn rhaid ymadael â phechod cyn cael maddeuant; fod yn rhaid ymroddi yn llwyr i wasanaeth Duw cyn rhyngu ei fodd; ac nad oes gwir ddedwyddwch i neb ond i'r cyfryw ag sydd yn ofni Duw, yn cilio oddiwrth ddrwg, ac yn rhodio yn ffyrdd rhinwedd. Attebai'r aberthau yr un dyben â dammegion mewn oesoedd diweddarach, sef i ddenu sylw dynion anwybodus at grefydd.

Cynghorwn y darllenydd cyn myned ym mhellach i ddarllen eilwaith y rhagymadrodd.

Dywedais fod y pechoffrwm yn arwyddo *lladdiad pechod.* Nid oes dim gair cyferbyniol i 'offrwm' yn yr Hebraeg. Dylasai gael ei gyfieithu, nid 'pechaberth,' neu 'pechoffrwm,' ond 'pechod.' *Chatath* yw'r gair, a'i ystyr yw pechod. Y gair 'offrwm' a ychwanegwyd gan y cyfieithwyr, i wneyd y meddwl, fel y tybient hwy, yn fwy dealladwy. Mewn rhai mannau gadawyd ef allan, megys yn Hosea iv. 8, 'Bwytta y maent bechod fy mhobl;' hyny yw, yr arwydd o bechod—y *chatath,* neu'r pechaberth. 2 Cor. v. 21, 'Canys yr hwn nid adnabu bechod a wnaeth efe yn bechod,' hynny yw, yn *hamartia,* (gair Groeg yn arwyddo yr un peth a *chatath* yn yr Hebraeg,) sef yn bechoffrwm 'drosom ni.'

Yn yr amrywiol fannau yn Lefiticus lle y sonir am ladd yr aberth tros bechod, neu y pechoffrwm, dylasai gael ei gyfieithu, 'lladd y pechod

Lev. iv. 33, 'A gosoded ei law ar ben yr aberth tros bechod yn y lle y lleddir y poethoffrwm.' Pe cyfieithid yr adnod yn gymmwys fel y mae yn y Bibl Hebraeg, byddai fel y canlyn :—'A gosoded ei law ar ben y pechod (*al rosh hachatath,*) a lladded y pechod (*vashachat eth-hachatath,*) yn y lle *y lleddir* y poethoffrwm.' Y mae y peth hwn yn deilwng o sylw neillduol, oherwydd ei fod, debygwn, yn llwyr ddymchwelyd y gred gyffredin am yr aberthau, sef eu bod yn gysgod o Grist.

Nid rhesymol meddwl fod yr aberthwr with offrymu'r anifail yn credu ei fod yn gysgod o Grist, pan y gwyddai fod y gyfraith yn dweyd mai arwydd o bechod ydoedd. Dywedir yn fynych yn y gyfraith am yr anifail, 'Dyma bechod,' 'Dyma bechod y gynnulleidfa,' hynny yw 'Dyma *arwydd* o bechod y gynnulleidfa.' Y mae'r dull hwn o siarad yn beth cyffredin. Yn edrych ar ddarlun mewn ystafell, dywedwn, 'Dyma Locke,' 'Dyma Newton,' y meddwl yw 'Dyma ddarlun o Locke neu Newton.' Felly hefyd wrth edrych ar *map* y byd, dywedir, 'Dyma Cymru,' 'Dyma Ffrainc,' 'Dyma Russia,' hyny yw, 'Dyma ddarlun o Gymru,' &c. Cyfarfyddir a'r un dull o siarad yn yr ysgrythyrau hefyd; er engraifft, 'Y saith o wartheg teg, saith mlynedd ydynt,' hynny yw, arwydd o saith mlynedd, Gen. xli. 26. 'Y pren a welaist, ti frenin yw efe,' hynny yw, arwydd o honot ti, Dan. iv. 20—22. Yn yr un modd y dywed Crist am y bara a'r gwin, 'Hwn yw fy nghorff i,' 'Hwn yw fy ngwaed i,' sef arwydd o'm corff ac o'm gwaed i. Barna rhai fod anifail yr aberth yn arwyddo'r pechadur, ond nid oes dim sail ganddynt, oblegid dywed yr ysgrythyr am yr anifail, 'Hwn yw pechod yr offeiriad,' 'Hwn yw pechod y gynnulleidfa,' 'Hwn yw pechod y bobl,' gan feddwl fod yr anifail yn *arwydd* o'u pechodau. Os oedd y pechaberth yn gysgod o Grist, ac yn arwydd o bechod ar yr un pryd, rhaid mai pechod oedd Crist; ond gallaf roddi fy ngair nad oes neb ag sydd yn gwybod rhywfaint am yr Iachawdwr a lettyai am fynydyn y fath feddwl isel am yr hwn nid adnabu bechod ac ni chafwyd twyll yn ei enau.

Gan hynny, os oedd anifail y pechaberth yn *arwyddo y pechod*, rhaid fod ei aberthiad yn *arwydd o laddiad y pechod*; a phuredigaeth yr allor o burdeb moesol a sancteiddhâd calon yr offrymwr.*

II. Y Poethoffrwm. Yr oedd hwn yn arwydd o ddyledswydd yr offrymwr i *ymddyrchafu o ran ei feddwl, ei ewyllys, ei obaith, a holl serchiadau'r enaid, oddiwrth bethau daiarol at Dduw.* Y gair Hebraeg yw *hola*, yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth berwyddiad, sydd yn meddwl *esgyn.* Paham y galwodd y cyfieithwyr ef yn *boethoffrwm*, nis gwn, os nad oherwydd ei fod yn cael ei losgi oll ar yr allor, neu *holocaustum*, oblegid meddwl y gair yn ddiau yw *esgynnydd* neu *ymddyrchafydd.** Yn ol y meddwl oedd gan yr Iuddewon am yr *hola* y dywedodd yr angel wrth Cor-

* Anifeiliaid y poethoffrwm oeddynt y bustach; llosgid ei wer a'r ddwy aren ar allor y poethoffrwm, y gweddill, yn gig, croen, ac esgyrn, a losgid tuallan i'r gwersyll: yr hwrdd, yr oen, y llo ieuange, y llwdn gafr o'r ddau ryw, turterod, colomenod, epha o beilliaid, yn ol y pechod ac amgylchiad bydol yr offrymwr. Yr oedd amrywiol ebyrth yn perthyn i *gloss* y poethoffrwm, un o honynt oedd yr *asham*, neu'r camweddoffrwm, Lev. vii. 7. Y pechaberth a offrymid dros bechodau 'newn anwybod,' a'r *asham* dros rai 'trwy wybod.'

† Y rheswm paham y gelwir ef *hola*, medd Dr. Gesenius, yw, oherwydd *ei fod yn cael ei osod ar yr allor*, (*quod in altari imponitur,*) ac felly gellir galw pob aberth yn *hola*, oblegid yr oedd rhan o hono, es nad i gyd, yn cael ei osod ar yr allor. Pe buasai Gesenius yn gwrandaw ar Buxtorf, dywedasai ei fod yn cael ei alw *hola, oherwydd esgynai i fynu a difiannai*, (*quod sursum ascenderet et evanesceret*). Y mae Buxtorf yn sicr yn rhoddi ystyr y gair.

nelius, 'Dy weddiau di a'th elysenau a *ddyrchafasant* yn goffadwriaeth ger bron Duw.'

Pe buasai'r *hola* yn gysgod o Grist, dylasai Crist nid yn unig gael ei ladd, ond hefyd ei losgi oll ar allor, a'r lludw gael ei gario tuallan i furiau Jerusalem, a'i osod mewn lle glan, onite ni fuasai'r cysgod yn cyfatteb i'r gwrthrych a'i tafleu.

III. Yr Heddoffrwm, neu'r *Zebach Shelamim.* Y mae enw'r aberth hwn etto, fel y pech ar poeth ebyrth, yn esbonio ei hun. *Arwydd ydoedd o heddwch rhwng y pechadur a Duw.* Cydnabyddai'r offrymwr mai Duw oedd ffynhonell heddwch a phob cyssuron. O nifer yr heddebyrth oedd yr aberth diolch, neu'r *Zebach toda.* Bwytteid yr aberth hwn gan yr offeiriaid, yr offrymwr, a'i gyfeillion.*

Y'nawr, ddarllenwyr yr Ymofynydd, wele ger eich bron y tri math o ebyrth ag oedd yn perthyn i oruchwyliaeth Moses, y'nghyd a'u hystyr. I un o'r tri hyn y perthynai *pob* aberth, pa un a'i gwaedlyd a'i diwaed. Chwi welwch eu bod mor beil o fod yn seremoniau gwag a disynwyr fel nas gall un meddwl a osodir allan trwy leferydd ymadrodd fod yn fwy synwyrlawn, ac o duedd i wneyd dyfnach argraff ar ddynion digwrtaith. Yn gyntaf, wele'r pechadur yn ymadael â'i bechod; yn ail, yn ymroddi i ewyllys Duw; ac, yn olaf, yn mwynhau'r heddwch cydaybod sydd yn canlyn y fath ymddygiad.†

Bydd yr ychydig sylwadau ychwanegol hyn o fudd i'r ymofyngar.

Rhaid oedd cael yr anifail yn berffaith gwbl neu yn ddianaf fel arwydd o burdeb diben yr offrymwr.

Rhaid oedd arwain yr anifail i ddrws pabell y cyfarfod, yn arwydd fod yr offrymwr yn ei aberthu mewn ufydd-dod i orchymyn, ac er anrhydedd Duw yr hwn a breswyliai yno. A ddygwyd Crist cyn ei groeshoelio i ddrws pabell y cyfarfod, neu yn hytrach i un o byrth y deml?

Yr oedd yn rhaid i'r offrymwr osod ei law ar ben yr anifail, yn arwydd o neillduad pennodol.†

---

* Onid yw athrawiaeth y cysgodau—y *types* a'i *antitypes*—yn gwneyd yr Iuddewon a'r Rhufeiniaid a groeshoeliasant ein Hiachawdwr yn ddyn-fwytawyr, neu *cannibals?*

† Cynghorwn bawb o ddarllenwyr yr Ymofynydd ag sydd am ddeall iaith yr aberthau Iuddewig, ddarllen Lefiticus yn fanol amryw weithiau, a *chlasso* pob aberth yn ol ei natur dan un o'r tri uchod: gallaf roddi fy ngair y caiff gyflawn dal am ei lafur. Fe wel fod yr hyn, oherwydd *tywyllwch* y cysgodau, a ymddangosasai iddo yn ffoluneb ac annhrefn, yn llawn synwyr a threfn; fod cywyrdeb mawr yng ngwaith ysgrifenwyr y Testament Newydd, oblegid eu bod yn deall diben yr aberthau, yn cydmaru ein Harglwydd bendigedig i'r pech a'r hedd ebyrth: fe wel hefyd na lunodd Anghristiaeth ddim ond y Drindod a'r poenau tragwyddol yn fwy mweidiol i grefydd nag athrawiaeth y cysgodau; y mae'r tair hyn y'nghyd wedi gwneyd cannoedd o Ddeistiaid ac Atheistiaid, a'r llyfr goreu a mwyaf synwyrol yn y byd yn wrthrych gwawd a dirmyg. Y mae Voltaire, Paine, Mirabeau, Volney, &c., yn dystion.

Y mae'r holl esbonwyr, oddieithr un neu ddau ar a wn'i am danynt, wedi syrthio i'r un ffos o barthed i'r aberthau; yn wir nis gallaf lai na gwenu wrth weled eu hymdrech yn erbyn yr anhawsderau ag sydd yn ymosod arnynt o bob tu, a'u cyfrwysdra i geisio eu gochelyd neu eu gorddiwes. Y maent bawb o honynt yn gwneyd yr anifail yn arwydd naill ai o bechod neu o Grist, a'r lladdiad yn arwydd o'r farwolaeth a haeddai y gwr a'i hoffrymai. Gobeithiaf fy mod wedi dangos yn eglur mai'r pechaberth yw'r unig un sydd a chyfeiriad ynddo at bechod. Ymddengys Matthew Henry weithiau fel pe buasai wedi cael iawn olwg ar ystyr yr aberthau, ond ar brydiau eraill arweinir ef gan Orthodoxy, ac yntau a arweinia ei ddilynwyr i'r fath ffosydd a drysni fel nad oes yn bossibl ymddadrys o honynt: ac y mae Adam Clarke mewn mwy o ddryswch, pe bai lle, na Henry. Trueni o'r mwyaf fod esboniadau o ddylanwad y ddau hyn ar y werin yn

Yr oedd yn rhaid i'r offrymwr wneyd cyfaddefiad o'i bechod tra y paratoid yr aberth. Yr oedd hyn yn hollol gydweddol a diben y pechoffrwm. Arwyddai cyfaddefiad yr offrymwr ei ddymuniad i ladd y pechod. A wnaeth yr Iuddewon gyfaddefiad o'u pechod pan yn croeshoelio Crist, sef sylwedd yr aberthau, medd athrawiaeth y cysgodau.*

Rhaid oedd lladd yr anifail. Yn y pechoffrwm arwyddai hyn fod yr offrymwr yn penderfynu lladd ei bechod, ac yn y ddau arall rhaid oedd lladd yr anifail i gyflawni dybenion yr aberth. Lladdwyd Crist mae'n wir, ond a losgwyd ef?

Bwyttaid yr heddaberth gan yr offeiriaid, yr offrymwr, ei berthynasau, a'i gyfeillion, i arwyddo ei fod yn mwynhau heddwch â Duw, ac yn ewyllysio i eraill gyfranogi o'r un fraint.

Tywalltid yr allor a gwaed. Yn y pechaberth mae diben y ddefod hon yn eithaf eglur. Yr oedd yn rhaid taenellu y pechaberth dros y bobl ar gyrn allor y poethoffrwm, i arwyddo fod yn rhaid taenellu ei galon, sef yr allor, â gwaed yr aberth, sef y pechod; neu, mewn geiriau eraill, yr oedd yn rhaid i galon yr offrymwr ddwyn nodau o laddiad y pechod.

Dosparthiad gwahanol rannau'r aberth a brofa nad oeddynt yn gysgodau o'r un peth, a gadael mai cysgodau oeddynt: os oedd y gwahanol aberthau oll yn arwyddo'r un peth, sef marwolaeth Crist, byddai yn rhesymol dysgwyl gweled rhywbeth yn y defodau yn gyffelyb trwy'r holl wahanol rannau; ond yn lle hyny y mae gwahaniaeth yn nhrafodiaeth pob dosparth, a phob trafodiaeth yn cynnwys ynddo rywbeth ag sydd yn gyffelyb i ddiben y dosparth y perthyna iddo; er engraifft, yn y pechaberth, llosgid y ddwy aren a'r gwer oedd oddiamgylch iddynt, ar allor y poethoffrwm; ond y croen, y cig, a'r biswail, a gladid tuallan i'r gwersyll i'w llosgi, fel arwydd o atgasrwydd pechod. Y poethoffrwm a losgid ar allor (calon y pechadur,) â than nefol, ac a esgynnai yn arogl peraidd i Dduw. Nis gallasai dim fod yn fwy effeithiol i greu casineb yn yr Iuddew at bechod *na'i weledyn cael ei gludo* tu allan i breswylfa y bobl, a'i losgi gyda phob nodau o atgasrwydd. Mor natturiol oedd iaith ffigwraidd y poeth a'r hedd aberth, y naill trwy esgyn oddiar dân dihalog yn arogl peraidd a ddysgai y dylai meddyliau a bwriadau'r galon esgyn oddiwrth bethau daiarol at Dduw; a'r llall a arwyddai'r heddwch cydwybod a fwynhai'r cyfryw un.

Y pechoffrwm a losgid oll ac ar unwaith, ond y poethoffrwm a rannid yn ddarnau: llosgid un yn uniongyrchol gyda theimlad o atgasrwydd, ond y llall bob yn ychydig a losgai nos a dydd, gan esgyn yn arogl peraidd graddol i'r nef, yn arwydd y dylem gyflawni pob rhan o'n gwasanaeth i Dduw yn raddol a rheolaidd. Cyn llosgi y rhannau tufewnol o anifail yr esgynydd, neu'r poethoffrwm, rhaid oedd eu golchi mewn dwfr glan, yn arwydd o burdeb; ond y pechaberth, neu'r pechod, a losgid yn ei aflendid. Byddai pob peth a gyffyrddai â'r poethoffrwm yn santaidd, ond pob peth

---

camsyniad cymmaint y'nghylch pwngc o gymmaint pwys ag ystyr yr aberthau Iuddewig!!

‡ Gosodiad dwylaw yn arwydd o neilldueth ac wasanaeth penodol sydd ddefod ddwyreiniol. Barna rhai ei bod yn arwyddo fod pechod yr offrymwr yn cael ei drosglwyddo i'r anifail; ond y ffaith fod llaw yn cael ei osod ar ben y poeth a'r hedd ebyrth yn gystal ag ar ben y pechoffrwm sydd brawf anwrthwynebol nad yw'r farn hon yn wir.

* Y ffaith na wneid cyfaddefiad pechod ond gyda'r pechoffrwm sydd brawf ystyfnig yn erbyn y farn gyffredin am yr aberthau, sef eu bod yn arwydd o Iawn Crist, ac yn cadarnhau golygiadau y llythyr hwn. Pe gwneid cyfaddefiad pechod gyda'r poeth neu'r hedd ebyrth, buasai hyny yn dangos y dylasai'r offrymwr wneyd pechaberth.

a gyffyrddai â'r pechaberth a fyddai yn aflan. *Onid yw y pethau hyn yn resymau cadarn dros yr esboniad uchod o ystyr yr aberthau? Barned y pwyllog.

Hefyd yn yr heddwch, neu'r heddoffrwm, y mae'r dystiolaeth yr un mor gysson—yr un mor gadarn. Y mae'r gair heddwch mewn cyssylltiad â'r aberth hwn yn arwydd nid yn unig o dawelwch cydwybod, ond hefyd o bob math o fendithion a dderbyniwn oddiwrth Dduw; gan hynny pan byddai'r aberth yn nod o ddiolchgarwch yr offrymwr, gelwid ef *Zebach toda*, neu diolchoffrwm, ac os aberthai'r offrymwr o'i ewyllys da, neu heb fod dan rwymau, er mwyn derbyn bendith, gelwid yr offrwm yn *nedava*, neu offrwm gwirfodd. Yn mhob un o honynt dangosai'r offrymwr ei ddiolchgarwch i Dduw am ei fendithion, ei ymddybyniad parhaus ar y cariad a'r daioni dwyfol, a'i barodrwydd i gyfranu o'r bendithion i'w gyfeillion a'i berthynasau. Tebygol fod gwhwfaniad parwyden y cwhwfan yn arwydd o barch i Dduw'r holl ddaiar, a gwhwfaniad ysgwyddog y derchafel, o barodrwydd i weithio tros Dduw, ac ufudd-dod i bob dyledswydd a welai fod yn dda i appwyntio. Ond y peth mwyaf nodedig yn nefodau'r heddoffrwm oedd bwytta'r gweddill o'r anifail gan yr offeiriaid, yr offrymwr, ei deulu, a'i gyfeillion: hyn arwyddai fod nid yn unig diolchgarwch i Dduw yn ffrydio o'i galon, (rhan yr anifail yn cael ei losgi ar allor y poethoffrwm,) mai nid yn unig yr offeiriaid a gydlawenhaent ag ef. (rhan yr offeiriad,) ond hefyd fod dymuniad ganddo i gyfranu o'i ddedwyddwch i'w gyfeillion a'i berthynasau fel y gallent hwythau hefyd i gydlawenhau ag ef.

Y mae'n deilwng hefyd o sylw, fel peth ag sydd yn cadarnhau'r olwg hon ar yr aberthau, fod yr Iuddewon yn cynnal gwledd flynyddol i wneyd cymmod dros bechod trwy gystuddio eu heneidiau, Lef. 16. Defodau'r wledd a ddysgant mewn modd arbenig fod aberthiad y pechoffrwm, a elwid *pechod*, yn arwydd o'i ddinystr.

Yn y pechoffrwm yr oedd tristwch, ond y ddau eraill llawenydd a diolchgarwch. Mae hyn yn profi mai nid yr un dyben oedd i'r tri aberth. Yr oedd pob peth a offrymid ar allor y poethoffrwm yn arogl peraidd, ond yn y pechoffrwm nid oedd dim. Y mae hyn yn sicr yn anghysson â'r farn gyffredin, sef fod y tri aberth, bob un o honynt, yn cyfeirio at yr un peth, sef atgasrwydd pechod. Ni losgid dim a berthynai i'r pechoffrwm ar allor y poethoffrwm ond yr arenau a'r gwer. Y mae'r arenau yn iaith yr ysgrythur yn arwyddo dymuniad ac amcan, ac felly arwyddai'r ddefod fod yr amcan neu'r dymuniad i ladd pechod yn gymeradwy gan Dduw. Hefyd trefn yr aberthau ydynt yn gysson â dechreuad a chynnydd duwioldeb; yn gyntaf, y pechaberth; yn ail, y poethoffrwm; a'r yn olaf, yr *heddwch*.

Oni bai fod y llythyr hwn wedi myned yn rhy faith eisioes buaswn yn sylwi ar amryw resymau ychwanegol dros y golygiadau hyn ar yr aberthau, ac yn enwedig ar y ffaith fod duwiolion yr Hen Destament, pan yn son am yr aberthau, yn cyssylltu â hwynt, nid dyfodiad Crist, i'r byd fel y gellid dysgwyl, pe gwir fyddai athrawiaeth y cysgodau, ond teimladau calonau ac ymddygiad moesol yr offrymwyr—fod hyn, meddaf, yn gosod y pwngc, yn ol fy marn i, tu hwnt i amheuaeth. Os buasai'r offrymwr yn ddiffygiol mewn gweithredoedd moesol nid oedd ei aberth pa mor ddrudfawr neu ardderchog bynnag, ond arwydd wag. Yr oedd y diben ei hun heb yr aberth yn fwy cymmeradwy gan Dduw na'r aberth heb y diben. Pwy bynnag sydd am weled profion ysgrythyrol dros hyn, darllened y Salmau a'r Proffwydi, oblegid ni chaniata maintioli'r ysgrif i mi ddifynio un rhyw

gyfran neillduol yn awr, rhag gosod gormod ar amynedd darllenwyr yr Ymofynydd.

Y tro nesaf, os byw ac iach fyddaf, cymhwysaf yr egwyddorion hyn at amrywiol rannau o'r Hen Destament a'r Newydd ag sydd yn dal cyssylltiad ag aberthau—rhannau ag y mae eu mheddwl yn ddirgelwch, o herwydd tywyllweh athrawiaeth y cysgodau.

Philo.

Efallai y bydd rhyw un mor garedig ag atteb y ddau ofyniad canlynol:—

1. Yn mha le yn yr Hen Destament y dywedir fod yr aberthau yn gysgod o Grist?

2. Os na ddywedir yn yr Hen Destament fod yr aberthau yn gysgod o Grist, pa fodd y gallasai'r Iuddewon aberthu trwy ffydd yn y sylwedd, sef Crist?—Philo.

PECHOD GWREIDDIOL.

Parhad o tu dalen 156.

Mr. Ymofynydd.—Nid yw yn ormod, gobeithiaf, i mi ddisgwyl eich canniatad i gael ymddangos unwaith eto, a'r tro olaf, ar Bechod Gwreiddiol, ond un, sef hanes ei darddiad a'i gynnydd a ddanfonaf i chwi yn nesaf.

Y gwrthddadl nesaf a gaf sylwi arno sydd yn cyfodi oddiwrth y rhannau hynny o'r ysgrythyr sydd yn gosod allan drueni dyn yn ei bechod; sef, yn gyntaf, y lleoedd hynny a osodant allan ddrygioni'r galon. Gen. 6. 5. 'A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear, a bod holl fwriad meddylfryd ei galon ef yn unig yn ddrygionus bob amser,' (bob dydd, yn ol yml y ddalen); Jer. 17. 9. 'Y galon sydd fwy ei thwyll na dim, a drwg diobaith ydyw; pwy a'i hedwyn?' Oddiwrth hyn y cesglir fod dyn, wrth nattur, yn llwyr analluog i feddwl dim da; ond bod holl fwriad meddylfryd ei galon ar ddrwg yn wastadol, oherwydd i Adda dorri,r cyfammod yng ngardd Eden. Ond y mae un peth, os nid dau, yn eisia u yn yr ymadrodd hwn, y rhai ydynt hollol angenrheidiol, er mwyn sefydlu'r dyb honn. Er fod Duw yn gweled fod drygioni dyn yn fawr ar y ddaear, a bod bwriad meddylfryd ei galon ef ar ddrwg bob dydd; etto nid oes ymma ddim un gair i osod allan beth yw yr *achos* o hynny; dim gair am Adda; dim gair mai o'i achos ef y mae dynion felly; nac oes, meddaf, dim *gair* yn dangos mai o'i herwydd ef yr oedd drygioni dyn gymmaint, a'i galon mor ddrwg. Yr oedd drygioni dyn yn fawr, a mawr iawn, mae'n wir; nid oes neb yn gwadu hynn: y casgliad a dynnir oddiwrth y ffaith honn yn unig a amheuir gennym ni; sef, mai Adda, neu bechod Adda, oedd yr achos. Nid oes ymma ddim son etto, mai felly y byddai dynion i bob oes o'r byd; ond yn unig, mai felly oeddent y pryd hwnnw, cynn y diluw. Y mae'n amlwg hefyd, nad ydym i gymmeryd y gair *dyn* yn ei ystyr helaethaf, oherwydd yr oedd Noah cynn y diluw, yn amser llefariad y geiriau ymma, yn wr perffaith, ac yn ofni yr Arglwydd. Ac wedi'r diluw, yr ydym yn cael llawer o'i fath ef. Y mae Abimelec yn dywedyd wrth yr Arglwydd, 'Ym *mherffeithrwydd fy nghalon*, ac *yng nglendid* fy nwylaw, y gwnaethum hyn.' Ac y mae yr Arglwydd yn ei ateb ef mewn breuddwyd, gann ddywedyd, 'Minnau a wn mai ym *mherffeithrwydd* dy galon y gwnaethost

hyn.'* Felly nis gallasai bwriad meddylfryd calon Abimelec fod yn unig yn ddrygionus *bob amser*. Yr ydym yn cael hefyd fod Asa yn gwneuthur yr hynn oedd uniawn yng ngolwg yr Arglwydd. 'A *chalon* Asa oedd berffaith gyda'r Arglwydd ei holl ddyddiau ef.'† Y mae Hezeciah yn attolwg ar i'r Arglwydd gofio ei fod ef wedi rhodio ger ei fronn mewn gwirionedd, ac iddo à *chalon berffaith* wneuthur yr hynn oedd dda yn ei olwg.‡ Yr oedd yr holl bobl, à *chalon berffaith*, yn ewyllysgar, yn offrymmu i'r Arglwydd yn amser Dafydd.‖ Ac y mae Hezeciah, wrth farw, yn attolwg i'r Arglwydd gofio, ei fod mewn gwirionedd, a *chalon berffaith*, wedi rhodio ger ei fronn ef. Y mae ein Harglwydd Iesu Grist yn dywedyd fel hynn am y galon, 'Y dyn *da*, o drysor *da* y galon, a ddwg allan bethau da.'§ Yn nammeg yr had da, y mae ef yn dysgu yr un peth, 'A'r hwnn ar y tir *da* yw y rhai hyn, y rhai â chalon hawddgar, (*onest*, yml y ddalen) a *da*, ydynt yn gwrando'r gair, ac yn ei gadw, ac yn dwyn ffrwyth trwy amynedd.'** Felly chwi welwch yr oedd gwahanol *garacters* dann yr hen oruchwyliaeth a'r newydd. Pa fodd mae cyssoni yr ymadroddion hynn a'r dyb sydd yn gosod allan fod bwriad meddylfryd calon *pob* dyn, ymhob oes o'r byd, yn unig ar ddrwg *bob amser*. Nid oes ffordd, debygwn i. Gann fod dynion da a chalonnau perffaith dann yr hen oruchwyliaeth a'r newydd, y mae'n amlwg nad yw Duw na'r prophwyd ddim yn cynnwys y rhai'n; a'r meddwl yw, fod cyflwr dynion mor ddrwg, nes y darfu i Dduw foddi yr hen fyd; ond achubwyd Noah er hynny. Darlunio cyflwr y byd *pryd hynny* y mae Duw, ac nid beth oedd o flaen hynny, na pheth y fyddai ar ol hynny. Meddwl y proffwyd yw, fod calonnau y dynion y mae ef yn ysgrifennu am danynt yn fwy eu twyll na dim. Pam? Nid oherwydd pechod Adda; ond fel y mae yn dywedyd yn nechreu y bennod, 'Pechod Judah a ysgrifennwyd a phinn o haiarn, ag ewin adamant y cerfiwyd ar *lech eu calon*.' Nid oes ymma etto ddim pechod gwreiddiol na son am dano: neu, y pinn haiarn a'r adamant yw ei rieni, ac nid Adda.

Yr adnodau nesaf a ddaw dann ein sylw yw y rhai sydd yn gosod allan nad oes neb yn gwneuthur daioni. Y mae'r Salmydd yn dywedyd, 'Yr ynfyd a ddywedodd yn ei galon, Nid oes un Duw. Ymlugrasant: ffieiddwaith a wnaethant: nid oes a wnel ddaioni,' Ps. 14. 3. a 53. 3. Ac y mae Paul yn dywedyd, 'Nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un.'

Nid oes ymma etto, fel y gwelwch, un sill yn dangos mai pechod Adda yw'r achos; ond i'r gwrthwyneb, y mae achos arall yn cael ei nodi. Am ynfydion, am rai yn gwadu Duw, am rai oedd wedi YMLYGRU, llygru eu *hunain*, ac nid cael eu llygru gann arall, y mae'r Salmydd yn son: dyfyniad o'i eiriau yw ymadrodd Paul, a theg eu cymmeryd yn yr un cyssylltiad. Felly, er fod dynion wedi *ymlygru* i raddau helaeth iawn, mae'n amlwg nad oedd pawb ddim felly; oherwydd yr ydym wedi gweled yn barod fod Noah, Abraham, Asa, Hezeciah, Dafydd, Job, a lluoedd eraill, yn ewyllysgar, a chalon berffaith, yn gwneuthur yr hyn oedd *dda* yng ngolwg yr Arglwydd: gan hynny, yn lle bod ymma brawf o lwgr nattur, y mae un o'r anhebgorion mwyaf yn eisiau; nid oes dim cymmaint ag enw yr hen wr druan yn cael ei grybwyll; ond i'r gwrthwyneb, dynion wedi llygru eu hunain sydd ymma; ynfydion a ddywedent nad oedd un Duw. Yn lle bod dros bechod gwreiddiol y mae'r adnodau dann sylw yn ei *erbyn* etto.

---

* Gen. 20. 5, 6. † 1 Bren. 15. 14. ‡ 2 Bren. 20. 3. ‖ 1 Chron. 29. 9. § Mat. 12. 12. 25. ** Luc 8. 15.

Yn nesaf, dywedir ein bod ni oll wedi syrthio fel deilen, ac fod ein holl gyfiawnderau yn frattiau bydron; yr hyn sy'n dangos cyflwr truenus dyn wrth nattur, meddant. Isa. 64. 6. 'Eithr yr ydym ni oll megys peth aflan, ac megis brattiau bydron yw ein holl gyfiawnderau; a megis deilen y syrthiasom ni oll."

Y mae'r geiriau hynn etto yn dangos fod yr Israeliaid mewn cyflwr isel iawn; eu bod hwy wedi syrthio megis deilen: ond nid am hynn y mae'r ddadl. Cyfaddefwn hynn, ond yr *achos* o hyn yw'r cwestiwn. Beth *yw'r* achos? a oes ymma ryw beth i'n cyfarwyddo i weled hyn? Ai Adda yw? Ai trosedd Adda ydyw? Y mae'r prophwyd yn ddistaw fel y bedd am hynn, ac y mae'n priodoli'r syrthiad hwnn i beth arall, llwgr, sef i'w gwaith hwy yn anghofio'r Arglwydd, ac yn gwrthod gwrando arno. Ond beth! ai oddiwrth eu gwaith yn syrthio fel *deilen* y casglir mai yn Adda y maent wedi syrthio? Mae'n well peidio, goeliaf, a gwneuthur hynn; oherwydd y mae'r ymadrodd, syrthio fel *deilen*, yn dangos eu bod *hwy*, nid Adda yn eu lle, wedi bod ar lann hefyd fel deilen, os syrthiasant fel hi. Ond caniattaer, am fynyd, fod yr ymadrodd hwnn yn cynnwys fod yr Israeliaid ymma wedi syrthio yn Adda: *beth*, BETH wedi'n, meddaf, a ddaw o eiriau yr un prophwyd, yn y 34 ben. a'r 4 adn. lle y dywed, '*Holl lu'r* nefoedd hefyd a ddattodir, a'r nefoedd a blygir fel llyfr, a'i holl lu a *syrth*, fel y syrthiai *deilen* o'r winwydden.' Beth! A ydyw'r prophwyd am ddysgu ymma, dybygech chwi, fod holl lu'r nefoedd hefyd wedi syrthio yn Adda? O, na, dywedir yn union am hynn; 'does dim son am Adda gan y prophwyd. O'r goreu; nid oes son am Adda chwaith, dim *gair* o son am dano yn yr adnod dann sylw. Gellir sylwi ymhellach etto, fod y gyffelybiaeth, yn yr adnod dann sylw, yn hollol anghymmwys i osod allan gyflwr hil syrthiedig Adda. Athrawiaeth y llwgr gwreiddiol a ddysg fod Adda wedi syrthio, a phawb wedi syrthio ynddo; ond beth yw llais yr adnod honn? Dymma yw, eu bod wedi syrthio fel deilen; ond ni ddywedir fod y prenn wedi syrthio gyda'r ddeilen: na, y mae'r prenn ar lann a'r ddeilen ar lawr: ac os addas y gyffelybiaeth, fe safodd Adda, er i ni syrthio; oblegid dywed yr adnod, '*nyni* a syrthiasom oll fel deilen,' ac nid, fel prenn a'i ddail gydag ef, neu'n hyttrach a'i ddail ynddo, heb dorri allan; oblegid yr oeddem ni heb ein geni pan syrthiodd Adda. Nid pechod gwreiddiol sydd yn cael ei ddysgu ymma, ond dangos y mae'r prophwyd fod yr Israeliaid wedi cael manteision helaethion gann eu Duw; wedi cael ei gyfraith i'w goleuo; ei air i'w dysgu; ei ordinhadau i'w hattal i golli'r ffordd; ei wyrthiau i'w hargyhoeddi mai efe oedd Dduw, ac nad oes arall ond *efe*. Yr oeddynt oherwydd hynn wedi bod yn *uchel;* wedi eu cyfodi megys hyd y *nefoedd* o rann eu breintiau; wedi bod ar *frig* prenn bendithion Duw; ïe, yr oeddent hwy eu hunain, ac nid neb arall yn eu lle, wedi bod ar lann: ond syrthiasant oll fel deilen, medd y prophwyd; anghofiasant yr Arglwydd, a throisant ar ol eulunod; ac am *weithredoedd y rhai'n* y mae ef yn dywedyd, mai brattiau bydron oeddent, ac nid am burdeb a gwir sancteiddrwydd. Nid oes ymma etto un sail i lwgr nattur, nac ychwaith i ddynion i feddwl yn wael am weithredoedd da; ond yn llwyr i'r gwrthwyneb. Gweithredoedd aflan dynion wedi syrthio a sonir am danynt gann y prophwyd.

Iaith Dafydd am dano ei hun gaiff fod yn nesaf dann ein sylw. 'Wele mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.' Dywedir gann mai nid trwy butteindra y cafodd Dafydd ei genhedlu, fod yn rhaid mai trosedd Adda yw'r achos o lefariad y geiriau.

Trosedd Adda yn wir!! Trosedd Efa yn hyttrach; oblegid am ei *fam* y mae Dafydd yn son, ac nid am ei *dad*. Y gwir yw, nid yw Dafydd yn son dim am Adda; nac yn dywedyd un gair am gyflwr dynion yn gyffredin; ond yn unig am dano ei hun, a dim am neb arall. Ac y mae'n rhaid fod rhyw achos, ac achos cryf o lefariad y geiriau hynn; a chawn weled fod gann Dafydd achos i ddywedyd felly am dano ei hun: ond dylem yn gyntaf sylwi fod gormod-iaeth (*hyperbole*) o'r fath yn cael ei arfer ganddo am yr annuwiolion, yr hon nis gellir ei deall yn llyth'rennol. 'O'r *groth* yr *ymddieithriodd* y rhai annuwiol; o'r bru y cyfeiliornasant gan *ddywedyd celwydd*.' Pwy ffordd y gall neb ymddieithrio o'r groth? Amhossibl; ac mor amhossibl a hynny iddynt *ddywedyd celwydd* o'r bru, gann nas gallant ddywedyd dim mwy na'i gilydd pryd hynny. Ei feddwl yw, fod yr annuwiol yn ymddieithrio yn foreu iawn; a chofiwch mai'r *annuwiol*, ac nid pawb, sydd yn ymddieithrio a dywedyd celwydd. Y mae yr un Salmydd yn dywedyd am eraill, am blant, 'O enau plant bychain, a rhai yn sugno, y perffeithiaist foliant.' Nid celwydd yn sicr oedd gann y rhai'n bryd hynn. Wel, nid cyflwr pob dyn yn gyffredin y mae Dafydd yn ddarlunio, pann yn dywedyd fod yr annuwiol wedi ymddieithrio o'r groth; ac nid cyflwr pob dyn fel y mae'n cael ei eni i'r byd y mae yn ddarlunio chwaith, pann yn dywedyd, 'Mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf;' ond ei gyflwr ei hun, ac nid neb arall. Mewn prydyddiaith y darfu i Dafydd ysgrifennu y geiriau ymma: ac y mae'n beth cyffredin gan y prydyddion i arfer gormodiaith. Nid oes neb mor ffol a deall eu hiaith yn llyth'rennol. Os oedd achos gan un prydydd i arfer gormodiaith, yr oedd gann Dafydd fwy. Yr oedd ef wedi bod yn achos i Urias i gael ei ladd trwy anwiredd a thwyll, fel y byddai iddo gael ei wraig ef. Wrth glywed Nathan, y prophwyd, yn darlunio ei bechod, dann y gyffelybiaeth fod dyn yn berchen *un* oenig, a honno yn cael ei dwyn oddiarno gann un oedd yn berchen llawer, y mae Dafydd yn cyhoeddi'r ddedryd uwch ei benn ei hun, gann ddywedyd, 'Lladder y gwr yn farw.' Yna y mae Nathan yn dywedyd, 'Tydi yw'r gwr.' Wrth edrych ar ei sefyllfa beryglus, ei fod yn euog o farwolaeth, ar ei dystiolaeth ei hun, y mae Dafydd, mewn modd edifeiriol, mewn dyfnder gofid, yn canu, 'Mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.' Neu fel pe y dywedasai, pe buasai anwiredd yn dad i mi, a phechod yn fam i mi, nis gallaswn gyflawni gwaeth trosedd. Y mae honn yn iaith gref, mae'n wir, ond yr oedd y pechod yn ffiaidd iawn hefyd. Am dano ei hun, ynte, y mae Dafydd yn canu, pann yn ei ddygn ofid, ac nid am neb arall; a byddai yr un mor deg i gasglu fod dynion wedi lladd y gwyr er mwyn cael eu gwragedd, ac ydyw i gasglu oddiwrth y geiriau hynn, fod pawb wedi cael eu llunio mewn anwiredd, a'u geni mewn pechod, serch fod y Salmydd yn arfer gormodiaith o'r fath am dano ei hun ynghanol ei ofid. Y mae Dafydd, mewn un mann mae'n wir, yn dywedyd, fod pob dyn yn gelwyddog; ond y mae'n cymmeryd gofal i ddywedyd wrthym, mai yn ei *ffrwst* (*in haste*) y gwnaeth ef hynny. 'Mi a ddywedais yn fy ffrwst, pob dyn sydd gelwyddog.' Yn ei ffrwst, (*in haste*, TOO MUCH HASTE) y mae dynion yn dywedyd hynny hyd y dydd hwnn. Nid oes ymma etto ddim o'r athrawiaeth ofnadwy sydd yn dysgu fod dynion yn cael eu geni i'r byd dann llid a melldith Duw, ac mewn canlyniad fod plant bychain yn *ddamniol*.

Yr adnod nesaf, a'r olaf a grybwyllaf, yw geiriau Paul at yr Ephesiaid. 'Ac yr *oeddym* ni wrth natturiaeth yn blant digofaint megis eraill.' Dym

ma 'nawr eich holl lafur yn ofer meddwch; dymma eiriau pendant yn dangos ein bod ni oll yn blant digofaint, yn ddamniol wrth nattur. Peidiwch bod mewn cymmaint ffrwst gyfeillion, ac wedi'n efallai, y cawn weled fod y casgliad yn annheg. Am bwy y mae'r Apostol yn siarad, at bwy y mae'n ysgrifennu? Yr Ephesiaid ydynt; y rhai oeddent wedi bod yn addoli eulunod, a'r dduwies fawr Diana; ïe, y rhai y mae ef yn ddarlunio, yn nechreu y bennod honn, eu bod wedi bod yn *feirw* mewn camweddau a phechodau, ond yn awr wedi eu bywhau yng Nghrist; rhai oeddent, medd ef, wedi bod gynt yn rhodio yn ol helynt y byd hwnn, yn ol *tywysog llywodraeth yr awyr*, yn chwantau eu *cnawd*, gann wneuthur ewyllysiau y *cnawd* a'r meddyliau. Dymma'r dynion sydd ganddo mewn llaw, ac yn wir, nid gormodiaeth yw dywedyd am y rhai'n, eu bod wrth natturiaeth yn blant digofaint megis eraill. Ond sut y mae'r Apostol yn dywedyd? 'Yr *oeddym* ni, ebe fe, wrth natturiaeth yn blant digofaint megis eraill.' Sylwer, yr *oeddym* ni, nid yr *ydym* ni, y mae'n ddyweud. Er y dywedir yn awr, er gras a phob peth, yr *ydym* ni wrth nattur yn blant digofaint, megis eraill. Hynn sydd eglur oddiwrth eu gweddiau, erthyglau Eglwys Loegr a ddifynais ar y dechreu, ac hefyd oddiwrth yr emyn canlynol a ganir yn aml gyda llawer o hyfrydwch:—

'Galaru 'rwyf mewn dyffryn du, wrth deithio i dy fy Nhad;
Ar benn y bryniau sefyll wyf, yng ngolwg ty fy Nhad:
Yn ddu fy lliw, a'm gwisg yn wenn, yn llawen; ac yn brudd;
Yn agos iawn, ac etto 'mhell; 'rwy n waeth, 'rwy'n well bob dydd.'

Ond nid dymma iaith yr Apostol; eithr yr *oeddym* ni medd ef. Pa bryd Paul? Pann oeddem yn feirw mewn camweddau a phechodau; yr oeddech chwi Ephesiaid, y pryd hwnnw, pann oeddech yn rhodio yn ol tywysog llywodraeth yr awyr, yn blant digofaint megis eraill. Nid rhyfedd chwaith. Ond, a ydynt felly yn awr Paul? Nac ydynt yn wir; 'Eithr Duw a'n cyfododd, ac a'n gosododd yn y nefolion leoedd, yng Nghrist Iesu.' Ond efallai y dywedir, mai nid am yr Ephesiaid y mae Paul yn siarad; oblegid ei fod yn gosod ei l unau yn yr un cyflwr a hwythau. Ac yr oeddym *ni*, ac nid yr oeddech *chwi*, yn blant digofaint, y mae'n ddyweud. Ond y mae'n amlwg nad yw Paul, wrth y geiriad hwna, ddim am i ni ddeall ei fod ef yn un â hwythau; oblegid ni fu ef erioed, nac un Iuddew nac un Cristion yn rhodio yn ol tywysog llywodraeth yr awyr, yn addoli'r ffug-dduw hwnn o eiddo'r eilun-addolwyr ymma: ond dull boneddigaidd o lefaru y mae'n arfer, fel na fyddai iddo glwyfo gormod ar eu teimladau, wrth son am y sefyllfa druenus oeddent wedi bod ynddi; ac i'r diben hwn y mae ef yn siarad â hwynt fel pe buasai yn un o honynt. Ond beth am yr ymadrodd *wrth natturiaeth*; beth am y *plant digofaint* ymma? Yr wyf yn meddwl gadael i Paul i esbonio ei hun ar y gair natturiaeth: dengys ef mai nid wrth nattur, fel yr arferir yr ymadrodd hwnn yn bresennol, sydd i ni ddeall wrtho. Rhuf. 2. 14. a Gal. 2. 15. 'Canys pan yw'r cenhedloedd, y rhai nid yw y ddeddf ganddynt, wrth *natturiaeth* yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf, y rhai hyn heb fod y ddeddf ganddynt, ydynt ddeddf iddynt eu hunain.' Ac etto, 'Nyni y rhai ydym wrth *natturiaeth* yn Iuddewon, ac nid o'r Cenhedloedd yn bechaduriaid.' Yn awr, os oes rhai yn blant digofaint wrth natturiaeth, y mae eraill yn cadw'r ddeddf wrth natturiaeth; yn Iuddewon wrth NATTURIAETH, ac nid yn BECHADURIAID o'r cenhedloedd: ac wele un natturiaeth yn erbyn y llall. Ond beth yw gwir feddwl natturiaeth ymhob un o'r mannau ymma? Nid dangos

cyfiwr ganedigol dyn y maent yn y mesur lleiaf; ond y meddwl yw, fod y cenhedloedd, yn ol yr arferion (*customs*) oedd yn eu plith, yn cadw'r ddeddf; ac fod rhai yn luddewon, yn ol defodau y gyfraith luddewig ac nid yn bechaduriaid, yn ol arferion y Cenhedloedd. Dymma hefyd yw ei feddwl yn yr adnod dan sylw; dywedyd y mae, fod yr Ephesiaid gynt yn blant digofaint, yn ol eu harferion drwg, yn ol eu cystymmau, pann yn rhodio yn ol tywysog llywodraeth yr awyr; eu bod hwy *bryd hynny* wrth natturiaeth, φυσει, wrth nattur eu hamgylchiadau allan, yn blant digofaint, hynny yw, yn blant digofus, yn blant digllon. Dymma sydd yn ymddangos i mi yw meddwl yr ymadrodd, 'plant digofaint;' cadarnheir y meddwl ymma gan eiriau Crist, yr hwnn a ddywed, fod plant y byd hwn yn ddoethach yn eu cenhedlaeth na *phlant y goleuni: plant* y byd hwnn, yw y rhai sydd yn dilyn egwyddorion y byd hwnn; plant y goleuni yw y rhai sydd wedi eu dysgu gann Grist: plant goleu, plant gwybodus: felly hefyd plant digofus, plant digllon yw plant digofaint; dynion ag oeddent, yn ol eu harferion drygionus, yn llawn llid, malais, a digofaint. Nid yw llwgr gwreiddiol ddim ymma etto.

Am y ddeddf oedd yn aelodau Paul yn gwrthryfela yn erbyn deddf ei feddwl, gann nad yw ef yn dywedyd gair mai Adda oedd yr achos o honi, terfynaf trwy ddywedyd nas gallaf ganfod yr athrawiaeth o bechod gwreiddiol ymma chwaith. O ble y cafodd Paul y ddeddf honn, nis gwnn: a gadawaf hynn yn *bose* i'r Calfin ei atteb os gall.

O. Evans.

ESGOB WATSON AR RYDD-YMOFYNIAD.

Barchus Olygydd.—Y sylwadau rhagorol a chynnwysfawr a ganlyn, gan Esgob Watson, a gesglais allan o hen 'Eurgrawn Cymreig,' a gyhoeddid oddeutu deugain mlynedd yn ol, yr hwn nis gwelodd un o bob mil o ddarllenwyr y dyddiau hyn; wele hwynt yn awr at eich gwasanaeth. 'A ddarlleno ystyried.'

Yr eiddoch yn ostyngedig,

Llynlleifiad. J. Williams.

Ysbryd rhydd i chwilio ystyr yr ysgrythyrau a arferais i, ac a gynghorwn i chwithau arfer wrth astudio. Ni ddylai'r ysbryd hwn o un tu ymddirywio i'r coegni gwrthgas o fod yn wahanol i bawb eraill, fel pe na bai dim yn iawn ag a sefydlwyd; ac nis dylai o'r tu arall, gael ei lyffetheirio yn ei weithrediadau, yn y fath fodd ag i ofni amheu gwirionedd un peth a gadarnhawyd gan awdurdod y llywodraeth. Fe fu amser pan yr oedd ein hynafiaid yn Baganiaid, fe fu amser arall pan yr oeddynt yn Babyddion, a phe buasent yn dilyn athrawiaeth rhai dynion,—sef na ddylai cyfnewidiad gael ei wneuthur byth yn erthyglau eglwys sefydledig trwy gyfraith,—nyni, eu hiliogaeth hwynt, a allasem fod y dydd heddyw wrth swydd gyda'r Derwyddon yn tori uchelwydd oddiar y derw, neu yn trawsylweddu cann a dwfr i sylwedd Duw.

Y mae efengyl Crist wedi cael ei llygru gan ddichellion dynion. Y mae hi wedi dioddef y llygriad hwn oddiar yr oesoedd cyntaf hyd yr amseroedd presenol: ac fe debygid, nad oes dim dan ragluniaeth Duw yn debycach o'i hadferu i'w phurdeb dechreuol, na sêl bwyllog ymofynwyr dysgedig a diduedd am y gwirionedd.

Llywiawdwyr gwledig yn y cyffredin, a drwg genyf ei chwanegu, gormod o eglwyswyr ydynt elynion i ymofyniad rhydd. Egwyddorion sylfaenol llaweroedd o'r ddwy alwad ydyw, bod yn rhaid i grefydd a sefydlwyd mewn gwlad, gael ei chadw a'i chynnal *er gwell ac er gwaeth*; ac y maent yn barod i cullibio ac i gospi pwy bynag fyddo am amheu un o'i hathrawiaethau. Yr egwyddor hon sydd yn tarddu o bosibl, yn yr eglwyswr, oddiar bryder o'r drygau a allent ddod i mewn wrth sawdl cyfnewidiad; ac y mae yn tarddu gyda phob tebygolrwydd yn y llywiawdwr gwledig, naill ai oddiar adnabyddiaeth anmherffaith o'r oruchwyliaeth Cristionogol, neu oddiar gred y gall un dull neu ffurf o grefydd ateb diben llywodraeth yn gystal a'r llall; ac nad yw yr holl grefyddau i gyd ond dyfais llywiawdwyr i gynnorthwyo gwendid, ac i helaethu culni cyfreithiau dynol.

Tra byddo'r egwyddor hon yn nghalon un dyn, ymofyniad rhydd mewn achosion crefyddol a atebir, cyn belled ag y cyrhaeddo ei awdurdod; ac oni bydd i dymher yr amseroedd oruwch lywodraethu tymher y dyn, poen a chosbedigaethau a ddodir ar bawb ag fyddo o gydwybod yn gwahanu oddiwrth athrawiaethau y wladwriaeth.

Pan y byddo llywiawdwyr Crist'nogol yn honi hawl i ddehongli rhanau tywyll o'r ysgrythyr mewn ystyr bennodol, y maent yn halogi allor yr Arglwydd, er eu bod fe allai yn amcanu ei addurno a'i amddiffyn, ac yn fynych yn sancte'ddio cyfeiliornad trwy awdurdod cyfreithiau gwledig.

Haues yr eglwys, er amser y sefydliad gwledig o honi, a rydd fil o dystion i wirionedd y sylwad hwn. Chwiliwch benderfyniadau y cymanfaoedd a alwyd ynghyd trwy awdurdod ymerawdwyr neu frenhinoedd yn amrywiol barthau cred, er pen cynghorfa Nice hyd ben-cynghorfa Trent, a chwi a welwch i laweroedd o honynt sefydlu y fath athrawiaethau, ag y'm ni Brotestaniaid yn gyfrif yn gyfeiliornadau erchyll. Chwiliwch gyffesion ffydd yr amrywiol eglwysi Protestanaidd ag sydd yn awr yn Ewrop, a chwi a ellwch ganfod mewn llaweroedd o honynt y fath amrywiaeth mewn athrawiaeth, ag a bair i chwi ddymuno na bnasai neb o honynt wedi honi iddynt eu hunain un rhan o'r anffaeledigaeth hyny ag a omeddent i Eglwys Rhufain. Purdeb yr efengyl nid ellir ei ddysgu trwy un moddion cystal a thrwy ymofyniad gostyngedig ac onest i ystyr yr hyn a ysgrifenwyd gan yr efengylwyr a'r apostolion; yn hytrach na'r hyn a draddodwyd gan Calfin neu Arminus, gan Sabelius neu Socinus.—*Charge to his Clergy*, 1791.

RHYDDYMOFYNIAD YN DDYLEDSWYDD.

'If you are not a reasoning man, to what purpose are you a man at all?'—COLERIDGE'S AIDS TO REFLECTION.

'Os nad wyt yn ymresymwr, pa ddyben dy fod yn ddyn?'

Parhad o tudalen 163.

4. Balchder.

"Yr ydym *ni* yn credu fel hyn; yr ydym *ni* yn anffaeledig; yr ydym *ni* yn hollwybodol. Byddai cyhuddiad o gamsyniad yn lleihau yr olwg sydd genym am ein perffeithrwydd, a rhag i ni ddyfod i wybod ein bod yn anghywir, a gorfod cyfaddef hyny, ni wnawn ymofyn." Nid oes achos am un gair yn ychwaneg.

Ymddengys yn awr, nad oes un rheswm digonol am guddio o'n golwg wir ansawdd yr amgylchiadau moesol, meddyliol, crefyddol, ac anianyddol gan ba rai ein hamgylchynir. Ond pe gorphwyswn yma; byddai y rhan bwysicaf o'r gorchwyl heb ei gyflawni.

Yn y tudalenau nesaf, ymdrechaf i ddangos, nid yn unig nad oes un rheswm digonol am beidio, ond fod rhesymau cryfion, a phwysig am wneud ymofyniadau helaeth, eofn, a dibetrus. O'r rhai hyn ni wnaf ystyried ond un neu ddau o'r pwysicaf, gan fod y ddyledswydd benderfynol i ryddymofyn, yn ymddangos yn eithaf eglur oddiwrthynt, Ydynt,—

1. Perchenogaeth Galluoedd,
2. Y Grefydd Gristionogol.
3. Cyfansoddiad Cymdeithas.

Y mae pob un o honynt yn deillio oddiwrth, ac yn ymddibynu ar eu gilydd; ond yn gyntaf ystyriwn y ddyledswydd ddeilliedig oddiwrth ein perchenogaeth o alluoedd i ymofyn ac i ddeall. Ein anrhegiad a Galluoedd.

1. Nid oes lle i ddadleu nad ydym wedi ein arddonio a galluoedd meddyliol o'r graddau godidocaf; nac ychwaith fod dyn wedi ei greu yn gyffelyb, ac yn rhestru yn nesaf at ei Arglwydd. Gan fod dynion yn berchenogion ar alluoedd meddyliol, y mae yn hollol anghyson a'n syniadau am ddoethineb Duw, ac a'n gwybodaeth am reolau naturiol i feddwl ein bod wedi ein haddurno a chynneddfau rhesymol heb un dyben ond eu cadw yn ddiffrwyth. Yn rhai dynion gwelwn ragorach cynneddfau nac mewn eraill; ond mae y ffaith fod tueddiadau naturiol ynom i'w defnyddio yn profi dyben ein Creawdwr, ac yn arddangos os yw ychydig o ystyriaeth yn dda fod rhagor yn well, gan nad oes diwedd i'r datguddiadau o ddoethineb a chyfiawnder Rheolydd y byd, nac i'r wybodaeth ddeilliedig. Dywedir yn Liturgy Eglwys Loegr, fod ser y nef, adar y goedwig, ac anifeiliaid y meusydd yn clodfori eu Creawdwr; a phwy a all wadu nad yw y dywediad yn gywir, neu ffaelu a chydsynio ag Addison pan y dywed am y bodau nefawl:—

> "For ever singing as they shine
> The hand that made us, is divine."

Ac os ynt yr is-greaduriaid yn addoli eu Harglwydd, bob un yn ol ei allu; pa faint mwy sydd o alwad ar ddyn, a'i alluoedd ardderchocach ddihuno o'i ddiffrwythder, i edrych ar y faith greadigaeth, a chanmol ei Greawdwr am ei ddaioni a wel ar bob llaw? "Edrychad dyn," meddai Jean Paul Richter, "ar ei gyfansoddiad rhyfeddol, ystyried faint, a rhif ei alluoedd, ac ymdreched i gyflawni dyben ei osodiad ar y ddaear."

2. Y Grefydd Gristionogol.

O'r holl *sectau* o athronyddion yr oesoedd cyntefig, nid oes daliadau un wedi parhau mewn grym hyd yr amser presennol; a'r prif reswm o hyn yw eu bod oll wedi rhoddi rhy fach o le i'r meddwl weithredu ynddynt. Yr oedd ynddynt ormod o'r ysbryd penderfynol, a gosodiadau pendant; ystyriwyd fod y plisg o gymaint pwys a'r cnewyll, a thrwy hyny gwrthodwyd y cwbl gan y ran ymofyngar o wlad Groeg. Saif y grefydd Gristionogol mewn gwrthwynebiad hollol. Rhydd ddigon o le i'r meddwl mwyaf galluog weithredu; ac y mae rhif ei gorchymynion pendant mor lleied ac mor eglur fel nas gall ymryson fod am danynt. Nid yw etto wedi ei deall yn ei holl ogoniant; nid yw yn proffesu bod yn ffurf, (*system*,) ond yn reol; ac o herwydd fod hyd yn hyn y meddwl dynol yn methu gweled fod crefydd benderfynol yn beth gwael, disylwedd, a chyfnewidiol; holl sectau y byd a gymmysgant ryw beth tymorol gyda'r ran ysbrydol. Ymddangosodd Iachawdwr y byd yn y cnawd; ac y mae dynion yn anfoddlon i adnabod ei athrawiaeth heb ychydig o'u tybiadau *dyrchafedig* eu hunain yn gymmysg—ychydig bach o'r ran dduwiol yn gymmysgedig â rhan tra chyfrifol o waeledd dynol. O herwydd y gwagedd a'r ffolineb hwn colldcd y Grefydd Gristionogol ei hagwedd

gyntefig; ac, yn lle cadarnhau, amcanodd reoli a llywodraethu y meddwl ymofyngar. Gwelwyd yn hanes boreuol yr Eglwys ddynion pechadurus, ac o gyrhaeddiadau byrion, yn ychwanegu esboniadau at yr Efengyl, ac yn ei wneud yn fwy o bechod i ddiystyru yr esboniad nac i wadu neu wrthsefyll y *text*. Gwelir hyn yn awr; ond nid oes lai o berthynas rhwng yr haul a chanwyllau brwyn na sydd rhwng Crist'nogaeth â chyfundraethau y gwahanol sectau o Grist'nogion. Dyben un yw cryfhau cyfansoddiad, estyn cyrhaeddiadau, ac eangu gwybodaeth y meddwl dynol; ac amcanion y lleill yw cyfyngu y cynheddfau ardderchoccaf i dderbyn cyfraith gan y mwyaf distadl. Amcan un yw annibyniaeth; ymdrech y llall yw gormes. Daeth Crist i sefydlu trefn newydd, i wrthdroi crefydd benderfynol, lleol, a chenedlaethol yr Iuddewon, ac i adeiladu teml i'r Arglwydd yn mhob meddwl unigol. Crefydd fach, cyfyngedig i Judea oedd gan yr Iuddewon; crefydd fach sydd gan Eglwys Loegr; a chrefydd fach fydd gan yr Ymneillduwyr os digwydd iddynt lwyddo yn eu hamcanion i wneud eu hunain yn Eglwys Cymru. Ond crefydd fawr, helaeth, oedd crefydd Iesu Grist—crefydd i'r holl fyd;—yr hwn sydd ganddo glustiau, gwrandawed; yr hwn sydd ganddo lygaid, edrycked. Nid oes un bobl na sect ddewisol yn perthyn i hon; nid 'fy mhobl Israel,' yw y gair, ond 'fy mhobl,' pa le bynag y byddont. Y mae Crist yn galw ar bob dyn i ystyried ac i ymofyn. Darllener Mat. x. 34—38. Yno gwelir galwad ar bob dyn i ystyried; a rhyfel yn cael ei chyhoeddi yn erbyn llygredigaethau y byd. 'Yr hwn sydd yn caru tad neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi.' 'Mi a ddaethum i osod dyn i amrafaelu yn erbyn ei dad; a'r ferch yn erbyn ei mam; a'r waudd yn erbyn ei chwegr.' Dyben Crist'nogaeth yw plannu goleuni y mmeddyliau'r ieuainge, a'u galw i adael llygredigaeth eu tadau. Ceir Paul yn ceryddu *gau* wybodaeth, ond nid yn cynghori dynion i beidio ymofyn am wybodaeth, gan ei fod yn eu hannerch i wneud hynny,—'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda,' 1 Thes. v. 21. Yn ei holl annerchiadau i'w ddisgyblion, Crist a ddefnyddia ddynion gwael mewn cyfoeth byd i bregethu ei efengyl a dwyn dynion i *gredu*. Rhaid oedd *credu* y grefydd hon; defnyddwyd rhesymeg i brofi hon; a rhaid oedd defnyddio rheswm i'w deall. Nid crefydd awdurdodol oedd hi; nid peth a orchymynwyd gan weithred lywodraethol oedd; ac nid oedd aur ac arian i'w cael am ei meithrin. Yr oedd hefyd ryw beth rhagor nac addoliad yn ofynedig; nid oedd yn ddigon i blygu y benlin, a gwaeddi, 'mawr yw Nebuchadnosor,' ond yr oedd yn ofynol i *gredu*, ac o ganlyniad yn ofynol i wybod beth oedd ei natur; o ba le oedd yn dyfod; beth oedd ei dibenion; mewn gair, yr oedd yn ofynol i ymofyn, i ystyried, ac i ymresymu. Ceir rhagor o brofion i'r un perwyl yn nammeg y talentau. Wrth y gwas a ddefnyddiodd ei dalentau dywedwyd, 'Da was, da a ffyddlon; buost ffyddlon ar ychydig, a mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd.' Ond y gwas drwg a diog a ddanfonwyd i'r tywyllwch eithaf, yno bydd wylofain a rhincian dannedd.' Pan ofynir i ni, yn y dydd diweddaf, 'Rhoddais i chwi allu oedd i amgyffred fy haelioni, fy noethineb, a'm gallu; pa fodd eu defnyddiasoch?' Beth fydd ein hattebiad? Ymofynwn gan hyny, defnyddiwn y talentau, a gwnawn haeddu y clod, 'Da was, da a ffyddlon.'

3. Cyfansoddiad Cymdeithas.

Y mae yn ddyledswydd ar bob aelod o gymdeithas i ychwanegu rhan o ymofyniad ac ystyriaeth at y gronfa gyffredinol o wybodaeth a doethineb, er cael cynnyddu mewn gwareiddiad. Yn y bydoedd moesol a gwleidiadol, ceir cyfreithiau cyffredinol, yn gystal ag yn ein amgylchiadau anianyddol (*physical*,) ac y mae o'r pwys mwyaf i ni fod yn adnabyddus â hwynt, gan yr ymddibyna ein bywydau a'n dedwyddwch ar ufuddhad

iddynt. Hanesyddiaeth a ddengys hyn yn ddigon amlwg. Fel enghraifft, cymerwn y Chwildroad Ffrengig, yn 1798. Beth bynag a feddyliwn am yr achosion, y mae yn eithaf amlwg nad oedd boneddigion Ffrainc yn adnabyddus â gwir gyflwr y wlad, nac wedi rhoddi digon o ystyriaeth i olygiadau Turgot, Necker, a Mirabeau. Gwyddom y canlyniadau.

Y mae o'r pwys mwyaf i ni fod yn adnabyddus â chanlyniadau gweithredoedd dynion, effeithiau cyfnewidiadau, a'r berthynas rhyngom a'n cyfeillion. Gwyddom am ddygwyddiadau anffodus oherwydd anwybodaeth o'r pethau hyn, a chan mai dedwyddwch yw prif amcan ein bywydau, y mae yn dueddiad naturiol i ymochel rhag pob drwgweithredydd; ac, o ganlyniad, yn ddyledswydd i ymofyn ac i benderfynu. Cyflyrau annedwydd yn lled fynych a ganlynant oddiar anwybodaeth; a dengys y ffaith hon y mawr bwys o fod yn berchenog o wybodaeth helaeth a chywir. Yn wir, fel y dywed Bailey (*on the Pursuit of Truth*), 'Y gwr a ddatguddia wirionedd a wna les anfeidrol. Daioni yr hil ddynol a ofyn fod ffordd amlygiad yn agor, fod pob rhwystr i ymofyniad yn cael ei symud, a bod pob cynnorthwy yn cael ei roddi i'r rhai a ymchwiliant am wirionedd, ac a ddatguddiant gyfeiliornadau eu cyfeillion.' Cyflwr dyn a chyfansoddiad cymdeithas a ofynant hyn; a chan mai trwy ddefnyddio y galluoedd sydd genym y byddwn yn fwyaf tebygol o feddiannu dedwyddwch, ymroddwn yn brysur, a chydag ewyllys dda, at y gorchwyl.

Y mae yn ddyledswydd ar bob dyn i ehangu ei wybodaeth; ond y mae rhai dynion yn fwy rhwymedig nac eraill. O'r rhai hyn gellir enwi—

1. Dynion a gymerant arnynt yn wirfoddol y gorchwyl o addysgu eraill.
2. Dynion a delir am roddi addysg i eraill,
3. Yr holl rai sydd ganddynt amser, modd, a chyfleusderau i addysgu eu hunain.

Ar bob un o'r rhai hyn y mae yn ddyledswydd arbennig i ganlyn eu hymofyniadau hyd nes delont at sylfaenau eglur am eu gwybodaeth. Ni ddylent ymfoddloni eu hunain, nac ychwaith gymmeryd arnynt roddi addysg i eraill ar unrhyw bwnge o bwys, hyd nes delont yn adnabyddus ag elfenau gwirioneddol eu gwybodaeth.

Ond dylai yr ymofyniad fod yn eofn, yn brysur, ac yn ddiragrith. Byddai hefyd yn fai pe collir golwg ar y mawr wahaniaeth rhwng rhyddid ac afreol; a dylid ymbwyllo rhag i un gymmeryd lle y llall. Nid yw y rhyddymofynydd yn perthyn i un blaid; ac nid yw yn cael ei gyfyngu gan un 'iad' neu 'ist;'

> "Slave to no sect, who takes no private road,
> But looks through nature up to nature's God."

Tebyg yw i'r bardd, yr hwn a ddywed—

> "Fy meddwl sydd yn deyrnas i mi."

Ffurfia gwirionedd iddo ef anfeidrol wobrwy yn ei hunan; a char wybodaeth am el rhinweddau cynneddfawl. Yn ngolygiadau dyn o'r fath, gwisg y greadigaeth agwedd newydd, hardd, a threfnus. Gwel reol lle nad oedd i ereill ond annhrefn; a chyssylltiadau, cuddiedig oddiwrth yr anwybodus, rhwng gwahanol fodau y byd. Y meddwl gwybodus a gaiff ddifyrwch yn y pethau gwaelaf a mwyaf disylw; 'Ffurfia lyfrau o syfrdandod y dyfroedd, pregethau o'r cerrig, a daioni oddiwrth bob gwrthddrych;' a meddianna feddylddrychau heirdd, cywir, a dyrchafedig. Wrth sylwi ar hanes dynolryw, gwelir fod ynnom dueddiad i fyned yn y blaen i gasglu gwybodaeth, a thra yn edrych tua'r nef i ffurfio paradwys ar y ddaear tra trigfannom ynddi. Mewn gwleidiadaeth, ni foddlona i nofio ar y wyneb, megys llawer o ddynion poblogaidd yr oes hon; ond treiddia i ddyfnder y ddysg gyda Adam Smith, Traquerille, a Molesworth; ac yn

ffyrdd crefydd cyfhaedda syniadau mwy dyrchafedig am, a theilwng o'r Jehofah Mawr. Fel Paley, ystyria fod Duw yn llywodraethu ei greadigaeth trwy gyfrwng cyfreithiau sefydledig ac anghyfnewidiol; ac yn lle ofni gwybodaethau, canlyn Channing, a gwna hwynt yn lawforwynion i Grist'nogaeth.

Beth bynag fyddant ei feddyliau ar y pyngciau pwysig a dlenant sylw myfyrwyr, teilyngant barch; ac os yn gasgliadau cywir, deuant rhyw bryd neu gilydd yn gred gyffredinol. Yn amser Adam Smith nid oedd ond dau o ddynion yn y deyrnas yn deall y '*Wealth of Nations*' Traddodwyd darlithiau Thomas Carlyle i lai nag ugain o wrandawyr, a dystyrwyd Richard Cobden yn Nhy y Cyffredin, yn mha un ei clodfour yn awr. Am hyny, na chywilyddied yr ymofynydd; ymorphwysed ar y 'ffydd sydd ganddo;' a chymered air yr ysgrifenydd, nas gall myfyrdod fod yn rhy rydd, ond iddo fod yn gyfiawn a didwyll.

Merthyr. T. STEPHENS.

TYSTIOLAETH LLYFR NATUR AM DDUW.

Parhad o tudalen 166.

Yn fy llythyr diweddaf, ymdrechais ddangos, pa'm y mae Duw er yn poeni, etto yn ddifai, ac mai Tad yn ei anfeidrol gariad yw, yn gwella ei blentyn yn y modd mwyaf effeithiol, ac mewn byd i ddyfod y daw ei amcanion i ben, sef puredigaeth pob dyn a greodd ar y ddaear. Ond er mor arderchog yw yr olwg hon ar Dad pob daioni, mae *systems* oesoedd tywyll y byd, yn rhwystro y gwan, a'r rhagfarnllyd, i gredu, fod ei Dduw mor ddoeth, da, a galluog. Mynych y clywir fod Duw yn *gyfiawn* yn gystal ag yn drugarog, a bod Cyfiawnder Duw yn gofyn cospi pechadur â chosp ddiderfyn. Wrth hyn mae yn rhaid fod priodoliaethau Duw yn groes y naill i'r llall. Cariad yn achub—cyfiawnder yn damnio! Beth yw hyn ond nwydau dyn ammherffaith yn terfysgcu y fonwes, ac yn rhyfela y naill a'r llall. Dywygia ef medd Cariad,—Dial arno a dialedd diderfyn, medd cyfiawnder: ac os yw pob un o'r priodoleddau hyn yr un rym, ni all y bydd na chosp o ddial na cherydd er gwellhad am fyth; gan fod y naill yn attal y llall i weithredu. Anfeidrol lid yn tynnu un ffordd, ac anfeidrol gariad yn y ffordd wrthwyneb; a chan mai cydbwys ynt, yn ol pob rheol symmudiad rhaid iddynt aros am bob tragywyddoldeb yn yr un fan. Ond os oes un briodoledd anfeidrol i Dduw yn wannach na'r llall, amlwg yw y cyll y dydd yn y diwedd: hynny yw, naill ai y cyfiawnder dychymmygol hwn a ennill y dydd, trwy ddamnio yn dragywyddol bob pechadur, neu cariad a ddwg ymaith y fuddugoliaeth trwy buro pob pechod, a drwg allan o greadigaeth Duw; a gwneuthur pob dyn yn ddedwydd am oesoedd diderfyn tragywyddoldeb. Ond ai dymma y fath beth sydd i ddeall wrth gyfiawnder yn Nuw? Nwyd *ddrwg* o ddialedd yw hon, mae yn eglur. Mae'r Apostol Ioan yn ei lythyr cyntaf, i. 9, yn dywedyd, '*Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw ef, a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddiwrth bob anghyfiawnder.*' Mor fawr y mae Ioan yn gwahaniaethu oddiwrth *systems* dynion ffaeledig! Yn ol ei farn ef mae yn ymddangos nad yw cyfiawnder a thrugaredd yn wrthwynebol y naill i'r llall. Mae y Salmydd lxii. 12, yn dywedyd, '*Trugaredd sydd eiddot ti, O, Arglwydd, canys ti a deli i bob un yn ol ei weithredoedd.*' Ond y mae y byd yn rhy ami yn meddwl mai nid dymma beth yw trugarhau; ond gadael dyn i ddiangc rhag y gosp gyfiawn iddo, ac felly peidio ei wellhau. Mae profiad y byd yn dysgcu nad oes un ffordd fwy tyciannol i ddiwygio dyn na'i gospi: ac attal rhag cospi fyddai yn greulondeb mawr, yn deilwng o fod dialeddgar; canys yr wyf wedi dangos eisioes mai lles dyn sydd mewn cosp. Felly hefyd am gyfiawnder, cyn y gallo ddwyn oddiamgylch les dyn y mae yn rhaid iddo ei gospi, *a'i gospi nes y byddo wedi ei lwyr ddiwygio.* Oherwydd mae yn amlwg mai anghyfiawnder o'r mwyaf fuasai yn Nuw i greu dyn o bridd y ddaear, er mwyn cael ei ogoniant ar ei elyn. Cyn ei greu nis gallasai fod yn elyn i Dduw, gan mai llwch difywyd ydoedd, yn ymddifad o ewyllys, na *rhydd* na *rhwym* i wneuthur un peth yn groes i ddeddfau ei Greawdwr. Diau fod Duw o bob tragywyddoldeb yn gwybod beth y wnai, ac os gall dyn feddwl iddo roddi bywyd mewn llwch, pan yr oedd yn eglur ganfod ei fod yn dwyn gelyn i fodoliaeth, a barhai felly, er *cyngor*, a *cherydd*, dros bob tragywyddoldeb; a thrwy hynny a dynnai arno ei hun anfeidrol lid ei Greawdwr, mae yn rhwym o gyfaddef mai bwriad *drwg* oedd gan Dduw, wrth greu y fath ddyn. Oferedd yw dywedyd i Dduw ei

greu ef yn lan, ac mai y dyn ymlygrodd; gan y rhaid fod yr Hollwybodol yn eglur ganfod beth ddel'sai o hono, cyn rhoi bywyd ynddo erioed. Fel y dywedais o'r blaen anghyfiawnder fyddai peidio puro hwn trwy gospedigaeth, a'i wneud i dderbyn ar y cyfan fwy, annhraethadwy fwy o fwyniant nag o boen yn ei fodoliaeth. Mewn gair, os galwodd Duw un dyn i fod, ac ar yr un pryd yn gwybod y buasai ei gyfiawnder ei hun yn mynnu ei ddamnio yn ddiderfyn, rhaid ei fod wedi arfaethu ei ddamnedigaeth, ac felly ei fod yn Fod perffaith, neu anfeidrol ddrwg. Ie, yn anfeidrol waeth na'r bod dychymmygol a elwir y diafol. Ni chas holl ddiawlaid y byd yn nghyd gynddrwg *character* gan areithiau mwyaf huawdledd yr areithyddion mwyaf nerthol, a fu erioed yn drwgliwio eu gelynion, ag raid sydd i Dduw, os gwir iddo greu dyn, gan wybod y mynasai ei gyfiawnder ef orfoleddu yn ddiddarfod yn ei wae. Cyfiawnder yn sicr yw peidio gwneuthur cam â gwr yn ei fatter; ond rhoddi iddo yr hyn sydd yn unol a'i lês, am hynny y mae cyfiawnder yn gofyn ceryddu nes byddo dyn yn cael ei ddywygio, nes y byddo y drygionus yn gadael ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau, ac yn dychwelyd at yr Arglwydd. Heb hyn nid oes gan Dduw ddedwyddwch i ddyn—mae yn analluadwy iddo ei fwynhau—rhaid ei newid—a'r gosp yw yr unig foddion anffaeledig at y gwaith. Felly mewn gwirionedd, amcan Cyfiawnder yw lleshau creaduriaid Duw, wrth eu cospi, ac nid dial arnynt a dialedd tragywyddol.

Mae serch dyn at ei ddyn etto, yn profi y bydd amcan da gan Dduw wrth gospi yn y byd tu hwnt i'r bedd. Pwy bynnag fyddo systems dynion wedi ei roddi yn y dialedd diderfyn, fe fydd yn dwyn perthynas o leiaf a thad, a mam, a rheini a'u teidiau a'u mammau hwythau. Tra byddo calonnau rhieni gan y rhai hyn, ni allant fod yn wynfydedig pe caent eu rhoddi yn y Nef, tra byddont yn gweled eu plentyn yn dioddef dialedd diderfyn nwydau cynddeiriog anfeidrol lid; ac os bydd miliynnau aneirif yn y sefyllfa hyn, bydd eu perthynasau yn y Nef yn annedwydd, ac mor sicr a bod Duw wedi dodi dynion i gydymdeimlo a'u gilydd, â holl hiliogaeth Adda yn y nef yn annedwydd. Felly siommir Duw yn ei amcanion, yr hyn a blanna ofid ynddo ef, ac a'i gwna yn anfeidrol ddamnedig ei hun. Felly tragywyddol wae a feinw yr holl fodoldeb. Yr diben i ochelyd y casgliad anocheladwy hyn, mae dynion yn taeru y newidia y saint eu hanian yn hollol. Ond rhag im gael fy nghyhuddo fy mod yn camddarlunio neb, caiff Boston lefaru dros ei frodyr. Mae y geiriau yn ei '*Four-fold State*;' *State* iv. *head* iv. *sec.* 9*th*, yn dechreu fel hyn, 'Oen Duw a rua yn eu herbyn megis llew; efe a'u hysgymmuna, ac a'u teifi hwynt o'i bresenoldeb yn dragywydd, a dedryd o'r orsedd gan ddywedyd, "Ewch oddiwrthyf chwi rai melldigedig." Efe a'u barna hwynt i'r tan tragywyddol, ac i gymdeithas y diawlaid yn dragywydd. Ac yr ydym yn barnu y bydd i'r ddedryd hon gael ei chyhoeddi â llais clywadwy gan y dyn Crist. A'r holl saint a ddywedant, "Haleluiah, gwir a chyfiawn yw ei farnedigaethau!" Nid oedd neb mor dosturiol a'r saint tra ar y ddaear—tra parhaodd amser amynedd Duw. Ond yn awr mae yr amser hwnnw wedi darfod—mae eu tosturi dros yr annuwiol wedi ei lyncu i fynu mewn llawenydd yng ngogoniant y Cyfryngwr—ac yn ei weinyddiad o farn trwy yr hon y mae ei elynion yn eael eu gwneyd yn droedfainge iddo. Er i'r cyfiawn ambell waith wylo yn y dirgel dros eu balchder,, ac am na wrandawent, etto '*Y cyfiaun a lawenycha pan welo ddial. Efe a ylch ei draed yng ngwaed y drygionus*, Salm lviii. 10 Ni ddangosir un tosturi iddynt gan eu perthynasau agosaf. Fe glodfora y wraig ddiwiol gyfiawnder y barnwr yng nghondemniad ei gwr annuwiol:—y gwr duwiol a ddywed Amen gyda damnedigaeth y wraig a orweddodd yn ei fonwes:—y rhieni duwiol a ddywedant Haleluiah, ar gyhoeddiad y ddedryd yn erbyn eu plentyn annuwiol.—a'r plentyn duwiol a gymmeradwya ddamnedigaeth ei rieni drwg—y tad a'i cenhedlodd a'r fam a'u hymdyg yn y bru!! Och! Och!! rhag y gwaedgwn didragaredd!! *Duw a wyr* nad wyf fi yn ofni un peth yn gymmaint a chyfeillach dynion o'r fath hyn am ychydig amser; waethach am amser diderfyn. Mae y gwr goludog yn uffern Crist yn angel glan y goleuni ar bwys yr ellyllon hyn. Mynai ef o gariad at ei frodyr i anfon Lazarus oddiwrth y meirw i rybuddio ei frodyr rhag myned atto ef. Yma y gwelwn y Drindod wedi bwrw ymaith y gorchudd, ac yn ymddangos yn ei llun priodol ei hun; a'i holl addolwyr yn dwyn ei delw i'r eithaf. Mae'r Mab yn awr wedi troi cynddrwg a'i Dad yn mhob ystyr, a rhaid nad oedd yr ychydig dda oedd ynddo o'r blaen, ddim amgen na rhoddi cip olwg ar ddaioni, fel y byddai y drwg ar ei bwys yn fwy chwythig. Ond dyma yw yr unig ffordd i ochelyd dywedyd y bydd i ddrwg i ddiorseddu Duw ei hun. A pheth yw hyn ond dywedyd mai Bod anfeidrol ddrwg yw Duw tuag at bawb, ond yr etholedigion: a'i fod yn ymwynfydu ym mhoen ei greaduriaid? Pwy gabledd erioed fu mor gableddus a hwn? Yn wir mae credu y fath athrawiaeth yn tueddu yn anocheladwy i fwystfileiddio calon dyn, fel yr eglur ddengys ysgrifeniadau llawer, ac uchel gan-

iadau eraill, y rhai sydd a'u balchder a'u hunanoldeb crefyddol y fath, a'u gwna i deimlo eu hunain yn ddiogel yn yr arfaeth. Nid oes ddydd yr Arglwydd yn myned heibio yn Nghymru nad oes llawer o'r fath yn eanu,—

'A'm holl elynion o'ry
Yn *berwi* yn y llyn;
A'm henaid bach yn rofio
Yn hedd Calfaria fryn.'

Caf yn fy nesaf ddwyn ychwaneg o siamplau i ddangos effaith ddrwg y syniadau crybwylledig.—[I'W BARHAU.]

ARWYDDION YR AMSERAU.

Nid oes dim a bair fwy o hyfrydwch a boddhad i'r cristion a'r dyngarwr, tra yn ymdrechu i ledaenu gwirionedd, ac i ddymchwelyd pob anghyfiawnder, twyll a gormes, na chanfod oddiwrth arwyddion yr amserau nad ydynt ymdrechiadau cyffeillion gwirionedd yn ofer; ond fod bendith a llwydd iant yn eu dilyn bob amser. Er mai 'byd drwg' yw'r un presenol ar lawer cyfrif, etto y mae yn wirionedd eglur ei fod yn myned rhagddo yn barhaus tuag at berffeithrwydd. Y mae ei febyd wedi myned heibio, ynghyd a llawer o'r gwendidau hyny ac y mae mebyd yn ddarostyngedig iddynt. Hawdd gweled hyn trwy gymharu yr amrywiol oesau a aethant heibio a'u gilydd, ac a'r oesoedd diweddaf.

Trwy gymeryd cylch-olwg helaeth ar y byd, gwelir fod buddugoliaethau gogoneddus wedi eu hennill eisioes gan fyddin y goleuni, a'u bod yn gwneuthur ymgyrchion parhaus i deyrnas y tywyllwch a'u hamcan clodfawr ydyw, nid dyfetha, ond achub y deiliaid; llwyddiant iddyt!

Gwir fod tir lawer eto heb ei cunill, ond arwyddair yr amserau ydyw 'Y'mlaen,' a phan gydmarom sefyllfa bresenol Ewrop, ie, a'r byd oll, a'r hyn ydoedd ychydig iawn o gannrifau yn ol, y mae genym achos helaeth i lawenhau. Y pryd hyny tywyllwch caddugawl a orchuddiai Ewrop; ond gyda'r diwygiad Protestanaidd, torodd gwawr ar y byd, yr hon a yrodd lawer o adar y nos i ffoi; a'r hon ni orphwys yn ei gyrfa nes goleuo ac adnewyddu yr holl hil ddynol. Yr honiad rhyfygus o awdurdod grefyddol gan farwolion llygredig y llawr, yr hon am oesoedd a gaethiwai ddynolryw, a gyfiawnodd ddyddiau ei anwiredd; lyffetheiriau haiarnaidd a dorwyd o'r diwedd gan y meddwl dynol, yr hyn a fu yn ddechreud prifnod newydd yn achos crefydd a dyscyblaeth. Y mae yr oes a'r un [illegible] ynol, yn cynnwys [illegible] o arlion gosodiadau i ddynolryw mag a welwyd erioed o'r blaen. Gweithia yr egwyddor sylfaenol hono, sef rhyddid meddwl a llafar, ei ffordd yn rymus; nid yw yn ffafrio unrhyw ddosparth yn fwy na'i gilydd, ond y mae iawnderau a dyledswyddau y bobl oll, yn gysylltiedig a hi; un o'i ffrwythau mwyaf dymunol ydyw'r ymdrech cyffredinol a wneir yn bresenol, i gyfranu addysg i bawb, o'r dosparth isaf hyd yr uchaf.

Ystyriwyf hyn fel un o brif arwyddion yr amserau; bu amser pan nad ystyrid gwybodaeth gyffredinol yn anghenrheidiol i'r *bobl*, ond yn awr ymdrechir cyfleu moddion addysg a gwybodaeth o fewn cyrhaedd pob graddau, fel na byddo gan neb unrhyw esgus i roddi dros eu hanwybodaeth. Y mae gwasgariad gwybodaeth yn anhepgorol anghenrheidiol er dedwyddwch personol a chymdeithasol dynolryw; y mae yr un mor anghenrheidiol i'r brenhin, ac i'r deiliad; i'r rhai sydd mewn awdurdod, ac i'r rhai sydd dano; y mae drwg- effeithiau anwybodaeth i'w canfod yn mhob man y bodola, hyn sydd hysbys i bawb. Yn wir, y fath ydyw sefyllfa y mwyrif o ddynolryw wedi bod hyd yn hyn, ac eto i raddau helaeth, fel yr ydoedd yn anmhosibl gwella eu cyflwr cymdeithasol. Yn anwybodus o'u dyledswyddau, eu hiawnderau, a'u breintiau cynnenid megis creaduriaid rhesymol a chyfrifol; buont yn offeryuau hyblyg yn nwylaw yr ychydig nifer, y rhai drwy eu twyllo, a'u gorthryment, ac a'u defnyddient er eu helw a'u dyrchafiad eu hunain. Anwybodaeth ydyw un o brif achosion yr holl ryfeloedd gwaedlyd, y rhai a barasant y fath ddifrod a galanastra dychrynllyd ar ddynolryw yn mhob oes; priodol y sylwai y bardd Saesonig—

'War is a game, which, were their subjects wise,
Kings would not play at.'

Pan y byddo gwybodaeth yn gyffredinol, ofer fydd ymdrechion y twyllwr, a'r gorthrymwr; daw y pleidiau breiniedig i lawr, a phob dyn a werthfawrogir, ac a gyfrifir, yn wir fawr, nid yn ol lluosogrwydd ei feddiannau bydol, eithr yn ol ei alluoedd a'i nodweddiad fel dyn, a'i wasanaeth i'r byd. Ofer yn bresenol fyddai ymhelaethu a'r fanteision gwybodaeth, a'r bendithion a'i dilynant, y maent yn aneirif. Nid oes dim yn sefyll wrtho ei hun, y mae rhyw gysylltiad, a chydgordiad yn holl ymerodraeth y Goruchaf, yn arddangosiadol o'i ddoethineb anfeidrol ef. Yn gysylltiedig a gwybodaeth y mae rhyddid,—rhyddid crefyddol. Y mae hwn yn ymhelaethu yn feunyddiol; y mae yr anghyfiawnder o nacau yr unrhyw freintiau i bob plaid grefyddol fel ei gilydd, yn dyfod yn fwy amlwg o hyd; ystyrir y deddfau a luniwyd i'r dyben yma

yn warth i'r oes bresenol, a gwneir ymdrechiadau i'w dileu. Y mae miloedd yn ysgwyd ymaith y credoau dynol, a arddodwyd arnynt, ac yn penderfynu o hyn allan yn rhydd i ddilyn argyhoeddiadau eu cydwybodau eu hunain, heb fod yn gyfrifol i neb ond i'w Harglwydd eu hunain. Y mae pleidwyr rhydd-ymofyniad cyson wedi, ac yn lluosogi yn dirfawr yn Mrydain, hyd yn nod yn mhlith eu gwrthwynebwyr. Ar gyfandir Ewrop hefyd y mae miloedd yn ddiweddar wedi taflu ymaith yr iau Rufeinig, ac yn ymarfer eu rhyddid cristionogol. Yn yr Americ eang, a pharthau eraill o'r byd y mae yr un achos yn myned rhagddo yn gyflym.

Rhyddid gwladol; o flaen hwn y gormesdeyrn a'r gorthrymydd a grynant, gwelant fod eu dydd ar ddarfod. Y mae y gaethfasnach anghyfiawn a melltigedig, er bywioced ydyw mewnmanau, wedi ei chondemnio gan y byd gwareiddiedig, a'r gyfundraeth ddidosturi yma a ddymchwelir yn hollol cyn hir. Caethwasanaeth hefyd, yr hwn sydd yr un mor anghyfiawn, a gwrthwynebol i ewyllys Duw, yn llygru ac yn iselhau dynoliaeth: dybenir yntau hefyd. Y mae hwn yn warth a dirmyg neilduol ar America, yr hon a ymffrostia yn ei rhyddid a'i chyfartalrwydd, tra yr un pryd yn caethiwo tair miliwn o fodau dynol!

Ond bydd yn hyfryd gan bob carwr cyfiawnder a rhyddid, glywed fod y gwarth hwn yn cael ei deimlo fwy fwy, a bod ei atgasrwydd yn ychwanegu; megis y sylwyd eisioes y mae carwyr rhyddid yn lluosogi yn feunyddiol yn America, ac ni orphwysant nes ennill a chyhoeddi rhyddid i bell ac i agos, yn enw'r Arglwydd. Y mae genym esiampl nodedig yn ddiweddar mewn cenedl gymydogawl, o oferedd ymdrechion gwrthwynebwyr rhyddid yn y dyddiau hyn, ac o benderfyniad cenedl luosog a chadarn i honi, a mynu eu hiawnderau a'u rhyddid. Parasant i'w gorthrymwyr ffoi, a gwarth ocsol ar eu pennau; a diammeu y bydd effeithiau y chwyldroad rhyfeddol hwn yn gyffredinol, er sicrhau rhyddid a chyfiawnder i'r bobl, a pheri ofn ac arswyd i feddiannu eu gorthrymwyr. Ymddangosodd yn mhob oes ychydig nifer y rhai a garent wirionedd, ac a'u cyhoeddent; ond yn yr amserau hyn y maent yn lluosog mewn cymhariaeth, a phan delo'r lluaws i ystyried, i dderbyn addysg a gwybodaeth, bydd gwirionedd yn fuddugoliaethus ar bob gwrthwynebiad. Y mae prophwydoliaethau datguddiad yn cydfyned ag arwyddion yr amserau, ac yn sicrhau gwasgariad cyffredinol gwybodaeth, 'megis y toa'r dyfroedd y mor.' Y pryd hyny gellir dywedyd 'Ni ddrygant, ac ni ddyfethant' mwy. Gall y Cristion gobeithiol ymgysuro, gan na bydd ei 'lafur yn ofer yn yr Arglwydd;' creda yn Nuw, a chreda yn ei lywodraeth ar bob peth, a'i ragluniaeth dyner, ynghyd a'i fwriadau grasol o barth dynolryw; ac er mor dywyll a gwrthwynebus yr ymddengys llawer o bethau i'n golygon byrion ni, yn bresenol, fe gydweithia'r cyfan yn llaw y Trefnwr mawr, er lles a dedwyddwch ei holl greaduriaid, ynghyd a'i fawr ragorol ogoniant ef. Prysuro wnelo'r amser y 'gwneler ei ewyllys ar y ddaear, megys yn y nef,' ac y dyrchafer ei enw teilwng gan holl drigolion y ddaear,

Llynlleifiad. J. W.

BYR-HANES AM DY CWRDD YR UNODDIAID YN YSTRAD, CEREDIGION.

Adeiladwyd y Ty hwn oddeutu deugain mlynedd yn ol, ar draul y diweddar Mr. David Jenkin Rees, o'r Lloydjack, Ystrad, i'r dyben i ddysgu plant tlodion i ddarllen ac ysgrifenu. Er mai amaethydd oedd y gwr enwog hwn—craffus a llwyddiannus iawn yn ei alwedigaeth—yr oedd yn meddu ar gymmwysderau anghyffredin a sel mawr dros y gwirionedd. Pregethai yn y Ty a adeiladasai ymron ar bob Sabboth, a llafuriai yn ddiwyd i blanu egwyddorion pur yr Efengyl yn nghalonau ei gydgreaduriaid trwy y gymydogaeth. A chan fod ei ddaliadau crefyddol, y pryd hwnnw, yn ddieithr i ym mron pawb o'i gymydogion, cyfarfu â llawer o wrthwynebiad. Ond trwy ei fuchedd hardd a daionus, a'i addysgiadau dwys, bu yn foddion i ennill llawer i roddi clust-ymwrandawiad i'r gwirionedd ac i'w gofleidio.

Ym mhen ychydig o flynyddau gwedi dechreu ei yrfa bregethwrol, gorfu arno ganu yn iach i'r fuchedd hon. Ymadawodd yn llwyr hyderus y cai fedi o ffrwyth 'ei lafur yn yr Arglwydd;' gan ymorfoleddu yn y ffydd a bregethasai i eraill.

Er colli cynghorwr doeth ac ymdrechgar, parhaodd y gwirionedd, yr un, nes ennill llawer o goleddwyr ffyddlon.

Ym mis Awst 1846, terfynodd Lease y Ty dan sylw, ar ymadawiad Priod oedranus y gwr parchus a enwyd. Ar hyn defnyddiodd Perchen sail y ty y cyfleusdra cyntaf a gafodd i ddatgan ei ysbryd erlidgar gan haearu na oddefai efe y cyfryw athrawiaeth i gael ei chynnal ym mhellach ar ei feddiant. Gwedi cau y drws yn erbyn y Gynnulleidfa, y rhai a unasent i gynnyg swm o arian am gael defnyddio y ty, fel o'r blaen, hyd y 29ain o Fis Medi canlynol, yntau a ddangosodd yn amlwg fod arno fwy o syched am arian yr Undodiaid, nag oedd ganddo o anfoddlonrwydd tuag at eu daliadau crefyddol, gan ddywedyd, os byddai iddynt roddi deg o bunnoedd am y ty dros yr amser byr hwnnw, y buasai i oddef iddynt. Ac felly y bu; ond anfonodd am ei ardreth cyn iddo ddod yn ddyledus, a chofiodd am ei gytundeb with dderbyn ei dal. Yn awr gwelodd y gwrandawyr eu

bod gwedi hyderu gormod ar eu cyd-gread-uriaid, ac fod y Gauaf yn agoshau, amser lled anghysurus i fod heb un ty-addoliad. Anfonwyd deisyfiadau taer at wahanol foneddigion o'r gymydogaeth, am gael lle i adeiladu ty-cwrdd newydd, gan ba rai yr oedd cyfleusdra i'w roddi yn agos i'r fan blaenorol. Bu y diweddar T. H. Jones, Ysw. o'r Neuadd-fawr, yn hynod o ymdrechgar o'u plaid, ond etto yn hollol afluyddiannus. Nid yw yr ysgrifenydd yn credu y gall yr Offeiriaid olchi eu dwylo oddiwrth yr ysbryd erlidgar a ddangoswyd ar yr amgylchiad hwn. Trwy ymdrech galed yr enniltwyd y ffafr i gael yr hen dy eilwaith dros flwyddyn o amser. Buwyd yn llafurus iawn drwy ystod y flwyddyn am gael lle i adeiladu yn agos i'r hen fan; ond methwyd yn lan.

Pan oeddynt ynghanol eu gofid, ac ym mron yn anobeithiol, torrodd gwawr brawd-garwch iddynt o bell. Anfonasai Mrs. Walters, Llanfair fawr, ei chais gwresog ât ei mheistr Argl. Carrington. Y boneddwr haelfrydawg hwnnw wedi ei wneuthur yn hysbys o'r amgylchiadau yn y fan a gydsyniodd â'r cais. Anfonodd yn ddioêd ei arolygwyr i nodi allan y fan mwyaf cyfleus ar ei ystad i adeiladu arno. Dewiswyd hanner erw o dir ar fferm Mr. Abel Jones, Rhydygwin, gerllaw i'r ffordd sydd yn arwain o Talsarn i'r Cribyn. Y mae y fan yn agos i ddwy filldir oddiwrth y ty blaenorol. Ei ardreth flynyddol fydd un swllt am y ty a'r fynwent. Nid oedd dim tir yn perthyn i'r hen dy, ond y sail yn brin.

Seiliwyd y ty newydd ar y 5ed dydd o fis Tachwedd diweddaf, a disgwylir y bydd iddo gael ei orphen yn ystod y mis Mehefin dyfodol, pryd gellir ei alw wrth yr enw CAPEL RHYDYGWIN; nid Ysgoldy Ystrad. Y mae y gweinidog, y Parch. Rees Davies, yn y cyfamser yn pregethu mewn ty-fferm o'r enw Tanygraig, gerllaw Ystrad,

Ystrad, AMNON II.

HANESION TRAMOR.

Y CHWILDROAD YN FFRAINGC, 1848.

Y PETH cyntaf a wna darllenwyr y newyddiaduron yn y dyddiau hyn, yw edrych sut mae pethau yn myned ymlaen yn Ffraingc. Digon tebyg mai dyna fel y bydd gyda llawer o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD y mis hwn, yn enwedig y rhai nad ydynt yn darllen y newyddiaduron Saesonaeg, Byddant yn awyddus i wybod rhywbeth am y chwildroad mawr sydd wedi cymeryd lle yn Ffraingc o flaen dim arall. Am y sawl o'n darllenwyr ag sy'n darllen y newyddiaduron Saesonaeg, ni ddisgwyliant hwy gael dim newydd gennym ni mewn ffordd o hanes. Y maent eisioes, ond odid, yn gwybod llawer mwy nag a allwn ni ei osod i lawr o fewn cwmpas Rhifyn. Cadwant hefyd mewn cof, hyderwn, mai y Cymro uniaith yn fwyaf neillduol yr y'm ni yn annerch. Nid ydym yn meddwl y bydd i'n cyhoeddiad fyned i un gym'dogaeth, nac i un ty na chaban, lle na bydd y newydd wedi myned o'i flaen, *fod Brenin-lywodraeth wedi gosod terfyn arni yn Ffraingc.*

Nid oes Frenin ar y Ffrangcod oddiar y 24ain o Chwefror. Ar y dydd hwnw gosodwyd i fynu werin-lywodraeth *(Republic,)* yn Paris, y brif-ddinas. Yn fuan cafodd ei chyhoeddi yn mhob dinas a thref, a chafodd ei derbyn yn ddiwrthwynebiad trwy bob cwrr o'r wlad. Gyda'r cyfnewidiad yn ffurf y llywodraeth, appwyntiwyd yn union wyr cymmeradwy i fod yn Llywodraeth Ddarparawl, *(Provisional Government,)* i weinyddu dros amser fatterion y wladwriaeth, hyd nes bydd i Gyfarfod Cenhedlaethol *(National Assembly,)* i osod pethau mewn trefn boddhaol a sefydlog.

Oddiar hyny y mae y gwyr hyn—rhai o'r enwoccaf o'u cenedl—yn cyflawni eu gwahanol swyddi gyda chryn gymmeradwyaeth; ac hyd yma y mae pob peth wedi myned ymlaen mor dawel ag y gallesid ei ddisgwyl.

Y mae yn anhawdd—y mae yn amhosibl ar hyn o bryd—dirnad maint effeithiau y chwildroad hwn ar Ffraingc ac ar wledydd eraill. Y fath yw sefyllfa berthynasol y wlad, bywiogrwydd, amlder, a gwroldeb ei thrigolion, ynghyd â'r cof am eu gorchestion mewn rhyfel nid llawer iawn o flynyddau yn ol, a hynny ymron drwy bob gwlad yn Ewrop, fel nad peth i'w ddiystyru yw chwildroad yn Ffraingc. Nid ydyw yn bosibl braidd i Ffraingc fod mewn rhyfel ag un wlad, heb gynhyrfu y Cyfandir drwyddo, ac yn neillduol os bydd yn milwrio dan faner gwerin-lywodraeth. Gwiriodd hanes y peth a ddywedodd yr Hen Fardd o Geredigion, yn ei englynion i'r chwildroad cyntaf, (gwel tudal. 96,) mai

'Ofer i filwyr ifaingc
Byth anturio ffrwyno Ffraingc.'

Ond y mae carwyr Rhyddid a Dynoliaeth yn Ffraingc ac allan o Ffraingc yn taer ddymuno ar i'r wlad honno i fod ac i gael bod mewn heddwch. Duw wnel mai felly y byddo!

Yn ddiau mai cyfnod prysur o'r mwyaf yw yr un presenol i'r Ffrangcod ac i'r byd. Gwaith dau ddiwrnod neu dri yn unig oedd y chwildroad hwn, a'i gymmeryd yn ei olwg allanol; ond fe fydd yn waith misoedd o leiaf i osod y wladwriaeth mewn trefn yn gysson ag egwyddorion y sefydliad newydd. Y mae eu blaenoriaid yn ymddangos eu bod yn myned o ddifrif ynghylch eu gorchwyl. Y maent, yn wir, wedi addaw peth mawr iawn, sef, bydd iddynt i ofalu y bydd gwaith ac ymborth i'r bobl weithgar. Y *Morning Chronicle,* y *Times,* a newyddiaduron eraill

a'u beiant am hyn, gan haeru eu bod yn addaw peth ag nad yw yn bosibl iddynt ei gyflawni; ac mai nid pethau i'w penderfynu gan lywodraeth yw *gwaith* i ddynion, a'u huriau, a phrisoedd ymborth, &c., ond pethau i'w gadael iddynt eu hunain, fel y byddo amgylchiadau yn gofyn. Dichon fod hyn yn wir, ac mai dyna y ffordd oreu mewn amser o dawelwch, ond mewn cyfnewidiad mor fawr ac mor ddisymwth a hwn yn Ffraingc, lle mae masnach wedi ei daflu, o anghenrheidrwydd, i raddau mawr o anhrefn, perygl o'r mwyaf fyddai gadael y lluaws o'r werin i fod mewn eisiau gwaith ac ymborth. Ymddengys i ni yn nod o ddoethineb yn gystal ag o ddynoliaeth yn y Llywodraeth Ddarparawl, eu bod yn gofalu cyn belled ag a allont am foddion cynhaliaeth i'r cyffredinbobl mewn amgylchiad o fath hwn. Y peth sydd i'w ofni ar y pen yma yw, y bydd iddynt siommi y bobl trwy fethu cyflawni eu haddewid iddynt, ac y bydd hynny i arwain i derfysg.

Bydd y wlad yn yr wythnosau dyfodol i gael rhoddi ei llais trwy ddewis cynddrychiolwyr i'r Gynnulleidfa Genhedlaethol, (*National Assembly*,) ag sydd i gyfarfod ar yr 20ed o Ebrill, er penderfynu a threfnu cyfreithiau sylfaenol y wlad. Nifer y cynddrychiolwyr fydd 900: un am bob 40 mil o'r trigolion. Pob Ffrangc yn 21 oed, ac wedi byw chwech mis yn y dalaith, ac heb fforffedu ei freiniau dinasol trwy gondemniad llys barn, a fydd yn Etholwr, ac i gael llais yn newisiad holl gynddrychiolwyr y dalaith a fyddo ynddi. Y *dull* o roddi y llais fydd trwy y *ballot*, yn ddirgelaidd; yr *amser* a'r *lle* i wneuthur hyny fydd y 9ed o Ebrill, yn mhrif ddinas pob talaith. Bydd pob Ffrangc 25ain oed, ag nad yw wedi fforffedu ei freiniau dinasol, yn ddewisiadwy i fod yn gynddrychiolwr. Ni chaiff neb ei enwi yn gynddrychiolwr os na fydd wedi cael 2,000 i roddi eu llais drosto. Pob cynddrychiolwr a dderbyn 25 *franc* (rhywbeth yn fwy na phunt,) y dydd tuag at ei draul tra yn cyflawni ei swydd.

Edrychir ymlaen gyda disgwyliadau dwys a phryderus at yr etholiadau dyfodawl a chydgynnulliad mawr y cynddrychiolwyr, ond heb fodd i wybod yn iawn pa beth a ddigwydd. Y mae yn dda genym i weled rhai argoelion da. RHYDDID, CYDFREINEDD, A BRAWDOLIAETH, yw arwydd-air y werinlywodraeth newydd.

Ymddengys fod cydsyniad lled gyffredin ynghylch pa ffurf-lywodraeth sydd i'w sefydlu —ac nad yw gwrthwynebwyr y drefn newydd ond nifer fechan mewn cydmariaeth; neu, o leiaf, eu bod yn gweled yn anghenrheidiol yn awr i weithio yn ddistaw a than gudd. Nid yw Lloegr, na'r teyrnasoedd amgylchynol, ddim wedi dangos un gwrthwynebiad i'r Ffrangcod gael sefydlu llywodraeth y modd a welont eu hunain yn gymmwys. Ffraingc hefyd, (yn ol *manifesto* ei llywodraeth bresenol,) a broffesa ei bod yn chwennych bod mewn heddwch â gwledydd eraill, heb ymyrraeth â threfniadau gwladwriaethol gwahanol i'r eiddynt hwy; ond mai gwae fydd i'r neb a geisia eu rhwystro neu eu hattal yn eu gwaith yn sefydlu eu rhyddid: ac, ym mhellach, y bydd iddi gymeryd plaid pob cenedl wan a fyddo yn ymdrechu dros eu rhyddid yn erbyn eu gormeswyr. Cymmerer hyn fel rhybydd ac fel bygythiad. Fel hyn y mae brenhiniaethau Ewrop yn cael eu dodi ar eu *good behaviour*. Y mae yn debyg fod yr egwyddorion a achosodd y chwildroad hwn yn Ffraingc wedi bod ar waith er ys talm, ac yn bod i raddau mwy neu lai ar waith mewn gwledydd eraill. Eisioes y mae taleithiau Baden, Hesse Cassel, a Nassau, bob yr un, wedi cael chwildroad bach tawel. Hynny o fraint a rhyddid a geisiasasant a ganniattawyd iddynt gan eu llywiawdwyr; ac y mae brenin Prussia yn cymmeryd arno i fod yn gettyn mawr o ddiwygiwr. Y mae Awstria hefyd, yn ol y newyddion diweddaf, ar gynnyg ammodau mwy ffafriol i ryddid i'w deiliaid yn yr Ital, y rhai sydd gryn anesmwyth dan eu hiau.

Dywedir fod gwahanol daleithau Germani yn hiraethu am undeb cenhedlaethol o dan un llywodraeth, trwy gyd-gynnulliad tywysogion a chynddrychiolwyr y bobl yn ninas *Francfort*. Y mae hyd yn oed *Repealers* yr Iwerddon wedi cyfodi etto ar eu traed, ac yn gwaeddi i maes mai yn awr yw'r amser i'r Gwyddelod gael *repeal*. Ac nid oes un amheuaeth nad mai y chwildroad Ffrengig fu'n achos i daro yn ei ben y chwanegiad o ddwy bunt y cant ar yr *Income Tax*. Gwelir fod tymmor prysur o'n blaen, gan nad beth a ddigwydd, Gobeithiwn y bydd i frenhinoedd a'u cynghorwyr, ag sydd a chymmaint ar eu llaw, i ddangos pwyll a doethineb yn y cyfwng hyn, pan y mae cymmaint o'u heisiau; ac y byddant ddoeth mewn pryd, gan gymmeryd rhybydd oddiwrth gwymp Louis Philippe.

Y mae yn haws adrodd y digwyddiadau yn y drefn y cymmerasant le, nag i'w holrain i'w priodol achosion. Nid rhyfedd os yw llawer, neu y rhan fwyaf, sy'n ysgrifenu ac yn llefaru am y chwildroad Ffrengig yn ei gamddeall o ran ei achosion a'i natur. Daeth y peth oddiamgylch mor ddisymwth, a chymmaint tu hwnt i ddisgwyliadau pawb, gan beri y fath gyffro a syndod trwy'r gwledydd, fel nad yw dynion etto wedi gallu hôl eu hunain a barnu yn bwyllog yn ei gylch. Pan edliwyd i Mr. Cobden, yn Nhy y Cyffredin, iddo haeru ychydig o ddyddiau

cyn i'r chwildroad dorri allan nad oedd un eisiau i ymbartoi o achos un rhyfel â Ffraingc —y rhoddai ei air fod y wlad honno yn dawel, ac yn chwennych bod yn dawel ac yn lleddychlon—ei atteb oedd, 'Pwy debygasai y buasai Louis Philippe a M. Guizot mor ynfyd a gwneud yr hyn a wnaethant, a gyrru y Parisiaid i enbydrwydd.?' Dywedodd Syr Robert Peel, wythnos neu ddwy yn ol, 'Fod Ffraingc etto mewn gwewyr, ac mron esgor ar chwildroad mawr arall.' Dyn call yw Syr Robert, mae'n ddiau; ond fe ddarfu i ddigwyddiadau y mis diweddaf beri cyfnewidiad yn ei olygiadau ef, fel yn ngolygiadau eraill o ddoethion y byd, mewn perthynas i Ffraingc a'r Ffrangcod. Pwy a wyr na fydd iddo weled achos i newid ei feddwl etto cyn diwedd mis neu ddau? Er fod y wawr wedi torri allan gyda chryn dymestl, er dihuno a brawychu y rhai oedd yn heppian ac yn cyscu mewn llonyddwch, nid oes un argoel fod egwyddorion mawr y greadigaeth ar ballu i blant dynion; ac er fod rhai cymylau tywyll yn gorphwys ar yr awyrgylch, ac 'nas gwyddom beth ail ddigwydd mewn diwrnod,' hyderwn yn gryf yn Nuw a Thad holl genedlaethau y ddacar: ar ol rhyw ennyd o ddisgwyliad pryderus yr iawnheir y cam, y symmudir y rhwystrau, ac yr â y dymmestl heibio, gan adael ar ei hol hirddydd o haf—o wellhad a llwyddiant i Ffraingc, ac i'r cenhedloedd oll.

CWYMP LOUIS PHILIPPE A THEULU'R BOURBONIAID.

Yn oedd Diwygiad-wledd fawr i gael ei chynnal yn Paris, ar ddydd Mawrth, y 22ain o Chwefror. Y nos o'r blaen anfonodd M. Guizot hysbysiad trwy'r ddinas i wahardd y cyfarfod. Boreu dydd Mawrth gwelwyd fod mintai gref o filwyr wedi eu gosod mewn meddiant o'r lle y bwriedid cynnal y wledd ynddo. Daeth tyrfa fawr ynghyd,—dywedir 30 mil o bobl,—y rhai a ymddangosent yn siomedig ac yn ddigus. Y rhai hyn trwy gwrs y dydd a geddent o amgylch y strydoedd yn lled gyffrous, ond heb wneuthur un terfysg neillduol. Y dydd hwn cedwid y milwyr a'r Gwarchawd Cenhedlaethol (*National Guard,*) i maes o'r golwg. Y prydnawn dygodd M. Odillon Barrot, yn *Chamber* y *Deputies*, gyhuddiad o fradwriaeth yn erbyn gweinidogion y brenin. Cafodd y cyhuddiad ar y pryd ei ddodi o'r nailldu. Yn ystod y nos honno, ac yng nghwrs y dydd canlynol (Mercher,) yn raddol aeth y torfeydd yn fwyfwy, gan ychwanegu at y cyffro trwy'r ddinas. Nifer fawr oeddent wedi cymmeryd arfau, a gwnaethant *barricades* mewn gwahanol fanau trwy ddymchwelyd ceirt, cerbydau, coedydd, &c., &c., yng ngwddwg rhai o'r heolydd. Gwnaeth y bobl hyn yn ol eu harfer, ac i'r dyben o amddiffyn eu hunain yn erbyn ymosodiadau y milwyr. Y Gwarchawd Dinasol (*Municipal Guard,*) a dyccient weithiau i attal neu rwystro eu gwaith, a gyrru'r bobl ar ffo; prydiau eraill methent wneuthur hynny. Collwyd rhai bywydau yn yr ymladdau o hirbell rhwng y bobl a'r milwyr.

Ond cyfarfu *Chamber* y *Deputies* dydd Mercher, ac yn y cyfarfod hwnnw roddodd Guizot a'r gweinidogion eraill i fynu eu swyddi. Tebygwyd dros ennyd y buasai hyn i roddi tawelwch; ond digwyddodd tro anffortunus mewn rhan arall o'r ddinas i siommi y disgwyliad hwn.

Aethai torf o ddynion ar ol bod mewn llefydd eraill, i'r Swyddfa Dramor, (*Foreign Office,*) i ymofyn am arfau. Naccawyd eu cais gan y milwyr oedd wedi eu gosod yno, ac ar hynny un o flaenoriaid y dorf a saethodd eu *Colonel* yn farw: ac yn y man saethodd y milwyr at y dyrfa. Lladdwyd pump, a chlwyfwyd amryw eraill. Gwelodd y Gwarchawd Cenhedlaethol (*National Guard,*) yn anghenrheidiol i gymmeryd y milwyr hyn o dan eu nodded, er eu gwaredu rhag dialedd y bobl. Ond y bobl a osodasant y cyrph meirwon mewn cart, ac yn y modd hynny cludasant hwy trwy strydoedd y ddinas, gan waeddi 'Dial,' ac o hyn allan aeth y peth yn waeth gwaeth.

Boreu dranoeth yr oedd hysbysiad wedi ei daenu trwy yr holl ddinas, i'r perwyl hyn, sef, bod chwildroad mawr wedi cymmeryd lle: bod meddwl y bobl mewn perthynas i'r llywodraeth wedi ei amlygu yn ddigon eglur y ddau ddydd blaenorol: bod 80 mil o'r Gwarchawd Cenhedlaethol (*National Guard*) o dan eu baner, a bod mwy na 100 mil o'r dinaswyr dan arfau. Gelwid arnynt i ffurfio eu hunain yn finteiodd, ac i uno a'r Gwarchawd Cenhedlaethol i gadw ffyrdd y ddinas yn agored, ac i gynnal rheolaeth a threfn hyd nes byddai i awdurdodau y wlad gael eu gosod ar eu seiliau naturiol, ac hyd nes byddai i'r gwyr ag oeddent yn barod i gymmeryd eu hachos yn llaw wedi cael eu gosod yn eu swyddi; ac, er pob dim, ar iddynt ochelyd ymraniadau. Yr hysbysiad hwn a arwyddwyd gan y 'Llywodraeth Ddarparawl,' Arago, Dupont, (De L'Eure,) Lamartine, Lodru Rollin, Marie, Marrast, Louis Blanc, F. Flocon, Albert, (Celfyddydwr). Sylwer mai y gwyr hyn, ynghyd ag eraill o'r un blaid, a appwyntwyd cyn diwedd y dydd, ac sydd yn awr yn cyflawni eu swydd fel Llywodraeth Ddarparawl.

Yn y cyfamser, ar gais y brenin, cymmerodd Count Mole yn llaw y gorchwyl o ffurfio gweinidogaeth newydd, ond methodd yn lân. Wedi hynny rhoddwyd y cynnyg i

MM. Thiers ac Odillon Barrot, (diwygwyr enwog, ond *cymmedrol*,) ac yn ddioed cymmerasant y swydd arnynt. Erbyn 6 o'r gloch, boreu dydd Iau, yr oedd y newydd o hyn wedi ei daenu trwy holl lengoedd y Gwarchawd Cenhedlaethol, ac am 8 o'r gloch gwnaeth y gweinidogion newydd eu hymddangosiad yn y strydoedd, gan geisio annerch y bobl a'u tawelu; ond ni roddid un gwrandawiad iddynt. Ymlaen yr aethid â gwaith y *barricades*. Tua hanner dydd, pan y dodwyd yr amgylchiadau hyn o flaen y brenin, yn y fan efe a *abdicatodd*, neu roddodd i fynu ei frenhiniaeth i'w *wyr*, y Count de Paris; a'i fam, y Dutchess de Orleans, i fod yn *Regent*. Darfu i hyn dawelu yr ystorm dros ryw ennyd yn rhai parthau o'r ddinas. Y peth a wnaeth ddiwedd buan ar y tawelwch yma oedd brwydr rhwng y bobl a'r milwyr yn y *Palais Royal*, y rhai a omeddasant roddi i fynu eu harfau a moddion rhyfel i'r dorf, ac a saethasant at y bobl. Ond gortrechwyd y milwyr. Bryd hyn aeth allan orchymmyn oddiwrth y gweinidogion i'r holl filwyr, i beidio a gwrthsefyll y bobl ymhellach.

Wedi distrywio a llosgi dodrefn y *Palais Royal*, cychwynodd y dorf tua'r *Tuilleries*, preswylfod y brenin. Ychydig bach o amser cyn iddynt ddyfod yno yr oedd y milwyr, (dros 30 mil,) a osodid yno wedi cael eu symmud o'r lle. Pan daeth y dorf i'r fan rhyfeddu a wnaethant wrth weled fod y *Tuilleries* yn agored iddynt, a'i breswylwyr wedi ymadael. Briwiwyd y ffenestri, a thaflwyd allan a distrywiwyd y dodrefn gwerthfawr, a thriniwyd y deyrn-gadair gyda dirmyg neillduol, ac wedi'n dygwyd hi ar ysgwyddau dynion mewn ffordd o fuddugoliaeth a gwawd trwy strydoedd y ddinas.

Ar yr un amser yr oedd *Chamber* y *Deputies* yn eistedd, a daeth i mewn attynt y Duchess de Orleans a'i dau fab ieuanc, ynghyd a'u hewyrthod, y Duc de Nemours a'r Duc de Montpensier, i weled y derbyniad a'r cymmeradwyad o weithred y brenin yn rhoddi i fynu ei frenhiniaeth i'w wyr, y Count de Paris. Ar ol ychydig o areithio a dadleu, rhuthrodd torf arfog i mewn i'r Chamber, gan beri cryn derfysg a braw. Cynnygodd M. Odillon Barrot i'r Count de Paris i fod yn Frenin, a'i fam yn *Regent*. Gwrthodwyd hynny gan y dorf. Yr oedd yn rhy ddiweddar, meddent; ac ni wnai dim yn awr y tro ond gwerin-lywodraeth. Gyda'r afeolraeth canlynol i hyn ciliodd y teulu brenhinol fel y gallent allan o'r Chamber. Ciliodd hefyd y *Deputies* oll, oddieithr y blaid neu y ddosparth honno o honynt ag sydd yn awr yn llywodraethu yn Ffraingc, ac wedi'n cyhoeddwyd fod Ffraingc yn werin-lywodraeth, ac appwyntiwyd swyddegion y Llywodraeth Ddarparawl.

Wedi hynny, mewn ufudd-dod i lais y dorf, aethpwyd yn un corff tua'r *Hotel de Ville*, i osod y Llywodraeth newydd yn eu swydd a'u hawdurdod, lle y maent wedi bod hyd yma yn cyflawni eu gwahanol swyddi pwysfawr a pherylgus. Boreu dranoeth yr oedd y dymestl wedi myned heibio, ac i ymddangosiad yr oedd pob peth yn dawel yn Paris.

Y mae Louis Philippe a'i deulu yn awr yn byw yn Claremont, gerllaw Llundain.

AMERICA.—Y mae y newyddion diweddaf yn rhoddi ar ddeall i ni fod heddwch wedi cael, neu ar gael ei wneud rhwng Mexico a'r Unol Daleithau.

Y MAE y farchnad arianol yn Llundain yn hytrach ar wellhad.—Y mae y cyfarfodydd afreolus yn Glasgow, Llundain, a Manchester, wedi ymron myned yn anghof. Nid ymddengys fod un diben iddynt, ond yn unig eu bod yn dangos effaeth y cyffroad cyffredinol ar ddynion ag sydd mewn llawer o eisieu ac mewn llawer o anwybodaeth. Y mae lle i obeithio, os bydd y bobl weithgar yn dawel, fod gwell amserau ar wawrio arnynt.—Y mae y newyddion o'r Cyfandir ar y cyfan yn ffafriol. Y mae ysbryd y diwygiad, fel y mae ar ei daith trwy'r gwledydd, hyd yn hyn wedi cael derbyniad tawel, os nad groesawus, gan dywysogion a phennaethiaid.—O Ffraingc y mae newyddion prudd yn dyfod i'n clustiau, bod gweithwyr a chelfyddydwyr yn cael eu troi i maes o waith, a dieithriaid a boneddigion a gwyr arianog yn cilio i maes o'r wlad, rhag ofn tebygid.—Y mae cyffwr arianol Ffraingc yn isel ac afreolus dros ben, ond nid yn gwbl o achos y chwildroad, ond mewn canlyniad i'r afreolaeth a gwastraff ag oedd yn myned yn mlaen dan deirnasiad Louis Philippe. — Gobeithiasom y gallem roddi y newyddion da fod gwaith Dowlais i fyned ymlaen fel o'r blaen trwy fod Syr J. Guest a'r Ardalydd Bute wedi dyfod i gyttundeb. Drwg iawn gennym ddywedyd yn annysgwyliadwy farw o'r Ardalydd anrhydeddus a pharchus, nos Sadwrn, 18ed o Chwefror. Ond er lles Merthyr, ac er lles y wlad, gobeithiwn na fydd i'r digwyddiad galarus i fod yn rhwystr i waith Dowlais i fyned ymlaen.

MARWOLAETH.

Ar y 13eg o fis Ionawr diweddaf, bu farw Benjamin Isaac, Mammole, Bedwellty, Mynwy, yn 87 mlwydd oed, brawd y diweddar Barch. Jacob Isaac, Molton, Hampsted. Gwelodd yr ymadawedig lawer o dywydd garw ar grefydd, oherwydd ei ddaliadau crefyddol, Bu yn aelod am hir flynyddau yn Nghraigybargod, gyda'r General Baptists: ond amryw flynyddau yn ol cafodd Benjamin achos i wahaniaethu

oddiwrth ei frodyr crefyddol, yn ei farn am berson Crist, &c. ac ymneilldaodd oddiwrth yr ymneilldaawyr hynn, a chododd *license* ar y ty a anneddai ynddo; lle y cynnelid addoliad bob mis am amryw o flynyddau. Y mae yno yn awr hen gadair, a'i chefn wedi ei ffurffo i fod yn fath o bwlpud, lle y darfu i ysgrifenydd y Cofiant byrr hwnn lawer gwaith gael yr hyfrydwch o annerch cynnulleidfa fechan, ond megis dau neu dri, wedi dyfod at eu gilydd i addoli Duw yn ol eu cydwybodau eu hunain. Yr oedd Benjamin yn ddyn hynod o dawel a diddrwg. Ymblesserai i glywed gair Duw yn cael ei ddarllen iddo, pan nad oedd cyfleusdra yn rhoi iddo gael addoliad cyhoeddus yn el dy. Gobeithiaf y gwna ei deulu gyfodi i fynu faner eu tad a sefyll yn wrol gyda'r gorchwyl mwyaf gogoneddus o bob peth.

BARDDONIAETH.

EMYN GWAWR BORE RHYDD-DID.

Mae gwawr
Dydd ein rhyddhad yn deffro'n awr,
Disgleirdeb y gwirionedd mawr:
O! gwel y bore'n deg ei dardd,
Mae'n gwenu ar hyd y bryniau draw;
Mae'r haul gerllaw a'i dywyn hardd.

Ti sydd!
Gan fod temhestlau'n dechreu'r dydd
Mewn ofnau'n ffoi'n rhy wan dy ffydd:
Na saf yn ol, ond dere 'n nes;
Cai weled haf yn agos iawn,
A'i wynfyd llawn, a'i dawel des.

Mae'r gwir,
Ar ol marwoldeb gauaf hir,
A'i hadau hardd ar hyd y tir;
Fel Eden gu'n golygu'n lan!
O! bydded llais trigolion byd
Yn fawl i gyd a nefol gân.

Ior Nef!
Bydd e'n waredwr a'i law gref,
A than ein llwyth fe wrendy'n llef:
Fe rwyma'r traws—fe dyrr ei gledd:
Mae'n Geidwad nerthol i'n rhyddhau,
Yn agoshau â neges hedd.

Er cyd
Yw braich gorthrymder yn y byd,
A rhwysgo anwiredd gwael ei fryd;
Maent ar eu cyrch i ddyfnder côll;
Fel nos, yn ddim o flaen y gwawl,
O flaen ein Tawl, diflanant ôll.

Pob twyn,
Sy'n clywed llais y ddurtur fwyn:
Mae cân llawenydd ym mhob llwyn;
O! cwyn dy galon, ti sydd wan;
Er draig a'i sorr, ar drwg y sydd,
I'n dwyn yn rhydd, mae Duw o'n rhan.

Ti'n Duw!
Ior! a fedd oll, mor rhyfedd yw
Dy ddoniol rad i ddynol ryw!
Rhoddaist i ni'r goleuni glwys,
O eigion rhwym a'n dwg yn rhydd,
I oleu'r dydd, o alar dwys.

Iolo Morganwg, a'i cant

Y CYFAN ER DAIONI

Tôn—*'Highland Mary'*

Pan bo tywyllwch yn ein toi,
Pan cawn ein cloi gan dristyd,
Pan chwyrngroch rua ar bob tu
Dymestloedd duon adfyd;
Ystyriwn oll yn ddwys pryd hyn
Mai'n Tad sydd yn rheoli,
Ac yna, gwn, y try'n y man
Y cyfan er daioni.

Anhyfryd siomiant, a phob loes,
Pob croes ac erchyll deimlad,
Pob poenau gawn, y'nt yn ddiwad
Yn fflangell Tadol gariad.
Pan gwyrom oddiar lwybrau'r iawn,
Yn union cawn ein cospi;
A'n cosp, pa un ai byr ai hir,
A dry yn Wir Ddaioni.

Anfeidrol fawr a doeth yw'n Tad—
Yn for o gariad tyner;
Ni fu, nid oes, ac fyth ni ddaw,
O'i ddwyfol law ond iawnder:
A chan nad oes trwy'r dda'r a'r nef
A'i lluddias Ef'n ei amcan,
Beth bynnag rydd i ddynol-ryw
Daioni yw y cyfan.

Aberdar. Gwenynen Frytanaidd

ENGLYN I LAWN LLOER.

Lloer Llawn, yn radlawn a rydd— wawr wiwlan,
Er hwylio nos deithydd;
Rhydd o'r nen trwy ein glennydd
Oleu o'r De', ail i'r dydd.

Aberdâr. Gwenynen Frytanaidd.

ENGLYN.

A GYFANSODDWYD GWEDI CLYWED ADRODD YR UN UCHOD.

Y Lloer fwyn, hi gwyn ar gynnydd, a'i hagwedd,
Yn hygar i'n meusydd;
O'r nef wén yn ysplennydd
Goleuni'n rhad drwy'n glyn rhydd.

Aberdâr. Llwydyn y Felin.

Caerfyrddin: argraffwyd gan J. T. Jones, yn ei Argraff-dy cyffredinol, yn yr Heol-Las, Plwyf Sant Pedr. Ebrill, 1848.

YR

YMOFYNYDD.

Rhyddid.—Gwirionedd.—Cariad.

RHIF. 9.] MAI, 1848. [CYF. I.

Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

CYNNWYSIAD.

	Tudal.
Copernicus	193
Yr Aberthau Iuddewig	196
Pechod Gwreiddiol	199
Sylw ar Ofynion Undodwr	203
Gwythienau Glo	204
Ymgyfarfod rhwng Charles II. a William Penn	206
Tystiolaeth llyfr natur am Dduw	207
Vicar Aberdar a'r Plwyfolion	209
Philosophyddiaeth	211
Dwfr	212
Hanesion Cartrefol a Thramor	213
Marwolaeth	215
Dychymyg	215
Atteb i Ddychymyg	215
Annerchiad i Ddyn Celwyddog	215
Pennillion	216
Marchnadoedd	216

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD GAN JOSIAH THOMAS JONES.

PRIS TAIR CEINIOG.

YR YMOFYYNYDD.

Nid ydym yn attebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr.—GOL.

'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.'—PAUL.

COPERNICUS.

NICHOLAS COPERNICUS, neu'n hytrach Copernick, y seryddwr enwog, a anwyd yn Thorn, yn Prussia, yn agos i'r *Old Gate*, ar y 19eg o Chwefror, 1473, mewn ty oedd ar ei draed yn y flwyddyn 1797, ac a ddangosid i ddieithriaid fel cywreinrwydd mwyaf y dref. Meddyg oedd ei dad; cyfodwyd Lucas Walzelrodt, ewythr i Copernicus, brawd ei fam, i urddas esgob Ermeland rai blynyddau cyn geni Copernicus.

Derbyniodd elfenau dysgeidiaeth yn ysgol ramadegol ei dref anedigol; oddiyno anfonwyd ef i Cracow, i ddysgu physygwriaeth, lle y cafodd y gradd o M.D. Ond ni arferodd physygwriaeth, er y gwnai gyda phob parodrwydd roddi ei gynghor a'i gyffeiri i'w gyfeillion a ymgynghorent ag ef, heb un tal. *Mathematics* oedd testun mwyaf hoff ei fyfyrdod, ac yr oedd yn cael hyfrydwch mawr mewn trem-ddrych (*perspective*), yr hyn a'i tueddodd i ddysgu'r gelfyddyd o baentio, yn yr hon y dywedir ei fod yn rhagori. O'r amser cyntaf y clywodd wersi Brudzevius, yn Cracow, ar y celfyddydau, cynneuwyd ynddo y fath awydd glodwiw i efelychu y ddau rifyddwr mwyaf yn yr oes, sef George Purbach, o Awstria, a John Regiomontanus, o Königsberg, fel na orphwysodd nes enwogi ei hunan. Er cyflawni yr amcan ardderchog hwn, aeth i Italy, lle y bu ar y cyntaf yn ddysgybl, ond ymhen ychydig wedi hyn, yn gyfaill a chydymaith, yn gystadl a chynnorthwywr, Dominicus Maria, o Ferrara, yr hwn oedd ar yr amser hynny yn dysgu *Mathematics* yn Bologna, tyb yr hwn ynghylch anwadalwch pegynau'r ddaear, trwy gyffroi sylw cyffredin, roddodd i Copernicus y drych-feddyliau cyntaf am symmudiadau'r ddaear.

Aeth o Bologna i ddysgu *Mathematics* yn Rhufain, lle y gwelodd ddiffyg ar y lleuad, yn y flwyddyn 1500, a'r fath oedd ei hynodrwydd oedd bryd hyn yn dechreu gwawrio, fel y darfu i offeiriaid Rhufain, ar ei ddychweliad o Prussia, i ofyn ei gynghor ynghylch diwygio'r *calendar*. Yn y cyfamser gwnaeth ei ewythr, esgob Ermeland, ef yn ganonwr senedd eglwys gadeiriawl Frauenburg, ac yr oedd tref Thorn wedi ei enwi ef yn arch-ddiacon eglwys St. Ioan; er hyny anfynych y preswyliai yn ei dref anedigol, eithr gwnaeth Frauenburg ei brif breswylfod. Yr oedd yn glynu yn selog wrth byngciau ei eglwys, a chyflawnai ddyledswyddau ei swydd offeiriadol yn ofalus neillduol. Ni chafodd y Diwygiad a dorrodd allan yn ei amser ef fawr effaeth ar ei syniadau crefyddol; llwybr arall oedd wedi ei dori allan

i'w feddwl ef dramwy ynddo. Tynnu lluniau, tremddrych, paentio, a gwneuthur offer celfyddydawl, oedd yn llanw ei odfeyon ef; hyn, ynghyd â gwneuthur dwfr-lwybrau, (*aqueducts*,) a'i alwad reolaidd, a gymmerai i fynu ei holl amser. Y mae y dwfr-lwybr sydd yn cludo dwfr at felin Graudentz wedi ei gadw yn gyfan; nid oes dim yn aros yn awr o'r dwfr-lwybr a ddiwallai y canonwyr a breswylient ar fryn Frauenburg, ond y twr ar lan y Passarge, i ben yr hwn y cyfododd ddwfr yr afon, ac ar fur y twr hwn y mae y llinellau canlynol:—

Hic patiuntur aquæ sursum properare coactæ,
Ne careat sitiens incola montis ope,
Quod natura negat tribuit Copernicus arte,
Unum pro cunctis Fama loquatur opus.

Brysiwch ddyfroedd, deweh i fynu
I ben y bryn, 'rym ni'n sychedu;
I'r lan yma rhaid i'ch gyrchu,
Bodd neu anfodd, a'ch cynnorthwy:
'Rhyn oedd nattur swrth yn ommedd,
Copernic roddodd hwn o'r diwedd;
Ar edyn clod trwy froydd amser,
Aed un weithred yn lle llawer.

Pa bryd bynnag y byddai'r esgob yn digwydd bod yn absennol, yr oedd gofal yr esgobaeth yn cael ei ymddiried i Copernicus: ac ar ol marwolaeth dau esgob, cafodd ei bennodi yn *Vicar General* yn y cyfamser. Anfonwyd ef hefyd yn fynych yn gennad i'r eisteddfodau taleithiol. Ni allasai dim, modd bynag, ei droi ef oddiwrth ei brif amcan. Gwnaeth ddefnydd o'i wybodaeth helaeth mewn *mathematics* i ddiwigio seryddiaeth. *Garret*, ei dy yn Frauenburg, a chloch-dy yr eglwys gadeiriawl, oeddent ei ddisgwylfannau, i edrych a sylwi ar y ser, ac y mae'r agoriadau a wnaeth ym muriau ei dy, er mwyn gweled y ser yn croesi'r *meridian*, i'w gweled etto. Yr oedd y *telescope* heb gael ei ddyfeisio bryd hyn, ac nid oedd gan Copernicus namyn dau offeryn o bren, wedi eu gwneud yn drwsel iawn, a'r llinellau arnynt wedi eu gwneuthur ag ingc. Yr oedd Epycycles Ptolemy yn peri dyryswch iddo, ond yr oedd y dyb mai'r ddaear oedd canolbwynt digyffro'r bydyssawd yn cael ei derbyn yn gyffredin, a chwedi cael ei derbyn gan Plato ac Aristotle, a ystyrid yn gymaint eu hawdurdod ymron a'r Bibl; a chadarnhaid y dyb yma gan orchymyn Joshua i'r haul a'r lleuad, ac felly anhawdd iawn oedd cael digon o wrolder i ddywedyd dim a fyddai yn ei chroesi. Byddai ymosod ar y dyb hon yn gwneuthur dyn yn agored i gael ei gyhuddo o heresi, gair ag oedd yn feichiog o'r canlyniadau mwyaf brawychus; ac nid dewrder cyffredin oedd yn ofynol i gyhoeddi tyb am yr hon y dioddefodd Galileo gant o flynyddau ar ol hyn.

Yn y cyfyngder hwn chwiliodd Copernicus wersi hynafiaeth yn ddyfal a diwyd, a chafodd fod yr Aiphtiaid yn dysgu fod Mercher a Gwener yn troi oddiamgylch yr haul; fod Apolonius yn priodoli yr un peth i Mawrth, Iau, a Sadwrn; fod Pythagoras, yn ol tystiolaeth ei ddysgyblion, Nicetus a Heraclides, yn haeru fod y ddaear yn troi ar ei phegynau; ac fod Aristarchus a Philolaus yn myned yn mhellach fyth, ac yn dal fod y ddaear nid yn unig yn troi ar ei phegynau, ond ei bod hefyd yn troi oddiamgylch yr haul mewn deuddeg mis.

Ar y seiliau hyn cyfododd Copernicus ei adeiladaeth, a thrwy fyfyrdod dwys a diflin cafodd y dystiolaeth rifyddol fwyaf cywir ei bod yn iawn. Yn ol ei *system* ef, yr haul yw canol-bwynt y bydyssawd, ac y mae'r planedau,

yn eu teithi oddiamgylch iddo, yn desgrifio cylchoedd hir-grwn yn ol eu maintioli; Mercher a gyflawna ei thro oddiamgylch yr haul mewn tri mis, Gwener mewn wyth, y Ddaear mewn deuddeg, ac ar ei phegynau mewn 24 awr; mai seren asgordd (*satellite*,) yw'r llenad, yn troi oddiamgylch y ddaear dair-gwaith-ar-ddeg mewn blwyddyn; fod Mawrth ddwy flynedd, Iau ymron deuddeg, a Sadwrn yn agos i ddeg-ar-hugain o flynyddau yn cyflawni eu cylchdroadau oddiamgylch yr haul.

Yn y flwyddyn 1530 y gorphenodd Copernicus ei *system*, yr hon a ddechreuodd tua'r flwyddyn 1507; ond nid oedd etto wedi baeddio ei gosod o flaen y byd dysgedig, pan y darfu i'r son am dani ddyfod i glustiau esgob Capoua, Cardinal Nicholas Schonberg, yr hwn yn 1534, mewn llythyr sydd yn adlewyrchu clod mawr i'w syniadau, a annogodd Copernicus i gyhoeddi ei *system* newydd. Dynion mawrion eraill, yn enwedig Tindemann Giese, esgob Culm, a'i hannogasant i wneuthur yr un peth. Ond y fath oedd ei hunan-ymwadiad, a'i feddwl gostyngedig am dano ei hun, fel na wrandawodd ar eu taer ymbiliau. O'r diwedd darfu i Rheticus, *professor mathematics* yn Wittemberg, yn ei awydd am ddysgeidiaeth, roddi i fynu ei swydd ac ymweled â Copernicus yn y flwyddyn 1539. I hwn yr ymddiriedodd Copernicus ei waith o'r diwedd, yr hwn a argraphwyd yn Marienburg, yn y flwyddyn 1543, ar draul Cardinal Schonberg, dan y teitl, 'Nicholai Copernici de Revolutionibus Orbium Cælestium, Libri VI.' Hynny yw, Chwech Llyfr Nicholas Copernicus ar Gylch-droadau y Cyrph Wybrenol. Ond ni chaniataodd Rhagluniaeth einioes i Copernicus i ddarllen ei waith wedi ei argraphu, oblegid ni ddarfu i goppi o hono gael ei ddwyn iddo ond ychydig oriau cyn ei farwolaeth; a phan ei dygwyd atto ni wnaeth ddim sylw o'r hyn oedd wedi bod yn destun pennaf ei fyfyrdod drwy ei fywyd; yr oedd cylch ei fywyd wedi dirwyn i ben, er nad oedd cylch ei enwogrwydd ond megys dechreu ymddangos. Bu farw ar yr 22ain o Fai, 1543, dri mis a thri diwrnod ar ol cyrraedd ei 71 mlwydd oed. Claddwyd ef, yn eithaf tebyg, wrth draed yr allor, lle yr arferai ddywedyd yr offeren; oblegid parodd Cromerus, esgob Ermeland, i'r llinellau canlynol gael eu gosod ar ei gareg-fedd ef, ymhen 38 mlynedd ar ol ei farwolaeth:—

D. O. M.
R. D. Nicolai Copernico Torunensi
Artium et Medicinæ Doctori, Canonico Varmiensi,
Præstanti Astrologo et ejus Disciplinæ instauratori,
Martinus Cromerus, Episcopus Varmiensis,
Honoris et ad Posteritatem Memoriæ causa posuit,
MDLXXXI.

D. O. M.*
I'r Parch. Nicholas Copernicus, o Thorn,
Doctor y Celfyddydau a Physigwriaeth, Canon Ermeland,
Seryddwr enwog, ac adnewyddwr o'i gwybodaeth,
Martin Cromerus, Esgob Ermeland,
A'i gosododd er mwyn anrhydedd a choffadwriaeth
I'r oes ddyfodol.
1581.

Y mae eraill o'r farn i Copernicus, ar ei gais ei hun am gael gorphwys gyda'i deidiau, gael ei gladdu yn Thorn, yn eglwys St. Ioan, lle y mae

* Gadewais y llythyrenau uchod heb roddi eu harwyddocad, am nad wyf yn cael fy moddloni fy mod wedi ei gael allan. Gallant sefyll am *Dei Ope Monumentum*—Cofadail trwy Ddduw.

darlun o hono yn ei wisg ganonaidd, ar ei liniau o flaen y groes, a *globe* wrth ei ochr, a'r llinellau canlynol arni :—

Non parem Pauli gratiam requiro,
Veniam Patri (O Petri ?) neque posco, sed quam
In crucis ligno dederas, sedulus oro.

Nicolai Copernico, Thorniensi, absolutæ subtilitatis mathematico, ne tanti viri, apud exteros, celeber, in sua patria periret memoria hoc monumentum positum. Mort. Varmiæ in suo Canonicatu, anno 1543, die 4, ætatis lxxiii.

*'Run gras a Phaul nid wyf yn geisio,
Na'r ffafr a gafodd Pedr i'w eiddo,
I ofyn ffafr i'r Tad, dwy'n baeddio;
Ond yr hyn a ro'est i'r lleidr
Ar y groes, wy'n geisio'n brysur.

Y gofadail hon a gyfodwyd i Nicholas Copernicus, *mathematician* o'r treiddgarwch mwyaf, fel na fyddai i goffadwriaeth dyn mor fawr, enwog ymblith dieithriaid, ddiflanu yn ei wlad ei hun. Bu farw yn Frauenburg, yn ei gannoniaeth ei hun, yn y flwyddyn 1543, 4ydd dydd, 73 oed.

Canad ble y claddwyd Copernicus, y mae'n sicr mai efe osododd sail i'r gyfundraith a gadarnhawyd wedi hynny trwy resymau nerthol gan Kelper, Galileo a Newton, yn yr oesoedd canlynol. Ni chafodd ei *system* ef fawr gwrthwynebiad ar y cyntaf, ond i'r gradd ag y daethpwyd i wybod am dani y cynhyddod ei gwrthwynebwyr hefyd. Dyddiau'r *faggot a'r stake* oedd yr amser hwnnw, y rhai a wnaent fyrr waith ar y rhai a faeddient feddwl drostynt eu hunain, ac er i awdwr y *system* hon, ynghyd â'i gefnogwyr, ddianc rhag saethau rhagfarn a fflamiau cynddaredd, nid felly ei ganlynwyr yn y ganrif a ganlynodd ; eithr cawsant eu herlid gyda phob sel a chreulondeb a allasai penboethni ac anwybodaeth eu dyfeisio ; ond er gwaethaf eu holl gynddaredd, VERITAS *vincit omnia*, y gwirionedd a lwyddodd, ac efe a orchfyga bob peth, ar dir crefydd yn gystadl ag athroniaeth.—*Dr. Rees's Cyc., Penny Cyc., Chambers's Miscellany,*

AMICUS.

YR ABERTHAU IUDDEWIG.

Parhad o tu dalen 174.

MR. YMOFYNYDD.—Dygir yn erbyn eich Cyhoeddiad Misol yr un cyhuddiad ag a ddygwyd lawer gwaith yn erbyn y 'sect y dywedir ym mhob man yn ei herbyn,' sef ei fod yn tynu i lawr hen adeiladau ; ond nad yw ddim yn gwneyd rhai newydd yn eu lle. Gellir addef yn rhwydd fod peth gwir yn y cyhuddiad hwn, ond nid cymaint ag a allai pob carwr gwirionedd ddymuno. Nid eisiau adeiladu sydd yn awr ond eisiau tynu i lawr. Y mae'r hyn oedd yn eisiau ei adeiladu wedi ei wneuthur gan y Pen Saer ei hun, sef Crist. Ond y drwg yw fod Gaugristiaeth hefyd wedi bod with yr un gwaith, ac wedi bod mor ddiwyd a llwyddiannus nes yw ei hadeilad, fel rhyw bentwr mawr, yn cuddio adeilad Crist yn lan o'r golwg. Os yw'r YMOFYNYDD, gan hynny, yn tynu i lawr, tynu y mae ef i lawr waith Gaugristiaeth, ac nid adeilad Crist : os na wnaiff ddinoethi a thynu i lawr y gau-athrawiaethau a ddysgir yn enw'r Iachawdwr, y mae'n well i'r YMOFYNYDD farw na byw. Nid yw ef etto ddim wedi gwneyd nemawr at a wna, os y caiff fywyd ac iechyd, a chyfansoddiad cryf o rau corph a meddwl i lafurio. Atgyweiried ac atteged pleidwyr gau-gristiaeth faint a fynnont

ar eu muriau agenog, i lawr i'r llwch—fel Babilon gynt, yn noddfa i'r wadd a'r ystlymod—y deuant cyn bo hir. Y mae Rhydd-ymofyniad a Chynnydd gwybodaeth, nid fel y sarph Hydra a chant pen,* ond a miloedd o bennau a thafodau soniarus, ar waith ym mhlith y lluaws. Os llwydda lawn-ffyddiaeth ac *Intolerance* i dorri ambell ben yma a thraw, neidia i fynu o'r gwaed gannoedd o bennau newyddion. Y maent wedi gwneyd difrod mawr eisioes yng wersylloedd lawnffyddiaeth, a chamffyddiaeth, a diffyddiaeth, ac hwy wnant ragor etto yn y blynyddau sydd yn dod. O! am weithwyr gwrol i'r maes—rhai selog dros achos Crist a'r gwirionedd!

Mr. Ymofynydd,—Yn fy llythyr diweddaf ymdrechais ddangos fod y prif Aberthau Iuddewig, sef y pech, y poeth, a'r hedd ebyrth yn arddangos mewn dull ffigwraidd, y cyntaf, laddiad pechod yn y galon, yr ail, penderfynol ymroddiad i ewyllys Duw, a'r olaf, y cyssur a'r dedwyddwch sydd yn deilliaw o fuchedd dduwiol. Dygais ym mlaen amryw resymau dros yr esboniad hwn, ac y mae rhagor etto yn barod os bydd eisiau. Pa fodd y gallasai'r Iuddewon aberthu trwy ffydd ym marwolaeth y Messiah, a hwythau yn credu na fuasai'r Messiah byth farw? Eu barn hwy oedd y buasai 'Crist yn aros yn dragywydd.' Y mae'n eithaf amlwg nad oedd byd yn ôd y disgyblion eu hunain yn credu y buasai Crist i gael ei osod i farwolaeth. Ond os yw athrawiaeth y cysgodau yn wir, yr oeddynt yn gwybod fod yn rhaid i Grist ddioddef a marw, oblegid *types* oedd yr aberthau, neu gysgodau o farwolaeth Crist, a'r unig les i'r offrymwr o'i waith yn aberthu oedd yn gynnwysedig yn ei ffydd yn yr aberth mawr. Os cysgod o farwolaeth Crist oedd yr aberthau, onid yw'r gydmariaeth yn rhoddi ar ddeall fod Crist yn y byd yr holl amser ag oedd cyfraith Moses mewn grym? Lle byddo cysgod mae'n rhaid fod gwrthrych yn cyfatteb iddo ac yn sefyll yn gymmwys rhyngddo a'r goleuni; nid cysgod sydd yn taflu gwrthrych ond gwrthrych sydd yn taflu cysgod: ond yn ol yr athrawiaeth hon y mae'n debyg fod yn bosibl i gysgod i daflu gwrthrych. Ond i beidio dal gormod ar eiriau, nis gall dim mwy o wahaniaeth fod rhwng tywyllwch a goleuni nag sydd rhwng yr esboniad uchod âg athrawiaeth y cysgodau. Y mae un yn rhesymol ac Ysgrythyrol, a'r llall yn groes i reswm ac Ysgrythyr: y mae un yn sylfaenedig ar yr ystyriaeth mai bodau deallus yw dynion, a'r llall ar yr ystyriaeth nad ydynt ddim ond peiriannau: y mae un yn gwneyd gwir ddedwyddwch yn gynnwysedig mewn cynnydd rhinwedd ac mewn anian dduwiol, a'r llall yn gwneyd iachawdwriaeth dyn yn beth oddiallan iddo, yn beth damweiniol ac ansicr; yn fyr, y mae un yn gwneyd Duw yn fod cyfiawn a thrugarog, a'r llall yn un digofus, creulon a dialgar—yn un nad oes dim a'i heddycha ond gwaed gwirion, fel yr heddychid gynt y chwedl-dduwiau paganaidd.

Pan y danfonais y llythyr diweddaf i'r wasg, yr oedd bwriad genyf i wneyd iawn yr Hen Destament yn destyn y tro hwn, ond ailystyriaeth a'm darbwyllodd i feddwl y byddai yn well, cyn trafod testyn o gymmaint pwys, symmud yn gyntaf bob rhwystr oddiar y ffordd. Am hynny, sylwaf yn gyntaf ar dair neu bedair o ddefodau tra neillduol a berthynant i Iuddewaeth. Barnwyf fod eu hystyr yn anadnabyddus i'r cyffredin fel y bu i minnau dros amser hir, oherwydd tywyllwch athrawiaeth y cysgodau. Y mae rhyw

* Sarff fawr oedd Hydra, yn llyn Lerna, y'ngwlad Groeg. Yr oedd ganddi, medd rhai chwedlau, hanner cant o bennau, cant medd eraill. Gafaelai mor gadarn mewn bywyd, fel, os torrid un o'r pennau, y tyfai pennau newyddion o'r clwyf. O'r diwedd lladdwyd hi gan Hercules, trwy serio pob clwyf a haiarn poeth cynted ag y llwyddai i dorri ymaith ben.

gred wag a disail gan y nifer amlaf o Drindodwyr y wlad hon, fod eu gwaith yn gwneyd Crist yn sylwedd yr aberthau ac yn galw enwau mawr arno, yn dangos parch a chariad. Ond y maent yn camsynied: Y mae dysgeidiaeth Crist mor werthfawr, a'i ymddygiad mor hardd, a'r lles ag y mae wedi wneyd i ddynoliaeth gymmaint, fel y mae'n teilyngu ein parch a'n cariad gwresoccaf: y mae pob dyn da ag sydd yn adnabod yr Iesu yn rhwym o'i garu. Ond pa fodd y dyleu ein parch a'n cariad gael ei ddangos? Ai trwy ddyweyd ei fod ef y peth na ddywedodd ef ei hun? Ai trwy ystyried ei fod yn berson rhy dderchafedig, rhy sanctaidd, rhy ddoeth, rhy dda i *berthyn* i'r natur ddynol? A oes rhyw natur yn fwy derchafedig yn y greadigaeth na'r natur ddynol? A all unrhyw ddelw fod yn ardderchoccach na delw Duw? Y mae'r natur ddynol yn gymmaint o anrhydedd i Grist, ag yw Crist i'r natur ddynol. Ai ynte trwy alw enwau mawr arno y mae i ni ddangos ein cariad? 'Nid y neb sydd yn fy ngalw i Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd, ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.' Pa fodd ynte y mae dangos cariad at yr Iesu? Caiff ef ei hun attob, 'Yr hwn sydd a'm gorchymynion i ganddo ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i.' Gallwn fod yn sicr, os byddwn, yn ein hawydd i barchu Crist, yn gwneyd goruchwyliaeth Moses, neu unrhyw gyfran o'r Ysgrythyrau yn ffolineb, ein bod yn camsynied natur y parch a'r cariad ag sydd yn ddyledus i Iachawdwr y byd. Nid oes dim parch nac anrhydedd na chariad mewn un peth ag sydd yn groes i'r gwir.

Ond i fyned ym mlaen. 1. Glanhad y gwahanglwyfus, neu *Torath hamezorang*. Barna yr Esbonwyr Trindodaidd mai cysgod o bechod oedd y gwahanglwyf, ac i fod gwaith yr offeiriad yn edrych arno yn arwyddo Crist yn trin y pechadur. Os cyfiawn yw barnu yn ol y meddwl sydd ganddynt am gysgod a sylwedd mewn perthynas â Christ, nid oedd dim o'r fath beth a phechod yn y byd yn amser Moses o leiaf. Os cysgod o bechod oedd y gwahanglwyf, cysgod o bechadur oedd y gwahanglwyfus. Carwn gael gwybod cysgod o beth oedd y cig byw, y blewyn melyn, y blewyn gwyn, y caead i mewn am faith diwrnod, a'r caead allan o'r gwersyll? Ac ystyried y gwahanglwyf fel un cysgod mawr, y mae'n rhesymol meddwl ei fod yn cael ei wneyd i fynu o swm cysgodau y man bethau ag oedd yn gwneuthur y gwahanglwyf. Yr oedd llawer o glefydau eraill ym mhlith yr Iuddewon mor angeuol a phla y clwyf gwahanol. Cysgodau o beth allasent hwy fod? Nid o bethau da mae'n eithaf tebyg. Arwyddai'r offeiriad, meddant, yn edrych ar y clwyf, Grist *yn trin* y pechadur; hynny yw, yn edrych a yw yn bechadur. Beth! oni ddywedir fod pob dyn yn bechadur wrth natur? Pwy eisiau gan hyny sydd ar Grist edrych a yw dynion yn bechaduriaid? Ac heblaw hyn, oni ddywedant ei fod yn Dduw Hollwybodol? Ond ffolineb yw gwneyd y gwahanglwyf yn gysgod o bechod nac o ddim arall. Gyda'r un priodolder, neu yn hytrach anmhriodolder, y gellid dywedyd mai cysgod naill ai o newyn yr Iwerddon, neu o haint y cloron, neu o ryfel China, neu o chwildroad Ffrainc oedd y Cholera Morbus ys blynyddau yn ol, pan mewn gwirionedd nad oedd pla y gwahanglwyf na'r cholera yn gysgodau o ddim, ond clefydau heintus ac angeuol i'r rhai y mae'r natur ddynol yn agored. Pryd y dysga Duwinyddion ac Esbonwyr ddyweyd rhyw beth o leiaf yn debyg i synwyr cyffredin?

Pan canfyddai'r Offeiriad [Lev. 14.] fod pla y gwahanglwyf wedi iachau, gorchymynai i'r dyn a iachasid gymmeryd dau aderyn y to, a lladd un o

honynt mewn llestr pridd oddiar ddwfr rhedegog, a throchi'r aderyn byw yn y gwaed, y'nghyd a choed cedr, ysgarlad ac isop. Cyn y byddai'r gwahanglwyfus yn cael ei ystyried yn lan, rhaid oedd ei daenellu saith waith â gwaed yr aderyn marw; yna'r aderyn byw a ollyngid yn rhydd ar y maes. Lleddid un o'r adar fel arwydd o oruchafiaeth ar y clefyd, mewn llestr pridd i arwyddo corph y claf, ac ar ddwfr rhedegog i arwyddo fod y gwahanglwyfus i gael ei lanhau. Taenellid y claf saith waith a gwaed yr aderyn. Ystyriai'r Iuddewon y rhif saith yn nod o berffeithrwydd. Taenellid y dyn saith waith a gwaed, fel arwydd fod y gwahanglwyf wedi ei ladd *yn llwyr*. Yn ol i'r Offeiriad farnu y dyn yn lan, gollyngid yr aderyn byw yn rhydd ar y maes i fyned at ei gyfeillion, yn arwydd fod y dyn a iachesid at ei ryddid i fyned lle y byddai yn dewis, yr hyn ni chaniateid iddo pan yn glaf. Trochid yr aderyn byw yn ngwaed yr un marw, fel arwydd fod y gwahanglwyfus a iachesid wedi diange megis o grafange angeu. Arwyddai'r coed cedr, yr ysgarlad, a'r isop, buredigaeth. PHILO.

PECHOD GWREIDDIOL.

Parhad o tu dalen 179.

Terfynaf fy sylwadau ar Bechod Gwreiddiol, ar hyn o bryd, o leiaf, trwy roddi hanes byrr o ddechreuad a chynnydd y dyb honn ymhlith y Crist'nogion, allan fwyaf o waith y clodwiw Doctor Priestley.

Wrth sylwi mor anwyl y cofleidir y dyb honn yn bresennol, mor ddwfn y mae wedi gwreiddio ym mynwesau ei chofleidwyr, gellid meddwl ei bod yn athrawiaeth a dderbynid heb un amheuaeth gann Grist'nogion o amser Crist hyd yn awr; ond nid felly y tystia hanesyddiaeth.

Mewn perthynas i allu dyn y mae Justin Martyr yn amlwg o'r farn, mai nid cael ei wneuthur yn dda neu yn ddrwg y mae dyn, fel coedydd ac anifeiliaid, ond trwy ddewisiad; onitte, nas gallasai fod yn deilwng o gosp na gwobr. Dywed Basnage fod y gallu yn hollol gann ddyn i gael ei gyfnewid neu beidio; ac fod Clemens Alexandrinus ac Origen yn flaenoriaid ar y blaid honn.

Y mae yr un undeb unfrydig ymhlith yr hynafiaid ar bechod Adda, ac ar allu dyn. Cawsant achlyssur yn fore i ddywedyd eu meddyliau ar hynn; ïe, achlyssur ag oedd yn eu rhwymo i wneuthur hynny; oherwydd barnau y Gnosticiaid a'r Manicheaid, y rhai a ddalient fod eneidiau dynion o wahanol raddau, yn tarddu o wahanol egwyddorion: yr egwyddor ddrwg yn achos o rai, a'r egwyddor dda yn achos o eraill; ac felly fod rhai yn gnawdol, ac eraill yn ysbrydol wrth nattur. Mai sylwedd (*matter*) oedd achos y drwg; ac mewn canlyniad, fod rhai yn ddrwg, nid o ddewisiad, ond wrth nattur.

Mewn gwrthwynebiad i hynn y mae Origen yn dywedyd fod pob enaid yn alluog i fod yn dda neu'n ddrwg, ac fod y gwahaniaeth rhwng dynion yn cyfodi oddiwrth ryddid yr ewyllys, a'r defnydd a wneid o'r rhyddid hwnn. Er hynny y mae'n amlwg oddiwrth egwyddorion Origen, ei fod ef, fel y Platoniaid eraill, yn dal nad oedd gan ddyn berffaith ryddid ewyllys ond yn ei gyflwr rhaghanfodol; fod eneidiau dynion wedi pechu yn y nefoedd, ac am hynny iddynt gael eu huno â chorph, y rhai oeddynt yn llyfethair a charchar i'r enaid. Y mae Chrysostom hefyd yn dywedyd, heblaw corph

egwan, ein bod wedi derbyn oddiwrth Adda dueddiad i nwydau afreolus. Ond yr oedd ym mhell o feddwl ein bod yn attebol am ymddygiad Adda. Ac y mae Le Sueur yn galaru nad oedd ef yn eithaf *orthodox* mewn perthynas i bechod gwreiddiol, a'r esgus y mae ef yn roddi dros hynny yw, fod Chrysostom wedi ysgrifennu cynn i heresi Pelagius dorri allan.

Y mae y tadau (fel eu gelwid yn gyffredin) y rhai a ddalient mai y gosp am drosedd Adda oedd marwolaeth yn unig, yn dywedyd mai nid o ddigofaint yr oedd Duw wedi gosod i ddynion i farw, eithr o'i dosturi a'i drugaredd, fel y byddai iddyn' gashau pechod. Y mae Titus, Esgob Bostra, yn dywedyd mai natturiol yw marwolaeth, ac nid effaith pechod.

Y mae Vossius yn taeru na wyddai Clemens Alexandrinus ddim am bechod gwreiddiol; ac y mae Epiphanius yn beio Origen a John o Jerusalem, am ddywedyd fod dyn wedi colli delw Duw ar ol i Adda gael ei daflu allan o baradwys. Y mae Awstin ei hun hefyd, yn ei ddadleuon â'r Manicheaid, yn haeru ei bod yn amhossibl fod eneidiau yn ddrwg wrth nattur; ac nad oes neb yn ddoeth, yn ddewr, neu yn gymhedrol, trwy ddoethineb, dewrder, neu gymhedrolder un arall, neu'n gyfiawn trwy gyfiawnder un arall.

Ond cynn hir cafodd y Tad hwnn, Awstin, achos i newid ei farn am bechod Adda. Ychydig ar ol y flwyddyn 400 aeth Pelagius (Morgan), monach o Brydain, a Celestius, monach arall o'r Iwerddon, i Rufain, a chwedi aros yno am ychydig gwrthwynebasant gyda dewrder, rai o lygriadau crefyddol yr oes; ac yn enwedig effeithioldeb bedydd.

Tybid fod gallu mewn bedydd i olchi ymaith bechodau; yr hynn a briodolid hefyd i Swpper yr Arglwydd. Er mwyn dangos nas gallasai bedydd fod o un gwerth o hono ei hunan, gyda golwg ar faddeuant pechod, dywedai Pelagius ei fod yn cael ei weinyddu i fabanod, y rhai oeddent ddibechod, ac felly mai nid amcan bedydd oedd glanhau oddiwrth bechod. Daliai hefyd nad oedd dim ond gweithredeodd da o werth yngolwg Duw. Ni allasai Awstin o hono yntau, er dim, ymadael â'r dyb fod bedydd yn glanhau oddiwrth bechod: yr oedd ef wedi bod yn ddyn drwg iawn, yn bechadur gwaradwyddus, fel y mae yn amlwg oddiwrth ei gyfaddefiadau (*confessions*), y diweddaf o'i gyfansoddiadau; a diammeu fod y meddwl, ei fod wedi ei lanhau trwy fedydd, yn hyfryd ganddo: felly'r oedd yn rhaid cadw'r dyb honn, ac hefyd atteb gwrthddadl Pelagius, os gallai. Yr oedd yn rhaid dyfeisio rhyw bechod, rhyw aflendid yn y plant i'w olchi ymaith, onitte ofer eu bedyddio ar ei dyb ef. Pechod gweithredol nid oedd yn perthyn iddynt, ac etto yr oedd yn rhaid cael pechod ynddynt i'w lanhau. O ble y cair ef? Ow! Ow! Dymma darddiad pechod Adda! Fabanod bychain, diniweid, y ddadl am danoch chwi, am eich bedydd chwi, anwyliaid bychain, a achosodd y pechod gwreiddiol! Er na wnaeth y babanod ddim pechod, er hynny y maent yn bechaduriaid yn Adda, medd Awstin; a thymma pam y bedyddid hwynt; i'w glanhau oddiwrth y llygredd hwnn, meddaf. Ond er i Awstin, tad yr holl lygriadau i gyd ym mron, gael esgus ym mhechod Adda dros fedyddio babanod, y mae ef yn dywedyd nad yw'r euogrwydd ddim yn perthyn iddynt hwy, ond i Adda yn unig. Felly er cynddrwg yw Awstin, y mae yn rhaid cael rhyw un mwy eofn nag ef i orphen y *system* o bechod gwreiddiol.

Yr oedd Awstin yn brawychu wrth feddwl fod babanod yn cael eu gwneuthur yn agored i boenau uffern, oherwydd pechod Adda yn unig; (a phwy na frawychai?) gan hynny yr oedd ef yn dal, er bod yn uffern, fod eu poenau mor lleied, fel y buasai yn well ganddynt fyw ynddo na pheidio byw oll. Oddiwrth y dyb honn y tarddodd y meddwl fod rhaniad yn uffern, a elwid

Limbus Infantium, Limbo'r babanod. Cynn dadl Pelagius, yr oedd Awstin wedi dywedyd nad oedd encidiau babanod heb eu bedyddio yn myned nac i uffern nac i'r nefoedd, ond i le na fuasai iddynt gael na mwynhau golwg ar Dduw, na dioddef poenau y damnedigion.

Darfu i Pelagius a'i gyfaill Celestius, fel yr oedd yn natturiol iddynt, wrthwynebu hynn gyda dewrder a brwdianwch mawr. Nid yw'n ymddangos i syniadau Pelagius gael fawr gwrthwynebiad yn Rhufain. Ar ddynesiad y Goths i Rufain, aeth Pelagius a Celestius i Affrica; arhosodd Celestius yno, tra yr aeth Pelagius i *Palestine:* lle y cafodd nawdd John, esgob Jerusalem; ond cafodd ei gyfaill Celestius dderbyniad gwahanol gann Awstin, esgob Hippo, yn Affrica. Yr oedd awdurdod Awstin, yn Affrica, yn fawr iawn, gymmaint yn wir, nes iddo lwyddo i gael gan *synod* Carthage, yn y flwyddyn 412, i gollfarnu syniadau ei wrthwynebwr; ond llwyddo a wnaethant er hynny. Derbyniwyd athrawiaeth Pelagius gyda bri mawr hyd yn oed yn Rhufain. Ymma y darfu i ymddygiad esgobion Affrica, y rhai a waradwyddasant syniadau Pelagius, gael ei ddyfarnu, ac yr oedd Sozimus, y Pab, y pennaf o'r rhai oeddent yn ffafriol i Pelagius.

Yn y sefyllfa ymma y darfu i bethau barhau; yr oedd athrawiaeth Pelagius, neu'r un ganol (*semi-pelagian*) yn cael ei derbyn yn gyffredin hyd ganol y nawfed gannrif. Oblegid, er cymmaint awdurdod Awstin, nid oedd un llyfr yn cael ei ddarllen yn fwy cyffredinol na *chasgliadau* Cassian, yr hwn a ystyrid y llyfr goreu i fonach i osod ei feddwl arno, a'r hwnn oedd yn creu argraph ddwfn o blaid athrawiaeth Eglwys Groeg. Y mae hynn yn amlwg yn y nawfed gannrif, pann y darfu i Godeschalchus gael ei geryddu yn chwerw gann Hincmar am haeru rhai o athrawiaethau Awstin, a gosod pwys neillduol arnynt.

Yn awr yr ydym yn dyfod at oes y *Schoolmen.* Cyttunwyd gan dduwinyddion yr oes honn fod babanod mewn gwirionedd yn euog o bechod Adda, ac yn agored i ddamnedigaeth o herwydd hynny; oblegid fod ewyllys Adda mewn rhyw ystyr, yn ewyllys y baban hefyd. Y mae Thomas Aquinas yn ymdrechu profi mai pechod cyntaf Adda yn unig a allasai gael ei drosglwyddo i'w hiliogaeth, a'u niweidio, ac nad oedd ei droseddau eraill yn effeithio ar neb ond ei hunan yn unig. Y mae ef yn dal ym mhellach nas gallasai pechod gwreiddiol ddim bod ar neb a enid yn wyrthiol, gann mai yn y weithred o genhedliad y mae yn cael ei drosglwyddo.

Yn ol rhai o'r *Schoolmen,* nid oedd gallu dyn ond bychan, hyd yn oed cynn y cwymp. Y mae Peter Lombard yn dywedyd y gall dyn, trwy ras Duw, wrthwynebu drygioni, ond na all wneuthur daioni. Y mae Thomas Aquinas nid yn unig yn haeru holl dybiau Awstin, ond yn ychwanegu attynt; ac er ei feddwl isel am ddyn; ei lwgr a'i anallu; am ras; nas gall dyn ddim parotoi ei hun i dderbyn gras, heb gael *gras cynn hynny;* er hynny dywed y gall dyn *haeddu* ar law Duw, nid yn *hollol* yn wir, ond fel yn derbyn gwobr am wneuthur yr hynn y mae Duw yn ei alluogi i gyflawni. Dymma sylfaen yr athrawiaeth o *haeddiant,* yr honn wedi hynn, fu yn foddion i berffeithio (os perffaith hefyd) yr athrawiaeth o bechod gwreiddiol, ynghyd ag athrawiaethau eraill, cynn ffoled a hithau, yn amser y DIWYGIAD gan Luther. Ar ol hynn darfu i Eglwys Rhufain daeru fod nid yn unig gann Grist, ond hefyd gann rai *dynion,* ac yn enwedig y merthyron fwy o haeddiant nag oedd eisiau arnynt hwy eu hunain. Gelwid gweithredoedd o'r fath yn weithredoedd o afraid (*works of supererogation*), am nad oedd eu hangen ar eu perchenogion. Yr oedd yr holl gasgl hyn o haeddiant yn cael ei alw yn DRYSOR YR EGLWYS,

yr hwnn oedd wrth law'r Pab fel y tybient. Oddiymma y tarddodd yr athrawiaeth a elwid *indulgences*, sef fod gallu gann benn yr Eglwys i roddi peth o'r gweithredoedd da ymma, yr haeddiant hwnn, i rai a fyddai a rhy fach ganddynt; ond nid heb arian cofiwch; er mor garedig oedd yr Eglwys, nis gallasai ymadael a dim o'i thrysor gwerthfawr, heb gael trysor arall yn ei le.

Wele ni yn awr wedi brasgammu hyd at

Y DIWYGIAD.

Fel y mae da yn tarddu yn gyffredin o ddrwg, felly weithiau y mae drwg yn tarddu o ddaioni. Dymma fel y bu mewn modd neillduol gyda golwg ar y diwygiad gann Luther. Darfu i sel y dyn mawr hwn yn erbyn athrawiaeth yr *indulgences* a haeddiant, ei arwain ef ac eraill mor bell i'r eithafoedd yr ochr arall, fel y darfu i'r athrawiaethau *Gras*, *Pechod Gwreiddiol*, ac *Arfaeth*, gael yn gyffredin eu galw o'i amser ef yn athrawiaethau y Diwygiad, a gelwid pob peth nad oedd yn cyttuno â hwynt yn *Babyddiaeth*, yn gystal ag enwau câs eraill. Yr oedd Luther hefyd yn fonach o radd St. Awstin, a chwedi talu sylw mawr i'w ysgrifeniadau ef, yr hynn oedd wedi ei ragbarottoi i ffurfio ei feddwl ar Bechod Gwreiddiol, ynghyd ag athrawiaethau eraill mor wrthun a hithau. Pann y darfu i un Tetsel, dyn o fuchedd neillduol o ddrwg, gael ei awdurdodi gan y Pab i bregethu *indulgences*, a chyflawni ei swydd gydag eofndra digyffelyb, creodd hynn, ynghyd a'r gwrthwynebiad a gafodd Luther gann yr Eglwys, y fath atgasrwydd ynddo tuag attynt fel ag i dorri i lawr bob haeddiant o du dyn yn hollol.

Dywedasom eisioes mai gydag Awstin y dechreuodd yr athrawiaeth o Bechod Gwreiddiol, fel esgus dros fedyddio babanod, ac er na ddarfu iddi wneuthur llawer o gynnydd yn Eglwys Groeg, llychwinodd ymmron holl Eglwysi'r Ladinwyr. Yr ydym yn canfod ei hol yn eglur ymmhlith y Waldenses, y rhai oeddynt y Diwygwyr cyntaf oddiwrth Babyddiaeth. Oblegid yng nghyffes eu ffydd, dyddiedig 1120, y maent yn dywedyd, 'Yr ydym yn bechaduriaid yn Adda a thrwy Adda.' Yr oedd Amsdorf, un o ganlynwyr Luther, yn dal fod gweithredoedd da yn rhwystr i iechydwriaeth; ac yr oedd Flacius, un arall o ganlynwyr Luther, yn haeru mai nid damwain ond sylwedd hollol y nattur ddynol oedd Pechod Gwreiddiol. Y mae'r *Augustan Confession* yn dywedyd, 'O achos pechod Adda yr ydym yn agored i ddialedd Duw a marwolaeth drag'wyddol, ac y mae llygredd y nattur ddynol yn tarddu o hono ef. Y mae drwg ein dechreuad (*vitium originis*) yn bechod damniol mewn gwirionedd.' Yr ydym yn cael, modd bynag, rai ymadroddion cryfach na hynn yn y *Gallic Confession*. 'Yr ydym yn credu fod y drwg hwn,' (Pechod Gwreiddiol) 'yn bechod mewn gwirionedd, yr hwnn sydd yn gwneuthur pawb a phob dyn, heb gau allan hyd yn oed fabanod yn y groth, yn agored yngolwg Duw i farwolaeth drag'wyddol.' Och! feddwl arswydus onitte!

Yr oedd Calvin yn dal yr athrawiaeth honn yn ei llymder eithaf; a chann i ganlynwyr Luther wedi hynn roddi i fynu athrawiaethau o'r fath yn eu gerwindeb mwyaf, gelwir hwynt yn awr yn gyffredin wrth yr enw athrawiaethau *Calfinaidd*, y rhai a gofleidir gann luaws mawr, ond nid gann bawb, yn Eglwys Loegr ac ymhlith yr Ymneillduwyr hyd y dydd hwnn.

Ychydig ar ol y Diwygiad yr ymddangosodd Faustus Socinus, yr hwnn a ennillodd lawer o ganlynwyr, efe neu ei gyd-lafurwyr. Ymddengys fod yr Undodiaid yn lluosog yn Transylvania yn yr amser hwnn; ac y mae y brodyr lafurus hynn wedi gadael llawer o ffrwyth eu myfyrdodau ar eu hol, a elwir

yn gyffredin 'Bibliotheca Fratrum Polonorum,' hynny yw, Llyfrgell (*library*) y Brodyr Polonaidd. Meddyliaf na fyddai yn annerbyniol i osod rhann o syniadau Faustus Socinus i lawr ymma ar Bechod Gwreiddiol. Dywed ef yn debyg i hynn, 'Yr ydym yn casglu, gan hynny, a llefaru yn ambriodol, nad oes Pechod Gwreiddiol yn bod, hynny yw, dim halogrwydd neu lygredd yn natturiol o angenrheidrwydd i'r holl hiliogaeth ddynol, neu wedi ei osod arnynt mewn un modd oddiwrth bechodau ein rhieni cyntaf; ac na ddarfu i un drwg arall ddeilliaw o angenrheidrwydd oddiwrth y trosedd cyntaf hwnnw ond yr angenrheidrwydd hollol o farw, nid yn wir o achos y pechod hwnnw, ond oblegid, pann oedd dyn eisioes yn farwol wrth nattur, iddo gael ei adael gann Dduw, oherwydd y trosedd hwnnw i'w farwolaeth natturiol ei hun, yr hynn oedd fel cosp ar y troseddwr. Gann hynny cymmwys i bawb a enid o hono gael eu geni yn yr un cyflwr ag yntau; oblegid ni chafodd dim ei dynnu oddiwrtho ag oedd ganddo wrth nattur, neu a allasai ei gael.'* Y mae Socinus yn esbonio llawer o'r adnodau a ddygid ym mlaen yn ei amser ef dros Bechod Gwreiddiol; ond gann y byddai crybwyll yr hynn a ddywed yn rhy faith, digon yr hynn a ddifynwyd eisioes i ddangos ei feddwl arno.

Y mae'n amlwg oddiwrth yr hanes uchod, mai nid ar unwaith y darfu i'r llygriad hwnn, mwy nag eraill, ddyfod i mewn i'r Eglwys, ond yn raddol, nes cynhyddu i'w faintioli eithaf yn amser y Diwygiad; ac felly y mae yn aros hyd heddyw yn erthygl ffydd y rhannau amlaf o Grist'nogion; ond nid heb eithriadau. Y mae'n dda gennym glywed fod *llawer*† o Drindodiaid yr oes oleu honn yn colli eu gafael arni. Llwydd iddynt i ymddadrus oddiwrth holl lygriadau efengyl Crist, a chael eu dwyn i gofleidio dysgeidiaeth Iesu yn ei phurdeb dechreuol. Ffarwel bellach, fy narllenwyr anwyl ac amyneddgar, a ffarwel hefyd dros ryw amser o leiaf i BECHOD GWREIDDIOL.

Cefn. OWEN EVANS.

SYLW AR OFYNION UNDODWR YN 'YMOFYNYDD' CHWEFROR, TUDAL. 135.

'A ydyw Duw a Christ ddim ond un Bod, neu ynte yn ddau Fod?' Duw! —dyna ffynnon goleuni, sef y Bod Dwyfol yn anmherthynasol â dynoliaeth. Crist, dyna Dduw dan yr ystyriaeth o'i fod wedi ymgymeryd â'n natur ddynol i undeb â'i natur ddwyfol; ac, o ganlyniad, dyna ddau Fod yn dyfod i'r golwg, sef y natur ddwyfol, yr hon a gymerodd, a'r natur ddynol, yr hon a gymerwyd; o ganlyniad, y Duwdod a'r Dyndod, eto *un person*. Felly, pan gyfarfyddom a'r achosydd mawr dechreuol dan yr enw Duw, yn

* Concludimus igitur, nullum, improprie etiam loquendo, peccatum originale esse, id est, ex peccato illo primi parentis, nullam labem ant pravitatem, universo humano generi, necessario ingenitam esse, sive inflictam quodammodo fuisse; nec aliud malum, ex primo illo delicto ad posteros omnes necessario manasse quam moriendi omnimodam necessitatem, non quidem ex ipsius delicti vi, sed quia cum jam homo natura mortalis esset, ab delictum illud suae naturali mortalitati a Deo relictus est, quodque naturale erat, id in delinquentis pœnam, prorsus necessarium est factum. Quare qui ex ipso nascuntur, eadem conditione omnes nasci oportet: nihil enim illi ademtum fuit, quod naturaliter haberet, vel habiturus esset.—*Socini Opera*, vol. i. p. 540, cap. 4, prel. Thol.

† Gwel *Y Gwladgarwr*, am Tachwedd 27, 1847, lle y mae Mr. Jones yn ei olygiad o'r YMOFYNYDD yn dywedyd y dylaswn wybod fod llawer o Drindodiaid yn ymwrthod a'r dyb o Bechod Gwreiddiol. Y mae'n dda gennyf gael fy nghyhuddo o hynn, er mai fy anwybodaeth a'i hachosodd. Gwynfyd pe gwnai pob Trindodwr yr un peth a mi, trwy hysbysu nad ydynt yn credu yr hyn wyf yn briodoli iddynt

yr Ysgrythyrau, yr ydym i'w ystyried heb yn ei berthynas a dynoliaeth, heb yn ei undeb yn hytrach. Ond pan yn cyfarfod ag ef dan yr enw Crist, yr ydym i'w ystyried yn yr ymgymeriad o'r natur ddynol i undeb â'r ddwyfol. Ac yn yr ystyriaeth o'i ymgymeriad â'r natur ddynol i undeb â'r ddwyfol, y derbyniodd ef yr *eneiniad*; a diau mai ei natur *ddynol* a'i derbyniodd.

Ond y gofyniad yw, 'Pwy a'i eneiniodd?' Duw oedd yr eneiniwr! 'Wel, pwy oedd yr eneiniedig?' Crist oedd yr eneiniedig! 'Wel, ai nid Duw yw Crist?' Wel, ïe! 'Wel, ai nid dau enw ar yr un gwrthrych yw Duw a Christ?' Ië, mewn rhyw ystyr.

Y mae y gair Duw yn golygu gwrthrych *hunanfodol*, a'r gair Crist yn golygu yr un gwrthrych wedi ymgymeryd â gwrthrych arall i undeb ag ef ei hun; ac yn yr ystyriaeth yna yn myned dan y cymeriad Mab; ac yn yr ystyriaeth flaenaf yn myned dan y cymeriad Tad.

Wel, pa wahaniaeth sydd rhwng hyny a Duw, neu Dduw yn ei eneinio ei hun; neu Dduw yn eneinio Duw?' Wel, nid oes dim gwahaniaeth, os yr un peth a feddylir wrth fod mewn ystyr unfodol a'r un bod hwnw mewn ystyr dau-fodol.

Ond yr ydym yn cael ymddyddan am Dduw mewn ystyr unfodol yn eneinio, ac mewn ystyr ddaufodol yn cael yr eneiniad, sef Duw mewn un ystyr, Duw-ddyn mewn ystyr arall,—Duw yn eneinio, a Duw-ddyn yn derbyn yr eneiniad,—Duw yn cenedlu, a Duw-ddyn yn cael ei genedlu,—Duw yn Dad, a Duw-ddyn yn Fab,—Duw yn anfon, a Duw-ddyn yn cael ei ddanfon,—Duw yn sugn-dynu, a Duw-ddyn yn esgyn,—Duw yn dal ei ddeheulaw, a Duw-ddyn yn eistedd,—Duw yn gallu pob peth, a Duw-ddyn yn gallu dim o hono ei hun,—Duw yn ffynnonell ymddibyniaeth pob creadur, a Duw-ddyn yn ei fabandod yn ymddibynu ar ofal ei rieni am dano,—Duw â'i hollbresenoldeb yn lleuwi y nefoedd a'r ddaear, a Duw-ddyn yn cael ei lyncu o'n golwg gan dair milldir o wagle rhyngom ag ef gan fychander ei faintiolaeth,—Duw yn gwybod pob peth, a Duw-ddyn yn gwybod ond cymaint ag oedd yn angen arno wybod,—Duw yn anfarwol, a Duw-ddyn yn farwol, ond fel y mae yn derbyn ei anfarwoldeb gan yr hwn sydd ganddo anfarwoldeb.

TRINDODWR.

O.Y.—Yn eich hanesiad o Gylchwyl Gymreigyddol y Llew Gwyn, Merthyr Tydfil, yr hon a gynnaliwyd Nadolig, dywedwch mai Morgan Jenkins, Pontypridd, oedd yr ymgeisydd llwyddiannus ar yr ail destun, sef Cywydd ar Natur. Dymunwyf eich hysbysu mai Morgan Jones, gwehydd, o'r lle uchod, yw'r awdwr. Byddwn ddiolchgar os gwnewch hyny yn hysbys yn eich rhifyn nesaf.—SAMUEL EDMUNDS.

[Am gywirdeb a rhesymoldeb attebion 'Trindodwr, rhaid i ni adael y darllenydd i farnu drosto ei hun. Ond barnasom yn beth cyfiawn i roddi enw ein gohebydd, gan ei fod yn beth amheus genym pwy mor belled y cyttuna Trindodwyr yn gyffredin a'i esboniadau ef. GOL.]

GWYTHIENAU GLO.

SYR,—Wele fi yn cyflwyno—os boddlon genych—at wasanaeth yr YMOFYNYDD, fy marn fy hunan, yn fwyaf neillduol, mewn perthynas i'r Gweithi Glo, yn ol eu ffurfiad trwy drefn Rhagluniaeth; neu, mewn geiriau eraill, trwy waith Natur.

Nid wyf yn cydfyned a neb dysgedigion, trwy farnu fod Glo wedi ei ffurfio gan amser, trwy bydriad coed, dail, a llysiau, &c., er fod y farn honno yn dra chyffredinol er ys amryw oesoedd.

Y rheswm cyntaf genyf yw hyn— sef bod yr holl weithi Glo yn cadw yn agos at yr un drwch tan bob mynydd a dyffryn, yn y tu deheu a'r tu gogledd i'r cawg mwnawl Deheudir Cymru. Ni sylwaf nemawr ar un lle arall, am mai Cymry fydd yn darllen hwn, a bod digon o honynt eill brofi neu wrthbrofi gwirionedd fy sylwadau. Y wythien isaf yn y cawg sydd o ddeuddeg i ugain modfedd o drwch yn mhob man o Lanelli i Ferthyr, ond ni weithiwyd nemawr arni erioed, ond rhyw ychydig o lo calch, a thai yma ac accw. Y wythien nesaf o Lo sydd o fewn 50, neu rywbeth ychwaneg, o latheni, ac yn dal yn mhob man ynghylch ugain modfedd o drwch; yn Mhendarren, ychydig rhagor, ond nid o werth sylwi. Uwchlaw y diweddaf y mae y mwnau haiarn a elwir Pingarw; y wythien fawr, ac hefyd a berthyn iddi, y wythien Casfach, a'i pherthynasau; y gweithi gleision, (cochion gan rai,) a'r wythien felen. Yn ol hyny, y Pindu, a'r hyn a berthyn iddo; ond enw hwn sydd yn gwahaniaethu yn fwy na'r rhai eraill o un gwaith i'r llall, megys Pinmawr, Gwythien Fraith, &c., ond oll yn cadw eu lle yn rheolaidd, yn o agos, mewn pellder, mewn maintioli, ac mewn rhywogaeth. Yn nesaf, y mae gwythien arall o lo, ag sydd o dair i bedair troedfedd o drwch, yn cadw ei lle mewn trwch a phellder o Gwmnedd i Flaenafon, a gwythien fach o tani, oddeutu chwech modfedd, yn arwain y naill y llall yn groes i'r mynyddau, trwy wahanol neidiadau bychain a mawrion, o un i ddau cant a hanner o droedfeddi o uchder; yr hyn ni ellai fod, yn ol fy nhyb i, oni bai fod deddf reolaidd wedi ei threfnu gan y Creawdwr, ag sydd fwy cysson na choedydd a llysiau'r ddaear, pa rai sydd yn fwy na dwbl cnydiog mewn rhai mannau na'u gilydd; yr hyn, wrth bob rheswm a berai fod y gwythienau glo mewn mannau yn ddwbl drwch hefyd.

Os golygwn etto fod dyfroedd y mor wedi bod yn gorchuddio deheudir Cymru, dro ar ol tro, gynnifer o weithiau ag sydd o wythienau glo yn y cawg, (yr oedd yn anmhosibl i'r mor gyssoni dwy wythien ar unwaith,) yn awr, pa fodd, gyda rheswm, nad oedd y dwfr y pryd hyny yn taenu ei wely yn wastad, neu o leiaf yn debyg i hyny; gan fod y gwythienau Glo, y tu deheuol i'r cawg, yn gostwng tua'r gogledd yn nghylch troedfedd ar y llathen; a'r tu gogleddol i'r cawg yn gostwng tua'r deheu oddeutu tair modfedd, neu ¼, fel y gellir barnu fod canol y cawg oddeutu hanner milldir yn is na'i ymylau, ac etto y gwythienau Glo yn dal yn agos yr un drwch ar dylau, goriwaered, a gwastadleoedd; ac etto gwyr pawb fod yn ofynol fod peth yn drymach na'r dwfr cyn y suddo; a pha fodd na suddodd mwy, ïe, cann waith mwy, i waelod y cawg nag a arosodd o gylch ei ymylau? Diareb a ddywed, 'Na chred yr hyn na fo'n debygol i allu bod.' Y mae y mawn ar y mynydd yn fwy tebygol o fod yn cael ei ffurfio gan lysiau nag yw'r Glo, oherwydd y mae hwnw yn anghyfartal, ac mewn cilfachau cysgodol neu dir ffoglyd fynychaf yn fwy ei drwch.

Y mae achos naturiol fod yn y goedwig goed bychain a mawrion, ac o amryw rywogaethau; ac y mae achos fod yn y ddaear wythienau o Lo, rhai yn fychain a rhai yn fawrion, ac o wahanol rywogaethau, pa un a ddaw dynion i wybod yr achos ai ynte ni ddeuant; ond beth bynag, fy marn i, hyd oni chaffwyf resymau cryfach nag wyf wedi ei gael hyd yn hyn, yw, mai llifnodd anweledig sydd yn rhedeg trwy'r ddaear i'r dyben i'w ffurfio'n rheolaidd.

Y mae y Gwefr (*electrifying fluid*,) yn rhedeg trwy'r ddaear yn agos o ddeheu i ogledd; hynny a brofir mewn amrywiol ffyrdd, sef wrth nodwydd y cwmpawd, wrth osod trossol haiarn ar y ddaear i gyfeirio gogledd a deheu, &c; ac y mae dangosiadau tanddaearawl mewn gwythienau Glo, mwn, haiarn, creigiau celyd a meddal, yn profi yr un peth; megys rhaniadau (*slips*), llyfnau, edefau, graenau, neidiadau mewn pob mwnau perthynol i'r cawg haiarnaidd, &c.—Profir etto os bydd galw.—Am hynny, pe byddai Deheudir Cymru, o Bontypwl i Lanelli, Sir Gaerfyrddin, yn dir gwastad, byddai y glo yn ddu, sef o rywogaeth bygedd; ond oddiyno yn mlaen trwy Sir Benfro, ni fyddai felly, am nad oes daear i dderbyn effaith yr haul ar y gwefr, y tu deheuol i'r cawg, oherwydd ei fod o tan y mor. Glo Llanelli hefyd a fuasai yn lo carreg oni buasai gwlad browyr ar ei gyfer, lle mae y rhan ddeheuol i'r cawg yn codi, ac felly yn arwain y gwefr o tan y cyfyngfor i'r rhan honno o Sir Gaerfyrddin.

Pob mynydd ag sydd yn cyfeirio o ddeheu i ogledd sydd a'i Lo yn ddu; a pha uchaf y byddo y mynydd, a mwyaf y byddo'n gogwyddo i'r gorllewin, gwaethaf oll fydd y glo ar ei gyfer y tu arall; megys Mynydd Hirwaun yn colli'r gwefr, yn fwyaf neillduol ar dywydd llaith, ddwy neu dair o filldiroedd cyn cyrhaedd ei flaen: Mynydd Llangattwg yr un modd; ond pe cyfeirid i'r deheu, o lyn fawr Hirwaun, am filldir, deuai'r glo yn ddu; ac amser a ddengys hyny, ond odid, i rai ag sydd yn darllen yr Ymofynydd. Felly yn ol y cyflawnder o wefr ac a fyddo'n rhedeg trwy'r Glo, yn fwyaf neillduol, y bydd ei rywogaeth.—Yr eiddoch,

Idris Ddu.

YMGYFARFOD RHWNG CHARLES II. A WILLIAM PENN, 1681.

Pan ydoedd William Penn ar hwylio o Loegr i Bensylfania, aeth i gymeryd cenad y Brenin, pryd y cymerodd yr ymddyddan canlynol le:—'Wel, gyfaill William,' ebai Charles, 'yr ydwyf wedi gwerthu i chwi dalaeth ragorol yn Ngogledd America; ond tebygaf nad ydych yn bwriadu myned yno eich hunan.' 'Ydwyf,' atebai William, 'a daethum yn awr i ganu yn iach i ti.' 'Beth! anturio eich hunan i blith anwariaid Gogledd America! Pa sicrwydd sydd genych, ddyn, na fyddwch yn eu crochan rhyfel yn mhen dwy awr ar ol glanio?' 'Y sicrwydd goreu yn y byd,' atebai Penn. 'Yr wyf yn ameu hyna, gyfaill William; nid oes genyf unrhyw feddwl am ddiogelwch rhag y dyn-fwytawyr hyn ond gyda byddin o filwyr da, gyda eu gynau a'u bidogau. A chofiwch, yr wyf yn dywedyd wrthych yn mlaen-llaw, gyda fy holl ewyllys da i chwi a'ch teulu, i ba un yr wyf dan rwymedigaeth, nad anfonaf gymaint ag un milwr gyda chwi.' 'Nid oes arnaf eisiau un o'th filwyr—yr wyf yn ymddibynu ar rywbeth gwell na'th filwyr di.' Dymunai'r Brenin wybod *beth ydoedd hyny*. 'Yr wyf yn ymddibynu arnynt eu hunain—ar eu *synwyr moesol*, sef gras y Duw hwnw sydd yn dwyn iachawdwriaeth, a'r hwn a ymddangosodd i bob dyn.' 'Ofnwyf, gyfaill William, nad ymddangosodd y gras hwnw i Indiaid Gogledd America.' 'Paham nad iddynt hwy yn gystal ag i bawb eraill?' 'Pe ymddangosasai iddynt hwy,' ebai y Brenin, 'Braidd y trinasent fy neiliaid mor farbaraidd ag y gwnaethant.' 'Nid yw hyna yn profi i'r gwrthwyneb, gyfaill Charles. Dy ddeiliaid di oeddynt yr ymosodwyr. Pan aethant hwy gyntaf i Ogledd America hwy a

gawsant y bobl druain hyn y rhai mwyaf diniwed a charedig yn y byd. Bob dydd hwy a'u gwylient yn dyfod i'r lan, brysient i'w cyfarfod, ac a'u gwleddent â'u pysgod goreu, eu helwriaeth, a'u hyd—yr oll a feddent. Fel atdaliad am y caredigrwydd yma o eiddo yr *anwariaid*, (megys y galwn ni hwynt,) dy ddeiliaid di,—y rhai a elwir yn *Gristionogion*,— a gymerasant eu gwlad a'u tiroedd hely cyfoethog i fod yn rhan-diroedd iddynt eu hunain! Yn awr, a ddylid rhyfeddu fod y bobl dra gorthrymedig hyn wedi eu gyru i anobaith drwy y fath anghyfiawnder? a'u bod, tra yn ymlosgi gan ddial, wedi cyflawni rhai eithafion?' 'Wel, ynte, gobeithiwyf, gyfaill William, na bydd i chwi gwyno pan y triniant chwi yn yr un modd.' 'Nid wyf yn ofni hyny,' ebai Penn. 'Yn wir, pa fodd y gochelwch. Yr ydych yn bwriadu cael eu tiroedd hely hefyd, tebygaf?' 'Ydwyf, ond nid drwy yrru y bobl druain hyn oddiarnynt.' 'Yn wir; pa fodd ynte y cewch eu tiroedd?' 'Bwriadwyf eu prynu ganddynt.' 'Prynu eu tiroedd ganddynt! Beth, ddyn, onid ydych eisioes wedi eu prynu genyf fi?' 'Ydwyf, ac am bris drud hefyd; ond gwneuthum hyny yn unig er cael dy ewyllys da, nid am fy mod yn tybied fod genyt ti unrhyw hawl i'w tiroedd hwy.' 'Beth, ddyn, ddim hawl i'w tiroedd hwy?' 'Nag oes, gyfaill Charles, un hawl yn y byd. Pa hawl sydd genyt i'w tiroedd hwy?' 'Yr hawl o ddarganfyddiad, (*discovery*); yr hawl ag y mae y Pab a'r holl Frenhinoedd Cristionogol yn cyttuno i roddi idd eu gilydd.' 'Yr hawl o ddarganfyddiad! Hawl ddieithr yn wir. Yn awr, tybiwn, gyfaill Charles, fod amryw fadau, (*canoes*), yn llwythedig o'r Indiaid hyn, yn croesi'r mor, ac yn darganfod Prydain, dy ynys di, yn ei honi iddynt eu hunain, ac yn ei gwerthu heb yn wybod i ti, beth feddyliet ti o hyny?' 'Wel—wel—wel,' atebai Charles, 'rhaid i mi gyfaddef y tybiwn yn ddigwylydd-dra dros ben ynddynt.' 'Wel, ynte, pa fodd y gelli di, yn *Gristion*, ac yn *Dywysog Cristionogol*, wneuthur yr hyn yr ydwyt yn ei hollol gondemnio yn y bobl hyn, y rhai a elwi yn anwariaid? Ië, gyfaill Charles, tybiwn eto fod yr Indiaid hyn, os gwrthodit roddi dy ynys—Brydain Fawr—i fynu, eu bod yn rhyfela yn dy erbyn, a chanddynt eirf mwy dinystriol na thydi, eu bod yn difetha llawer o'th ddeiliaid, ac yn gyrru y gweddill ymaith, ai ni thybiet yn arswydus o greulon?' Tra y cyttunai y Brenin â hyn, gyda nodau dwfn o argyhoeddiad, William a aeth rhagddo: 'Wel, ynte, gyfaill Charles, pa fodd y gallaf fi, a alwaf fy hun yn Gristion, gyflawni yr hyn a ffieiddwyf mewn Paganiaid? Na, nis gwnaf, eithr prynaf yr hawl gan y meddiannwyr priodol—sef yr Indiaid eu hunain. Wrth wneuthur hyn, ymdebygolaf i Dduw ei hunan yn ei gyfiawnder a'i drugaredd, a thrwy hyny sicrhau ei fendith ar fy nhrefedigaeth, os byth y byddaf byw i blanu un yn Ngogledd America.'—*Weem's Life of William Penn.* W.

TYSTIOLAETH LLYFR NATUR AM DDUW.

Parhad o tudalen 186.

Yn fy llythyr diweddaf dywedais fod credu fod Duw wedi creu rhai dynion i waeddi Haleluiah, wrth glywed y Barnwr yn anfon i gymdeithas y diawliaid lu aneirif o'u ceraint a'u cyfeillion, i gael eu poeni hyd fyth heb ddiwedd, yn tueddu yn fawr i fwystfileiddio calon dyn; ond ni roddais ond un hanner pennill o hymn yr hunain-etholedigion hyn i brofi fy haeriad, gydag addewid o ychwaneg y tro hwn. Dyma yn awr eiriau *President* Edwards, o America, y duwinydd a'r *politician* mwyaf yn ei wlad: maent i'w gweled yn ei '*Vindication of the wisdom, justice, and goodness of God, in the eternal misery of the wicked.*' 'Y saint yn y nef a ganfyddant boenau y damnedigion. Mae mwg eu poenau yn esgyn i fynu yn oes oesoedd! Hwy gant eu poeni ym mhresennol-

deb yr angylion sanctaidd, ac ym mhresennoldeb yr Oen. Felly cant eu poeni ym mhresennoldeb y saint gogoneddedig.'

'Wrth hyn gwneir y saint yn fwy teimladwy o fawredd eu Hiachawdwriaeth, pan y gwelont mor fawr yw y trueni rhag yr hwn y mae Duw wedi eu cadw hwynt; a'r fath ddirfawr wahaniaeth mae ef wedi wneud rhwng eu sefyllfa hwynt ac eraill, y rhai oeddent wrth natur, ac efallai dros amser, wrth ymarferiad, yn fwy pechadurus a theilwng o uffern na neb. Fei gwna hwy yn fwy teimladwy o ryfeddoldeb Gras Duw tu ag attynt hwy. Fe gyffroa ynddynt deimlad bywiol a rhyfeddol o ras Duw yn ei waith yn eu gwneud hwy yn wahanol, bob tro yr edrychant ar y damnedigion.'

Etto, 'Fe dderchafa golwg ar boenau uffern wynfydedigrwydd y saint am byth. Nid yn unig fei gwna hwynt yn fwy teimladwy o fawredd a rhadoldeb Gras Duw yn eu dedwyddwch hwynt, ond fe wna eu dedwyddwch hefyd yn wirioneddol fwy, am y gwna hwynt yn fwy teimladwy o'u dedwyddwch eu hunain. Fe rydd iddynt archwaeth well arno; fe wna iddynt ei werthfawrogi ef yn fwy, pan y gwelont eraill, y rhai oeddent o'r un natur, a chwedi eu geni dan yr un amgylchiadau, wedi cael eu soddi yn y fath drueni, a hwythau wedi eu gwahaniaethu mor ddirfawr! O, fei gwna yn deimladwy mor wynfydedig ydynt!! Mae teimlad o'r trueni cyferbyniol yn wastad yn cynnyddu blas unrhyw fwyniant a phleser!!!

Etto, 'Golwg ar allu rhyfeddol—mawredd dirfawr a brawychus—a chyfiawnder a sancteiddrwydd ofnadwy Duw, yn ddangosedig yn nhrueni tragwyddol dynion annuwiol, a wna iddynt werthfawrogi ei ffafr, ac i garu yn llawer mwy; *a hwy a fyddant gymmaint yn fwy dedwydd yn y mwyniant o hono.*'

Er nad yw saint yr Edwards mor ellyllaidd ddrwg a rhai Boston, o fewn i lawer, etto y maent beth dirfawr yn fwy uffernol na'r gwr goludog yn y ddammeg, fel y sylwais o'r blaen.

Mewn pregeth ar dragwyddoldeb poenau uffern—(*Discourse on the Eternity of Hell Torments,*)—dywed Edwards—

'Eirioler chwi i ystyred yn astud y fath beth mawr ac ofnadwy yw Tragywyddoldeb! Er na allwch ei amgyffred ef yn well wrth ei ystyried, etto chwi allwch gael eich gwneud yn fwy teimladwy nad peth i'w ddibrisio ydyw. Gwnewch ddim ond ystyried beth yw dioddef eithafoedd poen byth bythoedd; —ei ddioddef ef ddydd a nos—o un diwrnod i'r llall—o un flwyddyn i'r llall—o un oes i'r llall—o fil o oesoedd i'r llall—ac felly ychwanegu oes at oes, a miloedd at filoedd, mewn poen—mewn llefain ac wylofain—och-'neidio, a screchen, a rhincian eich dannedd —a'ch eneidiau yn llawn o ofid a syndod—a'ch cyrph, ïe, a phob aelod o honynt, yn llawn poenau dirdynnol; heb un possibilrwydd i gael esmwythad—heb un possibilrwydd i gyffroi Duw i dosturio a'ch llefau—heb un possibilrwydd i guddio eich hunain oddiwrtho—heb un possibilrwydd i droi ymaeth eich meddyliau oddiwrth eich poenau—heb un possibilrwydd i allu cael un lleihad o hono, neu un cynnorthwy neu gyfnewidiad er gwell! Mor dorcalonus fydd hi, pan byddwch dan y poenau dirdynnol hyn, i wybod yn sicr na chewch fyth, *fyth* eich gwaredu o honynt; i fod heb un gobaeth—pan y dymunech gael eich diddimmu, ond heb feddu un gobaeth—pan y dymunech gael eich troi yn llyffeint neu seirph, ond heb un gobaeth—pan y byddai yn llawenydd gennych pe caech ryw esmwythad ar ol dioddef y poenau hyn filiynau o flynyddau, ond heb un gobaeth—pan na byddo gennych obaeth i gael eich gwaredu ar ol treulio allan oes yr haul, y lloer, a'r ser, yn eich ocheneidiau, a'ch griddfannau gofidus heb orphwysfa ddydd na nos, nac un funyd o esmwythad—pan y byddwch heb un gobaeth ar ol treulio allan fil yn ychwaneg o'r fath oesoedd, ond y byddwch yn gwybod nad ydych un mymryn yn nes at ddiwedd eich poenau—i fod gennych etto yr un ocheneidiau, yr un screchfeydd, yr un llefain annedwydd i'w gwneud yn ddiymattal; ac y bydd i fwg eich poenedigaeth i dderchafu etto yn oes oesoedd; ac y bydd i'ch heneidiau, y rhai a fyddant wedi eu cyffroi gan lid Duw, yr holl amser hwn i fodoli etto i ddioddef mwy o lid—na fydd i'ch cyrph, y rhai fyddant wedi bod yn llosgci yr holl amser hwn yn y fflamiau angerddol hyn, etto wedi eu difa—ond i barhau etto drwy dragywyddoldeb, yr hwn ni fydd wedi cael ei fyrhau un rhith gan yr hyn fyddo wedi myned heibio.'

Dywed mewn man arall—

'Bydd, mae yn debygol, i'w galluoedd gael eu heangu—eu dealltwriaeth fydd yn gyflymach a chryfach mewn sefyllfa ddyfodol—ac fe all Duw roddi iddynt gymmaint o deimladrwydd, ac argraphiad mor nerthol o dragywyddoldeb, ag a fynno ef, er mwyn cynnyddu eu gwae a'u poen.'

Os nad oedd y galon a allasai daflu y gwaed drwy wythenau y dyn a ysgrifenodd y fath ddarluniad dialeddgar wedi ei bwystfileiddio gan *system*, beth all fod? Pe buasai yn meddwl ei fod ef ei hun yn debyg o fod yn ol, rhaid na allasai ddywedyd y fath eiriau heb lewygu o fraw. Trueni fod rhagfarn dygiad i fynu wedi dallu calonau dynion y fath ag Edwards a Boston!—wedi eu hannynoli mor bell, a'u galluogi i feddwl mai gwynfyd i ddyn fydd edrych ar ei gydgreadur mewn poenau! Ai rhyfedd fod dynion yn ysgrifenu y fath lyfrau llygredig a'r '*Age of Reason,*'

y '*System of Nature*,' a llawer o'r fath, y rhai ydynt wedi llanw ein byd ag anghrediniaeth a'i ffrwythau naturiol, *anfoesoldeb*, a *llywodraethau drwg?* Plant y Drindod ydynt, ond yn anfeidrol lai creulawn na'r Eilun anfeidrol lidlawn y maent yn addoli. Er gwaethaf y Drindod a'i hanfeidrol ffernolrwydd—er iddynt grefu arni am eu gwneud i ddwyn ei delw hi, maent (er yn waeth—yn annhraethadwy waeth—na'r gwr goludog, etto i gyd) yn annhraethadwy well na hi ei hun. Yr achos yw, ni all holl Eilunod y byd a holl ffolineb *systems* dynion, i lwyr olchi ymaith ddelw Duw oddiar ei greadurlaid. Felly, ni allant gael eu llygru mor bell, a myned tuhwnt i gyrraedd eu Creawdwr—a'i allu i'w diwygio. Trech yw Tad pob daioni na'r Drindod, ac anfeidrol waeth yw y Drindod na holl ellyllon a diawliaid y Drindod yng nghyd. Os trecha Duw'r nefoedd y Drindod, rhaid yw na bydd iddo elyn mwy nad oes un drwg na fydd yn sicr o'i orchfygu, ac felly dyg ei amcanion i ben—ei 'gyngor a saif a'i holl ewyllys a wna.' Dwg yr afradlon tua thy ei dad, a rhydd fodrwy ar ei law, a *gwisg o'r gorau* am ei gefn.

Dywedir fod pechod yn ei natur yn anfeidrol ddrwg, a bod yn rhaid ei gospi a chospedigaeth dragywyddol; ac amcenir profi yr haeriad yn y modd hwn:—Mae pechod yn erbyn brenhin yn fwy pechadurus na phechod yn erbyn un o'i ddeiliaid, ac am hyny yn cael ei gospi a gwaeth cosp; a pha fwyaf fyddo mawredd y person y pechir yn ei erbyn, fod mawredd y drwg gymmaint a hynny yn fwy; a chan fod Duw yn Fod anfeidrol, fod pob pechod yn ei erbyn ef yn anfeidrol hefyd. Rhaid, yn ol yr ymresymiad hwn, fod pob ufudd-dod i Dduw a'i ddeddfau yn rinwedd anfeidrol, a chan fod mwy o dda nag o ddrwg yn y gwaethaf o ddynion, y mae yn canlyn y bydd yr un dyn yn anfeidrol wynfydedig, ac yn anfeidrol ddamnedig ar yr un pryd; yr hyn sydd ammhossibl. Beth mae dynion o'r fath yn feddwl, (os oes ganddynt feddwl oll, wrth bechod anfeidrol?, Anfeidrol yw anfesuredig, neu heb un mesur—felly pechod anfeidrol yw pechod diddechreu, na diddiwedd—pechod holl bresennol, ac o bechodau o'r fath hyn ni ellir amgyffred rhagor nag un. Ni all Duw ei hun wneud gweithred *ddiddechreu, diddiwedd, a hollbresennol;* a rhaid, os pechodd dyn bechod anfeidrol, ei fod wedi maeddu ei Greawdwr.

Mae y casgliadau naturiol uchod, yr wyf yn barnu, yn ddigon i ddangos twyll yr ymresymiad, ddygir i brofi anfeidroldeb drwg pechod. Gellir canniatau fod pechod yn erbyn brenhin yn gofyn gwaeth cosp na phechod yn erbyn un o'i ddeiliaid; a'r achos yw, fod ei effeithiau yn fwy helaeth a niweidiol. Oni bae effeithiau drwg pechod, *ni* fyddai ynddo un peth yn haeddu cosp; neu, a dywedyd yn fwy cywyr, yn gofyn ei gospi. Diben y gosp wladol ddylai fod i attal y drwg, ymddiffyn deiliaid ufudd y llywodraeth rhag cael eu drygu, a gwella y cospedig. Mae pawb yn addef fod rhai pechodau yn fwy pechadurus nag eraill—fod pechod Nero, wrth losci Rhufain, yn fwy o ddrwg na phechod yr hwn a esgeuluso roddi cwpanaid o ddwfr oer i'w frawd fyddo yn methu a'i gyrraedd ef ei hun. Mae hyn yn hanfodol i'r ymresymiad ddygir i brofi anfeidroldeb drwg pechod. Yn wir, mae cymmaint o wahanol raddau o bechodau, fel y mae yn ammhosibl meddwl y bydd i un o honynt haeddu damnedigaeth dragywyddol. Haeddu a ddywedais i? Haeddu ar law Duw yn wir!! Cyn gallu *haeddu* na cherydd na chosp, mae yn rhaid bod yn anymddibynol arno; a rhoddi iddo ei lawn dâl am ei nwydd.

Mae yr hwn fyddo wedi talu ugain swllt i'w gymmydog am bunt yn haeddu cael ei bunt yn eu lle; ac os na chaiff, bydd yn golledwr: ond pwy golled all dyn wneud i'w Dduw? Dim yn ddiau! Ond yr wyf yn gweled fy mod yn gadael y peth oeddwn yn amcanu atto, wrth sylwi ar *haeddu*, sef fod gwahanol raddau o ddrwg yn bod; ac o ganlyniad fod gwahanol raddau o gosp yn eisiau, a gwahanol barhad iddynt. Dywed ein Harglwydd Iesu Grist y 'Bydd i'r hwn a wybu ewyllys ei Arglwydd ac ni wnaeth, i gael ei guro â llawer ffonnod; ond mai ychydig ffonnodiau gaiff yr hwn ni wybu ei ewyllys ef, er yn haeddu rhai.' Yn unol â hyn mae dynion yn cael o ddiwrnod o garchar hyd alltudiad dros fywyd, ac hyd y nod eu crogi, yn ol eu gwahanol ddrygau, gan gyfraethau Lloegr. Mae y gwahaniaeth mor lleied rhwng y pechadur gwaethaf a'r nesaf ato, fel nas 'gall ond yr Hollwybod ol ei ganfod; a rhwng hwnw a'r nesaf nid oes dim ychwaneg yn ganfodadwy i ddyn: felly o radd i radd mae rhinwedd yn cynnyddu, a phechod yn lleihau, nes cyrraedd y dyn rhagoraf, a fydd ar ddeheulaw Crist, i gael ei wahodd i mewn i lawenydd ei Arglwydd. Ble ynte mae rhannu rhwng y rhai drwg goreu a'r rhai da gwaethaf? Mae yr ystyriaeth o hyn yn ddigon im argyhoeddi i na fydd na gwynfyd y naill yn berffaeth ar y cyntaf, na gwae y llall yn ddiderfyn.

Yn fy nesaf caf ateb rhai o wrthddadleuon Edwards, &c

VICAR ABERDAR A'R PLWYFOLION.

—

At Olygydd yr Ymofynydd.

Syr:—Os caniatewch le yn eich cyhoeddiad ammhleidiol i'r hyn a ganlyn, chwi a wnewch

gymmwynas â llawer o'ch derbynwyr yn yr ardal hon heblaw i yr ysgrifenydd, yr hwn a fydd yn dra diolchgar i chwi am y cyfryw.

Mae yn dra thebyg fod hanes hysbysiad ein Hathraw 'Ysbrydol' i'r Llywodraeth am ein moesoldeb, dysg, a ein hegwyddorion, wedi ymdaenu yn y iaith Saesneg agos trwy bob cwrr o'r ynys, tra y mae y Cymro uniaith mewn caddug o dywyllwch yng nghylch yr hyn ag y gwneir cymmaint cam-ddarluniadau cywilyddus (ac mor ddiffygiol o wir egwyddor Grist'nogol,) o honom fal plwyfolion. Yr ydwyf yn cyfaddef ein bod yn sefyll mewn angen cyfryngau gwybodaeth i raddau helaeth iawn, ac yr ydwyf yn teimlo fy hun yn ddiolchgar i'r Parch. Mr. Griffith a'r Llywodraeth am geisio cyflawni ein hanghenion, tra yr wyf o'r tu arall o anghenrheidrwydd i ddatgan fy nghasineb perffaith at un mesurau a dyfeision er dwyn hyn oddiamgylch a fyddo yn llawn twyll ac anwiredd.

Dywed y Vicar wrth y Llywodraeth fod y 'Gwyr yn hyfed yn y diod-ty, a bod y gwragedd yn hyfed gartref;' ac hefyd 'fod nos Sadwrn a nos Sul, ac hefyd ddydd Llun, *bob amser*, yn cael eu treulio yn y tafarn-dai, os bydd yr amser yn dda.' Dyma dystiolaeth ein Vicar ym mhen oddeutu *tair wythnos* o brawf. '*Budn barn pob ehud.*' Pa fodd y mae'r Vicar yn meddwl profi ei ddywediad, ai am na bai y plwyfolion oll yn pentyru i'w eglwys ef? Mae yn y plwyf hwn 12 o wahanol Addoldai helaeth, pa rai a orlenwir agos oll o wrandawyr difrifol bob Sabboth, ac y mae y Vicar ei hun yn cael yr anrhydedd o athrawiaethu ddwywaith bob Sul, a thrwy ei dduwiol esiampl a'i egwyddorion boneddigaidd, yng nghyd â'i *glecs* wrth Arglwdd John Russell, a'r cynnyg i osod toll ar y cerrig-beddau, wedi ennill iddo ei hun brydnawnau Sabbothau o chwech i wyth o wrandawyr! Nid yw y rhai hyn, os posibl, yn cael eu gollwng i'r diod-dai mor sydyn gwedi gwrandaw y cynghorion anffaeledig! Mae y Vicar wedi dywedyd wrth y Llywodraeth a'r Wladwriaeth, 'Nas gall dim fod yn fwy *isel* a *diraddiol* na sefyllfa y menywod mewn cydmariaeth â'r gwrywod yn Aberdar,' ac nad 'oes un petrusder yn y menywod i newyd eu dillad isaf o flaen y dynion;' a pheth sydd waeth byth, 'fod cyweithas gymmysgedig yn gyffredin rhwng y menywod a'r gwrrywod,' (hyny yw, fod y gwyr a'r gwragedd, y meibion a'r merched, yn cydfyw a chydgysgu blith-drafflith trwy eu gilydd,) 'ac na feddylir dim am hyn, ac nad yw y menywod yn colli eu parch trwy hyn.' Dyma ddyn llafurus mewn corph tair wythnos o amser! Dyma orchwyl *respectable* mewn Vicar, myned oddiamgylch y teiau y gweithwyr yn hwyr ac yn foreu i *bipan* trwy y ffenestri, er cael allan i foddlonrwydd pa fodd y mae y menywod druain yn newyd eu 'dillad isaf.' Gorchwyl *respectable* onite ydyw i ddyn mewn oed ymwthio i'r dirgel gornelau a chilfachau er cael gwybod dirgelion y gwahanol deuluoedd, yn enwedig y dull a phryd y mae y menywod yn newyd eu 'dillad isaf,' (yr hyn ni wna un dyn o gymmeriad ac ymarweddiad boneddigaidd fyned hanner lled ei droed er ei wybod,) er cael rhywbeth i'w ddywedyd yn ei *Penctyd* Aberdaraidd wrth y Llywodraeth yng nghylch moesoldeb y plwyfolion. Yr ydwyf fi yn preswylio yn Aberdar er ys mwy na 23 mlynedd, ac wedi treulio fy holl amser ym mhlith y mwnwyr a'r glowyr, wedi bod yn cydfwyta ein tamaid bara a chaws sych o'r lewd canfas yn nghrombil y ddaear, ac ar ei hwyneb, felly gallwn feddwl fy mod gwedi cael cryn dipyn gwell cyfleusdra i wybod mwy am arferiadau, defosiynau, yng nghyd ag egwyddorion y plwyfolion, a gweddeidd-dra y rhyw fenywaidd na y Vicar 'parchus' hwn. Er bod yma 23 mlynedd, ni ddigwyddodd i mi yng nghorph yr amser hwn weled cymmaint ag un o'r rhyfeddodau hyn a ganfyddwyd (os credwn,) gan yr athraw hyn, sef y 'menywod yn newyd eu dillad isaf o flaen y dynion.'

Nid wyf yn ammau *un* o ddywediadau ein Vicar, sef yw hynny, 'fod y gwrrywod yn ymolchi o flaen y menywod.' Dyma wirionedd am *unwaith!!* a diolch am dano, oblegid yr ydwyf yn cadarn gredu ei fod yn fwy o anrhydedd i'r gweithwyr daear—pa rai sydd o angenrheidrwydd yn rhwym o ymdroi yn y llwch a'r llaid er ennill eu bara beunyddiol—oddef eu cyhuddo o syberwyd a glanweithdra na'i gymmeradwyaeth ef yng nghanol y dom a'r aflendid corphorol, gwedi ymwisgo ein hunain a pharddu. Gwyr pob dyn rhesymmol ei fod yn rhy anhawdd i ddynion ymolchi yn gyfangwbl heb gynhorthwy; ac i ba le yr â y glöwr i ymlanhau ei hunan? ai allan i ben yr heol? Mae llawer o'r teiau yn yr ardal hon wedi eu hadeiladu gan Berchenogion Gweithfaoedd, heb ychwaneg nag UN ystafell yn y dosparth isaf!! Wel, ynte, pa beth ddywedai y Vicar pe gwelai y menywod yn dyfod yn heidiau o'r teiau i'r heolydd i'w gyfarfod ar brydnawn gwaith, er rhoddi cyfleu i'r dynion ymolchi? O! erbyn hyn bydd ei fwa wedi troi i'r gwrthwyneb, gan waeddi yng nghlustiau y Llywodraeth fod menywod yn dyfod yn heidiau i'w gyfarfod i'r heol, ac yn ei aflonyddu, neu eu bod yn myned i glecian at eu gilydd tra bo'r dynion yn ymolchi gartref. A yw Aberdar yn hyn o orchwyl yn wahanol i ryw Aber arall? Gallaf atteb dros Ddeheudir Cymru mai felly y mae, oddieithr yn ardal genidigol y Vicar, yn yr hwn le, fel y clywais, nid ynt yn ymolchi ond unwaith y flwyddyn, a hynny

yn nhymmor haf; ac allan yn yr afonydd y cymmer y fedyddfa le. Golygfa hardd, onite, gweled llu o ddynion yn *scrwbio* a diosg oddiar eu crwyn melynddu *Baw-blu yddyn?* Gydblwyfolion, pa beth a ddywedwn? A ydym yn frycheuyn yn llygad ein 'Hathraw?' Mae glowyr *Kingswood*, a *Forest of Dean*, a rhan fwyaf o *Stafford*, yn lân yn ei olwg ef, ond y maent yn aflan i'r eithaf yn ngolwg pob dyn syber â thrwsiadus. Mae amwisgo crys gwyn, y *frills*, *a'r breastpin*, yn ymddangos yn lled chwithig yng ngolwg y Cymro, tra bo'r holl gyfansoddiad (oddieithr y wyneb a'r dwylaw,) yn wir ddarlun o'r Ethiopiad croenddu. Ond i ddyfod at y *point*.

Os oedd ein Vicar yn canfod angen gwneud diwygiad yn ein moesau, arferion, a dull ein addysgiaeth, (yr hyn yn ddiau a wna ef yn ewyllysgar gyfaddef pan yn derbyn ei *bay*,) paham, yn enw pob rheswm, na buasai ein 'Hathraw Ysbrydol' yn dechreu gyntaf yng nghartref, Mr. Vicar—hen ddiaeb gan y Saeson yw '*Charity begins at home.*' Yn lle cyflawni y ddyledswydd bwysig hon, pa beth a wnaeth ond defnyddio ei ysgrifell i ein drwgliwio a'n gwarthruddio yn y modd mwyaf gwaradwyddus, wrth y Wlad a'r Senedd, yr hyn ni feiddia ei brofi pe bai byw dair oes Methusalem, a gadael pob dyn *deallus, adnabyddus* o'n hegwyddorion, &c., y cyffredin o honom, i farnu yn ddiragfarn am ein sobrwydd, yng nghyd â'n onestrwydd a'n ymddugiadau at ein meistri parchus. Ail holed y meddygon am ein dull o fywiolaethu, (a gadael y P.B. y mis i orwedd ym mhwll yr anwiredd neu gamsyniadau,) dull y menywod a'r gwrywod yn ymdrafod a'u gilydd, yng nghyd â gweddeiddra a glanweithtra y gwahanol deuluoedd, ac yna barned yn *gydwybodol* a oes yn ein mysg y cyfryw *farbareidd-dra* ag yr haera efe ei fod. Holed *pawb masnachwyr cyfrifol, adnabyddus* o honom, am ein ymarweddiadau a'n dull o dalu ein dyledion iddynt o fis i'r llall, ac yna barned yn *gydwybodol* a oes dim crefydd yn ein plwyf!

Pan ddaeth y Vicar gyntaf i'r ardal hon, yr wyf yn dra sicr iddo ef gael ei dderbyn mewn pob parch ac anrhydedd; ac, yn wir, yr ydoedd y rhan fwyaf o'r plwyfolion yn ymlawenhau yn fawr wrth gael i'w plith ddyn o alluoedd ac ewyllys (debygid y pryd hyny,) i wneuthur daioni yn yr ardal. Wrth dderbyn a mwynhau y groesawiad caredig hyn paham na buasai yr 'Athraw,' fel dyn didwyll ac athraw Cristionogol yn dywedyd a dinoethi ein beiau yng ngwydd ein *gwynebau*, fel y gwna Tad tyner geryddu ei blant, yn y ffordd fwyaf tebygol i gael allan y drwg, er anrhydedd iddo ei hun a daioni ei blwyfolion? '*Our best friends tell us of our faults, and teach us how to correct them.*' Ond pa beth a wnaeth? Pa fodd y bu? *Actio y bradwr a wnaeth!* Tra yr oeddem ni a'n gwenau siriol ar ein gwynebau, a'n mynwesau yn agored i'w dderbyn, gan ymbarotoi pob peth oedd gyrhaeddadwy er ei barchu fel dyn *diethr* yn yr ardal, bu *ynteu* yn dyfeisio y camgyhuddiadau mwyaf disail a gwaradwyddus a ddarfu un person gynllunio erioed yn ein herbyn, fel plwyfolion yn gyffredinol. Tra yr oeddem ni yn rhoddi pob caredigrwydd a mawredd a oedd yn ein meddiant fel '*barbariaid*,' dyma yr amser y gwelodd y Vicar yn dda gymmeryd mewn llaw, yn *ddistaw bach, ddrwgliwio* ein cymmeriadau, *cam*ddarluio yn enllibus ein moesau a'n hegwyddorion, gan wthio yn ddirgelaidd i fwrdd y Llywodraeth fel dosparth o ddynion mwyaf anfoesol, afluniaidd, a barbaraidd ym mhlith cenhedlaethau y greadigaeth.

Y Nefoedd a'n gwaredo rhag y fath *Vicer*waith waradwyddus ond hynny.

Yr eiddoch yn barchus,

UN O'R TRETH-DALWYR.

PHILOSOPHYDDIAETH ANIANYDDOL.

(NATURAL PHILOSOPHY.)

MR. GOLYGYDD,—Os gwir yw fod defnyddioldeb cymdeithasol dyn, yn nghyd a'i ddedwyddwch personol, yn ymddibynu ar ei dalentau a'i rinweddau; mae o bwys neilldiol i ymofyn pa foddion ydynt fwyaf cymhwys i gwrteithio yr nn a meithrin y llall; profiad a'n dysga y gwna dyn ymhyfrydu mewn cyfeiliornadau diddarfod, os na fydd ei alluoedd meddyliol dan lywodraeth rheolau cymhwys, a'i ymddygiad yn gydweddol ag egwyddorion rhinwedd; dyben mawr a phwysig addysgiaeth yw chwilio allan y rheolau a'r egwyddorion hyn, a'u cyflen at natur a galluoedd dyn. Anian a egyr faes helaeth ger bron yr ymofyngar a'r diwyd, lle geill y meddwl dderbyn maeth a chyfnerthiad parhaus; bwriadwyf gan hyny i anfon (os ystyriwch hwynt yn deilwng o le yn eich misolyn defnyddiol) o dro i dro, ychydig sylwadau mewn cyssylltiad ag Anianyddiaeth.

Mae philosophyddiaeth anianyddol yn cael ei rhanu i'r 'byd meddyliol, a'r 'byd materawl,' y rhai ydynt eilwaith yn cael eu rhanu a'u dosranu i wahanol ganghenau. Mae anianyddiaeth meddwl, a chymeryd i mewn wyddor moesau, yn trosglwyddo i ddyn y wybodaeth fwyaf reidiol o bob gwybodaeth, sef y wybodaeth a eglura gyfansoddiad rhyfeddol ac ardderchog y meddwl dynol; dengys egwyddorion rhinwedd yn ei phurdeb a'i hardderchogrwydd, dymunol,

deb cariad a brawdoldeb a ffurfiau anhygar llid a chenfigen, cyfnewidia opiniynau os yn anghywir, tawela y nwydau, a deffry deimladau cyfeillgar a charuaidd, penderfyna ymrysonau personol, symuda fesurau gormesol heb golli bywydau dynol, mewn gair rhydd i ddyn adnabod ei hunan, ei rwymedigaethau i'w Greawdwr, a'r dyledswyddau a berthynant iddo fel aelod o'r gymdeithas ddynol.

Anianyddiaeth naturiol a eglura briodoleddau cyrph sylweddol a'u gweithrediadau y naill ar y llall, gallnoga ddyn i amgyffred yn fwy trwyadl gyfansoddiad y bydysawd, ac i wneuthur natur a chelfyddyd yn wasanaethgar i angenrheidiau bywyd, drwy gywrain gyssylltu yr achosion hyny a ddygant i ben yr effeithiau mwyaf llesiol; yr anianydd naturiol a gasgl ei wybodaeth oddiwrth yr amrywiol ymddangosiadau o'i amgylch; gwel ddeddfau natur yn gweithredu yn esgyniad y mwg, yn nhrychioniad y mor, yn y gwlithyn cregdlws yn mhelydrau llon yr haul; enfyn allan ei feddwl dros faesydd èang a thoreithiog natur, i sylwi ar yr aneirif ryfeddodau a'i hamgylcha, a chasgl oddiwrthynt y cyfreithiau cyffredinol a dreiddiant anian.

Y mae o fewn cyrhaedd pob dyn a fedda ddigon o benderfyniad ac awydd am wybodaeth i ddyfod yn gyfarwydd â ffeithiau cyffredin gwahanol ganghenau dysgeidiaeth, a'r cyfreithiau anghyfnewidiol drwy ba rai y gweithreda y Creawdwr; holl gadwyn fawr gweithrediadau ac ymddangosiadau naturiol a gynnygiant i ddyn ddefnyddiau melus fyfyrdod, ac a dueddant i fawrhau ei ddrychfeddyliau am allu, doethineb, a daioni y Bod a alwodd y cyfan i fodoldeb.

Pa beth ydyw holl ryfeddodau celfyddydol ein hoes ond effaith dealliad cyfreithiau natur, a'u cyflead at wasanaeth dyn? Gwybodaeth gelfyddydol a alluogodd Mr. John Pollard, yn 1790, i ddirwyn pwys o gottwm i edefyn 132 o filldiroedd o hyd. Effaith hyn hefyd yw y *steam engine*, yr hon sydd wedi rhoddi cymaint mwy llywodraeth i'r oes bresenol dros elfenau natur nag oeddid yn feddu gynt, er engraifft, Herodotus a ddywed fod 100,000 o ddynion wedi treulio 20 mlynedd i adeiladu *pyramid* mawr yr Aifft, heblaw y dynion a barotoent y cerrig ac a'u cludent at yr adeilad. Buasai steam engines Prydain yn alluog i godi y cerrig i gymaint uwchder a'r pyramid mewn 18 o oriau á dim ond oddeutu 30,000 o ddynion; a gellir nodi allan lawer o ddiwygiadau eraill o'r un natur, ond yn bresenol caf ddiweddu yn ngeiriau 'Addison,' 'Pa mor wahanol yr ymddengys bywyd i'r dyn sydd wedi cyrhaedd henaint mewn gwybodaeth a doethineb, a'r dyn sydd wedi ei gyrhaedd mewn anwybodaeth a gwagedd; yr olaf sydd debyg i fedddiannydd gwlad lle nis cenfydd ddim ond mynyddau noeth a diffrwyth heb un blodeuyn hardd i blesera y llygad; y blaenaf a gyfyd ei olygon ar faesydd toreithiog, ar ddoldir gwyrddlas. ni all edrych ar un gyfran o'i etifeddiaeth helaethwych nad yw yn guddiedig gan ryw blanhigyn ffrwythlawn neu flodeuyn hardd.'

G.

DWFR.

Mr. Ymofynydd.—Os oes unrhyw fendith naturiol yn fwy gwerthfawr na'r llall, yr wyf yn sicr fod dwfr yn un o'r rhai mwyaf yn y byd. Credai'r hynafiaid fod dwfr yn sylwedd unrywiawg, ac yr oedd yn un o'u pedair elfen: ond yn awr gwyddys fod ei sylwedd yn amrywiawg, sef yn gynnwysedig o ddau fath o anwedd neu *gas—hydrogen* ac *oxygen*.

Mewn naw pwys o ddwfr y mae wyth yn oxygen ac un yn hydrogen: ac mewn tair modfedd neu droedfedd, &c. crwn o ddwfr, y mae dwy yn hydrogen ac un yn oxygen.

Y ffordd gyffredin i analyso dwfr, neu i wahanu y ddau anwedd yw'r un ganlynol:—Am ben saith *ounce*, neu bwys, neu beint, neu ryw fesur, mewn pottel wydr a genau llydan iddi, gosodwch ychydig o flawd haiarn durlif (*filings of iron*); yna sicrhawch y genau mor dyn nad elo dim anwedd trwyddo; yn y genau gosodwch ddau bibell wydr, gosodwch gorcyn yn un, a chylymwch bledren sych ysgafn wrth y llall: ar y blawd haiarn a'r dwfr arllwyswch *sulphuric acid* neu *oil of vitriol:* cymmer cynnwrf le yn y bottel yn union, a phoethiant mawr; pryd hyn bydd yr oxygen sydd yn y dwfr yn uno â'r haiarn, gan adael yr hydrogen yn rhydd i esgyn i'r bledren. Bydd y bledren mor ysgafn fel yr esgynai i nen y ty, a phe gosodid canwyll wrthi holltai gyda swn mawr fel ergyd cannon.

Ymgymmysga dwfr yn rhwydd, fel y mae'n hysbys i'r merched a'r gwragedd, â llawer iawn o sylweddau yn ddifesur, megys â llaeth, diod, &c. â sylweddau eraill ymgymmysga yn rhanol, megys amryw o'r *acids, alkalis*, a'r *crystals* halenaidd; ac y mae rhai sylweddau eraill a chanddynt wrthwynebiad anorchfygol i ddwfr, megys blawd, brwmstan, olew, &c.

Y dwfr puraf a ellir gael yn ei ansawdd naturiol yw tawdd eira glan, neu ddwfr gwlaw mewn llestr glan ar y maes: ond nid yw dwfr gwlaw yn hollol bur, oblegid pe gosodid ef mewn awyr-sugnedydd (*air-pump*) bwrlwmai allan o'r dwfr anwedd ag sydd yn llawnach o oxygen na'r awyr amgylchynol. Y mae'r dwfr a wneir trwy *ddistillo* dwfr cyffredin yn eithaf pur. Gellir

hefyd gwneyd dwfr hollol bur trwy gelfyddyd yn y modd canlynol. Gosodwch anwedd hydrogen ac oxygen yn ol y cyfartalrwydd uchod mewn pibell wydr yn y fath fodd ag y byddo gwyrsen gwpr trwyddi, unwch ddau pen y wyrsen â'r *galvanic battery*, ac ar darawiad amrant try'r anweddau yn ddwfr pur. Y mae pob dwfr ag sydd yn cyffwrdd â'r ddaiar yn cynnwys mwy neu lai o ronynau'r sylweddau cymmydogaethol, a'r ffordd fwyaf rhwydd i'w gwahanu yw trwy *ddistillation*. Yr achos fod dyfroedd y mor, a rhai ffynhonau yn feddyginiaethol yw fod sylweddau fferyllol wedi ymgymmysgu a hwynt, megys halen, haiarn, sulphur, &c.

Y mae effaith gwres ac oerfel ar ddwfr yn deilwng o sylw pob dyn. Ni wyddom ni ddim beth yw eithaf (*absolute*) gwres, nac eithaf oerfel. Absennoldeb gwres yw oerfel. Effaith gwres ar sylweddau yw dattod y cyssylltiad sydd rhwng eu gronynau, a'r canlyniad yw fod pob sylwedd fwy neu lai yn ol ei natur yn chwyddo mewn gwres, ac yn lleihau neu yn *ymwasgu* mewn oerfel. Y mae chwyddiant, fel y gwyr pawb, yn cymmeryd lle mewn dwfr wrth ymgymmysgu a gwres. Parha i chwyddo hyd nes y dechreua redeg ymaith yn anwedd (*steam*), neu y berwa. Cynted ag y byddo'r gwres wedi rhoddi digon o nerth i'r dwfr i orchfygu pwysau'r awyr, y mae'n berwi neu yn rhedeg ymaith yn anwedd (*steam*). O ganlyniad berwa'r dwfr weithiau yn gynt na'u gilydd yn ol fel y byddo ansawdd yr awyr; berwa yn gynt ar dywydd llaith gwlawog nag ar dywydd sych, ac yn gynt ar ben mynydd nag yng ngwaelod cwm. Berwa dwfr o tan awyrsugnedydd, pryd na byddo pwysau'r awyr arno, wrth un rhan o dri y gwres ag sydd yn ofynol i'w ferwi yn yr awyr ar dywydd sych. Cymmaint a hynna o berthynas i ddwfr mewn cyssylltiad a gwres.

Etto dwfr yn absennoldeb gwres neu mewn oerfel. Meddyliwn fod dwfr mewn ansawdd berwedig. Cynted ag y byddo'r gwres yn ymadael gan uno a'r awyr amgylchol, dechreua'r dwfr oeri, a'r chwyddiant leihau. I'r graddau y byddo'r gwres yn ymadael, i'r un gradd y bydd y dwfr yn oeri ac yn *ymwasgu*. Ond os yr ymadawa'r gwres i radd isel iawn, y mae gronynau'r dwfr yn ymwasgu gymmaint nes myned yn galed, neu y mae'r dwfr yn rhewi. Cynted ag y dechreua rewi y mae chwyddiant etto yn cymmeryd lle, ond o nattur wahanol i'r hwn a achosir gan wres. Yr achos o'r chwyddiant hwn yw fod y dwfr yn myned yn ronynau crystalaidd unffurfiol y rhai a unant a'u gilydd yn rhestri rheolaidd i wneyd i fynu un telpyn o ia, gan achosi o angenrheidrwydd wagle rhwng y rhestri. Gwna'r chwyddiant hwn y dwfr yn un rhan o ddeg yn fwy nag yn ei ansawdd naturiol. Hyn yw'r achos fod ia yn nofiad, pibellau dwfr yn hollti ar y rhew, a chloddiau a gwelydd gwlyb yn dadfeilio. Oddeutu mis yn ol—ar y rhew diweddaf, cymmerais ddernyn o hen faril dryll, llenwais ef a dwfr, a gosodais blwg yn dyn ynddo, ar ben y plwg estyllen, ac ar yr estyllen ddau ddernyn hanner cann pwys. Fy mwriad oedd i'r dwfr wrth rewi y noswaith honno i hollti'r faril, ond nid felly y bu, oblegid boreu drannoeth pan aethym i edrych am dano, yn lle hollti'r faril yn ol fy nymuniad, yr oedd y dwfr wedi gwthio y plwg ymaith, a'r astell a'r pwysau wrth gwrs wedi cwympo. Fy marn i wedi'n oedd pe buasai gennyf o ddeutu tynnell o bwysau i osod yn y plwg yr holitasai'r faril cyn y gwthid ef allan.

Ond rhyfedd mor ddoeth a daionus yw Duw yn ei holl weithredoedd! Oni bai'r chwyddiant hwn yn y dwfr wrth rewi, byddai mwy o ronynau mewn modfedd grwn o ia, nag mewn modfedd o ddwfr, a'r canlyniad fyddai i'r ia wrth ddadlaeth i syrthio fel careg i'r gwaelod. Mewn moroedd, llynoedd, ac afonydd dyfnion, parhauai'r ia trwy'r haf heb doddi hyd nes delai y gauaf eilwaith, ac felly ym mhen ychydig o flynyddau troai'r dyfroedd yn un pentwr o ia, ni fyddai fawr neu ddim cymmylau a gwlaw i ireiddio'r ddaiar, a byddai pob perchen bywyd farw, yn ddyn, yn anifail, yn goedydd, a llysiau!!

D. E.

NEWYDDION.

CARTREFOL A THRAMOR.

Y mae y digwyddiadau a gymmerasant le y mis diweddaf ar y Cyfandir mor bwysig yn eu nhatur, ac yn eu canlyniadau, fely teilyngant sylw ac ystyriaeth pob carwr rhyddid a dynoliaeth. Teimlwn yn ormod gorchwyl i ni yn bresenol i roddi desgrifiad llawn o honynt yn eu trefn ac yn eu perthynas â'u gilydd. Yr oeddem yn bwriadu gwneuthur hynny, ond rhaid i ni gyfaddef ein bod yn methu o boddloni ein hunain. Y mae y gwaith yn gofyn mwy o fanylwch, a mwy o wybodaeth o'r amgylchiadau nag a allwn ni yn awr ei roddi iddo. Erbyn y mis nesaf dichon bydd y cyfnewidiad wedi cyrhaeddyd rhyw fesur addfedrwydd, ac y bydd gwahanol ganghenau o'r Genedl Germanaidd wedi cyttuno â'r Undeb Gwladol a Chenhedlaethol. Y maent yn gwneuthur parotoadau tuag at hynny. Ond, 'Ni wyddom beth all ddigwydd mewn diwrnod,' chwaethach mewn mis neu flwyddyn i ddyfod.

Prin oedd y cyfnewidiad mawr wedi dyfod

ar *Paris* ac ar Ffrainc, a roisom fyr hanes o hono yn ein rhifyn diweddaf, pan welwyd 'cwmmwl bychan maint cledr llaw gwr,' yr hwn a arwyddai fod tymmestl gerllaw. Dechreuodd yn *Colonge, Eberfeld, Dusseldorf*, ac oddiyno cychwynodd yn y blaen; ac fel oedd y swn am y Chwyldroad Ffrengig yn rhedeg yn dra buan trwy y teyrnasoedd amgylchynol, fe barai gyffro anghyffredin yn y dinasoedd a'r gwledydd hynny lle'r oedd y trigolion yn awyddus i gyfnewidiad, neu yn teimlo yr anghen o hono. Ac os aeth y *storm* heibio i Ffraingc dros ryw ennyd, yn fuan y gwelwyd hi yn dysgub dros lennydd yr afon RHINE, a thrwy ororau GERMANI, hyd yn BERLIN a VIENNA. Y waedd gyffredinol oedd am gael Rhyddid y Wasg—Llywodraeth i a thrwy y Bobl—Cyfreithiau i'w cael eu sefydlu gan eu Cynddrychiolwyr — Gwarchawd Cenhedlaethol neu ddinasol—a Masnach Rydd. Caniattawyd y gofyniadau mewn rhan yn uniongyrch gan nid yn unig y tywysogaethau bychain yn Germani, ond hefyd gan Prwssia ac Awstria, ynghyd ag addaw i gydsynio yn gwbl â dymuniad y bobl am ddiwygiad trwyadl mor gynted ag y gellir. Dygwyd hyn oddiamgylch, ar y cyfan, gyda chryn dawelwch. Bu peth terfysg yn Berlin. a chollwyd rhai bywydau yno. Yn Vienna, lle'r amcanodd y Llywodraeth wrthsefyll cais y bobl, a gosod i lawr y terfysg trwy rym arfau, bu brwydr boeth dros ychydig o amser. Ond rhai o'r milwyr a ommeddasant ymladd, ac eraill o honynt a ortrechwyd gan y bobl; ac o'r diwedd gorfu ar yr Ymerawdwr roddi i fynu, a chymmeryd gweinidogion a mesurau newydd, yn ol cais y bobl. Metternich, ei brif weinidog, wrth gyngor yr hwn yr oedd Awstria a'i thaleithau ymddibynol dros lawer o flynyddoedd yn cael ei llywodraethu, a welodd fod perygl bellach yn ei aros: ffôdd am ei einioes, a diangodd o'r wlad. Ar yr un pryd cyfododd trigolion MILAN, prif ddinas LOMBARDY, yn yr Ital Ogleddol, gan ymdrechu o un fryd i daflu ymaith iau yr Awstriaid. Wedi ymladd â'r milwyr dros bum diwrnod, daeth eu cymmydogion, y Piedmontese, drosodd i'w cymmorth, ac ar hynny yr Awstriaid a giliasant o'r lle. Nid ydynt wedi ymadael â'r wlad. Y mae tua 50 mil o honynt wedi casglu ac yn aros yn Verona a'r cylchoedd.

Y mae byddin y Piedmontese dan Charles Albert, a'r Italiaid ag sy'n cyrchu yno o bob cwrr o'r wlad, yn ymbarotoi i ymosod ar yr Awstriaid. Disgwyliwn glywed gyda'r newyddion nesaf fod brwydr fawr wedi cymeryd lle; neu ynte fod yr Awstriaid wedi cyttuno ar ammodau i roddi Lombardy i fynu. Yr ydym yn clywed fod byddin o Ffrancod yn dal eu hunain yn barod i groesi'r Alps yn gymmorth i Charles Albert, os bydd iddo gael ei ortrechu gan yr Awstriaid.

Y mae brenin Prussia wedi anfon milwyr i Schleswig i amddiffyn trigolion y lle hwnw, y rhai a fynnant ymwrthod â Denmarc ac uno â Germani. Gohiriwyd yr etholiadau yn Ffrainc o'r 9ed i'r 24ain o Ebrill. Y mae y *clubs* yn Paris wedi ceisio gwneud terfysg er mwyn cael y Llywodraeth i'w llaw eu hunain, ond heb lwyddo. Ymddengys fod M. Lamartine a'i gydweithredwyr hyd yma yn gryf mewn awdurdod, ac yn uchel mewn cymmeradwyaeth. Y mae ei waith yn cadw Ffrainc mewn heddwch â gwledydd eraill wedi rhoddi boddhad cyffredinol.

Y mae trigolion yr Iwerddon yn anesmwyth iawn—fel pe baent yn parotoi yn erbyn gwrthryfel. Bydd treial *Smith O'Brien, Mitchell,* a *Meagher,* am derfysg, (*sedition,*) wedi cymmeryd lle, ond odid, erbyn bod y rhifyn hwn maes o'r wasg. Y mae *true bill* wedi ei ffeindio yn eu herbyn.

Tua dechreu Ebrill darfu i'r Chartists—ac yn neillduol y *National Convention,* yn Llundain—beri peth braw i'r Llywodraeth, ond heb un achos digonol, cyn belled ag y'm ni yn deall. Bwriadesid cynnal cyfarfod mawr ar ddydd Llun, y 10ed, yn *Kennington Common,* ar yr achlysur o gario y Petisiwn mawr am gael y *Charter* i Dy y Cyffredin. Yn rhyw fodd yr oeddid yn ofni y byddai terfysg os nad gwrthryfel. Cafodd 150 mil eu tyngu i fod yn gwnstebli, ond aeth y cyfarfod a'r dydd heibio yn ddigon tawel. Dywedir mai tua 20 mil oedd y rhai a gyfarfuant ar y *Common.*

Y mae dwy *Act* ag y mae y Llywodraeth wedi newydd eu dwyn i'r Senedd, ac a gant eu *passio* mor gynted a fyddo yn bosibl—un yn rhoddi pwer ar ddieithriaid a ddelont i'n gwlad, (*Alien Act,*) a'r llall yn tynnu y llinyn yn lled dynn ar y rhyddid o 'lefaru geiriau' yn erbyn drwg-lywodraeth—fel nad allant lai na galw ar gof amserau Pitt a Chastlereagh. Ond y mae y rhan amlaf (o lawer) o'n Seneddwyr, ynghyd â'r Llywodraeth, yn ystyried eu bod yn anghenrheidiol ar y pryd hwn: a dywedir na fydd iddynt i gael para yn hir. Y mae yn amlwg fod rhyw berygl yng ngolwg ein Llywodraethwyr ag na wyddom ni am dano. Y mae lles y cyffredin, a'r bobl weithgar yn anad neb, yn gofyn *tawelwch,* a bod masnach a threfn wladol yn sefydlog. Ac ar yr un pryd rhaid addef na fydd un sefydliad yn barhaus, nac yn haeddu parhad, ond cyn belled ag y byddo yn gysson a *chyfiawnder a dyngarwch.* I.

MARWOLAETH.

Nos Wener, y 14 o Ebrill, o'r darfodedigaeth, bu farw John Isaac, Perthyronen, ger Llandyssil, yn 42 oed. Y Llun canlynol, daeth tyrfa luosog ynghyd, i weinyddu y gymwynas olaf iddo; a chludwyd ef, yn benaf gan ei frodyr Iforaidd, i dy ei hir artref, yn mynwent Pantydefaid. Bu'r trengedig yn aelod selog yn y Capel uchod am 15 mlynedd; a'r tair blynedd olaf o'i fywyd, bu'n addoli gyda'r Undodiaid yn Cefncoedycymmar. Nid dyn o broffes yn unig ydoedd, ond yr oedd ei holl fywyd yn hynod am ymddygiad da:—yr oedd yn ddyn *geirwir*, o *dymer araf*, ac yn barod i wneuthur a allai o ddaioni i bawb. Bydded i'w siampl gael ei hefelychu gan drigolion y gymydogaeth yr oedd yn byw ynddi. Hunodd yn yr Arglwydd, a'i weithredoedd a'i canlynant ef.

Cyfodir John o'r bedd i'r lan,
Ryw ddydd mewn anfarwoldeb;
Teyrnasu gyda'r Iesu ca,
Dros oesoedd trag'wyddoldeb.—T. T.

DYCHYMYG.

Y mae rhyw wrthrych hynod,
Yn mhlwyf Llandyssil 'nawr,
Fe fedr deithio'n gyflym,
Heb osod troed i lawr;
Ac nid oes ganddo aden,
Na phlyfyn ar ei groen.
Tra fyddo yn ei fwthyn
Mae'n addfwyn fel yr oen:
Ei ddull ef wrth ymdeithio
Yw sefyll ar ei ben,
A'i draed i'r lan yn gywir,
A'u gwadnau tua'r nen,
Mae ef yn myn'd i'r cyrddau,
Yn fynych dan y gair
Mae weithiau yn y farchnad,
Ac hefyd yn y ffair.
Mae ganddo lygaid prydferth,
A chlystiau crwnion llawn;
Ond nid yw'n gallu clywed
Na chanfod dim yn iawn;
Mae ganddo dafod hefyd,
Ond nis gall dd'wedyd gair,
Ond nid oes ganddo ddannedd
I fwyta gwellt na gwair.
Ac nid yw yn ymborthi
Ar ffrwythau'r ddaear las,
Na bara chaws, na 'menyn,
Ni wyr ef ddim o'u blas;
Os dygwydd ef i farw,
Cyn myn'd yn mhell o'i le,
Mae dynion call yn barnu
Y caiff feddiannu'r ne',
Os gellwch roddi ateb
Beth ydyw'r gwrthrych hardd,
Cewch ddiolchgarwch gwresog,
Diysgog gan y bardd.

IOAN TRIFFLYG.

ATTEB

I ddychymyg Crwydryn, yn rhif. Chwefror.

'Rwyt, Grwydryn Dyffryn Clettwr,
Yn dailiwr 'fallai'n wir;
Ac yn dy feddiant sisiwrn,
A hwnw'n eitha' dûr
A phan bo hwn yn ieuanc,
'Does un dant yn ei ên;
Ond 'nol ei hir ddefnyddio,
Bydd dannedd gantho'n hen;
Mae'th fysedd yn ei lygaid,
'Does ryfedd yn y byd;
Na bai ei enau llydan,
Yn ddannedd trwyddo i gyd;
A sisiwrn wyf yn feddwl
Yw'r gwrthrych sydd gen'ti:
Os yw e'n rhywbeth arall,
Mae maes o neall i.

Pant-wilio. J. DAVIES.

BARDDONIAETH.

ANNERCHIAD I DDYN CELWYDDOG.

Tydi a'th wefys lawn o dwyll,
Heb arfer pwyll ymarwedd;
O edrych, gwel yn awr, a chlyw,
Afiached yw dy fuchedd.

Creu anghyfeillach yw dy waith,
Drwy ystod taith dy fywyd;
A melldith wyt mewn tref a gwlad,
Trwy 'th arfer anfad ynfyd.

Beth pe bai pawb fel ti dy hun,
Heb garu'r un gwirionedd;
Pa ryw wybodaeth gaem, pa ddawn,
Ai'r byd yn llawn o lygredd.

Wyt frad cymdeithas yn mhob man,
Yr adyn anwynfydig;
Yn ail i'r pla'r wyt ti'n ein plith,
A'th enau'n nyth wenwynig.

Pa faint o gymdeithasau gwych,
Sydd 'nawr dan nych yn achwyn;
A roisant gyfle, i ti a'th fath,
Rai cul, roi brathiad colyn.

Llwyr ofer fyddai'r oll o'th gais,
Er maint dy drais a'th drawsedd;
Pe cait i'th bleidio tan a dûr,
Wrth'nebu pur wirionedd.

Os yw ei bleidwyr weithiau'n wan,
Mae'n gryf o ran ei rinwedd;
Dan ofal Duw y Nef, a dir
Y rhed mewn gwir anrhydedd.

Ond am y celwydd, cloff a fydd,
Er cael peiriannydd cywraint;
Arwyddion nychdod ynddo gawn,
Yn gynnar iawn, ac henaint.

Deil yntau'r gwir yr un'n ei chwaeth,
Nid mymryn gwaeth o'i chwilio;
Trwy oes yr oesoedd yn ddilyth,
Ni ellir fyth ei ddryllio.

Yr hwn sy'n arfer dweyd y gwir,
Rhydd pawb ymddiried iddo;
Wna adgof fyth i hwn fel ti,
Gelwyddwr, i g'wilyddio.

O gwel ei olwg serchog ef,
Mae tangnef yn ei galon;
Mae'n un o hyd sy'n chwennych byw;
Yn gyfaill Duw a dynion.

Fe allei 'th fod, ow gwae dy fyd,
Dan dâl yn dwedyd celwydd;
Ond myrdd rhy fach o coelia fi,
I'th wneud yn ddigolledydd.

Beth yw cael parch gan dreiswyr byd,
Am foddio'u cydfwriadau;
Neu'r oll o gyfoeth y byd hwn,
I ddyn dan bwnn o boenau.

Happusrwydd geri, gwael dy ran,
Tra'n dilyn anwadalwch;
Un awr nid oes ar anwar dir,
O ddiddan wir ddedwyddwch.

Os mynni gael o'r mwyniant llon,
A fedd y fron gyssurus;
Cais asgre lan diwygia 'th hun,
Doi yna'n ddyn daionus.

Merthyr. TIMOTHY DAVIES.

BARCHEDIG YMOFYNYDD:—Dilys y bydd yn hoff gan lawer o'ch darllenwyr weled y cyfieithad isod, o'r Hymn a ganwyd yn Sheffield, ar ddydd gwyl y brenhin, (neu yn ol y saesneg dydd Ympryd) yn y flwyddyn 1794, gan mai yr enwog D. Davis gynt o Gastell Howell a'i trödd i'r Gymraeg. Mae dau gyfieithad arall eisiws o flaen y Cymru. Y naill gan y Parchedig Edward Evan, o Aberdar yn 'Afalau'r Awen,' tu dalen 60; a'r llall gan y Parchedig Thomas Evans, o'r un lle, yn ei Hymnau, tu dalen 94. Efallai Syr, byddai yn ddoeth i chwi i argraffu y Saesnaeg gyda llaw, fel y gallo y rhai, a fedrant wneuthur barn gyfiawn, weled pa un o'r tri Bardd oedd y cyfieithydd goreu.

Ydwyf, &c.
J. JONES.

O Arglwydd Ior! rho glust yn fwyn,
Cyflawna'n cais—ystyria'n cwyn:
Ymddifaidd lu—a gweddwon lef
Am gael dy nawdd—A ball Duw'r Nef?

Mae llid, a chosp, ar lled, a chur;
A gwialen Duw drwy'n euog dir,
Holl Ewrop gron sydd trwyddi'n gryd;
Dy daran di ar dân ai dyd.

Ei thyrrau drowd, yn llwch dan draed;
A'i ffrydiau dwr, yn ffrydiau gwaed:
Gwyr mwya'u clod, mae grym y clêdd
Yn fwrw'n fyrdd yn feirw i fêdd.

Ti'n Duw, a'n Hollalluog Ior!
A rwymi'r gwynt, a thonnau'r mor,
Gorthrymwyr beilch, cynddeiriog dof;
A'r cablwyr hyll dwg etto i'w côf.

Dinoetha'th fraich trwy'r byd yn awr,
Y fraich rydd iechydwriaeth fawr;
Y fraich a dorrai gynt yn frau,
I Israel gaeth, yr Aiphtiaidd Iau.

Pob carchar tor, a chlwm, a chlo;
I gaethion breintiau rhydd-did rho.
Ymg'ledda'r gwir—maluria'r cledd—
Rho'r gair—cawn haf, a byd o hedd.

Y MARCHNADOEDD.

LLUNDAIN.	s.	s.		s.	s.
Gwenith coch	42	50	Teg	24	26
Teg.. ..	43	52	Poland ..	22	26
Gwyn ..	42	49	Cloron ..	24	26
Teg.. ..	46	55	CAERFYRDDIN.		
Blawd, sach	42	47	Gwenith ..	70	76
Haidd ..	25	32	Haidd ..	40	43
Bragu ..	31	33	Ceirch ..	16	20
Brag	50	54	Caws, pwys	03	04
Llwyd ..	52	57	Ymenyn ..	09	10
Rhyg	30	32	Cloron ..	00	01
Pys, moch ..	36	40	Cig Eidion	05	06
Maple ..	38	41	Maharen..	05	07
Berwi ..	42	54	Llo.. ..	05	06
Ffa, Ticks ..	30	32	Moch ..	05	07
Colomen ..	38	40	Twrciaid ..	30	56
Harrow ..	33	36	Gwyddau ..	26	36
Ceirch ..	19	21	Hwyaid ..	13	19
			Ieir	09	10

[Dygwyddodd rhai gwallau yn y Rhifynau diweddaf o'r YMOFYNYDD. Yn Rhifyn Mawrth, tudal. 166, y golofn gyntaf, 24 llinell o'r gwaelod, darllener—'Y mae llyfr natur, a dadguddiad hefyd, yn dangos,' &c. Rhifyn Ebrill, 'Emyn Gwawr Boreu Rhydd-did,' y drydedd llinell o'r trydydd pennill, yn lle 'hadau hardd,' darllener 'hadau tardd.']

CAERFYRDDIN: argraffwyd gan J. T. JONES, yn ei Argraff-dy cyffredinol, yn yr Heol-Las, Plwyf Sant Pedr. Mai, 1848.

AT EIN DERBYNWYR.

DERBYNIR enwau Derbynwyr i'r YMOFYNYDD gan y Parch. Rees Davies, Capel-y-groes, sir Aberteifi; T. Griffiths, Cribyn; Thomas Thomas, Pantydefaid; J. Thomas Llandyssil; J. Davies, Castellnewydd; D. Lloyd, Caerfyrddin; D. Griffiths, Llandilo; J. James, Gellionnen; David Jones, Blaengwrach; J. Jones, Aberdar; O. Evans, Cefn; Titus [illegible]d, Nottage: Mr. W. Howells, Merthyr Tydfil; W. Lewis, Maes-[illegible] Cwmnedd; E. Davies, Meddyg, Dinas; W. Dawkins, Pontyty-[illegible] Benjamin Evans, China Merchant, Caerdydd; W. Morgan, [illegible] Pencoed; Mr. T. R. Davies, Castle-street, Abertawe; a chan e[illegible] da eraill, yn gystal a chan yr Argraffydd, a chan y Golygydd, J[illegible] Jones, Gweinidog Undodaidd, Penybont, Morganwg.

[illegible]wn ar ein Gohebwyr i anfon eu cyfansoddiadau a'u llythyron—*pos*[illegible]—i'r Golygydd, fel y caulyn:—

Rev. JOHN E. JONES,
Bridgend,
Glamorganshire.

AT EIN GOHEBWYR.

DERBYNIWEDD Y MIS:—O. Evans; Philo; Amicus; G., Llandilo; W. W., Aberdar; J. Jones; Arvoniau; T. G., W.

G. T. Gimei ac Arvoniau (os yn bossiol) yn ein nesaf. Rhaid i mi ddeisyf ar eraill o'n Gohebwyr i gyd-ddwyn â ni.

WD 15 June 1946

YR YMOFYNYDD.

Nid ydym yn attebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr.—GOL.

'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.'—PAUL.

FFUG-OSTYNGEIDDRWYDD.

CYDNABYDDIR yn gyffredin, o leiaf mewn geiriau, fod gostyngeiddrwydd yn un o ffrwythau hardd y ddoethineb sydd oddi uchod, ac ei fod yn nod o wir Gristion. Os felly, dyma hefyd un o nodau y gwirionedd, sef ei fod yn ei effeithiau naturiol yn meithrin gostyngeiddrwydd meddwl o rap ein barn am danom ein hunain, ac am eraill, ac yn neillduol am y Duw a'n gwnaeth. Dyma faen-prawf, onite, ag y gellid dwyn athrawiaethau, nid personau, i'w profi wrtho? Pa rai o'r croes-athrawiaethau sydd o dueddiad naturiol i greu a meithrin gwir ostyngeiddrwydd yn y sawl a'u credant? Onid oddiwrth y ffrwythau yr adnabyddir natur y pren? Mae yn wir mai nid gostyngeiddrwydd yw y cwbl o rinwedd neu ddyled dyn; ond y mae yn rhan bwysig o hono. 'Gwysger chwi â gostyngeiddrwydd,' sydd ddymuniad gwir apostolaidd. Dyma y wysg sy'n gweddu y Cristion: ac nid gwysg allanol yn unig ydyw, ond y mae hefyd yn addurno 'dyn tufewnol y galon.' O! mor brydferth, mor hardd yng ngolwg pob doeth a da, yw tymmer ac ymarweddiad y dyn gwir ostyngedig! Ond yn mha le y cawn ni ef? Pa sut mae i ni ei adnabod a'i wahaniaethu oddiwrth yr amrywiol gymmeriadau ag sy'n ymrithio ar ei wedd, a hyny mewn rhan yn wybodol iddynt, ac mewn rhan yn ddiarwybod? Awn i ymofyn am dano ymhlith yr annysgedig. Y mae yn ddiau i'w gael yn aml yn y ddosparth yma. Ond nid yw'r wlad a'r gymydogaeth yn gwybod nemawr am dano. Nid yw ef yn chwennych blaenoriaeth a hynodrwydd; nid yw yn ymwthio ei hun o flaen y cyhoedd; y mae ei ostyngeiddrwydd yn ei gadw o'r golwg. Ei deulu a'r sawl a'i trafodant fwyaf, os yn ddynion ystyriol, a wyddant ei werth. Mewn myfyrdod dirgel a chymmundeb â'i Dduw, neu ynte ar lwybr tawel ei ddyledswyddau beunyddiol, y byddwn fwyaf tebyg o gwrdd ag ef. Ni udgenir fyth udgorn o'i flaen, ac ni chlywir ei lais yn yr heolydd. 'Ei dad yr hwn a wel yn y dirgel,' a wyr am dano, ac a'i cymmeradwya. Nid awn i ymofyn am ostyngeiddrwydd gyda'r hollol anwybodus. Cam arferyd geiriau fyddai siarad am ostyngeiddrwydd creadur diwybodaeth. Cymmerwn yn ganiattaol fod darllenwyr yr YMOFYNYDD yn cyttuno â ni mai gwir wybodaeth, ac yn neillduol y wybodaeth sydd trwy Grist, yw'r peth sy'n creu ac yn meithrin y rinwedd hon.

Ond awn i ymofyn am y dyn gostyngedig ei feddwl ymhlith dysgedigion.

Paham na cheir ef yma? Pe cymmerid geiriau yr apostol Paul yn ddesgrifiad o ostyngeiddrwydd, sef, 'Na fydded i neb uchel-synied yn amgen nag y dylid synied; eithr synied i sobrwydd fel y rhannodd Duw i bob un,' yna fe ellid disgwyl mai y dysgediccaf a'r mwyaf gwybodus fyddai y gostyngeiddiaf; canys y cyfryw ddylent wybod oreu pa beth a 'ddylent synied.' Ond y mae profiad yn dangos nad yw llawer o ddysgeidiaeth ddim bob amser yn gwneud ei pherchenog yn ostyngedig. Y mae 'gwybodaeth ag sydd yn ymchwyddo,' oddieithr ei bod wedi ei thymmeru â'r cariad ag sydd trwy efengyl Iesu Grist. Pa fodd bynag, gallwn enwi Locke a Newton, ac ereill, y rhai oeddent yn blaenori yn eu hoes mewn dysgeidiaeth a gwybodaethau, ac etto yn ddynion gostyngedig mewn ystyr grefyddol.

Y mae gostyngeiddrwydd yn cydweddu â phob gradd a chyflwr o ran amgylchiadau bywyd; ac y mae yn wrthddrych tlws a phrydferth lle bynag yr ymddangoso, pa un ai yn y palas neu yn y bwthyn; yn y dyn ag na fyddo wedi cael manteision dysgeidiaeth, neu ynte yn y gwybodus a'r dysgedig.

Nid yw gostyngeiddrwydd yn gofyn i neb i synied yn îs neu yn waelach am danynt eu hunain nag y dylid synied, llawer llai i ddiraddio a diystyru eu hunain fel gwaith eu Creawdwr. Ynfydrwydd fyddai i ddyn ystyried ei hun yn ysgrubliad, neu yn anifail, neu yn un peth arall ag nad yw mewn gwirionedd.

Y mae rhai syniadau ac ymddygiadau ag sy'n gyffredin iawn, ac yn cael eu cymmeradwyo yn fawr fel nodau o ostyngeiddrwydd, neu fel yn tueddu i feithrin y rinwedd hon, pan nad ydynt felly mewn gwirionedd. Nid yn unig y mae y twyllwr a'r rhagrithiwr yn gwysgo am dano rith gostyngeiddrwydd er mwyn cyrhaeddyd ei amcanion, ond y mae athrawiaethau a chyflawniadau tra chrefyddol ag sy'n cael eu hystyried yn anhepgorol i ostyngeiddrwydd Crist'nogol, pa rai, o chwilio iddynt, a'u hystyried yn bwyllog, fe welir mai slafeidd-dra ysbrydol, coel-grefydd neu anystyriaeth, os nad balchder a rhyfyg, sydd yn eu gwraidd ac yn eu ffrwythau naturiol. Cynnygiwn ychydig o sylwadau ar rai o honynt.

Yn gyntaf, ar ostyngeiddrwydd y *Credoau* a'r *Dirgeledigaethau.* Os bydd i ddyn dderbyn yn ddiholiad gredo boblogaidd ei wlad, a phara i'w phroffesu yn ffyddlon ac yn wresog, heb ammeu ei gwirionedd na chwilio i'w sail, cyfrifir hyn iddo yn *ostyngeiddrwydd,* ac yn daliad o barch ac ymostyngiad dyledus i'r lluaws o dduwiolion ag a fu, ac y sydd yn proffesu y ffydd union-gred. Ddyn gwan! A wyt yn plygu dy ben fel brwynen o flaen dy gyd ddynion, ac yn rhoddi i fynu dy gydwybod a'th ddeall i'w gofal, fel pe baent yn fath o gyfryngwyr rhyngot â'th Dduw, gan dybied, fe allai, mai ymddwyn felly yw bod yn ostyngedig o flaen Duw? Os ydwyt mor ynfyd â diystyru y dalent a ymddiriedwyd it' fel creadur rhesymol, etto, cofia mai tydi raid drosot dy hun roddi cyfrif yn y farn. Ai dy *wobrwyo* ddisgwyli gael am dy slafeidd-dra hyn, a'th anufudd-dod a'th anniolchgarwch i Dduw? Pe bai pawb fel tydi a'th fath, buasai gwirionedd a chrefydd wedi darfod yn y byd. Na thybia fod dy gyflwr yn ddiogel am dy fod yn gwysgo am danat ffug-ostyngeiddrwydd.

Am y rhai sy'n ffurfio credoau i eraill, a'r sawl sy'n ceisio eu rhwymo ar gydwybodau dynion, na sonier am eu gostyngeiddrwydd hwy: nid oes un *rhith* o hono ganddynt; ond traws-awdurdod o'r mwyaf noeth a rhyfygus. Onid yw yn beth rhyfedd bod dynion yn myned at y fath dreiswyr balch a gwageddus er mwyn dysgu gostyngeiddrwydd?

A thyma ostyngeiddrwydd y *dirgeledigaethau* hefyd, ag yr ydys yn gosod cymmaint o bwys arno gan yr holl deulu iawn-ffyddiog, fawr a mân—yn gofyn ymwadu â rheswm er mwyn dysgu crefydd, rhoddi heibio'r deall er mwyn llyncu dirgelwch. Llyncu dirgelwch, beth yw hyny ond 'ymborthi ar wynt? Swydd weddus odiaeth, onide, i'r sawl a alwant eu hunain yn 'blant y goleuni?' Dywedir, er siampl, am athrawiaeth y Drindod, ei bod gymmaint uwchlaw rheswm dynol, ac yn ymddangos mor groes i reswm, fel nad ellir ei chredu heb gael meddu ar radd fawr o'r gostyngeiddrwydd a enwyd. Ac y mae hyn yn wir ei wala; ond nid yw yn dywedyd nemawr er canmoliaeth neu gadarnhad i'r athrawiaeth, eithr y gwrthwyneb yn hollol. Na, na, nid heb beth rheswm y dywed amddiffynwyr yr athrawiaeth hon, ei fod yn ofynol rhoddi heibio reswm cyn ei derbyn a'i chredu. Gwagedd yw hyn hefyd, a *ffug-ostyngeiddrwydd.* Na feddylied y dyn hwnnw ag sy'n addoli dirgelwch, mai o flaen 'Duw y Goleuni' y mae yn ymgrymmu. Pe byddai y geiriau 'Tri yn Un,' a 'Thri pherson yn yr hanfod Ddwyfol,' a'r cyffelyb eiriau a ddefnyddir i osod allan yr athrawiaeth, i'w cael yn y Bibl, byddai cwyn gennym iddynt. Ond fe wyr pawb ond yr anwybodus nad ydynt i'w cael yn y Bibl; ond fod y geiriau, (ac os y geiriau, onid yr athrawiaeth hefyd?) wedi dyfod allan o ysgolion dysgeidiaeth ddynol. Hyderwn ei fod yn ddiraid i brofi ger bron darllenwyr yr YMOFYNYDD, mai nid coegni balch a rhyfygus, ond mai gwir ostyngeddrwydd, mai ein dyledswydd a'n helw a'n braint, yw defnyddio ein deall a'n hegni a phob cyfleusdra, er mwyn cael adnabyddiaeth o'n Duw a'n Tad; a bod 'Tad ein Hysbrydoedd' yn hoffi gweled ei blant yn ceisio dynesu atto.

Sylwn yn nesaf ar *ostyngeiddrwydd gwyr yr arfaeth.* 'Nid un teilyngdod na chymmwysder a ragwelwyd ynom ni,' medd y rhai hyn, 'oedd yr achos o'n hetholedigaeth bersonol a diammodol, ond y cwbl o ben-arglwyddiaeth Duw a'i râd râs. Passiwyd heibio ein gwell a'n callach ni, mwy bucheddol a defnyddiol, a chymmerwyd ni i fynu o'r dommen i gael myned yng ngherbyd gras tua'r gogoniant a arfaethwyd i ni cyn bod y byd. Pe buasai Duw ddim ond dangos ei gyfiawnder tuag attom, ein rhan ddyledus fyddai i fod gyda'r gwrthodedigion yn y fflamiau am byth. Ond y mae yn achos i ni orfoleddu am ein bod wedi derbyn *arwyddion* ein bod o'r nifer etholedig. Edrychwn ar luaws y gwrthodedigion gyda pheth tosturi wrth gydmaru eu tynged hwynt â'r eiddom ni; ond nid mewn ymffrost o achos dim sydd ynom ni ein hunain. Nid oes neb yn fwy mewn dyled grâs na ni.'

Dyma *batrwn* o ostyngeiddrwydd onide? Rhaid i ni ochelyd bod yn faith ar y pen yma, rhag blino y darllenydd. Dichon ei fod wedi gweled y llyfr a gynnwys hanes 'Priodas Mab y Brenin Alpha a Merch Sion.' Ond y mae i ni air neu ddau â'r gwr sy'n ymbwyso ar yr arwyddion o'i etholedigaeth. Attolwg, pa fodd y gwyddost dy fod yn un o blant yr arfaeth? Dywed Calfin ei fod yn amhosibl i ddyn gyrhaeddyd sicrwydd ar y pen pwysig hwn, ond y gall gael ei dwyllo yn yr *arwyddion* hyd awr ei farwolaeth. A wyt ti yn cymmeryd arnat i fod yn gallach na Chalfin? Gwel dy frawd yna ar dy bwys: y mae efe, fel mae gwaetha'r modd, yn credu yn yr arfaeth fel tithau; ond ni oddef ei *ostyngeiddrwydd* iddo gyfrif iddo'i hun yr *arwyddion* ag wyt ti yn ymorfoleddu ynddynt. Wrth holi ei hun y mae yn methu cael arwyddion boddlonol lai nag y bydd yn ddamnedig am byth. Cymmer dosturi wrth dy frawd, ac wrthot dy hun: nid oes dim ond yr

hunan balch a'th rwystra i fyned i'r un pwll ag yntau, 'heb obaith genych, ac heb Dduw yn y byd.'

Yn ddiweddaf, sylwn ar *ostyngeiddrwydd y pechod gwreiddiol.* Y mae y cyffesiadau poblogaidd o bechod gwreiddiol, yn gystal a gweithredol, yn cael eu hystyried yn nod o wir ostyngeiddrwydd. Ni chyfrifir un gweddiwr yn dduwiol os na fydd yn cyffesu ei fod yn gwbl lygredig wrth natur, ac mewn ymarferiad; nad oes man glan arno; ac, oni bai'r gras attaliol, nad oes braidd un drwg na wnelai, &c. Ond ymddengys i ni mai *ffug-ostyngeiddrwydd yw hyn hefyd.*

1. Oherwydd y mae eu gwaith yn cyffesu yn y modd hyn yn cael ei ystyried ganddynt hwy, a chan y wlad, yn fath o *ragoriaeth*, ac yn arwydd eu bod o nifer yr etholedigion. Cyffesent eu hunain gymmaint pechaduriaid ag y mynnont, ni edrychir yn waeth arnynt, ond cant fwy o barch am hynny gan eu plaid luosog; ac y mae eu balchder ysbrydol yn edrych i lawr gyda dirmyg ar eu cyd grist'nogion ag nad ydynt yn cyffesu pechadurusrwydd eu nhatur a'u hymddygiad yr un modd a hwy. Ai gostyngeiddrwydd yw hyn?

2. Peth arall, y maent yn ofalus wrth gyffesu eu pechadurusrwydd i dafiu ymaith y rhan drymmaf o hono oddiar eu hysgwyddau eu hunain, naill ai ar yr hen dad Adda, neu ar y cyfammod gweithredoedd ag sydd wedi clymmu llwyth o bechod gwreiddiol ar gefn pob dyn sy'n dyfod i'r byd. Rhyw gyffesiad ryfedd ostyngedig yw honno, ym mha un y mae y rhai sy'n cyffesu eu mawr bechadurusrwydd, ar yr un pryd yn dannod i'w Creawdwr y natur lygredig a gawsant ganddo, a'u hanallu i wneuthur da.

3. Tra cyffesant eu bod gynddrwg a'r gwaethaf o bechaduriaid, ystyriant eu hunain gystal a'r goreu o ddynion, gan osod eu hunain yn gydradd â'r mwyaf rhinweddol o ddynolryw. Nid iawn galw hyn yn ostyngeiddrwydd.

4. Yn ddiweddaf, y mae digon o le i gasglu fod yr arferiad crefyddol sydd dan sylw yn tarddu mwy oddiar effaeth *ffassiwn* nag oddiar gywirdeb a gostyngeiddrwydd; oblegid os cyhuddir y cyffeswyr yma o unrhyw bechod neillduol, megis anonestrwydd, rhagrith, &c., hwy deimlant, ac a ddywedant eu bod yn cael cam. Os dywedwch am un o honynt yn bersonol ei fod yr hyn y mae yn dywedyd wrth Dduw ei fod, sef yn un o'r pechaduriaid mwyaf, byddwch yn sicr o'i ddigio. Yn awr nid yw y fath ymddygiad yn nod o *gywirdeb*, chwaithach o ostyngeiddrwydd. Os nad rhagrith ydyw, y mae yn sicr fod tueddiad ynddo i annog a meithrin rhagrith.

Ceisiwn er dim gwrteithio gonestrwydd a chywirdeb wrth ymwneud â'r Hollwybodol Dduw, fel yn ein mhasnach a'n cyd-ddynion; a chofiwn mai yn ysbryd y gostyngeiddrwydd hwnnw a dardd oddiar hunan-adnabyddiaeth, ac adnabyddiaeth o'n perthynas â Duw, ynghyd â diolchgarwch iddo am ei ddaioni cyffredinol, mae i ni ddynesu atto; canys 'rhaid i'r neb sy'n dyfod at Dduw, gredu ei fod, a'i fod yn *wobrwywr* i'r sawl a'i ceisiant. I.

GALILEO.

Galileo Galilei oedd enwog mewn philosophyddiaeth, seryddiaeth, a chelfyddyd rhif a messur. Blodeuodd tua diwedd yr unfed ganrif ar bym-

theg, a dechreu y ddwyfed ar bymtheg; ac anfarwolodd ei enw trwy ei ddatguddiadau a'i ddyfeisiadau rhagorol. Enw ei dad oedd Vincenzio Galilei, yr hwn oedd yn byw yn Pisa pan aned ei fab Galileo, yn y flwyddyn 1564. Treuliodd Galileo ei ieuengtyd i ddysgu prydyddiaeth, cerddoriaeth, (cerddor enwog oedd ei dad hefyd,) a thynu pictwrau; ond nid hir y bu cyn i'w sylw gael ei dynnu at ganghenau goruchel gwybodaeth, lle yr oedd i gael ymborth cymmwys i'w feddwl nerthol, a lle yr oedd i ragori fel seren ysplenydd yn entrych philosophyddiaeth. Yr oedd ei dad yn bwriadu ei ddwyn i fynu i fod yn feddyg, ac yn ganlynol efe a'i gosododd ym mhrif ysgol Pisa, gyda golwg i'w gymmwyso i'r alwad honno; ond nid oedd yr alwad hon, mwy na philosophyddiaeth Aristotle a ddysgid bryd hyny yn yr ysgolion, ddim yn ddymunol ganddo; tueddiad cryfaf ei feddwl a'i harweiniodd i ymofyn am wybodaeth o gelfyddyd rhif a messur, a'r gwybodaethau eraill sydd ynglyn â hi, a chafodd ganiattad gan ei dad i fyned ym mlaen â'i ymchwiliadau i'r gradd a fynnai. Wedi iddo gael ei addysgu yn yr iaith Roeg, darllenodd Euclid, Archimedes, a gwaith rhifyddwyr eraill, yn yr iaith honno. Yr oedd ei enwogrwydd mewn rhif a messur gymmaint, fel y cafodd ei bennodi, cyn ei fod yn 16 oed, gan Dduc Tuscany i fod yn athraw cadeiriawg rhif a messur ym mhrif athrofa Pisa, lle y cafodd ei ddwyn i fynu. Yng nghyflawniad dyledswyddau ei alwad rhoddodd foddlonrwydd i'w wrandawyr rhydd a goleudyb; er hynny, nid oedd ei sefyllfa yn hyfryd, oherwydd cynfigen yr Aristoteliaid, yr rhai a'i gosodent ef allan fel breuddwydiwr penwan, a newyddiwr peryglus. Cafodd ei anfoddloni gymmaint gan eu hymddygiad gwarthus nes iddo, yn y flwyddyn 1592, dderbyn gwahoddiad oddiwrth werin-lywodraeth Venice i fod yn athraw cadeiriawg rhif a messur yn Padua. Llanwodd ei swydd gyda bri mawr dros 18 mlynedd, nes gwneuthur y brif ysgol hon yn boblogaidd ac uchel iawn ei chlod. Darfu i drigolion Tuscany, modd bynag, gynhyddu yn eu hawydd am ddiwygiad, a chafodd Galileo ei dueddu gan ei wladgarwch i roddi ei wasanaeth er budd ei wlad enedigol, trwy gyssegru ei alluoedd mawrion i sicrhau ei lles a'i chlod. Pan hysbyswyd ei ddymuniad i Cosmo II., uchel dduc, gwahoddwyd ef yn uniongyrchol i Pisa, ac yn y flwyddyn 1611 cafodd ei bennodi yn athraw cadeiriawg rhif a messur, a chafodd gyflog fawr am gyflawni ei swydd. Ar ol hyn gwahoddodd yr uchel dduc ef i Florence, gan roddi iddo y teitl o brif rifyddwr a seryddwr ei Fawrhydi, a pharhau ei gyflog fel prif athraw ar yr un pryd, heb achos aros yno i'w hynnill. Yn y sefyllfa hon, yn gystadl ag eraill, nid oedd Galileo yn cyfyngu ei ymchwiliadau i gelfyddyd rhif a messur yn unig, ond talai sylw hefyd i anianyddiaeth, celfyddyd mud-alluoedd, a threm-gelfyddyd. Yn wir, cyn iddo symud i Padua, yr oedd wedi ysgrifenu ei '*Fud-alluoedd*,' yn gosod allan y manteision a ddeillient oddiwrth y gelfyddyd hon, ynghyd â'i pheiriannau; ac hefyd ei '*Glorian*,' i gael allan gyfartalwch cymmysgedd mewn mettelau cymmysgedig.

Yn y flwyddyn 1609, daeth i wybod fod Jansen, Isellmyn, wedi dyfeisio gwydr, yr hwn oedd yn gwneuthur gwrthrychau pell i ymddangos yn agos, a throdd ei sylw at y peth, a dyfeisiodd offeryn, trwy yr hwn—fel y dywedai ef—yr oedd gwrthrychau yn ymddangos fil o weithiau yn fwy nag heb hynny. Wrth droi yr offeryn hwn (*telescope*,) tua'r nen, cafodd ei daraw â syndod gan y gwrthrychau a ddaethant i'r golwg. Ar wyneb y lleuad yr oedd yn gweled mynyddau uchel a dyffrynoedd dyfnion. Cafodd allan mai pentwr lluosog o ser anweledig i'r llygad noeth, oedd y llwybr llaethog, neu

lwybr y gwynt, fel ei gelwir mewn mannau. Darganfyddodd mai hir-gul oedd llun Sadwrn, yn cynnwys tair rhan wahanol, dau o'r rhai oeddent ihannau pellaf y cylch. Cafodd fod y blaned Wener yn newid yn ei hymddangosiad fel y lleuad. Gwelodd fod lau yn cael ei hamgylchynu gan bedair lleuad, y rhai a alwodd ef 'Y Ser Mediceaidd,' o barch i deulu y Medici; a chanfyddodd frychau ar wyneb yr haul, ac oddiwrth eu symmudiadau casglodd fod yr haul yn troi ar ei begynau. Darfu i Dduc Tuscany, i'r hwn y cyflwynodd hanes y datguddiadau hyn, ysgrifenu llythyr o gydlawenychiad atto ar yr achlysur; a thra yr oedd seryddwyr yn gyffredin yn canmol ei ymdrechion, yr oedd rhai yn drwg-dybio mai breuddwydion gwag dyn penwan oedd y cyfan o'r hyn a dybiai ef yn ddatguddiadau.

Yn awyddus i droi ei ddatguddiadau at bethau defnyddiol, efe a gafodd gan ei noddwr, y duc, fynegi i frenhin Yspaen y lles mawr a allasai morwriaeth gael oddiwrthynt; ond ymddengys na chafodd ei awgrymiadau ond eu diystyru gan hwn.

Wedi ei argyhoeddi yn drwyadl o wirionedd *system* Copernicus, defnyddiodd ddatguddiadau y dyn mawr hwn i'w hegluro a'i chadarnhau hi; ac er iddo gyhoeddi traethawd yn profi oddiwrth awdurdod y tadau, a duwinyddion iawngred, nad yw iaith yr Ysgrythyrau ddim i'w chanlyn yn hollol mewn pynciau athronyddol, er hyny dychrynwyd yr offeiriaid anwybodus a phenboeth, a chafodd y philosophydd digymmar hwn ei gyhuddo o heresi, a'i wysio o flaen y chwil-lys, ei gael yn euog, a'i daflu yngharchar, yn y flwyddyn 1615. Sail ei gyhuddiad o heresi ydoedd ei fod yn dal mai yr haul yw canolbwynt y bydyssod, ac nad yw yn symmud trwy un symmudiad lleol; ac mai nid y ddaear yw canolbwynt y bydyssod, a'i bod yn symud gyda symudiad dyddiol. Gwnaeth y chwil-lys iddo ymwadu â'r gosodiadau hyn, y rhai ni chai na'u hegluro na'u hymddiffyn, a gwaharddwyd ef i'w hymddiffyn nac ar air nac ysgrifen. Dywedir yn gyffredin iddo gael ei daflu i garchar mewn gwirionedd, sef carchar y Swyddfa Sanctaidd, a chael ei gadw yno dros 5 mis; ond y mae rhai haneswyr yn dywedyd, iddo trwy gyfryngiad Duc Tuscany, ac eraill o awdurdod uchel yn y llys pabaidd, gael ei drin gyda thynerwch, ac na chafodd ond ei fygwth yn unig, os y gwnai barhau'n ystyfnig y cai ei garcharu. Y mae'n sicr, modd bynag, iddo orfod ufuddhau i orchymyn y chwil-lys cyn cael cennad i ymadael o Rufain. Wedi iddo gael ei ryddhau, adnewyddodd ei fyfyrdodau, a gosododd o flaen y cyhoedd hanes ei ddatguddiadau, y rhai oeddent yn tueddu fwyfwy i gadarnhau y pyngciau oedd chwil-lys Rhufain wedi ddyfarnu.

Yn y flwyddyn 1632, er mor beryglus oedd ei sefyllfa oherwydd y Vatican, penderfynodd gyhoeddi ei '*Ddialogues* ar ddwy gyfunraeth fawr y byd,' sef eiddo Ptolemy a Copernicus, gan ddwyn rhesymau dros y ddwy heb benderfynu dros un mwy na'r llall, ond yn awgrymmu ei serch at gyfunraeth Copernicus. Yn yr ymddiddan hyn y mae yn rhoddi rhai ergydion i ganlynwyr Aristotle am eu hymlyniad penboeth wrth bob peth a ddywedai eu mheistr. Ar hyn croch-floeddiodd y penboethiaid, y gwaed-gwn uffernol, unwaith etto fod ein philosophydd yn heretic, a chafodd Galileo ei wysio i ymddangos ger bron y chwil-lys, yn y flwyddyn 1633.

Yn ei 70 mlwydd oed, gorfu i'r philosophydd parchus ac oedranus hwn ymddangos i gael ei brofi gan anwariaid penboeth am wirioneddau na wyddent hwy ddim am danynt. Ar ei ddyfodiad i Rufain, taflwyd ef yng ngharchar yn ystafell cylled y Swyddfa Sanctaidd; ond ar eiriolaeth yr uchel dduc cafodd ganiattad i aros yn nhy ei negeswr ef tra yr oedd ei dreial yn myned yn

mlaen, yr hwn a barhaodd ddau fis, pryd y dygwyd ef i dderbyn y ddedryd mewn cyfarfod llawn, ac y gorchymynwyd iddo mewn modd difrifol i wadu ar lw, a chondemnio system Copernicus, oherwydd ei bod yn groes i'r Ysgrythyr, a rhwymo ei hun trwy lw i beidio byth ond hynny ei dysgu na'i chefnogi, yn gyfeiriol nac anghyfeiriol. Trueni, trueni, onide? fod neb yn gorfod gwneud ei lw yn erbyn gwirionedd Duw yn ei weithredoedd! Ond felly y bu, gwnaeth ei lw; a dywedir iddo sisial yn nghlustiau un o'i gyfeillion. 'Epur si muove,' 'Troi mae hi o hyd.' Beth bynag am hyn, cafodd ei gadw yng ngharchar y chwil-lys wrth bleser y cardinaliaid, fel cosp am ei anufudd-dod blaenorol; a gorchymynwyd iddo, fel penyd achubol, i adrodd unwaith bob wythnos, y saith Salm benydiol. Cadwodd y llys yr awdurdod iddynt eu hunain i newid, cymedroli, neu leihau y gosp, fel y mynnent. Cafodd ei *ddialogues* eu dyfarnu a'u *hordro* i'w llosgi.

Darfu i lymder y gosp gael ei lleihau i raddau helaeth gan Urban VIII; ac o'r diwedd, yn y flwyddyn 1634, rhoddwyd cennad iddo breswylio yn ei dy ei hun, yn Arcatri, ynghymydogaeth Florence. Yma yr arosodd weddill ei ddyddiau, gan fyned ymlaen a'i ymchwiliadau a'i nodiadau, a chyfrannu o bryd i'w gilydd ffrwyth ei fyfyrdodau i'r cyhoedd: a thra yr oedd yma, ymwelodd y boneddigion mwyaf eu hurddas a'u cymmeriad yn Florence ag ef. Wrth edrych yn barhaus trwy'r telescope, ynghyd ag awyr afiach *y* nos, niweidiodd ei olygon i'r fath raddau fel yr oedd yn ddall dair blynedd cyn ei farwolaeth. Daliodd dan y brofedigaeth chwerw hon gyda gwrolder philosophaidd, er iddo trwy hyn gael ei attal i gyflawni a dwyn i addfedrwydd lawer o'i gynlluniau gwerthfawr er diwygiad gwybodaeth a lles y byd. Yn y flwyddyn 1642 cafodd ei ddal gan glefyd a osododd derfyn i'w fywyd defnyddiol a diwyd, yn 78 mlwydd oed.

Dyn bychan o gorpholaeth oedd Galileo, ond o gyfansoddiad cyfan a nerthol. Yr oedd yn ddyn o ddysgeidiaeth helaeth, yn gydymaeth hyfryd a difyr. Ei ddifyrrwch mwyaf pan wrtho ei hun, oedd adeiladaeth, hwsmoniaeth, tynu lluniau, paentio, a cherddoriaeth.

Dangosodd fod Venus yn troi oddiamgylch yr haul, oherwydd ei bod yn newid ei hagwedd fel y lleuad; fod yr haul yn troi ar ei begynau oddiwrth ymddangosiadau y brychau ar ei wyneb; pedair lleuad Iau a ddangosent ar *scale* fach y gyfunraeth blanedawl; triniodd gydag eglurdeb athrawiaeth y mudiadau, allwedd nattur, fel ei gelwid; efe oedd y cyntaf a brofodd y rheol ganlynol:—That the spaces described by heavy bodies, from the beginning of their descent, are as the square of the times,' &c. Dyma ddechreuad symudiadau cyrph trymion, a ddygwyd wedi hyny i gymmaint perffeithrwydd gan Syr Isaac Newton, tywysog philosophyddion.

Mewn daear-fesuryddiaeth, cyfaddefir yn gyffredin mai Galileo oedd dyfeisydd y *cyclaid;* efe hefyd ddyfeisiodd y *penulum,* ac a wnaeth ddefnydd o hono yn ei brawfion seryddol, ac yr oedd yn bwriadu weithiau ei gymhwyso at *glockau,* ond gadawodd yr anrhydedd o gyflawni hyn i'w fab, Vincenzio, yr hwn a wnaeth y prawf yn Venice, yn y flwyddyn 1649; a chafodd y ddyfais ei pherffeithio ar ol hynny gan Huygens. Dyfeisiodd Galileo hefyd beiriant, trwy yr hwn yr oedd y Venetiaid yn gwneuthur eu Lagma yn nofiadwy.

Cafodd y philosophydd rhagorol hwn hefyd bwysau'r aer, ac a ymdrechodd ei gydmaru â phwysau'r dwfr; ac agorodd y drws i lawer o ymgeisiadau eraill mewn philosophyddiaeth natturiol. Heblaw y dyled sydd ar seryddiaeth, celfyddyd rhif a messur, a gwybodaeth gyffredin o nattur, i'r dyn mawr hwn,

y mae cerddoriaeth dan ddyled i'w feddwl treiddgar ef hefyd. Ond pallai amser, pe y gwnawn fanylu ar ei holl datguddiadau ef; gan hynny rhoddaf heibio yn awr, ond nid cyn tywallt deigryn o goffadwriaeth am un a fu'n llafurio mor ddiwid dan gymmaint a chynnifer o rwystrau: ond cyn ei dywallt gwelaf megys ysbryd Galileo yn dyfod i'w sychu, gan ddywedyd wrthyf, nac wyla, ni all cadwynau'r carchar ddim attal llais gwirionedd; gellir rhwymo'r corph, ond mynn y meddwl fod yn rhydd. Cryf yw'r gwirionedd, ac efe a orchfyga.' Llwyddiant iddo medd

AMICUS.

DEFODAU CYFRAITH MOSES.

2. Defod 'y bwch diangol.' Y mae'r hanes yn Leviticus, pen. xvi. Cam gyfieithad yw 'y bwch diangol.' *Hasair lahazazel* yw'r frawddeg Hebraeg, a'i hystyr yw, 'bwch i Hazazel.' Ar y degfed dydd o'r saithfed mis, sef y mis Tisri, y cynhalid gwledd y cymmod, neu'r Iawn dros y bobl. Y peth mwyaf nodedig yn y wledd hon oedd y ddau fwch gafr a osodai Aaron, yr offeiriad, o flaen drws pabell y cyfarfod. Am danynt y taflid dwy goelbren—un dros Jehofah, a'r llall dros *Hazazel*, oblegid felly y dylid cyfieithu'r geiriau *Vegoral echad lahazazel*, ac nid fel y maent yn y Biblau Cymraeg, sef 'ac un arall dros y bwch diangol,' adn. 8. Enw *demon* neu gythraul, oedd *Hazazel*. Dichon fod y chwedl am dano mewn bod gannoedd o flynyddau cyn amser Moses; ac y mae ym mhlith yr Arabiaid hyd y dydd hwn. Meddylid fod ei drigfan yn yr anialwch, ac offrymid iddo weithiau er mwyn cael ei heddwch. Perthynai i *glass* Apopompaioi neu Alexikakoi y Groegiaid, ac Averrunci y Rhufeiniaid. Credid fod gallu gan y bodau dychmygol hyn i niweidio dynion, ac hefyd i'w gwaredu rhag drwg.

Yn hytrach na threulio amser i ymlid dychmygion yr esbonwyr a'r pregethwyr ynghylch y 'bwch diangol,' brysiaf ym mlaen i ddangos mewn byr eiriau beth, yn ol fy marn i, yw ystyr a dyben y ddefod hon. Er fod y bwch y syrthiasai coelbren Hazazel arno yn cael ei ddanfon i'r anialwch a phechodau'r bobl wedi eu gosod mewn modd ffigwraidd ar ei ben, pell iawn wyf o feddwl fod Moses wedi gorchymyn i aberthu i gythraul, nac ychwaith ei fod yn credu yn modoliaeth y fath beth. Yn un peth, nid oedd y bwch ddim yn cael ei ysryried yn aberth; a pheth arall, gwyddis fod yn arfer hyd yn od gan ddysgedigion i ddefnyddio geiriau a brawddegau a fyddont wedi tarddu ar y cyntaf oddiwrth goelgrefydd ac anwybodaeth. Ond ar yr un pryd, nid wyf ddim yn credu fod yr Hebreaid mor oleu na chredent ym modoliaeth ysbrydion drwg: yr oeddynt yn credu mewn pethau ag oeddynt yn llawn mor wrthun, sef yn Molok, eilun dduw'r Philistiaid, ac yn y 'llo aur,' neu Osiris yr Aipht. Yr oedd y weithred ffigwrol o ddanfon pechodau i'r anialwch i Hazazel yn gyfartal i'w danfon hwynt yn ddigon pell o'r gwersyll ac o'r golwg, fel na fyddai coffa am danynt byth mwyach.

Y peth cyntaf a wnai Aaron ar ddydd y cymmod oedd aberthu bustach drosto ei hun a thros ei deulu. Yr oedd ganddo wisge bwrpasol at y gwaith. Wedi myned trwy'r seremoni honno, taflai goelbrenau am y ddau fwch—un dros Jehofah, a'r llall dros *Hazazel*. Y bwch ar yr hwn y syrthiasai coelbren Jehofah a offrymid yn bechaberth—*pechod oedd*,—yn arwydd fod y bobl yn cydsynio i osod eu pechodau i farwolaeth. Y gwaed a daenellid saith waith

ar gyrn yr allor i arwyddo fod yn rhaid i galon y pechadur i ddwyn nodau *diammheuol* o laddiad pechod. Ond gosodai'r offeiriad ei ddwylaw ar ben y bwch y syrthiasai coelbren Hazazel arno, gan gyffesu holl anwireddau meibion Israel; yna arweinid y bwch i'r anialwch 'i dir neillduaeth,' fel arwydd *fod ysgariad tragwyddol yn cymmeryd lle rhwng y bobl a'u pechodau, ac na fyddai coffa am danynt yn ol llaw.*

3. Yr anner goch (*Phara adumma,*) yn Numeri, pen. 19. Anner goch heb fod erioed dan yr iau a leddid ac a losgid yn lludw tu allan i'r gwersyll. Cymmysgid ei lludw à dwfr, a gosodid ef o'r neilldu at wasanaeth yr offeiriad: *arwydd o bechod oedd.* Ystyrid fod yr offeiriad a'r dyn a losgai'r anifail ac a gasglai'r lludw, yn aflan; ac yr oedd yn rhaid iddynt fyned trwy'r seremoni o buro eu cyrph a'u dillad.

Arwydd o bechod oedd yr anner *goch,* ac arwydd o bechod, mewn stad o ddarostyngiad oedd ei lludw. Coch oedd *lliw* pechod, yn ol barn yr Iuddewon. 'Pe byddai eich pechodau *fel ysgarlad,* ant cyn wyned a'r eira; pe *cochent fel porphor,* byddant fel gwlan,' Esay i. 18. Pwy bynnag a gyffyrddai a chorph neu esgyrn dyn marw, neu â bedd, a daenellid yn mhen saith niwrnod â dwfr lludw'r anner goch, ac a fyddai yn lan. Nid oes neb mor waned ei ddeall a meddwl fod y seremoni hon, a llawer eraill o'r un natur, yng nghyfraith Moses, mewn gwirionedd yn glanhau aflendid allanol; buasai ymolchi mewn dwfr glan a sebon yn anghydmarol well. Ond prif ddiben seremoniau o'r fath hyn oedd dysgu gwers foesol, sef *y dylai'r bobl ddwyn yr un arwyddion o laddiad pechod yn y galon, ac o buredigaeth ysbrydol tufewnol, ag oedd y cyrff yn ddwyn o buredigaeth aflendid corfforol.* Y mae'r egwyddor hon yn rhedeg trwy holl ddefodau cyfraith Moses, a byddai'n ddefnyddiol iawn i'w thrysori yn y cof.

4. Y Pasgc. Y gair Hebraeg *Pesach* wedi ei Gymreigio yw'r gair *Pasgc,* a'i ystyr yw *mynediad heibio.* Rhoddir hanes yr wyl hon yn Exodus, pen. 12. Dyma un o'r gwyliau mwyaf nodedig a phoblogaidd ag oedd gan yr Iuddewon. Yr oedd trigolion holl wlad Iudea yn agos oll yn cyfarfod yn Ierusalem bob blwyddyn ar yr wyl hon. Dywed yr hanesydd Iuddewig, Iosephus, fod nifer yr wyn a laddwyd yn yr wyl hon, yn amser Cestius, yn 250,000, ac yr oedd un oen yn gwneyd y tro i gwmpeini o ddeg i ugain. Parhai'r wledd saith niwrnod. Ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis Nisan, (yn cyfateb i ddiwedd Mawrth a dechreu Ebrill,) yn y cyfnos, y rhostid ac y bwyteid 'Oen y Pasgc.' O'r dydd hwnnw hyd yr unfed dydd ar hugain ni fwyteid dim ond bara croyw, am hynny y gelwid hi weithiau Gwyl y Bara Croyw, Luc 22. 1. Pawb ag sydd yn chwennych gwybod y dull o barotoi'r oen, ac o'i fwyta, darllenent y bennod uchod; a'r sawl sydd yn dewis gwybod pa fodd y mae athrawiaeth y cysgodau yn *Cristioneiddio*'r wyl, darllened sylwadau Peter Williams ar ddiwedd y bennod.

Y mae'n amlwg oddiwrth yr hanes mai dyben yr wyl oedd cadw mewn cof waredigaeth y genedl o gaethiwed yr Aipht. Y mae rhai yn credu fod yr oen yn arwydd o gyntaf-anedig yr Aiphtiaid; ond y farn fwyaf poblogaidd yw ei fod yn gysgod o Grist. Ond yr wyf fi hyd yn hyn wedi methu gweled fod sylfaen ysgrythurol i'r naill 'na'r llall; yn wir mae gwrthuni mawr ynglun â phob un o'r ddwy. Os oedd yr oen yn arwydd o rywbeth, efallai fod yn anhawdd yn awr dyfod i un penderfyniad arwydd o beth ydoedd. Ond, beth bynnag, yr ydys yn sicr fod y dull o barotoi ac o fwyta'r oen yn arwyddo fod plant Israel mewn brys ac awydd mawr i ymadael o'r wlad ac o'r gorthrymder chwerw oeddynt wedi bod ynddynt gymmaint o amser. Nid oedd dim sicrwydd

fod defodau'r wyl yn dysgu dim ychwaneg, neu os ydynt, y maent oll yn gynnwysedig yn y dybenion hyn.

Ond, medd rhywun, onid yw Paul yn ei epistol cyntaf at y Corinthiaid, pen. v. ad. 7, yn cydmaru Crist i'r Pasgc? Y mae Paul yn cydmaru Crist i'r *Pasgc*, ond nid i *oen* y Pasgc. Y mae'n debyg fod yr Eglwys honno yn dioddef mewn cymmundeb un a wyddent oedd yn euog o odineb cwilyddus dros ben. Y mae'r apostol yn eu cynghori hwynt i esgymmuno'r cyfryw un rhag ofn y byddai i ymddygiad gwarthus y godinebwr lygru moesau'r aelodau eraill, neu i ychydig lefain i lefeinio'r holl does. 'Am hynny certhwch allan yr hen lefain,' medd ef, 'fel y byddwch does newydd, megys yr ydych yn ddilefeinllyd. Canys Crist ein pasgc ni a aberthwyd trosom ni.' Y mae'r gydmariaeth i lefain yn arwain meddwl yr apostol at burdeb egwyddorion yr efengyl mewn cyssylltiad â'r Pasgc Iuddewig. Nid yw'r gydmariaeth hon ddim mwy o brawf fod yr apostol yn credu fod y pasgc yn gysgod o Grist, nag yw ei waith yn yr un epistol yn cydmaru Crist i'r graig a darawodd Moses i gael dwfr, yn profi fod y graig honno yn gysgod o'r Messiah. Y mae Crist yn wir yn cael ei alw yn oen, oherwydd fod rhywbeth yn egwyddorion yr efengyl ag sydd yn atteb dyben cyffelyb i'r Pasgc; ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng hynny a dyweyd fod yr oen yn gysgod o Grist. Un peth yw fod ysgrifenwyr y Testament Newydd yn cydmaru Crist i rai o ddefodau Cyfraith Moses, ond peth arall yw mai dyben y sefydliadau hynny oedd cysgodi Crist. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y ddau beth; ac mi ddymunwn i bawb ddeall hyn, oblegid y mae'n beth pwysig i'r sawl ag sydd yn chwennych deall yr Ysgrythyrau. Er mai nid dyben sefydliad y Pasgc neu'r pechaberth oedd cysgodi Crist, er hynny, gallasai'r apostolion gydmaru Crist iddynt gyda'r priodoldeb mwyaf. Diben sefydliad gwyl y Pasgc oedd coffhau am y waredigaeth wyrthiol ag oedd yr Israeliaid wedi gael o gaethiwed yr Aipht; a dyben y pechaberth oedd dangos, trwy ddull ffigwrol, fod yr offrymwr yn penderfynu gosod ei bechod i farwolaeth. Yn awr goddefwch i mi ofyn, beth allasai ddwyn gwyl y Pasgc yn gryfach i gof Cristion Iuddewaidd na'r waredigaeth ryfeddol a geir oddiwrth gaethiwed pechod trwy Grist? Neu beth yn fwy effeithiol allasai ddwyn ar gof ddyben y pechaberth nag egwyddorion efengyl Crist, y rhai, os gwreiddiant yn y galon, ydynt yn sicr o ladd pechod? Dyma'r egwyddor ar yr hon y mae'r apostolion yn cydmaru Crist i rai o ddefodau cyfraith Moses:—*Nid am fod y defodau hynny yn gysgod o Grist, yn ol y farn gyffredin, ond am fod egwyddorion efengyl Crist yn atteb yr un dybenion, ac yn anghydmarol mwy effeithiol.*

Y mae'r sylwadau hyn yn fy arwain i feddwl am yr Epistol at yr Hebreaid. Ni wyddus ddim yn iawn pwy yw ei awdwr, er ei fod yn eithaf tebygol mai rhyw Gristion Iuddewaidd o Alexandria ydoedd. Ond ta pwy bynnag, y mae yn gwneyd defnydd o'r egwyddor hon yn helaethach na neb arall o ysgrifenwyr y Testament Newydd.* Yr oedd defodau ei genedl gan bob

* Bu esboniad ar yr Hebreaid, gan y dysgedig T. Belsham, yn gymorth mawr i mi i ddeall meddwl ac amcan yr Epistol hww. Cyn i mi weled gwaith Mr. B. yr oedd athrawiaeth y cysgodau wedi tywyllu fy neall i'r fath raddau, nes oeddwn yn barod i roddi'r Epistol heibio fel peth disynwyr: ond yn awr, a diolch i Mr. B. am hynny, yr wyf yn gallu ei ddarllen gyda hyfrydwch ac adeiladaeth. Hefyd y mae esboniad Mr. B. ar Epistolau Paul yn anghydmarol agosach i feddwl yr awdwr nag un arall a wn i am dano. Y mae wedi camsynied meddwl yr Apostol, dybygwn, mewn rhai mannau yn yr Epistol at Eglwys Rhufain, a hynny efallai o achos canlyn camrau Taylor o Norwich, yn rhy bell; onite, ar y cyfan y mae ei esboniad yn dda rhagorol.

Iuddew, fel mae'n rhesymol meddwl, yn anwyl iawn, a'i serch attynt oedd un o'r rhwystrau mwyaf ar ei ffordd i ddod yn Gristion. I Iuddew ag oedd wedi cael ei ddwyn i fynu o'i febyd yn addoliad y deml—addoliad mor llawn o seremoniau gorwych—ni allasai addoliad syml a diseremoni y Crist-'nogion ddim llai na bod yn ddiflas, ac yn gyfnewid rhy fawr, oni byddai o synwyr cryfach na'r cyffredin. Yr oedd yn beth naturiol, gan hynny, i'r Iuddew ofyn i'r Cristion, 'Pa le mae eich teml chwi? Beth yw eich aberth? Pwy yw eich offeiriad?' Ac i'r Cristion, o'r ochr arall, roddi atteb mor foddhaol ag y gallai er mwyn ennill yr Iuddew: 'Os nad oes gennym deml, ac offeiriad, ac aberth, fel sydd gennych chwi, y mae gennym mewn ystyr ysbrydol, bob un o honynt.' Dyma yn ddiau yw egwyddor yr epistol at yr Hebreaid. Nid oedd yr awdwr ddim yn credu fod Crist, mewn ystyr lythrenol, nac offeiriad, na theml, nac aberth; ond fod egwyddorion yr efengyl nid yn unig yn atteb holl ddybenion cyfraith Moses, ond hefyd yn gwneyd llawer rhagor. Cynghorwn ddarllenwyr yr YMOFYNYDD ail-fyfyrio llyfr yr Hebreaid, a chymhwyso'r egwyddor hon atto er mwyn iddynt weled p'un ai hi neu athrawiaeth y cysgodau wna'r synwyr gorau—mwyaf cysson â rhediad cyffredin yr Ysgrythurau.

Yn olaf, y gair *Iawn*. Fel y sylwais yn yr YMOFYNYDD ys misoedd yn ol, y mae y gair Hebraeg *Kopher* a *Kaphar*, a gyfieithir *Iawn*, a *gwneyd iawn*, yn meddwl *gorchudd* a *gorchuddio*. Pan ei cymhwysir at wrthrychau sylweddol, meddylia symmud *ymaith eu gerwindeb, gosod wyneb newydd iddynt, eu gorchuddio*. Pan ei cymhwysir at bersonau a fyddont yn ammhur,—yn aflan mewn ystyr ddefodol, (*ritual*,) meddylia eu *gorchuddio â phurdeb neu gymmwysderau seremoniol*. Pan ei cymhwysir at ddynion mewn stad o halogrwydd moesol, ei ystyr yw *glanhau, puro, neu orchuddio'r cyfryw â gwisgc o gyfiawnder*, Felly gorchudd yw'r Iawn a sonir am dano yn yr Hen Destament, a phan y byddo'r pechadur yn cael ei orchuddio â santeiddrwydd, pryd hynny y gwneir Iawn drosto.

Y peth neu y weithred bynnag, p'un ai ffigwraidd ai llythrenol, sydd o duedd i ladd pechod, ac i ddarbwyllo dynion i gashau drwg ac i garu rhinwedd, dywedir yn iaith yr Hen Destament fod y peth neu y weithred hynny yn gwneyd iawn neu gymmod mewn ystyr foesol. Etto, y peth neu y weithred bynnag, ai ffigwraidd ai llythrenol, dyben yr hon trwy appwyntiad dwyfol yw gwneyd dynion a llestri a fyddo yn anghymmwys mewn ystyr ddefodol eilwaith yn gymmwys—y naill i wasanaeth, a'r llall i fwynhau breintiau, yr Eglwys Iuddewig—dywedir fod y peth neu y weithred hynny yn gwneyd iawn mewn ystyr seremoniol.

Ni ddywedir yn un man yn yr Hen Destament fod unrhyw beth, neu weithred, neu amgylchiad, yn gwneyd iawn mewn ystyr foesol, oni fyddant yn cael y fath effaith ar y deall ac ar y galon, ag a fyddo yn arwain i edifeirwch a chyfnewidiad buchedd. Pe bai esbonwyr, ac offeiriaid, a phregethwyr, yn ymostwng i chwilio mewn i'r pethau hyn, ac yn cymmeryd y drafferth i oleuo meddyliau eu gwrandawyr, faint o gryglwyth o ffolineb a chyfeiliornad a ysgybid ymaith o'r byd? Ie, byddai'r ddwy athrawiaeth gableddus hynny, sef Iawn i Lidiawgrwydd Dwyfol, a Iawn i Ofynion Cyfiawnder, farw cyn pen deugain mlynedd o hwyaf.

Yn nesaf, caniatewch i mi ddwyn ychydig o engreifftiau o'r Hen Destament i egluro y gosodiadau uchod. Nid af fi ddim i dreulio amser i ddifynio engreifftiau o'r Iawn Seremoniol, oblegid y maent yn eithaf eglur i bawb a ddarllenant yn fanol Ddefodau Cyfraith Moses.

Yn Exodus xxx. 15, 16, dywedir fod talu hanner siel o arian at wasanaeth pabell y cyfarfod yn gwneyd 'cymmod neu iawn dros eneidiau;' oblegid yr oeddynt yn goffadwriaeth i feibion Israel, sef i ddwyn ar gof iddynt eu rhwymau i Dduw am eu gwaredu o gaethiwed, ac am ei ofal parhaus am danynt. Fel hyn yr oedd y rhodd yn foddion i arwain eu meddyliau at Dduw, i gyffroi eu diolchgarwch iddo, ac i'w gwneuthur yn fwy selog i gario yn mlaen ei addoliad. Dyma'r rheswm fod yr hanner siel yn lawn dros eneidiau.

Yn Numeri xxv. 13, y mae Eleazar yn gwneyd cymmod, (iawn) dros feibion Israel, am iddo, trwy ladd Zimri a'r Midianees, wneuthur gweithred o duedd i luddias y bobl rhag godinebu rhagor gyda merched Moab. Yr oedd tuedd yn y weithred i wneyd y bobl yn fwy moesol.

Yn Numeri xxxi. 50, dywedir fod cymmod, (iawn,) dros eneidiau yn cael ei wneyd trwy offrymu yspail rhyfel, oblegid yr oedd yn nod o ddiolchgarwch i Dduw. Derbynia pawb ag sydd yn cydnabod eu hymddibyniad ar Dduw, ac yn meithryn y teimlad, les ysbrydol.

Yn Job xxxiii. 24, dywedir fod gorthrymder ac addysgc yn gwneyd iawn, neu yn darparu gorchudd, oblegid fod tuedd ynddynt i arwain i edifeirwch a gwelliant buchedd, ac felly i ddarparu gwisgc o gyfiawnder am yr enaid. Pan y byddo Duw yn gweled yn addas i gystuddio dyn nes byddo ei enaid yn nesau i'r bedd a'i fywyd i'r dinystrydd, os bydd gydag ef gennad o ladmerydd, un o fil i ddangos iddo ei uniondeb. (neu y cyfiawnder a'r anian dduwiol a ddylid ymestyn attynt a'i annog i edifarhau, yna y mae Duw yn trugarhau wrtho drachefn, ac yn dywedyd 'Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd; myfi a gefais lawn, neu foddion i ddwyn y dyn i edifeirwch; myfi a gefais *orchudd* i roddi am dano.

Yn Esay xxvii. 7—9, dywedir fod ymweliadau trallodus rhagluniaeth Duw yn gwneyd iawn dros anwiredd. 'Am hynny trwy hyn,' (trallod,) 'y glanheir,' (y gwneir iawn dros,) 'anwiredd Jacob,' oherwydd fod tuedd mewn trallod ac ing i arwain dynion i edifeirwch.

Y mae trugaredd a gwirionedd yn gwneyd iawn tros bechod. 'Trwy drugaredd a gwirionedd y dileir,' (y gwneir iawn dros) 'pechod,' Diar. 16. 6. Dywedir yn Salm lxxviii. 38, fod trugaredd Duw yn *maddeu*, neu yn *gwneyd iawn*. Y mae daioni Duw yn cofio ei gyfammod yn *dihuddo tuag at un*, neu yn *gwneyd iawn* drosto. Gwel Ezec. xvi. 63, a mannau eraill. Dywedir fod dinystr yr Aifftiaid yn gwneyd iawn, am eu bod yn foddion yn llaw Duw i waredu ei bobl oddiwrth eilunaddoliaeth, arferion pechadurus, a diraddiad moesol. 'Canys myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, Sanct Israel dy waredydd: myfi a roddais yr Aipht yn iawn trosot, Ethiopia a Seba am danat.'

Fe wel y darllenydd oddiwith yr engreifftiau hyn, (a gallwn ddifynio ugeiniau yn rhagor) fod pob peth sydd a thuedd ynddo i ddiwygio cyflwr moesol dyn, yn cael ei ystyried fel gorchudd neu iawn drosto. Y mae llawer o bethau yn yr Hen Destament yn gwneyd iawn, megys aberthau, cariad a thrugaredd Duw, gweddi, edifeirwch, ymweliadau trallodus rhagluniaeth fel moddion disgybliaeth, offrymau diolchgarwch; yn fyr, pob peth ag sydd yn annogaeth i rinwedd a daioni. Dywedir hefyd am rai defodau luddewig ynghylch adferiad i freintiau eglwysig, eu bod yn iawn mewn ystyr ddefodol (*ritual*,) oblegid eu bod yn ffurfiau appwyntiedig gan Dduw i ddynion fyned trwyddynt cyn cael derbyniad i freintiau ei bobl. Yr oedd iddynt hefyd duedd foesol, oblegid yn eu gwaith yn dangos fod purdeb yn ofynol er mwyn derbyniad i freintiau allanol yr eglwys, dangosent fod purdeb moesol a

sancteidrwydd yn ofynol ym mhawb a chwennychent gyfranogi o'r breintiau ysbrydol. Yr oedd pob aberth a defod yn gwneyd iawn os byddai yn arwyddo dinystr pechod, ymroddiad i ewyllys Duw, caredigrwydd, diolchgarwch, a theimladau dymunol eraill. Yr oeddynt yn foddion iawnol, oherwydd eu tuedd foesol ac ysbrydol.

Cofier, gan hynny, fod pob peth a dueddai i wella cyflyrau moesol ac ysbrydol dynolryw yn cael ei alw yn yr Hen Destament yn iawn neu yn gymmod *mewn ystyr foesol*; fod pob defod a arferid fel moddion i adferu dynion i freintiau'r Eglwys Iuddewig, neu i'w haddasu i wasanaeth y cysegr, yn iawn neu yn orchudd *mewn ystyr ddefodol*; ac i fod pob peth a achosai waredigaeth dymhorol, neu a berai welliant tymhorol yng nghyflyrau dynion, yn iawn *mewn ystyr dymhorol*.

Pob gweithred, yn ein hoes ac yn ein gwlad ni, ag sydd a thuedd ynddi i wneyd dynion yn fwy rhinweddol—yn fwy cyffelyb o ran eu hunain i'r Iesu—a fuasai yn cael ei galw yn iaith yr Hen Destament *yn iawn*. Gwneuthur iawn fuasai darllen, pregethu, myned i'r cyrddau, gweddio, disgyblu'r meddwl, ffrwyno'r uwydau, hunan-ymwadu, gwilio, mewn gair, pob gweithred o fwriad da.

Yn awr, Mr. YMOFYNYDD, caniatewch i mi wrth derfynu, i ddyweyd fy mod, ar ol dwys ystyriaeth a manwl chwiliad, wedi methu canfod dim yn Iawn yr Hen Destament ag sydd yn rhoddi y cefnogaeth lleiaf i'r athrawiaeth o Iawn i Ddigofaint y Tad, neu i Ofynion y Gyfraith; ac yr wyf yn rhoddi her i holl 'Drindodiaid y byd i brofi i'r gwrthwyneb. Ni wyddai yr hen dduwiolion ddim am dani, onite nis gallasent fod mor ddistaw ynghylch athrawiaeth ag sydd o gymmaint pwys, yn ol barn rhai duwinyddion yn awr.

PHILO.

YR AWYR.

Amgylchynir y ddaiar â math o hylif neu sylwedd teneu—anghydmarol mwy teneu na dwfr—a elwir awyr. Y mae pellen y ddaiar mewn awyr fel pel mewn câs lledr; trwch y câs neu'r awyr yw oddeutu 45 milldir. Pu'n uwchaf i fynu, teneuach yw'r awyr. Fel y mae gwair mewn tàs yn galettach ac yn fwy cynnwysfawr tua'r gwaelod; felly y mae'r awyr yn myned deneuach deneuach p'un mwyaf yr uwchder o'r llawr. Y mae'r awyr, oherwydd sugndyniad y ddaiar, bob amser yn ei hamgylchynu yn gyfrodedd ar ei thaith flynyddol oddeutu'r haul. Wrth sugndyniad, deallwyf, y gallu sydd yng nghorff y ddaiar i dynu pob gwrthrych atti, ac i'w gadw ar ei hwyneb. Y mae'r gallu rywbeth o'r un natur a'r gallu sydd mewn *magnet*, neu ddernyn o ddur ar ddull pedol ceffyl, i beru i nodwyddau, &c. i lynu wrtho.

Pwysau'r Awyr. Meddyliwch am fàr modfedd scwar o haiarn neu o bren, neu o rywbeth arall, yn cyrhaedd o wyneb y ddaiar i fynu mor uchel ag y cyrhaedda'r awyr, hynny yw, oddeutu pump milldir a deugain; byddai pwysau'r fath fàr neu golofn yn fawr; yn lle bàr o haiarn neu o bren, meddyliwch am golofn o awyr o'r un faintioli. Pwysau'r fath golofn fyddai pumtheg pownd. Pe byddai'r golofn yn droedfedd scwar, neu 144 modfedd scwar, ei bwysau fyddai 144 bumtheg gwaith, neu 2160 pownd: yn yr un modd gellir cyfrif sawl pownd sydd mewn colofn yn filldir scwar, ac felly yn y blaen nes cyfrif pwysau'r holl awyr sydd oddiamgylch y ddaiar, sef 5,000,000,000,000,000 tunnell. Pwysau'r awyr ar ddyn o faintioli cyffredin yw oddeutu pumtheg

tunnell. Pa fodd, meddych, yr ydym yn galler dioddef cymmaint o bwysau a symud tano? Attebaf, pe byddai cymmaint o bwysau yn cael ei osod megys ar yr ysgwyddau llethid ni i'r lawr ar darawiad amrant; ond oherwydd fod pwysau'r awyr yn gyfrodedd dros yr holl gorph nid yw yn achosi un anesmwythder nac i'w deimlo; ac hefyd y mae'r awyr sydd oddifewn i ni yn gymmorth i gadw cyfartalwch, neu *equilibrium*.

Oni bae pwysau'r awyr nis gallem fyw, oblegid gwnai'r awyr oddifewn dorri'r gwythienau a pheru i'r gwaed lifo allan. Hyn yw'r achos fod gwaed rhai dynion yn dueddol i dorri trwy'r ffroenau pan esgynont i ben mynydd uchel. Y mae'r awyr ar ben mynydd yn ysgafnach nag yw mewn cwm neu ar y gwastadedd, a'r canlyniad yw, ar ben mynydd, fod cyfartalwch yr awyr sydd o fewn y corph a'r un sydd oddiallan yn cael ei aflonyddu. Y mae'n wybodus i bawb ag sydd wedi bod yn nofiad tan y dwfr, nad yw pwysau'r dwfr sydd oddiarno ddim i'w deimlo, oherwydd fod y dwfr yn gyfartal oddiamgylch iddo.

Pwysau'r awyr sydd yn effeitho ar yr offeryn a elwir *weatherglass*—eithaf adnabyddus i rai ffarmers. Y mae colofn o awyr o fath yr un a ddesgrifiwyd uchod yn gyfartal mewn pwysau i golofn o ddwfr ddeuddeg troedfedd ar hugain o hyd, a cholofn o arian byw naw modfedd ar hugain—y mae arian byw gymmaint yn drymmach na dwfr. Pibell wydr oddeutu tair troedfedd o hyd yw'r *weatherglass*: y mae'r pen uwchaf i'r bibell yn ddidwll fel nad elo awyr i mewn, a'r pen isaf yn cammu ychydig ac yn terfynu mewn bwl a thwll bychan ynddo. Ar ol sugno'r awyr allan yn llwyr, gosoder y pen a'r twll mewn arian byw. Oherwydd pwysau'r awyr oddiallan i'r bibell, a'r ceudod diawyr oddifewn, cyfyd yr arian i fynu yn y bibell i uwchder wyth neu naw modfedd ar hugain, yn ol fel y byddo ansawdd yr awyr ar y cyfamser. Yna gosoder y bibell mewn ffram addas iddi, a graddau ar y pen uwchaf i ddangos codiad neu ostyngiad yr arian. Y mae fframau wedi eu dyfeisio yn awr a wynebau iddynt ar ddull *clock*, a nodwydd arno yn troi yn ol a gwrthol yn ol troad olwyn fechan oddimewn ag sydd yn dal cyssylltiad â'r arian byw yn mhen isaf y bibell. Er fod gwneuthuriad y bibell yr un peth yn y naill ffram fel y llall, ond oherwydd yr olwyn a'r edef oddiamgylch iddi, a'r peth a elwir *friction*, mwy cywir yw'r graddau ar ben uwchaf y bibell yn ol yr hen ddull.

Ar dywydd teg y mae'r awyr drymmaf, ac o ganlyniad y pwysau trymmaf ar yr arian byw ym mhen isaf y bibell; rhaid gan hynny i'r arian godi i fynu. Ar dywydd llaith, o'r ochr arall, y mae'r awyr ysgafnaf, ac o ganlyniad y pwysau ar yr arian byw leiaf; am hynny rhaid iddo ostwng yn y bibell.

Y mae'n eithaf gwybodus i'r dynion sydd yn gwneuthur peiriannau at sugno dwfr (*pumps*), fod yn rhaid gosod llai na deuddeg troedfedd ar hugain rhwng pob *valve*, onite nis gellir sugno'r dwfr i fynu; a'r achos yw, fel y dywedais yn barod, na phwysa colofn o awyr ddim rhagor o ddwfr na cholofn ddeuddeg troedfedd ar hugain o uwchder. Chwi wyddoch fod yn rhaid twllu baril lawn o ddiod cyn y ceir ganddi redeg allan trwy'r cock: Yr achos yw, nad oes dim awyr oddifewn i orbwyso'r awyr oddiallan; ond cynted ag y twllir y faril y mae cyfartalwch yn cymmeryd lle. Pwysau'r awyr sydd yn peru i'r cwyr lynu wrth y llaw, y morter wrth y wal, y malwod wrth y cerrig, a'r creginbysgc wrth greigiau'r mor: yn fyr, oni bai pwysau'r awyr, ni allai'r forwyn ddim godro, na'r plentyn ddim sugno.

Etto, oni bae'r awyr ni fyddai dim swn; yr awyr sydd yn cludo swn. Er

prawf o hyn gosoder cloch dan awyr sugnedydd; yn ol sugno'r awyr allan, ni seinia'r gloch ddim er ei siglo. Math o lestr gwydr tebyg i gwch gwenyn ar estyllen lyfn yw'r peiriant a elwir awyr sugnedydd neu *air-pump*. Yn ochr yr estyllen, a thrwyddi hyd y canol y mae pibell bres a'i blaen i fynu trwy'r ochr uwchaf i'r estyllen o tan y llestr. Yn y pen arall i'r bibell ac wrth ochr yr estyllen y mae saeth tebyg i saeth chwistrell, yn gau, ac yn dyn yn y bibell; yn y saeth y mae dwy *valve* wedi eu gwneyd yn y fath fodd fel y byddo un yn cau pan byddo'r llall yn agor. Wrth weithio'r saeth yn ol ac ym mlaen trwy'r bibell, y mae'r awyr yn cael ei sugno allan o'r llestr gwydr ar fwrdd yr estyllen. Dylaswn ddyweyd fod y llestr gwydr a'r estyllen wedi eu gwneyd mor gywraint, fel nad oes lle i awyr i ruthro i mewn rhyngddynt hwy, er fod y llestr yn rhydd ar wyneb yr estyllen—mor rhydd ag yw cwch gwenyn ar ei faingc. Ar ol sugno'r awyr allan *yn llwyr* o lestr gwydr o faintioli cwch gwenyn cyffredin, byddai yn ofynol cael grym dau geffyl i wahanu'r gwydr oddiwrth yr estyllen, cymmaint yw pwysau'r awyr; ond i ddychwelyd.

Math o hylif tenau—anghydmarol mwy tenau na dwfr—yw awyr. Os teflwch garreg i ganol llyn o ddwfr llonydd, chwi welwch y tonau'n cylcho, un ar ol y llall tua'r ochrau; felly hefyd y mae tonau'r awyr yn cludo swn. Y mae'r offeryn, neu beth bynnag fyddo'n achosi swn, yn taro'r awyr, ac yn ol *dull* a grym yr ergyd y bydd ei natur a'r pellder y cyrhaedda. Trafaela swn oddeutu 1125 troedfedd mewn eiliad, neu un rhan o driugain o fynyd; hynny yw, os bydd yr awyr yn llonydd; ond gyda'r gwynt aiff swn yn gyflymach ac yn mhellach. Pan y byddoch yn gweled dyn o bell yn torri coed yr ydych yn canfod yr ergyd cyn y clywoch y swn. Ar noswaith dawel gellir cyfrif pwy mor bell y bydd saethu os gwelir y tan a chlywir y swn. Meddyliwch fod deg eiliad rhwng y tan a'r swn, gellwch fod yn sicr fod y pellder rhwng chwech a saith milldir: yn yr un modd y gellir cyfrif pellder taranau.

Yr un awyr sydd yn cludo i'r glust ysgrechiant olwyn heb iraid, neu wich y ddurlif, ag sydd yn cludo peraidd dôn y delyn; yn natur yr ergydion y mae'r gwahaniaeth. Gosodwch dant crwth yn dyn rhwng dwy hoelen mewn bwrdd neu flwch pren. Os y tarewch y tant yn ddehau, gellwch beru iddo grynu (*vibrate*) 240 o weithiau mewn eiliad, a'r don fydd C, neu *Do*. Dyma'r don sydd yn cydgordio â'r llais dynol pan yn *pitcho* ton yn *ddifwriad*, oblegid y cryniad mwyaf naturiol i'r *clapper* neu'r *valve* sydd uwchben y geccas wynt yw 240 o weithiau mewn eiliad. Bydded y tant rhwng y ddwy hoelen yn 45 modfedd o hyd ac yn crynu 240 o weithiau mewn eiliad, nes taro'r don C, neu *Do*, gosodwch eich bys ar hanner y tant a gwasgwch ef ar y bwrdd, yna seiniwch un o'r ddau hanner ac efe a gryna 480 o weithiau mewn eiliad gan seinio C, neu *Do*, i res o saith tonau fyddo yn uwch. Gelwir yr ail yn octave y don gyntaf. Yn nesaf ni fyrhawn 15 modfedd ar y tant, gan adael 30 i swnio, a chwi glywch y don G, neu *Sol*. Yn awr, am nad yw hyd y tant ddim ond dau drydedd ran yr holl dant, rhaid mai 360 yw rhif y cryniadau mewn eiliad. Wele y daflen ganlynol i wasanaeth y cerddor philosophaidd:—

C neu *Do* (octave), 22½ mod. 480 cryn.
B neu *Si*, 24 mod. 450 cryn.
A neu *La*, 27 mod. 400 cryn.
G neu *Sol*, 30 mod. 360 cryn.

F neu *Fa*, 33⅓ mod. 320 cryn.
E neu *Mi*, 36 mod. 300 cryn.
D neu *Re*, 40 mod. 270 cryn.
C neu *Do*, 45 mod. 240 cryn.

Oni bae fod y peth yn hytrach allan o'r pwnge mewn llaw, sef awyr, gwnawn sylwadau cyffelyb ar yr offerynau a seinir trwy chwythu ynddynt.

Yn y nesaf caiff yr awyr ei ystyried mewn cyssylltiad â bywyd anifeiliaid a llysiau. D. E.

Y DRINDOD A'I PHERSONAU.

Mr. Ymonynydd.—Wrth ddarllen atteb Mr. Edmunds i ofynion Undodwr, meddyliais pe rhoddid gwybod i ddarllenwyr yr Ymofynydd pa sawl math o Drindodau sydd yn y byd, na fyddai hynny ddim yn annerbyniol ganddynt; ac os ydych chwi o'r un farn a mi, wele y llinellau canlynol at eich gwasanaeth.

1. Y Drindod Aristotelaidd. Y mae hon yn dysgu fod y personau yn un Duw, oblegid fod iddynt un a'r unrhyw sylwedd o *rhan rhif*. Dywedir fod y farn hon yn diddymu personoliaeth y Mab a'r Ysbryd, ac nad oedd mewn bod cyn y flwyddyn 1215.

2. Y Drindod Blatonaidd. Y mae hyn yn dysgu fod y personau dwyfol yr un oed, neu yn bod er tragywyddoldeb, ond fod yr ail a'r trydydd person rywfaint yn is na'r person cyntaf ym mhob priodoledd onid mewn oed. Y mae'r Mab mor hened a'r Tad, a'r Ysbryd Glan mor hened a'r Tad a'r Mab. Dywedir fod y Drindod hon yn sawru o Ariaeth.

3. Y Drindod Ciceronaidd. Yn ol y Drindod hon nid yw'r Tri Pherson ddim ond gwahanol enwau ar y tri pherthynas ag y mae Duw ynddynt at ei greaduriaid. Pan yn creu y mae'n Dad; pan yn prynu y mae'n Fab; pan yn sancteiddio y mae'n Ysbryd Glan. Cyhuddir y farn hon o Sabelliaeth.

4. Y Drindod Gartesiaidd. Y mae hon yn dysgu fod Tri Pherson dwyfol, Tri meddwl anfeidrol, Tri Ysbryd, Tri bod yn un Duw. Cyhuddir y farn hon o wneyd Duw yn fod cymmysgedig o dri pherson, neu ynte o fod yn dysgu Tri Duw.

5. Trindod y werinos, neu Trindod y bobl gyffredin, a'r pregethwyr diog, diymchwil, a difeddwl. Eu barn hwy am y Drindod yw mai dirgelwch annirnadwy ydyw, ac fod ymddygiad y rhai sydd yn ceisio egluro'r undeb mor rhyfygus a'r Undodiad sydd yn eu gwadu.

Etto, gwahanol feddyliau y'nghylch natur personau'r Drindod.

1. Y Crist'nogion Groegaidd oeddynt o'r farn mai tri hypostases neu hanfodolion oedd y tri pherson.

2. Y Crist'nogion Lladinaidd— mai *Tri pherson* oeddynt.

3. Eisteddfod Athanasius—mai'r un meddwl oedd i fod o hynny allan i Hanfod y Groegiaid a Pherson y Lladiniaid, sef *sylweddau neillduol.*

4. Y Schoolmen—mai hanfod wedi ei wahanu oddiwrth sylwedd, neu heb sylwedd, yw person.

5. Y Gyffes Augustinaidd—mai yr hyn sydd yn hanfodi yn briodol felly yw person.

6. Cyffes Wirtemberg—mai tri phriodoldeb yn hanfodi ynddynt eu hunain yw tri pherson y Drindod.

8. Dr. Wallis—mai tri pherthynas yr un sylwedd dwyfol â dynion yw tri pherson y Drindod.

9. Zanchy—mai tri sylwedd dwyfol, yn wahanedig oherwydd rhyw briodoledd bersonol yw tri pherson y Drindod.

10. Junius—mai tri pherson gwahanedig mewn rheswm, (ratione) ond yn eithaf gwahanedig, yw tri pherson y Drindod.

11. Baxter—mai gallu, deall, ac ewyllys, yw y tri pherson.

12. Dr. Tillotson—mai tri gwahaniaeth oedd y tri pherson.

13. Dr. Wallis etto—mai tri rhyw beth ydynt.

14. Esgob Burnet—mai tri amrywiaeth ydynt.

15. Archesgob Seeker—mai tri hanfod ydynt.—*Gwel Ben Mordecai.*

YR APOSTOL PAUL—MAI UN DUW SYDD AC UN CYFRYNGWR RHWNG DUW A DYNION Y DYN CRIST IESU.

Yn awr, MR. YMOFYNYDD, i ba un o'r holl Drindodau hyn y mae Trindod y Parch. J. Jones, o Rhydybont, a Thrindod Mr. Edmunds, o Bont-y-pridd, yn perthyn?

NON QUIS SED QUID.

TYSTIOLAETH LLYFR NATUR AM DDUW.

Parhad o tudalen 209.

Yn fy llythyr diweddaf addewais atteb rhai o wrthddadleuon Edwards yn hwn. Nid yw yn ymddangos i mi fod eisiau sylwi ar bob un o'i wrthddadleuon, am y gwn mai yn anaml iawn y ceir dyn yng Nghymru (er mor ddoeth, a da yn ei olwg yw y farn o ddialedd tragywyddol,) na chywyliddia i'w harfer i brofi ei bwnc. Heb law hynny y mae rhai o honynt yn perthyn yn fwy agos i dystiolaeth Dadguddiad dwyfol etto, i chwilio ei dystiolaeth ar natur a diben cosp mewn byd i ddyfod, ond nid hir y byddaf cyn ei chwilio.

Dywed Dr. Jonathan Edwards, yn ei waith enwog a elwir 'Cadwedigaeth holl ddynolryw yn cael ei fanawl chwilio,' (*The Salvation of all men strictly examined,*) fel hyn:—

'Os unig ddiben cyfiawn cospedigaeth yw arwaen y pechadur i edifeirwch, ac i ddwyn oddiamgylch ei lês yn unig:—ac os nad yw pob cospedigaeth, ond disgyblaeth yn unig, ag sydd angenrheidiol, a iachusol i'r derbyniwr; yna mae pob cospedigaeth a roddir gydag un amcan arall yn anghyfiawn. Am hyny y mae yn anghyfiawn i gospi pechadur am un math o ddiystyrwch o Dduw—am un gwrthwynebiad i'w amcanion, ac i'w achos—neu am un drwg a fyddo wedi ei wneud i'w gyd-ddynion, ond mor bell ag y byddo ef wedi niweidio ei hun ar yr un amser.' Mewn attebiad sylwaf nad yw yn bossibl i mi feddwl am bechod, a all na dyn nag angel gyflawni heb niweidio ei hun yn fwy na neb arall. Sicr yw nas gall niweidio Duw. Os diystyrra Dduw, ymddifada ei hun o bob hyder ynddo: a bydd felly heb obaith ganddo, ac heb Dduw yn y byd.'

2. 'Ar yr ystyriaeth fod pob cosp er gwelliant, rhaid dal fod cosp ddialeddgar yn anghyfiawn; etto ar yr un pryd addefir, fod y gospedigaeth, sydd yn weithredol yn cael ei gweinyddu, yn ddialeddgar i'r gradd eithaf. Oherwydd cospedigaeth ddialeddgar yw yr un a roddir er dal i fynu awdurdod cyfraeth dorredig; ond os yw y gosp sydd yn angenrheidiol er mwyn dwyn y pechadur i edifeirwch, yn ddigonol i ddal i fynu awdurdod y gyfraeth ddwyfol: ac yn cael ei gweinyddu gyda'r amcan hyny, fel yr addefir, y mae i'r gradd eithaf yn ddialeddgar, ac yn fwriadol ddialeddgar. Am hynny y mae y rhai ydynt yn addef y bydd cymmaint o gosp i gael ei rhoddi, ag fyddo yn angenrheidiol i foddloni gofynion y gyfraeth, yn dal cosp ddialeddgar, yn yr ystyr lawnaf, tra y maent yn amcanu ei gwrthwynebu.' Fy atteb yw, Os oes rhyw nerth yn yr ymresymiad hwn mae yn ymddibynu ar gam olwg ar ddiben rhoddiad a gweinyddiad cyfraeth. Cyfraeth yw rheol osodedig i lywodraethu ymddygiad creadur rhesymol, i ddangos iddo ei wir les, a'i ddysgu i adnabod gwahaniaeth rhwng da, a drwg; neu rhwng yr hyn sydd yn dwyn dedwyddwch, a'r hyn sydd yn dwyn annedwyddwch, i ddeiliaid y llywodraeth a fyddo wedi rhoddi y gyfraeth. Mae yn ei nhatur gan hynny yr un peth a lles y deiliaid. Nid yw ond cyngor i ddangos i'r creadur ei wir les. Os ca ei mathru nid yw golled i neb yn fwy na'r troseddwr ei hun, a rhaid ei ddwyn ef o dan ei llywodraeth, cyn y gallo fod yn dded-

wydd. Ni all fod gan hynny un dialedd yn perthyn i gyfraeth a fyddo wedi ei rhoddi mewn doethineb. Cyngor tad i'w blentyn ydyw er lles y plentyn. Pe na byddai plentyn i'w gynghori, ni byddai y cyngor yn eisiau. Pe na bae dyn i gamsyniaid, ni byddai eisiau cyfraeth i'w ddysgu i synied yn iawn; ac ni byddai eisiau amddiffyn y gyfraeth; gan hyny rhaid mai yr un peth yw amddiffydiad y gyfraeth, a lles y cospedig, ac nad oes ddialedd yn perthyn iddi, ar ol dwyn yr afradlon tua thy ei dad.

3. Gwrthwynebiad gaf sylwi arno yw hwn, 'Os nad yw pechod yn haeddu un gosp, amgen na'r hyn sydd yn tueddu i ddaioni y pechadur, mae yn canlyn nad yw pechod yn ddrwg moesol: oblegid yr hyn sydd yn gwasanaethu er daioni un, nid yw yn ddrwg gwirioneddol, ond y mae drwg moesol yn ei natur ei hun yn atgas; am hyny, nid yw yn gamwedd ar un a gyflawno ddrwg moesol, i ddangos anghymeradwyaeth o'i ymddygiad, pa un a fyddo y fath ddangosiad yn wasanaethgar er ei les, ai peidio.' Sylwn nad yw drwg moesol yn atgas, ond mor belled yn unig, ag y mae yn tueddu i ddwyn annedwyddwch: pe na buasai ynddo un effaith annymunol, ni allasai fod yn atgas, oblegid ei effaith ddrwg, neu annymunol, sydd yn ei wneud yn atgas: mae y gospedigaeth mae y drwg yn ei dderbyn yn atgas ynddi ei hun: a rhoddi cosp ar ddyn, am iddo ef beri poen i'w gyd-ddyn, yw rhoddi poen, am boen: hynny yw rhoddi atgasrwydd, am atgasrwydd, neu dalu drwg, am ddrwg: ac y mae yr un a roddo y fath gosp, gydag un amcan ond er gwella y cospedig, yn haeddu cymmaint cosp a'r cyntaf, os y bu yn achos o gymmaint o boen ag ef; ac os bu yn achos o fwy o boen, haedda yntau ei gyfrif gymmaint a hynny yn fwy atgas, na'r un a gospir ganddo. Am hyn y mae Duw yn methu cael lle yng nghalon y dyn, sydd yn credu yn y dialedd tragywyddol. Mae yn gweled Duw yn rhoddi annirnadwy fwy o boen, neu ddioddefaint ar bob un o'r damnedigion, yn ol y *system* o boenau tragywyddol, nag a barodd Adda wrth gwympo, i'w hiliogaeth tra ar y ddaear; yng nghyd a chymmaint a fyddo wedi ei beri gan ei holl hiliogaeth ar ei ol: hyny yw fod Duw ei hun yn achosi mwy o beth atgas, neu ddioddefaint, na holl bechaduriaid y byd yng nghyd. Analluadwy am hynny i'r galon sydd yn casau drwg i garu y fath fod.

4. Gwrthwynebiad o werth sylw yma yw hwn, 'Os unig amcan cyfiawn cosp yw dwyn edifeirwch, nid yw pechod yr edifarheir am dano yn union gyrch yn haeddu cosp, am fod yr amcan eisioes wedi ei gyrhaedd: ond nid yw edifeirwch, ar ymadawiad â phechod, yn gwneud un gwahaniaeth yn natur pechod; ac nid un digonolrwydd (*satisfaction*) am y pechod yw hynny. Nid iawn yw cospi pechod fel pechod os yr amcan yw diwygio. Pa un ai y byddo yn cael ei ganlyn gan gosp ai peidio, raid ymddibynnu, nid ar ei natur ei hun, ond ar ryw amgylchiad ddamweiniol; megis ei fod yn cael ei edifarhau am dano: neu ei fod yn cael ei gyflawni yn barhaus, ac os nad yw yn haeddu cosp, oni byddys yn parhau ynddo, yna nid yw y weithred gyntaf o bechod yn ddrwg moesol, ac os nad yw y cyntaf, paham y mae yr ail, y trydydd, nag un o'r rhai canlynol yn haeddu ei chospi?' Atteb. Pwy erioed edifarhaodd yn ddioed am bechod? Nid wyf yn credu fod y fath beth yn alluadwy. Yr un peth yw effaith pechod, a aeth heibio, pa un ai y byddo y cospedig wedi cael ei ddiwygio, neu ynte yn derbyn cosp o ddialedd nwydau drwg—pa un a fyddo ef wedi edifarhau, a derbyn maddeuant, neu yn cael ei gospi o lid a dialedd: nid wyf fi yn gallu canfod pa ddigonolrwydd all fod mewn cosp, nad yw wedi cael ei bwriadu er diwygiad. Mae pob gweithred bechadurus yn ddrwg moesol, am ei bod yn achosi poen, ond nid yw yn canlyn nad yw cosp, yn tueddu i ddiwygio—na ddwg fflangell y newyn ddim o'r afradlon tua thy ei dad. Mae hynna yn ddigon, debygwn, nes gellir dangos fod y fath beth a dyn yn edifarhau yn ddioed ar ol cyflawni pechod, neu cyn derbyn y gosp—hynny yw, fod dyn yn edifarhau gydio o hono mewn haiarn poeth, cyn teimlo y gwres yn dechreu ussu. Rhaid meddwl newydd cyn newid barn.

Nid wyf yn gallu canfod, yn un o'r gwrthddadleuon eraill, gynnigiad i brofi mai er mwyn *dial*, ac nid *diwygio* y mae Duw yn cospi. Yn rhai o honynt, y mae Edwards yn cyfaddef, mai lles dyn yw diben cosp yn y byd sydd yr awr hon, rhaid ynte, mai yr un fydd ei ddiben yn y byd nesaf; canys dywedodd '*Myfi yr Arglwydd ni'm newidir.*' Os yw ei amcan yn dda, sicr yw y dawi i ben, gan nas gall neb ei luddias. Nid oes un drwg na all ef ei ddiwygio, nac un bai na all ef ei wella. Mae ei gariad yn ddigonol i buro pob anwiredd, a denu plant y tywyllwch eithaf i'w garu, trwy beri i oleuni digonol lewyrchu arnynt, i'w galluogi i'w adnabod, yr hyn medd Crist yw y bywyd tragywyddol.

Yn awr edrychwn yn ol ar yr hyn a ysgrifenwyd genyf ar y cwestiwn. Y llythyr cyntaf sydd ar ddaioni Duw yn y greadigaeth; mae pawb yn addef ei wirionedd: ond cyn y gellir dywedyd fod Duw yn dda, am mai bod anfeidrol berffeith ydyw, rhaid dywedyd nad oes ynddo un drwg; ac os nad yw yn ddrwg, rhaid y pura ef bob bod rhesymol, yn y byd ar ol angau, nes dwyn o hono ddelw ei Greawdwr.

Yn fy ail, dangosais fod pob poen ag ydym yn adnabod ei ddiben, yn tueddu i gadw einioes, hynny yw, yn tueddu tu ag at les y

poenedig; ac mai teg oedd casglu, mai yr un diben sydd i'r rhai nad ydym yn gallu canfod eu lles.

Yn y trydydd fod drygau ymddangosiadol, *i'r byr ei ddeall*, yn ddaioni i gyd yn ein golwg ni, sydd yn canfod eu lles; ac hefyd paham y mae drwg dan lywodraeth Bod anfeidrol dda.

Yn y rhifyn am Fawrth ymdrechais ddangos, paham nad yw Duw yn haeddu cosp, am gospi pechadur, a dywedais mai yr achos oedd, *Mai lles dyn* oedd ei amcan, &c.

Yn y ddau ddiweddaf, ceisiais roddi atteb boddhaol i bob gwrthddadl; a dangosais naill ai y bydd pawb yn buredig yn amser Duw, neu y bydd Duw a'i greaduriaid yn dragywyddol boenus. Rhoddais hefyd brofion eglur, fod athrawiaeth y poenau tragywyddol, yn tueddu yn ddirfawr, i fwystfileiddio calon dyn: ac nad oes ond cariad all ei meddalhau. Oddi wrth yr hyn a ysgrifennwyd, mae yn eglur fod llyfr natur drwyddo yn tystio mai diben cosp yw diwygio y cospedig. Caf yn fy nesaf chwilio beth yw tystiolaeth Dadguddiad, ar y cwestiwn pwysig hwn; ac yr wyf yn hy i haeru ei bod yn fwy eglur etto fyth ynddo ef, fod amcan da gan Dduw yn y cyfan.—Y daw ei amcanion i ben—y caiff y drwg ei alltudio yn dragywyddol o'r greadigaeth—y bydd holl deurnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef.

Ydwyf, &c.

Aberdâr. J. JONES.

SYLWADAU AR MR. JONES, O RHYDYBONT, A'I DRINDOD.

—

BARCHEDIG SYR,—A fyddwch cyn garedicced a rhoddi lle yn yr YMOFYNYDD i mi i atteb Mr. Jones, Rhydybont, am unwaith etto. Bum yn hir cyn gwneud i fynu fy meddwl a oedd eisiau gair atto ef a '*gweinidog* PARCHUS *yr Ariaid*' neu peidio.

Mewn hunan-ymddyffiniad dywed fod un o Weinidogion yr Undodiaid wedi dywedyd wrtho, 'Fod angen am sylwadau cyffelyb i'r eiddof ar deimladau y bregeth.' Felly, os gellir coelio Mr. Jones, mae un o Weinidogion yr Undodiaid, yr hwn nid yw yn caru enwi, yn gweled eisiau y fath eiriau a 'phutain drwsiadus a chreulon,' am fod y bregeth a 'Medr* yn ysgymmynedig o'i thy, gwybodaeth yn alltydiedig o'i thiriogaeth; a theimlad da wedi ei wthio drwy y *centre* hyd at y gwrthdradolion.' Pwy yw hwn? Dywed fod un arall wedi 'ysgrifennu attaf y dylasai y ddadl ddibennu gyda'm sylwadau i arni yn y *Golygydd*,' hynny yw, Mr. Jones, y dylasai Mr. Jones, Aberdar, 'adael y cyfryw ddyn gyda'i bethau mewn* *silent contempt.*' Mae gennyf ei air mai dyna ei feddwl. Dywed Mr. Jones etto 'ddarfod i foneddwr Undodawl penaf ein gwlad hon, ddywedyd ei fod yn ofidus iawn, am na allodd gael gafael yn holl gopiau y bregeth; fel y gallasai dalu i Mr. Jones am danynt, a'u bwrw gyda'u gilydd i lygad y tan.' Pan y darllenais y geiriau yna, anfonais y llythyr canlynol yn union gyrch i Mr. Jones, Rhydybont i'w anfon i'r gwr mawr, gan na wyddwn yn y byd pa un ai *Duke* neu *Lord* ydoedd; oherwydd yr wyf wedi clywed fod rhagor nag un o honynt yn 'ein gwlad hon' yn Undodiaid. Ond ni chefais un atteb, ac yr wyf yn awr yn gofyn, A oes y fath un yn bod? Beth yw ei enw? Ym mha le y mae yn byw?

Aberdar, Rhagfyr 7fed, 1847.

MR. 'FONEDDWR UNDODAWL,'—Mae Mr. Jones, Rhydybont, yn dywedyd yn ei attebiad i mi, eich bod yn ofidus iawn am na allasoch losgci fy mhregeth i. Dyma ei eiriau, 'A darfod i foneddwr Undodawl penaf ein gwlad hon, ddywedyd ei fod yn ofidus iawn, am na allodd gael gafael yn holl gopiau y bregeth, fel y gallasai dalu i Mr. Jones am danynt; a'u bwrw gyda'u gilydd i lygad y tan.' Diau y cawsech eich boddloni yn well, pe gallasech roddi Mr. Jones, Aberdâr, ar dan gyda hwynt. Gan eich bod Syr, o'r fath ysbryd, wele i chwi ychydig bennillion a geneis i'r Drindod; ac nid ydynt llai galluog na'r bregeth, i gyffroi ysbryd Shion o Genefa yn eich calon. Rhoddwch wybod pa sawl miliwn a fynnwch, i'w rhoddi 'yn llygad y tan,' a rhoddwch sicrwydd i mi, y telwch yr argraphydd (Mr. Jones, Rhydybont, os myn ef, a chwithau) a chewch fwrw eich nwydau cynddeiriog ar fy ysgrifeniadau, nes byddo prinder bara yn dofi peth ar eich tymmer Galfinaidd. Digon o chwareu teg nid oes bossibl!

Os oes gennych chwi 'Gydwybod at yr Eilun hyd y pryd hwn,' ni allaf fi lai na chyfodi fy llef yn ei herbyn, tra gwelo Duw yn dda adael einioes i mi. Ond nid er mwyn elw y dywedaf air: cymdeithas Undodiaid Gwent a Morganwg, gas yr holl elw oddiwrth y bregeth sydd wedi eich anfoddloni mor fawr.

Ydwyf, Mr. 'Foneddwr,' gan ddymuno* rhyddid meddwl, a llafar, i chwi a Mr. Jones, yr eiddoch, &c. J. JONES.'

---

* Yr achos o'r sylw hwn ef allai oedd i Mr. Jones ffaelu gweled 'anc *echei aphesin*; *ni fedd faddeuant*' ynddi. 'Cyfeithad *kill* hay' oedd Ab Iolo yn galw bath hwnna.

* Ni fuaswn wrth hyn, ond dilyn ôl fy nau gyfaill Mr. James o'r Gellyonnen, a Mr. Lloyd o Gaerfyrddin.

* 'Rhydd i bob meddwl ei farn, a rhydd i bob barn ei lafar;' ond y mae yn debyg nad rhydd i mi ddim ond *llosgci*.

DRYGIONI EILUNOD.

Llo aur Jeroboam ym Methel, a Dan,
A hudodd i bechu o Israel ddeg rhan,
Y genedl etholwyd yn dystion gan Dduw,
Nad adwaen ef arall, gwna'i lw 'fel mae byw.'

Ym Methel y Cymry, mae Eilun sydd wacth
Na lloi Jeroboam, i bawb sy' iddi'n gaeth;
Ei henw yw Trindod, dychryndod pob bron,
Yn gibddall ei deall, ymgrymma i hon.

Doluriau y galon, a ddrylliodd ei llid
Angerddol, a godant i'r wyneb yn wrid;
Gressynnus i'r Cristion yw gwrandaw ei llef;
Waith troi at y Drindod, a gwrthod Duw'r nef.

Wrth gynnig addoli yr Eilun Tri-'n-un,
Mae'n uchel gyhoeddi chaledrwydd ei hun,
Sy'n methu a charu yr anfeidrol lid,
Drag'wyddol ddiodde'r damnedig i gyd.

Tra'r Eilun yn llidiog at holl ddynol ryw,
Nad y'nt etholedig yn arfaeth eu Duw;
Y galon dynera' lewyga gan fraw,
Y dialedd trag'wyddol angerddol a ddaw.

Fel hyn y mae'r Drindod yn uffern i'r dyn,
Yn annoeth adoola yr Eilun Tri-'n-un:
Tra ynddi yn credu gyrr ymaeth ei hêdd,
A lliwia a mwg uffern sirioldeb ei wêdd.

Am hyny, Drindodwyr! Trowch at y gwir Dduw,
Arfaethodd ddedwyddwch i *holl* ddynol-ryw;
Rhowch glust i'w wahoddiad; mae'n galw pob gradd,
Gadewch bob rhyw Eilun i'r '*ystlymyn a'r wadd.*'

Cewch wel'd ei lywodraeth yn ddoeth, ac yn dda;
Ei allu'n anfeidrol, ei 'wyllys a wna;
Er lles pob creadur, a greodd ei law,
Y trefnodd y cyfan, fu, sy! ac a ddaw.

Ei fwriad a ffynna - fe bura bob drwg;
Yr holl afradloniaid tuag adre fe'u dwg:
Gan fflangell y newyn fe'u purir o'r bron;
A Thad pob trugaredd a'u derbyn yn llon.

Trugaredd ei geryddi i bob dyn trwy'r byd,
I'w arwaen i'r nefoedd o lwybrau y gwyd;
Yn bur, ac yn berffaeth, ar ddelw ei Dduw,
Dros bob trag'wyddoldeb mewn gwynfyd i fyw.

Yn awr, âf ym mlaen i wneud sylw neu ddau ar y ddadl sydd rhyngom. Medd Mr. Jones ar yr 8fed tu dalen o'i Amddiffyniad, 'Yr ydych yn dywedyd mai un Duw sydd. Purion.' Felly yr ydym. A hyn y cytnna y gwr dysgedig. B'le ynte y gall fod dadl? Ond y mae ef yn haeru fod hwn yn dri pherson, neu yn hytrach tri gwahaniaethad, neu amrywiaethad; sef Tad, Mab, ac Ysbryd. B'le y cafodd hynny allan? Yma y mae y ddadl yn dechreu. Haera hefyd yn nadl Llantrisant mai 'Yr unig Dduw yw y Tad—yr unig Dduw sef yr un Duw yw y Mab—yr unig Dduw sef yr un Duw yw yr Ysbryd Glan.' Felly fel y sylwais o'r blaen, y Tad yw'r Mab, a'r Mab yw'r Ysbryd, a'r Ysbryd yw'r Tad. Ni all fod un peth yn fwy eglur. Er mwyn gochelyd y casgliad amlwg hwn, sonia am dri o bersonau; a haera mai nid yr un peth yw ystyr personau dwyfol a rhai dynol. Cyn y gellir dywedyd dim i un diben, rhaid cael gwybod beth yw ystyr person Dwyfol, neu berson o'r Drindod, ac ai yr un ystyr yw person pan arferir ef am y Tad, a phan yr arferir ef am y Mab, a'r Ysbryd? Heb hyn, ni fyddwn un mymryn callach na'r gwyr a ddechreuasant adeiladu twr Babel: un yn galw am forter, y llall yn estyn caib iddo, neu ryw gamddeall o'r fath, drwy yr holl ddydd. Yma y mae y ddadl yn dechreu. Mae Trindodiaid yn haeru fod Duw yn hanfodi yn Drindod o bersonau; o ganlyniad ar y Trindodiad y mae yn gorphwys i brofi eu pwngc. Hyn yw arferiad pob *Mathematician* a *Philosopher*. Er siampl,—Mae Euclid yn ei lyfr cyntaf yn gwneuthur wyth a deugain o haeriadau, ac yn eu profi bob un, o'r bron. Felly mae Newton yn ol haeru fod y goleuni yn cael ei wneud i fynu o saith lliw, yn cyfarwyddo dyn i arfer ei *brism* fel y gwelo fod y peth yn wirionedd egluradwy. Yn lle dilyn y rheol auredd hon (yr hon ni chaniata i ddyn i faldordd pethau anmhossibl,) mae y Platoniad mawr o Rydybont, yn ysgrifennu pamphlet, i brofi na wyr ef ei hun yn y byd, beth mae yn feddwl wrth *berson dwyfol;* ac ymdrecha fy narbwyllo innau i addef, am nas gwn ddyfnder ei ffolineb, y gall fod yn dywedyd *sense*. 'Roeddwn i o'r farn fy mod wedi profi ei bwngc ef i foddhad i bob dyn sydd yn arfer geiriau ag ystyr eglur iddynt, a thyna paham y dywedais ei fod yn dywedyd mwy o ddwli na thrigolion holl *Fadhouses* y byd. Yn hyn o leiaf Mr. Jones, yr ydym yn cytuno. Yn awr, Syr, ni ddylasech roi lle i neb wneuthur gwawd o'ch geiriau, trwy arfer rhai nad ydych yn eu deall. Mae dihareb yng nghymmydogaeth Rhydybont, 'Call pob ffol tra y tawo.' Felly nis galloch ddeallystyr y gair person, gwell i'ch ddywedyd gyda Phaul, '*Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.*' A gadael heibio bod yn 'ddoeth uwch-law yr hyn a ysgrifenwyd' yn y gwirioneddau dwyfol am Dduw. Cofied pob Trindodwr nad oes ond ei haeriad ef a'i frodyr yn dysgcu Trindod. Nid oes y fath air yn Meibl Duw.

Mae Mr. Jones am i ni ddeall mai yr un peth yw natur anchwiliadwy Duw a'r *nonsense* a ddywed ef yn ei gylch, a disgwylia ar bob Undodwr i dderbyn ei Drindod ef, a'i gyddddychymmygwyr, yn lle goleuni y nef. Beth fyddai hyn ond gadael yr Hen Destament, a'r Newydd, er mwyn derbyn Paganiaeth philosophyddion Alexandria, wedi ei gario i eithafoedd ynfydrwydd, gan y Platoniaid Crist-'nogol yn y pedwerydd cannrif ar bymtheg? Un peth yw bod Duw uwch law deall dyn: peth arall yw fod pob *nonsense* ag a all groesi meddyliau dynion gorphwyllog yn wir am dano. Yn hyn y mae y gwahaniaeth rhwngom a'r rhai a ymffrostiant, eu bod yn iawnffyddiog. Yn lle baldrodd gwrthddywed-

jadau, arferai y duwinyddion diweddar ymlochesu dan fantell *Dirgelwch*, a chywilyddient ddywedyd y fath ddwli ag mai yr 'unig Dduw yw y Tad—yr unig Dduw sef yr un Duw yw y Mab,' &c.

Ar tudalen y 6ed, achwyna Mr. Jones fy mod yn nagu myned gydag ef i'r Bibl, iddo gael dangos i mi ei Drindod. Ond b'le mae y gwirionedd? Ai nid yn y Bibl yr oedd testun fy mhregeth i? A ddarfu dim i mi ddywedyd, mai diben gwrthiau yr Hen Destament, oedd, profi Undod Duw — mai hyn oedd diben neilldua Abraham—rhwygo y Mor Coch—dadymchwelyd caerau Jerico—dinystrio lluoedd Senacherib—achub y tri llangc o'r ffwrn dan—a Daniel o ffau y llewod?' &c. Cofied Mr. Jones fod fy mhregeth i yn argraphedig: a bod rhai wedi ei darllen hi.

Cyn gynted ag y rhoddo ef i mi ystyr y gair person dwyfol, neu person yn Nuw, person y Tad, person y Mab, a pherson yr Ysbryd Glan, Tad, Mab, ac Ysbryd, af gydag ef i'r Bibl i chwilio am y Drindod: neu yr Eilun gwaethaf o ffurfiad dychymyg dyn. Yn y cyfamser rhaid iddo foddloni cael ei roddi gennyf, yn isaf o dan '*silent contempt*.' Cofied etto mae ef sydd yn *philosophizo* ar natur Duw, a mai arno ef mae profi ei bwngc.

Ydwyf, &c.

Aberdar, Mai 9fed, 1848. J. JONES.

NEWYDDION

CARTREFOL A THRAMOR.

CYFARFOD CWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfod Cwarterol Gweinidogion Undodaidd y Deheubarth ar y Mercher a Iau ar ôl y Pasg, yn Cwmmwrdu, ger Brechfa. Am 3, dydd Mercher, dechreuwyd yr addoliad gan Mr. P. Joseph, Ciliau, a phregethodd Mr. J. Thomas, Llandyssil, a Mr. J. Davies, Castell Newydd. Am 6, yn y diwedydd, yr oedd dau Gyfarfod yn y gym'dogaeth. Yn un o honynt pregethodd Mr. D. Lloyd o Gaerfyrddin, a Mr. T. Griffiths, Caeronnen. Yn y llall, Mr. O. Evans, o'r Cefn, a Mr. J. E. Jones, o Benybont.

Dranoeth, am 10, o'r gloch, dechreuwyd y Cyfarfod trwy ddarllen a gweddi gan Mr. D. Evans, Gallt-y-blacca. A phregethodd Mr. J. James, Gellionnen, a Mr. J. E. Jones, Penybont. Yn y Gynnadledd a ganlynodd, llefarodd Mr. T. Griffiths, Mr. O. Evans, Mr. R. Davies, a Mr. J. James, ar y pwngc o 'ffydd gadwedigol.'

Y mae y Cyfarfod nesaf (Cwrdd Blynyddol) i fod yn Capel-y-groes, Ceredigion, ar y Iau cyntaf ar ol y 21ain o Fehefin.

DYSGEIDIAETH.

O fewn i'r mis diweddaf, yn Glasgow, ar ol y profion arferol o wybodaeth mewn ieithioedd, a rhanau eraill o wybodaethau, cafodd Mr. Walter D. Jeremy, mab y Parchedig John Jeremy, o Lanbedr, a myfyriwr yng ngholeg Carfyrddin yn ddiweddar, ei anrhydeddu a'r teitl Athraw yn y Celfyddydau (M. A.) mewn *modd anrhydeddus* mewn *dwy* brif gangen o ddysgeidiaeth—profa hyn at brofion eraill hynodrwydd Coleg Carfyrddin i ddysgu y Myfyrwyr, yn gystled a dynodi mawr ddiwydrwydd Mr. Jeremy ar ol ei ymadawiad a Chaerfyrddin.

LLOFRUDDIADAU ECHRYDUS GERLLAW ABERTAWE.

Nos Lun, yr 8ed o Fai, lladdwyd dau ddyn, John Williams a Jenkin Evan, yn achos ymrafael a gymmerodd le mewn 'Cwrw Bach,' a gynnelid yn Nhy un W. Davies, ger y 'Beaufort Arms,' oddeutu dwy filldir o Abertawe. Nid yw yn ymddangos fod y llofruddiedig druain a'u llofruddwyr wedi gweled eu gilydd o'r blaen, ac ni fu un ffrae bersonol rhyngddynt. Yn hwyr yn y nos digwyddodd i 5 o ddieithriaid (navvies,) ddyfod i'r lle, ac wedi cyduno dros ryw amser â'r gwmniaeth oedd yno mewn cyfeddach, bu ymrafael ac ymladd rhyngddynt. Daeth J. Williams a J. Evan, mae'n debyg, i'r lle—y naill i hol ei fab adre, a'r llall fel 'cwnstab,' i gadw heddwch. Aeth y ddau ddyn hyn allan ar ol gwthio y dieithriaid o'r ty, a brathwyd hwynt gan gyllell, neu ryw arf miniog, un ar ol y llall, a buont feirw ill dau yn y fan. Dilynwyd y drwg-weithredwyr, a daliwyd un o honynt, Thomas Martin, gerllaw Llansawel, a'r 4 arall, J. a W. Norris a Patrick a Michael Leary, yn y Bontfaen. Cynnaliwyd 'Inquest' ar gyrph y meirwon. Y 'verdict' oedd, yn achos John Williams, Llofruddiaeth Fwriadol, ('wilful murder,') yn erbyn Thomas Martin, fel y pennaf, ('principal,') ac yn erbyn Michael Leary a John Norris fel cynnorthwywyr iddo. Ac yn achos Jenkyn Evan, Llofruddiaeth Fwriadol yn erbyn Michael Leary, a John Norris a Thomas Martin yn gynnorthwywyr.

Y 'CHARTISTS.'

Cyfarfu 'National Assembly,' y *Chartists* yn Llundain tua dechreu Mai; ond aeth y peth i'r dim cyn pen ychydig o ddyddiau.

Y mae ymdrechiadau ar draed tuag at uno y gwahanol raddau o ddiwygwyr y bobl weithgar â'r radd ganol, mewn un gymdeithas, dan yr enw *Reform League*. Gyda blaenoriaid y cynnygiad newydd, y mae Mr. Joseph Hume, ac eraill o aelodau y Senedd. Cynnaliwyd Cyfarfod *Swydd Middlesex* yn yr achos, Iau y 18ed, yn Llundain, lle cyttunwyd ar yr anghenrheidrwydd o fod yr hawl i ethol aelodau y Senedd i gael ei hestyn i bob dyn a fyddo wedi ei 'registro' dros ryw amser yn drigiannydd; fod y 'Parliament' i bara dim ond dros dair blynedd: fod yr etholiad yn ddirgelaidd, [trwy y *ballot;*] a bod nifer y Seneddwyr a fyddir

i'w hethol i gydatteb i nifer yr etholwyr. Nid ydys yn disgwyl llwyddo gyda'r 'Parliament,' presennol i gael y cyfnewidiadau hyn. Ymddibyna llawer ar y cynhauaf nesaf, ac adfywiad neu ynte gwaethygiad masnach a ddichon cymmeryd lle yn y wlad; ond mwy etto feallai ar y cyfnewidiadau a gant eu sefydlu yng ngwledydd y Cyfandir. Y mae llawer o gyfoetnogion wedi dyfod i'n gwlad yn ddiweddar o achos y terfysgoedd yn Ffraingc a Germani.

Y SENEDD.

Nid oes dim newydd o neillduol bwys wedi cymeryd lle yn y Senedd y mis diweddaf; o leiaf, dim mewn cydmariaeth i'r newyddion cyffrous sy'n dyfod attom dros y mor.

YR IWERDDON.

Oddiar y daplas a fu yn Limerick, lle cafodd Mr. Smith O'Brien, a Meagher, &c., eu trin yn arw chwith gan y 'Moral Force Repealers, y mae pobl yr Iwerddon yn fwy tawel. Cymmerodd *treialon* Mr. Smith O'Brien a Mr. Meagher le ar y 15ed, yn Dublin. Pe buasai y llys ond eu cael yn cuog, tebygol y buasai cosp drwm arnynt. Ond digwyddodd o'u hochr fod un neu ddau o'u pleidwyr ymhlith y *Jury*. Safodd y rhai hyn i maes yn erbyn y lleill; felly bu gorfod gollwng y *Jury* yn y ddau achos, a chafodd y Llywodraeth eu lluddias yn eu hamcan. Daw treial Mr. Mitchell ymlaen tua'r 25ain o Fai, a disgwylir y bydd yntau yn rhydd oherwydd yr un achos.

TRAMOR.

Ysbaen.—Ar y 6ed o Fai, yn Madrid, bu cryn ymladd a thywallt gwaed, o achos ymdrechiad aflwyddiannus i ddadymchwelyd awdurdod Narvaez.

Rwssia.—Tra mae gwledydd eraill yn cael eu gyrru ymlaen o derfysg i derfysg, y mae Rwssia yn cadw yn bur lonydd. Ond gofalwyd trwy gyrchu milwyr i'r cyffiniau i osod y wlad mewn parodrwydd i wrthwynebu ymosodiadau o'r tu allan.

Denmarc a Holstein.—Y mae y rhyfel di-glod hwn a ddygodd y Prwssiaid ar y Daeniaid heb etto ei gwbl derfynu. Cynnyga Lloegr wneuthur heddwch rhyngddynt. Y mae Sweden a Rwssia yn bygwth dyfod i gynnorthwy y Daeniaid, os beiddia y Prwssiaid gymmeryd meddiant o'u gwlad. Y mae y Prwssiaid yn para i drechu ar y tir, ond y mae y Daeniaid yn talu y pwyth i'w gelynion ar y mor ac yn eu porthladdoedd.

Germani.—Y mae yn para yn bur aflonydd yn Berlin, a yng ngwahanol rannau o Prwssia, yn enwedig y rhannau a ddygwyd oddiar Poland. Yn Posen a'r cylchoedd y mae brwydrau gwaedlyd wedi cymeryd lle rhwng y trigolion Polaidd a'r Prwssiaid. Nid ellir dywedyd am y cyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle, nac yn Germani nac yn Awstria, eu bod yn benderfynol a sefydlog.

Yr Ital.—Nid yw yr Awstriaid etto wedi cael eu gyrru i maes o'r Ital: y mae tua 50 mil o honynt o dan Raditzky, yn Peschiera, Verona, a Mantua. Y mae Charles Albert a'r fyddin Italaidd yn eu gwilied, ac yn gwarchae arnynt. Ar y 6ed o Fai bu brwydr hir a gwaedlyd rhwng yr Awstriaid a'r Italiaid o flaen Verona ar lan yr afon Adige. Disgwyliasid y byddai i ran o drigolion Verona droi o ochr yr Italiaid: cawsant eu siommi yn hynny. Hyd 3 o'r gloch prydnawn yr oedd y frwydr yn myned yn llwyddiannus gyda Charles Albert, ond wedi hynny trodd yn ei erbyn. Gorfu arno roddi i fynu ei amcan o gymmeryd y ddinas, a chollodd 12 cant o wyr yn yr ymdrech. Y mae Count Nugent a 15 mil o Awstriaid ar y ffordd i gynnorthwyo Radetzky; ac y mae wedi cyrhaeddyd hyd at yr afon Piave, lle y mae brwydr boeth wedi cymmeryd lle rhyngddo a'r milwyr Rhufeinig o dan Ferrari. Dywedir i'r olaf orfod rhoddi ffordd. Dywedir hefyd nad oes hwyrach ddisgwyliad am gymmorth o Ffraingc. Ymddengys fod yr Italiaid o unfryd yn benderfynol i yrru yr Awstriaid, os gallant, i maes o'u gwlad.

Y mae y Pab yn ddiweddar wedi bod mewn cyfyng-gyngor, pa uny gwrthwynebai gais penderfynol ei ddeiliaid iddo gyhoeddi rhyfel yn erbyn Awstria ai peidio. Os gwrthwynebai eu cais, byddai yn debyg o golli ei orsedd wladol: os caniattai, a chyhoeddi rhyfel yn erbyn Awstria, y byddai yn debyg o golli yr Awstriaid o fod yn ddefaid lei gorlan. Dewisodd yr olaf. Y mae rhai wedi cymeryd achlysur oddiwrth yr amgylchiad i ddaroganu fod dyddiau y Pab a Phabyddiaeth ar derfynu.

Ffraingc.—Rhodder clod dyledus i genedl y Ffrangcod! Aeth yr etholiadau heibio yn dawel a rheolaidd yn Paris, a thrwy yr holl daleithiau. Yn Rouen yn unig (os ydym yn cofio yn iawn,) y bu terfysg; ac nid yno chwaith oherwydd un gwrthwynebiad i egwyddorion y Llywodraeth. Agorwyd eisteddfod y 'National Assembly,' yn Paris, dydd Iau, y 4ydd o Fai. Pallai amser, pe bai lle gennym, i ddesgrifio golygfeydd ardderchog a chyffrous y dydd hwn. Ystyrid hwynt yn dra mawreddog hyd yn oed gan y Parisiaid. M. Lamartine a'i gyd-swyddogion, ar eu dyfodiad i'r 'Assembly,' a dderbynwyd gyda chymmeradwyaeth mawr; fel hefyd ar eu gwaith yn rhoddi cyfrif o'u goruchwyliaeth. Wedi treilio peth amser i brofi a gwirio yr etholiadau, tua 3 o'r gloch, prydnawn, ar gais y bobl oedd tu faes, aeth aelodau yr 'Assembly' allan, ynghyd â swyddogion y Llywodraeth Rhagbarotoawl—a safasant ar risiau eang ty eu cyfarfod, tua 700 o nifer, ac yno cyhoeddwyd a derbynwyd ganddynt y 'Werin-Lywodraeth,' gyda bloedd ac unfrydedd, yngwydd y

Gwarchawd Cenhedlaethol, (*National Guard,*) a 200 mil o drigolion Paris. Ar ol hyn, aethwyd ymlaen â'r matterion anghenrheidiol, o ddydd i ddydd, ar y cyfan, yn lled hwylus. Ar y 5ed, dewiswyd M. Buchez i fod yn Llywydd [President,] yr 'Assembly.' Ar y 10ed, dewiswyd Brago, Garnier Pages, Marie, Lamertine, a Ledru Rollin, i fod yn Ddirprwyaeth Llywodraethol, [Executive Commission]. Y rhai hyn wedi'n, yn ol yr awdurdod a ymddiriedid iddynt, a ddewisiasant y rhai canlynol i fod yn swyddogion y Llywodraeth yn eu gwahanol ddosparthau, sef Bastide, Recurt, Duclerc, Admiral Cazy, Trelat, Carnot, Charras, Berthmont, Cremieux, Flocon, Carteret, a Iean Renaud. Oddiar hynny yr ydys wedi appwyntio dirprwywyr, [committee,] i ystyried a ffurfio trefn lywodraeth sefydlog [constitution,] i'r wlad. Ond ar ddydd Llun, y 15ed, bu'r cwbl mewn ymddangosiad ym mron a myned yn fradach. Digwyddodd hyn trwy wendid ac esgeulusdod rhai a bradwriaeth eraill o swyddogion y Llywodraeth. Gadawyd i dorf derfysgus, dan y waedd am ryfel dros Poland a'r Ital, i ruthro i neuadd yr 'Assembly,' a thaflu pob peth mewn annhrefn, a chyhoeddi Llywodraeth newydd yn unol â chymmelliadau Barbis, Blanqui, Louis Blanc, a therfysgwyr eraill; ac oddiyno myned i gymmeryd meddiant o'r 'Hotel de Ville,' yr hyn a wnaethant. Ond byr iawn fu eu rhwysg; cyn pen awr yr oedd y Gwarchawd Cenhedlaethol wedi ymgasglu, ac yn fuan iawn darfu iddynt glirio yr 'Assembly' a'r 'Hotel de Ville' o'r terfysgwyr, a chymmeryd eu blaenoriaid yn garcharorion. Y mae y newyddion diweddaf yn rhoddi ar ddeall fod pethau yn tawelu, ac yn myned ymlaen yn reolaidd. Y mae y Llywodraeth yn gorfod bod yn wyliadwrus. Gobeithiwn y daw pob peth i iawn drefn a thawelwch. I.

FRIODASAU.

Yn Eglwys Alltyblacca, Ceredigion, ar y 12fed o Fai, gan y Parch. T. Griffiths, Cribin, ger bron y cofrestrydd, Mr. James Evans, Mr. D. Thomas, Cnapsych Llanwenog, a Mrs. Mary Griffiths, Bryngwynau.

Ar y 13eg o Fai, gan yr un, ger bron y cofrestrydd Mr. David Daniel, Caegläs, yn Nghapel Brynteg, Llanwenog, Thomas Turner Lothrington, Ysw., a Meistresan Sarah Davies, eill dau o Lanbedr.

MARWOLAETHAU.

Bu farw ar y 9fed o Fai, yn yr Aes, ger y Wig, Swydd Forganwg, Mr. Thomas David yn 80 mlwydd oed. Yr oedd yn ddyn hardd ei fuchedd; a bu yn gwasanaethu swydd Diacon yn Eglwys y Bedyddwyr Cyffredinol yn y Wig dros hir flynyddau.

Bu farw ar yr 11eg o Mai, Mrs. Williams, Ynysau, ger Pumpsaint, Swydd Gaerfyrddin, yn 42 oed. Oedd ferch i'r diweddar Mr. W. Davies, Trebannan, Cellan. Gadawodd wr ag wyth o blant, i alaru ar ei hol. Fel dynes o ymarweddiad cymmeradwy, ac o dymmher serchog iawn, cludwyd hi i'w bedd nid gydag ychydig o alar.

Er claddu hon yn ngwaelod bedd,
Yn hawdd y cwyd i'wlad yr hedd;
Ar ddelw hardd ei Phrynwr gwiw,
A chydag ef am byth i fyw.—T. G.

Mawrth 27ain, yn ei 52 mlwydd oed, yn Nghaerfyrddin, yr enwog Fardd Mr. W. E. Jones (Cawrdaf), o'r darfodedigaeth, gan adael gwraig a phedwar o blant i alaru ar ei ol. Yr oedd yn ddyn o dymer fwynaidd a hawddgar, yn hollol ddirodres; ac nid oedd o duedd i ymwthio yn mlaen er dangos ei hunan mewn un gymdeithas y byddai ynddi, er ei fod yn feddiannol ar dalentau helaeth iawn. Safodd dan gystudd hir yn amyneddgar iawn, ac ymadawodd a'r fuchedd hon mewn hedd â phawb, ac mewn llawn obaith o wynfyd.

Mai 2, yn 28ain oed, Louisa Emily Clare, pedwerydd merch y diweddar Barch. Thomas Lewis, Sarnau, Sir Gaerfyrddin.

ATEBION A GOFYNIADAU.

GOFYNIADAU.

MR. GOL.—Dymunaf arnoch chwi, neu rai o'ch Gohebwyr gwybodus, roddi gwybod i mi o ba le tarddodd y gair *Iuddew* i maes gyntaf. Yr eiddoch,

Glan Granell. YMOFYNYDD.

Gofyniad i Rifyddwyr Ieuainge.

Aeth Mary a Betty, a chant o wyau rhyngddynt i'r farchnad, ac a dderbyniasant eill dwy yr un faint o arian am danynt. Ond ar y ffordd adref, dywedodd Mary wrth Betty, pe buasai gennyf fi gymmaint o rif ag oedd gennyt ti, cawswn ddaunaw ceiniog am danynt; attebodd Betty, pe buasai gennyf fi ddim rhagor nag oedd gennyt ti, ni chawswn i ddim ond wyth ceiniog. Pa faint o wyau oedd gan bob un, a faint o geiniogau gawsant am danynt?

X.

MR. GOL.—Dymunaf gael lle i'r ychydig linellau canlynol yn eich YMOFYNYDD anmhleidgar, er eu cyfeirio at Mr. Samuel Edmunds, Pont-y-ty-pridd.

Sef, pa wahaniaeth sydd rhwng Bod, a Pherson. Attebiad buan a foddlona lawer heblaw yr eiddoch.

Pont-y-ty-pridd. GRAMADEGWR.

[Rhoddir gofyniadau eraill yn ein Rhifyn nesaf.—GOL.]

Cynnyg i ateb Dychymyg Ioan Trifflyg, yn Ymofynydd Mai, tudal. 215.

Am Fai mi a ganfyddais
Ddychymyg helaeth iawn,
Gan Ioan Trifflyg ddoniol,
Gwr destlaidd yw o ddawn.
Darllenais ef yn fanwl,
Gan feddwl yn ddiffael
Nas gallswn byth ei atteb ;—
Ië, mi'r fath adyn gwael ;
Ond tarawodd rhyw oleuni,
Do, rhyfedd, 'draws fy mhen,
Pan dd'wedai celai'r gwrthrych
Feddiannu'r nefoedd wen ;
Meddyliais na chai'r defaid,
Nag un creadur chwaith
Heb *reswm* yn ei gopa,
Feddiannu'r nefoedd faith.
Ond eilwaith aeth yn gaddug
Dau ddyblyg arnaf fi,
Pa fod, a rheswm ynddo,
Ddarlunia Ioan gû,
Yn teithio 'rhyd y ddaear,
Yn whimwth ar ei ben,
A hefyd i'r addoliad
A'i wadnau tu'r nen.
O'r braidd na chefais ddychryn
Yn sydyn iawn yn siwr,
Rhag ofn i minnau weled,
Anynad fyddai'm stwr ;
Ond ce's wrth ddarllen wedyn
Am dipyn bach yn mla'n,
Na *welwyd* ddim o hono
Gan Ioan Trifflyg glân.
'Rwyf yn dych'mygu hefyd,
Fod yn Llandysil 'nawr
Ryw nifer o'r gwrthrychau
Yn myn'd heb droed ar lawr ;
Bu Ioan felly hefyd
A'i wadnau fynu'n siwr ;
Ond daeth yr adeg hynod,
Cawd tro ar goesau'r gwr ;
Yn awr 'rwyf fi yn atteb,
Beth ydyw'r gwrthrych hardd,
Sef, Baban heb ei eni,
Boed hyna i foddio'r Bardd.

Glyn Nedd. IOAN DAUBLYG.

BARDDONIAETH.

ENGLYNION.

Yr Englynion canlynol a achlysurwyd gan y chwyldroad diweddar yn Ffrainc, ynghyd a'r gwahanol derfysgoedd sydd wedi bod ac yn barhaus yn bod dros y rhan fwyaf o gyfandir Ewrop. Gwel y darllenydd hefyd gyda llaw, bod yr Awdwr 'yn awgrymu at y diwygiad a ellid ei wneuthur yn llywodraeth Brydain Fawr, trwy symmud ymaith y gormes a'r caledi dan y rhai y mae rhan fawr o'r deiliaid yn gruddfan yn bresennol.

Rhybydd o newydd yn awr—a roddwyd
I'r graddau uchelfawr,
Rhag gwasgu, llethu i'r llawr
Dorfoedd a'u beichiau dirfawr.

Llwytho wnawd allethu'nwir—nes soddodd
Gorseddau'r cyfandir ;
Oer wylo'n awr a welir,—
Anair tost yn llenwi'r tir.

Cawd cyffes, hanes hynod,—difreiniwyd,
Do, Frenin y Ffrancod
O'i orsedd, o'i gledd a'i glod,
O'i deyrnas mewn diwrnod.

Arswyd oedd gwel'd ei orsedd,—wr enwog,
Ar unwaith yn garnedd,
A thorf aethlyd, waedlyd wedd,
A'u hyll swn drw'i holl senedd.

Gwelodd PHIL bod gwell cilio—yn fuan
A'i fywyd, er gado
Ei holl deyrnas friglas fro,
Ucheldrem i droi'n chwyldro.

Cydunol, brawdol fo Brydain,—a doeth,
Rhag dwyn y fath ddamwain ;
Pob mawredd i'w gorsedd gain
Tra llondeg yn tre Llundain.

Rhyw filoedd am wrthryfela—a geir
Dan y goron yma ;—
Er cadw hedd o duedd da,
Tiriou fo braich Victoria.

Troi ymaith bob baich tramawr—i'n hanwyl
Frenhines fydd glodfawr :
Mae'n g'wilydd bod mynydd mawr
Yn Brydain ar gefn brodawr.

Blin arwydd bod rhai blaenoriad—a'u dyll
Fel deillion heb lygaid,
Ni welant,—bloeddiant o blaid
Hyll annwn a'u holl enaid.

Bydd eraill fel byddariaid—fynychaf
Yn achos y gweiniaid,
A llawer gwalch balch a baid
Troi 'i ên o du'r trueiniaid.

Gommedd i'r Senedd o'r Sir—a wnelom
Un aelod anghywir,
Y balch o bell gwell mewn gwir
Ei gau allan os gellir.

Ynfyd yngolwg anfalch—yw'r adyn
A rêd yn uchel-falch
Gwael o dwf, gwel y difalch
Ei gwymp sydyn, bolyn balch.

O bob tu dwysgu dysgaf—mai ystwyth
Ymostwng sydd ddoethaf ;
Os ucheldrwyn cwyn nis caf
Yn drwyn isel dro nesaf.

Horeb Ceredigion. E. T.

No. 12 Aug 1844

YR YMOFYNYDD.

'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.'—PAUL.

Nid ydym yn attebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr.—GOL.

SYLWADAU, &C., AR DDECHREUAD Y DRINDOD.

MR. YMOFYNYDD:—Yn fy ngwaith yn cynnyg yr hyn a ganlyn at wasanaeth eich Cyhoeddiad Misol, fy niben yw, nid penderfynu, ond ceisio tynu sylw rhyw rai mwy gallnog na fi i drafod pwnc ag sydd yn llawn bryd weithian i ddysgawdwyr crefyddol *Cymru* i ddod i ryw benderfyniad cyhoeddus yn ei gylch. Gwel pob un deallus mai brasgamu wnaethum i dros faes lled helaeth, ac un a ddylid ei chwilio yn fanylach.

Pe byddai poblogrwydd athrawiaeth yn brawf o'i gwirionedd, nis gellid ammeu gwirionedd athrawiaeth y Drindod, oblegid y mae'r lliaws yn cymmeryd arnynt ei chredu fel rhan o Ddatguddiad Dwyfol—nid oes un athrawiaeth yn fwy poblogaidd. Ond yn fy ngwaith yn ceisio ei holrhain yn ol trwy wahanol oesoedd Cred, yr wyf yn methu ei chanlyn yn mhellach na dechreu yr ail gannrif a diwedd y cyntaf. Am hyny rhaid naill ai nad wyf fi yn gallu ei holrhain yn gywir, neu na ddysgwyd yr athrawiaeth gan CHRIST a'r Apostolion. Os arnaf fi mae'r bai, bydded rhyw un mor garedig a'm gosod ar yr iawn ffordd; neu, o'r tu arall, os nad yw'r Drindod yn athrawiaeth Ysgrythyrol, fel yr wyf fi yn cael fy nhywys i gredu, rhaid fod iddi achos neu achosion ryw amser wedi CHRIST. Barnwyf mai Platoniaeth Ysgol *Alexandria* yw'r ffynnonell o'r hon y tarddodd. Nid wyf yn cymmeryd arnaf i benderfynu'r pwnc, ond yn hytrach ei gynnyg i ystyriaeth dysgedigion *Cymru*, mor belled ag y gallaf wneyd hyny trwy gyfrwng yr YMOFYNYDD.

Groegwr oedd PLATO yn byw oddeutu tri chant o flynyddau cyn amser CHRIST, ac athronydd yn nhref *Athens*. Wrth Blatoniaeth deallaf, nid athroniaeth y gwr dysgedig hwnw, ond yn hytrach athroniaeth y rhai a alwent eu hunain ar ei enw dri neu bedwar cant o flynyddau wedi ei amser, fel yr ymddengys oddiwrth y dyfyniadau a wneir wrth fyned ym mlaen.

Os nad wyf yn camsynied, THEOPHILUS o *Antioch*,§ yr hwn oedd yn byw yn gynnar yn yr ail gannrif, oedd y cyntaf o'r Tadau a ddefnyddiasant y gair *Trias* neu Trindod i ddynodi *Personau*, neu *Hanfodolion* (*hypostases*) yn y Duwdod: dichon iddo gyfaddasu yr enw hwn o *Phaedus* PLATO.†

'Y mae'n hen achwyniad gan ddysgedigion,' medd DR. MOSHEIM, 'fod

§ Defensio Christianismi. † Plat. Phaed. 101 A. etc.

y Tadau neu ddysgawdwyr cyntaf Christ'nogaeth yn tueddu gormod at athroniaeth PLATO, ac i gymmysgu yn fyrbwyll syniadau'r Athronydd enwog hwnw â dysgeidiaeth CHRIST ein Hiachawdwr: herwydd hyn llygrwyd a thywyliwyd crefydd y Nef yn fawr.' Dyfyniad yw hwn o'i Draethawd (*Dissertatio*) ar y niwed a wnaeth y Platoniaid diweddar i athrawiaeth CHRIST.*

Yn yr un Traethawd, ar ol adrodd rhai o'r rhwystrau daflwyd ar ffordd Christ'nogaeth gan y Platoniaid, ei gelynion, ychwanega'r Hanesydd dysgedig yn y modd y canlyn:—'Ond y drygau hyn oeddynt allanol yn unig, ac er iddynt niweidio ein crefydd sancteiddiolaf, a lluddias ei chynnydd, er hyny ni lygrasant ei nhatur, ni ddoluriasant ei hymysgaroedd. Clefydau mwy angeuol a drallodasant Ghristionogaeth ar ol i'r athrawiaeth hon gael mynediad i mewn i'r Ddinas Sanctaidd, ac adeiladu iddi ei hun breswylfod ym meddyliau y rhai oeddynt wrth eu swydd yn ddysgawdwyr.'†

Dywed yr un awdwr mewn man arall, 'Ychydig o'r dysgedigion ydynt mor anghyfarwydd yn hanesiaeth Eglwys Christ na wyddant am y nifer fawr o gyfeiliornadau, ac am y syniadau mwyaf chwithig a darddasant o'r ffynnonell ammhur hon.'‡

Gyda gwên ddiystyrllyd yn ol ei arfer pan yn trafod Christ'nogaeth y dywedai ED. GIBBON,—'Peth hynod i'r doethwr o *Athens* [PLATO] ragweled un o ddadguddiedigaethau tra rhyfeddol Christ'nogaeth!!' Ond camsynied GIBBON yw hyn, neu un o'i wyrdröadau gwirfoddol o ffeithiau; oblegid y gwirionedd yw, *nid oes dim yn ysgrifeniadau Plato ei hun yn debyg i'r athrawiaeth o Drindod yn yr* HANFOD DDWYFOL ||

Ond nid ddyleu dim ammheuaeth fod, dybygwn, nad oedd y Drindod yn ei hamrywiol agweddau yn athrawiaeth hoff gan y Platoniaid diweddar, yn gystal gan y rhai hyny o honynt nad oeddynt Ghrist'nogion a'r rhai oeddynt. Darluniant hi yn agos yn yr un geiriau, eglurant hi yn yr un modd, amddiffynant hi (mor belled ag y gellir ei hamddiffyn) â'r un rhesymau, a chydunant bawb o honynt i gyfeirio at PLATO fel awdurdod.

Yr oedd CLEMENT o *Alexandria* gyda'r cynnaraf o'r Trindodiaid, (y fath ag oedd Trindod yr amser hwnw) a'r Tadau Platonaidd. Y mae efe yn ceisio dangos fod PLATO yn sôn am Drindod, ac fel prawf dyfyna ran o un o'r Epistolau sydd ar enw'r Athronydd, lle y sonir am Ail a Thrydydd Egwyddor, heb law 'Brenin pob peth.'§ Dywed nas gall ef ddeall dim arall wrth hyn ond y Drindod Sanctaidd.¶ Yr ail egwyddor yw'r Mab yr hwn a grëodd bob peth yn ol ewyllys y TAD, a'r trydydd yw'r YSBRYD GLAN.

Y mae EUSEBIUS PAMPHYLIUS, Esgob *Caesarea*,** o'r un farn â CHLEMENT yr *Alexandriad* y'nghylych yr Egwyddorion a sonir am danynt yn yr Epistol at DIONYSIUS, ac yn yr araith a osoda yn ngenau CYSTENYN

---

* MOSHEIM De turbata per recentiores Platonicos ecclesia commentatio. § vi.

† Ibid. § xxxiii. ‡ § Ibid. xlviii.

|| Sylwa MOSHEIM, gyda gradd o ddirmyg, fel hyn:—'*Certre tres illas celeberrimas hypostuses Platonicorum in Timaeo Platonis ostendere aequc facile et promptum est atque tria chymicorum principia, sal, sulphur, et mercurium e r hoc dialogo eruere.* [Byddai, yn ddiau, mor hawdded nodi allan Tri Hanfodolion tra enwog y Platoniaid, yn y cyd-ymddyddan hwnw o eiddo PLATO a clwir Timaeus, ag fyddai tynu allan o hono tri elfydd y ffeyllyddion, halen, brwmstan, ac arian byw.] Gwel ei sylwadau yn ei gyfieithad Lladin o *Cudworth's Intellectual System of the Universe.* Byddai mor anhawdd, dybygwn, nodi allan y Drindod yn un o ysgrifeniadau eraill PLATO ag yw yn y Timaeus.

§ Yr ail Epistol at DIONYSIUS, brenin *Sicily.* Barna dysgedigion yn awr yn lled gyffredin mai ffugiol yw'r Epistolau sydd ar enw PLATO. ¶ Stromata, lib. v., p. 710.

** Praeparatio Evangelica, lib. xi., cap. xv.

FAWR o flaen 'Cynnulleidfa'r Saint,' canmolir PLATO yn fawr am ddysgu yn gyson â'r gwirionedd ryw beth am fodoliaeth DUW cyntaf sef y TAD, ac ail DDUW sef y GAIR neu'r MAB.'*

Dywed AUGUSTINE yn ei 'Gyfaddefiadau,' iddo ef trwy ragluniaeth Duw gyfarfod â'r wir ddysgeidiaeth y'nghylch y *Logos* neu'r Gair mewn cyfieithad Lladin o ysgrifeniadau PLATO.† Sylwa fel y canlyn pan yn cyfeirio at yr athronyddion hyny a fawrygir gan y Platoniaid diweddar :—'Pe caniatëid ail fywyd i'r dynion hyny (hen Athronyddion Groeg) ac i'w dreulio gyda ni, ond gwneyd ychydig bach o gyfnewidiad mewn geiriau a brawddegau, hwy ddelent yn Ghrist'nogion fel y daeth llawer o'r Platoniaid yn ein hoes ni.'‡

Nid ammhriodol y sylwa BASNAGE pan y dywed fod y Tadau o fewn i ychydig i wneyd PLATO yn Ghristion, er ei fod yn byw cyn amser Crêd. Yn union ar ol hyn y mae BASNAGE yn dyfynu Ysgrifenwr o'r pummed ganrif, yr hwn a ryfedda yn fawr pa fodd y gallasai y doethwr o *Athens* ragweled un o brif ddirgelion y Datguddiad Dwyfol (y Drindod.)||

Yn nesaf, er mwyn dangos y cyffelybrwydd sydd rhwng Trindod y Christ'nogion ag un y Platoniaid, dyfynaf dystiolaeth awdwyr Trindodaidd diweddar.

Yn ei waith mawr ar yr *Intellectual System*, y cyfeiriwyd ato eisioes, y mae'r dysgedig CUDWORTH wedi casglu pob peth allasai gael yn ngwaith yr Hynafiaid i egluro athrawiaeth y Drindod. Gwna gydmariaeth hirfaith rhwng Trindod y Platoniaid â Thrindod y Christ'nogion: tua'r diwedd cyfarfyddir â'r sylwadau canlynol ;—'Felly yr ydym wedi dangos pa fodd yn ol barn ATHANASIUS nad yw'r Tri Hanfodolion (*hypostases*) Dwyfol ond Un Duw, nid *monöousios*, ond *homöousios*.§ Nid oes dim yn athrawiaeth ATHANASIUS yn anghyson â chyfundraeth gwir Blatoniad.'

'Gan i'r Platoniaid Paganaidd yn amser Christ'nogaeth gymmeradwyo yr athrawiaeth Ghrist'nogol y'nghylch y *Logos* fel peth hollol gydunol â'u barn hwy; felly gwnaeth y nifer fwyaf o'r Tadau ddarlunio y wir Drindod Blatonaidd fel athrawiaeth gyfystyr a Thrindod y Christ'nogion, neu os oedd gwahaniaeth, nad oedd ddim ond mewn geiriau yn unig.'¶

Fel profion dros yr Haeriadau uchod dyga CUDWÒRTH ym mlaen amryw dystiolaethau o Ysgrifeniadau'r Tadau. Sylwa mewn un man fod ATHANASIUS yn danfon yr Ariaid i'r ysgol at y Platoniaid i ddysgu Trindod.**

---

* Cap ix.

† Tu Domine procurasti mihi quasdam Platonoricum Libros etc. Opp. I. p. 128. [Ti ARGLWYDD a ddarparaist i mi rai o lyfrau'r Platoniaid.] ‡ Lib. de Vera Religione.

|| BASNAGE. Historie des Juifs, Lib. iv. chap. 4, § 20.

§ Ni fyddai, efallai, yn anfuddiol dangos meddwl y geiriau hyn, a arferir mor fynych gan wroniaid duwinyddol y bedwarydd gannrif. Y maent y geiriau Groeg *ousia* a *hypostatis* yn gyfystyr, ac yn cael eu harferyd i ddynodi Bodoliaeth y DUWDOD; ac *Homousios*, medd ATHANASIUS, a'i Ddiacon ALEXANDER, oedd Y MAB, sef yw hyny, Bod *o'r un sylwedd a'r* DUWDOD, ond ar yr un pryd yn wahanol. Daliai ARIUS a'i ganlynwyr o'r tu arall mai *Hetereousios* neu *Allotriousios* ydoedd, sef *o sylwedd gwahanol i'r* DUWDOD. Nage, nage, meddai SABELLIUS a'i ganlynwyr yntau, nid un o'r pethau yna yw'r Mab, ond *Tautoousios, neu Monoousios* ydyw, sef *yr un sylwedd a'r Tad ei hun*, neu y Tad tan wahanol enw. Mawr yr ystwr a'r erlid berodd y geiriau disynwyr hyn yn y pedwarydd a'r pummed cannrif.

¶ Intellectual System, pp. 620, 621.

** Byddai yn fuddiol i bawb a chwennychai wybod y berthynas rhwng y ddwy Drindod i ddarllen gwaith Dr. RALPH CUDWORTH. Ganwyd y gwr dysgedig hwnw yn ALLER, yn *Ngwlad-yr-haf*, yn y flwyddyn 1617. Cafodd ei ddwyn i fynu yn *Ngholeg Emmanuel, Caergrawnt.* Bu rai blynyddau yn beriglor *North Cadbury;* wedi hyny cafodd ei ethol i fod yn Athraw Hebraeg Breninol, (*Regius of Professor of Hebrew,*) yn mhrif ysgol *Caergrawnt*—swydd a lenwir yn awr mor alluog ac anrhydeddus gan Dr. SAMUEL LEE. Yn y flwyddyn 1651 gorfu arno ymadael â'r brif ysgol herwydd tylodi; ond gwahoddwyd ef yn ol

Ymddengys BASNAGE fel yn anfoddlon i addef fod cymmaint o debygolrwydd rhwng y ddwy Drindod ag y myn DR. CUDWORTH ei fod, ac ysgrifenodd draethawd i'w ammeu. Byddwn yn rhy faith a blinderus i'r darllenydd, ac ni attebai fawr ddiben ychwaith, pe arweiniwn ef dros faes y ddadl rhwng y ddau wr enwog hyn; digon i'n hamcan ni yn bresenol yw adrodd y modd y terfyna BASNAGE:—'Christ'nogaeth yn ei buddugoliaeth a adlewyrcha anrhydedd yn fynych ar y Platoniaid; yr oedd yn gymmaint o falchder gan y Christ'nogion i weled y Drindod yn cael ei haddef gan Athronydd, ag oedd o'r tu arall gan y Platoniaid weled Trindod yn cael ei phregethu gan y Christ'nogion.'*

Ond teg yw sylwi nad yw y dysgedigion Trindodaidd yn addef mai o Blatoniaeth y deilliodd Trindod y Christ'nogion. Yn wir nis gallant wneyd hyn heb naill ai rhoddi i fynu athrawiaeth y Drindod herwydd anysgrythyroldeb, neu ynte addef fod y Platoniaid paganaidd *cyn amser* Christ wedi rhagweled un o brif ddirgelion Christ'nogaeth. Ond os nad ydynt yn ystyried Platoniaeth fel ffynnonell y Drindod, addefa llawer o honynt ei bod wedi achosi amryw heresiau, ac yn enwedig heresi ARIUS. Dyma oedd barn PETAVIUS, yr hwn yn ei *Theologica Dogmata* a sylwa fel y canlyn:—

'Wedi chwilio a chwalu syniadau y Platoniaid y'nghylch y Drindod, âf yn mlaen weithian i ystyried pa fodd yr ymlusgodd twyll y Platoniaid i mewn i Ghrist'nogaeth, naill ai trwy offerynoldeb y rhai a ddaethant o fod yn Blatoniaid i fod yn Ghrist'nogion, neu trwy eraill ag oeddynt ryw fodd wedi eu hegwyddori yn nirgelwch Platoniaeth. Gellir rhanu y dynion hyny yn ddwy blaid, sef hereticiaid, annheilwng o'r enw Christion; a Christ'nogion, uniawn gredinwyr, a santau, y rhai, herwydd nad oedd y dirgelwch eto yn eithaf dealladwy i bawb, ac herwydd amgylchiadau'r oes, a gofleidiasant ryw syniadau peryglus am y Drindod.'

Yn nesaf, BEAUSOBRE, yn hanes y Manicheaid, pan yn sylwi ar y tebygolrwydd sydd rhwng Trindod y Platoniaid ac un y Christ'nogion, a ddywed fel hyn;—

'Dyma beth oedd y Drindod Blatonaidd yn ol barn CHALCIDIUS. Edrychir arni fel yn wallus herwydd, 1. Sonia am Dduw Cyntaf, Ail Dduw, a Thrydydd Duw, brawddegau ag y mae Christ'nogaeth wedi ymlid ymaith. Er hyny, megys yr ymddengys oddiwrth yr hyn a ddywedais, nid oedd Plato yn cydnabod ond un Duw, oblegid os addefir y gwir am dano, nid yw yn sôn ond am un Achosydd cyntaf ac un Teyrn. 2. Beiir ar y dduwinyddiaeth hon ym mhellach herwydd gwahaniad y personau dwyfol, y rhai nid yn unig a wahaniaethir ond a wahenir. Gellir, yn ddiau, esgusodi'r bai hwn mewn athronydd paganaidd, onite y mae yn un o bwys. Fe'i hesgusodir, yn wir, hyd yn ôd mewn ysgrifenwyr Christ'nogol sydd yn meddu ar oleuni'r Efengyl.

---

ym mhen ychydig amser, ac a'i gwnawd yn Athraw Coleg Crist. Yn fuan ar ol iddo gyhoeddi ei waith mawr, sef yr '*Intellectual System of the Universe*,' cafodd ei wneyd yn Gor-beriglor *Caerloyw*. Bu farw yn y flwyddyn 1688. Yr oedd yn wr dysgedig, heb nemawr o'i fath yn ei oes; yr oedd hefyd mewn parch mawr gan SENEDD CROMWELL, a'r Pengryniaid. Pell iawn ydoedd o fynwesu culni crefyddol at neb plaid mwy na'u gilydd. Yr oedd ef, Dr. THOMAS BURNET, Dr. HENRY MORE, WHITCHCOT, TAYLOR, &c., mor noddedig am eu diragfarnrwydd crefyddol, fel eu gelwid 'RHYDDYMOFYNWYR,' (*Latitudinarians*). Yn oes CUDWORTH y cyhoeddodd THOMAS HOBBES, Athronydd *Malmesbury*, ei lyfr, a elwir '*Leviathan*,' a digon tebyg mai tuedd ddidduwiaidd cyfundraeth HOBBES berodd i CUDWORTH, fel llawer yn yr oes hono, dalu cymmaint o sylw i athrawiaethau Athronyddion pob oes a gwlad.

* Historie des Juifs. Lib. iv., chap. iii. iv.

3. Beiir ar y dduwinyddiaeth hon hefyd herwydd anghyfartalwch y personau: Y mae yn gwneyd un yn Benadur, a'r ddau arall yn ddarostyngedig iddo. Yr oedd gwall cyffelyb yn Nuwinyddiaeth y Manichcaid. Credent yn eu cydsylweddolrwydd, ond nid yn eu cyfartalwch. Yr oedd y Mab yn îs na'r Tad, a'r Ysbryd Glan yn îs na'r Tad a'r Mab. Ond os taflwn olwg i amser MANICHEUS (y drydedd gannrif), byddwn yn rhwym o esgusodi bai ag oedd y prvd hwnw mor gyffredin. * * * * * Yn wir, esgusodir ORIGEN gan HUET ar yr ystyriaeth mai'r farn gyffredin cyn cynghor *Nicea* oedd fod y Mab a'r Ysbryd Glan yn îs na'r Tad.'*

Eto wele farn THEOPHILUS GALE ar y pwnc, ac nid oes dim dadl nad oedd ef mor hyddysg yng ngwaith yr Hynafiiaid ag oedd CUDWORTH neu BEAUSOBRE.

'Y Christ'nogion dysgedig CLEMENS ALEXANDRINUS, ORIGEN, etc. a wnaethant ddefnydd o athroniaeth PLATO a PYTHAGORAS, y rhai oeddynt yr amser hwnw yr athronyddion mwyaf poblogaidd, fel cyfrwng i egluro ac i brofi dirgelion mawr y ffydd y'nghylch y *Logos* Dwyfol, y gair, a sonir am dano yn IOAN I. 1. gan obeithio y gallent, trwy frawddegau arwyddocâol (*symbolisings*), hòni perthynas â'r syniadau a'r traddodiadau hyn [luddewaidd ar y cyntaf] am y *Logos*, y *nous*, a'r *trias*, [y Drindod Blatonaidd] ennill parch a mantais yn mhlith y twyll-ddadleuwyr Platonaidd hyn.'†

Yn olaf gosodaf o flaen y darllenydd addefiad DR. HORSLEY—gwrolgampwr y Drindod yn yr oes ddiweddaf. Y mae addefiad y gwr hwn yn deilwng o sylw neillduol, herwydd yr oedd yn meddu athrylith, dysgeidiaeth, cyfrwysdra twylldadleuwr, ac yn caru buddugoliaeth yn fwy na'r gwir; o ganlyniad, pe gwelsai ryw ffordd, p'un ai cam ai cymmwys, i ochelyd ymosodiad ei wrthwynebwr, cymmerasai fantais o honi, yn hytrach na gwneyd addefiad gonest o fath yr un a ganlyn:—'Yr wyf yn eithaf hyddysg o'r ffaith mai Platoneiddwyr oedd yr uniongred yn yr oes hono. Ond i'r gwrthwyneb, ymdrechais ddangos nad oedd eu Platoniaeth yn wradwydd i'w huniongrediniaeth. Y mae pleidwyr y ffydd Gatholig yn yr oesoedd diweddar wedi bod yn rhy barod i gymmeryd braw wrth y cyhuddiad o Blatoniaeth. Llawenhau wyf fi ac ymhyfrydu yn y gwradwydd. Yr wyf nid yn unig yn addef ond yn dal fod rhwng Platoniaeth a'r Drindod nid perffaith gyfatebiad, ond y fath gyffelybrwydd ag sydd yn tystio'r un dechreuad, yr hyn sydd brawf i gadarnhau gwirioned yr athrawiaeth Gatholig [y Drindod] herwydd ei chydymffurfiad â'r traddodiadau mwyaf hynafol a chyffredinol.'‡

Credaf y buasai'r Doctor yn eithaf parod i ymddidoli oddiwrth y frawdoliaeth hon pe gallasai yn rhyw fodd wadu'r berthynas.

---

* Historie du Municheisme. Tom. I., pp. 560, 561.

† The Court of the Gentiles, Part iii., B. ii., C. i. § i. Un o'r Anghydffurfwyr oedd THEOPHILUS GALE. Yn y flwyddyn 1662, pan y gwnaeth Senedd CHARLES II., Ddeddf yr Unffurfiad, yn hytrach na thanysgrifio Erthyglau y Llyfr Gweddi Cyffredin, rhoddodd i fynu ei offeiriadaeth yn Eglwys Gadeiriol *Caergrawnt*, fel y gwnaeth miloedd ar yr un dydd. Ganwyd ef yn *Teignton-y-Brenin*, yn *Sir Dyfnaint*, yn y flwyddyn 1628, a chafodd ei ddysg yn *Ngholeg Magdalen*, yn *Rhydychain*. Er iddo farw yn ddyn ieuanc mewn cydmariaeth, sef yn y flwyddyn 1678, profodd lawer o droion Rhagluniaeth. Pan yn athraw anghyoedd yn nheulu ARGLWYDD WHARTON, treuliodd ddwy flynedd yn *Caen*, yn *Normandy*, lle y ffurfiodd gyfeillach â'r enwog BOCHART, y pryd hwnw yn weinidog ac yn athraw yn y dref hono. Ysgrifenodd lawer, ond y mwyaf adnabyddus o'i waith yw '*The Court of the Gentiles*.' Prif ddiben y llyfr hwn yw profi mai llygriad o'r Dadguddiad Dwyfol yw chwedl-dduwiaeth ac athronyddiaeth y Paganiaid. O ran talentau a dysgeidiaeth yr awdwr, ystyrir y llyfr yn anghydmarol yn ei ryw.

‡ Letters to Dr. PRIESTLEY. Letter 13.

Yma y rhoddaf heibio y tro hwn. Nid wyf yn meddwl ymddwyn mor rhyfygus a chymmeryd arnaf i benderfynu pwnc y'nghylch pa un y mae cymmaint o Ddoctoriad yn methu cyduno. Fy niben penaf yn ysgrifenu y darlith bychan hwn yw ceisio cynhyrfu dysgedigion Cymru i'w drin yn y Cyhoeddiadau Misol a Chwarterol: nid oes dim achos ofni dros y gwir, ni fu erioed mewn perygl, ac ni fydd byth. Gwel y darllenydd ystyriol y dyleu gymmeryd pwyll cyn rhesu'r Drindod yn mhlith erthyglau ei ffydd, ac hefyd beidio bod yn rhy barod i feio ac i gau allan o Eglwys Christ, y sawl sydd yn ei gwrthod fel chwedl baganaidd, rhag ofn mai hwy sydd ar y gwir.

PHILO.

GWIRIONEDD CRIST'NOGRWYDD.

DARLITH II.

Parhad o tudal. 253.

Luc 1. 1—4, Yn gymmaint a darfod i lawer gymmeryd mewn llaw osod allan mewn trefn draethawd am y pethau a gredir yn ddiammau yn ein plith, megis y traddodasant hwy i ni, y rhai oeddynt eu hunain o'r dechreuad yn gweled, ac yn weinidogion, y gair: mianau a welais yn dda, wedi i mi ddilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad, ysgrifenu mewn trefn attat, O ardderchocaf Theophilus, fel y cait wybod sicrwydd am y pethau y'th ddysgwyd ynddynt.

GELLIR sylwi yma, ar ba sail y mae'r hanesydd sanctaidd yn gosod awdurdod ei hanes i orphwys: nid ar ysbrydoliad cyflawn, neu grybwylliad Dwyfol, ond ar y sylfaen gyffredin o dystiolaeth hanesyddol, tystiolaeth y rhai oeddynt yn wyddfodol mewn gwirionedd, yn canfod y ffeithiau y maent yn adrodd. Yr oedd llawer, mae'n debyg, wedi cymmeryd arnynt barotoi prif ffeithiau a berthynent i'r Iesu, a'i athrawiaeth. Yr oedd y cofaint hyn yn gywir, yn eithaf tebyg, mor belled ag yr oeddynt yn myned; ac ymddengys i Luc, a'r efengylwyr eraill, wneuthur defnydd helaeth o honynt.* Y mae hyn yn cyfrif am yr amgylchiad a fyddai heblaw hynny yn anhawdd ei egluro, sef fod yr un pethau weithiau yn cael eu hadrodd gan ddau, neu hyd yn oed dri o'r efengylwyr, ymron yn yr un geiriau; yr hyn sydd yn profi eu bod oll wedi benthycca o'r un ffynnonau, er fod pob un wedi ychwanegu rhai amgylchiadau o bwys a adawodd y lleill allan. Ymddengys, modd bynag, fod y coffadwriaethau hyn yn ddiffygiol mewn sylwedd a threfn: mae'n debyg mai cofaint anrhefnus, yn hytrach nag hanesion cysson, oeddynt; gan hynny darfu'r efengylwr hwn, cyfaill a chydymmaith yr apostol PAUL, ac yn eithaf adnabyddus i'r apostolion eraill, wedi iddo fod yn ddiwyd iawn yn ei ymholiadau, gymmeryd arno i gyfansoddi hanes cywir a threfnus o'r amgylchiadau mwyaf eu pwys yn hanes CRIST. Y

* Nis gall un dyn rhesymmol ammau hyn, wedi iddo ddarllen 'DR. MARCH'S Dissertation on the Origin and Composition of the three first Canonical Gospels, annexed to the 4th Vol. of his translation of 'MICHAELIS'S Introduction to the New Test.' Pu'n a wnaiff gydsynio ai peidio yn hollol â dattodiad medrus yr ysgrifennydd a'r pwngc dyrys hwn.
* * * * * *

Gwel modd bynnag 'NORTON'S Evidences of the Genuiness of the Four Gospels,' lle y gwel y darllenydd pwyllog lawer o resymmau da yn erbyn y dyb fod cofaint (*memoirs*) yn cael eu defnyddio gan yr efengylwyr fel sail eu hanesion.

mae'n arysgrifennu'r hanes hwn i'w gyfaill a'i ymgeleddwr THEOPHILUS, yr hwn y mae'n annerch â'r titl, 'Ardderchocaf,' gan ei fod, yn eithaf tebyg yn ddyn o radd uchel, ac efallai yn seneddwr Rhufeinig, ac yn rhaglaw talaeth.* Amcan proffesedig yr efengylwr yw, cadarnhau'r dyn enwog yma yn y grediniaeth o'r gwirioneddau pwysig hynny, ar y rhai y mae gwirionedd ac awdurdod y grefydd Grist'nogol yn seiliedig.

A chan mai cyfundrefn resymmol yw Crist'nogrwydd, yn cael ei chynnyg i ddynion fel creaduriaid rhesymmol, yn gofyn chwiliad mwyaf llym a manwl, ac heb geisio cydsyniad neb ymhellach nag y mae'n cael ei chynnal gan dystiolaeth ddigonol; a chan fod ei thestun o'r pwys mwyaf, y mae'n gweddu, yn sicr, i bob dyn rhesymmol, i'r hwn y mae gobaith am fywyd i ddyfod yn beth pwysfawr, i chwilio'r pwngc yn drwadl, yn hynaws, a diduedd, ac i sefydlu ei ffydd ar seiliau cedyrn a safadwy. Ar yr egwyddorion hyn, a chyda'r golygiadau yma, yr wyf yn ymdrechu cyffroi sylw, yn enwedig yr ieuengctyd, at brofion y datguddiad Crist'nogol. Rhannasom y profion dros y grefydd Grist'nogol dan bump pen; sef y prawf *philosophyddol*, yr *hanesyddol*, yr un *prophwydoliaethol*, yr un *mewnol* a'r dystiolaeth a ddygir o Ddwyfol gennadwri ac athrawiaeth Crist gan yr *Ysgrythyrau Iuddewig*.

Y mae'r prawf *philosophyddol* yn gosod gerbron res o ffeithiau cyhoedd ac anwadadwy, ac yn cymmeryd yn ganiattaol wirionedd y grefydd Gristionogol fel yr un achos cyfattebol a ellir ei nodi. Triniasom y prawf hwn yn y Ddarlith flaenôrol, ac yr wyf yn awr yn myned yn mlaen yn

II. I osod gerbron ac egluro y *dystiolaeth hanesyddol uniongyrch* dros y grefydd Grist'nogol.

Y mae'r prawf hwn yn gyntaf yn sefydlu gwirionedd a chredadwyaeth llyfrau y Testament Newydd, ac oddiwrth hyn y canlyn wirionedd y grefydd Grist'nogol.

1. Y mae llyfrau y Testament Newydd ar y cyfan yn *bur*, (*genuine:*) cawsant eu hysgrifennu, yn eithaf tebyg, gan y dynion, i'r rhai y priodolir hwynt, ac yn sicr, yn, neu yn agos i, oes yr Apostolion. Y maent yn cynnwys hanes gwirioneddol o ffeithiau, ac athrawiaethau a gredid yn gyffredin gan Grist'nogion yn yr amser y cawsant eu hysgrifennu, ac oddieithr rhagymadrodd Matthew a Luc, y maent yn rhydd oddiwrth un ychwanegiad pwysig a gwirfoddol, nag un llygriad ond y cyfryw ag sydd yn perthyn yn gyffredin i gyfansoddiadau o'r un hynafiaeth, a'r hyn a ellir, i raddau helaeth, ei wella a'i lenwi, trwy feirniadaeth rydd a synhwyrol.

Cafodd y casgliad o lyfrau, i'r rhai y mae'r gair Testament Newydd yn cael ei gymhwyso, ei ysgrifennu gan wahanol awdwyr, ar wahanol amserau, ac ar wahanol achlysuron, ac y mae'r dystiolaeth dros wirionedd y llyfrau hynny yn wahanol i'r un graddau; ac yn yr ystyr hyn, y maent, i fesur mawr, yn annibynol ar eu gilydd, fel y gall gwirionedd un fod yn eglur ac annadleuadwy, tra y gall gwirionedd y llall fod yn amheuus a thywyll.

Y mae EUSEBIUS, cyfaill CYSTENYN FAWR, hanesydd eglwysig dysgedig y bedwerydd gannrif, yr hwn a gymmerodd drafferth fawr i ddyfod at y gwirionedd, yr hwn oedd yn meddu llawer o foddion pwysig i wybod y

---

* Dymma yw barn ACCUMENIUS a THEOPHILACT. Gwel 'LARDNER's Hist. of the Apostles and Evangelists, chap. 8, sect. 8. Y mae MICHAELIS yn tueddu at farn THEODORE HASE, a gyhoeddwyd yn y Qiblioth. Bremer: mai archoffeiriad Iuddewig oedd THEOPHILUS, a grybwyllir gan JOSEPHUS Antiq. i. xviii—xx, mab ANNAS, yr hwn oedd archoffeiriad pan groeshoeliwyd CRIST.—MARSH's Mich. vol. iii, chap. vi, § 4.

gwir, nad ydynt mwyach ar glawr, ac ymddengys ei fod ef wedi chwilio gyda medrusrwydd mawr a diduedd garwch, y mae hwn yn dywedyd, na ddarfu i wirionedd rhai o'r llyfrau hyn, mor belled ag oedd ef yn gallu canfod, erioed gael ei ammau gan yr ysgrifenwyr boreuaf. Y llyfrau heb ddadl yn eu cylch, oeddynt y *pedair efengyl, Actau'r Apostolion,* holl *lythyrau* PAUL, ag ydynt ar ei enw, *llythyr cyntaf* PEDR, a *llythyr cyntaf* IOAN. Y llyfrau amheuus oeddynt *y llythyr at yr Hebreaid, llythyr* IAGO, *ail lythyr* PEDR, *ail* a *thrydydd lythyr* IOAN, *llythyr* JUDAS, a *llyfr y Datguddiad.* Nid wyf yn canfod un rheswm dros ymadael a'r hen drefniad hwn o'r llyfrau santaidd, ac yr wyf yn meddwl y gall y llyfrau a ystyrid yn wir yn y bedwaredd gannrif, gael yn gyfiawn eu hystyried felly yn awr; ac ni wnaeth y rhesymmau a ddygwyd ym mlaen gan Mr. EVANSON, yn erbyn gwirionedd efengyl MATTHEW, MARC, a IOAN ddwyn un argyhoeddiad i'n meddwl, yn erbyn llais unol hynafiaeth Grist'nogol. Ac yn wir nid wyf ychwaith yn canfod rheswm digonol dros gau allan o'r *canon* lyfrau a dderbynir yn gyffredin iddo, oddieithr, efallai, llythyr JUDAS, yr hwn sy'n fyr iawn, ac heb fod o bwys mawr, a'r hwn, fel yr ymddengys i mi, sydd yn cynnwys rhai pethau anheilwng o apostol IESU GRIST. Rhaid i lyfr y Datguddiad, fel cyfrol prophwydoliaethol, ymorphwys ar ei dystiolaeth neillduol ei hun, sef cyflawniad y prophwydoliaethau a gynhwysa. Wedi'r cyfan, nid yw, mewn un modd yn anghenrheidiol, er cadarnhau hyd yn oed y dystiolaeth hanesyddol, i sefydlu gwirionedd pob llyfr yn y Testament Newydd. Digon, i'r diben hyn, Tyddai eu cymmeryd ar y cyfrif iselaf. Y mae tystiolaeth unol LUC a PHAUL yn eithaf digon i gadarnhau credadwyaeth yr hanes efengylaidd. Er hynny buasai yn wenddid i roddi fynu ddim o'r ysgrifeniadau efengylaidd y rhai a ellir eu hymddiffyn yn gyfiawn a boddhaol.

I brofi gwirionedd llyfrau y Testament Newydd yn gyffredinol, yr ydys wedi sylwi yn

1. Fod y rhan amlaf o'r llyfrau hyn yn cymmeryd arnynt eu bod wedi cael eu hysgrifennu gan apostolion, neu gan ddynion oeddynt yn gymdeithion yr apostolion, naill ai yn llygaid-dystion eu hunain o'r lleithiau, neu yn *bartion* yuddynt (*parties concerned*), neu yn tynnu eu gwybodaeth oddiwrth rai ag oedd felly. Y mae llythyrau PEDR a PHAUL yn cael eu dwyn gyda'u henwau hwynt eu hunain: y mae ysgrifenwr yr efengyl a'r llythyr a briodolir i IOAN, yn gosod ei hun allan fel yn rhoddi hanes yr hyn oedd wedi weled a chlywed, a'r hyn a 'deimlodd ei ddwylaw am air y bywyd: ac y mae LUC yn desgrifio ei hun fel cydymaith PAUL yn ei lafur a'i deithiau. Y mae hyn yn brawf tebygol o'r ffaith, ac nid yw i'w wrthod heb reswm digonol.

2 Y mae dull ymadrodd a iaith y Testament Newydd, a'r cyfeiriadau anneirif at arferion lleol, ac at ffeithiau cyhoedd a neillduol, yn *brofion mewnol* cedyrn, i'r llyfrau gael eu hysgrifennu yn yr oes y perthynant iddi, a chan ddynion o'r nodweddiad a'r desgrifiad y priodolir hwynt iddynt. Nis gallasai neb ond *Iuddewon,* cydoesolion yr Iesu, ac yn byw yn, neu yn agos i, *Judea* ar yr amser, fod mor gyfarwydd a moesau, arferion, a iaith yr Iuddewon, ac a chyflwr gwirioneddol pethau yng ngwlad *Canaan,* a'r gwledydd cymmydogaethol.

3. Y mae rhes ddidor o ysgrifenwyr o'r oes apostolaidd, gan y rhai y mae llyfrau y Testament Newydd yn cael eu difynu fel pur a gwirioneddol; y rhai a roddasant iddynt yr un teitlau, ac a'u priodolasant i'r un dynion ag

y mae Crist'nogion yn awr yn wneuthur: ac y mae'n ymddangos oddiwrth eu difyniadau lluosog o honynt, fod cynnwysiad eu llyfrau yr un peth a'n heiddo ninnau. Nid oes un awdwr Groeg a Lladin, pa mor adnabyddus a phoblogaidd bynnag y bo, erioed wedi cael ei ddifynu mor fynych a llawn a llyfrau y Testament Newydd; etto ni amheuir nad y dynion i'r rhai y priodolir hwynt oedd awdwyr y llyfrau hynny. Yr ydys yn addef mai CÆSAR ysgrifennodd y *Commentaries;* mai VIRGIL yw awdwr yr *Æneid*, oherwydd eu bod yn cael eu difynu fel gweithiau yr awdwyr hynny gan ysgrifenwyr yr oesoedd canlynol. Ac fel y sylwodd PALEY, y maent yn rhagori ym mhell ar bob hen lyfr arall, mewn rhif, amrywiaeth, ac amseryddiad boreu ein tystiolaethau. Fel nad oes braidd le i gyffro ar y tu hwn.

4. Y mae gelynion mwyaf treiddgar, mwyaf dysgedig, a mwyaf gwrthnysig y grefydd Grist'nogol yn yr oesoedd a aethant heibio, wedi cyfaddef *purdeb* llyfrau y Testament Newydd, a chwedi ffurfio eu rhesymmau yn erbyn y grefydd Grist'nogol, ar y dyb fod y côf-lyfrau hyn yn cynnwys hanes cywir o'r ffydd Grist'nogol. Y mae CELSUS yn yr ail gannrif, PORPHYRY yn y trydydd, a JULIAN yr Ymerawdwr, oll yn ddynion dysgedig a threiddgar, yn cyfaddef *purdeb* (*genuineness*) llyfrau y Testament Newydd. Dylai angrhedinwyr yr oes hon ystyried hyn, mor belled o leiaf a'u gwneuthur yn ddiduedd i chwilio drostynt eu hunain i burdeb a gwirionedd y llyfrau hyn. Gwn fod MR. EVANSON yn dywedyd fod y dynion uchod yn rhy gyfrwys i wadu nad yr apostolion oedd awdwyr llyfrau y Testament Newydd, fel y gallasent gymmeryd y fantais arnynt, a dangos fod y llyfrau a briodolid i'r apostolion yn llawn anghysondeb, ac felly yn anheilwng o gymmeradwyaeth. Mae'n hawdd gwneuthur *suppositions*, ond peth arall yw eu profi. Nid yw CELSUS, PORPHYRY, na JULIAN ddim yn cymmeryd y fath fantais, ac yna y mae ei dyb yn hollol ddisail.

5. Cafodd y llyfrau hyn eu cyfieithu yn foreu i wahanol ieithoedd; yr oeddent yn cael eu darllen mewn cynnulleidfaoedd Crist'nogol; yn cael eu hesbonio; yr oedd esboniadau wedi cael eu hysgrifennu arnynt; cyssondebau wedi eu casglu (*harmonies compiled*); yr oedd sectau y mwyaf gwrthwyneb i'w gilydd yn cyttuno mewn gwneuthur defnydd o'r rhai'n, ac *appelient* attynt er cynnal eu gwahanol dybiau: a chyn diwedd yr ail gannrif, yr oeddent wedi eu taenu drwy bob rhan o'r byd adnabyddus.

6. Cafodd cof-restr (*catalogue*) o lyfrau y Testament Newydd ei dynnu gan hen ysgrifenwyr yr hwn ar y cyfan sydd yr un peth a'n heiddo ninnau yn awr; y mae tair cof-restr ar ddeg wedi cael eu casglu gan Mr. Jones oddiwrth ysgrifenwyr y pedair cannrif cyntaf, y rhai ydynt oll yn cyttuno yn agos iawn â'r rhai a dderbynir gennym ni: y mae rhai o honynt yn gadael allan y Datguddiad. Etto, y mae llawer iawn o law-ysgrifau o'r Testament Newydd, rhai o honynt o hynafiaeth mawr, ar glawr yn awr yn y Groeg, ac mewn ieithoedd eraill, ac mewn gwledydd gwahanol a phell, y rhai ar y cyfan ydynt yn cyttuno â'u gilydd; felly y mae *purdeb* y cyfan, a gellir dywedyd fod pob llyfr o'r Testament Newydd yn cael ei brofi gan dystiolaeth uwch nag sydd dros unrhyw hen ysgrifeniadau eraill, heb adael allan y cyfryw sydd a'u purdeb tuhwnt i ddadl. Wedi dangos yn y modd hyn fod y *llyfrau* yn bur (*genuine*), y mae'n aros yn

II. Fod yr *hanes* a gynnwysir yn y llyfrau yma, yn gredadwy. Ac yn y lle

1. Y mae'n amlwg o hono ei hun na allasai yr ysgrifenwyr eu hunain gael eu *twyllo*.

Yr oedd MATTHEW yn apostol: yr oedd MARC yn gydymmaith PEDR a PHAUL; talfyriad o efengyl MATTHEW, yn ol tyb rhai, yw ei hanes ef; ond y mae hyn yn cael ei ammau gan ddysgedigion, ac yn enwedig gan PROFESSOR NORTON o *America* yn ei waith hyawdl a dysgedig: y mae LUC yn proffesu fod ganddo ef yr hysbysrwydd goreu, ac yn ddiammau yr oedd ef yn gydymmaith PAUL, yn ei wahanol deithiau, a'i garchariad yn *Rhufain*: yr oedd PAUL yn apostol, a chanddo y llaw bennaf yn y cyflawniadau y mae'n ddesgrifio: yr oedd IOAN, IAGO, a PHEDR yn apostolion a chymdeithion Crist, clywsant ei ymddiddanion, a gwelsant ei wyrthiau. Y mae'n rhaid fod y dynion hyn yn gwybod p'un a oedd yr hyn a ysgrifenasant yn ffeithiau gwirioneddol ai peidio; ac os ffugiol yw eu hanesion, y mae'n rhaid eu bod yn amcanu yn wirfoddol i lygru, twyllo, ac i ymosod ar hygoeledd eu darllenwyr. Ai dyma *garacter* ysgrifenwyr y Testament Newydd? Teg yw rhoddi iddynt yr un chwareu teg ag a roddir gan gyfreithiau y wlad i bob carcharor, sef eu cymmeryd yn ddieuog nes eu profi yn euog. Ond yn

2. Nid *twyllwyr* oeddent chwaith.

Mor belled ag y gellir barnu oddiwrth yr ychydig a wyddom ni am eu hanes, ymddengys eu bod yn ddynion gonest a chydwybodol, heb un tuedd ynddynt i dwyllo, pe buasai hynny o fewn eu gallu. Ac nid oedd ganddynt dalentau at ffugio'r fath hanes a hwn, a hudo'r byd i'w dderbyn, pe buasai y fath dueddiad ynddynt.

Nis gallwn ddychymmyg am un annogaeth a allasai eu tueddu i gynnyg y fath dwyll. Nis gallasent ddisgwyl na chlod na chyfoeth, yn wobr am eu hanonestrwydd: yr oedd yn rhaid eu bod yn ffol-geni mewn dealltwriaeth, os na wyddent, eu bod, trwy ddyfeisio'r fath chwedl ddrygionus ac annuwiol, a thaenu'n ddiwyd grefydd mor amhoblogaidd, yn gwneuthur eu hunain yn agored i wawd cyffredinol, a digasedd, a'r erledigaeth greulonaf.

Y mae symlrwydd eu hanes yn ei wneuthur yn debygol iawn ei bod yn gywir. Y mae dynion sydd a chwedl ganddynt i'w hadrodd, fo'n cynnwys llawer o amgylchiadau anhebygol ac anarferol, yn gyffredin yn barod â'u hesgusodion, ac yn taeru gyda haerllugrwydd eu bod yn eirwir. Nid felly haneswyr bywyd Crist. Y maent yn adrodd rhes o'r damweiniau mwyaf rhyfeddol a gymmerasant le yn y byd erioed, un ar ol y llall, heb gymmaint ag ymdrechu eu hesbonio, nac ymddangos fel pe baent wedi eu taraw â syndod. Y maent yn dywedyd eu hanes rhyfeddol gyda'r un tawelwch meddwl, gyda'r un symlrwydd di-ddichell mewn iaith, a phe baent yn adrodd digwyddiadau a gymmerent le'n feunyddol. Prawf eglur eu bod yn adrodd ffeithiau o hynodrwydd cyhoeddus na allai neb eu hammau. 'A ydyw haneswyr ein Harglwydd yn traddodi eu hanes gyda phetrusder? A ydynt yn syrthio i'r eithafion gwrthwyneb o arfer llwon ffyrnig? Mor belled oddiwrth hyn, fel y maent yn adrodd yr engreifftiau mwyaf rhyfeddol o allu Dwyfol heb feio nac edliw dim ar bersonau, pleidiau, gweithredoedd, nac opiniynau; gyda'r fath symlrwydd digyffelyb ag sydd yn profi'n eglur nad oeddent hwy eu hunain yn cael eu cyffroi gan nwydau fel penboethiaid, ac nad oedd ganddynt un amcan i weithredu ar nwydau eu darllenwyr. Y mae'r gwyrthiau mwyaf yn cael eu hadrodd gyda chyn lleied o ymddangosiad amheuaeth neu syndod yn yr ysgrifenydd, a chyn lleied o ddrwg-dyb o hygoeledd y darllenydd, a'r digwyddiadau mwyaf cyffredin. Dull mor anhebyg i eiddo twyllwyr ag yw i eiddo penboethiaid: dull yn yr hwn y mae'r ysgrifenwyr hyn yn hollol unigol: ac ychwanegaf, dull na ellir cyfrif

am dano yn unrhyw fodd ar un dyb arall ond gwirionedd, ac nid gwirionedd yn unig, ond hefyd hynodrwydd y digwyddiadau y maent yn adrodd.'*

Y mae'r tegwch gyda'r hwn y maent yn adrodd ffeithiau, mewn ymddangosiad yn anfri i'w Meistr, eu cyfeillion, eu hunain, neu eu hachos, yn brawf boddhaol mai'r gwirionedd oedd eu hunig amcan, ac na allasai fod ganddynt un amcan i dwyllo eu darllenwyr. Gallesid ystyried yr haeriad, mai mab y saer oedd IESU, mai o Nazareth y daeth, fod ei gyd-ddinasyddion, a'i frodyr ei hun, yn petruso derbyn ei gennadwri, a'r cyffelyb, gellesid ystyried hyn yn wrthddadl i'w hawl uchel. Y mae angrhediniaeth yr apostolion, eu hurtwch yn camddeall yr ymadroddion mwyaf eglur, eu disgwyliadau gwrthun am fawredd bydol, eu dadleuon plentynaidd ynghylch blaenoriaeth PEDR, yn gwadu ei Arglwydd gan dyngu a rhegu, bradwriaeth JUDAS, cilio oddiwrth eu Harglwydd mor gywilyddus bawb o honynt, rhagrith PEDR yn *Antioch*, llwfrdra MARC, ymrafael PAUL â BARNABAS, y gwrthwynebiad a wnawd i'r apostolion gan benboethiaid phariseaidd, camarferiad y doniau ysbrydol, ymddygiad afreolus ac anfoesol y Corinthiaid ac eraill, y rhai a achosasant, ac yn wir a gynnysgaeddasant angrhedinwyr â rhai o'r gwrthddadleuon mwyaf ymddangosiadol yn erbyn y grefydd Grist'nogol, ydynt er hynny yn brofion cryfion dros gredadwyaeth yr hanes; ac y mae crybwyll y fath bethau a rhai'n, yn brawf eglur na ddarfu i'r apostolion a'r efangylwyr ysgrifennu fel dadleuwyr dros blaid, ond fel rhai yn caru'r gwirionedd.' Nid yw'n ymddangos fod yr ysgrifenwyr hyn erioed wedi meddwl ystyried pa fodd y byddai i'r weithred hon neu arall ymddangos i ddynolryw, neu pa wrthddadleuon a allesid gyfodi oddiwrthynt. Ond heb dalu'r sylw lleiaf, y maent yn gosod y ffeithiau o'n blaen, heb ofalu dim p'un a ymddangosent yn gredadwy ai peidio. Os na wnaiff y darllenydd gredu eu tystiolaeth, nid oes dim i'w wneuthur am hynny; y maent hwy yn dywedyd y gwir, heb dalu sylw i ddim arall. Yn sicr y mae hyn yn edrych fel cywirdeb, ac na chyhoeddasant ddim i'r byd ond yr hyn oeddent yn gredu eu hunain.

Y mae tueddiad eu hysgrifeniadau i ddwyn oddiamgylch, mewn modd ardderchog, gariad at y gwirionedd, bywyd rhinweddol, ewyllys da tuag at ddyn, ac ymgyflwyniad i Dduw, yn eglur ddangos mai nid twyllwyr oeddent. A ydyw yn bossibl y buasai iddynt daeru mai dyledswydd bennaf y Cristion, prif a dihalog gyfraith ei broffes, oedd peryglu pob peth, ac hyd yn oed ymadael a phob peth, yn achos y gwirionedd, os oeddent ar yr un amser yn gwybod eu bod hwy yn euog o dwyll annuwiol a dinystriol?

Y mae neillduolrwydd yr hanes efangylaidd, y cyfeiriadau anneirif at amserau, llefydd, personau, a phethau; at orchwyliau llywodraeth yr Iuddewon ar y pryd; at eu harferion, rhagfarnau, golygiadau, a'u dysgwyliadau; at eu sectau crefyddol; at arferion a moesau gwledydd eraill, ac yn neillduol y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, a'r holl amgylchiadau hyn yn cyttuno i'r manylder mwyaf ar hanesion goreu a gawsant eu trosglwyddo i ni o'r amserau a'r cenhedlaethau hynny, llawer o'r rhai, er y caent eu crybwyll yn natturiol gan ysgrifenydd cyd-oesol, ni chawsent byth eu dwyn ar gof gan ffugiwr hanes: y mae hyn oll meddaf, yn cadarnhau tystiolaeth yr hanes efangylaidd yn fawr iawn.

Ymhellach y mae cyttundeb yr haneswyr a'u gilydd yng nghylch pob ffaith o bwys, a'u gwahaniaeth oddiwrth, a'u hanghyttundeb a'u, gilydd, mewn amgylchiadau dibwys, yn profi eu bod yn dystion annibynnol o'r ffeithiau a adroddant, ac fod eu tystiolaeth ar y cyfan i'r eithaf yn gred-

adwy, yn wir, yn llawer mwy credadwy na phe buasent yn cyttuno ymhob peth i'r llythyren: oherwydd pe felly, buasent yn agored i gael eu drwg-dybio o hocced. Felly, fel y dywedodd DR. PRIESTLY, 'nod gyffredin tystiolaeth ddynol yw gwirionedd sylweddol dan amrywiaeth amgylchiadol (*substantial truth under circumstantial variety*). Y mae hyn yn beth ag y mae profiad beunyddiol llysoedd barn yn ddysgu. O'r tu arall y mae cyttundeb agos a manwl yn creu drwg-dybiaeth o gyngrair a thwyll.'.

Yn olaf, os nad oedd y ffeithiau a adroddent yn wir, gallesid yn hawdd eu gwrthbrofi, ac nid oedd yn bossibl iddynt gael cred o bwys na pharhaus.

Y mae'r ystyriaethau hyn yn ddigon i brofi mai nid twyllwyr oedd ysgrifenwyr llyfrau y Testament Newydd; oddiwrth hyn y mae'n canlyn, fod yn rhaid fod eu tystiolaeth hwy yn wir, ac fod y grefydd Crist'nogol o darddiad dwyfol.

Y mae dwy ffaith, modd bynag, o bwys neillduol, ar y rhai y mae holl gyfansawdd Crist'nogrwydd yn sefyll, a gall fod yn briodol i chwilio y dystiolaeth bendant drostynt gyda sylw neillduol. Y ffeithiau ydynt adgyfodiad Crist a dawn yr Ysbryd Glan.

Y mae ADGYFODIAD CRIST yn ffaith, gwirionedd yr hon a haerid yn barhaus gan yr apostolion a'r credinwyr cyntaf. Y mae'n cael ei dystio gan ddeuddeg dyn wedi eu dewis i'r pwrpas hwn yn neillduol; y rhai oeddent yn addas i farnu ynghylch ffaith eglur, a'r rhai yn hyn ni allasent gael eu twyllo. Yr oeddent yn berffaith adnabyddus â'r Iesu. Yr oeddent wedi bod yn gymdeithion iddo trwy ei holl weinidogaeth. Efe oedd eu mheistr, eu dysgawdwr a'u cyfaill, a'r hwn yr oeddent wedi cyfeillach ac ymddiddan yn y modd mwyaf cyfeillgar. Yr oeddent yn dystion iddo gael ei osod i farwolaeth yn gyhoeddus gan ei elynion, gwelsant ef yn marw ar y groes, ac yn cael ei osod yn y bedd. Ymddangosodd iddynt ar ol ei adgyfodiad; edrychasant arno; ymddiddanasant ag ef; bwyttasant ac yfasant gydag ef ar wahanol amserau dros ddeugain niwrnod; ac er fod yn anhawdd ganddynt ar y cyntaf credu, yr oedd y profion a roddodd iddynt o'i adgyfodiad mor argyhoeddiadol ag i orchfygu yr amheuaeth fwyaf cyndyn. Gwelsant ef yn esgyn i'r nefoedd. Ymddangosodd wedi hyny yn bersonol i PAUL ar ei ffordd i *Damascus*, ac yn debygol ar lawer o achlysuron eraill.

Nid twyllwyr oedd yr apostolion. Y mae eu character yn eu cyfodi uwchlaw drwg-dybiaeth. Nid oedd ganddynt un annogaeth i dwyllo. Yr oedd y dystiolaeth a ddygent yn eu gwneuthur yn agored i wawd, dirmyg, erlediga eth, ac angen yn ei ddull mwyaf brawychus. Diben mawr eu hanfoniad a'u gweinidogaeth oedd taenu gwirionedd, duwioldeb, a daioni cyffredinol; gan hynny nis gallasent ffurfio cyngrair a'u gilydd i ledu celwydd. Nid yw'n bossibl credu y buasai y rhai y syrthiodd ANANIAS a SAPHIRA yn farw o'u blaen am eu twyll, fod eu hunain yn dwyllwyr o'r fath waethaf. Nac ychwaith y buasai i DDUW i gospi twyll o lai yn y gwr a'r wraig hyn, trwyddynt hwy, tra yn gadael twyll o fwy yn yr apostolion eu hunain yn rhydd.

Yr apostolion oedd yn cael eu twyllo fwyaf o bawb yn yr IESU os na adgyfododd o feirw, iddynt hwy yr oedd y siomedigaeth fwyaf, a hwy fuasai ddiccaf wrtho: gan fod eu holl obeithion wedi eu siomi. Gwadodd PEDR ei Arglwydd, ond a wnai ef ddim para i'w wadu os na welodd ef ar ol marw? Gwnai, gwnai yn sicr. Y mae'r cyfan a berthyn i l anes y dynion hyn yn daugos fod y gwirionedd ganddynt.—[I'W BARHAU.]

DARGANFYDDIAD AMERICA.

COLUMBUS.

Parhad o tudal. 257.

WEDI cael allan yr ymddygiad anfoneddigaidd hwn, penderfynodd COLUMBUS i dorri pob cyssylltiad â gwlad a allasai fod yn euog o'r fath fradwriaeth. Gadawodd y deyrnas yn union-gyrch a thiriodd yn 'Spaen gyda'r bwriad i osod ei gynllun o flaen FERDINAND ac ISABELLA yn bersonol, y rhai pryd hynny oeddynt yn llywodraethu *Castile ac Aragon.* Ar yr un pryd anfonodd ei frawd BARTHOLOMEW i *Loegr* at HARRI VII., yr hwn oedd yn cael ei ystyried yn un o'r tywysogion mwyaf treiddgar a chyfoethog yn *Ewrop.*

Nid oedd fawr le gan COLUMBUS i obeithio llwyddo yn glau iawn yma etto, gan nad oedd FERDINAND nac ISABELLA yn ymbleseru mewn pethau o'r fath; ac heblaw hyn yr oeddynt ar y pryd mewn rhyfel â'r anffyddwyr. Ond yr oedd cymmeriad mwyn, ac ymddygiad crefyddol COLUMBUS yn taro'r 'Spaeniaid i'r dim: ac er fod y brenhin a'r frenhines yn cael eu cymmeryd i fynu ymron yn hollol gan y rhyfel â'r Mooriaid, etto talasant gymmaint o sylw i COLUMBUS a'i gyfarwyddo i osod ei gynllun ger bron FERDINAND DE TALAVERA, cyffeswr y frenhines. Yr oedd gwybodaeth mor isel ar y pryd, fel nad oedd y rhai a bennodwyd i gymmeryd sylw o'r cynllun ddim yn alluog i ffurfio un dychymmyg am dano. Dywedai rhai na allai mordaith o'r fath ag oedd COLUMBUS yn amcanu ddim cael ei chyflawni dan dair blynedd; dywedai eraill y cai ef weled fod y cefnfor mawr naill ai yn anherfynol, mal y tybiai rhai o'r hynafiaid, neu os y gwnai barhau i hwylio tua'r gorllewin tuhwnt i bwynt neu fan neillduol, y gwnai dull crwn y ddaear ei rwystro i ddychwelyd byth yn ol, ac mai ei ddinystr fyddai y canlyniad anocheladwy; eraill a ddywedent mai mympwy COLUMBUS oedd y cyfan, a phe buasai y fath wleddyd yn bod a ddychymygai ef, y buasai rhywun wedi eu cael allan cyn hynny. Wedi treulio pum mlynedd i ymgynghori yn ofer a dynion o'r fath hyn, o'r diwedd rhoddodd TALAVERA farn mor anffafriol i FERDINAND ac ISABELLA, fel y darfu iddynt hysbysu i COLUMBUS, y byddai yn annoeth ynddynt hwy i wneuthur dim o'i gynllun ef, nes terfynu'r rhyfel â'r Mooriaid yn gyntaf.

Cymmerodd COLUMBUS hyn fel gwrthodiad pendant i'w gynnygion, ac er ei fod yn teimlo'r ergyd yn fawr, ni roddodd i fynu ei amcan, eithr trodd yn awr oddiwrth bennaethiaid teyrnasoedd, gan y rhai yr oedd wedi cael ei ddifyrru dros gyhyd o amser â dysgwyliadau ofer, at bersonau is-radd, ac annerchodd y DUC DE MEDINA SIDONIA, a'r DUC DE MEDINÆ CELI, y rhai oeddent ddigon galluog a chyfoethog at y gorchwyl, ond troisant hwythau, fel eraill o'u blaen, y clust buddar tuag atto. I chwanegu at ei deimladau poenus oherwydd y mynych siomedigaethau a gafodd, ni chlywodd etto un gair oddiwrth ei frawd, yr hwn a ddanfonodd i lys *Prydain.* Ar ei fordaith tua *Lloegr* yr oedd BARTHOLOMEW, druan, wedi syrthio i ddwylaw mor ladron, y rhai, wedi ei ymddifadu o bob peth, a'i cadwasant yn garcharor am flynyddau. O'r diwedd diangodd o'u gafael, a ffôdd i Lundain, ond yn y tlodi mwyaf, fel y gorfu arno dreulio llawer o amser i dynnu *mapau* a'u gwerthu, er mwyn cael arian i brynu par o ddillad gweddus i ymddangos yn y llys. O'r diwedd gosododd gynllun ei frawd o flaen HARRI, yr hwn, er mor gybyddlyd oedd, a wrandawodd gyda mwy o gymmeradwyaeth ar y cynnyg nag un brenhin arall.

Yn y cyfamser, heb wybod dim am dynged ei frawd, ac heb olwg yn y byd am gael ei gefnogi yn 'Spaen, penderfynodd COLUMBUS i ymweled a llys *Lloegr* ei hunan, gan obeithio y cai dderbyniad mwy ffafriol yno nag a gafodd hyd yn hyn yn ei wlad ei hun. Yr oedd ef eisioes wedi gwneuthur parotoiadau i'r daith, pan y darfu i JUAN PEREZ, gwarcheidwad Monachdy *Rahida*, daer geisio ganddo i ohirio ei siwrnai am ychydig. Wedi iddo ef, a Meddyg dysgedig chwilio cynllun COLUMBUS yn fanol, a chael eu boddloni ynddo, ysgrifenodd PEREZ at y frenhines, gan ymbil arni i ystyried y matter o newydd. Ar hyn gorchymynodd y frenhines i PEREZ fyned atti yn ddioed i bentref *Santa Fé*, lle'r oedd y llys yr amser hwnw yn aros. Y canlyniad o'r cyfarfod hwn fu, i COLUMBUS i gael ei alw yn ol i'r llys, yr hyn a galonogodd ei gyfeillion yn fawr; ond nid hir y parhaodd eu llawenydd, gan mai nid gwaith hawdd oedd tueddu FERDINAND i fod o'i blaid ef. Yr oedd ef o hyd yn edrych ar gynllun COLUMBUS fel dychymmyg gwag a disail. Anfonodd FERDINAND am y dynion oedd yn groes i COLUMBUS o'r blaen i fod yn gynghorwyr etto. Er eu mawr syndod ymddangosodd COLUMBUS ger eu bron yr un mor hyderus ag o'r blaen. Gwnaeth yr un cynnyg etto, sef, fod i lynges i gael ei pharotoi dan ei ofal ef; fod iddo ef gael ei wneuthur yn llyngeswr a rhag-frenhin etifeddol ar yr holl foroedd a thiroedd a gai ef allan; fod iddo ef gael y ddegfed ran o'r elw a darddai oddiwrthynt, efe a'i etifeddion am byth: ar yr un pryd cynnygiodd dalu'r wythfed ran o'r draul ei hunan; prawf teg ei fod yn ddifrifol. Gwelodd cynghorwyr y brenhin er hynny ei gais yn ormod, yn gystal a'r draul angenrheidiol i ddwyn y fath gynllun i ben. Rhoddodd hyn foddlonrwydd mawr i FERDINAND, ac ymddangosai eu rhesymau yn lled deg i ISABELLA hefyd, yr hon oedd yn fwy ffafriol o'r dechreu i COLUMBUS na'r brenhin. Y diwedd fu, iddynt roddi heibio yn llwyr roddi un cefnogiad i COLUMBUS, a thorrwyd ymaith yn fyrbwyll y gynnadledd a ddechreuwyd.

Parodd hyn fwy o ofid i COLUMBUS na'r holl siomedigaethau a gafodd hyd yn hyn. Yr oedd y gwahoddiad a gafodd gan ISABELLA i fyned i'r llys fel toriad gwawr y cynddydd yn dangos fod y boreu yn agos, yn lle hyn trodd allan yn debyg i fellten yn disglaerio ynghanol y nos am eiliad, gan adael ar ei hol dywyllwch mwy dudew nag o'r blaen. Gadawodd COLUMBUS lys ISABELLA mewn dugn ofid, gyda'r bwriad i hwylio tua Lloegr fel ei ddyfais ddiweddaf. Ynghylch yr amser hwn, rhoddodd GRANADA i fynu, ac ar yr ail ddydd o Ionawr 1492 cymmerodd FERDINAND ac ISABELLA feddiant o'r ddinas gyda mawredd buddugoliaethus, a thrwy hynny cawsant eu gwneuthur yn ben ar yr holl daleithiau o droed y *Pyrenees* hyd gyffiniau *Portugal*, heb un gelyn i'w haflonyddu mwy. Pan bo'r meddwl yn orlawn o lawenydd llwyddiant, y mae dyn yn fwy parod i anturio gorchestwaith. Ni ddarfu i QUINTANELLA a SANTANGEL, noddwyr gwyliadwrus COLUMBUS, golli eu golwg ar hyn, eithr gosodasant ei achos unwaith etto o flaen y frenhines; dangosent iddi, mewn modd hyawdledd, degwch COLUMBUS yn anturio ei fywyd a'i feddiannau yn y gwaith; yr elw a ellasai ddeilliaw iddi oddiwrth yr anturiaeth; nad oedd y draul ddim yn fawr at orchwyl mor bwysig; a mwy na'r cwbl y gallasai'r fordaith fod yn foddion i gludo'r Efengyl i blith estroniaid, a hithau fod o fendith dragwyddol iddynt: dywedasant hefyd, os na wnai hi bob brys, y collai am byth y cyfleusdra, gan fod COLUMBUS ar ei daith tua gwledydd dieithr, lle yn eithaf tebyg y cai well derbyniad nag yn ei wlad ei hun.

Cafodd y rhesymau nerthol hyn eu heffaith priodol ar y frenhines; darfu

ei holl amheuaeth; gorchymynodd alw COLUMBUS yn ol yn union; hysbysodd ei phenderfyniad i'w ddefnyddio ef yn y gorchwyl ar ei delerau ei hun; a chynnygiodd wystlo ei gemmau er cael arian i wneuthur y parotoiadau angenrheidiol. Mewn *fit* o lawenydd cusanodd SANTANGEL law'r frenhines, ac i'w hattal i wystlo ei gemmau, addawodd rag-dalu y swm angenrheidiol yn ddioed. Yr oedd COLUMBUS rai milldiroedd ar ei daith, pan dôarfu i genadwr ISABELLA ei ddàl ef. Pan glywodd y newydd dychwelodd yn ddiattreg i *Santa Fe*, ac oherwydd y derbyniad groesawus a gafodd gan y frenhines, a'r gobaith o ddechreu ei daith yn fuan, anghofiodd y driniaeth a gafodd o'r blaen. Ar ol bod yn ymdrechu yn yr achos hwn dros wyth mlynedd, arwyddwyd cyfammod rhwng y brenhin, y frenhines, a CHOLUMBUS ar y 17eg o Ebrill, 1492. Erthyglau pennaf y cyfammod oeddent, 1. Fod FERDINAND ac ISABELLA yn gwneuthur COLUMBUS, a'i etifeddion ar ei ol am byth, yn llyngeswr yr holl foroedd, ynysoedd, a'r cyfandiroedd a ddarganfyddai. 2. Pennodasant ef yn rhag-frenhin (*vice-roy*) ar yr holl ynysoedd &c. ac fod yr un urddas i ddisgyn i'w hiliogaeth am byth. 3. Rhoddasant iddo ef a'i etifeddion y ddegfed ran o'r elw oddiwrth gynnyrch a masnach y cyfryw wledydd. 4. Caniattaisant i COLUMBUS fod yn yr wythfed ran o'r draul, ac y cai yntau yr wythfed o'r eiw. 5. Fod pob dadl fasnachol i gael ei phenderfynu gan COLUMBUS, neu farnwyr a nodid ganddo ef.

Cynted ag yr arwyddwyd y cyfammod, gwnaeth ISABELLA bob brys i gael pethau yn barod; erbyn y 12fed o Fai yr oedd y cwbl o du'r frenhines wedi ei barotoi, ac ymddangosodd COLUMBUS o flaen FERDINAND ac ISABELLA i dderbyn eu gorchymyn gyda golwg ar y daith. Gadawsant y cyfan iddo ef ei drefnu fel y mynnai, ond yn unig iddo beidio troseddu ar diriogaethau *Portugal*, yn *Guinea*. Yn *Palos*, tref fechan ar lan y mor, y cafodd y llongau eu parotoi. Yr oedd JUAN PEREZ, cyfaill anwyl COLUMBUS, yn byw yn y gymydogaeth; a thrwy ei ddylanwad ef ar ei gyfeillion, casglwyd yr arian angenrheidiol at ran COLUMBUS o'r draul; ac unodd llawer o ddynion cyfrifol a chyfoethog ag ef i fyned i'r daith. Y pennaf o'r rhai'n oedd tri brawd o'r enw PINZON, o gyfoeth mawr, a phrofiad helaeth mewn pethau morwriaethol.

Er holl ymdrechion ISABELLA a CHOLUMBUS, nid oedd y llynges (os teilwng o'r enw) yn addas, nac i urddas y wlad a'i parotodd, na phwysigrwydd y gorchwyl ei hamcanwyd iddo. Tair llong oedd y cyfan; y cyntaf, a'r fwyaf, oedd dan ofal COLUMBUS, yr hon a enwodd ef yn *Santa Maria*, o barch i'r FORWYN FAIR; enw yr ail oedd *Pinta*, ei chadpen oedd MARTIN PINZON, a'i frawd FRANCIS yn *bilot* arni: enw'r trydydd oedd *Nigna*, dan ofal VINCENT YANEZ PINZON. Nid oedd y ddwy long olaf ddim llawer yn fwy na badau bychain. Gosodwyd yn y llongau hyn ddigon o ymborth am 12 mis; ac nid oedd yr holl draul i gyd, er yr holl fwstwr, ddim llawer dros £4000. Y mae un peth yn amlwg yma, sef fod yn rhaid fod COLUMBUS yn ddyn dewr a chalonog iawn, cyn y gallasai anturio i fordaith na wyddai yn y byd ble byddai ei phen draw, beth ei pheryglon, na pheth a ddygwyddai iddo mewn llongau mor anaddas i'r gwaith. Wedi cael pob peth yn barod, ni allasai COLUMBUS feddwl dechreu ymdaith mor fawr heb yn gyntaf geisio nawdd y Nefoedd. Gyda'r diben hyn, aeth ef a'i gyfeillion mewn gorymdaith ddifrifol a sobr tua mynachlog *Rahida*; ac wedi cyffesu eu pechodau a chael rhyddhad, derbyniasant y cymmun o law PEREY, yr hwn a gyd-weddiodd â hwynt am lwyddiant ar yr achos a bleidiodd ef mor selog. Boreu dranoeth, dydd Gwener, y 3ydd o Awst, 1492,

ychydig cyn codiad haul, dechreuodd COLUMBUS hwylio yngwydd llnaws mawr o edrychwyr, y rhai a gyd-weddiasant ar DDUW am lwyddiant y fordaith. Hwyliodd COLUMBUS yn union-gyrchol tua'r *Canaries*, a chyrhaeddodd yr ynysoedd hyn ar y 13eg. heb gyfarfod ag un dygwyddiad o bwys. Ond mewn mordaith o gymmaint hynodrwydd, yr oedd pob dygwyddiad yn wrthrych sylw. Aeth llyw y *Pinta* yn rhydd ar yr ail ddydd wedi gadael y porthlâdd, yr hyn a ddychrynodd y morwyr ofergoelus, fel rhagarwydd o aflwyddiant y fordaith. Yn y siwrnai fer hon i'r *Canaries*, gwelwyd fod y llongau yn hollol anaddas i fordwyaeth mor faith a pheryglus. Wedi cyweirio y llongau goreu y medrai, a chael rhagor o ymborth, ymadawodd COLUMBUS o *Gomera*, yr ynys fwyaf gorllewinol o'r *Canaries*, ar y 6fed o Fedi.

Nid aeth ymlaen ond ychydig y diwrnod cyntaf, gan fod y mor yn dawel iawn. Yr ail ddydd, collodd ei olwg ar y *Canaries*, a llawer o'r morwyr a aethant eisioes yn wan-galon iawn, a dechreuasant guro eu dwyfron, heb un gobaith gweled tir byth mwy. Gwelodd COLUMBUS oddiwrth hyn fod llawer o ofidion yn ei aros oddiwrth ei gyd-forwyr. Goreu y modd, medrai ef lywodraethu dynion ymron yn gystal a'i long: meddai adnabyddiaeth drwyadl o ddynolryw, yr hyn, ynghyd a'i wybodaeth ddiail mewn morwriaeth a'i gwnaeth yn gadpen addas i'r fordaith hirfaith a pheryglus oedd o'i flaen. Ar ei daith sylwai COLUMBUS ar bob dygwyddiad, nodai bob ymddangosiad hynod, plymiai y mor yn aml aml, gofalai ar fod pob peth yn cael ei gyflawni yn iawn, ac ni chaniattai ond ychydig oriau i gysgu iddo ei hun, ac oddieithr yr ychydig amser a gymerai at gysgu, yr oedd ef bob amser ar y *deck*. Nodai ar ei lyfr bob peth a welai o werth. Er mwyn peidio gwangaloni'r morwyr, cadwai oddiwrthynt y peilder gwirioneddol oeddent wedi myned. Gyda'r olwg hyn, dywedodd nad oeddent wedi myned ond 45 milldir yr ail ddydd, er eu bod mewn gwirionedd wedi hwylio 54. Fel hyn y parhaodd hyd y diwedd i gadw o'u golwg faint oeddent yn deithio. Ar y 14eg o Fedi yr oedd y llynges dros 600 milldir o'r *Canaries*. Ni fu un Yspaenwr erioed mor bell a hyn oddiwrth dir o'r blaen. Tua'r amser hwn sylwasant nad oedd y nodwydd yn y cwmpas yn cyfeirio tua'r gogledd fel o'r blaen, ac fod y gwahaniaeth yn cynhyddu fel yr aent ymlaen. Dychrynwyd y morwyr yn fawr gan hyn, a thybiasant fod nattur ei hun wedi newid, a'r unig gyfarwyddyd oedd ganddynt ar fethu. Dychymygodd meddwl dyfeisgar COLUMBUS achos i hyn, yr hyn a symmudodd eu hofnau hwy, er na roddodd fawr foddlonrwydd iddo ef ei hun.

Parhaodd COLUMBUS i hwylio tua'r gorllewin o hyd, yn lledred y *Canaries;* wrth fyned hyd y llwybr hwn, aeth o fewn cylch y *trade winds*, y rhai ydynt yn chwythu yn ddigyfnewid o'r dwyrain i'r gorllewin. Trwy gynhorthwy y rhai'n aeth ymlaen yn hwylus. Pan oddeutu deuddeg can' milldir o'r *Canaries*, yr oedd y mor yn cael ei orchuddio gan gymmaint o chwyn neu lys, fel yr oedd yn debyg i ddoldir helaeth a gwyrddlas; ac mewn mannau yr oedd mor dew ag i rwystro'r llongau ymlaen. Achosodd hyn fraw o'r newydd. Meddyliai y morwyr eu bod wedi cyrraedd man pellaf y cefnfor ag oedd yn nofiadwy, ac ofnent fod y llys yn cuddio creigydd ofnadwy, neu dir wedi soddi i'r dyfnder: ni wyddent beth i wneud yn awr.

Ymdrechodd COLUMBUS eu perswadio hwynt, y dylent ystyried yr hyn oeddent yn ofni gymmaint yn arwydd sicr fod tir gerllaw. Ar yr amser hwn cyfododd awel gref ac a'u gyrrodd hwy trwyddo. Wrth weled llawer o adar hefyd yn hedfan tua'r gorllewin, adnewyddodd ysbryd y morwyr etto.

Ar y laf o Hydref, yr oeddent tua 2310 milldir o'r *Canaries* wrth gyfrif COLUMBUS, ond ni fynegodd hyn i'r morwyr. Yr oeddent yn awr wedi bod dair wythnos ar y mor, a'r holl arwyddion oddiwrth ehediad adar, &c. wedi troi allan yn ofer i gyd; dechreuodd y morwyr rwgnach yn erbyn COLUMBUS yn enbyd am eu dwyn i gymmaint o berygl, heb un gobaith am ymwared. Aeth yr haint o long i long, nes o'r diwedd i wrthryfel fod ymron tori allan. Yr oedd pawb yn cyttuno y dylid peri iddo ddychwelyd; tra yr oedd rhai o'r rhai mwyaf gwyllt am ei daflu i'r mor yn ddiffafr, gan feddwl na fuasai neb yn '*Spaen* feio arnynt am gael gwared o ddyfeisiwr penwag. Yr oedd COLUMBUS yn bur deimladwy o'i sefyllfa beryglus; er hynny ymddangosai iddynt hwy fel pe na fuasai yn gwybod dim am eu bwriad: weithiau cynghorai hwynt yn garedig, bryd arall cysodai eu gobeithion a'u dysgwyliadau am gyfoeth, bryd arall bygythiai hwynt â gwg eu brenhin. Fel hyn llwyddodd am ryw amser i gael tawelwch. Fel yr oeddent yn myned ymlaen, yr oedd yr arwyddion am dir yn dyfod yn fwy sicr ac amlwg. Yr oedd yr adar yn crugio'n finteioedd at eu gilydd, ac yn hedfan tua'r deheu-orllewinol, hwyliodd COLUMBUS at yr un *pwynt a'r adar*, yn lle tua'r gorllewin, fel o'r blaen. Ond wedi hwylio am rai dyddiau y ffordd honno, heb un gobaith am dir, dim ond awyr a mor o hyd yn y golwg; a chan eu bod eisioes wedi bod 30 niwrnod ar y mor, darfyddodd amynedd y morwyr; ac os drwg cynt gwaeth wedi'n; casglasant yn derfysglyd ar ei bwrdd; gyda gofyn yr oeddent yn awr yn bygwth peri iddo ddychwelyd yn gymmwys i *Ewrop;* ac i chwanegu ei ofid, yr oedd y swyddogion wedi troi o du y morwyr. Gweloedd COLUMBUS nad oedd fawr diben ymresymmu â hwynt, ac felly gorfu arno addaw dychwelyd, os gwnaent ei ganlyn ef yn dawel am dri niwrnod yn rhagor heb gyfarfod â thir.

Er mor wyllt a dilywodraeth ydyw teimladau morwyr ymfoddlonasant i hyn. Gwyddai COLUMBUS nad oedd fawr perygl mwyach. Yr oedd yr arwyddion fod tir yn agos yn awr yn aml ac auffaeledig yn ei farn ef. Er ys rhai dyddiau yr oedd ei linin plymio yn cyrraedd y gwaelod, a'r llaid a lynai wrtho yn dangos fod tir yn agos. Yr oedd yr heidiau adar yn cynhyddu, ac adar y tir yn gymmysg â hwynt. Yr oedd morwyr y *Pinta* wedi canfod corsen, newydd ei thorri, yn nofio ar wyneb y don; a morwyr y *Nigna* o honynt hwythau wedi cael cangen o bren hollol ir ei haeron; gyda hyn yr oedd y cymylau o gylch machludiad yr haul yn ymddangos yn wahanol, a'r awyr yn fwy mwyn a gwresog. Oddiwrth yr holl arwyddion hyn yr oedd COLUMBUS mor hyderus ei fod yn agos i dir, fel y gorchynnynodd dynnu'r hwyliau ynghyd, prydnawn yr Heg o Hydref, a chadw gwyliadwriaeth fanol rhag cael eu gyrru yn erbyn y tir yn y nos. Yn y cyfrwng hwn ni allasai neb gau llygad, eithr edrychai pawb yn graff tua'r parth y dysgwylient weled tir. Ynghylch dwy awr cyn hanner nos, pan oedd COLUMBUS yn sefyll ar ben blaen y llong, canfyddodd oleuni o bell, a dangosodd ef i PEDRO GUTTIEREZ, ac ynlau drachefn i SALCEDO. Gwelsant ef eu tri yn ymsymud fel pe buasai yn cael ei gludo o fan i fan. Ychydig wedi hanner nos gwaeddwyd yn orfoeddus oddiar fwrdd y *Pinta, tir, tir.* Ac er fod rhai yn amman, pan wawriodd y boreu, darfu pob amheuaeth. Gwelwyd Ynys tua 6 milldir i'r gogledd, yr hon a ymddangosai iddynt fel paradwys; ei gelltydd mawrion, ei chacau gwyrddion, ei ffrydiau grisialaidd, pob peth yn hyfryd. Dechreuasant ganu'r *Te Deum*, o ddiolchgarwch i Dduw, a'r dagrau yn ffrydio hyd eu gruddiau. Gadawn hwynt ar hyn o bryd yngolwg y tir, yn llefain o orfoledd, a COLUMBUS wedi cael y fuddugoliaeth.—[I'W BARHAU.]

AMICUS.

YR YSGRYTHYRAU.

Mr. Ymofynydd :—Barnwyf nad oes dim yn fwy anghenrheidiol yn ein hymchwiliadau am y gwirionedd, na bod genym olygiadau cywir ar y pyngciau hyny a ellir eu hystyried megis yn sylfaenol, y rhai a reolant ein golygiadau dilynol ar wahanol byngciau. Cyn adeiladu, dylem ofalu am sylfaen gywir a chadarn, onite daw'r oruchadeilad i'r llawr; arweinia un golygiad cyfeiliornus yn aml i luaws o rai eraill; gwrthbrofer y naill ac fe gwympa'r cyfan. Pe cedwid hyn mewn golwg yn fynychach, byddai yn hawdd mewn cydmariaeth ddyfod o hyd i'r gwirionedd, ac arbedid llawer o ddadleuon gwag ac anfuddiol. Yr enwog Locke, a lefara fel y canlyn ar y mater yma: 'Dylem ymarfer ar bob pwngc cynnygiedig, i chwilio allan ar ba beth y mae yn sylfaenedig. Y mae y rhan amlaf o'r diffygion a'n cyfarfyddant, o'u hiawn ystyried, yn ein harwain at ryw osodiad, yr hwn, ond gwybod ei gywirdeb, a symud yr un amheuaeth, ac a rydd eglurhad hawdd ar y pwngc; tra y mae dadleuon arwynebol a thestynol, o ba rai y mae lluaws i'w cael ar bob ochr, yn llenwi'r pen â meddyliau amrywiol, a'r genau â thraethiad helaeth, ac yn gwasanaethu yn unig er difyru'r deall, a boddhau cymdeithion, heb ddyfod at sylfaen y pwngc, yr unig le o orphwysdra a diogelwch i'r meddwl ymofyngar, yr hwn sydd a'i dueddiad yn unig at wybodaeth a gwirionedd.' Arweiniwyd fi i wneuthur y sylwadau uchod, wrth ddarllen yn ddiweddar, y tro cyntaf, 'Attodiad' y Parch. D. R. Stephen, i draethawd y Parch. Joseph Harris, ar 'Dduwdod Crist,' a gyhoeddwyd ynghyd â'i 'Weithiau Awdurol.' Nid wyf yn bwriadu sylwi yn uniongyrchiol ar y traethawd, ond ar y 'dybiaeth' y dywedir yn yr 'Attodiad,' yr elai Mr. Harris rhagddo arni; yr hon a nodir fel y canlyn:—'Y mae Mr. H. yn myned rhagddo ar y dystiolaeth *o ysbrydolrwydd cyflawn* yr Ysgrythyrau: y mae yn appelio attynt * * * dan yr ystyriaeth fod pob tystiolaeth o'r eiddynt yn wirionedd diymwad, ac nad oes ond gwall-bwyll ar y naill law, neu anffyddiaeth ar y law arall, na rydd grediniaeth barod a diysgog iddi.' Y sylwadau diweddgloawl ydynt fel y canlyn:—'Os nad yw'r Ysgrythyr yn wir *Air Duw*, od yw yn oddefol i ni yn lle derbyn yn galonog ei holl dystiolaethau, osod y fath ystyriaethau, a'r rhai blaenorol (o eiddo Belsham) i gymeryd ymaith rym ac awch neb rhyw ranau o honynt, yn ol ein mympwy a'n rhagfarnau ein hunain. Nid y'm yn meddu un maen prawf gwirionedd; yr ydym ar fôr tymhestlog, heb lyw na chwmpawd, yn druenusion digymhorth a thruenus. Nid felly y tybiau Mr. H., eithr cymerai ei safle ar y gwirionedd datguddiedig, gan appelio at hwn ac ymddarostwng idd ei holl dystiolaethau.' Pe caniatteid cywirdeb y 'dybiaeth' uchod o *ysbrydolrwydd cyflawn* yr Ysgrythyrau, barnwyf mai gorchwyl anhawdd fyddai profi o'r Ysgrythyr yr athrawiaeth Drindodaidd, yn neillduol Trindod o bersonau dwyfol, (brawddeg nas ceir o fewn yr Ysgrythyr); ac y mae y rhanau hyny a dybir eu bod yn cadarnhau'r athrawiaeth uchod, megys y sylwa Locke, yn cael eu dehongli yn wahanol gan luaws o Drindodiaid dysgedig; gall y darllenydd hyddysg yn yr iaith Saesoneg gael prawf o hyn trwy ddarllen '*Concessions of Trinitarians*,' gan Mr. J. Wilson, Manchester.

Ond fy mhrif amcan yn bresenol ydyw galw sylw y darllenydd at y 'dybiaeth' uchod, yr hon y seilir cymaint arni yn gyffredinol. Cymerai fwy o le nac a ellir, feallai, ei hebgor yn bresenol, i fyned i mewn i'r pwngc yn dwyadl: gwnaf rai sylwadau cyffredinol arno, gan ddisgwyl y cymerir ef i fynu, ac ei harchwilir drwyddo yn yr Ymofynydd cyn hir.

Sylwer 1af, fod Trindodiaid eu hunain yn gwahaniaethu yn ddirfawr ynghylch ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau; yn gymaint ag i beri i'r naill blaid gyhuddo'r llall o fod mewn effaith yn gwadu ysbrydoliaeth cyflawn yr Ysgrythyrau. A ydyw yn rhyfedd gan hyny eu bod yn cyhuddo'r Undodiaid o hyn, y rhai a gam-ddarlunir mor aml?

2il. Nid yw Trindodiaid eu hunain yn credu hyn, er ei haeru drachefn a thrachefn; nodaf yma dystiolaeth Coleridge, un o honynt hwy eu hunain, er prawf o hyn. 'Bûm yn fynych' meddai 'yn nghyfarfodydd y Gymdeithas Fiblau, Brytanaidd a Thramor, lle y clywais areithwyr o bob enwad, Calfiniaid ac Arminiaid, Crynwyr a Threfnyddion, Gweinidogion Ymneillduol ac Offeiriaid, ïe, urddasolion yr Eglwys Sefydledig, a chlywais yr unrhyw athrawiaeth,—na ddylid ystyried neu ymresymu ynghylch y Bibl, yn yr un modd a llyfrau daionus eraill;—fod y Bibl yn wahanol yn ei natur, ac yn sefyll wrtho ei hun. Gan rai, yn wir, arwyddid yr athrawiaeth, yn hytrach na'i thraethu, er hyny yn cael ei harwyddo yn amlwg. Eithr y mwyrif o lawer o'r areithwyr a haerent yn yr ymadroddion grymusaf ac egluraf a allai iaith eu cynysgaeddu â hwynt. A'r hyn sydd ychwaneg, eu prif ymresymiadau a seilid ar y gosodiad, fod y Bibl drwyddo oll wedi ei lefaru gan Hollwybodaeth, gan hyny yn mhob rhan o hono yn anffaeledig wir a rhwymedigaethol.' * * * 'Yr ydwyf wedi clywed yr iaith yma o'r pulpud, a mwy nag unwaith gan ddynion, y rhai mewn unrhyw le arall a'i heglurent

ymaith i rywbeth mor wahanol i feddwl llythyrenol eu geiriau, fel ag i debygoli yn hollol i'r gwrthwyneb. A dyma yn wir ydyw nodweddiad neilduol yr athrawiaeth, fel nas gellwch ei lleihau neu ei theneuhau heb ei galw yn ol. Clywais hyn gan ddynion, y rhai a wyddent yn gystal a mi fy hun, fod y duwinyddion goreu a mwyaf iawnffyddiog, mewn effaith yn gwadu'r athrawiaeth, yn gymaint ac y cyffesant nas gellir ei hestyn at eiriau'r ysgrifenwyr cyssegredig, neu eu hystyr neilduol,—gan hyny nad ydyw'r athrawiaeth yn arwyddocau yr hyn y mae ei geiriad cyffredin yn ei draethu; er, pa beth a arwyddocâ, a phaham y parhant i arferu'r ormodiaeth yma, yr ydwyf wedi ymofyn oddiwrthynt yn ofer.' Dyma dystiolaeth un o wybodaeth helaeth ac amrywiol, un nad ydoedd yn ymdroi mewn congl. Gwel '*Confessions of an Enquiring Spirit*,' pp. 56—58.

Fod y Bibl yn ddarostyngedig i'r cyffelyb gyfnewidiadau ac anmherfeithion â llyfrau eraill a addefir gan Drindodiaid dysgedig yn gyffredinol, ac yn unol â hyn gwrthodant amryw o'r 'tystiolaethau' a gynwysir ynddo; er engraifft gellir nodi y rhan hono, 1 Ioan v. 7, 'Y mae tri yn tystiolaethu yn y nef,' &c. Yn awr, os 'anffyddiaeth a gwallbwyll' sydd yn peri i Undodiaid wrthod y rhan hon a'r cyffelyb, beth sydd yn cymhell lliaws o Drindodiaid i wneuthur yr un peth? A ydyw'r hyn sydd yn 'anffyddiaeth' mewn Undodiaid, yn 'iawnffyddiaeth' mewn Trindodiaid? Paham y condemnir hwynt am wneuthur yr un peth a'u condemnwyr? Ac os ydynt yn anghredu ychwaneg na'u gwrthwynebwyr, nid ydynt ond dilyn yr egwyddor allan i'w chanlyniadau cyfreithlon, gyda mwy o gysondeb. Nid oes dim a dybiwn yn fwy gwerthfawr, ac y derbyniwn gyda mwy o ddiolchgarwch na *Gair Duw*, ïe, ei holl Air, *pob tystiolaeth* o hono, ond barnwyf ei fod yn arwydd o barch i *Wir Air Duw* ein bod yn gwahaniaethu rhynggdo â'r hyn sydd amheus a dynol, pa un bynag ai o fewn y Bibl, ai oddi allan iddo; ond gyda chofleidwyr *orthodoxy* y wlad a'r amserau, y mae gwrthod cyfran amheus o'r Ysgrythyr (mewn Undodiaid, cofier,) yn gyfartal i wrthod y cyfan, ac y mae gwrthod eu golygiadau hwy ar yr Ysgrythyrau, yn wrthod Gair Duw!! Ac er yr holl *paradoxy* a *heterodoxy* amlwg hyn, hwynt-hwy yn unig ydynt 'iach yn y ffydd,' 'uniawn-grêd,' &c. Y mae y golygiad cyfeiliornus hwn ar yr Ysgrythyrau, wedi bod o niwed dirfawr i'r Ysgrythyrau eu hunain, o barthed eu derbyniad yn y byd. Llawer wrth eu chwilio gyda'r golygiad hwn, a'u gwrthodasant oll. Y gwirionedd yn unig, o barth yr Ysgrythyrau, sydd ddiogel; goddef bob prawf. Barnwyf fod yn anmhosibl profi fod yr Ysgrythyrau megis y 'tybiai' Mr. H. yn berffaith pan yr ysgrifenwyd ar y cyntaf; nad ydynt felly yn bresenol, sydd tuhwnt i bob dadl. Nid yw sylwadau olaf Mr. Stephen, yn berthynol i'r pwngc, oblegid y cwestiwn ydyw, nid A yw yr Ysgrythyr yn 'Air Duw?' ond, A ydyw *oll* felly? 'pob tystiolaeth' o honi? a chan mai efe sydd yn cadarnhau, arno ef, a'r rhai sydd o gyffelyb feddwl, y dysgyn baich y prawf. O barth cyhuddiad Mr. S o 'osod y fath ystyriaethau ar yr Ysgrythyrau, ac i gymeryd ymaith rym ac awch rhanau o honynt,' ni raid i Undodiaid ryfeddu, oblegid y mae y pleidiau poblogaidd yn cyhuddo y naill y llall o'r un peth yn feunyddiol.

Os etyb y sylwadau hyn y dyben o alw sylw darllenwyr yr YMOFYNYDD at y pwngc yma, fe'm boddlonir i; a chan obeithio y bydd i rywun o'ch gohebwyr galluog ei gymeryd mewn llaw, y gorphwysaf, yr eiddoch yn ostyngedig,

Llynlleifiad. J. WILLIAMS.

GWRES.

GWRES yw'r teimlad hwnw mewn creaduriaid byw a achosir yn fwyaf cyffredin gan dân neu belydrau yr haul. Er mwyn manylwch a gocheliad annhrefn, defnyddia athronyddion anianaeth y gair Achoswres (*caloric,*) i ddynodi y peth a bair Wres.

Am yr achoswres, meddylir mai math o ddefnydd hylif teneu annirnadwy ydyw, yn treiddio trwy ronynau pob gwrthrych yn y greadigaeth, ac yn ddarostyngedig, fel y dwfr a'r awyr, i ddeddf cydbwysedd; er engraifft, gosoder dau ddernyn o haiarn, poeth ac oer, wrth eu gilydd; ymedy'r achoswres o'r un brwd, ac una â'r un oer, ac â'r awyr amgylchynol, nes byddont yr un naws. Felly hefyd os gosodir gwres-fesurydd i gyffwrdd â gwrthrych poeth, cyfyd yr arian yn yr hirgrwn amryw raddau, herwydd cynnydd Gwres; ac o'r tu arall, os gosodir gwres-fesurydd wrth ddefnydd oerach nag ef ei hun, cwymp yr arian, herwydd yr achoswres a ymedy i uno â'r gwrthrych oer. Dylaswn ddyweyd mai effaith achoswres ar bob math o wrthrychau, ond coed, llysiau, cerrig, a phridd, yw mwyhau eu maintioli yn gyfartal i fesur yr achoswres, ond bydd terfyn ar y cynnydd pryd y cyrhaedd y poethiant ryw radd neilduol priodol i natur y defnydd. Er prawf, gosodwch fodrwy am ddernyn hir crwn o haiarn, nid mor dyn na rêd yn rhwydd ar hyd iddo; yna poethwch ef yn y tau, a chwi welwch y cymmer gymmaint o chwyddiant le ynddo nes bydd y fodrwy ag oedd gynnau yn rhwydd yn awr yn dyn,

Etto, chwythwch awyr i bledren nes byddo yn llawn, yna deliwch hi wrth y tan am ychydig funydau, a hi a hollta, herwydd chwyddiant yr awyr tufewnol. Cymmer chwyddiant graddol le yn y dwfr hyd nes y berwa, ac nid yn mhellach; felly hefyd yn yr haiarn hyd nes y dechreua ciriasu.

Absenoldeb achoswres yw oerfel ac nid sylwedd; y mae angeraddoldeb oerfel yn gyfartal i absennoldeb achoswres. Nid yw'n bosibl gwybod beth yw eithaf oerfel, herwydd na ellir ymddifadu unrhyw wrthrych yn eithaf llwyr o'i achoswres. Pe gorweddech yn noethlymun yn yr eira neu'r ia ar noswaith rewllyd, byddai yr oerfel a deimlech yn angerddol, ond ni fyddai yn eithaf oerfel. Nis gall neb wybod trwy brofiad beth yw y peth a eilw ein cymmydogion *absolute cold.*

Pan y gosodoch eich llaw ar fwrdd mynor neu ar ia, achos y teimlad oer yw'r gwres yn rhuthraw o'r llaw i'r mynor neu'r ia, er mwyn cydbwysedd: parha'r teimlad oer hyd nes y cymmero perffaith gydbwysedd le rhwng gwres y llaw â'r mynor: ond pe gosodech ddernyn o ia ar y mynor, byddai'r effaith yn wrthol; yn lle cymeryd achoswres fel y gwnaeth o'r llaw, byddai yn rhaid iddo yn awr roddi i'r ia, a'r canlyniad fyddai toddiad.

Y mae pob sylwedd yn paladru Gwres i raddau mwy neu lai: wrth *baladru Gwres* y meddyliaf ei roddi allan yn belydrau fel y gwna'r haul. Y mae haiarn o naws cyffredin yn paladru Gwres yn gyfartal i'r hyn sydd yndo yn gystal ag un poeth; ond am nad yw yn meddu cymmaint, pe gosodid y ddau mewn cysswllt, derbyniai'r un oer fwy nag a roddai. Y mae y cyfnewidiad bob amser yn ffafr yr un sydd â lleiaf i roddi.

Y mae gwahanol sylweddau yn meddu ar wahanol allu i baladru. Arwynebedd du sydd yn meddu ar y gallu pelydrol cryfaf; y nesaf atto yw y gwyn; a'r gallu lleiaf yw arwynebedd lluanawl. Herwydd hyn ceidw dillad gleu y corff yn fwy clyd ar dywydd oer na rhai tywyll; herwydd hyn hefyd y ceidw llestri mettelaidd wres mewn gwlybwr yn hwy nag y gwna unrhyw lestr o ddefnydd arall. Nid oes dim achos dyweyd wrth y gwragedd fod crochan arian yn well trwythydd te na nag un pridd, oblegid y mae'r sawl sydd yn meddu un arian yn gwybod y ffaith trwy brofiad. Yr arwynebedd sydd yn paladru fwyaf o wres sydd hefyd yn sugno fwyaf. Hyn yw'r achos fod dillad gwynion yn fwy cynhes yn y gauaf, ac yn fwy oe aidd yn yr haf; oblegid yn y gauaf, pan nad oes fawr o wres allanol, nid eisiau sugno gwres i mewn sydd, ond eisiau lluddias gwres y gwaed i fyned allan. Yn yr haf hefyd y mae yn beth mwy dymunol cau y Gwres allan na'u sugno i mewn. Os yw dillad duon yn paladru mwy o Wres, y maent hefyd yn gallu sugno mwy: er prawf, gosodwch ddernyn o frethyn du a'r un faint o un gwyn i orwedd ar yr eira yn ngwyneb yr haul; sudd yr un du yn gyflymach i'r eira yn yr un amser nag y gwna yr un gwyn.

Tramwya achoswres trwy rai sylweddau yn iwy cyflym nag y gwna trwy eraill; mewn rhai nid oes fawr neu ddim rhwystr ar ei ffordd; mewn eraill y mae'r rhwystr yn anorchfygol. Pe gosodech mewn tan gof ddau ddernyn o'r un hyd a thrwch, un o haiarn a'r llall o bren, gallai'r gof ddyweyd wrthych pa un o honynt fyddai boethaf droedfedd oddiwrth y tan. Gan hyny, gyda golwg ar drosglwyddiad achoswres, rhenir defnyddiau yn ddau ddosparth, sef arweinyddion ac anarweinyddion. Dan y dosparth cyntaf y rhestrir pob math o sylweddau mettelaidd, arian, aur, haiarn, plwm, &c.; a dan y llall, bob sylwedd diog i drosglwyddo achoswres, megys cerrig, gwydr, coed, blew, golosg, &c.

Gellid dyfeisio llawer ffordd i fesur gallu arweinyddol gwahanol sylweddau mettelaidd, ond barnaf trwy brofiad fod yr un ganlynol yn rhwydd ac yn gywir. Cymmerwch wiblen hir, unffurf ac undrwch, o bob sylwedd ag y chwennychoch brofi ei allu arweinyddol: gosodwch bob un o honynt i gefyll yn syth mewn llestr penagored llawn o olew, a gorchuddiwch gymmaint o honynt ag a fyddo yn uwch na'r olew â haen deneu undrwch o gwyr coch; yna berwer yr olew, a gosoder y gwialenodau ynddo yn syth a'r cwyr i fynu. Yn mhen oddeutu hanner awr daliwch sylw i ba uchder ar bob un o honynt y bydd y cwyr wedi toddi, a hyny fydd cyfartalwch eu gallu arweinyddol. Arian yw'r arweinydd goreu; y nesaf mewn trefn yw aur, alcam, copr, haiarn, platinum, plwm.

Y ffordd ganlynol ddyfeisiwyd gan Iarll Rumford i benderfynu gallu arweinyddol defnyddiau dillad; gwnaeth hirgrwn gwydr a'i ben isaf yn terfynu mewn bwl; ynddo gosodai wresfesurydd, a gwagle y bwl a lenwai â'r defnydd a chwennychai brofi; gosodai'r hirgrwn yn syth mewn dwfr berwedig nes esgyn o'r arian byw i ryw radd rhagbennodedig: yna trosglwyddai ef yn fuan i doddion ia, a daliai sylw mewn sawl eiliad y y cwympai'r arian 135 o raddau. Pryd nad oedd dim yn y gwresfesurydd ond awyr, disgynai'r arian mewn 576 eiliad; llin yn y gwagle, mewn 1032 eiliad; cottwm, 1046; gwlan, 1118; sidan, 1284; blew addanc, 1296; blew ysgyfarnog, 1315. Y mae arferiad dynolryw yn hollol gysson â'r prawf athronyddol hwn; yn y gauaf gwisgant ddillad gwlan a sidan, herwydd mai arweinyddion dioglyd ydynt, ac o ganlyniad yn

cadw'r corph yn fwy clyd; ond yn yr haf gwisgir dillad gwynion o gottwm a lliain, er mwyn cau allan wres yr hin.

Ond gwelwn mor ddoeth a daionus yw'r CREAWDWR MAWR yn ei waith! Pe buasai blew anifeiliaid yn arweinyddion bywiog megys arian, hyddai poethiant yr haf yn annioddefol iddynt: herwydd yr un rheswm hefyd y sythai creaduriaid dwyelfenawg oni bae fod Awdwr natur wedi gwneyd eu blew yn arweinyddion dioglyd. Gwelwn hefyd yr un Rhagluniaeth ddaionus mewn gweithredaid yn y gwregys rhewllyd yn troi blew creaduriaid yn wyn, megys yr arth, y cadnaw, a'r ysgyfarnog.

Tybiaf, er nes gallaf brofi trwy ffeithiau, mai nid damwain yw amryliwiaeth adar a blodau, ond mai ei brif amcan yw rheolciddio'r gwres yn ol gofynion cyfansoddiad yr aderyn neu'r llysieuyn. Ail ddiben yw harddwch. Daw'r amser, mae'n bosibl, pryd y cynnydda gwybodaeth anianyddol i gymmaint o berffeithrwydd ag i osod y pwnc hwn tuhwnt i ammheuaeth.

Mawr mor dwyllodrus yw'r teimlad fel profydd gwres! Gosodwch ddernyn o haiarn a dernyn o wydr yn y tan nes y byddo cymmaint o wres yn y nail a'r llall. Pe cyffyrddech â'r haiarn, y canlyniad fyddai serio'r croen mewn llai o amser na hanner eiliad, ond braidd y teimlech fod y gwydr yn boeth! Cymmaint yw'r gwres a baladra o'r haiarn yn yr un amser yn fwy nag o'r gwydr. Yr ydych yn teimlo y gwrthban yn naws y gwaed, y llenlian ychydig yn oerach, y ford yn oerach etto, y garreg yn oerach na'r ford, a'r canwyllhaiarn yn oerach nag un o honynt; ond pe profech hwynt â'r gwres-fesurydd, gwelech mai yr un faint o wres sydd yn mhob un o honynt. Yn eu bywiogrwydd gwresarweinyddol mae y twyll.

Er fod genyf etto lawer o bethau cryn adeiladol heb osod ger bron y darllenydd yn nghylch y testyn hwn, rhoddaf heibio yn awr, gan obeithio cael hamdden rhyw bryd arall, ac y gwna'r YMOFYNYDD adnewyddu ei nerth ar ddechreu ei ail flwyddyn.

D. E.

YMDDIDDAN RHWNG

LLYFR HYMNAU JOSEPH HARRIS

A

CRISTION.

CRISTION.

WEL, gyfaill, dyma ni wedi cyfarfod â'n gilydd unwaith etto. Os digwydd i ni siarad ynghylch pyngciau dadleugar Crefydd, fel arferol, gobeithiaf y cawn ein llywodraethu gan ysbryd Rhyddymofyniad wrth drafod â hwynt.

LLYFR HYMNAU.

Mae Duw'n gofalu am ei blant
Mewn cyfyngderau lawer cant;
Fe'u ceidw ac fe'u harwain hwy,
Mewn cyfyng leoedd fwy na mwy. H. 143.

CRISTION.

Yn ddiau y gall pob Cristion gydunо gydach' i ganu y penill hwn, oherwydd ei fod yn cynnwys prif egwyddor y Grefydd Grist'nogol, sef Tadoldeb DUW. Gellir ei chydmaru i garreg sylfaen adeiladaeth ardderchog. Hon yn ddiddadl yw sylfaen Crefydd MAB DUW: dysgir hi gan GRIST yn yr Efengyl; gorchymynir pawb pan weddiant i ddywedyd 'Ein TAD, yr hwn wyt yn y Nefoedd;' a phan gredir fod DUW yn Dad, ni wangalonir yn wyneb yr holl ofidiau a threialon ag y mae yr hil ddynol yn ddarostyngedig iddynt; ac mor wired a bod CRIST wedi dysgu fod DUW yn Dad, fe ddygir pawb i berffaith ddedwyddwch yn y diwedd. Pan gospo DUW, cospi y mae fel Tad; a'r dyben mewn golwg yw gwelliant y cyfryw un a gospir.

LLYFR HYMNAU.

Chwychwi yr etholedig ryw,
Heb gymhell de'wch i ganmol DUW,
Am ei dragwyddol gariad rhad,
Eich dewis iddo'i hun yn had. H. 84.

CRISTION.

Daethoch o'r diwedd at un o ddychryn-feydd Calfin, sef etholedigaeth bersonol, dragwyddol, a diamodol. Ni ddysgwyd, ac ni ddysgir byth, athrawiaeth ag sydd yn fwy dinystriol i eneidiau dynion, ac yn fwy cableddus ar garacter DUW na hon. Meddwl i DDUW, ein Tad Nefol, yr hwn yn unig sydd DDA yn yr ystyr helaethaf o'r gair; ie, meddwl i'r fath Fod arfaethu nifer luosog o'i blant i gael eu poeni byth, heb un dyben mewn golwg ond eu poeni, sydd un o'r meddyliau mwyaf gormesol am DDUW a all un dyn byth ddychymygu. Fe ddysga'r athrawiaeth hon na all un pechadur ddychwelyd at DDUW os na fydd yn un o nifer yr etholedigion; ac wrth hyny yn cauad iechydwriaeth pawb oddiallan iddynt. Pa gysondeb sydd rhwng y fath athrawiaeth â tystiolaeth pendant yr Ysgrythyrau, y rhai sydd yn dysgu yn y modd amlycaf fod cadwedigaeth pawb yn hollol ymddibynol arnynt eu hunain. Y mae Iachawdwr y byd yn dysgu yn ei bregeth ar y mynydd, mai y rhai a wnant ewyllys ei Dad yn unig a dderbynir i'r Nefoedd. Ac mewn cysylltiad â sefyllfa ddyfodol dynion mewn ail-fyd y dywed, 'Y daw y rhai a wnaethant dda i adgyfodiad bywyd, a'r rhai a wnaethant ddrwg i adgyfodiad barn.' Tystiolaeth PAUL ar y pen hwn yw, 'Y caiff pawb ei barnu yn ol eu gweithredoedd,' a'r 'hyn a haua dyn, hyny hefyd a fed efe.' Mae'n dda genyf weled fod y rhan

fwyaf o'r dynion ieuainc yn gwrthod hon: y rhai sydd yn ei chredu yw ambell i hen wr yma a thraw, y rhai ni wnaethant erioed un cynnydd mewn gwybodaeth grefyddol.

LLYFR HYMNAU.

Mae rhyw ddirgelwch llawer mwy,
Oes, Iesu, yn dy farwol glwy',
Nas dichon Sant tra ynddo chwyth,
Na Seraph pur, ei ddeall byth. H. 102.

CRISTION.

Mae ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau yn ddistaw ynghylch y dirgelwch a dybiwch sydd yn gysylltiedig â marwolaeth CRIST. Y mae'n ffaith fod Apostolion CRIST yn dysgu fod marwolaeth eu Meistr wedi atteb llawer o ddybenion pwysig, megis selio y gwirioneddau pwysig a ddysgodd â'i waed; i fod yn rhag-lwybr i'w adgyfodiad; cymodi y byd â DUW; offrymu ei hun yn aberth dros bechod; cyflawni proffwydolaethau; a rhai dybenion eraill efallai a ellid eu henwi. Ond nid ydynt yn dysgu fod un dirgelwch yn y byd yn gysylltiedig â'i farwolaeth. Mae'n wir fod Trindodiaeth yn cysylltu rhyw ddirgelwch â marwolaeth CRIST na wyr Trindodwyr eu hunain ddim yn ei gylch. Nid oes eisiau i neb gymmeryd llawer iawn o drafferth i gydmaru Trindodiaeth â Chrefydd CRIST, cyn y daw i'r penderfyniad eu bod yn hollol wahanol i'w gilydd.

LLYFR HYMNAU.

O am rym i ganu'n gywir
Deilwng glod i IESU'm DUW,
Gwreiddyn ac hiliogaeth DAFYDD,
Mab ac Arglwydd yr un rhyw;
Fe yw Alpha ac Omega,
Cyntaf a diweddaf yw,
Hollwybodol, Hollalluog,
Hollbresenol,—Prynwr byw. H. 250.

CRISTION.

Y mae profiad yn ein dysgu ei fod yn beth tra naturiol i bob dyn i barchu, canmol, ac ymddiried mwy mewn unrhyw wrthrych ag fyddo wedi dangos mwy o garedigrwydd iddo, nag at un ag fyddo wedi dangos llai neu ddim iddo; felly y mae gyda chwithau. Y mae athrawiaeth y Drindod, o anghenrheidrwydd, yn eich dysgu i roddi mwy o barch, clod, a diolchgarwch i'r ail berson yn y Drindod nag i'r person cyntaf; oherwydd dywed y rhai 'sydd yn gwybod oreu hanes y Drindod,' y buasai y person cyntaf yn sicr o boeni yr hil ddynol am byth, oni buasai i'r ail berson ddyfod ym mlaen, a gosod ei law wrth y *fond* yn y 'cyngor boreu,' ac addaw dyfod i ben Calfaria i ddofi llid y person cyntaf â'i waed. Nid rhyfedd eich bod yn canu mawl i IESU yn hytraeh nag i'w Dad ef, a'n Tad ninnau; ei Dduw ef, a'n Dduw ninnau, pan y credwch y fath wrthuni ag athrawiaeth y Drindod. Yn gyson â hon fe ddylai yr ail berson-gael mwy o barch na'r un cyntaf, oherwydd efe, ac efe yn unig fu'n foddion i attal digofaint y person cyntaf rhag syrthio arnom. Yr ydych yn gyson iawn a'ch hunain etto, ond yn groes i dystiolaeth y Beibl. Hefyd, mewn gwrthwynebiad i'r Testament Newydd, yr ydych yn galw IESU yn Fod 'Hollwybodol, Hollalluog, ac Hollbresenol,' Mae yn ymddangos i mi nad ydych yn gofalu am gael eich harwain a'ch llywodraethu gan ysgrifenwyr y Testament Newydd mewn Crefydd. Y mae IESU ei hun wedi dyweyd, mewn cysylltiad â'i allu, mai peth ag oedd efe wedi ei dderbyn oddiwrth ei Dad oedd; canys dywed, 'Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y Nef ac ar y Ddaear;' 'O honof fy hun nis gallaf wneuthur dim.' Mi wn mai arferiad gan Drindodwyr yw dyweyd, mai *fel yr oedd yn ddyn* yr oedd wedi derbyn gallu gan ei Dad; ond nid yw ysgrifenwyr y Testament Newydd wedi dyweyd hyny; ond odid gwyddent hwy am hyny pe buasai yn ffaith, ac yn ddidadl y buasent wedi ei draethu lawer gwaith pe buasai yn bod; ond nid ydynt. Gyda golwg ar helaethrwydd ei wybodaeth, dywedai nas gwyddai pa bryd y bydd dydd y farn; a pha fodd y gallasai fod yn Hollwybodol os na wyddai am y dydd hwnw? A gyda golwg ar ei Hollbresenoldeb, mae yr haeriad mor wrthun fel y gall pawb weled ei fod yn cario ganddo attebiad cyflawn. Haeru fod bod meidrol yn Hollbresenol yw un o'r haeriau mwyaf gwrthun.

D. L.

NEWYDDION

CARTREFOL A THRAMOR.

CYFARFOD BLYNYDDOL

UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

Cadwyd y Cyfarfod hwn yn Capel-y-Groes, Ceredigion, ar yr 28ain o Fehefin, Darllenodd a gweddiodd Mr. D. Lloyd, M.A. Caerfyrddin, a'phregethodd Mr. John James, Gellionen, oddiar Esay 45, 22. Yn y Cyfarfodydd hyn mae'n arferol i drafod rhyw bwnc neilduol ar ol y bregeth, pryd y mae groesaw i bawb a fyddo yn dewis ddyweyd eu meddwl arno. Y pwnc ar yr achlysur presenol oedd *Ffydd Gadwedigol;* arno y llefarodd Mstrd. J. E. Jones, Penybont, Owen Evans, Cefncoedycymmer, a J. James, Gellionen.

Am dri o'r gloch prydnawn, yr un dydd, gweddiodd Mr. J. Jones, o Aberdâr, a phregethodd Mstrd. J. E. Jones, Penybont, oddiar 1 Cor. 15. 25; a O. Evans, oddiwrth Ioan 8. 43. Yr oedd y gwrandawyr yn fwy lliosawg nag y gwelwyd erioed o'r blaen ar y cyfryw achlysur.

Y prydnawn o'r blaen agorwyd Capel Newydd *Rhydygwin*, yr hwn sydd wedi ei adeiladau ar ochr, ac oddeutu hanner y ffordd rhwng Llanwnen ac Ystrad. Dechreuodd Mr. W. Jeremy, M. A., y Cyfarfod, a phregethodd Mr. Davies, o Evesham, oddiar Ps. 122. 1.

Cynnelir y Cyfarfod Blynyddol nesaf yn y Gellionen ar y dydd Iau cyntaf ar ol yr 21ain o Fehefin, 1849. Mr. Thomas Thomas, o Bantydefaid, sydd i bregethu, ac y mae'r Cyfarfod Cwarterol nesaf i gael ei gynnal yn Ciliau Aeron, Ceredigion, pryd y dysgwylir ar Mr. O. Evans, i bregethu; y pwnc yw *Gallu dyn.*

AGORIAD TY CWRDD

Y BEDYDDWYR UNDODAIDD,

YN Y NOTTAIS, MORGANWG.

Ar yr 20fed o Gorphenaf agorwyd y Capel hwn wedi cael ei atgyweirio a'i helaethu. Yn y boreu am 11, pregethodd Mr. Briggs, o Bessel's Green, Kent, yn Saesneg, oddiar Marc 16. 15, 16. Yn y prydnawn, am 2 o'r gloch, pregethodd Mr. J. E. Jones, o Benybont, oddiar Math. 16. 18; a Mr. T. Briggs, o Dover, oddiar Ioan 5. 39. Am 5 o'r gloch y diwedydd pregethodd Mr. D. L. Evans, o Benybont, oddiar Ioan 6. 27; a Mr. Briggs, o Bessel's Green, oddiar Ioan 17. 3. Yr oedd y Cyfarfodydd yn lliosawg, a'r gwrandawiad yn fywiog.

Ar y Sabboth canlynol pregethodd Mr. J. Briggs, yn y Wig, yn y borau am 11 o'r gloch. Yn y prydnawn pregethodd Mr. J. E. Jones, oddiar Ps. 133. 1; a Mr. J. Briggs, oddiar 2 Cor. 5. 18, 19. Ar ddiwedd y Cyfarfod gweinyddwyd Swpper yr Arglwydd. Yma hefyd fel yn y Nottais, bafwyd Cyfarfod hwylus ac adeiladol. Wrth ganfod symlrwydd, zel, a gwresogrwydd carlad pobl y Nottais a'r Wig, ni allasai rhai ag oedd yn bresenol ddim llai na wylo dagrau, a meddwl yn gryf am undeb, symlrwydd, a chariad y Crist'nogion cyntefig, fel y ceir yr hanes am danynt yn Actau yr Apostolion, yn gwrandaw yn awyddus ar y newyddion da o lawenydd mawr o eneuau gweision Iesu, a chenhadon yr un Duw a Thad pawb oll. Gobeithir na fydd Mr. Briggs, ddim yn hir cyn ymweled â Chymru drachefn.

Y 'CHARTISTS.'—Cafodd ERNEST JONES, FUSSEL, WILLIAMS, ac eraill o'r 'Chartists' a gymmerwyd i fynu am gythrwfl yn Llundain eu condemnio i ddwy flynedd o garchar, a rhagor, mwy neu lai.

Y LLOFRUDDIAD GER ABERTAWE.—Yn Sessiwn *Caerdydd* profwyd THOMAS MARTIN a MICHAEL LEARY yn euog o lofruddio JOHN WILLIAMS, a chyhoeddwyd dedfryd marwolaeth arnynt.

YR IWERDDON.—Y mae cyflwr *Iwerddon* yn ddrwg aethus. Ymddengys fod yr holl wlad yn aeddfed i wrthryfel poeth oddieithr *Ulster*. Y mae Arglwydd CLARENDON wedi cyhoeddi fod *Dublin*, *Waterford*, ac amryw o'r sirbedd i fod o dan gyfraith filwriaethol. Y mae blaenoriaid y terfysg oddieithr un neu ddau, wedi eu cymeryd i fynu; ac y mae Arglwydd J. RUSSELL wedi dwyn ysgrif o flaen y Senedd i awdurdodi Is-Lywydd yr Iwerddon neu ei raglawiaid i ddal a charcharu y neb a ddrwg-dybiont hyd y 1af o Fawrth nesaf.

FFRAINC.

Tua diwedd Mehefin torrodd terfysg dychrynllyd allan yn *Paris*. Yr achos union-gyrchol o hono oedd, fod y gweithdai gwladol —yn y rhai yr oedd miloedd lawer yn cael eu cynnal ar gost y wlad —wedi cael eu rhoddi fynu. Y gweithwyr yn bennaf oedd wedi bod yn foddion i ddymchwelyd Llywodraeth LOUIS PHILIPPE: disgwylient gael medi o ffrwyth y chwyldroad trwy fod eu cyflwr yn cael ei wneud yn fwy esmwyth. Y siomedigaeth a gafodd y rhai'n, ynghyd â nifer fawr o ladron a dynion segur ag oedd wedi crynôi i'r gweithdai, a'r gred y gallent ennill y Llywodraeth i'w dwylaw eu hunain a'u cyfeillion—dyna, mae'n debyg, fu yr achos i'r terfysgiad ofnadwy a galarus. Yr oedd BARBES, BLANQUI, a LOUIS BLANC a'u bâth wedi bod er ys misoedd yn cynhyrfu at hynny o waith, ac yn wir hwy fuont yn mron a chyrhaeddyd eu hamcan. Yr oedd eu parotoadau mor gyflawn, a'u cynllun mor fedrus, fel pe buasent ond gallu sefyll eu tir drwy ddiwrnod neu ddau yn ychwaneg, buasai yr *Hotel de Ville* a'r Llywodraeth yn eu mheddiant. Ond trwy appwyntiad Cadfridog CAVAIGNAC i fod yn gâd-lywydd ar y ddinas a'r fyddin, a gwrolder a ffyddlondeb y *National Guard* a'r *Garde Mobile*, ar ol pedwar diwrnod a phedair noswaith o ymladd ffyrnig, gorfu ar y terfysgwyr roddi i fynu. Y mae *Paris* a *Ffrainc* yn awr i gyd yn dawel.

Nid oes nemawr o gyfnewid wedi cymeryd lle yn *Awstria* nac yn yr *Ital* yn ystod y mis diweddaf.

Y mae yr Eisteddfod yn *Frankfort* wedi cyttuno ar undeb Cenhedlaethol y taleithiau *Germanaidd*, ac wedi dewis yr Arch-ddug JOHN o *Awstria* i fod yn Ficcer yr Ymerodraeth.

Dywedir fod y rhyfel rhwng y Cyngrair Germanaidd a *Denmarc* ynghylch *Holstein* i'w adnewyddu.

MARWOLAETH.

Mehefin 21, yn y Llewtref, plwyf Llanwnen, Ceredigion, yn 31 oed, o'r darfodedigaeth, y Parch. Thomas Evans, Gweinidog yr Undodiaid yn Kingswood, yn agos i Birmingham. Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol yn mynwent Allt-y-Plwca pryd y pregethodd y Parch. D. Evans, B.A., Gweinidog y lle, bregeth addas ar yr amgylchiad galarus. Ymddengys ychydig o sylwadau coffadwriaethol ar fywyd Mr. Evans yn ein nesaf.

ATEBION A GOFYNIADAU.

Atteb i Ofyniad X. tudal. 263.

Mr. Gol.—Os Gofyniad i Rifyddwyr *ieuainc* yw hwn, beth all fod genych ar gyfer *hen* rai?

Wrth gydmaru y ddwy rês canfyddais fod perthynas neillduol rhwngddynt; sef fod swm y mwyaf yn *betryal*, a'r lleiaf yn *othr* y petryal; megys pe cerddai A ddeg milldir byddai yn rhaid i B gerdded cant.

Yn nesaf, y mae swm y milldiroedd a drafaelir gan A yr un â nifer y diwrnodau fydd ar y ffordd cyn cyfarfod â B.

Galwer nifer y diwrnodau yn x; yna hanner petryal x a hanner x yw nifer y milldiroedd a drafaelir gan A mewn x diwrnod; yn ol y berthynas rhag-grybwylledig sydd rhwng y ddwy res, swm milldiroedd B yw pedwaran petryal milldiroedd A. Y mae swm y ddau yn gyfartal i m; sef pellder y ddwy ddinas.

Yn awr gyda ychydig o ystryw ac amynedd i drin y cyfartaliad hwn cewch y rheol ganlynol am werth x; *cymmerwch ochr betryal 4 m ac un: o'r ochr betryal hono tynwch dri pedwarán un: o ochr betryal y swm tynwch hanner un, a'r gweddill fydd x, neu nifer y diwrnodau fyddant ár y ffordd cyn cyfarfod.* Er enghraifft,

Meddylier fod y pellder rhwng y ddwy ddinas yn 462 milldir neu m; 4 m ac un yw 1849; ei ochr betryal yw 43; o'r hwn tyner tri pedwarán un neu .75, y gweddill yw 42.25; ochr y petryal yw 6.5; o'r hwn tyner hanner un neu .5 a'r gweddill yw 6, sef nifer y diwrnodau a fyddant ar y ffordd cyn cyfarfod.

Eto, meddylier fod y pellder neu m, yn 1000 milldir; 4 m ac un yw 4001; ei ochr betryal yw 63.2534; tri pedwaran un yn llai, 62.4034; ochr y petryal yw 7.899 neu 7.9; hanner un yn llai 7.4 neu $7\frac{2}{5}$, sef x, neu nifer y diwrnodau fyddant ar y ffordd cyn cyfarfod. Beth bynnag yw pellder, neu m, mae'r rheol hon yn dda. Y.

Y mae yr attebiad a dderbynwyd oddiwrth Ioan ap Gwilym, Cwmnedd, yn cyttuno â'r un uchod; ond yn unig ar y dyb mai 1000 o filldiroedd yw y pellder rhwng y ddwy ddinas, yr hyn ni chaniatteir yn y Gofyniad,—Gol.

Gofyniad i Rifyddwyr Hen ac Ieuanc.

Pa sawl milldir fyddai yn rhaid cerdded i ddyrwyn cortyn main 3 chant llath o hyd oddiamgylch colofn tair troedfedd o drifesur? Nid yw y cynnydd a gymmer le yn nhrifesur y golofn herwydd troion y cortyn i'w ystyried; rhaid i un pen y cortyn fod yn rhwym wrth y golofn, a'r pen arall yn llaw'r gwr fyddai yn cerdded oddiamgylch, a'r cortyn yn dyn trwy yr holl amser. Q.

Mr. Gol.—Dymunaf arnoch chwi neu rai o'ch Gohebwyr gwybodus roddi gwybod Pwy bryd mae Duw yn dyfod 'oll yn oll; ac oddiar 1 Cor. 15. 28, yr wyf yn gofyn y gofyniad hwn. Yr eiddoch,

Glan Teifi. Ymofynydd.

TRI ENGLYN I'R GANWYLL.

Un o destunau Cymreigyddion y 'Carw Coch,' Heol-Harriet, Aberdar, erbyn eu Trydydd, Cylchwyl, Mehefin 5, 1848.

[Y RHAI BUDDYGOL.]

Gwêr neu gwyr, a phabwyryn,—yw Canwyll,
Yn cynneu'n fflam ddillyn;
I'r tywyll, goreu tewyn
A lleuad yw, yn llaw dyn.

I'm ty os daw 'ngrym y tywyll,—rhyw gâr,
Prudd yw'r gell gan orwyll;
Er taeru o'r gwr trwy'r gwyll,
Ni'm gwel cyn i'm gael Canwyll.

Y Ganwyll ddyd elw ar gynnydd,—i fyd;
Bendith fawr llaw-weithydd;
Gwna'i gwên, er ein llawenydd,
Oes yn ddwy, a nos yn ddydd!—Omega,

Sef Mr. Evan Davies, *Ieuan Myfyr*, Pontypridd.

Y MARCHNADOEDD.

LLUNDAIN.	S.	S.			
Gwenith coch	38	1	47	Teg	0 . 22
Teg.. ..	0	.	0	Poland ..	18 . 22
Gwyn ..	40	.	54	Cloron ..	19 . 22
Teg.. ..	0	.	0	CAERFYRDDIN.	
Blawd, sach	36	.	42	Gwenith ..	6 0 i 6 6
Haidd ..	26	.	30	Haidd ..	3 6 . 4 0
Bragu ..	0	.	30	Ceirch ..	1 6 . 2 0
Brag	54	.	56	Caws, pwys	0 3 . 0 4
Llwyd ..	54	.	60	Ymenyn ..	0 8 . 0 9
Rhyg	27	.	30	Cloron ..	0 0 . 0 1
Pys, moch ..	0	.	0	Cig Eidion	0 5 . 0 6
Maple ..	33	.	37	Maharen..	0 5 . 0 7
Berwi ..	36	.	37	Llo.. ..	0 5 . 0 6
Ffa, Ticks ..	29	.	31	Moch ..	0 5 . 0 7
Colomen ..	33	.	35	Twrciaid ..	0 0 . 0 0
Harrow ..	31	.	34	Gwyddau ..	0 0 . 0 0
Ceirch ..	15	.	17	Hwyaid ..	1 3 . 1 9
				Ieir	0 9 . 1 0

Caerfyrddin: argraffwyd gan J. T. Jones, yn ei Argraff-dy cyffredinol, yn yr Heol-Las, Plwyf Sant Pedr. Awst, 1848.

[No 13 Medi 1840]
Cyfr.

YR YMOFYNYDD.

'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.'—PAUL.

Nid ydym yn attebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr.—GOL.

AT EIN DARLLENWYR.

Y CYMRY HYNAWS:—Ein bwriad oedd i'ch annerch ar y cyfnod hwn gyda thraethawd ar 'Barhau yn Gwneuthur Da,' ond y mae amlder a meithder y gohebiaethau a dderbyniasom, tuag at y lythyren fras, yn peri i ni ei roddi heibio ar y pryd hwn. Yr ydym wedi myned trwy ein blwyddyn yn llwyddiannus; er gwaethaf llawer o anhawsderau. Yr oeddym yn bwriadu hefyd ar y pryd hwn, pe buasai amgylchiadau yn caniattau, i wneuthur rhyw gyfnewidiad tuag at ychwanegu neu wellhau ein Cyhoeddiad. Ond, o herwydd caledi yr amserau, bar iason y byddai yn well i ohirio hynny o beth, a dechreu yr ail gyfrol gyda'r flwyddyn nesaf, yn lonawr. Gydag amser gobeithiwn y bydd ein Cyhoeddiad gyda'r teccaf a'r goreu yn y Deheubarth. Yn y cyfamser rhaid i ni gydnabod ein rhwymau i'n Gohebwyr, Dosparthwyr, a Chynnorthwywyr. Y maent wedi gwneuthur yn dda; parhaent yn eu ffyddlondeb: ar fyr, fe ddaw amseroedd gwell.

Yr eiddoch yn barchus,

Y GOLYGYDD.

YCHYDIG O LINELLAU COFFADWRIAETHOL AM Y PARCH. THOMAS EVANS, KINGSWOOD.

Gwyn fyd i'r awr! a chawn ei gweled,
Pan gyffwrdd câr a châr yng nghyd;
Ar gyflawn ddianc o'r caethiwed,
Sy'n ran pob dyn yn hyn o fyd;
Mawr y tyr allan gwir lawenydd,
Mor gymlawdd gorfoleddus lef;
Cyfarfod brodyr a chwiorydd
Ar dir di angau Teyrnas Nef.—IOLO.

Cafodd Mr. Evans ei ddwyn i fynu yn Nholeg Henaduraidd Caerfyrddin, tan nawdd y Parch. David Lloyd, M.A. a David Davis, o'r Pantteg. Derbyniwyd ef i'r Athrofa gan Dr. Thomas Rees, a'r Parch. James Yates, M.A. yn mis Mehefin, yn y flwyddyn 1831, yr un pryd a'i gyd-fyfyrwyr

Mr. W. A. Jones, M.A. gweinidog yr Undodiaid yn Northampton; Mr. J. Lewis, gweinidog yr Annibynwyr yn Henllan; Mr. D. L. Evans, o Benybont-ar-Ogwr; Mr. Michael Thomas, gweinidog yr Annibynwyr yn Wotton Basset; a Mr. W. Williams, o'r Rhosgoch, yr hwn a ymadawodd a'r Athrofa yn mhen y trydydd flwyddyn, gan uno â'r Esgobwyr.

Yr oedd Mr. Evans ar y cyfan yn fyfyriwr diwyd, er nad oedd, fel un neu ddau eraill yn y rhês, yn gymmwys wrth fodd Mr. Lloyd, yr Athraw. Peth o'r pwys mwyaf i bob athraw Coleg yw, ymddwyn yn y fath ddull boneddigaidd a charuaidd at y myfyrwyr oll, fel y byddo yn ennill eu parch, eu serch, a'u hymddiried yn raddol, yn ol cynnydd eu cydnabyddiaeth. Os na chais wneyd hyn, gall benderfynu y mâg math o gasineb yn y fonwes, fel na chyd-dynant byth yn hwylus. Bydd un yn gorfod honi ei awdurdod yn lled fynych, a'r lleill yn nacâu ufydd-dod yn mhellach na byddont tan orfodaeth. Y mae dynion ieuaingc yn y tymmor hwnw o'u bywyd yn lled ddibrofiad, onite hwy ddeallent mai gwell er eu lles fyddai ufyddhau yn mhob peth i'r athrawon, p'un ai cam ai cymwys eu hymddygiad. Ond nid felly y gwna'r natur ddynol, ac y mae yn rhaid ei thrafod fel y mae. Dylai'r athraw beidio 'ochro' i neb yn y rhês (*class*) yn fwy na'u gilydd, ac yn enwedig gochelyd gwneyd '*pets*.' Nid oes neb yn fwy cenfigenus ar y pen hwn na myfyrwyr athrofa. Pell wyf o feddwl y gall yr athraw lai na theimlo parch i rai o'r myfyrwyr yn fwy na'u gilydd, oblegid y mae un yn rhagori llawer ar y llall mewn tymherau da, diwydrwydd, ufydd-dod, cynnydd, &c. ond dylai gadw y teimlad hwn iddo ei hun, ac os dymuna ennill parch, cariad, ac ufydd-dod calonog pawb o'r dynion ieuaingc, rhaid fod ei ymddygiad tuag attynt yn hollol ddiduedd a chyfiawn. Yr wyf yn teimlo parch i Mr. Lloyd fel pregethwr a gwr boneddig, wyf yn tybied, o ddymuniad da; nid oes genyf achos i beidio teimlo yr un peth at fy nghyd fyfyrwyr, a gobeithio nad oes eisiau i mi ddyweyd fy mod yn teimlo parch i'r gwirionedd. Nid yw'r dyn gwaethaf heb ryw rinwedd, na'r goreu heb ryw fai.

Yr wyf o'r farn fod Mr. Evans, pan yn yr Athrofa, yn talu mwy o sylw i'r iaith Saesoneg a'i chyfansoddiad, ac yn darllen mwy o'i hawdwyr, yn enwedig y rhai prydyddawl, na neb o honom. Dywedodd wrthyf, y tro diweddaf y gwelais ef yn fyw, i hyny fod yn fuddiol iawn iddo pan yr aeth i fyw i blith y Saeson. Pe buasem yn cyfranu mwy o'n hamser at ddysgu cyfansoddi darlithiau yn ramadegol ac yn drefnus yn y ddwy iaith, buasai yn fanteisiol iawn i rai o honom pan aethom allan i'r byd; a buasem yn foddion, efallai, i ddiwygio un o brif ddiffygion yr Athrofa y pryd hwnw. Pa fodd y mae yno yn awr gyda golwg ar y pen hwn ni's gallaf ddyweyd; ond mi dybygwn wrth weled cymaint o 'heirn sydd gan yr Athrofa yn bresenol yn tân ar yr un pryd,' nad oes dim amser gan y myfyrwyr i dalu llawer o sylw i gyfansoddi yn y iaith Gymraeg a Saesoneg: mi dybygwn hefyd fod eu cyrhaeddiadau o angenrheidrwydd yn lled arwynebol, a'u bod mewn perygl o sefydlu arfer a lyn wrthynt dros eu holl fywyd, sef o redeg dros bethau yn ysgafn. Pwy gred fod y myfyrwyr yn gwybod Lladin, a Groeg, a Ffrancaeg, ac Allmaenaeg, os na allant siarad a chyfansoddi Cymraeg a Saesoneg fel y dylent? Ac a fyddai ddim yn fwy buddiol i'r myfyrwyr gael athraw cadeiriol Cymraeg a Saesoneg yn yr Athrofa, nag un Ffrancaeg ac Allmanaeg?

Yr oedd Mr. Evans yn meddu deall cryf a meddwl lled dreiddiol ac ystwyth. O ran ei dymher yr oedd yn un na chymerai ei ddanfon trwy draws, ond ei arwain trwy degwch. Gorchymyn sarrug a'i caledai fel yr

haiarn, cymerai ei ladd cyn ufyddhau, ond gair caruaidd a gwên serchog a'i toddai fel y cwyr. Llawer gwaith y gwelais ef yn y rhês-ystafell, oherwydd gair traws neu olwg sarrug oddiwrth yr athraw, yn myned mor ystyfnig na wnai na darllen na chyfieithu yn iawn, er y gwyddwn y gallasai wneyd pob un o honynt yn eithaf da pe buasai yn chwenych. Pell iawn yw'r dymher hon o fod yn ganmoladwy, er ein bod yn rhwym o addef fod ymddygiad moesol y fath ddynion fynychaf yn annibynol a difrifol. Dynion cyffelyb o ran eu tymherau oedd rhai o'r defnyddiolaf a fu yn ein byd erioed, megys y Diwygwyr Melancthon, Luther, a Knox: meddent ar fath o wrolder perthynol iddynt eu hunain i *ymhaiarneiddio* yn wyneb gwrthwynebiadau, ac i benderfynu cyflawni eu dibenion neu farw yn yr ymdrech. Fy niben penaf yn sylwi ar y dymher hon yn Mr. E. yw dangos mor angenrheidiol yw i gyssur, rhinwedd, cynnydd, a defnyddioldeb dyfodol y myfyriwr, ac i lwyddiant athraw fel arweinydd ieuenctyd, yw cyfrwysdra i adnabod gwahanol dymherau, ac ymddygiad araf, llariaidd, a chariadus.

Wedi treilio yr amser yn yr athrofa, yr oedd Mr. E. wedi bod flwyddyn yn nhy ei dad pan y cafodd alwad i fyned ar brawf i *Kingswood.* Ar ddiwedd y prawf roddodd y gynnulleidfa, cafodd ei ddewis i fod yn Weinidog iddynt. Trwy ystod yr wyth mlynedd y bu yn *Kingswood,* yr oedd yn fyfyriwr astud: darllenodd lawer, yn enwedig o hen awduron Groeg, o'r rhai yr ymddangosai yn wastad yn bur hoff. Mae y nifer o lyfrau gwerthfawr ar ei ôl yn dangos fod ynddo awydd am wybodaeth, ac mae ei nodiadau ar ymyl dail llawer o honynt yn brawf ei fod yn eu prynu, nid i foddio mympwy ffol o ddangos llyfrfa fawr, ond i'w defnyddio. Y mae genyf awdurdod i ddyweyd ei fod mewn parch gydag aelodau ei gynnulleidfa, ac y mae y nifer liosog o'i bregethau yn y iaith Saesoneg yn dangos nad oedd yn esgeulus o ddyledswyddau yr areithfa.

Peth buddiol iawn i weinidog yr Efengyl yw ymgyfeillachu mor fynych ag y gall â gweinidogion o bob enwad, yn enwedig o'i enwad ei hun. Er mwyn hyn dylai fyned mor fynych ag y gallo i Gyrddau Cwarterol a Blynyddol. Y mae'r draul yn wir yn fawr lle byddo'r ffordd yn mhell, ond os y gall arbed cymmaint o'i ennill ag â at y draul, câ ei dalu yn ol ar ei ganfed. Y mae yn rheol, os wyf wedi deall yn iawn, gan y cynnulleidfaoedd Trindodaidd i dalu traul eu gweinidogion i'r Cyfarfodydd *cyhoeddus,* ac nis gallaf lai na'u canmol am hyn, a phe gwnai yr Undodiaid yn yr un modd, hwy fyddent ar eu hennill yn y pen draw. Pe buasai Mr. Evans yn myned yn amlach i'r Cyfarfodydd Cwarterol, ac yn cyfeillachu mwy â gweinidogion y gymmydogaeth lle yr oedd yn byw, buasai hyny yn fwy dymunol gan ei gyfeillion. Ond na farnwn yn rhy galed, gallasai fod rhwystrau ar ei ffordd i wneyd hyn; ac weithiau y mae pethau bychain, disylw, damweiniol, yn llwfrhau ysbryd dyn ieuangc i'r fath raddau fel i ochelyd yn hytrach na cheisio cyfeillachau cyhoeddus a chymmysgedig. Ffaeledd yw hyn, rhaid addef, ond ffaeledd dyn ydyw. Gallaf ddyweyd nad oeddwn yn adnabod neb mwy calondwym a chyfeillgar, ac yn caru digrifwch diniwed yn well nag oedd fy nghyfaill trengedig.

Yn rhai o'i lythyrau diweddaf at yr ysgrifenwr, y mae yn diolch i Dduw ei fod wedi cael cyflawn foddlonrwydd i'w feddwl fod Efengyl Iesu Ghrist yn Ddadguddiad Dwyfol: y mae yn dyweyd fod pob ammheuaeth fu unwaith ar ei feddwl wedi diflanu yn llwyr, ei fod yn credu yn gadarn yn nwyfoldeb danfoniad Christ, ac i fod y rhesymau dros y farn Undodaidd yn ymddangos yn gadarnach gadarnach iddo bob blwyddyn. Yr wyf yn

crybwyll hyn herwydd yr oedd ammheuaeth mawr wedi bod ar ein meddwl ein dau yn nghylch gwirionedd Crist'nogaeth; a'r achos o hyny oedd darllen gwaith Volney, Voltaire, Paine, a Mirabeau. O y gofid a gawsom a'r perygl y bu ein rhinwedd ynddo! Dymunwn ar bawb, yn enwedig dynion ieuainge, i ymgadw rhag y llyfrau hyn nes y cyrhaeddont ddigon o wybodaeth i ganfod eu twyllymresymiad. Twyll i gyd sydd ynddynt, ond twyll ymddangosiadus iawn ydyw. O! y flwyddyn ddiweddaf dreuliasom yn yr Athrofa! Yr oeddym yn lladronaidd yn darllen y llyfrau hyn yn ein rhodfeydd ac yn ein ystafell. Yr oeddym yn ymddyddan yn eu cylch y dydd, yr oeddwn yn breuddwydio am danynt y nos. Ar y Saboth, pryd yr oedd ein cydfyfyrwyr yn ymddangos yn ysgafn a chyssurus eu teimladau, yr oedd anffyddiaeth yn 'brathu gwenwyn ei du golyn hyd ein calon!' Duon oedd y dyddiau hyny. Yn fuan ar ol gadael yr Athrofa cytunasom i ailfyfyrio'r pwnc ac i ddarllen y Testament Groeg yn fanol ac yn ystyriol, yr hyn a wnaethom yn misoedd Gorphenaf, Medi, a Hydref y flwyddyn hono, a bu hyn yn foddion i ddwyn ein meddyliau i sobrwydd. Dylanwad ymarweddiad difrycheulyd, hunanymwadol, cariadlawn, yr Iesu a'r Apostol Paul, yn fwy na hanes y gwyrthiau, a'n darbwyllodd i gredu mai cenhadon Duw oeddynt, fel y proffesent fod. Dichon y bydd rhai yn beio arnaf am wneyd hyn yn gyhoeddus; ond cyn y gallaf goelio ei fod yn feius ynof, rhaid i mi yn gyntaf gredu mai peth beius fyddai gosod dyeithr ar ei ocheliad rhag pwll ag y bu fy mywyd i mewn perygl o'i herwydd.

Bu iechyd Mr. E. yn ddrwg am hir amser, weithiau yn well ac weithiau yn waeth, hyd nes oddeutu mis cyn ei farwolaeth, pryd y darfyddodd ei gyfansoddiad gyda buandra perthynol i'r clefyd, sef dadfeiliad a darfodedigaeth yr afu. Ymddangosai yn gyssurus iawn o ran ei deimladau hyd y dydd diweddaf y bu fyw, ac yn serchog iawn i bawb, yn enwedig i'w rieni tyner. Ffarwel, anwyl gyfaill, dros ychydig amser, deuaf finnau yn fuan ar dy ol.

Penybont. D. L. EVANS.

DWYFOL YSBRYDOLIAETH YR YSGRYTHYRAU.

MR. YMOFYNYDD.—Yr wyf yn bwriadu, os caniatewch i mi, yn y Rhifyn hwn a'r un canlynol, alw sylw eich darllenwyr at y peth a eilw y Duwinyddion, Dwyfol Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, neu yn Saesoneg, *Divine Inspiration*; gan obeithio y byddaf yn achos i ryw rai i feddwl ychydig ar bwnc a ddylai fod yn destun myfyrdod i bawb sydd yn chwennych gwybod ar ba fath sylfaen y gorphwys 'y gobaith sydd ganddynt.' Yr oedd gennyf fwriad er ys misoedd ysgrifenu ar y testyn teilwng hwn yn yr YMOFYNYDD cynted ag y cawn hamdden, os na ddelai rhyw un allan arno yn y cyfamser. Ymddengys bod eich gohebydd synwyrlawn, Mr. Williams, wedi bod yn meddwl yn ddiweddar ar yr un pwnc, ac mi wn y gallaf atteb dros lawer o ddarllenwyr eich Misolyn, a throsof fy hunan yn siwr ynte, y byddai yn ddymunol iawn genym gael ein hanrhegu â ffrwyth ei fyfyrdod arno.

Yr wyf yn teimlo cyn dechreu, y bydd yn rhaid i mi fyned yn mlaen yn gynnil ac yn dawel iawn, herwydd y mae rhyw anhawsdra neillduol yn y pwnc—cymaint, nes y mae cynnifer o awduron galluog yn amrywio yn eu barn arno; am hyny ni chymmeraf arnaf i benderfynu dim; cynnygaf a chrybwyllaf fy rhesymau yn y fath fodd ag y byddo'r darllenydd at ei ryddid i ffurfio ei farn fel y gwelo yn fwyaf cymmwys.

Yn gyntaf beth sydd i'w ddeall wrth ddyweyd fod dyn tan Ddwyfol Ysbrydoliaeth? Y mae yn bur anhawdd atteb y gofyniad hwn, oblegid y mae duwinyddion yn anghytuno yn ei gylch. Ar ol i'm geisio ei atteb mor gywir ag y gallaf, dichon y bydd pedwar-ar-bumtheg o bob ugain yn fy erbyn, fel byddent, o bosib, yn erbyn eu gilydd. Ond pa fodd bynag, os methaf roddi gwir feddwl y frawddeg, rhoddaf yr ystyr yr arferaf hi trwy y traethawd hwn, fel na byddo achos methu deall fy meddwl. Meddyliaf, pe gwnai y dynion hyny yn yr un modd ag sydd yn chwannog i arferyd y frawddeg 'ysgrifenwr ysbrydoledig,' y byddent yn rhoddi mwy o adeiladaeth i'w gwrandawyr neu eu darllenwyr. Ond i beidio dyweyd llawer yn amgylchiadol; wrth fod dyn tan ddylanwad Dwyfol Ysbrydoliaeth y deallaf fod Duw yn cyfryngu mewn modd anghyffredin i'r diben i alluogi ei was neu ei weision i fod yn anffaeledig; os i feddwl, i feddwl meddwl Duw; os i lefaru, i lefaru mor briodol ag y llafarai Duw; ac os i ysgrifenu, i ysgrifenu yn ddigyfeiliornad. Hyn, yn ol fy marn i, yw dylanwad ysbrydoliaeth ddwyfol ar feddwl dyn. Pa fodd y mae yn cymmeryd lle—pa un yw y dyn odditano yn cael ei ymddifadu o weithrediadau naturiol y meddwl; neu ynte, ai trwy gyfrwng y synwyrau naturiol y gweithreda'r gallu dwyfol, nis gallaf ddirnad, ac nid oes neb yn gwybod, dybygwn, ond y Duw Mawr ei hun.

Yr wyf yn ystyried y gellir rhanu yr holl wahanol olygiadau sydd yn nghylch dwyfol ysbrydoliaeth mewn perthynas âg ysgrythyrau ac ysgrifenwyr yr Hen Destament a'r Newydd, i'r tair dosparth canlynol:—

I. Y dyb fod hyd yn ôd geiriad yr ysgrythyrau oll, ac o ganlyniad eu sylwedd, yn effaith hyfforddiad dwyfol ysbrydoliaeth.

II. Fod sylwedd yr ysgrythyrau oll wedi deilliaw o Ysbrydoliaeth ddwyfol, ond mai eiddo'r ysgrifenwyr eu hunain yw y iaith sydd yn gosod allan y sylwedd.

III. Nad oes dim rhagor o'r ysgrythyrau tan ddwyfol ysbrydoliaeth na sylwedd cenadwri Moses a Christ, y prophwydoliaethau, ar rhanau hyny am y rhai y dywed yr ysgrifenwr ei fod wedi eu derbyn oddiwrth Dduw: ond fod y iaith, fel pob rhan arall o'r ysgrythyrau, yn eiddo'r ysgrifenwr.

Yn Gyntaf, y dyb fod hyd yn ôd geiriad yr ysgrythyrau oll, ac o ganlyniad eu sylwedd, yn effaith hyfforddiad dwyfol ysbrydoliaeth.

1. Pe byddai y dyb hon yn wir, byddai yn rhesymol dysgwyl fod priodol ddull yr Ysgrifenwyr yr un fath. Ond nid yw hyny yn ffaith. Y mae gan bob un o'r ysgrifenwyr ei ddull priodol ei hun o ysgrifenu. Pwy bynnag a gymero'r drafferth i wneyd cydmariaeth rhwng Hebraeg y rhai a elwir Pump llyfr Moses, â Hebraeg llyfrau Samuel; neu rhwng iaith Esay, Ezekiel, Job, neu Solomon, a wel fod cymaint o wahaniaeth yn eu priodol ddull o ysgrifenu fel nas gall iaith pob un o honynt fod yn eiddo yr un Ysbryd Glan. Hefyd, pwy Roegwr nad yw yn canfod gwahaniaeth dirfawr rhwng iaith Luc a iaith Ioan neu Paul? Yn y cyfieithadau, nid yw'r gwahaniaeth mor fawr, yn enwedig os bydd amrywiol lyfrau wedi eu cyfieithu gan yr un awdwr. Y mae llai o amrywiaeth yn y cyfieithad Cymraeg, neu Saesneg, neu ryw iaith arall, nag sydd yn y cyntefig; ac o ganlyniad y maent yn dynesu yn agosach at yr unrywiaeth a ddysgwyliem fod yn y cyntefig pe buasai ei eiriad yn eiddo yr Ysbryd Glan. Y mae hwn yn un o'r rhesymau cadarnaf yn erbyn y dyb hon.

2. Os oedd ysgrifellau yr ysgrifenwyr cyntaf tan gyfarwyddyd yr Ysbryd Glan, y mae'n rhesymol meddwl fod yr adysgrifenwyr tan gyfarwyddyd

yr un gallu. Nid oes fawr tros dri chant o flynyddau oddiar pryd y dyfeisiwyd yr argraffwasg: cyn yr amser hwnw, llaw-ysgrifen oedd pob Bibl. Gorchwyl anhawdd, ie, amhosib, oedd adysgrifenu yr holl Fibl heb wneyd llawer o wallau: a'r anhawsdra hwn yw'r prif a chos fod cymaint yn awr i'w cael o wahanol ddarlleniadau. Yn yr Hebraeg, ysgogiad lleiaf yr ysgrifell a wnai N yn G, neu B yn K, neu D yn R; ac y mae'r iaith Roeg hefyd yn agored i wallau cyffelyb. Y mae holl wahanol ddarlleniadau y llawsgrifau o leiaf yn fwy na chan mil: am hyny y mae yn beth gwrthun meddwl fod yr adysgrifenwyr dan arolygiad yr Ysbryd Glan.

3. Os oedd yn angenrhaid fod yr ysgrifenwyr cyntaf tan arolygiad yr Ysbryd Glan, y mae'n rhaid fod y cyfieithwyr hefyd yn ysbrydoledig. O ganlyniad yr oedd y cyfieithwyr Cymraeg, sef William Salisbury, o'r Caedu; William Morgan, Esgob Llanelwy; Daniel Goodman, Dëon Westminster; David Powel; Edmund Prys; Richard Vaughan; ac ereill, tan arweinyddiad yr Ysbryd Glan; ond braidd, debygwn, y cred neb hyn.

Gellir crybwyll dau neu dri o resymau yn ychwaneg yn erbyn y dyb hon, ond ystyriaf fod hyn yn eithaf digon. Gwel y darllenydd ystyriol y gellid helaethu llawer pe byddid yn dewis, yr hyn a adewir iddo ef wneuthur fel y byddo yn gweled oreu, oblegid nid wyf fi yn bwriadu gwneyd dim yn rhagor na gosod i lawr egwyddorion y ddadl. Yn fy narlith nesaf ca'r ddwy dyb arall eu hystyried, a'r rhesymau sydd yn eu herbyn a throstynt.

PHILO.

GWIRIONEDD CRIST'NOGRWYDD.

DARLITH II.

Parhad o tudal. 276.

Adgyfodiad Crist,—y doniau gwyrthiol a llythyrau Paul,—derbyniad y dystiolaeth— anghrediniaeth rhai.

Ond gellir dywedyd mai gwyrth dirgelaidd oedd adgyfodiad yr Iesu; ac na wnai tystiolaeth deuddeg dyn, pa mor gymmwys a chywir bynnag y fyddont, i ffaith mor rhyfeddol, ddim cyffroi ond ychydig sylw, ennill ond ychydig gred, na chael ond ychydig effaith.

Er rhagflaenu'r anghyfleusdra hwn, cafodd tystiolaeth yr apostolion ei chadarnhau trwy ddawn yr *Ysbryd Glan*, a roddwyd iddynt yn gyhoeddus ar ddydd y Pentecost; ar ol hynny tramwyasant trwy wahanol wledydd, ac yn enwedig trwy wahanol daleithiau Rhufain, gan bregethu'r efengyl, gwneuthur gwyrthiau, siarad amrywiol ieithoedd, a chyfrannu i'r disgyblion newydd alluoedd gwyrthiol; gan gyfaddef bob amser mai oddiwrth Iesu Grist yr oeddent wedi cael y galluoedd hyn, yn unol â'r addewid pendant a wnaeth efe iddynt cyn ei ymadawiad â hwynt; a chan appelio at y galluoedd hyn, fel profion priodol, cyflawn a phenderfynol o anfoniad ac adgyfodiad yr Iesu.

Mewn canlyniad i'r dystiolaeth yma, a draddodwyd mewn amgylchiadau mor hynod a chyffrous, cafodd *lliaws mawr* eu hargyhoeddi yn drwyadl o wirionedd y ffeithiau hyn; y rhai yr oedd y manteision goreu ganddynt i gael hyspysrwydd, a'r annogaethau cryfaf i chwilio, yn y lle a'r pryd, y dywedir i'r dygwyddiadau hyn gymmeryd lle, a lle nid oedd yn bossibl i argyhoeddiad gael ei ddwyn oddiamgylch, oddieithr bod y ffeithiau o hynod-

rwydd cyhoeddus. Wel, hwy gawsant eu hargyhoeddi; ac mewn canlyniad i'r argyhoeddiad hwn, hwy a gofleidiasant, a addefasant, ac a daenasant y grefydd fwyaf croes i'w rhagfarnau, i'w tueddiad drwg, a'u helw bydol; crefydd, o'i chyfaddef yn gyhoeddus, oedd yn eu gwneuthur yn agored i'r sarhad mwyaf chwerw, a'r erledigaethau mwyaf brawychus. Ac wrth daenu yr athrawiaeth newydd hon, mor hynod, ac mor groes i'r byd, bu eu llwyddiant yn gyflym ac anghydmarol.

Yn ddiweddaf, ni ddarfu i dystiolaeth yr apostolion gael ei gwrthddywedyd gan y rhai oeddent fwyaf tueddol, ac â phob annogaeth ganddynt i wneuthur felly, pe buasai hynny o fewn eu gallu. Buasai dangos corff yr Iesu yn ddigon i ddangos y twyll mewn eiliad, a distewi'r apostolion am byth. Ond ni chafodd y duli hwn o wrthbrofi'r adgyfodiad erioed ei gynnyg.

Nid yw'n bossibl braidd i ddychymmyg am dystiolaeth yn cyfodi i radd uchelach; a gellir haeru yn deg a chyfiawn fod adgyfodiad yr Iesu yn ffaith sy'n cael ei chynnal gan dystiolaeth uwch tu hwnt i gydmariaeth nag un ffaith arall mewn hanes; y buasai, a wleua yn llythyrenol, yn wyrth pe na fyddai y cyfryw dystiolaeth yn safadwy; y buasai yn rhyfeddod hollol groes i gyfreithiau adnabyddus y meddwl dynol; ac, wrth ystyried y peth yn ei holl amgylchiadau a'i gyfeiriadau (*bearings*), y mae y dystiolaeth bendant dros y ffaith bwysig hon yn eithaf digon i orbwyso un anhebygolrwydd blaenorol a ell'sid ddychymygu, a'i ddwyn ymlaen oddiwrth natur y ddamwain ei hun, o'i hystyried yn wyrthiol, ac yn groes i drefn osodedig pethau.

Gofynwyd, mae'n wir, ac y mae'n ofyniad teg a rhesymmol,—Paham y darfu i'r Iesu, ar ol ei adgyfodiad, ymddangos i'w apostolion yn unig, ac ychydig o'i ddisgyblion ei hun a'i gyfeillion? paham na ddarfu iddo ymddangos yn *gyhoeddus?* Paham na ymwelodd â'r deml, a dangos ei hun yn heolydd Jerusalem i'r bobl—i'w elynion a'i erlidwyr—i'r archoffeiriaid a'r llywodraethwyr, ac felly roddi'r prawf mwyaf rhwydd a diamheuol iddo gael ei gyfodi i fywyd.

I'r gwrthddadl golygus hwn a ailadroddwyd yn fynych, yr wyf yn atteb yn gyntaf, A chaniattau y buasai i dystiolaeth o adgyfodiad yr Iesu gael ei gryfhau i raddau pell gan ei ymddangosiad cyhoeddus, fel ag i'w wneuthur yn anwrthwynebol, gellir gofyn ar dir teg, pa *hawl* sydd gennym i ofyn—a pha *gyfattebiad* (*analogy*) allasai ein tueddu i ddysgwyl y fath dystiolaeth benderfynol ac anwrthwynebol? Y mae'r dystiolaeth sydd, mewn gwirionedd, wedi ei rhoddi yn eithaf boddhaol i'r ymofynydd rhesymmol a diduedd. Ac nid yw yn unol a gweinyddiad cyffredin y llywodraeth ddwyfol, i roddi y fath radd uchel o dystiolaeth ar bynciau moesol o'r pwys mwyaf, sef ei fodoliaeth ei hun, ei briodoliaethau, a'i lywodraeth, ag i wneuthur ymofyniad yn afreidiol, a rhagflaenu amheuaeth. Yr oedd Duw yn gweled hynny yn anghymmwys i greaduriaid moesol a rhesymol, a gallasai fod o niwed yn lle lles iddynt.

Ond yr wyf yn hyderus nad oes eisiau yr atteb hwn yn yr anghrhaifft dan sylw: oblegid y mae i'r eithaf yn debygol, y buasai tystiolaeth o adgyfodiad yr Iesu *i gael ei gwanhau* i raddau pell trwy ei ymddangosiad cyhoeddus yn Jerusalem neu yn y deml. Oblegid ar y tir hwn buasai i'r llywodraethwyr a'r bobl naill ai gredu a throi'n Grist'nogion, neu ynte *ni* wnaent gredu. Pe gwnaent *wadu* neu esbonio'r ffaith yn y modd y gwelent hwy yn dda, ac felly wrthod y gennadwri; ac nid yw hyn mewn un modd yn anhebygol, pan yr ystyriom ymddygiad rhai ar adgyfodiad Lazarus; dywedid wedi'n mewn oesoedd canlynol, 'Nad oedd ei gydoesolion yn credu, fod y rhai a gymmer-

ent arnynt fod yn llygad dystion yn gwadu y ffaith, ac yn gwrthod yr athrawiaeth. A pha fodd mwyach y gellwch ddysgwyl i ni, ydym yn byw gymmaint o amser ar ol hynny, ac mor bell o'r fan honno, i ni, heb un cyfleusdra i chwilio i mewn i'r dygwyddiadau, roddi coel i'r fath chwedl.' Pwy atteb ellsid roddi i'r gofyniad hwn? Ond, o'r tu arall, pe buasai i'r Iuddewon *i gredu* adgyfodiad yr Iesu; a phe, ar y tir hwn, y gwnaent ei gydnabod fel y Messiah, buasai crefydd yr Iesu felly o'r dechreu, yn grefydd y llywodraeth: a pha mor natturiol, ar yr olwg hon, y buasai i angrhedinwyr haeru, mai hocced yr offeiriaid a'r llywodraethwyr oedd yr holl orchwyl, o'r dechreu i'r diwedd, er mwyn twyllo'r bobl. O'r hyn leiaf, y mae un peth yn eglur, y buasai i'r Grefydd Grist'nogol, yn yr amgylchiadau hyn, golli yn hollol y dystiolaeth argyhoeddiadol sydd drosti yn awr oddiwrth y cynnydd buan a wnaeth yn y byd; nid yn unig *heb gynnorthwy* y wladwriaeth, ond *mewn gwrthwynebiad* hollol i ddrygioni a rhagfarnau dynolryw, ac elw a dylanwad yr awdurdodau eglwysig a gwladol.

Y mae'n ffaith o'r pwys mwyaf gyda golwg ar dystiolaeth y datguddiad Crist'nogol, fod yr apostolion wedi eu cynnysgaeddu a *doniau ysbrydol*, a GALLUOEDD GWYRTHIOL, y doniau hyny a arferasant ar amrywiol achlysuron, a'r rhai mewn gradd o lai, yr oeddent wedi eu galluogi i gyfrannu i eraill, sef y disgyblion cyntaf. Dyma, mewn gair, dystiolaeth gyhoeddus dros adgyfodiad Crist. Ac felly er nad ymddangosodd yr Iesu yn gyhoeddus ar ol adgyfodi, yr oedd yr ysbryd a ddisgynodd arnynt ar ddydd y Pentecost, ac a'u galluogodd i lefaru mewn ieithoedd na ddysgasant erioed, a gwneuthur llawer o wyrthiau: yr oedd hyn mor gyhoeddus ag oedd yn bossibl, ac yr oedd, mewn gwirionedd, pob gwyrth a wnaeth yr apostolion yn brawf o adgyfodiad yr Iesu: yr oedd adgyfodiad Crist, er mor bwysig bynnag ynddo ei hun, a pha gystal bynnag y mae'n cael ei wirio, yn rhwym i raddau helaeth o fod yn *wyrth ddirgelaidd;* ac efallai na fuasai fyth yn tynnu cymmaint o sylw yn y byd, oni bai y gwyrthiau rhyfeddol a wnaeth y rhai oeddent y tystion awdurdodedig drosto. Felly y mae'n ofynol dwyn ymlaen yn eglur y dystiolaeth sydd dros y gwyrthiau hyn.

Yn gyntaf, yr ydym yn appelio at *dystiolaeth* Luc, yn ei hanes o weithredoedd yr apostolion. Y mae ef yma wedi rhoddi adroddiad manwl o ddisgyniad yr Ysbryd Glan ar ddydd y Pentecost; o nattur, pwrpas, a defnydd y galluoedd gwyrthiol yma; o'r argraph mawr a wnaethant ar lygad-dystion y digwyddiadau hyn, a'r effaith hynod a gawsant i droi lluaws at y ffydd Grist'nogol. Yr oedd yr efengylwr hwn yn byw yr un amser a'r apostolion, ac yn gydymmaith iddynt; y mae ei garacter yn hollol rydd oddiwrth un achwyniad; felly y mae'n haeddu cael ei dderbyn fel tyst addas a chredadwy.

Gellir casglu gwirionedd yr hanes hwn hefyd oddiwrth *gynnydd* buan a helaeth y grefydd Grist'nogol yn y byd: ffaith, er nas gellir ei gwadu, etto ni ellir cyfrif am dani ar un dyb arall, ond fod gwyrthiau yn cael eu cyflawni gan ei chofleidwyr.

Ond, y dystiolaeth bennaf a mwyaf uniongyrchol o'r ffaith bwysig hon, y gwyrthiau, yw'r dystiolaeth a geir yn *llythyrau* Paul, ac yn enwedig ei lythyrau at y Corinthiaid a'r Galatiaid; ac y mae'n werth sylw, wrth fyned ymlaen, na ddarfu i neb erioed ammau awduroldeb y llythyrau hyn, neu mai nid Paul oedd eu hawdwr. Yn y ddwy Eglwys hyn, yn Corinth a Galatia, y rhai a blannodd yr apostol ei hun, yr oedd plaid gref wedi cael ei ffurfio yr ei erbyn, gan ryw ddyn hoccedus a hyawdl, yr hwn oedd am dderchafu ei hun uwchlaw'r apostol; a darfu iddo lwyddo yn rhy dda o lawer i droi meddyliau

lluaws mawr o'r disgyblion cyntaf oddiwrth berson ac athrawiaeth yr apostol. Yn awr, yn yr amgylchiadau hyn, beth mae'r apostol yn wneud, pa foddion y mae'n arfer i gyfodi ei hun yn eu golwg, a'u dwyn hwynt yn ol i gyfaddef y gwirionedd a chyflawni eu dyledswydd. *Mae* ganddo elynion yn yr Eglwysi a blannodd ef ei hun; beth yw'r moddion a ddaw a hwynt yn ol? Beth yw ymddygiad yr apostol, gofynaf etto? Y mae'n appelio at y gwyrthiau a gyflawnodd ef yn eu plith pan yn pregethu'r efengyl gyntaf iddynt. Y mae'n apelio, meddaf, at y galluoedd gwyrthiol, y rhai a gyfrannodd *ef*, ac ef yn unig iddynt; galluoedd ag oedd yn eu meddiant hyd yn oed ar yr amser hwnnw; galluoedd ag oeddent yn arfer yn helaeth; galluoedd ag oeddent yn wyr-droi yn gywilyddus. Y mae yr apostol yn eu ceryddu hwynt gyda llymder mawr am y daugosiadau gwagogoneddus oeddent yn wneuthur o'u doniau, ac am esgeuluso y rhai mwyaf defnyddiol. Y mae'n rhoddi iddynt lawer o gynghorion da a phennodol er iawn ddefnyddio y pwerau oedd ganddynt. Y mae'n rhybuddio'r troseddwyr, ac yn neillduol y gau-athrawon, a'r rhai oeddent yn llygru'r ffydd, o'r gosp, yr hon trwy y galluoedd a ymddiriedwyd iddo, a roddai iddynt, os na ddiwygient. A oedd yr apostol hwn wedi gwallgofi, ei fod yn siarad fel hyn â hwy am y doniau gwyrthiol? Darllenwch ei lythyrau; 'does fawr nodau gwallgofrwydd ynddynt. Sylwch ar nerth a chymmwysder ei ymresymiadau; doethineb ei gynghorion; cywirdeb ei ddisgryfiadau; tegwch ei syniadau; llymder ei geryddon. Pa brawf o gryfach a ellir ei ddwyn dros fod neb yn ei synhwyrau a'i feddwl yn dawel, na hyn? Ond os oedd yr apostol yn ei synhwyrau, y mae'n rhaid fod y ffeithiau yn wir i'r rhai y mae ef yn dwyn y dystiolaeth ddiddaufeddwl hon. Nid oes ond un o'r ddwy ochr i'w ddewis. Y mae'n rhaid ei fod wedi colli ei synhwyrau, neu yr oedd yn dywedyd y gwir. Y blaenaf nis gallasai fod, gan hynny yr olaf sydd wir. Y mae'n rhaid ei fod yn meddu ar y galluoedd y mae ef yn haeru eu bod ganddo, ac yn eu desgryfio. Fel cadarnhad y dystiolaeth hon gellir ychwanegu, i'r apostol ysgrifenu ail lythyr at y Corinthiaid ymhen oddeutu blwyddyn ar ol yr un cyntaf: ac y mae yn ymddangos oddiwrth y llythyr hwn fod y credinwyr yn Corinth wedi talu'r fath sylw i'w lythyr cyntaf, ag oedd yn amhossibl iddynt wneuthur, pe buasai yn llawn o haeriadau penwan dyn gorphwyllog, yn lle cynnwys ffeithiau dwys ac anwadadwy. Yn wir os nad oedd y doniau y sonia Paul am danynt, mewn gwirionedd gan y Corinthiaid; ac os nad oedd ef wedi cyflawni y gwyrthiau y cyfeiria atynt, y mae yn amhossibl y buasai ganddynt ddim parch tuag atto ef na'i athrawiaeth wedi'n: neu y mae'n rhaid i ni feddwl eu bod yn ymddifad o synwyr gwylltiaid, er yn byw mewn oes foneddigaidd a gwybodus iawn: ïe, y mae'n rhaid i ni eu hystyried yn ddynion, heb ddim ganddynt a berthyn i ddynion ond y dull allanol yn unig; dynion yn llwyr wahanol i neb a fu erioed yn y byd, cynt na chwedi'n: oblegid gwrthodai y blaid fwyaf penboeth eu sylfaenwr a'u hathraw, pe ysgrifenai attynt lythyron hirfaith a dwys, yn llawn o ffeithiau a wyddai pawb o honynt eu bod yn ddisail; yn appelio at wyrthiau y rhai ni chymmerasant le erioed; ac yn eu cyfarwyddo i arfer gyda doethineb alluoedd a'r nas derbyniasant erioed.

Nis gellir amgyffred un dystiolaeth uniongyrchiol o grefach a mwy boddhaol na hon: a phan ei cyssyllter hi â'r effaith gyfaddefedig yn nhaeniad boreu a helaeth y grefydd Grist'nogol, nid gormodd yn sicr fyddai dywedyd, fod y meddwl hwnnw yn anhygyrch i reswm, neu fod yn rhaid fod angrhedinlaeth wedi gwreiddio yn ddwfn, a chael ei mhagu yn anwyl, os na all yr ystyriaethau hyn gael un argraph.

Gellir sylwi yma beth oedd diben pennaf llythyrau amhrisiadwy Paul. Y maent yn cynnwys y dystiolaeth fwyaf boddhaol o darddiad Dwyfol y grefydd Grist'nogol. Gellir hefyd sylwi yma ar ddoethineb rhagluniaeth Duw, yn caniattau i'r ymrafaelion ffyrnig a'r llygriadau chwithig hynny i gyfodi yn yr Eglwys apostolaidd, y rhai ydynt yn fynych yn peri syndod i'r credinwyr, ac i'r angrhedinwyr wawdio. Oni buasai i'r gwrthwynebiad a wnawd yn fynych i athrawiaeth ac awdurdod yr apostol Paul, oni bai i'r Eglwys yn Corinth wyrdroi y doniau gwyrthiol, yr hyn a wnaeth i'r apostol appelio mor fynych at ei alluoedd gwyrthiol ei hun, a'r rhai a gyfrannodd i ereill, a'r hyn barodd iddo geryddu'n llym, y pleidiau oddent wedi troseddu, a chynghori yn synhwyrgall y modd oedd iddynt arfer y galluoedd oedd ef wedi gyfrannu iddynt; oni bai hyn, meddaf, buasem ni, gymmaint o amser ar ol hynny, yn ymddifad o'r hyn sydd yn awr yn cael ei ystyried y prawf cryfaf, os nid yr unig dystiolaeth uniongyrchiol a boddhaol o wirionedd y grefydd Grist'nogol. Felly y mae'r ymrysonau pleidgar a'r afreoleidd-dra gwarthus hynny, oeddent yn warth i'r Eglwys, ac yn ei bygwyth i bob tebygolrwydd â dinystr, wedi troi allan o'r diwedd yn dystiolaeth oreu dros darddiad Dwyfol y grefydd Grist'nogol, i'r oesoedd dyfodol. Yn y modd hyn y mae rhagluniaeth Duw yn dwyn daioni allan o'r hyn sy'n ymddangos yn ddrwg. Y mae gennym annogaeth gref i ymfoddloni i drefniadau ein Tad.

Darfu y galluoedd gwyrthiol, wrth gwrs, ar ol yr oes apostolaidd: oblegid nid yw yn ymddangos fod neb ond yr apostolion a gallu ganddynt i gyfrannu doniau ysprydol; ac nid oes un hanes, a ellir ei gredu, o barhâd y cyfraniadau gwyrthiol hyn ar ol i weinidogaeth yr apostolion ddarfod.

Ond y mae hynodrwydd y galluoedd gwyrthiol yma, a'u taeniad cyffredinol trwy yr Eglwys apostolaidd gyntefig, wedi bod yn achos o wrthddadl ag sydd yn ymddangos yn deg, yr hwn y mae'n angenrheidiol ei osod gerbron ac ymdrechu ei atteb. Gofynir, os oedd y gwyrthiau mor aml ac amrywiol, mor gyhoedd a diamheuol, ag y myn Crist'nogion eu bod, pa fodd y bu'r argraph a wnaethant mor fach a chyfyngedig? Pa fodd yr oedd yn bossibl i'r edrychwyr wrthod tystiolaeth eu synhwyrau? Meddyliwch pe byddai i'r cyfryw ddygwyddiad gymmeryd lle yn bresennol; fod dyn wedi ei ddihenyddio yn gyhoeddus, a'i farwolaeth yn hysbys, ar ol tri niwrnod yn cael ei ddychwelyd i fywyd, fod y prawf o hyn yn eglur ac anwadadwy, ei fod wedi dygwydd mewn prif ddinas boblogaidd, fod athrawiaeth newydd a gwrthwynebus, a ddysgid gan y person hynod hwn neu ei gennadon yn cael ei chadarnhau, gan rês o wyrthiau cyfaddefedig, wedi eu cyflawni yn ngwydd miloedd o dystion addas a chredadwy, pa ragfarn allasai gau eu llygaid yn erbyn goleuni y gwirionedd? Pa allu yn y byd a faeddiai wrthwynebu cennad y nefoedd!

Mewn atteb i'r gwrthddadl grymmus hwn, gellir sylwi, pe nad gwir y ffeithiau a gredir gan Grist'nogion, buasai cynnydd y grefydd Grist'nogol yn llwyr amhossibl, oherwydd y rhesymau a enwyd yn barod. Gyda golwg ar yr argraph fach a wnaeth y gwyrthiau ar ddynion ymhell oddiyno, a'r rhai oeddent yn rhagfarnllyd yn erbyn y grefydd Grist'nogol, gallasent naill ai meddwl fod y peth yn annheilwng o sylw, neu fod y ffeithiau yn cael eu mwyhau; neu, gallasent eu priodoli i weithrediad cythreuliaid, yr hyn oedd ar y pryd y gred boblogaidd, os nid y gred philosophaidd hefyd. Gyda golwg ar edrychwyr gwyddfodol, y mae'n rhaid addef fod anhawsdra mawr i atteb am eu hesgeulusdod hwy. Yr oedd yn natturiol i rai o honynt, y rhai ni allasent gael eu cymmodi a chrefydd Crist, na gwadu ei

wyrthiau, i briodoli yr olaf, fel y gwnaethant mewn gwirionedd i gyfrinach cythreuliaid. 'Nid yw hwn yn bwrw allan gythreuliaid ond trwy Beelzebub, pennaeth y cythreuliaid.' Ond gwir atteb y gofyniad yw nerth egwyddorion sefydledig, a rhagfarnau gwrthnysig: ac y mae nerth y rhai'n yn llawer mwy nag y gall yr hwn sydd heb dalu sylw i'r matter, fyth ddychymyg. Yn yr athrawiaeth o Draws-sylweddiad, a Thrindod Athanasius, y mae dylanwad egwyddorion sefydledig yn maeddu tystiolaeth y synhwyrau, a rheswm. Y mae y blaenaf yn derbyn fel gwirionedd, mai gwir gnawd Crist y maent yn fwytta, pan yn cymmeryd o'r bara, er fod eu barchwaeth yn dywedyd nad felly y mae. Ac y mae credo'r saint a enwais, yn gosod allan fod y Tad yn dragwyddol, y Mab yn dragwyddol, a'r Ysbryd Glan yn dragwyddol, ac etto nad ydynt dri thragwyddolion ond *un* tragwyddol. Er y gellsid meddwl fod yr afresymmoldeb a'r chwithigrwydd o hyn yn ormodd i un meddwl ei dderbyn, etto gwyddis mai dyma gred miloedd y dydd heddyw: ac ynghynnydd araf philosophyddiaeth Newton, pan y cafodd ei chyhoeddi gyntaf yn y byd, yr oedd rhagfarnau, hyd yn oed philosophyddion treiddgar yn gorbwyso casgliadau dehongliad rhifyddol. Gellid disgwyl y buasai i'r fath ragfarnau i wrthwynebu tystiolaeth, hyd yn oed gwyrthiau anwadadwy. Oblegid beth yw gwyrth ond appelio at y synhwyrau? Nis gellir profi'r dyb hon, mae'n wir, trwy brofiad, yn yr oes bresennol, ond y mae'r hanes efengylaidd yn dywedyd, mai felly y bu, ac nid yw'r peth yn anhebygol, a barnu oddiwrth gyfattebiad (*analogy*).

Y ffaith ynte, ar y cyfan, yw tystiolaeth uniongyrchol hanesyddiaeth dros Ddwyfol anfoniad Crist, a gwirionedd ei athrawiaeth. Cafodd llyfrau y Testament Newydd eu hysgrifennu yn yr oes y dywedir i hynny gymmeryd lle, ac, yn debygol, gan y dynion i'r rhai y priodolir hwynt. Ac y mae tystiolaeth yr ysgrifenwyr hyn yn gredadwy, oherwydd ni allasent gael eu twyllo eu hunain: nid twyllwyr oeddent, ac yn ganlynol, y mae'n rhaid fod eu hanes yn wir, ac yn deilwng o dderbyniad a chred. Gan hyny dysgawdwr wedi ei anfon gan Dduw oedd Iesu, i ddatguddio'r athrawiaeth o fywyd tragwyddol, a roddodd y prawf mwyaf boddhaol o'i anfoniad a'i athrawiaeth, trwy ei adgyfodiad oddiwrth y meirw.

O. E.

DARGANFYDDIAD AMERICA.

COLUMBUS.

Parhad o tudal. 281.

Gadawsom Columbus a'i gyfeillion yngolwg y tir, a dagrau gorfoledd ar eu gruddiau. Wedi i bob amheuaeth ddarfod bellach, o gyfiawnder i Columbus, darfu i'r rhai oedd o'r blaen yn ei erbyn daflu eu hunain wrth ei draed yn orchuddiedig gan gywilydd, ac ymbiliasant arno i faddeu eu hanghrediniaeth, a'r gofid a roddasant iddo; ac wele, y rhai o'r blaen oeddent yn bygwth, yn awr yn cyhoeddi Columbus yn gennad y Nefoedd. Ar godiad yr haul parotoisant eu badau, a rhwyfasant tua'r ynys, gan chwareu cerddoriaeth rhyfel. Yr oedd lluaws o'r trigolion ar y traeth yn syn-edrych ar y gwrthrychau rhyfedd oedd o'u blaen. Columbus oedd y cyntaf a osododd droed ar y byd newydd a gafodd allan. Aeth i dir mewn gwisg harddwych, a'i gleddyf noeth yn ei law. Y morwyr a'i canlynasant ef, ac a gusanasant y tir oeddent wedi bod cyhyd yn gobeithio ei weled. Wedi cyfodi croes, ymgrymmu o'i

blaen, a thalu diolchgarweh i Dduw am eu dwyn yn ddiogel, cymmerasant feddiant o'r wlad dros goron Castile a Leon. Tra'r oedd y Spaeniaid wrth y gorchwyl hwn, amgylchynwyd hwynt gan amryw o'r brodorion, yn syllu arnynt mewn syndod, heb wybod dim beth oedd ystyr y fath beth, na pha ganlyniadau oeddent i'w disgwyl. Yr oedd gwisgoedd y Spaeniaid, lliw gwyn eu crwyn, eu barfau, a'u harfau, yn ymddangos yn ddieithr a rhyfedd iddynt. Yr oedd y peiriannau mawrion yn yr rhai yr oeddent wedi croesi'r cefnfor, y rhai yn eu tyb hwynt oeddent yn cael eu symmud hyd wyneb y dyfroedd gan adenydd, o'r rhai yr oedd swn dychrynllyd yn dyfod allan, fel taranau, ynghyd â mellt a mwg, wedi eu taraw â'r fath syndod a braw, fel y darfu iddynt feddwl mai bodau goruwch-ddynol oeddent; mai meibion yr haul oeddent wedi disgyn i ymweled â'r ddaear.

Nid oedd syndod y Spaeniaid ddim llawer llai o'r ochr arall. Yr oedd pob llysieuyn, llwyn, a phren, yn wahanol i gynnyrch Europe; yr oedd yr hin yn dwymn hyd yn oed iddynt hwy; yr oedd y trigolion yn noethlymyn; eu gwallt du yn chwyfiaw dros eu hysgwyddau; heb ddim barf, ond eu holl gyrph yn hollol lyfn; eu gwynebpryd o liw copr tywyll; a'u hagwedd yn fwyn ac ofnus. Yr oeddent yn wagelog ar y cyntaf, ond ymhen ychydig daethant yn gyfeillgar, a chyda mawr lawenydd derbyniasant gan y Spaeniaid deganau diwerth o wydr, ac am danynt rhoddasant y fath lnniaeth ag oedd ganddynt, ac edafedd cottwm, yr unig nwydd yn eu meddiant. Yn yr hwyr aeth rhai o honynt gyda Columbus tua'r llongau, mewn badau bychain, a alwent hwy yn *ganoes*. Gyda thitl ac awdurdod rhag-frenin, galwodd Columbus yr ynys wrth yr enw *San Salvador*, yr hon a elwir yn awr *Guanahani*, neu *Cat Island*. Dranoeth ymwelodd Columbus â thraethydd yr ynys, ac oddiwrth dlodi cyffredin y trigolion gwelodd nad y wlad gyfoethog oedd ef yn ymofyn oedd honno. Wrth weled fod y rhan amlaf o'r trigolion yn gwisgo llafnau bychain o aur fel addurniadau. gofynai yn awyddus ble yr oeddent yn cael y fettel werthfawr honno. Cyfeirient tua'r deheu, gan wneuthur arwyddion fod digon o hono i'w gael yn y parthau hynny. Tuag yno hwyliodd Columbus yn gymmwys, mewn llawn hyder i gael allan y gwledydd cyfoethog hynny, gwrthrych penaf ei ymgais. Cymerodd saith o drigolion San Salvador i gyfieithu, y rhai oeddent yn falch iawn o'r cynnyg. Gwelodd Columbus lawer o ynysoedd, a chyffyrddodd â thair, y rhai a alwodd ef wrth yr enwau *St. Mary of the Conception*, *Fernandina*, ac *Isabella*; ond nid arosodd yno, gan fod y tir, y cynnyrch, a'r trigolion, yn lled debyg i eiddo San Salvador. Gofynai'n barhaus am aur, a'r un arwyddion a gae yn atteb, 'O'r deheu.' Tua'r deheu ag ef; canfyddodd ynys a ymddangosai yn helaeth iawn, nid hollol wastad fel y lleill, ond yr oedd yno fryniau, coedydd, afonydd, cwmydd, gwastadedd, a dolydd. Enw yr ynys oedd *Cuba*, gan drigolion San Salvador; yr enw a roddodd Columbus iddi oedd *Juana*. Aeth a'i lynges i mewn i enau afon fawr, ac ar ei ddynesiad ffodd y trigolion i'r mynydd. Anfonodd Columbus rai o'i fobl ei hun, ac un o frodorion San Salvador, i chwilio rhan dufewnol y wlad. Ar ol myned tua 60 milldir o lan y mor, dychwelasant, gan ddywedyd fod y tir yn fwy ffrwythlon a than well cwrtaeth na dim a welsant o'r blaen; heblaw llawer o fwthod yma a thraw, eu bod wedi gweled un pentref yn cynnwys tua mil o drigolion; fod y bobl yn ymddangos yn fwy deallus na thrigolion San Salvador; iddynt eu derbyn hwynt fel bodau goruwch-ddynol, a rhoddi iddynt wreiddyn i fwytta o flas *chestnuts* wedi eu rhostio; fod ganddynt math o lafur neillduol a alwent *maize* arno, (*Indian corn*); nad oedd un creadur pedwar carnol yn yr ynys,

ond math o gwn nad allent gyfarth, a chreadur tebyg i gwnningen, ond llai o faint, fod ganddynt addurniadau o aur, ond nid o werth mawr. Dywedai y trigolion mai yn Cubanacan yr oeddent yn cael yr aur, sef canol Cuba yn eu hiaith hwynt; ond meddyliai Columbus eu bod yn siarad am y Khan Mawr, ac ei fod yn agos i'r India Ddwyreiniol.

Wedi chwilio amgylch ogylch yr ynys am aur, cyfeiriodd pobl Cuba ef i Hayti, ynys i'r dwyrain oddiyno, lle yr oedd yr aur yn amlach, meddent na chyda hwynt. Tuag yno yr hwyliodd; ond yr oedd Pinzon yn cadw'r blaen arno, er cymmaint ddywedai Columbus wrtho am aros. Ar y 12fed o Ragfyr cyrhaeddodd yr ynys, a galwodd y traeth lle y tiriodd gyntaf, *St. Michael*, a'r ynys a alwodd ef *Espagnola*, yr unig ynys sydd wedi cadw yr enw a roddodd ef iddi. Gadawodd y traeth hwn, gan na allasai gael un gyfrinach à'r trigolion, y rhai a ffoisant yn wyllt i'r coedydd ar ei ddyfodiad i mewn, ac aeth i mewn i un arall, yr hwn a alwodd *Conception*.

Bu yn fwy llwyddiannus yma; daliodd ei bobl ef fenyw ar ei gwaith yn ffoi oddiwrthynt; triniasant hi gyda llawer o dynerwch, a rhoddasant iddi deganau bychain a dybient hwy fyddai yn fwyaf gwerthfawr gyda'r brodorion, ac yna gollyngasant hi ymaith. Ymhen ychydig, parodd hanes y fenyw i lawer o honynt ddyfod i ymweled à'r Spaeniaid, er mwyn cael o honynt hwythau ran o'r teganau, gwerthfawr yn eu golwg hwynt. Rhoddasant yn rhwydd yr holl aur a feddent yn gyfnewid am binnau, *beads*, &c., gan feddwl eu bod wedi cael *bargen* yn iawn. Yna daeth tywysog, neu *gazique*, i ymweled â Cholumbus, yn cael ei gludo mewn math o gerbyd ar ysgwyddau dynion, gyda rhodres mawr. Yr oedd yr olwg arno yn sobr ac uchelwych; ni siaradai nemawr a'i bobl ei hun, ond yr oedd yn gariadus a chyfeillgar iawn tuag at Columbus a'r Spaeniaid. Rhoddodd lafnau bychain o aur a gwregys cywrain i Columbus. Yr oedd Columbus o hyd a'i fryd ar gael gafael yn y mwyn.gloddiau aur, ac yn parhau i ofyn yr un peth. Y brodorion yn unfryd a nodent allan wlad fynyddig, i'r dwyrain, o'r enw *Cibao*. Tybiai Columbus mai *Japan*, a alwai Marco Paulo wrth yr enw *Cipango*, yr hyn a'i cadarnhai yn y dyb ei fod yn agos i gyffiniau Asia. I'r dwyrain ag ef etto: trodd i mewn i draeth helaeth, a chafodd allan fod y wlad hono dan lywodraeth *cazique* galluog o'r enw *Guacanhari*, un o bump tywysog a lywodraethent y wlad. Anfonodd hwn genhadon at Columbus, y rhai, yn enw eu tywysog, a roddasant iddo ffug-wyneb, (*mask*,) rhyfeddol iawn, â'i glustiau, ei drwyn, a'i enau o aur: gwahoddasant Columbus i annedd eu tywysog. Anfonodd Columbus o hono yntau genhadon yn ol yn gyntaf, y rhai, pan ddychwelasant, a rhoddi hanes ffafriol iawn am Guacanhari, a barasant i Columbus benderfynu myned i ymweled ag ef. Gyda'r amcan hyn hwyliodd tuag yno, ac oherwydd nad oedd wedi cau llygad am ddau ddiwrnod, aeth i orphwys. gan roddi gofal y llyw i'r *pilot*, a gorchymyn iddo beidio ei adael am eiliad. Yn lle hynny, rhoddodd yntau y llyw i ofal crottyn anwybodus, a'r canlyniad fu i'r llong gael ei gyrru o flaen ffrwd gref a tharo yn erbyn craig, fel ymhen ychydig iddi lanw o ddwfr a suddo. Gan fod y *Nigna* gerllaw, achubwyd y bywydau oll. Pan glywodd y trigolion am y digwyddiad, aethant yn lluoedd i'r lle, nid i yspeilio, cofier, ond yn llefain o dosturi tuag attynt; a chynnygodd eu tywysog y cwbl a feddai i Columbus i wneuthur y golled i fynu. Trwy gynnorthwy y brodorion hyn, achubwyd pob peth gwerthfawr yn y llong, a chludwyd y cyfan i fan neillduol, dan ofal Guacanhari ei hun; ac ni chai neb edrych yn fanol arnynt, chwaethach lledratta dim. Dyma Gristion mewn egwyddor, heb glywed son erioed am Grist'nogrwydd.

Boreu dranoeth daeth y tywysog at Columbus i'w gysuro; ac yr oedd angen cysur arno hefyd. Nid oedd wedi clywed gair am y *Pinta* byth; ac nid oedd fawr amheuaeth ar ei feddwl nad oedd ei gydymaith bradwrus wedi ffoi i Spaen, fel y cai ran o'r clod, os nid y clod i gyd. Nid oedd ar ol yn awr ond un llong, a honno y lleiaf a'r fwyaf bregus, i anturio mordaith mor bell, a chludo cynnifer o ddynion. Yn y cyfyngder hwn penderfynodd Columbus i adael rhai o'i ddynion yn yr ynys, fel y gallent ddysgu'r iaith, &c. Pan y mynegodd hyn iddynt, boddlonasant aros ar ol, mewn gobaith i gasglu llawer o gyfoeth yno yn fuan. Nid oedd dim yn eisiau yn awr ond cennad Guacanhari. Cafodd Columbus allan mai rhag ofn y Carribees y darfu iddynt ffoi i'r mynydd ar eu dyfodiad hwy yno, gelynion a barent ddifrod mawr yn fynych. Addawodd Columbus adael ei fobl ef yno i ddial ar y gelynion hyn, yr hyn a foddhaodd y tywysog yn fawr. Nodwyd tir allan i adeiladu amddiffynfa yn gymwys: cloddiwyd ffos ddofn oddiamgylch, a gosodwyd cyflegrau y llong yn yr amddiffynfa; ac yr oedd y cwbl yn barod ymhen deg diwrnod. I'r dyben i beri i'r brodorion ofni cyfodi yn erbyn y Spaeniaid yn ei absenoldeb ef, parodd Columbus i'w ddynion arfer eu cleddyfau, eu bwaäu, a thanio eu magnelau, yr hyn a barodd gymmaint o arswyd i'r trigolion, druain, fel y syrthiasant i'r llawr, gan guddio eu wynebau â'u dwylaw; a phan welsant effaith y bwledau ar y coed, tybiasant nad oedd fawr ddefnydd gwrthsefyll dynion ag oedd â'r mëllt a'r taranau dan eu hawdurdod. Ar ol rhoddi profion o'i garedigrwydd a'i allu i'r brodorion, gadawodd 38 o'i bobl yn yr ynys, dan lywodraeth Diego de Arada. Rhoddodd orchymyn caeth iddynt i fyw mewn heddwch â'r brodorion, a chwrteithio cyfeillach Guacanhari, gan addaw dychwelyd yn glau â digon o ddynion i oresgyn yr ynys yn hollol.

Wedi gwneud pob peth a allai, er diogelwch y drefedigaeth, ymadawodd ar y 4ydd o Ionawr, 1493; hwyliodd i'r dwyrain; cafodd allan lawer o borthladdoedd, a rhoddodd enwau arnynt. Ar y 6ed dydd canfyddodd y Pinta, y tro cyntaf er ys chwech wythnos. Ymdrechodd Pinzon gyfiawnhau ei hunan goreu medrai, a chan mai nid amser i ymryson ydoedd hi, gadawodd Columbus i bob peth ddarfod ar hynny o bryd. Oddiwrth sefyllfa ei longau, ac awydd y morwyr, gwelodd Columbus yr anghenrheidrwydd o frysio tuag adref. Yn ganlynol, ar yr 16eg, hwyliodd tua'r gogledd ddwyreiniol, a chollodd ei olwg ar y tir yn glau. Yr oedd ganddo rai o'r brodorion ar fwrdd y llong o'r gwahanol ynysoedd a gafodd allan, ynghyd â samplau o'r nwyddau a fyddent yn debyg o ddyfod yn wrthrychau masnach, ac adar hynod. Bu'r fordaith yn llwyddiannus hyd y 14eg o Chwefror, pan y dechreuodd y gwynt gyfodi, a chwythu fwyfwy, nes ar y diwedd iddi fyned yn dymestl ofnadwy. Gwnaeth Columbus bob peth a allai er mwyn achub y llongau; er hynny, nid oedd ond dinystr anocheladwy yn eu bygwth. Y peth mwyaf ar feddwl Columbus yn y perygl hwn oedd, sut i gadw coffadwriaeth o'r hyn oedd ef wedi gael allan. Aeth i'w gaban, ac ysgrifenodd ar femrwn hanes byr o'i fordaith, y cwrs a gymerodd, sefyllfa a chyfoeth y gwledydd newydd, a'r trefedigion a adawodd ar ei ol yno. Gosododd y memrwn mewn lliain wedi ei *oilo*, yr hwn a osododd drachefn mewn gweren o gwyr, a'r cyfan mewn baril wedi ei gwneuthur yn hollol ddiddos, ac a'i taflodd i'r mor, gan obeithio y cai rhyw un afael ynddi. O'r diwedd trefnodd Rhagluniaeth i achub bywyd yr hwn oedd â gorchwylion eraill ar ei gyfer. Gostegodd y gwynt, a thawelwch a ganlynodd; ac ar foreu y 15fed dydd canfyddodd Columbus a'i gyfeillion dir unwaith etto, sef St. Mary, un o ynysoedd yr Azores. Wedi iddo, drwy lawer o drafferth, oherwydd ystyfnigrwydd y llywodraethwyr yno, gael yr hyn

oedd anghenrheidiol arno, ymadawodd â'r Azores cynted ag a allai. Yr oedd un amgylchiad yn peri anesmwythdra mawr iddo o hyd: nid oedd wedi gweled y Pinta oddiar ddydd cyntaf y dymestl; ofnai weithiau ei bod wedi myned i'r gwaelod, a phawb ar y bwrdd wedi boddi. Pryd arall meddyliai fod Pinzon wedi hwylio tua Spaen, i achub y blaen arno ef, a rhoddi'r newydd i'r brenin a'r frenhines. I'r dyben i attal hyn hyd a allai, hwyliodd o'r Azores ar y 24ain o Chwefror. Pan ymron ar ddiwedd ei fordaith, cyfododd tymestl arall, mor rymus ymron a'r cyntaf; a chwedi cael ei yrru o'i blaen am ddau ddiwrnod a dwy noswaith, gorfu arno droi i mewn i'r afon Tagus, Mawrth 4ydd. Cafodd gennad gan frenin Portugal i dirio yn Lisbon, a chafodd ei dderbyn ganddo gyda phob parch dyledus i'w alluoedd mawrion, er fod Portugal wedi colli y clod a'r elw oedd yn tarddu oddiwrth ei lafur am byth, oherwydd gwrthod ei gynnyg ar y cyntaf. Yr oedd Columbus mor awyddus i ddychwelyd i Spaen, fel nad arhosodd ond pump diwrnod yn Lisbon. Ar y 15fed o Fawrth tiriodd yn Palos, ymhen 7 mis ac 11eg diwrnod ar ol dechreu ei daith oddiyno. Ar ymddangosiad y llong, rhedodd holl drigolion Palos i'r traeth i roesawi eu cyd-ddinasyddion, a chlywed hanes y fordaith. Pan welsant y bobl ddieithr, yr anifeiliaid rhyfedd, a'r cynnyrch hynod, aeth eu llawenydd yn gyffredinol, a thuhwnt i derfynau; taniwyd y magnelau, canwyd y clychau, a derbynwyd Columbus fel pe buasai yn frenhin. Wedi hyn, aeth yr holl bobl gydag ef mewn gorymdaith ddifrifol tua'r Eglwys, i dalu diolchgarwch i Dduw am lwyddiant a diogelwch y fordaith. Prydnhawn yr un diwrnod cafodd yr hyfrydwch o weled y Pinta yn dyfod i mewn i'r porthladd, yr hon oedd wedi cael ei gyrru gan y dymestl ymhell i'r gogledd.

Anfonodd Columbus yn ddioed i Spaen i hysbysu i'r brenin a'r frenhines ei ddyfodiad, y rhai a anfonasant atto i ddyfod i'r llys yn uniongyrchol, fel y gallent gael clywed hanes ei ddarganfyddiadau rhyfeddol o'i enau ef ei hun. Ar ei ffordd i Barcelona, lle yr oedd y llys yn aros ar y pryd, yr oedd trigolion y wlad o amgylch yn pentyrru i'w gyfarfod ef ymhob man, ac i ddangos pob parch a allasent iddo. Wrth orchymyn Ferdinand ac Isabella, dygwyd Columbus i mewn i'r dref gyda phob mawredd addas i amgylchiad mor fawr a rhyfedd. Yn yr orymdaith hon, gosodwyd yr Indiaid yn mlaenaf yn y rhenge, y rhai ymddangosent i'r Spaeniaid fel dynion o rywogaeth arall; yn nesaf attynt hwy cludid yr addurniadau aur o wneuthuriad yr Indiaid, y gronynau aur o fynyddoedd y gwledydd newyddion, a'r llwch aur a gesglid ar lenydd yr afonydd; ar ol y rhai hyn dygwyd gwahanol nwyddau a chynnyrch yr ynysoedd hynny; yr olaf o'r cwbl oedd Columbus, ac yr oedd pawb a'u llygaid arno. Cafodd ei dderbyn gan Ferdinand ac Isabella yn eu gwisgoedd breiniol, yn eistedd ar orsedd, dan ganopi ardderchog iawn. Pan aeth Columbus yn mlaen, safasant ar eu traed, a chyfodasant ef i fynu oddiar ei liniau, a gorchymynasant iddo eistedd mewn cadair ag oedd wedi ei pharatoi ar ei gyfer, a rhoddi hanes o'i fordaith a'i helynt. Wedi iddo ddarfod adrodd ei hanes, syrthiodd y brenin a'r frenines ar eu gliniau, ac a ddychwelasant ddiolchgarwch i Dduw am y darganfyddiadau a wnaeth Columbus. Dangoswyd pob nod o barch i Columbus a allasai diolchgarwch ei ddyfeisio. Cyhoeddwyd braint-lythyrau yn sicrhau iddo ef a'i etifeddion holl ragorfreintiau y cyfammod a wnaethpwyd ag ef yn Sante Fe; uchelfreiniwyd ei deulu; darfu i'r brenin a'r frenhines, a'r gwyr llys, yn ol eu esiampl hwynt, ymddwyn at Columbus fel un o'r gradd uchelaf; ond yr hyn a'i boddlonodd

ef fwyaf o bob peth oedd gorchymyn oddiwrth y brenin a'r frenhines i arfogi llynges ddigon grymmus, nid yn unig i gymeryd meddiant o'r ynysoedd ag oedd ef wedi eu cael allan eisioes, ond hefyd i chwilio am rai mwy cyfoethog, y rhai oedd ef yn hyderus eu cael allan.

Tra yr oedd y parotoadau i'r fordaith yn myned ymlaen, aeth son am Columbus trwy holl Europe; yr oedd ei glod yn ngenau pawb. Yr oedd amryw dybiau yn cael eu ffurfio am y gwledydd newyddion, ac i ba barth o'r byd y perthynent. Yr oedd Columbus o hyd o'r farn mai rhan o Asia oeddent. Yr oedd yr aur, y cottwm, yr adar, &c., a gaed yn y gwledydd newyddion, i'w cael hefyd yn yr India; felly, trwy bwyso yr holl amgylchiadau hyn, darfu Columbus ddarbwyllo nid yn unig y Spaeniaid, ond holl Europe gyda hwynt, fod ei dyb ef yn gywir. Y dyb gyffredin yn awr oedd mai rhan o'r India oedd yr ynysoedd a ymwelodd Columbus â hwynt. Mewn canlyniad i'r dyb, cawsant eu galw wrth yr enw *Indies*, gan Ferdinand ac Isabella, yng nghadarnhad eu cyfammod â Cholumbus. Hyd yn oed ar ol cael allan y cyfeiliornad a achosodd y cyfryw dyb, y mae yr enw yn aros hyd heddyw. Gelwir y wlad wrth yr enw *West Indies*, a'i thrigolion yn Indiaid hyd y dydd hwn.

Yr oedd yr enwau a roddodd Columbus i'r ynysoedd mor ddeniadol, samplau y cyfoeth a ddygodd oddiyno mor dda, yr hanes a roddai ei gymdeithion o honynt mor ffafriol, fel y darfu i lawer o bob gradd gynnyg o'u gwirfodd i fyned gydag ef. Nid oedd na meithder na pherygl y fordaith yn ddigon i'w hattal. Parotowyd 17 o longau y tro hwn, ac ar eu bwrdd 1500 o ddynion, a llawer o honynt o deuluoedd uchel. Gan fod llawer o honynt i aros yn y gwledydd newyddion, dygasant gyda hwynt bob peth angenrheidiol, megys pob math o anifeiliaid dof, hadau a phlanhigion a fyddent yn debyg o ffynnu yno. Wedi cael gan y Pab, Alexander VI., roddi hawl gyflawn i Ferdinand ac Isabella ar y gwledydd a gaid ac a gafwyd allan, a bedyddio'r Indiaid i'r ffydd Gristionogol, y brenin ei hun, y tywysog ei fab, a dynion blaenaf y llys yn sefyll yn dadau bedydd iddynt, nid oedd dim bellach i rwystro ymadawiad y llynges. Felly, ar y 25ain o Fedi, dechreuodd Columbus ei ail fordaith allan o borthladd Cadiz. Galwodd heibio Gomera fel o'r blaen, ac oddiyno hwyliodd mwy tua'r deheu nac ar y cyntaf. Trwy gymmeryd y llwybr hwn cafod y *trade winds* yn fwy ffafriol iddo nac ar y cyntaf, a chludwyd ef at lawer o ynysoedd ymhell i'r dwyrain oddiwrth y rhai a gafodd allan ar y cyntaf. Ymhen 26 diwrnod ar ol ei ymadawiad o Gomera, cafodd dir; un o'r *Caribbee Islands* ydoedd yr ynys, yr hon a alwodd Descada, oherwydd awydd ei fobl i weled rhyw ran o'r byd newydd. Ar ol hyn ymwelodd â Dominica, Marigalante, Guadaloupe, Antigua, San Juan de Puerto Rico, ac eraill ag oeddent yn wasgaredig ar hyd ei ffordd. Cafodd frodorion yr ynysoedd hyn yn atteb yn gymmwys i ddarluniad Guacanhari o honynt. Pan gynnygiai y Spaeniaid dirio, cawsant dderbyniad brwd gan y bobl ryfelgar hyn. Yn eu hanneddau yr oedd esgyrn y gelynion a ddaliasent mewn rhyfel, ac ar y rhai yr oeddent wedi bod yn gwledda. Yr oedd awydd Columbus yn fawr i gael gwybod beth oedd wedi dyfod o'r drefedigaeth a adawodd yn Hispaniola; ond ni chaniatta amser i ni ei ddilyn ar hyn o dro.

AMICUS.

(I'W BARHAU.)

RHANIAD YR YSGRYTHYRAU.

Gan fod yr Ysgrythyrau yn cynnwys datguddiad o feddwl Duw i ddynolryw, — datguddiadau o hono ei hun, a'i nodweddiad priodol; ac o barth dyn yn ei ddechreuad, ei gyflwr presenol a dyfodol: y mae iawnddeallwriaeth o honynt o'r pwys mwyaf, ac yn anhepgorol anghenrheidiol er eu defnyddio yn briodol, a derbyn addysg ac adeiladaeth trwyddynt. Y mae gwirioneddau hanfodol crefydd, wedi eu hegluro ynddynt, fel y gall y gwanaf ei ddeall eu hamgyffred. Ond y mae amryw amgylchiadau, ag y mae ysgrifeniadau o'r fath yn ddarostyngedig iddynt, y rhai a barant radd o anhawsdra ac aneglurder yn bresenol; megis dulliau diarebol o ymadroddi, cyfeiriadau mynych at ddefodau ac arferion y wlad, ac at seremoniau y gyfraith Foesenaidd, ymadroddion ffugyrol cryfion, anmherffeithrwydd ysgrifau, a chyfieithadau. Ond barnwyf nad oes dim wedi peri cymaint o gamddefnydd a gwyrdroad o'r ysgrythyrau, na'r rhaniad annaturiol o honynt yn *bennodau* ac *adnodau*, nes ymddangos fel cynifer o wireiriau (*aphorisms*) annibynol ar eu gilydd, ac yn cael eu defnyddio felly gan yr anwybodus a'r anystyriol, yn wrthwyneb i'w hystyr gyson a rheolaidd. Hysbys ydyw nad oeddynt wedi eu rhanu fel hyn ar y cyntaf, oddieithr y Salmau, fel yr ymddengys oddiwrth gyfeiriad yr Apostol at yr 'Ail Salm,' Actau xiii, 33; y rhai a renid i bennodau yn unig. Y rhaniad cyntaf a wnaed ar lyfrau y Testament Newydd, ydoedd i bennodau, at wasanaeth yr Eglwysi. Hyn, ond ei wneuthur yn briodol a fuasai yn fuddiol, diameu ei fod yn angenrheidiol. Gwnaed rhyw raniad o'r fath hyn mor forau a'r pedwerydd canrif; wedi hyny Robert Stephens, argraphydd yn Ffraingc a ranodd y Testament Newydd i adnodau, ar yr un cynllun ag y gwnaethai Rabbi Nathan yr Hen Destament. Nis gwyddys yn sicr, pa un a ranodd efe y testun, yn rhai o'i argraphiadau, i wahanranau gwersawl, megys yr argrephir yr ysgrythyrau yn bresenol, neu ynte ychwanegu yr adnodau ar ymyl y ddalen, yn gyffelyb i argraphiadau diwygiedig y dyddiau hyn, ac megys y gwnaethai cardinal Hugo, cyfansoddwr y mynegeir cyntaf, o'i flaen. Y mae yn sicr fod *llawer* o'i argraphiadau, a'r adnodau wedi eu 'chwanegu ar ymyl y ddalen yn unig, ac felly yn dra defnyddiol. Ond barnwyf fod darnio y testun gwreiddiol yn y modd hyn, pwy bynag a'i gwnaeth wedi bod o niwed mawr i'r ysgrythyrau.

Wedi eu dryllio yn y modd hyn, yn annibynol ar eu hystyr a'u cysylltiad newidir hwynt o fod yn hanes neu ymresymiad parhaol, i gynifer o ranau anghysylltiedig a'u gilydd, nes peri i'r darllenydd, yn lle cymeryd ei olygiadau crefyddol oddiwrth ystyr cyffredinol yr ysgrythyrau, eu cymeryd oddiwrth ranau neillduedig. Profir golygiad trwy ddyfynu testun, a beth nad ellir ei brofi yn y modd hyn? Diau fod llawer o olygiadau anysgrythyrol wedi cyfodi oddiwrth yr arferiad yma. Y mae yn llawer haws profi athrawiaeth gyda hanner dwsin o destunau, y rhai a wnant *brawf geiriol* da, na trwy y cyddestun, amcan yr ymresymiad, a rhediad cyffredinol yr ysgrythyr. Yr ydoedd gan Shakespear ddigon o ddwyfyddiaeth i ganfod afresymoldeb y fath brawf:—

> 'In religion,
> What damned error, but some sober brow
> Will bless it, and approve it *with a text?*'

Y mae llawer a wyddent yn amgenach wedi dilyn yr arferiad yma, trwy gyfansoddi Holwyddoregau, a chysylltu adnod wrth gwt pob atebiad i'r dyben fel y dywedir o 'brofi' ei gywirdeb; a mynych iawn y defnyddir adnodau yn y modd yma yn groes i'w hamcan gwreiddiol, nes gosod adnod yn erbyn adnod, gan farnu wrth olwg gyntaf y geiriau, yn hytrach na barnu yn gyfiawn oddiwrth amcan ac ymresymiad yr ysgrifenydd yn y lle; ac ystyrir cynifer o adnodau, fel lliaws o brofion o wirionedd credoau amrywiol a gwrthwynebol i'w gilydd; y rhai a frithir a hwynt. Locke a sylwa fel y canlyn ar hyn:—

'Pe argrephid y Bibl megys y dylid, ac megys y'i hysgrifenwyd ar y cyntaf, cai y rhai hyny a amddiffynant eu golygiadau, a chyfundraethau pleidiau, wrth swn geiriau, gan esgeuluso gwir ystyr yr ysgrythyr, achos cwyno. Fe ddiarfogid y rhan fwyaf o honynt yn ddioed, o'r drysorfa helaeth o beiriannau, a pha rai yr amddiffynant eu hunain, ac yr ymosodant ar eraill; pe gosodid yr ysgrythyrau sanctaidd o flaen llygaid Crist'nogion yn eu cysylltiad a'u cysondeb priodol, ni byddai mor hawdd cipio ychydig eiriau, ar wahan oddiwrth y gweddill, i wasanaethu dyben na pherthynant iddo, ac nad oes a wnelont ag ef. Ond yn ol y dull presenol, hawdd i'r neb a ewyllysio fod yn gampwr hodedig dros y gwirionedd, h.y. dros athrawiaethau y blaid y mae damwain neu elw wedi ei gysylltu â hi. Ni raid iddo ond arlwyo ei hun ac adnodau o'r ysgrythyr, yn cynnwys geiriau ac ymadroddion hyblyg, a bydd i'w gyfundraeth, y sydd wedi eu priodoli i iawnffyddiaeth ei Eglwys eu gwneuthur yn ddadleuon anwrthwynebol dros ei olygiadau. Ond pe ystyrid yr adnod ddyfynedig megis rhan o draethiad cydlynol, ac felly gyfyngu yr ystyr i amcan y cyd-destun, fe ddiosgid y rhan fwyaf o'r dadleuwyr awyddus a selog hyn, o'r hyn a alwant yn awr eu harfau ysbrydol; ni fyddai ganddynt ddim i'w ddywedyd, ond a ddynoetha eu gwendid, ac a'u gwrthwynebent yn amlwg. Nis gellir ond

synu, y goddefir gwneuthur i'r ysgrif sanctaidd, yr hyn y mae yn amlwg a ddyrysai y synwyr, ac a fyddai yn rhwystr i ddeall unrhyw lyfr bynag. Pe yr argrephid ac yr arferid Epistolau Tully yn y modd hyn, gofynaf, ai ni fyddent yn llawer mwy anhawdd i'w deall, yn anhawddach ac yn fwy anhyfryd i'w darllen, nag ydynt yn bresenol? Byddai yn hawdd dyfynu o waith dysgedigion o wahanol enwadau, er dangos drwg-effeithiau y rhaniadau hyn, yn yr arferiad o honynt; ond hyderaf y bydd i'r ystyriaethau uchod fod yn foddion i oleuo yr anwybodus ar y pwngc yma, a rhwyddhau'r ffordd i iawnddealldwriaeth o'r ysgrythyrau, nes gwybod y gwirionedd, a chael rhyddâad trwyddo.

Llynlleifiad. J. W.

DIM, GOBBLER, TUHWNT I'R ESGYD!

Felly yr arferai Appelles, paentiwr enwog o Athen, ddywedyd wrth y rhai a roddent farn ar yr hynn na wyddent ddim yn ei gylch. Yr oedd yn arferiad ganddo, pann y byddai wedi paentio rhyw ddarlun, i alw crydd atto, i roddi ei farn ar yr esgyd yn y darlun; ac wedi i'r crydd wneuthur yn ol ei gais, pann y gwnai ymyrraeth a'r hynn na wyddai ddim o'i herwydd, a rhoddi ei farn ar ranau eraill or darlun, dywedai Appelles wrtho, '*Ne sutor ultra crepidam*,' 'dim gobler, tuhwnt i'r esgyd:' paid ag y myrraeth a'r hynn nad yw yn perthyn i ti. O'r diwedd aeth yr ymadrodd hwn yn ddiareb am un fyddai yn ymwneud a'r hynn oedd tuhwnt i'w gyrraeddiadau.

Mor weddus yw'r ddiareb honn i lawer yn y dyddiau hynn. Os bydd un wedi gweled A, B, C, Philosophyddiaeth, braidd y daw dim allan o'i enau ond enwau mawreddog canghennau dyrus honn. Y mae ef yn llawn o'r fath eiriau ag *attraction of gravitation, electricity, magnetism, centripital*, a *centrifugal forces, hydrostalic paradox*, a phob *dox* arall, nes y gellid meddwl ei fod y dyn mwyaf gwybodus yn yr holl fyd; tra nad yw'r cyfan ddim ond pwff o wynt yn rhuo, ac yn diflannu yn y swn. I'r cyfryw un, mor addas yw diareb Appelles, '*ne sutor ultra crepidam*,' dim, gobler, tuhwnt i'r esgyd; gad yna dy faldordd am bethau na wyddaist ddim am danynt; cymmer ofal am yr esgyd, a gad y sér i eraill.

Gwelir un arall yn esgyn i'r pwlpud. Y mae'n dechreu llefaru; a chyda hynny, wele, gyhyd a'm braich o air saes'neg mawr yn twmblo dros ei wefusau allan, er mwyn dangos ei feddwl yn well i'r Cymmro uniaith; neu yn hytrach er mwyn dangos iddynt ei fod ef yn Sais, ac felly, wrth gwrs, yn bregethwr anwyl i'r Cymry; ac 'fallai ar y pryd ei fod yn rhoddi iddynt gymmaint o Saesneg a wyr, druan. Ha, dymma un arall etto a ddylai wrando ar gynghor Apelles, 'dim, gobbler, tuhwnt i'r esgyd.' Un arall a glywir yn esbonio yr hyn na feddyliodd neb ond ei hunan am hynny o'i flaen. Gwyr beth yw'r saith seren agorion (saith seren ac Orion). Fe ddywed am y saith seren, mai saith seren ydynt; esboniad hyfryd, gwir ddysgedig; ond fod pawb yn ei wybod cyn iddo ei ddywedyd yn gystadl ag yntau. Gwnaiff esbonio'r *agorion* etto yn *philological* i'r eithaf, gan ddywedyd mai agoriadau, neu allweddau ydynt. Noble, onide? Pa esponiwr fel hwn? Y mae'r gwrandawyr anwybodus yn barod i ddawnsio wrth y newydd; tra y mae'r deallus yn barod i sisial yn ei glystiau, 'dim, gobbler, tuhwnt i'r esgyd.'

Os bydd arnoch eisiau cael atteb i ryw ofyniad etto, a bod mor anhappus a'i ofyn i un o deulu'r glap, cewch hanes yr holl gymmydogaeth; fod Peggi'r Pentwr wedi cael plentyn ordderch; fod Twm Pantglas wedi wado Dio'r ffidler; fod Shani'r Tymawr wedi dywedyd cryg o gelwyddau ar Gattws Tyhen, &c. erbyn hyn bydd eich gofyniad wedi myned yn angof. Beth all weddu'r tylwyth hyn yn well na'r hen ddiareb, 'Dim, gobbler, tuhwnt i'r esgyd.'

Wele yn awr un o dylwyth y nodwydd yn neidio fel hydd i frawlian ei wybodaeth am Rô'g a Lladin, heb wybod dim am ho, he, to, na hic, haec, hoc. Ond gwyr holl Ro'g y Testament Newydd ar flaen ei *fyssedd*. Fe wyr feddwl Paul yn well gan mil o weithiau nag ef ei hun. Fe esponia'r llythyr at y Rhufeiniaid heb golli step; fe wyr feddwl yr epistol at yr Hebreaid i'r dim; ac am y Datguddiad, efe a'i piau hi: y mae yn gallu cymhwyso pob prophwydoliaeth ar ei phen ei hun: efe a wyr pa le i arllwys y phioleidiau, y mae yn adwaen iaith yr udgyrn: 'does dim anhawsdra yn yr un gymmydogaeth ag ef. Poor Mr. Needleman, gwrandewch lais yr hen ddiareb, 'Dim, gobbler, tuhwnt i'r esgyd;' neu dim, daeliwr, tuhwnt i'r nodwydd.

Dymma ddyn arall yn ymwthio ymlaen i fod yn arweinydd i eraill, y dall i dywys y dall; y mae ganddo feddwl mawr am dano ei hun: mae'n tybied ei fod dan ddylanwad uniongyrchol Ysbryd yr Arglwydd, a thrwy hynny wedi cael ei argyhoeddi fod pawb yn *wrong* ac yntau yn *right;* mae ganddo wyrthiau, medd ef; ond yn y dirgel y maent oll. Y mae wedi cael allan na ddylid esponio'r Bibl, ond rhaid ei gymmeryd lythyren a llythyren, megis y mae. Dymma eli yn taro'r clwyf i'r dim: gwyddai na allai ef esponio, a gwyr yn awr nad oes eisiau hynny;

ac felly pa mor anwybodus bynnag y fyddo, gall fod yn *apostol* Iesu Grist er hynny. Er na wyr ef air o'r iaith a arferai Crist a'i apostolion, y mae'n penderfynu na fydd yn ol iddynt mewn dim; fe fyn iaithoedd. Ond pa iaithoedd attolwg? O, iaithoedd *dieithr* bid sicr: dieithr i bob cenedl o ddynion ar wyneb yr holl ddaear: nid un o'r amrywiol iaithoedd a siaradir gan deulu dyn, ond iaith *ddieithr* ydyw; ac felly y mae ef wedi symmyd ei hun yn ddigon pell o afael neb i gael allan pu'n a fydd y cyfieithydd yn gwneuthur chwareu teg a hi ai peidio. Tshi pwran ti, pratarata rit, hebrinwri taranpari fritwrari kiri kwri frit. Dyna iaith ddieithr hefyd, a phle mae'r cyfieithydd a all ddywedyd beth ydyw hi? O Saint, Saint; dere 'mlaen, gallaf siarad mewn iaith o'r fath hon trwy'r dydd â thi, a chai dithau ei chyfieithu os myni; er yn ol fy marn i mai gwell i ti o lawer wneuthur yn ol diareb Apelles, 'dim, gobbler, tuhwnt i'r esgyd.'

Bellach meddyliaf fod rhyw un yn barod i ddywedyd fy mod agos a chwrdd a phob un ond fy hunan; nid anhawdd gennych gan hynny credu yr hyn sydd eithaf gwir, fod eisiau hen ddiareb Apelles yn dost, dost, ar

BASANISTES.

Dyweded prophwydi y Seintiau pwy yw Basanistes, os gallant, ond byddwch chwi MR. YMOFYNYDD yn ddistaw. B.

DIAREB RUSSIAIDD.

Y mae gan y Russiaid ddiareb yn eu plith, ryw beth i'r pwrpas hyn; '*Ni elli ganfod y byd wrth edrych allan trwy dy ffenestr dy hun.*'

Gall hwn ymddangos yn osodiad *simple* iawn; eithr y mae'n rhaid wrth lawer iawn o ystyriaeth i ddeall diareb a'i deongliad priod, 'geiriau'r doethion, a'u hymadroddion tywyll.' Mewn ychydig eiriau y mae gennym lawer o wersi defnyddiol. Y mae diareb dda yn offeryn cludadwy o gymhwysiad helaeth, Nid ydyw yn gorlwytho yr hwn sydd yn ei chludo gydag ef oddiamgylch. Lle bach y mae hi yn gadw, ac yn cael ei chadw wrth ychydig drafferth. Y mae fel prif allwedd yn ffittio i lawer o gloion, ac yn cael ei chymhwyso attynt oll gyda'r un sicrwydd.

Gadewch i ni weled beth a allwn wneuthur o'r un sydd o'n blaen ni. Yn llyth'rennol y mae hi yn ddigon eglur. '*Nis gallwn weled yr holl fyd, wrth edrych allan trwy ein ffenestr ein hunain.*' Na allwn, hyd yn oed pe meddyliem fod y ddaear yn *flat* fel cramwythen, ni allai ein golwg fer ni fyth gyrraedd yn groes i'r mor, na thrwy un deyrnas. Pe dringem i goppa'r bryn agosaf, caem ein hargyhoeddi o hyn yn union. Ond y mae byd o feddwl yn gystal a byd o sylwedd i'w gael; ac y mae golwg ddealltwriaethol yn gystal a chorphorol yn bod. 'Nid oes terfyngylch i'r meddwl, y mae'n edrych tuhwnt i'r llygad' natturiol. Y mae ei alluoedd yn gweddu i glo arall.

Accw grottyn wrth ei wers. Y mae'n cael fod ei dasg fel *biscien (biscuit)* y morwr yn rhy galed a sych. Y mae ei lygaid yn syllu gydag hyfrydwch mawr ar y *play-ground.* Y mae'n meddwl rhyngddo ag ef ei hun, gymmaint yn well fuasai bod yng ngafael a rhyw orchwyl bywiog allan o'r ty, yn lle gorfod syllu gymmaint o oriau ar ei lyfrau, i ddysgu pethau na all ddychymmyg y byddant fyth o ddefnydd mawr iddo. Fy machgen bach i, y mae dynion mwy oedranus yn gwybod yn well; y maent hwy yn gallu edrych ym mlaen i'r blynyddau dyfodol. '*Ni elli weled y byd wrth edrych allan trwy dy ffenestr dy hun.*'

Y mae amser yn treiglo ym mlaen, ac y mae'n rhaid i'r crottyn fyned i olygfa, i amgylchiad arall. Beth fydd ei sefyllfa ddyfodol? Y mae wedi clywed llawer o bethau brâf am y mor, ac y mae'n hiraethu am fod yn forwr; neu, wrth gael ei ddifyrru ag *experiments* y *Lecture-room,* y mae arno chwant bod yn fferyllydd; neu, o serch at ddarllen, myn fod yn llyfr-werthwr. Gall fod anhawsderau ar ei ffordd, na wyr ef ddim am danynt. '*Ni all ganfod y byd wrth edrych allan o'i ffenestr ei hun.*' Fe all ei gyfeillion weled ymhellach nag ef. Boed iddynt hwy edrych allan drosto, ac yna, trwy y cyfryw gynnorthwy, gall gael allan lwybr diogelwch a llwyddiant.

Pe na wnaem fyth ddefnyddio golygiadau eraill, eithr, yn ein goruchwyliaeth a dynion eraill, '*edrych allan yn unig drwy ein ffenestr ein hunain,*' pa mor gul a chamsyniol fydd ein golygiadau! Pa mor anwybodus raid fod y dyn hwnnw, gyda golwg ar gyfoeth a maintioli ei wlad enedigol, meddwl yr hwn ni wnaeth erioed fyned ymhellach na ffiniau ei bentref ei hun, neu'r dref gymmydogaethol! Y mae'r Chinese yn cadw eu ffiniau â mur, ac yn ystyried eu hunain y genedl gallaf yn y byd, ond nid ydynt hanner mor ddoeth ag y gallent fod, oherwydd na wnant '*edrych ar y byd ond yn unig trwy eu ffenestr eu hunain.*'

Dylai yr ystyriaethau hyn ein gwneuthur yn falch i ddefnyddio barn a chynghorion rhai eraill. Gall fod yr hyn sydd yn ddisylw gennym ni yn amlwg iddynt hwy. Yr oedd Apelles, y paentiwr enwog, yn dysgu rhywbeth wrth gael barn cobbler ar ei ddarlun! Dymma annogaeth i ymofyn cyfeillach y cyfryw a wyddant ragor na ni. Y mae eu llygad dealltwriaethol yn canfod ymhellach;

y mae golygfa helaethach allan o'u ffenestr hwy. Meddwl celfyddgar a bywiog wrth sylwi ar allu'r ager (*steam*), a'i chyfaddasiad at beiriann-waith, a ddyfeisiodd y *steam-engine*, Trwy ddefnyddio craffder James Watt, '*yn edrych allan trwy ei ffenestr*,' a thrwy fabwysiadu ei olygiadau, darfu i deyrnas Brydain gael gafael mewn ffrwd o gyfoeth, gan yr hon y mae miliynau o bynnoedd yn cael eu harllwys i'r wlad hon bob blwyddyn.

Pa ddyn trwy ei dreiddgarwch ei hun yn unig a allai gyrraedd dyfnderau *mathematics*, neu ddringo uchelfeydd seryddiaeth, neu gael allan ddirgelion cuddiedig nattur yn y byd o'i amgylch. Oddiyma yr ymddengys buddioldeb llyfrau. Cyn i'r ddyfais o argraphu ddwyn llyfrau o fewn cyrraedd pawb a allant eu darllen, yr oedd meddyliau dynion mor ddiffygiol a'u tai, cyn i ffenestri gwydr gael eu dwyn i mewn. Y mae yr amserau hynny wedi cael eu galw gyda phriodoldeb, '*Yr oesoedd tywyll*,' Yn awr gall y llengcyn yn yr ysgol ddyfod yn gyfarwydd a llawer o wirioneddau, a gostiodd flynyddau i'r philosophyddion eu cael allan.

Defnyddia gan hynny holl ffenestri dysgeidiaeth a alli ddyfod o hyd iddynt. Cofia, 'ffordd yr ynfyd sydd uniawn yn ei olwg ei hun;' ond, '*Na elli di weled yr holl fyd trwy edrych allan o'th ffenestr dy hun.*'

O'r 'Phonographic Star,' gan
FILIUS.

NID YW DYNION ENWOG DDIM BOB AMSER YN OBEITHIOL PAN YN BLANT.

Nid ydym i gasglu am y cyfryw ag ydynt ar y cyntaf yn hwyrdrwm neu'n hurt wrth ddysgu, na fydd iddynt ddyfod yn ddynion dysgedig. Yr oedd Dr. Johnson, dyn o ddysgeidiaeth nid cyffredin, yn arfer dywedyd na buasai iddo ef byth ddysgu'r iaith Ladin oni bai y fflangell. Ei ddywediad oedd; 'Y fflangell, mi a'th anrhydeddaf am y ddyledswydd hon o'th eiddo.' Trwy anhawsdra mawr y darfu i Dr. Adam Clarke, esponiwr enwog y Beibl, ddysgu'r llythyrenau. Yr oedd hyd yn oed yn cael ei geryddu am ei hurtwch; yr oedd ofn ar ei rieni na wnai ef byth ddysgu: yr oedd yn wyth mlwydd oed cyn gallu sillafu geiriau o dair llythyren! Nid oedd yn enwog am ddim ond rholio cerryg mawrion; yn hyn yr oedd yn gampwr. Pan yn wyth mlwydd oed, gosodwyd ef dan ofal ysgolfeistr newydd, yr hwn a lwyddodd i ddihuno galluoedd cysglyd ei feddwl, ac mewn amser daeth yn llawer mwy enwog am ei ddysgeidiaeth nag y bu erioed am rolio cerryg. Nid oedd Dr. Isaac Barrow, duwinydd ac ysgolhaig enwog y 17 canrif, yn hynod am ddim ond ymladd a champiau trwsgl o'r fath, dros ddwy neu dair blynedd ar ol iddo fyned gyntaf i'r ysgol. Yr oedd ei dad wedi cael ei wangalonni gymmaint, fel ag y dywedai yn fynych, 'Os oedd un o'i blant i farw, ei fod yn gobeithio mai Isaac y fyddai.' Darfu i'r plentyn anobeithiol hwn, modd bynnag, fyw nes dyfod yn aelod o'r *Royal Society*, a dàl dwy *broffessorship* ym mhrif ysgol Caergrawnt. Pan y cafodd ei appwyntio yn feistr Coleg y Drindod, dywedai y brenhin, 'Ei fod wedi rhoddi'r swydd i'r ysgolhaig goreu yn Lloegr.'

Ond nid yw hyn yn un annogaeth i segurdod, er y gall fod yn gymhelliad i ymofyn gwybodaeth dan anhawsderau.

Allan o'r 'Phonographic Star,' gan
CARUS AMICUS.

'Mi a gauais fy llygaid ar yr hyn a aethai heibio, ac wele! weledigaeth brydferth o'r hyn ydoedd i ddyfod yn ymagor i'm dychymyg, Darfu gelyniaeth y cenhedloedd—baner y rhyfelwr a blygwyd ac a ddodwyd yn y llwch, holl gofnodion a chofadeiliau rhyfel, a gladdwyd allan o olwg dynol. Pob peth oeddynt yn gytun a chariadus. Y ddaear werdd a lawenychai yn y goleuni heulawg ac esmwyth, holl anian ydoedd mewn jubili. Crefydd, a dysglaer ael, a threm o hynawsedd nefol, a eisteddai yn mhlith plant dynion. Galwai ati Wybodaeth a Rhyddid, a dywedai,—"Wele! y rhai hyn ydynt fy chwaeriorydd." Y meidyn hwnw yr enfys a blygai ei bwa dros yr olygfa, a'r cenhedloedd a ymgryment mewn dystaw ymostyngiad.'

NEWYDDION

CARTREFOL A THRAMOR.

Y SENEDD.

Y mae yr eisteddfod Seneddawl bresennol ymron cyrhaeddyd ei therfyn. Erbyn bydd y Rhifyn hwn yn llaw y darllenydd, digon tebyg bydd y *prorogation* wedi cymmeryd lle, neu ohiriad hyd oed-ddydd. Nid yw yn ein hamcan (yn awr, o leiaf,) i adolygu yr hyn a wnawd, a'r hyn a gynnygwyd, ond ni wnawd, yng nghwrs yr eisteddfod; ond y mae yn gymmwys i sylwi na wnawd un cyfnewidiad o bwys ar drethi y wlad. Penderfynwyd ar fod y taliadau i'r llywodraeth i barhau, ar y cyfan, fel o'r blaen. Ni fydd y bennod newydd a ychwanegir y flwyddyn hon at lyfr cyfreithiau y deyrnas i gynnwys (ar a wyddom ni,) un mesurau tuag at helaethu rhyddid gwladol na chrefyddol. Nid ydym yn gallu cofio am un cynnygiad at hyny, o ran y Llywodraeth, oddieithr ysgrif

Rhyddfreiniad yr Iuddewon. Hwnnw, wedi passio Ty y Cyffredin, a gafodd ei ddiwedd trwy ddwylaw yr Arglwyddi. Oddiwrth aflonyddwch y *Chartists* a'r terfysgiad yn yr Iwerddon cymmerwyd achlysur i wneuthur cyfreithiau ag sydd, tra parhaont, yn cyfyngu ein rhyddid. Y mae y gyfraith a wnawd er diogelu 'Iechyd Trefydd,' yn un o bwys, ac yn debyg i fod o les, ac yn enwedig gan fod argoelion y bydd i'r *cholera* etto cyn hir ymweled â'n gwlad.

Y CHARTISTS.

Tua'r 15ed o Awst cafodd rhai ugeiniau o *Chartists* a *Confederates* arfog eu cymmeryd i fynu yn Llundain, yn Manchester, yn Ashton, a Birmingham. Ymddengys fod yspiwyr yn eu mysg, y rhai a roddasant wybodaeth i'r *Police* fod rhyw ddrwg a therfysg yn cael ei fwriadu. Yn Ashton, heblaw terfysg liw nos, yr hwn a barodd ddychryn mawr drwy'r lle, cafodd un o'r *Police* ei saethu yn farw. Yn y llefydd eraill rhagflaenwyd yr aflonyddwyr. Daethpwyd ar eu gwarrau yn ddisymwth, pan oeddent mewn cydfwriad, âg arfau ganddynt. Cafwyd powdr ac arfau hefyd yn nhai rhai o honynt. Y mae y rhan fwyaf o'r rhai a gymmerwyd i fynu yn awr yng ngharchar, neu dan fachnion, i aros eu prawf.

Iwerddon.—Y mae y gwrthryfel yn yr Iwerddon wedi darfod ar hyn o bryd. Ni allwn yn awr ei olrain o'i ddechreuad hyd y fath derfyniad a hono ag sydd yn awr wedi cymmeryd lle. Byddai yn dda gennym pe gallem ddywedyd fod yr achos o hono wedi ei symmud; ond ofnwn mai nid felly mae. Tybiodd Smith O'Brien, a Meagher, a'r blaenoriaid eraill, y caent bobl yr Iwerddon i fyned gyda hwynt drwy bob trwch i wrthsefyll Llywodraeth Brydain. Y maent wedi gweled eu camsyniad. Nid yw *Paddy* ddim mor ffol â dewis bod yn *darget* i saethu atto. Daeth Clarendon a'i filwyr a'i gwnstebli ar eu gwarrau yn ddioed; ac erbyn i'r terfysgwyr edrych i bob tu gwelsant nad oeddent yn barod nac yn abl i wrthsefyll. Ni fu un brwydr. Ond yn Balinghary darfu 50 o *holice* i yrru ar ffo liaws mawr ag oedd gyda Smith O'Brien, a lladd rhai o honynt. Y mae y blaenoriaid ymron i gyd wedi eu dal, ac yng ngharchar, a llawer iawn o'u canlynwyr. Ychydig o ddyddiau neu wythnosau a ddengys beth oedd gan y dynion anffortynus hyn yn llaw, a pheth ddaw o honynt. Y mae prawf rhai o honynt yn myned ymlaen yn awr: y lleill a gânt eu profi ar fyr iawn.

Y Gymdeithas Frytanaidd.—(*British Association.*)—Ymwelodd y gymdeithas hon â Chymru, am y tro cyntaf, y mis diweddaf. Ei hamcan yw cynnydd gwybodaeth gelfyddydawl. Y mae yn cynnwys ymhlith ei haelodau rai o'r enwoccaf yn y byd am eu gwybodaeth o'r celfyddydau; ac y mae yn cyfarfod yn flynyddol mewn un neu arall o brif ddinasoedd y deyrnas. Ei 17eg gylch-gyfarfod a gynnaliwyd yn Abertawe. Dechreuodd y 9ed o Awst, a pharhaodd dros wyth niwrnod. Yr oedd llawer o enwogion yn bresennol. Ni chawsom ein hunain y fraint o fod yno; ond gobeithiwn y rhoddir cynhorthwy i ni i osod ger bron y Cymry yn y rhifyn neu y rhifynau canlynol rai o'r gwirioneddau defnyddiol a drafodwyd yn y cyfarfod.

Y mae y ddau ddyn, Martin a Leary, ag oeddent dan farn marwolaeth yng ngharchar Caerdydd, wedi cael arbed eu bywydau: alltudir hwynt dros fywyd. Felly hefyd, mae'n debygol, y milwr a gafwyd yn euog o saethu dynes yn y Casnewydd-ar-Wysg. Y mae yr hen egwyddor o 'fywyd am fywyd, a thalu drwg am ddrwg,' yn dechreu colli tir. Y mae'r cyffelyb ddynesiad at gyfraith yr Efengyl i'w weled hefyd yn y llywodraethau newydd ar y Cyfandir.

Y mae masnach y wlad yn parhau i fod yn bur lesg. Bydd y cynhauaf brith â pharhad yr afiechyd ar y cloron, yn ddiau, i'w effeithio er gwaeth. Nid hoff gennym ddaroganu drwg. Ond y mae lle i ofni bod gauaf caled o'n blaen. Ceir gweled, ond odid, mai drwg yw diogi, gwastraff, a chybydd-dod.

TRAMOR.

Ffraingc.—Y mae Cavaignac a'i lywodraeth yn cadw *Paris* yn lled dawel dros hyn o bryd. Ond yr ydys yn ofni, ac yn parotoi yn erbyn terfysg yn feunyddiol. O'r dynion a gymmerwyd i fyny am y terfysg yn Mehefin y mae tua 4000 wedi eu profi gan y Ddirprwyaeth Filwraidd a sefydlwyd i'r diben hyny. Y mae 150 o honynt wedi eu gadael i'w profi gan lys milwraidd sydd uwch. 1700 a gondemniwyd i alltudiaeth. Dwy fil a ollyngwyd yn rhydd trwy orchymmyn y Cadfridog Bertrand. Y mae Dirprwyaeth (Committe) o'r *Assembly* wedi bod yn chwilio i achos a phrif awdwyr y terfysg; ond nid yw eu adroddiad (report) hyd yn hyn wedi ei wneud yn gyhoeddus. Dywedir fod profion yn erbyn Louis Blanc a Caussidiere, ac nad yw Ledru Rollin yn rhydd. Y mae Lamartine wedi bod yn areithio dros y cymmwysder a'i ddyledswydd o anfon byddin i gynnorthwyo yr Italiaid. Teimla y Ffrangcod yn gyffredin yn wresog iawn dros ryddid ac annibyniaeth yr Ital. Y mae eu byddin er ys misoedd wrth droed yr Alps. Ond Cavaignac sydd dros gadw heddwch os yn bossibl. Disgwylir y bydd

yr *Assembly* ym mhen mis neu ddau wedi cyttuno ar gyfreithiau sylfaenol y Werinlywodraeth. Y mae masnach yn dechreu adfywio, a dyeithriaid wedi dychwelyd i Paris.

Yr Ital.—Y mae Charles Albert wedi ei orchfygu gan yr Awstriaid. Y cwbl a ennillodd, y mae wedi ei golli. Y mae eryr Awstria unwaith etto yn chwifiaw uwch caerau Milan. Ond y mae *Armistice*, neu heddwch dros ryw amser wedi ei wneud rhyngddynt trwy ymdrech swyddogion Ffraingc a Lloegr. Darfu Welden a'r Awstriaid dano ymddwyn yn greulon iawn tuag at ddinas Bologna; ond y trigolion a'u gwrthsafasant gyda dewrder a phenderfyniad hyd at angau, nes gyrru yr Awstriaid ymaith. Dywedir fod Llywodraeth Vienna wedi cyhoeddi ei hanghymmeradwyaeth o ymddygiad Welden, ac wedi ei symmud o'i swydd. Y mae Lloegr a Ffraingc wedi cymmeryd arnynt i gynnyg gwneuthur heddwch ar ammodau ffafriol i'r Italiaid. Os gwrthyd Awstria hyn, digon tebyg yr a Ffraingc i ryfel yn ei herbyn. Dyellir fod yr Archdduc John a'r Llywodraeth Undebawl yn Francfort yn teimlo yn ffafriol tuag at annibyniaeth yr Ital. Y mae y Pab, er ys rhai wythnosau (pa un ai o drais ar ei ewyllys neu peidio) wedi galw ar holl dywysogion a gwledydd Cred i ddyfod i gynnorthwyo yr Italiaid yn eu hymdrech i ail-ennill eu rhyddid. Dangosodd Lloegr a Ffraingc barodrwydd i gymmeryd yr *hen wr* ar ei air; gan fygwyth myned yn y fan i ryfel âg Awstria, os gwnai un ymosodiad ar ddarlithiau yr Eglwys.

Awstria a Germani.—Y mae yr Ymerawdwr ar ddychwelyd i'w brif-ddinas, Vienna. Tebyg ei fod wedi magu calon oddiwrth fuddugoliaethau Radetzky yn yr Ital. Ni wyddys etto pa effaith ga hyny ar Lywodraeth Awstria. Y mae yr Undeb Germanaidd dan Archdduc John, heb ei gwbl sefydlu: y brenhinoedd, Hanover, Prwssia, Saxony, a Bavaria, sy'n rhwystro fwyaf: anhawdd ganddynt blygu i ymostwng i awdurdod yr Undeb. Y mae Tywysog Leiningen, llys.frawd ein Brenhines, yr hwn sydd Brif swyddog yr Undeb dan Archdduc John, wedi gwneud ei olygiadau yn gyhoeddus mewn annerchiad rhagorol dros berffeithio yr Undeb. I.

BW FARW,

Yn Nhredegar, ar y 14eg o'r mis hwn (sef Gorphenaf,) yn 80 oed, Mrs. Elisabeth Davies, gwraig y Parchedig Thomas Davies, gwedi bod yn briod ag ef yn agos i drugain mlynedd. Goddefodd nychdod hir, gydâg amynedd Cristionogawl; ac ymadawodd â'r fuchedd hon mewn gobaith cryf o wynfyd diderfyn yn ngwlad y gwawl:—

> Lle na theimla boen na chlwy',
> Na rhith o annedwyddwch mwy.

Yr ydoedd yn ddarllenyddes fawr ac ymchwilgar, ac o ddeall cryfach na'r rhan fwyaf o goeg-wybodusion yr oes gwacyddawl hon, ac ni adawodd fawr ar ei hol yn rhagori arni mewn moes a rhinwedd.

J. D., Brychan.

Mihefin 23ain, ar ol hir gystudd, yn 70 oed, Mr. R. Rees, Cilgell, plwyf Pontcarreg, Sir Gaerfyrddin. Yr oedd Mr. Rees yn adnabyddus i ran fawr o Undodiaid y Deheubarth, fel un ag oedd wedi dwyn mawr serch a dangos ffyddlondeb diysgog, dros yr athrawiaeth 'Mai un Duw sydd, a hwnnw yn Dad.' Darfu Rhagluniaeth ei ddonio a helaethrwydd o bethau'r byd hwn: yntau a fu yn oruwchwyliwr ffyddlon. Yn ei gymmydogaeth yr oedd yn sefyll yn uchel, fel dyn deallus a chywir, a pharod i wneuthur cymmwynas. Yr oedd yn gyfaill gwresog a charedig, tuhwnt i'r cyffredin, ac y mae llawer sydd wedi eu gadael ar ei ôl, heblaw ei geraint a'i berthynasau, yn cofio yn dyner am ei garedigrwydd a'i gymmwynasgarwch. Bu dros hir flynyddau yn aelod selog o'r Gynnulleidfa Undodaidd yng Nhapel-y-groes. Ym monwent y lle hwnnw mae ei lwch yn gorwedd hyd foreu yr adgyfodiad. Ar ei angladd, pregethodd ei hen gyfaill parchus, Mr. James, o'r Gellionnen, yn Cilgell, a Mr. R. Davies (gweinidog y lle) yn Capel-y-groes.

Awst y 1af, yn 30ain oed, ar ol byr ac ysgafn gystudd, Sarah, merch hynaf Leyson Morgan, Ysw., Tremains, ger Penybont, Morganwg. Yr oedd y foneddiges ragorol hon, oddiar yn ieuange, o feddwl ymofyngar a chrefyddol iawn. Ymunodd yn foreu, mewn proffes o Efengyl Crist, â'r Gynnulleidfa Undodaidd yn Blaengwrach, Cwmnedd. Parhaodd i harddu ei phroffes hyd y diwedd. Pe buasai hawddgarwch, neu ddefnyddioldeb, neu brydferthwch sancteiddrwydd yn cadw dyn rhag angau—pe buasai taer ddymuniadau y rhai yr oedd hi yn anwyl iawn iddynt, yn gallu estyn bywyd ac iechyd, buasai y chwaer hon etto yn aros gyda ni, yn cyflawni cylch tawel ei dyledswyddau Crist'nogol. Ond rhyngodd bodd i'r Anfeidrol Ddoeth a Daionus, y pryd a'r modd a welodd ef yn oreu, i'w chymmeryd atto ei hun. Ymadawodd â'r fuchedd hon, fel y bu fyw, yn *dawel ac hyderus* yng nghariad ei Thad nefol, ac yn ei addewidion trwy Iesu Grist. Gadawodd hiraeth mawr ar ei hôl: ac yn ddiau y bydd côf yn hir gan y rhai a'i hadwaenent, a chôf tyner a pharchus am dani, fel un ag oedd yn harddwch ac yn fendith yn y teulu, ac yn mhob cymdeithas

lle yr elai. Dydd Gwener canlynol, hebryngwyd yr ymadawedig i Fonwent Capel-y-Pergwm, i'w dodi i orphwys gyda'i theidau. Gorphwys yn yr Arglwydd, i ddeffro wrth sain yr udgorn, pan 'y bydd i'r llygradwy gael gwisgo anllygredigaeth, a'r marwol, anfarwoldeb.' I.

Y Pennillion canlynol a anfonwyd attom oddiwrth gyfaill i'r drengedig.

Sarah anwyl, ti'n gadewaist;
Trwm yw'n galar, trist y tro!
Ffarwel Sarah, ti ddihengaist;
Caled yw dy roi'n y gro.

Gadewaist fam a thad galarus,
'Hedaist at dy nefol Ri:
Planhigin o'et i ardd Paradwys,
Yma'n hwy, nid lle i ti.

Tlws mor hardd! a feiddia'r beddrod
Mewn cadwynau'i gadw 'nghlo?
Trysor Duw, heb un gollyngdod!
Na, nid felly, fe ddaw tro.

Colyn angau gaiff ei dynnu,
Ei gloion ddryllir yn y mân;
A phob deigryn gaiff ei sychu;
Cyfyd Sarah'n iach i'r lân.

'Nawr mae dagrau yn afonydd
Ar hyd gruddiau'i thad a'i mham;
Wedi'n ffrydiant, o lawenydd
Wrth wel'd Sarah heb un nam.

Amser dedwydd, bore hyfryd,
Pan clyw'r Meirw lef Mab Duw!
Brysio wnelo dydd y gwynfyd,
Dydd, cawn weled Sarah'n fyw.

Rieni, brodyr, a chwiorydd,
Galaru'n hwy nid gweddus yw;
Cewch gyfarfod etto'ch gilydd,
Cewch; mae Iesu Grist yn fyw.

E.

GOFYNIADAU, &c,

Mr. Gol.—Dymunaf arnoch roi lle yn eich Cyhoeddiad i'r Gofyniad canlynol; sef *Pa fodd y gellir cyfrif i'r un Duw, iddo* 'GALEDU *calon* PHARAOH, *ac* AGOR *calon* LYDIA?' Neu, pa fodd y gellir cysoni hyny âg uniondeb a chariad cyffredinol? Nid wyf wrth hyn am roddi rhagor o waith i'ch Gohebwyr llafurus a defnyddiol, Philo, O. E., W. J., &c. ond yr wyf yn ostyngedig am gyfeirio y Gofyniad at rai o'r hen Weinidogion Undodaidd. Byddwn yn ddiolchgar am gael rhyw oleuni ganddynt, gan fod y peth yn ymddangos yn dywyll i mi. Y mae yn awr gyfleusdra iddynt, os gwelant fod yn dda.

Yr eiddoch,

Awst, 14, 1848. Eiddil Glyn-nedd.

DYCHYMYG.

Mae teulu mewn ardal, gerllaw i mi mae,
Sef pedwar o rifedi, dim mwy na dim llai;
Perth'nasau tra agos i'w gilydd bob un,
Yn byw yn 'run lletty yn fwyn a chytun:
Wrth ddechreu rhoi hanes, mae yma un gwr,
Un wraig sydd yma cofiwch, lled gymen bid siwr,
Un tad 'rwyf yn ganfod, dwy fam gynnes lon,
Un ferch yn y lletty, ac un mab, sef John,
Dwy gyfnither, merch a mam-ynghyfraith ynghyd,
Ewythr ac or-wyr, os medraf eu cofio i gyd,
Hen-ewythr, a mamgu, ac wyrion, sef dwy,
Nith, a hefyd gweddw, a thyna i chwi hwy.
Chwi ddewr ymofynwyr, gwir uchel eich clod,
Dangoswch pa fodd mae'r berthynas yn bod.

Cwmtawe. G.

ARALL.

A mi ar ryw noswaith yn eistedd mewn gwesty,
Canfyddais ryw wrthrych o'm blaen yn llygadu;
Dir gennyf, ei bleser yw bod gyda'r meddwon,
Yn sylwi ar gastiau a champlau ynfydion;
Fe gyfyd yn forau i ddilyn ei alwad,
Bydd wrthi'n hwyr wedi'n, os caiff ef roes-awiad;
Fe deithia yn gyflym dros foroedd trychionog,
Ac nid yw yn ofni y tonau cynddeiriog;
Pan foddwyd y byd gan ddylif dinystriol,
'Roedd ef yr holl amser yn iach a dihangol;
Fe ddywed dysgedigion na chaiff fyn'd i uffern,
Nad yw ddim yn deilwng i deulu y gethern.
Yn awr 'rwyf yn gofyn it' anwyl ddarllenydd,
Pa beth yw ei enw, (os ydwyt athronydd?)

Llandybie. Ifor Gwalchmai.

BARDDONIAETH.

CWYN Y CLOFF.

Ton.—'*Ieuenctyd Cymru.*'

(Gwel y 'Caniedydd Cymreig,' *gan Mr. J. Thomas,* 'Ieuan Ddu,' *Tud.* 121.)

Chwy-chwi sydd a'ch cliniau yn iach a dianaf,
Cydneswch yn dwymgar gyfeillion mwyn hoff,
I wrando yn astud am ennyd dymunaf,
Tra cenir trwy brofiad i chwi 'Gwyn y Cloff:'
Wrth feddwl a chwilio y testun o ddifri',
Och! Och! y teimladau archollir yn llwyr,
Ac o fewn y fynwes gan wirddwys drueni,
Y galon gariad-lawn sy'n toddi fal cwyr.

Pan gynt yng nghyfeillach cyd-blantos fy mebyd,
A'u llon chwaryddiaethau, fy meddwl oedd drwm;
Wrth wel'd eu hystranciau hoenusawl a hyfryd,
Llym alar a wasgai fy nghalon fal plwm;

Hwynt-hwy oent i'r eithaf yn llawn o
ddigrifwch,
Yn rhedeg a llammu fal wyn ar y ddôl,
Hwynt-hwy oent yn *nofio* mewn mor o
ddedwyddwch,
Tra'r CLOFF bach yn TODDI mewn trist-
wch ar *ol!*

Pan elent ar droion fy hoff gyd-chwareüwyr
I rodio'r glâs-gaëau ar draws ac ar hyd,
Mewn poen y clinherciwn ar *ol* y llu difyr,
A'r *deigryn* yn golchi fy ngrudd lawer
pryd!
Ac weithiau pan fyddem yng nghanol y
goedwig,
Y clywem er dychryn y *Tarw* ger llaw,
Hwy ffoënt yn hwylus *bawb* rhag yr un
ffyrnig,
Tra Mr'n *ol* yn cloffi ar syrthio gan fraw!

O! wele y meibion troedysgawn a hoenus,
A'r gwisgi rianod prydweddol a llón,
Yn brysio i ffeiriau yn llüoedd awyddus,
I'r eithaf yn ddedwydd a llawen eu bron:
Ah! dyna '*Will Hoyw*' yn chwimmwth
fyn'd heibio,
A Gweno ei gariad yn hoff yn ei gôl,—
Mewn gair y leuenctyd oll, ynt yn fy ngado
I gloffi'n alarus ym mhell ar eu *hol!*

Pwy! Pwy! ond yr hwn sydd ei *hun yn
brofiadol*,
Eill ddirnad, y lludded a deimlaf yr Haf,
Nis gallaf fyth draethu fy hun mor gys-
tuddiol
Yr wyf, gan y drafferth i gerdded a gâf;
Pan bo'r sawl sy'n berchen ar gliniau cryf
iachus
Yn heini fyn'd heibio'n ddisylw mewn
brys—
Pan heibio'r a'r Bonedd mewn Cerbyd
trwsiadus,
Ar *ol* yn llesg gloffi rwyf Fi'n lluwch a
chwys!

Ond, O! fy ngyfeillion yn nhymmor y
Gaüaf,
Fy enaid sy'n griddfan mewn galar bob
dydd,
Mae 'nghorff a fy meddwl dan boenau o'r
trymmaf,
Pan welaf chwi frodyr yn rhodio mor
rhydd:
Os allan ar Dymhestl chwerw anturiaf,
A'r rhew-wynt yn rhuo yn chwyrngroch
ei gri,
Yng nghanol yr eira a'r cenllysg echrysaf,
Ar *ol ym mron* FFERU *yn cloffi rwyf* FI!

Heblaw bod dan boenus gorfforol anffurfiad,
Aneirif bleserau a gollaf trwy f'oes,—
I ffair, neu i farchnad, neu ynte Addoliad,
Yn *olaf* gan gloffi rwyf FI er fy loes:
Beth bynnag a fyddo'r peryglon a'r angen,
P'un bynnag ai tawel ai garw bo'r hin;
Myfi ydwyf beunydd yn ail i *Falwoden*,
Ar ol pawb yn cloffi a 'nghalon yn flin!

Gofynaf yn sobr yn awr wrth ddibenu,
I bawb o chwi yma wrandawyr mwyn
hoff,
Pagalon o honoch nad yw braidd yn gwaedu,
Pan welo'n clinhercian rhyw gydfrawd
yn GLOFF?
Wyr disgloff diolchwch o'ch calon i'r Ar-
glwydd—
Yn daer eich gweddiau ar Dduw byddwch
chwi,
Na fo'ch trwy fawr Gloffni ac Analluog-
rwydd,
Yn colli cysuron *dirif* fal *Myfi!*

Er colli cysüron, er colli pleserau,
Er bod dan law HENAINT *ym mlodau fy
oes!*
Er goddef yn fynych annrhaethol arteithiau,
Ymwared tra yma i mi fyth nid oes!
Ond ar ol myn'd trwodd oer ingoedd yr
Angau,
A bwrw fy lludded mewn beddrod oer du,
Cyfodaf yn iachus, â *Nerthol hardd Gliniau*,
Mor DDISGLOFF ag undyn, trwy gariad
lôn cu!

Aberdâr. GWENYNEN FRYTANAIDD.

Y MARCHNADOEDD.

LLUNDAIN.	s.	s.			
			Teg ..	..	0 . 22
Gwenith coch	45 i 54		Poland	..	18 . 22
Teg.. ..	0 . 0		Cloron	..	19 . 22
Gwyn ..	46 . 61		CAERFYRDDIN.		
Teg.. ..	0 . 0		Gwenith ..		7 0 i 7 6
Blawd, sach	42 . 53		Haidd	..	3 9 . 4 0
Haidd ..	26 . 30		Ceirch	..	2 0 . 2 4
Bragu ..	0 . 30		Caws, pwys		0 3 . 0 4
Brag	54 . 56		Ymenyn	..	0 8 . 0 9
Llwyd ..	54 . 60		Cloron	..	0 0 . 0 1
Rhyg	27 . 30		Cig Eidion		0 5 . 0 6
Pys, moch ..	0 . 0		Maharen..		0 5 . 0 7
Maple ..	33 . 37		Llo..	..	0 5 . 0 6
Berwi ..	36 . 37		Moch	..	0 5 . 0 7
Ffa, Ticks ..	29 . 31		Twrciaid	..	0 0 . 0 0
Colomen ..	33 . 35		Gwyddau ..		0 0 . 0 0
Harrow ..	31 . 34		Hwyaid	..	1 3 . 1 9
Ceirch ..	15 . 17		Ieir ..	..	0 9 . 1 0

CAERFYRDDIN: argraffwyd gan J. T. JONES, yn ei Argraff-dy cyffredinol, yn yr Heol-Las, Plwyf Sant Pedr. Awst, 1848.

YR YMOFYNYDD.

'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.'—PAUL.

Nid ydym yn attebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr.—GOL.

YCHYDIG LINELLAU YCHWANEGOL O BARTH COLEGAU A MYFYRWYR, A CHOLEG CAERFYRDDIN.

Tros Tyriusque mihi nullo discrimine agetur.—VIRGIL.

SYR:—Barnwyf eich bod yn hepian, neu mewn rhyw frys mawr, pan oedd y 'Llinellau Coffadwriaethol,'* (tud. 290,) dan eich ystyriaeth; onite buasech i geisio gan yr awdwr i'w hadgyweirio cyn eu rhoddi i'r cyhoedd. Y mae sylwadau Mr. D. L. E., o barth cymhwysderau a dyledswyddau athrawon coleg yn burion, a'u cymeryd yn gyffredinol; ond y drwg yw,—dichon na freuddwyd'soch chwi am hyny,—bod eu cyssylltiad yn rhoddi math o neilldduolrwydd iddynt. Pell wyf fi o feddwl mor angharedig am yr ysgrifenydd a chredu mai y peth oedd yn ei fwriad oedd ymosod ar ei hen athraw yn y coleg. Tra yn llettya y meddwl hwn, yr wyf yn rhwym o addef ei fod wedi clytio ei sylwadau ynghyd yn anhappus iawn. Y maent yn agored i gael eu cam-gyfleu, ac yn dueddol i wneuthur cam âg un o brif athrawon y coleg, Mr. Lloyd; ond yn unig gyda'r rhai nad ydynt yn ei adnabod. Y maent, ar yr un olwg, yn gwneyd cam â'u hawdwr, ac yn ei osod mewn golwg anffafriol gyda'r darllenwyr cyffredin, fel pe bai yn ergydio o bell, a thrwy gwmwl. Modd bynag, dylasai, er ei fwyn ei hun, ac er mwyn y coleg a'r athrawon, ddweyd rhagor neu ynte ddweyd llai.

Yr oedd yn naturiol — feallai yn anocheladwy—i'r ysgrifenydd, wrth geisio darlunio nodweddiad ei gyfaill ymadawedig, i olrain priodoleddau y nodweddiad hwnw ag oeddent yn aros yn fwyaf bywiog ar ei gof; ac, nid yn lleiaf, yr ymddangosiadau o honynt a ddaethant dan ei sylw, pan oeddent

* Y mae rhai cyfeillion wedi achwyn wrthym am yr esgeulusdod uchod, gan feio arnom a nodi ein anghyssondeb yn wyneb ein 'penderfyniad, *os gallwn*, i beidio bod yn offerynol i ddolurio teimladau neb personau yn ddiachos.' Nid y'm ar fedr esgusodi ein hunain: gwell yw cydnabod y bai, a cheisio ei ochelyd o hyn allan. Ond rhaid gwneud cyfiawnder â'n hunain yn gystal ag eraill. Yr ydym yn mhell o gymmeradwyo pob peth yn y 'Llinellau,' a'r gwirionedd yw, na chawsom gyfle i'w darllen drwyddynt, fel yr arferwn, yn bwyllog. Pan y daethant i'n llaw, yr oedd yr amser i anfon yr hyn oedd gennym i'r wasg wedi dyfod i ben, a ninnau, y mae'n debyg, yn ymddiried gormod yng *nghallineb* ein gohebydd. Gyda golwg i iawnhau y cam y mae yn dda gennym osod ger bron ein darllenwyr sylwadau 'Hen Fyfyriwr,' a 'W. A. J.' ar gynnwysiad y 'Llinellau.' Bydded ein gohebwyr mor dda a danfon eu gohebiaethau attom yn *brydlawn*, fel y gallom wneud cyfiawnder â'n darllenwyr, ac â ni ein hunain.—GOL.

yn gyd-fyfyrwyr yn yr athrofa. Ond os mynai gyffwrdd â phethau '*personol*, dylasai roddi y naill ochr i'r ddalen fel y llall. Crefaf gennad i lenwi rhai o'r diffygiadau. 'Gobeithio nad oes eisiau i mi i ddweyd fy mod yn teimlo parch i'r gwirionedd,' 'ac nad wyf ar fedr gwenieithio i Mr. Ll., na neb arall, ar gost cyfiawnder.'

Mewn colegau, fel mewn teuluoedd, y mae achosion weithiau yn cyfodi ag sy'n arwain i anghyttundeb. Y mae yn gofyn mwy o bwyll a doethineb nag sy'n digwydd i'r rhan fwyaf o ddynion i ochelyd, neu symud yn llwyr, yr achosion hyn. Y mae gwahaniaeth tymherau naturiol, yn aml, yn gwneud yr amgylchiad yn fwy profedigaethus. Lle mae anghyttundeb o'r fath natur wedi bod rhwng athraw a myfyriwr ys 14 mlynedd yn ol, pwy fedr gael allan pa faint o'r bai oedd ar y naill neu ar y llall, pe bai hyny o ryw bwys i wybod yn awr? Y mae Llinellau Mr. D. L. E. yn rhoi lle i gasglu ei fod ef, mewn rhyw fesur, yn cyfranogi yn yr anghyttundeb a gyfeiria atto. O ganlyniad, *nis gallaf dderbyn ei farn ef* ar y matter fel yn *gwbl ddiduedd.*

Oherwydd yr un rheswm y mae yn anhappus yn ei waith yn amneidio fod 'yr athraw yn *ochro* i rai yn fwy na'u gilydd, ac yn gwneyd *pets.*' Ni fuasai yr ysgrifenydd hwn yn galw enw mor fach, ('*pets,*') ar y rhai oeddent mewn parch neillduol gan yr athraw, oni bai *nad oedd ef ei hun o nifer y cyfryw.* Ac ni fuaswn innau yn priodoli yr amnaid i ddim arall ond i ryw weddill o'r duedd 'gynfigennus' a gyfrifa ef i 'fyfyrwyr athrofa,' oni bai ei fod yn ychwanegu yn y linell ganlynol, 'Nad all athraw lai na theimlo parch i rai o'r myfyrwyr yn fwy na'u gilydd,' oherwydd rhagoriaethau a enwa, 'ond y dylai gadw y teimlad hwn iddo ei hun.'

Y mae yn debygol iawn fod Mr. D. L. E. yn deall tymer ei gyfaill ymdawedig yn well nag y gallai yr athraw: ac y mae yn bosibl ddigon y buasai ffordd o fwynach nag a ddefnyddiwyd i lwyddo yn well gydag un o dymher Mr. T. E. Ond rhaid cofio ei fod yn beth pur anhawdd i ddyn o *brofiad,* chwaithach i athraw ieuanc, 'i wneud ei hun yn bob peth i bawb;' a bod penderfynoldeb i gynnal trefn a dysgyblaeth mor angenrheidiol wrth drin myfyrwyr ag yw caruaeiddwch, a gallu a pharodrwydd i roddi addysg.

Y mae cymeriad Mr. Lloyd, fel ysgolhaig da, a gwr bonheddig caruaidd a serchog, yn ddigon adnabyddus. Nid yw yn gofyn amddiffyniad; ac nid yw yn un diraddiad iddo i gydnabod (fel yr wyf yn sicr y cydnebydd yn rhwydd), ei fod yn awr yn meddu ar fwy o brofiad a gwybodaeth o'r natur ddynol nag oedd, pan, yn ddyn ieuanc, y dechreuai ei swydd athrawol yn y coleg.

Er mwyn *myfyrwyr* yn benaf, y crefaf gennad i wneud y sylwadau canlynol:—Y mae appwyntiad dyn ieuanc, gan nad pa mor ddysgedig a llafurus y bydd, i fod yn athraw coleg, wedi bod lawer gwaith yn faen-tramgwydd i fyfyrwyr ac i eraill, fel y tystia hanes athrofaäu yr Ymneilluwyr. Ond y mae yr un hanes, ac y mae rheswm hefyd, a phrofiad, yn dysgu fod *egni a bywiogrwydd athraw ieuanc,* yn enwedig os byddant wedi eu tymheru â gradd o bwyll a charueiddwch, o *fantais anghydmarol i fyfyrwyr.* Nid oes un amheuaeth fod y coleg, oddiar pan y mae dan ofal Mr. Lloyd a Mr. Davis, wedi dwyn i fynu ysgolheigion rhagorol dda; ond, os nad wy'n camsynied, ni ddaeth allan un *class* o fyfyrwyr a wnaethant, ar y cyfan, fwy o gynnydd yn yr amser na'r rhai a enwa Mr. D. L. E. yn nechreu ei 'Linellau,' ac yr amneidia y byddai ymddygiad gwahanol tuag attynt yn 'fwy llwyddiannus i ennill eu serch a'u hufydd-dod.' Yr wyf yn meddwl yr addefa Mr. D. L. E. hyny.

Ni fuaswn, Syr, yn eich blino â'r llinellau ychwanegol yma, oni bai fy mod yn ystyried fod tegwch yn galw am danynt. Nid wyf yn disgwyl cael un tâl gan Mr. Ll. am hyn o waith. Feallai yr anfoddlona am fy mod mor eofn arno a chymeryd ei enw da mewn llaw. Pa fodd bynag, y mae personau a sefydliadau cyhoeddus yn perthyn i'r cyhoedd, Y mae yn rhydd i'r cyhoedd i sylwi a barnu ar eu cymeriadau a'u gweithredoedd. Ond y mae lles y cyhoedd, yn gystal a chyfiawnder yn gofyn, i beidio gadael pethau mor bwysig dan un mesur o gamddarluniad, gan nad pa mor ddifwriad y gwnawd; eithr dylid cymeryd y cyfleusdra cyntaf i'w symud neu ei ddiwygio.

Dymunaf lwyddiant i Mr. Lloyd, a pharhad bywyd a iechyd iddo, i gyflawni ei swydd bwysfawr a defnyddiol, hyd nes elo yn rhy hen i hyny. Teimlwyf yr un modd tuag at ei gyd-athrawon. Credwyf eu bod yn golygu lles a chynnydd y dynion ieuainc sydd dan eu gofal, a lles crefydd yn Nghymru; ac yn enwedig gweinidog parchus y Pant-teg.

Crefaf eich cennad yn mhellach i ddweyd gair neu ddau o barth y drefn, neu y *cylch o addysgiaeth sy'n bresennol yn y coleg.* Awgryma Mr. D. L. E. fod yr un diffyg yno yn awr ag oedd yn ei amser ef, sef nad oes digon o amser yn cael ei roi at *gyfansoddi darlithiau* yn *Saesonaeg* ac yn *Gymraeg.* Yn awr, dylasai edrych i mewn a chwilio a ydyw y peth felly, cyn bwrw atto o hirbell, ac mewn hanner geiriau. Y mae yn *ffaith* bod cyfansoddi yn Saesonaeg o fewn cylch yr addysgiaeth yno. Y mae yn *ffaith* hefyd bod yr athrawon yn eithaf cymmwys a galluog i roi hyfforddiad at hyny. Cyfansoddi yn Gymraeg, yn wir, nid yw yn rwymedig; ac ni ddylai fod, o leiaf, ar bawb. Rhai o'r dynion ieuainc a ddygir i fynu gyda golwg i weinidogaethu yn mhlith y Saeson. Gwyr pawb ag sy'n adnabod Mr. Davis, y byddai efe yn ddigon parod, fel y mae yn ddigon galluog, i roi cyfarwyddyd i'r sawl a fynant gyfansoddi Cymraeg.

Oddiwrth ba beth y tyn Mr. D. L. E. y casgliad nad oes fawr amser yno i roi nac i Gymraeg na Saesoneg? Dywed ef mai oddiwrth 'weled fod cymaint o heiyrn gan yr athrofa yn tan ar yr un pryd.' Casgliad go fyrbwyll, tybiaf fi. Nid yw ein casgliedydd yn hyspysu pa ganghenau dysgeidiaeth ellid yn oreu eu hebcor. Ond gofyna, 'A fyddai ddim yn fwy buddiol i'r myfyrwyr gael athraw cadeiriol Cymraeg a Saesonaeg yn yr athrofa nac un Ffrancaeg a Allmaenaeg?' Yr wyf wedi atteb y gofyniad eisioes mewn rhan. Yn lle attebiad mwy cyflawn, cymerer y *ffeithiau* canlynol:—

1. Bydd deall yr Allmaenaeg o ddefnydd mawr i weinidog diwyd ymofyngar, er ei alluogi i ddarllen gweithion dysgedig duwinyddion Germany.

2. Y mae pob myfyriwr yn y coleg yn cael *ei ddewis,* pa un ai i ddysgu yr ieithoedd hyn, neu i beidio.

3. Y mae dysgu un neu'r llall o honynt yn anhepcorol i'r rhai sy'n bwriadu graddoli yn y brif-athrofa yn Llundain.

4. Y mae cylch yr addysgiad yn awr yn estyn *dros bum mlynedd,* yn lle pedair, fel o'r blaen.

5. Yn ddiweddaf, nid oes amheuaeth fod Cymru dan ddyled mawr i'r *Presbyterian Board,* am eu hymdrechiadau haelionus i ychwanegu at fanteision dysgeidiaeth yn Nghaerfyrddin. Byddai yn anhawdd dirnad pa amcan oddigerth gwneuthur daioni allai fod yn ngolwg y boneddigion sy'n llywodraethu yn y *Board*; ac oherwydd hyny, nid allaf lai na chredu y gwrandawent yn bwyllog ar un cynghor neu reswm da a roddai Mr. D. L. E., neu arall, er gwneyd addysgiad yn y coleg yn fwy effeithiol, neu yn fwy buddiol i'r cyffredin.

Hwyrach fod y darllenydd cyffredin wedi blino eisioes arnaf: a rhaid i mi yn awr derfynu. O barthed i ysgrifenydd y 'Llinellau Coffadwriaethol,' nid yw ond teg i sylwi, ei fod yn dynoethi gwendidau ag oeddent yn perthyn *iddo ei hun* ac i'w *gyfaill*, yn gystal a'r diffygion a dybia ef eu bod y *pryd hyny* yn nglyn â'r coleg a'i hathrawon. Bellach, gadawaf ef, i gnoi ei gil ar y sylwadau uchod. Bydded i awdurdodau y coleg hefyd i ystyried fod llygad y cyhoedd arnynt. A byddwch chwithau, Syr, yn fwy gofalus, na roddoch i'r wasg o hyn i maes, heb achos da a dwys ystyriaeth, y fath ymosod ag sydd yn y 'Llinellau,' ar bersonau a sefyliadau cyhoeddus ag ydynt yn haeddu yn dda ar law ein gwlad a'n cenedl,

HEN FYFYRIWR.

Y COLEG YNG NGHAERFYRDDIN.

MR. GOL.—Y mae yn flin iawn gennyf fod teimlad o ddyledswydd yn galw arnaf i ddeisyf lle yn eich Cyhoeddiad i ychydig sylwadau ar rai pethau neillduol yn y 'Llinellau Coffadwriaethol' a gawsant ymddangos yn eich Rhifyn diweddaf. Bydd eich darllenwyr, 'rwy'n meddwl, i gyttuno â mi, y gallai eich Gohebydd ddewis amser mwy cymmwys idd ei gyfeiriad angharuaidd at bersonau, ac achlysur mwy cyfaddas idd ei ymosodiad anweddus ar sefydliad lle y cafodd ei ddwyn i fynu. Nid y *bedd* o un man, yw y lle i adfywio teimladau angharuaidd, nac i grafu ulw hen ymrafaelion a ddylent fod mewn angliof erys llawer dydd. Os oes gan eich Gohebydd, fel y gellid casglu oddiwrth dôn ei ysgrifen, ryw gam personol i achwyn am dano, byddai yn fwy tebyg i wr, yn fwy caredig tuag at ei gyfaill ymadawedig, ac yn fwy cyfiawn tuag at y cyhuddedig, pe byddai i wneud adroddiad o'r cam a gafodd ar ei ben ei hun. Ac hyd yn nôd pe gwnaethai hynny, barnaf na fuasai yn destun cymmwys i'w drafod yn yr YMOFYNYDD. Ffordd annoeth o ddangos parch i goffadwriaeth y *marw*, oedd galw am fanol chwiliad i mewn idd ei gymeriad, trwy haeriadau ac awgrymiadau anffafriol i gymeriad y *byw*. Ond, boed tangnefedd i'r marw! Gochelwn wneud y cam o gysylltu eu 'coffadwriaeth' a dim a fyddo yn angharedig yn ein teimlad ni.

Deuaf, yn awr, at fy mhrif amcan yn ysgrifenu. Yr hyn yw, i hysbysu yn bendant fy mod yn llwyr anghyttuno â'r adroddiad ac â'r awgrymiadau a wna Mr. Evans mewn perthynas âg un o'r athrawon yng Nghaerfyrddin. Yn ddiammau bod Mr. E. yn credu fod yr hyn a adrodda yn wir. Nid ydym mewn un modd yn galw mewn cwestiwn ei eir-wiredd. Ond, 'yn teimlo parch i'r gwirionedd' dim llai nag yntau, yr wyf yn ei theimlo yn ddyledswydd heb betrusder i gyhoeddi, fy mod yn ystyried nad oes un gwir sail idd ei olygiadau ef ar y matter, ac nad yw ei awgrymiadau yn gyfiawn.

Fod yr athraw 'yn teimlo parch i rai o'r myfyrwyr yn fwy nâ'u gilydd' o herwydd rhesymau mae Mr. E. ei hun yn addef ei bod yn ddigonol, oedd yn beth naturiol iawn, ac y mae yn ddigon gwir. Pan y dywed Mr. E. 'y dylai'r Athraw beidio "ochro" i neb yn y rhês (class) yn fwy nâ'u gilydd, ac yn enwedig gochelyd gwneyd "pets,"' y mae yn awgrymu, os nad yn rhoddi ar ddeall yn eglur, nad oedd yr athraw, yn ei amser ef, yn dangos ei anfoddlonrwydd, mewn achos o anufydd-dod neu esgeulusder, i'r

neb a droseddai, yn ddiwahaniaeth;—y byddai i *bassio* heibio mewn un yr hyn a gospai mewn arall.

Yn awr, nid wyf yn llefaru ond am yr hyn a welais: yr wyf yn dywedyd gyda phwyll, na wnawd hynny ar un achlysur a allaf fi gofio. Nid wyf yn cynnyg ac ni ddymunwn ymddangos chwaith, fy mod yn amddiffyn pob peth a ddywedwyd ac a wnawd yn y Rhes-ystafell (class room.) Y mae yn wir am athrawon fel am fyfyrwyr:—'nid yw'r gwaethaf heb ryw rinwedd, na'r goreu heb ryw fai.' A byddai yr athraw a gyfeirir atto gyda'r diweddaf i honni ei fod ef yn rhydd oddiwrth ffaeleddau fel dyn, neu amherfleithiau fel dysgawdwr. Ond gadawer i'r rhai hynny farnu ag sy'n gwybod trwy brofiad beth yw'r anhawsderau sy'n perthyn i'r swydd; a bydded i'r rhai sydd yn barnu, beidio anghofio y 'cariad ag ni feddwl ddrwg.'

Mewn perthynas i'r hyn a gyfeiria Mr. E. at y drefn ar ddysgeidiaeth (course of study) a bennodid i ni yn y Coleg, yr unig sylw a wnaf yw hyn. Tra yr wyf yn cyttuno yn berffaith ag ef, y buasai yn llawer gwell pe gwnaed i ni 'gyfrann mwy o'n hamser at ddysgu cyfansoddi,' nid wyf yn gwybod y gallem—neb o honom yn dda—hebcor y wybodaeth a gawsom oddiwrth ganghenau eraill o'n haddysgiaeth. A bod yn sicr, ni ellid cyfiawnhau neb o honom am roddi y sylw a'r amser hynny at y 'Prydyddion Seisnig' ag oedd Rheolau yr Athrofa yn gofyn eu rhoddi at fyfyrdodau mwy caled. Heblaw, nid yw ond teg tuag at yr Athrawon i'ch darllenwyr gael gwybod mai nid ar Athrawon y Coleg y mae penderfynu y drefn ar ddysgeidiaeth; ond ar y *Trustees*. Os dymuna Mr. E. gael rhyw gyfnewid ar y drefn, a'i gwneud yn fwy cysson â'r hyn a dybia ef yn gymmwys, byddai yn fwy doeth yneddo i fynegi yr hyn sydd ar ei feddwl i'r *Trustees*, yn lle beio ar yr Athrawon.

Un gair yn ychwaneg, mewn perthynas i gyrhaeddiadau y Myfyrwyr, ac yna yr wy'n darfod. Y mae Mr. E. yn addef 'nas gwyr pa fodd y mae yno yn awr'; er hynny, ya ddi-ystyriaeth y mae yn 'tebyg' ac yn casglu 'fod cyrhaeddiadau y myfyrwyr o anghenreidrwydd yn lled arwynebol, &c. &c.

Gadawaf i'ch darllenwyr farnu, a ydyw hyn yn gysson â theimlad da ac â chyfiawnder?

Northampton Medi 7, 1848. W. A. J.

RAMMOHUN ROY.

Mr Gol.:—Y mae yn dra thebygol fod y rhan fwyaf o'ch darllenwyr uniaith yn anhysbys o'r person nodedig uchod; ac y byddai ychydig o'i hanes yn dra dyddorgar iddynt. Yr ydoedd ei radd yn mhlith ei gydwladwyr, ei ddysgeidiaeth a'i wybodaeth helaeth, ei yspryd diduedd ac anmhleidgar, ei ymchwil diflino am y gwirioneedd, a'i goffeidiad o Grist'nogaeth, ei wrthwynebiad i'r athrawiaeth Drindodaidd, ynghyd â'i ddadleuon yn ei herbyn gyda'r Cenhadon yn yr India, yn cyfansoddi rhai o brif hynodion ei fywyd. Rammohun Roy a anwyd yn y flwyddyn 1780, yn Nhalaeth Bengal, yn yr India Ddwyreiniol. Derbyniodd elfenau cyntaf dysgeidiaeth dan y gronglwyd dadol, lle y cyrhaeddodd hefyd i wybodaeth o'r iaith Bersiaidd; wedi hyn anfonwyd ef i Patria i ddysgu'r Arabaeg, ac yma, trwy gyfrwng cyfieithadau Arabaidd, o Aristotle ac Euclid, yr astudiodd resymeg a'r celfyddydau. Wedi gorphen yr efrydion hyn aeth i Calcutta i ddysgu'r Sanscrit, iaith

gyssegredig yr ysgrythyrau Hindooaidd, gwybodaeth o ba un ydoedd angenrheidiol i'w urdd a'i broffes fel Brahmin. Yn fuan ar ol marwolaeth ei dad, ymsefydlodd yn Mourshedabad, lle y trigasai ei hynafiaid, ac yma y dechreuodd ei yrfa awdurol, trwy gyhoeddi gwaith yn y Bersiaeg, gyda rhagymadrodd yn yr Arabaeg, yr hwn a alwodd—'Yn erbyn eilunaddoliaeth yr holl grefyddau': Y rhyddid a pha un y sylwodd ar gyfundraethau y Mahometaniaid a'r Hindooaid, a barodd gryn dramgwydd iddynt, ac a gynhyrfodd elyniaeth llawer o honynt yn ei erbyn. Oddeutu y pryd hyn y dechreuodd efrydu yr iaith Saesoneg, gyda'r fath ddyfalwch ag a'i galluogodd i'w llefaru a'i hysgrifenu, gyda gradd helaeth o rwyddineb, cywirdeb, a thlysni. Ar ol hyn efe a astudiodd yr ieithoedd Lladin, Groeg, a Hebraeg: o'i wybodaeth o'r ddwy olaf y mae wedi rhoddi prawf amlwg yn ei weithiau cyhoeddedig. Oddiwrth ei waith cyntaf, y mae yn amlwg ei fod tra yn ieuangc wedi ei arwain i ystyried gydag anfoddlonrwydd yr eilunaddolaeth lygredig a gofleidid gan ei gydwladwyr nes peri iddo wneuthur pob ymdrech i'w deffro o'u breuddwyd cyfeilhornus, a thrwy wneuthur yr Ysgrythyrau yn hyspys iddynt, eu galluogi i synied gyda gwir barch am Undod a Hollbresenoldeb Duw yr holl ddaear. Yr ydoedd y sectau Hindooaidd wedi ymadael mewn ymarferiad oddiwrth eu Hysgrythyrau eu hunain; yr hyn a barodd iddo gyhoeddi rhanau helaeth o honynt. Credai eu bod yn dysgu Duwiaeth bur, yr hon a fyntumiai fodoliaeth yr unig wir Dduw, anfeidrol yn ei briodoliaethau, a'i dragywyddoldeb yn gyfatebol; a'i bod yn gofyn oddiwrth ei phroffeswyr wasanaeth y meddwl yn hytrach na'r corph, yn ddilynedig â bywyd rhinweddol a theilwng. Gyda golwg ar ei ymdrechion hyn y dywedai, 'Taer weddiwyf ar i'r cyfan fod yn effeithiol, yn fuan neu hwyr, i gynnyrchu yn meddyliau yr Hindooaid yn gyffredinol, argyhoeddiad o resymoldeb y grediniaeth yn y Bod Goruchaf, a'i addoli ef yn unig, yn nghyd a gwybodaeth gyflawn o'r egwyddor foesol, gynnwysfawr, ac arderchog hono, "Gwnewch i eraill megys y dymunech i eraill wneuthur i chwithau."' Cafodd y boddhad o weled ffrwyth ei lafur yn nychweliad llawer o'i gydwladwyr. Ei olygiadau rhyddfrydig, a'i yspryd hawddgar a chrefyddol, a'i cymhwysodd i roddi ymchwil ddiduedd i'r datguddiad Cristionogol. Oddiar ddarlleniad o'r Testament Newydd yn ei 'ymchwiliadau maith a diorphwys i wirionedd crefyddol,' canfyddodd, meddai, 'fod athrawiaethau Crist yn fwy ffafriol i egwyddorion moesol, ac yn addasach i greaduriaid rhesymol nag unrhyw y gwyddai am danynt.'

Yr ydoedd athrawiaeth y Drindod, modd bynag, yn ymddangos mor wrthwynebol i'w feddwl ag aml-dduwiaeth yr Hindooaid, ac yr ydoedd yn rhwystr anorfod i'w ddychweliad at Grist'nogaeth, gan fod y Crist'nogion yr ymddyddanai â hwynt yn ei chredu. Ond gan fod y gyfundraeth yn cymmeradwyo ei hunan iddo mewn pethau eraill—i ei reswm a'i dduwioldeb—nis gadawai ei anmhleidgarwch iddo ei gwrthod ar unwaith, oherwydd yr anhawsder hwn yn unig. Penderfynodd gan hyny i chwilio yr Ysgrythyrau Iuddewig a Christ'nogol yn fanol yn eu hieithoedd gwreiddiol; a'r canlyniad ydoedd argyhoeddiad trwyadl nad ydoedd athrawiaeth y Drindod yn cael ei chymell ynddynt, a bod y grefydd Grist'nogol yn wirioneddol a dwyfol. Wedi dyfod yn Gristion, oddiar argyhoeddiad rhesymol a phwyllog, efe a brysurodd i roddi o flaen ei gydwladwyr y fath amlygiad o'r Testament Newydd a dybiai yn fwy cymhwys er argyhoeddi eu meddyliau o ragoroldeb y grefydd a gynnwysai, a'u dwyn i gyfranogi o'i hyspryd pur a syml. I'r dyben yma cyhoeddodd lyfryn dan yr enw 'Rheolau'r Iesu, y Cyfarwyddwr i Heddwch a

Dedwyddwch.' Cyfansoddid ef o ymddiddanion moesol yr Iachawdwr yn unig yn nghyd â rhagdraeth ganddo ef ei hunan, yn cynnwys ei resymau dros adael allan yr adroddiadau athrawiaethol, hanesyddol, a gwyrthiol a gynnwysid yn yr Efengylau. Gwnawd sylwadau ar y llyfryn gan Genhadon y Bedyddwyr yn yr India, a galwent gyfansoddydd y 'Rheolau' yn 'Bagan deallus, yr hwn y mae ei feddwl hyd yn hyn yn hollol wrthwynebol i ddyben arbenig ymgnawdoliad yr Iachawdwr.' Yn ei ateb cyntaf i'r Cenhadon, yr hwn a alwodd 'Appeliad at y Wladwriaeth Grist'nogol, mewn amddiffyniad i "Reolau'r Iesu," gan Gyfaill i'r Gwirionedd.' Beia yn llym y cymhwysiad o'r gair 'Pagan' ato ei hunan, yr hyn a ystyriai yn drosedd o wirionedd a chariad. I'r hyn yr atebai y Cenhadwr, (Dr. Marshman,) 'Eu bod hwy yn perthyn i'r dosparth hwnw o Grist'nogion a farnant nas gallai neb fod yn wir Gristion heb gredu yn Nuwdod ac Iawn Crist, ynghyd â dwyfol awdurdod yr holl ysgrythyrau Crist'nogol.' Addefai, modd bynag, nad ydoedd yn cymhwyso'r gair mewn un ystyr cenfigenus. Oddiwrth hyn y dechreuodd y ddadl rhyngddo â'r Cenhadon, ac y cyhoeddodd ddau Appeliad pellach, mewn atebion i'w dadleuon o blaid y Drindod, Duwdod Crist, Iawn i Gyfiawnder, &c. Y mae y traethodau hyn yn arddangosiadol o graffder a chyflymdra deall anghyffredin, o ymresymiad tawel a boneddigaidd, o ddysgeidiaeth helaeth, a chariad cryf at wirionedd. Oddeutu y flwyddyn 1832 ymwelodd â Lloegr. Cafodd ei siomi yn fawr yn ei ddisgwyliadau o barth dylanwad Crist'nogaeth yn Mrydain. Dywedai fod y dospeirth canlynol yn dra lliosog yn ein plith: —1. Y rhai a ymlynant mor ddallbleidiol wrth bynciau neillduol eu ffydd, neu ffurfiau addoliad, nes eu annhueddu i edrych tuhwnt iddynt eu hunain, ac i ystyried megys gau-grefyddwyr bawb o'r tuallan i derfynau eu ffydd, neu eu ffurfiau hwy. 2. Y rhai a wyddent ond ychydig am Grist'nogaeth, ac a ofalent lai am dani fel goruchwyliaeth ddwyfol, er hyny heb fod yn llai eu gofal na'r credinwyr mwyaf dallbleidiol i gynnal yr eglwys, yn unig fel rhan o beiriant y llywodraeth. Yr ydoedd ei deimladau crefyddol yn gryfion a bywiog; teimlai yn ofidus o herwydd cam-ymddygiad Crist'nogion yn gyffredinol. Ar y 18ed o fis Medi, 1833, cymmerwyd ef yn glaf o'r dwymyn, tra yn aros yn agos i Gaerodor, a bu farw ar y 27ain o'r un mis.

Yn mhlith ei gymdeithion olaf yr ydoedd Mr. John Foster, y Bedyddiwr, ac awdwr amryw draethodau rhagorol. Ni chyflawnwyd unrhyw ddefod yn ei angladd, ar ei ddymuniad eu hunan; yr ydoedd difrifwch anghyffredin yn ei ddilyn. Dr. Carpenter, ar yr achlysur, a ddywedai wrth Mr. Foster, 'Buasai yn dda gan rai, efallai, pe talesid rhyw deyrnged i goffadwriaeth y gwr enwog hwn.' Atebai Mr. F., 'Pwy a feiddiai lefaru uwchben bedd o'r fath hyn?' Hysbysai Mr. F. ei argyhoeddiad o grediniaeth Rammohun Roy yn y Grefydd Grist'nogol, yn nghyd a'i deimlad dwfn o'i nodweddiad Crist'nogol. Ni chynnwys yr hanes uchod ond braslun anmherffaith o lafur ac ymdrechion y gwladgarwr a'r Cristion enwog hwn.

Llynlleifiad. J. W.

DWYFOL YSBRYDOLIAETH YR YSGRYTHYRAU.

Parhad o Tudal. 294.

II. Fod sylwedd yr Ysgrythyrau oll wedi deilliaw o ddwyfol Ysbrydoliaeth, ond mai ciddo yr ysgrifenwyr eu hunain yw y iaith.

Oherwydd tystiolaeth Paul am danynt yn ei ail lythyr at Timothy, Pen. 3. adn. 16. 'Yr holl ysgrythur sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac *sydd* fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder.'

Y mae y gair *sydd* mewn llythyrenau Italaidd yn dangos nad oes gair cyferbyniol iddo yn y Groeg. Barnaf fod y cyfieithiad canlynol yn fwy cywir:—'Pob ysgrythyr ysbrydoledig *sydd* fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddiad, i iawnhâd, i hyfforddiad mewn cyfiawnder.'*

Pwy ysgrythyr? Yr wyf yn atteb mai ysgrythyrau yr Hen Destament oedd yn meddwl yr Apostol; yn y rhai hyn yr addysgwyd Timothy er yn fachgen; oblegid os yn y flwyddyn 64 o oed Christ yr ysgrifenwyd yr Epistol hwn, fel y barna Lardner, nid oedd dim o'r Testament Newydd wedi ei ysgrifenu y pryd hwnw ond saith o Epistolau Paul; am hyny rhaid mai ysgrythyrau yr Hen Destament sydd i feddwl.

Etto, A ydyw yr Apostol yn meddwl yr holl ysgrythyrau Iuddewig neu ynte ryw ranau o honynt? Yr wyf o'r farn mai at y rhanau prophwydoliaethol o honynt y cyfeiria yn benaf,§ oherwydd (1) efe a ddywed eu bod hwy yn 'fuddiol i athrawiaeth,' sef athrawiaeth am y Messiah, hyny yw, yn fuddiol i roddi gwybod am ddyfodiad y Messiah, am ei nodweddiad, am egwyddorion ei ddysgeidiaeth a natur ei deyrnas. 2. Yn 'fuddiol i argyhoeddiad,' neu y gallent gynnysgaethu 'gwr Duw' neu bregethwr Christnogaeth â rhesymau i brofi i'r Iuddewon anghrediniol mai'r Iesu oedd y Christ. 3. Yn 'fuddiol i iawnhad,' neu i iawnhau y cyfeiliornad ag oedd yr Iuddewon wedi syrthio iddo yn nghylch teyrnas y Messiah. Ac yn olaf, yn 'fuddiol i hyfforddiad mewn cyfiawnder,' neu i ddysgu ar ba ammodau y mwynheir bendithion teyrnas y Messiah.

Os hyn yw meddwl yr Apostol, fel y mae yn ddiammheuol dybygwn i, rhaid mai cyfeirio wna at y rhanau phrophwydoliaethol o'r ysgrythyrau Iuddewig, oblegid oddeithr y brophwydoliaeth yn y 18 bennod o Deuteronomium, hwy yn benaf sydd yn fuddiol i'r pethau hyn, Y mae yn canlyn gan hyny nad yw'r adnod hon yn profi fod yr Apostol o'r farn fod yr holl ysgrythyrau Iuddewig wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw.

Er mai yr adnod hon yw twr cadarn y rhai a amddiffynant y farn fod yr ysgrythyrau o ran eu sylwedd oll yn ysbrydoledig, y mae rhai eraill hefyd yn cael eu gwysio weithiau i wasanaeth yr athrawiaeth, megys Ioan 16. 13. Wedi sylwi ar hon, âf yn mlaen i drafod y gwrthresymau, oblegid byddai yn gofyn gormod o amser a lle, ac heb atteb fawr ddiben, i esbonio pob adnod a cwyllysiai hwn a'r llall ddyfynu i geisio profi y pwnc.

'Y mae gennyf eto lawer o bethau i'w dywedyd i chwi, ond ni ellwch eu dwyn yr awr hon; ond pan ddel efe, sef ysbryd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd.'

Pe byddai yma gyfeiriad at gymhorth yr Ysbryd Glan i Ysgrifenwyr yr ysrgythyrau, byddai yn rhaid cyfyngu yr addewid at Matthew, Ioau, Pedr,

* Dyweda Dr. Benson fod *kai, ac,* yn eisiau mewn un llawysgrif; ac o'r cyfieithad Arabaidd, Syriaidd a'r Vulgate, y mae yn ddiau wedi ei adael allan. Noda Griesbach ef fel pe byddai yn ammheüus yn ei gylch; a gwrthodir ef gan Grotius, Wakefield, a Hammond.

§ Y mae ysgrifenwyr y Testament Newydd, medd Esgob Barrington, yn wastad yn gwneyd gwahaniaeth rhwng *graphe,* ysgrythyr, â *graphai,* ysgrythyrau. Meddyliannt wrth y cyntaf rhyw gyfran neilluol o'r ysgrythyrau; ac wrth y llall, yr ysgrythyrau yn gyffredinol. Am *graphe,* gwel Luc 2, 21. Ioan 11, 35. 19, 24. 20, 9. Actau 1, 16. 8, 32. Rhuf. 9, 17. Gal. 3, 22. 1, 30. Iago 2, 8, 23. 1 Pedr 2, 6. 2 Pedr 1, 20. Am *graphai,* gwel Math. 21, 22. 22, 29. Marc 12, 24. Luc 22, 45. Actau 17, 2, 11. 18, 28. Rhuf. 1, 2. a rhagor efallai.

ac Iago. Ond gadewch i ni weled at bwy fath o wirionedd y cyfeiria Christ. 'Efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd.' Nid yw'r gair 'pob' yn y Testament Newydd yn cael ei arferyd yn wastad yn yr ystyr helaethaf, ond cyfyngir ef i natur y cyssylltiad. Nid oes yma le i gasglu fod Christ yn addaw y tywysai'r Ysbryd hwynt i wirioneddau Anianyddiaeth, Seryddiaeth, Mesuryddiaeth, &c. oblegid ni byddai hyny yn ffaith. Nid oes dim lle i feddwl ychwaith fod yma gyfeiriad at y gwirioneddau ag oedd efe wedi cymeryd *llawer o drafferth* i ddysgu iddynt, oblegid buasai hyny yn dangos naill ei fod ef wedi cyflawni ei swydd yn ammherffaith, neu eu bod hwy yn hwyrdrwm i ddysgu. Nis gall fod yma hefyd gyfeiriad at ddirgelwch y Drindod, fel y tybia rhai o gofleidwyr yr athrawiaeth hono, oblegid dywed, 'Efe (yr Ysbryd) a gymer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi,' neu efe a fynega i chwi wirioneddau o'r un natur â'r rhai a glywsoch genyf fi; ond y mae yn ffaith nodedig na ddysgodd Christ ddim ag oedd yn gyffelyb i Drindod o bersonau yn y Duwdod; ac hefyd, nid oedd dim galwad arno i wneyd hyny, oblegid yr oedd undod bodoliaeth Jehovah wedi bod yn un o brif wersi Iuddewaeth dros gannoedd o flynyddau cyn ei amser ef. Yr oedd y gwirionedd hwnw wedi ei sefydlu yn barod. Rhaid gan hyny fod yma gyfeiriad at y pethau 'na allent eu dwyn yr awr hon.'

Un o'r gwirioneddau, dybygwn, oedd natur teyrnas Christ. Yn rhyw fodd neu gilydd yr oedd yr Iuddewon wedi credu mai teyrnas naturiol fuasai teyrnas eu Messiah. Credent y buasai yn adferu iddynt deyrnas Dafydd, a than ei lywyddiaeth y buasent yn alluog i ymlid y Rhufeiniaid o'r wlad. Yr oedd y farn hon yn gyffredin yn eu plith; yr oeddynt wedi serchu ynddi, ac yn gosod eu holl fryd a'u gobaith arni am waredigaeth oddiwrth eu gorthrymwyr. Am hyny nid gorchwyl hawdd i'r Iesu oedd didwyllo meddyliau ei ddysgyblion ar y pen hwn. Darllenwn iddo awgrymu iddynt fwy nag unwaith nad oeddynt i ddysgwyl unrhyw dderchafiad neu arddderchawgrwydd bydol o'u gwaith yn bod yn ddysgyblion iddo ef. Er hyny, ymddengys naill nad oeddynt yn ei ddeall, neu fod eu rhagfarn yn rhy gryf iddynt allu ei gredu, oblegid yr ydym yn eu cael yn gofyn iddo wedi ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, 'Ai y pryd hwn yr adferi y deyrnas i Israel?' Cyn y gallent gael goruchafiaeth ar y cnawdolrwydd hwn oedd yn nglun a'u golygiadau, rhaid oedd iddynt yn gyntaf gael golwg eglurach, nag oeddynt wedi gael, ar ysbryd eu Mheistr, natur a dyben ei genadwri. Yr oeddynt eto fel plantos yn nheyrnas Nefoedd; ni wyddent fod teyrnas mwy goruchel yn bod nag awdurdod allanol ar wledydd a'u trigolion, sef llywodraeth ar ddeall, ar serchiadau, ac ar fwriadau calonau dynolryw, ac mai y deyrnas ysbrydol hon oedd teyrnas y Cyfryngwr. Dyma wers ag oeddynt eto heb 'allu ei dwyn.'

Ar yr adnod hon sylwa Grotius fel y canlyn:—Scriptura autem *theopneustos* ea est, quæ scripta est aut ab iis qui prophetarum munia obiere, ut Mose, Esaia, &c. aut ab iis qui, licet in alio essent vitae genere, a Deo tamen certis temporibus afflati fuere, ut David et Daniel. His accessionis vice, et ad implendam, aut sapientiam moralem, aut historiam, additi libri nonnulli alii probati a Magna Synagoga, tamquam optime convenientes cum illis *theopneustois*. Addidit his ipsis et alios postea Christianae Ecclesiae, tum Graecae, tum Latinae, consensus.

[Ond yr Ysgrythyrau ysbrydoledig ydynt naill ai y rhanau a ysgrifenwyd gan y rhai a gyflawnent swyddau prophwydi, megys Moses, Isaiah, Ezeckiel, Jeremiah, &c. neu ynte, gan eraill o wahanol sefyllfa bywyd, ond ar brydiau a gaent eu donio â'r dawn ysbrydol; megys Dafydd a Daniel. At y rhai hyn, er mwyn cael crynhodeb o ddoethineb foesol, neu o hanesiaeth, yr ychwanegwyd rhai llyfrau eraill a gymeradwyai y Synagog Fawr, fel rhai yn cytuno oreu â'r rhanau Ysbrydoledig. At y rhai hyn drachefn yr ychwanegwyd rhai llyfrau trwy gydsyniad yr Eglwys Grist'nogol Roegaidd a Lladinaidd.]

Yr oedd yn rhaid i ddysgyblion Christ ddysgu gwers arall hefyd ag oedd yn gwbl mor anhawdd, oblegid yr oedd yn taro mor gryf yn erbyn eu rhagfarn ag oedd hon. Yr wyf yn cyfeirio at alwad y cenhedloedd i fwynhâd breintiau Christ'nogaeth, a diwedd yr Iuddewon fel cenedl neu eglwys neilldnedig i Dduw. Nid oedd meddyliau y dysgyblion yn barod i ddeirbyn neu i 'ddwyn' y datguddiad hwn ychwaith pan y cawsant eu hymddifadu o gymdeithas eu Mheistr. Credai yr Iuddewon nad oedd neb dynolryw ond hâd Abraham yn wrthrychau sylw y Jehovah; yr oedd pawb craill yn eu golwg megys 'cwn.' Yr oedd hyd yn ôd eu gwlad yn sanctaidd yn eu golwg—y pridd, y coed, a'r cerrig. Am hyny pan yn teithio o wlad estronol, dywedir yr eisteddai Iuddew i lawr ar y ffin i ysgwyd y 'llwch oddiwrth ei sandalau,' neu os yn cludo coed neu lysiau, i olchi'r gwreiddiau, rhag i lwch estronol halogi y tir sanctaidd. Y mae yn ffaith fod rhagfarn Pedr mor gryf na chredai fod Christ yn Iachawdwr i'r cenhedloedd nes cael gwyrth i'w argyhoeddi. Dyma un o'r gwersi caletaf a ddysgodd dysgyblion Christ erioed; ac y mae yn ffaith nodedig mai hon oedd y pwnc mawr a aflonyddai yr holl eglwysydd yn amser Paul, a thestyn rhai o'i lythyrau mwyaf gorchestol. Ymddengys i mi mai at y ddau beth hyn yn fwyaf neilldnol y cyfeiria'r Iachawdwr yn yr adnod hon, sef at natur ei deyrnas a galwad y cenhedloedd. Nid oes yma ddim addewid dybygwn, am gynhorthwy ysbrydol i ysgrifenwyr y Testament Newydd.

Yn awr, wedi ymdrechu dangos beth wyf fi yn ddeall yw meddwl y ddwy adnod hyn a ddyfynir yn gyffredin i brofi dwyfol ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, âf yn mlaen bellach i ystyried y rhesymau a ddygir yn ei herbyn, gan ddechreu ar yr haeriaid canlynol, sef *Nad oedd ddim yn anghenrheidiol fod ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau dan ddwyfol ysbrydoliaeth.* Gyda golwg ar y rhanau hanesiol o'r Bibl y mae yn beth eithaf rhesymol i feddwl fod yr haeriad hwn yn wir, oblegid nid oedd eisiau rhagor na sicrwydd am fodoliaeth ffeithiau yr hanesiaeth. Gallasai un ag fyddai yn hyddysc o'r hanes ei osod at ei gilydd yn y dull ag y mae wedi dod i lawr i ni heb gymhorth ychwanegol na'i ddeall naturiol, oblegid y mae hanesiaethau llawer mwy dyrys a gorchestol wedi eu hysgrifenu yn unig trwy ddiwydrwydd, côf, a medrusrwydd yr awdwyr. Paham gan hyny y priodolir i allu goruchnaturiol yr hyn y mae galluoedd naturiol dyn yn ddigon galluog i gyflawni?

Os ydym fel pleidwyr Christ'nogaeth yn meddwl ein bod yn gwneyd gwasanaeth i'n hachos trwy briodoli i'r dawn gwyrthiol ffeithiau ag y mae natur yn ddigonol i gyfrif am danynt, yr ydym yn sicr, yn ein sel a'n dymuniad da, yn gwneyd mwy o niwed nag o les i'n hachos. Yr ydym yn rhoddi lle i'r anghredinwyr i gablu Christ. Y mae yn rheol gan athronyddion i wrthod rhagor o achosion nag sydd yn ddigon i gyfrif am fodoliaeth ffeithiau. Y peth sydd yn profi gormod nid yw yn profi dim. Yr oedd hefyd yn arfer gan yr ysgrifenwyr chwareuddol mwyaf campus yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, i beidio gwysio y duwiau i'r chwareufwrdd heb fod achos teilwng yn galw am eu cyfryngwriaeth. Felly ni ddylem ninnau briodoli dim i'r dawn gwyrthiol ond yn unig yr hyn nis gellir cyfrif am dano yn unrhyw ffordd arall. Anfynych iawn y cyfrynga Duw mewn modd goruchnaturiol, a byth ond pryd y byddo rhyw achos neilldnol yn gofyn. Y mae yn ffaith nodedig yn ngweinidogaeth yr Iachawdwr, ei fod yn defnyddio'r dawn gwyrthiol yn gynnil. Byth ni wnai wyrth er mwyn dangos ei allu, a hyny yn unig; nac ychwaith i gyflawnu dibenion o les hunanol.

Yr hwn a roddai draed i'r cloffion, ei hun a deimlai yn flinedig wrth deithio; yr hwn a borthai bum mil, â phum torth haidd a dau bysgodyn, ei hun yn fynych a ddioddefai newyn a syched. Ni wnaeth yr Iesu wyrth erioed er mwyn gwyrth, nac ychwaith heb achos teilwng o gyfryngwriaeth y gallu dwyfol. Y mae hefyd yn beth teilwng o sylw yn y fan non ar wyrthiau yr Hen Destament a'r Newydd, sef pan y byddo gwyrth yn cael ei gwneyd, nad oes dim yn rhagor yn cael ei gyflawni ganddi, nag sydd yn anhepgorol anghenrheidiol i atteb ei diben. Gan mai yn yr Iorddonen yr oedd Naaman y Syriad i gael ei lanhau ac nid wrth ddrws tŷ y prophwyd, yr oedd yn rhaid i Naaman ei hun deithio tuag yno; yr oedd yn rhaid i Naaman ei hun ymolchi saith waith yn yr afon; ni wnai y gallu dwyfol ddim yn rhagor drosto na iachau y clefyd, oblegid yr oedd y claf ei hun yn alluog i gyflawni pob gorchwyl arall. Felly hefyd yn y weithred o iachau Mab y Sunamees; ni wnaeth y gallu dwyfol ddim yn rhagor nag adferu bywyd; gallasai yr un gallu, pe buasai hyny yn iawn, roddi gwybodaeth i'r prophwyd o farwolaeth y plentyn, a'i gario trwy yr awyr mewn trawiad amrant o amser o fynydd Carmel i dy y Sunamees; ond nid oedd achos gwneyd y pethau hyn, oblegid gallasai y wraig ei rybuddio, a'r prophwyd gerdded. Y mae yr un sylw yn addas hefyd i wyrthiau Christ. Cymerwn yr helfa bysgod yn Luc pen. 5, neu atgyfodiad Lazarus fel enghraifft. Gallasai y gallu dwyfol wrth orchymyn yr Iesu lanw y llong a physgod heb gymorth rhwyd, neu gallasai yr un gallu a arweiniodd y pysgod i'r rhwyd ei chadw rhag rhwygo, a'i chyfodi hi a'r pysgod i fynu i'r llong heb achos amneidio ar eu cyfeillion oeddynt yn y llong arall; ond nid oedd eisiau i'r gallu dwyfol wneyd dim yn rhagor na danfon y pysgod i'r rhwyd, oblegid yr oedd gallu y gwyddfodolion yn ddigon ar gyfer pob peth arall. Felly hefyd pan *y clywodd* yr Iesu yn Bethabara fod ei gyfaill Lazarus wedi marw, paham na buasai yr un gallu a gyfododd Lazarus yn cludo yr Iesu o Bethabara i Bethania, yn dyweyd wrtho pa le y dodwyd y corph, yn codi ymaith y maen, ac yn symud y rhwymau? Yr wyf yn atteb nad oedd eisiau i'r gallu dwyfol wneyd dim yn rhagor na rhoddi bywyd yn y marw. Yr oedd hyn yn gyflawn ddigon i atteb diben y wyrth. Y mae yr un nodweddiad yn perthyn i holl wyrthiau y Bibl: nid oes dim yn cael ei wneyd er mwyn ymddangosiad—dim ond sydd yn annepgorol anghenrheidiol i brofi dwyfoldeb danfoniad y gwneuthurwr.*

Ond i ddychwelyd at y pwnc. Dywedasom fod gallu dynol yn ddigonol, at y gorchwyl o ysgrifenu neu o gyfansoddi llyfrau y ddau Destament. Gyda golwg ar y Testament Newydd, yr oedd Matthew a Ioan wedi bod yn ddysgyblion i'r Iesu; yr oeddynt wedi gweled y gwyrthiau, wedi clywed ei ymadroddion, oblegid yr oeddynt wedi bod yn cyd-deithio ag ef o fan i fan, gan hyny y mae yn eithaf rhesymol meddwl nad oedd eisiau dim yn rhagor arnynt na chymhorth eu côf i gyfansoddi llyfr o hanes ymddyddanion, a gweithredoedd eu hanwyl Athraw. Ymddengys i mi fod y gwahaniaeth sydd yn null y pedwar Efangylwr o adrodd yr un pethau; hanes gwahanol amgylchiadau ac ymadroddion gan y naill ysgrifenwr a'r llall; a'u cytundeb cyffredinol, yn brofion cryf mai o'u côf yr ysgrifenodd Matthew a Ioan, ac i Marc a Luc ysgrifenu yn unol â'r cyfarwyddiadau ag oeddynt yn gael gan eraill. Nid oes dim sydd yn afresymol yn y farn fod rhai o'r dysgyblion

* Pwy bynag a gymer y drafferth i chwilio i mewn i natur ffugwyrthiau a wel fod y twyllwr fynychaf yn gwneyd rhagor nag sydd eisiau i gyrrwys gwyrth. Dyma un o brifnodweddiadau ffugwyrth.

pan yn nghymdeithas eu Hathraw yn cadw math o gôf lyfr, gan nodi ynddo y dygwyddiadau a'r ymadroddion mwyaf hynod a welent ac a glywent. Y mae y dyb hon yn fwy credadwy, pan y meddyliom am ymadrodd hirfaith o wersi moesoldeb o fath y 'bregeth ar y mynydd' yn cael ei hysgrifenu mewn hanes ddeng-mlynedd-ar-hugain wedi yr amser y traddodwyd hi gyntaf. Pa fodd y gallasai y dysgybl ei hysgrifenu air yn ngair yn mhen cymaint o amser os nad oedd o leiaf ei phrif benau ganddo yn ysgrifenedig ar gôf-lyfr? Ac etto, o'r ochr arall, os cymerwn dan ein ystyriaeth y cyflwr cyffröus raid fod meddyliau y dysgyblion ynddo trwy ystod gweinidogaeth Christ, braidd y meddyliem y gallasent feddu cymaint o bresenoldeb meddwl a chymeryd rhagofal i nodi ar gôf-lyfr. Ond pa fodd bynag, gallwn fod yn dra sicr fod yr argraff a wnai ymadroddion Christ ar feddyliau ei ddysgyblion yn anghyffredin. Byddem yn cyfeiliorni pe mesurem ef â'r argraff a wneir yn awr yn gyffredin gan bregethwyr ar feddyliau eu gwrandawyr. Difrifoldeb ac urddas y Cyfryngwr, newydd-deb ei ddysgeidiaeth, a'i weithredoedd nerthol oeddynt nid yn unig yn tynu gwrandawiad astud, ond hefyd yn achosi i'r hyn a leferid ganddo wreiddio yn ddwfn yn nghôf y gwrandawyr. * Ond pu'n a oedd rhai o'r dysgyblion yn cadw cof-lyfr neu beidio sydd bwnc na all neb yn awr benderfynu.

Y mae yn ofynol sylwi yn y fan hon mai pell iawn, debygid, oedd Luc o gredu ei fod ef fel Efengylwr tan gyfarwyddyd yr Ysbryd Glan, oblegid y mae yn dywedyd ei fod ef yn ysgrifenu 'wedi dilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad,' wrth yr hyn y mae i ni ddeall iddo gymeryd pwyll, fel pob awdwr hanesiaeth, i chwilio, i gydmaru, i wrthod, ac i ddewis, o'r moddion ag oedd wedi gasglu at gyfansoddi yr hanes: ond pe buasai tan ddwyfol ysbrydoliaeth, ni attebasai fawr ddiben iddo ddefnyddio ei farn ei hun, oblegid buasai yn rhwym o ysgrifenu yn ol cyfarwyddyd yr Ysbryd.

Am Actau yr Apostolion hefyd a'r Epistolau gellir sylwi yr un peth. Yr oedd Luc, ysgrifenwr yr Actau, yn llygad-dyst o lawer o'r pethau a ysgrifenai yn eu cylch, oblegid yr oedd yn gydymmaith i'r Apostol Paul: ac yr oedd tystion byw yn alluog i roddi iddo bob cyfarwyddyd ag oedd yn eisiau yn nghylch y pethau eraill. Yn Epistolau Paul, y mae yn wir, y gellir canfod dawn ymresymawl cryf, cyfrwys, gwybodaeth drwyadl o'r pynciau a drafodir, adnabyddiaeth o'r natur ddynol, medrusrwydd i'w thrafod, ac ymroddiad egniol a didwyll yr awdwr i'r swydd Apostolaidd: er hyny, ynddynt oll nid oes dim yn oruchnaturiol—dim nad yw dysgeidiaeth Paul, a'i adnabyddiaeth drwyadl o egwyddorion Christ'nogaeth yn ddigon i gyfrif am dano.

Nid yw yn canlyn oddiwrth hyn fy mod i yn credu nad yw llythyron Paul yn cynnwys rhai pethau a dderbyniodd trwy datguddiad uniongyrchol oddiwrth yr Arglwydd: ond yr wyf yn dal nad oedd arno eisiau cymhorth

* Dichon y gall y sylwadau hyn ddwyn ar gof i ddarllenwyr ystyriol eiriau Christ yn Ioan 14. 26. Nid wyf yn ystyried fod yma addewid o gymhorth i gyfansoddwyr yr Efengylau. Ymddengys i mi mai meddwl Christ yw y byddai i ddysgeidiaeth y Diddanydd fod yn foddion i arwain y dysgyblion i ddeall llawer o'i ymadroddion ag nad oeddynt yn ddeall y pryd hwnw. Barnaf fod Kuinöel yn agos at y meddwl. Sensus igitur omnino est: vi divina adjuti, cognoscetis omnem veritatum religionis meae ambitum, et idonei reddemini ad perspicienda et intelligenda ea quae docui et quae nondum perspicitis.] [Hyny yw, Y meddwl gan hyny yn ddiau yw: wedi derbyn cymorth y gallu dwyfol, chwi a ddeallwch holl amgylchedd gwirioneddau fy nghrefydd; galluogir chwi i canfod ac i ddeall y pethau hyny a ddysgais ac nad ydych chwi eto wedi canfod eu hystyr.]

yr Ysbryd Glan i wneydy datguddiad hyny yn wybodus i'r eglwysydd. Trwy ddatguddiad oddiwrth Dduw y derbyniodd Paul ei holl wybodaeth o egwyddorion Christ'nogaeth, fel y dywed yn ei lythyr at y Galatiaid, ond pan y byddo yn trafod yr egwyddorion yn ei Epistolau, nid yw yn rhaid fod gallu goruchnaturiol yn cyfarwyddo ei ysgrifell. Gwêl pob darllenwr pwyllog fod y sylw hwu o bwys mawr, yn gymaint a'i fod yn gymhwysiadol at amrywiol ranau o'r Hen Destament a'r Newydd; am hyny, yn nghwrs y traethodau hyn, câ ei drafod yn ei le priodol.

PHILO.

O. S. Y mae y pwnc yn chwyddo fel yr wyf yn myned yn mlaen. Y mae yn ddiau yn un o'r rhai mwyaf pwysig o holl bynciau perthynol i Ghrist'nogaeth. Am hyny er mwyn gwneyd cyfiawnder âg ef ac a darllenwyr yr YMOFYNYDD, bydd yn rhaid i mi geisio ganddynt fod yn fwy amyneddgar nag y dysgwyliais y byddai achos iddynt fod pan y dechreuais y pwnc.

GWIRIONEDD CRIST'NOGRWYDD.

DARLITH III.

Parhad o tudal. 299.

Y Proffwydoliaethau,—Profion Mewnol (internal evidences,) oddiwrth garacter Crist, a hanes ei wyrthiau.

IOAN XX. 31. 'Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd, fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef.

AMCAN proffesedig yr hanes efengylaidd yw dysgu a phrofi mai'r Iesu yw y Crist; y Messiah a ragfynegwyd am dano yn yr Ysgrythyrau Iuddewig; dysgawdwr mawr gwirionedd a chyfiawnder; y brenin eneiniedig, yr hwn oedd i ddwyn i mewn a sefydlu llywodraeth ysbrydol yn y byd, a fyddai i ymledaenu yn raddol dros yr holl ddaear, a pharhau hyd ddiwedd amser. Y mae'r titl 'Mab Duw,' yn cael ei gyssylltu â'i garacter fel Messiah, ac yn arwyddoccau yn bennaf mai efe oedd y cyntaf o'r hiliogaeth ddynol a gafodd ei gyfodi o feirw i fywyd o anfarwoldeb, a'i osod mewn meddiant o'r etifeddiaeth ogoneddus, yr hon yw rhan pawb o gywir broffeswyr ei Efengyl, yn eu hamser priodol; a chyda golwg ar hyn y maent yn awr yn cael eu galw yn 'Feibion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ.' Y mae'r hanes wedi ei hysgrifenu i gadarnhau ffydd y rhai sydd yn ei darllen, yn anfoniad ac athrawiaeth Crist, 'a chan gredu y caffont fywyd yn ei enw ef;' neu, mewn geiriau eraill, gan ddyfod yn ddysgyblion gwirioneddol iddo, y byddo ganddynt hawl mewn rhan yn addewidion ei Efengyl ef.

Er mwyn cyflawni yr amcan oedd genyf mewn golwg, sef cadarnhau ffydd y darllenwyr, yn enwedig yr ieuengctyd, yng ngwirionedd y datguddiad Crist'nogol, drwy ddwyn ymlaen grynodeb cynnwysfawr o'r dystiolaeth drosto, wedi yn gyntaf ddangos yr angenrheidrwydd o ddatguddiad yn gyffredinol, a defnyddioldeb gwyrthiau, fel yr unig brofion priodol a hollol o genadwri ac athrawiaeth prophwyd, cyfleais y dystiolaeth dros y datguddiad Crist'nogol dan bump pen cyffredinol; yr un philosophyddol, hanesyddol, phroffwydoliaethol, mewnol, a'r dystiolaeth a ddygir i'r datguddiad Crist'nogol, gan broffwydi yr Hen Destament.

Sylwasom eisioes ar y profion philosophyddol a hanesyddol, ac yr wyf yn awr yn myned ymlaen,

III. I osod ger bron y darllenwyr y prawf dros y grefydd Grist'nogol oddiwrth y proffwydoliaethau a gynnwysir yn y Testament Newydd.

Er mwyn gwneuthur y prawf oddiwrth brophwydoliaeth yn gadarn, mae tri pheth yn anghenrheidiol. Yn gyntaf, fod tystiolaeth ddigonol i'r brophwydoliaeth gael ei thraddodi cyn y digwyddiad. Yn ail, fod yr hyn a ragfynegwyd tuhwnt i gyrhaeddiadau dynol ei ragweled. Yn drydydd, fod y brophwydoliaeth yn cael ei chyflawni yn hollol a phriodol yn y ddamwain i'r hon y priodolir hi.

Y mae y grefydd Grist'nogol yn appelio at broffwydoliaeth fel prawf priodol o'i tharddiad dwyfol, 'Yn awr yr wyf yn dywedyd wrthych cyn ei ddyfod, fel pan ddel y credoch,' 'canys tystiolaeth Iesu,' medd ysgrifenydd y Dadguddiad, 'ydyw ysbryd y broffwydoliaeth.'

Y prophwydoliaethau a gynnwysir yn y Testament Newydd ydynt, naill y rhai a draddodwyd gan Iesu ei hun, neu ei apostolion a'i weinidogion awdurdodedig eraill.

Y mae prophwydoliaethau Crist yn perthyn naill ai iddo ei hun, neu ei apostolion, neu y llywodraeth Iuddewig, neu gynnydd ei Efengyl.

Gyda golwg arno ei hun, efe a ragddywedodd ddull ac amgylchiadau ei farwolaeth, ac hefyd ei adgyfodiad a'i esgyniad at y Tad. 'Wele,' ebe fe, 'yr ydym ni yn myned i fynu i Jerusalem, a chyflawnir pob peth a'r sydd yn ysgrifenedig trwy'r prophwydi am Fab y Dyn; canys efe a draddodir i'r cenhedloedd, ac a watwarir, ac a amharchir, ac a boerir arno, ac wedi iddynt ei fflangellu, y lladdant ef; a'r trydydd dydd efe a adgyfyd,' Luc xviii. 31, 32.

Gyda golwg ar yr Apostolion, efe a ragfynegodd anfoniad yr Ysbryd Glan, Ioan xiv. 16. 17, 'A mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragywyddol.' Act. i. 4, 5, 'Efe a orchymynodd iddynt nad ymadawent â Jerusalem, eithr dysgwyl am addewid y Tad, yr hwn a glywsoch genyf fi; oblegid Ioan yn ddiau a fedyddiodd à dwfr; ond chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glan cyn nemmawr o ddyddiau.' 'Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr Ysbryd Glan wedi y delo efe arnoch; ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac yn holl wlad Judea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear.'

Efe a ragfynegodd hefyd yr erledigaethau oedd ar eu cyfer, Ioan xvi. 2, 'A hwy a'ch bwriant chwi allan o'r synagogau: ac y mae'r amser yn dyfod, y tybia pwy bynnag a'ch lladdo ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw.' Efe a ragfynegodd ferthyrdod Pedr, Ioan xxi. 18, 'Yn wir, yn wir, meddaf i ti, pan oeddit ieuange, ti a'th wregysaist dy hun, ac a rodiaist lle y mynnaist; eithr pan elech yn hen, ti a estyni dy ddwylaw, ac arall a'th wregysa, ac a'th arwain lle ni fynnit.' Y mae ef hefyd yn awgrymmu y byddai i Ioan weled hen ddyddiau, pan yn ateb gofyniad Pedr, adn. 22, 'Ond beth am hwn? Os mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf,' ebe'r Iesu,' beth yw hynny i ti? canlyn di fi.'

Mewn perthynas i'r genedl Iuddewig, efe a ragfynegodd y byddai'r deml uchelwych ac ardderchog yn Jerusalem, ymhen ychydig flynyddau, gael ei gwneuthur yn gydwastad â'r llawr, ac na adewid yno garreg ar garreg o honi; ac na fyddai i'r genhedlaeth honno fyned heibio cyn y byddai i'r brophwydoliaeth hon gael ei chyflawni; ac y byddai rhai o'r rhai oedd yn ei glywed ef bryd hynny i fod yn dystion o'r digwyddiad galarus. Dywedodd hefyd y byddai i Jerusalem gael ei hamgylchynu, ei chymmeryd, a'i dinystrio gan y Cenhedloedd; y byddai i'r llywodraeth Iuddewig gael ei diddymmu,

a'r Iuddewon gael eu gwasgaru drwy bob cenedl; ymhellach, y byddai i'r digwyddiadau gofidus hyn gael eu rhagflaenu gan ryfeloedd, terfysgoedd, a brwydrau; gan gau brophwydi, a gau Gristiau, a gyfodent yn ei enw ef, ac a dwyllent lawer i'w dinystr eu hunain; a chan ryfeddodau brawychus yn y nefoedd; ac yn olaf, y byddai i'r genedl Iuddewig gael eu dwyn i'r fath ofidiau, y rhai ni bu eu bath erioed, ac ni bydd byth; ond y byddai i'r rhai a wrandawent arno ef gael eu hachub rhag y dinystr, trwy wrando ar ei rybuddion, a pharotoi mewn amser. 'A phan weloch Jerusalem,' ebe efe, 'wedi ei hamgylchu gan luoedd, yna gwybyddwch fod ei hanghyfannedd-dra hi wedi neshau; canys bydd angen mawr yn y tir, a digofaint ar y bobl hyn, a hwy a syrthiant trwy fin y cleddyf, a chaethgludir hwynt at bob cenhedlaeth, a Jerusalem fydd wedi ei mathru gan y cenhedloedd, hyd oni chyflawner amser y cenhedloedd. Yn wir meddaf i chwi, nid a yr oes hon heibio, hyd oni ddel y cwbl i ben,' Luc xxi. 20—32.

Gyda golwg ar yr Efengyl, efe a ragfynegodd, yr hyn oedd ynddo ei hun yn eithaf anhebygol, sef ei chynnydd cyflym trwy y byd, ei chyhoeddiad i'r holl genhedloedd, a hyny cyn y byddai i Judea gael ei goresgyn, a Jerusalem gael ei dinystrio; ei goruwchafiaeth boreu ar eilunaddoliaeth y cenhedloedd, Luc 10. 18; 'Mi a welais Satan megis mellten yn syrthio o'r nef;' hyny yw, mewn gweledigaeth broffwydoliaethol, Mi a welais y galluoedd eilunaddolgar, croes i Grist'nogrwydd ymhob man, wedi eu dadymchwelyd gan yspryd a nerth anwrthwynebol yr Efengyl. Ac yn Mat. xxiv. 14, y mae efe yn gosod allan mewn iaith fwy eglur byth, 'y byddai i'r Efengyl hon am y deyrnas gael ei phregethu trwy'r holl fyd, er tystiolaeth i'r holl genhedloedd, *ac yna y daw y diwedd.*

Ychydig ddynion, feddyliaf, a ddywedant y gallasai doethineb dyn ragweled yr amgylchiadau a ragfynegir yma. I'r prophwydoliaethau hyn gael eu cyflawni yn y digwyddiadau a gymmerasant le, y mae hanes yr amseroedd hynny gan Josephus, Tacitus, a Phliny, yn rhoddi'r prawf mwyaf boddhaol: hanes ffyddlon, dibartïol, wedi ei ysgrifenu gan ddynion, y rhai ni ddarllenasant erioed, na chlywsant, am y proffwydoliaethau yma; a chan y rhai, yn sicr, nid oedd un bwriad i gadarnhau a dwyn ymlaen y grefydd Grist'nogol. Yr unig amgylchiad agored i ammheuaeth ydyw, p'un a darfu i'r prophwydoliaethau yma gael eu *fforgio*, neu eu hysgrifenu ar ol i'r digwyddiadau y maent yn cyfeirio attynt, gymmeryd lle. Pwy bynnag, ar ol darllen yn ofalus ysgrifeniadau Matthew, Marc, a Luc, a all gredu yn ddifrifol fod y fath ysgrifenwyr yn alluog i gyflawni y fath hocced ddrygionus ac annuwiol yna, rhaid i'r cyfryw un roddi i fynu, mewn rhan, y prawf oddiwrth brophwydoliaeth: dywedais *mewn rhan*, oblegid bydd ganddo un ran bwysig i atteb am dani, sef y brophwydoliaeth ag sydd yn feunyddiol yn cael ei chyflawni o flaen ei lygaid, sef gwasgariad a gwarth yr Iuddewon ymhob man. Ond ni all y rhai ydynt yn edrych ar yr Efengylwyr fel dynion gonest a haneswyr hyddysg yn yr hyn a adroddant, ddim llai na chyfaddef mai prophwyd oedd y person a draddododd y proffwydoliaethau hynod hyn, ac mai cennad Duw oedd Iesu o Nazareth.

Yr ail res o brophwydoliaethau a gynnwysir yn y Testament Newydd ydyw y *rhai a ragfynegodd yr Apostolion*, ac yn enwedig Paul ac Ioan.

Y mae'r *Apostol* Paul, yn ei ail lythyr at y Thessaloniaid yn rhagfynegu gallu anghrist'nogol yr anghrist, yr hwn y mae'n alw yn 'ddyn pechod a mab golledigaeth, yr hwn sydd yn gwrthwynebu, ac yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir; hyd onid yw efe, megis Duw, yn

eistedd yn nheml Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw.' Y mae of hefyd yn darlunio ei ddyfodiad, 'oi fod yn ol gweithrediad Satan, gyda phob nerth, ac arwyddion, a rhyfeddodau gau; ond yr hwn,' ebe fe, 'a ddinystria yr Arglwydd âg ysbryd ei enau: ac a ddilea â disgleirdeb ei ddyfodiad.' Ac yn ei lythyr cyntaf at Timotheus, y mae'n rhagddywedyd 'yr ymadawai rhai yn yr amseroedd diweddaf oddiwrth y ffydd, gan roddi coel i ysbrydion cyfeiliornus, ac i athrawiaethu ynghylch cythreuliaid, yn gwahardd priodi, ac yn erchi ymattal oddiwrth fwydydd, y rhai a greodd Duw i'w derbyn, trwy roddi diolch.' Y mae y prophwydoliaethau hyn yn cael eu cymhwyso gan rai esbonwyr at lygriadau Pabaidd Rhufain; gan eraill, efallai gyda mwy o briododdeb, y maent yn cael eu cyfleu i'r holl ddrygau a darddasant oddiwrth sefydliad gwladol Crist'nogrwydd—neu yn hytrach llygriad Crist'nogrwydd—ac nad yw eglwys Rhufain ddim ond rhan o honynt, er mai'r gangen bennaf a mwyaf amlwg ydyw hi. Ac mor belled ag y mae'r damweiniau, i'r rhai y cymhwysir y proffwydoliaethau hyn, a chan y rhai y dehonglir hwynt, yn ymddangos i'r ymofynydd pwyllog a diragfarn, yn atteb i'r brophwydoliaeth, mor belled a hynny y mae'r cytundeb hyn yn dwyn argyhoeddiad cyfattebol gydag ef, fod yr apostol wedi ysgrifennu dan ddylanwad dwyfol uniongyrchiol, ac fod yr athrawiaeth Grist'nogol—cennad awdurdodedig yr hon oedd ef, o darddiad dwyfol.

Y mae Llyfr y Datguddiad, a briodolir yn gyffredin i Ioan yr apostol, er ei fod yn cael ei ammau gan lawer, a'i wrthod gan rai, yn cael, er hynny, ei ystyried gan ran fawr o Grist'nogion dysgedig ac ymofyngar, fel gwaith pur a phrophwydoliaeth wirioneddol a phwysig. Ac er fod llawer yn trin y llyfr hwn gyda diystyrwch mawr, a'r rhai a ymdrechant esbonio ei gynnwysiad gyda diystyrwch mwy, er hynny, y mae'r Dadguddiad wedi cael ei werthfawrogi yn bennaf gan y rhai ydynt wedi chwilio ei gynnwysiad gyda'r gofal mwyaf, a'r rhai, o ganlyniad, ddylent fod y beirniaid mwyaf addas yn y matter. Mae'n wir fod rhai eithriadau enwog i hyn. Ond y mae enwau mawrion Joseph Mede, Syr Isaac Newton, Lowman, Lardner, Priestley, ac Evanson, yn ddigon, yn sicr, i gadw'r llyfr hen a dirgelaidd hwn rhag cableddau anfoneddigaidd y rhai nid y'nt wedi talu sylw i'r matter. I lawer a gyfaddefant awdurdod ddwyfol y weledigaeth a gynnwysir yma, y mae'n ymddangos yn cynnwys rhes o ddigwyddiadau yn cael eu rhagfynegu mewn modd rhyfeddol, yn perthynu i gyflwr a nodweddiad yr eglwys Grist'nogol, o gyhoeddiad cyntaf y grefydd Grist'nogol hyd ddiwedd mawreddog pob peth, yn gwneuthur i fynu ynghyd y dystiolaeth fwyaf eglur, ddiamheuol, a phenderfynol, o wirionedd ac awdurdod ddwyfol y Dadguddiad Crist'nogol.

Yn nesaf. Ni awn ymlaen i chwilio *Tystiolaethau Mewnol y Grefydd Grist'nogol.*

Y mae tystiolaeth *fewnol* yn cyfodi oddiwrth ystyried cynnwysiad llyfrau y Testament Newydd ar wahan oddiwrth dystiolaeth allanol, Allan o lawer, detholaf rai pethau ag ydynt yn ymddangos i mi o'r pwys mwyaf; ac ni all ystyriaeth ddwys o honynt ddim llai nag argyhoeddi y meddwl diduedd ac ymofyngar.

(1.) Y cyntaf a berthyn i nodweddiad neu GARACTER CRIST.

Y mae caracter Crist yn hollol wreiddiol, *(original)*. Y mae hi yn anhebyg i ddim a ymddangosodd yn y byd erioed. Y mae'n wir fod dynion enwog wedi bod, y rhai a gymmerasant arnynt y swydd o fod yn ddysgawdwyr dynolryw mewn crefydd a rhinwedd; ond yr oedd yr Iesu yn gwahaniaethu yn helaeth oddiwrthynt oll, yn ei athrawiaeth; yn ei ddull

yn dysgu; yn ei foesau; ei ddull o ymddiddan; yn y caracter a gymerodd arno; ei iaith awdurdodol; yn y profion a roddodd o'i ddwyfol gennadwri; ac yn y dull y gadawodd y profion hynny i ddwyn eu hargraph priodol ar y meddwl, heb nodi allan y casgliadau a ddylid dynu oddiwrthynt.

Yr oedd yn haeru mai efe oedd y Messiah, y person rhagorol a ragfynegwyd gan y prophwydi, ac a ddisgwylid gan yr Iuddewon. Ond yr oedd yr agwedd a gymmerodd yn hollol wahanol i'r hon a ddysgwyliai'r Iuddewon iddo ymddangos ynddi; yn hollol wahanol i'r dull a gymmerai twyllwr arno, ac i'r dull a *gymmerodd* twyllwyr arnynt mewn gwirionedd, a'r dull a fuasai yn naturiol i ysgrifenydd hanes ffugiol ei ddarlunio. Ymddangosodd Iesu mewn gwirionedd ar ddull dyn tlawd a chaethwas.

Daliodd i fynu y caracter a gymmerodd arno gyda'r priodoldeb mwyaf—caracter mor newydd, mor hollol annysgwyliadwy, ac ar lawer golwg mor atgas gan ei gydwladwyr. Yr oedd yr amgylchiadau yn y rhai y cafodd ei osod a'i brofi yn lluosog, amrywiol, a gwahanol: yr oedd rhai o honynt yn beryglus ac anhawdd iawn; er hyny y mae ef, ar bob achlysur, yn cadw i fynu garacter prophwyd Duw, dysgawdwr gwirionedd a chyfiawnder, gyda'r cyssondeb a'r urddas mwyaf perffaith: nid yw un amser yn anghofio ei sefyllfa: nid yw ar yr un achlysur, ar un achos, pa mor ddisymmwth ac annysgwyliadwy bynnag, dan un cynhyrfiad, pa mor gyffrous bynnag, yn cael ei daro â syndod, na'i dynnu i ddywedyd na gwneuthur dim yn annheilwng o hono ei hun—dim nad oedd yn gweddu y gennadwri oruchel a santaidd oedd wedi dderbyn—dim gair, dim gweithred yn annheilwng o'r Messiah.

Y mae dal i fynu gyssondeb garacter ffugiol trwy waith hirfaith, hyd yn od pe byddai'r caracter yn cael ei dynnu oddiwrth fywyd gwirioneddol, *(real life,)* yn arwydd o gynheddfau a galluoedd uwch na chyffredin; ond y mae cadw o'r dechreu i'r diwedd at wirionedd desgrifiad, mewn caracter hollol newydd, mewn amgylchiadau amrywiol a newyddion, ac yn enwedig lle b'o gweithrediad goruwchnaturiol yn cael ei ddwyn ymlaen, y mae hyn yn nod o alluoedd o'r radd uchelaf. Y mae'r ymdrech i ddarlunio caracter perffaith wedi methu yn nwylaw y meistriaid mwyaf campus. Y mae gwendidau yn ganfyddadwy yn narluniau'r philosophydd a'r gwron, er cael eu gosod allan mewn modd cywraint, yn y lliwiau mwyaf heirdd, gan Plato a Xenophon: ond y mae yr Efengylwyr tlawd ac anllythyrenog hyn wedi llwyddo i berffeithrwydd. Nid un o honynt, ond *pedwar*. Nid wrth ddesgrifio gwahanol *garacters*, lle na buasai cymmaint o berygl i un ymyrraeth â gwaith y llall, ond wrth ddarlunio yr un caracter hynod a difrycheulyd, i'r hyn y mae pob un o honynt wedi cyfranu rhyw beth ag oedd arall wedi ei adael allan, ac etto mae'r cyfan yn berffaith gysson a chydgordiol,—y mae unoliaeth caracter, *(unity of character,)* yn cael ei gadw trwy'r cwbl.

Cyfaddefwch fod y fath garacter wedi bod mewn gwirionedd; caniattewch fod y fath berson a Iesu o Nazareth wedi bod, ac nad yw'r haneswyr yn adrodd dim ond yr hyn oeddent wedi weled a chlywed, ac o'r hyn oeddent yn dystion beunyddiol, ac y mae'n syndod yn darfod; y mae'r cyfan yn naturiol ac esmwyth: yr oedd yr adroddwyr yn dystion gonest ac addas, a phrophwyd y Goruchaf oedd Iesu o Nazareth.

Gwadwch y pethau hyn, ac y mae hanes yr Efengylwyr yn dyfod yn union yn waith y cynheddfau mwyaf rhyfedd a fu erioed—sef, ffug-chwedl y dychymmyg yn rhagori ymhell ar weithion mwyaf enwog athrylith ddynol. Beth? Y Galileaid anllythyrennog hyn yn tafu i'r cysgod holl haneswyr, philosophyddion, a phrydyddion mwyaf enwog Groeg a Rhufain? Ie, ein

Scotts a'n Shakespears ninnau yn myned i'r dim yn ochr y dynion anwybodus hyn! os mai ffug-draeth, os mai *romance* yw eu hanes wedi'r cyfan!! Pwy all gredu, pwy all haeru hyn am y dynion tlawd, didwyll, a difalch, hyn? Y mae'n anghredadwy, mae'n amhossibl i'r dynion difedr hyn ddyfeisio ffug-draeth mor hynod, mor berffaith. Gan hynny y mae'n rhaid fod eu hanes yn wir. Person gwirioneddol yw Iesu o NaZareth, ac y mae ei ddwyfol gennadwri yn anwadadwy. Nis gwn pa fodd y mae'r ymresymiad hwn yn ymddangos i eraill, ond i mi y mae'n dwyn argyhoeddiad mor nerthol ymron ag arddangosiad rhifyddol, (*mathematical demonstration*). Nis gallaf ddychymygu am brawf mwy boddhaol i'r meddwl diduedd, gwybodus, ac ymofyngar.

(2.) Y mae *Hanes Gwyrthiau Crist* yn cynnwys prawf tebygol cryf o gywirdeb a gwirionedd.

Nid yw'r rhyfeddodau a adroddir gan haneswyr paganaidd o'r awdurdod goreu, yn gyffredin, ddim gwell na gwrthuni, neu ymddangosiadau anarferol natur: y maent yn fynych yn cael eu hadrodd gydag amheuaeth gan yr haneswyr eu hunain, ac yn gyffredin y mae digon ynddynt i wrthbrofi eu hunain' Am wyrthiau Pabyddiaeth, nid ydynt yn fynych ddim rhagor nag ystranciau twyllwyr; ac nid ydynt fyth yn cael eu cyflawni lle mae mwyaf o'u hangen i droi anghredinwyr. Ond y mae'r ffeithiau a ddesgrifir gan yr Efengylwyr yn wyrthiau gwirioneddol. Nid oes dim yn cael ei adrodd gan yr haneswyr diddysg, anphilosophaidd hyn, fel ymadawiad â rheolau natur, ond yr hyn a gyfaddefid felly yn yr oes oleu a philosophaidd hon.

Etto, y mae'r gwyrthiau y maent yn briodoli i'r Iesu yn berffaith gysson â'i garacter ef. Nid oes un o honynt yn ddibwys a phlentynaidd. Yr oeddent oll yn addysgiadol a defnyddiol; ac yr oedd y rhan fwyaf o lawer yn amlwg, yn ddaionus, ac ar bob golwg yn deilwng o genhadwr hedd ac ewyllysiwr da i ddynion. Ac os oes un neu ddau yn ymddangos fel arall, ac yn agored i wrthddadl, gall yr anhawsderau gael eu symmud ymaith trwy resymau a ystyrir yn foddhaol gan y diragfarn. Gellir egluro yr ymresymiad hwn trwy gyfeirio at fywyd Apollonius Tyanbus, philosophydd a dysgawdwr paganaidd, ac un oedd yn cymmeryd arno y gallasai wneuthur gwyrthiau. Cafodd ei hanes ei ysgrifenu ar gais yr Ymerodres Julia, gwraig Severus, yn nechreuad y drydydd gannrif, gan un o philosophyddion ei llys, gyda'r amcan pendant i waradwyddo gwyrthau Crist. Ac ymhlith chwedlau ysgafn a ffol eraill, dywedir fod y dyn hynod hwn yn deall iaith adar, ac y gallai ddehongli eu hymddiddanion. Pe buasai rhyw beth o'r fath hyn yn y Testament Newydd, buasai yn wthddadl yn erbyn awdurdod yr hanes a fuasai yn anhawdd iawn ei symmyd ymaith. Ac nis gellir cyfrif paham na ddarfu i grefftwyr distadl Galilea i syrthio i gyffelyb a chymmaint ffolinebau â'r philosophydd dysgedig hwn, oddieithr ar y dyb fod y philosophydd yn ysgrifenu oddiar *ddyfais*, a hwythau oddiar *ffaith*, (*fact*).—I'W BARHAU.

LOUIS PHILIPPE.

MR. YMOFYNYDD,—Nid oes dim a mwy o siarad yn ei gylch yn y dyddiau presenol na chwyldroad Ffrainc a diorseddiad *Louis Philippe*, yr hyn sydd wedi achosi cyffro a therfysg mawr dros holl gyfandir Europ. A chan mai hyn yw un o brif destunau ymddiddan rhwng dynion a'u gilydd pa le bynag yr ymgyfarfyddant, efallai mai nid annerbyniol gan eich darllenwyr fyddai ychydig o hanes bywyd *Louis Philippe*, ynghyd â'r amrywiol gyfnewidiadau y mae wedi myned drwyddynt oddiar dechrau ei yrfa hyd yn bresenol. Yr wyf yn cyfaddef mai amherffaith fydd fy ysgrif, ac nas dichon iddi sefyll i fynu dan feirniadaeth gohebwyr a darllenwyr llygad-graff yr

YMOFYNYDD. Gwnaf fy ngoreu, a dywedaf gyda Daniel Ddu—

"Fy ngwaith os anystwyth maddeued y celfydd,
Mae'r testun o leiaf yn bwysig i'm gwlad."

Louis Philippe, brenin diorseddedig Ffrainc, ac un o'r dynion mwyaf hynod ei hanes yn Europ, a anwyd yn Paris, y Ddinas Frenhinol, Hydref 6fed, 1773. Efe yw mab hynaf *Louis Philippe-Joseph, Dug Orleans*, a *Marie*, unig ferch ac etifeddes y cyfoethog *Ddug Penthievre*. Teulu *Orleans*, cangen o'r teulu *Bourbonaidd*, a ddechreuodd yn *Philippe*, un o feibion ieuangaf *Louis XIII.*, yr hwn a dderbyniodd y titl *Dug Orleans* gan ei frawd hynaf *Louis XIV.*, i wyr yr hwn y mae y presenol *Louis Philippe* yn or-wyr. *Philippe*, mab *Louis XIII.*, y cyntaf a ditlwyd yn *Ddug Orleans*, a briododd ddwywaith; ei ail wraig ydoedd *Elizabeth Charlotte, o Bohemia*, wyr i *James I. Brenin Lloegr*. O hon y mae teulu *Orleans* yn hanu, a thrwyddi yn perthyn i dy *Stuart*, a theulu brenhinol Lloegr yn presenol. Pan yn blentyn yr oedd *Louis Philippe* yn cael ei enwi *Dug Valois*, ond yn y flwyddyn 1785, pan daeth ei dad i mewn i'r titl *Dug Orleans*, efe a gyfenwyd *Dug Chartres*, a chadwodd y *titl* yma am amryw flynyddau.

Yr oedd *Louis Philippe* yn un o 5 o blant, 4 brawd ac un chwaer. Gelwid hwynt y pryd hwn *Dug Valois, Dug Montpensier, Iarll Beaujolais*, a *Thywysoges Adelaide*. Y chwaer *Adelaide* a fu farw yn ieuangc. Eu tad, *Louis Philippe-Joseph*, a chwenychai yn fawr i roddi iddynt addysg dda, yn yr hyn yr oedd ef ei hun yn ddiffygiol, ac i'r diben hwn gosododd hwynt dan ofal *Madam de Sillery*, neu yn ol ei thitl diweddarach *Countess de Genlis*. Digon gwir na bu'r bendefiges hon byw heb ei beiau mwy na neb arall, ond er hyny ohewydd ei thalentau a'i thymherau da yr oedd yn meddu ar gymwysderau neilluol i gyfranu addysg i'r teulu ieuaingc yma. Ystyriai ei fod o'r pwys mwyaf i gadw plant o'r gadair i fynu rhag i'w meddyliau a'u teimladau gael eu llychwino gan ddylanwadau drwg. Yr oedd yn anghenrheidiol uwchlaw pob peth i blanu a chwrteithio ynddynt ysbryd cariad cyffredinol—cariad at Dduw ac at ei weithredoedd—a'u dwyn i gredu yn wirioneddol fod pob peth yn dyfod o law Duw, Creawdwr a chynhaliwr pawb, yr hwn sy'n ewyllysio lles a dedwyddwch ei holl greaduriaid. I ddwyn hyn oddiamgylch, yr oedd *Countess de Genlis* yn cofleidio pob cyfleusdra i dynu sylw y tylwyth ieuaingc dan ei gofal at weithredoedd y greadigaeth, gan geisio egluro i'w meddyliau egwan y rhyfeddodau mawrion, gan y rhai y mae holl naturiaeth yn cael ei llenwi. Y moddion craill a ddefnyddiai er ffurfio cymeriad ei hysgolheigion ieuaingc oeddent yr un mor ragorol. Fel yma wrth gael eu hyfforddi mewn gwahanol ganghenau dysgeidiaeth, a hyny gan bersonau cymwys at y gwaith dysgasant heb fawr lafur na phoen, i siarad mewn amrywiol ieithoedd. Yr oedd yn gynorthwy iddynt yn hyn fod ganddynt weision a morwynion hyddysg yn yr ieithoedd yma. Gyda bod y meddwl yn cael ei gwrteithio nid oedd y corph hefyd yn cael ei esgeuluso, fel na byddai iechyd wrth hyn yn cael ei beryglu. Yr oedd y bechgyn yn cael eu harfer i oddef pob math o ludded corphorol trwy afaelyd mewn rhyw galedwaith ag oedd yn gofyn egni ac ymroad:—Yn *St. Leu*, pentref allan yn y wlad gerllaw Paris, lle yr oedd y teulu yn aros dan ofal *Countess de Genlis*, yr oedd y tywysogion ieuaingc yn cael ei cyfarwyddo mewn garddwriaeth gan arddwr o *Germany* tra y dysgid hwynt mewn llysieuaeth a physygwriaeth gan wr bonheddig o feddygwr, yr hwn oedd yn gydymaith gwastadol iddynt. Yr oedd ganddynt hefyd weithdai lle yr oeddent yn ymarfer, fel y dywedwn ni mewn iaith gyffredin, a *thurno, gweithio basgedi*, a *saerniaeth*. Yr oedd yr ieuangc *Ddug Valois* yn hoff anghyffredin o'r celfyddydau yma. Yr oedd yn rhagori mewn dodrefn-waith, a thrwy gynórthwy ei frawd, *Dug Montpensier*, efe a wnaeth gwpwrt (cupboard) a board hardd i fenyw dlawd ag oedd yn byw ym mhentref *St. Leu*.

Os gellir coelio tystiolaeth *Countess de Genlis*, yr oedd *Dug Chartres* yn yr amser boreu hwn o'i fywyd yn gystal ag ymhen blynyddau ar ol hyn, yn dangos ei fod yn feddianol ar dymer serchog ac haelionus, heb ynddo un tueddiad i gybydd-dod, ond yn llawn parodrwydd i gyfranu o'i arian i gynorthwyo y rhai fyddent mewn cyfyngder a chaledi. Un o gant a llai na hyny yn y dyddiau presenol a goelia *Countess de Genlis* yn hyn, ac yn wir y mae ymddygiad diweddar *Louis Philippe* ei hun yn ei wneuthur o braidd yn anghredadwy.

Y sawl sydd hoff o chwedlau digrif a diniwed a ga hyfrydwch wrth ddarllen yr hanesyn canlynol am *Ddug Chartres*:—Yn y flwyddyn 1787 *Duges Orleans* oherwydd rhyw anhwyldeb a ymwelodd â *Spa*, gan gymeryd gydâ hi ei phlant ynghyd a *Countess de Genlis*. Gerllaw *Spa*, ychydig filldiroedd allan o'r dre, yr oedd ffynon o ddwfr metelaidd a elwid *Sauveniere*, a thrwy yfed o hono, y *Duges* a adferwyd i'w hiechyd arferol. Mewn llawenydd oherwydd gwellhad eu mham, *Dug Chartres* a'i dri brawd a'i chwaer a benderfynasant gadw gwyl er coffadwriaeth am hyn. Oddiamgylch y ffynon gwnaethant rodle

hardd, a symudasant ymaith y cerig a'r creigiau oeddent ar y ffordd. Addurnwyd y rhodle âg eisteddleoedd, a'r coedydd amgylchynol â blodeu amryliw. Ar derfyn y rhodle a arweiniai i'r ffynon yr oedd gallt fechan o goed yn sefyll ar ddibyn craig uchel a serth iawn; ac ynghanol y goedwig *Dug Chartres* a'i frodyr a'i chwaer a godasant allor i "DDIOLCHGARWCH," a'r geiriau canlynol yn gerfiedig arni:—"*Oherwydd i ddwfr Sauveniere adferyd iechyd Duges Orleans, ei phlant a addurnasant y manau cyfagos, ac a drwsiasant y rhodfeydd a'r coedwigoedd gydâ mwy o ddiwydrwydd na'r gweithwyr a weithient danynt.*" Ar ddydd yr wyl dan sylw *Dug Chartres* a ddangosodd ei serchawgrwydd a'i deimlad mabaidd mewn geiriau cyffrous a tharawiadol iawn, ond yn ddisymwth gadawodd ochr ei fam a chyfeiriodd ei gamrau tua'r allor a chyn pen nemawr amser gwelwyd ef a gaing fechan yn ei law yn cerfio'r gair "DIOLCHGARWCH" arni. Cafodd yr olygfa hon effaith neilldiol ar y gwyddfodolion, a llawer grudd a wlychwyd gan ffrwd o ddagrau.

Ymhen ychydig amser wedi hyn talodd y teulu hefyd ymweliad ag *Eu*, yn *Normandy*, ac oddiyno cymerasant daeth orllewinol heibio *Havre* i for-gilfach *Avranches* lle yr oedd teml *St. Michael*, gweledig am filldiroedd lawer o gwmpas. Am amryw oesoedd bu miloedd o bererinion coelgrefyddol yn teithio o bellder mawr i'r lle cysegredig hwn, a thebygol mai er boddio ysbryd cywreinrwydd yr ymwelodd teulu *Orleans* ag ef. Hyd yr amser hwn yr oedd yr hen fynachlog yn cael ei chadw yn fath o garchar gan y llywodraeth i gospi drwg weithredwyr; ac fel yr oedd yr ymwelwyr ieuainge yn cael eu tywys gan y mynachod i'r gwahanol ystafelloedd a'r ogofeydd tanddaearol, lle yr oedd y troseddwyr yn gorfod aros ddydd a nos, eu calonau a gynhyrfwyd gan deimlad o dosturi. Wrth fyned o ystafell i ystafell gofynodd *Dug Chartres* i'r mynachod a ofalent am y mynachlog, pa le yr oedd y *cawell harn*, yn yr hwn yr oedd y carcharorion weithiau yn cael eu cloi i fyny. Y mynachod a'i hatebasant gan ddywedyd mai nid cawell o *harn* ydoedd ond o *goed*, wedi cael ei wneuthur o gyffiau o ddewrder a maintioli aruthrol, mor agos at eu gilydd fel nad oedd y lled o un i'r llall dros dair neu bedair modfedd. Pan weloddd y cawell synodd *Dug Chartres* yn fawr oblegyd fod y fath greulondeb yn eael ei ganiatau mewn lle mor llaith. Llywydd yn mynachlog a ddywedodd bod *Count d' Artois* (wedi hyny Charles X.) wedi bod yno ychydig fisoedd yn ol, ac wedi gorchymyn i'r cawell gael ei ddinystrio. "*Os felly,*" meddai Dug Chartres, "*pam na allem ni oll fod yn bresenol ar ddydd ei ddinystriad oblegyd byddai hyny yn hyfrydwch mawr genym.*" Y llywydd a appwyntiodd y bore canlynol at y gwaith, a *Dug Chartres* oedd y blaenaf a'i fwyall i daro'r cawell ynghanol bloeddiadau a bonllefau y carcharorion. Yr unig un a welid yn wyneb-drist ar yr achlysur oedd ceidwad y cawell, oblegid yr oedd ef wedi derbyn arian lawer wrth ei ddangos i ddieithriaid. Pan wybu *Dug Chartres* yr amgylchiad hyn aeth at y ceidwad a rhoddodd iddo swm o arian gan ychwanegu mewn modd ysmala, "*O hyn allan yn lle dangos y cau ell i ddieithriaid, dangos iddynt y man lle y bu unwaith yn sefyll, a sicr y bydd y newydd o'i ddinystriad yn fwy a bleser iddynt na'i weled.*" P'un a oedd cymaint o ddynoliaeth yn *Dug Chartres*, ag y mae y ddau hanesyn uchod yn arddangos barned y darllenwyr. Nid yw yn beth ambosibl nad oedd *Louis Philippe* yn ei flynyddoedd boreuol yn ateb i'r dysgrifiad uchod, er ei fod yn awr efallai mor groes i hyny ag yw'r dwyrain i'r gorllewin. Ymgymysgu â dynion drygionus a chyfarfod âg amryw brofedigaethau sy'n ddigon i gam-arwain y dynion goreu allan, yn enwedig yr amser gwamal a chyfnewidiol ieuengctyd. Efallai mai felly y bu ar *Louis Philippe*.

I'w barhau trwy ganiatâd.

MATHEW MOSES.

Ffynon bwrlwm, ger Llendyssil.

ATHRONIAETH ANIANYDDOL.

'The heavens, the air, the earth and boundless sea
Make but one temple of the Deity.'—WALLER.

Yn mhlith pethau eraill a gynnygant en hunain i sylw yr athronydd deallus, ni all lai na sylwi ar addasrwydd neilldiol dyn i'w sefyllfa bresenol; gwel ef fod dyn ar yr un llaw yn greadur o amryw ddymuniadau ag angenrheidiau, ac ar y llaw arall, yn fod wedi ei gynnysgaeddu â dealltwriaeth a chymwysderau cyfansoddiadol i drin natur allanol er boddloni ei ddymuniadau a diwallu ei angenrheidiau. Gwel ef yn meddu galluoedd meddyliol uchel a gwych, pa rai, er hyn, a ofynant am ymarferiad er eu dwyn i'w llawn aeddfedrwydd; gwel natur, ar y llaw arall, yn ei yrru i ddiwydrwydd drwy wrthod amlygu ei thrysorau na chyfrannu o'i chyfoeth i neb ond y diwyd a'r ymdrechgar. Gwel ef yn mhob ystyr yn addas i'r breswyl hardd yn mha un y mae Awdwr natur wedi ei osod. Mae y greadigaeth allanol yn cynnyg i'w sylw amrywiaeth o sylweddau, ym meddu priodoleddau gwahanol iawn; pa briodoleddau a wahaniaethant y naill sylwedd oddiwrth y

llall, ac a'i cymhwysant i gyflawni gwahanol ddibenion yn natur. Ennillir gwybodaeth o'r priodoleddau hyn drwy brofiad cyffredinol dynolryw, ynghyd âg ymchwiliadau llafurus naturiaethwyr. Mae yr holl wybodaeth yr ydys yn ei feddu am y byd sylweddol yn myned dan yr enw Gwyddawr Anianyddol (*Physical Science*); yr hon a rennir i ddau ddosbarth, sef Athroniaeth Anianyddol (*Natural Philosophy*), a Fferylliaeth (*Chemistry*).

Athroniaeth Anianyddol a gynwys ddesgrifiad o'r holl briodoleddau a berthynant i anweithiolrwydd neu gorsafolrwydd (*inertia*), ac ysgogiadau cyrff. Hwyliad y llong, cyflym ehediad pelen-magnel (*cannon ball*), cylchdröadau y planedau, effeithiau tarawiad un corff o sylwedd yn erbyn y llall, ffurfiad y gwahanol beiriannau a addurnant ein gwlad, ydynt oll yn perthyn i'r dosparth hwn. Fferylliaeth a olrheinia briodoleddau temigau (*atoms*), a'r dull yn mha un y mae grynynau un math o sylwedd yn effeithio ar rynynau math arall, pan eu dygir i agos gyssylltiad â'u gilydd.

Pe na buasai ond *un* math o sylwedd, neu *un* elfen yn y gräadigaeth; buasai Athroniaeth Anianyddol yn ddigon i atteb am yr holl weithrediadau a gymerent le o'n hamgylch. Ond yn lle *un* y mae 55 o elfenau, pa rai *ar wahan* a ufuddhânt gyfreithiau Anianyddiaeth (*Physics*); ond pan y dygir dau neu ragor o honynt i gyssylltiad â'u gilydd dan amgylchiadau neillduol, rhoddant dardd i ymddangosiadau gwahanol; — er engraifft, pan y dyger *coppor* a *zinc* ynghyd mewn stad doddedig, collant eu priodoleddau neillduol a ffurfiant *brês*, sylwedd gwahanol i'r ddau. Drwy gynghawseddau (*processes*) neillduol etto, gellir gwahanu y coppor oddiwrth y zinc a'u dwyn yn ol i'w stad dechreuol heb achosi un cyfnewidiad yn eu mhaint na'u cyfansoddiad. Fferylliaeth yw y gangen a olrheinia y gweithrediadau hyn; tra y gwna Athroniaeth Anianyddol olrain ysgogiadau *gweledig* cyrff—cyfreithiau na achosant un cyfnewidiad *cyfansoddiadol* yn y cyrff eu hunain.

Oddiar amser yr enwog Dr. Dalton, o Manchester, yn y flwyddyn 1803, y dyb fwyaf cymeradwy yw, nad yw sylwedd ond cyd-gasgliad o *demigau;* wrth yr hyn yr arwyddir y gyfran leiaf o ddefnydd a all fodoli, nad ellir ei dorri, ond sydd gwbl berffaith yntho ei hun. Er dangos hyranedd (*divisibility*) rhyfeddol defnydd, nodaf y ffaith ganlynol: —Mae y gwaed a rêd yn ein gwythïenau yn gyfansoddedig mewn rhan, o sylwedd dyfrol gloyw a elwir *serum*, yn yr hwn yr ymnofia grynynau (*globules*), y rhai a gyfrannant i'r gwaed ei liw; y grynynau hyn a wahaniaethant mewn tryfesur o'r ddwy-filfed i bedair-filfed ran o fodfedd, er hyny mae eu cyfansoddiad y fath fel yr arweinia i'r dyb eu bod yn cael eu gwneud i fynu o amryw fân rynynau eraill; ac heblaw hyn etto y mae creaduriaid—gweledig yn unig drwy y chwyddwydr (*microscope*)—mor fân fel y gellir eu cynwys mewn un o'r grynynau hyn—creaduriad yn meddu aelodau, symmudiad, amddiffyniad, &c. ïe, *gwaed* cyfansoddedig o *serum* a mân rynynau, pa rai eilwaith ydynt yn debygol o fod yn cael eu gwneud i fynu o amryw eraill. Mae y temigau hyn mor fân fel yr ystyrir hi yr un mor amhossibl i wahaniaethu un o honynt mewn cyfan-gorff o sylwedd ag y byddai i ganfod, a'r llygad noeth, blanhigion, blodau a llysiau ar fynydd, filldiroedd o bellder, er fod y mynydd ei hun yn gwbl weledig. Pe bai golygon dyn yn cael eu gwneyd yn ddigon grymus, gwelai hwy yn mhob elfen, yn yr un modd ag y gwelai y planhigion a'r llysiau ar ei ddynesiad agosach at y mynydd.

Nis gellir cyfnewid natur na dinystrio un o'r temigau hyn. Gallant gyfansoddi ager (*gas*) anweledig, megis yn yr awyr a anadlwn, neu galed-gorff trwm. Gallant ymddangos a diymddangos o flaen y llygad, ond nid ydys yn gwybod am un gallu naturiol a all eu *diddymu*. Maent yn bodoli mor wirioneddol yn yr awyr deneuaf, ag ydynt yn y sylwedd trymmaf. Yr anfarwol Sir Isaac Newton a amlygai ei hun fel y canlyn ar y pwnc hwn; —'Ymddengys i mi yn debygol' meddai, 'fod Duw wedi creu sylwedd ar y cyntaf yn demigau anranadwy, celyd, annhreiddiadwy, hydreigl, yn meddu maintioli, ffurf, a phriodoleddau eraill a weinyddent orcu i ddiben eu cread; a bod y grynynau cyntefig hyn (*primitive particles*) yn anghydmarol galetach nag un corff mân-dyllog (*porous*) cyfansoddedig o honynt.'

Gellir gofyn yma,—Gan nad yw unrhyw gyfan-gorff o sylwedd ond cyd-gasgliad o demigau, pa alla a'u deil ynghyd? Nid ydys yn gwybod: nid oes un bach neu rwymyn gweledig yn eu dàl ynghyd; etto gellir dattod y clymiadau hyn, filoedd a miloedd o weithiau, heb ddinystrio y gallu hyn, na lleihau ei rym; yn yr un modd ag y gellir mynych dderchafu corff oddiar y ddaear heb leihau ei bwysau. Er nad ydys yn adnabyddus o'r gallu ei hun, etto yr ydys yn ddigon cyfarwydd â'i weithrediadau, ac oddiwrth ei weithrediadau gelwir ef y Gallu Cyd-lynol (*cohesive force*), yr hwn nid yw ond agweddiad o'r Gallu Ad-dyniadol (*attractive force.*)

Mae y gallu cyd-lynol yn gwahaniaethu yn fawr, mewn grym, mewn gwahanol sylweddau. Mae yn gryfach, er engraifft, mewn haiarn, nag mewn gwydr, ac mewn gwydr nag mewn dwfr.—Gosoder gwydr neu ddwfr dan wres digonol a throir hwynt i anwedd: yna yr ymddengys gallu gwahanol i'r ddau flaenorol,

yr hwn a gyfenwir y Gallu Gwrthyriadol (*repulsive force*)

Y galluoedd gwrthwynebol hyn ydynt achosion *gwahanol* ffurfiau sylwedd. Amlwg yw pe na buasai ond gallu ad-dyniadol yn y greadigaeth, y buasai i holl rynynau sylwedd ruthro ynghyd gan ffurfio un caled-gorff anferthol ag unffurfiol;—ac o'r tu arall, pe na buasai ond y gallu gwrthyredigol, buasai i'r holl fyd sylweddol a gweledig ddi-ymddangos, a holl rynynau sylwedd a wasgarent drwy yr eängder.

Ond drwy ddoeth gymwysiad y ddau allu hyn gwelir yr amrywiaeth sylweddau yn y greadigaeth. Lle mae y gallu cyd-lynol yn gorbwyso cawn galed-gyrff (*solids*): lle mae y ddau allu yn agos yn gyfartal, cawn wlybyroedd (*liquids*): lle y gorbwysa y gallu gwrthyredigol cawn sylweddau awyrawl (*gases*). G.

HANESION

CARTREFOL A THRAMOR.

LLYNLLEIFIAD.

DISTRYWIAD YR 'OCEAN MONARCH,' GAN DAN,—178 O FYWYDAU WEDI EU COLLI.

Y digwyddiad hwn, un o'r mwyaf alaethus oddiar long-ddrylliad y 'Rothsay Castle,' gynt, nid ym mhell o'r un man, a gymmerodd le dydd Iau y 24ain o Awst. Llong Americanaidd, oedd yr 'Ocean Monarch' o 13 cant o dunelli. Ei gwaith oedd cludo *emigrants* tua'r Americ. Hwyliodd o Lynlleifiad boreu ddydd Iau i fyned i Boston, a 380 o ddynion ar ei bwrdd, yn forwyr a throsglwyddedigion. Torrodd y tan allan tua haner dydd, pan oedd y llong yn myned trwy anghorfa Abergele ychydig filldiroedd y tu dwyrain i'r 'Great Orm'shead.' Ni wyddis yn iawn beth oedd yr achos dechreuol o hono. Aeth y fflamiau ar lêd yn fuan iawn, a gwelwyd nad oedd un gobaith y gellid eu diffoddi. Collwyd pob llywodraeth ar y *passengers*, y rhai a aethant yn wyllt gan enbeidrwydd eu sefyllfa. Nid oedd dim ond terfysg a dychryn a screchfeydd torcalonnus. Rhag angherdd y tan llawer a daflasant eu hunain i'r mor mewn gwallgofrwydd anobaith. Syrthiodd yr hwyl-brenni i lawr, un ar ôl y llall, a'r tân yn myned yn y blaen â'i waith dinystriol, nes bod y poethder ymron yn annyoddefol i'r rhai oeddent yn penderfynu aros ar y bwrdd cyhyd a allent. Ond trwy ragluniaeth daeth cyn hir gymmorth i'r trueiniaid. Achubwyd 156 gan wyr y *Frigate* Brazilaidd, Affonso, trwy ymdrechiadau canmoladwy y *Marquis d'Lisboa, Admiral Grenfell,* a'r *Tywysog de Joinville.* Bu Mr. Littldale a'i gyfeillion, ag oeddynt mewn llong fechan *(yacht),* yn offerynol i achub 32. Y *Prince of Wales,* agerdd-long, 17. A llong pysgota, 13.

Ymhlith eraill ag ydynt wedi ennill clod haeddiannol am eu gwroldeb a'u dynoliaeth ar yr achlysur galarus, y mae un Frederick Jerome, morwr, yn enwedig, uwchlaw pob canmoliaeth. Darfu i'r gwron hwn berylgu ei fywyd er mwyn achub 14 o'i gyd-ddynion. A llwyddodd i'w gwaredu pan oedd pawb eraill wedi eu rhoddi i fynu. Arhosodd ei hun ar y llong oedd ar dân nes gosod y diweddaf o honynt i maes o berygl. Anrhegwyd ef â gwobr-dlws hardd o aur gan yr '*Humane Society,*' ac â 50 punt oddiwrth y Frenhines.

Y LLOFRYDD MATTHIAS KELLY.—Yn groes i ddysgwyliadau llawer, ac er ymdrechiadau taer, methwyd yn lan i gael arbed bywyd y dyn anhappus hwn. Crogwyd ef yn nhref Fynwy, dydd Llun, yr 28ain o Awst.

Y CHARTISTS.

Yn y Sessiwn diweddaf yn Llynlleifiad, cafwyd Peter M'Douall yn euog o derfysg (*sedition*), a dedfrydwyd ef i ddyoddef dwy flynedd o garchar. Y mae nifer fawr o'r blaid hon wedi eu cymmeryd i fynu yn ystod y mis diweddaf, dau y gyfraith newydd. Ymhlith eraill Mr. Joseph Barker, Cyhoeddwr Newyddiadur Chartaidd a elwir '*The People.*' Y 12fed o Fedi, ar etholiad o Aelod i'r Senedd dros dref *Bolton,* cynnygiwyd Mr. B. gan y Chartists. Ac ar ddangosiad dwylaw yr oedd deg o'r presennolion dros Mr. Jos. Barker, am bob un ag oedd dros yr Ymgeisydd arall, Mr. S. Blair, (Tory). Ni aethpwyd i'r *poll* gan nad oedd Mr. B. yn bresennol. Yr oedd efe wedi ei gymmeryd i fynu y dydd o'r blaen ar ei ddyfodiad i *Bolton.* Y mae yn awr yn rhydd, o dau feichnion i sefyll ei brawf.

Y SENEDD.

Medi 5ed, terfynwyd eisteddiad y Senedd. Darllenodd y Frenhines yr Araith yn Nhy yr Arglwyddi, fel y mae yn arferol ar yr achlysur. Nid oedd dim yn yr Araith ag sy'n teilyngu sylw neilldiol.

Yr un dydd cychwynodd y Frenhines, y Tywysog Albert, a'r Teulu Benhinol, i fyned ar hyd y mor i Scotland. Tiriasant yn Aberdeen y dydd Iau canlynol. Y maent yn aros yn Nghastell Balmoral, yn y gym'dogaeth.

Yn nechreu Medi ymwelodd Argl. John Russell â'r Iwerddon, Treuliodd rai diwrnodau yn Dublin, gyda'r Is-lywydd Clarendon. Cyn iddo ddychwelyd cafodd ei wasan-

aethu â *subpaena* i ymddangos a rhoddi tystiolaeth dros Mr. Smith O'Brien, ar ei dreial dyfodol yn *Clonmell.*

IWERDDON.

Tua chanol y mis daeth newydd fod y terfysg wedi adnewyddu yn swydd Tipperary a'i chyffiniau. Ond ymddengys oddiwrth newyddion diweddarach nad oedd iddo un cyssylltiad â'r cynnwrf diweddar; ond mai y peth a arweiniodd yn bennaf i'r cyffro a'r afreolaeth oedd, bod llawer o ddeiliaid yn ddiweddar wedi cael eu troi i maes o'u tai a'u tiroedd, am beidio talu rhent. Gosodwyd y terfysg i lawr mewn amser bach. Er ei fod wedi tawelu yn awr, tyr allan eto, digon tebyg ar y cyfle cyntaf. Y mae amryw achosion i anesmwythder ac anghyttunder yn yr Iwerddon heblaw areithiau cyffrous cynhyrfwyr. Cyn y daw'r bobl i fyw yn foddlon ac yn ufydd i'r cyfreithiau, rhaid eu hargyhoeddi bod y cyfreithiau yn gyfiawn ac yn dda; ac anhawdd iawn os nad amhosibl gwneuthur hynny, heb ryw gyfnewidiad mawr ar y Sefydliad Eglwysig, ac ar y drefn o renti tiroedd. Ond rhaid iddynt wella eu hunain gyda chael cyfreithiau gwell, os mynant wared o'r tlodi a'r anghysur ag sy'n pwyso mor drwm ar y rhan fwyaf o'r genedl. Rhaid i'r gwahanol raddau, yr uchel a'r isel, ddysgu cyd-weithio er iechydwriaeth y wlad. Pan y maent mor chwannog i afaelyd yn y *pike,* ni ddylent ryfeddu fod eu llywodraethwyr yn gwisgo'r *cledd.* Bydd y *'Special Commission'* yn *Clonmell* erbyn hyn wedi dechreu ar y gwaith o brofi y terfysgwyr. Smith O'Brien, a M'Manus, yn gyntaf, mae'n debyg. Y mae'n alarus i feddwl fod cyn lleied o argoelion tawelwch a llwyddiant i'r chwaer-ynys.

TRAMOR.

Ffraingc.—Teimlir fod perygl newydd yn bygwth y werin-lywodraeth ieuangc. Yr oeddid ys dyddiau yn edrych ymlaen gyda chryn ofn at y modd y troai yr etholiadau allan Y mae y drwg a ofnwyd wedi dyfod i ben. Y tri canlynol a ddewiswyd gan y brifddinas i fod yn aelodau o'r *Assembly* :—*Louis Napoleon, Fould,* a *Raspaill.* Bernir oddiwrth y dewisiad fod teimladau y rhan amlaf o'r Parisiaid, os nad y fyddin, yn gryf iawn yn erbyn y llywodraeth bresennol. Y mae *Raspaill* yn un o'r rhai sydd yngharchar am y terfysg a gymmerodd le mis Mai: y mae *Fould* yn perthyn i'r un blaid. Trwy ymdrechiadau yr un blaid hefyd yr etholwyd *Louis Napoleon,* er fod egwyddorion y naill yn groes i eiddo y llall. Deallir nad yw *Louis Napoleon* yn hoffi gwerin-lywodraeth; ac nad yw y rhai a'i dewisasant ef yn chwennych cael Ymerawdwr arnynt, ond gwneud offeryn o hono, er cyrhaeddyd eu hamcanion eu hunain. Heblaw, y mae *Louis Napoleon* wedi ei ethol dros chwech lle arall. Oddiwrth hyn yr ydys yn ofni nad yw Llywodraeth *Cavaignac* yn ddigon cryf, a bod rhyw waith drwg mewn golwg. Y mae yr *Assembly* yn araf iawn gyda'u gorchwyl pwysig o barotoi cyfreithiau sylfaenol y wladwriaeth. Y mae y dyb yn ennill tir y bydd *Louis Napoleon* yn debyg o gael ei ddewis yn *President* y Werin-lywodraeth, ond iddo ymddwyn yn gall.

Germami.—Y mae yr Undeb Cenhedlaethol dan lywodraeth yr *Arch-ddug John,* yn *Francfort,* yn dal ynghyd hyd yma; ond y mae rhwystrau mawrion idd eu symmud cyn ei berffeithio. Nid rhyfedd os gwelir fod hynny yn ormod o beth i'w gael yn awr, ac y daw y drefn newydd i'r dim.

Awstria.—Y mae yr *Hungariaid* oherwydd eu anghyttundeb â'u gilydd wedi gorfod ymostwng i gymmeryd eu llywodraethu gan Awstria yn ôl yr un drefn ag o'r blaen. Y mae y newydd wedi ei sicrhau fod llywodraeth *Vienna* wedi boddloni i dderbyn cyfryngwriaeth *Ffraingc* a *Lloegr* i wneud heddwch rhyngddi â *Sardinia*; ond anfoddlona i Undeb Llywodraethol *Germani* gael un llais yn y matter.

Yr Ital a Sicily.—Awst y 27ain, bu cythrwfl enbyd yn *Leghorn,* ac ymladd rhwng y *National Guard* a'r milwyr a'r bobl. Yr achos o hono oedd, fod y trigolion yn ystyried treth yr halen, a thaloedd eraill, a osodid arnynt yn rhy drwm. Aeth y terfysg heibio, Yn *Genoa* hefyd bu anesmwythder o'r un fath; ond ni wnawd nemmawr niwed.

Llwyddodd Brenin *Naples* i ostwng y gwrthryfel yn *Calabria:* ac yna yn ddioed gwnaeth barotoadau i ail-orescyn *Sicily.* Llynges at y pwrpas a ymadawodd â *Naples* yn cynnwys 7000 o wyr. Ar yr 2fed o Awst, cyrhaeddodd yr ardal yn *Calabria* ag sy gogyfer a *Messina* yn *Sicily:* dim ond y culfor rhyngddynt. Anfonasid 200 o wyr, y rhai oeddent i fyned i mewn, os gallent ryw fodd, i'r amddiffynfa ag oedd o hyd wedi bod ym meddiant milwyr *Naples.* Ar y 3ydd, llwyddwyd yn yr amcan olaf, tra'r oedd y llynges yn *bombardio* y ddinas. Wedi ymladd gwaedlyd dros chwech awr, a dinystrio llawer o'r ddinas, gorfu ar y *Messiniaid* roddi ffordd.

AT Y GOLYGYDD.

Aberdar, Medi 9ed, 1848.

Syr :—Darllenais ar glawr eich Rhifyn diweddaf fel hyn: 'Yr ydym, yn ein swydd olygyddawl, wedi rhoddi tramgwydd i'n cyfaill Mr. Jones, Aberdar, trwy adael allan o'i lythyr, yn Rhifyn Mehefin, rai ymadroddion a *farnasom ni* yn ddiraid ac anweddus.'

Wrth hanner dywedyd y modd y bu, yr ydych yn taflu yr holl fai arnaf fi, a theg i mi gael dywedyd paham yr anfoddlonais. Cyn erioed i'r YMOFYNYDD ddangos ei wyneb dywedasoch fod fy nhafod i yn rhy ddrwg, ac y rhoesech chwi attalfa arno. Minnau attebais na chaech ychwaneg o'm llaw os gwnaech hyny. Pa fodd yr ymddengys nad oeddech yn bwriadu tramgwyddo, nis gwn. Pe buasech wedi dileu hanner fy llythyr heb wybod nad oedd i chwi ganiatad, ni fuaswn yn rhyfeddu. Pe buaswn wedi cablu urddas, neu enllibo y marw, wrth roddi hanes ei fywyd, nid rhyfedd fuasai i chwi eu dileu, *er gwybod y canlyniad:* ond ni wnes ragor nag ail-adrodd geiriau fy ngwrthwynebwr, a gwawdio ychydig ar ei gydmariaeth naccaol o'm pregeth: a'r hyn a ddywedais am 'weinidog parchus yr Ariaid,' oedd, mai yr un dyn ydoedd yn ol dyfod yn ol, ag ydoedd cyn myned oddicartref—yn fy absennu gynt, yn fy absennu etto. Ai anaddas i mi amddiffyn fy hun? Barned y byd.—Ydwyf, &c., J. JONES.

[Nid oes neb a wyr yn well na'n gohebydd mai ein trefn yn awr yw, neu o leiaf ydoedd wrth olygu y Rhifyn hwn, i anfon, mewn amgylchiad o'r cyffelyb, yr ysgrif yn ol i'w hadgyweirio gan yr awdwr, gan roddi ein rhesymau dros y cyfnewidiad a ddeisyfem. Nis gallwn addaw gwneud hyn â phawb o'n gohebwyr. Mae digon o drafferth arnom fel ag y mae. Pe buasem wedi gwneud hyn â'n gohebydd yn yr amgylchiad a gyfeiria atto, byddai yn dda genym yn awr. Gobeithio bellach y bydd hyn o gyfaddefiad yn gyflawn foddhad: nis gallwn wneud rhagor, '*er gwybod y canlyniad.*' Nid y'm yn meddwl fod dim yn ein cyhoeddiad ag sy'n attcb i'r cyfeiriad, 'cablu urddas ac enllibo y marw,' na chwaith fod ein gohebydd yn meddwl dim yn rhagor na rhoddi *snap* wrth fyned heibio; oherwydd nid yw yn gwneud dim dros ei amddiffyniad ef. Pa fodd bynag, nid yw ond cyfiawnder i'r darllenydd, i'r cyhuddwr, a'r cyhuddedig, i ni ddywedyd mai dyma i gyd oedd yr 'absennu' oedd y 'gweinidog parchus' yn euog o hono, (os yn euog?) sef fod Mr. Jones, Rhydybont, *wedi dweud*, yn ei amddiffyniad o'r Drindod, fel y canlyn: 'Gwell na thalu un sylw pellach i ysgrifau Mr. Jones, Aberdar, fuasai ei adael i fwynhau ei deimladau hynod ei hun i gyd, fel y draenog ef phigau, yn ol cynghor un o weinidogion yr Ariaid i mi; yr hwn a ddywedodd *felly* cyn gweled gwaith Mr. Jones yn yr YMOFYNYDD, oddiwrth yr hyn a wyddai am ei briod ddull anserchog eisioes." O'n rhan ni, nid y'm yn meddwl y byddai o un buddioldeb i erlyd *clec* mor ddichwaeth.—GOL.]

BU FARW,

Awst 20ed, yn 73 oed, ar ol hir gystudd, Mrs. Mary Phillips, gwraig Mr. James Phillips, Blaentrafle, plwyf Llanwinio, swydd Gaerfyrddin. Ar ddydd ei hangladd, y Mercher canlynol, ymgynnullodd ei pherthynasau a'i chyfeillion, liaws mawr, pan ddarllenodd a gweddiodd y Parch. J. Jones. Wedi hyn, hebryngwyd hi i Rhydypark, lle traddodwyd pregeth gan y Parch. D. Beynon, gweinidog y lle, oddiar 1 Thes. iv. 14, ac yna, yng ngwydd y gynnulleidfa barchus a syml, gosodwyd yr ymadawedig yn ei bedd—hyd ddydd mawr yr adgyfodiad.—D.B.

Medi 4ydd, yn 75 oed, Samuel Jones, Penllwyn, ger y 'Lamb & Flag,' Glynnedd. Yr oedd yn hen wr cariadus, ac a berchid gan ei gyd-ddynion.—W.L.

BARDDONIAETH.

PENNILLION AR OL MISS MORGAN, TREMAINS, GER PENYBONT-AR-OGWR.

Mae arnaf hiraeth mawr yn wir
Am feinir dirion hoenus,
A ddygwyd bant oddiar y llawr;
Y londeg wawr olygus.

Ai SARAH fwyn a aeth i'r fan
Na ddaw i'r lan ond hyny,
Nes delo'r dydd, daw Iesu ei dwyn,
Heb gur na chwyn i fynu.

Tri deg o flwyddau oedd oedran llawn
Y feinir lawn rinweddau,
Pan darfu yma îs y nen
Gyrhaeddyd pen ei siwrnau.

Abernanthir, mi gofia'r lle,
Y fangre hen ddedwyddol,
Mi gwrddwn SARAH, 'r eneth fwyn,
Fel cyson swyn 'r hen bobol.*

Cy'mares gu fy mywyd gynt,
Ges ar fy hynt oddiyno;†
Ac er y pryd mae blwyddau maith,
Mwy! mwy na gwaith anghofio.

Aeth llawer tymhestl dros fy mhen,
Wrth îs y nen ymdeithio;
I'r beddrod oer mae llawer câr
Yn gynar wedi eu rhifo.

Aeth SARAH eto lawr o'm blaen,
At deulu mân y dyffryn;
Daw'm gyrfa innau îs y nen,
Daw, daw i ben yn sydyn.

Wrth golli cymaint sy mor gu,
'Rwy bron a cholli f'hunan;
Ant ymaith oll, gadawant fi
O ddifri'n eiddil egwan.

Boed teulu SARAH hygar fwyn,
Yn ymddwyn yn gysonol,
Fel byddont barod oll mewn bri,
I'w trosi'r byd tragwyddol.

Gobeithio byddaf innau'r gwan,
Yn meddu rhan a'm dalio,
Pan fyddo holl elfenau'r llawr
Mewn unawr yn dadfeilio.

Er fwyn dy Fab rho ini gael
Oll afael ar ddedwyddyd;
Boed ini gael bawb oll ynghyd
Mewn gwynfyd yn yr ailfyd.

Glyn Nedd. AB DAFYDD.

* Gyda'i thadcu a'i mamgu yn Glyn Nedd.
† Chwaer ei thad.

[No 15 December 1846]
Nos.

YR YMOFYNYDD.

'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.'—PAUL.

Nid ydym yn attebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr.—GOL.

RHESYMAU DROS RYDDID CREFYDDOL.

1. NID yw yn perthyn i Lywodraethwr gwladol i benderfynu beth fydd crefydd ei ddeiliaid. Ni dderbyniodd orchymyn nac awdurdod i wneud hynny: dim o'r Bibl; canys pregethodd Pedr a Phaul yn erbyn ewyllys y llywodraethwr ac mewn gwrthwynebiad i'w orchymyn: nid chwaith oddiar un cytundeb o ran y bobl; o herwydd nid oes nemawr a fyttent, ac os mynent, nid oes neb a allai roddi i fynu gofal ei iechydwriaeth i ddwylaw arall.

2. Nid yw crefydd werth dim yn y byd oddieithr ei bod yn tarddu oddiar y *deall* a'r *ewyllys*.

3. Arferyd *trais* er mwyn gwneud i ddynion gredu, sydd wrthuni noeth. Ni ellir gwneud i ddyn gredu athrawiaeth y Drindod trwy roi ei fys-bawd mewn cogwrn tro, neu drwy unrhyw arteithiau corfforol. Y cwbl a all hynny wneud fydd, gwneuthur *celwyddog* a *rhagrithiwr* o hono, gyda'i fod yn heretic.

4. Y di-egwyddor a ddiangc trwy gyd-ymffurfio, a'r cydwybodol yn unig a gospir; ac felly, yr unig ganlyniad fydd, *anudon*, ar yr un llaw, ac ar y llaw arall dioddefaint diddyben.

5. Y mae yr awdurdod a honnir yn *anfuddiol*, fel y mae yn anghyfiawn; o herwydd nid yw llywodraethwyr yn fwy tebyg o fod yn gwybod y gwirionedd na dynion eraill; nac mor debyg â llawer. Ymddengys hyn oddiwrth yr amrywiaeth syniadau ag sydd rhwng llywodraethwyr a'u gilydd.

6. Os un gyfeiliornus fydd crefydd y llywodraethwr, yna yr holl ddrygau uchod a wneir yn waeth etto, a bydd yr holl fantais o ochr cyfeiliornad: y rhai sydd mewn gwirionedd yn cael eu troi, ydynt yn cael eu troi i gyfeiliornad: y rhai yn unig a *ddywedant* eu bod wedi eu troi a gofleidiant gyfeiliornad a chelwydd yn eu llaw-ddehau, tra y syrth y dioddefiadau oll ar y rhai y mae y gwirionedd ganddynt.

7. A gadael bod gan y llywodraethwr gwladol hawl i *ddir-gymhell*, rhaid fod yr hawl gan bob llywodraethwr: a chan mai *un* yw y gwirionedd, a bod cyfeiliornad yn aml-ddull, bydd y trais a arferir yn erbyn y gwirionedd, ar y cyfan, yn gan-cymmaint a'r hyn a arferir drosto. Os dywedir mai 'dyledswydd y llywodraethwr yw i ddir-gymhell i'r *wir* grefydd yn unig,' y mae'r gofyniad yn dychwelyd, 'Pwy sydd i fod yn faruwr gwirionedd?' Pob

llywodraethwr a farna mai ei grefydd ei hun sydd wir, ac yn hynny gwahaniaetha oddiwrth lywodraethwyr eraill. Nis gellir dangos fod yr un hawl gan neb o honynt, o leiaf hyd nes cytunont â'u gilydd.

8. Os cyfiawn, mewn un mesur, arferyd trais mewn pethau crefyddol, yna cyfiawn ac angenrheidiol hefyd fyddai dilyn y drefn i eithafoedd a'r llymder pellaf: oherwydd, os dyledswydd y llywodraethwr yw, i ddirgymhell pawb i gofleidio ei grefydd ef, y ffordd rwyddaf a bercaf i effeithio hyn fyddai y ffordd oreu: llosgi, crogi, arteithiau fyddent y moddion mwyaf trwyadl a mwyaf tebygol i lwyddo, ac am hynny dylid eu dewis; ac yn ol hynny buasai creulondeb yn angenrheidiol i wir grefydd!

9. Heblaw, y mae hanesyddiaeth yn profi nad ellir fyth ddwyn oddiamgylch y cydymffurfiad a geisir, hyd yn nod gan yr arteithiau creulonaf, a'r erlediigaethau mwyaf parhäus. Wrth olrhain hanes Cristionogrwydd, fel hefyd hanes yr holl grefyddau, cawn weled mai 'Had yr Eglwys fu gwaed y Merthyron.' O.

CYDWYBOD.

Mr: Ymofynydd:—Y mae ein cynefindra â llawer o eiriau a brawddegau, yn peri ein bod yn ddiystyr ac yn anwybodus o'u gwir synwyr a'u cynnwysiad, yr hyn a arweinia i gyfeiliornadau mwy neu lai niweidiol, yn ol tuedd ymarferol yr hyn y cyfeiliornir yn ei gylch. Mynych iawn yr arferir y gair Cydwybod, ond barnwyf fod cryn gamgymeriad ac anwybodaeth o'r hyn a ddeallir wrtho, yr hyn sydd yn peri dyryswch a niwed. Fy mwriad presenol ydyw gwneuthur ychydig sylwadau arno, i'r dyben o alw sylw eich darllenwyr at y pwngc, nes peri iddynt chwilio a barnu drostynt eu hunain.

Ystyrir cydwybod yn gyffredin megys tyst, neu farnydd, Dwyfol ac anffaeledig, yn mynwes pob dyn, megis llais Duw yn yr enaid: credwyf fod y dyb hon yn gyfeiliornus, yr hyn a ymdrechaf brofi yn ol llaw. Ni fwriadwyf yn bresenol chwilio'r pwngc hwnnw, sef, A ydyw egwyddorion ymarferol bywyd, yn blanedig naturiol yn mhob dyn: neu ynteu, a dderbynir hwynt trwy gyfrwng y synwyrau? Cadarnhäi Locke y golygiad olaf. Fe wasanaetha ein dyben yn bresenol, i sylwi fod dyn megis creadur rhesymol, yn feddiannol ar deimlad moesol, yr hwn, ond appelio ato yn onest, a amlygir. Dyma oleuni'r enaid, â'r hwn 'y goleuir pob dyn, sydd yn dyfod i'r byd.' Ond y mae y goleuni naturiol hwn yn ddarostyngedig i dywyllni a chamddefnyddiad; ac megis y par llygad drwg, neu afiach, i'r holl gorff fod yn dywyll, felly y par y diffyg o'r iawn-arferiad o'r goleuni sydd ynom, dywyllwch nas gwyddis ci faint! Mat. vi. 22, 23. Noda yr Apostol rai o'i effeithiau yn Rhuf. i. y rhai a welir yn hanes pob cenedl a fu ac y sydd. Ond i ddyfod yn nes at y pwngc; wrth Gydwybod, yn ol yr arferiad cyffredin o'r gair, y deallwyf, ein gwybodaeth o uniondeb neu drawsedd ein golygiadau a'n gweithredoedd, a'n barn ddilynol arnynt. Y mae yn berffaith hysbys fod cydwybodau dynion mor amrywiol a'u barnau; y mae yr un mor hysbys, fod cydwybod yr un person yn gyfnewidiol, a bod ei ddedfryd bresenol, yn fynych yn dra gwahanol, ïe, yn hollol wrthwyneb i'r hyn ydoedd yn flaenorol; a hynny yn yr ymofynydd cyson a llafurus am wirionedd. Ymddengys yn eglur oddiwrth hyn, nad ydyw cydwybod ddim ond ein golygiadau ar y gweithredoedd a gyflawnom, ac megis y gellid disgwyl, amrywia yn ol arferion a defodau y wlad y byddys ynddi, a'r

amgylchiadau y byddom danynt, dygiad i fynu, rhagfarn, ynghyd a gwahanol raddau mewn gwybodaeth; amrywia hefyd mewn person unigol, yn ol ei gynydd mewn gwybodaeth. Y Pabydd a gred yn gydwybodol, yn anffaeledigrwydd Eglwys Rhufain. Y Protestant yntau a farna o gydwybod, ac a ymneilldua o'i chyfundeb: mewn gair, y mae genym Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, Trindodiaid ac Undodiaid, Calfiniaid, Arminiaid, dynion o bob enwad, ac yn coleddu y golygiadau mwyaf gwrthwynebol i'w gilydd, oll yn tystio eu bod felly 'o gydwybod,' ac nid oes genym unrhyw reswm dros dderbyn tystiolaeth y naill mwy na'r llall; y maent oll yn credu ac yn gweithredu yn ol eu gwybodaeth. Dywed yr Apostol Paul mai anwybodaeth a barai fod gan rai o'r dychweledigion yn Corinth 'gydwybod i'r eilun hyd y pryd hyn;' eraill drwy eu gwybodaeth, 'a wyddent nad ydoedd eilun ddim yn y byd.' Gwendid ac anwybodaeth lluaws o'r cyn-Grist'nogion, a barent iddynt lynu cymaint wrth seremoniau a gwyliau y gyfraith Iuddewig; 'Y mae un yn credu y gall fwyta pob peth, ac y mae arall yr hwn sydd wan yn bwyta dail.' 'Y mae un yn barnu diwrnod uwchlaw diwrnod, ac arall yn barnu pob diwrnod yn ogyfuwch;' gwahaniaethai eu cydwybodau, yn ol graddau eu ffydd a'u gwybodaeth. Pan dywyllir y 'goleuni sydd ynom,' coleddir y golygiadau mwyaf cyfeiliornus, a chyflawnir y gweithredoedd mwyaf anghyfiawn a chreulawn, yn y modd mwyaf 'cydwybodol;' Crist ei hun a ddywed y tybiai pwy bynag a laddai'r Apostolion, 'eu bod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw.' Erlidiai Saul yr Eglwys o gydwybod, dygai zel tuag at Dduw, ond nid yn ol gwybodaeth: 'Eithr mi a gefais drugaredd' medd efe, 'am i mi yn *ddiarwybod* ei wneuthur drwy anghrediniaeth.' Y fath ydoedd anwybobaeth ein hynafiaid yn Mrydain, ychydig o ganrifau yn ol, fel y barnent yn ddyledswydd arnynt ddodi y rhai a gyfrifent yn hereticiaid i farwolaeth, a dyfethwyd cannoedd yn y modd hyn gan Brotestaniaid, yn gystal a Phabyddion. Yn y dyddiau goleuedig hyn, ni phetrusa cydwybodau miloedd o grefyddwyr, braidd o bob enwad, yn America, a pharthau eraill o'r byd, i honi hawl yn ngwaed a chnawd eu cydgreaduriaid, eu caethiwo, ac ymddwyn tuag atynt, fel pe byddent anifeiliaid!

Wrth ystyried y ffeithiau hyn, canfyddir yn eglur, nad ydyw cydwybod bob amser yn 'lais Duw yn yr enaid,' a'i bod yn fynych iawn yn dra thywyll a ffaeledig; ac nad ydyw ein bod o gydwybod o'r farn yma, ac yn cyflawni y weithred arall, oddiar yr un ystyriaeth, yn unrhyw brawf o wirionedd y naill na'r llall; ar yr un pryd ni ddylid er dim groesi llais cydwybod, ond ufuddau iddo, yr hyn o leiaf a brawf ein gonestrwydd a'n diragrithrwydd. Nid yw llais cydwybod yn anffaeledig un amser mwy nag arall, hyd y nod ar wely cystudd ac angau; tybia llawer fod tystiolaethau olaf, a marwolaethau dedwydd personau o'u golygiadau hwy yn brawf cadarn o wirionedd y golygiadau hyny; ond y mae hyn yn profi gormod, oblegyd y mae genym esiamplau anwadadwy, o bersonau gwahanol iawn eu barnau, yn tystio â'u hanadl olaf, eu crediniaeth ddiysgog yn ngwirionedd eu hathrawiaethau. Llawer o Anffyddiaid proffesedig a fuont feirw yn ddieithr i boenau cydwybod. T. Paine, awdwr 'Oes Rheswm,' wedi cyhoeddi y rhan gyntaf o'i lyfryn, a gymerwyd yn glaf o'r dwymyn, ofnid ganddo ei hunan ac eraill, y profai yn farwol: wrth gyhoeddi yr ail ran o'i lyfr, ymffrostiai ei fod tra yn ei glefyd, yn ystyried gyda boddhad adnewyddol, ei gyhoeddiad o'r rhan gyntaf o 'Oes Rheswm,' o ganlyniad dywedai ei fod yn gwybod trwy brofiad, y prawf cydwybodol o'i egwyddorion. Ychydig, feddyliwyf, a gyd-farnant ag ef yn

hyn. Dylasai awdwr 'Oes *Rheswm*,' ddyfod a rhyw brawf mwy rhesymol na hyn, o wirionedd ei egwyddorion. Oddiwrth yr ystyriaethau uchod, canfyddir yr angenrheidrwydd anhepgorol o gydwybod *oleuedig*, ynghyd a'n dyledswydd i lafurio yn ddiorphwys am y gwirionedd; y mae y moddion genym, nid oes dim yn eisiau ond eu hiawn arferyd,; yr ydym yn gyfrifol i Dduw, am yr hyn a ymddiriedodd efe i ni; mawr ydyw y gogoniant a osodwyd ar ddyn yn ei greadigaeth, teilynga ei ran ysbrydol a rhesymol y sylw penaf, drwy hon y tebygola i'r Creawdwr anfeidrol, ac y gelwir arno i'w ddilyn yn feunyddiol.

'Ysbryd cystuddiedig, pwy a'i cyfyd?' Mor boenus ydyw cydwybod euog, yn teimlo yn llym oddiwrth esgeulusdra a phechod! O'r ochr arall, pa lawenydd a gorfoledd mwy gwerthfawr a dymunol na thystiolaeth cydwybod oleuedig, 'mai mewn purdeb a symlrwydd duwiol yr ymddygasom yn y byd!' A chenym gydwybod dda, pwy all ein gofidio? Y pryd hyn y mae genym hyder ar Dduw, ac efe a fydd yn noddfa a nerth i ni, yn gymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. Mewn trefn i *wneuthur* gwirionedd, a'i arferyd yn ein bywyd, rhaid yn gyntaf ei *wybod;* ond bydd i wybodaeth o hono, heb ei wneuthur, beri i'n cyfrifoldeb a'n cospedigaeth fod yn fwy: drwy wneuthur gwirionedd y deuwn i fwynhau ychwaneg o'i drysorau, 'Oblegyd pwy bynag sydd ganddo, i hwnw y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd; eithr pwy bynag nid oes ganddo, oddiarno ef y dygir, ïe, yr hyn sydd ganddo.' W.

DWYFOL YSBRYDOLIAETH YR YSGRYTHYRAU.

Parhad o tudal. 325.

Yn y Traethawd am fis Hydref, ymdrechais esbonio rhai adnodau a ddyfynir i brofi Dwyfol Ysbrydoliaeth cynhwysiad pob cyfran o'r Ysgrythyrau; yn nesaf cynnygiais ddangos nad yw yn angenrheidiol fod ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau dan Ddwyfol Ysbrydoliaeth, oherwydd nad yw yr ysgrifeniadau yn cynnwys nemawr neu ddim ag sydd yn gofyn gallu goruwchddynol i'w cyfansoddi; ac na ddylid myned at y dawn gwyrthiol i gyfrif am ddim, ond yr hyn na ellir cyfrif am dano yn un rhyw ffordd arall: dywedais hefyd nad oes dim sydd yn afresymol yn y dyb a goleddir gan rai, fod y dysgyblion yn ysgrifenu rhai o'r pethau mwyaf hynod mewn cof-lyfr; ac yn olaf sylwais nad yw yn canlyn, oherwydd fod rhai wedi derbyn datguddiadau mewn modd goruwchnaturiol, fod yn rhaid cael cynhorthwy yr un gallu i ysgrifenu hanes y datguddiadau hyny ar lyfr, neu ymresymiadau oddiwrthynt. Dyma oedd cynhwysiad fy Nhraethawd diweddaf ar y pwne hwn, ac yn nesaf y mae yn deilwng o sylw,

Nad yw ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau yn un man, a allaf fi yn awr gofio, yn honi hawl i ddwyfol ysbrydoliaeth *fel Ysgrifenwyr*. Y mae yn wir fod yr Apostol Paul yn dyweyd wrth y Corinthiaid ei fod ef yn traddodi iddynt yr hyn a dderbyniodd gan yr Arglwydd, sef sefydliad y cymun, 1 Cor. 11, 23. Mewn man arall, dyweda wrth yr un eglwys, 'Canys mi a draddodais i chwi ar y cyntaf yr hyn hefyd a dderbyniais, farw o Ghrist dros ein pechodau ni,' 1 Cor. 15, 3. Mewn amrywiol o fanau eraill y darllenwn ei fod yn ysgrifenu meddwl yr Arglwydd, neu yr hyn a dderbyniodd mewn modd goruwchnaturiol. Fel y sylwyd yn barod, y mae llawer o wahaniaeth rhwng dyweyd i fod un wedi derbyn rhyw genadwri yn uniongyrchol oddiwrth Dduw, a dywedyd ei fod yn cyflwyno y genadwri

i'r byd tan arweinyddiad yr Ysbryd Glan. Y mae pob dyn a fedda ar alluoedd meddwl cyffredin yn meddu ar ddigon o gymmwysderau at drosglwyddo ei feddwl neu ei wybodaeth i ddeall eraill. Y mae hyn yn wir mewn pethau naturiol, pethau perthynol i'r byd a'r bywyd hwn; a phaham na all fod yn wir mewn pethau crefyddol? A ydyw yn orchwyl mwy anhawdd trosglwyddo gwybodaeth grefyddol na gwybodaethau naturiol? Meddyliwn fod Paul, neu Petr, neu ryw un o'r Apostolion, yn derbyn datguddiad oddiwrth Dduw ynghylch adgyfodiad y meirw, neu i fod adgyfodiad y meirw yn beth ag fydd ryw bryd yn sicr o gymeryd lle. Pwy yn ei iawn bwyll a anturia ddyweyd na allasent heb gymhorth goruwchnaturiol drosglwyddo y fath ddatguddiad i'r byd? Os camsynient ynghylch amser neu ddull yr adgyfodiad, hyny fyddai yr eithaf, ac ni fyddai o fawr pwys mewn cydmariaeth i sicrwydd y ffaith, sef y bydd i adgyfodiad y meirw i gymeryd lle ryw bryd ag y mae Duw yn gweled yn addas. Dyma yw y brif egwyddor, a chael sicrwydd yn rhyw fodd am hon yw y prif beth ag oedd yn eisiau ar y byd.

Ond pa fodd bynag, y mae lle i gredu nad yw holl sylwedd Epistolau Paul ychwaith wedi deilliaw yn uniongyrchol oddiwrth Dduw. Yr oedd yr Apostol yn ysgrifenu rhai pethau a hono ei hun, neu heb gymhorth goruwchnaturiol, onite beth sydd i'w ddeall wrth y fath frawddegau a'r rhai canlynol? 'A hyn wyf fi yn ei ddyweyd o ganiatad, nid o orchymyn,' 1 Cor. 8, 6. 'Eithr am wyryfon, nid oes gennyf orchymyn oddiwrth yr Arglwydd, ond barn yr ydwyf yn ei roddi,' adn. 25. 'Ac wrth y lleill, dywedyd yr wyf fi, ac nid yr Arglwydd,' adn. 12. Mewn man arall apelia at eu deall, 'Dywedyd yr wyf fel wrth rai synwyrol; bernwch chwi beth yr ydwyf yn eu dywedyd,' 1 Cor. 10, 15. Pa hawl oedd gan yr Apostol i'w hanog hwynt i farnu os yr Ysbryd Glan oedd yn llefaru trwyddo? Eto, 'Nid am ein bod yn arglwyddiaethu ar eich ffydd chwi, ond yr ydym yn gyd-weithwyr i'ch llawenydd,' 2 Cor. 1. 24. Paham na allasent arglwyddiaethu ar eu ffydd os oeddynt yn ystyried eu hunain yn llefaru neu yn ysgrifenu yn wastad dan ddwyfol ysbrydoliaeth? 'Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd, nid wyf yn ei ddywedyd yn ol yr Arglwydd, eithr megis mewn ffolineb, yn hyn o fost hyderus,' 2 Cor. 11. 17. Nid yw y brawddegau hyn y fath a ddysgwylid oddiwrth un a ystyriai ei hun yn wastad tan arweinyddiad yr Ysbryd Glan.

Pe buasai Apostolion Christ yn ystyried eu hunain yn wastad dan ddylanwad yr Ysbryd, paham yr ymddarostyngent i ymresymu? Oblegid nid yw y gwaith o ymresymu ond y dull ag y mae Awdwr natur wedi appwyntio i greaduriaid rhesymol i gael gafael yn y gwirionedd. Arwydd o ffaeledd ydyw. Ni dybygem nad oes dim eisiau ar Dduw ymresymu, oblegid y mae pob gwirionedd yn noeth ger ei fron, onite nis gall fod yn hollwybodol. Ond y mae'r Apostolion yn ymresymu. Gellid meddwl y buasai yn llawer mwy boddhaol i'r eglwysydd pe llefarasent fel yr hen broffwydi Iuddewig, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd,' neu 'Medd yr Arglwydd.' Y mae rhyw beth sydd yn awdurdodol yn y dull hwn o annerch: gosoda derfyn ar ymresymu; nid oes dim lle myned yn mhellach. Ond nid felly gwna yr Apostolion; eithr fel dynion yn teimlo eu bod yn ddarostyngedig i gamsyniadau, ymresymant. Y mae yr Apostol Paul yn hynod fel ymresymwr cyfrwys a darbwylliadol. Pwy all ddangos rhagorach dernyn o ymresymiaeth na'r rhan olaf o'r bummed Bennod at y Rhufeiniaid? Dichon y dywedir fod yr Apostol yn ymresymu er mwyn gwneyd y pwnc yn fwy cadarn, er ei fod yn deilliaw o ddwyfol ysbrydoliaeth. Mi dybygwn ar y

tyb hyn fod yr Apostol yn gwneyd gwaith ofer, oblegid nid oes dim a all gael mwy o awdurdod ar grediniaeth dynion, na sicrwydd fod y peth a geisir ganddynt gredu wedi dyfod yn uniongyrchol oddiwrth Dduw. Pe anturiai un gynnyg i sylw dynion, ryw beth a broffesai ei fod wedi ei dderbyn gan yr Ysbryd Glan, trwy *ymresymu*, byddai lle i ddrwg-dybied geirwiredd ei honiad: byddai ei ymddygiad ef yn bradychu ei ffydd ef ei hunan yn ei genadwri. Ar y cyfan, ymddengys i mi fod gwaith yr Apostolion yn ymresymu yn brawf nad oeddynt yn ystyried eu bod yn ysbrydoledig yn y peth yr ymresyment yn ei gylch.

Hefyd, ymddengys yr Apostol Paul fel pe byddai am rai pethau yn ansicr yn ei feddwl. 'Mi a fedyddiais hefyd,' medd efe, 'dylwyth Stephanus: heb law hyny nis gwn a fedyddiais i neb arall,' 1 Cor. 1, 16.* Pell iawn yw ansicrwydd o fod yn un o nodau anffaeledigrwydd.

Yr oedd yr Apostol nid yn unig am rai pethau yn ansicr yn ei feddwl, ond hefyd yn agored i gamsyniadau. Pan ar fedr morio o *Miletus* i *Corinth*, y y mae yn annerch henuriaid yr Eglwys fel hyn, 'Ac yr awrhon, wele, mi a wn na chewch chwi oll ym mysg y rhai y bum i yn tramwy yn pregethu teyrnas Dduw, weled fy wyneb i mwyach,' Actau 20, 25. er hyny ymddengys iddo fyned i *Miletus* wedi y tro hwn, oblegid y mae yn dywedyd yn ei ail lythyr at Timothy, 4, 20. i *Erastus* fyned i *Corinth*, ac iddo adael *Trophimus* yn *Miletus* yn glaf. Hefyd yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, pen. 15, 24. 'Pan elwyf i'r Hispaen myfi a ddeuaf attoch chwi.' Ac yn adn. 28, 'Gwedi i mi gan hynny orphen hyn, a selio iddynt y ffrwyth hwn, mi a ddeuaf heboch i'r Hispaen.' Ond y mae yn lled debyg oddiwrth bob hanes credadwy na fu Paul erioed yn yr Hispaen. Ymddengys hefyd ond cydmaru 1 Cor. 16. 5. â 2 Cor. 1. 15, fod yr Apostol wedi gwneyd rhyw gamsynied, ac i fod rhai yn eglwys Corinth yn sisial ei fod yn ddaufeddyliog. Pe buasai yr Apostol bob amser tan ddwyfol ysbrydoliaeth, nis gallasai fod yn agored i gamsyniadau.

Y mae hefyd yn adnabyddus i bawb sydd wedi cydmaru y dyfyniadau a wneir gan ysgrifenwyr y Testament Newydd â'u cyntefig yn yr Hen, fod llawer o honynt yn wallus, a rhai o honynt mor wallus fel i niweidio neu i gyfnewid eu meddwl dechreuol. Pe buasai yr ysgrifenwyr tan arweinyddiaeth yr Ysbryd, braidd y gallasai y ffaeledd hyn gymeryd lle, oblegid yr oedd mor hawdded i'r Ysbryd ddyfynu yn iawn ac iddo beidio. Y mae yn lled debyg fod Paul yn dyfynu yr Ysgrythyrau Iuddewig o'i gof, ac er mai Iuddew ydoedd ac yn deall Hebraeg yn eithaf da, ei fod yn darllen cyfieithad y Deg a thriugain yn fwy mynych na'r Bibl Hebraeg. Os yw hyn yn wir, gall gyfrif am lawer o'r gwahaniaeth. Gosodaf i lawr yma rai o'r dyfyniadau a'r manau cyferbyniol iddynt yn yr Hen Destament, gan obeithio y bydd yn rhyw adeiladaeth i ddarllenwyr ymofyngar.

YR HEN DESTAMENT.	DYFYNIADAU YN Y NEWYDD.
'Ac efe a ddywedodd, Dos, a dywed wrth y bobl hyn, Gan glywed clywch, ond na ddeallwch; a chan weled gwelwch, ond na wybyddwch. Brasa galon y bobl hyn, a thrymha eu clustiau, a chau eu llygaid; rhag iddynt weled â'u llygaid, a chlywed â'u clustiau, deall â'u calon, a dychwelyd a'u meddyginiaethu.'—Esaia 6, 10.	'Ac ynddynt hwy y cyflawnir prophwydoliaeth Isaias yr hon sydd yn dywedyd, Gan glywed y clywch ac ni ddeallwch, ac yn gweled y gwelwch ac ni chanfyddwch. Canys brasawyd calon y bobl hyn, a hwy a glywsant a'u clustiau yn drwm, ac a gauasant eu llygaid; rhag canfod â'u llygaid, a chlywed â'u clustiau, a deall â'r galon, a throi ac i mi eu hiachau hwynt.'—Matt. 13, 14, 15.

* Gwel hefyd pen. 4, 19. pen. 16, 7. Phil. 2, 23. 2 Cor. 12, 2, 3.

Dyfynir y geiriau hyn o eiddo Esaia hefyd yn Marc 4, 12. yn Luc 8, 10. yn Ioan 12, 43. yn yr Actau 28, 26. ac yn Rhufeiniaid 9, 8. ac y mae'r dyfyniadau oll yn gwahaniaethu ychydig ar eu gilydd. Y mae hyn yn brawf nad yr Ysbryd Glan oedd yn gosod y geiriau yn eu meddwl. Eto,

YR HEN DESTAMENT.

Yna y daeth Dafydd i Nob at *Abimelec yr offeiriad*, &c.—1 Sam. 21, 1.

Ac ar ol y dyddiau hwny y daeth gair yr Arglwydd at Elias yn y *drydedd flwyddyn*, gan ddywedyd, Dos, ymddangos i Ahab, ac mi a roddaf glaw ar wyneb y ddaiar.—1 Bren. 18, 1.

Tera hefyd a fu fyw ddeng mlynedd a thriugain ac a genhedlodd Abram.

A dyddiau Tera oedd bum mlynedd a dau can mlynedd, a bu farw Tera yn Haran.

Ac Abram oedd fab pymtheg mlwydd a thriugain pan aeth efe allan o Haran.—Gen. 11, 26, 32. pen. 12, 4.

Am hyny yr oedd Tera yn fyw pan aeth Abram i Canaan.

A hefyd *Jacob* a ddaeth yn llwyddiannus i ddinas Sichem * * * ac a *brynodd* ran o'r maes y lledasai ei babell ynddo, o law meibion Hamor tad Sichem am gan darn o arian.—Gen. 33, 18, 19.

Am hyny y caethgludaf chwi i'r tuhwnt i *Damascus*, medd yr Arglwydd.—Amos 5, 27.

Mab deng mlwydd ar hugain oedd Dafydd pan dechreuodd deyrnasu, a *deugain mlynedd* y teyrnasodd efe.—2 Sam. 5, 4. Ac yn y bedwar ugeinfed a phedwar cant o flynyddoedd gwedi dyfod meibion Israel allan o'r Aipht, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Solomon ar Israel.—1 Bren. 6, 1. *Am hyny* 436 *ac nid* 450 *y bu barnwyr ar Israel.*

A bu farw o'r pla *bedair mil ar hugain.*—Num. 25, 9.

Nid oedd *dim yn yr arch ond y ddwylech o faen* a osodasai Moses yno yn Horeb lle y cyfammododd yr Arglwydd â meibion Israel pan oeddynt yn dyfod o wlad yr Aipht.—1 Bren. 9, 9.

DYFYNIADAU YN Y NEWYDD.

Pa fodd yr aeth efe (Dafydd) i dy Dduw dan *Abiathar yr archoffeiriad* ac y bwytaodd o'r bara gosod.—Marc 2. 26.

Eithr mewn gwirionedd meddaf i chwi, llawer o wragedd gweddwon oedd yn Israel yn nyddiau Elias pan gauwyd y nef *dair blynedd a chwe mis*, fel y bu newyn mawr trwy yr holl dir.—Luc 6, 25.

Ac oddi yno wedi *marw ei dad*, efe a'i symmudodd ef i'r tir yma yn yr hwn yr ydych chwi yn preswylio yr awr hon.—Actau 7, 4.

A hwy a symudwyd i Sichem ac a ddodwyd mewn bedd *a brynasai Abraham* er arian gan feibion Emmor.—Actau 7, 16.

Minnau a'ch symmudaf chwi tu hwnt i *Babilon.*—Actau 7, 43.

Ac wedi y pethau hyn, dros yspaid ynghylch pedwar cant a deng mlynedd a deugain, efe a roddes farnwyr iddynt hyd Samuel y prophwyd; ac ar ol hyny y dymunasant gael brenhin, ac fe roddes Duw iddynt Saul fab Cis, gwr o lwyth Benjamin *ddeugain mlynedd.*

Ac na odinebwn fel y godinebodd rhai o honynt hwy, ac a syrthiodd mewn un dydd *dair mil ar hugain.*—1 Cor. 10, 8.

A'r hwn oedd y thuser aur ynddo, ac arch y cyfamod wedi ei goreuro o amgylch; *yn yr hon yr oedd y crochan aur a'r manna ynddo, a gwialen Aaron*, yr hon a flagurasai, *a llechau y cyfamod.*—Hebr. 6, 4.

Nid yw y gwahaniaeth uchod o fawr pwys yn ngolwg y sawl sydd yn credu am ein Harglwydd Iesu Ghrist a'i genhadon eu bod yn fynych yn llefaru ac yn ysgrifenu heb gynhorthwy yr Ysbryd Glan, a'u bod yn dyfynu Ysgrythyrau yr Hen Destament ar eu cyfrifoliaeth eu hunain i'r diben i gadarnhau neu i egluro y pwnc fyddo yn dygwydd bod ganddynt mewn llaw. Ond nid felly i'r sawl sydd o'r dyb eu bod yn wastad tan ddwyfol ysbrydoliaeth: iddynt hwy y mae y gwahaniaeth hwn o'r pwys mwyaf, oblegid y mae yn gorwedd arnynt i gyfrif am dano.

Gellid sylwi yn mhellach fod anghytundeb yr Apostolion â'u gilydd yn brawf nad oeddynt yn ystyried eu hunain o leiaf yn mhob peth tan lywyddiaeth y gallu dwyfol. Y mae yr ymrafel a gymerodd le rhwng Paul a Barnabas (Actau 15, 36—41) ynghylch dewis cyd-deithwyr yn enghraifft

nodedig o hyn. Enghraifft arall o'r un natur yw yr anghytundeb fu rhwng Paul a Phedr ynghylch enwaediad, 'A phan ddaeth Petr i Antiochia,' medd Paul, 'mi a'i gwrthnebais yn ei wyneb, am ei fod i'w feio,' Gal. 2, 11. Y mae yn lled debyg nad oedd Paul ddim yn credu fod ymddygiad Petr y pryd hwnw yn deilliaw o ddwyfol ysbrydoliaeth.

Cyn diweddu ar y pen hwn caniataer i mi wneyd un sylw yn chwaneg. Y mae amrywiol ranau o'r Ysgrythyrau Iuddewig yn cael eu dyfynu yn y Testament Newydd mewn synwyr gwahanol i'r un cyntefig: megys,

HEN DESTAMENT.	Y TESTAMENT NEWYDD.
'Pan oedd Israel yn fachgen mi a'i cerais ef, ac a elwais fy mab o'r Aipht;' gan gyfeirio at yr Iuddewon, Hosea 11. 1.	'O'r Aipht y gelwais fy mab;' gan gyfeirio at Iesu Ghrist.—Mat. 2, 15.*
'Wele morwyn a fydd feichiog ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef Immanuel;' sef rhyw blentyn a enid yn fuan ar ol y pryd hwnw.—Esaia 7, 14.	'Wele, morwyn a fydd feichiog ac a esgor ar fab, a hwy a alwant ei enw ef Emmanuel;' gan gyfeirio at Ghrist.—Matt. 1, 23.
'Llef a glywyd yn Rama, cwynfan,' &c. gan feddwl *plant Rama*.—Jer. 31, 15.	'Llef a glybuwyd yn Rama, galar, &c. gan feddwl *plant Bethlehem*.—Matt. 2, 18.
Nid oes dim prophwydoliaeth o'r fath yn yr Hen Destament.	'A phan ddaeth, efe a drigodd mewn dinas a elwid Nazareth; fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy brophwyd, y gelwid ef yn Nazaread.'—Matt. 2, 23.
Y mae'r awdwr wedi camsynied, oblegid nid yw Jeremiah wedi dyweyd dim sydd yn debyg. Y mae rhyw beth sydd gyffelyb o ran swn yn Zecharia 11, 12. *ond cyfeirio wna'r prophwyd at ymddygiad yr Iuddewon yn ei oes ef, ac nid at gladdedigaeth Crist.*	'Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedwyd trwy Jeremias y prophwyd,' &c.—Matt. 27, 9, 10.
'Ac yn dy had di y bendithir holl dylwythau y ddaiar: o achos gwrando o honot ar fy llais i:' gan feddwl yr holl Iuddewon.—Gen. 22, 18.	'Nid yw yn dywedyd ac i'w hadau, megis am lawer; ond megis am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Christ.'—Gal. 3, 16.

Nid yw y rhan amlaf o'r enghreifftiau hyn o fawr pwys yn ngolwg y sawl sydd yn credu fod awdurdod Matt. 1, 18. 11, 23, â Luc 1, 5. 11, 52. yn ammheüus.

Y mae yn beth tra adnabyddus i'r sawl sydd yn hyddysg yn hanes Iuddewaeth fod rhai o'i sectau yn amser Christ, yn enwedig y Phariseaid, o'r farn fod yr Ysgrythyrau yn cynnwys dau feddwl, un *llythrenol*, a'r llall, *cuddiedig*: neu meddwl *cysgodol*, a meddwl *sylweddol* neu *ysbrydol*. Coleddid yr un dyb hefyd gan Origen ac eraill o'r teidiau Christ'nogol, ac y mae y gwaith o *ysbrydoli* yr Ysgrythyrau wedi para mewn cymeradwyaeth yn yr Eglwys oddiar yr amser hwnw hyd y dydd heddyw. Y dull dauffeddyliog hyn o esbonio yw y gwreiddiol achos fod y dyfyniadau uchod, ac eraill hefyd a ellid nodi allan, wedi cael eu camgyfleu, oblegid credai dysgyblion Christ, fel eu cydwladwyr yn gyffredin, fod yr Ysgrythyrau yn cynnwys dau feddwl, un *llythrenol*, ac un *ysbrydol*. Er fod y dyb hon, yn fy ngolwg i, yn un eithaf cyfeiliornus, ac wedi bod yn llawer o rwystr ar y ffordd i ddeall yr Ysgrythyrau, er hyny nid wyf yn ystyried ei bod yn ddigon i anaddasu y dysgyblion i bregethu yr Efengyl mwy na'u cred yn y peth a eilw duwinyddion *meddiannaeth demonaidd*, sef fod ysbrydion dynion meirw yn cymeryd meddiant o ddynion byw er mwyn eu poeni am ryw bechodau neu gilydd. Fy niben i yn bresenol yn dwyn y dyb hon o flaen y darllenydd yw dangos fod ysgrifenwyr y Testament Newydd yn dyfynu yr Ysgrythyrau Iuddewig, nid tan ddylanwad yr Ysbryd Glan, ond yn unig ar

eu cyfrifoldeb eu hunain, fel y byddent yn gweled oreu er mwyn egluro a chadarnhau y pwnc a ddygwyddai fod ganddynt mewn llaw ar y pryd.

Wele fi yn awr yn gorphen yr hyn oeddwn wedi fwriadu ysgrifenu ar yr ail ben, sef ar y gred fod sylwedd yr Ysgrythyrau oll wedi deilliaw o ddwyfol ysbrydoliaeth, ond mai eiddo yr ysgrifenwyr eu hunain yw y iaith. Pwy bynag a ddwys ystyria y gwahanol a'r amrywiol resymau hyn wyf wedi osod ger bron darllenwyr yr YMOFYNYDD mor fedrus ag y gallwn, er hyny yn dra ammherffaith mi wn, a fydd yn rhwym o addef, os nad wyf wedi camsynied yn fawr, nad yw holl sylwedd yr Ysgrythyrau ychwaith wedi deilliaw o ddwyfol ysbrydoliaeth. Y mae yn aros i mi y tro nesaf i ddiweddu yn ol ystyried faint o honynt sydd yn ysbrydoledig. Ymdrechaf wneyd hyn yn ostyngedig iawn, a chyda phob parch dyledus i syniadau y cyfryw rai a fyddont o wahanol farn ar bwnc o gymaint pwys. Gobeithiaf y bydd fy ymdrechiadau eiddil y fath ag ydynt, yn gymhorth i rai o'm cydgenedl i gael yr hyn wyf fi yn ystyried yw iawn olwg ar gynhwysiad yr Ysgrythyrau, y rhai o'u hiawn ddeall a'u hiawn ddefnyddio ydynt yn abl i'n gwneyd ni yn ddoeth i iechydwriaeth.

PHILO.

GWIRIONEDD CRIST'NOGRWYDD.

DARLITH III.

Parhad o tudal. 330.

(3) Y mae natur a chyfyngiad athrawiaeth Crist, a'i haddasrwydd doeth a chywir i amgylchiadau ac angheuion dynolryw, yn brofion mewnol nerthol o'i tharddiad dwyfol.

Lle mae rheswm dynol a goleuni natur yn ddigonol i alluogi dyn i gael allan ryw wirionedd, y mae dysgeidiaeth Crist yn gadael y cyfryw i ymchwiliadau dyn, gan ystyried nad oes angen am gynnorthwy lle mae digon wedi ei roddi yn barod, a'i ddefnyddio yn iawn. Yn ganlynol y mae Crist'nogrwydd yn gadael pyngciau philosophyddiaeth a gwybodaethau eraill y byd y lle y mae hi yn eu cael hwynt.

Ond ni all goleuni natur roddi fawr boddlonrwydd i'r hwn fo'n chwilio am atteb i'r gofyniad pwysig, 'Os bydd gwr marw a fydd efe *byw* drachefn?' O bossibl y gwnae y gallu sydd gan ddyn i edrych ymlaen i'r amser dyfodol, a llywodraethu ei ymddygiad gan obeithion ac ofnau byd i ddyfod; cyfansoddiad moesol y natur ddynol; tarddiad a chynnydd y serchiadau cariadus, anhunanol a duwiol; yr anhebygolrwydd y byddai i fywyd diwyd a phryderus dyn ddiweddu mewn dyoddefaint na all fod o un defnydd, sef, angeu; rhagolwg o'r hyn sy'n fferru'r galon, ac yn chwerwi mwyniant bywyd; cynlilnellau (*outlines*) llywodraeth foesol gyfiawn, ond heb ei gorphen; a'r disgwyliad traddodiadol dyryslyd, ond cyffredinol am fywyd i ddyfod. Gwnai yr ystyriaethau hyn o bossibl, meddaf, gyda'u gilydd, grëu yn y meddwl myfyrgar, ddisgwyliad gwanaidd, rhyw dorriad gwawr gobaith, fod y fath sefyllfa yn ôl, o leiaf i'r doeth a'r rhinweddol. Ond pan, ar ôl chwilio'n fanylach, y byddai yn ymddangos yn amlwg nad yw rheswm a philosophyddiaeth ddim yn cefnogi'r fath obaith, heblaw trwy adgyfodiad o'r bedd,—fod pob disgwyliad am fodoliaeth a bywiogrwydd yr enaid ar wahan, tra mae'r corph yn y

bedd, heb un sail mewn profiad, ac yn cael ei groesi gan bob ymddangosiad y meddwl dynol, ac felly fod y fath ddisgwyliad yn ddych'mygol ac ofer,—ac nad yw hanes y natur ddynol ddim yn rhoddi un lle i ddisgwyl am adgyfodiad oddiwrth y meirw. Pa gasgliad ellsid dynnu oddiwrth y myfyrdodau yma ond hyn:—Er fod pob peth yn bossibl i Dduw, ac er y byddai bywyd i ddyfod yn beth dymunol iawn i'r rhinweddol, ac er fod rhai ymddangosiadau y byd dealltwriaethol a moesol yn fwy hawdd eu dehongli ar y dyb gyssurus hon, etto, ar y cyfan, fod y prawf yn gorbwyso i'r ochr dywyll, ac yn arwain yn naturiol i'r casgliad pruddaidd, nad oes rhagoriaeth i ddyn ar anifail, nac i'r call ar yr anghall, yr un diwedd sydd i'r ddau, ac fod pawb wedi eu gosod yr un wedd i ddychwelyd ymhen ychydig amser i'r llwch o'r hwn y cymmerwyd hwynt, ac i wneuthur eu trigfa barhaus yn nhir distawrwydd, tywyllwch ac angof,—yn y bedd. 'Os disgwyliaf, y bedd sydd dy i mi.'

'Nawr, gan fod yr athrawiaeth Grist'nogol yn ein cymmeryd i fynu, lle mae goleuni natur yn methu, lle nad all rheswm roddi un prawf, na phrofiad ein cynnysgaeddu a dim tebygolrwydd, a allant ein tywys i ddisgwyl am fywyd i ddyfod: gan fod yr efengyl yn datguddio yr hyn sydd yn eithaf digon i gyfodi ein gobeithion, dihuno ein hofnau, a llywodraethu ein hymddygiad; ond nid digon i foddloni awydd annigonadwy ymgais dyn, na difyru'r meddwl â golygiadau annefnyddiol; gan ei bod yn dysgu, mewn geiriau nas gellir eu camddeall, yr athrawiaeth aruthrol o fywyd i ddyfod, yn yr hwn y caiff pawb eu gwobrwyo yn ol eu gweithredoedd; gan ei bod yn gosod allan fywyd i ddyfod yn sylfaenedig ar adgyfodiad oddiwrth y meirw; tyb ag sydd yn awr yn ymddangos yn hollol unol â philosophyddiaeth natur a dyn, er nad oedd yn cael ei dal bryd hynny ond gan ychydig, ac yn cael ei gwrthod gan y philosophyddion gyda'r gwarth a'r dirmyg mwyaf; gan fod yr athrawiaeth hon wedi ei sefydlu, nid yn unig trwy wyrthiau yn gyffredin, ond gan y gwyrth neillduol hwnw, adgyfodiad sylfaenydd y ffydd Grist'nogol ar ol cael ei groeshoelio'n gyhoeddus gan ei elynion, dyma dystiolaeth a thueddiad ynddi tuhwnt i bob un arall i gyfarfod â gwrthddadleuon rheswm, ac ymddangosiadau natur, trwy ddangos ym mherson dysgawdwr mawr y gwirionedd pwysig hwn siampl, ac ernes o gyflawniad yr addewid; gan fod yr holl amgylchiadau hyn yn cydgyfarfod yn y grefydd Grist'nogol, mae'n amlwg eu bod yn dangos cyrhaeddiadau o uwch, galluoedd meddwl o gryfach, ymchwilidau dyfnach nag a ellir yn gyfiawn briodoli i haneswyr difedr ac anwybodus yr Iesu. Ni all y cydgordiad rhyfeddol o'r goruchwyliaethau dwyfol, yr addasiad manwl hwn o gynnorthwy at yr angen, y cynnildeb cywraint hwn o gyfraniad goruwchnaturiol, lle mae y cwbl sydd yn angenrheidiol yn cael ei roddi a dim dros ben; ni all hyn gael ei briodoli i un doethineb llai na dwyfol.

Y Bod hwnnw yn unig, yr lîwn a grëodd ddyn, a'r hwn a wyddai am holl amgylchiadau ac anghenion ei blant, allasai roddi iddynt hyspysrwydd mor berffaith addas i'w hamgylchiadau. Ni all un dyn ystyriol braidd gredu, y buasai i'r grefydd Grist'nogol, os dyfais ddynol oedd hi, gael ei dwyn ymlaen gyda'r fath briodoldeb hollol, fel na fuasai i ddim angenrheidiol i gael ei adael allan, na dim anheilwng o'r dysgawdwr, neu'r pwngc, i gael ei ddwyn ymlaen. Ac ymddengys y prawf hwn yn fwy nerthol fyth, pe'r ystyriem y fath nifer o ddychymygion disail, am fywyd i ddyfod, y mae twyllwyr bob amser wedi syrthio iddynt, a'r fath dybiau disynwyr y mae Crist'nogion eu hunain wedi arllwys o flaen y byd, bryd bynag y cymerant arnynt fod yn

ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenwyd, ac ychwanegu eu dychymygion eu hunain at oraclau'r gwirionedd.

(4.) Y mae purdeb, ardderchawgrwydd a pherffeithrwydd MOESOLDEB y grefydd Grist'nogol yn brawf mewnol nerthol arall dros ei tharddiad dwyfol.

Mae'n beth rhyfedd fod llyfr o egwyddorion moesol yn cael ei gyfansoddi gan ddynion o darddiad isel, heb un bai yn cael ei gyflawni, ond y cyfan yn ddealladwy, yn gywir, yn gyson, yn gyflawn; dim un gwir rinwedd yn cael ei gadael allan; dim un egwyddor anghywir, dim un gosodiad anfoesol pa mor gyffredin a phoblogaidd bynag, yn cael ei ganiattau; ond y fath rinweddau a gostyngeiddrwydd, aeddfwynder, amynedd, maddeugarwch, cariad at elynion, talu da am ddrwg, bendith am felldith, yn cael eu gosod allan fel dyledswyddau o'r pwys mwyaf, er eu bod yn cael eu gwaradwyddo gan philosophyddiaeth falch yr oes; fod yr hyn a elwid yn wladgarwch, hynny yw, cariad at ein gwlad ein hunain yn unig, yr egwyddor sydd yn aberthu lles cyffredin dynolryw, er mwyn lles y cyfundeb neillduol i'r hwn y dygwydd dyn berthyn, fod y rhinwedd ddisglaer hon, a ddallodd ei miloedd, ymffrost hynafiaeth, a balchder y gwroniaid a'r philosophyddion, heb un lle yn nghofres y rhinweddau Crist'nogol, dim unwaith yn cael ei henwi yn y Testament Newydd, ond yn cael ei llyngcu i fynu yn hollol yn yr egwyddor llawer mwy cynnwysfawr o ddyngarwch cyffredinol ac ewyllys da, yn y rhwymau annattodadwy o gariad brawdol, yr hon sydd yn gosod dyledswydd a dedwyddwch pawb yn gynnwysedig mewn gwneuthur daioni i bawb, fel y bo cyfleusdra yn dygwydd, yr hon nid yw yn cau allan neb o fod yn wrthrychau haelioni, ond sydd yn estyn cymmorth gyda'r un parodrwydd i'r Samaritan a'r Iuddew, i'r Affrican a'r European, y du a'r gwyn, y gelyn a'r cyfaill, fel nad yw'n bossibl bod yn wladgarwr, yn yr ystyr gyfyngedig hyn, a bod yn Gristion. Yn y gyfundrefn ardderchog a chyson hon o foesau, fod y pechodau hynny yn cael eu collfarnu wrth eu henwau, heb un eithriad, y rhai a ganiateid, a gymmeradwyid, ac weithiau a orchymynid gan goelgrefydd ac anwybodaeth y paganiaid; tra ar yr un pryd nad oes un rhinwedd yn cael ei chario i ormodedd, dim pwys yn cael ei osod ar un rhinwedd er mwyn cau eraill allan; ni wna gweddi nac elusen, ympryd na phenyd, cadw'r Sabboth nac aberthu, ddim o'r tro yn lle rhinweddau moesol, ac ni wna un rhinwedd, pa mor flodeuog a gwerthfawr bynnag, ddim llanw lle un arall; ond y mae gan bob rhinwedd ei lle priodol ei hun: y mae sylfaen yr holl rinweddau yn cael ei gosod mewn cariad at Dduw a dyn, ac y mae perffeithrwydd yr adeilad y fath, fel nad yw doethineb dyn, er cael ei gynnorthwyo gan brofiad oesoedd, ddim etto wedi gallu diwygio, ac ni wnaiff byth: byddai dyfeisio *system* mor gyfiawn, mor hael, mor gynnwysfawr a llawn, gan ymdrechion a threiddgarwch y callaf a'r goreu o ddynion mewn un oes neu wlad, yn destun cyfiawn o syndod; ond y mae'n hollol angrhedadwy, os nid yn llwyr amhossibl, i'r fath *system* gael ei dechreu, ei dysgu a'i thaenu gan nifer fechan o ddynion anllythrenog, wedi eu dwyn i fynu yn holl gulni penboeth, a rhagfarnau gwrthnysig Iuddewon Phariseaidd, ar y dyb nad o Dduw yr oedd yr athrawiaeth.

Ond efallai fod yma ryw un yn barod i atteb, nad yw'r grefydd Grist'nogol ddim mor bur ag y mynnir ei bod hi; ei bod yn caniattau, neu o leiaf, yn ddistaw mewn perthynas i bechodau gwaradwyddus. Heb son am bechodau eraill, nad ydyw Crist yn rhoddi dim un gorchymyn yn erbyn caethfasnach, yn erbyn prynu a gwerthu dynion.

Yr wyf yn cyfaddef nad oes yma efallai un gorchymyn pendant yn gwarafun y pechod ffiaidd hwn. Ond nid oes yma ddim gorchymynion pendant chwaith yn erbyn rhyfel, ymladd *duel*, yng nghylch *free trade*, *bankruptcy*. ac amrywiol o bethau eraill. Ac yn wir pe buasai'r Iesu yn gwneuthur felly buasai y llyfrau yn rhy aml i'r lluaws wneuthur dim o honynt. Ond yn lle cyfreithiau neillduol, y mae yma ychydig o egwyddorion cyffredinol a ellir eu cyfleu at bob achos; yn eithaf digon i'n cadw rhag pob pechod, a meithrin pob rhinwedd yn ein monwesau. Er nad oes yma un gorchymyn neillduol yn erbyn rhyfel, y mae yma orchymyn i'r milwr i garu ei elynion. B'le mae'r cleddyf yn awr? A ellir *caru* a *lladd* gwrthrych ein cariad? Er nad oes yma orchymyn pendant yn erbyn rhyfel, mae yma gariad i friwio'r cleddyf; mae yma gariad i droi'r cleddyfau yn sychau a'r gwaywffyn yn bladuriau, yn offerynau i achub ac nid i ddinystrio dyn. Er nad oes yma ddim gorchymyn pendant etto yn dywedyd am beidio prynu a gwerthu dyn, y mae yma eiriau pendant yn dywedyd, 'Yng Nghrist Iesu nid oes nac Iuddew na Groegwr, caeth na rhydd;' y mae yma lais yn dywedyd am garu ac nid ffiangellu'r *negro* du ei liw. Pwy all ammau nad yw crefydd Crist yn ein rhwymo i garu pawb? Felly, os cariad y mae'n ofyn, pa fodd etto y gellir dywedyd nad yw hon yn erbyn caethfasnach? A ellir caru, a *gwerthu* gwrthrych ein cariad? A ellir caru, a ffiangellu'r hwn a garwn? amhosibl!! Felly y mae gwaith y grefydd Grist'nogol yn cyhoeddi ychydig o egwyddorion cyffredinol, ag sydd hollol ddigonol i bob achos, yn dangos yn eglur mai Duw yw ei hawdwr. Trwy ychydig reolau cyffredinol, syml, y mae efe yn llywodraethu y bydoedd aneirif sydd yn llanw'r ehangder; a thrwy ychydig egwyddorion cyffredinol y mae ef yn ewyllysio llywodraethu y byd moesol a dealltwriaethol hefyd, ac felly y mae ef wedi argraphu ei enw ar yr olaf yn gystal â'r blaenaf.

5. Amcan proffesedig y grefydd Grist'nogol, megis y cyfaddefid gan ei dysgawdwyr cyntaf, oedd dwyn cyfnewidiad mawr i'r byd, nid llai, yn wir, na dilëu y llywodraeth Iuddewig, dadymchwelyd holl hen sefydliadau mwyaf parchus eilunaddoliaeth a choelgrefydd, y rhai oeddent wedi ffynnu yn y byd paganaidd, troi holl lwythau'r ddaear i'r ffydd Grist'nogol, a sefydlu ymhob lle, wybodaeth ac addoliad yr unig wir a'r bywiol Dduw, a'u dwyn i gofleidio rhinwedd gyffredinol, tynnu temlau'r eilun i'r llawr, ac adeiladu teml i'r Un Duw a hwnnw'n Dad, yn eu lle. Chwi gyfaddefwch yn rhwydd fod yr amcan yn ardderchog, a'r gwaith yn fawr; ond dyma oedd. Nid llai na hyn yw cynnwysiad y commisiwn a roddodd Iesu ei hun i'w apostolion ychydig cyn ei esgyniad, 'Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr efengyl i bob creadur; dyma oedd amcan proffesedig yr apostol Paul, cennad ardderchog y gwirionedd efengylaidd. 'Dyledwr wyf,' eb efe, 'i'r Groegiaid ac i'r barbariaid hefyd, i'r doethion ac i'r annoethion hefyd.' 'A Duw wedi esgeuluso amseroedd yr anwybodaeth hon, sydd yr awr hon yn gorchymyn i bob dyn ym mhob man edifarhau.' Ac y mae'r prophwydi Crist'nogol ar bob achlysur yn gosod allan eu hyder dibetrus yn llwyddiant eithaf eu cennadwri, 'Yr ychydig lefain a effeithia o'r diwedd ar y cwbl oll. 'Hyd oni ddel cyflawnder y cenhedloedd i mewn, ac felly holl Israel a fydd gadwedig.' Ac yn llyfr y Datguddiad, pan y mae'r seithfed angel yn udganu ei udgorn, clywwyd llefau uchel yn y nefoedd, yn dywedyd, 'Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef, ac efe a deyrnasa yn oes oesoedd.' Ac y mae'r apostol Petr yn dywedyd, 'Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym ni, yn ôl ei addewid ef, yn eu disgwyl, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu.' Hynny yw, yn ôl y dehongliad mwyaf rhesymol o'r geiriau,

yr ydym ni yn disgwyl adnewyddiad hollol a dedwydd y byd moesol, trwy daeniad yr efengyl.

Nid yw'n debygol y buasai i amcan mor fawr ac ardderchog lanw meddyliau crefftwyr isel Galilea, llawer llai, i gael ei chymeryd mewn llaw a'i chyflawni ganddynt, os nad oeddent yn gwybod eu bod wedi eu hysbrydoli gan Dduw, eu bod yn gweithredu dan awdurdod na allai holl bennaethiaid y byd ddim ei rwystro, ac yn cael eu cynnal gan nerth na allai un gwrthwynebiad ei luddias,

6. Tueddiad yr Ysgrythyrau Crist'nogol yw dysgu ac hyfforddi dynion i ofni a charu Duw, a chyflawni rhinwedd yn ei holl ganghenau. Y mae'n ymddangos fod yr awdwyr wedi ysgrifenu eu gwahanol weithiau dan arganhoeddiad dwfn o bwysigrwydd anfeidrol gwirionedd datguddiedig, fod ganddynt ofal dwys am ddiwygiad a dedwyddwch eu cyd-greaduriaid, ac y maent trwy orchymyn ac esiampl yn cymhell proffes eofn o'r gwirionedd moesol a chrefyddol, er peryglu pob peth ag oedd yn anwyl a gwerthfawr mewn bywyd. A ydyw yn bossibl ynte, yn ol natur pethau, y gallasai dynion, oeddent â'u golygiadau mor bur, a thuedd eu hysgrifeniadau mor ardderchog, fod yn euog wedi'r cyfan o droseddu eu hegwyddorion eu hunain, a dechreu eu gyrfa trwy osod ar y byd *forgery* annuwiol a drygionus, a hynny yn enw Duw'r gwirionedd? Nis gall fod.

Mae'n dygwydd yn fynych fod dyn egwan yn anghysson ag ef ei hun; ac weithiau y mae dynion a ystyrid yn gall wedi gwneuthur defnydd o foddion anghyfiawnadwy er dwyn ymlaen yr amcanion a ystyrient o bwys. Ond nid oes dim yn debyg i hyn, ar y dyb mai ffugiad yw'r efengyl, erioed wedi cymmeryd lle o fewn cylch hanes ynfydrwydd a drygioni. Beth! dynion oeddent yn amcanu dysgu, yn y dull mwyaf nerthol, ymarferiad o rinwedd, ac uwchlaw pob peth, yn rhwymo eu gwrandawyr i dalu'r parch mwyaf i'r gwirionedd, a pharch i Dduw, beth, y rhai'n yn dechreu eu cenhadwri â chelwydd yn eu genau, yr hwn nis gallasai lai na chael ei ddwyn i'r golen yn union, a chwedi ei gael allan, a fyddai yn sicr o rwystro eu hamcan, a'u gwneuthur yn agored i warth cyffredinol! Na, na; y mae'r dyb yn amhossibl. Nid yw yn unol â natur pethau i ddynion o'r fath hyn, mewn achos ymddiffynadwy i gyrhaedd llwyddiant. Gan hynny y mae'n rhaid fod eu tystiolaeth yn wir.

Oddiwrth hyn, ynte, ni a allwn gasglu yn gyfiawn â buddugoliaethus fod y ddysgeidiaeth Grist'nogol o darddiad dwyfol; ac mai'r doethineb mwyaf yw talu'r sylw manylaf iddi, ac mai hyn yw dyledswydd anhepgorol pawb sydd wedi clywed y newyddion gorfoleddus. 'Y neb sydd ganddo glustiau i wrando gwrandawed.'

DARGANFYDDIAD AMERICA.

COLUMBUS.

Parhad o tu dalen 304.

Gan fod Columbus yn awyddus i ymweled â'r drefedigaeth a adawodd yn Hispaniola, ni wnaeth ddim arosfa yn un o'r ynysoedd a gyfarfu â hwynt ar ei fordaith. Ar yr 22ain o Dachwedd aeth gyferbyn a Navidad, lle yr oedd wedi gadael 38 o wyr dan ofal Arada. Mawr oedd ei syndod, pan, yn lle eu gweled yn rhedeg o lawenydd i roesawi eu cyd-wladwyr, nad oedd gymmaint

ag un o honynt i'w weled yn un man. Yn llawn gofid am eu tynged, rhwyfodd yn gymmwys i dir, ac ar ei ddynesiad ffôdd y trigolion, fel nad oedd neb i roddi hanes iddo y modd y bu. Gwelodd fod yr ymddiffynfa wedi cael ei dinystrio yn hollol; ac yr oedd y carpiau dillad, y cattiau arfau a llestri oeddent yn wasgaredig ar hyd y lle, yn brofion rhy amlwg i adael un amheuaeth ar ei feddwl am dynged anffodus ei wyr. Pan oedd y Spaeniaid yn tywallt dagrau galar uwchben gweddillion eu cydwladwyr, daeth brawd Guacanahari i ymweled â hwynt, gan yr hwn y cawsant hanes cyflawn o'r digwyddiad galarus. Ar ol ymadawiad Columbus daeth yr Indiaid yn fwy cyfarwydd â'r Spaeniaid, a gwelsant mai dynion amherffaith oeddynt fel hwythau; fod ymddygiad y Spaeniaid at yr Indiaid y fath ag i ddiddymu pob parch tuag attynt; iddynt ysglyfio'r brodorion o'u haur, eu lluniaeth, a'u benywaid. Er mor llaith ac ofnus oedd yr Indiaid, ni allent ddyoddef hyn. Torrodd *casique* Cibao lawer o honynt ymaith, pan yn crwydro yma a thraw, mewn diogelwch perffaith fel y tybient hwy. Ar ol hyn casglodd ei ddeiliaid ynghyd, llosgodd yr ymddiffynfa a lladdodd rai o'r Spaeniaid, eraill a drengasant wrth geisio ffoi yn groes i fraich o for. Gwnaeth Guacanahari ei oreu i ymddiffyn y Spaeniaid, a chafodd ei glwyfo yn yr ymdrech, ac yr oedd yn glaf o'r herwydd.

Er fod yr hanes hwn ymhell o fod yn foddhaol, tybiodd Columbus mai gwell, ar hyn o bryd oedd peidio gwneuthur un chwiliad manol i ymddygiad Guacanahari, er yn groes i lawer o'i swyddogion yn hyn; ac mai'r ffordd oreu iddynt hwy oedd diogelu eu hunain rhag ymgyrch y brodorion o hynny allan. I'r dyben hyn, pennododd fan mwy iachus a chyfleus na Navidad i adeiladu tref fechan ac ymddiffynfa. Yr oedd pob llaw ar waith; ac heb fod yn faith wele ddinas fechan, y cyntaf o waith Europiaid yn y Byd Newydd, yr hon a alwodd Columbus Isabella, ar enw ei nôdd-wraig, brenhines Castile. Wrth ddwyn ymlaen y gorchwyl hwn, cafodd Columbus lawer o ofid, gan fod llawer o'r 'Spaeniaid yn foneddigion heb erioed arfer â gwaith; a mwy na'r cwbl, nid i weithio ond i gasglu digon o aur, oedd eu nheges i'r Byd Newydd. Wrth weled nad oedd ond caled-waith ac nid cyfoeth yn eu haros, ffurfiwyd cyd-fradwriaeth yn erbyn Columbus, a allasai fod yn angeuol iddo ef a'r drefedigaeth oni bai iddo ei gael allan mewn pryd, a chospi rhai o'r blaenoriaid, ac anfon y lleill i Spaen. Taer ymbiliai Columbus ar i lywodraeth Spaen anfon rhagor o wyr a lluniaeth yn ddioed.

Yn y cyfamser, (1494,) i'r diben i gadw ei bobl rhag diogi, yr hyn oedd achos penaf eu hanfoddlonrwydd, lluniodd amryw ymrẽdiadau i dir y gelyn. Anfonodd fintai, dan ofal Alonzo de Ojeda, i Cibao, lle y dywedid fod yr aur amlaf, canlynodd Columbus ef ynghyd â'r rhan amlaf o'i wyr. Cychwynasant gyda phob rhwysg a mawrodd rhyfelgar; llymanau yn chwyfiaw; cerddoriaeth rhyfelgar yn chwareu; ac ychydig o wyr meirch weithiau o flaen ac weithiau ar ol y fintai. Nid oedd yr Indiaid wedi gweled y fath beth erioed o'r blaen; nid oedd un ceffyl yn eu gwlad hwynt, nac un creadur dôf arall chwaith. Tybient mai'r un creadur oedd y ceffyl a'r dyn oedd yn ei farchogaeth, ac fod gallu y fath greadur yn anwrthwynebol. Yr oedd gwlad Cibao yn atteb i'r darluniad a roddid o honi gan y brodorion. Yr oedd yn fynyddig ac heb gwrtaith; ond yr oedd pob afon a nant yn cynnwys llwch aur neu ronynau o hono, fel na allai y Spaeniaid ammau mwyach nad oedd yno drysorau gwerthfawr yn guddiedig. Adeiladodd Columbus ymddiffynfa fechan yno, ac a'i galwodd St. Thomas, oherwydd angrhediniaeth rhai o'i ganlynwyr ynghylch yr aur, nes gweled â'u llygaid a theimlo â'u dwylaw.

Dygwyddodd iddynt ganfod yr aur yn brydlawn iawn i gysuro'r Spaeniaid oedd o'r blaen yn hollol wangalon, oherwydd prinder ymborth, y difrod oedd clefydau'r ynys yn wneuthur arnynt, a llawer o gyfyngderau eraill nad oeddynt erioed wedi breuddwydio am danynt. Yr oedd yr holl galedi hyn wedi eu gyru i waeddi yn groch yn erbyn Columbus, ac nid oedd neb yn waeth na *Father Boyle*, y *Vicar* apostolaidd. Trwy gynghorion, addewidion, a bygwthion, ac uwchlaw'r cwbl trwy gyfodi eu gobeithion am ragor o aur, llwyddodd Columbus i gael tawelwch. Pan y gwelodd y gallasai adael yr ynys yn ddiberygl, aeth i chwilio p'un ai rhan o'r Hen Fyd, neu ran ar ei phen ei hun oedd y tiriogaethau newyddion. Hwyliodd dros 5 mis, yngwyneb llawer o beryglon, heb gael allan ddim newydd o werth ond ynys *Jamaica*. Wrth fyned heibio i oror ddeheuol *Cuba*, cafodd ei ddyrysu rhwng lluaws aneirif o ynysoedd bychain. Yma, rhwng creigydd peryglus, cafodd ei attal gan wyntoedd gwrthwynebus, ei ddal gan ystormydd, a'i frawychu gan fellt a tharanau na welodd na chlywed eu bath erioed. O'r diwedd methodd y lluniaeth fel yr aeth y morwyr yn ffyrnig yn ei erbyn. Felly gorfu arno ofalu am bob peth ei hunan, nes y darfu i ludded corph a meddwl ei daflu i dwymyn, yr hon a'i hymddifadodd o'i synhwyrau, ac ymron o'i fywyd hefyd.

Ar ei ddychweliad i Hispaniola, cafodd yr hyfrydwch mawr o weled ei frawd Bartholomew, am y tro cyntaf er ys 13 mlynedd, yr hwn oedd wedi cael ei anfon ar ei ôl â lluniaeth, mewn tair llong. Ni allasai ei ddyfodiad byth fod yn fwy prydlawn. Yr oedd eisiau cynghorwr yn gystal a lluniaeth ar Columbus. Yr oedd perygl arall yn eu bygwth yn awr heblaw diffyg lluniaeth. Yn absenoldeb Columbus, yr oedd y milwyr dan Margarita wedi myned yn hollol ddilywodraeth, wedi difa lluniaeth y brodorion, gorthrechu eu benywaid, a dangos pob creulondeb tuag attynt. Gwelodd yr Indiaid, druain, yn awr, fod pob gobaith am ymwared wedi darfod; fod y Spaeniaid, yn lle ymweled â hwynt, yn penderfynu aros yno, a dwyn eu gwlad oddiarnynt. Yr hyn a gynhyddai eu gofid yn fawr hefyd oedd glwthineb y Spaeniaid, y rhai a ddifaent bob un gymmaint o ymborth a *llawer* o honynt hwy, a newyn fyddai y canlyniad o'u gadael i aros yn eu gwlad hwynt. Felly penderfynasant eu gyru ymaith os gallent yn rhyw fodd. Yn ganlynol cyfododd holl *gaziques* yr ynys yn erbyn Columbus, ond Guacanahari, yr hwn oedd yn parhau yn ffyddlon o hyd i'r Spaeniaid. Daeth tua chan mil o'r Indiaid dan arfau, i gyfarfod â Cholumbus, os gellir credu haneswyr Spaen; ac yn lle ymdrechu ei dwyllo ar eu hol i'r anialwch, fel yr oeddynt ffolaf, sefydlasant eu hunain yn Vega Real, y gwastadedd mwyaf agored yn y wlad. Ac er nad oedd ganddynt ond cleddyfau pren a'r cyfryw, yn lle arfau, yr oeddynt yn rhif-faeddu y Spaeniaid gymmaint, fel nad diberygl yr ymdrech. Nid oedd gan Golumbus o hono yntau ond tri chant o wyr traed, ugain o wyr meirch, ac ugain o *gŵn*, i'w gwrthsefyll. Er mor rhyfedd yr ymddengys i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, fod cŵn yn gwneuthur rhan o'r fyddin, etto nid y lleiaf dinystriol fuont i'r Indiaid *noeth* druain. Yn lle gadael iddynt gael amser i weled eu camsynied, o ddyfod i'r gwastadedd, ymosododd Colnmbus arnynt y noswaith hono, a chafodd y fuddugoliaeth yn rhwydd arnynt. Lladdwyd llawer, gwnaethpwyd rhagor yn garcharorion a chaethion, a gwelodd yr holl drigolion erbyn hyn, nad oedd un diben gwrthsefyll plant y mellt a'r taranau, y rhai oeddynt wedi dwyn ceffylau a clŵn i'w cynnorthwyo yn awr hefyd. Wedi hyn aeth Columbus trwy yr holl wlad, gan ei darostwng i lywodraeth Spaen, a gosod treth ar bob un o'r trigolion ag oedd dros 14eg oed. Yr oedd yr ymddygiad hwn yn hollol groes i ar-

feriad cyffredin Columbus o ddenu yr Indiaid; ond yr achos oedd fod ganddo elynion yn Spaen, y rhai oedd yn ei gamddarlunio ymhob modd, ac yn gosod allan dlodi y Byd Newydd yn y lliw gwaethaf, fel nad oedd gan Columbus ddim i'w wneuthur er mwyn cael digon o aur i foddloni awydd llywodraeth Spaen, a distewi ei elynion, ond y dull gorthrymus hwn o orfodi yr Indiaid i chwilio am dano.

Yr oedd y llafur a'r drafferth wrth gloddio am aur, yn ymddangos gymmaint i'r Indiaid, fel y penderfynasant gael gwared o'r Spaeniaid trwy eu nhewynu, gan nad allent trwy un ffordd arall. Rhoisant heibio gwrteithio'r tir, hau *Indian corn*, a thynasant o'r gwraidd y *manioc* a'r *cassado*, a ffoisant i'r mynyddoedd. Ond druain a hwynt! Arnynt eu hunain y dygasant y newyn drymaf yn y diwedd; fel ymhen ychydig fisoedd y darfu i fwy na thrydedd ran o honynt drengu mewn modd truenus iawn; tra o'r tu arall, y darfu i'r Spaeniaid gael lluniaeth o'u gwlad eu hunain, yr hyn ynghyd â'u diwydrwydd i gwrteithio'r tir a'u cadwodd rhag dioddef llawer.

Tra yr oedd Columbus yn sicrhau mawredd Spaen yn y Byd Newydd, yr oedd ei elynion yn ddiwyd yn ymdrechu ei ymddifadu o'i ogoniant. Priodolent bob aflwyddiant i'w awydd ef. Os cospai yr afreolus, creulondeb oedd hynny; drwgliwient ef ymhob dull. Cafodd yr achwyniadau parhaus hyn y fath effaith ar lys Spaen, eisioes yn lled eiddigeddus wrth Columbus, nes penderfynu anfon Aguada, *groom of the bed chamber*, i chwilio i mewn i'w ymddygiad ef. Yn orlawn o falchder oherwydd y dyrchafiad a gafodd, aeth Aguada drosodd, a chefnogodd y Spaeniaid a'r Indiaid hefyd i ddwyn eu hachwyniadau, cam neu gymmwys, yn erbyn Columbus. Gwelodd Columbus yn union pa mor annymunol y fyddai iddo ef i lywodraethu yr ynys dan olygiaeth y fath *spy* a hwn; felly penderfynodd i ddychwelyd i Spaen, ac i osod hanes ei ymddygiad ger bron y llys. Gadawodd yr ynys dan ofal ei frawd Don Bartholomew fel is-lywodraethwr, a Francis Roldan yn *Chief Justice*.

Wrth ddychwelyd, hwyliodd i'r dwyrain yn gymmwys o Hispaniola, a chafodd ei ddarostwng i lawer o beryglon wrth ymdrechu â'r *trade-winds*, y rhai oeddynt yn ei erbyn yn awr, gan eu bod yn chwythu yn barhaus o'r dwyrain. Bu dri mis ar y mor heb weled tir. Erbyn hyn dechreuodd y lluniaeth ballu, fel nad oedd ond 6 wns o fara yn cael ei ganiattau i bob morwr, ac ni chymmerai yntau ddim rhagor. Pan yn y caledi hwn, cynnygai rhai o'r morwyr ymborthi ar yr Indiaid oedd ganddynt ar y bwrdd; eraill a fynnent eu taflu i'r mor, fel y gallai yr ymborth trwy hynny barhau yn hwy. Ond ni allai dyngarwch Columbus ganiattau'r fath beth. Mewn atteb, dywedai mai dynion oeddynt fel hwythau; ac os oedd yn rhaid trengu, fod yn rhaid iddynt oll farw gyda'u gilydd. Erbyn hyn canfyddwyd tir, yr hyn a osododd derfyn i'w holl ofnau a'u dioddefaint.

Aeth Columbus i'r llys fel dyn yn teimlo ei fod wedi bod o wasanaeth i'w wlad, ac nid fel dyn euog. Cafodd y fath dderbyniad groesawus gan Ferdinand ac Isabella nes gorchuddio ei elynion â chywilydd. Wedi adrodd ei hanes, dangos yr aur, y perlau, y cottwm, a nwyddau gwerthfawr eraill y wlad, ynghyd â'r trethi oedd wedi osod ar yr Indiaid, y rhai ymhen amser, a ddygent gyfoeth i mewn i goffrau y llys, trodd y brenhin a'r frenhines yn llwyr o du Columbus, a phenderfynasant ddarparu pob peth angenrheidiol er llwyddiant y drefedigaeth yn Hispaniola, a rhoddi y fath lynges ag a'i galluogai i gael allan a goresgyn gwledydd newyddion. Penderfynwyd hefyd y tro hwn i anfon dynion o bob galwad, ynghyd a ben-

ywaid i Hispaniola. Cyn belled a hyn yr oedd pob peth o'r goreu. Ond gan nad oedd yn debygol y caed digon o ddynion i fyned o'u bodd trwy beryglon mordaith mor faith, cynnygodd Columbus drosglwyddo'r carcharorion drosodd, ie, hyd yn oed y rhai oeddent dan farn marwolaeth. Ac felly bu. Arllwyswyd carcharau Spaen, a thrwy hynny ofidiau dirif ar ben Columbus druan, yn y drwedd. Er mor awyddus oedd Ferdinand ac Isabella i gael pob peth yn barod, taflodd gelynion Columbus gynnifer o rwystrau ar ei ffordd ef, fel y bu ymron dwy flynedd cyn cael pob peth yn barod. Wedi'r cyfan nid oedd y llynges ond 6 llong i gyd, a rhai o honynt nid y goreu at fordaith mor beryglus. Ar y 30ain o Fai dechreuodd hwylio tua'r deheu orllewin i'r gwledydd a gafodd allan ar y cyntaf. Aeth heibio i'r Canaries, ac oddiyno anfonodd dair o'r llongau i Hispaniola â lluniaeth i'r trefedigion. Ni ddigwyddodd dim anghyffredin iddynt hyd nes oeddent o fewn 5 gradd i'r cyhydedd (*Equator*), Tra yn y parthau hynny, aeth y môr mor dawel fel na allasent gyffro. Yr oedd y gwres mor annioddefol, fel y tybiai y morwyr yr ai eu llongau ar dan, ac nad oedd bosibl myned ymhellach tua'r deheu, fel y rhag-ddywedodd yr hynafiaid, heb gael eu dinystrio yn hollol. Hyn ynghyd ag afiechyd Columbus a barodd iddo newid ei bwynt, a hwylio yn ôl tua Hispaniola. Ar y cyntaf o Awst, rhoddodd y gwiliedydd oedd ar frig yr hwylbren y floedd orfoleddus, *tir, tir;* troisant tuag atto, a chanfuasant ynys helaeth iawn ar oror Guiana, yn agos i enau yr Orinoco. Rhoddodd Columbus yr enw Trinidad i'r ynys, a thyna ei henw hyd heddyw. Y mae'r afon Orinoco, er y trydedd neu'r pedwaredd mewn maintioli yn y Byd Newydd, yn fwy o lawer nag un yn yr hanner hyn o'r byd, ac yn cludo'r fath gorph aruthrol o ddwfr tua'r mor, a chyda'r fath nerth ag i achosi ymchwydd a chynnwrf rhyfeddol ac ofnadwy. Cyn gweled ei gamsynied, cafodd Columbus ei ddal yn y berw cynddeiriog, a chyda'r anhawsdra mwyaf y diangodd trwy gul-for bychan, yr hwn a alwodd Boca del Drago (genau'r ddraig). Cynted y darfu ei fraw, gwelodd fod achos i ymgysuro yn yr hyn a ofnai ar y cyntaf. Casglodd, ac yn gyfiawn hefyd, na allasai afon o gymmaint maintioli a hon byth ddyfod o un ynys, ac ei fod yn awr wedi cael gafael mewn *cyfandir*, yr hyn oedd gwrthrych blaenaf ei ymgais. Yn llawn gobaith yn awr, hwyliodd i'r gorllewin hyd gororau y taleithiau a adnabyddir yn awr wrth yr enwau Paria a Cumana. Tiriodd mewn amrywiol fanau, a chafodd y bobl yn debyg i drigolion Hispaniola o ran eu hagwedd a'u dull o fyw, gan y rhai y cafodd lafnau o aur a pherlau gwerthfawr yn gyfnewid am binnau a theganau diwerth. Yr oedd anifeiliaid pedwar carnol yno, ac amrywiaeth mawr o anifeiliaid, adar, a ffrwythau. Yr oedd harddwch a ffrwythlondeb y wlad gymmaint, fel y tybiodd Columbus ei fod wedi cael allan Baradwys yr Ysgrythyr. Yr oedd ef yn casglu hyn oddiwrth y dyb mai man uchelaf y byd ydoedd, yr hyn oedd achos cyd-darawiad â berw'r dyfroedd, yn ol ei farn ef; ac yr oedd Mandeville wedi gosod o flaen y byd eisioes yn ei chwedl-draeth, mai ar fan uchelaf y ddaear oedd gardd Eden. Ond i adael hyn, cafodd Columbus yr anrhydedd o gael allan Fyd Newydd, ac o fod y cyntaf i arwain y Spaeniaid i'r cyfandir mawr a fu yn achos o gymmaint cyfoeth iddynt wedi hynny. Ni oddefai cyflwr briwedig ei longau, prinder ymborth, a drwg anwydau y morwyr iddo chwilio rhagor o'r wlad hyfryd yma. Ar y ffordd i Hispaniola canfyddodd yr ynysoedd Cubagna a Marita, enwog wedi hynny am eu pysgodfeydd perlau. Pan aeth i Hispaniola, yr oedd wedi cael ei wanhau i raddau pell gan ludded ac af-

iechyd: er hynny gwelodd oddiwrth gyflwr ei drefedigaeth nad oedd fawr gobaith iddo am gael llonyddwch, er cymmaint yr angen oedd arno.

Yr oedd llawer o chwildroadau wedi cymmeryd lle yn Hispaniola yn absenoldeb Columbus. Yr oedd Bartholomew, yn unol â cnynghor ei frawd iddo cyn ei ymadawiad, wedi symmud y trefedigion i fan mwy cyfleus, lle y gosododd sylfaen St. Domingo, y dref fwyaf yn y Byd Newydd am amser hir. Oddiyma aeth Bartholomew i ranau o'r wlad nad oedd ei frawd wedi ymweled â hwynt. Ymostyngodd y trigolion ymhob man i'r trethi a osododd arnynt. Ond wrth weled fod y beichiau mor drymion cyfodasant yn ei erbyn. Nid oedd y terfysgoedd hyn o fawr bwys ynddynt eu hunain. Eithr tra yr oedd Bartholomew ar y maes yn erbyn y rhai'n, torodd terfysg mwy brawychus o lawer allan ymhlith y Spaeniaid eu hunain. Y blaenor oedd Francis Roldan, yr hwn, fel prif ynad, a ddylasai osod gwell esiampl o flaen y bobl. Ei uchel-fryd a'i falchder a'i gyrodd i'r mesur diriaid hwn. Yr oedd ei resymau er hudo'r Spaeniaid yn hollol ddisail; megys, cyhuddo Columbus a'i frodyr o falchder a chreulondeb; eu bod yn amcanu sefydlu llywodraeth annibynol yn y wlad; eu bod yn fwriadol wedi amcanu tori ymaith ran o'r Spaeniaid trwy newyn a lludded, fel y gallent ddarostwng y gweddill yn rhwyddach. Llwyddodd ei ddichellion i wneyd argraph mawr arnynt, gan ei fod yn ddyn o sefyllfa uchel yn y byd hefyd. Dewisodd y Spaeniaid ef yn llywydd iddynt, a chyfodasant yn arfog yn erbyn Bartholomew a'i frawd. Cymmerasant ystordy lluniaeth y brenhin, a gwnaethant gynnyg i gymmeryd ymddiffynfa St. Domingo hefyd; ond methasant oherwydd gwiliadwriaeth a dewrder Don Diego Columbus. Gorfu i'r terfysgwyr gilio i dalaith Xaragua, lle y parhasant, nid yn unig i fod yn wrthryfelgar, ond hefyd i annog yr Indiaid i daflu ymmaith yr iau.

Y fath oedd sefyllfa adfydus y drefedigaeth pan aeth Columbus i St. Domingo. Yr oedd yn syn ganddo hefyd nad oedd y tair llong a anfonodd o'r *Canaries* wedi dyfod yno etto. Oherwydd anfedrusrwydd y llonglywyddion yr oeddent wedi cael eu gyru 160 milldir i'r dwyrain o St. Domingo, a chwedi gorfod gwasgodi mewn porthladd yn nhalaith Xaragua, lle yr oedd Roldan a'i ganlynwyr terfysglyd yn aros. Ni ddywedodd Roldan air wrthynt am y terfysg, ond arferodd ei holl dalentau i gael ganddynt i daflu i dir ran fawr o'r preswylwyr newyddion, fel y gallent fyned ar hyd y tir i St. Domingo. Felly y bu, a chan mai gwehilion carcharau Spaen oeddent gan mwyaf, gwaith wrth fodd eu calonau oedd uno â Roldan yn ei amcanion terfysglyd. Gwelodd llywodraethwyr y llongau eu camsynied pan yn rhy ddiweddar, a hwyliasant tua St. Domingo, ond heb fawr lluniaeth ganddynt i gynnorthwyo'r trefedigion yno. Yr oedd Roldan yn awr, wedi iddo gael y fath ddynion diriaid i uno ag ef, wedi dyfod yn frawychus iawn, ac yn ynfyd yn ei ofynion. Er cymmaint oedd teimladau Columbus wedi cael eu clwyfo trwy'r fath ymddygiad, nid oedd fawr brys arno i fyned i'r maes; yr oedd yn dychrynu wrth feddwl am ffiamiau rhyfel cartrefol; ac heblaw hyn yr oedd rhai o'r dynion dan ei ofal wedi llyngcu yr un ysbryd gwrthryfelgar i raddau. Felly yr oedd yn well ganddo dawelu pethau trwy gynnadledd, os gallai. Trwy gyhoeddi, yn brydlawn, faddeuant rhad i'r cyfryw a'i haeddent trwy ddychwelyd at eu dyledswydd, gwnaeth argraph ddofn arnynt; trwy addaw anfon tuag adtref y rhai oeddent wedi cael digon ar y wlad, ynnillodd lawer; a thrwy addaw ail-

sefydlu Roldan yn ei swydd, llwyddodd i gael tawelwch, a llywodraeth reolaidd mewn ymddangosiad o leiaf.

Mewn canlyniad i'r cyttundeb hwn â'r terfysgwyr, pennodwyd iddynt ddarnau o dir, yng ngwahanol barthau o'r ynys, ac fod i'r Indiaid ymhob ardal i gwrteithio cyfran o dir er lles eu mheistriaid newyddion. Gosodwyd hyn yn lle'r trethi oedd arnynt yn flaenorol. Dyma ddechreuad y *Repartimentos*, neu ddosparthiadau o'r Indiaid rhwng y Spaeniaid, yr hyn a ddygodd drallodion aneirif ar y trueiniaid hynny. Nid dyma'r unig effaith ddrwg a darddodd oddiwrth y terfysg yn Hispaniola. Trwy hyn rhwystrwyd Columbus i fyned ymlaen â'i ymchwiliadau ar y cyfandir, gan fod yn rhaid iddo gadw gydag ef ei frawd, yr is-lywodraethwr, ynghyd a'r morwyr angenrheidiol at y fordaith. Ond rhagor etto yn fy ysgrif nesaf a'r olaf hefyd.

AMICUS.

[I'W BARHAU.]

AT OLYGYDD YR 'YMOFYNYDD.'

ANWYL SYR:—Ystyriwyf eich bod wedi gwneuthur yn ddoeth ddigon i ymholi a ydyw cyfieithydd 'Cottage Economy' Mr. Cobbett yn addas i'r gorchwyl? Rhoddasoch hefyd gyngor addas ddoeth iddo, sef ymofyn am ryw un galluog, ac adnabyddus i'r cyhoedd, i roddi ei air ganddo: ond bydded hysbys i chwi nas gwn pa le i'w gael. Er hyny mentraf enwi dau neu dri a allant roddi eu gair, naill ai er llwydd neu er lluddias, sef y Parch. John Thomas, Llandyssil; y Parch. Rees Davies, Penbryn; a'r Parch. Thomas Thomas, o'r Fadfa; ac atynt mae fy llais; ac os byddant mor foneddigaidd a danfon eu GAIR i'r YMOFYNYDD, a hyny yn ol eu ewyllys eu hunain, byddaf yn ddiolchgar iawn iddynt.

Yn awr, Syr, chwithau yn bedwerydd; ac at y pedwerydd mae fy ngais mwyaf, a gobeithiaf na wnewch ei omedd; sef aberthu rhyw gwr o'ch misolyn fel y gellir cyhoeddi rhyw ychydig o lythyrau, ac yna caiff pawb goelio ei air ei hun; gan eich bod yn proffesu nad ydych yn atebol am syniadau neb; gan hyny os bydd fy syniadau i yn groes i'r eiddo chwi, gwn na fydd yn ddigon i luddias ymddangosiad o honynt. I ddechreu, wele y llythyryn byr canlynol, ar Pa beth yw gweddi? yn cael ei gynnyg idd eich sylw. Gobeithio y caf fwy o gyfle at y llythyr nesaf.

Yn bummed, ac yn olaf, ataf fy hun. Nid wyf wedi cael un dygiad i fynu; nid yw fy enw yn adnabyddus ond i ychydig o ddysgedigion; ond yr wyf wedi gweithio y rhan fwyaf o hyny a gefais o oes yn galed, fel yr wyf yn gallu bwyta llawer o athrawiaeth Mr. Cobbett yn y 'Cottage Economy, a hyny yn well na yr hwn ni welodd eisiau y cyfryw athrawiaeth wrth ei fagu. Hyna o gymwysder o honof at y gwaith.

Hyny o fantcision a gefais, gan fy hen athraw gwybodus a duwiol, Mr. Thomas, Llandyssil, y cefais.

Hyn oddiwrth eich ffyddlon gyfaill,

Llanarth T. D. THOMAS.

PA BETH YW GWEDDI?

Y mae amryw o atebion i'w cael i'r gofyniad hwn; ïe, mor amrywiol, beth benag, ag y maent enwadau crefyddol. Ond pa beth a wna ymgeisydd am ateb teg?

Yn gyntaf, ni a wnawn resu y byd gweddiawl i ddwy res, er eu holl amrywiaeth; fel hyn, y rhes gyntaf a gynwys weddiwyr yn credu eu bod yn alluog i achosi troadigaeth yn *Achosydd Anian*. A'r rhes arall a gynwys weddiwyr yn credu eu bod yn meithrin serchiadau mabaidd at eu Tad, yn eu gwaith yn gweddio; a dim un cyfnewidiad yn Nuw.

Yn flaenaf, ni a gymerwn olwg mor ddiduodd ag y gallom, ar y rhes gyntaf o weddiwyr, fel, y gellir gwceled a saif yn ngwyneb rheswm ac Ysgrythur. Dywedir mai ystyr y gair *gweddio* yw, *ymbil*, *erfyn*, *begian*, &c.; gan hyny mai addas yw *begian* unrhyw beth. Ond a gadael mai hyn yna yw ystyr y gair, cyfaddefa pob credadyn yn Nuw, fel y gosodir ef allan yn yr Ysgrythur, mai gwaith ffol, ynfyd, a phlentynaidd, yw ceisio dim ag sydd yn groes i ewyllys ein Tad, yr hwn sydd bob amser yn ewyllysio yn dda i ni, a ninnau yn ein hanwybodaeth yn fynych iawn, yn ceisio yr hyn, pe caem, a'n dinystrai yn fuan. Yr wyf yn byw mewn cymydogaeth nad oes ond y rhes gyntaf o weddiwyr idd eu cael, ac yn eu clywed yn bur fynych, fel nad oes modd i mi idd eu camddarlunio, modd benag. Cymwys y gallaf ofyn i'r rhes

hon, (ond nid yr ail,) 'Pa fodd y maent eich eiriau mor aml?' 'Pa fodd yr ydych mor hy?' a 'Pha fodd yr ydych yn gallu trefnu yr Hollalluog yn ei ragluniaethau? Oes arnoch ddim dychryn o'i flaen? ei fod ef yn Ho lwybodol, a chwithau braidd yn gwybod dim?' O! y fath leied o adnabod Duw! Dangos iddo i drefnu y tywydd, y lloer, yr haul, a'r rhyfeloedd, ac yn y blaen, tra y mae y *Dyn Doethaf* yn dywedyd, 'Bydded dy eiriau yn anaml!' A Christ drachofn a ddywed, 'Na fyddwch siaradus fel y cenhedloedd, canys y maent hwy yn tybied y cânt eu gwrandaw am eu haml eiriau. Na fyddwch, gan hyny, *debyg* iddynt hwy: canys gwyr eich Tad pa bethau sydd arnoch eu heisiau, cyn gofyn o honoch ganddo.' Yn awr dyna reswm a *gair* Duw; os *gair* Duw y gelwch *eiriau* Christ, yn eich cynghori i fod yn anamleiriog a pheidio ceisio *dim* ond yr hyn sydd yn unol a'i ewyllys ef, 'Wel, wel,' meddai rhyw un, 'nid yw ond gwaith ffol i geisio yr hyn oedd Duw yn feddwl rhoddi o'r blaen.' Ie, ïe, efallai, ond ffolach fyth yw ceisio yr hyn nad oedd Duw yn feddwl roddi. Hawddach gennyf gredu y cai di droadigaeth o'th ffolineb, er mor gyndyn wyt, nag y ca Duw droadigaeth. 'Yr ydych,' ebe yntau, 'wedi *sarnu* ein dull ni o *weddio*, a'n gosod yn ymddifad o weddio, heb roddi yr un dull yn ei lle.'

Wel, os wyf, ni rof ddull chwaith, ond rhof gyngor. Ond aros heb dy weddi am funud neu ddwy, canys y mae yn gystal i ti fod hebddi a bod a'r fath fralen o weddi genyt, tra y cai fy ngyngor wrth derfynu; fel y gallot farnu a phwyso o ddifrif a oes dim ffolineb yn ngweddio ein gwlad: fel y cai wybod yn mhellach yn ol cael y ddwy res at eu gilydd.

Yn nesaf, am yr ail res. Mae arnaf beth ofn cyffwrdd a hon; canys os wyf mewn un, yn hon wyf; ac yna efallai na wnaf yn deg a hi; canys ni wel dyn ffaeledig fai ynddo ei hun mor gynted ag mewn arall.

Ond yr wyf yn sicr fy mod wedi gweled y bai o ormod o feithder gan y gweddiwyr hyn: dylent fod yn fyrach. Fel y dywedwyd uchod, nid yw y rhes hon yn ystyried eu bod yn gwneyd yr un cyfnewidiad yn Nuw; ond eu bod yn hunan-bruddhau a phruddhau ereill, yn eu gwaith yn gweddio. Yn ddiau da yw rhoddi diolch am bob peth, a da yw myfyrio yn ngwaith y greadigaeth mewn symylrwydd. Ond a fyddai ddim yn well fod llais y myfyriwr at y bobl nag at Dduw, yr hwn sydd yn ofndadwy pan yr ystyriom ef? Oni fyddem yn nes at orchymyn Crist, yr hwn sydd yn dweyd fel hyn, 'Na fydd fel y rhagrithwyr: canys hwy a garant weddio yn sefyll yn y synagogau, (neu y capel,) ac yn ngonglau yr heolydd, (neu ar benau stages mawrion,) fel yr ymddangosant i *ddynion*' Ond pan weddiech dos i'th ystafell.' Ond a gadael fod gweddi hyawdlaidd o gadair uchel heb gael ei gwahardd gan Grist, yr hyn yn ddiau a wnaeth, pa effaith y mae hi yn gael ar y *bobl?* yr hwn reswm a roir hyd y nod gan y duwiol yn fy nhyb i; paham y maent yn pruddhau? a ydyw y prudd-der hwn yn creu bywyd mwy gonest? Achosir y prudd-der hwn (os achosir ef hefyd,) gan yr un teimladau ag sydd gan y Pabyddion yn eu gwaith yn gwrando y Pab yn maddeu eu pechodau; y maent yn melusu rhyw beth gan gredu eu bod yn cyflawni rhyw dyledswydd fawr yn eu gwaith yn gwrando: canys nid oes yn y rhes hon ond rhyw bersonau neillduol yn gweddio oll; ychydig o'r bobl wrandawgar sydd yn gweddio, er eu bod yn credu fod hyny yn dda, ac ânt o'i cof os dywedir nad yw. Gan hyny, pa beth ddywedaf am y cyfryw, ond eu tebygu i'r Pabyddion? Yr wyf yn gwybod fod hyna yn bur llym a llymach na chwenychwyf: ond er y cyfan *gwir yw.*

Yn awr, gwrandewch y ddwyres; nis gallwch wadu nad oes eisieu diwygiad yn y gweddio os canlynwyr Crist ydym, gan hyny nid oes dadl i fod am yr eisieu, ond gall dadl gyfodi pa fodd i ddiwygio. Meddyliwyf mai ffaith yw fod eisieu ymfyrhau yn ein gweddio cyhoedd, fel y byddo ein geiriau yn fwy anaml, gan ystyriaid o flaen pwy yr ydym; canys y mae y gweddiau cyhoedd, yn gyffredin, yn cael eu traddodi o ryw gonglau uchel er mwyn eu clywed gan ddynion. A gadawn y begian mawr ar ol; gan gydnabod fod Duw wedi, ac yn gofalu, am danom yn well nag y gallwn ni ddyweyd na dymuno. A diolch am y da a'r drwg (os oes drwg,) canys i ni da yw y cyfan, a gadael iddo ef reoli y gwlaw, y mellt, a'r taranau; a ninau i ofalu hau a medi yn ei iawn bryd; yna y cawn fwy o ddedwyddwch na thrwy ein holl weddio.

T. D. THOMAS.

DEFNYDDIOLDEB.

Dylai dymuniad i fod yn ddefnyddiol i ymgymmysgu â'n holl feddyliau, â'n holl orchwylion, a bod ynglyn â phob cynllun bywyd a ffurfiom. Pan fyddom yn darllain er casglu gwybodaeth, dylai fod er mwyn ein galluogi i wneuthur eraill yn ddoeth. Pan yn gwrando pregethau a darlithiau, ein amcan ddylai fod nid yn unig i gael addysg i ni ein hunain, ond i barottoi ein hunain at (y gwaith o) daenu gwybodaeth ymhlith ein cyd-ddynion. Dylem ymgyffelybu i ddysgyblion yr Iesu, y rhai a dderbynient y bara gwyrthiol o'i ddwylaw ef, fel y torrent ac a'i rhoddent i'r tyrfaodd newynog,

Dylem fod yn awyddus i fynegu i'n cyd-ddynion gynnwysiad pob llyfr da a darllenom; ac i roddi i bawb o fewn ein cyrhaedd sylwedd pob pregeth neu ddarlith dda a glywom. Pan weddiom, ni ddylem weddio drosom ein hunain yn *unig*, ond dros eraill. Dylem wed'd o am ymdaeniad gwirionedd a chyfiawnder, am gwymp cyfeiliornad a choel-grefydd; am ddadymchweliad trais a gormes; ac am iawnaddysgiaeth a iechydwriaeth yr holl fyd. A phan fyddom yn gweddio drosom ein hunain, dylem weddio nid gymmaint am fod yn gysurus, âg am fod yn ddefnyddiol. Ni ddylem ofalu gymmaint am ein bod ein hunain i deimlo yn dawel a hyfryd, âg am i ni gael ein gwneud yn foddion i ddwyn ymlaen leshâd ein cydgreaduriaid. Dylem ddeisyf ar Dduw nid gymmaint i gyfrannu diddanwch i ni, âg i'n dwyn i deimlo fel ag y dylem dros y rhai sydd mewn tywyllwch ac ar drengu, ymhlith ein brodyr, ac i'n cynho thwyo i dreulio ein bywyd mewn gwneuthur daioni. *Dylai ein mheddyliau fod ar waith gydâ'r peth hyn yn wastadol.* Pan feddyliom am Dduw, dylem feddwl am dano fel Tad haelionus dynolryw; fel digyfnewid a thragywyddol Gymhwynasydd pawb o'r byd, yr hwn yr y'm ni ei blant dan rwymau i ymgyffelybu iddo.

HYNAFIEITHAU CYMREIG.

Datceiniad Penn Pastwn a'i Swydd.

Datceiniad Penn Pastwn a elwir yr un a fo yn datcanu heb fedru ddim canu Tant ei hunan; a hwnnw a ddyly sefyll yn nghenawl y Neuadd, a churaw ei ffon; a chanu ei Gywydd neu ei Owdl gyda'r dyrnodiau. Ac os bydd Gwr wrth gerdd Tant lle y delo, ni ddyly y Datceiniad hwnnw gynnyg na beiddiaw cymryd arnaw ganu na Chywydd nac Owdl, heb ddeisyf cennad i'r Gwr wrth Gerdd Tant i ganu. Ac hefyd, efo a ddyly fod megys Gwas i'r Gwr wrth Gerdd Tant ac i Brydydd ym mhob lle ac y delo.

Neithior Brenhinawl, a fydd pan brioder un o waed y Tywyssawg. Ac un dydd a blwyddyn o rybydd a fydd i wyr wrth Gerdd i baratoi i ddyfod yno, ac yn honno y gwneir Cyff Clêr, a hwnnw fydd Pencerdd o'r goreu, ac yno y rhoir Testyn ddigrif ddiwladaidd ar y Pencerdd i'r Prydyddion eraill i ganu iddo ef, i lawenhau yr orsedd. A'r Prydyddion a ddôn a'u Cerdd iddo ef, ac a'i canant ar osteg. A thrannoeth y daw yntau a'i atteb iddynt hwythau, a dyblu eu rhoddion a gant hwytheu yno. A hynn oll a notaynt ei wneuthur wedy ciniaw, er mwyn diddanwch i'r Gynnulleidfa. A'r Pencerdd ynteu neu yr Attebwr, a eisteddai mywn Cadair, a'r ymholwyr hwynteu a fyddynt ynn sefyll. Ac ynn y Cyfrwng hynn, y byddei raid i'r Pencerdd dewi sôn; gann oddef i bawb o naddynt mywn cerdd ddywedyd yn ei erbyn beth bynnag a fei dda ganddynt. A thrannoeth (megys y doydais o'r blaen) y byddei raid iddo ynteu atteb mywn Cerdd, yn destyngar i Destyn y Cyff Cler ac iddynt hwytheu.—*Allan o Rammadeg y Doctor Sion Dafydd Rhys.*

HANESION

CARTREFOL A THRAMOR.

CYFARFOD CWARTEROL HYDREF.

Cynnaliwyd y Cyfarfod Cwarterol Hydref yn y Cribyn, ac yn y Ciliau Ayron, sir Aberteifi, dyddiau Mercher a Iau, y 4ydd a'r 5ed o Hydref diweddaf.

Yn y Cribyn dydd Mercher, dechreuwyd y Cwrdd am 3 ar gloch. Pregethodd y Parch. T. Evans, a J James, y cyntaf oddiar 2 Cor, x. 4, a'r olaf oddiar Rhuf. i. 16.

Yn y Ciliau dydd Iau, dechreuodd y Cwrdd am 10. Cyflawnwyd y rhan ddefosiynol gan y Parch. J. Thomas, a phregethodd y Parch. O. Evans, oddiar Ioan xvii. 3. Cyn gollwng y bobl ymaith cadwyd y gynnadledd (Mr. P. Joseph yn y Gadair) fel arferol. Dyben y gynnadledd yw trin rhyw bwnc dadleugar mewn crefydd. Gosodir ef i lawr mewn cwrdd blaenorol, fel y caffo pawb gyflawn chwareu teg i lefaru arno: canys y mae galwad ar, a pherffaeth rydd-did i bob ymofynydd diduedd am y gwirionedd i egluro ac amddiffyn ei olygiadau mewn perthynas iddo. Y pwnc ar yr achlysur presennol oedd *Gallu dyn.* Arno y llefarodd y Parchedigion R. Davies, T. Evans, a J. James.

Penderfynwyd fod i'r Cyfarfod Cwarterol nesaf i gael ei gadw yn Twyn-yr-Odyn, Merthyr, dydd Mercher a Iau cyntaf ar ol Nadolig. Mr. James, Gellionen, i bregethu. Y pwnc fydd,—*Natur a dyben cosp yn y byd hyn a'r byd a ddaw.*

Prydnawn am 2, dechreuwyd yr addoliad gan y Parch. John Thomas, Llandyssil, a phregethodd Mr. James. Er garwyned yr hin yr oedd y gwrandawyr yn lluosog iawn ac yn ymddangos yn awyddus i wybod rhywbeth am y sect a ddywedir ym mhob man yn ei herbyn.

Gwrandawr.

Y CHOLERA.

Y mae y pla hwn o'r diwedd wedi cyrhaeddyd gororau dwyreiniol ein Ynys. Yn Llundain, Woolwich, Hull, Sunderland, ac Edinburgh, y mae llawer wedi marw o hono cisioes. Disgwylir, nid heb achos, y bydd

iddo yn fuan ymddangos gyda ni yn y rhanau gorllewinol o'r wlad. Ar y 15ed o Hydref, bu un dyn farw o hono yn Birmingham. Y mae galwad ar bawb i fod yn sobr ac yn wyliadurus. Yn 1835, pan ymwelodd yr haint hwn ddiweddaf â'n gwlad, bu llawer o ddynion farw o eisiau gwybodaeth pa fodd i'w drin a'i wrthsefyll ar yr ymddangosiad cyntaf. Rhoddir y cyfarwyddyd canlynol gan y *Board of Health* yn Llundain :—

'Y mae awdurdodau meddygawl yn cytuno mai yr un feddyginiaeth sy'n gymmwys at argoelion o ymddangosiad Cholora ag a geir yn effeithiol er attal y darymred (*diarhea*) cyffredin, neu y *bib*. Cytunant y bydd moddion meddyginiaethol o'r mwyaf *syml* yn ddigonol, os cymmerir hwynt ar ymddangosiad cyntaf yr argoelion—a bod y moddion canlynol, y rhai ydynt o fewn cyrhaedd a llywodraeth pob dyn, i'w hystyried gyda'r mwyaf defnyddiol: sef, 26 grain o *Opiate Confection*, wedi ei gymmysgu â dwy lonaid llwy gawl o *ddwfr peppermint*; neu ag ychydig o frandy-a-dwfr gwan: i'w gymmeryd bob tair neu bedair awr (neu yn fynychach os bydd y taro yn dost), hyd nes attelir llaesineb yr ymysgaroedd, Neu, *ounce* o *Compound Chalk Mixture*, 10 neu 15 grain o *Aromatic Confection*, ac o 5 i 10 dyferyn o *Laudanum*; i'w gymmeryd yr un modd. At yr olaf gellir ychwanegu o hanner drachm i ddrachm o *Tincture of Catechu*, os ymosoda y dolur yn galed. Dylid rhoddi ond hanner cymmaint i ddynion ieuainge dan 15, a llai etto i fabanod. Cynghorir i barhau i gymmeryd y meddyginiaethau hyn, nos a boreu, dros rai diwrnodau wedi yr attelir llaesineb yr ymysgaroedd. Ond ym mhob achos, os yn bosibl, hyd yn oed ar ddechreu ymddangosiad y clefyd, ei fod yn ddymunol i gael meddyg i weled y claf.

Yn nesaf at ddefnyddio yn ddioed y feddyginiaeth uchod, y mae o'r pwys mwyaf i fod yn ofalus ynghylch ymborth a dillad priodol. Bryd bynag mae yr *Asiatic Cholera* yn ymdaenu dros wlad, fe welir yn wastad fod y trigolion yn fwy tueddol nâg arfer i gyffröad (*irritation*) yr ymysgaroedd: yr hyn sydd fel pe bai yn dysgu y dylem ochelyd bwydydd, &c. a adwaenir eu bod yn tueddu i laesu y corff—pob math o ddailach wedi ac heb eu berwi, megis bresych (*cabbage*), cucumber &c. a ffrwythau o bob math, hyd yn oed rhai addfed neu sych, neu wedi eu trîn. O bob bwydydd llysieuawl (*vegetable*) y mwyaf iachus fydd bara, wedi ei bobi neu ei grasu yn dda, ond nid yn newydd; *rice*, blawdceirch a photatws da. Dylid gochelyd *pickles*. Dichon bwydydd a diodydd ag sydd ar dymorau cyffredin, yn iachus ac yn cytuno a'r corff, fod, dan yr amgylchiad anarferol hwn, yn beryglus iawn. Dylai yr ymborth fod yn galed (*solid*) yn hytrach nag yn wlyb. Y sawl sydd a'u dewis ganddynt a ddylent fyw yn *benaf ar gig*, fel yr ymborth mwyaf cymmwys i feithrin a chryfhau, gan ochelyd cig hallt neu a sychwyd mewn mwg, cig-moch, pysgod hallt, a physgod cregin; *cider*, *perry*, *ginger-beer*, *lemonade*, diodydd sur o bob math, ac ysbrydoedd tanllyd (*ardent spirits.*)

Y mae cymmedroldeb mewn bwyta ac yfed yn anhebgorol anghenrheidiol er diogelwch trwy ystod y tymhor y byddo yr haint hwn yn y wlad. Ni ddylai prydiau bwyd fod ym mhell oddiwrth eu gilydd. Dylid gofalu yn neillduol am gael *awyr bur*, syberwyd, gloywder, a chynnesrwydd, pa un ar lawr neu yn y gwely, yn y ty ac o amgylch i'r ty. Gocheler dillad neu draed gwlybion, cadwer y traed a'r corff yn gynnes. Gwlanen fydd oreu yn nesaf i'r croen.'

Am ben hyn oll gwiliwn bawb, a cheisiwn fod yn barod bob amser—yn barod i wneuthur neu i ddioddef yr hyn a ewyllysio Duw: a chofiwn mai ei ewyllys ef yw, i ni roddi pob cynhorthwy a allom i'n cyd-ddynion a fyddont mewn caledi neu mewn perygl. O.

CHARTISTS LLUNDAIN.

Tua diwedd Medi cafodd W. Dowling, T. Fay, W. Cuffey, a W. Lacey, eu profi yn yr *Old Bailey*, dan y cyhuddiad o *Felony*, yn ôl yr *Act* ddiweddar; o achos y cynnwrf a amcanwyd ei wneuthur yn Llundain gan y *Physical-force Chartists*, tua chanol mis Awst. Y tystion penaf yn eu herbyn oeddent rai a fuasent yn un â'r blaid ac mor euog a neb, yn enwedig un Thomas Powell, dyn eithaf diegwyddor, yr hwn a fuasai mewn cyngrair â'r *Police*, ac yn gwneud a allai er gyru y cynnwrf yn y blaen, ac yna troi yn fradwr i'r rhai a fuasent mor ffol a gwrando ar ei gynghorion drygionus. Dyma rybydd i ddynion gymmeryd pwyll ac i ystyried pa beth yr ânt yn ei gylch. Ond nid oes achos i'r cyfiawn ofni neb. Pa fodd bynag cytunodd y rheithwyr (*jury*) fod y pedwar dyn YN EUOG. Ac yna cyhoeddodd Mr. Baron Platt ddedfryd y gyfraith arnynt: sef bod iddynt gael EU ALLTUDIO DROS FYWYD. O'r carcharorion eraill darfu 16 *blêdio* 'euog.' Cafodd un Richie, ei gondemnio i *alltudtudiaeth dros fywyd* Dedfrydwyd 12 i'w carcharu dros ddwy flynedd, tri dros 18 mis, ac ar eu rhyddhad i dalu 10 punt o ddirwy i'r Frenhines, a rhoddi meichiau trwm. Cafodd un arall, J. Shaw, ei gondemnio i ddwy flynedd o garchar, a thalu dirwy, &c. fel y lleill. Gollyngwyd y carcharorion eraill yn rhydd; ond dan feichnïon i ymddangos os bydd galw arnynt.

Y LLYS.—Dechreu Hydref, dychwelodd y Frenhines a'i theulu o'r Alban.

IWERDDON.

Y Ddirprwyaeth neilldual yn Clonmel.—Treial Mr. S. O'Brien am *Uchelfradwriaeth* (*High Treason*) a ddechreuodd Medi yr 28ain. Dygwyd yn dystiolaeth yn ei erbyn, araith a wnaeth efe y 15ed o Fawrth —llythyron a gafwyd yn ei *Bortmanteau* pan daliwyd ef—ei waith yn bygwth Cwmpeini Gwaith-mwyn, os byddai i'r chwildroad lwyddo, y byddai i'w mheddiant gael ei gymmeryd oddiwrthynt a'i roddi at achosion y wlad. Holwyd, yn ei erbyn, J. S. Dobbyn, yr hwn oedd wedi bod yn aelod o un o'r *Confederate Clubs*, ac fel er mwyn dangos ei zel yn yr achos a ymwthiodd i fod yn aelod o'u Pwyllgor. Addefodd, wrth ei groes-holi, iddo uno â hwynt fel *yspiwr* a chyda bwriad i'w *bradychu*. Tystiodd hwn y gwyddai efe fod arfau yn cael eu darparu a pharatoadau eraill tuag at wrthryfel—y gwyddai pa bryd ac ym mha le yr oedd y Pwyllgor yn cyfarfod,—iddo fyned i'w cyfarfod Gorphenhaf y 15ed,—fod tua chant yn bresennol,—iddo weled Meagher, Dillon ac eraill yno,—fod y cyhuddedig Mr. S. O'Brien yn eistedd ar ben y bwrdd, yn darllen allan o lyfr enwau y Clybau yn Dublin, un ar ol y llall, a chynrychiolwyr y rhai'n yn atteb, bob un wrth âlw enw y Clwb y perthynai iddo,—iddo ef (Dobbyn) atteb fel cynrychiolwr, dros y '*Redhand Club*,'—fod yno ymddiddan cyffredin ynghylch parotoi arfau, &c. a dechreu y gwrthryfel erbyn yr 8fed o Awst,—nad allai Mr. S. O'Brien ddim llai na chlywed yr ymddiddan. Tystiodd eraill i'r perwyl fod Mr. S. O'Brien, ynghyd â Meagher, Dillon ac eraill yn ystod yr wythnos ddiweddaf yn mis Gorphenhaf yn Enniscorthy, yn Carrick-on-dwyn S. O'Brien i'r Frawd-lys, gofynodd y suir, yn Mullinahone, yn Ballingarry, yn areithio i'r torfeydd, y rhai oeddent weithiau yn arfog,—yn eu hannog i wrthryfel, neu yn eu haddysgu i ryfela,—iddo fyned o amgylch yn arfog, a galw ar y *police* i roddi i fynu eu harfau gan eu bygwth, &c. Iddo ef a'r dyrfa oedd gydag ef ar *Boulagh Common* Gorphenhaf y 29ain ymosod ar ddosbarth o'r *police* dan *Inspector Trant*, y rhai a lechasent er amddiffyn eu hunain yn nhy y Weddw M'Cormack, pan laddwyd rhai ac y clwyfwyd amryw. Dydd Iau, y 5ed o Hydref, dechreuodd Mr. Whiteside ei araith mewn amddiffyniad, yn ystod pa un dygwyd llythyron ymlaen er profi bod Argl. John Russell a'r Whiggiaid yn 1832 yn barod hwythau i gyfodi terfysg yn y wlad, pe na chawsent y *Reform Bill*. Dydd Sadwrn rhoddwyd *verdict* y *Jury* i mewn fod S. O'Brien yn euog; ynghyd â'u taer ddeisyfiad ar y Llywodraeth i drugarhau wrtho ac arbed ei fywyd. Y Llun canlynol, wedi Prif-ynad iddo, pa beth oedd ganddo i ddweud paham na chyhoeddid dedfryd marwolaeth arno. Attebodd yntau, 'Ni wnaethym ond yr hyn a ddylai pob Gwyddyl ei wneud dros ei wlad: ewch ymlaen â'ch dedfryd.' Yna y Prif-Ynad a gyhoeddodd ddedfryd marwolaeth arno, yn y modd a arferir mewn achos o uchel-fradwriaeth.

Ar ol hyn profwyd M'Manus ac O'Donohue dan yr un cyhuddiad o uchel fradwriaeth. Yr oedd y dystiolaeth yn eu herbyn yn gyffelyb i'r hyn a ddygwyd yn erbyn O'Brien. Cafwyd y ddau yn euog, a dedfrydwyd hwythau i farwolaeth yr un modd. Y mae *treial* Meagher ond odid erbyn hyn wedi terfynu, digon tebyg yr un modd. Y mae eraill etto ag sydd i sefyll eu prawf, rhai am *felony*, rhai am wneud terfysg (*sedition,*) yn ol yr *act* newydd.

TRAMOR.

Ffraingc.—Y mae Paris a'r taleithiau wedi bod dors enyd yn dawel. Y mae y *National Assembly* wedi penderfynu ar amryw o gyfreithiau sylfaenol y Werinlywodraeth. Ymhlith pethau eraill o bwys penderfynwyd fod y Llywydd (President) i gael ei ddewis gan bleidlais cyffredin y wlad (Universal Suffrage.) Bydd y dewisiad, tebygid, wedi cymeryd lle cyn diwedd mis Tachwedd. Enwir Louis Napoleon, Cavaignac a Lamartine fel ymgeiswyr i'r swydd. Nid oes modd i wybod pa fodd try y dewisiad allan.

Yr Ital.—Y mae llynges Ffraingc a Lloegr yn attal y Siciliaid a'r Neapolitaniaid rhag ymladd â'u gilydd. Dywedir fod yr Hungariaid ym myddin Radetsky yn anesmwyth iawn ac yn bygwth dychwelyd i'w gwlad. Y mae y digwyddiadau diweddar yn Vienna ynghyd â chyflwr terfysglyd yr Ymerodraeth yn gyffredin, yn ei wneud yn o debyg y gall yr Ital etto ennill ei rhydidd.

Germani.—Y mae taleithiau Germani mor anesmwyth ac ansefydlog braidd ag y buont oll. Disgwylir yn awyddus ac yn bryderus am y digwyddiadau pwysig ag sy'n raid iddynt gymmeryd lle ar fyr iawn yn Vienna a'r cylchoedd. Ar y 6ed o Hydref yn y ddinas honno torrodd allan derfysg ofnadwy ag sy'n debyg o arwain i ganlyniadau tra phwysig. Yr achos o hono oedd cael allan dwyll yn yr Ymerawdwr a'i Swyddogion, a'u cyfrinach a Jellachich, *Ban Croatia*, a chael lle i gredu bod cynghrair rhwng y *Ban* a'r Ymerawdwr er dymchwelyd rhyddid, yn Hungary yn gyntaf ac wedi'n yn Awstria. Rhoddasai y llywodraeth orchymyn i symud y milwyr Hungaraidd o'r ddinas a'u cludo (fel y tybid)

eu hunain. Hwythau a ommeddasant fyned ar yr ymdaith gan wybod fod trigolion y ddinas yn gyffredin o'u plaid. Boreuddydd y 6ed. oedd hyn. Pan geiswyd eu trechu trwy ddwyn y milwyr eraill yn eu herbyn safodd y *National Guard* a'r dinasyddion o'u hochr, ac yna aeth yn frwydr wyllt: buwyd yn ymladd trwy'r dydd a thrwy'r nos honno: boreu drannoeth yr oedd y ddinas ym meddiant y bobl Lladdwyd Count Latour, un o'r prif swyddogion, a thriniwyd ei gorff marw mewn modd barbaraidd iawn. Ni wnawd un cyfnewid ar y drefnlywodraeth. Ond ffodd yr Ymerawdwr dan nawdd rhan o'r fyddin. Y *Diet*, modd bynag a barhasant i eistedd gan gymmeryd arnynt ofal a llywodraeth y ddinas. Erbyn hyn daeth y newydd fod Jellachich a'i fyddin yn neshau at y ddinas, ac felly yr oedd. Y mae ei fyddin ef a rhan o'r fyddin Awstriaidd yn awr o amgylch y ddinas os nad yn gwarchae arni. Dywedir fod Rossuth a'r Hussariaid wedi iddynt drechu rhan o fyddin Jellachich yn awr ar eu taith tua Vienna. Os felly, disgwylir y bydd i frwydr ofnadwy gymmeryd lle. I.

ATEBION A GOFYNIADAU.

Cynnyg i ddehongli Dychymyg G., Cwmtawe, yn YMOFYNYDD *Medi.*

Yr oedd mamgu a'i henw Mari,
Ag iddi wyr a'i henw Sali;
Ac 'roedd John yn fab i Mari,
Beth wnaeth hwn ond pr'odi Sali;
A chafodd ferch a enwyd Nani,
Yr hon oedd wyr ac orwyr Mari,
Ac hefyd merch a ch'nither Sali;
Yr hon yn wir oedd wyres Mari,
Ac hefyd nith i'w phriod Shoni;
Yr hwn oedd ewythr a thad i'r ferch Nani,
Ac hefyd yn hen ewythr; dywedaf cyn tewi
Mai gweddw 'roedd hon a enwir yn Mari.

Glynnedd. IOAN.

Ateb i ddychymyg Ifor Gwalchmai, Rhifyn Medi.

Yr Ewyn gerwinog,
Sy'n nofio'r mor tónog,
Heb ofni'r un suriog,
Sy'n difa mab dyn
A dyna i chwi ateb,
Heb fawr o ffolineb,
Gan fab sy'n ddiniwed,
Sef SHON A DAU GLUN.

Glynnedd

Gofyniad i'r Athronyld.

A myfi yn edrych ar gefn llwy arian, canfyddwn fy llun yn gyferbyniol; ond troais y llwy, a chan edrych arni, gwelwn fy llun drachefn, ond dangosai fi yn setyll ar fy mhen. Yn mha le y gorphwys yr achos o'r gwahaniaeth?

Glynnedd. SHON DAFYDD DOMOS.

BARDDONIAETH.

MICAH, VI. 8.

'Dangosodd Duw it', ddyn, pa beth sydd dda,'
Ac O! 'Pa beth a gais ef gennyt?' Dim
Ond 'r hyn sydd fwyaf llesiol i't dy hun!
'Yn gwneuthur barn, yn hoffi trugarhau,
Rhodia yn ostyngedig ger bron Duw.'
Hyn ryngá'i fodd yn fwy nag ebyrth costfawr;
Na themlau uchel-wych na chanau mawl.
Clyw'r llais o'r nef, Dy dad yn d'alw sydd;
'Fy mab, moes i mi'n awr dy galon, a chaf fyw
Mewn diogel bythol wynfyd ger fy mron;

OMICRON.

ANNOGAETH I BAWB I FOLI DUW.

Addasedig ar y don 'CYDGORDIAD.'

Clodforwn Dduw ein Tad,
Genhedloedd yn mhob gwlad,
Ag enaid llon,
Am ei fendithion mad;
Gofalu mae yn dyner iawn,
Rhydd ymborth i'n digoni'n llawn,
A gwisgoedd i'n cynhesu,
Pob pryd yn gu a gawn.

Dewch bawb o ddynolryw
A chalon lân ei lliw,
I foli'n rhwydd,
Yr Arglwydd mawr ein Duw;
Ei ragluniaethau hynod sydd,
Yn rhoi amlygiad maith bob dydd,
O'i gariad tyner tadol;
Yn rhad ei ddoniau rhydd.

O hardded ffyrdd ein Ner,
Yn creu y siriol ser,
Y lloer uwch ben,
A'r haulwen dirion der!
Pob peth sy'n gweithio er lleshad,
O law ein Duw, trugarog Dad;
Boed iddo'r mawl gwastadol,
Byth bythol ei barhad.

Aberdar. EIDDIL GLAN CYNNON.

CAERFYRDDIN: argraffwyd gan J. T. JONES, yn ei Argraff-dy cyffredinol, yn yr Heol-Las, Plwyf Sant Pedr. Tach. 1848.

ALLAN O'R WASG, 234 *tu dal.*, *PRIS* 1s. 6ch.,

Y FFERMWR,

NEU

HYFFORDDIADAU

YN

EGWYDDORION AMAETHYDDIAETH.

CYNWYSIAD.

Hinsawdd—Gwahanol fathau o Ddaear: Daear Sandog, Daear Rafelog, Daear Gleiog, Daear Sialcaidd, Daear Leidiog, Daear Farlaidd, Daear Gorsog neu Fawnog, Gwaelod—Gweithrediadau Amaethyddol—Tir Porfa, Doldir, Ucheldiroedd—Y Glaswellt Celfyddydol—Diwylliant Tir Pori Oer—Diwylliant Tir Sialcaidd—Diwylliant Tir Cleiog—Diwylliant Tir Gwyllt—Dyhysbyddiad—Trwadl-ddyhysbyddiad—Dwfn Arddiad—Dyfrâd—Llosgiad Tir—Achlesoedd: Calch, Marl, Gypsum, Sialc, Tywod y Môr, Gwymon, Lludw, Clai Llosgedig, Esgyrn, Maip-ffylor, Blawd-ffylor, Brag-ffylor, Guano, Achles Gwlyb—Palu a Dwfn-gloddio—Aredig—Braenariad—Heuad—Cnydiad—Cylchyniad Cnydau—Cnydau Llafur: Gwenith, Haidd, Ceirch, Rhyg—Ffa—Pys—Cyneuafa—Dyrnu a Nithio—Gwair Gyneuafa—Cnydau Gwyrddlas: Erfin, Mangles, Bresych, Moron, Panas, Cloron, Meillion Cochion, Ych-laswellt Americanaidd, Rhyg-wellt Italaidd, Efrau, neu Ffacbys, Erfin Gwylltion, Lucerne a Sainfoin—Gosod Tir at ei Bori—Llin—Mêr Helyg—Cor-fwydo neu Las-borthi—Chwynu—Cloddiau—Ffyrdd—Perllanau—Osai—Anifeiliaid: Da, Y Fuwch, Y Ceffyl, Defaid, Y Mochyn—Creaduriaid Plyfog: Gieir, Wyau, Hwyaid, Twrciod, Gwyddau—Y Llaethdy, Llaeth, Ymenyn, Caws—Gwenyn—Crynodeb o Waith Pob Mis—Ol-Ysgrif—Trefniadau Teuluaidd, Yr Ardd, Iechyd, Ymborth, Dillad, Preswylfëydd, Rhagddarbodaeth, Priodasau, Dygiad Plant i fynu—Cyfarwyddiadau Meddygol er gwellâu Clefydau Anifeiliaid: Gwartheg, Lloi, Ceffylau, Defaid, Moch—Pwysau a Mesurau—Chwarterol Ddyddiau y Flwyddyn—Taflen yn dangos pryd i ddysgwyl Llo neu Oen, ar ol i Fuwch gael Tarw, neu Ddafad Hwrdd.

Mae y Cyhoeddwr wedi cael cydsyniad caredig perchenog yr ysgrifhawl o'r traethawd Seisonig poblogaidd "The Farmer," i'w gyfieithu a'i gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg, yn dymuno galw sylw Amaethwyr Cymru at y gwaith gwiwglodus y mae felly wedi ei alluogi i'w ddwyn o fewn eu cyraedd. Gobeithia y bydd i'r cynygiad hwn o dderchafu llênyddiaeth Gymreig gyfarfod a'r cydweithrediad a'r cefnogiad hyny ag y mae cynwysiad y gwaith yn ei deilyngu.

Gelwir sylw Perchenogion tiroedd yn neillduol at y cyhoeddiad hwn, gan y bydd i'w deiliaid ddyfod yn hyddysg yn egwyddorion gwyddoregol Amaethyddiaeth, megys eu heglurir yn y gwaith hwn, yn sicr o droi allan er eu buddioldeb hwy. Ac i'r dyben o hyrwyddo cyraeddiad y dyben canmoladwy o wasgaru mor helaeth ag y gellir wybodaeth o'r egwyddorion hyny a gynwysa,

Gwerthir 24 llyfr am 30s., neu 50 am £3,

i'r neb a bwrcaso gynifer er eu dosparthu yn mysg eu deiliaid.

CAERFYRDDIN: W. SPURRELL, HEOL-Y-BRENIN.

Llundain: H. Hughes, St. Martins-le-Grand, a chan yr holl Lyfrwerthwyr.

Allan o'r Wasg, Pris 6s.; yn hardd mewn Croen Llo, 8s.; y Grammadeg yn unig, 2s.,

GEIRIADUR CYMRAEG A SAESONAEG,

Wedi ei gyfansoddi o Eiriaduron goreu yr oes.

YNGHYD A

GRAMMADEG O IAITH Y CYMRY,

GAN WILLIAM SPURRELL.

Now Ready, Price 6s.; neatly Bound in coloured Calf, 8s.; the Grammar alone, 2s.,

A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE, with English synonymes and explanations. To which is prefixed A GRAMMAR OF THE WELSH LANGUAGE, by WILLIAM SPURRELL.

BARN YR ARGRAFFWASG.—OPINIONS OF THE PRESS.

"Yr ydym yn galw sylw ein darllenwyr yn neilduol at hwn, ac yn gobeithio y croesawant ef yn wresog. Bydd yn un o'r fath ag a wna atteb holl ddibenion y werin."—*Haul, Gorph* 1847.

"Y Geiriadur hwn, pan ddel allan oll, a fydd yn un o'r harddaf a thlysaf a fedd y Cymry, os gellir barnu yn ol *ymddangosiad* y Rhan sydd yn awr ger ein bron. Mae yn dda genym weled fod yr Awdwr yn dilyn yr unig reol gywir yn ei arddygraff; a'i fod yn dangos gwybodaeth helaeth yn egwyddorion ac elfenau cyntefig y Gymraeg."—*Seren Gomer, Awst*, 1847.

"Bydd yn gymmorth i'r Cymro i ddysgu yr iaith Saesneg. Yr ydym yn tybied na bydd i bwy bynag a dderbynio y gwaith hwn gael ei siomi, am y credwn y bydd yn un da a defnyddiol yn mhob llyfrgell."—*Y Drysorfa Gynulleidfaol, Medi*, 1847.

"Mae y Grammadeg yn cynnwys llawer o bethau newyddion, y rhai nid yw Grammadegwyr cyffredin wedi meddwl ond ychydig neu ddim am danynt. Mae y Rheolau wedi cael eu gosod i lawr yn eithaf eglur, a'r enghreifftiau ydynt yn dra phriodol, fel nad yw yn bosibl i neb gamsynied."—*Seren Gomer, Rhagfyr*, 1847.

"Mae yn llyfr buddiol dros ben i'r Cymro, ac i'r Sais. Mae yn hynod lawn o eiriau, a'r gwreiddiau yn cael eu holrhain yn bur dda; a rhoddir terfyniadau lliosog i'r holl eiriau cedyrn trwy y gwaith. Mae y Grammadeg yn syml ac hawdd ei ddeall. Byddai dda genym ddeal fod y Cyhoeddwr nid yn unig yn cael ei ddigolledu, ond ei wobrwyo am yr ymdrech hon o'i eiddo i wasanaethu ei gydgenedl."—*Y Diwygiwr, Mehefin*, 1848.

"The Dictionary is in many particulars superior to those of similar pretensions. The Grammar is written in a concise and lucid style. The Work will be peculiarly serviceable to English persons desirous of attaining a knowledge of the Welsh language, and to Welshmen possessing a limited acquaintance with the English."—*Tenby Chronicle, July 9th*, 1847.

"This Work is likely to supersede the most popular of the imperfect editions which have too long disgraced the book trade, and which have fortunately for the most part run out of print. The Grammar promises to be a skilfully-constructed systematic exposition of the principles and peculiarities of the Welsh language, remote alike from disregard of important grammatical facts on one hand, and tedious minuteness on trifles on the other."—*Silurian, July 24th*, 1847.

"We are justified in recommending it as a production of no mean merit. The Grammar appears to be a fair and accurate exposition of the principles of the language, written very lucidly and yet concisely, though sufficiently discursive to treat fully on the subject in hand. The Dictionary is well arranged, and in some important particulars is far superior to others of its class."—*Carmarthen Journal, June 2nd*, 1848.

"A very neatly printed book, its contents being as useful as its appearance is unique. The Welsh Grammar is excellently arranged, and an admirable adjunct to the Dictionary."—*Welshman, June 2nd*, 1848.

"The Dictionary contains numerous words called for by the requirements of the times, and is free from many of the crudities of its predecessors. It is prefaced with an unpretending but by no means superficial grammar, which will be of great assistance in acquiring a correct knowledge of the technicalities of the language."—*Swansea and Glamorgan Herald, June 21st*, 1848.

"The Grammar will be serviceable to many young persons who have neglected their Welsh studies during the progress of their English education. It will refresh their memories, and enable them to acquire a tolerably correct knowledge of their native language in a short time."—*Principality, September 1st*, 1848.

"The Dictionary, which is copious, is superior to any we have seen, excepting only the expensive work of Dr. Pughe. The plural terminations of the nouns are indicated, and the definitions are more in accordance with the genius of the English language than in other similar works. The Grammar, though comprised in 80 pages, is equalled, as far as utility is concerned, by no other in the language; and is remarkable for the comparisons between the two languages which mark every page."—*Silurian, September 16th*, 1848.

CARMARTHEN: WILLIAM SPURRELL, KING-STREET. LONDON: H. HUGHES, ST. MARTINS-LE-GRAND: AND MAY BE HAD OF ALL BOOKSELLERS.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG GAN W. SPURRELL.

Arweinydd i Addysg, 3c.; ynghyd a Chatechism yr Eglwys, neu yr eiddo Doctor Watts. 6ch.

Pregeth—Saint y Dyddiau Diweddaf a Doniau Gwyrthiol—gan y PARCH. D. EVANS, Curad Sant Dewi, Caerfyrddin. 6ch.

Llyfr i Ddechreu Dysgu Darllen. 1g.

Rhodd Mam i'w Phlentyn. 1g.

The Rail-Road to Learning, constructed so as to illustrate the principles of the language. Enlarged edition, 4d.

Select Hymns for Sunday Schools. 1½d

The Child's Book to Begin With. 1d.

The Parent's Best Gift. 1d.

[Ebrill Rhagfyr 1840]
Dec.

YR YMOFYNYDD.

'Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.'—PAUL.

Nid ydym yn attebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr.—GOL.

DWYFOL YSBRYDOLIAETH YR YSGRYTHYRAU.

YN fy Nhraethawd diweddaf rhoddais rai rhesymau paham yr wyf yn ystyried nad yw pob cyfran o'r Bibl wedi deilliaw o ddwyfol Ysbrydoliaeth. Yn awr af yn mlaen, yn ol fy addewid, i ddangos faint o'n cynhwysiad sydd yn ol fy marn i, yn dyfod dan y nodweddiad hwn. Ond cyn dechreu, byddai yn fuddiol gosod i lawr yr egwyddorion sylfaenol canlynol:—

1. Ni ddylid cyfrif anffaeledigrwydd i neb o awdwyr y Bibl, os nad ydynt eu hunain yn dywedyd yn bendant eu bod yn ysgrifenu tan gyfarwyddyd yr Ysbryd Glan.

2. Nid oes dim sail i gredu fod awdwyr y Bibl yn gwybod mwy na dynion eraill am un rhyw bwnc ond crefydd.

3. Nid oes dim sail i gredu y buasai Duw yn rhoddi y dawn gwyrthiol i neb yn mhellach nag oedd yn anhepgorol angenrheidiol er cyflawni y diben oedd ganddo pan yn ei roddi.

4. I gredu yn nwyfoldeb Christnogaeth, nid oes eisiau dim yn rhagor na sicrwydd am wirionedd y ffeithiau a adroddir gan yr Efangylwyr.

Cadwed y darllenydd yr egwyddorion hyn yn ei gof, tra fyddwyf yn rhoddi atteb i'r gofyniad, faint o'r Ysgrythyrau sydd wedi eu cyfansoddi dan gyfarwyddiad yr Ysbryd Glan. Efallai mai y ffordd mwyaf effeithiol i atteb y gofyniad hwn fyddai gwneyd arolygiad byr ar gynhwysiad y Bibl. Os na fydd fy ngolygiadau yn dygwydd bod yn gymmwys yr un fath a golygiadau y darllenydd, na chasgled yn fyrbwyll nad wyf yn credu yn yr Ysgrythyrau, ac nad wyf yn teimlo attynt bob parch dyledus. Yr wyf yn credu yn gadarn yn yr Ysgrythyrau. Yr wyf yn credu yn gadarn yn Nghrist. Yr wyf yn parchu crefydd a chrefyddwyr, rhinwedd a dynion rhinweddol, o bob crefydd, sect, a gwlad. Ond y ffordd orcu i ddangos ein parch i'r Bibl yw ei ddarllen yn synwyrol, yr hyn ni ellir wneyd heb ddefnyddio ein deall i farnu beth sydd yn gyson â datguddiad y greadigaeth, beth sydd yn anghyson, beth sydd yn dywyll, beth sydd yn oleu, beth sydd yn rhinweddol, a pheth sydd yn anfoesol. Cofied y darllenydd mai fy marn fy hun wyf yn roddi, ac nad oes nac Undodiaid na Thrindodiaid yn attebol am dani; neb ond fy hun yn unig.

Yn gyntaf, yr wyf yn credu fod neilldduaeth yr Iuddewon a goruchwyliaeth Moses o ddwyfol appwyntiad. Yr wyf yn credu fod rhagluniaeth

neillduol Jehofah yn weledig trwy holl hanesiaeth y genedl hynod hon o amser ei dechreuad hyd y dydd heddyw. Ond nid wyf yn credu fod pob peth sydd yn y PUMLLYFR o ddwyfol Ysbrydoliaeth. Gwel y drydedd egwyddor. Nid yw ddim yn angenrheidiol i wirioedd un rhyw hanes yn y Bibl ei fod wedi ei ysgrifenu dan gyfarwyddyd yr Ysbryd Glan. Dymunwn ar y darllenydd ddal sylw neillduol ar hyn. Y mae yn un o'r gwirioneddau mwyaf pwysig sydd yn dal perthynas â'r Bibl. Oherwydd rhesymau na chaniateir i mi yn awr eu hadrodd, yr wyf yn credu na ysgrifenodd Moses ei hun ddim yn rhagor o'r PUMLLYFR na'r gorchymynion a'r ordinhadau a dderbyniodd oddiwrth Duw. Yr wyf yn credu i'r PUMLLYFR gael eu gosod at eu gilydd yn y dull y maent wedi dyfod i law i ni gan ryw law diweddarach na Moses. Nid wyf yn credu fod rhagor o honynt dan ddwyfol Ysbrydoliaeth na'r hyn a dderbyniodd Moses oddiwrth yr Arglwydd.

Am hanes y greadigaeth nid oes genuyf fawr i ddyweyd. Y mae hanes creadigaeth dyn, ei osodiad yn ngardd Eden, a hanes y cwymp yn ymddangos i mi yn debycach i'r peth a eilw y Saeson yn *Allegory*, nag i hanes llythrenol. Ond y mae cymmaint o wahanol farnau ar y pwnc, fel mai rhyfyg fyddai ynof fi i benderfynu y ddadl; ac nid yw'r peth, ychwaith, ddim cymmaint o bwys. Y mae yn eithaf rhesymol meddwl fod y dyn cyntaf yn lled ddibrofiad, ac am hyny yn gofyn darpariaeth neillduol Duw ar ei gyfer. Eto, wele hanes y diluw. Ni wn i ddim beth i ddyweyd am dano. Yn wir y mae gan lawer o hen genhedloedd draddodiad am ddiluw, yr hyn sydd yn bur rhyfedd os na fu y fath beth erioed. Ond pa fodd y gallasai pâr o bob creadur ar wyneb y ddaear gael lle mewn llestr mor fychan a'r arch? Pa fodd y gallasai creaduriaid pob parth o'r byd—o'r zôn grasboeth hyd y pegwn rhewllyd—fyw yn yr un *climate*? Pa fodd y cawsant ymborth i fwyta, ac awyr bur i anadlu? Nis gallaf fi atteb: y maent tu hwnt i'm deall. Os dywedaf mai gwyrth oedd y cyfan, gofyn rhyw un, o bosib, paham na allasai yr un gallu gwyrthiol eu cynnal yn fyw yn y dwfr yr un mor rhwydd. Dichon fod dybenion neillduol gan Duw yn dewis gwneyd gwyrth yn yr arch yn hytrach nag yn nyfnder y dyfroedd. Ond i frysio yn mlaen, dyweda'r hanesydd fod oes dyn cyn y diluw yn cynnwys cannoedd lawer o flynyddau. Os felly, rhaid fod cyfansoddiad y corph dynol a chyfansoddiad y greadigaeth yn llawer gwahanol i'r peth ydynt yn awr. Yr wyf yn credu fod hanes y Patriarch Iuddewig yn wir. Yr oeddynt ar y cyfan yn ddynion crefyddol, ond nid heb lawer o wendidau mawrion. Ystyriaf fod gwaith pob hanesydd yn nodi y drwg fel y da, yn brawf o wirioned a diduedd drwydd ei hanes. Mewn gair, nid wyf yn credu, fel y dywedais yn barod, fod rhagor o'r PUMLLYFR o ddwyfol Ysbrydoliaeth na chenadwri Duw i Moses, a'i broffwydoliaeth hynod am y drwg a ddygwyddai i'r genedl os na rodient yn ffyrdd yr Arglwydd. Y mae'r broffwydoliaeth hon wedi cael ei chyflawni i'r llythyren. Nid allaf lai yn y fan yma na sylwi, wrth fyned trwy y PUMLLYFR, nad ydwyf yn teimlo fy hun yn tramwy tir cadarn hyd nes elwyf yn mlaen at neillduaeth Abraham. Hyd nes y cyrhaeddwyf y fan hono, yr wyf yn teimlo fel pe bawn yn trafaelu gwlad wyllt wedi ei gorchuddio â niwl a thywyllwch. Ond pryd hyn mi dybygwn fod y wawr yn tori, yn mhen tipyn y mae'r haul yn cyfodi, y tywyllwch a'r niwl yn ffoi, ac arwynebedd y wlad yn dod yn danbeidiach danbeidiach.

Yn nesaf, nid wyf yn credu fod y llyfrau a roddant hanes y genedl dan ei barnwyr a'i brenhinoedd yn cynnwys dim sydd o ddwyfol Ysbrydoliaeth,

oherwydd y rheswm a welir yn y drydedd egwyddor: Er hyny, yr wyf yn credu nas gall neb eu darllen yn astud heb ganfod rhagluniaeth neillduol yr Arglwydd yn gofalu am ei bobl, yn eu ceryddu am eu drwg, ac yn eu gwobrwyo am bob rhinwedd. Yr wyf yn darllen y llyfrau hyn fel hanesiaeth rhyw genedl arall, gan gymeryd yr un rhyddid i farnu drosof fy hun am natur eu cynnwysiad. Yr wyf yn credu fod cymaint o hanesiaeth y genedl ag sydd i'w gael yn y Bibl, yn ffeithiau gwirioneddol, ond nid wedi eu hysgrifenu tan lywyddiaeth yr Ysbryd Glan.

Wele ni yn awr yn dôd at res o awdwyr moesol (*moral writers*), sef Job, y Psalmau, y Diarhebion, a'r Caniadau. Nid wyf yn credu fod y rhai hyn ychwaith yn Ysbrydoledig. Cynhwysant lawer, mae yn wir, o syniadau teilwng am Dduw a'i ragluniaeth, a chywir am ddyledswyddau moesol. Ond cynhwysant ar yr un pryd syniadau cyfeiliornus—syniadau na all neb Christion goleu byth a'u cymeradwyo. Eu hysbryd cyffredin yw ymddial ar elynion, a gwneuthur da i'r sawl a wnant dda i ninnau. Ond y maent yn annghydmarol mwy pur na dim cyffelyb o ysgrifeniadau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Y maent yn rhoddi annogaeth i addoli Duw, trwy ddangos mai efe yw Creawdwr nefoedd a daear, trwy ddatgan mawredd ei weithredoedd, ei ddoethineb, a'i ddaioni. Ond gan eu bod hefyd yn cynnwys llawer o syniadau cyfeiliornus, nid ydynt yn deilwng o gael eu hystyried wedi deilliaw o enau yr Ysbryd Glan.

Yr wyf yn credu fod y rhan fwyaf o ysgrifeniadau y Prophwydi yn Ysbrydoledig. Yn wir, y mae mwy o ysgrifeniadau y prophwydi yn Ysbrydoledig nag un rhyw ysgrifeniadau craill yn yr holl Fibl. Y Prophwydi yw'r unig awdwyr a ellir alw yn briodol yn Ysbrydoledig.* Ond i frysio yn mlaen i'r Testament Newydd.

Mewn perthynas i ddwyfol Ysbrydoliaeth y Testament Newydd, yn gyntaf, yr wyf yn credu fod y fath ddyn a IESU O NAZARETH wedi bod yn Judea yn amser AUGUSTUS CAESAR. Yr wyf yn credu ei fod yn un o'r dysgawdwyr mwyaf hynod a welodd ein byd ni erioed. Yr wyf yn credu iddo gael ei appwyntio gan Dduw i ddiwygio'r byd. Yr wyf yn credu iddo ddysgu llawer o bethau pwysig am Dduw, am ddyledswydd dyn, ac am fyd ar ol y byd a'r bywyd hwn. Yr wyf yn credu iddo

* Y mae llawer iawn o anwybodaeth yn mhlith crefyddwyr mewn perthynas i'r prophwydi Iuddewig a'u swyddau. Y meddwl cyffredin am broffwyd yw un yn *rhagfynegu* pethau i ddyfod. Y mae y meddwl hwn yn wir, ond yr oedd swydd prophwyd yn llawer mwy cynnwysfawr. Am mai *rhagfynegu* oedd un o'r pethau mwyaf nodedig yn swydd y prophwyd Iuddewig y galwodd y Groegiaid ef PROPHETES, o'r hwn y tardda y gair PROPHWYD Y gair Hebraeg yw NAVI, o berwyddiad sydd yn meddwl *berw i* fel dwfr neu *furlwmu*. Yna y daeth i feddwl un yn llefaru yn *amleiriog*. Yr oedd ysgolion gan yr Hebreaid, yn amser eu barnwyr a'u brenhinoedd, at ddysgu prophwydi. Gelwid yr ysgolheigion yn *Feibion y prophwydi*. Y prophwydi oeddynt ddysgedigion y genedl. Eu swydd oedd cyflwyno meddwl yr Arglwydd i'r bobl; eu dysgu mewn crefydd trwy areithio, esbonio, cynghori, ceryddu, a rhagfynegu. Am hyny y geilw yr Apostol PAUL, *prophwydo*, ar y gwaith o esbonio yr Ysgrythyrau, pregethu, llefaru yn gyhoeddus yn yr Eglwys, 1 Cor. 14. 1—4. Eu swydd hwy hefyd oedd cofrestru neu ysgrifenu dygwyddiadau hynod yn hanes y genedl. Mae lle i gredu mai gwaith un o honynt hwy yw y PUMLLYFR. Yr oeddynt yn fynych yn trafod materion gwladol neu *bolitics*. Rhan o'u swydd hwy oedd encinio brenhin newydd. Nid oedd ddim yn gyfreithlon i brophwyd i wisgo arfau rhyfel ac i gyflawni swydd milwr. Yr oedd ei berson yn gysegredig. Yr oedd y prophwydi Hebreaidd mewn rhai pethau yn debyg i Dderwyddon y Britaniaid. Yr oedd llawer o'r prophwydi yn ddynion da, rhai yn ganolig, a rhai o honynt yn ddynion drwg. Darfu y *class* hwn o ddysgawdwyr yn Israel oddeutu amser y caethiwed yn Babilon. Ac yn raddol cyfododd i fynu yn eu lle *glass* arall o dysgawdwyr, sef yr Ysgrifenyddion a'r Rabbiniaid.

wneyd llawer o wyrthiau i brofi dwyfoldeb ei ddanfoniad. Yr wyf yn credu fod ganddo, fel diwygwyr yn gyffredin, lawer o elynion, y rhai trwy ddichell a lwyddasant i'w osod i farwolaeth. Yr wyf yn credu i Dduw ei adgyfodi ef o feirw, ac iddo cael ei gipio oddiar y ddaear i rywle na wyddom ni ddim am dano. Mewn gair, yr wyf yn credu fod y ffydd Christnogol o Dduw. Yr wyf yn credu fod yr hanes a ddarllenwn yn yr Efangylwyr—y rhan fwyaf o hono—yn wir; ond nid wyf yn credu fod yr Efangylwyr yn ysgrifenu yr hanes dan ddwyfol Ysbrydoliaeth. Yr wyf yn credu eu bod, fel rhyw hanesyddion eraill, yn agored i ffaeleddau awdurol a chamsyniadau. Yr wyf yn credu iddynt ysgrifenu yr hanes mor gywir a galient. Gallasent, yn ddiau, ysgrifenu rhagor, ond ysgrifenasant ddigon i bawb Credu mai IESU OEDD Y CHRIST. Yr wyf yn credu fod llawer o gyfnewidiau bychain wedi cymeryd lle o oes i oes yn yr hanesiaeth, rhai yn fwriadol ac eraill yn ddifwriad. Yr wyf yn credu fod llawer o eiriau a ysgrifenwyd gan yr Efangylwyr wedi eu gadael allan, a llawer na ysgrifenasant, wedi eu gosod i mewn. Ond ar y cyfan yr wyf yn credu nad yw y llygriadau o gymmaint pwys ag i gyfnewid canol swn neu ysbryd yr hanes. Hefyd, y mae yr un sylwadau yn addas i'r rhannau eraill o'r Testament Newydd. Yr wyf yn credu nad oedd Paul, na Phetr, nac Iago, nac Ioan, dan ddwyfol Ysbrydoliaeth yn ysgrifenu yr Epistolau; na Luc, yn ysgrifenu Actau yr Apostolion. Yr oedd y dynion hyn yn deall egwyddorion Christnogaeth yn eithaf da. Gwyddent hefyd ddiffygiadau ac anghenion yr eglwysydd. Yr oeddynt yn berffaith addas i athrawiaethu, i gynghori, i geryddu, i ddysgyblu. Onid yn ofer y rhoddid y dawn gwyrthiol i alluogi dynion i wneuthur yr hyn allent wneuthur o honynt eu hunain? Pan y profesa Paul roddi meddwl yr Arglwydd, nid yw yn canlyn na wyddai y meddwl cyn yr amser yr ysgrifenodd yr Epistol. Yr oedd yn gwybod hanes Christ, yn gwybod llawer o'i ymadroddion, yn gwybod ei feddwl ar lawer o byncian crefyddol a moesol, y wybodaeth o'r pethau hyn a dderbyniodd, mewn mesur, trwy ffordd wyrthiol. Paham, gan hyny, na allasai ddyweyd, heb gymhorth yr Ysbryd Glan ar y pryd, mai hyn yw meddwl yr Arglwydd? A raid fod pregethwyr yn awr dan ddylanwad yr Ysbryd Glan cyn y gallont ddyweyd, dyma yw meddwl Christ? Os na fyddai yr Apostol yn gwybod meddwl Christ, rhodda ei feddwl ei hun ar y pwnc, gan ddyweyd ei fod yn llefaru fel dyn, neu mai ei feddwl ei hun ydoedd ac nid meddwl yr Arglwydd. Mor bell oedd yr Apostol ei hun o broffesu ei fod dan ddwyfol Ysbrydoliaeth, fel yr addefa nad oedd ganddo ddim golwg eglur ar lawer o bethau, ond ei fod yn eu gweled 'megis trwy ddrych yn dywyll.' Yr wyf yn credu nad oedd yr Ysbryd Glan ddim yn cael ei roddi i'r Apostolion mor fynych ag y mae dynion yn awr yn credu ei fod.

Am Ddatguddiad Ioan nid oes gennyf ddim i ddyweyd. Hyd yn hyn yr wyf wedi methu ei ddeall. Yr wyf yn credu nad oes neb etto wedi ei ddeall yn iawn, er fod rhai yn cymeryd arnynt i'w esbonio.

Yn ddiweddaf, yr wyf yn credu mai cyficithiad ammherffaith o'r Groeg a'r Hebraeg yw'r Biblau Cymraeg cyffredin; a phigion ammherffaith o lawsgrifau ammherffaith yw y Testamentau Hebraeg a Groeg, am mai ammherffaith raid fod pob gwaith dyn. Nid oes un Bibl yn Gymraeg nac yn Saesonaeg yn hollol rydd oddiwrth wallau. Faint o wallau achoswyd gan adysgrifenwyr, cyficithwyr, argraphwyr, nid oes neb yn gwybod, ac faint o gamsyniadau wnaeth yr awdwyr eu hunain nid oes neb all ddyweyd. Ffolineb gan hyny yw haeru fod y Bibl yn bur yn mhob man, fod y Bibl yn anllygredig

yn mhob amgylchiad, fod y Bibl yn anffaeledig yn mhob peth, fod y Bibl o ddwyfol Ysbrydoliaeth. Fe wyr llawer sydd yn haeru hyn yn well; ac fe ddylai yr anwybodus gael gwybod. A ydyw celu y gwir yn llês i wir grefydd? A ydyw crefydd yn blaguro yn fwy llwyddiannus yn awyrgylch anwybodaeth? Mi dybygwn fod rhai o ddysgawdwyr Christnogaeth yn awr, fel cynt, yn credu fod anwybodaeth yn fammaeth duwioldeb. Pwy achos ynte petruso gosod yr holl wir gerbron y bobl? A oes gan ddysgawdwyr crefydd ddim mwy o ffydd yn y Bibl ac yn y bobl na hyn? Os nad oes, ymaith a hwynt.

Peth ffol ac anghyfiawn mewn anghredinwyr yw ceisio gan Gristnogion i gysoni neu roddi rheswm dros bob peth a ddywedir yn y Bibl; a ffolineb mewn crefyddwyr yw cynnyg y fath beth. Yr wyf yn credu mai peth anghyfiawn yw gwneyd crefydd yn attebol am bob peth sydd yn y Bibl. Y mae gwir grefydd o ddwyfol darddiad; ond y mae pob esboniad o honi mewn llyfrau o angenrheidrwydd yn ddiffygiol. Yr oedd crefydd yn y byd cyn bod llawsgrifau, na llyfrau, nac adysgrifenwyr, nac argraffwyr; a phe darfyddai holl lyfrau'r byd ar unwaith, byddai y greadigaeth er hyny yr un; byddai dynoliaeth yn ddigyfnewid. Nid y Bibl yw sylfaen crefydd, ond y natur ddynol. Am hyny nid yw crefydd yn ymddibynu ar lyfrau, ac o ganlyniad nid yw yn attebol am eu gwallau. Pigion gwerthfawr o wahanol ysgrifeniadau yw'r Bibl, ac ni wna un dyn doeth a rhinweddol eu diystyru. Pob dyn sydd yn teimlo awydd am wybod hanes dynoliaeth, hanes gwybodaeth, hanes a ffyniant gwir grefydd, a ddarllen y Bibl gyda phleser ac adeiladaeth. Ffolineb yw gwneyd crefydd yn attebol am bob peth sydd yn y Bibl. Y mae llawer o bethau yn cael eu traethu yn yr Hen Destament na ellir fyth eu cyfiawnhau na'u hamddiffyn, ac y mae llawer o bethau hyd yn hyn yn anegluradwy. Y mae rhai syniadau yn y Bibl na ellir byth eu cysoni â datguddiad Duw yn y greadigaeth weledig, nac ag egwyddorion crefydd a rhinwedd. Dyledswydd pregethwyr yw dangos y pethau hyn i'w gwrandawyr ac i'r rhai sydd yn eu hurio i ddysgu crefydd, ac i *amddiffyn* y Bibl. Y ffordd oreu, a'r unig ffordd, yw darllen y Bibl fel llyfr hynafiaethol, fel llyfr sydd yn cynnwys llawer o bethau da a llesiol i'r byd i'w gwybod a'u dwyn i ymarferiad bucheddol, ac fel pigion o ysgrifeniadau addas i weinyddu adeiladaeth i'r deall, a theimladau rhinweddol i'r galon. Ond ar yr un pryd, ystyrier mai crynhodeb yw'r Bibl o lyfrau a ysgrifenwyd gan ddynion o wahanol oes, o wahanol wlad, o wahanol ymarferiad, ac o wahanol gredöau. Ystyrier mai crynhodeb yw'r Bibl o lyfrau sydd yn cynnwys y syniadau mwyaf pur, mwyaf rhinweddol, mwyaf goruchel, mwyaf cysurus, a mwyaf pwysig a goleddwyd neu a ddysgwyd gan y doethaf a'r mwyaf rhinweddol o ddynolryw. Ac o'r ochr arall, cofier ei fod hefyd yn grynhodeb o lyfrau sydd yn cynnwys golygiadau ammherffaith, cyfeiliornus, anghyson, partiol, a niweidiol ar lawer o bynciau ag sydd yn anwahanadwy gysylltiedig â rhinwedd a dedwyddwch dynoliaeth. Gwaith pregethwyr yw dysgu y pethau hyn i'w gwrandawyr. Darllener y Bibl fel cynnorthwydd ac nid fel diffoddydd y deall, fel llyfr a fwriadwyd i annog ac nid i lygru rhinwedd. Darllener y Bibl yn astud ac yn ddifrifol, ac na thybied neb ei fod yn cynnwys rhyw feddwl gwahanol i'r hyn sydd yn ymgynnyg i'w ddeall *plain* ei hun. Os cyfarfyddir â gwrthddywediad gwirioneddol, na feddylier fod yn rhaid ei gysoni. Os cyfeiria rhyw un at frawddeg a *ymddengys* fel yn dysgu neu yn cefnogi egwyddor gyfeiliornus, neu fel yn *cymmeradwyo* anniweirdeb neu greulondeb, na feddylied neb fod crefydd mewn perygl os na ellir eu cysoni â sancteiddrwydd a rhinwedd Gadawer hi fel y byddo, yn hytrach na chwilio am ryw feddwl tywyll,

pell oddiwrth feddwl naturiol y geiriau. Pe gallai Deistiaid brofi mai twyll yw y Bibl, na feddylier y byddent trwy hyny yn profi mai twyll yw gwir grefydd, mai peth diwerth yw bywyd rhinweddol. Yr wyf yn dyweyd *pe gallent*, oblegid gwn nas gallant yn dragywydd. Cymhorth i grefydd yw'r Bibl ac nid ei sylfaen. Y natur ddynol yw sylfaen crefydd. Y mae y Creawdwr wedi planu crefydd yn anian dyn. Cyn y gall dyn beidio bod yn greadur crefyddol, rhaid iddo beidio a bod yn ddyn.

Fe wna'r Bibl lês i bawb sydd yn ei ddarllen yn ddifrifol. Ond os na ddarllenir ef a'r deall, fe wna fwy o ddrwg nag o dda. Darllener y Bibl a chwilier yr Ysgrythyrau. Defnyddier y deall i'r pellafion eithaf. Profwch bob peth, a deliwch ar bob peth sydd yn rhoddi adeiladaeth i'r deall, ac annogaeth i rinwedd a daioni. Pob peth sydd o duedd wahanol, gwrthodwch. Beth bynnag sydd wir a buddiol yn y Bibl, dygwch i ymarferiad. Beth bynnag sydd yn ammheuüs, ystyriwch yn ammheuüs. Beth bynnag sydd yn gyfeiliornus, neu yn wallus, neu yn anfoesol, neu yn anghyson a'r gwirionedd, neu yn niweidiol i rinwedd a dedwyddwch dynoliaeth, gwrthodwch yn ddiofn. Na chymered un dyn arno i gredu peth nad ydyw yn gredu, neu i ddeall peth nad ydyw yn ddeall, neu i wybod peth nad ydyw yn wybod. Na chymered neb arno i ddysgu neu i brofi i eraill, ond yr hyn a wyr ei hunan, ond yr hyn y mae yn gredu sydd yn wir, yn rhinweddol ac yn fuddiol i ddynion wybod.

Hefyd am y dynion hyny y rhai ydynt yn arfer darllen y Bibl a llygaid eu deall yn nghau; y rhai ydynt yn proffesu derbyn pob peth heb ymholiad, y rhai ydynt yn rhoddi yr un cymeradwyaeth i bob llyfr yn yr Hen Destament a'r Newydd; y rhai ydynt yn credu yn ddireswm fod pob adnod, pob brawddeg, pob gair, ïe, pob llythyren, wedi dyfod allan o enau yr Ysbryd Glan; yr wyf yn beiddio dyweyd mai nid y dynion hyn yw y Christnogion goreu, nid y rhai hyn yw y dynion mwyaf rhinweddol yn wastad. Y mae yn wir mai y dynion hyn sydd yn cadw mwyaf o swn am grefydd, ac yn barottaf o neb i ymswyn rhag neb sydd yn beiddio ymresymu ar gynhwysiad y Bibl: ond hwy hefyd yw y rhai mwyaf rhagfarnllyd ac erlidgar yn mhob tref a gwlad, hwy hefyd yw y rhai mwyaf caled at y tylawd a'r anghenus, mwyaf rhagrithiol, hoccedus, a dichellgar. Mi wn fod rhai eithriadau yn eu plith, ond ar y cyfan dyma eu nhodweddiad. O'r ochr arall, y mae ymddygiad moesol y mwyrif o'r Deistiaid, a'r rhai sydd yn cymmeryd arnynt i wadu'r Bibl ac i ddiystyru crefydd, yr un mor anghymmeradwy. Y mae buchedd y rhan fwyaf o honynt yn anniwair, yn anghymedrol, ac yn dwyllodrus. Ychydig iawn o'r anffyddwyr sydd wedi cymeryd pwyll i ystyried y rhesymau dros wirionedd y Bibl a phynciau crefyddol. Dymunent mai twyll yw crefydd, er mwyn distawi llais y gydwybod, am hyny y maent yn cymeryd arnynt i gredu mai twyll ydyw.

Y Christnogion goreu, y dynion mwyaf rhinweddol, crefyddol, a diragfarn, yw y rhai ydynt yn darllen y Bibl yn bwyllog, yn holi i mewn yn ddiragfarn i natur ei gynnwysiad; yn profi pob peth, ac yn derbyn ac yn dwyn i ymarferiad buchedd yr hyn sydd yn bur, yn rhinweddol, ac yn gyson â datguddiad Duw yn y greadigaeth ac â synwyr cyffredin. Hefyd y maent yn gwrthod, wedi dwys ystyriaeth a manwl chwiliad, yr hyn a ymddengys yn anghymeradwy. Y mae'r dynion hyn yn teimlo syched am wybod y gwirionedd, gan ystyried fod meddiant o hono yn fwy gwerthfawr na'r holl fyd. Y rhai hyn yw y gwir Ghristnogion; dyma y dynion mwyaf geirwir, mwyaf didwyll, mwyaf cymmwynasgar, mwyaf trugarog; a'r rhai hyn hefyd yw y dynion mwyaf cymeradwy gan Dduw, Amen. PHILO.

DARGANFYDDIAD AMERICA.

COLUMBUS.

Parhad o tu dalen 355.

Wedi iddo lwyddo i gael tawelwch, cynted ag y caniattai ei amgylchiadau, anfonodd rai o'r llongau i Spaen â hanes cyflawn o'i fordaith, y gwledydd newyddion ag oedd wedi gael allan, ynghyd âg argraphlen o'r gororau oedd wedi hwylio heibio iddynt, ac hefyd samplau o'r aur, y perlau, a'r cynnyrch gwerthfawr oedd ef wedi gael wrth fasnachu â'r brodorion. Ar yr un pryd anfonodd hanes y terfysg yn Hispaniola. O'r ochr arall, anfonodd Roldan, o hono yntau, ei hanes ef o'r mater, gan achwyn yn dost ar Columbus. Gwaethaf y modd er anrhydedd Spaen a dedwyddwch Columbus, achwyniadau Roldan a gawsant eu derbyn gan y llys.

Y Spaeniad cyntaf a gynnygodd fordaith ar ei draul ei hun oedd Alonzo de Ojeda, cydymaith Columbus yn ei ail fordaith. Aeth Ojeda ag un o'r enw Amerigo Vespucci gydag ef; a chwedi hwylio yn gymmwys yr un ffordd a Cholumbus, aethant i Paria. Wedi hwylio mor belled a Cape de Vela, cafodd Ojeda allan mai cyfandir oedd y wlad helaeth honno, fel y dywedasai Columbus o'r blaen. Yn glau ar ol eu dychweliad i Spaen, ysgrifenodd Amerigo hanes mor fywiog o'i fordaith, y gwledydd oedd wedi eu gweled, eu trigolion, a'u cynnyrch, fel y darllenwyd ef yn awyddus, ac yn raddol galwyd y wlad a debygid oedd ef wedi gael allan ar ei enw: ac felly AMERICA oddiwrth *Amerigo*; ac nid COLUMBIA oddiwrth *Columbus*, y gelwir y Byd Newydd hyd heddyw. Trueni, trueni, onide? Ond nid oes gennym ddim i'w wneud; y mae'n rhy ddiweddar i alw ddoe yn ol.

Yn awr ni a ddychwelwn at Columbus. Er ei fod wedi gwneuthur heddwch â Roldan, etto nid oedd wedi difa hadau terfysg ymhlith ei bobl, y rhai a barent ofid mawr iddo ef a'i frodyr yn fynych; gymmaint, yn wir, fel y cafodd trwy hynny ei attal i dalu nemmawr o sylw i gynllwynion ei elynion yn Spaen. Yr oedd llawer o elynion gwaethaf Columbus wedi dychwelyd yn y llongau a anfonodd ef o St. Domingo. Pan aeth rhain i Spaen, arllwysent yn ddibaid eu hachwyniadau yn erbyn Columbus. Coffadwriaeth ar ol coffadwriaeth yn cael ei danfon at y brenhin a'r frenhines, yn cynnwys y cam oeddent wedi gael, a'r tal oedd ddyledus iddynt. Yr oeddent yn dirmygu plant Columbus ble bynag y cyfarfyddent â hwynt. Heblaw hyn, yr oedd llawer yn y llys yn barod i chwythu'r tan. Cefnogodd Esgob Badajos y drwgdybiau hyn. O'r diwedd, wrth weled nad oedd fawr gyfoeth yn debyg o ddyfod yn glau i Spaen, unodd Ferdinand ac Isabella â'r blaid wrthwynebol. Penderfynasant i anfon Francis de Bovadilla i chwilio i ymddygiad Columbus, ac os y cai ef yn euog o gam-lywodraeth, ei fod ef i ddiswyddo Columbus, a chymmeryd llywodraeth yr ynys arno ei hun yn ei le. Yr oedd yn ammhosibl lai nag i'r fath farnwr a hwn gael Columbus yn euog, lle yr oedd darostyngiad y cyhuddiedig yn ddyrchafiad y barnwr. Cynted y tiriodd Bovadilla yn Hispaniola, dechreuodd ei oruchwyliaeth fel pe buasai Columbus eisioes wedi ei brofi a'i gael yn euog. Cymmerodd feddiant o'i dy a'i feddiannau, yr amddiffynfa a'r ystordy, a gorchymynodd i bawb ei gydnabod ef fel eu llywodraethwr: *yna*—nid cyn hynny—gwysiodd Columbus i ymddangos ger bron ei frawdle ef, i atteb am ei ymddygiad.

Ufuddhaodd Columbus i ewyllys ei frenhin, er wedi ei glwyfo i'r eithaf gan ymddygiad anniolchgar Ferdinand ac Isabella tuag atto, ac aeth i'r llys yn

ddioed. Yn lle ei brofi gorchymynodd Bovadilla ei osod mewn dalfa, dan gadwynau, a'i gludo i fwrdd y llong oeddi 'w ddwyn ef i Spaen, heb gymmaint a chael ymddangos ger bron ei farnwr. Cywilydd, cywilydd! Gan wybod ei fod yn ddiniweid, dioddefodd Columbus y sarhad hwn ar ei garacter, nid yn unig gyda thawelwch meddwl, ond hefyd gydag urddasrwydd. Nid oedd gan Columbus druan ddim un yn cydymdeimlo ag ef chwaith. I gynhyddu ei ofid, cafodd ei ddau frawd eu dodi hefyd dan gadwynau, a'u gosod ar fwrdd gwahanol longau, fel na chaent y cysur o gyfeillachu â'u gilydd yn eu gofid. Casglodd Bovadilla gynnifer o achwyniadau ag a allasai yn erbyn Columbus, ac a'u danfonodd i Spaen. Pan oedd pawb yn Hispaniola, er cywilydd iddynt yn llawenhau yn narostyngiad Columbus, yr oedd ganddo un yn parhau yn ffyddlon o hyd, sef Alonzo de Valedo, cadpen y llong oedd i'w gludo ef i Spaen. Wedi myned o olwg yr ynys, aeth Valedo at y carcharor, gyda pharch mawr a chydymdeimlad dwys, ac a gynnygodd ei ryddhau o'i gadwynau gwrthwynebus. 'Na,' ebe Columbus, 'yr wyf yn gwisgo'r cadwynau hyn oherwydd gorchymyn fy mrenhin a'm brenhines. Hwy a'm cant mor ufudd i hyn ag i'w heirchion eraill. Wrth eu gorchymyn hwynt yr wyf yn cael fy nghaethiwo, a'u gorchymyn hwynt yn unig gaiff fy rhyddhau.'

Goreu y modd, bu'r fordaith i Spaen yn fyr iawn. Cynted y daeth Ferdinand ac Isabella i wybod fod Columbus wedi cael ei ddwyn yn ol yn garcharor, ac mewn cadwynau, gwelsant yn gymmwys fath syndod cyffredinol y buasai hyn i greu, a'r fath argraph ddofn yn eu herbyn hwynt a wnelai. Yr oeddent yn rhagweled y buasai holl Europe i gael ei llanw o gwr i'w gilydd â digllonrwydd am y fath driniaeth i ddyn ag oedd yn haeddu'r wobrwy fwyaf yn lle cadwyn i'w rwymo. Rhag cywilydd o'u hymddygiad, ac ofn y gwaradwydd cyffredin a dynnai arnynt, rhoddasant orchymyn yn ddiattreg i ryddhau Columbus, gwahoddasant ef i'r llys, ac anfonasant arian iddo, i'w alluogi i ymddangos mewn dull addas i'w sefyllfa. Pan aeth o flaen y brenhin a'r frenhines, syrthiodd wrth eu traed, heb allu dywedyd gair am dro oherwydd y cynnwrf mewnol oedd yn aflonyddu ei feddwl. O'r diwedd, wedi i'w nerth gael ei adferu, ymddiffynodd ei hun mewn araeth faith yn llawn o'r profion mwyaf boddhaol o'i ddiniweidrwydd ei hun, a digasedd ei elynion, y rhai a fynnent ei ymddifadu o'r hyn yn unig oedd yngweddill, sef ei anrhydedd a'i enwogrwydd. Derbyniodd Ferdinand ef gyda gweddeidd-dra, ac Isabella gyda thynerwch a pharch. Ond er iddynt ddiraddio Bovadilla yn ddiattreg, ni wnaethant ddychwelyd Columbus i'w swydd o *Viceroy*, fel, ymhob cyfiawnder y dylasent. Cadwasant ef yn y llys, gan wneuthur llawer o esgusodion dros hynny, a phennodasant Nicholas de Ovando yn llywodraethwr Hispaniola yn ei le. Yr oedd Columbus yn cael ei flino yn fawr yn y cam newydd hwn a wneid ag ef, a hynny dan yr enw caredigrwydd tuag atto. Ble bynnag yr ai, dygai gydag ef y cadwynau a fu am dano, fel profion o anniolchgarwch ei wlad. Yr oeddent bob amser yn nghrog yn ei ystafell, a gorchymynodd pan y byddai farw eu claddu hwynt yn yr un bedd ag yntau.

Parotówyd llynges o 32 o longau, a dwy fil a hanner o filwyr arnynt, i gludo Ovando i Hispaniola. Yr oedd digon o angen rhyw un yno, gan fod yr ynys wedi myned yn bendramwnwgl ymron, trwy gamlywodraeth Bovadilla, yr hwn a gymerodd yn ei ben i wneuthur pob peth yn groes i ddull Columbus o lywodraethu'r ynys. Wedi i'r llywodraethwr newydd dirio, rhoddodd Bovadilla ei swydd i fynu, a gorchymynwyd iddo i ddychwelyd i Spaen i atteb am ei ymddygiad. Gwnaeth y llywodraethwr newydd lawer o ddiwygiadau gyda golwg ar sefyllfa'r brodorion, y rhai a driniai Bovadilla fel anifeiliaid.

Tra yr oedd y mesurau hyn yn cael eu defnyddio i sicrhau tawelwch a llwyddiant y drefedigaeth oedd Columbus wedi blannu, ei waith yntau, druan, oedd deisyf ffafr llys anniolchgar, fe, ac yn ofer befyd, er cymmaint ei deilyngdod. Ei gais oedd, cael ei ddodi yn *Viceroy* ar y gwledydd a gafodd allan, yn ol y cyfammod a wnaethpwyd ag ef, yn 1492. Ond yr oedd ar y brenin a'r frenhines ofn ymddiried i Columbus y gallu oeddent wedi addaw ar y cyntaf. Er cynnifer o siomedigaethau a gafodd, ni roddodd heibio, er hynny, y gwrthrych oedd ganddo mewn golwg ar y cyntaf, sef cael allan ffordd newydd i'r India ddwyreiniol. Yr oedd wedi dychymygu fod mor tuhwnt i gyfandir America, a gobeithiai gael allan wddfdir cul yn arwain o un mor i'r llall. Meddyliai mai yn agos i gaingefor Darien oedd y gwddfdir hynny. Ac felly y mae mewn gwirionedd. Yn llawn o'r meddwl hwn, darfu i Columbus, er yn hen, gyda brwdianwch ieuengctyd, gynnyg chwilio allan ffordd newydd i'r India Ddwyreiniol. Yr oedd yn dda gan Ferdinand ac Isabella gael rhyw waith anrhydeddus i Columbus, fel na chaent eu blino â'i ddeisyfiadau cyfiawn a pharhaus. Mwy na'r cwbl, yr oedd Cabral newydd ddychwelyd o'r India, a llwyth mor werthfawr ag i gyfodi awydd yn Spaen i gael allan ffordd o ferrach, os oedd bossibl. Felly penderfynwyd anfon Columbus i chwilio am dani. Ond er mor bwysig y fordaith hon, ni chafodd ond pedair llong fechan at y gwaith. Yr oedd Columbus yn gyfarwydd â pheryglon, ac felly anturiodd y fordaith. Hwyliodd o Cadiz ar y 9ed o Fai, 1502, gan feddwl myned yn gymmwys tua'r Cyfandir; ond yr oedd ei long fwyaf mor afluniaidd ac anaddas i'r gorchwyl fel y penderfynodd fyned i Hispaniola, gan obeithio y cai ei nhewid yn lle un o'r llongau a gludasant Ovando drosodd. Pan aeth yno, cafodd fod 18 llong wedi eu llwytho, ac yn barod i ddychwelyd i Spaen. Hysbysodd Columbus amcan ei fordaith i'r llywodraethwr, a'r achos a'i gorfododd i ddyfod tuag yno, ac a ddeisyfodd gennad i gael dwyn ei llongau i mewn i'r porthladd i wasgodi tymestl frawychus oedd ar ddyfod, arwyddion o'r hon oedd wedi weled yn barod; ar yr un pryd, cynghorodd Ovando i beidio anfon y llongau ymaith nes elai yr ystorm heibio. Gwrthodedd Ovando ei gais, a diystyrodd ei gyngor. Ni chafodd Columbus osod troed ar yr ynys a gafodd ef ei hun allan, a hyny dan amgylchiadau a gyfodent dosturi mewn neb arall. Ond am ddiystyru ei gynghor prydlawn cawsant dalu yn chwerw. Y noson honno cyfododd tymhestl a ddinystriodd y llongau i gyd ond tair, a threngodd Bovadilla, Roldan, a'r rhan fwyaf o elynion Columbus; a chyda hwynt aeth yr holl gyfoeth—llawer o hono yn perthyn i Columbus—i'r gwaelod. Bu tair llong fechan Columbus yn ddiogel trwy ei ofal a'i ragbarotoadau ef.

Gadawodd Columbus Hispaniola (Gorph. 14,) heb gael un llong yn lle yr un anaddas oedd ganddo. Ar ol mordaith beryglus, darganfyddodd Guanaia, nid pell oddiwrth Honduras. Yno ymwelodd rhai o drigolion y Cyfandir ag ef, y rhai a ymddangosent yn fwy gwaraidd na thrigolion yr ynysoedd. Mewn atteb i ofyniadau parhaus y Spaeniaid am aur, cyfeiriai'r brodorion at wledydd i'r gorllewin, (Mexico,) lle yr oedd mor aml fel yr oedd yn cael ei ddefnyddio at orchwylion cyffredin. Yn lle chwilio am wlad yr aur, modd bynnag, aeth Columbus tua chaingc-for Darien, i chwilio am ffordd i'r India Ddwyreiniol. Hwyliodd y tro hwn o Cape Gracias a Dios hyd borthladd mor hyfryd fel ei galwodd ef yn Porto Bello. Penderfynodd adael trefedigaeth ar lan yr afon Beleni, yn nhalaith Veragua, dan ofal ei frawd Bartholomew, ac yna i ddychwelyd i Spaen, (1503,) er mwyn cael yr hyn oedd yn anghenrheidiol i wneuthur y drefedigaeth yn barhaus. Ond

oherwydd ysbryd aflywodraethus y bobl, nid felly y bu. Oherwydd trahausder y Spaeniaid, cyfododd y brodorion mewn arfau yn eu herbyn, a gorfu arnynt ffoi oddiyno.

Nid y pall hyn—y cyntaf a gafodd y Spaeniaid gan genhedlaethau America, oedd yr unig auffawd a gyfarfu â Cholumbus; eithr adfyd ar ol adfyd oedd yn ei aros. Yr oedd tymestloedd arswydus, mellt a tharanau brawychus, yn bygwth ei longau agenog â dinystr: tra yr oedd ei fobl yn rwgnachlyd, wedi eu difa gan ludded a diffyg ymborth, yr oeddent naill ai yn anallnog neu yn anewyllysgar i gyflawni ei eirchion. Collodd un o'i longau, rhoddodd long arall i fynu oherwydd ei hanaddasrwydd; yn y ddwy long arall ymadawodd ef a'i bobl â'r rhan honno o'r cyfandir, yr hon a alwodd yn ei fawr ofid, '*Gororau Blinder*,' a dechreuodd ei ffordd i Hispaniola. Cafodd ei yrru yn ol oddiwrth oror Cuba gan dymestl aruthrol: taràwodd ei longau yn erbyn eu gilydd, a chawsant eu briwio gymmaint gan yr ergyd fel mai trwy anhawsdra mawr y cyrhaeddasant Jamaica, (Mehefin 24,) lle y gorfu arno eu gyrru i dir i'w cadw rhag suddo. Yr oedd cwppan ei drallodion yn awr yn llawn hyd yr yml. Wedi ei daflu i dir ymhell oddiwrth un sefydliad o eiddo'r Spaeniaid yn America, ei longau wedi eu dystrywo tuhwnt i allu eu hadgyweirio, yr oedd yn ymddangos yn beth amhossibl i drosglwyddo hanes ei sefyllfa anffodus i Hispaniola, ac heb allu gwneuthur hynny, nid oedd un gobaith am ymwared. Lle y buasai pawb ymron ond ei hunan yn rhoddi eu hunain i fynu i anobaith, y mae ei feddwl mawr ef yn dangos ei nerth. Appeliodd at garedigrwydd y brodorion, ac nid yn ofer chwaith. Yr oeddent yn ystyried y Spaeniaid yn oruwchddynol, ac yr oeddent yn awyddus bob amser i gyfrannu at eu hanghenion. Cafodd Columbus ddau *ganoe* ganddynt, wedi eu gwneuthur o gyff pren wedi ei geno trwy dan, mor lledchwith fel nad oeddent yn deilwng o'r enw badau. Yn y rhai'n anturiodd Mendez a Fieschi, dau gyfaill anwyl Columbus, i fordaith o bedwar ugain a deg o filldiroedd. Trwy lawer o ludded a thrafferth cyrhaeddasant ben eu taith ymhen deg diwrnod: bu rhai o'r Indiaid oedd ganddynt yn y *canoes* farw o ludded. Wedi cyrhaedd Hispaniola, ni thalodd Ovando fawr sylw i'w cais, gan ei fod yn ofni i Columbus osod troed yn Hispaniola. Treuliodd Mendez a Fieschi wyth mis i ddeisyf am gymmorth i'w cyfeillion, heb un gobaith llwyddo.

Yn y cyfamser, yr oedd amryw feddyliau yn aflonyddu Columbus a'i gymdeithion. Ar y cyntaf yr oeddent yn gobeithio am ymwared buan trwy Mendez a Fieschi; ond ymhen llawer o amser dechreuasant ofni am eu tynged, nes o'r diwedd i bawb gasglu eu bod wedi trengu. Nid oedd un gobaith ganddynt bellach ond gorphen eu dyddiau ymhlith yr Indiaid noethion. Cyfododd y morwyr yn un llaw yn erbyn Columbus, bygwthasant ei fywyd, cymmerasant trwy drais ddeg *canoe* oedd ef wedi brynu gan yr Indiaid, ac aethant ar ei waethaf i ran bellenig o'r ynys I gynnyddu ei ofid, yr oedd yr Indiaid yn tuchan oherwydd eu harosiad maith yno, gan ystyried y baich o gynnal cynnifer o ddieithriaid yn rhy drwm. Gyda llaw brin y dygent luniaeth iddynt, a bygwthient roddi heibio eu cynnorthwyo yn hollol. Pan oedd pob drws ymron wedi ei gau, pob gobaith ar ddarfod, nid oedd cyflawnder meddwl Columbus wedi ei arllwys er hyny. Gwyddai fod diffyg cyflawn i fod ar y lleuad ymhen ychydig ddyddiau. Casglodd bennaethiaid y dalaeth i gyd o'i amgylch y dydd cyn i'r diffyg ddigwydd; ceryddodd yr Indiaid am eu hanwadalwch yn tynnu eu cariad a'u cymmorth oddiwrth ddynion a barchent gymmaint er ys ychydig yn ol;

dywedodd wrthynt mai gweision yr Ysbryd, yr hwn sydd yn y Nefoedd, oedd y Spaeniaid ; fod yr Ysbryd hwn wedi digio wrthynt am wrthod cynnorthwyo ei blant anwylaf ef ; y caent weled, fel nod o'i anfoddlonrwydd, y lleuad yn gwrthod ei goleuni iddynt y nos honno, ac yn ymddangos yn goch fel gwaed. Ar y cyntaf ni thalent fawr sylw i'r broffwydoliaeth hon ; ond pan ddaeth y nos, a'r lleuad ddechreu tywyllu, ac o'r diwedd ymddangos yn goch, cawsant oll eu taraw a dychryn. Rhedasant yn frawychus i'w tai, ac yna yn ol drachefn at Columbus, yn llwythog o luniaeth, gan ei daflu wrth ei draed, ac ymbil arno i eiriol drostynt ar yr Ysbryd Mawr. Aeth y diffyg heibio, a disgleiriodd y lleuad fel arferol; ac o hynny allan ni chymerai yr Indiaid lawer am wneuthur dim yn erbyn plant yr Ysbryd Mawr.

Tua'r amser hyn cymerodd digwyddiad le mwy gofidus i Columbus na therfysgoedd y morwyr. Anfonodd llywodraethwr Hispaniola lestr bychan i Jamaica, nid i gynnorthwyo Columbus druan, ond i edrych beth oedd ei sefyllfa : yr oedd y llestr dan ofal Escobar, gelyn Columbus, fel na fuasai i un ffafr gael ei ddangos iddo. Pan aeth y llong i olwg Jamaica, yr oedd pob calon ar dorri gan orfoledd fod eu gwaredigaeth gerllaw ; ond cawsant eu suddo mewn trallod wrth weled y llong yn gadael yn ddisymmwth, heb estyn llaw o gynnorthwy iddynt. Ni wnaeth Escobar ragor na myned hyd y tir, estyn llythyr o ganmoliaeth i Columbus, ac yna yn ol ag ef. Aeth y terfysgwyr yn fwy aflywodraethus byth ar ol hyn. Ymdrechodd Columbus eu cyssuro â'r gobaith sicr o ymwared buan oddiwrth eu cyfeillion Mendez a Fieschi ; ond buan y torrodd terfysg gwaedlyd allan er pob peth a allasai Columbus ei wneuthur ; ond efe a gafodd y fuddugoliaeth, ac ymddarostyngodd pawb iddo o hynny allan. Erbyn cael tawelwch, wele longau yn y golwg, a gorfoledd yn mhob calon. Gadawsant yr ynys, wedi bod yn ddi dros fwy na blwyddyn. Wedi cyrhaedd St. Domingo, cafodd Columbus ei dderbyn gan Ovando gyda phob parch, fel pe buasai chwant arno i wneuthur iawn am yr amharch a ddangosodd iddo hyd yn hyn. Gwnaeth Columbus bob brys i adael ei elyn mewn gwirionedd, er yn ymddangos yn gyfaill iddo. Dechreuodd hwylio y 12fed o Fedi, a thrwy gymmaint pervglon ag erioed ; trwy lawer o anhawsdra cyrhaeddodd borthladd St. Lucar, (Rhagfyr).

Yma y clywodd fod ei nodd-wraig, y frenhines, wedi marw. Nid oedd neb yn awr i fod o'i du, ac i ysgafnhau ei faich, nac i'w wobrwyo am ei lafur, ond Ferdinand, yr hwn oedd wedi bod yn ei erbyn bob amser. Er hynny aeth i'r llys, anfonodd ddeisyfiad ar ol deisyfiad at Ferdinand i gadw y cyfammod ; ond ni chafodd ddim yn gyfnewid ond geiriau teg, ac addewidion heb feddwl eu cyflawni. Wedi ei lwyr ddifa gan ludded a gofidiau, gorphenodd ei yrfa mewn tawelwch, yn Valladolid, yn y flwyddyn 1506, yn 59 oed. Teg yw dywedyd i lywodraeth Spaen ymddwyn yn fwy cyfiawn at blant Columbus nag atto ef. AMICUS.

Y GAIR *PERSON* DWYFOL.

SYR,—A fyddwch chwi gystal a rhoddi lle yn eich Misolyn i'r dernyn canlynol? Yr eiddoch, O. EVANS.

PIGION ALLAN O LYTHYR AR Y DRINDOD, A.D., 1694.

1af. Nid oes dim, gydag ymostyngiad i'r ysgrifenwyr dysgedig sydd wedi trallodi'r ddadl gymmaint, nid oes dim yn fwy annirnadwy a gwrthun, nâ'u

hymryson a'u cecraeth ynghylch ystyr y gair *person*. Un rheswm mawr yw, eu bod wedi anghofio, neu nad ydynt yn credu Credo St. Athanasius, yr hon a ddywed, 'Canys fel y'm cymhellir trwy y Gristionogaidd wirionedd i gyfaddef fod pob person o hono ei hun yn Dduw.' A phe buasai person yn rhyw beth heblaw Duw, neu heb fod yr un â Duw, buasai yn eilun-addoliaeth i'w addoli ef. A ydyw ddim yn eglur nad oes, gan y rhai a dalant yr addoliad uchelaf i berson, un meddyliau gwahanol am Dduw a Pherson Dwyfol, ond, trwy ei addoli ef, a'u bod yn ei gyfaddef ef yn Dduw? Ac a ydyw Person Dwyfol ddim yn Fod digreedig, trag'wyddol, anamgyffredadwy a hollalluog? A pheth yw *Duw* ond Bod o'r fath? Nis gallwn gael meddwl o uwch am Dduw, nag mai *Person* ydyw; ac i ffurfio rhyw feddwl arall, mae'n rhaid y byddai yn is, ac felly yn *gabledd* yn erbyn Duw. Pe bai rhyw beth yn rhagor yn Nuw nac mewn Bod Dwyfol, ni allai fod yn Dduw.

2il. Os yw dyn yn anifail, y mae'n rhaid fod y cwbl sydd yn ystyr y gair anifail yn gynnwysedig mewn dyn, onide ni allai fod yn anifail. Nid yw dyn yn un anifail arall amgen na'r hwn sy'n rhesymmol; anifail rhesymmol yw dyn: maent yn ymadroddion newidiadwy, ac nid ydynt ond gwahanol eiriau i osod allan yr un bôd. Felly mae Person Dwyfol a Duw yn ymadroddion newidiadwy; oblegid nis gall rhagor fod yn ystyr y gair Duw na'r gair Person Dwyfol, oherwydd y mae ef yn Dduw; ac y mae'r un mor eglur nad oes dim yn gynnwysedig yn ystyr y gair Person Dwyfol, nad yw'n gynnwysedig yn y gair Duw; byddai haeru i'r gwrthwyneb mor bell o wneuthur Duw yn dri pherson, fel y byddai rhyw beth yn eisiau i'w wneuthur ef yn un person.

3ydd. Dymunaf arnoch fy hysbysu, gan mai yr un bod yw Duw a Pherson Dwyfol, pa fodd y mae'n bosibl fod tri pherson a dim ond un Duw. Wrth haeru fod Duw yn dri o bersonau, ac etto fod *un* person yn Dduw, yr ydych yn haeru fod tri ac nad oes tri pherson yn gynnwysedig yn ystyr y gair Duw. Ac onid yw'r gredo yn ei gwneuthur yn ddamnedigaeth i gredu fod amrywiaeth neu wahaniaeth rhwng Duw a pherson unigol, oherwydd rhaid fod hynny yn gwadu fod pob person yn Dduw? Ac onid ydyw hi hefyd yn cyhoeddi damnedigaeth am *beidio credu* fod amrywiaeth, ie, ac un mor fawr fel nad yw tri o'r cyntaf ddim ond un o'r olaf? (Nid yw *tri* pherson ond *un* Duw.) Felly nid yw'r gredo dda, haelionus hon ddim yn damnio neb ond y cyfryw ag na allant credu fod Person Dwyfol yr un a Duw, ac nad ydyw. Os nad yw Duw yn dri Pherson, yna dyna ddiwedd ar y Drindod; ac os ydyw yn dri, yna nis gall un person ddim bod yn Dduw, oblegid tri pherson yw Duw.

4ydd. Os rhaid peidio galw pethau o'r fath hyn yn groes-ddywediadau, rhaid o leiaf gyfaddef eu bod yn annealladwy, ac felly nis gallant fyth fod yn wrthrych cred; ac onid yw'r bobl, fel *parrots*, yn adrodd gosodiadau heb eu hamgyffred hwynt? Ai nid dywedyd peth a'i ddad-ddywedyd drachefn yw hyn, yr hyn yw dywedyd dim oll? Os yw'r rhan olaf i'w chredu, nis gellir credu'r blaenaf; oherwydd y mae'r olaf yn nacâd o'r blaenaf; ac os yw'r blaenaf i'w chredu, *am hynny* yn unig nis gall yr olaf gael ei chredu.

5ed. Nis gellir byth datguddio dim i ddyn nas gall ei ddeall, ac os damnir pawb nad ydynt yn credu credo St. Athanasius, nis gall y cyfansoddwr ei hun ochelyd y dynged.

6fed. Yn fyr, a all fod un cynnyg yn fwy gwrthun nag ymdrechu profi fod tri pherson Dwyfol, a phob un o honynt yn Dduw, ac etto nad oes ond

un Duw? Oherwydd y mae'n rhaid fod y rhesymmau a brofant nad oes ond un Duw, yn profi nad oes ond un person Dwyfol, oblegid yr un peth yw Duw a pherson dwyfol; ac ar yr ochr arall y mae'n rhaid fod y rhesymmau a brofant dri pherson, yn profi fod tri Duw, oblegid Duw yw person.

7fed. Os yw'r Tad yn fod anfeidrol, hollol berffaith, ac os yw'r Mab yn wahanol i'r Tad, y mae'n rhaid, os ydyw yn Dduw, ei fod yn fôd gwahanol, anfeidrol, a hollol berffaith; oherwydd nis gall yr un bod mewn un modd fod yn wahanol iddo ei hunan, ac yn sicr y mae dau fod gwahanol, hollol berffaith, yn Dduwiau gwahanol.

8fed. Os yr un Duw yw'r Mab a'r hwn a grëodd fab, mae'n rhaid iddo ynteu grëu Mab hefyd, oddieithr i'r un Duw grëu a pheidio crëu mab ar yr un pryd; ond os darfu iddo grëu Mab, gwnacth grëu ei hunan, a thyma beth yw creu dim yn y byd, oherwydd yr oedd yn rhaid ei fod ef ei hun mewn bod cyn y gallasai weithredu.

9fed. Os yw Duw yn dri o bersonau, a phob person yn Dduw, y mae'n rhaid fod naw person; oherwydd mae'n rhaid fod pob person yn dri pherson, onide ni allai fod yn Dduw, yr hwn sydd dri o bersonau. Os yw tri pherson, ac un person, y person cyntaf, a'r ail, a'r trydydd, yr un peth a Duw (ac heb hyn ni allai un o honynt fod yn Dduw) y maent yr un a'u gilydd, a dim ond geiriau gwahanol i arwyddocau yr un bod.

10. Os yw'r personau yn wir wahanol, a phob un yn Dduw, a raid ddim fod pob un o honynt yn Dduw gwahanol oddiwrth y lleill? Oblegid y mae pob gwahaniaeth ag sydd ragor nag mewn enw, yn tybied o leiaf wahaniaeth ac amrywiaeth mewn rhif; ac os nad Duw'r Mab yw Duw'r Tad, a Duw'r Ysbryd Glan yw Duw'r Mab, y mae'n rhaid fod gwahaniaeth mewn rhif rhyngddynt, yr hyn raid fod fod pob un a all rifo tri yn gwybod sydd dri Duw; oblegid un Duw, ac un Duw, ac un Duw, ac nad y llall yw un o honynt, ydynt dri o Dduwiau.

11eg. A ydyw ddim yr un mor wrthun i gymmeryd tri pherson anfeidrol fel tri Duw? Ac mae yr un rhesymmau a brofant amhosiblrwydd un, yn profi yn ogystal amhosiblrwydd y llall hefyd.

12fed. A ydyw tybied fod tri pherson holldigonol, ddim yn tybied fod dau o honynt heb un angen na dyben, oherwydd y mae un person holldigonol, fel un Duw, yn ddigonol i bob peth pa bynnag? Os ydyw yn berffeithrwydd yn Nuw i fod yn rhagor o bersonau nag un, pa fwyaf o bersonau y fyddo, mwyaf i gyd ei berffeithderau; a byddai Duw ag sydd anfeidrol ei berffeithderau yn anfeidrol mewn personau hefyd; ac ni wna rhifedi anherfynol ddim dinystrio undod Duw mwy na thri.

13eg. Ni ellir tybied fod yn Nuw fwy o bersonau nag un, heb gymmeryd y rhifedi yn annherfynol; oherwydd pa reswm bynnag a gyffrôdd y person cyntaf i greu dau berson gogyfuwch ag ef ei hun, rhaid i'r un rheswm (oherwydd y maent yr un yn eu nhattur) gyffroi y ddau arall i greu eu cydraddolion o honynt hwythau, ac felly yn y blaen yn ddiddiwedd.

14eg. Y mae tybied fod tri pherson holldigonol yn Nuw, yn tybied fod Duw yn fwy na holldigonol; oherwydd os oes tri pherson o'r fath yn Nuw, y mae'n rhaid fod ynddo dri holldigonolion, yr hyn sydd ddigon gwrthun.

15fed. Ai nid croesddywediad yw tybied fod tri anfeidrolion o'r un fath, oherwydd nid yw hyn ond ychwanegu anfeidroldeb at anfeidroldeb? Os ydyw yn wrthun i feddwl am fwy nag un ehangder anfeidrol, paham nad yw mor wrthun i feddwl am fwy nag un person anfeidrol?

16eg. Naill ai y mae person dwyfol a Duw yr un peth peth, neu nid

ydynt: os nad ydynt yr un, eilunaddoliaeth yw talu addoliad dwyfol i berson, oblegid yr ydych yn talu addoliad dwyfol i rywbeth *nad* yw Dduw; ond os yr *un* peth yw Duw a pherson, y mae talu addoliad i dri pherson yn addoli tri Duw, oherwydd yr un peth yw tri Duw a thri pherson.

NON QUIS SED QUID. (*Nid pwy ond beth.*)

TRINDOD YN FAEN TRAMGWYDD I DROEDIGAETH Y PAGANIAID.

Nis gellir disgwyl gweled llawer o'r Paganiaid yn cael eu troi i gredu mewn Cristnogrwydd, tra mae athrawiaeth y Drindod yn cael ei choleddu a'i dysgu gan y rhai a gymmerant arnynt eu hunain yr enw Cristnogol. Pob rhesymeg a fynnai y cyfryw ei ddefnyddio er argyhoeddi y Paganiaid o wrthuni lluosogrwydd o dduwiau, a geir yr un mor gadarn yn gwrthryfela yn erbyn Trindod o bersonau dwyfol. Wele ffaith er profi gwirionedd yr haeriad hwn:—

Ychydig amser yn ol gwnaeth Brenhin Denmarc anfon rhyw nifer o dduwinyddion Lutheraidd, fel *Missionaries*, i dalaith Malabar, yn yr India Ddwyreiniol, gyda bwriad o argyhoeddi preswylwyr y wlad hono oddiwrth eilunaddoliaeth i gofleidio Cristionogrwydd. Bu y Cenadon hyn mewn llawer dadl boeth a'r preswylwyr, yng nghylch amrywiol byngciau duwinyddol, ac arferent bob moddion i ddangos iddynt wrthuni eu crefydd, a'u hannog i'w chyfnewid.

Mae y canlynol yn ddyfyniad o ran o'r ymddiddan a gymmerodd le rhwng meddyg Malabaraidd o Nagapatnam, ag un or *Missionaries* hyn:—

Missionary.—Nid yw Duw yn ymddangos mewn dull corphorol; canys Duw, Ysbryd yw: ond y mae wedi ymddangos a dadguddio ei hun trwy ei Fab Iesu Grist, yr hwn a ymwisgodd gadachau marwoldeb, gyda bwriad i ddioddef am ein pechodau a'n dwyn ni atto ei hun, i wneuthur ei ewyllys ef; yr hyn yw ein cadwedigaeth ni. Os y credwch yn Nghrist, Prynwr dynion, fe fydd eich meddwl yn cael ei oleuo fwy fwy yn ngwybodaeth y Goruchaf Dduw.

Physician.—Pwy yw ei fab ef? A ydyw efe hefyd yn Dduw?

Missionary.—Ydyw, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd.

Physician.—Ond gyda'ch cennad Syr, adgofiwch eich hun: oni fuoch y funud hon yn cablu lluosogrwydd o dduwiau! Ac yn awr y gwelaf fod gennych chwithau hefyd ragor nag *un*. Mae y Tad yn Dduw ac y mae y Mab yn Dduw; ac yna y mae gennych ddau o Dduwiau.

Missionary.—Nid ydym yn credu fod dau o Dduwiau, ond un Duw; ond etto, yr y'm ar yr un pryd, yn credu yn ddiysgog fod tri o bersonau mewn un hanfod dwyfol: ac etto y tri pherson hyn, nid ydynt dri ond un Duw. Yr y'm yn credu fod hyn yn ddirgelwch mawr, yn tra rhogori ar ein cynheddfau gwan a meidrol ni. Boddlonir ni ei fod yn wirionedd dadguddiedig yn yr Ysgrythyr; Duw yr hwn s'yn adnabod ei hun, a orchymyn i ni gredu Trindod o bersonau mewn un hanfod dwyfol, yr hyn a alwn yn Dad Mab ac Ysbryd Glan.

Physician.—Os oes gan Dduw Fab, yna mae yn rhaid fod gan eich Duw chwi, yn gystadl a rhai o'n duwiau ni, wraig, ac o ganlyniad y mae yn fod corphorol (*material*).

Missionary.—Duw Ysbryd yw, ac o ganlyniad nid oes iddo ddull cophorol, ac oherwydd hynny nis gallai gael Mab yn y ffordd gyffredin;

ond fe greodd Duw ei Fab er tragwyddoldeb, ac o'r Tad a'r Mab mae yn deillio yr Ysbryd Glan, y trydydd person yn y fendigaid Drindod.

Physician.—Gwelaf y gallwch chwi trwy ffyrdd cyfrwys o ddadleu, wneud Trindod yn gyson âg Undod, ac os yw eich esponiad chwi yn anhebgorol, anghenrheidiol i wneud ereill i ddeall beth a feddyliwch, caniattewch *i ni yr un fantais* i egluro athrawiaeth ein crefydd *ninnain*, a'i gosod mewn goleuni mor ffafriol ag a allwn er cau allan y *gwrthuni* a briodolwch i ni. Ac un waith y caniattewch hyn, fe ganlyn nad yw *ein lluosogrwydd* ni, fwy na'ch *Trindod* chwi yn distrywio *Undod* Duw. PERSONA.

SYLWEDD A'I BRIODOLEDDAU.

'These are thy glorious works, Parent of good;
Almighty: thine this universal frame
Thus wondrous fair; thyself how wondrous then!'

Nid oes dim efallai yn holl gylch profiad a gwybodaeth ddynol, o wir hanfodoledd yr hyn yr ydys mor sicr, ond yr hyn ar yr un pryd sydd mor anegluradwy mewn iaith a'r drychfeddwl a drosglwyddir yn y geiriau uchod. Gallesid meddwl fod bodoldeb sylwedd mor anwrthwynebadwy fel na buasai neb yn beiddio ei ammeu; a bod ei briodoleddau hanfodol mor eglur, fel y gellid rhoddi desgrifiad mor gywir o honynt fel nas gallai neb ei wrthddadleu. Ond nid felly y mae.

Hyfrydwch fuasai gan yr ysgrifenydd i ddifynu opiniynau De's Cartes a Berkeley; Malebranche a Kant; Schelling a Fitche &c., ar y pwnc; ond buasai hyny yn ei arwain oddiwrth yr hyn sydd ganddo yn fwyaf neilluol mewn golwg.

Sylwedd yw pob peth nad yw *feddwl* (fel ei darlunir gan y cyfryw a gredant yn natur *ansylweddol* neu ysbrydol yr enaid); neu, sylwedd yw yr enw a roddir i'r defnydd a gyfansodda y grëadigaeth allanol yn ei holl wahanol ffurfiau.

Y cyfryw briodoleddau a berthynant, yn gyffredin i sylweddau o bob math a elwir yn briodoleddau *hanfodol*, o gymaint ac nas gall sylwedd o un math hanfodi hebddynt, megis estyniad neu ymlediad (extension) o ffurf (figure) annhreiddiadwyaeth (impenetrability) &c.

Wrth ymlediad deallir fod pob rhan osylwedd yn meddn hyd llêd a thrwch, ac amlwg yw nas gellir cael un drychfeddwl o sylwedd heb y briodoledd hon; perthyna i bob corph yn natur i'r tywodyn lleiaf yn gystal ac i'r ddaear ar ba un y trigwn; i'r seren sydd grogedig yn y ffurfafen uchben, yn gystal ac i'r llygad a syll-drema arni. Rhaid yw i bob gwrthddrych a fedda hyd, llêd a thrwch, feddu *ffurf* hefyd.

Wrth annhreiddiadwyaeth deallir yn unig nas geill dau gorph fodoli yn yr *un* lle ar yr *un* amser; nad eill dau ronyn o sylwedd lanw yn gymwys yr *un* cyfwng ar yr *un* eiliad; ac yn wir pe na bai felly; pe bai sylwedd yn dreiddiadwy yn lle yn annhreiddiadwy, buasai un defnydd i lyncu i fynu ddefnydd arall, un demig, demig arall, nes y buasai i'r holl grëadigaeth gyd-ymlithro i nn pwynt. Geill rhai dybied efallai, er fod caled-gyrff (solids) yn annhreiddiadwy, nad yw gwlybyroedd felly. Didwyller y cyfryw pan y sylwant ar y ffaith ganlynol. Gosoder unrhyw gorph megys *orange* mewn *glass* llawn o ddwfr, rhed cymaint o'r dwfr allan ac fydd gyfartal i'r rhan hyny o'r *orange* fydd dan y dwfr. Pe na bai dwfr yn meddu y briodoledd hyn, ni fuasai y fath beth â 'Phress Bramah' —gallu cymaint a miliynau o bwysau. Felly am awyr, gwthier *glass* i ddwfr; gwna'r awyr fwrlwmu allan er rhoddi lle i'r dwfr, o gymaint ac nad eill gronynau y ddau fodoli yn yr un man ar yr un amser. Er hyn y mae ymddangosiadau nad ydynt, ar yr olwg gyntaf, yn cyduno a'r briodoledd hon; er engraifft cymysger pint o *sulphuric acid* a phint o ddwfr, bydd y cymysgedd yn llai na *dau* bint; gellir tybied gan hyny fod gronynau un yn cael eu llyncu i fynu gan ronynau y llall; ond attebir am ymddangosiadau o'r natur hyn a'r egwyddorion ffeyllaeth. Profir nad oes dim o'r gronynau yn cael eu colli oherwydd y gwna'r cymysgedd bwyso cymaint ag a wna'r ddau wlybyr ar wahan; ac heblaw gellir gwahanu y naill oddiwrth y llall eilwaith drwy ddystylliad (distillation).

Priodoledd arall sylwedd ydyw ei hyranrwydd (divisibility); at ba un y mae cyfeiriad wedi ei wneud yn barod, ond efallai mai cymwys yw ychwanegu ychydig engreifftiau. Gellir nyddu *pound* o wlan nes ei wneud yn 100 milldir o hyd. Nid yw perarogl y blodau ond gronynau manylaidd o'r sylwedd yn ymwasgaru drwy'r awyrgylch. Gwna *grain* o fwsc (musk) berarogli ystafell dros ugain mlynedd heb golli y filynfed ran o'i bwysau. Mae creaduriaid i'w cael na fuasai miliwn o filiynau o honynt ond o faintioli tywodyn cyffredin, a phob un o honynt yn meddu cyfansoddiad mor gyflawn ag eiddo'r elephant neu'r mor-fil.

Fferylliaeth a'n dysga nid yn unig natur ranadwy defnydd, un o ronynau sylwedd yn ddinystriadwy—ac o gymaint ag nad oes dim yn cael eu diddymu, tebygol yw hefyd nad oes dim yn cael eu creu'n adnewyddol, a'n bod ni ein hunain yn gyfansoddedig o sylwedd mor hên a'r greadigaeth ei hun. Yn mhen ychydig, rhaid i ninnau yn ein tro ddioddef dadfeiliad, a rhoddi i fynu y gronynau a'n cyfansoddant i ffurfio bodau a gwrthddrychau newydd.

Priodoledd hanfodol arall ydyw *Inertia*; wrth hyn y deallir anweithiolrwydd neu anysgogiad ddioddefrwydd sylwedd—gwelir sylwedd mewn dwy stad—naill ai mewn stad o symudiad, neu o lonyddwch.

Ac wrth *Inertia* corph y deallir nad oes gan un corph allu o hono ei hun i newid ei stad o fodolaeth. Caniatteir gan bawb yn rhwydd, nas geill corph difywyd newid o stad o lonyddwch i stad o symudiad *barhau* i symud dros byth, pe bai heb gael ei rwystro gan ryw allu allanol iddo ei hun; mae profiad dynol fel pe bai am ammeu hyn, oherwydd nad ydys yn gwybod am un corph, yr hwn ni erys, os na fydd gallu nid yn unig i'w gyffroi ar y cyntaf ond hefyd i'w gadw mewn symudiad yn barhaus. Ond eto caniatteir gan bawb fod cyflymdra corph symudawl yn cael ei arafu yn ol rhif yr attaliadau a gyferfydd a hwynt—er engraifft, mae y belen a dreiglir ar wyneb garw a charregog y llawr, yn dyfod i drosfa yn gynt na'r hon a dreiglir dros wyneb llyfn a llathr yr iâ; a phaham? oherwydd fod yr attaliadau yn fwy yn yr un nac yn y llall; dychmyger fod yr attaliadau yn cael eu lleihau o un i un, a gwelir pa leiaf fydd yr attaliadau, mai hwya i gyd y parha y belen i symud. Dychmyger fod yr attaliadau yn cael eu symud ymaith yn gyfangwbl, ac oni chanlyna gwnai y belen barhau i symud *byth?* Yr unig reswm, gan hyny nas gallwn osod corph i symud yn ddiaros yw oherwydd nas gallwn ei osod mewn sefyllfa lle ni chyferfydd ag attaliadau.

Y lleuad a'r planedau ydynt esiamplau o symudiad diaros, oherwydd ei fod yn ddirwystredig; oherwydd nad oes attaliadau ar lwybr eu cylchdro; ac yr ydys yn gwybod fod eu cylchdröadau yr un yn awr ag oeddent ddwy fil o flynyddau yn ol.

Caf ychwanegu fod swm y gallu anweithiol, yn gwahaniaethu yn ol maint unrhyw gorph - yn ol rhif y gronynau a'i cyfansoddant, neu yr hyn sydd yr un peth yn ol maint y gallu angenrheidiol er ei osod mewn symydiad. Mae, *Inertia* pelen-magnel yn fwy na'r eiddo pelen-gwn, oherwydd y gofyn yr un fwy o allu i'w symud a'i thaflu i bellder neilluol, nac a ofyn y llall i'w thaflu i'r *un* pellder.

Llandilo. G.

YR YSGOL SABBOTHOL.

—

Syr:—Nid oes dim dadl nad yw athrawon Ysgolion Sabbothol yn teilyngu llawer iawn o glod am eu bymdrechion dyngarol i ddysgu plant tlodion i ddarllen yr Ysgrythyrau, ond yr wyf o'r farn y teilyngent lawer yn ychwaneg pe dysgent hwynt hefyd i ysgrifenu. Y peth wnaeth i mi feddwl am hyn oedd gwasnaethyddes o Sir Gaer sydd yn awr yn byw yn ein teulu. Fel y mae yn resymol meddwl, y mae dymuniad ganddi, fel sydd gan bawb eraill, i ysgrifenu at ei chyfeillion a'i pherthynasau, ond nis gall heb gael cynhorthwy gan arall. Dywedodd wrthyf ei bod wedi bod mewn Ysgol Sabbothol bumtheg mlynedd, yn perthyn, yr wyf yn meddwl, i'r Trefnyddion Calfinaidd; er hyny ni fedr ysgrifenu un gair. Yr wyf yn deall fod cannoedd yr un fath a hon yn Nghymru. Pe buasai athrawon yr Ysgol y perthynai iddi wedi gweled yn addas i dreulio cymmaint a phumtheg munyd bob Sabboth i ddysgu yr Ysgolheigion i ysgrifenu, byddai hon, yn ddigon tebyg, yn gallu ysgrifenu llythyron heb gynhorthwy arall; a faint o fraint fyddai hyny iddi yn awr! Dichon fod rhai yn meddwl y byddai dysgu plant i ysgrifenu yn gystal a darllen yn halogi y Sabboth. Ond camsynied mawr yw hyn. Os dyben Ysgolion Sabbothol yw addasu plant i gyflawni eu dyledswyddau Christ'nogol yn well pan y delont yn ddynion, yr wyf yn sicr y dylent gael eu dysgu i ysgrifenu, oblegid byddai hyny yn eu cymhwyso i fod yn aelodau mwy defnyddiol o'r gymdeithas ddynol.

Y plan a gynghorwn i athrawon Ysgolion Sabbothol yw, gosod y plant sydd wedi gwneyd mwyaf o gynnydd yn yr Ysgol i ysgrifenu ar slâts dros gymmaint a chwarter awr bob Sabboth. Ni fyddai y draul i gael slâts a phencilian ddim llawer, oblegid y mae y pethau hyn yn awr, fel pob peth, mor rhad. Prynid am bunt ddeugain o slâts, yn ddenddeg modfedd o hyd ac yn wyth o led. Bydded i un neu ddau o'r athrawon i ysgrifenu *copi* ar bob slât yn barod erbyn y byddo'r plant yn barod i'w derbyn. Pe byddai pob Ysgol Sabbothol yn y Dywysogaeth yn cymeryd y plan hwn mewn llaw, hwy ddysgent eu hysgolheigion nid yn unig i ddarllen ond hefyd i ysgrifenu, a hyny yn mhen ychydig amser. Faint o feudith fyddai hyn i blant tlodion na allant gael ysgol ddyddiol, nid oes neb yn gwybod, ond y sawl sydd yn medru ysgrifenu eu hunain. Syr, os gwelwch y llythyr byr hwn yn deilwng o sylw, fel yr wyf fi yn meddwl ei fod, gwnewch ddefnydd o hono yn eich cyhoeddiad. Gan obeithio y bydd i ryw un o'ch Gohebwyr gymeryd y pwnc mewn llaw, cyn byddo hir.

Ydwyf yr eiddoch, &c.

Cadogan Williams.

HANESION

CARTREFOL A THRAMOR.

CARTREFOL.

Yr ydys yn sisial yn gyffredin fod Argl. J Russel, oherwydd gwendid ei iechyd, yn debyg o roddi i fynu ei swydd yn fuan. Pwy ddaw i'w le? Argl. Clarendon, medd rhai: Syr Robert Peel, medd eraill.

Y mae y peth a elwir *Writs of error in trial* yn cael eu *pledio* yn awr yn achos O'Brien, Meagher, &c. Dywedir ei fod yn debygol y llwyddir i brofi y gwall; ac os felly, y ca'r carcharorion fyned yn rhydd ar ôl y cyfan.

Dysgwyliasid yn gyffredin y buasai Mr. Fitswilliam, mab Iarll Fitswilliam, i gael ei ddwyn i mewn yn rhwydd fel Aelod i'r Senedd dros y *West Riding*. Ymddengys yn awr nad oedd hynny i fod. Y mae Mr. F. wedi rhoddi i fynu bod yn ymgeisydd bellach. Yr achos o hynny yw, bod Ymneilldwyr y Dalaith ac yntau yn methu cyd-uno yn eu golygiadau ynghylch gwaddoli y Pabyddion yn yr Iwerddon. Digon tebyg, oherwydd yr ymraniad y dygir *Tory* i mewn.

Y mae Gohebiaeth ryfedd a phwysig iawn wedi ymddangos yn rhifynau diweddar y *Nonconformist*. Gwelir cyfran o hono yn y *Principaliiy* diweddaf, (Tach. 24.) Pobl weithgar, ar ôl appelio attynt gan Olygydd y *Nonconformist* (Mr. Miall), yn rhoddi eu rhesymau paham nad ydynt yn cyd-weithredu nac yn cyd-ymdeimlo â Chrefyddwyr yr oes. Ymdrechwn roddi cynnwysiad yr Ohebiaeth i'n darllenwyr y cyfleusdra cyntaf.

Dysgwylir y bydd y *South Wales Railway* o'r Cåsnewydd ar Wysg i Abertawe, yn barod cyn Gwyl'hangel nesaf.

Llofruddiad Dychrynllyd. — Yng Nghaerdydd ar yr 11eg o Dachwedd, cafodd Cymro, o'r enw Thomas Lewis, Glowr, ei lofruddio gan Wyddel o'r enw John Conners. Tebyg iawn eu bod ill dau dan effaeth diod feddwol. Ymhen 10 diwrnod wedi hynny daliwyd y llofrudd yn Pontypridd. Y mae yn awr yng ngharchar. Meddyliodd T. Lewis fod y Gwyddel wedi tafiu careg atto yn *Stanley Street*, oddeutu 12 o'r gloch, a chyhuddodd ef o hynny, ac yn y fan gwanodd y Gwyddel ef â chyllell mewn bagad o fanau, fel y bu farw. Pan fethid dros ddyddiau gael gafael yn y llofrudd, cynddeiriogodd gwerinos y Cymry, fel y darfu iddynt ddryllio ffenestri Addoldy y Pabyddion, a llawer o dai eraill ag oedd y Gwyddelod yn byw ynddynt. Gorfu ar yr Offeiriad Pabaidd ffoi yn y cythrwfl a fu yno.

Tach. 17. Cafodd un Thomas Edwards, gwas fferm, ei lofruddio gan un Thomas Williams, ei gyd-was yn Cwmgwndy, gerllaw Aberhonddu.

TRAMOR.

Vienna.—Vienna (Alman. Wien), prif ddinas yr ymerodraeth Awstriaidd, sydd 48 gradd 10 mun. i'r gogledd o'r Cyhydedd; a 16 gradd 20 mun. i'r dwyrain o Lundain; yn sefyll ar lan yr afon *Danube*, y tu dehau iddi, lle mae yr afon fechan, *Wien*, yr hon sydd yn llifo trwy y ddinas, yn arllwys i'r Daunbe Er y dywedir bod Vienna ar lan ddehau y Daunbe, y mae yn llawn ddwy filldir oddiwrth brif ffrwd yr afon, yr hon sydd uwchlaw y ddinas, yn ymranu i amryw ganghenau, gan ffurfio ynysoedd lawer: un gangen fechan o'r rhai hyn, a elwir *canal* y Daunbe, sydd yn myned dan gaerau y ddinas.

Vienna a gynnwys y tu-fewnol, neu yr hen ddinas, a'r maes-drefi (*suburbs*). Y mae yr hen ddinas ymron yn grwn, ac nid yw dros dair milldir o amgylch. Amgylchir hi â ffos lydan, ac â mur o 40 i 50 troedfedd o uwchder, ac ynddo ddeg twr amddiffynol (*bastions*). Ar hyd y mur a'r tyrau yma mae y Bastei, un o hoff rodfeydd y trigolion. Oddiar y Bastei gwelir tua'r gogledd, ynysoedd heirdd y Danube; tua'r gorllewin, y mynydd uchel *Kahlenberg*; y tu dehau, bryniau, gelltydd, gwinllanoedd, a'r *Noric Alps*, yn y pellder. Tu hwnt i'r ffos mae y *glacis*, yn amgylchu y ddinas oddieithr tua'r Daunbe, yn amrywio mewn lled o 960 i 1500 o droedfeddi, ac wedi ei osod i maes gydag addurn a harddwch neillduol, yn rhodfeydd i'r cyhoedd. Amgylchynir y ddinas gan 34 o faes-drefi, dau o ba rai ydynt tua'r gogledd dwyreiniol, ar ynys Leopoldstadt, yn y Daunbe; y 32 eraill ydynt tuhwnt i'r *glacis*. Y mae rhag-furiau o amgylch y maes-drefi hyn, hynny yw, ffos a mur 12 troedfedd o uwchder. I'r hen ddinas y mae 12 porth, y rhai sy'n arwain ar hyd ffyrdd palmantawg rhwng dwy res o goedydd, i'r maes-drefi cylchynol. Y rhag-furiau o amgylch Vienna a'i maes-drefi a fesurant tua 18 milldir; ac o'r encyd tir a amgylchir ganddynt, gwna'r hen ddinas i fynu tua'r ddegfed ran. Y palasau a'r adeiladau gwychaf ydynt o fewn i'r hen ddinas, ynghyd â phalas yr ymerawdwr, a'r swyddfaoedd cyhoeddus. Y mae rhai palasau gwych yn y maes-drefi.

Nifer y trigolion yn 1840, oedd fel y canlyn:—Trigolion a anwyd yn Vienna, 205 mil; y rhai a anwyd yn y taleithiau, 136 mil; dyeithriaid, 17. Y cyfan, 358 mil. Vindobona oedd yr enw a roddid i'r ddinas gan y Rhufeiniaid. Bu dros hir amser yn brif arosfa lleng o'r fyddin Rufeinig, a phrif-ddinas Pannonia. Ar ddadfeiliad awdurdod Rhufain, dyoddefodd y ddinas lawer oddiwrth ruthriadau y *Goths* a'r *Huns*, ac o bryd bwy gilydd, oddiwrth farbariaid eraill,

Yn 791, darfu i Charlemagne ei chysylltu â'i diriogaethau ef. Yn y flwyddyn 1683, gwnaeth y trigolion amddiffyniad hynod a chlodfawr yn erbyn byddin o 200 mil o'r Twrciaid, y rhai a ymosodasant i'w chymeryd, er mawr ddychryn i holl wledydd cred; a buasent i lwyddo yn eu hamcan, oni buasai gwrolder y trigolion, y rhai a amddiffynasant eu dinas yn wyneb newyn oddimewn, a rhuthriadau y gelyn oddallan, hyd nes daeth John Sobiesky, brenin Poland, a 60 mil o wyr, i'w cymhorth; yr hwn yn fuan a drechodd ar fyddin y Twrciaid, ac a'u gyrodd ar ffo. Cymerwyd Vienna gan Napoleon a'r Ffrancod, yn 1805, ac wedi'n yn 1809. Y ddau dro, cadwyd y milwyr Ffrengig dan ddysgyblaeth gaeth, fel na bu gan y trigolion le i achwyn.

CYNNWRF Y CYFANDIR.

Nid oes diwedd ar gyfnewidiadau, nac un gobaith y daw gwledydd Ewrop yn fuan i gyflwr sefydlog. Mae y cynnwrf yn myned ymlaen yn ddiorphwys oddigerth lle mae y magnelau a'r cleddyf yn ei gadw i lawr. Y mae y tawelwch anarferol ag sydd mewn llefydd ag oeddent yn ddiweddar mor derfysgus, fel yn daroganu fod tymestl aruthrol ger llaw.

Syrthiodd Vienna i ddwylaw ei gelynion. Ar ôl treulio ymron mis, i grynoi milwyr i'w herbyn, adgymmerwyd y ddinas gan fyddin yr Ymherawdwr ar y 30ain o Hydref; ond nid heb wrthwynebiad taer ac ymladd dewr o ran y Vienniaid. Y mae gelynion rhyddid wedi cael eu gwyn ar hyn o dro, ac yn ddigon digywilydd y maent yn cymmeradwyo y creulonder â pha un y mae Windischgräts yn 'gweinyddu barn' ar rai o oreuon y wlad. Cynghorai y 'Times,' a Newyddiaduron o'r fath i Frenin Prwssia yntau i gymmeryd calon, ac i ddysgu gwers oddiwrth gwymp Vienna, pa fodd y gallai yntau ddwyn y Berliniaid i fod yn fwy ufydd iddo. Gwelodd y Brenin bod y mwyafrif o'r Gynnulleidfa Wladwriaethol yn myned yn rhy bell iddo ef yn y diwygiadau a gynnygient, eu bod yn rhy daer yn eu gofyniadau, a bod trigolion Berlin yn ochri gormod iddynt. Gorchymynodd i'r Gynnulleidfa i symmud eu heisteddfod o Berlin i Brandenberg. Hwythau yn barnu fod rhyw ddrwg ym mwriad y Brenin a ommeddasant ufuddhau i'r gorchymyn. Llidiodd y Brenin, a phan ballodd y *Burgher Guard* gymmeryd arfau, wrth ei orchymyn, er mwyn gosod trais ar y Gynnulleidfa, efe a gasglodd fyddin gref dan y Cadfridog Wrangel. Cymmerwyd meddiant o'r ddinas, heb un gwrthwynebiad arfog o ran y trigolion, gwthiwyd y Gynnulleidfa trwy drais, allan o Ystafell eu cyfarfod, ond nid cyn iddynt benderfynu yn unfrydol fod mesurau y Brenin yn anghyfreithlon, ac na ddylid talu un trethi yn yr amgylchiadau presennol. Wedi'n difuddiwyd y *Burgher Guard* a'r trigolion o'u harfau. Ac y mae Berlin yn awr mewn cyflwr warchaeawl (*state of siege.*)

Y mae y ddadl heb ei phenderfynu etto. Llawer o bethau croes a disail sydd yn cael eu sisial yn y Newyddiaduron; ond nid oes nemawr o ddal ar y proffwydwyr. Ymddengys y Brenin ei fod yn ystyried ei sefyllfa yn beryglus, ac o golli'r dydd, ei fod yn debygol y byddai yn fwy na *choron* o golled iddo. Dywedir ei fod ef ei hun am ymheddychu â'r Gynnulleidfa Wladwriaethol; ond bod Count Brandenburg, a'i weinidogion eraill yn benderfynol i daflu pob rhwystrau a allont ar flordd y diwygiad, ac i gynnal awdurdod penllywodraethol y Brenin. Amryw o brif-ddinasoedd Prwssia ydynt wedi tystio eu cyd-ymdeimlad â'r Berliniaid. Pa fodd y terfyna y ddadl nid oes modd i wybod yn iawn. Dymunem ddywedyd ychwaneg ar y pwnge; ond y mae ein hamser yn fyr, ar hyn o dro, ac ofnwn fod lle yn brin. Erbyn ein nhesaf, ond odid, bydd dygwyddiadau wedi cymeryd lle ag a fyddant o bwys mawr i Prwssia, a'r Almaen, ac Ewrop yn gyffredinol. A byddwn ninnau, gobeithio, yn meddu ar well hamdden bryd hynny i roddi hanes o'r dygwyddiadau hyn yn gyflawn ac yn drefnus i'n darllenwyr.

GERMANI.—Y mae y Gymanfa a'r Llywodraeth Undebawl yn Ffrancfort yn dàl yn nghyd hyd yma. Maent wedi gwneud cynnygiadau tuag at ddwyn Brenin Prwssia i ryw fath o gymmod â'r Gynnulleidfa Wladwriaethol. Y maent hefyd wedi tystio yn erbyn creulonder ac anghyfiawnder y weithred o osod Robert Blum, un o'u haelodau enwoccaf, i farwolaeth yn Vienna, trwy orchymyn Windischgräts. Gellir gofyn, Beth sydd wedi dyfod o Ronge a'i ddiwygiad crefyddol? Yr oedd Robert Blum yn un o'i bleidwyr gwresoccaf.

AWSTRIA A HUNGARI.—Y mae yr Ymerawdwr wedi hysbysu ei benderfyniad i beidio dychwelyd etto i Vienna. Bwriada i wneud ei drigfa yn Olmuts yn Bohemia. Y mae nid yn unig Vienna ond eraill hefyd o brif-ddinasoedd ei Ymerodraeth, megis Prague a Milan, mewn cwmpas ychydig bach o amser, wed cael eu *bombardio* gan ei fyddinoedd. Pesth ar y Danube, prif-ddinas Hungari, sydd, y mae'n debyg, i gael y ddyrnod nesaf. Y mae y Croatiaid, yn 30 mil o wyr, wedi cychwyn eisioes o Vienna, ac y mae Windischgräts yn parotoi i'w canlyn. Cesglir byddin o 150 mil o wyr i'r dyben o orchfygu a gorescyn Hungari. Er dim a ymddengys yn awr i'r gwrthwyneb, bydd iddynt fyned ymlaen â'u rhwysg dros

ryw amser. Nid oes un newyddion o bwys o'r Ital a Naples.

FFRAINC.—Y mae'n parhau yn amheuus, pwy a ddewisir i fod yn Llywydd (*President*) y Werin-lywodraeth, p'un ai Louis Napoleon neu Cavaignac. Ca yr amheuaeth hyn ei symmud, y mae'n debygol, cyn pen mis.

AMERICA.—Dygwyd y newydd gan y llong *Europe*, ei fod ymron yn sicr fod General Taylor wedi ei ddewis yn Llywydd (*President*) yr Unol Daleithiau. Darfu i'r dewisiad pwysig hwn, fel arferol yn America, gymmeryd lle yn bur dawel.

PRIODWYD,

Dydd Mercher, Hydref 25ain, yn Llanilid, Miss Gwenllian Morgan, Velindre, â Mr. Thomas Truman, Pantyllywydd.

E dda unwyd, y ddwy anian,—yn gu,
Dan gwlwm gwych eirian;
O gwelwch y par gwiwlan
Mewn cariad gloywfad a glan.

POITES.

BU FARW,

Dydd Sadwrn, Medi 30ain, Rhys Rhys, mab Sion ac Ann Rhys, o Felin Tre'r Dwr, (Watertown.) Yr oedd yu llanc hynod o garuaidd, ac o dymer addfwyn a gostyngedig iawn. Fel cyfaill yr oedd yn ddidwyll a gwresog, ac yr oedd yn cael ei garu yn fawr gan yr holl wlad, ac amlygir teimladau dwys o alar ar ei ol trwy yr holl gymydogaethau. Yr oedd yn aelod ffyddlon o ysgol Sabbothol Saron, Treoes, ac fe ddangosodd barch ac aiddgarwch mawr drosti trwy gydol ei oes. Ar y dydd Llun canlynol cyfarfu tyrfa luosog iawn, er hebrwng ei gorff i dy ei hir gartref, i orphwys yn mynwent Saron, Treoes, hyd y dydd yr ymddengys yr Emmanuel ar gymmylau disglaerwyn y nef, i farnu yr holl ddaear. Pregethodd y Parch. W. Griffiths, gweinidog y lle, yn effeithiol iawn, oddiwrth y geiriau hyny, sef 'Am hyny byddwch chwithau barod, canys ni wyddoch yr awr na'r funyd y daw Mab y Dyn.' Gwelwyd llawer o ddagrau tryloywon ar ruddiau llawer o'r gynnulleidfa; a dangosent deimladau dolurus iawn uwch bedd un o'u cydieuenctyd a gipiwyd gan y darfodedigaeth.

Dygodd y darfodedigaeth—rhosyn
Ereswiw'r gym'dogaeth;
Ar elawr, er mawr alaeth,
I'r bedd, oer annedd, yr aeth.

Treoes. DAFYDD HOWELLS, (NEIFION.)

Hydref 31, yn 72 mlwydd oed, ar ol dyoddef cystudd blin am amryw flynyddau, mewn amynedd ac ymddarostyngiad i drefniadau doeth ei Duw, Mrs. James, gwraig W. James, Ysw., Merthyr. Gadawodd briod galarus a phlant hiraethlon i alaru ar ei hol. Er ys ychydig fisoedd yn ol profwyd y teulu hwn yn chwerw o'r blaen trwy symudiad eu mab mewn byr amser i'r ty rhagderfynedig i bob dyn byw, yr hwn oedd foneddig hawddgar, diwyd, ae haelionus iawn: ond ynghanol ei fywyd a'i ddefnyddioldeb torrwyd ef i lawr; ac yn awr y mae ei fam anwyl ac yntau yn gorwedd mewn distawrwydd hyd y boreu y caiff y meirw glywed llef Mab Duw a byw. Henffych i'r boreu mad pan y caiff rhieni, plant, a cheraint oll gyd-gyfarfod heb achos ofni ymadael mwy.

Tach. 3, o'r darfodedigaeth, yn 21 mlwydd oed, William, mab Mr. Morgan Rees, o'r Bailyglas, Rhigos. Yr oedd William yn ddyn ieuanc hynod o addfwyn a chariadus, ac o fuchedd hardd a dychlynaidd o'i febyd i'w fedd. Yn ei gystudd hirfaith ni chlywyd gair o'i enau yn dangos anfoddlonrwydd i'w dynged; eithr dywedai ychydig cyn ei farwolaeth, 'Yr ydwyf yn foddlon i farw; yr wyf wedi gwneud fy hunan yn foddlon i hyn.' A phan ddaeth yr awr, dywedodd 'Yr wyf fi'n ymadael, ffarwelwch oll!' O! mor galed oedd ei glywed; ond mil mwy hyfryd fydd cael cyfarfod ag ef tuhwnt i angeu ar ardaloedd heirdd anfarwoldeb. Cynhaliwyd cyfarfod am 7 o'r gloch prydnawn y 6ed; dechreuwyd y cyfarfod trwy ddarllen a gweddio, gan y Parch. Evan Lewis, Blaengwrach; a phregethodd y Parch, O. Evans, Cefn, oddiwrth 1 Thes. 4. 18, i gynnulleidfa astud a difrifol iawn. Boreu drannoeth, ymgasglodd tyrfa luosog iawn ynghyd i gludo William i'w wely pridd, lle y gorphwys, ym monwent Penderrin, hyd y dydd y caiff ei rieni, ei frodyr, a'i chwiorydd ei weled yn iach, 'heb allu gan ddarfodedigaeth i'w niweidio mwy.

'Ffarweliwch oll,' oedd geiriau olaf
William i'w berth'nasau mad,
Eu croesawi gant yn nesaf
Ganddo i'r dragwyddol wlad.

Tach 7, y Parch. Thos. Price, (*Carnhuanawc*,) Ficer Cwmdu, Crughywel, ac awdwr 'Hanes Cymru.' Gobeithiwn y galluogir ni ar fyr i roddi cofiant o'r Cymro dysgedig, a'r Hynafieithydd enwog hwn.

ATEBION.

Atteb i ofyniad Q, tudal. 288.

Syr:—Gan nad oes neb o'ch gohebwyr wedi gweled bod yn dda i atteb y gofyniad hwn, wele yr ychydig linellau canlynol at eich gwasanaeth. Gofyna Q 'faint rhaid gerdded i ddyrwyn y cortyn?' ond er mwyn rhwyddineb a deheurwydd hefyd, caniataer i mi ystyried fod y cortyn wedi cael ei dadrys, oblegid p'un ai dadrys ai dyrwyn fyddir, yr un faint fydd y ffordd.

Yna dynoded R y fan yn amgylchedd y golofn lle y dechreua y dadryswr ei daith. Os y deil y cortyn yn dyn yn ei law trwy yr holl ffordd, y mae yn amlwg y bydd ei lwybr

o amgylch y golofn o ddull nydd-droedig, neu *spiral*. Bydded *h* i arwyddo olwyn, neu *radius*, y golofn; *u* hyd cortyn y dadryswr; a *w* hyd y cortyn dadrysedig. Bydd y cortyn yn gyffyrddlin, neu *tangent*, i amgylchedd y golofn trwy yr holl ffordd, ac yn sythlin ar yr olwyn.—[*Hutton's Geom. Th.* 47.) Yn awr meddyliwch fod y dyn yn sefyll yn rhyw fan ar y ffordd â'r cortyn yn dyn yn ei law: yn nesaf, meddyliwch ei fod yn symud *ychydig bach yn nes yn mlaen:* y canlyniad fydd ychwanegiad cyfattebol yr olwyn yn hyd y rhan ddadrysedig o'r cortyn, yn amgylchedd y golofn, ac ychwanegiad cyfattebol y rhan fyddir wedi dramwy o'r ffordd. Ni ystyriwn mai eu *differentials*, neu eu *fluxions*, yw yr ychwanegiadau bychain hyn yn hyd y ffordd a'r cortyn. Ffurfid y cyffyrddlin newydd, yr hen gyffyrddlin, a'r ychwanegiad yn hyd y ffordd, fath o dryfal diflanawl, (*evanescent triangle*): hefyd, ffurfia yr olwyn newydd, yr hen olwyn, a'r ychwanegiad at hyd dadrysedig y cortyn, dryfal arall cyffelyb; ac o gydmaru y ddau â'u gilydd, ceir y cyfartaledd canlynol:—

h : *dw* : : *w* : *du*

Wrth *dw* a *du* y deallaf yr ychwanegiad bychan at hyd y cortyn a'r llwybr, neu eu *differentials*. Trwy drafod y cyfartaledd hwn yn ol natur *differentials*, ceir allan fod *u*, neu hyd y llwybr, yr un faint ag arwynebedd petryal *w*, (wedi ei ranu â dau hyd yr olwyn,—) a thrifesur y golofn, sef llathed, yn ol y gofyniad. Hyd y cortyn, medd y gofyniad, ar ol ei dadrys oll, yw 300 llath; am hyny 90,000 llath, neu 51 milldir a 240 llath raid i'r dyn gerdded, sef gwaith diwrnod gweddol, dybygwn, o gerdded i berchen dwy goes dda.

Penybont. D. L. Evans.

Ateb i ofyniad Sion D. Domos, tud. 360.

Syr:—Pan edrychai Sion ar gefn y llwy arian, 'canfyddai ei lun yn gyferbyniol,' oherwydd bod y drych *convex*, sef cefn y llwy, rhwng y gwrthddrych a'r *focus*. *Focus* gelwir y pwynt lle y cyferfydd y llinellau a ffurfiant y llun. Ond yn wyneb tufewnol y llwy, yr hwn sydd ddrych *concave*, gwelai ei lun wedi ei wrthdroi—ei goryn i lawr a'i ên i fynu: a'r rheswm am y gwahaniaeth yw, bod y *focus* yn yr amgylchiad olaf rhwng y llwy a'r gwrthddrych, ac o ganlyniad bod y llinellau neu y pelydrau a ffurfient y llun wedi croesi eu gilydd cyn dyfod i lygad Sion, a'r rhai oedd uwchaf o'r blaen wedi dyfod yn awr yn isaf, a'r isaf yn uwchaf. Credwyf y bydd yr atebiad yn foddlonol i'ch gohebydd, ac i'ch darllenwyr ag sydd yn deall rhywbeth am *Optics*. Ydwyf yr eiddoch; ond un anheilwng ei alw yn

Athronydd.

BARDDONIAETH.

CAN RHYDDID,

GAN Y DIWEDDAR BARCH. T. E., GLYN COTHI.

A gyfansoddwyd tua diwedd y cannrif diweddaf.

Ar y don Marsellaise.

---

1 O Ryddid! Pwy mor ffol a'th wrthod
'Nol unwaith deimlo'th nefol dan?
A gniff creulonder mwy di-orfod
Rwystro'th fuddugoliaeth lan?
O! lleda'th faner dros yr hollfyd!
Llwyr wyrdigaeth dwg wrth raid,
Yn gadarn aros byth o'u plaid,
Er rhoddi llwyddiant, hedd, a gwynfyd.
(Cydgor,) Hawl dyn—trwy'r byd,
Llwyr deg ennillo'r dydd;
Heb fraw—drwy unol fryd,
O'n rhwymau awn yn rhydd.

2 Ein gwragedd, meibion, merched siriol,
Sy'n gwaeddu amddiffynwch ni;
A gwaed ein brodyr, dewrion, gwrol,
Sy'n llefain dial uchel gri,
Ar ein hanrheithwyr llwyr erlidgar,
Sy'n gwasgar llid a rhyfel llawn,
Gan ddiffodd pob rhyw ddynol ddawn,
Er peri gofid trwm a galar.
(Cydgor,) Hawl dyn—trwy'r byd,
Llwyr deg ennillo'r dydd;
Heb fraw—drwy unol fryd,
O'n rhwymau awn yn rhydd.

ENGLYN I'R ENFYS.

Enfys yn ddilys a ddyd—iawn arwydd
Fanerawg i'r holl fyd,
Na yr Ion unrhyw ennyd
Ddwr barn i orchuddio'r byd.

W. Williams, (1822.)

ENGLYN I'R HAUL.

Gloyw wâs siriol, glyw seirian, gwiw nawsedd
Gynneswr holl anian
Yw yr Haul, araul eirian,
Bywyd y dydd, byd o dân.

E. J., (1826.)

ARALL

Neud ffrwd eres y tês wyt ti—O Haul,
A hyloew oleuni!
Eilun wyt a welwn ni
O deg wawl y da Geli.—1826.

GWALLAU YN EIN RHIFYN DIWEDDAF.

Tud. 359, colofn 1af, 38ain linell, 'dwyn S. O'Brien i'r Frawd-lys, gofynoddy'; dylasai y linell gyfan fod yng ngwaelod y golofn. Tud. 360, colofn 1af, y linell 1af, darllener yn erbyn gwlad eu hunain, yn lle 'eu hunain.' llinell 23ain, darllen Hungariaid, yn lle 'Hussariaid.'